Per. 14198 e. 285/1884

RHIFYN CLII.

Y

# TRAETHODYDD.

## IONAWR, 1884.

### *CYNNWYSIAD.*

Darlithiau y Parch. D. C. DAVIES, M.A., ar "Gristionogaeth." VII. Perthynas Cristionogaeth â'r Teimladau o Ddedwyddwch a Thrueni ... ... ... ... ... 5

Mr. J. W. Prichard o Blasybrain ... ... ... 14

Connop Thirlwall a'i Gysylltiadau Cymreig. Gan Mr. E. VINCENT EVANS ... ... ... ... ... 34

Awdl yr Anturiaethwr. Gan Mr. GAERWENYDD PRITCHARD. 52

Dr. Hughes ar Hanes yr Athrawiaeth. Gan y Parch. T. J. JONES-LEWIS, B.A. ... ... ... ... ... 68

Marwolaeth Baban. Gan GLAN COLLEN ... ... 84

Sefyllfa Bresennol Cwestiwn y Dadgysylltiad. Gan y Parch. J. EIDDON JONES ... ... ... ... 85

"Iddo Ef." Gan TAFOLOG... ... ... ... 106

Cyfieithiad o'r Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A. ... ... ... ... 108

Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... 117

*CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF EBRILL 1, 1884.*

TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

PRIS DEUNAW GEINIOG.

# Y TRAETHODYDD.

## AM Y FLWYDDYN 1884.

LLYFR XXXIX

BODLEIAN LIBRARY
22 APR 85
OXFORD.

TREFFYNNON: P. M. EVANS & SON.

MDCCCLXXXIV.

# CYNNWYSIAD.

---

## IONAWR.


TU DAL.

Darlithiau y Parch. D. C. Davies, M.A., ar "Gristionogaeth."
VII. Perthynas Cristionogaeth â'r Teimladau o Ddedwyddwch a Thrueni ... ... ... ... ... 5
Mr. J. W. Prichard o Blasybrain ... .. ... ... ... 14
Connop Thirlwall a'i Gysylltiadau Cymreig. Gan Mr. E. Vincent Evans... ... ... .. ... ... ... 34
Awdl yr Anturiaethwr. Gan Mr. Gaerwenydd Pritchard ... 52
Dr. Hughes ar Hanes yr Athrawiaeth. Gan y Parch. T. J. Jones Lewis, B.A. ... ... ... ... ... ... 68
Marwolaeth Baban. Gan Glan Collen ... ... ... .. 84
Sefyllfa Bresennol Cwestiwn y Dadgysylltiad. Gan y Parch. Eiddon Jones ... ... ... ... ... ... ... 85
"Iddo Ef." Gan Tafolog ... ... ... ... ... ... 106
Cyfieithiad o'r Epistol at y Galatiaid. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A. ... ... ... ... ... ... 108
Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... 117


## EBRILL.


Y Diweddar Barch. William Rees, D.D. Gan y Parch. David Griffith ... ... ... ... ... ... ... ... 133
Yr Eigion. Gan Mr. R. D. Roberts, M.A., D.Sc. ... ... 166
Llenyddiaeth Newyddiadurol Cymru. Gan Gwyneddon ... 172
Samuel Prideaux Tregelles. Gan y Parch. Hugh Williams, M.A. ... ... ... ... ... ... ... ... 194
Daeareg Ardal Bethesda. Gan Mr. John J. Evans ... ... 215
Deon Bangor ar Ddadgysylltiad a Dadwaddoliad. Gan y Parch. J. Eiddon Jones ... ... ... ... ... 227
A fynwch chwithau hefyd fyn'd? Gan Glan Collen ... ... 242
Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... 243

GORPHENAF.

TU DAL.

Y Corff Cymdeithasol. Gan Mr. Henry Jones, M.A. ... ... 261
Llythyrau Dr. Tregelles at Eben Fardd ... ... ... ... 283
Deddf Pechod a Marwolaeth. Gan y Parch. John Davies ... 294
Jane Austen a'i Gweithiau. Gan Mr. E. Vincent Evans ... 306
Y diweddar Barch. William Rees, D.D. Gan y Parch. David Griffith ... ... ... ... ... ... ... ... 331
Luther. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A.... ... ... 347
Y diweddar Barch. Hugh Jones, D.D., Llangollen. Gan y Parch. Owen Davies ... ... ... ... ... ... 364
Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... 374

HYDREF.

Athrawiaeth y Deuddeg Apostol. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A. ... ... .. ... ... ... 389
Yr Eigion. Gan Mr. R. D. Roberts, M.A., D.Sc. ... ... 400
Yr Elfen Oruwchnaturiol yn Hanes yr Eglwys. Gan y Parch. D. Lloyd Jones, M.A.... ... ... ... ... ... 411
John Wicliff. Gan y Parch. William Evans, M.A. ... ... 426
Y Sabboth. Gan y Parch. David L. Adams, B.A. ... ... 439
Y Diweddar Barch. William Rees, D.D. Gan y Parch. David Griffith ... ... ... ... ... ... ... ... 449
Bord Gron.—Y Ddwy Greadigaeth. Gan y Parchn. T. J. Jones Lewis, B.A., a Richard Humphreys ... ... ... 469
Y Parch. William Williams, Tycalch. Gan Glan Alaw ... 490
Yr Arglwyddi. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A. ... 497
Nodiadau Llenyddol ... ... ... .. ... ... 512

# Y TRAETHODYDD.

## DARLITHIAU Y PARCH. D. C. DAVIES, M.A., AR "GRISTIONOGAETH."

### VII.

### PERTHYNAS CRISTIONOGAETH A'R TEIMLADAU O DDEDWYDDWCH A THRUENI.

### V.

TUAG at ddeall ymhellach y gyfundrefn o foesoldeb a amddiffynir gan Mr. Herbert Spencer, awn ymlaen i sylwi ar y gwahaniaeth sydd rhyngddi a'r golygiadau a goleddid gan Mr. John Stuart Mill ar y pwnc. Yn ei lyfr *(The Data of Ethics)* yr ydym yn cael Mr. Spencer yn dadleu yn gryf yn erbyn daliadau Mill a Bentham. Y mae Stuart Mill yn seilio moesoldeb ar fuddioldeb cymdeithasol; y mae Mr. Herbert Spencer, o'r ochr arall, yn ei seilio ar bleser hunanol. Yn y darnodiad hwn y mae pwys i'w roddi, nid ar y geiriau "buddioldeb" a "phleser," ond yn hytrach ar y geiriau "cymdeithasol" a "hunanol." Wrth fuddioldeb cymdeithasol y meddylir, buddioldeb i eraill yn gystal ag i'r person ei hun. Tybia hyn nad ydyw dyn i gyfrif ei hun yn fwy nag un ymysg y lliaws, ac y dylai gan hyny ymwadu â'i les personol, os medr drwy hyny fod o ryw fudd i'r gymdeithas o ddynion i ba un y mae yn perthyn. Rhydd y golygiad hwn, felly, le i gariad at eraill weithredu er mwyn eu llesâu; mwy na hyny, brwdfrydedd dros ddynoliaeth a dynolryw a osodir yn sail pob ymddygiad gwir dda. Gwrthwyneba Mr. Spencer y golygiad trwy ddangos y gwahanol anghysonderau ymarferol yr arweiniai yr egwyddor hon iddynt pe gweithid hi allan gan bawb. Dadleua yn ychwanegol y gellir olrhain cymaint o wir ag sydd ynddi i bleser hunanol, o herwydd fod pob ymdrech o eiddo dyn i lesâu eraill oddiar gariad tuag atynt wedi ei wreiddio mewn ymgais am bleser iddo ei hun drwy hyny. Cynnwysa y gyfundrefn a elwir *Utilitarianism* un gwirionedd mawr a phwysig, sef fod cariad at eraill yn elfen mewn moesoldeb, ac y dylai

fel y cyfryw reoli ymddygiadau dynion. O'r ochr arall y mae ynddi ddau ddiffyg mawr. Un ydyw, nad yw yn rhoddi lle o gwbl i gyfiawnder fel egwyddor angenrheidiol; a'r llall ydyw ei bod yn gosod gwerth rhinwedd i orphwys ar ei fuddioldeb i'r byd, yn lle bod ei fuddioldeb i'r byd yn gorphwys ar ei werth cynhenid.

Y mae cyfundrefn Mr. Spencer yn hollol wahanol. Yn ol ei gyfundrefn ef nid cariad at eraill, ond pleser i'r dyn ei hunan ydyw elfen fawr moesoldeb, ac nid ydyw cariad ond un o'r moddion i gyrhaedd pleser. Gesyd holl werth rhinwedd i orwedd ar y pleser a gynnyrchir trwyddo. Cynnwysa y gyfundrefn hon drachefn un gwirionedd pwysig, sef yr egwyddor o angenrheidrwydd mewn un cyfeiriad, ac mewn un yn unig. Hwnw ydyw, fod ymddygiadau drwg, nid yn ddamweiniol, ond o angenrheidrwydd, yn dwyn ar eu hol ganlyniadau poenus; ac, o'r ochr arall, fod ymddygiadau da, yn gyffelyb o angenrheidrwydd yn dwyn pleser a mwynhâd i'w canlyn. Ac eto nid ydym yn deall pa fodd y medr Mr. Spencer gredu hyn, gan mai yr unig ystyr i'r geiriau "da" a "drwg" yn ei gyfundrefn ydyw ystyr sydd yn cynnwys eu canlyniadau. Ond pa fodd bynag y gellir cysoni hyn â'i gyfundrefn yn gyffredinol, y mae yn wirionedd pwysig ynddo ei hun. Cyfuner yr hyn sydd gadarnhäol yn y ddwy gyfundrefn: dyfnhäer y cariad sydd gan Mr. Mill, ac eanger yr angenrheidrwydd sydd gan Mr. Spencer; boed i gariad amlhâu, ymhelaethu, a dwyshâu, a boed hefyd i gyfiawnder fel egwyddor angenrheidiol amlhâu, ymhelaethu, a dwyshâu yn yr un modd, a boed i'r naill a'r llall gyd-fod mewn cydbwysedd a chyfartaledd; a dywedwn mai eu hamlygu felly yn eu hardderchogrwydd yw un o nodweddau arbenig Cristionogaeth.

Y mae dull Mr. Spencer o brofi ei bwnc yn meddu ar fwy o neillduolrwydd na'r pwnc y mae yn ceisio ei brofi. Seilia yr oll ar y ddeddf o ddadblygiad a ddarganfyddwyd gan Mr. Darwin Cydnabyddwn ar unwaith wirionedd y ddeddf hon yn ei gweithrediadau o fewn y byd materol, y difywyd yn gystal a'r bywydol. Cydnabyddwn hefyd ei gwirionedd yn y byd ysbrydol, fel yr amlygir hi yn hanes personau unigol, yn hanes cenedloedd, ac yn hanes dynolryw ar y ddaear. Gwelir gwirioneddau yn syrthio fel hâd da ymysg dynion, yn egino ac yn tyfu, yn cyrhaedd cyflawn addfedrwydd ac yn ffrwytho. Nid gweithrediad deddf dadblygiad yn y byd materol, nac ychwaith yn y byd moesol ac ysbrydol, ydyw pwnc mawr llyfr Mr. Spencer, ond ei gweithrediad yn cylymu y ddau fyd â'u gilydd, ac felly yn gwneuthur un byd o'r ddau. Pa mor wir bynag yw y ddeddf hon o fewn terfynau priodol, y mae yn annigonol i roddi eglurhâd ar Foesoldeb; ac os oes, fel yr addefwn fod, dramwyfa ar hyd-ddi o'r anifail direswm i fyny at ddyn fel anifail perffeithiedig, nis gall arwain i fyny at ddyn fel creadur moesol, i esbonio iddo pa fath ydyw, llawer llai i ddadguddio iddo pa fath a ddylai fod. Olrheinia Mr. Spencer foesoldeb i'r teimladau o bleser a phoen. Gwnaethpwyd hyn gan eraill o'i flaen. Olrheinia ddyn yn yr oll ag ydyw i'r anifail. Gwnaethpwyd hyn hefyd gan eraill. Ond fe unodd Mr. Spencer y ddau olygiad, ac ar y ddau mewn undeb fe seiliodd ei gyfundrefn o foesoldeb. Fod dyn yn anifail perffaith, a dim mwy nac uwch na hyny, yw yr hyn y mae yn gymeryd yn ganiataol fel gwirionedd a brofwyd eisoes uwchlaw ammheuaeth. Am

hyny cychwyna gyda'r anifeiliaid isaf, dilyna eu tueddiadau, eu nodweddau a'u greddfau ymlaen at greaduriaid uwch, nes o'r diwedd y cyrhaedda ddyn, "coron a gogoniant" y byd anifeilaidd, yn bersonol, yn deuluol, ac yn gymdeithasol. Tybia mai hyn yw yr oll sydd yn cyfansoddi dyn, ac ar y dybiaeth hon goruwchadeiladodd drefn o foesoldeb, hanfod pa un yw pleser, pob pleser, yr holl bleserau, a dim ond pleser.

Gwirionedd sylfaenol ei gyfundrefn ydyw, fod pob ysgogiad bywydol yn y creaduriaid isaf yn ymgais am barhâd ac er hunanamddiffyniad. I hyn ni ddichon fod un gwrthwynebiad. Ond yn dilyn y gwirionedd hwn y mae ganddo un arall, nad ydyw yn ei enwi yn ffurfiol, sef fod yr hyn sydd yn cynnal bywyd yn dwyn pleser neu fwynhâd i'w berchenog. Wrth drin y gosodiad hwn y mae yn dechreu gŵyro yn ei ymresymiad, ac yn tynu casgliad nad yw yn deg, ond sydd er hyny yn angenrheidiol i'w gyfundrefn. Ysgrifena fel y canlyn (*Data of Ethics*, tu dal. 84) :— "Sentient existence can evolve only on condition that pleasure-giving acts are life-sustaining acts;" ond y casgliad priodol i'w dynu oddiwrth y rhesymiad blaenorol a fuasai: "Sentient existence can evolve only on condition that life-sustaining acts are pleasure-giving acts." Pa beth ydyw y gwahaniaeth rhwng y ddau osodiad? Un peth ydyw dywedyd fod y gweithredoedd sydd yn rhoddi pleser yn cynnal bywyd, yr hyn yw gosodiad Mr. Spencer; peth arall a pheth hollol wahanol yw dywedyd fod y gweithredoedd sydd yn cynnal bywyd yn rhoddi pleser, yr hyn ydyw yr ail osodiad. Yn ol arferiad cyffredin iaith, wrth "y gweithredoedd sydd yn rhoddi pleser" y meddylir yr holl weithredoedd sydd yn rhoddi pleser, pe amgen dywedasai "rhai o'r gweithredoedd." Nid oes lle i ammeu nad ydyw parhâd bywyd ar y ddaear yn ammodol ar y ffaith o fod pobpeth sydd yn cynnal bywyd yn rhoddi pleser. Ond y mae yn sicr nad ydyw yn ammodol ar fod pobpeth ag sydd yn rhoddi pleser yn gweini i gynnaliaeth bywyd. Ond yn lle "pobpeth" yn y frawddeg olaf, dyweder "rhai pethau," ac ni a gawn yr un gwirionedd, wedi ei eirio yn wahanol, ag a geir yn y frawddeg flaenorol. Er mwyn attegu ei gyfundrefn rhaid i Mr. Spencer ddywedyd yr hyn nas gall ei brofi, ac nad ydyw yn ceisio ei brofi, sef fod yr holl bethau ag sydd yn rhoddi pleser hefyd yn cynnal bywyd. Oddiar hyn y cyrhaedda sylfaen ei gyfundraeth, sef mai y pleser hwnw ag sydd yn cydfyned ac yn gysylltiedig anwahanol â chynnaliaeth bywyd, ac âg ymgais pob creadur am barhâd, yw y cymhelliad mawr i'w holl ysgogiadau, ac mai cyrhaedd hwnw yw ac a ddylai fod yn amcan uchaf ei fywyd. Pe caniateid, yn gyntaf, fod hyn yn wir am yr anifeiliaid, ac, yn ail, fod dyn yn ei addfedrwydd uchaf yn anifail perffaith, a dim mwy, y casgliad naturiol a fyddai, mai pleser ydyw unig syniad dyn am wir amcan bywyd, mai pleser ydyw ei unig ysgogydd, ei unig gymhelliad, ei unig safon a'i unig nôd, gyda'r eglurhad o fod y pleser yr amcana am dano yn ddyfnach, yn eangach, yn fwy dyrchafedig a pharhâus nag sydd o fewn gallu anifail direswm i syniaw am dano, llawer llai i'w fwynhâu. Y gwahaniaeth rhwng dyn ac anifail fyddai, fod gan ddyn fwy o bleser, ac nid fod ganddo fwy na phleser. Gosodiad sylfaenol y casgliad hwn yw y berthynas sydd yn bod rhwng cynnaliaeth bywyd a mwynhâd yn y dosbarth isaf o anifeiliaid, gan ystyried y mwynhâd yn ddwbl, sef y

mwynhâd sydd mewn ymborthi fel y drefn i gynnal bywyd, a'r mwynhâd sydd yn y bywyd a gynnelir. Er mwyn cymhwyso hyn at ddyn, rhydd y gosodiad canlynol i lawr fel gwirionedd nad oes raid ond ei enwi i bawb ar unwaith ei gredu (*Data of Ethics*, tu dal. 7): "As in other cases, so in this case, we must interpret the more developed by the less developed." Y frawddeg hon o'i eiddo ydyw testun y ddarlith.

Y "more developed" yn y frawddeg ydyw dyn; y "less developed" ydyw yr anifeiliaid îs ac isaf. Cynnwysa y gosodiad felly mai trwy yr anifeiliaid direswm yr ydym i ddeall ein gilydd a'n hunain. Yr unig reswm a rydd Mr. Spencer dros ei olygiad ydyw, fod tueddiadau a greddfau mewn anifail yn fwy syml, yn llai dyrys a chymhlethedig â'u gilydd nag y maent mewn dyn, ac am hyny eu bod yn haws eu deall. A'r dull rhesymol ac arferedig ydyw esbonio y peth dyrys, anhawdd ei ddeall, trwy yr hyn sydd syml ac yn hawdd ei ddeall. Tybia y golygiad, fel y gwelir, na fedd dyn ddim ond sydd yn gorwedd yn ei hedyn, neu mewn gwahanol raddau o dyfiant mewn anifeiliaid, ac yn yr anifeiliaid isaf. Dylasai hyn gael ei brofi, ac nid ei gymeryd yn ganiataol fel ffaith sicr a diammheuol. Tybia ymhellach fod cynneddfau, ar ol cyrhaedd eu cyflawn addfedrwydd mewn dyn, yn fwy anhawdd i'w deall gan y dyn ei hunan, na phan yr oeddynt yn tyfu yn yr anifail. Ond a ydyw y dybiaeth hon eto yn wirionedd? Ar bwys y ddwy dybiaeth fe dynir y casgliad mai y dull priodol i'w ddefnyddio gan ddyn, er mwyn deall ei natur foesol a'i dyledswyddau, ydyw astudio tueddiadau, ysgogiadau, arferion a greddfau y byd anifeilaidd. Nid oes dadl nad ydyw dyn yn anifeilaidd o ran ei natur, neu yn ol iaith y Bibl, na chafodd ei wneuthur o "lwch y ddaear," ac nad ydyw nwydau anifeilaidd ynddo yn eu haddfedrwydd. Ond y cwestiwn ydyw, onid yw moesoldeb yn cynnwys meistrolaeth a goruchafiaeth ar y nwydau hyn, ac onid yw y feistrolaeth hono yn cynnwys rhyw allu uwch nag a fedd yr anifail, ac am hyny nas gall natur yr anifail roddi yr un esboniad arno? Caniatäer fod yr anifail direswm yn alluog i daflu goleuni ar ddyn *fel y mae* o fewn rhyw derfynau, pa fodd y medr daflu y pelydryn lleiaf o oleuni ar yr hyn *a ddylai fod?* Caniatäer fod yr anifail direswm yn egluro i ryw raddau o ba le y cychwynodd dyn, pa fodd y medr daflu y mesur lleiaf o oleuni ar y cwestiwn, i ba le, ymha gyfeiriad, tuag at ba bwynt y dylai fyned, fel amcan uchaf ei fodolaeth? Nid oes a wnelom yn y ddarlith hon â deddf dadblygiad fel yr esbonir hi gan Mr. Darwin, ac ni fydd y sylwadau a ganlyn yn cyffwrdd o gwbl â'i gwirionedd. Ein pwnc a fydd, y defnydd a wneir o honi gan Mr. Spencer. Fe ddichon fod y ddeddf yn wir ynddi ei hun, ac eto fod camddefnydd wedi ei wneuthur o honi. A'r camddefnydd o honi yma ydyw ceisio esbonio dyn iddo ei hun fel creadur moesol, trwy anifeiliaid direswm, gan ystyried y fath esboniad yn ddeongliad digonol o'r hyn y dylai fod yn gystal ag o'r hyn ydyw. Fe geisiwn ddangos nad ydyw y dull hwn o esbonio natur foesol yn ddull priodol, ac nad ydyw yn angenrheidiol nac yn ddigonol.

1. Y mae cwbl addfedrwydd dyn fel anifail yn amlygu amcan, ac amcan sydd yn deongli. Nid oes modd ysgoi y defnydd o'r gair *amcan.* Nis gall Mr. Spencer ochel defnyddio y geiriau "aim" ac "end." Ac eto nid oes synwyr mewn defnyddio y gair ond ar y dybiaeth fod rhyw

berson byw yn amcanu; mewn gair, fod Duw yn bôd. Yn gyffelyb wrth ddefnyddio y geiriau "natural selection" mewn gwyddoreg, tybir fod detholwr meddylgar yn bod, er hwyrach fod y rhai sydd yn eu defnyddio yn proffesu anwybodaeth ac ammheuaeth o'i fodolaeth. Wrth *amcan* y meddylir yr hyn y mae tueddfryd cyson tuag ato. Os tuedd cyson llong ar y môr, er pob rhwystr, sydd tuag at ryw borthladd neillduol, cesglir yn gyffredin fod rhyw berson ar y bwrdd mewn awdurdod ag y mae cyrhaedd y porthladd hwnw yn amcan ganddo. Dengys hyn fod ein hiaith ni, yn gystal â'r Saesoneg, wedi ei ffurfio i'r fath raddau dan y syniad am y bôd o Dduw fel y mae yn anhawdd defnyddio geiriau nad ydynt o angenrheidrwydd yn cynnwys hyny. Tueddfryd cyson nwydau a greddfau anifeiliaid direswm, fel yr esgynant i fyny o'r isaf at yr uchaf, sydd at y peth hwnw a geir mewn dyn yn ei holl addfedrwydd. Cynnwysa hyn amlygiad o amcan yn meddwl rhywun: ac nid yr anifail na'r dyn yw y rhywun hwnw. Gan hyny nid unrhyw beth yn ei dyfiant sydd yn egluro yr amcan mewn golwg, ond yr amcan wedi ei gyrhaedd sydd yn egluro cyfeiriad y tyfiant. Mewn gair, y dyn sydd yn esbonio yr anifail, ac nid yr anifail y dyn. Trwy y natur ddynol y gallwn ddeall, i'r graddau yr ydym yn ei ddeall, y byd anifeilaidd sydd islaw i ni; gan i'r byd anifeilaidd flodeuo yn ei ardderchogrwydd mewn dyn, yn yr hwn y cyrhaeddodd ei berffeithrwydd. Er fod adeilad ar ol ei orphen yn fwy anhawdd ei ddeall, nag oedd ei ranau ar wahan oddiwrth eu gilydd, eto am mai ar ol ei orphen y gwelir yn amlwg amcan ei adeiladaeth, ei sefyllfa orphenedig sydd yn deongli ei ranau i fanylrwydd, o herwydd ei amcan sydd yn egluro perthynas y rhanau â'u gilydd, a'u perthynas mewn undeb â'u gilydd â'r holl adeilad.

Ond y mae dyn ei hun yn esiampl well i ddangos y pwnc nag adeilad, am fod dyn yn cael ei ffurfio trwy dyfiant oddimewn, ac adeilad trwy ychwanegiad oddiallan. Y dyn yn ei gyflawn addfedrwydd sydd yn egluro y tueddiadau afreolaidd ac anaddfed oedd ganddo pan yn blentyn. Gweithgarwch y dyn sydd yn egluro ei fywiogrwydd pan ydoedd yn blentyn. Chwilfrydedd y dyn sydd yn egluro yr ysfa am ddinystrio pobpeth oedd ynddo pan yn blentyn. Sirioldeb difyr y dyn sydd yn egluro ysbryd chwareus y plentyn. Am hyny fe all dyn edrych yn ol ar ei sefyllfa o blentyndra a deongli yn ngoleuni ei brofiad addfed lawer o neillduolion ei gymeriad ag oeddynt ar y pryd yn annealladwy iddo ei hun ac i bawb arall. Yr addfedrwydd ag sydd yn cynnwys amcan sydd yn egluro natur a chyfeiriad y tyfiant blaenorol. Felly os credwn fod dyn ar ei uchaf yn y fuchedd hon, yn blentyn o'i gymharu â'r posibilrwydd sydd yn gorwedd yn guddiedig i fesur yn ei natur yn bresennol, ond a dynir allan i'w gyflawn nerth mewn buchedd ddyfodol, gwelir mai yn hono y caiff ddeongliad o amrywiol bethau sydd ynddo ag oeddynt yn ddirgelion anesboniadwy iddo pan yn byw yma. Y mae yr un peth yn wir gyda golwg ar lyfr. Tybiwn yn unig fod y llyfr yn gyfanwaith, ac fel y cyfryw yn meddu ar unoliaeth. Y mae y meddylddrych ag yr ysgrifenwyd ef er mwyn ei amddiffyn ac er argyhoeddi y darllenwyr o'i wirionedd, yn tyfu mewn eglurdeb o du dalen i du dalen, nes y cyrhaedda o'r diwedd ei gyflawn amlygrwydd. Ond fe gyfarfydda

darllenydd meddylgar wrth fyned ymlaen â llawer brawddeg nas medr ddirnad o gwbl paham yr ysgrifenwyd hi, nes iddo ddarllen yr holl lyfr, a deall uwchlaw ammheuaeth yr amcan oedd yn ngolwg yr ysgrifenydd. Yn y dalenau olaf, hwyrach, y gwel ystyr rhai o'r brawddegau yn nechreu y llyfr. Yr esiampl oreu a ellir nodi o'r fath lyfr ydyw y *Data of Ethics* ei hun. Derbyniodd y llyfr lawer o annhegwch gan rai a fu yn beirniadu arno. Ond paham hyny? Am iddynt geisio cymhwyso at y llyfr ei hun yr egwyddor a gynnwysir o fewn y llyfr ar ddyn a'r anifail, sef cymeryd y "less developed" sydd ynddo i esbonio y "more developed," yn lle defnyddio y drefn wrthgyferbyniol. Y mae y Bibl yn esiampl arall o'r un peth. Cynnyddu o ran eglurdeb y mae y dadguddiad dwyfol o'r llyfrau cyntaf nes iddo gyrhaedd ei gyflawn nerth yn mherson a gwaith yr Arglwydd Iesu. Y cam mwyaf âg ef a fyddai defnyddio geiriau prophwydol yr Hen Destament a'i ddefodau i esbonio pa fath un oedd yr Arglwydd Iesu, yn lle defnyddio hanes yr Iesu i'w hegluro hwy. Yr haul yn ei ddysgleirdeb sydd yn deongli i ni oleuni y wawr yr hon a dorodd ar y tywyllwch cyn ei ymddangosiad. I hanes yr Iesu yr ydym yn gyffelyb yn ddyledus am yr esboniad cywir ar lawer adnod ag oedd yn rhagfynegu dyfodiad y Messïah. Y cyflawniad ydyw y gwir ddeongliad ar y rhagfynegiad.

Rheswm Mr. Spencer dros ei olygiad ydyw, fod yr hyn sydd yn tyfu, yn ei sefyllfa o dyfiant, yn fwy syml nag a fydd ar ol addfedu, a'i fod o herwydd hyny yn haws ei ddeall. Ond nid ydyw hawsder i ddeall, a chywirdeb, yn cyfateb â'u gilydd yn aml. Haws, mae'n wir, yw i ni gynnwys rhan o beth na'r oll o hono; ond, er hyny, ië, ac er y byddai cynnwys yr oll yn anmhosibl, eto i'r gradd yr amcenir at gynnwys y cyfan y cyrhaeddir mwyaf o gywirdeb ar y pwnc. Nid yw hyn ychwaith yn rheswm digonol paham y dylem gymeryd y lleiaf i esbonio y mwyaf, yn hytrach na'r mwyaf i esbonio y lleiaf.

Ond pa oleuni sydd gan grefydd Crist ar y pwnc? Fe'n dysgir ni ganddi, nid mai yr anifail sydd yn deongli dyn, ond mai dyn sydd yn deongli yr anifail, ac mai Duw sydd yn deongli dyn. Mewn dyn, a chymeryd y goreu, ceir yr hyn sydd anifeilaidd mewn addfedrwydd, ond yr hyn sydd foesol ac ysbrydol mewn gwendid ac anaddfedrwydd, ac yn tyfu. Felly gan hyny, tra y mae yn deongli yr anifail, y mae o herwydd ei blentyndra ysbrydol mewn angen ei ddeongli ei hun gan rywun arall. Y rhywun arall hwnw ydyw Duw. Trwy yr amlygiad o Dduw yn ei gyfiawnder a'i gariad y dygir dyn yn yr efengyl i ddeall pa fath y dylai fod, a pha fath y gall obeithio bod yn ei gyflawn addfedrwydd ac yn ei sefyllfa fwyaf dyrchafedig. Nid i lawr at yr anifail, ond i fyny at Dduw, yr arweinir ni gan Gristionogaeth er ffurfio barn am danom ein hunain fel creaduriaid moesol ac ysbrydol. Yno y gosodir ger ein bron "y dyn Crist Iesu" fel deonglwr mawr y natur ddwyfol a'r natur ddynol. Yno y gwelwn mai gogoniant moesoldeb yw cydlewyrchiad cyfiawnder a chariad, yr hyn sydd yn cynnwys gwywdra ar bob ysbryd hunanol, hunangeisiol, hunanlesiol, pe byddai raid, mewn hunanaberthiad er mwyn eraill. Nid yn yr aderyn, na'r pysgodyn, na'r ymlusgiad, na'r epa, ond yn y Duw mawr, achos gwreiddiol pobpeth a chynnaliwr y bydoedd, y cawn yr un a'r unig un a fedr ein hesbonio i ni ein hunain.

2. Rheswm arall yn erbyn troi at anifeiliaid direswm am ddeongliad o honom ein hunain ydyw, fod ein dynoliaeth o fewn ein profiad uniongyrchol. Caniatäer fod y natur ddynol, am ei bod yn fwy dyrchafedig, yn fwy anhawdd ei deall ynddi ei hun na'r natur anifeilaidd; eto fe orbwysir hyny gan wirionedd arall, sef fod ein natur ni o fewn ein profiad, fel y gallwn graffu arni yn ei dirgelion, tra y mae natur yr anifail direswm tu allan i gylch ein profiad. Am hyny, y mae yr hyn sydd yn anhawddaf ei ddeall, ynddo ei hun, yn haws i ni ei ddeall o herwydd ein hagosrwydd profiadol o hono, a'n gallu oblegid hyny i graffu yn uniongyrchol arno, heb fod dan raid i dynu casgliadau o berthynas iddo nad oes un sicrwydd am eu gwirionedd. Pe buasai rhyw drydydd—a hwnw yn greadur—yn edrych ar arferion dyn ac ar arferion anifail direswm, fe allai, yn aml, ar dir teg, farnu fod dyn yn llawer mwy anhawdd ei ddeall na'r anifail, fod llawer mwy o blygion yn ei gymeriad fel creadur, ac o anghysonderau ac o afresymoldeb yn ei weithredoedd. Ond nid oes yma drydydd o gwbl, canys y dyn sydd yn ceisio deall ei hun, a'r cwestiwn yw, Pa fodd y daw i ddealltwriaeth ar y pwnc? Ai trwy y profiad sydd ganddo o hono ei hun neu ynte trwy resymu oddiar arferion yr anifail?

Ond, yn ychwanegol eto, tra y mae arferion yr anifail yn amlwg i ni, nis gall yr anifail hysbysu paham y mae yn gwneuthur fel hyn neu fel arall. Ni fedd iaith ag y gallwn ni ei deall ond yn bur anmherffaith. Nis gellir gwneuthur na gramadeg na geiriadur o'i leisiau. Gellir dyfalu ystyr ychydig o honynt, a dyna'r cyfan. Nis gwyddom a ydyw yn deall, neu a oes ganddo reswm gwybyddus iddo ei hun am ei weithredoedd. Yr oll a ellir ei wneuthur ydyw tynu casgliadau. Ac nid ydyw y casgliadau yn rhai ag y gellir bod yn sicr o'u gwirionedd, ond yn unig yn rhai ag sydd yn ymddangos yn debyg, a'r tebycaf o fod yn wir. Pa bethau a wneir ganddo er mwyn byw, pa rai oddiar bleser neu hyfrydwch, pa rai oddiar ofn, pa rai er mwyn twyllo, a pha rai oddiar gariad at ei gydgreaduriaid, nid ydym yn alluog i benderfynu. Pan yn tynu casgliadau, yr ydym dan orfod i wneuthur hyny oddiar ein profiad ein hunain o gyffelyb bethau. Os ydym yn ymarferol dan rwymau i geisio deongli greddfau anifeiliaid direswm oddiar ein profiad ein hunain, llawer mwy yr ydym o dan rwymau i ddeongli y natur ddynol sydd ynom oddiar ein profiad o honi. Cymerwn ychydig o esiamplau i ddangos hyn. Yr ydym ni yn ymwybyddus ein bod wedi gwneuthur llawer o bethau er llesâu eraill oddiar dosturi tuag atynt, heb ddysgwyl unrhyw ad-daliad, ac heb feddwl am unrhyw bleser a ddeilliai i ni o hyny. Ond gyda golwg ar anifeiliaid direswm, fe ysgrifenodd Mr. Darwin fel y canlyn: "There is no evidence that any animal performs an action for the exclusive good of another" (Nid oes dim prawf fod unrhyw anifail yn cyflawni gweithred yn unig er mwyn daioni i un arall). A ydyw ein profiad ni o ddyngarwch i'w gyhoeddi yn gamsyniol a thwyllodrus yn unig am nad oes brawf fod anifail yn meddu ar deimlad o'r un natur? A ydyw y ffaith, os yw yn ffaith hefyd, ac nid yn dybiaeth seiliedig ar anwybodaeth, fod y ci a'r ceffyl yn byw yn gwbl oll iddynt eu hunain, yn rheswm digonol dros gredu mai bywyd uchaf dyn ydyw bywyd iddo ei hun, yn groes i'w brofiad ei fod ar ei adegau goreu yn ceisio llesâu eraill heb feddwl

am dano ei hun? Ac os gŵyr dyn fod ganddo deimladau drwy ei brofiad o honynt nad oes brawf fod anifeiliaid yn meddu arnynt, onid ydyw hyn yn ddigon i beri ammheuaeth o barthed i wirionedd y ddamcaniaeth fod holl fawredd a gogoniant dyn yn gynnwysedig mewn perffeithrwydd anifeilaidd?

Yr ydym yn ymwybyddus o fod genym syniadau am natur amcanion fel rhai "da" a "drwg;" ac mor bell ag yr amlygir i ni pa rai yw yr amcanion sydd yn ysgogi dynion, yr ydym yn eu cymeradwyo neu yn eu condemnio. Ond nid oes brawf fod gan yr anifeiliaid isaf unrhyw syniad am ddrwg a da. Er eu mwyn hwy, gan hyny, y mae yn rhaid i ninnau gau allan o'n syniadau am natur amcanion bob meddwl o ddrwg a da! Ac er eu mwyn hwy, yr esboniad a rydd Mr. Spencer o ddrwg a da ydyw, cyfaddasrwydd moddion i gyrhaedd amcan, yn hollol annibynol, dealler, ar natur yr amcan. Yn ol yr ymresymiad hwn, nid ydyw ein profiad ni o fod amcanion i'w cymeradwyo fel rhai da ynddynt eu hunain, neu i'w condemnio fel rhai drwg ynddynt eu hunain, i'w gymeryd i ystyriaeth o gwbl. Ond gan y defnyddir y geiriau "drwg" a "da" am gyfaddasder moddion i gyrhaedd unrhyw amcan, pa beth bynag a fyddo, pan y sonir am bethau difywyd ac am y dosbarthiadau isaf o greaduriaid, hyn sydd hefyd i benderfynu ystyr y geiriau pan y cymhwysir hwynt at ddyn. Ac y mae hyny yn ymddangos i ni yn hollol afresymol.

Yr ydym yn ymwybyddus fod ynom deimlad o ddyledswydd, yn gosod rhaid arnom gydag awdurdod. Nid oes un prawf fod anifail direswm yn meddu arno. Gan nas gellir gwadu nac ammeu ein bod ni yn ei feddu, y casgliad yr ydym i dynu o amddifadrwydd yr anifeiliaid o hono ydyw, y diflana pan yr esgynwn i diriogaethau uchaf moesoldeb ac y cyrhaeddwn bleser, y pinacl uchaf cyrhaeddadwy i greadur. Yn ol fel y dywed Mr. Spencer (*The Data of Ethics*, tu dal. 127): "The sense of duty or moral obligation is transitory, and will diminish as fast as moralization increases;" hyny yw, fe leihâ y teimlad o ddyledswydd fel y cynnydda moesoldeb, o herwydd y bydd yn myned fwy-fwy yn bleser. Ymresyma Mr. Spencer ei bwnc fel hyn. Dywed fod gwneuthur unrhyw beth yn barhâus dan deimlad o ddyledswydd yn ffurfio arferiad, fod arferiad yn peri hunan-foddlonrwydd a hyfrydwch, ac yn dyfod o'r diwedd yn ail natur i ddyn, ïe, mor naturiol iddo â'r gweithredoedd a gyflawnir oddiar y chwantau symlaf. Ac y mae yn sicr fod hyn yn wir. Ond oddiwrth hyn y mae Mr. Spencer yn tynu casgliad nas gallwn mewn un modd gydsynio âg ef, sef y bydd y teimlad o ddyledswydd o angenrheidrwydd yn diflanu pan y cyrhaedda dyn hyfrydwch perffaith yn y cyflawniad o hono. Tybia hyn fod y teimlad o ddyledswydd ynddo ei hun ac o angenrheidrwydd yn deimlad poenus. Y mae yn sicr y dilëa hyfrydwch gymaint o boen ag sydd ynddo. Ond ai poen ydyw yr oll o hono? Mewn atebiad i'r ymresymiad hwn sylwn, fod dyledswydd un ai yn wirionedd gwrthddrychol, neu yn unig yn deimlad o fewn dyn. Os y cyntaf ydyw, fe fydd dyn perffaith, yr hwn yn ol crefydd Crist yw y dyn ag y mae pob gwirionedd oddiallan iddo yn adleisio byth mewn teimladau cyfatebol o'i fewn, yn ei feddu byth. Ond os yr olaf, os teimlad ydyw o fewn dyn heb unrhyw wirionedd allanol i ddyn yn sail iddo, hyd yn nod tra

parhäo, dylid ei ystyried fel ofergoeledd neu freuddwyd y meddwl, a bod ei holl awdurdod yn dwyllodrus. Os erys byth yn ddyledswydd ar ddyn i wneuthur yr hyn sydd iawn, nis gall unrhyw berffeithrwydd cyrhaeddadwy gan ddyn ddileu neu leihâu y teimlad o hyny: yr oll a ddilëir a fydd pob baich neu flinder yn y cyflawniad o hono, oblegid fe all y teimlad o ddyledswydd gynnyddu, a chariad tuag ato gynnyddu hefyd, heb fod y naill yn gormesu ar y llall.

Yn awr cymharwn y golygiad hwn â'r modd a gymerir gan Paul i esbonio y pwnc yn y seithfed bennod o'r Rhufeiniaid. Yn ol Paul, nid ydyw y dyn perffaith yn colli ei deimlad o rwymedigaeth, ond yn ei drosglwyddo oddiar arglwyddiaeth deddf o orchymynion a bygythion, i'r Arglwydd Iesu, trwy ei fod yn marw i'r ddeddf ac yn myned yn "eiddo un arall." Yn ol Mr. Spencer, y mae y teimlad o ddyledswydd yn diflanu mewn sefyllfa o berffeithrwydd; yn ol Paul fe'i dyfnheir trwy ei drosglwyddo oddiar ddeddf at Berson. Nid ydyw ei ddyfnhâu yn gwneuthur cyflawniad o'r rhwymedigaethau yn feichus ac yn boenus. Yn hytrach i'r gwrthwyneb, gan y trosglwyddir ef at Berson ag sydd yn tynu allan ato ei hun holl ymddiried, parch, cariad, ac edmygedd yr enaid, fe gyflawnir dyledswyddau bywyd gyda hyfrydwch. Gan hyny dangosir gan Gristionogaeth fod teimlad o ddyledswydd mewn dyn perffaith yn ei gyflawn nerth ac addfedrwydd, mewn undeb anwahanol â'r hyfrydwch coethaf, tyneraf, a mwyaf dyrchafedig. Trwy yr Arglwydd Iesu y gwelir y ddau deimlad, pa rai y gellir eu geirio yn y ddau air "rhaid" ac "eraill," mewn undeb nas gellir ei ddattod. Felly y sicrheir holl deimladau cymdeithasol yr enaid o blaid rhinwedd. "Rhaid" ac "eraill," oedd sylwedd pregethau yr Iesu, nodweddion arbenig ei fywyd, hanfodion ei aberth, a nodau ei ysbryd. Dyma y gwirioneddau sydd yn gymhwys i ddyrchafu dynion o dan lywodraeth eu nwydau a'u blysiau, i'r perffeithrwydd teilwng o greaduriaid rhesymol. Am hyny nid yw y cyfiawnder a'r cariad sydd yn llywodraethu dyn da yn egwyddorion a dyfodd ynddo i fyny o'r anifail, ond fel y Jerusalem a welodd Ioan, a ddisgynodd allan o'r nef oddiwrth Dduw, â gogoniant Duw ganddo. Am hyny edrychwn, nid i lawr, ond i fyny, er mwyn deall amcan ein bodolaeth. O dan deimlad o'n natur anifeilaidd, fel Job, galwn ar y pwll, "Tydi yw fy nhad," ac ar y pryf, "Fy mam a'm chwaer ydwyt;" ond yn yr ymwybyddiaeth o natur uwch, dyrchafwn ein llygaid i'r nef, fel y gwnaeth yr Iesu, a dywedwn, "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd. . . . Eiddot ti yw y deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd."

OL-NODIAD.—Y ddarlith a gyhoeddir uchod yw yr olaf o'r gyfres nodedig o Ddarlithiau a draddodwyd yn Jewin Newydd gan y Parch. D. Charles Davies, M.A., yn ystod blynyddoedd diweddaf (sef o 1879 i 1883) ei weinidogaeth yn Llundain. Yn fuan ar ol ei thraddodiad (er dirfawr golled i "nyni y rhai a adawyd"), torwyd y cysylltiad a fu yn bodoli am oddeutu chwarter canrif cydrhwng Mr. Davies a'r fam-eglwys Fethodistaidd yn y brifddinas. Da genym ddeall, er hyny, fod gobaith y ceir eto fwynhâu o ffrwyth ymchwiliad a myfyrdod y darlithydd parchedig mewn maes cyffelyb. Wrth dynu ein gorchwyl cofnodiadol i derfyniad, dymunwn wneyd hyny gyda dadganiad o obaith ac o ddiolchgarwch: o'n gobaith y bydd yr ymwneyd hwn â rhai o *problems* tragywyddol bywyd a chrefydd yn symbyliad ac yn gefnogiad i ymchwiliad am Wirionedd pa le bynag y ceir ef; ac o'n diolchgarwch gwresocaf a mwyaf diffuant i Mr. Davies am y caniatâd a'r cynnorthwy parod a gawsom i gyhoeddi y "Darlithiau ar Gristionogaeth."—E. VINCENT EVANS.

# MR. J. W. PRICHARD, PLASYBRAIN.

## II.

Y MAE yn hyfryd genym allu gosod ger bron ein darllenwyr ddefnyddiau dyddorol, yn ychwanegol at yr hyn a gyhoeddasom yn y TRAETHODYDD am fis Ebrill diweddaf, er eu cynnorthwyo i ymgydnabyddu ymhellach â'r Cymro teilwng o Blasybrain. Diammeu genym y teimla ein darllenwyr fod y llythyrau hyn yr ydym trwy ffawd dda yn cael yr hyfrydwch o'u cyhoeddi, yn dra dyddorol. Y maent yn dwyn o'n blaen yn fyw ac eglur gymeriad ag y teimlid yn ei ddydd nad ydoedd yn ail mewn gallu a meddylgarwch i ond ychydig iawn o'i gydwladwyr, ac y maent yn rhoi mantais i ni weled ei farn a'i olygiadau ar lawer o achosion dyddorol ag oedd yn dyfod o dan ei sylw. Nid dibwys ychwaith ydyw y fantais a roddant i ni weled y byd ag oedd ar ein tadau yn y dyddiau hyny, a pha fodd yr oeddynt yn ymdaro. Ac yn arbenig fe geir mantais trwy y llythyrau hyn i weled y syched am wybodaeth, yr ysbryd llednais, caredig, a boneddigaidd, ynghyd a'r Gymraeg brydferth a ffynai yn nghymdeithas oreu ardal y Morysiaid a Goronwy Owen. Yr oedd Mr. J. W. Prichard, fel y gwelwn oddiwrth ei lythyr at Mr. Robert Jones, Rhoslan, wedi ei eni cyn y flwyddyn 1750, ac felly yr ydoedd o leiaf yn bymtheg oed pan fu farw Mr. Lewis Morris yn 1765; ac er y gallai na chafodd ei weled ef na'i frawd Mr. William Morris, yr hwn a fuasai farw yn 1764, eto nid yw yn annhebyg na ddarfu iddo ymgydnabyddu â Mr. Richard Morris, yr hwn y cyfeiria mor barchus at ei olygiaeth o argraffiadau 1746 a 1769 o'r Ysgrythyrau, yr hwn a fu farw yn 1779, pan nad oedd Mr. J. W. Prichard yn llai na deg ar hugain oed. Hyd y pryd hyny yr oedd efe yn byw yn Boteiniol, Llantrisant, ond yn union ar ol hyny, wedi marw ei wraig gyntaf, fe ddaeth i Blasybrain. Wedi dyfod yno yr ydoedd yn gymydog ac yn gyfaill i Mr. Richard Williams, Plasgronwy. Yr oedd efe yn gefnder i'r Morysiaid,—ei fam, yr hon y dywedir ei bod yn hynod am ei glendid a'i dawn i ganu a phrydyddu, yn chwaer i'w tad; ac yr ydoedd ar hyd ei oes yn gyfaill mynwesol i Mr. Lewis Morris. Am ei fab, Mr. Morris Williams, yr hwn oedd tua chyfoed â Mr. J. W. Prichard, fe ddaeth efe a gŵr Plasybrain yn gyfeillion mawr hyd y diwedd; ac wedi ei hir gymdeithas â'i dad, &c., yr ydoedd Mr. Morris Williams yn llawn o draddodiadau goreu Pentre Eirianell. Clywsom ei fab, gŵr y Tycalch, yn dyweyd iddo ei glywed droion yn dywedyd, ar ol ei dad, nad oedd ond peth rhwydd gan Mr Lewis Morris neidio i ben careg farch oedd yn Mhlasgronwy, yn wysg ei gefn. Ac fe ymddengys fod Mr. J. W. Prichard, er yn lled swrth cyn y diwedd, pan yn ŵr ieuanc yn hynod o hoenus a chwim. Fe welir iddo ei gael ei hun yn nghanol dylanwadau na allasent, yn

enwedig i ŵr o'i dalent a'i dueddiadau ef, lai na bod yn addysgawl iddo. Beth bynag am addysgiaeth plant William Prichard, Clwchdernog, yn yr ysgol oedd yn Lancelot's Hey, yn Liverpool, fel y sonia Mr. Richard Williams, Birkenhead, mae yn ymddangos fod gan John le i gwyno na chafodd efe, am ryw achos neu gilydd, gystal manteision a'i frodyr; ond er hyny fe ddaeth, trwy ei dalent a'i ymroddiad, i ragori arnynt oll, ac i gael ei ystyried yn ei oes yn ddiarebol am ei fedr a'i ysgolheigdod. "Cared doeth yr encilion." Fe deimla ein darllenwyr fod yr "encilion" hyn, yn sicr, yn haeddu eu diogelu, ac nad allant gymdeithasu â hwynt heb eu profi yn ddyddan ac addysgiadol.

## I.

Yn gyntaf oll, mae yn bleser genym gyhoeddi y llythyr canlynol a dderbyniasom oddiwrth ein cydwladwr selied a hybarch, Mr. Richard Williams o Birkenhead, i'r hwn yr oedd Mr. J. W. Prichard yn hen ewythr, a'r hwn a fwynhaodd lawer o'i gymdeithas, ac sydd hefyd yn cario yn ei ysbryd lawer o'r rhagoriaethau ag sydd wedi gwneuthur yn glasurol i gynifer o'r Cymry yr enwau Clwchdernog a Phlasybrain.

16, Whetstone Lane, Holt Hill,
Birkenhead, Mai 17, 1883.

Fy anwyl Frawd a Chyfaill,

Yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar i chwi am godi enw hen Gymro mor deilwng a John William Prichard. Adwaenwn bedwar o feibion William Prichard, Clwchdernog: Richard Williams, Pentref Bwaau (yr oedd efe yn daid i mi o du fy mam), J. W. Prichard, Plasybrain, Evan Williams, Bodwrog, gerllaw Gwalchmai (yr oedd efe yn flaenor yno gyda'r Methodistiaid Calfinaidd), a William Prichard, y brawd ieuaf o'r wraig gyntaf, yr hwn a droes allan yn oferddyn, ac a gladdwyd yn medd y meddwyn. Adwaenwn J. W. Prichard yn dda, ac er bod tua deunaw milldir o'm cartref [Fferam, Aberffraw] i Blasybrain, byddwn yn fynych yn myned yno i ymweled â'm hen ewythr. Gwnaeth i mi Dablen, a dysgodd fi i wneyd Deial. Gwnaethum innau un i ddangos yr amser with yr haul ac with y lloer; ond ysywaeth yr ydwyf wedi ei golli er ys blynyddoedd. Am blant William Prichard, Clwchdernog, fy hen daid, clywais ei fab, fy nhaid, sef Richard Williams, Pentref Bwaau, yn dywedyd lawer gwaith gan wenu, iddo ef, ac amrai o'i frodyr, y naill ar ol y llall, gael eu hanfon i Liverpool, i ysgol a gedwid yn Lancelot's Hey, mewn llofft, â dau dwll ynddi, i ddodi rhaff drwyddynt, gwedi *splicio* ei deupen ynghyd; ac os byddai bachgenyn gwedi troseddu cyfreithiau yr ysgol, dygid ef at y rhaff i gael ei grogi; a byddid yn chwilio am ben y rhaff, ac yn methu ei gael gan fod y ddeupen wedi eu *splicio;* yna câi y *culprit* am y tro hwnw ei wddw yn rhydd. Yr oedd cofio am hyny yn ddigon i beri i'r hen ŵr fy nhaid wenu.

Y mae un peth yn ddiffygiol yn llythyr J. W. Prichard at Mr. Robert Jones, Tybwlcyn, ag y buaswn yn hoffi ei weled ar gof a chadw, sef ddarfod i William Prichard gael ei wysio a'i *finio* fwy nag unwaith gan wŷr da Bangor. Y mae un tro yn cael ei gofnodi, sef yr un a fu rhyngddo â'r Canghellydd Owens, tra yn byw yn Nglasfryn fawr. Yr ail waith oedd pan oedd yn byw yn Mhlas Penmynydd, Môn. Bu raid iddo dalu y tro hwn am gadw addoliad mewn tŷ heb ei *recordio* swm o tua deg punt. Aeth i dalu y *fine* i Fangor. Cadwyd ef yno o'r boreu hyd brydnawn, ac yr oeddynt wedi gwisgo dyn mewn dillad merch, a than y wisg hono bais o gylch enfawr o bastbord; byddai y merch-ddyn hwn yn cerdded ymlaen ac yn ol, ac wrth basio William Prichard byddai yn rhoddi yslabiad iddo â'r llïan a gariai yn ei law. Ni wrandawai hwn ar William Prichard yn ymliw am lonyddwch. Pan welodd yntau na chai lonydd, aeth i ystafell arall at y pen-swyddog i adrodd ei gŵyn. "Pw!" ebai hwnw, "fel yna y bydd hi yn gwneyd yn wastad; gadael llonydd iddi y byddwn ni." Atebai William Prichard na oddefai efe mo honi i wneyd felly eto heb amddiffyn ei

hun. Yna aeth yn ol i'r neuadd fawr; ac yn fuan dyma y merch-ddyn i'r neuadd fel cynt, ac wrth basio rhoes lab i William Prichard ar ei wyneb. Byddai efe yn cario pastwn tua dwy lath o hŷd, a modfedd a hanner o braffder gydag ef; a chyda hyny cododd i fyny a rhedodd ei bastwn o'i du ol drwy ei ddillad uchaf, a thrwy ei bais bastbord, a chan rwygo ei ddillad fe'i taflodd nes oedd yn disgyn yn gledren ar ryw risiau ceryg oedd gerllaw. Yn fuan gwedi hyny galwyd ef i ystafell y penswyddog i dalu y ddirwy. Ac wrth ei thalu dywedodd William Prichard wrth y swyddog, "Dyma arian a fydd yn brefu eto ryw ddydd." Atebai y penswyddog, "Moes yma hwynt; mi doraf fi y frêf arnynt."

Gofynwch am "ddyddiau blynyddoedd fy ymdaith." Fe'm ganed ar y 18fed o Ebrill, 1800, ac felly *dyddiau* blynyddoedd fy ymdaith ydynt 30,624; neu dyma i chwi fy oed yn ddigellwair, yr wyf wedi myned dros fy 83 er y dyddiad uchod. Dywedid i mi fod fy mam yn wael iawn ar fy ngenedigaeth, a chymerodd fy nain, gwraig Richard Williams, ap William Prichard, Clwchdernog, fi i'm magu. Bum gyda hwy am tua chwe' blynedd, a chlywais fy nhaid amryw weithiau yn myned dros y chwedl talu'r ddirwy; ond yr oeddwn i yn rhy blentynaidd a chwareugar i drysori yn fy nghof lawer o bethau a glywais mae yn ddiammeu ganddo ag y buasai yn dda genyf erbyn hyn pe buaswn wedi dal arnynt. Wedi hyny, pan oeddwn yn arfer myned i ymweled â'm hewythr, J. W. Prichard, a minnau tua phymtheng mlwydd oed, y cefais y chwedl fel yr ysgrifenais hi uchod. Rhyw adgofiant aflwyr genyf yw y chwedl fel y clywais hi gan fy nhaid; ond y mae yr hanes fel ei clywais gan fy ewythr, J. W. Prichard, yn argraffedig, hyd yn nod fel ei cefais, ar fy nghof. Felly chwi welwch i mi glywed yr hanes gan y ddau frawd, ond fel y clywais hi gan J. W. Prichard yr ydych chwi yn ei chael. Mae yn ddigon tebyg fod tua 68 mlynedd er hyny.

Am y pedwar mab i William Prichard a adwaenwn i, sef fy nhaid, Richard Williams, Pentre Bwaau, J. W. Prichard, Plasybrain, Evan Williams, Bodwrog, a William Prichard, Glangorsddu, yr oedd i bob un ei nab-nod: eiddo Richard Williams oedd cadernid meddwl yn athrawiaethau gras; eiddo J. W. Prichard, ysgrifenu, mesur a mapio tiroedd, llenyddiaeth a henafiaethau; eiddo Evan Williams, mwyneidd-dra; ac eiddo William Prichard oedd hunanoldeb a meddwdod. Yr oedd y tri cyntaf yn ddynion gwir grefyddol a chywir, a'r diweddaf yn wagnod.

Am J. W. Prichard, yr oedd efe yn troi, yn gyffredin, mewn cymdeithas uwch na'r lleill, o herwydd ei fedrusrwydd mewn ysgrifenu, mesur a mapio tiroedd, &c. Yr oedd yn ŵr o gymeriad cyfiawn, cywir, a cheugant,* a'i farn mewn achosion dyrys yn werthfawr. Heblaw â llawer eraill, byddai yn gohebu yn fynych â Twm o'r Nant; ac os byddai rhyw ysmotyn du ar un o offeiriaid Mon, neu ar Dafydd Ddu y bardd (bu ef yn Mon yspaid y pryd hyny), cai Tomos wybod yn ddiatreg. Cafodd Tomos ddysglaid gymhwys oddiwrtho i'w dodi yn ei *Interludes* lawer tro.

Yr eiddoch yn ddiffuant,

RICHARD WILLIAMS.

II.

Dygwyddodd i ni yn ddiweddar, trwy garedigrwydd ein cyfaill teilwng, y Dr. Owen Thomas o Liverpool, gael i'n llaw sypyn o hen lythyrau a anfonasid at Mr. Robert Roberts o Gaergybi, yr "Almanaciwr," ac awdwr y *Daearyddiaeth*, y rhai oedd yn meddiant ei fab, Mr. William Roberts, oedd yn byw yn Liverpool. Erbyn eu hagor gwelem eu bod o ddyddordeb mawr. Mae y llythyrau canlynol wedi eu hysgrifenu at Mr. Robert Roberts gan Mr. J. W. Prichard, ac yn cael eu cyfeirio at "Mr. Robert Roberts, Schoolmaster, Holyhead," weithiau gan ychwanegu y cyfenw "Philomath," ac un o honynt yn gyfeiriedig ato yn "Athrofa Dysgeidiaeth, Caer Sant Cybi." Maent oll wedi eu hysgrifenu yn rhagorol, ambell un yn addurniadol, a rhai yn rhwydd; ond gan mwyaf mewn llaw fân, orphenedig, a destlus. Yr ydym yn cyfleu y llythyrau yn eu trefn amseryddol.

* Ceugant: certain, sicr, dilys. Addaw yn geugant—to promise certainly.—DR. W. O. PUGHE.

Plasybrain, y 10ed o Hydref, 1810.

Fy Nghyfaill hawddgar,

Mi fum ddoe yn Moelfra yn dal mul, ac yr oedd yno ugeiniau yn dal mulod fel finnau; ac mi gefais werth ceiniog o synwyr, ond nid heb chwys ar fy nhalcen. Y mae llawer o son am synwyr; ond y mae mwy yn son am dano nag a'i medd. Mewn perthynas i gynllun y *Daearyddiaeth*, nis cefais i braidd siarad gair â'r Capt. Evans, dim ond gofyn yn gwta, "How do you do, Mr. Evans?" &c., ac yna encilio fel cïan â'i gynffon yn ei afl. Dyma'r cynllun i chwi yn ei ol; nis rhof fi na bys na bawd arno hyd oni ddeuwch yma eich hun, modd y caffom ymddyddan ac ymbyncio wyneb yn wyneb. Nid teg fyddai i mi ddiwyno eich gwaith, na chyfnewid dim arno, oddieithr eich bod yn gyd-ddrychiol; felly, fy hen gyfaill anwyl, brysiwch yma, fel y caffom ymgomio o ddechreunos hyd y cyfddydd. Cofiwch fi at bawb a'm caro, a Henbych well medd eich cyfaill diffuant,

J. W. PRICHARD.

Nid oedd genyf faint y mymryn o hamdden nac amser i'ch cyfarch pan fum y tro diweddaf yn Nghybi; yr oedd yn rhaid myned i ffau'r Llew erbyn 11 o'r gloch.

[Ar gyfeiriad y llythyr hwn ychwanegir, "Da chwi, gyrwch y llythyr hwn yn ei flaen cyn gynted ag y bo modd."]

Plasybrain, Rhagfyr yr 22ain, 1810.

Fy hen Gyfaill mwyn,

Mi glywais fy mab William yn dywedyd mai chwychwi oedd yn derbyn ardrethion Syr John Thomas Stanley eleni. Yr oeddwn yn meddwl dyfod i Benrhos fy hunan; ond mi a friwais fy nghoes, ac y mae briw arni er's agos i bythefnos. Mi fum ddoe o'r boreu hyd lawer o'r nos gyda Mr. Panton o'r Plasgwyn. Y mae efe yn myned yn fwynach fwynach bob blwyddyn, ac yr ydym yn gryn gyfeillion; ymddyddau a photio* lawlaw agos bob mis, ïe, weithiau ddwywaith neu dair yn yr wythnos ar ryw achosion. Mi soniais wrtho ef ddoe eich bod yn bwriadu argraffu *Geography* yn Gymraeg, &c. Dymunodd arnaf ddywedyd wrthych am roddi ei enw ef am un o'r Daearyddiaeth, a rhowch fy enw innau am un o honynt hefyd. Yr wyf yn ofni wrth yr hyn a fynegwyd gan fy mab i mi, wedi iddo fod yna yn talu yr ardreth, y bydd Plasybrain o hyn rhagllaw yn ddrutach nag y bydd modd i mi, ïe, na neb arall, dalu am dano. Yr oeddwn yn gobeithio y gadawai Syr John le i mi a'm plant gael bywoliaeth fel rhyw dyddynwr cyffredin arall; nis gwiw i mi na'm tylwyth ddysgwyl bywoliaeth fras a boneddigaidd mewn tir mor ddiffrwyth a dirinwedd ag ydyw Plasybrain; ac heblaw ei fod yn ddiffrwyth a dirinwedd, y mae peth arall arno sydd waeth na hyny, sef y *Damp*, math o glwyf ydyw ar yr anifeiliaid a fo'n pori ar y tir; ac y mae'r clwyf hwn yn gwneuthur i'w holl gymalau fyned o'u lle, ac yn eu gwneuthur mor gloffion fel nas gallant gerdded un cam ond ar ben eu gliniau; ac oni b'ai fod genyf dir o anian arall, yr hwn yr wyf yn ei ddal o hyd braich, nis gwn i amcan pa fodd y buaswn yn cael ond bywoliaeth dlawd a helbulus; a thyna'r lle y mae *Hospital* fy ngwartheg y digwyddo'r clwyf hwn ddyfod arnynt. A hefyd, pan ddigwyddo i'r haf fod yn sych, nis bydd cymaint ag un ystenaid o ddwfr i'w chael i ddyn nac anifail yn yr holl dir. Gorfod i ni eleni gario dŵr mewn trol at wasanaeth dyn ac anifail, o'r 26ain o fis Gorphenaf hyd yr 28ain o Fedi, oddieithr rhyw ychydig a ddelid o wlaw o dan y bargodydd; ac y mae'n debyg y bydd mwy o anghyfleusdra yn perthyn i Blasybrain o hyn rhagllaw, o herwydd y mae oddeutu 18 erw neu ragor o hono yn perthyn i Earl of Uxbridge, a'r tir hwnw yn rhedeg trwy ei ganol o benbwygilydd, ac y mae'r Earl yn bwriadu ei osod ar ei ben ei hun. Ac y mae darn arall o dir yntho yn perthyn i Mr. Hampton Jones, ac y mae'r *Major* wedi dywedyd wrthyf nas caiff ei dir ef ddim bod yn perthyn fel darn o Blasybrain byth mwyach. Y mae'r ddarn dir yma yn dair erw a rhagor; a 'sywaeth i mi, yr wyf wedi adeiladu Odyn galch ar y tir hwnw yn fy anwybodaeth, ac felly, rhwng pobpeth, nis gwn i yn iawn pa beth a ddaw o honof yn fy henaint, &c.; fe fydd yn dorcalon os gorfydd i mi ymadaw o ethryb fod y lle yn rhy ddrud; ond yr

* Mae yn rhaid fod y "potio" hwnw ar ei ran ef yn beth pur ddiniwed, canys yr ydoedd yn hynod o ofalus yn ei arferion, a deallir iddo ymddyeithro oddiwrth fwy nag un o rai o gyffelyb chwaeth iddo ag y gosodai yn naturiol werth ar eu cyfeillach, yn unig o herwydd eu gwendid gyda'r ddiod feddwol.

wyf yn gobeithio y tosturia Syr John wrthyf, ac nas rhaid i mi adael mo'm hen lety hyd onid elwyf i'r *Bedd*, ac yna nid rhaid byth gwyno o achos pethau bydol. Fe allai, pe baech yn dangos y llythyr hwn a fy nghwyn i'r Arglwyddes Stanley, y medrai hi fod yn rhyw gynnorthwy i mi; o herwydd mi a glywais lawer o son am ei mwynder a'i haelioni hi a'i thylwyth; ac yr wyf yn hollawl gredu am ei boneddigeiddrwydd a'i rhadlondeb, nas ewyllysiai hi byth weled neb o ddeiliaid ei thir yn gwisgo carpiau. A bendith Duw fo arni hi a chwithau. Er mwyn cariad a hen gymdeithas, a oes modd i gael dim llythyr oddiwrthych byth mwyach? Ac fe fyddai yn wych odiaeth genyf gael un o'ch *Proposals* i'w ddangos i rai gwŷr mawrion y rhai yr wyf yn gydnabyddus â hwy. Yr oedd P. Panton, Ysw., yn dywedyd y byddai darluniad hardd o Gymru yn beth tra dymunol i'w roi yn eich Daearyddiaeth, ar *scale* o ddeutu 18 hyd yn 20 modfedd bob ffordd; ac yr oedd efe hefyd yn dywedyd mai peth tra ffol fyddai i chwi roi enwau gwledydd, dinasoedd, moroedd, mynyddoedd, afonydd, &c., ond yn y ffordd gyffredin yn y mapiau Seisonig, oddieithr enwau yn perthyn i Dywysogaeth Cymru yn unig. Bellach mi a dawaf am hyn o dro, gan obeithio y byddwch yn eiriolwr trosof, ac y rhowch genad i mi fel cynt i'm galw fy hun eich cyfaill yn ddiffuant tra bwyf,

J. W. PRICHARD.

Plasybrain, Ionawr y 27ain, 1811.

Fy Nghyfaill diffuant,

"Cyfaill cywir, yn yr ing y gwelir." Mi a dderbyniais eich llythyr tra mwyn a charedig, yr hwn a 'sgrifenasoch y 14eg o'r mis hwn. Yr oedd yn hynod o dda genyf ei gael, o ethryb yr wyf yn lled drwmgalon er's dyddiau, ac y mae ambell bwt o lythyr oddiwrth gyfaill yn adfywio ac yn lloni fy nghalon. I always entertained thoughts that Old England was a land of Liberty, but to my sorrow, I find it otherwise. I have but one son, and I am now compelled to pay twenty pounds for his *liberty;* and that *liberty* will last but four years. This is the *Liberty of England* so much spoken of! Nid all Rhyddid B——te fod onid ychydig waeth!

Yr wyf yn tybio y medraf gael rhyw swrn o enwau at eich Daearyddiaeth; y mae genyf eusus (nid eisoes) enwau dau neu dri o ŵyr mawrion ein gwlad, ac yr wyf yn tybio y medraf gael rhagor o naddynt a fo parod i gefnogi eich gorchwyl. Ysgatfydd y medraf gael enwau 12 neu ragor. Y mae'n dda dros ben genyf eich bod wedi adrodd fy *nghwyn* wrth yr Arglwyddes Stanley. Mi gefais yn ddiweddar Ddarluniad (*Map*) hardd o dir y Iarll Uxbridge, yr hwn sy'n rhedeg trwy ganol Plasybrain o eithaf bwygilydd. Un o Oruchwylwyr yr Iarll a'i dodes i mi: Mr. John Corris a wnaeth y Darluniad; ond meddwl yr wyf mai *copy* ydyw allan o waith Mr. Rinolds, neu Mr. Townley, dau o fesuryddion tra medrus a chywrain yn eu hamser. Yr wyf finnau yn bwriadu gwneuthur darluniad o'r unrhyw ddryll o dir ar fyrder, yn ol y buwyd yn ei ddangos i mi gan hen ŵr ydoedd gynt yn fyw yn y gymydogaeth yma; ac yr wyf yn meddwl na chydsaif y terfynau yn gyson â'u gilydd ymhob man. Ond nis gwn i amcan pwy a dâl i mi am fy nhrafferth: yr wyf wedi bod yn rhy ffol er's talm, wrth roi cymmaint o chwys fy wyneb yn adeiladu tai a chloddiau cerrig ar diroedd nas gwyddwn amcan pwy a'u pioedd; ac nis caf gymmaint a diolch gan neb am fy holl draul a'm helbul.

I think it will be the best way for you to send your letters to me per post, addressed thus,—J. W. Pritchard, Plasybrain, care of the Postmaster at Llangefni, or something else to the same purpose; ac mi a gyfeiriaf finnau fy llythyrau atoch yn y post yn yr un modd. Mewn perthynas i'r geiriau grybwyllasoch, nid amgen Battery, Fort, &c., mi a fum yn ystyried am danynt, a chwi a'u cewch yn rhestr, a geiriau Cymraeg priodol iddynt gogyfyngwydd a phob un, yn nesaf ag y gellais yn ol dull cyffredin y wlad; a fy marn i ydyw, mai gwell arfer y geiriau Seisnig, os nas gellir cael rhai Cymreig a fyddo'n ddealladwy ac eglur.

*Battery*, ergyd-le.

*Fort*, gwerthyr, amddiffynfa; Gwerthyr Trefeibion yn Aberffraw, Gwerthyr Bodnolwyn, Gwerthyr Penbol, Gwerthyr Padrig, are old British Fortifications, having very deep intrenchments, and a breast-work between the intrenchments.

*Peninsula*, penial, esgar; Penial in Llanfwrog, and Esgar in Cemlyn.

*Ridge*, trum; y Drum in Llanbadrig is a ridge, and known by no other name but *Drum*.

*Chain*, cefn mynyddig; as Cefn Uthrgroen in Carnarvonshire, Cefn y Cwmmwd in Anglesey, Cefn dwyffrwd, Cefn helig, Cefn Ithal.

*Revenue*, Elw blynyddol, teyrn-elw, elw-gwladol, &c.

*Ocean*, yr eigion.

Ni thaw fy mhen am Weno
Mwy na'r Aig ym min y Ro.

*Bay*, mor-safn, as Safn y Traethcoch, Red Wharf Bay; Safn Dulas.

*Amphibious*, nid medraf fi gael dim gair Cymraeg i gyfateb iddo yn gyflawn; fe allai y byddai yn well arfer y gair *amphibious*, ac amlygu ei arwyddocâd ar ei ol. Ysgatfydd y gellid galw *amphibious*, gwylanawg, a hyny yn ddigon priodol, oddiwrth *gwy* a *glân*, ond pwy a'i deallai? Nid un o fil.

*Promontory*, garth, as Pengogarth, y Garthlwyd: and also penrhyn; as Penrhyn gwybedog, and Penrhyn in Penmon, which are promontories; ac er nad ydynt ond bychain, dyna'r peth y mae'r gair yn arwyddo yn y wlad.

Da chwi, fy hen gyfaill mwyn, peidiwch ag arfer iaith chwithgam y Llundeinwys;* y mae Iolyn Morganwg wedi eu pensyfrdanu; cymmerwch ddull 'sgrifenyddiaeth y Bibl yn rheol, yn enwedig yr argraffiadau a ddaethant allan yn y flwyddyn 1746, ac 1769. Mr. Rhisiart Morys ydoedd golygwr y rhai hyn; ac y mae pawb yn cyfaddef mai Cymry anaml eu cyfryw ydoedd ef, a'i ddau frodyr, Mr. Lewis Morys, a Mr. William Morys; ac heblaw bod yn olygwyr ar argraffiadau o'r Bibl, yr oeddynt ill trioedd wedi myfyrio ar y iaith Gymraeg er yn blant, ac hefyd wedi casglu a myfyrio llawer ar waith y Beirdd godidocaf yn yr iaith Gymraeg, ac ymegnio hefyd yn eu 'sgrifeniadau am ddilyn dull a threfn yr hen iaith yn ei phurdeb cyntefig, yn lle canlyn llwybr gwyrgam y iaith Seisnig, mal y mae y parth mwyaf o 'sgrifenyddion y tŵf heddyw. Nis medraf lai na synu a thysmwyo wrth feddwl mal y mae rhai awduron Deheuberthig yn llusgo ac yn ysmurnio yr hen iaith ardderchog megis gerfydd ei gwallt, yn wysg ei chefn i sathrfa a chwydion bustlaidd Plant Alis y Biswail. Y mae yn rhaid i mi dewi bellach, y mae y papyr yn min darfod, a minnau wedi blino; ac i ddywedyd i chwi y gwir yn ddistaw, nid un o gant a gawsai y fath lythyr a hwn genyf; ond yr wyf yn gobeithio y telwch chwithau yr echwyn adref pan gaffoch gyfleusdra; felly fy Nghyfaill anwyl, Henybych well, a'r eiddoch oll, medd eich cyfaill diffuant tra bwyf,

J. W. PRITCHARD.

Rhowch fy annerch yn garedig at y rhai a'm caro; am fy nghaseion nis gwaeth ganthynt po gwaethaf a fyddwyf.

Mi a daenais y *Proposals* draw ac yma; fe ddeisyfodd Mr. Panton gael tri o honynt; fe gafodd Mr. Williams, Treffos, un; mi a yrrais dri o honynt i Mr. Gruffydd Williams, Braich-y-talog, yn Llanllechyd; a rhai o honynt hefyd yn y gymydogaeth yma. Y mae arnaf eisieu anfon un neu ddau i Mr. Jones, Llugwy, a Mr. R. Williams, Bodafon, a Mr. Gr. Edwards, Bodafon Lys, &c. Y mae y parth mwyaf yn canmawl y gwaith; ond hyn yw'r drwg, nid oes gan y gwerinos ond ychydig o arian i brynu llyfrau, ac y mae llawer o'r mawrion yn gwneuthur ffroenau surion ar bobpeth a fo yn Gymraeg, gan feddwl nad oes dim a dâl yn iawn onis bydd mewn diwyg Seisnig; ond mae ambell ŵr mawr eto, fel Panton, yn caru llwyddiant ei wlad a'i genedl. Daliwch mewn calon, a byddwch yn ofalus rhag ymddiried y gorchwyl mewn dwylaw anffyddlawn. Y mae Mr. Panton yn dyweyd mai Llundain ydyw'r lle goreu i chwi argraffu'r gwaith, ac y bydd yn haws i chwi eu dosparthu a'u cludo oddiyno.

Plasybrain, 18fed Gorphenaf, 1811.

Fy Nghyfaill hawddgar,

Mi a dderbyniais yr eiddoch o'r 1af cyfisol, ond efe a fu yn rhywfan yn ymlwybran hyd yr 17eg. Y mae yn dda gan i glywed y newydd fod y *Daearyddiaeth* ar gychwyn; ac yr wyf yn gobeithio y daw'r gorchwyl i ben ei daith yn ddiwall, heb golled i chwi na blinder i'r sawl a'i derbynio. Yr wyf yn bwriadu 'sgrifenu at Davies

* Dywed gŵr Ty calch nad oedd dim fyddai yn ei gythruddo yn fwy na'r dull cymhenllyd o ysgrifenu Cymraeg y gwnelid y pryd hyny y fath ymdrech i'w sefydlu; dywedai nad âi yr iaith Gymraeg byth yn ei blaen tra byddai *nog* William Owen Puw arni!

y Lleuawdur [*Optician*] yn lled fuan, am dair o spectolau â phalfau arian iddynt. Yr wyf yn bwriadu myned i'r Plasgwyn y boreu heddyw, ac yr wyf yn tybiaw fod Mr. Panton yn bwriadu myned i Lundain, o hyn i Wyl Mihangel; felly mi gaf gyfleu teg i anfon llonaid sach o chwedlau i'r Lleuawdur. Er mwyn dyn, a welsoch chwi waith "Egri ap Eofn" yn y *North Wales Gazette?* Os nas gwelsoch, dehongliad ydyw am ystyr priawd yr enw Llanfairmathafarneithaf; ac y mae "Egri" yn bwriadu, pan gaffo hamdden, yru rhyw ddehongliad eto i'r *Gazette*, i beri i Gymreigyddion Bangor waith chwerthin. Och fi! yr wyf fel dyn â'i ddannedd ar y maen llifo; nid oes hanes am Syr John yn dyfod i'r wlad i ddywedyd na cham nac uniawn wrthyf. Moeswch lythyr etwa pan gaffoch hamdden gan y cywion. Yr eiddoch yn ddiffuant tra bwyf,

J. W. PRICHARD.

Fy ngwasanaeth at Mrs. Roberts a Mr. Griffith Owen* a'i wraig. Nid oes gan i ddim ond cwyr crydd i selio fy llythyr; oni ddylai fod arnaf gywilydd? Ond chwedl y ddihareb, "Ni ddiffyg arf ar was gwych."

Plasybrain, alias, Meddiant y G—rthr—m—dd,
Hydref y 16eg, 1811.

Fy Nghyfaill hynaws,

Pan fum yna o flaen y Llewpart, nis haeddai enw dyn, nid oedd na chefn na chalon genyf i ddyfod yna i ymweled a chwi, dim ond troi tuag adref yn wynebdrist, a'r Teigar pedwar-llygeidiog yn fy nghymeryd yn sport yn fy hen ddyddiau, o achos fy mod yn methu ymattal rhag soddi mewn trymder o dan grafangau y bwystfil didrugaredd. Fe allai y bydd yntef ryw ddydd yn deisyf trugaredd; mi a ddymunwn iddo ef gael yn y dydd hwnw, fwy o dosturi a thrugaredd nag a wnaeth efe â mi a'm plant. Yr wyf yn trin y byd er's mwy na deugain mlynedd, ac nis digwyddodd i mi weled neb erioed mor giaidd a dideimlad. Pwy a wyr nas gwena Rhagluniaeth arnaf, ac agor ei drws o ryw le arall? Nid wyf heb addewidion teg, pa beth bynag a ddel o honof: ond fe allai wedi'r cyfan mai gwir a fydd y ddihareb, "Addewid deg a wna ynfyd yn llawen."

Mi fum agos i bythefnos oddicartref yn ddiweddar yn teithio trwy'r wlad hon a rhan o Arfon, ac yr wyf yn disgwyl y caf well tal na bod yn ymdrybaeddu mewn baw ym Mro y Gorthrymydd. Ysgadfydd, pan ysgrifenwyf atoch y tro nesaf, na bydd genyf rhyw newydd gwell na hyn i'w adrodd i chwi. Nis gwn i eto yn iawn a ddeuaf fi byth yn rhagor i droedio Bro Gybi, ac och fi! i mi ei throedio ermoed. Pan gaffoch ronyn o hamdden, 'ysgrifenwch ataf, a chyfeiriwch ef tan ofal Evan Williams, yr Ostler yn Llangefni. Cofiwch fi at eich gwraig, ac at Mr. Griffith Owen, ac nis gwn at bwy arall. Byddwch wych.

J. W. PRICHARD.

Plasybrain, Awst y 1af, 1812.

Fy hen Gyfaill,

Dyma fi ar wastad fy nghefn yn fy ngwely yn glaf er's namyn diwrnod deg wythnos; ond beth am fod "namyn deunaw mlynedd ar hugain yn gorwedd!"† Fe iachaes yr Arglwydd y dyn hwnw a fuasai cyhyd yn gorwedd; y mae'r un gallu gantho i'm iachau innau; mawr yw trugaredd yr Arglwydd. Ond pa un bynag ai angau ai einioes, pob peth yn dda, os caf gymmod a gwedd wyneb yr Arglwydd; dyna ydyw diwedd y gamp.

Wele, fe ddaeth yma oddiwrth R. Davies, Llangefni, 30 o'r rhanau Daearyddiaeth, 4 rhan o'r papyr goreu, a'r gweddill yn bapyr cyffredin. Y mae 20 rhan wedi eu gwerthu, a minnau fy hun yn unfed ar hugain am ran. Dyma i chwi enwau y rhai a gawsant y rhanau, neu *Subscribers* at y gwaith:—

* Masnachydd parchus yn Nghaergybl, a blaenor tra defnyddiol gyda'r Methodistiaid Calfinaidd.

† Y fath helbul y buasai y gŵr manwl ynddo pe dygwyddasai i'w lygaid agor ar yr amryfusedd a lithrasai uchod o dan ei ysgrifell. Mae yn amlwg ei fod yn cyfeirio at Ioan v. 5: "Ac yr oedd rhyw ddyn yno yr hwn a fuasai glaf namyn dwy flynedd deugain."

Paul Panton, Ysw., o'r Plasgwyn, Best Paper.
John Williams, A.M., Treffos, do.
Mr. John Rowlands, Ty fry, do.
Mr. Henry Brereton, Plasgwyn.
Mr. Robert Parry, Frigan.
Mr. Thos. Williams, Glasinfryn.
Mr. Hugh Hughes, y Fferam.
Mr. Wm. Prichard, Ty'nygongl.
J. W. Prichard, Plasybrain.
William Thomas, o'r Bwth.
Mr. John Hughes, Perth y Gwenyn.
Mr. Robert Owen, Bodeilio.
Owen John Edward, Elusendy, Beaumaris.
Mr. Lewis Parry, Gwenfro.
Mr. John Price, Tanyrallt.
Mr. Owen Jones, Minffordd.
Mr. Thos. Williams, Defnia.
Richard Thomas, Olgre.
William Hughes, Ty'nyfelin.
Mr. Rd. Williams, Plas Goronwy.
Mr. William Thomas, Boatman, Amlwch.

Buasai gennyf bedwar neu bump o wyr mawr at y *List* uchod yn rhagor ped fuaswn yn iach ac yn gallu myned o'r gwely. Nid hwyrach y daw rhywrai eto i roi eu bysedd yn y bastai. Am y rhanau sydd heb eu gwerthu, y maent yma mewn lle glân, ac y mae'r arian yma ond yr 16s. 6c. a dderbyniasoch gan fy merch Jane yn Llangefni. Y mae arian yr holl ranau a werthwyd yn £1 13s., felly y mae'n digwydd i chwi eto 16s. 6c. A fyddwch chwi mor fwyn a fy nghofio at Mr. G. Owen a'i wraig, a'ch gwraig eich hun hefyd. Odid un i fil i mi weled neb o drigolion Cybi yn fy oes, oddieithr eu bod yn rhywle yn nês nag yno. Mi gefais y llythyr a 'sgrifenasoch dros William Hughes mewn perthynas i Eglwys Llanbedr; y mae'r meinciau, &c., wedi eu rhoi mewn cywair odiaeth. Dywedwch hyn i Lady Stanley. Yr eiddoch tra bwyf,

J. W. PRICHARD.

Y mae fy mab William wedi cymeryd cryn encyd o drafferth yn dysparthu y rhanau o herwydd fod y *Subscribers* cymaint ar wasgar. Y mae efe yn dysgwyl cael llyfr am ei drafferth.

Plasybrain, Tachwedd yr 11eg, 1812.

Y Cyfaill hawddgar a chelfydd,

Dyma'r pummed llythyr a 'sgrifenais atoch, ond ettwa heb rithyn o ateb; ac nis gwn i pa fodd y llwyddaf gyda hwn; ond pa fodd bynag, nid ydyw ond ychydig o draul arnaf i fritho hyn o gerpyn o bapur, ac yn enwedig a minnau heb allu gwneuthur dim arall: mae rhyw waith yn well na seguryd. Y mae'r holl ranau Daearyddiaeth wedi eu gwerthu ond pedwar, ac y mae'r arian wedi ei derbyn am danynt. Mi fum yn meddwl eu rhoi gyda Owen Llanddeiniolen,* ond yr oedd arnaf ofn iddo ef bendroni ar y ffordd a myned i Arfon yn ei ol, yn lle dyfod yna i wneuthur ei neges. Pe gwyddwn pa fodd i'w gyrru, byddai yn dda gennyf. Mi a yrrais lythyr at William Hughes, Tanypwll, mewn perthynas i lain o dir sydd ym Mhlas-y-brain yn perthyn i Mrs. Lewis, Bodior. Y maent yn fy holi am £2 o ardreth am y llain, ac nis gwn i yn iawn pa beth i'w wneuthur heb gael barn Syr John Thomas Stanley am hyn o beth. Mi glywais rhywun yn dyweyd fod Syr John yn y wlad. Mi fuaswn yn dyfod i Benrhos i ymddiddan ag ef pe buaswn yn gallu: ond Duw a'm helpo, ni fedraf fi er's agos i bum' mis fyned dim dau led cae oddi-

* Owen Llanddeiniolen oedd grwydryn diniwed a gonest a fyddai yn myned o amgylch y dyddiau hyny i gardota, a byddai yn gwneyd llawer o fân gymwynasau mewn cario llythyrau rhwng beirdd a llenorion Môn ac Arfon. Fe ddarfu i amryw o'r beirdd ganu iddo, mewn ffordd o ofyn caredigrwydd ar ei ran gan y ffermwyr a'r boneddigion, ond y gân oreu tu hwnt i bob cymhariaeth oedd eiddo Robert Hughes, Neuadd y Blawd, Llanddeusant, awdwr y *Gell Gymysg*.

Mae Owen Llanddeiniolen
A'i lais am gael elusen;
Bwyty wedi os bydd raid
Ei damaid ar y domen. &c.

"Mae digrifwch y gân hon," fel y dywed Cynddelw yn ei *Fanion Hynafiaethol*, "yn ddihysbydd; eto, nid gwneuthur gwawd o Owen druan y mae, ond peri i ni dosturio wrtho a'i ymgeleddu."

wrth y ty. Mi fum bedwar mis yn gorwedd yn fy ngwely heb allu chwimiad oddi yno, ond trwy gynnorthwy gan eraill; ac nis medraf eto ond braidd codi o'r gwely at y tân, ac ymlwybran rhyw ychydig wrth fy ffon tua'r drysau. Yr wyf yn gobeithio trwy Dduw y deuaf i fyny eto i allu myned a dyfod i wneuthur fy negesau, &c. Mi a yrrais lythyr at Mr. D. Davies, yr *Optician;* yr wyf heb gael ei atteb hyd yn hyn. Os digwydd i chwi gael llythyr oddiwrtho ef, a chrybwyll am danaf fi, a wnewch chwi fod mor fwyn a gyrru attaf. Cofiwch fi at Mr. G. Owen a'i wraig; a'ch mam, a'ch gwraig eich hun hefyd. Felly byddwch wych, a llwyddiant arnoch a'r eiddoch oll, medd eich hen gyfaill diffuant,

J. W. PRICHARD.

**Pan ddelo fy mab William yna i dalu yr ardreth, fe dâl i chwithau arian y llyfrau.**

**Bwthyrhelbul, Awst 5ed, 1813.**

Fy hen Gyfaill gwiwgof,

Diolch yn llaes a fyddo i chwi am eich mwynder a'ch caredigrwydd i fy nwy ferched pan fuant yng Nghybi; yr wyf finnau yn gobeithio y caf eich gweled chwi a'ch tylwyth unwaith ettwa yn eich pabell eich hun yn iach-lawen. Buasai yn ddywenydd calon gennyf pe gallaswn ddyfod i'r Gymanfa; ond gorfod arnaf aros gartref mal anifail wrth râff, neu *a prisoner on parole of honour.* Dyma fy unig fab wedi rhoddi ei fys mewn *torch aur;* ac fe fydd y dorch hon yn glô didor arno hyd angau. "Nis gwiw dadl wedi barn."

A glywch chwi hyn, fy hen gyfaill; a oes yna yng nghymydogaeth Cybi lawer o Lysieuyddion, *Botanists?* Y mae fy hen gyfaill gwiwglod, H. Davies, A.M., Person Abergwyngregin, yn argraffu Llyfr Llysieuyddiaeth na bu erioed o'i gyffelyb mewn iaith yn y byd. Y mae'r Hen Gorph wedi bod er's mwy na deugain mlynedd yn ymlusgo ar hyd creigiau, clogwyni, ceunentydd, corsydd, ffosydd, coedydd, moelydd, dolydd, a mynyddoedd, trwy holl Gymru, a llawer o wledydd Lloegr a Sgotland, yn chwilio yn eithaf manwl a dyfal am bob math o lysiau y sydd yn tyfu wrth anian ac o honynt eu hunain yn y deyrnas hon. Y mae efe yn rhoddi desgrifiad o'r amrafael lysiau ynghyd a'u rhinweddau, ac yn eu penodi ac yn eu henwi yn Groeg, Lladin, Saesneg, ac yn Gymraeg; ac wedi cymmeryd trafferth a helbul nid bychan i gysoni a threfnu yr holl enwau gwahanredol, mal na bo achos i neb gymmeryd y naill lysieuyn yn lle'r llall. Y mae Mr. Davies yn un o'r gwyr mwyaf addas i'r gorchwyl hwn yn Nghymru na Lloegr, o herwydd y mae efe yn ysgolhaig mawr yn yr iaith Roeg a'r Lladin, ac yn Gymro anaml ei gyfryw, a thueddiad cynhwynol yntho er yn ei ieuengctid i chwilio ac amlygu ansawdd, trefn, a dull amrafaelion bethau mewn anianyddiaeth; ond yn bendifaddef, ei fyfyrdod a'i feddylfryd a redodd ar ol Llysieuyddiaeth; a thyma ei lafur a'i orchwyl ar dymp esgor, mal y gallo pawb trwy Gymru a Lloegr ddyfod i ganfod gwerth y pethau y maent yn eu sathru mor ddiystyr o dan eu traed. Fe fydd y llyfr yn barod i ddyfod allan o'r argraff-wasg ym mhen y ddeufis o'r hyn pellaf. Mi a welais barth mawr o hono wedi ei argraphu yn deg ar bapyr da. Nid oes dim yn anorphen o hono, ond Hanes a threfn Llysieuyddiaeth yn ol dull Lineus, a'r *Appendices.* Pa beth meddwch? A oes yna yn nhref Cybi rywrai a glywant arnynt fod mor galonog a rhoddi eu henwau mal y caffont y llyfrau tra buddiol hyn? Fe allai y gwna Lady Stanley roddi ei henw am lyfr neu ddau. Y mae Mr. Panton wedi *subscribio* am ddeuddeg o honynt, fel y gallo eu rhoddi yn anrheg i'w gyfeillion; dyna i chwi hen Fachgen iawn. Yr wyf yn ofni y bydd y llyfr hwn yn rhy ddrud i bobl gyffredin gael gafael arno; ond y mae yna yng Nghybi ddigonedd o wyr boneddigaidd, a'r arian yn amlach yn rhedeg yn eu dwylaw na thom yr heolydd.

Yr wyf wedi hybu yn lled lew, ond bod y morddwydydd a phen y gliniau yn dra anystwyth a lled weiniaid; ond hyn sy wir, yr wyf yn fil gwell nag y disgwyliais fod, ac nac y disgwyliodd neb arall a'm gwelodd yn fy nghystudd. Will you be so kind as to offer my most humble respects and compliments to my Lady Stanley, and I hope that her Ladyship will have the candour and goodness to accept the same. Buaswn wedi dyfod i Gybi ac i Benrhos er's llawer dydd, oni bai fy mod cyhyd yn garcharor tan gystudd; ond dyma fi unwaith ettwa a'm traed a'm dwylaw yn rhyddion, a thrwy gennad Duw, mi a ddeuaf yna pan gyfhawyf ychydig nagor; canys bydd hyny, ysgatfydd, yn gymhorth i adferu fy iechyd ac i loni fy ysbrydoedd a'm

corph hefyd, y sydd weithon yn ddigon hwyrdrwm a llesg. Dyma i chwi *Bank note* punt a chweigaint o arian yn dâl am y llyfrau Daearyddiaeth a ddaeth yma. Rhyfedd a'r cwyno y mae'r bobl am na bai'r rhanau yn dyfod allan yn amlach; y mae rhai o honynt yn dywedyd eu bod ar ddiflasu o herwydd eu bod cyhyd yn disgwyl wrthynt. Da chwi, rhoddwch ychydig o eiriau teg i'n boddloni ar y papyr glas yn y rhifyn nesaf a ddel allan o'r wasg, ac ysgatfydd na wna hynny y tro i'w boddloni. Y mae'r bobl yn gyffredin yn tybio nad ydyw gweithio llyfrau ddim mwy o boen na chwareu *singc cap*, neu *dosio llyffant*. Er mwyn dyn, cofiwch fi gyda charedigrwydd a diolchgarwch at eich gwraig; cofiwch fi hefyd at Mr. G. Owen a'i wraig; a phan weloch Mr. William Jones, y Siopwr, dywedwch wrtho ef fy mod etto yn fyw ac yn cofio atto ef. Mi a glywais fod ei wraig a'i fab wedi marw. Yr oedd pawb a'm gwelodd yn fy nghlefyd yn fy nghyfrif innau fel marw, ond wele, trwy Dduw a'i drugaredd, byw ydwyf. Nid oes gennyf ddim newyddion i'w adrodd wrthych. Dysgwyl rwyf y bydd gennyf nithlenaid o fân newyddion ar fyrder, ond gobeithio y boddlonwch ar hyn hyd y tro nesaf. Hen y bych well, medd eich ewyllysiwr da tra bwyf,

J. W. PRICHARD.

Brysiwch 'sgrifenu y llythyr mawr a soniasoch yn y llythyr diweddaf a 'sgrifenasoch attaf. Os digwydd i chwi weled Mr. Wm. Owen, y Chwaenwen, soniwch wrtho am y Llysieulyfr; feallai y bydd blys arno gael un o honynt. Os bydd rhywrai o wyr Cybi yn dewis cael y Llysieulyfr, anfonwch eu henwau attaf, a minnau a'i gyrraf i Mr. Davies, ac ef a fydd yn rhwymedig iddynt hwy ac i chwithau am eich mwynder.

Plasybrain, Hyd. y 15fed, 1883.

Fy hen Gyfaill mwyn,

Mi a gefais eich llythyr lle yr oeddych yn crybwyll eich bod wedi cael arian y rhanau Daearyddiaeth yn gyflawn. Y mae'n dda gan i hyny. Mi fum ym mhellach oddicartref yr wythnos ddiweddaf nag y bum er's pymtheg mlynedd. Mi fum tros Fenai a thros wlad Arfon, Dinbych, a rhan o Swydd Fflint. Diben fy nhaith ydoedd cymeryd tyddyn o dir i fy mab William i fyned iddo i fyw, yr hyn beth a wnaethum trwy gymhorth fy anwylaf gyfaill, Paul Panton, Ysw., yr hwn sydd bob amser i mi fel tad. Tre Ifan y gelwir y tyddyn, ym mhlwyf Llanidan y mae'n sefyll, ac y mae yn un o'r tyddynod goreu yn Mon. Ar hyd braich yr ydoedd y lle gan Mr. Williams, Llanidan, mewn *lease*, er's mwy na deugain mlynedd; felly nid oedd na thrais na phechod na melldith ei ddwyn o'i grafangau. Syr John Williams a biau'r tyddyn. Mi a wn y bydd yn dda ganthoch glywed y newydd. A fyddwch chwi mor fwyn a dywedyd hyn i Lady Stanley: yr wyf yn gobeithio y bydd yn dda ganthi glywed fod fy mab mor lwcus a chael lle i fyw wedi iddo briodi. Mi a wn eich bod wedi clywed cyn hyn, ac os na chlywsoch, y mae efe wedi myned tan yr iau a rhoddi ei law i fenyw ieuanc, merch John Roberts, Tynybuarth, yr hwn sydd yn hen Gorph a chodau llawnion, a digon o foddion i roddi y bobl ieuaingc mewn bywoliaeth. Yr oedd cymaint o ymryson am Dre Ifan a phe buasai *election;* ond P. Panton a ennillodd y gamp er gwaethaf pawb, ac mi gefais y lle yn is o ardreth nag yr oeddid wedi cynnyg am dano o ugeiniau o bunnau! Er mwyn fy nghyfaill P. Panton yn unig. Dyna gyfaill a dâl ei gofio. Please to offer my most humble compliments and respects to my Lady Stanley, and be so good as to tell her that I hope I shall be able to see her once more in her hospitable mansion.

Er mwyn cariad, 'sgrifenwch labi o lythyr cyn gynted ag y medrock, a dywedwch yntho pa fodd yr oedd Lady Stanley yn hoffi y newydd am fy mab, &c. Yr wyf wedi gwellhau yn fy iechyd a'm nerth yn rhyfeddol. Ni chlywais i air son fod Syr John Stanley yn y wlad hyd onid ydoedd agos ar gychwyn allan o honi, onidê, buaswn yn dyfod yna i gyfarch gwell iddo ef a'r eiddo oll. Yr eiddoch mewn brys mawr,

J. W. PRISIART.

Cofiwch fi at eich gwraig, Gr. Owen, Mr. Ed. Roberts, ac at eich mam, a dywedwch wrthynt fy mod yn bwriadu (os Duw a'i myn) ddyfod eto i Gybi yn fy nghrynswth.

Plas y Brain, Mai y 15fed, 1815.

Fy Nghyfaill anwyl,

Mi a dderbyniais eich llythyr mwyn a charedig, ac y mae arnaf lawer o rwymedigaeth i chwi am eich caredigrwydd. Mewn perthynas i fy merch Margaret, y mae eich cynnyg yn fwyn ragorol, ond ofni yr wyf mai nid peth hawdd a fydd ganthi hi ddyfod yna i rodiana; ond os bydd hi yn dewis, mi roddaf gennad iddi ddyfod yna pan fyno.

Pan wneloch y Map yn barod, mi a wnaf fy ngoreu am ei ddiwygio os gwelaf eisiau. Cofiwch am 'sgrifenu fel yr oeddych yn son gydag inc coch, lle byddoch yn tybio fod gwall neu eisiau. Da chwi, hysbyswch eich meddyliau yn ehelaeth ar y pyngciau y byddoch yn tybio yn angenrheidiol, &c. Cofiwch fi yn eithaf caredig at Mrs. Roberts, eich mam, a Mr. Griffith Owen. Gobeithio fod fy nghyfeillion yn Nghaer St. Cybi oll yn iach. Yr eiddoch mewn brys, cyn cychwyn i ffair Llanhwyrfai,—nid Llangefni y gelwid y lle gynt; Sant Cyngar ydoedd enw y plwyf hefyd. Y mae'n rhaid i mi dewi, dyma'r gennad ar gychwyn. Byddwch wych, medd eich hen gyfaill tra bwyf,

J. W. PRICHARD.

Brysiwch â llenaid o lythyr yn fuan, fuan.

Plasybrain, 21st. Nov. 1816.

Fy Nghyfaill hynaws,

Wele unwaith ettwa gyfleu i'ch annerch ac i hysbysu fy mod yn fyw. Nid oes genyf ddim newyddion i'w hadrodd i chwi; mi a glywais echdoe fod y Daearyddiaeth wedi dyfod i Langefni; mi a yrraf i'w cyrchu hyd yma y boreu foru, ac mi a'u dosparthaf cyn gynted ag y gallwyf. Er mwyn cariad a hen gymdeithas, rhoddwch fy ngwasanaeth a'm hannerch yn dra charedig at eich gwraig, ac yn yr un ffunud hefyd at Mr. Griffith Owen a'i wraig, a'r Capt. Evans, a'ch mam. Nid oes genyf ddim amser i 'sgrifenu rhagor weithon, ond yn unig dywedyd fy mod yr eiddoch yn ddiffuant tra bwyf,

J. W. PRICHARD.

Y mae fy merch Gwen wedi priodi, er's mis, gyda Richard Hughes, Taicochion, yn agos i Dalyfoel. Y maent yn dywedyd fod Miss Goodman, ei meistres, yn myned i'w phriodi gyda Mr. Massey.

Penrhos, 14th Oct. 1817.

Fy Nghyfaill hawddgar,

Dyma fi yn y fangre annuwiol hon, ac fe fu agos i mi ollwng dros gôf dynu llun yr Yspectol; ond yn rhywfodd, dyma ei llun yn lled drwsgl. Os medr Mr. Davies neu ryw *Optician* arall yrru i mi ddau lygad Spectol o'r un faintioli â'r llun isod, a'r *Focus* yn 10¼ modfedd, a'r gwydr yn lân ac yn loyw. [Yna ceir y darlun o'r Yspectol, gyda'r geiriau "10¼ inches focus, clear crystal glass," yn ysgrifenedig o fewn un o'r llygaid.]

Cofiwch fi yn eithaf caredig at Mr. D. Davies a Mr. G. O. Pugh. Nid oes dim amser i ddywedyd dim yn rhagor, ond yn unig fy mod, fel bob amser, yr eiddoch yn garedig,

J. W. PRICHARD.

You may send this letter along with your parcel to London.—J. W. P.

Plasybrain, y 6ed o Fehefin, 1818.

Fy Nghyfaill hoff ac anwyl,

Cefais lawer o ddifyrwch ac addysg yn eich cyfeillach, a phrawf o'ch mwynder er's mwy nag ugain mlynedd. Yr wyf weithon wedi myned yn hen ac yn lled afiach; a phan fo *un rhan* o fy mhabell mewn cywair lled weddol, bydd y *rhan arall* yn adfeilio; a hyn sydd genyf i ddywedyd trosof fy hun am na buaswn wedi dyfod cyn hyn i Dref Gybi i ymweled a'm cyfeillion sydd hoff genyf eu gweled, ac nid wyf yn ammau nad oes rhai o honynt a fyddai yn ddiddanwch ganddynt fy nghymdeithas

innau. Yr wyf agos er's wythnos, fel iâr orllyd, heb allu ymlwybran ond ychydig pellach na'r beudy a'r ysgubor; ond y mae hyn yn ddifyrwch ac yn ddywenydd mawr genyf, fod yn gallu cyfarch fy hen gyfeillion yn y modd hwn, pan nad allwyf ymddiddan â hwynt wyneb yn wyneb. Wele, fy nghyfaill anwyl, pa fodd, a sut y mae arnoch? Pa fodd sy ar eich gwraig a'ch plant? A pha fodd a pha ddelw sydd ar eich mam, a'ch brawd Owain? Ni bu dim cydnabyddiaeth ermoed rhyngof â'ch brawd Owain, ond mae yn hoff genyf bawb o'r gwehelyth, yr mwyn yr hen gydnabyddiaeth a'r cyfeillach a fu rhyngof â'ch tad* er pan oeddwn yn laslanc. Pa fodd hefyd y mae ar Mr. Griffith O. a'i dylwyth? Y mae ef a minau wedi hanu o'r un grifft. A rowch chwi genad i mi gyfarch y Capt. Evans? Mi anfonais y rhanau o'r Daearyddiaeth yn rhwym mewn papyr cryf i siop Mr. Richard Davies,† a gobeithio y deuant yna yn ddiwall. Pa lwyddiant a chynnydd sydd ar Ddarluniad Cymru a'r *Gazetteer*?

Dyma fi wedi cyfarch fy holl gyfeillion yn Nhref St. Cybi; yr wyf yn cyfrif ac yn cydnabod yn ddyledswydd arnaf eu coffa yn gyntaf peth. Ond y mae genyf chwedl arall i'w hadrodd i chwi, ar ddymuniad hen gyfaill i chwi ac i minau. Mi a wn eich bod yn cofio am Edward Williams, Glanrafon. Gwr yw efe goludog yn y byd, a hardd a diargyhoedd ei ymarweddiad tuag at bawb. Ond y mae Rhaglunia·th yn bresennol yn edrych yn lled wgus arno ef; y mae'n debyg i chwi glywed fod ei feistr tir ef wedi priodi yn ddiweddar gyda merch Mr. John Jones y Trellan, ac y mae'n rhaid i Edward Williams ymadael i gael lle i'r priodasfab a'r briodasferch ieuangc. Y mae E. Williams wedi clywed fod rhyw ddyryswch ar y tenant sydd yn bresennol yn y Penrhyn, Llanfwrog, ac nad ydyw dynion Pentrebwlw yn cael mo'r lle hwnw fel yr oeddid yn son y llynedd. Ni byddai ddim modd i Syr John Stanley gael gwell tenant. Y mae E. W. yn werth miloedd o bunnau, ac wedi prynu llawer o dir yn ddiweddar, ac yn ddyn tra synwyrol, yn trin ei dai a'i diroedd yn eithaf taclus a medrus; ac mewn gair, pe bai Syr John Stanley yn gweled yn dda osod y Penrhyn iddo ef, yr wyf yn sicr ddigon y gwnai efe sychu yr holl gorsydd a'r gweunydd gwlybion y rhai sydd yn perthyn i'r Penrhyn a'r Tywyn, ac y gwnai efe i'r tyddyn hwnw i edrych a golwg arall arno, a'r tai yn yr un modd, ac y byddai efe yn ddrych ac yn harddwch i'r holl gymydogaeth. Fe allai y gallwch chwi dybied fy mod yn dywedyd gormod am ddaioni a medrusrwydd fy nghyfaill E. Williams; ond gwybyddwch hyn, mai nid myfi yn unig a rydd iddo ef eirda a chlod fel hyn, ond y mae'r holl gymydogaeth yn tystio'r un peth.

Mi fum neithiwyr gyda Mr. Panton yn swpera, neu'n hytrach *cwynosa*. Yr oedd efe yn ymofyn â mi pa bryd yr oedd pobl Penrhos yn disgwyl Syr John Stanley i'w balas yng Nghybi. Minau a ddywedais nas gwyddwn i yn iawn; ond fy mod yn dysgwyl y deuai efe a'i dylwyth yno ar fyrder. Byddai yn dda genyf os byddwch cyn fwyned a chyfieithu yr hyn a ddywedais mewn perthynas i Edward Williams. I hope you will excuse me for writing the first part of this letter in the British language; it has been my study since I was a child; and to tell you my opinion in respect of the British and the English languages, though the English language is now cultivated since more than 100 years by the most learned and ingenious writers, still it contains very great and numerous irregularities, especially in the formation of the verbs. A very learned friend of mine‡ told me some time ago that he could speak and write the English, Latin, French, Greek, Hebrew, and Arabic: and that the English is the most irregular language that he knew of. He also said that the British is much more copious, expressive, bold and masculine, than either the French or the English. Now I am apprehensive that I have trespassed too much on your patience with my whimsical letter, but still I hope that you will give me leave to subscribe myself yours most truly,

J. W. PRICHARD.

Y mae pawb yma yn iach ond myfi fy hun. Y mae fy merch Catherine wedi bod yma o Boughton yn ymweled â ni; nis bu hi ddim yn y wlad er's tair blynedd. Mae hi wedi myned ar frys yn ei hol; hi ydyw pen-morwyn y Dr. Currie. Y mae fy merch Margaret yn Pool Hall, yn agos i Nantwich.

* Mr. John Roberts, neu Sion Rhobert Lewis, yr "Almanaciwr" a'r argraffydd o Fodedeyrn, ac wedi hyny Caergybi.

† Tad yr Aelod dros Sir Fon.

‡ The late Rev. Thomas Owen, rector of Scudamore in Wiltshire. He has been 35 years a Fellow in Jesus College, Oxford, and Professor of Arabic.—[Nodiad gan J. W. P.]

Yr wyf yn ofni nas gallaf ddyfod, er cymaint fy awydd, i'r Gymmanfa fawr yn Llanerchymedd; tra chwla ydwyf er's mwy na phythefnos; ond y mae fy llaw cyn ystwythed a chyn gyflymed yn ei gorchwyl ag ermoed. Cofiwch fi yn garedig at fy nghyfaill Mr. Richard Rowlands, Penrhos.

J. W. PRICHARD.

Plasybrain, 19 Awst, 1818.

Fy hen Gyfaill gwiwgof,

Mi a ddisgwyliais lawer am danoch yma nos Sadwrn, yn ol eich addewid, ac mi fum mor ffol a'ch disgwyl yma o'r Belomarisco, ond fe droes y naill ddisgwyliad yn ofer fel y llall. Bellach nid oes dim gobaith am eich gweled yn Mŵth y Brain byth mwyach, i gael ysgwyd llaw a chofio hen gofion gynt. Yr ydwyf fi fel iâr orllyd a f'ai yn eistedd ar wyau llygredig; ac er iddi eistedd tros yspaid ei thymp i'r wyau ddeor, eto nis bydd iddi y rhithyn lleiaf o obaith am gywion hyd oni thafler yr wyau llygredig tros y nyth ac ail ddodwy. Fy nghyfaill anwyl, nid annhebyg i hyn y byddaf finnau o ran fy addewidion ambell dro; rhoi addewid heb byth ei gofio hyd oni's dyger ar gôf i mi eilwaith; a da iawn gennyf os oes ganthoch chwithau well esgus am eich addewid. Mi 'sgrifenais lythyr o fewn y chwech wythnos a aeth heibio at Mr. Griffith Owen, i ofyn cymmwynas gantho tros nai tylawd ac amddifad sydd genyf, ond nis clywais i byth na siw na miw oddiwrtho. Digon gwir nad ydyw cleurach mal myfi yn werth diwyno cerpyn o bapyr i roddi i mi ateb. Unwaith yn ŵr, dwywaith yn faban. Darfu hyn, a thyma i chwi chwedl arall, nid o'm hachos fy hun, ond tros fy mrawd, Evan Williams, Bodwrog, a'i fab William, a briododd o fewn y dwy flynedd neu dair gyda merch i William Parry, Cefncaerfôr (neu yn hytrach Cefn Caer Ifor), ac nid oes ganddynt ddim lle i fyw; ac y mae'n debyg eich bod yn cofio fy mod yn son ryw amser a aeth heibio am Dre Gwehelydd; ond fe gipiodd Robert Hughes y lle y tro hwnw, megys rhwng fy nwylaw. Yr wyf yn deall fod y lle yn rhydd eto, a bod yn gorfod i Robert Hughes ymadael. Wele, fy hen gyfaill mwyn, a fyddwch chwi mor garedig a chymwynasgar a 'sgrifenu yn ddioedi at Syr J. T. Stanley cyn iddo ef ddyfod i'r wlad, i ofyn ei ffafr tros fy nai William, am Dre Gwehelydd. Y mae gan fy nai ddigon o feddianau i drin y tyddyn hwnw ei hun, ac y mae efe yn wr ieuangc gwybodus am drin tir, ac yn ddyn diwyd a gweithgar; ac y mae fy mrawd, Evan Williams, a William Parry yn addaw yr aent hwy ill deuoedd yn feichiau am yr ardreth, ac am drin y tir fel y bo addas yn mhob modd, ac am gadw y tai, y cloddiau, y ffosydd, a phob peth arall mewn cywair a threfn gymhwys yn mhob peth; ac yr wyf yn meddwl y bydd yn anhawdd i Syr John gael gwell tenant yn y wlad hon. Yr wyf yn ymbil arnoch, er mwyn hen gyfeillach a charedigrwydd, ysgrifenwch cyn gynted ag y bo modd at y gwr bonheddig, cyn y delo efe i'r wlad; a dywedwch wrtho ef yn y modd ag y 'sgrifenais innau yma, ac y mae'r cyfan yn wir diammheuaeth a ddywedais am dano ef. Gofynwch ryw amcan am yr ardreth y mae Syr John yn ei feddwl gael am y lle, &c., a gyrrwch eich atteb yma attaf fi fel hyn, cyn gynted ag y bo modd: J. W. Prichard, Plasybrain, care of Mr. R. Davies, Postmaster, Llangefni.

Dyma fi newydd dderbyn anferth o lythyr, a llonaid ei berfedd o newyddion o draw ac yma, peth yn Gymraeg a pheth yn Saesneg, a phwt o gerdd Seisnig yn achos Pont Porthaethwy a'r daroganau am dani o waith y Beirdd er's mwy na thri chan' mlynedd. Y mae efe wedi rhoi hanes go helaeth am rai manau ar derfyn y Menai. Y mae'r Llwyd yn bwriadu dyfod i'r wlad yma ar fyrder, ac i *Fwthybrain.* Y mae efe yn son er's dwy flynedd neu dair am gyhoeddi gwaith go fawr, a'i alw "A View from the Snowdon, with Historical Notes. By R. Llwyd, Bank Place, Chester." Rhaid tewi bellach. Henffych well, medd

J. W. PRICHARD.

Yr wyf yn erfyn arnoch yrru llythyr o atteb i John cyn gynted ag y medroch.

Bodedeyrn, Medi 13eg, 1819.

Fy Nghyfaill hawddgar,

Derbyniais eich llythyr o law Morys Williams, Plasgronwy; er nad ydoedd ond chwedl mewn tafarn, yr oedd yn llawer gwell genyf ei gael na "Chwedl blaen tafod." Mi a ddaethum i'r fangre hon i wrando ar Ustusiaid yr Heddwch yn ymdaeru â'r Tylodion, a minnau fel hen wrach â'm bys yn y browas. Mi a glywaf fod

Syr John Stanley yn y wlad; da iawn os daeth efe yma i wneuthur daioni. Y mae'n dda iawn gan bobl swydd Gaerlleon gael gwared o hono, fel y caffont seibiant tros ronyn. Yr wyf yn ofni nas gallaf gael gwerthu y *Coll Gwynfa;* y mae'r bobl yn dywedyd nas medrant mo'i ddeall yn ddim gwell na'ch *Ffrancwyseg*, neu iaith Coed Celyddon. Pe gallwn wneuthur cymmwynas i'm hen gyfaill G. O. Pugh, mi a'i gwnawn o wirfodd calon. Bu Rd. Llwyd, y Bardd o Gaerlleon Gawr, yn *Nythybrain* dridiau yn sgrifenu amryw bethau allan o Lyfrgrawn P. Panton. Y mae'r *Bardd Llwyd* yn bwriadu gwneuthur y *Beaumaris Bay* o newydd, a chwanegu llawer o bethau gwiwgof atto. Y mae gantho ef godaid lawn o bapyrau at y gwaith, a gafes efe wrth bysgotta yma ac acw. Y mae'r Bardd Llwyd yn edrych yn odiaethol, ac yn llawn ysmaldod. Ym mhell y bo eich llong dân, os hi sy'n peri fod eich llythyrau mor gwtta. Nid oes genyf finnau ddim amser i 'sgrifenu ond cettyn byr atoch, a dymuno eich llwyddiant a'ch gwraig. Yr eiddoch yn ffyddlawn tra bwyf,

J. W. PRICHARD.

Plasybrain, Hydref y 26ain, 1819.

Fy hen Gyfaill mwyn,

Wele, fy nghyfaill hawddgar, yr wyf yn teimlo swrn o hiraeth am gael eich gweled, ac ymddiddan â chwi o hwnt ac yng.* Mi a wn fod gennych lonaid côd o chwedlau erbyn hyn; y mae genyf finnau agos lonaid fy *nghrogloft* o ryw fân chwedlau blith draphlith ar draws eu gilydd, ac nis gwn i yn iawn pa chwedl sy barottaf i ymwthio allan; ond y mae'n debyg mai'r hon sydd newyddaf a nesaf i'r drws a ddaw allan yn flaenaf; a chyda'r gair dyma hi yn rhuthro allan, a chwi gewch chwithau damaid praw o honi, i edrych a ydyw hi yn werth gwneuthur sylw arni, ynte ei thaflu i gelloedd tywyll Anghof yn dragyfyth. Y mae cyfaill i mi a elwir John Roberts, gynt o Dŷ'nybuarth, wedi prynu tyddyn o dir a elwir Y Marian, ym mhlwyf Llanddeusant, ac y mae'r tyddyn hwnw yn terfynu ar ddau dyddyn o'r eiddo Syr J. T. Stanley; un o honynt a elwir *Mount Alaw*, a'r llall *Tafarn y Falog*. Y mae'r hen derfynau sydd rhyngddynt a'r Marian yn glawddiau pridd mawrion a phydron, ac yn troi yn gonglau ceimion yma ac acw, ac y mae hyny yn llawer o rwystr a cholled i'r sawl a fo yn berchen y tir o bob tu i'r terfynau. Y mae John Roberts yn barod *to make a line of give and take* between his property and Sir John's property, so that the land on each side of the line may be equivalent, and the said John Roberts will make a good strong stone wall on the said line at his own expense, provided Sir John Stanley will have the goodness to approve of the same. I know the places mentioned above since many years, and I am thoroughly convinced that such a *line of give and take* would be much to the interest of Sir John. I think that it would not be amiss to inform him about the proposed *line of give and take;* and then Sir John may send somebody there to see the place. Enough for that: what shall I say again? Mi a gefais lythyr yn ddiweddar oddiwrth ryw wr bonheddig yn Ipswich, yn dymuno cymmwynas genyf. Nis gwelais i mo'r gwr da erioed; y mae efe wedi ei 'sgrifenu mewn iaith ardderchog (os iaith y gellir galw y Saesoneg). Efe a hanyw gynt o wehelyth y Monwysiaid, ac o dylwyth arbenig hefyd. Nis gwn i eto yn iawn a fedraf fi wneuthur y gymmwynas iddo ef ai peidio; y mae efe yn addaw talu i mi yn llawn am fy nhrafferth.

Fe fu Rd. Llwyd o Gaerlleon yma, ac erbyn ei fod yn ol yn Nghaerlleon, yr oedd ei hen wreigan wedi myned heb yn wybod iddo ef i Lundain i roi ei harian yn y Bank. Llythyr a gefais i gan wr bonheddig o Lundain yn dywedyd hynny. Os byddwch yn 'sgrifenu at y Bardd Llwyd, da chwi, tewch a son am hyn. Er mwyn dyn, pa beth sydd gantboch i ddywedyd am fy arglwydd daearol, yr hwn sydd wedi dyfod yma i roi tro? Y mae rhai o wyr Lloegr yn ei ddwrdio yn dost, yn achos y cythryfwl a'r lladdfa a fu yn ddiweddar yn Lloegr.

Mi a welais *Drial R. Carlile;* ac yr oedd yn dda gan fy nghalon fod y *jury* wedi ei gael ef yn euog o gabledd yn erbyn Duw, a Iesu Grist, a'r Ysgrythyr Lân. Fe allai y bydd hyn yn foddion i luddias eraill i ganlyn ei lwybrau cableddus, ac y daw rhyw un ffyddlon a zelog tros Dduw a'i achos, ac a fydd yn foddion i daflu gwarth a chywilydd ar y fath ddynion annuwiol, fel na chodont byth mwy eu pennau. Er mwyn cariad, pa fodd y mae eich gwraig? a'r tylwyth mân? Y mae arnaf hiraeth am ddyfod i Gybi; ond ofni yr wyf nas caf gennad i ddyfod yna byth gan fy hên elyn,

* Draw ac yma.

PESWCH. Y mae Peswch o'r diwedd, wrth hir a dyfal guro arnaf, wedi gwneuthur fy ymysgaroedd oddi mewn yn friwedig; ac y mae arnaf ofn y Gauaf sy'n dyfod yn fwy na gwr a chleddyf. Da chwi gyrrwch ryw ateb yn fuan. Yr eiddoch tros fyth,

J. W. PRISIART.

Plasybrain, Ebrill y 3ydd, 1822.

Fy Nghyfaill mynwesol,
Doe y derbyniais eich

"Cettyn o lythyr cwtta
O sain deg a synwyr da."

Y wawch fawr! Gwae, gwae! holl feirdd a phastyn-feirdd Eryri! Fe dorwyd asgwrn cefn pob un o honynt; ac fe syrthiodd eu harglwydd a'u prif-athraw i ryw *ffrwd o ddwfr* rhwng Pentir a Llanrug, ac efe a foddodd yno fel Malwoden dawdd; ac felly y darfu *Awen Dafydd Ddu Fardd* mewn dwfr oer, wedi iddo ef roi eithaf cynnyg i daflu ei hun i safn Angeu lawer gwaith â llonaid ei safn o ddyfroedd poethion; ond dwfr oer a wnaeth y tro. Bellach, hyf atti, Feirdd Eryri, i wneuthur Galarnad ar ol eu tad, a'r goreu o honynt y mwyaf ei gelwydd.

Yr oeddwn wedi clywed rhyw achlyst eich bod yn bwriadu myned at y Llundeinwys i roi tro yn eu mysg; ond ni chefais ddim hyspysrwydd am yr amser, hyd oni dderbyniais eich llythyr a 'sgrifenwyd y 19eg o Fawrth. Pe buaswn yn gwybod eich meddwl yn gynt, buaswn yn dymuno arnoch arwedd cerpyn o lythyr o'r eiddof at Mr. David Davies, yr *Optician*, i ddymuno cymmwynas fechan gantho ef. Y mae arnaf eisieu pedwar o lygadau gwydr, yr un faintioli bob un, a'u *focus*, neu gyd-darawiad pelydrau y goleuni, yn naw modfedd. Chwi a gewch weled maint a llun y gwydrau ar frig y ddalen yn yr wyneb arall i'r ddalen: ac mi a fyddaf yn dra rhwymedig i Mr. Davies os gwna efe yrru y gwydrau yn y modd y soniais, ac yn y llun a'r maint fel y gwelwch ar yr wyneb arall i'r ddalen, a'u rhoi gyda chwi pan fyddwch yn dychwelyd adref i Fon; ac yr wyf yn dymuno hefyd ar Mr. Davies yrru gwydrau gwynion, glân, a difrycheulyd; tebyg i'r gwydrau a gefais gantho ef bump neu chwech blynedd yn ol gyda Mr. John Elias. Digon am hynyna.

Weithian, mi a adroddaf i Mr. Davies ryw swrn o'm hanes fy hun—fel y mae Mr. *Henaint* wedi dyfod i fy hen babell, ac er llesged a methianted *ymlusgiad* ydyw, y mae ef wedi troi Mr. *Ieuengctyd* tros yr rhiniog, er siongced a dewred ydoedd efe; ac y mae Mr. *Henaint* hefyd wedi cael cymaint awdurdod arno ef fel na's meiddia efe gynnyg dyfod byth mwyach tros drothwy fy *nghaban*.

Yr wyf yn deall fod Mr. *Henaint* yn ymlusgo attoch chwithau i Balasau gorwychion Llundain, a'i fod ef yn ymlusgo yn araf deg at Siôr y IV.; ac y mae yn beth tra rhyfedd gennyf fi na buasai rhai o swyddogion *Henaint* ac *Angau* wedi rhoi ôl eu crafangau yn ei dalcen cyn hyn. Po uchaf y tafler maen, ïe, pe bai yn faen mynor, cyflymaf a syrthaf fydd ei gwymp. Digon o'r chwedl yna. Pa beth meddwch? Ai nid ydyw y Seneddwyr wedi ynfydu wrth ymdaeru yn achos y wasgfa sydd weithon ar yr holl Deyrnas? Onid ydyw mor amlwg â haul hâf mai'r gwyr mawrion eu hunain yw yr achos, am na baent yn gostwng Ardrethion eu Tiroedd? Pe gwnant hwy hynny, fe adfywiai y byd eto fel cynt, ac fe fyddai byw ac awch newydd gan holl lafurwyr y ddaear; ac fe fyddent fel y gwenyn ym mis Mai a Mihefin (ar ol goddef oerfel Gauaf llwm), yn chwareu yn y tês, ac yn casglu mêl erbyn ail Auaf.

Mi a 'sgrifenais lythyr er's chwech wythnos bellach at Mr. Davies, *Optician*, ac mi a yrrais y llythyr hwnw gyda nai i mi sydd yn perthyn i long o'r Beaumaris; ond yr wyf yn tybio na ddaeth efe ddim hyd yna etto. Pa fodd bynag am hynny, dyma y cerpyn hwn o'r eiddof, yn cychwyn ar ei neges i fynegi i chwi fy mod yn eich annerch chwi a Mr. Davies, a Mr. G. Owen Pughe, ac yn dymuno eich llwyddiant o eigion fy nghalon. Dymunaf arnoch dalu i Mr. Davies am y gwydrau, a minnau a dalaf i chwithau, ac a fyddaf yn dra rhwymedig i chwi am eich mwynder. Mi a dalaf y *postage* i chwi am y llythyr hwn hefyd. Cofiwch mai pedwar llygad yspectol, yn union yr un faint a'r llun hwn; ac yr wyf yn dymuno yn fawr ar Mr. Davies roi y gwydr gwynaf, glanaf, a mwyaf difrychau a fyddo gantho ef. Mi wyf yr eiddoch o eigion fy nghalon,

J. W. PRISIART.

Nid oes dim eisiau palfau *(frames)*, dim ond y gwydrau yn unig.

[Rhoddir llun llygad yr yspectol ar "frig y ddalen," ac o'i fewn, "Nine inches *focus*, pedwar o'r un faint;" a chyfeirir y llythyr at "Mr. Robt. Roberts, at Mr. David Davies, Optician, No. 8, Macclesfield Street, Soho, London.]

Nyth y Brain, Mai y 3ydd, 1822.

Fy hen Gyfaill mwyn,

Do, mi a dderbyniais y gwydrau yn ddiwall o ddwylaw Mr. Humphreys y cludydd Llyfrau, ac mi a delais iddo ef 4s. am danynt, fel y soniasoch yn eich cerdyn. Dyiolwch i chwi am eich mwynder a'ch trafferth yn eu ceisio. Ond dim son un gair am Gampiau'r Llundeinwys. Yr wyf yn deall fod Iolo Morganwg a Gwilym Owain Pughe wedi syrthio allan a'u gilydd; ni soniodd Davies wyllt un gair pa peth ydoedd yr achos iddynt sorri. Buasai yn dda i Mr. G. O. Pughe pe na's gwelsai erioed wyneb Iolyn; dyn ar ddrygau bob amser, ac yn dyfeisio rhyw gelwyddau i geisio twyllo'r byd, ac wrth hynny, nid yn unig tynu dirmyg a gwaradwydd arno ei hun, ond fe barodd lawer o ddirmyg ac anfri ar enw Mr. G. O. P. Coh fi! Duw a'n gwaredo rhag syrthio i rwyd y cyfryw *Anghenfil*. Y mae P. Panton wedi cychwyn er y boreu Llun diweddaf rhyngtho a Llundain; y mae ef yn hynod o wael yn ei iechyd; braidd yr oedd yn gallu ymsythu i gerdded, nac ychwaith na bwytta nac yfed ond ychydig. Nid oes o hono ef ddim yn unig ond y croen am yr esgyrn. Y mae ei ddwy chwaer wedi cychwyn gydag ef; ond nid ydynt hwy yn myned yn ddim pellach na thŷ Mr. Panton Corbet, yn agos i'r Mwythig. Ni's gwn i amcan pa bryd y gallaf ddyfod i roi tro i Gybi. Mi welais Mr. Brown eich Pen Saer Maen, ddydd Mawrth diweddaf yn Llwydiarth Esgob. Mi fum yn ymofyn am danoch chwi a'r Capt. Evans, ac efe a ddywedodd eich bod ych deuoedd yn iach, a Mr. Gr. Owen yr un modd. Och fi! a oes dim modd cael hanes gwyr Llundain heb ddyfod i'w geisio i Gybi? Cofiwch fi yn garedig at Mrs. Roberts a'ch mam, Mr. Gr. Owen a'i wraig, ac eraill a'm caro. Mi wyf yr eiddoch yn ddiffuant tra bwyf,

J. W. Prichard.

Mi a welaf eich bod wedi agor eich ysgol erbyn hyn; dymunaf lawer o elw a llwyddiant i chwi ar y gorchwyl, ac yr un ffunud, dymunaf fod eich ysgol yn lles ac yn fendith i'r wlad yn gyffredin. Henffych well! Lled besychlyd ydwyf a chwla yn aml; ond er bod yn gwla ac yn egwan, nis daw Angau ddim heb ei gennad gan Dduw.

III.

Heblaw y llythyrau uchod oddiwrth Mr. J. W. Prichard, yr oedd yn sypyn papyrau Mr. Robert Roberts rai llythyrau eraill hefyd ag y teimlai ein darllenwyr mae yn ddiammeu eu bod o lawer gormod ddyddordeb i'w gollwng i golli. Mae y llythyr canlynol wedi ei ysgrifenu gan y Parch. Thomas Charles, Bala; nid oes dyddiad iddo, ond mae yn amlwg ei fod wedi ei ysgrifenu pan oedd y *Geiriadur* yn cael ei barotoi i'r wasg, ac y mae yn newydd ac yn hyfrydwch mawr i ni ddeall fod Mr. Charles gyda'r amcan hwnw yn cymeryd mantais ar wasanaeth gwerthfawr Mr. Robert Roberts. Y mae y llythyr wedi ei gyfeirio, yn llaw glir, brydferth Mr. Charles, at "Mr. Robert Roberts, at his Academy, Holyhead, Anglesey." Y mae y ffigyr "11" ar wyneb y llythyr; a ydyw hyny yn golygu fod awdwr y Daearyddiaeth wedi gorfod talu un geiniog ar ddeg am ei gludo?

Dear Sir,

I should have replied to your kind letter sooner, had I not expected to hear from Taylor respecting the publication of the last part of Wells Geography, in which he informed he intended to be accompanied with some New Maps tending to illustrate Sacred Geography. But I have waited in vain; I have not as yet heard from him. Perhaps he expected me in town to attend the annual meetings of the different religious societies. I have written a second letter, in which I requested an immediate answer. I fall in with your idea of a Map of the Land of Canaan, and of the Journey of the Israelites, in one; and a small representation of Jerusalem and its

environs in a corner. I wish to have this first executed for the second Vol. of the Geiriadur, and the other map, which you say you have begun, would do very well for the Third Vol., and complete all the Maps I shall want. Perhaps in the last Map you could give some mark of the probable situation of the country of Eden, Ararat, &c. In drawing each Map I wish you will have the goodness to keep in view the illustration of Sacred History more than profane, and to have Scripture names inserted, and not the present names the different places have obtained, as my principal view is to illustrate the Sacred writings. I hope to see you in June, and to bring with me all the helps I have in possession: and perhaps before then I shall have received Taylor's last part of Wells. Besides Maps, many plates, representing different objects would have been desirable, as they would assist the mind much to form an accurate idea of objects described in the Sacred writings, besides other subjects in Anatomy, natural Philosophy—such as the revolution of the first and Secondary Planets, &c., subjects which I am prevented from *enlarging* upon for want of plates to represent them; and what I have written I fear will be hardly intelligible for the same reason. For instance I attempt under the word Lleuad to give an account of the revolution of that upon its own axis—round the earth—and accompanying the earth round the Sun, and that the same face is presented to us at all times notwithstanding. A plate would have made all this quite intelligible—more so than the most accurate description possibly could. I hardly know how to deny myself the pleasure of presenting them with a representation of this, and another representing the revolutions of the Planets round the Sun. Without this it seems to me I only talk in the dark and make them stare: but I wish to enlighten them in these things, that they may admire and adore the Creator in his works. If an additional 6d. was advanced in the price of *one* part in a Vol., I could do it without any loss. By their advancement in all useful knowledge, I wish to exalt them in the scale of existence both in this world and the next.—I am, dear sir, faithfully yours,

THOS. CHARLES.

I shall be at all times glad to hear from you—the Mail now comes every day thro' Corwen.

## Y mae yn eu plith hefyd ddau lythyr oddiwrth y Dr. W. O. PUGHE.

Tanygyrt, gerllaw Dinbych, Gorph. 2ed, 1809.

Fy Nghyfaill caredig,

Diolch i chwi am eich llythyr yr hwn oeddwn yn hir ddisgwyl am dano ac er ys misoedd yn arofyn, fel chwithau, ysgrifenu, ond yr amser a ymlithrodd heibio hyd yn hyn. Chwi welwch uchod nad yw ein trigfan mwy yn Ninbych. Daethom yma ddiwedd Mawrth, a bum yn llawn trafferthion yn taclu rhyw hen dŷ yma fal y caffem le diddos. Yr ydym y dyddiau hyn ar ein cynhauaf gwair, yn mhlith eraill rwystrau, ac felly ni wiw son am wlad Mon mwy, nes delo rhyw adeg mwy cyfaddas nag eich toriad ar dymhor eich athrofa canol haf. Ond hwyrach y gallwch chwi ymweled â ni yma? Mae yma le i chwi letya yn ein bythyn, a gwych fyddai eich gweled. Wfft i'r Monwysion ac i'r Arfonwysion! Ni ddaeth y cloron a soniasoch am danynt ddiwedd y flwyddyn a aeth heibio byth i ben eu taith, er i mi roddi cyfarwyddyd eglur, a danfon hefyd i Lundain . . . .* a holi am y cloron: ond ni lwyddodd dim. Da y newydd, fal y dywedwch y mae eich athrofa yn hylwyddaw; a gwych fyddai genyf allu dawed i weled eich cydwedd a chwithau yn eich llawn gorchwyl yn ei chylch—ac y mae blys er ys talm ar fy nghydwedd sâl am ddawed i weled eich tref, a chwithau a'r eiddoch.

Go ysmala eich gofyniad ai goleuach yn awr y gellir gweled cyflawniad galwedigaeth Joanna. Mae yn hawdd i mi ofyn hyn trwy ofyn i chwithau—*ai goleuach ydoedd i'r Iuddewon digred ymddangosiad cyntaf y Messiah, pan oedd eu dinas yn llosgi yn eu hamgylch* NAG *yn nechreuad ei wyrthiau yn eu plith?* Ac am y Bwystfil, ai na wyddoch fod yn rhaid iddo dderbyn ei "friw marwawl," ac yno ei iachau,

* Y papyr yn rhy ddryllied ig i wneyd y geiriau allan.

fal y bydd raid i'r byd ryfeddu, a gweiddi "Pwy all ryfela yn erbyn y bwystfil;" ac yn llyfrau I. dywedir rhaid dechreu tori yn fyr ei fwysg cyn y daw barnedigaethau trymion ar y wlad hon. Ond rhaid i mi ddiweddu gan fy mod yn gorfod anfon i'r *post* yn ddiatreg. Cofiwch fi a fy nghydwedd at Mrs. Mary Roberts mewn caredigrwydd. Byddwch wych!

GWILYM OWAIN.

D. Sadwrn, Myh. 13ed, 1818.

Fy Nghyfaill,

Dyma ni, sef Mr. T. Roberts, Mr. Sol. Jones, Mr. Evans, Mr. H. Jones, Mr. D. Davies, a W. O. P. yn nhŷ D. D., newydd ddychwelyd oddiwrth Syr W. W. Wynn. Derbyniodd ni gyda mwyneidd-dra, ond dywedai mai gwirion fyddai son am y cenadwri i neb heb rhyw sail i ddangos iddynt achosion i roi coel, a hyny o hanesion y dyddiau hyn. Gwnaeth goffawdwriaeth am ddau neu dri a soniasom am danynt, ac addawsom yru iddo yr hanesion yn helaeth ond yn fyr. Crybwyllodd i mi y gallai Mr. Southey, y *Poet Laureate*, cynnorthwyaw yr achos yn fawr, a dywedodd mai da i mi ysgrifenu ato, ac y gallwn wneyd achaws o'i enw. Gallwn alw eto tua diwedd y flwyddyn, ar ol cael yr hanesion yn cryno. Ac os gwela achaws o'i goeliaw, y rhoddai ef bob cynnorthwy, ac nis amheuai y gellid codi llawer o arian i gyflawni y dybenion. Na soniwch am enw Syr Watkin, bydd yn enbyd hyny yn y rhan hyn o'r yrfa, rhag ei ddigiaw. Mae y cyfeillion uchod yn eich annerch. Minnau hefyd at Mr. T. Charles ac ei wraig—hefyd Mr. D. Charles gan obeithiaw ei fod wedi hybu. Byddwch wych.

W. OWEN PUGHE.

Mae y llythyr uchod wedi ei gyfeirio at "Mr. R. Roberts o Gaer Cybi, to the care of Mr. T. Charles, Bala."

Mae y llythyr canlynol wedi ei anfon at "Mr. Robt. Roberts, at the School, Holyhead, Anglesea." Dengys yr awyddfryd a deimlai y boneddwr a'i hysgrifenodd am wybod ychydig o helynt y gwaith crefyddol oedd y pryd hyny yn cael ei ddwyn ymlaen gyda'r fath rym yn Nghymru.

12, Grove Place, Camden Town, London,
Jan. 13th, 1815.

My dear Sir,

I take the earliest opportunity of thanking you for your obliging communication. I have not yet had the pleasure of seeing Mr. Pughe, but I shall immediately call upon Mr. Davies that I may be introduced to him. I am extremely interested on the subject of the religious sects in Wales, and I feel convinced that you will excuse my requesting you to favour me with a little fuller information. You say that the Calvinists have, in their Summer Association, from 12,000 to 18,000 hearers; do you mean that this is the whole number of that sect throughout the Principality, or that as many ever meet in one body, to hear the discourse of one, two, or more Preachers in one field? Can you form any conjecture as to the number of Methodists of all persuasions in Wales? You tell me that when listening to very pathetic sermons, some hearers are occasionally transported by a temporary frenzy. Can you tell me what particular subject a preacher dwells on when he produces such extraordinary effects?—is it a warm picture of the glory of the life to come, or is it not an emphatical demonstration of the actual and the particular presence of the Deity among his congregation; does he not give them to believe that the very spirit of Christ is transfused into their bosoms; and are not all their raptures to be attributed to this supposed inspiration? Are the sermons which are preached on the great annual meetings of a character peculiarly animated? do they advert particularly to the increasing numbers of the sects, and exhort to the labour of a still more extended conversion? Has any particular instance ever fallen under your own observation of any sudden reformation of morals and life by conversion to Methodism?—and can you tell me what are the feelings which the people are con-

scious of when under the influence of those powerful stimulants which urge them to jump, roam about, &c.? I feel quite ashamed at the trouble I am giving you, but I trust that you will excuse it. Excuse too my taking the liberty to request that you will favour me with an answer as early as possible. I shall write to you to let you know the result of my communication with Mr. Pughe, and hope in the course of my excursions to be once again at Holyhead, to thank you personally for your kindness.

I remain, dear Sir, yours very sincerely,

RICHARD AYTON.

IV.

Yn yr un sypyn o bapyrau Mr. Robert Roberts, yr oedd "Rhif. 6" o "*Eurgrawn Môn*, neu Drysorfa Hanesyddawl, 30, Mehefin, 1825, gwerth 4½c. Caergybi, argraffwyd a chyhoeddwyd gan R. Roberts, ac ar werth gan Ddosbarthwyr y Mynegai Daearyddol ym mhrif drefydd Cymru; hefyd Llundain, Liverpool, Manchester, Amwythig, Dublin, &c., &c." Dywedir ar ei wynebddalen: "Rhoddir ar glawr y nesaf enwau Dosbarthwyr yr Eurgrawn hwn yn Llundain, Llêrpwll, Caer, Amwythig, Dublin, a threfydd a phentrefi Cymru." Ar gefn y Rhifyn hwn dywedir: "Bydd yr ail rifyn o'r Mynegai Daearyddol yn cael ei gyhoeddi gyda'r rhifyn nesaf o Eurgrawn Môn." Ac fel hysbysiadau islaw hyny sonir am "Gynnygiad i argraffu Traethawd ar Beroriaeth, &c., gan John Evans, Athraw Ysgol, yn Rhuddlan, Swydd Fflint;" a dywedir y "Cynnelir Cymanfa flynyddawl yr ANYMDDIBYNWYR yn Amlwch, ar y Mercher a Iau, y 27 a'r 28 o Gorphenaf.—Mawrth a Mercher canlynol, sef y 2 a'r 3 o Awst, bydd Cyfarfod Cenhadawl yn y Tabernacle, Caergybi, y fath na bu yn Môn erioed o'r blaen. Dysgwylir llawer o Weinidogion dieithr o Gymru a Lloegr iddo." Nid oeddem ni wedi dygwydd gweled yr un rhifyn o *Eurgrawn Môn* o'r blaen. Y mae o'r un blyg â'r TRAETHODYDD, ac yn 24 o du dalenau, a diammeu mai Robert Roberts oedd ei olygydd. Cynnwysa hwn—Bywgraffiad y Llywydd James Wolfe, Mordaith Syr Francis Drake, Tremau Sywedyddawl Gorphenaf, Cofion y flwyddyn 1765—6, George III., Senedd Ymherhodrol, Erledigaeth yn Barbadoes, Pont Llundain Newydd, Hynt i'r Niger, Atebion y gofyniadau, Gofyniadau, Barddoniaeth, Newyddion Tramor—Groeg, Ywerddon, &c., Amrywiaethau pellenig a chartrefol, Cylchdeithiau Haf 1825, Dienhyddiad Probert, Hen enwau Caerau a Threfydd Cymru, Ffraethineb, Marchnadoedd, Geni, priodi, a marw. O'r pethau uchod, y mae dau ag y carai ein darllenwyr eu gweled. Un ydyw, hen ysgrif: "Hanes hen ŵr a fu yn byw yn Nhregauan, Môn; allan o ysgrif yn meddiant Mr. William Owen o Ddronwy, Llanfachreth, Môn:"—

Ar yr unfed dydd ar ddeg o fis Mawrth, 1581, yn y bedwaredd flwyddyn ar hugain o deyrnasiad y Frenhines Elizabeth, o dragywyddol goffadwriaeth, yn mhlwyf Tregauan, yn Sir Fon, bu farw gwr a elwid William Dafydd ap Hywel, ap Iorwerth, yn gant a phump mlwydd oed, yr hwn a briododd dair gwraig. Y gyntaf a elwid Ellin ferch William, o ba un efe a genhedlodd 22ain o blant. A'i ail wraig ef a elwid Catherine ferch Richard, o ba un efe a genhedlodd ddeg o blant. A'i drydedd wraig ef a alwyd Ellinor ferch William, o ba un efe a genhedlodd bedwar o blant.

Fe fu ganddo yn ei amser ddwy orddercbwraig, y gyntaf oedd Jonet ferch William, o hono fe genhedlodd ddau o blant. Enw yr ail oedd Leicky Lloyd, o hono fe genhedlodd bump o blant.

**Rhifedi ei blant ef a anwyd mewn gwely priodas oedd 36ain, a chan ei ordderch-wragedd 7 o blant; i gyd yn 43ain.**

Ei fab hynaf ef oedd Gruffudd ap William, yr hwn oedd 84ain oed, a chanddo blant, a phlant i'w blant lawer o rifedi. Hefyd ei fab ieuengaf a elwid Gruffudd ap William, oedd yn byw yn mhlwyf Tregauan, yn ddwy flwydd oed, ac yr oedd y ddau yn nghynhebrwng eu tad.

Ei ferch henaf a elwid Alis ferch William, a fu fyw yn 73ain mlwydd oed, a chanddi blant, a phlant i'w phlant lawer o rifedi.

Yr oedd yn fyw yn mhlwyf Tregauan yr amser hwnw, fwy na 80ain o bobl o genedl y gwr hwnw ei hun. Yr oedd plant a phlant i'w plant o genhedlaeth y gwr hwnw dros dri chant o rifedi yn Sir Fon.

Y William Dafydd ap Howel ap Iorwerth oedd wr bychan o faintioli, o natur gref, ac yn anaml yn cael ei flino gan y colic na'r gareg, ac yn cymeryd lluniaeth cymhedrol, ac yn byw wrth hwsmonaeth, yn cymeryd ei ddifyrwch wrth bysgota a ffowla; yr oedd ei olwg, ei gof, ei ddealltwriaeth, ynghyda'i synhwyrau eraill yn gwbl berffaith gantho hyd ddydd ei farwolaeth.

Ei ferch henaf ef, Alis ferch William, oedd fam i Elizabeth Thomas, o'r Coedane, a mam Catherine Dafydd, gwraig Rowland John ap Huw o Fodwigan, a hono oedd fam John Rowland, yr hwn a gadwodd ysgol yn Llangeinwen, a hono oedd fam William Rowland, tad John Williams o Fodwigan, yr hwn a fu farw Ebrill y 13eg, 1723, yn mysg y deg ar hugain o rai eraill a fuont feirw pan collodd cwch ar draethau Talyfoel.

Gwych pe gallesid anfon William Dafydd ap Howel ap Iorwerth i boblogi gwlad anghyfanedd!

Y dyfyniad arall a ddymunem wneyd o'r *Eurgrawn* ydyw "Englynion i anerch Eurgrawn Mon," gan Gwilym Hiraethog. Yr oedd efe, 58 o flynyddoedd yn ol, yn fardd addfed. Hir yr arbeder ef i ni eto.*

Croesaw yn ddidaw ddodwn,—yt Eurgrawn,
Wyt argraff a garwn:
Deuwch feirdd prid yn ddidwn,
Eirian hael, ac eurwn hwn.

Heb ball y gesyd allan,—hanesion
Hen oesoedd yn gyfan;
Ynddo, 'n ol ei lunio 'n lân,
Y darllenwn droell anian.

Gwir chwilia 'r goruchelion,—e reda
Drwy rodau sêr gloywon:
Lled a maith hyd Gaergwydion,
Fe 'u trafod, mae 'n syndod son!

Drwy fydoedd dirifedi,—e'n harwain,
Yn hyrwydd heb oedi;
Rhif a rhestr ffenestri,
Dorau nef, o'n Daear ni.

Llanw a thrai, llun a threfn—ymwriawg,
Y moroedd a'u cylchdrefn;
Ceir iawn draith o'u cywreindrefn,
A chaf eu henwau drachefn.

Caspin, Apperion, a'r Po—yn fanwl
E fyn eu holrheinio:
Buan traidd ein byd trwyddo,
Ei chwilio fyn a'i chwalu fo.

Ha! Ha! hen Walia wiwlon,—o'r t'w'llwch
A'r tyllau cwyd weithion;
E dorodd gwawr yr awrhon,
Ar ein gwlad o rad yr Ion.

* Tra yr oedd y geiriau uchod yn cael eu cysodi, dyma y newydd pruddaidd yn ein cyrhaedd fod y tywysog a'r gŵr mawr hwn hefyd wedi huno!

# CONNOP THIRLWALL A'I GYSYLLTIADAU CYMREIG.

*Essays, Speeches and Sermons.* By CONNOP THIRLWALL, D.D., *Late Lord Bishop of St. David's.* Edited by J. J. STEWART PEROWNE, D.D. London: Richard Bentley & Son. 1880.

*Letters, Literary and Theological, of* CONNOP THIRLWALL, *Late Lord Bishop of St. David's.* Edited by the Rev. J. J. STEWART PEROWNE, D.D., Dean of Peterborough, and the Rev. LOUIS STOKES, B.A., Corpus Christi College, Cambridge. With Annotations and Preliminary Memoirs, by the Rev. LOUIS STOKES. London: Richard Bentley & Son. 1881.

*Letters to a Friend.* By CONNOP THIRLWALL, *late Lord Bishop of St. David's.* Edited by the Very Rev. ARTHUR PENRHYN STANLEY, D.D., Dean of Westminster. New Edition. London: Richard Bentley & Son. 1882.

*Bishop Thirlwall.* The Church Quarterly Review. (Spottiswoode and Co.) April, 1883.

O'R gwŷr enwog sydd, o bryd i bryd, wedi llenwi cadeiriau esgobawl Eglwys Loegr, nid oes ond ychydig a ddaliant i'w cymharu, o ran eangder a chyffredinolrwydd eu cyrhaeddiadau â'r gŵr sydd yn destun hyn o ysgrif. Nid yn unig yr oedd Connop Thirlwall yn oleuad o'r dysgleiriaf yn yr Eglwys y perthynai iddi, ond hefyd cyfrifid ef gan rai cymhwys i farnu yn un o brif arweinwyr meddyliol ei oes. Fel Esgob, cyfyngid ei alluoedd i gylch eglwysig cymhariaethol fychan; ond fel llenor ac ysgolhaig, ymestynai ei ddylanwad trwy bob rhan o'r byd deallol. Ar lawer o gyfrifon safai yn hollol ar ei ben ei hun. Wrth ystyried hyn, fe ymddengys yn fater o syndod nad oes cymaint ag un bywgraffiad cyflawn a theilwng o hono i'w gael yn yr iaith Saesoneg, a hyny er fod bellach dros wyth mlynedd wedi myned heibio er pan hunodd yn yr angeu. Yn y rhestr a ragflaena hyn o nodiadau, fe welir fod o leiaf dri o bersonau wedi ymgymeryd â'r gorchwyl o drefnu a golygu cyfran o'i weithiau, ac o ychwanegu atynt yr ychydig fanylion angenrheidiol er eu hegluro. O'r tri wŷr hyn yr oedd dau, sef Deon Perowne a'r diweddar Deon Stanley, wedi bod yn dal perthynas mor agos â'r Esgob Thirlwall, fel y gallesid dysgwyl i briodoldeb y gymwynas o gadw yn fyw (mewn ystyr fywgraffiadol) goffadwriaeth eu cyfaill ymadawedig ymgynnyg i'w sylw. Ond oddigerth rhagymadrodd tra dyddorol, ond hynod fyr, gan Deon Perowne, cyd-gordeddiad ychydig o ffeithiau bywgraffyddol er mwyn egluro cysylltiad y llythyrau gan Mr. Stokes, a rhan o'r bregeth angladdol a draddodwyd yn Westminster Abbey gan Deon Stanley, nid oes yn y cyfrolau a nodwyd ddim tu allan i weithiau y gwrthddrych ei hun a'n cynnorthwya i ffurfio barn am dano ac i ddyfod i gydnabyddiaeth agosach âg ef. Hyd yr ydym yn gwybod, nid oes yr un ymgais wedi ei wneuthur yn yr iaith Gymraeg i gyflenwi y diffyg. Ymddangosodd dwy ysgrif alluog ar Gynghorion a

Phregethau Cymreig yr Esgob yn y TRAETHODYDD am y flwyddyn 1879, a chafwyd amryw erthyglau arno o wahanol gyfeiriadau mewn cyfnodolion eraill, ond ysgrifenwyd y rhan fwyaf o honynt cyn i dor-aeth gweddillion llenyddol Connop Thirlwall ddyfod allan o'r wasg. Rhydd cyhoeddiad y rhai hyn, yn enwedig y Llythyrau, fantais i ni i alw sylw at rai agweddau ar fywyd a chymeriad Thirlwall nad oeddynt o'r blaen mor adnabyddus i'r byd. "Mae bywyd y Gorphenol," medd Syr Henry Taylor, "yn parhâu mewn llythyrau yn fwy nag mewn un math arall o gofnodion; ac er i haneswyr gymeryd cyfrif manwl o hon-ynt i gyfleu gwybodaeth a chadarnhâu ffeithiau, nis gall unrhyw hanes adfywiocâu yr amser yr ysgrifenir yn ei gylch fel y llythyrau eu hun-ain." Yr hyn sydd wir am y gorphenol yn ei gyfanswm, sydd yr un mor wir am orphenol pob person unigol a wnaeth ei lythyrau yn rhan o hono ei hun ac o hanes ei oes. Gyda golwg ar wrthddrych ein hysgrif, cydnabyddid yn gyffredinol yr ochr feddyliol i'w gymeriad, a gwneid pob cyfiawnder â'r galluoedd anghymharol oedd yn eiddo iddo. Fel duwinydd, dadleuydd, athronydd, a hanesydd, ennillodd a chadwodd safle uchel yn marn y byd. Ond yr oedd ochr arall i'w gymeriad, ac un lawn mor bwysig, na adnabyddid ond gan ychydig o'i gyfeillion agosaf, ochr a ddangosai gynhesrwydd serchiadau, dyfnder cydym-deimlad, a thynerwch calon nad oeddynt bob amser yn weledig yn ei fywyd cyhoeddus. Ymwneyd â chongl fechan o'r ochr hon o'i gymer-iad gaiff fod ein hamcan yn bresennol.

Cyn myned ymlaen yn y cyfeiriad a awgrymwyd, ceisiwn roddi bras-lun o hanes bywyd Connop Thirlwall, fel y gallom yn fwy rhwydd ymgydnabyddu âg awdwr y Llythyrau y bwriadwn ddyfynu o honynt. Mab ydoedd i'r Parch. Thomas Thirlwall, gweinidog Tavistock Chapel, Longacre, wedi hyny pregethwr yn Eglwys St. Dunstan, Stepney, periglor Bowers-Gifford, Swydd Essex, a chaplan i'r enwog Thomas Percy, Arglwydd Esgob Dromore, a golygydd y *Reliques of Ancient English Poetry.* Hanai ei fam o deulu Cymreig; ond yr oll a wyddys am dani ydyw tystiolaeth ei gŵr ei bod yn wraig "dduwiol a rhin-weddol, awyddus i hyrwyddo llwyddiant ei phlant yn dymmorol ac yn ysbrydol." Bu fyw yn ddigon hir i weled ei thrydydd mab wedi esgyn i'r gadair Esgobol. Ganwyd Connop ar yr 11eg o Chwefror, 1797, yn y rhan ddwyreiniol o'r Brifddinas a elwir Stepney. Dechreuodd ei athrylith ymddadblygu yn foreu. Yn 1809 cyhoeddodd ei dad gyfrol fechan o'i gynnyrchion dan y titl, *Primitiæ; or Essays and Poems on Various Subjects, Religious, Moral, and Entertaining. By Connop Thirlwall, 11 years of age.* Gormod a fyddai dysgwyl llawer o wreiddiolder mewn cynnyrchion o'r fath; ond fel ag y mae darlun y plentyn yn nechreu y llyfr yn arddelwi edrychiad yr Esgob, felly hefyd y mae rhywbeth yn nallwedd yr ysgrifenydd ieuanc sydd yn rhaglinellu y nodweddion mwyaf amlwg yn ngwaith yr henafgwr. Dengys y llyfryn bychan mewn modd nodedig y wanc anniwall am ddarllen oedd yn meddiannu y bachgenyn. Glynodd yr arferiad wrtho drwy gydol ei oes. Yn un o'i lythyrau dywed: "Gallaf ddarllen, yn llythyrenol o foreu dan nos, heb unrhyw ball ond a ofynir gan ddyledswyddau swyddogol. Pa un ai yn bwyta, ai yn cerdded, ai yn gyru, bydd genyf yn wastad lyfr yn fy llaw." Ni ddywedir wrthym beth ydoedd ei deimladau ar gyhoedd-

iad cyntaf cynnyrchion boreu ei oes; digon tebyg fod ganddo ymhyfrydiad plentynaidd ynddynt, ond bu fyw yn ddigon hir i gashâu yr adgof iddo erioed eu hysgrifenu. Mewn atebiad i foneddiges a fu mor anffodus a gofyn iddo am gopi o'r *Primitiæ* ysgrifenodd fel y canlyn:—"Yr wyf yn sicr pe gwyddech y fan ar fy nhroed a rydd i mi fwyaf o boen, na byddai i chwi ddewis y fan hono i'w sathru; ac yr wyf yr un mor sicr pe buasech yn gwybod y diflasdod dwfn a pha un y byddaf yn meddwl am fater eich cais, na byddai i chwi ei alw i'm côf. . . . Pe gallwn brynu i fyny bob copi i'r fflamau, heb un perygl i'r llyfryn byth gael ad-argraffiad, ni thybiwn o'r bron unrhyw bris yn rhy uchel i'w dalu. Gadewch i mi erfyn arnoch, beidio fy adgoffa byth eto o'i fodolaeth."

Yn fuan ar ol cyhoeddiad y *Primitiæ*, anfonwyd Connop i ysgol y Charter-house i berffeithio ei addysgiaeth o dan Dr. Raine, yn nghwmni ei gyfaill mynwesol Julius Charles Hare, ei gyd-hanesydd George Grote, Henry Havelock, Cresswell Cresswell, y ddau Waddington, ac eraill a gyrhaeddasant enwogrwydd. Yn ystod pedair blynedd ei arosiad yno, ysgrifenodd lawer o lythyrau meithion, yn y rhai y cawn olwg ar y cylch ëang oedd i'w efrydiau; ar y modd yr oedd ei syniadau rhyddfrydol yn ymddadblygu; ar ei ddull o bwyso pobpeth yn nghlorian ei feddwl beirniadol; ynghyd a chipdrem dyddorol o hono ei hun ac o'r byd yn yr hwn yr oedd yn byw. Ysgrifenwyd y rhan fwyaf o honynt at ŵr ieuanc o'r enw John Candler, yr hwn oedd ar y pryd yn gynnorthwyydd mewn masnachdŷ yn nhref Ipswich. Yn ddilynol i hyny dywedir iddo ymsefydlu fel masnachydd yn Chelmsford, a dyfod yn aelod blaenllaw gyda'r Crynwyr. Bu farw yn 1872, pan yn ymyl pedwar ugain mlwydd oed. Ymhlith y pethau a ddaw dan sylw yn llythyrau Thirlwall,—bachgen tair ar ddeg oed, cofier—gellir nodi, Diwygiad gwleidyddol a safle Syr Francis Burdett; Barddoniaeth hen a diweddar o ddyddiau Milton yn ol at Homer, ac ymlaen at ddyddiau Syr Walter Scott, William Cowper, a Henry Kirke White; *Pensées* a holl weithiau Pascal; Addysg y dosbarth gweithiol; a'r Rhyfel ar y Gorynys,—cyfres o faterion sydd yn llefaru yn hyawdl am amrywiaeth chwaeth yr ysgrifenydd ieuanc.

Gadawodd y Charterhouse yn 1813, a'r flwyddyn ddilynol aeth i Goleg y Drindod, Caergrawnt. Ymhlith ei gydefrydwyr yno, gellir enwi Whewell, Sedgwick, Hugh James Rose, a'i hen gyfaill Julius Hare. Mor gynnar â Chwefror 1815, etholwyd ef yn *Craven University Scholar*, anrhydedd na ennillir ond yn dra anfynych gan *Freshmen.* Yn yr un flwyddyn ennillodd y *Bell Scholarship.* Yn y flwyddyn 1818 cymerodd ei *degree*, ac ennillodd am y waith gyntaf fathodyn aur y Canghellydd. Oddigerth ychydig o ffeithiau moelion o'r natur hyn, nid oes genym ddim o hanes ei yrfa golegawl. Gwasanaethodd am yspaid fel ysgrifenydd y Gymdeithas Undebol, ac ennillodd glod uchel iddo ei hun fel dadleuydd ac ymresymydd. Yn Hunan-Fywgraffiad John Stuart Mill, gwneir cyfeiriad dyddorol at ei hyawdledd a'i allu ymresymiadol. Bu yn siarad yn un o gyfarfodydd y Gymdeithas Gydweithredol a sefydlwyd gan ddilynwyr Robert Owen, mewn atebiad i araeth o eiddo Mill ar gwestiwn y Boblogaeth. Er fod Mill yn gorfod anghytuno â bron bob gair a lefarodd, dywed, "Cyn ei fod wedi

yngan deg brawddeg, yr oeddwn wedi ei osod i lawr fel y siaradwr goreu a glywswn erioed, ac ni chlywais byth wedi hyny neb a osodwn o'i flaen." Gellir ychwanegu i'r brwdfrydedd a gynnyrchwyd gan y ddadl a gyfododd, arwain i ffurfiad Cymdeithas Ddadleuol, i'r hon y perthynai nid yn unig Thirlwall a Mill, ond hefyd Macaulay, Charles Austin, Iarll Grey, Arglwydd Clarendon, Bulwer, Samuel Wilberforce, Albany Fonblanque, ac yn ddiweddarach Frederick Maurice a John Sterling. Etholwyd Thirlwall i Gymmrodoriaeth ei Goleg yn 1818, a chymerodd fantais ar yr annibyniaeth a ddilynodd hyny i dalu ymweliad â'r Cyfandir. Yn Rhufain daeth i gydnabyddiaeth agos â Bunsen, yr hwn oedd ar y pryd yn ysgrifenydd y Llysgenhadaeth Brwssiaidd, o dan yr hanesydd enwog Nieubuhr. Parhaodd y cyfeillgarwch a ffurfiwyd cydrhyngddynt yr adeg hon am yr yspaid o hanner canrif. Yn Nghofiant y Farwnes Bunsen (ganedig Waddington), cyfeirir at yr argraff ddymunol a roddwyd gan Thirlwall ar ei ddyfodiad cyntaf atynt, a'r dylanwad a gafodd yr ymwneyd â Bunsen ar ei yrfa ddyfodol. Nid yw yn ymddangos i Thirlwall ddyfod i gyffyrddiad â Nieubuhr, er y gall mai y pryd hwn y dechreuodd ddadblygu yr hoffder at waith yr hanesydd Rhufeinig, a esgorodd ar ffrwythau addfed mewn blynyddoedd ar ol hyny.

Ar ei ddychweliad o'r Cyfandir dechreuodd Thirlwall ymroddi i waith. Ymddengys ei fod o herwydd ammheuaeth o rym ei benderfyniad a dyfnder ei argyhoeddiad, wedi ymwrthod â'r bwriad o ymgymeryd â gyrfa glerigol, ac iddo oddiar berswadiad ei gyfeillion yn hytrach nag oddiar unrhyw duedd bersonol foddloni i astudio'r gyfraith gyda'r amcan o gymhwyso ei hun i fod yn fargyfreithiwr. Yn Chwefror 1820, rhoddodd ei enw ar lyfrau Lincoln's Inn; ond o'r dechreu ymron nid yw yn celu yr adgasrwydd a deimlai tuag at yr alwedigaeth yr ymgymerasai â hi. Mewn llythyr at ei gyfaill Mr. Candler, ysgrifena fel y canlyn: "Gallwch yn hawdd dybio na bydd i mi ymgymeryd âg astudio'r gyfraith gyda golygiadau eang, gobeithion uchel, a chynlluniau dysglaer. Na! bydd i mi ruthro i'r gorchwyl gyda gweithgarwch dibris, yn cael fy ngyru ymlaen gan y gobaith truenus o hel cyfoeth mewn amser digonol i ymryddhâu o lyffetheiriau busnes cyn i fy chwaeth, fy ngolygiadau, a fy nheimladau hollol gyfnewid. Os gellir cyrhaedd hyn, hwyrach y gallaf gysuro fy hun o herwydd gwastraffu ystwythder ieuenctyd a bywiogrwydd dychymyg ar gylch galwedigaeth ddiffrwyth a difywyd, a dilyn 'gogoniant a newydd-deb' fy mreuddwyd boreuol gan sylweddoliad pruddaidd ac unffurf." Anmhosibl ydoedd dysgwyl i un yn coleddu y fath syniadau am ei alwedigaeth, ddygymmod â hi. Po fwyaf a welai o honi, lleiaf yn y byd yr oedd yn ei hoffi. Nid yw yn annhebygol er hyny i'r ddysgyblaeth gyfreithiol a gafodd fod o fantais neillduol iddo pan alwyd ef i fod yn esgob. Parhaodd ei efrydiau nes y galwyd ef at y Bar yn 1825. Gellir bod yn sicr nad oedd y gyfraith yn cymeryd yr oll o'i amser. Talai ymweliadau mynych â'r Cyfandir, ac ymroddai gyda holl awch ei natur i ddarllen ac astudio llenyddiaeth Germanaidd. Hyn mae'n ddiau a'i harweiniodd i ddwyn allan gyfieithiad Saesoneg o Draethawd Beirniadol Dr. Frederick Schleiermacher ar Efengyl Luc, gyda rhagdraeth nodedig yn cynnwys hanes y ddadl o berthynas i awduriaeth a

tharddiad yr Efengylau Cydolygol (*Synoptical*), ac yn ymwneyd â llenyddiaeth y pwnc o'r adeg y cyhoeddwyd traethawd yr Esgob Marsh ar *Darddiad a Chyfansoddiad y Tair Efengyl Ganonaidd Cyntaf* yn 1801. I ysgafnhâu ei ymchwiliadau duwinyddol ymgymerodd â chyfieithu a chyhoeddi rhai o chwedlau Tieck, y rhai a gymeradwywyd gan y *Quarterly Review* fel "gwaith gŵr o dalentau uchel."

Yn 1827 ffarweliodd Thirlwall â'r Gyfraith. Ysgydwodd lwch Lincoln's Inn oddiwrth ei draed, a dychwelodd i Gaergrawnt, lle yn fuan y cawn ef yn myned trwy lawn waith athrofaol fel *Junior Bursar, Junior Dean, a Head Lecturer.* Yr oedd ei gyfaill Hare wedi ei ragflaenu trwy gymeryd *Classical Lectureship* yn Trinity College. Unodd y ddau gyfaill i gyfieithu *Haanes Rhufin* Nieubuhr, gwaith a chwareuodd ran bwysig mewn dwyn oddiamgylch ddull newydd o efrydu hanesiaeth. Cydnabyddid rhagoroldeb y cyfieithiad yn lled gyffredinol, ond ymosodwyd arno yn chwerw gan ysgrifenydd yn y *Quarterly Review.* Parodd hyn i Hare gyhoeddi *Amddiffyniad*, yn cynnwys attodiad gan Thirlwall. Deallid fod pwysigrwydd cymhariaethol y ddau atebiad yn cael ei ddangos yn rhagorol yn ngwaith y colegwyr yn galw y pamphledyn yn gyfarthiad Hare a brathiad Thirlwall ("Hare's bark and Thirlwall's bite"). Yn 1831 ymunodd y cyfeillion drachefn i gychwyn y *Philological Museum*, "gyda'r amcan o hyrwyddo a chefnogi astudiaeth llenyddiaeth henafol." Bu ei ffawd yn debyg i eiddo llawer cylchgrawn o gyffelyb amcan, ond fel y sylwa Deon Stanley, "yn ystod yspaid byr ei fodolaeth cynnysgaeddodd ni â mwy o ychwanegiadau sylweddol at lenyddiaeth ac ysgolheigdod Seisonig na'r un cyfnodolyn arall sydd eto wedi ymddangos." Ysgrifenodd Thirlwall amryw o draethodau meithion iddo. Cyfrifir yr ysgrif "Ar Watwareg Sophocles" fel gorchestwaith beirniadaeth athronyddol. Ymhlith ysgrifau eraill o'i eiddo gellir nodi y rhai ar "Memmon," ar "Ancæus," ar "Safle Susa," ac ar "Esgyniad yr Alpau gan Hannibal." Y mae Deon Perowne wedi cyhoeddi y rhai hyn, ynghyd ag eraill, yn y gyfrol gyntaf ar ein rhestr.

Fe urddwyd Thirlwall yn ddiacon yn y flwyddyn 1827, ac yn offeiriad y flwyddyn ddilynol. Yn 1829 fe'i cymeradwywyd i Esgob Ely i gyflawni dyledswyddau clerigol bywioliaeth neillduedig Over, plwyf heb fod yn nebpell o'r Coleg. Yno cyflawnodd waith ei swydd gyda zêl a ffyddlondeb, ac ennillodd raddau o boblogwydd gyda'i bregethau. Ymadawodd Hare o Gaergrawnt yn 1832 i gymeryd gofal gweinidogaethol, a dilynwyd ef fel is-athraw gan Thirlwall. Gwerthfawrogid ei ddarlithiau yn fawr gan gynifer âg oedd yn adnabod eu gwir werth, ac aeth pethau ymlaen am yspaid yn eithaf esmwyth. Ond yn 1834 torwyd y cysylltiad rhyngddo â'i gyd-athrawon gan y ddadl bwysig a gymerodd le y flwyddyn hono o berthynas i Dderbyniad Ymneillduwyr i holl freintiau yr Athrofa. Palla gofod i ni fyned i ymhelaethu ar fanylion yr helynt, yr hyn sydd yn llai angenrheidiol am fod y mater eisoes wedi cael ei drin yn y TRAETHODYDD (gwel rhifyn Ionawr, 1879). Y mae y ddadl yn awr wedi ymgolli i fesur helaeth yn nystawrwydd y gorphenol, ond gweddus fyddai i Ymneillduwyr gadw mewn diolchus gof ymdrech wrol a rhyddfrydol Connop Thirlwall o blaid eu rhyddhâd. Diwedd yr ymryson, fel yr awgrymwyd, fu i Thirlwall roddi i fyny ei le fel Is-Athraw.

Er fod ei sefyllfa yn un hynod annymunol, arosodd yn y coleg nes i amgylchiad ddyfod a newidiodd gwrs ei fywyd mewn modd annysgwyliadwy. Trwy farwolaeth y periglor syrthiodd bywoliaeth fras Kirby-Underdale, Swydd Efrog, i ddwylaw Arglwydd Brougham, a chynnygiwyd hi i Thirlwall. Derbyniodd yntau y cynnygiad, a chyda diwedd 1834 daeth ei gysylltiad â Chaergrawnt i derfyniad. Yr oedd y cyfnewidiad o fywyd prysur yr Athrofa i unigrwydd a thawelwch y fywoliaeth wledig yn un mawr; ond, yn ol ei arfer, ymroddodd Thirlwall i'r gwaith yr ymgymerasai âg ef gydag yni a zel; ac yn fuan ennillodd barch a hyder ei blwyfolion. "Coffëir hyd yn nod yn awr," medd ei fywgraffydd, "am y gwasanaeth rheolaidd a gadwai, am y cynnulleidfaoedd lliosog (llawer o honynt o'r plwyfi cylchynol) a ddeuent i'w wrandaw, am yr ymweliadau mynych â'r ysgol ddyddiol, am y gweddïau *(extempore)* gyda'i braidd, y mwyafrif o'r rhai oeddynt yn Ymneillduwyr, ac am ei ofal manwl o'r tlawd a'r dyoddefus." Ynglŷn â Kirby-Underdale hefyd yr ydys i gysylltu cyhoeddiad *Hanes Groeg*, prif waith llenyddol ei oes, ar yr hwn yn benaf y gorphwys ei hawliau fel llenor ac ysgolhaig. Diau iddo ef, yn gystal a'i gyd-hanesydd George Grote, gael ei symbylu i'r gwaith hwn gan awydd i gymhwyso at hanes Groeg yr un egwyddorion beirniadol ag a gymhwysasid mor lwyddiannus gan Nieubuhr at hanes Rhufain. Ar ol yr arosiad cymharol fyr o bum' mlynedd, terfynodd ei gysylltiad â Kirby trwy iddo gael ei benodi yn Esgob Tyddewi gan Arglwydd Melbourne. Yn y *Memoirs of Viscount Melbourne*, gan Mr. W. McCullagh Torrens, A.S., dywedir fod peth petrusdod wedi bod ynghylch penodiad Thirlwall i'r esgobaeth o herwydd ei berthynas â thraethawd Schleiermacher; a desgrifir ymweliad lled ddigrifol a fu rhyngddo â'r Prif Weinidog, rywbryd cyn i'r mater gael ei hollol benderfynu. Ymddengys fod y Prif Weinidog yn ei wely, o'r man y cyfarchai ei ymwelydd fel y canlyn: "Hope you are come to say you accept? I only wish you to understand that I don't intend, if I know it, to make a heterodox bishop. I don't like heterodox bishops. As men they may be very good anywhere else, but I think they have no business on the bench. . . . I sent your edition of Schleiermacher to Lambeth, and asked the Primate to tell me candidly what he thought of it. . . . He does not concur in all your opinions, but he says there is nothing heterodox in your book. Had he objected I would not have appointed you." Diwedd yr ymdrafodaeth fu i Thirlwall dderbyn yr anrhydedd a gynnygid iddo. Adroddir hanesyn pur ddifyrus ynglŷn â derbyniad yr Esgob ar ei ddychweliad i Kirby. Trefnasai y trigolion ryw fath o groesawiad cyhoeddus iddo, ond chwalwyd eu holl gynlluniau gan frwdfrydedd croesawus dau bedwar-troed o gŵn, y rhai, yn eu dull eu hunain, a hawlient holl sylw ei arglwyddiaeth nes i adeg y plwyfolion fyned heibio. Hoffder o anifeiliaid oedd un o nodweddion dymunol cymeriad yr Esgob. Yn fuan ar ol hyn ymadawodd â Kirby-Underdale, ac ni ymwelodd â'r lle am yn agos i chwarter canrif. Pan wnaeth hyny, dywedir iddo fyned ar ei union i chwilio am lythyrenau Groegaidd a dorasai ar goeden er cof am un o'i hen gyfeillion pedwar-troed. Cafodd lawer o bleser yn ymofyn am yr ychydig hen bobl oeddynt heb golli eu hadnabyddiaeth o hono. Un o'r pethau a ennillodd iddo serch trigolion Kirby ydoedd ei anmharodrwydd i wrando

chwedlau. Arferai hen glochydd y lle ddyweyd mai ei atebiad cyson i bob chwedleuwr fyddai, "I never 'ears no tales." Glynodd yn yr un penderfyniad trwy y gweddill o'i oes. Gresyn na byddai mwy o'i frodyr yn tebygu iddo!

Ymsefydlodd yn fuan yn y cylch newydd ymha un yr ydoedd i lafurio. Gan fod hen balasdŷ esgobawl Tyddewi wedi adfeilio, bu raid iddo wneyd ei gartref yn Abergwili, pentref bychan yn agos i Gaerfyrddin. Pa bethau bynag a fuont yn gymhelliad iddo i ymgymeryd â gwaith clerigol, yn hytrach na gwasanaethu y gyfraith, nid oes un lle i ammeu zel, ymroddiad, a duwiolfrydedd ei yrfa eglwysig. Ymgymerodd â'i ddyledswyddau gydag egni a phenderfyniad a ennillodd iddo gymeradwyaeth hyd yn nod ei wrthwynebwyr. Ni arbedodd na thrafferth na thraul wrth geisio ymgydnabyddu âg anghenion ei esgobaeth ëang, a thrwy lafur dirfawr a llawer o hunanymwadiad cymhwysodd ei hun i'w rheoli. Ymwelodd yn bersonol â phob rhan o'r esgobaeth; gwnaeth ymchwiliad manwl i sefyllfa yr eglwysi a'r ysgolion; a chyflawnodd yn rheolaidd bob dyledswydd oedd yn syrthio arno fel un o Fugeiliaid yr Eglwys Sefydledig. Yn y "Cynghorion" meistrolgar (gwel TRAETHODYDD Hydref, 1879) a draddodai bob tair blynedd i'w glerigwyr, adolygodd hanes yr Eglwys fel nas gallai neb arall wneyd. Cyfranodd yn dra haelionus tuag at wellinatau esgobaethol, ac am lawer o flynyddoedd neillduodd ran helaeth o'i incwm tuag at ychwanegu gwerth bywoliaethau gweiniaid. Dywedir fod ei roddion yn y cyfeiriadau a nodwyd yn ystod ei fywyd esgobawl yn cyrhaedd y swm anferth o £40,000. Er hyn oll, rhydd ei fywgraffwyr ar ddeall nad ydoedd yn boblogaidd ymhlith ei glerigwyr. Rhaid cydnabod, meddent, eu bod yn ei ofni a'i barchu yn hytrach nag yn ei garu. Ychydig oedd y rhai hyny a fedrent dreiddio trwy yr ymddangosiad o *reserve* oedd yn ei amgylchynu, a dyfod i adnabod nodweddau tyneraf a serchocaf ei natur; ac felly aeth drwy y byd heb i'r mwyafrif o'i gydnabod erioed ei ddeall. Yr un modd y bu gyda'i gyd-esgobion. Ofn yn hytrach na chariad oedd yn llywodraethu eu cysylltiadau hwythau âg ef. Teimlent fod ei gefnogaeth yn werth ei gael, ond gwyddent ar yr un pryd nad estynid y gefnogaeth hono i wasanaethu amcanion plaid, nac i helpu cynlluniau yr urdd. Ond tu allan i'r cylch Eglwysig, cydnabyddid ei ragoriaethau a gwerthfawrogid hwynt; rhoddid pwys ar ei farn, a gweithredid yn ol ei gynghor. Pan ymgymerai âg anerch Tŷ yr Arglwyddi, byddai yn sicr o wrandawiad astud (ffafr nad estynid i lawer o'i frodyr), a byddai yn sicr o gario dylanwad. Dywedir am ei araeth ar Ddadgysylltiad yr Eglwys Wyddelig (*Essays*, &c., tu dal. 237) iddi fod yn fwy effeithiol o blaid y mesur na'r un araeth arall a draddodwyd yn ystod y ddadl.

Tra yn cario ymlaen ei waith esgobawl yn ffyddlawn a diesgus, gwasanaethodd yr Esgob Thirlwall ei wlad mewn llawer o gyfeiriadau. Ni wnawn yn awr ond enwi ei gysylltiad â'r Commissiwn Eglwysig ar Ddefodaeth, a'i lafur diflino fel un o aelodau yr *Old Testament Revision Company*. Am 34 mlynedd llanwodd gadair Sant Dewi; ond fel yr oedd ei flynyddoedd yn cynnyddu yr oedd ei nerth corfforol yn pallu, a phenderfynodd roddi yr esgobaeth i fyny. Cariodd y penderfyniad i weithrediad yn Mai, 1874, ac ymneillduodd i fyw i Bath. Yno, gydag

yni di-ildio, fel y dywed Deon Stanley, parhaodd, "hyd yn nod mewn henaint, mewn dallineb ac mewn unigrwydd, i ychwanegu at drysorau ei wybodaeth," i gario ymlaen ei waith ar y Cyfieithiad Diwygiedig o'r Hen Destament, ac i ymarfer galluoedd ei feddwl cadarn ar bob cwestiwn pwysig mewn byd ac eglwys. Daeth marwolaeth ato yn lled ddisymwth, ar y 27ain o Gorphenaf, 1875. Rhoddwyd ei weddillion, gyda llawer o briodoldeb, i orwedd yn meddrod ei gydlafurwr George Grote, yn nghwmni y rhai a farnwyd yn deilwng o le yn Valhalla y genedl—"teml dystawrwydd a chymmod"—Westminter Abbey.

Yr ydym yn awr yn dychwelyd at fater mwyaf uniongyrchol ein hysgrif, sef cysylltiad Connop Thirlwall â Chymru. Dywed un a'i hadwaenai yn dda ei fod yn cymeryd y dyddordeb dyfnaf ymhob peth a berthynai i Gymru, ei phobl, ei hiaith, ei hanes, a'i thraddodiadau. Y mae ei weithiau cyhoeddedig yn llawn o gyfeiriadau at faterion yn dal rhyw berthynas neu gilydd â gwlad ei fabwysiad. Ceir fod y drydedd gyfrol ar ein rhestr, yr hon i ni yw y fwyaf darllenadwy o'r cyfan, yn dra chyfoethog yn yr ystyr yma, gan ei bod yn cynnwys detholiad o Lythyrau, allan o ohebiaeth yn ymestyn dros gyfnod o ddeng mlynedd gyda chyfeilles ieuanc, un o aelodau teulu Cymreig, gyda'r rhai, y mae'n amlwg, yr oedd yr Esgob yn lled gartrefol. Sylwa eu golygydd, Deon Stanley, yr hwn, gyda llaw, a hawlid gan Thirlwall fel Cymro, fod y llythyrau hyn "yn cyfleu o'n blaen wedd ar gymeriad yr Esgob na werthfawrogid yn briodol yn ystod ei fywyd, a'r hon na chynnrychiolir mor gyflawn yn yr ohebiaeth cydrhyngddo â'i gyfoesolion." O herwydd rhesymau yr ydys eisoes wedi cyffwrdd â hwynt, nid oedd gwir fawredd y dyn yn adnabyddus ond i ychydig iawn o'i gyfeillion agosaf. Y mae y llythyrau hyn yn "dangos y galon agored a charedig oedd yn curo y tu ol i feddwl cawraidd Thirlwall; y cydymdeimlad tyner a'i meddiannai tuag at ddyoddefiadau y rhai hyny y dygid ef i gyffyrddiad â hwynt yn amgylchiadau cyffredin bywyd; a'r hoffder chwareus o'r anifeiliaid dofion oeddent fel yn ffurfio rhan o'i gylch teuluaidd. Y maent yn llawn gwerthfawrogiad bywiog o holl brydferthion amrywiol tymmorau natur; dangosant gylch ëang o adnabyddiaeth â ffurfiau ysgafnaf llenyddiaeth, yn gystal â'i rhai trymaf; dadguddiant hefyd rai o'i deimladau a'i feddyliau mwyaf mewnol ar gwestiynau mawrion y byd moesol a chrefyddol, o barthed i'r rhai y ceir yn ei ysgrifeniadau cyhoeddus y dadganiad allanol a beirniadol yn unig;" a'r hyn sydd fwyaf o bwys i ni ar hyn o bryd, "y maent yn rhoddi mynegiad i'r ymhyfrydiad gwresog a deimlai efe yn gystal â'i ohebyddes yn iaith a thraddodiadau y wlad a'r esgobaeth Gymreig a gymerodd yn eiddo iddo ei hun." Ond nid mewn ystyr fabwysiadol yn unig y cyfrifai Thirlwall ei hun yn Gymro. O du ei dad hanai o deulu y Barwniaid de Thirlwall, perchenogion Castell Thirlwall, yn Northumberland. Ond tra yr oedd ei enw teuluaidd, fel y dywed ef ei hun, yn siarad am amser "when some of my forefathers were *thirling* their way with might and main through the old *wall* which was the scene of so many hard-fought battles," yr oedd ei enw bedyddiol wedi ei etifeddu oddiwrth deulu ei fam; ac yr oedd ganddo "bob rheswm i gredu ei fod yn cyfranogi o ba waed Cymreig bynag sydd yn rhedeg yn Sir Faesyfed," lle yr oedd iddo lawer o gysylltiadau teuluaidd.

Pan y dyrchafwyd ef yn ngwrthwyneb, fel yr awgrymwyd, i ddymuniadau rhai brodyr gweiniaid, i'r fainc esgobawl, "nid teimlad gwanaidd o ddyledswydd a'i galluogodd i daflu ei alluoedd ieithyddol cryfion i'r gorchwyl caled, ond iddo ef nid anhyfryd, o ddysgu, mewn modd na ddysgwyd erioed o'r blaen gan unrhyw Esgob Seisonig, iaith yr esgobaeth y penodwyd ef iddi." Yr oedd ei gyrhaeddiadau ieithyddol ynddynt eu hunain yn nodedig. Nid oedd Hebraeg, Groeg, Lladin, Ellmynaeg, Ffrancaeg, Italaeg, a Chymraeg ond ychydig o'r ieithoedd a feistrolodd. Ond er cymaint ei alluoedd yn y cyfeiriad hwn, y mae eto yn fater o syndod iddo feistroli y Gymraeg mor rwydd a didrafferth. Dywed awdwr yr ysgrif yn y *Church Quarterly* wrthym ei fod yn alluog i ddarllen y gweddïau a phregethu yn Gymraeg ymhen ychydig gyda blwyddyn ar ol iddo symud i Dyddewi. Buasai hyny o gyrhaeddiad, fel y sylwa awdwr yr ysgrif yn y TRAETHODYDD (Ionawr, 1879), "yn nesaf peth i wyrth;" ond y mae y gwirionedd gryn lawer yn fwy rhyfeddol. Ymddengys iddo ddysgu digon o Gymraeg i gyflawni y gwasanaeth Eglwysig o fewn *chwe' mis* ar ol iddo ymsefydlu yn Abergwili. Fel y sylwyd yn barod, penodwyd ef i Esgobaeth Tyddewi yn Gorphenaf, 1840. Ar yr 2il o Ionawr, 1841, ysgrifena at ei frawd, y Parch. Thomas Thirlwall, fel y canlyn: "Dydd Sul y 6ed o'r mis diweddaf darllenais y Foreuol Weddi a'r Diolchgarwch dros y Frenhines yn Gymraeg, a gweinyddais y Sacrament i gant o gymunwyr yn yr un iaith. . . . Dydd Nadolig (1840) pregethais yn y prydnawn i gynnulleidfa liosog. Parhaodd y gwasanaeth Cymraeg a Saesoneg yn y boreu dros bedair awr. Y Sul dilynol, yn absennoldeb un o'r *Prebendaries* trwy brofedigaeth deuluaidd, ymgymerais â'r gwasanaeth Cymraeg yn y *nave*, a dywedwyd wrthyf," ychwanegai gydag ychydig o ymffrost hawdd iawn ei faddeu dan yr amgylchiadau, "fod y bobl yn dal fy mod wedi fy ngeni yn Gymro, yn gymaint a'm bod yn darllen Cymraeg yn well na'r clerigwyr. Mae yn ddigon posibl fod fy aceniaeth yn fwy cywir na'r eiddo llawer o'r rhai sydd yn gwasanaethu yma." Ychydig cyn yr adeg y cyfeirir ati yn y dyfyniad uchod, hysbysir ni yn yr un llythyr ei fod wedi derbyn nodyn Cymraeg oddiwrth ysgrifenydd Cymdeithas Cymreigyddion Llundain, yn ei hysbysu fod y Gymdeithas, ar gyfrif ei gynnydd yn iaith eu mam-wlad, yn bwriadu ei benodi yn un o'i haelodau anrhydeddus; ac ychwanega, gyda'r un ymffrost diniwed ag o'r blaen, "Yr wyf newydd weled fod y nodyn, ynghyd a fy atebiad innau iddo, wedi eu darllen yn eu cyfarfod blynyddol yn Llundain, a bod fy 'iechyd da' wedi ei yfed yno gyda llawer o gymeradwyaeth." Ond er fod llawer o wirionedd yn ngeiriau Cawrdaf pan yn ei Arwyrain i'r Esgob y dywed,

> Awdwr dysgedig ydych
> Yn amryw iaith—pwy mor wych!
> Wrth eich llaw, e ddaw 'n ddi os
> Iaith ddyfnaf mewn pythefnos,
> Heb un cur, mor bur ddi ball,
> A'r hwn ni ŵyr yr un arall,—

eto y mae yn lled debyg ddarfod hyd yn nod i Thirlwall wario peth amser a llafur cyn dyfod yn hyddysg yn holl ddirgelion yr hen Omeraeg. O'r ochr arall, fe'n hysbysir gan y cyfaill agos y dyfynwyd ei

sylwadau eisoes, i'r Esgob gyrhaedd gwybodaeth drwyadl o'r hen iaith, a bod ei ysgrifau Cymraeg yn nodedig am eu grym a'u purdeb ieithyddol; eu bod, mewn gair, yn glasurol ac ysgolheigaidd. Cawn hefyd i'r bardd a'r ysgolhaig Cymreig, y Parch. J. Jones, M.A. *(Ioan Tegid)*, gyflwyno un o'i weithiau iddo ar gyfrif, fel y dywedid, ei "wybodaeth Gymreig ddofn," a bod cyhoeddwr *Gwyddfa y Bardd*, sef gwaith awenyddol Cawrdaf, yn cyflwyno y gyfrol hono iddo fel "noddwr haelionus llenyddiaeth, a chefnogwr gwresog pobpeth a duedda at leshad ac anrhydedd Cymru, Cymro, a Chymraeg." Gall fod geiriau y cyflwynwyr yn tueddu at organmoliaeth, ond y mae pob tebygrwydd, ni a gredwn, i'r Esgob gyrhaedd meistrolaeth, hyny yw, yn ol dysgeidiaeth llyfrau, o'r hen iaith a garwn mor fawr. Bod yn drwyadl gyda phobpeth yr ymaflai ynddo i'w wneuthur ydoedd un o nodau arweiniol ei feddwl a'i fywyd, ac nis gellir meddwl iddo esgeuluso bod felly yn y cysylltiad sydd dan sylw. Mae y llythyrau sydd o'n blaen mewn amrywiol fanau yn dangos ymlyniad wrth yr iaith ac adnabyddiaeth gyflawn o'i chyfrinion. Boddlonwn ar y dyfyniad a ganlyn, allan o lythyr yn cyfeirio at ei waith yn pregethu o flaen ei Mawrhydi: "Anfonodd y Frenhines am danaf," meddai, "yn fuan yr ol y gwasanaeth, ac anrhydeddodd fi âg ymddyddan preifat, gan fy arwain trwy amrywiaeth mawr o faterion. Un o'r rhai y buom hwyaf gydag ef ydoedd Cymru, y bobl a'r iaith. Er y gall ei theimladau fod yn adnabyddus i chwi, buasai yn gwneyd lles i chwi glywed y gwresogrwydd gyda pha un y rhoddai ddadganiad i'w theimlad o wrthwynebiad i'r syniad o fod i'r hen iaith ddarfod; a buasech yn llai abl nag yr oeddwn innau i gadw rhag dadgan eich cydymdeimlad â'r hyn a ddywedai, er na fuasai hyny, fe allai, yn warantedig gan reolau moesgarwch. Yr oedd ein hymddyddan drwyddo yn rhydd a siriol; dywedodd wrthyf hyd yn nod am ei *nurses* Cymreig." Mewn blynyddoedd ar ol ysgrifenu hyn, cyfeiria at yr ymddyddan mewn ffordd o amddiffyniad rhag rhyw gyhuddiad disail a ddygid yn ei erbyn o ewyllysio marwolaeth hen iaith Gwalia.

Fel y crybwyllwyd yn barod, nid ydyw Esgobion Tyddewi yn awr yn byw yn mhalasdy esgobawl y dref oddiwrth ba un y cymerant eu henw, ond yn Abergwili, yn agos i Gaerfyrddin, pellder oddeutu hanner can' milldir oddiwrth yr Eglwys Gadeiriol. Mewn ysgrif ar "The Wild Welsh Coast," yn un o'r cyfnodolion Americanaidd dro yn ol, ysgrifenai y diweddar Mr. Wirt Sikes, awdwr *Old South Wales*, a *British Goblins*, fel hyn am hen dref a phalas Tyddewi: "The ruined palace of the ancient bishops, which is one of the most beautiful ruins in Wales, is especially celebrated for its elegant open Gothic parapet. . . The palace is roofless and neglected, but it is the most impressive feature of this once mighty and influential cathedral town; to my mind illustrating Time's changes even more forcibly than the dwindled population, for this palace was one of the most splendid in Britain, and it was one of seven in this see, all nearly as grand and all now in ruins." A chan mai mewn adfeilion yr ydoedd, fe dreuliwyd y rhan fwyaf o amser yr Esgob Thirlwall yn neillduaeth Abergwili. I lawer un, buasai tawelwch y lle yn faich annyoddefol; ond iddo ef yr oedd yr unigrwydd yn hollol gydnaws. Cawn ef yn cyfeirio drachefn a thrachefn at y pleser a deimlai bob amser pan

yn gadael Llundain am lonyddwch tawel ei gartref yn y wlad. Yr oedd twrf a dwndwr dibaid prifddinas y byd yn ei flino; ac hyd yn nod yn nghanol mwyniant cymdeithas o'r fath a garai, ac attyniadau amrywiol bywyd trefol, byddai ei feddwl yn troi gyda hiraeth a dyhëad at ei feusydd, ei goedydd, ei ffrwythydd, a'i flodau, draw tuag Abergwili. Ymhoffai yn fawr mewn pob math o greaduriaid. Yn rhestr ei anwyliaid teuluaidd, cyfrifid cŵn a chathod, paunod ac ieir y coed, ynghyd a llawer math arall o etifeddion adenydd. Yr oedd hefyd yn hoff o ŵyddau. Rywfodd y mae yr ŵydd wedi ennill iddi ei hun enw am wiriondeb. Ac eto pe cymerai rhywun ychydig o drafferth i wneyd ymchwiliad i'w hanes, fe geid nad ydyw mewn un modd mor ffol ag y mae'n edrych. Nid ydyw Livy a Plutarch, Ovid a Pliny, Aristotle, Buffon, a Proffeswr Owen, ond nifer fechan o'r dysgedigion sydd yn barod i ddyweyd yn dda am dani. Mae y bobl sydd wedi arfer sylwi, yn dyweyd mai anhawdd iawn ydyw dal gŵydd yn hepian; ac y mae creadur gwyliadwrus o'r fath yn lled sicr o fod yn meddu ar ragoriaethau. Yr oedd yr Esgob Thirlwall, mae'n ddiau, wedi deall hyny; o'r hyn lleiaf yr oedd ganddo hoffder mawr a pharhäol at gynnrychiolwyr y creaduriaid a waredasant Rufain! Talai ymweliadau mynych a chyson â hwynt, a hyny ar bob math o dywydd, gan egluro fod arnynt fwy o anghen am dano pan fyddai yn hîn fwyaf anffafriol. Dangosent hwythau eu bod yn gwerthfawrogi ei sylw trwy hel o'i gwmpas a gafael yn ei gob, &c., mewn ffordd o roddi croesawiad iddo. Yr unig greaduriaid y dywedai iddo flino arnynt ydoedd y pysgod a elwir penhwyaid. Yr oedd ganddo dri o honynt yn nghadw mewn llyn bychan. Un boreu pan aeth i edrych am danynt cafodd nad oedd yno ond dau, ac yn fuan wedi hyny yr oedd y ddau wedi myned yn un! Sylwodd wrth gyfaill iddo fod yn anmhosibl cymeryd dyddordeb mewn creadur oedd yn bwyta ei deulu ei hun, ac meddai, "nid edrychais arno byth ond hyny." Mor hoff ydoedd o'i ffryndiau pedwar-troediog fel y dibrisiai hyd yn nôd ei flodau er eu mwyn. Un boreu daeth y garddwr ato gan ddyweyd: "Pa beth a wnaf, fy Arglwydd, y mae yr ysgyfarnogod wedi bwyta eich *carnations*." Yr unig ateb a gafodd ydoedd, "O, planwch ragor o *carnations*!" Oddigerth yn yr haf, pryd y treuliai lawer o'i amser yn mwynhâu swynion natur yn y meusydd, ni byddai ond yn anfynych allan o *Chaos*, fel y byddai yn arfer galw ei Lyfrgell. Yno gorchuddid nid yn unig y muriau, ond y byrddau, y cadeiriau, a hyd yn nod y llawr gan y llyfrau, y papyrau, a'r llythyrau a ddylifent ato. Y mae ei ohebiaeth yn llawn o gyfeiriadau at sefyllfa pethau yn *Chaos*, ond i bob cynnygiad i'w gosod mewn trefn yr atebiad fyddai: Y mae yn anhawdd i mi gael dim ynddi yn awr, ond pe gosodid pethau mewn trefn ynddi, byddai cael y peth fyddai eisieu yn hollol anmhosibl."

Er fod Abergwili ymhell o ganolbwynt yr esgobaeth, ni chafodd Tyddewi mewn un modd ei esgeuluso. Gwnaethpwyd adgyweiriadau helaeth, ar draul fawr, yn yr Eglwys Gadeiriol yn ystod bywyd yr Esgob; ac ar ol ei symudiad defnyddiwyd y *Thirlwall Memorial Fund* i gwblhâu y gwaith. Yn un o'i lythyrau ysgrifena fod y cynlluniau yn cael eu cario allan yn araf, ac ychwanega: "Yr wyf yn ofni fod gelyniaeth at yr Eglwys wedi diffodd y dyddordeb y buasai gwladgarwch

Celtaidd, oni b'ai hyny, yn ei deimlo tuag at gofgolofn ardderchocaf eu hadeiladaeth." Carai yr Eglwys Sefydledig gyda chariad cryf a zel gynhes, ac fel y dywed Deon Stanley yn ei bregeth angladdol iddo, "Cafodd yntau yn ngweinidogaeth Eglwys Loegr faes i ddadblygu yn helaethach ei faintioli meddyliol a moesol. Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at y grasau o haelioni a hunanymwadiad a ddadblygwyd ynddo ynglŷn â gwaith ei esgobaeth. Ysgrifenwyd y llythyr a ganlyn mewn atebiad i apêl am gynnorthwy, a sieryd yn eglur drosto ei hun: "Credaf eich bod yn gwybod fy mod eisoes wedi cyfranu rhwng £20,000 a £30,000 tuag at Drysorfa Gynnaliaethol Clerigwyr, ac na bydd i chwi ryfeddu os ystyriwyf fod hyny yn gymaint âg y gellir yn rhesymol ei ddysgwyl oddiwrthyf."

Ar anhawsderau yr Eglwys yn Nghymru—pwnc sydd o ddyddordeb parhaol i eraill heblaw Eglwyswyr,—ysgrifena yr Esgob yn y termau canlynol at yr Archddeon Clark: "Yr ydych yn sicr wedi gosod eich bys ar un prif achos o'n hiselradd [fel Eglwys Gymreig] yn y rhan hono o'ch sylwadau gwerthfawr lle y cyfeiriwch at ein tlodi. Yr wyf, ac yr wyf wedi bod felly er pan ddaethum i Gymru, yn hollol deimladol o bwysigrwydd neillduol y pwnc, ond hyd yn hyn nid ydwyf wedi gweled y ffordd at feddyginiaeth. Byddai yn dda genyf gredu fy mod wedi gorbrisio yr anhawsder, neu fy mod yn dibrisio y gallu a'r parodrwydd a amlygid, pe byddai galwad, i wneyd y diffyg i fyny [sef sefydlu gwaddoliadau ychwanegol i ddybenion eglwysig]. Fy nghrêd bersonol i ydyw fod y rhan fwyaf o'r tirfeddiannwyr—y rhai gydag ychydig eithriadau ydynt ein hunig ddynion cyfoethog—yn byw i fyny â'u hincwm, ac nas gellir dysgwyl iddynt wneyd llawer o aberth ond er mwyn dybenion lleol. Gyda golwg ar y cwestiwn arall, llawn mor bwysig, o berthynas i anghenion ac arferion cynnulleidfaoedd Cymreig, y mae yn ammheus genyf a ellir tynu casgliad cywir oddiwrth eich profiad chwi yn Tenby ac yn rhanau Seisonig sir Benfro. Gall fod yn eithaf gwir y byddai y Cymry ymhob man yn ddiolchgar am garedigrwydd a gofal bugeiliol, ac y teimlant barch ac anwyldeb tuag at glerigwr gan yr hwn y derbyniont y cyfryw. Ond nid ydyw yn llai gwir fod ynddynt ddyhëad cryf nodedig am bregethu, a bod yn llawer gwell ganddynt yr un sydd fwyaf cynhyrfiol a chyffrous, tra mai ychydig o chwaeth sydd ganddynt tuag at wasanaeth yr Eglwys ynddo ei hun; ac yn y plwyf a wasanaethid oreu, tra y derbyniant yn ddiolchgar gymwynasau y clerigwyr, y byddai iddynt, os gadewid hwynt i ddilyn eu tueddfryd, barhâu i fynychu y tŷ cwrdd." Mewn llythyr arall at yr un boneddwr ysgrifena: "Adfywioceir fy ymdeimlad i o'r anhawsder i ddarpar ar gyfer anghenion tymmorol yr Eglwys yn yr Esgobaeth hon gan fy mhrofiad personol. Mae fy Nghronfa Ychwanegiadol, ynghyd a'r rhoddion a gafwyd trwyddi oddiwrth y Dirprwywyr Eglwysig a *Bounty* y Frenhines Anne, wedi dwyn cydrhwng £30,000 a £40,000. Ac eto, o'i gymharu â'r angen am waddoliad pellach, nid yw yr effaith prin yn ganfyddadwy, ac yr wyf yn ofni y bydd yn hir cyn y dyblir hyd yn nod hyn trwy y moddion a awgrymwch." Yn yr un llythyr y mae yn cyffwrdd â'r anhawsder sydd yn codi o gymysgiad yr ieithoedd yn y Dywysogaeth. Dangos y mae mor anhawdd ydoedd i'r Dirprwywyr Eglwysig gyflenwi yr angen am

wasanaeth crefyddol yn eu hiaith eu hunain i'r Saeson oeddynt yn byw yn Nghymru. "Mewn amgylchiadau o'r fath cyfodail cwestiwn gyda golwg ar ba nifer o Gymry y lle a ddeallent Saesoneg, a pha nifer o'r Saeson a ddeallent Gymraeg, ac nis gallai y Dirprwywyr ymchwilio i'r cwestiwn gydag unrhyw obaith o ddyfod o hyd i'r gwirionedd." Barnai, lle y byddai y gynnulleidfa Seisonig yn cael ei gwneyd i fyny o ychydig deuluoedd cyfoethog, y dylai y cyfryw ddarparu ar gyfer eu hangen eu hunain. Ond yr oedd yn cael mai anaml iawn y byddent yn gwneuthur hyny. Noda enghraifft o Sais yn nghymydogaeth St. Dogmell's, yn cwyno nas gallai gael clerigwr i ddarllen y gwasanaeth Seisonig iddo, tra yr oedd gwasanaeth Seisonig yn cael ei gynnal yn rheolaidd yn Aberteifi, o fewn pellder cerddadwy. Effaith cludo y gwasanaeth Seisonig i St. Dogmell's a fuasai chwalu y gynnulleidfa Gymreig; ond nid oedd y Sais yn gofalu dim am hyny; "about this," medd yr Esgob, "the wealthy English seem never to feel the smallest scruple." Ysgrifenwyd y geiriau hyn, gan Sais cofier, un mlynedd ar ddeg yn ol; a ydynt wedi peidio a bod yn wirionedd heddyw? Yn yr un llythyr drachefn y mae sylw arall sydd yn cyffwrdd âg un o "gwestiynau y dydd" yn ein plith ni. Cyfeirio y mae at lywodraethiad Coleg Llanbedr. Dywed yr Esgob fod plaid ar Fwrdd y Coleg yn ymladd i gyrhaedd dau amcan, y naill i leygoli addysg y Coleg, a'r llall i lenwi pob sedd ar y Bwrdd gyda Chymro. Credwn pe gofynasid iddynt y buasai mwyafrif ein cydwladwyr yn cydfyned â'r cyfryw blaid; ond ymladdodd Esgob Thirlwall hyd yr eithaf yn erbyn y ddau symudiad. Nid yw edmygedd o'i berson a'i gymeriad yn gosod unrhyw angenrheidrwydd arnom i dderbyn ei olygiadau. Dywed ef ei hun nad oeddynt bob amser yn dderbyniol gan ei wrandäwyr. Ymddengys ei fod un tro yn traddodi anerchiad ar faterion eglwysig ar Ddydd Gwyl Dewi, ac i'r cynnulliad flino arno. "Gwrandawyd yn amyneddgar, a chyda pheth ymddangosiad o ddyddordeb," meddai, "ar y rhan gyntaf o berthynas i'r Eglwys, ond pan gymerais i fyny bwnc yr Eglwys yn Nghymru, cyfododd lleisiau o ben draw yr ystafell, yn llefain 'Amser! Amser!' gan awgrymu fy mod i yn cymeryd gormod o hono!" Nid oedd Esgob Thirlwall uwchlaw cymeryd gwers. "Na feïwch hwynt," meddai wrth un a gondemniai y rhai diamynedd, "llais natur nas gallent ei roddi i lawr ydoedd; a chredent mae'n ddiammeu eu bod yn gwneyd yr hyn oedd oreu ar les pawb oedd yn bresennol, ac hwyrach eu bod yn gwneuthur hyny!"

Fe gymerodd yr Esgob, fel yr awgrymwyd, ran flaenllaw yn y ddadl fawr ar Ddadgysylltiad yr Eglwys Wyddelig. Yn y cyfwng presennol, pan y mae cwestiwn mawr Dadgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys yn Nghymru wedi dyfod i'r gafael, nis gall ei eiriau ar y mater lai na bod o'r pwys mwyaf. "Nid wyf yn synu," meddai, "fod yr Ymneillduwyr yn teimlo yn llawen yn ngwyneb dadgysylltiad agosäol yr Eglwys Wyddelig, fel yr ergyd cyntaf i'r adeilad sydd yn nês adref. Y mae yn bosibl y try allan, heb i mi fyw i oedran Methusaleh, mai myfi fydd yr esgob olaf o Dyddewi i eistedd yn y Senedd." Nid felly y bu; yr oedd ei olynydd yn nês ato nag y tybiai; ond mae'n amlwg fod Esgob Thirlwall yn edrych ar Ddadgysylltiad yr Eglwys yn Nghymru fel un o'r pethau "oedd ar ddyfod." Tra yn dal fod amgylchiadau

yr Eglwys Wyddelig yn wahanol i amgylchiadau yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru, nid ydyw heb weled fod yr ymresymiad cyffredinol o blaid dadgysylltiad yn cyfarfod y naill fel y llall. "Pan y dadleuir o blaid y Dadgysylltiad," fe sylwa yn un o'i lythyrau at Mrs. Thomas Thirlwall, "ar dir eang 'cydraddoldeb crefyddol,' nis gall y rhai a gymerant y tir hwnw wrthod ei gymhwyso at y ddwy Eglwys fel eu gilydd; ac mae'n bosibl i'r hyn a wneir yn yr Iwerddon wasanaethu fel arweiniad pan y byddys yn ymwneyd â'r un cwestiwn yn Lloegr. Ond eto pe byddai yr Eglwys yn drefnus ac yn hollol unol ynddi ei hun, yr wyf yn credu y byddai yn hir yn alluog i wrthsefyll pob ymosodiad o'r tu allan. Fel y mae pethau yn awr, y mae genym i wynebu y ffaith fod plaid gref ymhlith ein clerigwyr yn dymuno, yn fwy neu lai agored, ysgariad cydrhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth." Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at araeth alluog a dylanwadol yr Esgob o blaid ail-ddarlleniad y Mesur er Dadgysylltu yr Eglwys Wyddelig. Yn hono ymresymai mewn modd argyhoeddiadol nas gellid, yn gyfiawn, edrych ar drosglwyddiad gwaddoliadau fel unrhyw fath o gysegr-yspeiliad. "Y mae'n bosibl i amgylchiadau gyfodi," meddai, "ymha rai y gellir yn gyfiawn ac yn weddus droi meddiannau Eglwysig, hyd yn nod pan yn parhâu yn gymhwys i wasanaethu eu dyben gwreiddiol, at amcan arall a hollol wahanol." Nid ydyw yn dyweyd fod y cyfryw amgylchiadau wedi cyfodi yn achos yr Eglwys Wyddelig, ac mae'n lled sicr na farnai eu bod i'w cael yn sefyllfa bresennol yr Eglwys yn Nghymru; ond sylwa fod y posibilrwydd a nodwyd yn ddigonol i ddangos fod sôn am "gysegr-yspeiliad" ac "yspeilio Duw" ynglŷn â throsglwyddo gwaddoliadau yn anghymhwys ac anmherthynasol—"as irrelevant and misapplied as they are irritating and offensive." Yn yr ail le, dadleua yn gryf yn erbyn yr ymresymiad y byddai i'r mesur fod yn foddion i gryfhâu gallu ac eangu dylanwad offeiriaid y grefydd Babaidd yn yr Iwerddon. Dylai ei sylwadau ar y pen hwn gael ystyriaeth ofalus pob dyn sydd yn ofni dylanwad y "ddrychiolaeth Rufeinaidd" ar ein gwlad. Nid ydyw yr araeth ond yn prin gyffwrdd â chwestiwn perthynasol yr Eglwys Gymreig. Sylwa yr Esgob nad oes un cyfatebiaeth rhwng y ddwy Eglwys; yn hytrach fod gwrthgyferbyniad cryf rhyngddynt, nid yn unig yn y ffaith nad oes sianel lydan yn llifo rhwng Lloegr a Chymru, ond hefyd yn yr amgylchiad fod holl boblogaeth Cymru o'r un farn gyda golwg ar grefydd, ac nad ydynt yn gwahaniaethu oddiwrth yr Eglwys Sefydledig ar un pwnc hanfodol i fwy o fesur nag y gwahaniaetha aelodau o'r Eglwys Sefydledig oddiwrth eu gilydd. Cyflwynwn y syniadau hyn o eiddo ei Arglwyddiaeth i sylw y Dadgysylltwyr yn Nghymru.

Mater o gryn ddyddordeb i Eglwyswyr, ac yn wir i Gymry y Dywysogaeth oddeutu deugain mlynedd yn ol, ydoedd y cynnygiad i uno Esgobaethau Bangor a Llanelwy, er mwyn mantais esgobaeth-newydd-grëedig Manchester. Teimlai Esgob Thirwall y gwrthwynebiad cryfaf i'r cynnygiad, a gesyd ei olygiadau ar y pwnc yn lled glir o'n blaen mewn llythyr a gyfeiriwyd ganddo at Dr. Whewell, meistr Coleg y Drindod. "Nid wyf yn petruso dyweyd," meddai, "fod y mesur a gynnygir yn hollol ddiangenrhaid, annoeth, anghyfiawn, a niweidiol. Gellid meddwl y byddai un olwg ar y map yn ddigon i foddloni unrhyw un, os ydyw Esgob yn rhywbeth amgenach na rhan

addurniadol yn unig o'r llywodraeth eglwysig, fod pob un o'r esgobaethau y cynnygir eu huno yn llawn ddigon i fforddio gwaith i un, a chan hyny y byddai yn rhaid i'r bugail neu y praidd, neu yn fwy tebygol y ddau, ddyoddef, os dyblid y dyledswyddau. Nid oes eisieu ond ychydig adnabyddiaeth o sefyllfa yr Eglwys yn Nghymru i argyhoeddi unrhyw un nad oes esgobaethau yn y deyrnas yn llai abl i fforddio colli rhan o'u cyllidau eglwysig." Ar ol sylwi mai yr unig reswm o blaid y cynnygiad y gwyddai ef am dano ydoedd yr angenrheidrwydd tybiedig o gael sedd i'r Esgob newydd yn Nhŷ yr Arglwydd, a'r anmhosibilrwydd tybiedig o ychwanegu y seddau esgobol, ä ei Arglwyddiaeth ymlaen i ddangos fod y fath reswm ynddo ei hun yn ychwanegiad at ffolineb niweidiol y cynnygiad, yn gymaint a'i fod yn ddadganiad o farn rhai pobl, fod lles yr Eglwys a theimladau pobl Gogledd Cymru yn ddibwys, o'i gymharu â phwynt o foesgarwch gwleidyddol-eglwysig, neu y perygl a allai gyfodi oddiwrth esiampl Esgob Seisonig heb fod yn Arglwydd seneddol. "Mae y dull o gyfarfod yr anhawsder, meddai, "yn ymddangos i mi yn hollol afresymol; aberthu y mwyaf i'r hyn sydd anfeidrol lai—rhywbeth yn debyg fel pe y tybid fod nifer *wigs* esgobion yn gyfyngedig, ac y dylid o herwydd hyny leihâu nifer y penau, yn hytrach na gadael i un o honynt ymddangos yn ei wallt ei hun!"

Yn ei gysylltiadau â chlerigwyr ei esgobaeth ei hun nid oedd yr Esgob Thirlwall, fel y sylwyd, mor hapus ag y gallesid dysgwyl; er hyny dygodd lawer o gyfnewidiadau er gwell i mewn yn ei ymwneyd â hwy. Dywedir wrthym ar awdurdod uchel yr arferai clerigwyr yn nyddiau ei ragflaenwyr, pan yn talu ymweliad âg Abergwili, fyned i mewn trwy y drws cefn, a chiniawa yn nghwmni y gweision uchaf, yn ystafell yr *housekeeper!* Newidiodd yr Esgob newydd y drefn ddiraddiol hon, ac archodd fod i'w ymwelwyr clerigol gael eu derbyn fel ei gydradd. Yr oedd hyn yn dda mewn amcan, ond yn anhawdd mewn ymarferiad. Dywed yr awdurdod y cyfeiriwyd ato yn barod, fod clerigwyr Cymreig ddeugain mlynedd yn ol yn ddynion *rough*, anghoeth, cul a rhagfarnllyd, gyda theimladau ac arferion ond ychydig yn fwy gwareiddiedig na'r cyffredinolion o'u cwmpas. Yr oedd y gwahaniaeth mor fawr rhyngddynt â'r Esgob fel ag i wneyd cymundeb cymdeithasol yn anhyfryd i'r ddwy ochr; ac yn lled fuan barnodd yr olaf yn angenrheidiol i gario ymlaen y rhan fwyaf o'i waith esgobawl trwy ohebiaeth, yn hytrach na thrwy ymweliadau personol. Addefwn nad ydyw y darlun hwn o glerigwyr yr oes a basiodd yn un dymunol; nid yw yn brydferth, a gall ei fod yn faleisus; y cwbl sydd genym i'w ddyweyd am dano ydyw ein bod yn ei roddi i mewn ar awdurdod y *Church Quarterly Review.*

Yn y casgliadau o'n blaen, ychydig mewn cymhariaeth yw nifer y llythyrau o eiddo yr Esgob at ei glerigwyr sydd yn meddu dyddordeb Cymreig. Ysgrifenwyd un o'i lythyrau swyddogol cyntaf at offeiriad yn ei esgobaeth a wrthodai weinyddu y Cymun Sanctaidd i amryw bersonau o herwydd eu bod yn arfer myned i chwareudai. Dengys y llythyr mewn modd tra amlwg y rhyddid a'r eangder a nodweddent ymdriniaeth yr Esgob ar bob cwestiwn agored. Er ei fod yn seilio ei wrthwynebiad i'r cwrs a gymerwyd gan yr offeiriad ar y ffaith nad ydoedd y cwrs hwnw yn gydnaws â threfniadau a thraddodiadau yr

Eglwys, ac yn galw arno i dderbyn drachefn y personau gwrthodedig fel mater o ufudd-dod i'w uwchafiaid Eglwysig, gellir casglu oddiwrth dôn y llythyr nad oedd ei ysgrifenydd ymhlith y dosbarth a gondemniant bob math o chwareuyddiaeth fel teyrnged a delir i'r cnawd ac i'r diafol. Mewn llythyr arall, dyddiedig Medi 1840, sef blwyddyn ei ddyrchafiad i'r esgobaeth, cawn ef yn gwrthod caniatâd i godi cofgolofn i'r Esgob Farrar, un o gynesgobion Tyddewi, o herwydd ei fod yn "coleddu ammheuon cryfion gyda golwg ar y doethineb o gyfodi cofgolofnau newyddion yn y dyddiau hyn i adgoffa penboethni a chreulonder, y rhai oeddynt felldith a gwaradwydd cenedlaethau blaenorol." Y flwyddyn ddilynol gelwir arno i benderfynu cweryl clerigol ar yr hen gwestiwn, "Pwy a fydd flaenaf," ac yn ddiweddarach, i amddiffyn ei hun yn ngwyneb y cyhuddiadau a ddygwyd yn ei erbyn gan Syr Benjamin Hall, wedi hyny Arglwydd Llanover, o fod yn esgeuluso ei ddyledswyddau bugeiliol. Ceir hefyd gyfeiriadau gohebyddol at yr anghydweledìad a fu rhynddo â'r Parch. Rowland Williams. Ar farwolaeth y gŵr enwog hwnw, "gŵr gwir athrylithgar," dywed, "Y mae yn gysur i mi i adgofio fod fy holl fwriadau tuag ato bob amser yn ddiffuant gyfeillgar, a bod y gwahaniad cydrhyngom wedi ei achosi gan gamddealltwriaeth dyeithr o'i du ef."

Tuag at Lenyddiaeth a Chelfyddyd y Dywysogaeth, coleddai yr Esgob Thirlwall yr hoffder mwyaf. Yr ydym o'r blaen wedi crybwyll am ei lwyddiant gyda'n hiaith, a'r medd y cydnabyddwyd ef ar gyfrif hyny. Ni foddlonodd ar ddysgu yr iaith yn unig, ond aeth i mewn i deimladau cenedlaethol y bobl. Dywedir ei fod yn hoff neillduol o gerddoriaeth, yn enwedig yr hen alawon Cymreig. Cyfeiria atynt yn fynych yn ei lythyrau gyda'r serchogrwydd a'r ymlyniad dyfnaf. Cwyna yn un o honynt fod yr hen arferiad Gymreig o gadw telynor teuluaidd wedi darfod o'r tir. Ymddengys i'w ohebyddes ei adgofio o fodolaeth Gruffydd, telynor adnabyddus Arglwyddes Llanover, darlun o'r hwn a anfonai gyda'r llythyr. Mewn atebiad derbyniodd y nodyn dyddorus a digrifol a ganlyn:—"Yr ydwyf yn wir ddiolchgar am olwg ar y darlun sydd yn fy ngalluogi i sylweddoli yn berffaith y gwrthddrych oedd o flaen llygaid Tywysog Cymru fel y gwrandawai ar felus dônau y delyn Gymreig. [Yr oedd Gruffydd newydd fod yn chwareu y delyn deir-rhes o flaen ei Uchelder Brenhinol yn Marlborough House.] Mae y wisg yn dra chymhwys i waith yr *artist*, ond nid wyf yn meddwl y dywedwn ei bod yn *ideal*. Os oes bai arni, yr un ydyw â'r hyn, fel y tybir gan rai, sydd yn tynu oddiwrth ragoriaethau Arglwydd Stanley (yn awr Iarll Derby). Y mae yn rhy synwyrol. Yn ei wisg gryno ac yn ei gadair esmwyth, y mae Gruffydd yn dra gwahanol i'r darlun sydd yn addurno wynebddalen copi bychan o *Gray's Poems*, lle y dangosir *The Bard* ar ddibyn y

Rock, whose haughty brow
Frowns o'er old Conway's foaming flood,

ac yn lle bod yn llyfn a gwastad oddiwrth yr ellyn a'r brws, fel eiddo Gruffydd,

Loose his beard and hoary hair,
Stream like a meteor to the troubled air."

Nid ydym yn gwybod pa wisg y cyfeiriai yr Esgob ati, ond cofus genym weled Gruffydd fwy nag unwaith yn nghyfarfodydd dydd Gwyl Dewi wedi ei ddilladu yn ngwisg ein henafiaid—"the veritable costume of the Ancient Britons," sef siaced o "wlanen onglog a chymhwys," wedi ei gwau yn Ngwent. Yn hon edrychai, os nad fel telynor y bardd Gray, o leiaf fel un o'r hen delynorion fu gynt yn swyno Cymru âg iaith enaid oddiar dannau'r delyn. Ceir cyfeiriad pellach at Gruffydd yn chwareu ei hoff offeryn ar achlysur neillduol (ar yr hwn y cawn sylwi eto), yn Ninbych y Pysgod, a chydag ef enethig Gymreig "in the perfection of Welsh costume, and looking as if she had just been taken out of a band-box," ac yn telori alawon ei gwlad nes llwyr foddio yr hen Esgob tynergalon. Daw telynor arall a phrif delynor Cymru hefyd i mewn am grybwylliad, ynglŷn â phresennoldeb yr Esgob yn un o'r cyngherddau brenhinol. Canai Miss (yn awr Madame) Edith Wynne ei hoff alaw "Clychau Aberdyfi," yn cael ei dilyn ar y delyn gan y Pencerdd, "profanely styled Mr. John Thomas;" ac er fod Mdlle. Nilsson yno i roddi esiamplau o alawon Sweden, a Mdlle. Ilma de Murska yno i wneyd yr unrhyw âg alawon ei gwlad hithau, Hungary, cydnebydd yr Esgob gyda pharodrwydd canmoladwy mai y Gymraeg yn unig a roddodd syniad iddo ef o alaw wir genhedlaethol. Dau grybwylliad cerddorol arall, a ni a derfynwn. Yn un o honynt crybwyllir fod Dr. Carl Meyer, Germaniad dysgedig a geisiai brofi nad ydoedd brwydr fawr y *Gododin* namyn alegori serofyddol, yn ysgafnhâu ei ymchwiliadau trwy chwareu a chanu alawon Cymreig yn mhlasdŷ Abergwili. Yn y llall dywed yr Esgob wrth ei ohebyddes iddi ddyfod i'w gof trwy iddo glywed cyfieithiad Seisonig o'r "Aderyn pur" yn cael ei ganu gydag "unbounded applause" yn un o gyngherddau y bechgyn yn hen ysgol y Charterhouse.

Mewn perthynas i lwybrau eraill celfyddyd, ceir amryw grybwyllion ynghylch gwaith arlunwyr Cymreig, yn enwedig eiddo Mr. Edward Davis, celfyddydwr a ystyrid gan Thirlwall yn un o gerflunwyr mwyaf gwreiddiol a chywrain ei ddydd. Edward Davis a wnaeth y *bust* o'r Esgob sydd yn awr yn Westminster Abbey; ac efe hefyd, ar draul yr Esgob, a osododd i fyny gofgolofn yn Eglwys Abergwili er anrhydedd i goffadwriaeth yr Esgob Richard Davies, un o gyfieithwyr y Bibl Cymraeg. Yr ydym wedi methu olrhain cysylltiadau Cymreig yr arlunydd, ond ymddengys ei enw am amryw flynyddoedd yn rhestrau arddangosiadau y *Royal Academy of Arts*. Y blynyddoedd diweddaf yr ydym wedi ei golli oddiyno, ac y mae'n dra thebygol ei fod yntau wedi myned drosodd at y mwyafrif i fro dystawrwydd. Enwir hefyd, mewn mwy nag un llythyr, Mr. J. Meredydd Thomas, yr hwn ynghyd a'i frawd, Mr. Evan Thomas, a gerfiasant ddelw y Tywysog Albert, a osodwyd i fyny yn Ninbych y Pysgod yn y flwyddyn 1865. Ynglŷn â dadorchuddiad y gofgolofn, cofnoda yr Esgob ymweliad y Tywysog Arthur (yn awr Duc Connaught) â Chymru, a'i ymddangosiad cyntaf mewn bywyd cyhoeddus. Traddododd ei arglwyddiaeth araeth ar yr achlysur a ennillodd iddo gymeradwyaeth neillduol y Frenhines. Ymddengys fod Dinbych wedi Cymreigyddio ei hun gogyfer â'r achlysur. "Yr oedd mwy o Gymraeg," meddir, "i'w weled ar y baneri a'r bwäau nag a glybuwyd yn Ninbych, fe allai, am ganrifoedd. Diau ei fod

wedi ei fwriadu i gynnrychioli yn hytrach yr hyn a ddylasai fod, na'r hyn sydd." Arweiniodd un o'r arwyddeiriau y Tywysog ychydig ar gyfeiliorn. Tra yr oedd yr Esgob wrth gyfieithu un iddo yn dechreu gyda "Long life to,"—atebodd yntau gyda'r dyfaliad, "the Prince of Wales; ond yr hyn y dymunid "Hir oes" iddo ydoedd, nid "Tywysog Cymru," ond "yr Iaith Gymraeg!"

Mae ein hysgrif eisoes mor faith fel na chawn ond prin gyffwrdd â'r hyn a ddywed yr Esgob am ein llenyddiaeth a'n traddodiadau cenedlaethol. Pe yn byw yn awr diau y buasai yn gefnogydd aiddgar o *Folk Lore Section* Cymdeithas y Cymmrodorion, oblegid pan yn son yn un o'i lythyrau am draddodiadau a llên gwerin ein gwlad, dywed, "It is a thousand pities that they should not have been preserved." Cyfeiria yn aml at y traddodiadau Arthuraidd, geilw sylw yn ei draethawd ar y *Submersion of Ancient Cities*, at foddiad Cantref y Gwaelod, a noda chwedl gyffelyb ynglŷn â Chaerfyrddin; cymhara hen chwedleuon Cymru â rhai o'r un natur yn llenyddiaeth gwledydd eraill; a dwg ei farn glir a'i feddwl addfed i ystyriaeth bwyllog o hanes llenyddol ein gwlad. Mae enwau yr hen wlad yn meddu swyn iddo am eu bod yn "hollol ddesgrifio ei sefyllfa;" a'i diarebion yn ennill ei edmygedd er fod geiriadurwyr yn colli eu gafael arnynt. Er engraifft, yn "Asgre lân diogel ei pherchen," *motto* teulu Herberts, Llanarth, gwel ddefnydd "pregeth" ar allu iaith a gwerth diareb; a'r un modd gyda llu o ymadroddion sydd yn swnio yn fyw yn *aeg* hen Walia. Gofynodd y Frenhines iddo unwaith anfon nifer o lyfrau Cymraeg i *nurse* y Dywysoges Christian. Anfonodd iddi *Ddrych y Prif Oesoedd*, *Hanes y Ffydd*, *Y Bardd Cwsg*, ac un o'r cyfieithiadau o *Uncle Tom's Cabin*. Hefyd, gan dybied y buasai y *nurse* yn hoffi chwedl *Y Meudwy Cymreig*, anfonodd iddi Weithiau Cawrdaf, "yr hwn," meddai, "a gyflwynwyd i mi gydag awdl organmoliaethol *(a very hyperbolical ode)*." Fel arwydd arall o ymddiried ei Mawrhydi yn ei allu a'i farn, rhoddodd ei chydsyniad i glerigwr "who among mortals is known by the not very uncommon name of *John Jones*, but in the higher sphere in which one fancies him sitting on a cloud, with a long white beard waving in the wind and a harp before him, is styled *Idrisyn*," i gyfieithu ei *Dyddlyfr* i'r Gymraeg ar yr ammod fod iddo anfon ei brawfleni i'r Esgob cyn eu cyhoeddi.

Ychydig a phrin ydyw y cyfeiriadau at sefydliad cenedlaethol y Cymry—yr Eisteddfod, er yr ymddengys i'r Esgob, ar ryw achlysur neu gilydd, gael ei urddo yn Archdderwydd. Ond ysgrifena amryw weithiau ynghylch cynnulliad eisteddfodol a gynnaliwyd yn nhref St. Brieuc, yn ngwlad y Brythoniaid, ychydig dros bymtheg mlynedd yn ol. Enwir hen gartref y Brython mewn man arall ynglŷn â dinystriad cofgolofnau Celtaidd y wlad gan yr amaethwyr ac eraill, a anmharchent weddillion henafiaethol o werth anmhrisiadwy er mwyn hwyluso eu hamcanion bychain eu hunain. Cofus gan yr ysgrifenydd, pan ydoedd ar ymweliad âg Armorica ryw dair blynedd yn ol, iddo deimlo yn drâ gofidus wrth feddwl fod can lleied o ofal wedi bod am yr hen olion derwyddol sydd i'w gweled yn wasgaredig ar hyd meusydd Carnac a Locmariaker; a chydymdeimla yn llwyr â dymuniad yr Esgob Thirlwall ar fod i rywbeth gael ei wneyd "to stop the ravages of such atrocious Vandalism."

Ychydig drachefn ydyw y cyfeiriadau at Ogledd Cymru. Beaumaris a Bangor ydyw yr unig ddau le sydd yn cael yr hyn y gellir ei alw yn sylw. Am y blaenaf dywedir ei fod "the pleasantest of all watering places;" a gelwir y Fenai, oddiyno i Borthaethwy, y "Cambrian Bosphorus." Mewn man arall ceir dadl ar enw boreuol y lle, Bonover, yr hwn oedd yn fwy nag y gallai yr Esgob ei ddeall na'i ddeongli. Am Bangor dywed, "It is the place where I first enjoyed the sense of sublimity in nature;" ond ychwanega fod y lle wedi cyfnewid llawer er pan y bu ef yn ei fwynhâu yn nyddiau ei ieuenctyd.

Yr ydym bellach wedi ei ddilyn trwy y rhan fwyaf o'i gysylltiadau Cymreig: un yn unig a erys. Yn Mynachlog Westminster, er fod ei phalmant a'i muriau yn cynnwys cofgolofnau ugeiniau lawer "of those who have wrought immortal deeds, and those who have recorded them in immortal words," nid oes dim a gynnyrcha deimladau parchedicach yn nghalon Cymro na dyfod at orweddfan Connop Thirlwall, a gweled ar gareg ei fedd, "*Gwyn ei fyd.*"

E. VINCENT EVANS.

---

# AWDL YR ANTURIAETHWR.*

TRWY y niwl anturio wnaf,
At arwr mawr anturiaf;
Y niwl mall gilio o 'mhen,
Fel y niwl o flaen haulwen,
I deilwng allu dilyn
Llwybrau y dasg, lle bu 'r dyn.
  Trwy 'i waith, yr Anturiaethwr
I fyd yw y mwyaf ŵr;
A'i ddeheulaw feddyliol
Ar fyd y cerfia ei ôl.
Y fath greadur i fyd
Yw efe drwy ei fywyd;
Dyn yw i fyd, yn ei fàn
Hanes, ar ben ei hunan;
Einioes hwn yn gyfrin sydd
Yn y dwfn. Beth yw defnydd
Ei enaid ef? O b'le daeth
Eisieu brwd ei ysbrydiaeth,
Hud engyrth ei "nôd angen,"
A'r yni byw dry 'n ei ben?

* Buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Môn, Awst, 1883.

O b'le iddo fe, 'r fath fod,
Y daw ei fwyd a diod?
Nid y berth a'i phrydferthion,
Lona 'i fryd, a leinw 'i fron;
Nid gŵr yw ef wedi 'i gau
Yn Eden y mân flodau;
Nid y dorth wnaed i'w borthi
Yw 'r ardd, er mor hardd yw hi;
Nid byd o bêr bleserau
A fedda hoen i'w foddhâu:
Mor frwd a thra mawrfrydig
Ei chwaeth, ei "fara a chig,"
Yw antur trwy helyntion
Môr a thir, yn nghymorth Iôn.
Mawr yw, yn nhymer eofn
Enaid ei serch nid oes ofn;
Dyheu mewn ofnadwyaeth
Erch wedd, ddifyra ei chwaeth;
Deil ef ei rym, hoedl ei fron
Yw arogli peryglon;
Try i'r maes, anturiwr myg,
A cheir ef, fel march rhyfyg:
Ei nôd, trwy gyhyrau 'i nerth,
Wyneba 'n hunanaberth:
I arfaeth fawr y fath fôd,
Rhyw ddrws yw 'r ddaear isod,
A'i agor ar ddiwygiad
Fwyhâ ddyn, yw ei foddhad.

I'w adnabod annyben—fu ei oes;
Efe pan yn fachgen,
A dybid, i bob dyben
Allan o bwyll yn ei ben.

Ei ddyeithr ffyrdd oedd ddiddiwedd,—a llawn
O gynlluniau rhyfedd!
Yn abl gawr, anhyblyg wedd,
Garw a phell mewn gorphwylledd.

Gwefr a haenau 'i gyfrinion—ydoedd fyd
Oddifewn i'w galon;
A'i wyllt fryd, â mellt ei fron,
Yn cynneu ei amcanion.

Duw roddodd graffder iddo,—ac euraidd
Enaid cerub ynddo;
Trwyddo 'i hun y treiddiai o,
Fôr ei nef fawr i nofio.

Dyn yw o gorff gwydn i gyd,
Lloches ffynnonell iechyd;

Ystwyth, cydbwys, gymhwys gorff,
Aiddgar, arwrgar, hirgorff;
Gaerog dŵr, fel o'r graig dân,
Wedd a dull, naddwyd allan;
I ddal pwys ei feddwl pur,
Hir ei wynt, ar ei antur;
Mewn nwyf i lamu 'n ufydd,
I'w neges, hwnt, megys hydd;
Trwy lawnder a balchder byd
A'i gul lwydfaith galedfyd;
I agor ffordd trwy egr ffau
Ystôr o anhawsderau,
At eofn gwyso tywydd
Oer a phoeth, âg aradr ffydd:
I gofleidio 'r ystorom,
I wenu serch ar wddf siom;
O aidd a gwres, i ddi-gryn
Lawenhâu ar lîn newyn,
A llym syched,—llamsachu
I dori lawr deirw lu;
Lladd eirth, i'w ffordd allai dd'od,
A llawen lyncu llewod.

Wedi troi chwythad ei anadliadau,
Einioes a nodwedd, yn fyw syniadau;
Wedi i'w reswm agor y drysau
Ar ei guddiedig argyhoeddiadau;
Wedi i efrydiaeth wneyd i'w fwriadau
Wisgo 'n allanol, ei fras gynlluniau;
Yn chwimrwydd äi â chamrau—arwrol,
I'w hynt ar ei ethol anturiaethau.

---

Gan hyrddio 'r llong i'r creigiog ororau,
Ymrolia hyf anwar 'storm yr elfenau;
I gynneu terfysg, y gwynt a'i arfau,
Hollta 'n wgus y gorwyllt wanegau;
Ar amrantiad bytheiria 'r môr, yntau,
O'i waelodion, i'r gwynt edliwiadau;
Ac o'i lydanrwth safn ei heillt ddafnau
Boera i wyneb sêr y wybrenau;
Yn rhoch ysgydwol eu cyrch wasgiadau,
Ymollwng weithion mae y llong hithau:
Druan ydoedd o dan eu dyrnodiau,
Yn fawr ei thrallod, ä 'n anferth ddrylliau
Yn mro ei thynged ymrithia angau
Chwerw, yn nodwedd ei ddychryniadau;
Y teithwyr diwyd, hwythau,—druain sawdd
Yn merw dinawdd y môr a'i donau.

Na, na, wele 'n gynta' gŵr,
Morwria ein mawr arwr;
Gyr ei gwch trwy 'r aig a'r gwynt,
Ac aruthr nerth y cerynt;
Efe a deifl ei fywyd
I'r gwaith a'i gryfder i gyd;
I'w gwch rhydd fwy o gychwyn,
Ewybr, draw, heibio hir drwyn
Y graig erch, egyr garchar
Y meirw byw, ar y môr bâr;
Treiddia ef at eu rhyddhâu,
O ofn, ing, a safn angau:
Efe 'n fyw, â'i fuan fâd,
Ddaw â'r oll o'r llongddrylliad;
Ac ef, waredwr cyfan,
O'i ddurol hynt ddaw i'r lan;
Ac ar y lan crea wledd,
Egyr fawl a gorfoledd.

---

Anmhwyllog garlamu allan—o'u tai
Mae mynteioedd weithian,
A'u hafrwydd waedd yn hofran
Nwyfre Duw—"Mae 'r dref ar dân."

Uwch ac uwch mae 'n gwrid gochi—ei chorff lysg,
Torcha 'r fflam am dani;
Cyn hir wedi 'r ysir hi,
Ffy yn hawdd a'i phen iddi.

A yw dewr feib y daran—hwy a phawb
Yn ffoi? oes yn unman
Gawr aiddfawr wrendy 'r gruddfan,
A'r llefau tost o'r llif tân?

Oes, o ffawd—yn ngwres ei ffydd
Ar waith mae 'r anturiaethydd;

Trwy oddaith wyllt mae 'n treiddio,—mae ei wisg,
Mae ei waed yn fflamio;
A thân ffydd gwyrthiau wnaiff o,
Bedydd o dân neu beidio.

Y dre' chwilia drwy 'i chalon,—o'u hochain
Achub ei gyd-ddynion;
Efe o'u trwm wasgfäeon—wna 'u cyrchu,
Yn llesg, ddiallu, o'r llosg weddillion.

Efe o'r tân difäol—â llïaws
Llawen, ddaw 'n waredol;
I'r teneu angeu ingol,
Yr un ni edy ar ol.

---

Dyn da, o lydan duedd
Yw, yn dyheu o du hedd;
E gâr enaid pob gronyn
O ddeddfau iawnderau dyn:
A cheir ymhob cyfeiriad
Ei lef dros hawliau ei wlad;
A yn erbyn y dyn dall
Iâiawnderau gwlad arall,
Gormes deyrn, grymus ei dwyll,
Annhymig frenin a'mhwyll.

Yn mhlaid cyfiawnder, rhwyga ddyfnderoedd
Gwaew dynoliaeth a'i gauad niwloedd;
Dyry ymwared ar dir a moroedd,
Herfeiddia wyneb anwar fyddinoedd;
Fel â'i law y teifl ei luoedd—aidd-bur,
Acw i'r antur megys corwyntoedd.

Yn ei rym yn mlaen yr ä—â ffyddlon
Boeth anian calon, byth ni encilia.

Wyneb ei reswm, bywyd ddibrisia,
O du aur ryddid ei waed a rodda;
Trwy ddreigiau arfog traidd hir agorfa,
A'u trawsder enbyd esyd yn isa';
O'i grymus ddilyn, gormes a ddalia,
Ei haidd a'i nodwedd a ddieneidia:
Trwy ehud fynwes traha—ei gledd syrth,—
Yn lli' ei hengyrth waed a ollynga.

Tery â'i fraich anturus—ei fyw gledd
Trwy wddf gwlad orthrymus;
A dyry hedd hyderus,—rhyddid glân,
A blaen ei darian i'r rhai blinderus.

O fewn cylch gorseddfainc hedd—y saif
Yn syth, dros wirionedd;
Dros uniawn farn gadarnwedd—ei lais gwyd,
A chrea 'i arswyd o'r llwch i'r orsedd.

---

Try ef ei nôd at Drafnidiaeth—ei budd
A baich ei hamrywiaeth;
A moes yn wych mewn masnachaeth—bybyr
Atteg ei synwyr at ei gwasanaeth.

Anadl einioes dylanwad—ei antur
A wyntia ddeffroad,
Grea newydd grynhöad
Nerth, i glir ymadferth gwlad.

Tyr i fewn, anturio faidd
O'r golwg, i ddirgelaidd
Haenau daear, a diwyd
Eu chwilio hwy, a chael hyd
I lawer o welyau
O aur cudd, a'u llwyr waghâu:
Rhuddaur i'w wlad mae 'n roddi,
Gallu aur i'w gwella hi;
Myn ef i'w wlad gael mwynhâu,
Mwynhâu gwleddoedd mwngloddiau.
  Anturia 'n îs, try yn wâr
I dywyll grombil daear,
Ymlwybra, tramwya 'mhell,
Nes dyfod i ystafell
Yr "haiarn," a galw arno
I lawn waith, i w ddilyn o.
O haen i haen ä o hyd,
Yn raddol, nes cyrhaeddyd
Y ddinas bygddu hono,
A'i nos glyd, "dinas y glo:"
Gwaeda glust gauad y glo,
O'i wedd ddiffrwyth, i'w ddeffro;
Ei ysgwyd o'i hir gysgu,
Bywhâu ei dost wyneb du;
A'i alw ef i'w ddilyn,
I deg wasanaethu dyn.
Yn ol, i oleu haul, eilwaith,
Y try efe o'i antur faith;
Mae o'i gylch wedi 'i amgau
A newyddion adnoddau:
Yn ei waith mor foddlawn yw,
Dedwydd ei weithred ydyw,
Yn cyflwyno cyflenwad
"Haiarn a glo" i ran gwlad.

---

Ni all hwn fod yn llonydd,—ä yn awr
  I gyfeiriad newydd;
Ei droed a'i lygad a drydd
Am enyd tua'r mynydd.

Gweddus i'r mynydd guddio—ei hun oll
  Mewn bythol niwl rhagddo;
Heddwch ni chaiff, tra fyddo
Faen o werth o'i du fewn o.

Wrth edrych i'w gerth odreu—ei feddwl
  Ddarganfydda 'n oleu,
O'i flaen, wedi 'i ddwfn gyfleu,
Newydd em, yn ddiammeu.

Gem dethol i gymdeithas,—i'w feddu
Pwy a faidd ei luddias ?
Gem enwog wna gymwynas
I fyd yw'r hen "lechen las."

Ar ol y "llechen" yr ä,—a mynwes
Y mynydd agora;
Ei wàr a'i ben a wyra,
A dwyn nerth ei olud wna.

Yn effeithiol gorff, weithian—o'i llochfa
Tyn y llechfaen allan;
Tra 'r mynydd tragywydd, gan
Nerth ei reddf, yn rhwth ruddfan.

Yn nghreig cyfoethog, gyddfog y Wyddfa,
Ef i ddynoliaeth a fydd yn elwa;
Yn ei gryf engyrth freichiau, grafanga
'N eiddo i'w gowlaid fynyddoedd Gwalia;
Yna 'n wir *rhanu* wna,—troi 'r mynyddoedd
Wna i niferoedd ei wlad yn fara.

---

Onid Tŵr i'w anturiaeth,
Arddun yw, y "ffyrdd" a wnaeth ?
Yn lle'r hen ffyrdd dienaid,
Erch eu llun, tywyrch a llaid;
I wneyd taith, cul oeddynt hwy,
Trymion, anhawdd eu tramwy;
Ceimion a geirwon eu gwedd,
Anhygyrch ffyrdd unigedd;
Ei "Ffyrdd Haiarn" cadarnwych,
A gaed, a'i "Bellebyr" gwych:
A'r rhai 'n mae 'n tyru einioes,
A brwd rym ysbryd yr oes;
Wyneb y byd a'i hanes,
Eu dwyn wna o hyd yn nês;
Una 'r oll, pob gwlad a rydd
A nerth gwawl wrth eu gilydd.
Uwch oes i fasnach esyd,
Dyry wir fawr "dro ar fyd;"
O'u caethiwed, y gwledydd
Dyn o'u rhwyd, gwna 'u traed yn rhydd.
Rhoes ef i "fynd," a mawr swyn,
Helynt y byd ar "olwyn;"
Mewn dawn a hwyl rhoi "myn'd" wnaeth
Ofnadwy i drafnidiaeth:
Haul hyrwyddol wareiddiad,
A'i wawr lif oleua 'r wlad;

Ac iach gân y gwych gynnydd,
O fôr i fôr yn ferw fydd.

---

Trydd yn awr i fawr forio—i'w hynt ar
Ryw anturiaeth eto;
Uwch yr aig y chwery o,
A'r dòn a chwery dano.

Er anferth hir ewynfor,—yn ei chwim
Ddychymyg anhebgor,
I newydd fyd, dros wyrdd fôr,
Ef o'i long a deifl angor.

Ar ddyli' 'r cefnfor ddolydd—draw y gŷr
Drwy 'i agerol awydd;
Hyd eitha 'i phwys, mordaith ffydd
Lydan yw, am wlad newydd.

I dramor bwynt mae 'i dremiad—yn edrych
Trwy wydrau ffydd-lygad;
Gwel yn glir argoelion gwlad,—hyd sicrwydd
Ca ef ei "harwydd" yn y cyfeiriad.

Ei dail ar gefn y dyli'—sy "arwydd"
A sieryd am dani;
Eu llais a'i huda o'r lli',
Am nodded i mewn iddi.

Yna 'n wir gyniweirydd—y ca 'i hun
Hyd y ceinwawr faesydd;
Mwynhâ 'r oll, llama 'n rhydd—â beiddgar
Eofndra yn naear "cyfandir newydd."

Ar ei ol, mawr yw 'r hwylio—acw, hwnt,
Am y cyntaf ato;
Yn dân gân tuag yno—mae prysur
Eneidiol lafur feib yn dylifo.

Yna 'n gynta', i lawr rhodda,
Ar risialfa bur ei sylfon;
Adeiladaeth ffurflywodraeth,
Iach a helaeth yn ei chalon.

Ef â'i ddynol, nerth rhesymol,
Ddyddia fuddiol, ddeddfau addas;
Deddfau rhyddid, iawnder, glendid,
A chadernid gylch y deyrnas.

Gweithwyr ddychwel o'u 'stad isel,
Moes yn uchel dôn masnachaeth;
Teifl ei gryfder, er y pellder,
Drefn a hyder i drafnidiaeth.

A'i fawr anturiaeth a fydd
Yn oludog i wledydd.

---

Yn ei awydd anniwall—try ei nerthol
Wynt arwrol ar antur arall.

Ymollwng yn ffordd cymhellion—ei ffydd
Wnaiff ef, i bellafion
Daear Duw, mewn hyder dôn,
Yn archwiliwr ei chalon.

Trydd ef i ganol trigolion—di-ddawn,
Di-ddysg, felyndduon;
Diallu fryd, o wyll fron,
Diaelwydydd dylodion.

Yn raddol daw 'n gyfarwyddydd—iddynt,
A noddawl addysgydd;
Efe i'r trueiniaid fydd
Wr anwyl o arweinydd.

Yn ei law wèn, yr hil anwar—a ddaw
Yn ddiwyd, deallgar;
I well gwedd, yn allu gwâr,
O dde i drin y ddaear.

Myn efe farchnadleoedd—llïosog,
Er llesiant y cyhoedd;
A'r wlad o'i gylch i'r alwad g'oedd,
Fwrw ei chnwd i'w farchnadoedd.

Murio ar lanau 'r moroedd—wna un wedd
Newyddion borthladdoedd;
A llongau dry yn llengoedd—adre 'n llawn
O nwyddau cnydlawn, er budd y cenedloedd.

Ei glod a'i enw gludir—trwy bob gwlad,
Hwn a'i fawr alwad a anfarwolir.

---

Ond gormod mawl a chlodydd,
I ŵr o'i fath, ofer fydd;
Ni wrendy ef ar undyn
Glodfora, addola ddyn.
Yn chwim a hoewach, ymaith,
A'r dyn i'w ddyeithr daith;
A byw hoendra buandroed
Y traidd, i'r lle na bu troed

Yr un dyn, i wrando iaith
Anian lân, a'i seml uniaith,
Yn ei Theml yn moli 'i Thŵr,
A chroew glodfori 'i Chrëwr.
I weled gwawr a mawredd
Ei grudd lwys, a gwreiddiol wedd
Y wir deg greadigaeth,
O fyw law Duw, fel y daeth.
I wel'd gogoniant y wig,
Yn ei hafiaeth gyntefig;
A'i dail yn siglo dwylaw,
Fry eu drych yn y fro draw.
I wel'd heirdd garnoliaid hen,
A rhodio drwy eu Heden;
Heibio i'r cudd lwybrau cêl,
Trwy y cwm, lletŷ 'r camel:
I edrych ar arth adref,
Yn hoew ei thro yn ei thref:—
I wydd min gilddannedd mawr
Y cawrfil trwm ac erfawr,
Gerdda fel t'wysog arddun,
Mewn hedd, ar ei domen 'i hun.
I weled, heb hualau
Y llew cryf, yn hyf fwynhâu
Ei deyrnàs goed, yn droed rydd,
Nid yn was, ond dinesydd;
Heb neb yn cynllwyn o'i ol,
Yn benaeth annibynol;
Yn ei drem awdurdod drig,
I'w gadw 'n deyrn y goedwig;
Yn ei frwd anian a'i fri,
Ymerawdwr mawrhydi.

---

Wedi byw enyd, a bod
Yn mro fêl y mawrfilod;

Yn ei flaen trwy afluniaidd—anialwch
Dynoliaeth iselaidd,
Y werin wyllt, anwaraidd,
I faes trwch eu hanfoes, traidd.

Yn eu bost, fel y bwystfilod,—arno
Chwyrnant yn ei wyddfod;
Yn hyf a llymach eu nôd,
Na llu o eirth a llewod.

Er hyny, nid yw rhinwedd—yn ciliaw;
Mae calon i fawredd;
Rhaid i fyd drwg, a gwg wedd,
Grynu o flaen gwirionedd.

Er eu mwyn y try mynwes—y gwron
    Yn gariad ac achles,
  Atynt hwy tywyna tês
  Anian gain ei fron gynhes.

A yn addysg weinyddwr—at riniog
    Trueni eu cyflwr;
  I'r Iesu gwyn, troes y gŵr,
  Enwog nôd, yn Genadwr.

A i'w gwyneb paganaidd—yn gorwynt
    O feiddgarwch sanctaidd;
  Tyr yn fellt, taranu faidd,
  Yn eu hawyr annuwaidd.

Ond er ei fygythiol daran—heddwch
    Gyhoedda i druan;
  A byw egyr i bagan
  Y "*drws*" i glws fywyd glân.

Llu o drigfa pwll drygfoes—am y "*drws*"
    Ar chwim draed sydd eisoes,
  Yn ngwawr a grym Angeu 'r Groes,
  Yn myned am eu heinioes.

O'i flaen, y gors afluniol—newidia
    I nodwedd ffrwythlonol;
  A'r ddaear werdd, ar ei ol,
  A dyf yn dlysni dwyfol.

I *ddu* a *gwŷn* newydd ganiad—a rydd
    Yn lle 'r hen gwynfaniad;
  Gwelw oerni 'u galarnad,
  Drydd ef yn nef o fwynhâd.

I'r wyddiant oreu trydd ei anturiaeth,
Hyd y pegynau enaid paganiaeth;
O'i lydan wely yn nheml dynoliaeth,
Dilëa ddiluw delw-addoliaeth:
A'r byd, fydd trwy 'i wybodaeth—fel nefoedd
Yn ddrych o diroedd yr Iachawdwriaeth.

---

Ei wres ef erys o hyd,
Yn ei sanctaidd lwys ie'nctyd;
Yn ei dwym aidd, i wel'd mwy,
A i rymus fyth dramwy;
Treiddia yn awr, trwodd, yn ol
I ddystawrwydd ystyriol,
Oesoedd a ddisgynasant
I'w bedd, gysegredig bant:

A i niwloedd, anialwch,
Nos, a llom deyrnas y llwch;
Lle claddwyd, cuddiwyd y c'oedd
Hanesiol hen ddinasoedd;
Heuliau celf, pinaclau cain,
Hen dyrau gwlad y Dwyrain;
Y lle 'r amdöwyd â llaid,
Y dirif greaduriaid;
Lle gorwedd y llu gwrol,
Iesin wŷr, oesau yn ol;
Cewri anferth y crwnfyd,
Enw a bost plygain y byd:
I lawn gwaith, ar lèn y gwyll,
Deil yn awr geinwawr ganwyll;
Gwyn allu fedd, ganwyll fad,
Gyhoeddus y Dadguddiad;
Edrych mae drwy gyfundraeth,
A muriau cèll y meirw caeth;
Sylla i fynwes y llwch,
Y diwaelod dawelwch;
Yno fe wêl bawb yn fud,
Un swm, heb neb yn symud:
Iddo yn ol nid oedd neb
A ro'i wên ar ei wyneb;
Oera 'i waed yn nifri' wydd
Ystorom o ddystawrwydd:
Efe, er hyn, ni lwfrhâ,
I'r carchar diwawr cyrcha,
I'w neges, mŷn ei agor,
A rhwydd iawn datglöa 'r ddôr;
Egyr y drws, gwawriad rydd,
A mŷn wynt trwy 'r mynwentydd;
Ac ef, i'r golwg, gyfyd,
O'i raian fedd "yr hen fyd;"
A'i ddal yn dyst, ffyddlawn dŵr,
Cry' o dan y crediniwr;
I droi enaid yr annuw,
I orwedd ar "Air" ei Dduw,—
A rhoi taw ar yr hurt ŵr,
Y ffieiddiol anffyddiwr.

---

Er hyn, ni chaed ond rhanau—o'i ffyrdd ef,
Rhyw gyffwrdd â'i lwybrau
Gweledig, dadgloadau—helyntoedd
Daearol ydoedd swm ei dreuliadau.

Yn ei elfen arbenig—mynu faidd
Dramwy 'n fwy nodedig,
Drwy iach fyd dyrchafedig—hyd eigion
Dyfnion waelodion yr anweledig.

Anturia 'n nwyfus trwy nifwl—y byd,
    Tu draw i bob cwmwl;
I fewn i deyrnas fanwl—ei deddfau,
Ammod a moddau, yn myd y meddwl.

Traidd i lawr i ddystawrwydd—ei enaid,
    I wyneb cyfanrwydd
  Eang fyd ysbryd, i wydd
  Awgrym o'i ardderchowgrwydd.

Ger bron ei fawredd rhyfeddol—a'i fyw
    Olygfeydd dyeithriol,
  Ymgryma, a neidia 'n ol,
  Yn ei fynwes dufewnol.

Ond ffydd ddiwall ni phalla—o asbri
    Fel ysbryd ymlwybra;
I'w lwyr hanes olrheinia— danbaid
Fyd ganwyll enaid, a'i hanfod gynllwyna.

Ac o'i freiniawl gyfrinion—y caiff ef,
    Llynca 'i ffydd ddirgelion;
Yf o fôr egwyddorion,—a goreu
Fywyd a goleu o fyd y galon.

Troedia i wyddfod "Natur a'i Deddfau,"
Rhydd ei gwas enwog i'w grudd gusanau;
Acw ymwêl â'r gwynt a'r cymylau,
Llety athroniaeth mellt a tharanau;
Y môr a'r lleuad, ddiwyd gariadau,
Hynt a mawredd olyniad tymmorau:
A cha yn nghwmni gwres eu mynwesau,
Hael gyfran o'u huchel gyfrinachau:
A daw 'n ol dan ei hwyliau,—yn ngwydd sêr
Yr hoelia 'i faner ar dŵr yr elfenau.

Wedi 'r llwydd i droi allweddau—natur,
    Try 'n lletach ei gamrau,
  I wydd y clir fydoedd clau,
  Llu y wybren a'u llwybrau.

Gwyneba 'r ser gan brysuraw—drwyddynt
    Ac wrth dreiddio heibiaw,
  I'w anturiaeth, mae 'n taraw
  Ol ei droed ar yr haul draw.

Ni rodiodd asur ei anrhydeddusach,
Fel ymwelydd, na holydd manylach;
Yn y wybren lân a'i breiniol linach,
Ni cha'dd i'w hedmygu deulu delach:

Sêr a heuliau erioed fu 'n siriolach,
Yn gyfa 'u h'wyllys yn ei gyfeillach;
A gwysient e 'n agosach—i'w cyfrin,
I'w enwog feithrin yn y gyfathrach.

---

Wedi 'r ymgyrch ddidramgwydd,
Troi 'n llawn bob antur yn llwydd:
Wedi dirnad dwy deyrnas,
Yn eu grym—"anian" a "gras."

Wedi darllen ar nenau—heb ystaen
Ol bys Duw y duwiau;
Enw yr Iôn ar wybrenau,—gwaith fflamol
Ei law athronol mewn bras lyth'renau.

Wedi gweled i galon—garedig
Ei Greawdwr ffyddlon;
Edwyn ef y Tad yn hon,
Yn Dduw anwyl i ddynion.

Ef yn deg gai 'n fendigaid—o'r ddau fyd
Y bardd-fedydd tanbaid;
Y gŵr wedi 'i fflamio gaid
A thân athrylith enaid.

Anturia uchaf-bwynt arwr,—trwy 'i Dduw
Trydd e 'n efelychwr;
Yn ffurfafen awenwr—mae 'n beiddio
Yn deyrn ei gredo, droi yn greawdwr.

I fod y geilw fydoedd—dibrinion
Hyd wybrenau 'r oesoedd,
Wib-rodiant fel ysbrydoedd,—gogoniant
Natur a nwyfiant daear a nefoedd.

A gwrid ei goethion greadigaethau,
Ddyrcha fyw ddelwedd ei ddrychfeddyliau;
O abl nodwedd ei fuain blanedau,
Ei asurolion yn sêr a heuliau,
Dalant o "gasgliad" eu dadganiadau,
"Arian y trethoedd" i'r anturiaethau;
Lleferydd eu llif eiriau—iaith gyhoedd
Enaid ei fydoedd mewn "tân dafodau."

Ei "sêr," am ei gymeriad—a'i boethawl
Obeithion sy 'n siarad;
Yn nen eu ffurfafen fad—ynt wynion
Eneidiol wreichion, ei adlewyrchiad.

Ei "haul," nid yw ond helaeth—nôd unllais
O'i danllyd ysbrydiaeth;
Rhyw lygad o'i ddirnadaeth,—fflam ysol,
Neu lun bywydol o'i lawn wybodaeth.

Nid yw ei "fôr" ond dyferion,—caredig
Swn curiadau 'i galon;
Arwydd deifl, yw ei werdd "dòn,"
O'i fyw ferw fyfyrion.

Ei "afonydd" glân dros eu glanau—red,
Trwy fyrddiwn o rwystrau,
Ar len, nid ynt ond darluniau—beiddiol
O helynt ei wyrthiol anturiaethau.

Ei gribog fanog "fynydd,"—mawr ei swm
Ar ei sail dragywydd;
Unfon yw, ar ffurf newydd,
Dàl wnaiff ef adlun ei ffydd.

Arweddion ei wawr addas,—â lliwiau
Ei alluoedd eirias,
Ei lun, mewn coch, gwyn a glâs,
Yw ei "ardd" yn ei hurddas.

Ar rudd effro 'i hardd "ddyffryn,"—ail i haul
Yw ei "lili" ddillyn;
Ac iach yw gwedd, goch a gwyn,
Ail i râs, ei ŵyl "rosyn."

A'i chlog werdd, wedd fawreddig—ddiwyro
Ei "dderwen" gauadfrig,
Fwynhâ ei braint, fôn a brig,
Yn gadarn urdd ei "goedwig."

A'i gân bêr, ei "aderyn,"—edyn aur,
Denorydd pigfelyn;
Onid yw o'ddawn y dyn,
Yn bregeth ar y brigyn?

Ei "lew," a'i "oen," ei law luniad—ynt hwy,
A'i "farch," teyrn gweryriad;
Ei "ŵydd" ddof, a'i fwyn "ddafad,"
Ei "fwch" hyf wedd, a'i "fuwch" fad.

Felly, prydferth efeilliaid—yw yr oll
O'i rydd greaduriaid;
Ei enw roes, ac adwaen raid—wrth hwnw,
Ei law a'i ddelw ar ei aml ddeiliaid.

Efe yn nerth ei fywyd—eangach
A ollynga 'i ysbryd;
Ail i'w Dduw, a'i law ddiwyd,
Y ceir ef yn creu o hyd.

Teifl i'w wlad oleuadau—eirianwawr,
Arweiniol feddyliau;
I gyd yn ddiwygiadau
Mwya' yr oes, i'w mawrhâu.

Onid cry' ydyw cread—o ddawn a
Rydd newydd gymeriad,
Eneidiol "weddnewidiad,"
I hanes glew einioes gwlad?

Efe yw Adda, tad symudiadau,
Oleua reswm ymchwil yr oesau;
Efe a'i allwedd sy 'n agor dorau
Gwynfa ddedwydd y darganfyddiadau;
Efe a erys fel seren forau,
Enwog wibdeithydd y gwybodaethau;
I fyd, mae dyrchafiadau—dysg a llên
Yn troi o Athen ei anturiaethau.
Llaw Duw wnaeth y llydan ŵr,
I waith, yn anturiaethwr.
"Enaid" bardd, "llygad" y byd,
Byw ei nwyf, a'i "ben" hefyd;
Erioed ei "lewder ydyw,
Gloew ei nôd, a'i "galon" yw.

Rhyw foryn o'i wir fawredd—rhuadwy
Mewn gweithredoedd rhyfedd,
Uwch ac uwch mewn ffurf a gwedd,
Newydd ddaw yn ddiddiwedd.

---

Ond try â'i ager am uwch tiriogaeth,
Hynt i nenau tu hwnt i anianaeth;
Uwchlaw y bydoedd â chul wybodaeth,
Heibio i dalent ffrydiau bodolaeth.
Trwy faith arwyneb cartref athroniaeth,
Dros ymylon hen dŵr rhesymolaeth;
I fyny tyrau uchaf anturiaeth
Hyd gylchoedd ardaloedd ysbrydoliaeth:
Ar adenydd crediniaeth—mae 'n croesi
At Iôr y goleuni, Tad rhagluniaeth.
Ni flina 'n rhodio o flaen anrhydedd,
Un a lefara yn nheml ei fawredd;
Myn e 'i arweiniad i mewn i rinwedd
Dihafal wersi dwyfol ei orsedd:
Anturia 'i bwysau ar seiliau sylwedd
Ystôr agored mynwes Trugaredd;
Yna 'n astud mae 'n eistedd—â'i lygaid
Ar gaerau enaid mawr y Gwirionedd.

I fyd oll, dyfod allan—â nerth haul
 Oddiwrth Dduw ei hunan,
 Wnaeth efe, ar daith fuan,
 Drwy ei oes, i wneyd ei *ran*.

At Dduw 'n ol, yn addolwr—yr aiff ef,
 Trwy ffydd yn ei Brynwr;
Angeu y Cyfryngwr—a'i waed Iawnol,
Yw tyrau ethol yr Anturiaethwr.

GAERWENYDD PRICHARD.

---

## DR. HUGHES AR HANES YR ATHRAWIAETH.

*Hanes yr Athrawiaeth Gristionogol.* Y Cyfnod Cyntaf (80–254). Gan JOHN HUGHES, D.D. Cyf. I. Treffynnon: P. M. Evans & Son.

NIS gellir ond amlygu llawenydd diffuant yn ymddangosiad y gyfrol hon ar bwnc mor ddyddorol a phwysig, a phwnc mor ddyeithr i lenyddiaeth Gymreig â hanes yr Athrawiaeth Gristionogol. Can belled ag yr ydym yn gwybod, nid oes dim o bwys erioed wedi ymddangos ar hyn o'r wasg Gymreig oddigerth y Traethawd a ysgrifenwyd gan Dr. Edwards, yr hwn, er ei fod yn rhagorol fel ei holl weithiau, oedd o angenrheidrwydd yn fyr, ac mewn canlyniad nis gallai yr awdwr ond cyffwrdd yn frysiog â phrif linellau ei fater. Da genym weled fod Dr. Hughes yn anturiaethu dwyn allan waith llawer eangach a mwy manwl. Y mae y gyfrol hon yn cynnwys oddeutu 300 o du dalenau, ac nid yw hon ond un ran o bedair o'r hyn sydd addawedig. Cynnwysa yr hyn a eilw yr awdwr y Cyfnod Cyntaf o hanes yr Athrawiaeth—Cyfnod y Diffyniadau, o ddiwedd yr Oes Apostolaidd hyd farwolaeth Origen (80—254). Y mae yn aros dri chyfnod eto, yn ol y rhaniad a fabwysiedir, ac y mae'n ddiammeu, os caiff yr awdwr fywyd ac iechyd a chefnogaeth ei gydgenedl,, y cawn o leiaf un gyfrol ar bob un o'r cyfnodau hyn. Yr ail gyfnod sydd o farwolaeth Origen hyd John Damascenus (240—750), a gelwir ef yn Gyfnod y Dadleuon. Y trydydd a ymestyna hyd y Diwygiad Protestanaidd yn 1517, ac ynddo yr ymdrinir â Chyfundraethau yr Ysgolwyr. Yr olaf a ymestyna o'r Diwygiad hyd yr amser presennol,—cyfnod y credöau, rhydd-ymchwiliad, a beirniadaeth. Fe welir fod Dr. Hughes wedi tori allan faes helaeth iddo ei hun, ac nid oes genym ond dymuno "Duw yn rhwydd" iddo gyda'r gorchwyl. Y mae yna feusydd toreithiog ymlaen, yn enwedig yn yr

ail gyfnod a'r pedwerydd;—fe gymer holl athrylith a bywiogrwydd yr awdwr i wneyd tir bras o dduwinyddiaeth y Canol Oesoedd, ac yr ydym yn hyderu yr ymfoddlonir ar ymdriniaeth lled fyr arno, ac y rhoddir yr amser a'r lle a ennillir trwy hyny at wasanaeth y ddau gyfnod arall. Maes toreithiog yw cyfnod yr Ysgolwyr, nid o rawn, ond o wellt gan mwyaf, yr hwn a dŷf yn aml yn uwch na phenau y gweithwyr a lafurient ynddo. Y mae y geiriau yn aml, a'r brawddegau yn ddyrys, ond ychydig fel rheol yw y meddwl a orwedda o danynt.

Ond yr ydym mewn tir gwahanol iawn yn y gyfrol hon. Yma ymdrinir â hanes dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu a'i Apostolion pan roddwyd hi i nofio gyntaf ei hunan ar fôr tymhestlog y meddwl dynol, heb bresennoldeb ei dysgawdwyr ysbrydoledig i'w llywio rhwng y creigiau. Buan y cyfododd ystormydd, ac y mae y llestr fwy nag unwaith bron yn guddiedig gan dônau ymosodiadau gelynion; y mae yn aml mewn perygl myned yn gandryll ar greigiau ammheuaeth a heresiau; y mae hyd yn nod y llywiawdwyr ar y bwrdd yn fynych yn colli eu cwrs yn y tywyllwch; ond y mae yna Rywun mwy na hwy yn gofalu am y llestr, ac y mae gwaredigaeth yn dyfod pan y mae y perygl fwyaf—goleuni pan bo y nos dywyllaf—a nofio y mae o hyd; a nofio y mae heddyw, wedi deunaw can' mlynedd o ystormydd; a nofio a wna hyd nes y cyrhaedda borthladd y Gwirionedd fel y mae yn Nuw.

Y mae y deg tu dalen ar hugain cyntaf o'r gyfrol yn cynnwys Rhagarweiniad llafurfawr a choeth, yr hwn y mae ei ddeall yn hollol angenrheidiol os ydym am fyned i mewn yn drwyadl i'r pwnc. I ddechreu, fe gawn sylwadau ar bwysigrwydd a lle yr ymchwiliad. Y mae yn anmhosibl iawn ddeall Hanes yr Eglwys heb wybod hefyd rywbeth am Hanes ei Hathrawiaeth. Nid yw y rhan fwyaf o'r dygwyddiadau a gymerasant le ynddi, a'r amrywiol ffurf-lywodraethiadau a fu arni, ond gosgorddlu o ffeithiau anmherthynasol a didrefn, os na edrychwn arnynt yn ngoleuni hanes yr athrawiaeth. Gyda'r allwedd yma yn ein meddiant y mae yr oll yn dyfod yn berffaith eglur, yn un cyfansawdd cymesurol a rheolaidd. Y mae y cyfnewidiadau yn y ffurf allanol yn arddangosiadau o gyfnewidiadau sydd o'r golwg. Y mae hanes yr hanner can' mlynedd ar ol Cynghor Nicea,—y cynhwrf gwladol ac eglwysig, yr erlidigaethau chwerw gan Gristionogion ar eu gilydd, yr eiddigedd a ddechreuodd rhwng y Gorllewin a'r Dwyrain,—y maent oll yn cyfodi o'r cwestiwn o athrawiaeth ynghylch Dwyfoldeb Person y Gwaredwr. Y mae hanes bywyd Athanasius a'r cynhyrfiadau dychrynllyd yn Alexandria yn anesboniadwy ar wahân oddiwrth y gair *homoousion*. Ynglŷn â hyn fe wna Dr. Hughes y sylwadau rhagorol a ganlyn:—

Nid oes dim yn dangos mwy o anwybodaeth na diystyrwch o ddadleuon y brif Eglwys ynghylch rhai geiriau. Nid geiriau gweigion oeddynt: yr oedd y geiriau fel blychau yn cadw enaint gwirionedd—yn ei ddiogelu yn meddiant yr Eglwys, ac yn ei ddal allan yn ei thystiolaeth a'i chyffes. Nid oedd arch y cyfammod ond cist o goed, ond cist yn cadw llechau y gyfraith ydoedd. Ac yr oedd rhai o'r geiriau y daliai yr Eglwys ei gafael yn ystyfnig ynddynt yn gwasanaethu fel arwyddion addas o wirioneddau mawrion, ac fel ffiniau rhyngddynt a chyfeiliornadau.

Y mae yr un peth yn wirionedd am ddefodau a ffurflywodraethiad yr Eglwys. Y mae ei hymlyniad wrth rai o'r rhai hyn yn myned yn "wâg fympwy," oddieithr fel y maent yn fynegai o wirionedd. Ac felly am y prif arweinwyr a gyfodasant ynddi o bryd i bryd; y mae eu mawredd yn gysylltiedig bob amser â rhyw gwestiwn o athrawiaeth, ac yn mawredd y pwnc y gorwedda eu mawredd hwythau. Gwŷr mawr yr Eglwys yw y dynion hyny a gychwynasant gyfnod newydd yn hanes ei hathrawiaeth; nid Cystenyn Fawr ond Athanasius; nid Erasmus, hyd yn nod, ond Luther a Calvin.

Y mae yr awdwr yn dangos fod perthynas agos hefyd rhwng athrawiaeth yr Eglwys â'i bywyd mewnol,—â'i theimlad ac â'i gweithgarwch. Yr hyn oedd geiriau Crist yn eu perthynas â'i Berson,—oblegid trwyddynt yr oedd Efe yn arllwys ei ysbryd i gymdeithas,—yw athrawiaeth yn ei pherthynas â Christionogaeth. "Nid yw na mwy na llai na Christionogaeth yn sylweddoli ei hun yn meddwl yr Eglwys, a'r meddwl hwnw yn mynegi ei hun yn ymadrodd y rhai oedd yn gallu ei ddirnad oreu." Y mae ysbryd yr Eglwys hefyd mewn undeb â'i hathrawiaeth, onidê ni fyddai Cristionogaeth ond teimlad, a hwnw heb waelod na defnydd na pharhâd yn perthyn iddo. Crefydd y teimlad a'r dychymyg, fel y dywed Neander, yw Paganiaeth; a phan ddaeth yn Groeg yn wrthddrych ymchwiliad a barn y deall, fe gollodd ei gafael yn y fan, a chymerodd ammheuaeth le ofergoeledd. Ond y mae Cristionogaeth yn grefydd y meddwl a'r deall yn ogystal â chrefydd yr ysbryd a'r teimlad. Crefydd ffeithiau ydyw, ac y mae y rhai hyny ar unwaith yn rhoddi bôd i'r cwestiynau Paham? Pa fodd? I ba ddyben? a'r cais i ateb y rhai hyn ydyw athrawiaeth.

"Nis gallwn foddloni ar ffeithiau," meddai yr awdwr, "heb wybod eu hystyr; ac nis gallwn feddwl am ddau wirionedd heb geisio deall eu perthynas. Ceir rheswm am yr athrawiaeth yn nghyfansoddiad ein meddyliau. Ac y mae y rhai a gollfarnant gyfundrefn o dduwinyddiaeth yn collfarnu y meddwl dynol am fod yr hyn yw. Megys y mae y deall yn hanfodol i'r meddwl, felly hefyd y mae yr athrawiaeth i Gristionogaeth. Profir hyn gan Hanesiaeth. Mae y teimlad fyddo heb ei feithrin gan athrawiaeth, naill ai yn ebrwydd yn diflanu, neu yn ymlygru yn deimlad afreolaidd ac afiachus. Ar y llaw arall, mae pob adnewyddiad ar deimlad gwirioneddol yn yr Eglwys yn gysylltiedig âg adnewyddiad ar ei dirnadaeth o'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb."

Yn yr ail ran o'r Rhagarweiniad cawn sylwadau rhagorol ar natur gwir Hanesyddiaeth. Y mae Hanesyddiaeth yr oes hon wedi ymddyrchafu o dir croniclau o ffeithiau noeth, ac yn cymeryd ei lle ymhlith y gwyddonau. "Athroniaeth hanesiaeth" yw y pwnc pwysig erbyn hyn. Y mae yn rhaid cael y ffeithiau, mae yn wir, ond nid yw eu casglu hwy ond rhan fechan iawn o'r gwaith; gorchwyl hanesyddwr y dyddiau hyn ydyw chwilio allan berthynas y ffeithiau â'u gilydd, er mwyn ceisio dyfod o hyd i'r deddfau mawrion cyffredinol hyny oedd yn goruwchlywodraethu yr amgylchiadau neillduol sydd ger ei fron. Y mae yr egwyddor hon yn cael ei chymhwyso at bron bob peth y dyddiau hyn. Y mae yn myd gwyddoniaeth naturiol er ys amser mawr; y mae yn awr yn cael ei chymhwyso at hanesiaeth, at feirniadaeth Fiblaidd, ac at dduwinyddiaeth ei hunan. Fe fu adeg pan yr oedd y beirniad Biblaidd, er esiampl, yn aros yn foddlawn ar gym-

eryd y mwyafrif o'r awdurdodau dros ryw ddarlleniad neu gilydd yn y Testament Newydd fel yn penderfynu ei ddilysrwydd; ond fe wneir llawer mwy na hyn yn awr. Deuir â threfn i mewn i'r awdurdodau, chwilir am yr egwyddorion ar ba rai y maent yn gwahaniaethu, dosberthir hwy yn wahanol deuluoedd, a gellir gyda manylrwydd meintoniaeth, bron, roddi y pwysigrwydd dyladwy i'r gwahanol ddarlleniadau. Mewn gair, y mae Beirniadaeth Fiblaidd, ar ol ymddangosiad llyfr Westcott a Hort, wedi ymddyrchafu i blith y gwyddonau.

Felly am hanesyddiaeth; a'r hyn a roddodd y dyrchafiad yma iddi yw yr egwyddor o Ddadblygiad a ddygwyd i mewn, yr hyn a ystyria yr awdwr, a hyny mae yn ddiddadl yn gywir, fel o bosibl prif ddrychfeddwl y ganrif bresennol. Ofer fyddai i ni fanylu ar y pwnc hwn, na cheisio rhoddi crynodeb o'r sylwadau a wneir arno; y maent mor gynnwysfawr a rhagorol fel mai anhawdd yw gwneuthur hyny heb fyned yn rhy faith. Byddai yn werth i ddynion ieuainc meddylgar ein gwlad brynu y llyfr oll pe na b'ai ond er mwyn meistroli y sylwadau hyn yn y Rhagarweiniad ar Hanesyddiaeth Gyffredinol. Credwn eu bod ymhlith goreuon y gyfrol.

Cynnwysa y rhan olaf o'r Rhagarweiniad ymdriniaeth ar berthynas Hanes yr Athrawiaeth â changhenau eraill, sylwadau ar fuddioldeb astudiaeth o hono, a nodiadau ar y gwahanol gynlluniau a gymerir gan haneswyr i ranu ac i drin eu pwnc. Y mae perthynas rhwng Hanes yr Athrawiaeth â Hanes Cyffredinol yr Eglwys, oblegid ffurfia y brif ran o hono; perthyna hefyd i Hanes Credöau a Chyffesion, yr hwn mewn gwirionedd yw hanes derbyniad yr athrawiaeth gan wahanol eglwysi a chynghorau; ac y mae perthynas rhyngddo â duwinyddiaeth, oblegid "y mae yn cyflwyno duwinyddiaeth yn ei gwedd fwyaf dyddorol, sef mewn cysylltiad â bywyd;" oblegid nas gall cyfres o wirioneddau ac egwyddorion noeth byth gael y dylanwad ar ein meddyliau ag a gai yr un gwirioneddau pe wedi eu corffori yn hanes dynion tebyg i ninnau. Ac y mae yr hanes hefyd yn rhoddi y prawf goreu o wirionedd yr Athrawiaeth ei hunan. Gwelir pa fodd y mae ei sylwedd yn parhâu yr un trwy yr oesau, a pha fodd y gwnaed defnydd hyd yn nod o'r cyfeiliornadau i wneuthur y ddirnadaeth o honi yn fwy eglur ac yn fwy eang.

Y mae y sylwadau a wneir ar y gwahanol gyfundrefnau a fabwysiedir gan wahanol awduron i ranu a dosbarthu y pwnc o Hanes yr Athrawiaeth yn dra angenrheidiol i gael golwg eang ac eglur arno. Y mae awduron yr Almaen yn rhagori yn y peth hwn ar bron bawb o ysgrifenwyr Lloegr ac America. Dygir llyfr Dr. Cunningham ymlaen fel esiampl nodedig o ymdriniaeth annhrefnus. Yr oedd Cunningham yn un o dduwinyddion mwyaf galluog yr oes, ond nid oedd ynddo ddim o nodweddion yr hanesydd. Ond fe edrych y duwinydd Almaenaidd ar ei bwnc o safle yr hanesydd yn hytrach nag oddiar safle y dadleuwr, a dygir Baur, Hagenbach, Neander, ac eraill i gadarnhâu hyn. Dosraniad Hagenbach, oddigerth un eithriad bychan, a ddilynir gan yr awdwr yn y llyfr hwn; ac o bosibl nad yw yn un o'r rhai goreu. Y mae yn syml a hylaw, ac yn sylfaenedig ar egwyddor ragorol o ddosraniad. Y cyfnod cyntaf, fel y dywedwyd, a ymdrinir arno yn

y gyfrol hon,—cyfnod y diffyniadau. Yr oedd Cristionogaeth yn ddyeithr-beth; lledaenid anwireddau dybryd yn ei chylch; edrychid arni gydag ammheuaeth; ymosodid yn barhâus arni gan Iuddewon a Chenedloedd; felly naturiol ydyw fod y cyfnod cyntaf arni yn gyfnod *diffynol*. Yr oedd yna ymosodiad hefyd yn fynych, ond effaith anuniongyrchol yr amddiffyniad fyddai hyny yn fwyaf cyffredin. Cyfodai oddiar gymharu yr hyn a amddiffynid â bywyd a chrefydd yr ymosodwyr.

Yr ydym wedi aros yn lled faith gyda'r Rhagarweiniad, ac yr ydym yn gweled y bydd raid myned ymlaen yn fwy cyflym. Ond nid ydym yn teimlo ein bod wedi rhoddi gormod o le iddo, o herwydd y mae ei ddeall yn barotöad llwyr angenrheidiol i ddeall y gweddill; ac y mae hefyd, fe allai, yn arddangos cymaint o wreiddioldeb a'r un rhan arall o'r llyfr; oblegid gyda gwaith fel hyn y mae yn rhaid ymddibynu llawer ar yr hyn a gasglwyd gan eraill o'r blaen.

Fe ddechreuir ar y prif bwnc gyda dau draethawd, gallwn eu galw, maith ond tra dyddorol a gwerthfawr ar sefyllfa meddwl a barn y tu allan i'r eglwys, o dan y penawdau "Iuddewiaeth" a "Phaganiaeth." Y mae y rhan gyntaf o'r traethawd ar Iuddewiaeth yn rhagorol mewn gwirionedd. Y mae yn rhoddi cyfrif am elyniaeth y grefydd Iuddewig at Gristionogaeth; y mae athroniaeth yr elyniaeth, os gellir dyweyd felly, yn cael ei rhoddi ger ein bron mewn dull eglur ac argyhoeddiadol. Gallasem feddwl y buasai y graddau helaethaf o gydnawsedd rhwng Iuddewiaeth a chrefydd Iesu Grist. Y mae yn wir ei bod i ymgolli ynddi, ac i beidio a bod mwyach yn grefydd; ond yn yr hyn a ymddengys fel ei bychander y mae ei gwir fawredd yn gorwedd wedi'r cwbl,—y mae ei gwir ddyrchafiad yn ei darostyngiad. Y mae y ffaith ei bod yn arwain i mewn i grefydd Iesu Grist yn peri fod bodolaeth y grefydd hono, er yn ei difodi, eto yn ei gwirio, yn ei hegluro, ac yn ei chyflawni. Ni fwriadwyd Iuddewiaeth i fod yn grefydd arosol; nid oedd elfenau parhâd ynddi, nid dyben olaf Duw ydoedd; ac oni b'ai fod amcan ei sefydliad yn cael ei weled a'i gyflawni mewn Cristionogaeth, ni buasai ond cyfres o seremonïau gwag a gobeithion ofer. Nid oes ystyr iddi o gwbl ar ei phen ei hun; ond y mae yn ddoethineb Duw pan edrychir arni fel arweiniad i mewn i Gristionogaeth; y mae yn cael yr urddas o fod "yn rhagbarotöad i gyfundrefn o grefydd nad all Duw ddwyn yr un arall ar ei hol." Ac oni b'ai am ei llygriad, fe fuasai yn berffaith gydnaws â Christionogaeth; ond yr oedd ei gwrthnawsedd wedi iddi ymlygru, yn gyfatebol i'w chydnawsedd o'r blaen. Nid oes un gelyn mor chwerw ag un a fu gynt yn gyfaill. Fe aeth Iuddewiaeth yn fwy gelyniaethus na Phaganiaeth ei hunan. Y mae y cwestiwn yn naturiol yn cyfodi i'n meddwl, Paham? Beth a allai fod yr achos o hyn? Y mae yr elyniaeth yn fwy nodedig pan gofiwn gymaint o wirioneddau sydd gan y ddwy grefydd yn gyffredin. Addolai yr Iuddew yr un Duw â'r Cristion; sylweddolai fel yntau y gwrthwynebiad sydd rhwng pechod a sancteiddrwydd, a'r pellder sydd rhwng dyn fel pechadur â Duw. Yr oedd Paganiaeth hefyd yr un mor wrthun yn ei olwg ef ag yn ngolwg y Cristion; cydunent yn hollol yn eu gwrthwynebiad i'r syniad Paganaidd am berthynas Duw â'r byd. Gyda chymaint o

undeb credo, y mae yn anhawdd gwybod ar yr olwg gyntaf pa fodd i roddi cyfrif am ddygasedd yr Iuddew at Iesu Grist a'i grefydd, dygasedd sydd yn ddiarebol ymysg cenedloedd y byd.

Y mae yr awdwr yn myned am darddiad yr elyniaeth mor bell yn ol a'r arosiad yn Babylon. Bu y caethgludiad yn foddion i gynnyrchu dau deimlad cenedlaethol, pa rai, ond eu cadw o fewn terfynau, oeddynt yn rhinweddol mewn llawer ystyr, ond a derfynent gyda'r Iuddewon mewn ymlygriad a brofodd yn felldith iddynt fel cenedl. Y mae yr awdwr yn nodi y ddau, ond nid yw i'n golwg ni yn eu cadw yn ddigon ar wahân, gan fod y cyntaf yn ymgolli yn yr ail, pryd y tybiem, er eu bod yn y diwedd yn esgor ar yr un canlyniadau, y dylent gael eu dilyn yn unigol hyd at y canlyniadau hyn.

Y teimlad cyntaf a gynnyrchodd y caethgludiad oedd teimlad o adgasedd at y byd Cenedlig. O'r blaen tuedd y genedl oedd ymgymysgu yn anghyfreithlawn â'r Cenedloedd Paganaidd o'i hamgylch; ond fe ddarfyddodd hyn am byth yn amser y caethgludiad, a rhoddodd le i deimlad o'r adgasedd mwyaf chwerw at ddyeithriaid. Fe fuasai y teimlad hwn ei hunan yn ddigon i beri oerfelgarwch at Gristionogaeth, yr hon oedd i fod yn grefydd pob dyn. Mae yn wir fod Cristionogaeth yn gyntaf wedi cael ei chynnyg i'r Iuddew, ac mae yn bosibl na fuasai wedi dyfod yn feddiant y byd Cenedlig mor fuan ag y daeth pe derbyniasai yr Iuddewon hi ar y cyntaf. Ond nid oedd i gael ei chyfyngu i'r genedl Iuddewig o gwbl, y mae yn ei natur yn grefydd i'r holl fyd; a'r fraint a gynnygiwyd i'r Iuddew oedd yr anrhydedd o gael bod yn addysgwr y grefydd newydd i'r byd Paganaidd, yn offeryn yn llaw Duw i gario y goleuni i blith y Cenedloedd. Ond nid oedd efe yn chwennychu dim o'r anrhydedd hwn. Nid oedd wedi anghofio hanes Babylon eto, a chynneuai ei adgasedd yn fflam wrth feddwl am wneuthur dim i ddyrchafu y Cenedlddyn, a fuasai unwaith yn ormeswr, i'r un safle freintiedig ag efe ei hun.

Y teimlad arall a gynnyrchwyd gan y caethgludiad oedd yr hyn a eilw yr awdwr y "teimlad gwleidyddol," yr hwn a ddybenodd yn ysbryd rhagrithiol Phariseaeth, yr hwn a ddesgrifir fel "gwleidyddiaeth yn ngwisg crefydd." Un teimlad a gynnyrchwyd, fel y dywedwyd, oedd adgasedd at estroniaid; a'r teimlad a ddeuai yn naturiol yn gyfochrog â hwn oedd cariad hunanol at eu gwlad. Yr oedd serch at eu gwlad yn rhesymol a chyfiawn; ond pan ddarostyngwyd eu crefydd i'w gwladgarwch, yr oedd y teimlad yn myned yn bechadurus. "Y darostyngiad mwyaf ar grefydd ydyw ei gwneuthur yn llawforwyn i'r byd. Er mai cyfiawnder a ddyrchafa genedl mewn ystyr ddaearol, sarhâd ar fawrhydi cyfiawnder ydyw ei dilyn er mwyn y dyrchafiad hwnw." Dyma yr hyn a wnaeth yr Iuddewon ar ol y caethglud. Yr oeddynt cyn hyny yn "caru eu gwlad er mwyn eu crefydd, ond yn awr y maent yn caru eu crefydd er mwyn eu gwlad."

Yn awr, yr oedd yn anmhosibl gwneuthur crefydd yn ddarostyngedig i'r byd heb newid rhywbeth hanfodol yn ei chyfansoddiad. A dyma yr hyn a wnaed,—tynu ymaith yr ysbrydol allan o honi, a dyrchafu y llythyren i'r lle a lenwid o'r blaen gan yr ysbryd. Nid yw crefydd mwyach ond defodau gweigion; ymddangosiad yw yr oll; rhagrith yw pobpeth. "Ar ol gwneuthur y fath drawsnewidiad, nid

oedd crefydd o ddefodau gweigion, ac addysg foesol heb ysbryd na bywyd, ronyn rhy urddasol i weini yn wasaidd ar wleidyddiaeth."

Yr oedd yn haws i'r llygriad gynnyddu oblegid fod yr olaf o'r prophwydi wedi huno. Nid oedd gan y genedl arweinyddion ond y Rabbiniaid, yn nwylaw pa rai y collodd yr Ysgrythyr yr oll o'i ddylanwad ar feddyliau y bobl. Gweithiai y caethiwed i ormes y llythyren hyd yn nod yn neongliad llenyddol y Bibl, yn ogystal ag yn ei ddeongliad fel rheol buchedd a chrefydd. Fe gynnyddodd y llygriad ymhellach yn y cyfeiriad yma pan ddaeth y genedl i gyffyrddiad â dysgeidiaeth Groeg, yn enwedig ymysg Iuddewon yr Aipht, lle y dysgwyd deongli athrawiaeth a defodau Iuddewiaeth yn ngoleuni athroniaeth Roegaidd. Yr adeg hon hefyd y dechreuodd y dull alegoraidd o ddeongli yr Ysgrythyrau, sydd i'w ganfod mor gryf wedi hyn mewn gweithiau cynifer o ysgrifenwyr y buasem yn dysgwyl yn amgenach oddiwrthynt.

Pan yr oedd rhan lled fawr o'r genedl fel hyn yn edrych yn ffafriol ar y dylanwadau estronol oeddynt yn araf weithio i mewn i, ac yn trawsffurfio y meddwl Iuddewig,—oblegid, rywfodd, nid oedd yr adgasedd at estroniaid yn cyrhaedd gyda phawb hyd at adgasedd o'u cyfundrefnau meddyliol,—fe gyfododd plaid y *Chasidim*, y Pureiddwyr, y rhai a welsant fod yn rhaid iddynt, er mwyn bod yn gyson â hwynt eu hunain, ymlynu wrth gyfraith eu tadau gyda'r un cyndynrwydd ag yr oeddynt yn ymlynu wrth eu gwlad ac yn casâu estroniaid. Y *Chasidim* a ymddadblygasant yn Phariseaid; ac adnabyddwyd y blaid a gydymdeimlai â'r duedd i ddwyn i mewn ddylanwadau estronol wedi hyny o dan yr enw Saduceaid. Un peth a wnaeth y *Chasidim* oedd bywhâu y dysgwyliad cenedlaethol am y Messïah; ond yr oedd natur y dysgwyliad yn fynegai cywir o ddyfnder y llygriad cenedlaethol. Messïah ydoedd i fod a waredai Israel oddiwrth ei holl orthrymderau trwy roddi iddi hi y gallu i orthrymu pob cenedl arall,—Messïah oedd i ddwyn yr holl fyd o dan ei droed, ac i synu a gorlethu pawb trwy fawrion ryfeddodau ei weithredoedd. Y mae person a swydd yr hwn a ddysgwylid yn cael eu gwyrdroi a'u llychwino gan yr hunanoldeb cenedlaethol hwn.

Ni a welwn yn awr paham yr oedd yr Iuddew yn fwy gelyniaethus i Gristionogaeth na hyd yn nod y Pagan. Y mae y berthynas a fodolai rhwng y ddwy grefydd ar unwaith yn esbonio hyn pan gofiwn am y llygriad oedd wedi cymeryd lle yn syniadau y bobl. Y mae y ddwy yn sylfaenedig ar yr un gwirioneddau, ond y mae Cristionogaeth i gymeryd lle Iuddewiaeth; y mae yr olaf wedi cyflawni amcan ei sefydliad, ac i ymgolli bellach yn ei holynydd mwy gogoneddus. Ond ni fyn yr Iuddew i hyny fod. Y mae y Ddeddf yn dragywyddol, a'i Gweinyddwr yw y Messïah i fod, nid ei Harglwydd.

Yr oedd agosrwydd y ddwy grefydd (medd yr awdwr) yn rhoddi cyfrif am y gwrthnawsedd rhyngddynt, yn enwedig am y ffurf o elyniaeth dwfn, maleisus a gymerai Iuddewiaeth. Nid yw y cardotyn dan gymaint o demtasiwn i eiddigeddu wrth y gŵr cyfoethocaf yn yr ardal ag y mae yr agosaf iddo mewn cyfoeth; yr ail oreu sydd yn cenfigenu wrth y goreu, nid yr ymgeisydd sydd ymhell islaw y ddau. O holl gaseion Israel, y mwyaf maleisus oedd Edom ei frawd, yr hwn a drigai ar gyffiniau Judah. Mae y cyffelybrwydd a'r agosrwydd yn rhoddi cyfrif am y gwrthwynebiad, pan gysylltir â hyny yr ysbryd a'r naws oedd wedi lefeinio Iuddewiaeth yn nghyfnod ei llygriad.

Yr ydym yn myned heibio y nodiadau ar Sirach a Philo, rhag myned yn rhy faith. Y mae yr ymdriniaeth ar Philo yn drylwyr iawn, ac yn werth i'w astudio. Y mae lle Philo yn bwysig yn hanes yr athrawiaeth, gan fod dylanwad ei ddysgeidiaeth i'w ganfod ar lawer o dduwinyddion dilynol yr Eglwys. Ynddo ef cawn yr esiampl oreu o undeb Iuddewiaeth ac athroniaeth Roegaidd, yn enwedig yr eiddo Plato; ac yn ei weithiau ef y cawn y fantais oreu i ddeall egwyddorion a chynnwysiad y dull alegoraidd o esbonio yr Ysgrythyr.

Dyry yr Awdwr yn nesaf olwg gryno i ni ar sefyllfa meddwl y byd Paganaidd yn y cyfnod hwn. Yn ei berthynas â Christionogaeth nis gallai lai na bod yn wrthwynebus. Cyhoeddai y grefydd newydd ryfel di-ildio yn erbyn pobpeth Paganiaeth. Nid crefydd ydoedd â'i bwriad i adffurfio a gwella; nid ffurf newydd ydoedd ar yr hyn oedd eisoes yn bodoli; ni fynai ymorphwys ar lai na chwalu hyd lawr yr hen adeiladwaith Baganaidd, fel na safai o hono gareg ar gareg, ac yna cyfodai deml ei hunan, lawer mwy gogoneddus, o blith yr adfeilion, "saer ac adeiladydd" yr hon oedd Duw ei hun. Cyhoeddai Dduw na fynai lywodraethu os na chai lywodraethu ei hunan; na fynai ei addoli os oedd neb arall i gael ei addoli gydag ef. Pa ryfedd fod crefydd fel hon yn ennyn digllonedd y byd Paganaidd? Pan gofiwn hefyd mor gydnaws oedd y crefyddau Paganaidd â thueddiadau llygredig y natur ddynol, ac fod Cristionogaeth yn ei hanfod yn wrthwynebus i'r rhai hyny, a chyda'r difrifoldeb mwyaf yn galw ar ei derbynwyr i ymdrechu yn eu herbyn, y mae y gwrthwynebiad i Gristionogaeth yn fwy esboniadwy fyth.

Eiddigedd y werin yn benaf a gynneuid gan yr agwedd yma ar Gristionogaeth; ymosodid ar ei *Hathrawiaeth* gan ddysgawdwyr y byd Paganaidd.

Dibwys ydoedd athrawiaeth, fel y cyfryw, yn nghyfrif y werin: nid oedd athrawiaeth Paganiaeth, i'r graddau y meddai ar athrawiaeth, ond yr elfen leiaf gwerthfawr yn ngolwg y Paganiaid: nid dysgawdwyr oedd yr offeiriaid, ond gweinyddwyr defodau; a mwy cydunol â segurdod meddyliol yr addolwyr oedd boddloni ar y ddefod a'r chwedl heb ymofyn am yr ystyr a allai fod ynddynt; oblegid hyny, y prif achos o'u gwrthwynebiad i Gristionogaeth oedd ei gallu cyhoeddus; yr oeddynt yn rhy ddifeddwl i edrych i mewn i'w hathrawiaeth. Yr oedd yr athronwyr, i'r gwrthwyneb, yn sylwi yn benaf ar yr athrawiaeth, ac yn ei chymharu â'u doethineb eu hunain.

Fe ä r awdwr yn awr ymlaen i ymdrin â'r gwahanol gyfundrefnau athronyddol o un i un—Stoiciaeth, Epicuriaeth, Platoniaeth, Aristoteliaeth, y Blatoniaeth Newydd, a'r cyfundrefnau Dwyreiniol, ar yr oll o ba rai y ceir ymdriniaeth drylwyr a da; ond yn ein barn ostyngedig ni nid yw yn aros digon gyda pherthynas y rhai hyn fel cyfangorff â Christionogaeth. Carasem gael mwy o athroniaeth y cyfundrefnau athronyddol,—nid yr athroniaeth fewnol sydd yn nodweddu y naill ragor y llall,—yr ydym yn cael hyn, fel y dywedwyd, gyda manylrwydd mawr,—ond athroniaeth hanes y cyfundrefnau, yn eu perthynas allanol â Christionogaeth; fel yr oeddynt oll yn amlygiadau o ddyhead y natur ddynol am rywbeth mwy nag a geid mewn eilunaddoliaeth a gwag seremonïau; fel yr oeddynt yn parotoi y ffordd i dderbyniad Cristionogaeth, er yn elyniaethus eu hunain iddi; a'r galluoedd mawrion oedd-

ynt yn gweithio wrth wraidd Paganiaeth, a'r rhai hyny wedi eu meithrin yn ei mynwes hi ei hunan, a barasant yn y diwedd ei dymchweliad a'i dinystr.

Y mae yn rhyfedd fod Paganiaeth yn meddu y fath fywyd. Y mae moesoldeb wedi ei gysylltu mor agos yn ein meddyliau ni â chrefydd, fel y mae yn anhawdd genym ddychymygu am grefydd heb unrhyw gysylltiad rhyngddi â gwirionedd a moesoldeb o gwbl. Ond crefydd felly oedd Paganiaeth yn oes yr Arglwydd Iesu, er esiampl. Nid oedd amgen na chylch o seremonïau oeddynt i'w cadw gyda manylrwydd mawr, ond heb unrhyw rwymedigaethau i foesoldeb nac attaliadau ar ymddygiadau dynion yn gysylltiedig â hwy. Y mae'n wir nad oedd moesoldeb wedi diflanu yn llwyr o'r byd; ond nid oedd neb yn fwy moesol am ei fod yn grefyddol, nac o'r ochr arall yn fwy anfoesol wrth daflu crefydd o'r neilldu yn gwbl oll. Ac eto yr oedd Paganiaeth yn meddu bywyd; yr oedd yn allu politicaidd, er esiampl, o'r pwys mwyaf. Sylfaenwyd ymherodraethau arni. Y mae y cwestiwn yn naturiol yn cyfodi, Ymha le yr oedd ei nerth yn guddiedig? Dyma lle yr ydoedd,—yn y syniad o wladgarwch; *fod y duwiau yn dduwiau cenedloedd, ac nid yn dduwiau personau unigol;* fod amddiffyn y grefydd yr un peth ag amddiffyn y genedl. Fe welir ar unwaith mai dylanwad uniongyrchol hyn ar aelodau y genedl ei hunan *oedd dinystrio crefydd bersonol;* ond ar yr un pryd yr oedd parhâd y syniad hwn yn rhoddi pwysigrwydd ar y gwag seremonïau pan gysylltid hwy â budd y genedl yn gyffredinol, ac yn cymmodi y teimlad o ddyledswydd i'w cyflawni â'r ymdeimlad o'u gwegi a raid fod yn meddiannu y bobl fwyaf meddylgar, o leiaf, pan geisient ynddynt rywbeth i foddloni eu dyheadau mwyaf dirgel.

Fe ddylanwadai y syniad hwn eto ar bobl y tu allan i'r genedl. Os oedd yna lawer o dduwiau, a'r rhai hyny yn dduwiau cenedlaethol, ac os oeddynt yn barhâus yn ymladd â'u gilydd, fel y dysgid yn eu traddodiadau, beth oedd yn fwy naturiol nag i ddynion ymladd â'u gilydd? Ni feddiennid y Pagan âg un syniad uwch am ei ddyledswydd tuag at ddyn o genedl arall na cheisio cael cymaint a allai o fudd o hono, ac yna ei ladd rhag iddo fod o unrhyw wasanaeth i neb arall. Dylanwad y syniad, mewn gair, *oedd gwneyd crefydd gyffredinol yn anmhosibl.*

Ond os y syniad hwn a gadwodd fywyd mewn Paganiaeth am gymaint o amser, y syniad yma ei hunan a fu yn achos ei dymchweliad; oblegid fe gynnyrchodd wrthweithiad o'i mewn hi ei hunan a fu yn y diwedd yn angeu iddo; ac yn nghwymp y gallu olaf hwn oedd yn ei chadw i fyny y syrthiodd Paganiaeth hefyd gydag ef. A'r ddau ddylanwad gwrthwynebol oeddynt Athroniaeth Roegaidd a Deddfwriaeth Rufeinig; a phan edrychwn ar y ddau hyn yn y goleuni yma, y mae ein dyddordeb ynddynt yn cynnyddu yn ddirfawr. Ni wnawn sylwi nemawr arnynt yn unigol—ceir hyn yn helaeth yn y llyfr o'n blaen; ond dymunem yn fyr sylwi ar eu dylanwad yn nymchweliad y syniad uchod.

Yr oedd teyrnas Groeg yr adeg hon yn ganolbwynt masnach; yn heolydd Athen ceid pobl o bob cenedl yn pentyru eu duwiau; ac effaith naturiol hyn oedd colli ymddiried ymhob un o honynt. Yr oedd ymddangosiad y Sophistiaid yn arwydd o'r ymollyngiad graddol ymhlith

pobl feddylgar o'r hen draddodiadau. Y mae Plato yn casglu ynghyd ddinasyddion ei Weriniaeth o fysg yr *holl* genedloedd. Y mae Aristotle, mae'n wir, yn ymddangos fel yn myned yn ei ol, ac yn breuddwydio am adferiad llywodraeth y Groegwr ar y byd, ond ni wnaeth ond galw yn fwy i sylw mor anmhosibl ydoedd hyny erbyn hyn, wedi ymddangosiad Alexander Fawr; ac er yn nacaol, fe wnaeth yntau ei waith er dymchwelyd yr hen syniad. Wedi hyn, pan deimlwyd dylanwad syniadau Dwyreiniol yn ngwlad Groeg, a phan yr oedd anobaith ac annhrefn yn eu hanrheithio, fe gyfododd dwy ysgol athronyddol newydd, y Stoiciaid a'r Epicuriaid, a gwnaethant hwythau eu rhan, yn enwedig y gyntaf, i ddwyn y dyben mawr o amgylch.

Er fod y ddwy ysgol hyn yn gwahaniaethu yn fawr yn eu haddysg, yr ydym yn cael fod rhai pethau wedi'r cwbl yn gyffredin rhyngddynt. Annogai y ddwy i ddyn droi i mewn iddo ef ei hun. Sylfaenid hwy ar berthynas dyn â'i gyd-ddyn, ac nid ar ei berthynas â Duw. Pregethai y ddwy y ddyledswydd i gydymffurfio â natur, er eu bod yn gwahaniaethu yn eu barnau ar ba beth oedd yn gynnwysedig yn hyny. Yr oedd y ddau deimlad yma ar unwaith yn arddangos ammheuaeth ac ymollyngiad o'r hen gred yn y duwiau, ond ni feiddiai yr un o honynt wneyd ymaith â'r duwiau o gwbl; rhoddasai hyny ysgydwad rhy dost i'r hen deimlad traddodiadol a cheidwadol. Fe gedwid at y seremonïau, ac yna elai pobpeth ymlaen yn lled ddidramgwydd.

O'r ddwy, fel y sylwa Dr. Hughes, cyfundrefn y Stoiciaid oedd yr oreu ymhob ystyr. Derbynid ei dysgeidiaeth yn awchus, fel y gellid dysgwyl, gan ddynion goreu oes o anobaith ac annhrefn. Cadwai ar y blaen y drychfeddwl o ddyledswydd, a hwnw yn gyffredinol yn ei weithrediad, dyledswydd oedd yn tori dros derfynau cenedlaethol, ac yn ymestyn at bob aelod o'r teulu dynol. Gwelir ei bod yn hyn yn meddu ar un o deimladau goreu Cristionogaeth ei hunan. Ond yr oedd ei gwendidau yn fawr. Ni bu cyfundrefn erioed mor lawn o anobaith; taflai ddyn yn ol yn gwbl ar ei adnoddau ei hun. Rhaid i'r dyn doeth sefyll ei hunan. Sathrai dan draed hyd yn nod y drychfeddwl o gydymdeimlad. A pha ddyben, wedi'r cwbl, ydoedd taflu i lawr y gwahanfur rhwng gwahanol genedloedd, os oedd yn cyfodi un i fyny rhwng gwahanol ddynion â'u gilydd? Yr oedd yn wan hefyd am nad oedd ganddi syniad am Dduw personol, ac felly yn amddifad o'r syniad priodol am bechod; ac hefyd am nad oedd yn credu mewn sefyllfa ddyfodol. Ond fe wnaeth waith mawr i ddymchwelyd Paganiaeth trwy ddysgu dyledswydd gyffredinol dyn.

Y gallu arall, fel y dywedwyd, a fu yn foddion i ddymchwelyd Paganiaeth, trwy ddymchwel ei syniad canolbwyntiol am gyfyngiad gweithrediadau y duwiau i genedloedd neillduol, oedd deddfwriaeth Rufeinig. Y mae yn anhawdd sylweddoli ar y cyntaf fod deddfwriaeth Rhufain yn allu moesol. Ond y mae y modd y daeth i fod felly yn dra syml. Fel yr oedd Rhufain yn gorchfygu y gwahanol genedloedd, yr oedd arni eisieu deddfwriaeth iddynt. Ond nid oeddynt hwy i gael yr un breintiau â'r dinasyddion Rhufeinig. Beth a wneid, ynte? Dyma ydoedd,—chwilio am yr elfenau goreu, a'r rhai mwyaf cydnaws a chyffredin yn neddfau y gwahanol genedloedd eu hunain, a gwneyd

allan o honynt i gyd un gyfundrefn o ddeddfau oedd i fod yn rheol iddynt oll. Dyma "Ddeddf y Cenedloedd," y *Jus Gentium* y clywir cymaint o son am dani. Pan ddaeth Rhufain i gyffyrddiad â gwlad Groeg canfuwyd ei bod hi trwy ei deddfwriaeth yn chwilio am yr un peth â'r athronwyr, y rhai a'i galwent yn "ddeddf natur." Rhoddodd deddfwriaeth Rufeinig ddyrnod i ysbryd Paganiaeth trwy chwilio am ddeddf gyffredinol, yr un mor wir ag y gwnaeth athroniaeth Roegaidd trwy feithrin y drychfeddwl o gyffredinolrwydd dyledswydd.

O bosibl mai y cyfnod tywyllaf yn yr hanes ydyw y ganrif gyntaf. Yr oedd Paganiaeth yn nyfnder ei hanobaith a'i llygredigaeth. Ond dilynwyd hyny yn fuan gan ymadnewyddiad trwyadl, a ffurfiwyd dychymygion am ei hadferiad. Mae yr hen ddiofalwch am foesoldeb yn diflanu. Y mae pechodau gwarthus yn cael gwgu arnynt. Y mae ymdeimlad o bechod yn ymorphwys ar y bobl, ac ocheneidiau at y "Duw nid adwaenir" yn cyfodi o galonau miloedd. Un o ganlyniadau yr ymadnewyddiad hwn oedd sefydliad y fwyaf a'r olaf o'r hen ysgolion athronyddol, yr hon oedd yn grynhoad o holl allu Paganiaeth mewn un ymdrechfa ddiweddaf â Christionogaeth, cyn iddi suddo i ddinodedd. Yr ysgol hon oedd y Blatoniaeth Newydd. Nis gallwn sylwi nemawr arni. Cawn yn y llyfr ger ein bron grynodeb lled fanwl o'i haddysg. Yn lle diystyru Cristionogaeth, y mae yn ei chyfarfod ar yr un tir i raddau mawr, fel crefydd ysbrydol, ac yn ceisio ei gorchfygu trwy ymdrechu rhagori arni yn yr hyn a broffesai wneuthur. Yr oedd yn gymysgfa ryfedd o Athroniaeth Groeg, Doethineb Ddwyreiniol, ac hyd yn nod o'r Dadguddiad Cristionogol ei hunan.

Elfen bwysig, fel y sylwa yr awdwr yn y rhan olaf o'r traethawd, yn meddwl y byd yr adeg hon ydoedd Doethineb y Dwyrain. Y cwestiwn a orwedda wrth wraidd y cyfundrefnau Dwyreiniol yw, O ba le y daeth llygredigaeth? Mewn mater y mae, meddai y Dwyreiniwr. Edrychai y dyn i mewn iddo ei hun. Teimlai fod y rhan ysbrydol o hono yn llawer mwy dyrchafedig na'r rhan faterol; yn y rhan faterol o hono, ynte, y mae y llygredigaeth yn gorphwys, oblegid nid oes dim yn fwy sicr na bod yna lygredigaeth yn rhywle. Y mae y syniad hwn yn naturiol yn rhoddi bôd i un arall, sef nas gallai y Duw Da fod yn Greawdwr mater llygredig, ac fod yn rhaid fod yna Greawdwr arall. Rhaid gadael dadblygiad y syniadau hyn, modd bynag, i erthygl arall, pan ddeuwn at Gnosticiaeth. Fe allai mai nid annyddorol fyddai rhoddi yn y fan yma gynllun o brif syniadau a natur y tair brif ffurf o feddwl a ffynai y tu allan i Gristionogaeth. Fel yr awn ymlaen i ymdrin â'r heresiau fe ddeuwn i'w deall yn fwy llwyr.

| Eu Natur:— | Iuddewiaeth: Duwgredol (*Deist*). | Dwyreiniaeth: Deuolaidd (*Dualistic*). | Athroniaeth Roegaidd: Holl-dduwiol neu aml-dduwiol. |
|---|---|---|---|
| Eu syniad am | | | |
| 1 Berthynas Duw â'r Byd. | Neillduad, mewn unigrwydd gogoneddus ac anamgyffredadwy. | Gwrthwynebiad, am fod mater yn gynhenid ddrwg. | Unolrwydd â'r oll, meddai Holl-dduwiaeth; â rhanau, meddai Aml-dduwiaeth. |
| 2 Natur llygredigaeth. | Pechod. | Mater | ? |
| 3 Person yr Arglwydd Iesu. | dyn, (Ebioniaeth er esiampl). | dwyfol, (Gnosticiaeth). | o ddwyfoldeb israddol (Ariaeth). |
| 4 Syniad am ddyledswydd. | Sancteiddrwydd deddfol. | Hunan-boenydiaeth ac ymarferion meudwyol. | Cadw seremoniau. |

Yn yr ail bennod o'r llyfr cawn sylwadau ar y Tadau Apostolaidd a'r diffynwyr boreuaf; tra y cymerir y drydedd a'r bedwaredd i fyny gan ymdriniaeth ar Athrawon Eglwysig yn y drydedd ganrif, gan alw sylw yn fwyaf neillduol at Ysgolion Alexandria a Carthage.

Ni aroswn ddim gyda'r Tadau Apostolaidd. Y mae y crybwylliadau am danynt,—yn enwedig gyda'r dyfyniad o waith Dr. Edwards,—yn gynnwysfawr a chywir. Ond pan eir ymlaen at brif bwnc y pennodau, yr ydym yn teimlo fod yr awdwr yn ymladd o dan beth anfantais. Y mae yn teimlo, fel yr awgryma yn y nodiadau arweiniol i'r ail bennod, ei fod o dan angenrheidrwydd i wneyd peth cam â'i orchwyl fel sylwedydd ar yr athrawiaeth trwy fod yn ofynol iddo fyned o'i ffordd yn aml i wneyd nodiadau hanesyddol a bywgraffyddol. Ac y mae hyn yn angenrheidiol o herwydd prinder ein manteision fel cenedl i astudio Hanes yr Eglwys. Ychydig iawn o gymhorth sydd i'w gael trwy y Wasg Gymreig, oblegid rywfodd nid yw ein chwaeth ni fel Cymry wedi rhedeg yn y cyfeiriad yma, ac nid yw y gefnogaeth i anturiaethau llenyddol yn y maes hwn yn dyfod mor gyflym a nerthol ag y dylai, pan gofiom ein bod yn genedl mor Dduwinyddol ein tueddiadau. Ac o bosibl fod y diffyg chwaeth i'w briodoli i raddau helaeth i ddiffyg ymdrech yn y cyfeiriad hwn ymhlith arweinwyr crefyddol ein cenedl; ac, i ddilyn hyn o beth i un o'i ffynnonellau, nid yw hyny ychwaith yn rhyfedd iawn pan gofiom can lleied o amser a roddir i addysgu ein hefrydwyr mewn Hanesiaeth Eglwysig yn ein Colegau Duwinyddol, ac mor arwynebol yn fynych yw yr ychydig astudio a fydd arno. Proffesir eu haddysgu mewn Duwinyddiaeth bynciol; ond y mae hyny yn golygu gwybodaeth o Hanes yr Athrawiaeth cyn y gellir ei ddeall o gwbl yn foddhaol; ac y mae gwybodaeth o Hanes yr Athrawiaeth yn

tybied gwybodaeth flaenorol o hanes cyffredinol yr Eglwys. Yr ydym yn rhoddi gwaith i'n hefrydwyr ieuainc, ac yn dysgwyl iddynt fyned trwyddo yn foddhaol, heb ddysgu iddynt yn gyntaf natur yr arfau â pha rai yn unig y gallent wneuthur hyny.

Yr ydym yn teimlo ynglŷn âg ymdriniaeth yr awdwr ar y Diffynwyr ac Ysgol Alexandria, fel yr oeddym o'r blaen gyda'i sylwadau ar Baganiaeth, y buasai yn well genym gael mwy o ymdriniaeth cyffredinol arnynt. Er esiampl, ynglŷn â'r Diffynwyr, cawn hanes cryno a sylwadau manwl arnynt oll ar wahân; ond buasem yn dysgwyl mwy arnynt yn gyffredinol, eu hamcanion a'u dullweddau cymhariaethol. Nid ydym yn hollol hoffi y dosraniad yn y fan yma chwaith. Nid yw dosraniad amserol neu leol mor gyfleus a dosraniad yn ol amcan yr ysgrifenwyr a natur eu pwnc. Gwell fuasai pennodau llai; un ar y Tadau Apostolaidd dyweder, un arall ar y Diffynwyr. Y mae llawer o'r hen ysgrifenwyr yn ymddangos o dan wahanol agweddau. Cawn Origen a Clement, er esiampl, yn Ddiffynwyr yn ogystal âg yn offerynau i uno Cristionogaeth a dysgeidiaeth y byd Paganaidd yn Ysgol Alexandria. Dylasai yr ymdriniaeth arnynt ynte fod yn rhanedig yn ol fel y maent yn dyfod i'r wyneb o dan eu gwahanol agweddau fel ysgrifenwyr.

Gellir dosranu y Diffynwyr mewn amryw ffyrdd. Gallwn wneyd hyny i ddechreu yn ol eu hiaith. Perthyna y diffynwyr *Groegaidd* yn benaf i'r ail ganrif.

(i.) Fel cadwen yn cysylltu yr oes hon â'r un Apostolaidd cawn *yr Epistol* dienw *at Diognetus.*

(ii.) *Justin Ferthyr*, yr hwn a ysgrifenodd ei ddiffyniad at yr Ymherawdwr Titus Antoninus; dyddiedig "Rhufain, 146."

(iii.) *Clement o Alexandria*, 180—202.

(iv.) *Origen*, yn erbyn Celsus (250), gwaith ag y teimlir ei ddylanwad yn nadleuon y ganrif bresennol.

(v.) *Quadratus*, o Athen, o waith yr hwn nid oes genym yn awr ond un frawddeg yn aros.

Y *Diffynwyr Lladinaidd* a berthynent yn benaf i'r drydedd ganrif.

(i.) *Tertullian*, o Carthage,—oddeutu 197.

(ii.) *Arnobius o Numidia*, 305—307.

(iii.) *Lactantius*, eto o Affrica,—oddeutu 320.

Yr oedd yna amryw eraill llai nodedig yn y cyfeiriad hwn, megys *Cyprian*, *Municius Felix*, &c. Gallwn nodi yn y fan yma y ffaith ryfedd mai Affricaniaid oeddynt yr oll o ysgrifenwyr boreuol y Gorllewin. Ni chawn neb o bwys yn Rhufain hyd y bummed ganrif.

Gallem wneuthur dosraniad eto yn ol eu hagweddau mewn perthynas â Phaganiaeth a'i hathroniaeth. Yr oedd un dosbarth yn

(i.) *Geidwadol*, fel y gallwn eu galw,—yn edrych yn ffafriol i raddau ar Baganiaeth,—yn awyddus am gasglu pob gronyn o wirionedd oedd ynddi,—yn derbyn ei hathroniaeth fel peth oddiwrth Dduw, can belled âg yr oedd yn myned. I'r dosbarth hwn yn benaf y perthynai y Diffynwyr Groegaidd, a Lactantius hefyd o'r Gorllewin. Parhäi Justin i wisgo ei fantell fel athronydd hyd yn nod ar ol cofleidio Cristionogaeth. Yr oedd ôl Athen arno ef. "Llefarodd Duw yn yr hen amseroedd wrth yr Iuddewon trwy ddadguddiad; wrth y Groegwyr trwy athron-

iaeth; y mae Cristionogaeth yn cyflawni, yn perffeithio, ac yn uno y ddau,"—dyna addysg Athen Gristionogol.

(ii.) Unig awydd y dosbarth arall oedd tori pob cysylltiad â Phaganiaeth,—ei daflu ymaith fel peth aflan. Y Diffynwyr Lladinaidd oedd y rhai hyn gan mwyaf, er fod yr Epistol at Diognetus yn myned ymhell yn y cyfeiriad hwn. Y mwyaf gelyngar a didrugaredd o'r oll oedd Tertullian, yr hwn am wawdiaeth sydd yn llawn cydradd â Juvenal ymhlith yr awduron clasurol.

Yr oedd dau amcan i ysgrifeniadau y diffynwyr:—1. Amddiffyn moesoldeb ac athrawiaeth y Cristionogion; 2. Ymosod ar eilunaddoliaeth ac athroniaeth Baganaidd. Cyhuddid y Cristionogion o anfoesoldeb o'r natur aflanaf. Cychwynwyd y cyhuddiadau hyn o herwydd y dirgelwch a gylchynai eu holl weithrediadau, yn enwedig eu cyfranogiad o Swper yr Arglwydd. Nis gallasai meddwl anmhur y Pagan gysylltu hyny â dim ond âg arferion anfoesol; a lledaenwyd ystorïau dychrynllyd, ac yn aml chwerthinus o ffol, yn eu cylch. Y mae Tertullian yn cymeryd llawer o honynt i fyny, ac yn eu trin yn ddidrugaredd yn ei ddull coeg-wawdlyd ei hun. Cyfeiria, er esiampl, at gyhuddiad mynych a ddygid ymlaen fod babanod yn cael eu lladd a'u coginio bob amser pan weinyddid y wledd o Swper yr Arglwydd! Y bobl gyffredin ac anwybodus yn unig a goleddent syniadau fel hyn; ni chawn Baganiaid coeth a meddylgar byth yn son am danynt. Y cyhuddiadau a ddygai dynion fel Lucian a Celsus ymlaen oeddynt yn erbyn eu hathrawiaeth a'u gelyniaeth tybiedig i'r awdurdodau gwladol. Cyhuddid hwy o Atheistiaeth, oblegid nis gallai y Pagan ddeall addoli Duw anweledig, heb unrhyw ddarlun na cherfddelw i'w gynnorthwyo. "Dangoswch i ni eich Duw," ydoedd hèr barhâus yr ymosodwyr. Yr oedd llawer o sail ymddangosiadol hefyd dros gyhuddo y Cristionogion o deyrnfradwriaeth. Y mae pob cymdeithas erlidiedig yn naturiol yn myned yn gymdeithas ddirgelaidd, ac y mae dirgelwch yr un mor naturiol yn cynnyrchu drwgdybiaeth. Gwyddai yr Ymherawdwr fod y Cristionogion yn dra lliosog, ac y gallasai canlyniadau dinystriol ddilyn gwrthryfel yn eu mysg. Apeliai y Diffynwyr yn erbyn hyn at ffeithiau. Onid oeddynt hwy bob amser wedi bod yn ufudd i'r awdurdodau? Onid oeddynt yn talu trethi, ac yn cyflawni eu dyledswydd bob amser yn ddirwgnach? Ac yn wir yr oedd eu crefydd yn eu dysgu i fod yn ddinasyddion ufudd a dystaw, ac yn gorchymyn iddynt weddïo dros yr Ymherawdwyr. "Yr ydym yn gweddïo dros yr Ymherawdwr Rhufeinig," meddai Tertullian, "am ein bod yn gwybod fod ei deyrnasiad ef yn cadw ymaith yr Anghrist," gan gyfeirio at eu deongliad o Lyfr y Dadguddiad.

Amddiffynir yr *athrawiaeth* hefyd, yn enwedig gwyrthiau yr Arglwydd Iesu, a dangosir y gwahaniaeth rhyngddynt a *jugglery* y Paganiaid, yr hon gelfyddyd, rhaid cofio, ni fu erioed o bosibl yn fwy perffaith na'r adeg hon; ac yr oedd dangos rhagoroldeb y gwyrthiau yn waith tra anhawdd. Dangosent hefyd gyflawniad yr Hen Destament yn y Newydd; a'r undeb a'r cyfaddasder sydd rhwng Cristionogaeth â'r natur ddynol yn ei hangenion a'i dyhëadau.

Amddiffynol yn unig ydoedd natur ysgrifeniadau yr ail ganrif; ond o'r drydedd ymlaen, gan ddechreu fe allai gyda Tertullian, y

maent yn myned yn ymosodol. Gwaith hawdd oedd gwawdio a dymchwelyd amldduwiaeth y werin; ond gydag athroniaeth Baganaidd yr oedd pethau yn newid. Fel y dywedwyd, yr oedd rhai yn ddiarbed yn ei chondemnio, ond yr oedd eraill yn tueddu at dderbyn y da oedd ynddi a'i droi at wasanaeth uwch. Yr oedd athroniaeth yn dda, ond y mae Cristionogaeth yn well.

Y mae y drydedd a'r bedwaredd bennod, fel y dywedwyd, yn cynnwys sylwadau ar Ysgolion Alexandria a Carthage, a rhoddir hanes cryno o fywydau ac athrawiaeth y prif aelodau ynddynt, Clement ac Origen yn y naill, a Tertullian a Cyprian yn y llall, ynghyd a chrynodeb eglur a chynnwysfawr o ddaliadau y Montaniaid ynglŷn â hanes Tertullian, yr hwn a ymunodd â'r blaid hono. Y mae yn ddrwg genym nas gallwn sylwi nemawr ar y pennodau hyn o herwydd fod yr ysgrif hon wedi rhedeg eisoes yn lled faith, er fod eu cynnwysiad ymhlith y pethau pwysicaf a mwyaf dyddorol yn y gyfrol. Rhaid ymfoddloni ar wneuthur ychydig o sylwadau cyffredinol ar natur ac amcan yr Ysgol Alexandraidd. Braidd na thybiem yn y fan yma eto fod yr ymdriniaeth ar hyn yn cael rhy fychan o sylw yr awdwr. Yr ydym o'r farn hefyd y dylasai rhanau o'r pennodau ar Ebioniaeth a Gnosticiaeth ddyfod yn union ar ol y bennod gyntaf, lle yr ymdrinir ar sefyllfa meddwl y tu allan i'r eglwys. Y mae yn anmhosibl deall yr Ysgol Alexandraidd yn briodol heb wybod rhywbeth am Gnosticiaeth yn arbenig.

Nid yw yr olwg ar gyflwr yr Eglwys tua diwedd yr ail ganrif yn un gysurlawn ac addysgiadol iawn. Yr oedd mor ranedig rhwng gwahanol bleidiau ag y bu un adeg wedi hyny. Ar un llaw yr oedd y Gnosticiaid o bob math, o fewn yn ogystal ag o faes, yn ymwallgofi yn eu damcaniaethau gwirionffol ac anghristionogol. Ar y llaw arall yr oedd y Montaniaid, hwythau eto, rhai oddifewn a rhai y tu allan i'r eglwys, yn myned i eithafion yn eu gwarogaeth i'r llythyren, ac yn ymwallgofi mewn brwdfrydedd oedd ymhell iawn o fod yn cael ei gynnyrchu gan yr Ysbryd Glân. Yn y canol yr oedd corff yr Eglwys, yn cael ei lywodraethu gan syniadau o'r fath fwyaf ceidwadol. Nid oedd ond ychydig amser er pan fu farw yr olaf o ddysgyblion yr Apostolion, a'u hysbryd hwy oedd eto yn llywodraethu yr Eglwys. Ond yr oedd amgylchiadau yn cyfodi oeddynt yn galw am ffurf newydd o athrawiaethu i'w cyfarfod. Gwaith yr hen ydoedd trosglwyddo tystiolaeth yr Apostolion, rhoddi pwys ar ffeithiau yr hanes,—nid oedd ganddynt nemawr o allu dadblygiadol eu hunain, ac yr oeddynt yn hollol anghyfaddas i gyfarfod ymosodiadau beirniadol. Gallent amddiffyn yr *hanes* yn erbyn gwadiad yr anghrediniol; ond pan newidiai y gwrthwynebydd ei safle a dechreu ymosod ar *ystyr* yr hanes, nis gallent hwy ei gyfarfod. Fe dderbyniodd heresiaeth y ffeithiau hanesyddol cyn hir, ond gwnaeth hyny er mwyn rhoddi ei hesboniad ei hunan arnynt. Yn ngwyneb hyn fe welwyd mai yr unig ffordd i gyfarfod yr ymosodwyr oedd trwy astudiaeth fanwl o'r Ysgrythyrau eu hunain. Hyd yn hyn ychydig o sylw a arferid dalu i ysgrifeniadau yr Apostolion; ac nid rhyfedd, pan yr oedd cydoeswyr iddynt yn fyw, a thraddodiad yn meddu cymaint o awdurdod. Ond ni wnai traddodiad y tro yn awr, a rhaid oedd cymeryd cam penderfynol ymlaen i dir mwy safadwy ac awdurdodol.

Dyma waith mawr yr ysgol yn Alexandria,—troi sylw yr Eglwys at yr Ysgrythyrau, a meithrin astudiaeth fanol a dysgedig o honynt. Hwynt-hwy a ddaethant gyntaf â'r egwyddor i sylw, mai yr Ysgrythyr, ac nid Traddodiad, yw y man lle yr ydym i fyned i chwilio am drysor y ffydd Gristionogol.

Yr oedd yr Apostol Paul eisoes wedi tori allan y ffordd iddynt yn eu hymosodiadau ar Gnosticiaeth, ac wedi dangos pa fodd i wneyd defnydd o'r hyn oedd wir yn athroniaeth y byd Paganaidd er hyrwyddiant i'r gwirionedd fel y mae yn Nghrist. Y mae hyn i'w gael yn ei Epistol at y Colossiaid. Daeth gair ato tua diwedd ei garchariad yn Rhufain fod rhyw syniadau newydd yn cynhyrfu yr eglwys yn Colossa. Nid yr un ysbryd ydoedd ag a weithiai yn ddinystriol ymysg y Galatiaid: Iuddewaidd ydoedd hwnw, Paganaidd ydoedd hwn. Yr oedd yr ysbryd Dwyreiniol, ysbryd Gnosticiaeth, yn aflonyddu y Colossiaid, ac yn ei lythyr y mae yr Apostol yn ei gyfarfod. A pha fodd? Nid trwy ei ymladd yn benboeth a difeddwl, fel y Montaniaid, ond derbyniai Paul ef fel amlygiad o angen gwirioneddol yn mynwesau dynion, a dangosai fel y mae Crist yn cyflawni pob angen o'r fath ynddo ei hun. Soniai y Gnosticiaid am Dduw fel y *Pleroma*—fel y Cyflawnder tragywyddol a diderfyn o bob bywyd, gallu, gogoniant, doethineb, cyfawnder a gras. Gwir iawn, meddai'r Apostol, ond cofier mai yn Iesu Grist y mae "holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio *yn gorfforol.*" (Colossiaid ii. 9.) Fe sonient hwy am wybodaeth, y *gnosis*, a feddai yr *initiated few;* gwir eto, ond dylent gofio y ffynnonell o ba un y mae hwn yn tarddu; yn Nghrist y mae "holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig." (Colossiaid ii. 3.) Soniai y Gnosticiaid am y pellder anamgyffredadwy rhwng dyn a Duw, a dysgent yr angen am Aioniaid i'w lanw i fyny. Y *mae* yna bellder, meddai Paul, ond y mae Crist wedi ei lanw i fyny ei hunan, oblegid "rhyngodd bodd i'r Tad . . . . (wedi iddo wneuthur heddwch trwy waed ei groes ef) trwyddo ef gymmodi pob peth âg ef ei hun." (Colossiaid i. 19, 20.) Nid oes eisieu cyfryngiad yr Aioniaid mwyach; Iesu Grist yw y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion. Sonient hwy am ymddyrchafu at y perffeithrwydd sydd yn Nuw trwy ymarferion hunanboenydiol. Yma eto yr oedd eu hamcan yn dda, ond fe'u dysgid i gofio fod yr aberth a wnaeth Crist yn berffaith ddigonol; a bod "ymroi i ordeiniadau . . . . yn ol gorchymynion ac athrawiaethau dynion," a "bod heb arbed y corff," "oll yn llygredigaeth wrth eu harfer" (Colossiaid ii. 20—23), ac yn tueddu i gynnyrchu pechod.

Wele y llwybr wedi ei dori allan yn barod iddynt, ac nid oedd ganddynt ddim mwy i'w wneyd na'i ddilyn ymlaen trwy astudiaeth fanol o'r Ysgrythyrau. A hyn a wnaethant. Buont yn llwyddiannus i raddau helaeth iawn i gymmodi Cristionogaeth âg Athroniaeth Baganaidd, fel ei hamlygid yn nghyfundrefnau yr hereticiaid, yn ogystal ag yn y lleill nad oeddynt yn dwyn perthynas â Christionogaeth o gwbl. Eu hamcan oedd uno gwybodaeth a ffydd—*Gnosis* yr Athronydd a *Pistis* y Cristion. Eu harwyddair ydoedd, "Nid oes Ffydd heb Wybodaeth, na Gwybodaeth heb Ffydd," gan ddilyn cyfieithiad y Deg a Thriugain o Esaiah vii. 9: ἐὰν μὴ πιστεύσητε, οὐδὲ μὴ συνῆτε—"os na chredwch, ni ddeallwch o gwbl." Y mae y Doethwr Cristionogol yn meddu per-

ffaith gariad at, a pherffaith ffydd yn Nuw, yn ogystal a pherffaith wybodaeth o hono.

Ni fu yr ysgol heb gyflawni llawer o gamgymeriadau. Er yn wrthwynebol i alegori a meudwyaeth o ran egwyddor, fe fu ysbryd yr oes yn drech na hwy, a syrthiasant i'r pethau hyn eu hunain, megys yn ddiarwybod. Fe ddadblygodd hefyd syniadau lled ddyeithr eu hunain cyn hir, y rhai a alwyd gan y dosbarth llai meddylgar a mwy cul yn yr Eglwys yn heresiau,—heretic yw Origen yn llygaid Eglwys Rhufain hyd heddyw,—heb gofio na mawrhâu y gwaith godidog a gyflawnwyd ganddi yn yr ymdrech at gael gafael ar y gwirionedd, gwaith ag y mae ei effeithiau yn ganfyddadwy hyd y dydd hwn.

Rhaid terfynu ein sylwadau yn awr yn y fan hon. Fe allai y cawn sylwi ar y rhanau dyddorol o'r llyfr sydd eto yn ol mewn ysgrif ddyfodol.

T. J. JONES-LEWIS.

---

## MARWOLAETH BABAN.

*(Cyflwynedig i'w Fam.)*

CAED blodyn bach di-nam,
  Ryw fore glâs yn perlio;
A'r awel fwyn a'r heulwen am
  Y cyntaf i'w gofleidio.
Rhyw Un—yr Un a'i pïodd ef—
  A'i hoffodd, O mor fawr!
Ei symud wnaeth i erddi 'r Nef,
  Ac yno mae yn awr.

GLAN COLLEN.

# SEFYLLFA BRESENNOL CWESTIWN Y DADGYSYLLTIAD.

NOS LUN, Hydref yr 22ain, 1883, safai Syr Stafford Northcote ar lwyfan y Pavilion, Caernarfon, ger bron etholwyr Cymreig, ac addefai fod corff mawr etholwyr Cymru, nid yn unig yn Rhyddfrydig, ond yn Radicalaidd; ac fel un o'r rhesymau paham yr oeddynt felly, nodai yr awydd am Ddadgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys. Ond dywedai fod argraff ar feddyliau yr Ymneillduwyr y deilliai rhyw fudd, mewn rhyw ffordd neu gilydd, iddynt hwy oddiwrth y Dadgysylltiad; eithr sicrhâi, pe cymerai hyny le, na ddeuai unrhyw ran o'r yspail i'r Ymneillduwyr. Nid ydym yn gwybod ar ba awdurdod yr haerai Syr Stafford fod yr argraff hon yn bod, ond mae yn gwbl amlwg fod yr haeriad yn hollol gyfeiliornus. Mewn rhai o daleithiau yr America lle y bu Eglwys Sefydledig, fe gynnygiwyd rhanu y gwaddol rhwng y gwahanol bleidiau crefyddol; ond gwrthodwyd hyny yn bendant gan y pleidiau eu hunain. Yn y flwyddyn 1865 fe awgrymwyd (gan Iarll Russell, os ydym yn cofio yn iawn) y priodoldeb o ranu eiddo yr Eglwys Wyddelig rhwng yr holl enwadau; ond protestiodd y Pabyddion, er eu hanrhydedd, yn gystal â'r Presbyteriaid a'r enwadau eraill, yn erbyn hyny. Ac nid yw Ymneillduwyr Cymru, pa rai a ganmolid gan Syr Stafford, yn ol i'w brodyr mewn ffyddlondeb i'w hegwyddorion; ac nid oes dadl, pe gwneid y cyfryw gynnyg yn Nghymru y flwyddyn nesaf, na wrthodid ef gyda dirmyg. Ped adnabuasai efe hwynt yn well, fe wybuasai fod yr awydd am ddadgysylltiad a dadwaddoliad yn codi oddiar egwyddorion dyfnach o lawer nag awydd am yr yspail.

Y mae ein darllenwyr wedi sylwi, mae yn ddiammeu, fod tri rhybudd wedi eu rhoddi yn y Senedd o benderfyniadau gyda golwg ar yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr, Cymru, ac Ysgotland. Gan fod y rhybuddion hyn yn bwysig, ac wedi eu geirio yn bur ofalus, ni a'u dodwn i lawr yma. Y mae cynnygiad Mr. Henry Richard gyda golwg ar Loegr fel y canlyn:—"Fod sefydliad Eglwys Loegr trwy gyfraith yn gosod ar y Senedd ddyledswyddau y rhai nas gall yn effeithiol eu cyflawni; yn amddifadu yr Eglwys o'r gallu i drefnu ei hachosion ei hunan; yn gwneyd anghyfiawnder â dosbarth mawr o'r cyhoedd; ac yn niweidiol i fuddiannau gwleidyddol a chrefyddol y genedl; ac am hyny na ddylai gael ei barhâu yn hŵy." Cynnygiad Mr. Dillwyn am Gymru: —"Gan fod Eglwys Loegr yn Nghymru wedi methu cyflawni ei hamcan proffesedig fel moddion i hyrwyddo buddiannau crefyddol cenedl y Cymru, ac nad yw yn gweinyddu ond i leiafrif bychan o'r boblogaeth, fod ei pharhâd fel Eglwys Sefydledig yn y Dywysogaeth yn anghysondeb ac anghyfiawnder, yr hwn na ddylai fod yn hŵy." Dyma hefyd gynnygiad Mr. Dick Peddie am Ysgotland:—"Fod y Tŷ hwn o'r farn

fod parhâd y Sefydliad Eglwysig yn Ysgotland yn anamddiffynadwy ar seiliau cyhoeddus; ei fod, yn amgylchiadau eglwysig y wlad, yn amlwg anghyfiawn; ac y dylai mesur er Dadgysylltu a Dadwaddoli Eglwys Ysgotland gael ei basio yn fuan." Y mae yr olaf wedi bod ymhlith y rhybuddion am ddau neu dri Senedd-dymmor o'r blaen, ond ni chaed cyfle teg iddo ddyfod ger bron. Wrth gwrs, pe ceid cyfle i ddadleu unrhyw un o'r cynnygion hyn, neu y tri, a phe pasid hwynt, ni fyddent ond penderfyniadau; byddai dwyn mesurau ar y cwestiwn yn gorphwys ar y Llywodraeth; ond fe fyddai cael llais y Tŷ arnynt yn gymhelliad cryf i'r Llywodraeth i ymaflyd yn y gorchwyl. Fe gofir hefyd fod Mr. (yn awr Syr) Watkin Williams, a'r diweddar Mr. Edward Miall, wedi dwyn cynnygion cyffelyb flynyddoedd yn ol; ond cynnwys atebiad Mr. Gladstone iddynt ydoedd, fod llawer o waith i addfedu y wlad cyn dyfod â'r mater hwn ger bron y Senedd. Y mae llawer tro ar fyd wedi bod er hyny, ac y mae yn amlwg fod gwŷr sydd mewn mantais i farnu yn argyhoeddedig fod yr amser wedi dyfod bellach i drin y mater hwn yn ei holl ganghenau yn y Senedd. Ni a geisiwn osod ger bron ein darllenwyr grynodeb o'r amgylchiadau sydd wedi dylanwadu er addfedu y wlad yn gymaint fel y mae y cynnygion uchod bellach wedi dyfod yn amserol.

Nid oes un dyn a wâd fod yr Eglwys Sefydledig wedi ymwthio i sylw y cyhoedd yn ystod y blynyddoedd diweddaf mewn modd arbenig iawn. Yn anffodus, nid o herwydd ei hymdrechion cenadol gogoneddus, fel Eglwys Rydd Ysgotland, nac o herwydd ei llwyddiant i efengyleiddio gwledydd, fel y Cyfundeb Wesleyaidd, nac o herwydd codi ei llais yn groch yn erbyn rhyfeloedd gwaedlyd a gorthrwm teyrnasoedd, fel yr enwadau Ymneillduol; ond o herwydd cynhyrfiadau echrydus o'i mewn hi ei hunan, a'i herlidigaeth a'i gorthrwm ar eraill nad ydynt yn perthyn iddi, ynghyd a'r holl wrthuni a'r anghyfiawnder sydd yn ei chyfundrefn. Nid oes wythnos bron yn myned heibio nad oes rhyw gamwri sydd yn perthyn iddi, yn rhedeg drwy gylch y newyddiaduron, ac o bob cŵr o'r wlad fe gyfyd gwaedd o herwydd rhyw achos neu gilydd yn dal cysylltiad â hi; ac nid yw ryfedd fod pobl ystyriol yn dechreu gofyn, Ai nid oes terfyn i fod ar bethau fel hyn? Ac fel y mae rhywbeth yn mynu bod, nid yw dadguddiad o'r pethau hyn yn peri gwyliadwriaeth a gochelgarwch, ond y maent yn myned rhagddynt waethwaeth, fel y mae yr amryfuseddau diweddaf yn lliosocach ac yn waeth na'r cyntaf. O'r rhai hyn y mae yr ymgodymu ofnadwy sydd rhwng Defodaeth a chyfraith y wlad yn un o'r rhai mwyaf pwysig. Nid ydyw mewn gwirionedd ond ymdrech ar ran egwyddorion Pabyddiaeth i sefydlu eu hunain yn nghyfansoddiad yr Eglwys—a dybid oedd mor Brotestanaidd fel ag i fod yn rhagfur rhag Pabyddiaeth—a hyny er gwaethaf ymdrechion y gyfraith wladol a'r Senedd i osod attalfa yn eu ffordd.

Y mae adeg y Mesur Diwygiadol yn 1832 wedi bod yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes Lloegr mewn mwy nag un ystyr. Yn 1833 dechreuodd Tractariaeth yn Rhydychain, am yr hyn y mae y Traethodydd eisoes wedi rhoddi cyfrif. Ymddangosai y symudiad hwn ar y cyntaf fel yn troi yn uniongyrchol tua Rhufain; ond dan arweiniad cryf a chyfrwys y diweddar Dr. Pusey, fe ymsefydlodd i

raddau gan gario ymlaen ei weithrediadau heb symud o gorlan Eglwys Loegr, a thua'r flwyddyn 1857 daeth i fod yr hyn a elwir yn blaid Uchel-Eglwysig, arferion yr hon, rai blynyddoedd yn ddiweddarach, a wisgwyd â'r enw newydd, Defodaeth. Hanfod ei hathrawiaeth yw fod y defodau a arferir ganddynt yn Sacramentaidd, hyny yw, yn arwyddocaol. Defnyddir y gwisgoedd am eu bod yn arwyddocaol o offeiriadaeth, a'r un modd y sefyll gyda'r wyneb tua'r dwyrain, ac felly gyda'r holl ddefodau,—y maent yn arwyddluniol. Wrth weled fod y ddysgeidiaeth hon yn ymledu mor gyflym, tybiodd y blaid Brotestanaidd yn yr Eglwys yn briodol ceisio rhoddi attalfa arni trwy gyfraith, a ffurfiwyd cymdeithas Eglwysig i'r amcan hwn. Yn ol trefniadau Deddf Dysgyblaeth Eglwysig 1840, gellid dwyn achos o drosedd o'r deddfau Eglwysig o dan sylw yr Esgob, *ac os cydsyniai efe* penodid commissiwn i edrych i mewn i'r achos, a gellid appelio oddiwrth y llys hwn i lys yr Archesgob, ac oddiyno ymlaen i'r Cyfringynghor, ac yna i Dŷ yr Arglwyddi. Yn 1874 pasiwyd deddf newydd gan y Weinyddiaeth Doriaidd, gyda'r amcan proffesedig o fod yn ffordd rwyddach i attal Defodaeth; ac yn ol hon byddai raid cael cydsyniad yr Esgob yn gyntaf, ac yna gellid dwyn achos i'r llys yn Llundain,—yr hwn mewn geiriau eraill ydyw llys yr Archesgob. Yn awr, ni a gymerwn olwg ar rai o'r achosion sydd wedi tynu cymaint o sylw.

1. *Achos Mr. Ridsdale o Folkestone.* Cyhuddwyd Mr. Ridsdale ger bron Arglwydd Penzance yn nechreu 1876 o ddilyn amryw arferion defodol, a chondemniwyd ef. Oddiwrth hyn appeliodd yntau at y Cyfringynghor, ac yno drachefn condemniwyd y gwisgoedd offeiriadol, a rhoddi y *wafer* yn ordinhâd Swper yr Arglwydd, ond nad oedd dim yn profi fod Mr. Ridsdale yn gwneyd hyny; a chondemniwyd y groes hefyd; ond am y sefyll gan edrych tua'r dwyrain, fod hyny yn gyfreithlawn, ond i'r cymunwyr fod yn gweled yr elfenau yn cael eu cysegru. Bu tipyn o helynt ar ol y dyfarniad hwn, o herwydd i'r Barwn Kelly ddyweyd wrth y Parch. P. C. Ellis nad oedd efe yn cydweled â'i frodyr barnol yn y dyfarniad, a'i fod wedi cael ei roddi yn fwy o ran *policy* nag o ran cyfraith. Dygodd hyn arno gerydd oddiwrth yr Arglwydd Ganghellydd am fradychu ymddiried, a rhoddwyd gorchymyn newydd yn gwahardd hyny yn y dyfodol. O'r tu arall gwadai y Barwn ei fod wedi gwneyd dim ond oedd yn arferol, a chondemniai y rheol newydd fel un o hen rai y *Star Chamber* wedi ei hadgyfodi. Fodd bynag, ni foddlonai Mr. Ridsdale i ymostwng i'r Cyfringynghor, a chymerodd gohebiaeth le rhyngddo âg Archesgob Canterbury, a boddlonai i gymeryd ei arwain gan ei fugail esgobol, ond nid gan y Cyfringynghor.

2. *Achos y Parch. Arthur Tooth, o Eglwys St. James, Hatcham.* Dygwyd yr achos hwn o flaen Arglwydd Penzance, ond gan na chymerai Mr. Tooth un sylw o'i rybuddion na'i attaliad, trosglwyddwyd ef i'r carchar yn Horsemonger Lane, Ionawr 22, 1877, am ddiystyrwch ar y llys, yn ol y ddeddf 53 George III. c. 127. Y mae tipyn o ddyddordeb yn perthyn i ddygiad i mewn y ddeddf hon, oblegid deddf ydoedd a basiwyd i gosbi rhai am wrthod talu y dreth eglwys a'r degwm. Cyn hyny esgymundod oedd y gosb, ond yn y ddeddf hon darparwyd y gallai

y barnwr ddadgan y troseddwr yn "gyndyn," a dwyn hyny ger bron Llys y Frenines, yr hwn mewn canlyniad a anfonai *writ de contumace capiendo*, a thrwy awdurdod hono rhoddid y troseddwr yn ngharchar. Peth digon rhyfedd oedd mai hon oedd y ddeddf trwy ba un y gellid rhoddi Defodwr yn ngharchar. Ar ol cael Mr. Tooth i garchar, penodwyd un arall i ddwyn y gwasanaeth ymlaen; ond bu raid i hwnw, drwy awdurdod Esgob Rochester, dori clo drws y *vestry* i gael myned i mewn. Wedi gwneyd hyny, gofynwyd i Arglwydd Penzance ollwng Mr. Tooth yn rhydd, ac felly y gwnaeth. Appeliodd yntau yn erbyn y carchariad i Lys y Frenhines, ac yno yn mis Tachwedd, 1877, condemniwyd yr hyn a wnelsid i Mr. Tooth fel yn anghyfreithlawn, am y rheswm fod awdurdodiad yr Archesgob i'r achos gael ei ddyfarnu gan Arglwydd Penzance, yn nodi fod yr achos i'w drafod yn Llundain neu Westminster, neu ynte yn Esgobaeth Rochester; ond yr oedd wedi ei drafod yn Esgobaeth Canterbury; ac felly am na wnaed y gwaith yn y lle penodedig, yr oedd y cwbl yn ofer. Dyma derfyn yr achos hwn.

3. *Achos y Parch. Pelham Dale, o St. Vedast.* Ni wrandawai y gŵr hwn ar rybuddion Arglwydd Penzance, a throsglwyddwyd yntau i'r carchar, Hydref 30, 1879. Appeliodd yn erbyn y dyfarniad, a gwnaeth gais at Lys y Frenhines am gael dyfod o'r carchar hyd nes y penderfynid yr appêl, yr hyn a ganiatäwyd ar ei waith ef yn addaw peidio cyflawni gwasanaeth yn y cyfamser. Aeth yr appêl yn erbyn Mr. Dale yn Llys y Cyfringynghor, ond appeliodd drachefn i Dŷ yr Arglwyddi, ac yno penderfynwyd fod y *writ* drwy ba un yr anfonwyd Mr. Dale i'r carchar yn afreolaidd, am nad oedd wedi ei dwyn i Lys y Frenhines i'w chadarnhâu. Dyma drafferth ofer eto. Yn fuan ar ol hyn rhoddodd Mr. Dale i fyny ei le yn St. Vedast, ond derbyniodd fywoliaeth arall, sef Sansthorp, yn Esgobaeth Lincoln, gyda phoblogaeth o 126, a chyflog o £220, ac ni ofynwyd iddo gan yr Esgob wneyd dim ond y dadganiadau arferol wrth gymeryd y fywoliaeth hono; ond mewn ymddyddan ar ol hyny â'r Esgob, efe a addawodd beidio dwyn i mewn newydd-bethau heb gydsyniad yr Esgob.

4. *Achos y Parch. Mr. Enraght o Bordesley*, yn Esgobaeth Worcester. Yr oedd yr achos hwn yn cydredeg i raddau â'r diweddaf, a charcharwyd Mr. Enraght yn Warwick, Tachwedd 27, 1880, a rhyddhäwyd yntau yr un modd a Mr. Dale, ond yn unig nad ymostyngodd i'r teleran fel ag i gael bod allan o'r carchar i aros yr appêl. Wedi methu yn y ffordd hono, cymerodd Arglwydd Penzance ffordd arall ato yn 1882, a chyhoeddodd ei fod yn cael ei ddifuddio o'i fywoliaeth. Gan mai Ymddiriedolwyr Simeon oedd y noddwyr, penodasant hwy ŵr efengylaidd o'r enw Mr. Watts i gymeryd ei le, ond ar ymddangosiad cyntaf y gŵr hwnw bu yn gryn gynhwrf yn yr Eglwys.

5. *Achos y Parch. S. F. Green, o St. John's, Miles Platting.* Trwy ganiatâd Esgob Manchester, cymerwyd mesurau yn erbyn Mr. Green yn Nghanghell-lys Archesgobaeth York, o flaen y prif swyddog, Arglwydd Penzance, ac o dan Ddeddf Rheoleiddiad yr Addoliad Cyhoeddus 1874. Rhybuddiwyd ef, ond ni wnaeth sylw o hyny; yna gwaharddwyd iddo gyflawni gwasanaeth, ond parhaodd i wneyd hyny; yna cyhoeddwyd ef yn "gyndyn," ac yn euog o ddiystyrwch, ac awgrymwyd hyny i'r Canghell-lys yn ol y deddfau 5 Elizabeth, c. 23, a

53 George II. c. 127, ac oddiar hyn trosglwyddwyd ef i garchar Lancaster yn y Grawys, 1881. Ymddengys fod Arglwydd Penzance wedi bod yn fwy gofalus yn yr achos hwn, oblegid er appelio yn erbyn ei ddedfryd hyd yn Nhŷ yr Arglwyddi, dadganwyd fod y cwbl yn rheolaidd. Yr oedd y costau hefyd heb gael eu talu, ac yn ol gorchymyn yr Arglwydd Ganghellydd awdurdodwyd attafaelu y fywoliaeth, ac ar ol hyny gorchymynwyd gwerthu dodrefn Mr. Green. Dyma Mr. Green gan hyny yn y carchar, a dim modd trwy gyfraith ei gael oddiyno. Wedi hyn daeth Iarll Beauchamp â mesur i mewn i Dŷ yr Arglwyddi er ei ryddhâu, a phasiwyd ef yno, ond cyfrifwyd ef allan yn Nhŷ y Cyffredin. Gofynai Tŷ Isaf y Confocasiwn i'r Tŷ Uchaf beth ellid ei wneyd, ond nid oedd gan yr Esgobion ddim help i'w roddi. Aeth Archesgob York ato i'r carchar i geisio ei gael allan, ond dywedai ei fod yn cael fod y carchar "wedi ei gloi o'r tu fewn." Aeth Esgob Manchester ato hefyd, a chafodd ganddo ryw addewid i roddi ufudddod canonaidd i'w Esgob. Ysgrifenodd yr Esgob at Mr. Gladstone i ofyn a ellid ei ryddhâu ar hyny; ond y cwbl a allai efe wneyd oedd cyfeirio yr Esgob at yr Ysgrifenydd Cartrefol. Aeth amser heibio, a chadwyd pen blwydd carchariad Mr. Green gan ei blaid fel diwrnod o ymostyngiad, ond yn y carchar yr ydoedd o hyd. Yr oedd y mater yn gwisgo gwedd o bwysigrwydd oedd yn destun siarad ac ysgrifenu cyffredinol, ond nid oedd drws o waredigaeth. Tynwyd allan gynllun o fesur eilwaith, yr hwn a gymeradwywyd gan y Confocasiwn, a dygwyd ef i Dŷ yr Arglwyddi gan Archesgob Canterbury, a phasiodd yno, fel ei frawd-fesur y flwyddyn flaenorol; ond cyfarfu â'r un anffawd a hwnw hefyd yn Nhŷ y Cyffredin. Astudiai cyfreithwyr y gyfraith i chwilio pa fodd i gael Mr. Green allan, ac o'r diwedd sylwyd fod y fywoliaeth heb ei dadgan yn wag gan yr Esgob, ac ond gwneyd hyny, a'i llenwi, fe dybid y deuai goleuni. Anfonodd yr Esgob (Manchester) rybudd i'r noddwr, Syr Percival Heywood, fod y fywoliaeth yn wag, a rhoddwyd rhybudd hefyd ar ddrws yr Eglwys, Hydref 1882, a phenodwyd rhai i dderbyn yr arian. Ar hyn anfonodd Mr. Green o'r carchar ei ymddiswyddiad. Yna aeth Esgob Manchester o flaen Arglwydd Penzance, i'w hysbysu fod Mr. Green wedi ei ddifuddio o'i fywoliaeth, ac yn gofyn ai ni allasai Mr. Green gael ei ryddhâu; a chydsyniodd yntau â hyny, ond heb wneyd un sylw o'r ymddiswyddiad. Ond nid yw y diwedd eto. Penododd Syr Percival Heywood y Parch. Mr. Cowgill i'r fywoliaeth, yr hwn oedd y curad oedd wedi bod yn gofalu am yr Eglwys, ac wedi cario ymlaen ddefodau Mr. Green heb ddim gwahaniaeth. Gwrthododd Esgob Manchester sefydlu Mr. Cowgill heb iddo addaw cario ymlaen y gwasanaeth yn Miles Platting yn yr un ffurf â gwasanaeth yr Eglwys Gadeiriol, â'r hyn ni chydsyniai Mr. Cowgill. Bygythiai y noddwr ail benodi Mr. Green, os na ildiai yr Esgob; ond parhâu yn benderfynol a wnaeth. Y newyddion diweddaf (Tachwedd 1883) ydyw fod yr Esgob wedi derbyn *writ* o Lys y Frenhines yn galw arno i roddi rheswm digonol paham na buasai yn sefydlu Mr. Cowgill, wedi iddo gael ei benodi gan y noddwr. Nid yw yr Esgob yn teimlo yn sicr nas gall golli y frwydr yn y gyfraith; ond dywed pe felly, y deuai gweinyddiad yr Esgobaeth yn faich arno nas gallai ei ddwyn yn hŵy. Pe gwelid yr Esgob yn ymddiswyddo,

byddai hyny yn dwyn gwedd newydd a rhyfedd iawn ar yr achos; ond nid oes neb a ŵyr beth fydd y troadau a ddaw eto i'r golwg cyn y bydd yr achos hwn wedi dyfod i derfyniad.

6. *Achos Mr. Mackonochie, Vicar St. Albans*, yn Llundain. Y mae yr achos hwn hefyd yn faith ac yn droellawg. Dechreuwyd mesurau cyfreithiol yn erbyn y gŵr hwn yn y flwyddyn 1867, o dan ddeddf Dysgyblaeth Eglwysig 1840. Rhoddodd Syr R. Phillimore farn yn ei erbyn yn 1868, oddiwrth yr hon yr appeliwyd at y Cyfringynghor, ond yno cadarnhäwyd barn Syr R. Phillimore. Ni wnaeth Mr. Mackonochie sylw o'r "rhybudd," a phenderfynodd y Cyfringynghor ei fod wedi troseddu, ac i dalu y costau. Yn 1870 gwnaed cais drachefn at y Cyfringynghor am ei attal, ac attaliwyd ef am dri mis. Dyna'r bennod gyntaf. Yn 1874 dechreuwyd cwrs newydd yn ei erbyn, ac attaliwyd ef gan Syr R. Phillimore am chwech wythnos. Galwyd sylw y llys yn 1878 at y ffaith o fod hyny yn ddieffaith, a rhoddwyd ail gynnyg iddo drwy anfon rhybudd; ond ni ufuddhaodd, ac mewn canlyniad attaliwyd ef am dair blynedd; atafaelwyd y fywoliaeth hefyd, ond torwyd y *writ* yn ddarnau. Appeliwyd yn erbyn yr attaliad i Lŷs y Frenhines, lle yr eisteddai Syr A. Cockburn a'r Barnwr Mellor, a phenderfynasant hwy fod Arglwydd Penzance a'r Cyfringynghor wedi gweithredu yn afreolaidd,—y gallasent "attal" Mr. Mackonochie am ei drosedd cyntaf, ond mai nid dyna oedd y gosb am fod yn "gyndyn" a diystyru y llys, a defnyddiwyd ymadroddion lled gryfion am Arglwydd Penzance a'r Cyfringynghor, yr hyn oedd wrth fodd y blaid Ddefodol. Mewn adeg ddilynol atebodd Arglwydd Penzance, gan ymosod yn haerllug ar Syr A. Cockburn; ac atebodd hwnw mewn pamphled galluog a brathog, gan senu "trahâusder croendeneu" Arglwydd Penzance. Nid ydym yn gwybod fod dim ond achosion Eglwysig wedi gyru ein Barnwyr "benben â'u gilydd," er dianrhydedd i'r fainc. Yr oedd hyn yn niwedd 1878. Ond appeliwyd eto i Dŷ yr Arglwyddi, a phenderfynwyd yno fod yr attaliad a wnaed gan Arglwydd Penzance yn gyfreithlawn. Ond elai y troseddwr ymlaen yn union yr un fath. Dyma ddiwedd yr ail bennod. Gan y gwelid os cèrid ymlaen yn ol yr ail lwybr, mai i'r carchar y dygid Mr. Mackonochie—ac nid oedd hyny yn ddymunol ar ol y profiad gyda Mr. Green—cychwynwyd achos newydd eto—y drydedd waith; ond gwrthodai Arglwydd Penzance; ond ar appêl, penderfynwyd fod y trydydd cais yn gyfreithlawn, yr hwn a amcanai at ddifuddio Mr. Mackonochie, heb ei yru i garchar. Tra yr oedd hyn yn myned ymlaen, synwyd y wlad gan symudiad newydd a chyfrwys. Anfonodd y diweddar Archesgob Canterbury at Mr. Mackonochie i awgrymu iddo y priodoldeb o roi i fyny ei fywoliaeth, ac atebodd yntau ei fod yn foddlawn i wneyd, ond dymunai ar yr Archesgob wneyd a allai drosto gydag Esgob Llundain i gael iddo le arall. Anfonodd yr Archesgob y llythyrau i Esgob Llundain, a'r canlyniad fu i Mr. Mackonochie gael ei benodi i fywoliaeth St. Peter's, London Docks, ac i Mr. Suckling gael ei symud oddiyno a'i benodi i St. Alban's. Creodd hyn gynhwrf anghyffredin trwy y wlad oll, o herwydd nid ydoedd ond ymgais i fyned o'r tu cefn i'r gyfraith,—a'r awgrymiad am hyny yn dyfod oddiwrth yr Archesgob! Anfonwyd *protest* yn erbyn y peth at Esgob

Llundain, wedi ei arwyddo gan tua 2500 o glerigwyr, ac un arall oddiwrth tuag 8000 o leygwyr. Dygwyddodd hyn yn Rhagfyr 1882. Ond os yr amcan oedd osgoi y gyfraith, fel mae yn ddiammeu yr oedd, cafwyd allan mai ofer ydoedd. Yr oedd Mr. Martin, yr erlynydd, yn gyfreithiwr, a chwareu teg iddo, wedi meddu penderfyniad pur wrol i ddal ati mor hir. Dygwyd y mater drachefn o flaen Arglwydd Penzance, a phenderfynai efe fod troseddau Mr. Mackonochie yn haeddu difuddiant *(deprivation)*, ac fod y difuddiant yn perthyn, nid i un fywoliaeth, ond i bob swydd Eglwysig a ddelid gan y diffynydd; ac ymhellach fod y difuddiant yn perthyn, nid yn unig i'r hyn a ddelid gan y diffynydd pan y cyflawnwyd y trosedd, ond hefyd i'r hyn a ddelid ganddo pan yr oedd y farn yn cael ei chyhoeddi. Cyhoeddai gan hyny ei fod i gael ei ddifuddio o'i fywoliaeth bresennol, ynghyd ag i dalu'r costau. Gallasai hyn hefyd, hwyrach, fyned yn destun dadl a chyfraith; ond fel y dywedwyd, yr oedd Mr. Martin yn gyfreithiwr â llygad yn ei ben, a'r peth cyntaf a wnaeth oedd galw ar Esgob Llundain i gario allan y difuddiad; ond gwrthodai efe, gan ddyweyd nad oedd a fyno Mr. Martin â Ficer St. Peter,—mai "â pherson St. Alban yr oedd a fyno efe;" ond bygythia Mr. Martin gael *mandamus* o Lŷs y Frenhines i orfodi yr Esgob i wneyd ei ddyledswydd, ac os felly gall y gwrthodiad hwn gostio yn lled ddrud iddo. Ond ymhellach, galwodd Mr. Martin sylw yr *Ecclesiastical Commissioners* at y ffaith fod Mr. Mackonochie wedi ei ddifuddio; a chan mai hwy sydd yn talu'r cyflog, y mae yr hysbysrwydd hwn yn peri nas gallant dalu mwyach iddo y £300 sydd yn perthyn i St. Peter. Yn ol y newyddion diweddaraf, ymddengys fod y llif wedi dyfod yn rhy gryf i Mr. Mackonochie, a'i fod ar ol ymladd am 16 mlynedd yn gogwyddo at roddi i fyny gyfreithio; ond nid yw yn debyg o roddi i fyny Ddefodaeth.

Elem yn rhy faith wrth olrhain achosion eraill, o ba rai y mae amryw wedi bod, ac nid yw y rhai hyn ond rhai eithafol. Cyn y cymerir cwrs fel yma, rhaid cael rhywun digon gwrol yn y gynnulleidfa i anturio ar ymdrech na wyddys ymha le y terfyna; ac yna rhaid cael cydsyniad yr Esgob i fyned ymlaen, ac nid bob amser y gellir cael hyny. Gwrthododd Esgob Salisbury ganiatâu mesurau yn erbyn Mr. Chapman o Donhead, St. Andrew, ac felly y gwnaeth Esgob Caer pan ddymunwyd arno attal pethau afreolaidd yn Liverpool yn 1879; a gwyddys mai gwell gan yr Esgobion lonyddwch, os gellir fodd yn y byd. Cymdeithas y Defodwyr ydyw Undeb yr Eglwys Seisonig *(English Church Union)*, ac yn 1879 yr oedd yn perthyn i hono 2500 o glerigwyr, a thros 15,000 o leygwyr—y cyfan yn 17,522 o aelodau; ac erbyn 1882 yr oedd ganddi 270 o ganghenau, cymdeithasau plwyfol 100, undebau dosbarthiadol 48, aelodau yn agos i 20,000. Edrycha hyn yn fawr, ond y mae nifer y clerigwyr, yn bersoniaid a churadiaid, tua 24,000; felly nid yn eu nifer y mae eu nerth yn gymaint, ond yn eu gweithgarwch a'u dylanwad. Y mae y rhai hyn felly yn cario eu Defodaeth ymlaen yn benderfynol, ac y mae pob ymdrech i'w hattal wedi bod yn hynod ddilewyrch. Rhoddai Mr. James Girdlestone, yn 1882, adolygiad ar y gwaith hyd y pryd hwnw, a dywedai nad oedd hanes am un achos lle yr oedd Esgob wedi cymeryd mesurau cyfreithiol i attal Defodaeth, ond eu bod yn fynych wedi attal lleygwyr i am-

ddiffyn eu hawliau fel plwyfolion. Yr oedd 15 o gwynion wedi cael eu gwneyd gan wardeiniaid,—yr oedd dau wedi llwyddo, dau heb eu gorphen, ac 11 yn aflwyddiannus; ac yr oeddynt yn ddyledus am yr aflwyddiant i'r Esgobion. O'r 11 yr oedd 8 yn waharddiadau, neu *vetoes* gan yr Esgobion. Yr oedd 11 o'r 15 achosion wedi bod yn llaw Mr. Girdlestone ei hun. Llwyddodd un, sef achos St. Vedast; methodd y 10 eraill o herwydd yr Esgobion. Erbyn diwedd 1880 yr oedd y Gymdeithas Eglwysig wedi gwario hanner can' mil o bunnau i geisio rhoddi i lawr Ddefodaeth; a dyma'r canlyniad, dim ond dau achos wedi llwyddo o'r cwbl, a'r llwyddiant hwnw mor ammheus fel nad oedd yn agor unrhyw ffordd o attalfa am y dyfodol.

Beth y mae y blaid yn ei geisio? Dywedai yr Anrhydeddus Charles Wood, llywydd yr Undeb Eglwysig yn Nottingham yn 1878, ar ol cyfeirio at y tebygolrwydd y byddai Deddf yr Addoliad Cyhoeddus yn 1874 yn myned yn ddirym, yn gystal a gwaith y Cyfringynghor mewn materion Eglwysig,—mai "nid defodau, ond y presennoldeb gwirioneddol, sydd wrth wraidd y ddadl bresennol, a dyna'r amcan gwirioneddol sydd agosaf at ein calon." Yn y *Church Times* am Ionawr 7, 1881, cawn eglurhâd beth y maent yn ei hawlio, ac am ba beth y maent yn dyoddef cosb a charchar. Hawliant, 1. Nad yw y Senedd i ddeddfu dim gyda golwg ar bethau mewnol yr Eglwys heb gydsyniad y Confocasiwn. 2. Diddymiad Llys y Cyfringynghor fel llys Eglwysig. 3. Diwygiad y Confocasiwn. 4. Rhyw reolaeth ar allu y Goron i benodi Esgobion. 5. Diddymiad yr uchafiaeth frenhinol. 6. Pob hawliau i'r Eglwyswyr, fel i'r Ymneillduwyr, yn eu heiddo; hawl i ddewis eu swyddogion eu hunain ac i ddiwygio eu gwasanaeth eu hunain. 7. Ail drefniad y llysoedd Eglwysig i gael awdurdod ysbrydol ac nid tymmorol gan y Senedd yn unig, &c. Cael y pethau hyn oll, ac eto parhâu yn Eglwys Sefydledig! Y mae yn hawdd gweled y deuent oll gyda dadgysylltiad. Mewn un gair, hawliant i'r Eglwys gael llywodraethu ei hun, a gwrthodant gydnabod Arglwydd Penzance am mai deddf Seneddol a'i gwnaeth yn farnwr, a'r Cyfringynghor am mai y Penadur sydd yn ei benodi. Yr unig fraint gaiff y Frenhines a'r Senedd fydd trefnu eiddo yr Eglwys drosti, a chydsynio â'r hyn a wêl y Confocasiwn yn dda benderfynu. Ond pe na buasai hyn ond cri y Defodwyr, gallesid yn hawdd ei ddiystyru; ond y mae yn amlwg fod yr awdurdodau Eglwysig wedi blino ar geisio eu hela â chyfraith, os nad yn fwy ffafriol na hyny iddynt; ac ymhellach eto, ar yr 16eg o Fai, 1881, penodwyd Dirprwyaeth Frenhinol "i edrych i mewn i gyfansoddiad a gweithrediadau y llysoedd Eglwysig," ac y mae adroddiad y Ddirprwyaeth hon newydd gael ei gyhoeddi. Heb i ni fyned i fanylion yr hanes, ni a roddwn grynodeb byr o'r hyn a gymeradwyir ganddynt. 1. Mewn achos o gamymddygiad ac esgeuluso dyledswydd, fod i'r Esgob wneyd ymchwiliad i wirionedd y cyhuddiad, ac os gwel yn briodol anfon rhybudd i'r cyhuddedig; os cydsynia y cyhuddedig, cyhoedda ei ddedfryd a bydd yn derfynol. Os na wna hyny, trinir yr achos yn llys yr Esgob, o flaen yr Esgob a chynghorwr cyfreithiol. Gall yr Esgob, os myn, anfon yr achos i lys yr Archesgob, o flaen y pen swyddogol, a bydd appêl oddiyno i lys y Goron. 2. Mewn achos o heresi neu ddefodaeth, gall

unrhyw berson gwyno, ond *rhaid cael cydsyniad yr esgob* i erlyn. Os cydsynia y ddwyblaid rhydd yr Esgob ei farn, a hono yn derfynol. Os eir ymlaen, i lys yr Esgob yr eir gyntaf, o'i flaen ef a chynghorwyr cyfreithiol a duwinyddol. Gall yr Esgob, os myn, gyda chydsyniad y ddwyblaid, anfon yr achos i lys yr Archesgob, a gall hwnw, naill ai ei adael i'r pen swyddogol, neu ei wrando ei hunan, gyda, os ewyllysia, nifer heb fod yn fwy na phump o gynghorwyr duwinyddol. Appelir oddiyno i lys y Goron, yr hwn a gynnwys bump o Farnwyr y deyrnas, ond rhaid iddynt oll fod yn aelodau o'r Eglwys Sefydledig. Gallant hwy ymgynghori âg un neu y ddau Archesgob. Os penderfynir attal, bydd y dyfarniad i'w gyhoeddi gan yr Archesgob neu yr Esgob, ac i'w gofnodi yn nghofnodlyfr yr esgobaeth, ond nid i'w roddi ar ddrws yr Eglwys fel yn bresennol. Diddymir carchariad am wrthod ufuddhâu, a rhoddir attaliad a difuddiad yn lle hyny. Y mae hyn yn myned yn bell iawn yr un ffordd â chais y Defodwyr; er hyny nid ydynt yn foddlawn, ond cwynant yn erbyn y Barnwyr, am mai y Frenhines sydd yn eu penodi. Dichon y gwneir cynnyg eto i ddeddfu yn y cyfeiriad hwn, fel yn 1874; ond nid yw yn debyg y bydd i unrhyw ymgais ond gwneyd pethau yn waeth, naill ai gollwng mwy o benrhyddid i'r Defodwyr, neu ynte wasgu arnynt a pheri cynhwrf mwy. Y mae y pethau hyn wedi cynhyrfu y deyrnas bellach er ys llawer o flynyddoedd.

Mater arall sydd wedi peri anfoddlonrwydd mawr ydyw pwnc y Nawddogaeth a'r penodiadau Eglwysig. Y mae oddeutu 13,000 o fywoliaethau yn yr Eglwys, ac y mae 7403 o honynt yn llaw personau preifat, nifer y rhai ydyw 4619. Y mae nifer mawr o'r rhai hyn beunydd yn y farchnad, yn cael eu gwerthu naill ai dros y *counter* neu yn yr arwerthfa. Y peth a werthir ydyw yr hawl i benodi clerigwr i'r fywoliaeth, am yr hyn y ceir yn fynych bris da, ac yn enwedig os bydd y clerigwr yn hên neu yn afiach, ac yn debyg o farw yn fuan; a bydd oedran a gwendidau corfforol y clerigwr, yn fynych, yn cael eu darlunio yn fanwl yn yr hysbysiad fel cymhelliad i brynu. Desgrifir hefyd fanteision y lle fel lle i bysgota, &c., a chymhelliad ychwanegol fydd os bydd y boblogaeth yn fechan ac ychydig o waith; ac weithiau dadgenir y ffaith na bydd dim Ymneillduwyr yn y plwyf. Penodwyd Pwyllgor Detholedig o Dŷ yr Arglwyddi yn 1874 i wneyd ymchwiliad i'r mater hwn, a Dirprwyaeth Frenhinol i wneyd yr un gwaith yn 1878; ac y mae y dadguddiedigaethau a ddaeth i'r golwg drwy y rhai hyn yn arswydus. Er fod pob clerigwr wrth gael ei sefydlu mewn bywoliaeth yn gwneyd llw nad yw wedi prynu y lle âg arian mewn unrhyw fodd, eto sicrheir fod dynion da yn gwneyd hyn heb fod yn ystyriol o gwbl o'r drwg sydd ynddo. Wrth gwrs cèrir llawer o'r fasnach hon ymlaen yn ddirgel. Y mae *agents* yn cario ymlaen y gwaith, a chan y rhai hyny gwneyd arian yw y pwnc. Weithiau y mae clerigwyr yn gweithredu fel *agents*. Rhoddir hanes un yn nhystiolaeth Mr. J. C. Cox, fel y canlyn:—

**Y mae Mr. Workman, alias Rawlins, wedi ac yn cario masnach helaeth ymlaen fel *agent* clerigol. Y mae mewn urddau eglwysig. Ei enw gwirioneddol yw Rawlins, ond y mae wedi arfer dwsin o enwau ffugiol. Un o'i gyflawniadau hynod cyntaf oedd gyda'r Parch. N. K., mewn cysylltiad â bywoliaeth yn esgobaeth ——.**

Twyllodd Mr. N. K. o £3000, dygodd ef i drwbl o herwydd Simoniaeth, ac achosodd iddo golli ei fywoliaeth a'i arian. Y mae Mr. N. K. yn awr yn gweithio fel llafurwr wrth y dydd, ac yn y gauaf yn gyffredin yn y tlotty. Yn 1852 cafwyd Rawlins neu Workman yn euog o gyfnewid y ffigyrau ar *cheque* o £8 i £80, a chondemniwyd ef i wasanaeth penydiol dros amryw flynyddau. Ar ol dyfod allan o'r carchar, dechreuodd ar unwaith weithredu fel *agent* clerigol (yr oedd o deulu da ac yn meddu moddion), a phrynodd gyflwyniad plwyf, a'r cyflwyniad nesaf o amryw fywoliaethau,—dau neu dri o honynt, meddir wrthyf, a brynodd yn agored mewn arwerthfa yn Tokenhouse Yard. Cyhoeddodd gyhoeddiad misol, y *Church and School Gazette*, a gyhoeddid am amryw flynyddoedd yn 56 Great Russell-street, Bloomsbury; ac yn fynych byddai ganddo glerigwr ieuanc yn ei gynnorthwyo yn y fasnach fel ysgrifenydd. Un o'i gynlluniau oedd cyhoeddi hysbysiadau yn yr *Ecclesiastical Gazette*, a lleoedd eraill. Dyma ddarn o hysbysiad o'r *Ecclesiastical Gazette* am Rhagfyr 1869, yn cynnwys y frawddeg ganlynol, yr hon a ddylaswn grybwyll wrth son am achos Mr. N. K.: "Gellir mewn llawer o achosion attal attafaeliad, bygythiedig neu weithredol;" a rhoddodd hysbysiadau am arian i'w benthyca i glerigwyr yn symud, &c. Trwy hyn deuai yn gydnabyddus â chlerigwyr mewn dyryswch, a chådd lawer i'w rwydau, a defnyddiai hwy fel offerynau. Dengys ei fynych fethdaliadau nodwedd ei gymeriad. Yn 1856 yr oedd yn fethdalwr yn ei enw cywir Rawlins, a throsglwyddwyd ef i garchar Llys y Frenhines am dri mis Yn 1864, ar y 9fed o Fehefin, yr oedd yn fethdalwr dan yr enw "James Murray Richard Rawlins, adnabyddus fel Richard Workman." Yn Mawrth 1875 aeth drwy Lys y Methdaliadau fel "Murray Richard Workman," a thyngodd anudon trwy dyngu na fuasai erioed yn fethdalwr o'r blaen.

Nis gellir yn ol y gyfraith werthu bywoliaeth wag, ac weithiau y mae person yn marw yn sydyn a'r meddiannydd eisieu ei gwerthu. I'r dyben hwn cedwir nifer o glerigwyr hen, neu dewisir un felly i'w roddi ynddi, goreu po henaf, ac yna gwerthir hi. Gelwir y rhai hyn yn badelli twymno *(warming pans)*, ac weithiau ymrwymant i roddi y lle i fyny pan y bydd eisieu; a'r syndod yw, y mae digon i'w cael i wneyd gwasanaeth fel hyn. Nis gall Pabydd gyflwyno, a phan y byddo Pabydd yn feddiannydd, gwerthir yr hawl i'r cyflwyniad nesaf. Y mae gan un o'r enw Syr Humphrey de Trafford, yr hwn sydd Babydd, fywoliaeth yn Wilmslow, Sir Gaer. Ni ddaeth neb yno ond trwy brynu er ys 216 o flynyddoedd. Yn sydyn, unwaith, cymerwyd y clerigwr yn beryglus o glaf, a theimlai y meddiannydd bryder mawr i werthu, a chafodd brynwr. Gwrthododd yr Esgob dderbyn y cyfryw, ond cariwyd y mater i Dŷ yr Arglwyddi a phenderfynwyd yn erbyn yr Esgob, yn ffafr "buddiannau eiddo." Dywedodd Esgob Peterborough dipyn o'i brofiad,—fod cant o fywoliaethau yn Lloegr yn llaw personau y rhai a feddant hawl i'w cadw yn wag cyhyd ag y dymunont, a phan benodant, na fydd raid cael tystiolaeth fod y cyfryw mewn urddau, nac o gymeriad, ac heb gael eu rhwystro gan gwestiwn o fåth yn y byd; ei fod yn ffaith, pe byddai i unrhyw blwyfol wybod am anfoesoldeb yn y person a benodir i'w blwyf, na faidd amlygu hyny i'r Esgob dan berygl cyfraith *libel;* fod noddwyr yn fynych yn cyflwyno personau o gymeriadau anfoesol, a hyny drwy wybod; y gall baban yn ei gryd gael ei benodi i'r fywoliaeth frasaf yn Lloegr, yr hon a gedwir yn barod iddo trwy ymrwymiad i'w gwaghâu; iddo ef gael ei alw i sefydlu pedwar o glerigwyr, y cyntaf yn barlysedig, yr ail mor hen a methedig fel wedi cael ei awdurdodi y gofynodd yn uniongyrchol am ganiatâd i fod yn absennol yn barhâus o'r fywoliaeth bwysig y penodasid ef iddi, y trydydd yn feddwyn adferedig yn cael ei benodi i blwyf cyfagos i'r lle y bu yn meddwi, y pedwerydd wedi ymddiswyddo

yn hytrach na wynebu ymchwiliad i gyhuddiadau o anfoesoldeb gwarthus nas gallai eu gwadu; a dywed yr Esgob parchedig y gwyddai y noddwyr yn y pedwar achos hyn beth oeddynt yn ei wneyd, ac nas gallai efe wrthod; a phe gwnelsai, y gallasai y neb a wrthodai brynu lle iddo ei hun drannoeth yn y farchnad, a herio yr Esgob. Tybir weithiau pe byddai y bywoliaethau oll yn llaw yr Esgobion, eu bod hwy mor dduwiol fel y cai yr Eglwys chwareu teg. Gŵyr Cymru rywbeth am hyn yn yr amser a basiodd. Y mae gan Esgob Llundain dri mab yn nghyfraith, un wedi cael bywoliaeth ganddo gwerth £650, yr ail, gwerth £639, y trydydd, gwerth £1800, gan eu tad yn nghyfraith. Rhoddodd Esgob Worcester fywoliaeth, gwerth £2500, i'w frawd yn nghyfraith. Esgob Carlisle i'w fab, dwy flwydd oed fel offeiriad, £500 yn y flwyddyn. Yr oedd y diweddar Archesgob yn adnabyddus fel un oedd wedi dwyn ei berthynasau i'r brasder. Ond pa raid ychwanegu?—"Megys yr oedd yn y dechreu, &c." I'r rhai sydd yn meddu gwaed neu ddylanwad y mae y bywoliaethau brasaf, a rhaid i'r plwyfolion druain dderbyn y neb a anfonir iddynt, boed ef y peth y bo.

Yr ydym wedi crybwyll yr Esgobion, ac y maent hwythau wedi bod yn destun sylw mawr iawn; yn wir, y mae cymaint o achwyn arnynt o bob cyfeiriad, fel oni b'ai am anrhydedd a gwobr y swydd, y buasem yn tybied na buasai neb yn foddlawn i'w derbyn. Nid bychan ydyw helynt y Llywodraeth pan y daw esgobaeth yn wag, a'r rhan fynychaf yr annysgwyliadwy a ddygwydd yn y penodiad. Ar y cyfan y mae y penodiadau diweddar yn dda; hwyrach mai un o'r rhai salaf ydoedd yr un Cymreig i Esgobaeth Llandaff; ond nis gellir dyweyd mai ar y rhai goreu a mwyaf llafurus y disgyn y coelbren. Crewyd chwech o esgobaethau newyddion o fewn y deng mlynedd diweddaf, sef St. Albans, Truro, Liverpool, Newcastle-on-Tyne, Wakefield, a Southwell, *drwy ddeddfau Seneddol.* Yr oedd y penodiadau cyntaf i'r rhai hyn yn gyfangwbl gan y Llywodraeth, heb ragrith y *conge d'elire.* Mewn amgylchiadau cyffredin, awdurdodir y Deon a'r *Chapter* drwy y *conge d'elire*, i *ethol* yr Esgob, ond bydd llythyr cydfynedol oddiwrth y Frenhines yn dyweyd *pwy i'w ethol.* Flynyddoedd yn ol gwnaed ymdrech i dori drwy y ffurf ragrithiol hon, ac i wrthwynebu penodiad, ond gwelwyd yn fuan y perygl o hyny. Pan benodwyd Dr. Hampden i Hereford yn 1847, anfonodd y Deon a'r *Chapter* gofeb at y Frenhines yn dymuno cael rhywun arall, ond yn aneffeithiol. Yna anfonodd y Deon at y Prif Weinidog, Arglwydd John Russell, nas gallai unrhyw ystyriaeth ar y ddaear ei ddwyn i roddi ei bleidlais yn ffafr Dr. Hampden; a dyma ateb y Prif Weinidog:—"Syr,—Y mae genyf yr anrhydedd o gydnabod derbyniad eich llythyr am yr 22ain cyfisol, ymha un yr awgrymwch i mi eich bwriad i droi y gyfraith. Meddaf yr anrhydedd o fod, eich ufudd was, J. RUSSELL." Ceisiwyd hefyd wrthwynebu penodiad Dr. Temple yn Esgob Exeter yn 1869; ond y mae pob ymgais felly bellach wedi ei roddi heibio, gan ei fod yn beryglus o arwain y rhai a'i gwnant i afael cosbedigaeth. Yn yr esgobaethau newyddion, nid oedd Deon a *Chapter* i ragrithio ethol, ac felly ni chawsant ond gorchymyn y Frenhines yn noeth i'w hawdurdodi. Dywedid nad oedd yr esgobaethau hyn i gostio dim i'r wlad. Dyma

fel y mae cyflog Esgob St. Albans wedi ei gael,—oddiwrth roddion (llogau), £465 yn flynyddol; llog £42,000, sef pris gwerthiad Winchester House, £1696; trosglwyddwyd o esgobaethau Winchester a Rochester, £1000; cyfan, £3161. Cyflog Esgob Truro,—oddiwrth logau cyfroddion, £2200; trosglwyddwyd o esgobaeth Exeter, £800; cyfan, £3000. Oddieithr y cyfroddion uchod, y mae y cyflogau yn dyfod o arian y wlad, sef yr eiddo Eglwysig, ac y mae y rhai hyn yn creu *vested interests* newyddion, y rhai y bydd yn rhaid eu cymeryd i'r cyfrif pan ddadwaddolir yr Eglwys. Chwanegwyd cyflog Esgob Liverpool £1200 yn 1882, trwy gael deddf Seneddol i werthu cyflwyniad plwyf Walton-on-the-Hill.

Ond yr hyn sydd wedi tynu sylw mwyaf ydyw pleidleisiau ac areithiau yr Esgobion yn Nhŷ yr Arglwyddi, pa rai sydd, y rhan fynychaf o lawer, yn erbyn pob diwygiad, ac ni chlywir eu llais byth yn erbyn gorthrwm a gormes. Dygodd eu pleidlais ar y mesur priodas â chwaer gwraig drengedig, drwy yr hyn y collwyd y mesur hwnw yn 1883, pan yr oedd bron a chyrhaedd y làn, y mater hwn i sylw neillduol. Dyma restr fer o'u pleidleisiau ar y mesurau canlynol:—1821, mesur er diddymu cosb marwolaeth am ladrata eiddo o siop, gwerth pum' swllt, o'r esgobion o blaid y mesur, 0; yn erbyn, 7. Rhyddhâd y Pabyddion, 1821: o blaid, 2; yn erbyn, 25; eto 1822, o blaid, 1; yn erbyn, 23; eto 1829, o blaid, 10; yn erbyn, 19. Mesur Diwygiad Seneddol 1831: o blaid, 2; yn erbyn, 21; eto 1832, o blaid, 12; yn erbyn, 15. Rhyddhâd yr Iuddewon 1833: o blaid, 3; yn erbyn, 20; eto 1858, o blaid, 7; yn erbyn, 11. Agoriad y Prifysgolion i Ymneillduwyr 1834: o blaid, 2; yn erbyn, 22; mesur arall i'r un pwrpas 1867, o blaid, 2; yn erbyn, 4; eto yn 1869, o blaid, 0; yn erbyn, 3. Diddymu y Dreth Eglwys 1858: o blaid, 0; yn erbyn, 24; eto yn 1860, o blaid, 0; yn erbyn, 16; eto yn 1867, o blaid, 0; yn erbyn, 7. Diddymu prawfddadganiad fel cymhwysder i swyddau cyhoeddus 1860: o blaid, 0; yn erbyn, 2; eto yn 1861, o blaid, 0; yn erbyn, 4; eto yn 1862, o blaid, 1; yn erbyn, 12; eto 1863, o blaid, 0; yn erbyn, 8; eto yn 1865, o blaid, 1; yn erbyn, 10. Agor y mynwentydd 1876: o blaid, 1; yn erbyn, 16; eto yn 1877, Ebrill 26, o blaid, 1; yn erbyn, 15; eto Mai 17, o blaid, 3; yn erbyn, 11; eto Mehefin 18, o blaid, 4; yn erbyn, 8; yn 1880, pan y cariwyd y mesur, o blaid, 10; yn erbyn, 6. Priodas â chwaer gwraig drengedig 1883: Mehefin 11, o blaid, 0; yn erbyn, 22; Mehefin 28, o blaid, 0; yn erbyn, 17. Mesur creulondeb at anifeiliaid (er diddymu saethu colomenod), ni chymerodd yr Esgobion unrhyw ran yn y siarad na'r rhaniad hwn; gwrthodwyd ef trwy 30 yn erbyn 17. Ddechreu 1883 daeth i ran Mr. Gladstone i benodi Archesgob i Canterbury, y swydd uchaf yn yr Eglwys. Daeth y cyffelyb i ran Mr. Disraeli yn 1868, pan benodwyd y diweddar Archesgob. Yn amserol iawn, tua'r adeg y bu efe farw cyhoeddwyd rhanau helaeth o ddyddlyfr y diweddar Esgob Wilberforce, ac yn hwnw cawn olwg ar yr ymgiprys mawr fydd ar achlysuron felly. Rhoddwn ychydig ddyfyniadau:—"Dywedodd y Duc wrthyf am gyffro Disraeli pan ddaeth allan o'r ystafell frenhinol. Rhyw ymdrech ynghylch yr archesgobaeth. Dywedai Arglwydd Malmesbury hefyd iddo siarad â Disraeli ac iddo ddyweyd, 'Peidiwch a dwyn ychwaneg o *bothers* i mi; y mae genyf

eisoes ddigon i yru dyn yn wallgof.' Credaf fod y Frenhines yn pwyso am Tait yn erbyn Esgob Ely fe allai, neu rywun arall." "Llawer o ymddyddan â Deon Windsor. Siaradai *ef* gyda llawer o ochelgarwch ynghylch y penodiadau diweddar, ond dywedai, 'Ni ŵyr yr Eglwys faint ei dyled i'r Frenhines. Y mae Disraeli wedi bod yn hollol anwybodus, perffaith ddiegwyddor; marchogai y ceffyl Protestanaidd un diwrnod, yna dychrynai rhag ei fod wedi myned yn rhy bell, a niweidio yr etholiad yn y Siroedd, felly trôdd oddiamgylch yn gwbl a chynnygiodd enwau na chlywyd am danynt erioed. Nid oedd dim na wnelai; ond drwy y cwbl yr oedd yn elynol i chwi; efe yn unig a rwystrodd i Lundain gael ei chynnyg i chwi. Edrychai y Frenhines am Tait, ond cydsyniasai i chwi.' Cynnygiodd Disraeli —— i Canterbury!!! Ni fynai y Frenhines ef; yna cydsyniodd Disraeli, gyda'r anewyllysgarwch mwyaf, a chyda thymher, i Tait. Yna cynnygiodd Disraeli Wordsworth i Lundain. Gwrthwynebai y Frenhines yn gryf; dim profiad, pasio heibio esgobion, &c.; yna awgrymodd Jackson, a dau eraill, nid y chwi." "Amgylchir chwi gan ddynion twyllodrus, dau-wynebog. Gwrthwynebai Disraeli Leighton â'i holl nerth ar bob amgylchiad. Buasai y Frenhines yn ei hoffi yn fawr, ond ni fynai Disraeli glywed am dano. Nis gellwch ddychymygu y penodiadau a gynnygiodd ac a dynodd yn ol, neu ynte y llyswyd ef. Pwysai am gael Champneys i Peterborough; nid oedd ganddo un meddwl am ddim ond pleidleisiau y foment; dangosodd anwybodaeth ynghylch pob mater Eglwysig, dynion ac opiniynau, oedd yn rhyfeddol, gan wneyd cynnygion un ffordd a'r ffordd arall; marchogaeth y ceffyl Protestanaidd i ennill y bwrdeisdrefi, ac yna pan y tybiai ei fod wedi myned mor bell fel ag i beryglu y siroedd yn troi ac yn penodi Bright a Gregory, adyn perffaith ddiegwyddor. Hyderaf na chawn byth y cyffelyb ddyn eto." Felly yr Esgob Wilberforce. A ellir dychymygu am ddarlun mwy truenus? Y penodiadau mwyaf pwysig yn yr Eglwys yn hollol ddarostyngedig i amcanion gwleidyddol! Yr oedd penodiad Dr. Benson, bron yr ieuengaf fel esgob, yn bur annysgwyliadwy. Nis gallwn yma fyned drwy hanes y seremonïau cysylltiedig â'i osodiad yn y swydd; erioed nis gwnaed hwy yn fwy cyhoeddus drwy y wasg, ac erioed ni welwyd mwy o'r ffolineb sydd yn perthyn iddynt. Costiodd yr holl seremonïau i'r archesgob newydd, yn ol adroddiad Seneddol o honynt, £856 5s. 6c.; ac nid oedd hyn yn ddiammeu ond rhan fechan o'r hyn a gostiodd ei ddyrchafiad iddo. Beth amser yn ol arferai gostio £30,000; a'i gyflog ydyw £15,000. Yn wir, y mae y *fees* a delir gan bob clerigwr ar ei dderbyniad i fywoliaeth yn orthrymus. Y mae genym hanes am un yn derbyn bywoliaeth yn werth £240 *net* yn flynyddol, nad oedd ganddo, am yr hanner blwyddyn cyntaf, ond £8 6s. at gadw ei hun a'i deulu, ar ol talu y costau.

Y mae pymtheng mil cyflog yr Archesgob yn awgrymu i ni gyflogau y clerigwyr. Y mae tua 14,000 o fywoliaethau, a 24,000 o rai mewn urddau. Y mae 11,186 o glerigwyr yn byw yn eu bywoliaethau, a 1509 heb fod felly; 387 o guradiaid; a 4888 o guradiaid cynnorthwyol; y cyfan, 17,970. Mae rhai o'r bywoliaethau hyn yn freision iawn, megys Halsall, £3500, a Winwich, £3200, ill dwy yn swydd Lancaster, a'r cyflog yn fwy nag eiddo esgob o'r ffasiwn newydd.

Dywedir fod deg o fywoliaethau cydrhwng £2000 a £3000. Y mae hefyd lawer o segurswyddau, ac nid yw y tâl am y rhai hyny byth yn fychan. Ond y mae ochr arall i'r ddalen. Y mae hefyd fywoliaethau bychain, lle y mae clerigwyr ynddynt yn hanner newynu; ac y mae gan yr Eglwys gyfoethog hon 247 o gymdeithas *elusenol* i gynnorthwyo clerigwyr mewn cyfyngder; ac y mae yr *Ecclesiastical Commissioners*, gyda'r eiddo anferth sydd yn eu dwylaw byth er 1886, yn ceisio gwastadhâu a chynnorthwyo bywoliaethau gweiniaid, neu o leiaf y maent i wneyd hyny, ac eto y mae yr holl ymdrechion hyn yn methu lleddfu y caledi. Yn y flwyddyn 1878 dywedai adroddiad y "Cynghor er Cynnorthwyo Clerigwyr Tylodion," eu bod wedi cynnorthwyo er ei ddechreuad 4000 o achosion, gyda rhoddion o £5 i £25, heblaw parseli lliosog o ddillad, blancedi, cynfasau, esgidiau, &c. Yn ystod y flwyddyn derbyniasid 389 o geisiadau, cynnorthwywyd 279 âg arian, 5 â dillad heb arian, a gwrthodwyd neu oedwyd 105. Dyma esiampl: "Ficer, 41 oed, 13 mlynedd mewn urddau, 6 o blant yn dibynu arno; ei holl gyflog £135 y flwyddyn." Ysgrifena ei Archddiacon, "Nis gwn, ac ni chlywais *erioed*, am un achos mwy truenus nag eiddo'r Parch. ——, gŵr ieuanc, gyda gwraig a theulu mawr ac ieuanc, ei fywoliaeth yn bur fechan; prin yn alluog *pan yn iach* i gael y ddau ben ynghyd, wedi ei daro i lawr yn sydyn gydag afiechyd poenus ar yr ymenydd; gwaherddir ef yn fanwl rhag gwneyd dim; anhawdd ei lywodraethu; rhaid iddo wrth gwrs ofalu am un yn ei le; y mae yn bresennol yn haeddu cynnorthwy. Yr oedd yn ŵr o gryn rym a gallu at waith. Rhowch iddo *gymaint âg a alloch!*" Rhoddodd y Pwyllgor £20. Drachefn: "Clerigwr, 48 oed, 18 mlwydd mewn urddau, ei holl gyflog £58 y flwyddyn, yn hollol ac anobeithiol ddall; nid ei fai ei hun, gan fod ei gymeriad yn ddilychwin. Rhoddodd y Pwyllgor £10." Gyda'r curadiaid y mae yn fwy truenus fyth. Y mae cymdeithas er eu cynnorthwyo hwythau, gyda'r ddau Archesgob yn llywyddion iddi. Rhoddwn ddyfyniad neu ddau o'r adroddiad:—"Nis gallwn ddyweyd wrthych mor ddiolchgar ydym am eich rhodd. Pan ddywedaf wrthych i ni eistedd yr holl auaf hwn yn ein hystafelloedd heb ddim tân, gallwch ddychymygu y gweddill." "——, 58 mlynedd o wasanaeth. Ordeiniwyd yn 1815. Yn ei guradiaeth bresennol er 1821. Gwn iddo wneyd llawer mwy ac yn well na llawer ieuangach yn yr Esgobaeth, y rhai a ddyrchafwyd ar ol ychydig flynyddoedd o wasanaeth, ond yr oeddynt hwy o *deulu.* Pe buasai gan y plwyfolion lais, penodasid ef yn *rector yn unfrydol.*" "——, 48 mlynedd o wasanaeth. Y mae wedi bod yn gurad yn nês i 35 na 30 mlynedd. Duwinydd rhagorol, ac o fywyd sydd yn esiampl. Dyn dystaw, gostyngedig; cafodd dros 30 mlynedd yn ol yr hyn sydd wedi bod iddo ef yn guradiaeth barhâus, ac un bur wael. Bob amser o gymeriad rhagorol ac yn bur barchus. Nid oes ganddo ond ychydig iawn at fyw." "——, 29 mlynedd o wasanaeth. Gŵr pur dalentog, ond fod ei egnïon, i ryw raddau, wedi eu parlysu trwy siomedigaethau. Yn bur barchus yn nhref ——, a chanddo dysteb brydferth wedi ei rhoddi iddo rai blynyddoedd yn ol gan y plwyfolion." "——, 29 mlynedd o wasanaeth. Gwir foneddwr o enedigaeth a moesau, a chryn lawer o zel a gallu pregethwrol; braidd o'r neilldu, heb gymdeithasu llawer â'i gymydogion clerigol, o herwydd

cyfyngder ei amgylchiadau, a bydd yn rhaid iddo yn fynych ddibynu ar olchwraig a pheidio cadw morwyn. Naw o blant gartref, oll yn dibynu arno." Y mae adroddiad Seneddol wedi ei gael ar gyflogau y curadiaid, a dengys hwnw (1881), y pethau canlynol:—"O'r curadiaid yn meddu yr holl ofal derbynia 1, £20; 1, £30; 3, £40; 32, £80; 78, £100; 22, £200; un bob un, £250; £270; £290; £300. Curadiaid cynnorthwyol, 2, bwyd a lletty; 2, ardreth yr eisteddleoedd; 6, £1 yr wythnos; 4, £10 y flwyddyn; 23, £20; 15, £30; 29, £40; 90, £50; 439, £100; 1014, £120; 1109, £150; 162, £200; 13, £250; a 2, £300. Gofidiau y curadiaid a darddant oddiar ansicrwydd eu lle, ychydig obaith am ddyrchafiad, a thuedd i gael llai o gyflog wrth fyned yn hen. Y mae y canlynol yn dalfyriad o lythyr a anfonwyd i'r *Standard* gan gurad triugeinmlwydd oed:—"Derbyniais urddau 35 mlynedd yn ol, a dechreuais y weinidogaeth yn Esgobaeth Ely. Am amser yr oedd pob peth yn llyfn; gweithiwn, gan ddysgwyl gwobr o fywoliaeth fechan. Symudais o'r naill le i'r llall; arosais mewn un lle yn agos i 20 mlynedd. Bum fyw ar ol pedwar o'm hesgobion,—dau yn esgobaeth Ely a dau yn Norwich. Cadwai gobaith fi i fyned ymlaen; ond o'r diwedd gadawodd fi yn afiach, hen, ac heb fywoliaeth. Nid ymwthiwn. Trwy farwolaeth fy *rector* diweddaf, a cholli ychydig eiddo, gyrwyd fi i Lundain i geisio gorphwysdra a chynghor meddygol. Gwariwyd fy arian yn fuan; yn afiach nis gallwn bregethu, a chwiliwn am rywbeth, gyda'm gwybodaeth o lyfrau ac ieithoedd, i gael bara beunyddiol. Ysgrifenu i'r cyfnodolion, rhoi gwersi mewn *French*, copio, ac hyd yn nod cyfeirio *envelopes* llythyrau am bum' swllt y fil; ceisiwyd yr oll, ond bob nos Sadwrn dygai rhent yr unig ystafell a breswyliwn fy nghyflog, heb adael i mi ond hanner coron i fyw arno yr wythnos ganlynol. Gwerthais fy llyfrau a'm pregethau, aeth fy nillad oedd o unrhyw werth i'r wystlfa, a bum fyw fel hyn am ddwy flynedd. Ysgrifenais at rai o'm cydefrydwyr yn y Brifathrofa: anfonodd un fy llythyr i'r swyddfa elusenol, ac arall i'r *Charity Organisation Society.* Daeth swyddogion y ddwy gymdeithas ataf, a gwnaethant ymchwiliad fel arferol,—cynghorent fi i appelio at gymdeithasau Eglwysig. Appeliais at dair, ac yr oedd pob tystiolaethau yn fy nghylch yn foddhaol; ond yr ateb oedd, 'Na,' heb unrhyw reswm. Erbyn hyn yr oeddwn yn hanner newynu. Wrth fyned ar hyd heolydd y ddinas i chwilio am orchwyl, gydag esgidiau wedi gwisgo allan a dillad llwm, bum rai troion am ddeuddydd olynol heb fwyd. Ar ol y deuddeng awr cyntaf y mae poenau blaenllym newyn yn darfod. Gwnaethum fy meddwl i fyny y buasai raid i mi farw—o ddim ond eisieu, yn ninas gyfoethocaf y byd. Un diwrnod, yn yr Hydref diweddaf, aethum rywfodd, nis gwn yn iawn pa fodd, hyd sedd yn ymyl y llyn crwn yn Ngerddi Kensington. Eisteddais am oriau heb wybod prin pa le yr oeddwn. Dydd Sadwrn ydoedd, a phrin yr archwaethaswn fwyd er y dydd Iau blaenorol. Ond daeth hen gydfyfyriwr colegawl heibio, ac adnabu fi. Dywedwyd fy hanes yn fuan a daeth cynnorthwy yn ebrwydd. Oni b'ai am y Samariad trugarog hwn buaswn farw, a chofnodasid hyny yn y newyddiaduron fel marwolaeth druenus clerigwr ac ysgolhaig. Yr wyf yn ysgrifenu er mwyn y rhai sydd yn cychwyn. Os bydd i gurad, ar ol blynyddoedd

o lafur a dysgwyl amyneddgar, golli ei iechyd, nid oes sefydliad i roddi cymhorth iddo. Y mae gwell darpariaeth ar gyfer llaw-weithwyr a llafurwyr, gyda'u clybiau cleifion, nag ar gyfer ysgolheigion neu glerigwyr tlodion." Ar y 5ed o Chwefror, 1880, appeliodd y Parch. B. Matson, diweddar gurad Membury, Devon, at warcheidwaid Axminster am dderbyniad i'r tlotty. Buasai yn gurad am 30 mlynedd, ond nid oedd ganddo y pryd hyny ddim i ddibynu arno. Gyda gofid dwys caniataodd y gwarcheidwaid ei ddymuniad. Dyma'r Eglwys sydd yn gwario miloedd ar eglwysi newyddion; ac y mae pob plwyf newydd a ffurfir yn costio oddeutu £20,000,—eglwys y cyfoethogion!

Mater sydd wedi tynu llawer iawn o sylw ydyw y cyfrifiad a wnaed yn ddiweddar o bresennoldeb mewn addoliad. Dechreuodd adeg cynnaliad y Gynnadledd Eglwysig yn Newcastle, yn yr Hydref, 1881; y Sabboth blaenorol darfu i'r *Newcastle Daily Chronicle* anfon cyfrifwyr i bob lle o addoliad yn Newcastle a Gateshead i gymeryd nifer y rhai oedd yn bresennol, a chyhoeddwyd y cyfrif yn y newyddiadur hwnw ar y 5ed o'r mis. Ar y Sabboth hwnw yr oedd llawer o glerigwyr dyeithr yn yr eglwysi, wedi dyfod yn barod erbyn y Gynnadledd. Cyferbynid y cyfrifiad â'r cyfrifiad a wnaed yn 1851, ac fel hyn y safai:—

| | 1851. Poblogaeth | Eglwysi Sefydledig. | Eglwysi Rhydd. | 1881. Poblogaeth. | Eglwysi Sefydledig. | Eglwysi Rhydd. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Newcastle | 87,784 | 7202 | 11,508 | 149,549 | 6441 | 16,093 |
| Gateshead | 25,568 | 1583 | 1936 | 65,100 | 2045 | 4,216 |

Yr oedd y ffigyrau yn taro pawb â syndod. Ar y 16eg o'r un mis gwnaeth y *Liverpool Daily Post* gyfrifiad cyffelyb yn Liverpool, a safai fel hyn:—

Poblogaeth, 552,425

| | Eisteddleoedd. | Boreu. | Hwyr. |
|---|---|---|---|
| Eglwysi Sefydledig ... | ... 75,213 | 23,193 | 31,358 |
| Eglwysi Rhyddion ... | ... 103,983 | 42,691 | 49,014 |
| Cyfan .. | ... 179,196 | 65,884 | 80,372 |

Ar ol hyn gwnaeth llawer o newyddiaduron ymhob parth o'r wlad gyfrifiad, a rhoddwn y daflen ganlynol fel crynodeb o'u cyfrifiadau:—

| | Poblogaeth. | Eisteddleoedd. Eglwysi Sefydledig. | Eisteddleoedd. Eglwysi Rhydd. | Presennoldeb. Eglwysi Sefydledig | Presennoldeb. Eglwysi Rhydd. |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 o drefi dros 100,000.. | 2,084,686 | 223,376 | 412,654 | 137,616 | 264,469 |
| 10 o drefi dros 50,000.. | 619.576 | 80,438 | 119,556 | 51,815 | 7 ,954 |
| 17 o drefi dros 20 000.. | 591.032 | 85,502 | 140,709 | 51,916 | 91.728 |
| 16 o drefi dros 10,000.. | 236,668 | 33,672 | 56,726 | 24,098 | 39,955 |
| Trefi bychain a phentrefi | 251,522 | | | 34,975 | 45,510 |
| Cymru:—Caernarfon, Conwy, Llanelli, a Wrexham .. .. | 50,303 | ...... | ...... | 3902 | 14,981 |
| Ysgotland:—gwahanol fanau .. .. .. | 939,919 | ...... | ...... | 73,448 | 169,718 |

Gan y cyhoeddwyd y cwbl yn y gwahanol leoedd, nis gellir ammeu cywirdeb cyffredinol y cyfrifiad. Gwelir na wnaed hyn ond mewn pedair tref yn Nghymru, ac nis gall fod yn ddangoseg o'r wlad yn gyffredinol. Y mae y rhanau o Ysgotland yn cynnwys ychydig dros y bedwaredd ran o boblogaeth y wlad, a chynnrychiolir pob rhan o'r wlad. Yn y flwyddyn 1851 yr oedd poblogaeth Lloegr a Chymru yn cael ei rhanu yn dair rhan lled gyfartal,—un ran gan yr Eglwys Sefydledig, un ran gan yr Ymneillduwyr, a'r drydedd ran heb fyned i un lle o addoliad. Gwelir yn awr fod y rhan oedd tu allan i foddion gras wedi cynnyddu yn ddirfawr — ffaith bwysig, deilwng o sylw mwyaf difrifol pob plaid. Am yr Eglwys Sefydledig, tra mewn rhai lleoedd y mae wedi cynnyddu, eto eithriadau ydyw y rhai hyny y gellir cyfrif am danynt; yn y mwyafrif o'r trefydd, y mae wedi myned yn ol yn fawr, ac y mae hefyd yn colli ei gafael o'r rhanau gwledig, lle y tybid ei bod yn fawr yn y mwyafrif. Y mae yr Ymneillduwyr o'r ochr arall wedi cynnyddu yn ddirfawr, mewn rhai manau yn fwy o lawer na chynnydd y boblogaeth. Dengys y ffigyrau yn amlwg fod yr Eglwys yn myned lai-lai cenedlaethol, ac yn methu dal ei gafael yn y boblogaeth.

Y mae helyntion yr Eglwys yn rhoddi llawer iawn o drafferth bob blwyddyn i'r Senedd. Y senedd-dymmor diweddaf dygwyd i mewn ddim llai na 23 o fesurau ar faterion Eglwysig, o ba rai ni phasiodd ond tri,—sef, mesur er diddymu treth y Ficer yn Coventry, mesur er diddymu y dreth eglwys yn St. Saviour, Southwark, a mesur yr elusenau plwyfol (Llundain). Ac y mae yn gyffelyb bob senedd-dymmor. Y mae Mr. Albert Grey yn ceisio dwyn ymlaen fesur er sefydlu byrddau plwyfol i lywodraethu yr Eglwys, flwyddyn ar ol blwyddyn; mae gan Mr. Leatham a Mr. Stanhope bob un ei fesur i feddyginiaethu drygau y nawddogaeth; mae Mr. Inderwick yn ceisio diddymu y degwm neillduol; mae Esgob Llundain yn ceisio cael gwerthu eglwysi gweigion yn y brifddinas; mae Mr. Richard hefyd yn ceisio diwygio deddfau y *cemeteries*; a Syr A. Gordon yn ceisio dwyn y taliadau am gladdu i ryw drefn. Ond y mae yn anhawdd iawn cael amser at y pethau hyn; a rhaid dyweyd gwir arall, y mae y Senedd yn dechreu blino ar y mân fesurau Eglwysig, ac yn cyflym addfedu i ymgymeryd âg un mesur a fydd yn derfyn ar y rhan fwyaf o'r helbulon. Nis gallwn fyned i mewn i gwestiynau eraill,—megys y Degwm, y Dreth Eglwys, Trethi y Ficer neu y Rector, achos yr *Ecclesiastical Commissioners*, helyntion blinion y Confocasiwn, a'r Gynnadledd Eglwysig, y lliaws cymdeithasau Eglwysig a'u gwahanol amcanion,—a materion eraill; mae y cwbl yn chwyddo llifeiriant y cynhwrf y mae yr Eglwys yn ei wneyd yn y wlad, ac y mae y bywyd sydd yn ymweithio i fyny drwy y pethau hyn yn ymbalfalu am ffordd i weithredu yn rhydd, ac yn anymwybodol yn parotoi erbyn yr adeg y caiff ei ryddid.

Rhaid i ni wneyd sylw ar yr Eglwys yn yr Iwerddon. Cwestiwn mawr y blynyddoedd diweddaf oedd, Pa fodd y deuai yr Eglwys hono ymlaen ar ol ei dadgysylltu. Y mae ambell Eglwyswr dallbleidiol ac anwybodus yn haeru ei bod wedi ei niweidio yn fawr, ond y mae swyddogion yr Eglwys ei hun, a gwŷr sydd wedi bod yn llygaid-dystion, yn un-

frydol fel arall, a buasai yn hawdd llanw rhifyn o'r TRAETHODYDD â thystiolaethau. Dywedai yr *Irish Ecclesiastical Gazette* yn niwedd 1879: "Y mae yn rhyfedd beth y mae Eglwyswyr Gwyddelig wedi ei wneyd y deng mlynedd diweddaf dros eu Heglwys—*yn sicr, mwy nag mewn cannoedd o flynyddoedd cyn hyny.* Eglwysi cadeiriol wedi eu hadeiladu neu eu hadgyweirio, eglwysi wedi eu hadeiladu, eu hail-adeiladu a'u haddurno; tai gweinidogion wedi eu codi dros yr holl wlad; Eglwys yn cynnwys holl Brotestaniaid tlotaf yr Iwerddon, meddai Dr. Chadwick, Prebendary Armagh, wedi *casglu dwy filiwn o bunnau* mewn deng mlynedd, wedi eu rhoddi gan 680,000 o wŷr, gwragedd a phlant, heb ofn purdan nac ysgymundod, ond yn rhoddion gwirfoddol na ddylent gywilyddio am danynt." Y mae Eglwys yr Iwerddon yn sicr yn ymfalchïo yn ei rhyddid.

Bu y Cyfundeb Wesleyaidd yn hir yn lled ffafriol i'r Eglwys, ond parodd achos Owston Ferry, yn yr hwn y gwrthwynebai clerigwr i weinidog Wesleyaidd gael rhoi "Parch." ar gareg fedd ei blentyn, hyd nes y gorfodwyd ef o'r Llys Uchaf, ac achos arall yn Perse, lle y cadd athraw mewn ysgol waddoledig ei droi ymaith gan y prifathraw am ei fod yn Ymneillduwr, a sefydliad Esgobaeth Truro gyda'r amcan addefedig o geisio denu y Cernywiaid oddiwrth y Wesleyaid i gorlan yr Eglwys,—parodd lliaws o bethau fel hyn, meddwn, gyfnewidiad trwyadl, ac y mae y Cyfundeb hwnw erbyn hyn yn debyg o droi yn fwy o nerth er dadgysylltu yr Eglwys nag unrhyw gorff crefyddol arall yn Lloegr. Gŵyr y Wesleyaid pa beth yw dyoddef oddiwrth yr Eglwys, a dywedai y Parch. Gervase Smith pan yn llywydd y Gynnadledd Wesleyaidd, fod 2000 o bentrefi yn Lloegr lle nad oedd rhyddid crefyddol cyflawn.

Y mae yr holl elfenau hyn wedi gweithio, yn araf ond sicr, trwy ddylanwad argyhoeddiad dystaw ond dwfn ac anwrthwynebol, sydd yn prysur addfedu Lloegr i alw am ddadgysylltiad a dadwaddoliad. Y mae John Bull yn bur amyneddgar, yn enwedig tuag at hen sefydliadau; ond pan y deffroir ef, deffry o ddifrif, ac ni chaiff dim sefyll o'i flaen. Gall y Defodwyr ymhyfhâu mewn chwareu eu pranciau, a herio ei gyfreithiau, a gwawdio ei lysoedd; gall ei blant ruddfan am amser dan orthrwm y nawddogaeth, y degwm, a phob camwri; ond y mae terfyn i'w amynedd, ac nid yw y seibiant ond megys adeg o fyfyrdod ganddo i wneyd ei feddwl i fyny pa gwrs i'w gymeryd; ond bellach nid yw yn debyg y bydd i'r oediad fod yn hir, a phan y gweithreda gwna hyny heb lawer o betrusder, ac yn derfynol. Yn ol pob tebyg nid yw cynnygiad Mr. Henry Richard wedi dyfod fynyd yn rhy fuan, ac y mae yn awgrymu pa atebiad i'w roddi i waedd y Defodwyr ac argymhellion y Ddirprwyaeth ar Lysoedd Eglwysig.

Rhaid addef fod Ysgotland ymlaen mewn addfedrwydd ar y pwnc hwn. Y mae ein darllenwyr yn cofio, mae yn ddiammeu, mai yr hyn a achosodd y rhwygiadau yn Eglwys Ysgotland oedd ymyriad y gallu gwladol trwy y *Court of Session* â dewisiad y gweinidogion i'r eglwysi, yn mhlaid y nawddogaeth. Yn yr ail Lyfr Dysgyblaeth, y mae yn ysgrifenedig, "Nad oes i berson gael ei wthio i unrhyw swydd yn yr Eglwys yn groes i ewyllys y gynnulleidfa ar ba un y penodir ef, ac heb lais yr henaduriaeth." Dyma y frawddeg sydd wedi bod yn arwyddair

yr ymdrechion am ryddid crefyddol yn Ysgotland. Dyma oedd asgwrn y gynhen yn adeg yr ymadawiad yn 1843, pryd y cychwynwyd yr Eglwys Rydd; parodd gwrthodiad y Llywodraeth i estyn ymwared, i yn agos i 500 o weinidogion a rhan helaeth o'r cynnulleidfaoedd, droi allan yr un dydd. Yn 1874 darfu i Weinyddiaeth Arglwydd Beaconsfield basio Deddf y Nawddogaeth, trwy yr hon y diddymwyd nawddogaeth yn Ysgotland, ac y rhoddwyd yr hawl i ddewis eu gweinidog i'r aelodau eglwysig o bob oed a'r gwrandäwyr dros 21 oed. Tybid y buasai hyn yn denu lliaws mawr o'r Eglwysi Rhyddion i'r Eglwys Sefydledig, os nid yn agor y ffordd iddynt oll ddyfod yn ol i'w chôl. Pe buasai hyn yn cael ei wneyd yn 1843, gallasai y canlyniad fod yn wahanol; ond yn awr yr oedd yr Eglwysi Rhyddion wedi dysgu gwersi rhyddid crefyddol yn rhy dda, ac wedi gwneyd gwaith rhy bwysig i gymeryd eu hud-ddenu gan yr abwyd hwn. Yn lle arwain i undeb, cynnyrchodd effaith hollol groes, a dygodd y wlad i deimlo yr angenrheidrwydd am ddadgysylltiad. Trodd y ddeddf hon yr hyn oedd yn llosgi yn araf i fod yn oddaith. Flynyddoedd cyn yr etholiad cyffredinol diweddaf, yr oedd y cwestiwn wedi dyfod yn un o brawf-gwestiynau pob ymgeisydd, ac yr oedd y Marquis o Hartington a Mr. Gladstone wedi dadgan mai cwestiwn ydoedd i'w benderfynu gan bobl Ysgotland. Yn yr etholiad cyffredinol yr oedd egwyddorion pwysig yn galw am sylw uniongyrchol; ond er hyny dangosid pwysigrwydd y pwnc hwn yn nghanlyniadau yr etholiad. Dychwelwyd 7 o Doriaid, oll ond un gyda mwyafrif bychan; ac o'r 53 Rhyddfrydwyr, yr oeddynt oll, naill ai yn barod i bleidio dadgysylltiad, neu ynte i wneyd yn ol llais Ysgotland, ac nid oedd *un* Rhyddfrydwr yn erbyn Dadgysylltiad. Ac y mae profiad rhai Rhyddfrydwyr ar ol hyny yn dangos nad oes fawr obaith i neb lwyddo yn y wlad hono os yn oeraidd ar y mater hwn. Heblaw hyn, y mae y cyrff crefyddol yno wedi ymaflyd yn y pwnc o ddifrif. Yr Eglwys Bresbyteraidd Unedig oedd y gyntaf i ddyfod allan, ac y mae gan ei *Synod* hi bwyllgor ar Ddadgysylltiad er ys blynyddoedd, o ba un y mae y Dr. Hutton yn gynnullydd. Ac y mae y pwyllgor hwn yn gweithio yn ardderchog. Teimlid cryn ddyddordeb pa beth a wnai yr Eglwys Rydd. Ar y cyntaf ymddangosai fel yn oeraidd, ond y symudiad cyntaf oedd gwaith Syr Henry Moncrieff yn Henaduriaeth Edinburgh yn cynnyg anfon y pwnc i sylw y Gymanfa Gyffredinol. Ymledodd yn gyflym. Daeth y pwnc i sylw y Gymanfa Mai 31ain, 1877, pryd y cynnygiodd y diweddar Dr. Begg fod Dadgysylltiad yn groes i egwyddorion yr Eglwys Rydd; ond daeth Dr. Rainy ymlaen gyda gwelliant o blaid Dadgysylltiad a phenodi pwyllgor; a phan ranwyd, cafwyd 460 o blaid cynnygiad Dr. Rainy, a 78 dros Dr. Begg; mwyafrif o 382! Y mae y pwyllgor hwn yn gweithio yn egnïol, ac y mae y pwnc yn dyfod yn flynyddol i sylw y Gymanfa, ac yn 1883 cariwyd ef heb ranu y Tŷ; nis gallai Dr. Begg ond gwneyd gwrthdystiad. Y mae yr ymdrech yno wedi codi i wres mawr, a llawer o'r gwŷr mwyaf enwog yn perthyn i bob plaid yn cymeryd rhan flaenllaw. Y mae y syniad o betrusder o herwydd cysylltiad y mater â pholiticiaeth wedi myned yn hen ffasiwn yno er ys talm. Y mae yno hefyd dreth eglwys (*manse-rate.*) yn peri anfoddogrwydd mawr, a gwaith y gweinidogion yn galw am godiad yn eu

cyflogau,—fel pe buasent yn parotoi ar gyfer dadgysylltiad. Cafwyd adroddiad o nifer yr aelodau yn 1879 yn ol gorchymyn y Senedd, ac yn hwnw ceid fod holl nifer y cymunwyr yn 515,786; ond yr oedd yn bur sicr fod hyn yn fwy na'r gwirionedd, oblegid mewn amrywiol fanau yr oeddynt yn fwy na hanner y boblogaeth, ac mewn eraill yn fwy nag a gynnwysai yr Eglwysi o eisteddleoedd. Mewn 19 o blwyfi yn yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, yn cynnwys 27,612 o drigolion, nid oedd ond 133 o gymunwyr, tuag 1 o bob 200 o'r boblogaeth. Cyfrifai y *Glasgow Mail*, ar ol ystadegaeth ofalus, nad oedd yr Eglwys Sefydledig yn Ysgotland yn meddu ond ychydig lai nag un ran o dair o'r trigolion, agos càn lleied mewn cymhariaeth â'r Eglwys yn yr Iwerddon. Gwnaeth Dr. Kennedy o Dingwall ymgais i godi yr Ucheldiroedd yn erbyn Dadgysylltiad, a chefnogwyd ef gan Dr. Begg, ond ofer fu. Bu Syr Stafford Northcote hefyd yn yr Ucheldiroedd yn 1882, fel y bu yn Ulster, Iwerddon, a Gogledd Cymru, yn 1883, a cheisiai rybuddio y trigolion rhag y perygl o Ddadgysylltiad; ond tebyg fu ei ymgais yntau. Awst 11, 1881, y rhoddodd Mr. Dick Peddie ei rybudd cyntaf o'i gynnygiad, ac y mae hyny wedi codi Ysgotland i deimlo awydd o ddifrif am gyrhaedd yr amcan; ac y mae y teimlad yn cryfhâu o fis i fis. A phrawf mai nid cellwair yw ydyw y ffaith fod yr Eglwys, ddechreu y flwyddyn hon, wedi sefydlu cymdeithas dan yr enw "Cymdeithas yr Eglwys Genedlaethol," gyda'r bwriad o fod iddi ganghenau ymhob plwyf, ac undebau yn cyfateb i'r *Presbyteries* a'r *Synods;* mewn gair, yn cydredeg â holl gyfansoddiad yr Eglwys, i wrthwynebu y Dadgysylltiad. Ond ofer fydd hyn oll. Y mae yr Ysgotiaid o ddifrif calon, ac y mae yn eithaf sicr y bydd y wlad hono yn fuan yn peri clywed ei llais yn effeithiol ar y mater; a phan glywir y llais hwnw, ni bydd gan y Senedd ond ateb iddo trwy gyflawni ei ddymuniad.

Beth am Gymru? Yn ei araeth yn Nghynnadledd Eglwysig Abertawe yn 1879, cyfrifai Deon Bangor fod poblogaeth Cymru a rhanau Cymreig Sir Fynwy yn 1,300,000, o ba rai yr oedd tua 300,000 yn Saeson, y rhan fwyaf o ba rai a dybiai oedd yn Eglwyswyr; a chyfrifai holl ddeiliaid yr Eglwys tua 400,000, ac addefai fod pum' rhan o chwech o'r Cymry uniaith o'r tu allan i'r Eglwys. Yn ol ystadegaeth a gasglodd y diweddar Syr Hugh Owen yn 1846, cai fod y presennoldeb mwyaf yn yr Eglwysi pan y gwnaed y cyfrif yn 18,128, ac yn y capelydd yn 128,216,—yn dangos fod yr Ymneillduwyr yn saith am bob un o'r Eglwyswyr. Yn ol cyfrifiad 1851, yr oedd y boblogaeth yn 1,188,914; y nifer yn bresennol yn yr Eglwysi y boreu, pryd y bydd mwyaf, 100,953; ped ychwanegid y bedwaredd ran ar gyfer absennolion, gwnai 126,191, prin un o bob naw o'r trigolion. Dengys hyn fod cyfartaledd yr Eglwys i'r trigolion yn llawer llai yn Nghymru nag ydoedd yn yr Iwerddon, ac nag ydyw yn Ysgotland. Mae yn wir nad yw yr Eglwys yn Nghymru wedi myned i gymaint terfysg gyda golwg ar y Defodwyr ag yn Lloegr, ac nad yw erchyllderau y nawddogaeth mor amlwg yma, er fod Cymru yn gwybod yn dda beth yw fod esgobion yn llanw y bywoliaethau brasaf â'u perthynasau eu hunain. Ond y mae i'r Eglwys yn Nghymru er hyny ei hochr chwithig nad yw i'w chael yn Lloegr. Heb fyned i mewn i'r cwestiwn ynghylch yr hen Eglwys

Brydeinig, bu cenedl y Cymry unwaith yn llaw yr Eglwys; ond cadwodd y bobl mewn tywyllwch ac anwybodaeth, gan roddi iddynt geryg yn lle bara, a sarph yn lle pysgodyn, ac nid ydoedd ond offeryn yn llaw y Saeson i'w gormesu a'u hyspeilio. Gadawodd y Cymry hi i'r Saeson hunangeisiol a'r tirfeddiannwyr oeddynt mor awyddus am gadw yr iau hyd byth ar warau y Cymry. Ac yn awr, beth bynag a fu, nid yw i'r Cymry ond eglwys dramor, Eglwys Loegr yn Nghymru, ac arwyddlun o'r ormes dramor sydd wedi bod am gymaint o amser yn llethu ein rhyddid. Y mae eglwys sefydledig o ran ei hanfod yn eglwys erlidigaethus. Ac er cymaint a broffesir fod yr Eglwys wedi newid a diwygio yn ystod y can' mlynedd diweddaf, eto, "A newidia yr Ethiopiad ei groen, neu y llewpard ei frychni? felly chwithau, a ellwch wneuthur da, y rhai a gynnefinwyd â gwneuthur drwg." Y mae erlidigaethau Sir Aberteifi, Sir Feirionydd, a Sir Drefaldwyn heb eu hanghofio eto, ac yn dangos beth yw ei natur. Ac y mae y gwrthwynebiadau a'r rhwystrau a daflwyd ar ffordd deddf newydd y claddu yn profi yr un peth. Nid oedd y clerigwyr, meddir, ond amddiffyn eu hawliau yn ol y gyfraith. Ië, ac felly yn hollol yr oedd eu tadau; dangos pa mor bell y gallent, drwy gyfraith, amddiffyn eu hawliau, ar draul budd, meddiannau, a chydwybodau y rhai oedd yn barnu yn wahanol iddynt. Dyna paham y cosbent ac y carcharent hwynt. A gŵyr ein cenedl fod hyn yn rhedeg drwy holl gylch cymdeithas yn ein gwlad. Treiddia i mewn i osodiad ffermydd, cwsmeriaeth masnachol, ac i roddi gwaith yn ein chwarelau a'n gweithydd. Nid oes unrhyw gwestiwn addysgol, cymdeithasol, trefol, na gwladol, nad yw yr uchafiaeth Eglwysig hwn yn ei wenwyno â'i ysbryd cenfigenus. Pa les a wnaeth yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru erioed? Ai rhoddi y Bibl yn iaith y bobl? Gorchymynodd y Frenhines Elizabeth drwy ddeddf seneddol i bedwar o esgobion wneyd hyny erbyn adeg benodol dan ddirwy o £40; ond ni wnaethant. Pe buasent wedi gwneyd, buasai gan yr Eglwys destun ymffrost; ond gwnaeth William Salesbury a'r Dr. William Morgan y gwaith, nid yn enw nac ar gais yr Eglwys, ond ar eu cyfrifoldeb eu hunain. Ai rhoddi addysg elfenol i'r genedl? Do, gwnaeth hyny; ond cymysgodd âg ef wermod y catecism, a bu y genedl yn foddlawn er mwyn addysg i'w yfed am flynyddoedd, hyd nes yr estynodd y Llywodraeth ymwared trwy y Byrddau Ysgol. Pa les a wnaeth o herwydd ei chysylltiad â'r Llywodraeth nas gwnaethai ef yn llawer mwy a gwell pe heb y cysylltiad? A gwnaiff eto lawer mwy nag erioed o wir les wedi i'r cysylltiad gael ei dori.

Y mae Mr. Dillwyn wedi rhoddi rhybudd o'i gynnygiad. Ni chlywir yn awr fod yn anmhosibl cario mesur seneddol am Gymru ar wahân i Loegr; a phe buasai felly, ni buasai hyny yn un rheswm dros i Gymru beidio dangos ei bod hi yn galw am dano. Y mae ein haelodau seneddol Rhyddfrydig, un ac oll, ni a dybiwn, o blaid hyn pan y daw amser cyfaddas, ac wedi addaw ei bleidio yn yr etholiad diweddaf; ac ni a gredwn na buasent mor lwyddiannus oni b'ai am hyny. Ond lled ddystaw yw Cymru hyd yn hyn. Y mae ein cyfundebau crefyddol yn teimlo petrusder i ymyryd â mater "mor boliticaidd," ac nid yw ein gwŷr blaenaf wedi ymaflyd ynddo o ddifrif. Y mae Cymru yn awr, fel bachgen wrth ymdrochi, yn petruso neidio i'r dwfr, er yn

benderfynol o wneyd hyny. Nid yw yr Aelodau Seneddol a'r wlad yn deall eu gilydd ar y pwnc. Fel hyn y mae pan yr ydym yn ysgrifenu. Ond y mae penderfyniad y cwestiwn yn sicr. Yn 1868 deffrôdd cwestiwn y Dadgysylltiad yn yr Iwerddon Gymru o'i chysgadrwydd oesol, a daeth i adnabod ei nerth. Yn 1874 nid oedd un cwestiwn o bwys ger bron, ac aeth Cymru i hepian. Deffrôdd eilwaith yn yr etholiad diweddaf; ac er fod materion eraill o bwys wedi cael y sylw ar y pryd, y mae yn ddigon amlwg mai y cwestiwn mawr y mae wedi gosod ei chalon arno yw y Dadgysylltiad a chydraddoldeb crefyddol. Ac unwaith y teimla yn ddiogel ei fod o fewn cyrhaedd, hi a gyfyd ar ei thraed ac a ymdrecha fel cawr nes ei gael yn ddiogel. Bydd y frwydr yn boeth ond bèr. A phan gyfyd Cymru ei llais yn ddiamwys, nid oes lle i betruso na chaiff hi, yn gystal ag Ysgotland, ei dymuniad. Y mae y rhesymau dros ddadgysylltiad yn Nghymru yn llawer cryfach nag y maent yn Ysgotland, ac nid oes dim yn galw am iddi fod ar ol. Cwestiwn i'w benderfynu ydyw gan Gymru ei hun; ac y mae yr arwyddion yn cryfhâu, o ddydd i ddydd, fod yr amser yn agos pan y bydd iddi wneyd hyny.

J. Eiddon Jones.

---

# "IDDO EF."

I ber salm-donau Natur lân
 Cynnyrchodd pechod wrthsain gras;
Tra chwydda llanw 'i bythol gân
 I Dduw,—"I mi," medd bron heb ras;
"I mi," medd hunan calon dyn,
 Gan fyth drachwantu am fawl y nef,
Tra 'r dirif ser yn seinio 'n un,
 "Na! nid i ni, ond Iddo Ef."

Holl ithion mater rwymodd Ior
 Mewn cyd-ddibyniad megys un;
Wrth roi ei hun mor rydd i'r môr,
 Ca 'r defnyn bach y môr ei hun:
Cynghanedd Dwyfol driawd ddyd
 Y dòn, y gwynt, a'r daran gref,
A'r adsain gerdd o fyd i fyd,
 I chwyddo 'r anthem—"Iddo Ef."

Pob gwelltyn ir a gwyd ei ben,
 Fel pe i dremio am ei Dad,
Tra 'i goron wlith dderbynia 'r nen,
 Fel offrwm diolch a mawrhâd;

Addoliad dystaw 'r blodau glân
  Gwyd mewn arogldarth tua 'r nef;
Pob grudd flodeuog wena 'r gân
  Sydd yn eu mynwes—"Iddo Ef."

Rhaff angor diogelwch gwiw,
  Sigledig long y cread hardd,
Ar gefnfor llydan hanfod, yw
  Y mawl i Dduw o'i mynwes dardd;
Pe torid cadwen-bleth y mawl
  Sy 'n asio 'r oll â gorsedd nef,
Cydymollyngai cylchau 'r gwawl,
  A th'ranai 'r dystryw—"Iddo Ef!"

Byw iddi ei hun a fynai 'r Fall,
  A chafodd Angeu yn ystâd;
Pan dybiai 'i hun yn gwneyd yn gall,
  Tro'i 'r *byw* yn draul i bob mwynhâd;
Yn llewyrch fflam Cyfiawnder glân,
  Ar fàrau dôr Gehenna gref,
Darllenir mewn llyth'renau tân
  Y fawl-gân fythol—"Iddo Ef."

Fy nghalon falch, a fynit ti
  Wrthdroi cynghanedd cread Ior,
Sef llif yr "Iddo Ef" i mi,—
  Gwahanu 'r ffrwd oddiwrth y môr?
Drwy 'r ddeiliog wîg mae 'r adar mân
  Yn gwawdio 'th hunan âg un lef;
Pob llwyn a droir yn allor cân
  I chwyddo 'r llanw—"Iddo Ef."

Hunanau beilchion, gledd yn nghledd,
  A fathrant hawliau myrdd dan draed;
Yr iaith "I ni"—anrheithia 'u hedd,
  Tra Llid fyn yfed neint o waed;
Pe suddem ein hunanau gwael,
  Mewn ango 'n llif daioni 'r nef,
Adferid cord o deimlad hael
  I lanw 'r gydgan—"Iddo Ef."

Fy Iesu! dysg im' golli f' hun,
  I'w ddiogelu ynot Ti;
O'm cof aed croesau f' oes, bob un,
  Mewn cof am groes pen Calfari:
Rhoist ti dy waed yn fywyd byd,
  Er dwyn y byd i fyw i'r nef;
A'r ffrwyth i Dduw o'r dyodde' i gyd
  A gydgrynhoir i'r "Iddo Ef."

Aed golud, mwyniant mynyd awr,
Fel colled tros y bwrdd i gyd
Er "ennill Crist,"—pa fudd mor fawr?
Caf ennill nef wrth golli 'r byd;
Anhwyliog delyn calon oer,
Wrthseiniai fawl telynau 'r nef,
Dan adgyweiriad Dwyfol, droir
I seinio bythol "Iddo Ef."

TAFOLOG.

---

## CYFIEITHIAD O'R EPISTOL AT Y GALATIAID.

YR oeddwn yn gobeithio y buasai rhywbeth wedi ei wneyd cyn hyn mewn ffordd o ddarparu i gyfarfod â'r awydd a deimlir gan gynifer o ddarllenwyr deallus o'r Ysgrythyrau am gael mwynhâu yn yr iaith Gymraeg y manteision ag y mae astudiaeth fanylach o'r testun gwreiddiol—ac yn enwedig y cyweiriadau a sefydlwyd trwy lafur ysgolheigion yn y blynyddoedd diweddaf yn narlleniadau y testun hwnw—wedi osod yn ein ffordd er cael allan gyda llwyrach cywirdeb feddyliau yr ysgrifenwyr ysbrydoledig. Ond drwg genyf nad ydyw y ffrwyth yn cyfateb i'r hyn a allasem ddysgwyl. Mewn cysylltiad neillduol âg un o'r pwyllgorau a benodwyd i ystyried yr achos hwn, fe fu tipyn o ohebiaeth rhyngof a chyfeillion parchus oedd yn perthyn i bwyllgorau felly a benodasid gan ganghenau eraill o eglwys Crist yn Nghymru; ond er fod yr oll yn teimlo mai dymunol fuasai i'r fath waith gael ei wneyd, nid oedd yn ymddangos fod yr un o'r pwyllgorau yn teimlo yn ddigon hyderus i ymsymud mewn ffordd o drefnu ar ei *fod* yn cael ei wneyd; a chan na ellid gobeithio am gydweithrediad y gwahanol gyrff crefyddol sydd yn darllen y Bibl Cymraeg, yr oedd y pwyllgor ag yr oeddwn innau mewn cysylltiad âg ef, er yn dra awyddus i weled y gwaith yn cael ei gwblhâu, eto yn teimlo yn rhy wan i gynghori ar fod rhai yn cael eu penodi i ymgymeryd âg ef yn eu cyfundeb eu hunain. Fe allai na ddaeth yr amser eto. Y mae yn gysur mawr, pa fodd bynag, i weled ysgolheigion Cymru yn amlhâu, ac fod cynifer o honynt yn cysegru eu hymadferthoedd goreu i astudio y Llyfr sanctaidd. Mae yn ddiammeu y bydd hyny mewn amser yn profi yn ychwanegiad mawr at gyfoeth ein cenedl mewn manteision i ddeall a theimlo gogoniant Gair Duw. Ond ar hyn o bryd, fel y sylwa fy nghyfaill dysgedig, Mr. Charles Edwards, yn ei arweiniad i'w gyfieithiad meistrolgar o'r Epistol Cyntaf at y Corinthiaid, yr hwn a gyhoeddwyd yn y rhifyn diweddaf o'r TRAETHOD-

YDD, y peth goreu a ellid wneyd fyddai i gyfeillion sydd wedi talu sylw i hyn ymgymeryd â chyfieithu rhanau neillduol o'r Gair, a gosod eu gwaith o flaen eu cydwladwyr. Gallai hyny fod yn help i lawer yn eu hymdrech i ddeall yr Ysgrythyrau; ac fe fyddai yn dda i ysgolheigion dalu sylw neillduol i'r modd y byddo y gwaith yn cael ei wneyd, a bod yn rhydd i wneuthur pa awgrymiadau bynag a ymgynnygiont iddynt a allai dueddu at ei berffeithio. Fe allai y defnyddiau a geid felly fod yn dra gwasanaethgar yn y dyfodol, ac fe brofai yr ymarferiad a ennillid, mewn amser, yn gymhwysder tra gwerthfawr i ymgymeryd â'r gorchwyl mawr o osod yn nwylaw y Cymry gyfieithiad o'r Ysgrythyrau a fyddo yn deilwng o ddysgeidiaeth Fiblaidd y dyddiau hyn. Mae y cynnydd sydd wedi ei wneyd yn ddiweddar yn y gangen bwysig yma o efrydiaeth, yn fawr iawn. Mae yn ddiammeu y gallai ysgolheigion Biblaidd yr amser presennol ddyweyd, yn ngeiriau Bacon, mai hwynt-hwy ydyw yr henafiaid; oblegid heblaw eu bod wedi myned i mewn i lafur yr oesoedd a aethant heibio, y mae y defnyddiau sydd ganddynt at eu llaw, o bob cyfeiriad, erbyn hyn, wedi dyfod yn llawer mwy helaeth a gwerthfawr; ac y mae gwaith cynifer o'r rhai galluocaf o honynt yn cysegru eu heinioes i efrydiau o'r fath yn peri bod eu hysgoleigdod a'u craffder wedi cyrhaedd addfedrwydd na welwyd ei gyffelyb mewn unrhyw gyfnod arall yn holl hanes yr Eglwys. Y mae y TRAETHODYDD wedi gwneyd llawer o bryd i bryd mewn ffordd o alw sylw at y llafur gwerthfawr sydd wedi gwneyd cymaint ar y Cyfandir, yn y wlad hon, ac yn America, tuag at gyfoethogi ein llenyddiaeth Fiblaidd; ac y mae yn arwydd er daioni fod y fath werthfawrogiad yn cael ei osod ar ei wasanaeth yn y cyfeiriad hwn.

Yr ydym yn hyderu y gallwn, yn ol awgrymiad Mr. Edwards, osod o flaen ein darllenwyr yn ein Rhifynau dyfodol, amryw ymgeisiadau at berffeithio y cyfieithiad sydd mewn arferiad cyffredin yn ein plith o wahanol ranau o'r Ysgrythyr. Ond wrth amcanu at hyn, fe fyddai yn chwith genym i neb dybied ein bod yn awgrymu unrhyw ddiraddiad ar y cyfieithiad Cymraeg awdurdodedig. Y mae yn beth hynod i sylwi arno, er holl anfedrusrwydd llawer o'r cannoedd a fyddent yn yr hen amseroedd yn copïo yr Ysgrythyrau, ac er y miloedd mân amryfuseddau y syrthiasant iddynt, eto fod y fath ddwyfol amddiffyn wedi bod ar y testun sanctaidd fel nad oes unrhyw wirionedd am fywyd wedi ei gymylu o gwbl trwy unrhyw amryfuseddau o'r fath; a'r un modd, er holl anmherffeithrwydd llawer o'r cyfieithiadau o'r Gair, eto y mae y dwyfoldeb sydd ynddo, ïe yn y cyfieithiadau mwyaf anghelfydd, yn cyrhaedd calonau plant dynion, ac yn profi yn iachawdwriaeth iddynt. Ond am y cyfieithiad Cymraeg—diolch i'r amddiffyn Nefol, ac i farn dda, chwaeth bur, ac ysgolheigdod addfed y cyfieithwyr—y mae, mae yn ddiammeu, yn un o'r rhai goreu mewn bod. Yr oedd Mr. John Bright, mewn araeth dro yn ol yn Llandudno, ac yn y dygn anwybodaeth y mae hyd yn nod Saeson deallus yn fradychu am bethau Cymreig, yn tybied mai cyfieithiad o'r cyfieithiad Saesoneg oedd y cyfieithiad Cymraeg o'r Bibl. Ar ol hyny, wedi deall yn amgen, yr oedd efe yn barod iawn i gydnabod ei gamgymeriad. Chwedl Dr. Johnson: "Ignorance, Madam, sheer ignorance!" Ond y mae y cyfieithiad Cymraeg, fel y nodwyd lawer gwaith yn ein tu dalenau, ac fel y byddai

yn hawdd dangos yn llawer helaethach, yn tra rhagori ar yr un Saesoneg. Mae yn wir y golygid gan lawer o athrawon Cymru gynt y byddai yn anhawdd meddwl am fyned at awdurdod uwch na'r "iaith nesaf atom" er penderfynu ystyr ymadroddion y Bibl; a chlywsom gyfeillion yn ddiweddarach nag y maliem am nodi, yn dyweyd uwch ben gair neillduol mai fel a'r fel y darllenid yn y Saesoneg, ac yn cymeryd yr ystyr hwnw, fel o'r awdurdod uchaf, yn sail i'w sylwadau, pan yr oedd y cyfieithiad Cymraeg, oedd gymaint yn nês atynt hwy, yn llawer nês hefyd i'r gwreiddiol. Gwelsom hefyd gyfieithiad o ranau o'r *Revised Version* Saesoneg yn cael ei gynnyg fel gwelliant ar y cyfieithiad Cymraeg, pan oedd yr un Cymraeg, oblegid y cydnawsedd mwy sydd rhwng yr hen iaith a'r iaith wreiddiol, yn berffaith, a'r *Revised Version* ddim ond yn ceisio tynu at berffeithrwydd. Ar yr un pryd rhaid addef fod amryw amryfuseddau o'r un natur â'r rhai y teimlid eu bod yn anurddo y cyfieithiad Saesoneg, er nad i'r un graddau, wedi llithro hefyd i'r cyfieithiad Cymraeg. Yr ydym yn cyfeirio at y cymysgedd yn amseriadau y berfau; defnyddiad geiriau gwahanol, mewn gwahanol fanau, i ddynodi syniad ag y mae y gwreiddiol, a hyny yn amlwg o fwriad, yn defnyddio bob amser yr un gair i'w osod allan; colli golwg ar yr amcan o gyfieithu trwy geisio esbonio mewn aralleiriad yr hyn a ysgrifenwyd; gorgyfieithu geiriau, gan dybied eu bod yn cynnwys mwy nag a gynnwysent,—ac mewn ffyrdd eraill fethu cyfleu eu priodol ystyr; tywyllu yr ystyr trwy lwytho brawddegau â geiriau mewn llythyrenau Italaidd er mwyn ei egluro; bod yn rhy ddiaylw o'r geirynau, y *particles*, sydd mor fynych yn gwasanaethu er gosod y meddwl allan yn fwy clir; gor-attalnodi, &c. Wrth reswm y mae ffansi direswm Robert Stephanus yn 1551, o ranu y llyfrau i bennodau ac adnodau, wedi profi yn anfantais fawr i astudiaeth o'r Ysgrythyrau ymhob iaith. Pwy byth a feddyliai am wneyd dosraniad felly ar lythyrau Cicero, neu Gyfatebiaeth Butler, neu dori i fyny un o areithiau Mr. Gladstone yn wyth neu ddeg o bennodau, a thori pob un o'r rheiny drachefn yn fân dameidiau dan yr enw adnodau, gan chwalu brawddeg, weithiau, i chwech neu saith o'r cyfryw fân ddarnau? Mae yn ddiammeu fod hyn, yn enwedig mewn cysylltiad â'r gor-attalnodi, wedi bod yn rhwystr mawr yn ffordd efrydiaeth lawn a deallus o lyfrau y Bibl, trwy fod yn achlysur i bobl foddloni ar adnod neu bennod, pan y dylasent ddarllen yr holl lythyr, neu astudio yr holl lyfr. Y mae yn dda fod y llyfrau sanctaidd y dyddiau hyn yn cael eu gosod yn nwylaw cynifer mewn ffordd a fydd yn fantais iddynt ymgodi uwchlaw yr anhawsder hwn.

Fel cyfraniad at yr amcan y cyfeiriwyd ato uchod, yr wyf yn anturio cyflwyno i sylw ein darllenwyr yr ymgais canlynol at gyfieithiad o'r Epistol at y Galatiaid. Nid wyf yn cynnyg unrhyw nodiadau ar y cyfnewidiadau a wneir, am y buasai yn anhawdd gwneyd hyny heb ysgrifenu llawer mwy nag a ellid gyhoeddi fel yma. Ond yr wyf yn meddwl y gwel y cyfarwydd na wnaed yr un cyfnewidiad heb reswm oedd yn ymddangos yn galw am hyny. Ni fyddai ond ofer ychwaith cyfeirio at yr awdurdodau yr ymgynghorwyd â hwynt. Am y testun, cymerid yr un a fabwysiadwyd gan yr Adgyweirwyr Seisonig, a gyhoeddwyd yn Nghaergrawnt dan olygiad Dr. Scrivener, yr hwn sydd yr un â'r hwn a gyhoeddwyd

yn Rhydychain dan olygiad yr Archddiacon Palmer, ac heb wahaniaethu ond ychydig iawn oddiwrth eiddo Westcott a Hort, at yr hwn yn ddiweddar y galwyd sylw yn dra helaeth yn ein tu dalenau. Mae yn ddiau y bydd unrhyw gyfnewidiad yn taro yn ddyeithr ar glustiau sydd wedi hen gynnefino â'r geiriau fel y maent yn y cyfieithiad awdurdodedig, y rhai, ie o ran eu Cymraeg, yn gystal ag o ran eu hystyr, sydd i lawer fel yn ysbrydoledig. Dibris iawn fyddai i neb newid mewn gwaith o'r fath er mwyn newid; a thrueni fyddai peidio gosod unrhyw gyfnewidiad ag y bernid ei fod yn angenrheidiol yn y Cymraeg goreu ag y bo modd. Ond wedi y cwbl, y cwestiwn mawr ydyw, Beth a ellid dybied oedd meddwl yr Apostol, a beth ydyw y cyfieithiad sydd yn gosod hwnw ger bron yn y modd mwyaf cyflawn a goleu? Y cynllun perffaith, yr *ideal* am gyfieithiad ydyw, ei fod yn dyfod mor agos ag y bo yn ddichonadwy at y dull ymha un y buasai yr awdwr gwreiddiol ei hunan yn ysgrifenu, pe mor gydnabyddus â'r iaith y cyfieithir iddi ag ydoedd â'r hon yr oedd efe ei hunan yn ysgrifenu ynddi ar y cyntaf. Ac yn ol y maen prawf hwn y rhaid i'r ymgais a ganlyn, fel pob ymgais gyffelyb, sefyll neu syrthio.

DANIEL ROWLANDS.

---

Paul, apostol (nid o ddynion, na thrwy ddyn, ond trwy Iesu Grist, I.
a Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw), a'r brodyr oll y rhai 2
sydd gyda mi, at eglwysi Galatia: gras i chwi a thangnefedd oddi- 3
wrth Dduw Dad, a'r Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a'i rhoddes ei hun 4
dros ein pechodau ni, fel y gwaredai ni allan o'r byd drwg presennol,
yn ol ewyllys Duw a'n Tad ni; i'r hwn *y byddo* gogoniant yn oes 5
oesoedd. Amen.
Y mae yn rhyfedd genyf eich bod yn symud mor fuan oddiwrth 6
yr hwn a'ch galwodd yn ngras Crist at efengyl arall; yr hon nid yw 7
arall, ond bod rhai yn eich trallodi chwi ac yn chwennych gwyrdroi
efengyl Crist. Eithr pe byddai i ni neu i angel o'r nef efengylu 8
amgen na'r hyn a efengylasom i chwi, bydded anathema. Megys y 9
dywedasom o'r blaen, felly yr ydwyf yn awr yn dywedyd drachefn,
Os efengyla neb i chwi amgen na'r hyn a dderbyniasoch, bydded
anathema. Canys yn awr ai perswadio dynion yr wyf, ai Duw? neu 10
a ydwyf fi yn ceisio boddhâu dynion? pe boddhawn ddynion eto,
ni fyddwn was Crist.
Canys yr wyf yn hysbysu i chwi, frodyr, am yr efengyl a efengyl- 11
wyd genyf fi, nad yw hi ddynol. Canys nid gan ddyn y derbyniais 12
hi, nac y'm dysgwyd, eithr trwy ddadguddiad Iesu Grist. Canys 13
clywsoch am fy ymarweddiad i gynt yn y grefydd Iuddewig, i mi
allan o fesur erlid eglwys Dduw, a'i hanrheithio hi; a mi a gyn- 14
nyddais yn y grefydd Iuddewig yn fwy na llawer o'm cyfoedion yn

fy nghenedl, gan fod yn llawer mwy eiddigeddus dros draddodiadau fy
15 nhadau. Ond pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o
16 groth fy mam ac a'm galwodd trwy ei ras, i ddadguddio ei Fab ef
ynof fi, fel y pregethwn ef ymhlith y Cenedloedd, yn y fan nid
17 ymgynghorais â chig a gwaed; ac nid aethum i fyny i Jerusalem
at y rhai oedd o'm blaen i yn apostolion: ond mi a aethum ymaith
i Arabia; a thrachefn dychwelais i Damascus.
18 Yna ar ol tair blynedd aethum i fyny i Jerusalem i ymweled â
19 Cephas, ac arosais gydag ef bymtheng niwrnod. Eithr arall o'r apos-
20 tolion ni welais, ond Iago brawd yr Arglwydd. Yn awr am y
pethau yr wyf yn eu hysgrifenu atoch, wele, ger bron Duw, nid wyf
21 yn dywedyd celwydd. Yna aethum i barthau Syria a Cilicia. Ac
22 yr oeddwn eto heb fy adnabod wrth *fy* wyneb gan eglwysi Judea y
23 rhai oedd yn Nghrist; ond yn unig yr oeddynt yn clywed, Yr hwn
gynt oedd yn ein herlid ni, sydd yn awr yn pregethu y ffydd yr
24 hon gynt a anrheithiai. A hwy a ogoneddasant Dduw ynof fi.
II. Yna wedi pedair blynedd ar ddeg aethum i fyny drachefn i Jeru-
2 salem gyda Barnabas, gan gymeryd Titus hefyd gyda mi. Ac mi
aethum i fyny trwy ddadguddiad, ac a osodais o'u blaen hwy yr
efengyl yr hon yr wyf yn bregethu ymhlith y Cenedloedd, ond o'r
neilldu i'r rhai cyfrifol, rhag mewn un modd fy mod yn rhedeg, neu
3 ddarfod i mi redeg, yn ofer. Eithr hyd yn nod Titus yr hwn oedd
4 gyda mi, ac yn Roegwr, ni orfodwyd i gymeryd ei enwaedu; a
hyny o herwydd y gau frodyr yn ddirgelaidd a ddygasid i mewn,
y rhai a ddaethent i mewn yn ddirgelaidd i yspïo ein rhyddid
ni yr hon sydd genym yn Nghrist Iesu, fel y caethiwent ni:
5 i ba rai, ïe dros awr, nid ymroisom trwy ddarostyngiad, fel yr
arosai gwirionedd yr efengyl gyda chwi.
6 Ond gan y rhai y cyfrifir eu bod yn rhywbeth (beth bynag oeddynt
nid yw ddim i mi; nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn)—canys y
7 rhai cyfrifol ni chwanegasant ddim i mi; ond yn y gwrthwyneb, pan
welsant ddarfod ymddiried i mi efengyl y dienwaediad, megys i
8 Pedr *un* yr enwaediad (canys yr hwn oedd yn gweithredu yn Pedr i
apostoliaeth yr enwaediad, a weithredodd ynof fi hefyd tuag at y
9 Cenedloedd), a phan wybuant y gras a roddwyd i mi, Iago a Cephas
a Ioan, y rhai a gyfrifir yn golofnau, a roddasant i mi ac i Barnabas
ddeheulaw cymdeithas, fel *yr elem* ni at y Cenedloedd, a hwy at yr
10 enwaediad; yn unig ar fod i ni gofio y tlodion, yr hyn beth hefyd
yr oeddwn i yn awyddus i'w wneuthur.
11 Ond pan ddaeth Cephas i Antiochia, mi a'i gwrthwynebais yn
12 ei wyneb, am ei fod yn gondemniedig. Oblegid cyn dyfod rhai oddi-
wrth Iago, yr oedd efe yn bwyta gyda'r Cenedloedd; ond pan
ddaethant, efe a giliodd ac a ymneillduodd, gan ofni y rhai o'r
13 enwaediad. A'r Iuddewon eraill hefyd a gydragrithiasant âg ef, yn
gymaint fel ag y dygwyd Barnabas hefyd ymaith gyda'u rhagrith
14 hwy. Ond pan welais nad oeddynt yn iawn-droedio at wirionedd
yr efengyl, dywedais wrth Cephas yn ngwydd pawb, Os wyt ti, a thi
yn Iuddew, yn byw fel y Cenedloedd, ac nid fel yr Iuddewon, pa
fodd yr wyt ti yn gorfodi y Cenedloedd i fyw fel yr Iuddewon?
15 Nyni yn Iuddewon wrth natur, ac nid o'r Cenedloedd yn bechadur-

iaid, eto yn gwybod na chyfiawnheir dyn trwy weithredoedd y 16
ddeddf, ond trwy ffydd Iesu Grist, ninnau hefyd a gredasom yn
Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnheid trwy ffydd Crist, ac nid trwy
weithredoedd y ddeddf; oblegid ni chyfiawnheir un cnawd trwy
weithredoedd y ddeddf. Ond os, wrth geisio ein cyfiawnhâu yn 17
Nghrist, y'n caed ninnau hefyd yn bechaduriaid, a ydyw Crist yn
weinidog pechod? Na ato Duw. Canys os y pethau a ddystryw- 18
iais, y rhai hyny yr wyf fi drachefn yn adeiladu, yr wyf yn fy
ngwneuthur fy hun yn droseddwr. Canys myfi trwy y ddeddf a 19
fum farw i'r ddeddf, fel y byddwn fyw i Dduw. Mi a groeshoel- 20
iwyd gyda Christ; ond yr wyf yn byw, eto nid myfi, ond Crist
sydd yn byw ynof; a'r hyn yr ydwyf yn awr yn ei fyw yn y
cnawd, ei fyw yr ydwyf mewn ffydd, yr hon sydd yn Mab Duw,
yr hwn a'm carodd ac a'i rhoddes ei hun drosof fi. Nid wyf yn 21
dirymu gras Duw; ond os o'r ddeddf y mae cyfiawnder, yna fe fu
Crist farw yn ofer.

O Galatiaid ynfyd, pwy a'ch rheibiodd chwi, i ba rai o flaen eu III.
llygaid y portrëadwyd Iesu Grist wedi ei groeshoelio? Hyn yn 2
unig a ddymunwn ddysgu genych, ai o weithredoedd y ddeddf y
derbyniasoch yr Ysbryd, ai o wrandawiad ffydd? A ydych chwi 3
mor ynfyd? wedi dechreu yn yr Ysbryd, a orphenwch chwi yn awr
yn y cnawd? A brofasoch chwi gymaint yn ofer? os ofer hefyd. Yr 4
hwn gan hyny sydd yn gweinyddu i chwi yr Ysbryd, ac yn gwneuthur 5
gwyrthiau yn eich plith chwi, ai o weithredoedd y ddeddf *y gwna*, ai
o wrandawiad ffydd? Megys y credodd Abraham i Dduw, a chyfrif- 6
wyd iddo yn gyfiawnder. Yr ydych yn gweled gan hyny mai y 7
rhai sydd o ffydd, y rhai hyny ydynt feibion Abraham. A'r ys- 8
grythyr yn rhagweled mai o ffydd y mae Duw yn cyfiawnhâu y
Cenedloedd, a ragefengylodd i Abraham, Ynot ti y bendithir yr holl
genedloedd. Felly gan hyny y rhai sydd o ffydd a fendithir gydag 9
Abraham ffyddlawn. Canys cynifer ag sydd o weithredoedd y 10
ddeddf, dan felldith y maent; canys ysgrifenwyd, Melldigedig *yw*
pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn llyfr y
ddeddf, i'w gwneuthur hwynt. Ac na chyfiawnheir neb trwy y 11
ddeddf ger bron Duw, eglur yw; oblegid, Y cyfiawn a fydd byw
trwy ffydd; a'r ddeddf nid yw o ffydd, eithr, Yr hwn a'u gwna 12
hwynt a fydd byw ynddynt. Crist a'n prynodd ni oddiwrth felldith 13
y ddeddf, gan ddyfod yn felldith drosom; canys ysgrifenwyd,
Melldigedig yw pob un sydd yn nghrôg ar bren; fel y delai bendith 14
Abraham ar y Cenedloedd yn Nghrist Iesu; fel y derbyniom
addewid yr Ysbryd trwy ffydd.

Frodyr, dywedyd yr ydwyf yn ol dull dyn: Er na byddo ond 15
cyfammod dyn, wedi ei gadarnhâu, nid yw neb yn ei ddirymu neu
yn chwanegu ato. Yn awr i Abraham y llefarwyd yr addewidion, ac 16
i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megys am lawer;
ond megys am un, Ac yn dy had di, yr hwn yw Crist. Yn awr hyn 17
yr wyf yn ddywedyd, Cyfammod a gadarnhäwyd o'r blaen gan
Dduw, nid yw y ddeddf a ddaeth bedwar cant a deg ar hugain o
flynyddoedd wedi, yn ei ddirymu, i wneuthur yr addewid yn ofer.
Canys os o'r ddeddf *y mae* yr etifeddiaeth, nid ydyw mwyach o 18

addewid: ond Duw a'i rhad-roddodd i Abraham trwy addewid.
19 Beth gan hyny yw y ddeddf? Oblegid troseddau yr ychwanegwyd
hi, hyd oni ddelai yr had i'r hwn y gwnaethid yr addewid, wedi ei
20 hordeinio trwy angelion yn llaw cyfryngwr. A chyfryngwr nid yw
21 i un; ond Duw sydd un. A ydyw y ddeddf gan hyny yn erbyn
addewidion Duw? Na ato Duw: canys pe rhoisid deddf a allasai
22 fywhâu, yn wir o'r ddeddf y buasai cyfiawnder. Eithr cydgauodd
yr ysgrythyr bob peth dan bechod, fel y rhoddid yr addewid trwy
ffydd Iesu Grist i'r rhai sydd yn credu.
23 Eithr cyn dyfod ffydd, yr oeddym mewn cadwraeth dan y ddeddf,
24 wedi ein cydgau i'r ffydd yr hon ydoedd i'w dadguddio. Felly y
ddeddf a fu ein hathraw ni at Grist, fel y'n cyfiawnheid trwy ffydd.
25 26 Eithr wedi dyfod ffydd, nid ydym mwyach dan athraw. Canys
27 chwi oll ydych feibion Duw, trwy ffydd, yn Nghrist Iesu. Canys
28 cynifer o honoch ag a fedyddiwyd i Grist, a wisgasoch Grist. Nid
oes nac Iuddew na Groegwr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes
29 gwryw a benyw: canys chwi oll un ydych yn Nghrist Iesu. Ac os
eiddo Crist ydych, yna had Abraham ydych, etifeddion yn ol yr
addewid.
IV. Ond yr wyf yn dywedyd, dros gymaint o amser ag y mae yr
etifedd yn blentyn, nid oes dim rhagor rhyngddo a chaethwas, er ei
2 fod yn arglwydd ar y cwbl; ond y mae dan warcheidwaid a goruch-
3 wylwyr, hyd yr amser a ragbenodwyd gan y tad. Felly ninnau
hefyd, pan oeddym blant, oeddym gaethion dan egwyddorion y byd:
4 ond pan ddaeth cyflawnder yr amser, danfonodd Duw ei Fab, wedi
5 ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf, fel y prynai y
6 rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad. Ac o
herwydd eich bod yn feibion, danfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'n
7 calonau ni, yn llefain, Abba, Dad. Felly nid wyt ti mwy yn
gaethwas, ond yn fab; ac os mab, etifedd hefyd trwy Dduw.
8 Eithr y pryd hwnw, heb adnabod Duw, yr oeddych mewn caeth-
9 wasanaeth i'r rhai wrth natur nid ydynt dduwiau: ond yn awr,
wedi dyfod i adnabod Duw, neu yn hytrach yn adnabyddus gan
Dduw, pa fodd yr ydych yn troi drachefn at yr egwyddorion llesg a
thlodion, i'r rhai yr ydych drachefn o newydd yn chwennych bod
10 mewn caethwasanaeth? Cadw yr ydych ddiwrnodau, a misoedd, ac
11 amseroedd, a blynyddoedd. Y mae arnaf ofn am danoch, rhag mewn
un modd ddarfod i mi boeni gyda chwi yn ofer.
12 Byddwch fel myfi, canys *yr wyf* fi fel chwi, frodyr, yr wyf yn
13 attolwg i chwi. Ni wnaethoch i mi ddim cam; ond chwi a wyddoch
mai o herwydd gwendid y cnawd yr efengylais i chwi y waith gyntaf.
14 A'r hyn oedd brofedigaeth i chwi yn fy nghnawd i, ni ddiystyrasoch
ac ni ffieiddiasoch, eithr chwi a'm derbyniasoch megys angel Duw,
15 megys Crist Iesu. Pa le gan hyny y mae eich gwynfydiad chwi?
canys tystiolaethu yr wyf i chwi, pe yn bosibl, y tynasech eich
16 llygaid ac a'u rhoisech i mi. A aethum i gan hyny yn elyn i chwi
17 wrth ddywedyd i chwi y gwir? Y maent yn eiddigeddu drosoch,
nid yn dda, eithr dymuno y maent eich cau chwi allan, fel y bydd-
18 och eiddigeddus drostynt hwy. Eithr da yw bod yn eiddigeddus
mewn peth da yn wastadol, ac nid yn unig tra fyddwyf bresennol

gyda chwi. Fy mhlant bychain, am y rhai yr wyf drachefn mewn 19
gwewyr, hyd oni ffurfier Crist ynoch, mi a ddymunwn fod yn 20
bresennol gyda chwi yn awr, a newidio fy llais, canys yr wyf mewn
pryder am danoch.

Dywedwch i mi, y rhai ydych yn dymuno bod dan y deddf, onid 21
ydych yn clywed y ddeddf? Canys ysgrifenwyd, Yr oedd gan 22
Abraham ddau fab; un o'r wasanaethferch, ac un o'r wraig rydd.
Eithr y *mab* o'r wasanaethferch a aned yn ol y cnawd, ond y *mab* 23
o'r wraig rydd trwy addewid. Yr hyn bethau ydynt yn aralleg; 24
canys y *merched* hyn ydynt ddau gyfammod; un yn wir o fyn-
ydd Sinai, yn eppilio i gaethiwed, yr hon yw Hagar. Canys yr 25
Hagar yma yw mynydd Sinai yn Arabia, ac y mae yn cyfateb i'r
Jerusalem sydd yn awr; canys y mae hi yn gaeth gyda'i phlant.
Eithr y Jerusalem sydd uchod sydd rydd, yr hon yw ein mam ni. 26
Canys ysgrifenwyd, 27

Llawenhâ, di anmhlantadwy yr hon nid wyt yn eppilio;
Tor allan, a llefa yr hon nid wyt mewn gwewyr:
Canys llawer mwy yw plant yr unig na'r hon y mae iddi ŵr.

A nyni, frodyr, megys yr oedd Isaac, ydym blant yr addewid. Eithr 28
megys y pryd hyny yr hwn a aned yn ol y cnawd a erlidiai yr hwn 29
a aned yn ol yr Ysbryd, felly yn awr hefyd. Ond beth y mae yr 30
ysgrythyr yn ei ddywedyd? Bwrw allan y wasanaethferch a'i mab,
canys ni chaiff mab y wasanaethferch mewn un modd etifeddu gyda
mab y wraig rydd. Am hyny, frodyr, nid plant y wasanaethferch V.
ydym, ond y wraig rydd. I ryddid y rhyddhaodd Crist ni: sef-
wch gan hyny, ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed.

Wele, myfi Paul, wyf yn dywedyd wrthych, Os enwaedir chwi, ni 2
lesâ Crist ddim i chwi. Ac yr wyf yn tystiolaethu drachefn i bob 3
un a enwaedir, ei fod yn ddyledwr i wneuthur yr holl ddeddf.
Chwi a dorwyd ymaith oddiwrth Grist, y rhai ydych yn ymgyf- 4
iawnhâu yn y ddeddf; chwi a syrthiasoch ymaith oddiwrth ras.
Canys nyni yn yr Ysbryd o ffydd, ydym yn dysgwyl gobaith cyf- 5
iawnder. Canys yn Nghrist Iesu ni ddichon enwaediad ddim, na 6
dienwaediad, ond ffydd yn gweithio trwy gariad. Yr oeddych yn 7
rhedeg yn wych; pwy a'ch rhwystrodd chwi fel nad ufuddhäech i'r
gwirionedd? Y perswadiad hwn ni *ddaeth* oddiwrth yr hwn sydd yn 8
eich galw chwi. Y mae ychydig lefain yn lefeinio yr holl does. Y 9
mae genyf hyder am danoch yn yr Arglwydd na syniwch chwi ddim 10
arall: ond yr hwn sydd yn eich trallodi a ddwg farnedigaeth, pwy
bynag a fyddo. Ond myfi, frodyr, os ydwyf eto yn pregethu 11
enwaediad, paham y'm herlidir eto? Yn wir, tynwyd ymaith dram-
gwydd y groes. Mi a fynwn i'r rhai sydd yn aflonyddu arnoch ie 12
eu tori eu hunain ymaith.

Canys i ryddid y galwyd chwi, frodyr; yn unig na *throwch* y 13
rhyddid yn achlysur i'r cnawd, ond trwy gariad gwasanaethwch
eich gilydd. Canys yr holl ddeddf a gyflawnir mewn un gair, yn 14
hyn, Car dy gymydog fel ti dy hun. Ond os cnoi a thraflyncu 15
eich gilydd yr ydych, gwyliwch na ddyfether chwi gan eich gil-
ydd.

Ac yr wyf yn dywedyd, Rhodiwch yn yr Ysbryd, ac mewn un 16

17 modd na chyflawnwch drachwant y cnawd. Canys y mae y cnawd
yn chwennychu yn erbyn yr Ysbyd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd;
canys y rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur
18 y pethau a ddymunoch. Ond os gan yr Ysbryd y'ch arweinir, nid
19 ydych dan y ddeddf. Yn awr amlwg yw gweithredoedd y cnawd,
20 y cyfryw ydynt odineb, aflendid, anlladrwydd, delw-addoliaeth,
swyn-gyfaredd, casineb, cynhen, gwynfydau, llid, ymrysonau, rhan-
21 iadau, pleidiau, cenfigenau, meddwdod, cyfeddach, a chyffelyb i'r
rhai hyn: am y rhai yr wyf yn eich rhagrybuddio chwi, megys y
rhagrybuddiais, na chaiff y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw
22 bethau etifeddu teyrnas Dduw. Eithr ffrwyth yr Ysbryd yw
cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymwynasgarwch, daioni,
23 ffydd, addfwynder, hunan-lywodraeth: yn erbyn y cyfryw nid oes
24 deddf. A'r rhai sydd yn eiddo Crist Iesu, a groeshoeliasant y
cnawd, gyda'i wyniau a'i chwantau.
25 Os byw yr ydym trwy yr Ysbryd, rhodiwn hefyd yn yr Ysbryd.
26 Na fyddwn wag-ogoneddgar, gan gythruddo ein gilydd, gan gen-
figenu wrth ein gilydd.
VI. Frodyr, os hefyd y goddiweddir dyn ar ryw fai, chwychwi y rhai
ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder; gan
2 edrych atat dy hun rhag dy demtio dithau. Dygwch feichiau eich
3 gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Crist. Oblegid os tybia neb
ei fod yn rhywbeth, heb fod yn ddim, y mae efe yn ei dwyllo ei
4 hun. Eithr profed pob un ei waith ei hun, ac yna caiff orfoledd am
5 dano ei hun yn unig, ac nid am arall. Canys pob un a ddwg ei
faich ei hun.
6 Ond cyfraned yr hwn a ddysgwyd yn y gair â'r hwn sydd yn ei
7 ddysgu ymhob peth da. Na thwyller chwi; ni watwarir Duw:
8 canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fêd efe. Canys yr hwn
sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a fêd lygredigaeth; ond
yr hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fêd fywyd tragywy-
9 wyddol. Eithr yn gwneuthur daioni na ddiogwn; canys mewn
10 iawn bryd y medwn, oni ddiffygiwn. Am hyny, tra yr ydym yn
cael amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb, ond yn enwedig i'r rhai
sydd o deulu y ffydd.
11 Gwelwch mewn cymaint llythyrenau yr ysgrifenais atoch â'm llaw
fy hun. Cynifer ag sydd yn dymuno ymddangos yn dêg yn y
12 cnawd, y rhai hyn sydd yn eich gorfodi i gymeryd eich enwaedu, yn
13 unig fel nad erlidier hwy oblegid croes Crist. Canys nid yw y rhai
a enwaedir eu hunain yn cadw y ddeddf; ond y maent yn dymuno
ar i chwi gael enwaedu arnoch, fel yr ymffrostiont yn eich cnawd
14 chwi. Eithr na ato Duw i mi ymffrostio ond yn nghroes ein Har-
glwydd Iesu Grist, trwy ba un y croeshoeliwyd y byd i mi, a minnau
15 i'r byd. Canys nid ydyw enwaediad ddim, na dienwaediad, ond
16 creadur newydd. A chynifer ag a rodiant yn ol y rheol hon, tang-
nefedd arnynt, a thrugaredd, ac ar Israel Duw.
17 Bellach, na flined neb fi: canys dwyn yr ydwyf wedi eu gosod yn
fy nghorff nodau yr Iesu.
18 Gras ein Harglwydd Iesu Grist a fyddo gyda'ch ysbryd chwi,
frodyr. Amen.

# NODIADAU LLENYDDOL.

*Songs Unsung.* By Lewis Morris of Penbryn, M.A., Honorary Fellow of Jesus College, Oxford, Knight of the Redeemer of Greece, etc., etc. Second Edition. London: Kegan Paul, Trench and Co.

Hyfryd ydyw gweled fod Mr. Lewis Morris wedi cael dychwelyd i gymdeithas yr Awenau, a da genym groesawu cyfrol arall—*Caniadau Anghanedig*—o'i gyfansoddiadau barddonol. Yr oedd ychydig o'r darnau sydd yn y llyfr wedi ymddangos o'r blaen yn rhai o'r cyhoeddiadau Seisonig, ond mae y rhan fwyaf o lawer heb eu cyhoeddi o gwbl. Mae yn hyfrydwch mawr gweled y llyfr hwn o'i eiddo, yr un fath a'i ragflaenoriaid, yn cael derbyniad mor groesawus. Mae y wasg Seisonig yn ei fawrhâu yn galonog; a diammeu ei fod yn llawer o sirioldeb i feddwl Mr. Morris fod gŵr o allu a chwaeth lenyddol Mr. Gladstone yn ysgrifenu ato mewn ymadroddion mor gryfion am y mwynhâd a gawsai wrth ei ddarllen, a'r farn uchel a goleddai am dano. Tra y mae y darnau hyn yn dangos yr un rhagoriaethau ag a gododd yr awdwr yn y llyfrau blaenorol ymron ar unwaith i'r lle uchaf ymysg beirdd yr oes, y maent hefyd trwy eu newydd-deb a'u tlysni yn dangos fod y wythïen o farddoniaeth sydd yn ei ysbryd yn dra phell o fod wedi ei gweithio allan, ac fod ganddo guddiad cryfder sydd eto yn alluog o lawer o wasanaeth gwerthfawr. Gwelsom un beirniad yn ammeu melodedd ei linellau. Fe allai mai y rheswm am hyny oedd nad ydoedd y gŵr hwnw wedi rhoddi iddynt yr ymwrandawiad sydd yn angenrheidiol er cael allan eu miwsig. Mae Mr. Morris yn hyn, fel mewn pethau eraill, ac fel y dywedai Goethe am Schiller, fel yn benderfynol o ymgodi uwchlaw cyffredinedd. Mae amryw o'i ddarnau yn ffurf yr Odl, yr *Ode*, a'r llinellau yn fynych yn amrywio o ran hŷd a chorfan, er rhoddi dadganiad llawnach i'r meddwl a'r teimlad a'i meddiannai ar y pryd; ond o ymwrando â hwynt fe geir eu bod yn

Musical as is Apollo's lyre.

Mae eraill â'u saernïaeth yn ymddangos mor hynod o syml fel y gallai dyn feddwl nad oedd gamp yn y byd eu bwrw at eu gilydd; ond, chwedl Horace, fe "chwysai" llawer un fwy nag a feddyliai wrth geisio gwneyd eu cyffelyb. Yr ydym ni ein hunain, o fod ar y dechreu yn petruso am rai llinellau a oeddynt yn rhythmig o gwbl, wedi eu cael ar ol hyny

Like linked sweetness long drawn out,

ac yn gwella bob tro y darllenem hwynt; ac y mae symledd a noethder y lleill, o ystyried eu perffaith gyfaddasder i'r syniadau, yn ennill ein hedmygedd ar gyfrif eu celfyddgarwch a'u gorphenrwydd. Ac fel yn ei fydr, felly hefyd yn ei eiriadaeth, mae yn rhaid iddo gael pob gair a phob brawddeg i ddangos yn y ffordd oreu fawredd, nerth, awgrymiadolrwydd, tynerwch, neu dlysni y syniadau. Cawsom hyfrydwch wrth astudio taflen fechan o *errata* a geir i wynebu y cynnwysiad. Pan gyhoeddir peth felly yn gyffredin, fe deimlir ei fod yn ddigon i gywiro amryfuseddau y wasg; ac er fod rhai o'r cyweiriadau hyn felly, eto mae yn amlwg fod y rhai pwysicaf yn ffurfiau mwy gorphenol ar eiriadaeth yr awdwr, ond fod yr alwad am ail argraffiad, dybygid, yn rhy uchel i gymeryd hamdden i gyfnewid y *stereotype*.

Am y cyfansoddiadau, y maent yn dra amrywiol, ond oll yn dangos meddwl cryf a goleu, cydnabyddiaeth dra eang â meddwl y byd, coethder ysgolheigaidd, ac awen o'r iawn ryw. Mae yn dangos llawer o gyfoeth yn yr awgrymiadolrwydd sydd yn nodwedd mor arbenig ar ei gyfansoddiadau. Mae ganddo dair cyfres o Ddarluniau, "*Pictures*," a mater wedi ei grynhoi i bob pennill a wnelai, nid yn unig "ddarlun" da yn llaw *artist*, ond y mae yn rhyfedd pa fodd y gallodd y bardd ochel y demtasiwn o'i wneyd yn gân. Desgrifia "Noswaith yn Naples,"

Where the faithful of Naples who love their priest
May find their faith and their wealth increased,

lle y gosodir ger bron y cyfuniad mwyaf gwrthun o goelgrefydd a rhaib ynglŷn â gwyl y meirw a'r *lotteries*, a diweddir yn sydyn fel yma,—

* * * * *

It was long, long ago, in far-off Judæa,
That they slew Him of old, whom these slay to-day;
They slew Him of old, in far-off Judæa,—
It is long, long ago; it was far, far away!

Nid ydym yn malio llawer am sêr-nodau, oblegid yr ydym wedi eu gweled gynifer o weithiau yn cael eu taflu dros dlodi nad oedd yn bosibl iddynt ei orchuddio; ond mae y sêr-nodau uchod, mewn cysylltiad â'r hyn sydd yn eu rhagflaenu, ac yn enwedig mewn cysylltiad â'r awgrym tawel ond ofnadwy sydd yn eu dilyn, yn peri i chwi feddwl cymaint. Yr offeiriaid Pabaidd yn Naples, ac yn awr, wedi i'r goleuni o'r nef fod cyhyd yn llewyrchu ar y byd, yn gwneyd crefydd Crist yn gochl i'r fath aflendid ac anghyfiawnder!

Yn hir, hir yn ol, yn ngwlad bell Judea,
Lladdasant Ef gynt, a ladd rhai 'n yn well;
Lladdasant Ef gynt, yn ngwlad bell Judea,—
Yn hir, hir yn ol; a draw, draw yn mhell!

Fe fyddai yn addysgiadol i'n beirdd ieuainc weled mor fedrus y mae y bardd hwn yn gallu adrodd ystori. Buasai llawer yn meddwl na allesid adrodd yn farddonol ystoriau Niobe, ac Odatis, a St. Christopher, a "Clytemnæstra yn Paris" (Madame Fenayron, 1882), heb bentyru arnynt beth anferth o addurniadau, a'u gwneyd yn bethau cwbl wahanol i'r hyn oeddynt; ond y mae Mr. Morris yn "glynu wrth ei destun" ymhob un o honynt gyda manylrwydd llythyrenol ymron, ac eto yr ydych yn teimlo fod y chwedl wedi ei throi yn farddoniaeth fyw. Yr oedd yr hanes am y llofruddiaeth yn Paris y llynedd, pan ddarfu i'r wraig hono, gyda'i gŵr a'i brawd yn nghyfraith, ddial mor ofnadwy ar y carwr oedd wedi ei gadael, yn adgas ac arswydus; ond y mae y bardd, trwy ddychymygu ei fod yn ymweled â'r wraig hono yn y carchar, ac yn gwrando ei hystori arswydus o'i genau ei hun, wedi llwyddo i osod o'n blaen farddoniaeth a bâr i ni deimlo na ryfygai lawer wrth ei chysylltu âg enw sydd yn gyfunedig yn meddwl yr oesoedd â barddoniaeth oreu y byd.

Even as she spake
I seemed to be again as when I saw
The murderess of old time; and once again
Within this modern prison, blank and white,
There came the viewless trouble in the air
Which took her, and the sweep of wings unseen,
And terrible sounds which swooped on her and hushed
Her voice and seemed to occupy her soul
With horror and despair; and as I passed
The crucifix within the corridor,
"How long?" I cried, "How long?"

Fe allai mai y cyfansoddiad rhagoraf yn y llyfr, a'r un y mae yr awdwr ynddo, trwy ei feddylgarwch a'i ddoethineb, yn gystal â thrwy ei awen ysbrydol a dwfn grefyddolder ei ysbryd, wedi gwneyd y cyfraniad gwerthfawrocaf i gyfarfod â sefyllfa y meddwl Prydainig yn y dyddiau hyn, ydyw "The New Creed." Y mae wedi cyfarfod â geneth, ac mewn ymddyddan wedi dyweyd wrthi nad oedd efe yn teimlo greddfndod at y meirw annheilwng, fod yn well iddynt bydru; am yr hawddgar, y cariadus, a'r cyfiawn, y maent hwy yn gwneyd llwch sanctaidd, a chânt enedigaeth newydd mewn lle gwell; a chyn symudiad y naill a'r llall, pa un bynag ai i wynfyd ai i waradwydd, fod yn well iddynt orphwys, a bod am yspaid yn farw. "Nid oes unlle arall," ebe'r eneth.

"There is nowhere else," she said.

Mae hyn ar unwaith yn ei arwain at y "Credo Newydd" hwn sydd mewn rhyw gylchoedd yn ennill cymaint o le yn meddyliau dynion y dyddiau hyn. Nis gall y bardd lai na dwfn deimlo o glywed y fath eiriau o enau geneth, yr hon oedd wedi ei gosod yn nghanol gobeithion dysglaer bywyd, ac eto yn ei chau ei hun yn y fath anobaith am yr ochr draw.

Oh girl, who amid sunny ways dost tread,
What curse is this that blights that comely head?
For right or wrong there is no further place than here
No sanctities of hope, no chastening fear?
"There is nowhere else," she said.

Yn wyneb desgrifiad ar ol desgrifiad o ddwfn drueni y fath chwalfa ar ein gobeithion mwyaf teg a rhesymol, y byrdwn gan yr eneth o hyd yw, "Nid oes unlle arall." Pe buasai y rhai y mae ffordd bywyd wedi bod yn arw iddynt yn dyweyd felly, ni fuasai mor ryfedd; ond gwell iddi hi fuasai pob trueni a ofnir gan ddynion na bod wedi ei chau i fyny yn y fath dywyllwch. "Nid oes dim ond Nerth," dyma y credo truenus y mae wedi ei dysgu ynddo. Nerth, a dim arall, ydyw tarddiad, a bywyd, a threfn y cyfan oll. Drachefn a thrachefn y mae calon y bardd yn myned allan mewn syndod a thosturi wrth feddwl am y fath un, a ddylasai fod yn ymheulo mewn daioni a chariad, wedi gollwng o'i gafael obeithion y dyfodol.

For us, for us, who mid the weary strife
And jangling discords of our life
Are day by day opprest,
'Twere little wonder were our souls distrest,
God, and the life to be, and all our trust
Being far from us expelled and thrust;
But for you, child, who cannot know at all
To what hidden laws we stand or fall,
To what bad heights the wrong within may grow,
To what dark deeps the stream of hopeless lives may flow!

Ac yna aiff rhagddo gyda rhesymeg o anorchfygol nerth, ac ar dân gan deimlad, i ddangos dwfn afresymoldeb ac anferth wrthuni y fath gredíniaeth. Baldorddded dynion a fynont, nid yw yn ngallu Nerth ymddyrchafu i uchelderau Ewyllys. Ond y mae pobpeth sydd o'n hamgylch ni yn dwyn argoelion diymwad eu bod yn gynnyrchion Ewyllys; ac ni all hono fod yn amgen nag Ewyllys yr Anfeidrol. Yr hwn sydd yn gweled pethau yn iawn, y mae yn y cwbl yn gweled Duw, ac yn addoli.

And every thing that is, to his rapt fancy brings
The hidden beat through space of the Eternal Wings.

Hyderwn y bydd y gân arddercbog hon yn cyrhaedd llawer ysbryd helbulus, ac yn profi fod "meddyginiaeth yn ei hesgyll."

Ni fyddai ond ofer i ni geisio galw sylw at lawer o ddarnau eraill yn y llyfr a ddarllenasom gyda llawer o foddhâd, ac a ddarllenwn, mae yn dra thebyg, drachefn a thrachefn eto. Yn unig ni a osodwn o flaen y darllenydd yr adsain Gymreig a ganlyn o un gân —*The Lesson of Time*—fel engraifft o'r ysbryd rhagorol sydd yn llywodraethu ein cydwladwr.

## GWERS AMSER.

ARWAIN fi, Ysbryd mawr y Byd, a mi
Yn ewyllysgar a'th ddilynaf Di;
Nid gyda segur fryd ammheuwr gwael,
Neu 'n ceisio 'n ddall am dda nad yw i'w gael

Can's daethum er's hir amser i'r llawn ddydd,
Boreuol niwl yr hwn ar chwâl y sydd—
Dystaw brydnawn pan yn y wybr faith
Bron saif yr Haul cyn cwblhâu ei daith,

Tawel fel afon drwy y ddôl ymlêd,
'R hon mwy i lawr y creigiau ni chwyrn red,
Ond, mewn clir luniau yn ei thawel ddŵr
Ddeil fel yn nghwsg glochdŷ a choed a thŵr.

Mor hen-a llwm y ffugyr, hen ei wedd
Fel chwedl am ddysgwyliadau sy 'n eu bedd!
Ieuanc fel awyr Gwanwyn, bob dydd rwydd
Anadla ar ieuanc fywyd, er ei lwydd.

Fe 'i gwyddai Rhufain, gyda 'r Groegaidd dir;
Assyria a'r Aipht brofent ei fod yn wir;
Hwy gaent, am brid ogoniant ie'nctyd hoendeg
Fywyd mwy claer—tawelach lanw 'n rhedeg.

Mewn anghof maent, ac a'u blaenorai hwy,
Enw a hil pa rai ni wyddom mwy,
I'r rhai, O Ysbryd mawr y Byd a Dyn,
O'r cynfyd y dadguddiaist Di dy hun,—

Teimlent, fel finnau, yr hyn sydd fyth guddiedig,
Cyffyrddent yn y gwyll â llaw guddiedig;
Eu teg obeithion oll i wywdra 'n arwain,
A chaent unigrwydd wnaethent hwy eu hunain;

Daethent, fel finnau, at ddiammheuol obaith,
Er i haul, lleuad, a'r holl wir ser fyn'd ymaith;
Peidiasant, tra ger llaw llais oedd glywedig,
"Nac ofna, cred; mae 'r meirw 'n wynfydedig."

Fy mrodyr oeddynt—o'r un gwaed â mi,
'R un modd â'r rhai na anwyd, fyrdd diri';
Fel hwy i godi a syrthio yr wyf yn rhydd;
'R wy 'n dysgwyl am gyfodiad Perffaith Ddydd.

'R wy 'n foddlawn, dawel, Ysbryd, arwain fi
I lwyr ymdreulio fel y mynech Di.
Dy eiddo wyf, a mwy nid ymrysonaf:
Estyn dy law, yn ddystaw mi 'th ganlynaf.

Pris y gyfrol ydyw 6s.

*The Freedom of Faith.* By THEODORE T. MUNGER, Author of "The Threshold." London: James Clarke and Co.

YMDDENGYS fod y llyfr hwn wedi cael derbyniad croesawus yn America, ac fe ellid meddwl fod darllen mawr arno yn y deyrnas hon hefyd. Fe'i gwerthid y tu draw i'r Werydd am 7s. 6c.; ond mae yr argraffiad hwn yma i'w gael am 3s. 6c.

Gorchwyl mawr a phwysig, mae yn ddiammeu, ydyw cadw duwinyddiaeth, tra heb ollwng i golli elfenau ei bywyd, mewn cyfaddasder parhâus i anghenion arbenig yr amseroedd. Yn yr ystyr yma y mae llawer ffurf wedi bod arni o ddyddiau yr Apostolion hyd y dyddiau hyn. Y mae amrywiaeth tra mawr wedi bod yn y dylanwadau sydd ar wahanol gyfnodau wedi rhoddi eu ffurf neillduol i feddwl y byd; a chan fod yr anhawsderau a deimlir ynglŷn â Christionogaeth ymhob cyfnod yn codi oddiar nodweddion arbenig meddwl y cyfnod hwnw, y mae yn gorwedd yn siars ar y rhai sydd yn caru ei llwyddiant i ymdrechu cael allan ymha ffordd y mae ei gwirionedd tragywyddol hi yn gallu cyfarfod ac esbonio ymaith yr anhawsderau a gyfodant o oes i oes. Prin y mae eisieu dyweyd mai y rhai sydd yn treiddio ddyfnaf i'w gwirionedd a'i hysbryd ydyw y rhai sydd bob amser yn fwyaf llwyddiannus i esbonio yr anhawsderau, ac mai gweithiau y rhai hyny yw y rhai sydd yn myned i lawr gyda'r oesoedd ac yn cael eu cydnabod fel yn rhoddi yr eglurhâd goreu ar y gair "sydd yn aros yn dragywydd." Y mae y llyfr hwn yn ymgais tra egnïol i wneyd y gwasanaeth hwn i'r gwirionedd gyda golwg ar y pethau a brofir yn anhawdd y dyddiau hyn. Y mae yn gynnwysedig o ragdraethawd ar yr hyn a elwir "Y Dduwinyddiaeth Newydd," ynghyd a dwy ar bymtheg o bregethau ar faterion y teimlir eu bod, i fesur mwy neu lai, yn bynciau y dydd. Y mae gallu yr awdwr yn ddiammheuol. Felly hefyd ei annibyniaeth. Y mae drachefn a thrachefn yn gwrthdystio yn erbyn yr uchafiaeth a roddir i dduwinyddiaeth Awstin a'r Diwygiad Protestanaidd, a hyny, fel y golyga efe, ar draul esgeuluso llafur diweddarach, ac yn enwedig golygiadau y canrifoedd cyntaf, os nad hefyd ar draul gormod dibrisdod o'r Efengyl ei hunan. Y mae yn ddigllawn wrth y drychfeddwl o geisio gwneyd cyfundraeth o wirioneddau yr Efengyl, gan ddal mai gogoniant y "Ffydd" ydyw ei "Rhyddid." Ond er ceisio "gyru natur allan â fforch y mae yn dychwelyd drachefn," ac felly y mae yr awdwr yma, er protestio yn erbyn cyfundraeth, eto mewn dull arall, yn ddiarwybod fe allai iddo ei hun, yn gwneuthur cyfundraeth. Ac y mae hyny yn anocheladwy. Fel y mae yn anmhosibl i ni feddwl am ddim mewn ffordd o geisio ei ddeall, heb ymdrechu cael allan ei egwyddorion cyffredinol neu ei ddeddfau, felly ni allwn astudio y Bibl heb ymdrechu cael allan yr egwyddorion sydd yn ei nodweddu yntau, y rhai, wedi cael gafael arnynt yr ydym yn gyffredin yn son am danynt fel athrawiaethau, neu y pethau a ddysgir yn y Llyfr Sanctaidd. Ac i'r graddau y tybiwn ein bod yn llwyddo i gael allan yr egwyddorion hyny, ac yn enwedig i ddeall eu cydberthynas y naill â'r llall, yr ydym hefyd yn tybied ein bod wedi cael gafael ar ddrychfeddwl y Llyfr, ac felly o angenrheidrwydd yr ydym yn ffurfio ein cyfundraeth. Pell iawn ydym o feddwl fod y ffurfiau neu y *formulas* neillduol y disgynir arnynt gan unrhyw oes i fod, o angenrheidrwydd, yn rhwymedig ar feddwl neu gydwybod oesoedd eraill, oblegid y mae gwirionedd Duw yn eangach na'r holl ffurfiau, ac y mae hanesyddiaeth yn ein dysgu yn bur eglur fod ganddo, o'i ddeongli yn briodol, genadwri ar gyfer pob oes. Ond yr ydym yn gweled, yn nhreiglad oesoedd, fod rhai amseroedd yn cael eu nodweddu gan ddeffroad neillduol ar feddyliau dynion, ac yn yr amseroedd hyny fod rhai dynion, fel yr ymddyrcha y Wyddfa goruwch y mynyddoedd, yn ymgodi lawer uwchlaw yr oll o'u cydoeswyr; ac yn sicr nid ydys i ryfeddu os ydyw golygiadau rhai felly yn cario dylanwad ar genedlaethau lawer. Mae yn ddigon tebyg fod cryn lawer o'r pethau a ddywedent wrth eu hamseroedd

neillduol eu hunain ag y gallai y byd, oddieithr am y dyddordeb hanesyddol allai fod ynddynt, fforddio eu hanghofio; ond am y pethau a ddywedent, fel efrydwyr dyfnion o wirionedd Duw wrth ddynolryw ac wrth yr oesoedd, ni allwm lai na bod yn fawr ar ein colled o'u dibrisio. Ac eto gyda y fath hyder difesur y mae rhai o feebgyn y dyddiau hyn, na fuasent yn deilwng i ddattod carai eu hesgidiau, yn bwrw eu dirmyg ar y cedyrn hyny! Y maent yn gyfundraethwyr, bid siwr, ac am hyny nid ydynt yn werth sylw. Ymryson ynghylch geiriau, *logomachies*, ydyw y cwbl. Yn yr oes hon, gyda'i rhyddid a'i heangder a'i holl ddiwylliad, y mae y pethau yna i'w gadael i lithro yn dawel i ebargofiant, ac yr ydym ninnau i ddilyn goleuni y dyddiau hyn, sydd mor ddiammheuol yn llewyrchu o ffynnonell fawr y gwirionedd tragywyddol! Ond nid ydym ni mor sicr o'r Efengyl newydd hon. Nid oes ddiffyg ar ei honiadusrwydd, ac mae yn debyg fod hyny, yn enwedig i rai o'n pobl ieuainc, yn gwasanaethu fel gwarant ddiammheuol o'i hawdurdod. Ond am rai sydd wedi ymgydnabyddu i fesur â hanes y damcaniaethau sydd wedi bod yn cael eu dwyn ymlaen, fe deimlant hwy fod yn ddyledswydd arnynt "brofi yr ysbrydion." Ac ar unwaith, y mae gwaith Mr. Munger, a llawer eraill sydd yn perthyn i'r un ysgol, yn protestio cymaint yn erbyn cyfundraethu ar athrawiaeth yr Efengyl, tra y maent mewn ffordd arall yn cyfundraethu eu hunain, ond yn unig eu bod yn gwneyd hyny mewn dull mwy anghelfyddd, ac heb gymeryd i ystyriaeth ond rhanau o'r gwirionedd,—yn ymddangos yn ammheus. Proffesir yma fod y dduwinyddiaeth newydd "yn cymeryd fel yr eiddo ei hun y resymeg a geir yn Macbeth, a Hamlet, a'r Scarlet Letter, yn Prometheus a Job, yn namegion y Defaid a'r Geifr, a'r Mab Afradlon, a'r Ddafad a gollasid,—rhesymeg na ellir yn hawdd ei gweithio i gyfundraeth, ond sydd mor gyfundraethol â bywyd dynol. Amcana yn syml at resymeg a weithir i drefn y byd fel y mae bob dydd yn cael ei dwyn allan dan ysbrydoliaeth Tragywyddol Ddoethineb a Chariad." Mae yn ddiau fod rhai wedi cymeryd eu cyfyngu i raddau gormodol gan gyfundraethau; ond ni allwn ni weled pa resymeg allai fod yn y gweithiau dynol a grybwyllir uchod nad ydyw i'w chael yn y Bibl, ac yn wir wedi ei chymeryd o hono; neu beth a allai fod yn y damegion a grybwyllir nad ydyw i'w gael yr un ffunud yn yr holl ddadguddiad. Ac am weithio i gyfundraeth, mae yn amlwg fod yr awdwr hwn ei hunan, fel yn wir bob efrydydd o'r Gair, yn gwneyd hyny; ond gyda hyn o anfantais, fod ei ymdrech i bregethu "Rhyddid y Ffydd" yn ei rwystro i feddwl yn ddigon trwyadl, a'i fod o herwydd hyny yn syrthio i anghysonderau. Er engraifft, y mae yn gwrthod rhai athrawiaethau ag y cydnebydd yr ymddengys yn bur amlwg eu bod yn cael eu dysgu yn y Gair, megys athrawiaeth yr iawn ac ailenedigaeth, am eu bod yn ddirgelwch ac yn ymddangos yn anghyson â rheswn, ac am hyny yn eu priodoli i ddulliau amseroedd neillduol o feddwl, neu yn ceisio eu diystyru fel math o gyfaredd; ond fe'i ceir yn derbyn rhai eraill sydd yr un mor anamgyffredadwy, ac y dywedai rhai eu bod yr un mor groes i reswm, a hyny yn arbenig *oblegid* eu dirgelwch. Er mwyn gwneyd yn ddigon clir y gwrthgyferbyniad rhwng y dduwinyddiaeth "newydd" a'r "hen," y mae weithiau yn methu gochel y demtasiwn o wneyd ei ddesgrifiad o'r hen i raddau yn anfertholun; ac o'r ochr arall yn bòni i'r newydd, weithiau, ragoriaethau sydd yn gyffredin i bob duwinyddiaeth sydd o gwbl yn deilwng o'r enw. Ond er hyn oll ni all unrhyw ddyn meddylgar ddarllen ei lyfr heb lawer o hyfrydwch ac adeiladaeth. Y mae drwyddo yn llawn difrifwch ac ysbrydolrwydd, ac yn fynych yn cynnwys tremiadau i wirionedd Duw ag y teimlir eu bod yn myned ymhell, ac yn gadael argraff annileadwy ar y meddwl. Cynnwysa amryw bethau na allant aros ond "dros amser," a thipyn o *tall talk*, neu siarad mawr Americanaidd, sydd yn annheilwng o urddas a mawredd y materion yr ymdrina â hwynt; ond y mae ar yr un pryd yn gyfoethog o feddyliau bywiol a chryfion, ac yn llawn o ddwfn barchedigaeth wrth son am y pethau sydd i bawb o honom o'r fath anfeidrol bwys.

Y mae yn iawn sylwi fod yr awdwr ei hunan yn addef nad ydyw y geiriau Duwinyddiaeth Newydd yn addas i ddynodi yr hyn y dymuna alw sylw ato, ac mai mwy priodol fyddai golygu y peth fel Adfywiad, "gan nad ydyw y syniadau sydd yn awr yn nofio yn meddyliau dynion, ac yn debyg o risialeiddio i ffurf, o darddiad diweddar, ond wedi ffynu yn nghanrifoedd cyntaf yr eglwys, pan redai y ffrwd yn glir o'r ffynnon, ac wedi bod yn dyfod i'r golwg o bryd i bryd yn barhâus wedi hyny yn meddyliau dynion unigol ac ysgolion." Diau y myn eryn nifer o'n darllenwyr astudio y llyfr eu hunain, ond am lawer o honynt ag y gwyddom eu bod yn cymeryd y dyddordeb dyfnaf mewn trafodaethau o'r fath, ond na allent fwynhâu y llyfr, mae yn sicr y teimlent yn ddiolchgar am gael syniad beth allai fod prif deithi yr "Adfywiad" duwinyddol sydd yn ymgymeryd â'r gorchwyl mawr o ddwyn gwirionedd yr Efengyl i gyfarfod â meddwl y genedlaeth hon. Dangosir yn nacäol, 1. Nad ydyw yn cynnyg gwneyd heb dduwinyddiaeth. Golyga dduwinyddiaeth fel casgliad oddiwrth ddadguddiadau Duw—yn y Bibl, mewn hanesyddiaeth, yn y genedl, yn y teulu, yn y greadigaeth faterol, ac yn holl hyd a lled bywyd dynol. 2. Nid ydyw yn ymadael oddiwrth ffydd hanesyddol yr eglwys, ond ceisia osod ei hun yn ei llinell tra yn cydnabod cwrs o ddadblygiad. 3. Nid ydyw yn gwrthod athrawiaethau neillduol eglwys y gorphenol, er ei bod yn eu dal mewn goleuni sydd i fesur yn wahanol. 4. Nid ydyw o dymher ddelwddrylliol, ond yn tueddu yn hytrach at adeiladu na chwalu. 5. Nid ydyw yn ceisio am faes y tu allan i eglwysi sydd yn bresennol yn bod, am yr ystyria ei bod yn adeiladu ar y sylfaen dragywyddol sydd yn unig wedi bod yn nerth i'r eglwys ymhob oes. Ac am ei nodweddion arbenig, fe'u rhoddir fel y canlyn:— 1. Hawlia iddi ei hun ddefnydd helaethach o'r rheswm nag a ganiatäwyd i dduwinyddiaeth. 2. Ceisia ddeongli yr Ysgrythyrau mewn ffordd fwy naturiol, yn wrthgyferbyniol i ffordd galed, ffurfiol, ddi-gydymdeimlad, a di-ddychymyg. 3. Ceisia' wneyd i fyny am y gormod arbenigrwydd a roddid i'r person unigol trwy olwg fwy cywir ar undeb yr hiliogaeth. 4. Cydnabydda berthynas newydd â gwyddoniaeth naturiol, ond trwy ommedd cydnabod yr hir wrthwynebiad ymddangosiadol rhwng teyrnas ffydd a theyrnas deddf naturiol,—gwrthwynebiad nad allai, yn natur pethau, fod un sail iddo. 5. Y mae yn wrthgyferbyniol i'r hen dduwinyddiaeth fel yr hawlia iddi ei hun efrydiaeth eangach o ddyn. 6. Cydnabydda yr angenrheidrwydd am addadganiad o gred yn y pethau diweddaf, a thrwy hyny wneyd i ffordd â'r syniadau a dderbynir yn gyffredin am yr adgyfodiad, y farn, a'r gosbedigaeth dragywyddol; ac yn lle hyny credu fod yr adgyfodiad yn cymeryd lle yn marwolaeth, na fydd barn gyffredinol, ac fod y gosb mewn byd arall i derfynu mewn adferiad i bob dyn.

Fe wêl y darllenydd, am holl bethau da y dduwinyddiaeth newydd hon, eu bod yn naturiol, ac i fesur helaeth, yn cymeryd eu lle y dyddiau hyn yn y dduwinyddiaeth a ddysgir yn Nghymru; ond am y pethau eraill,—y damcaniaethau anmhrofedig,—fod pulpudau a chyhoeddiadau ein hanwyl wlad, trwy ras Duw, yn ymgadw yn rhagorol oddiwrthynt. Y mae gwirionedd mor eang â Duw, a gwirionedd Duw ydyw; am hyny ni raid i ni ofni unrhyw oleuni newydd a aller gael arno, deued o'r man y delo; yn wir dylem lawenychu o'i blegid fel dadguddiad ychwanegol o ogoniant yr Anfeidrol. Ar yr un pryd yr ydym i gredu yn y gwirionedd fel gwirionedd; os nad ydym bob amser yn deall ei gydberthynas â gwirioneddau eraill, ein braint ydyw ei gredu ac addoli yn yr olwg ar y dirgelwch, ac ni ddylem am fynyd, mewn trefn i'w wneyd yn gyson â rheswm, feddwl am ei esbonio ymaith. Mae safon gwirionedd, gan ei fod yn Nuw, yn uwch na ni. Mae llawer o wirioneddau â'u seiliau mor sicr yn ein natur ni ein hunain ag y dichon eu bod yn y dadguddiad; y mae eraill ag yr ydym yn rhwymedig am danynt i ddadguddiad yn unig; ac y mae yn deilwng i ni gofio fod y dadguddiad hwnw ei hunan yn dysgu yn amlwg fod llawer o honynt o'r fath natur fel na allwn eu derbyn ond ar dir ffydd, ac yn ngoleuni dwyfol ddadguddiad. Ein prif gweryl yn erbyn y dduwinyddiaeth newydd a ddygir o'n

blaen yn y gyfrol hon ydyw, nid ei bod yn gwneyd gormod o bob goleuni a all ein cynnorthwyo i amgyffred pethau mawrion ein tynged, ond ei bod yn gwneyd rhy fach o'r goleuni *arbenig* sydd yn llewyrchu o'r orseddfainc, o'r hwn y tardda ein gobaith. ac yn yr hwn y mae ein didranc wynfyd.

Wedi dyweyd hyn, nid oes genym ond canmawl y llyfr. Y mae y pregethau yn *fresh* a meddylgar a da. Un engraifft: *Bywyd yn Ennill.* Wrth son am a ennillir wrth fyned rhagom mewn dyddiau, wedi nodi 1. Y cyfodiad oddiwrth yr isaf at yr uchaf; 2. Yr ennill mewn amynedd, ac ar y cyfan dyoddef llai; 3. Fel y mae y meddwl yn dyfod yn fwy tawel, a'r farn yn tyfu i'w llawn nerth: yna sylwir yn 4. Fod ennill mawr yn mlynyddoedd olaf bywyd mewn ffurfiau neillduol o gariad a chydymdeimlad. Ac ar hyn ceir y sylwadau prydferth a ganlyn:—

Y mae nwyd cariad boreuol, ei hanner hunanoldeb, a chyfyngiad a rhagfarn cydymdeimlad boreuol, yn myned heibio; ond y mae cariad ei hunan yn aros yn ei holl nerth, yn fwy pur, yn fwy tawel, yn fwy cyffredinol. Y mae yn cymeryd gwedd o gynhesiad ymysgaroedd; tosturia, maddeua ac edrycha dros bethau, dyoddefa a gobeithia ac anghofia, ac felly mae fel cariad Duw ei hun. Y mae cariad boreuol yn angerddol, ond y mae heb wybodaeth; eithr y mae un henaint yn dawel ac eang am ei fod yn ddoeth. Yn neillduol y mae y gras o gariad *(charity)* yn perthyn i flynyddoedd cyflawn. Mae yr hen yn fwy trugarog na'r ieuainc; barnant yn fwy caredig a maddeuant yn fwy rhwydd. Am hyny y maent yn ddysgyblwyr sâl, ond eu bai yn hytrach yw eu rhinwedd; ni elwir hwynt i'r ddyledswydd hono. Y mae y ffurf gyfnewidiol ac eangol yma ar brif egwyddor ein natur o fawr arwyddocâd yn y mater sydd o'n blaen. Nid ydym un amser heb fod dan ei gallu; ar y dechreu yn reddf, yna yn nwyd ymwybodol at un, ond yn ddall; yna yn dynerwch sydd yn myned i waered at blant, yn ddoethach a mwy amyneddgar; yna yn ymestyniad allan at ddynoliaeth, yn cael ei ysgogi gan gydwybod a'i arwain gan wybodaeth; ac o'r diwedd yn gydymdeimlad tosturiol cyffredinol, sydd yn ei gysylltu ei hun â Thragywyddol Gariad. Dyma ennill sydd anfesurol, yn rhychwantu y lled sydd rhwng greddf anymwybodol plentyn a threfn calon Duw ei hun.

Y mae hefyd yn mlynyddoedd oedran gymysgiad ac ymdoddiad y cynneddfau y naill yn y llall. Mae gan feddwl fwy o ffydd ynddo, a ffydd fwy o feddwl; rheswm fwy o deimlad a theimlad fwy o reswm; mae rhesymeg a syniad yn ymdoddi i'w gilydd; mae gwroldeb yn cael ei dymheru gan gallineb, ac y mae callineb yn cael nerth a gwroldeb gan ddoethineb; mae gan lawenydd ynddo fwy o ofid, a gofid fwy o lawenydd; os ydyw yn llai ei awch, y mae yn cyffwrdd â'r meddwl mewn mwy o fanau, tra y mae gofidiau yn colli eu min trwy syrthio dan holl gylch y cynneddfau. Nid ydyw hen ŵr yn teimlo yr un perlewyg o flaen golygfa âg un iau, ond mae yn ei gweled â mwy o lygaid, a siarad felly; mae ei holl natur yn ei gweled, tra nad ydyw ieuenctyd yn ei gweled ond â'r un llygad o brydferthwch. Mae y gweithrediad unedig yma o eiddo y meddwl, y cydweithrediad yma o eiddo y cynneddfau, yn rhywbeth llawer uwch na phrofiadau dadgysylltiedig bywyd boreuol. Y mae yn debyg i weithrediad y Meddwl Dwyfol ymha un y mae pob gallu yn hydreiddio pob un arall, gan wneyd Duw yn un a pherffaith. Ac mewn dyn y mae yn argoel ei fod yn dynesu at y Meddwl Dwyfol, ac yn dyfod yn barod, megys, i gwmni Duw.

Mae bywyd yn dân, eto nid i fflamio a gwneyd yn lludw, ond i doddi. Cymer anferth gydgyfarfyddiad o ansoddau, a chynneddfau hollol annhebyg ac yn fynych anghytunol, a darostynga hwynt yn gyntaf i gysondeb ac yna i undod. Ystyriwch pa fodd y gwneir dyn i fyny; dan y rhwymyn syml o ymwybyddiaeth, nifer o ansoddion heb fod un ffordd arall yn perthyn i'w gilydd, yn ymladd y naill yn erbyn y llall; nwydau drwg a da, hunanoldeb a chariad, balchder a gostyngeiddrwydd, cynneddfau meddyliol mor annhebyg ar y dechreu fel ag i wrthwynebu eu gilydd; y gynneddf resymegol yn groes i'r dychymyg, rheswm yn erbyn teimlad, y synwyrau yn galw am un ddedfryd a chydwybod am un arall,—y fath fyd ydyw dyn ar y cychwyn. Bywyd ydyw cymmodiad yr amrywiadau a'r gwrthwynebiadau hyn; gall dygiad hyny o amgylch gael ei ddilyn â cholled ymddangosiadol, ond ymddangosiadol yn unig. Y mae deddf cadwraeth nerthoedd yn dal yma fel yn y

byd anianyddol. Yn nhân bywyd, mae y ffurf yn cael ei thoddi ymaith o bob ansawdd, ond yn unig fel y gallo eu nerthoedd redeg ynghyd a chael eu toddi i un nerth cyffredinol a dry at Gyfiawnder Tragywyddol. Felly y mae yn dyfod ymlaen y cwrs a'r ansawdd hwnw ar fywyd a elwir *addfediad.* Pan mae y tyfiant yn naturiol a heb ei lesteirio gan bechod ysgeler a dwfnwreiddiedig, y mae cyfnewidiad a dadblygiad yn cymeryd lle bron yn yr oll a ddesgrifir mor dda gan y gair hwn. Mae y dyn yn addfedu, mae ei galon yn dyfod yn dyner, siarada yn fwy caredig. Y mae arlliw gynauafol gyfoethog yn gorchuddio ei feddyliau a'i weithredoedd. Edrycha i wynebau plant bychain gyda dwfn dynerwch. Fe'i câ yn anhawdd gwahaniaethu rhwng beïau a drygioni yr ieuainc. Ni chasâ mwyach ddim ond celwydd, a hyny am ei fod yn gwrthwynebu y drefn i ba un y mae wedi dyfod. Ni thyn linellau llymion, condemniol ynghylch ymddygiad, ond dywed wrth bob troseddwr, "Dos, ac na phecha mwyach." Mae ei falchder yn marw ymaith; nid ydyw mwyach yn anwylo anrhydedd; ond siarada yn rhydd â'r rhai iselradd ac ni ofna o flaen y mawrion; anghofia ei hen syniadau am urddas, ac y mae yn gwmni i'w arddwr neu i'r Arglwydd. Mae yr ystad yma weithiau yn cael ei hystyried fel gwendid, ac fel pe yn cyfodi oddiar alluoedd wedi marweiddio; ond yr ansoddau moesol wedi dyfod i uchafiaeth ydyw, neu yn hytrach gydbwysedd yr holl nerthoedd. Mae bywyd wedi addfedu ei ffrwythau, ac y mae y dyn yn dechreu teimlo a gweithredu fel Duw. Y mae rhywbeth o'r amynedd a'r cariad a'r doethineb dwyfol yn dechreu dangos ynddo, ac yr ydym yn awr yn gweled paham y gwnaeth Duw ef ar ei ddelw ei hun, ac y rhoddodd iddo ei fywyd i fyw. Os gall bywyd gychwyn o fodolaeth yn unig, ac oddiyno dyfu i fod yn debyg i Dduw, y mae yn werth ei fyw. Ac os ydyw bywyd yn cyraedd mor bell, gallwn fod yn sicr yr ä ymlaen. Os daw at y pwynt o gymeryd gafael ar Dduw, a dechreu teimlo a gweithredu fel Duw, ni lacâ byth ei afael, ni phaid byth a gweithredu mewn dull sydd mor hanfodol a thragywyddol werthfawr. Y mae yr un rheswm am hanfodiad parhâus y fath fôd ag am eiddo Duw ei hun; rhaid i'r hyn sydd fel y Goreu, am y rheswm hwnw, fyw ymlaen gyda y Goreu. Ni allwn fwy synied am Dduw yn goddef i'r fath un fyned allan o fôd nag y byddai i dad da roddi i farwolaeth ei blentyn sydd fwyaf tebyg iddo ei hun o herwydd y tebygolrwydd.

*Old Testament Revision: a Handbook for English Readers.* By ALEXANDER ROBERTS, D.D., Professor of Humanity, St. Andrews, and Member of the New Testament Company of Revisers; Author of "Companion to the Revised Version of the English New Testament," etc. London: Hodder and Stoughton.

GALWASOM sylw o'r blaen at y gyfrol werthfawr o eiddo Dr. Alexander Roberts, "Companion to the Revised Version of the English New Testament." Y mae y chwaer-gyfrol hon wedi ei bwriadau i wneyd yr un gwasanaeth gyda golwg ar yr adgyweiriad o'r cyfieithiad Seisonig o'r Hen Destament, yr hwn, mae yn debyg, a fydd yn fuan bellach yn ein dwylaw. Nid oedd Dr. Roberts yn aelod o gwmni yr *Old Testament Revisers*, ond dywed fod *sheets* yr Hen Destament adgyweiriedig yn cael eu hanfon o bryd i bryd iddo, er nad oedd ganddo unrhyw amcan pa gyfnewidiadau allai fod wedi eu mabwysiadu. Ond yr oedd ei gydnabyddiaeth helaeth ef â phob efrydiau cysylltiedig â'r mater pwysig hwn yn ei wneyd yn hynod o gymhwys i ysgrifenu Llawlyfr i ddarllenwyr Seisonig, ac mae yn ddiammeu y profa y llyfr hwn, fel y gyfrol o'r blaen gyda'r Testament Newydd, o wasanaeth tra mawr fel arweiniad i'r cyfieithiad adgyweiriedig o'r Hen Destament. Ni oddef ein terfynau i ni roddi crynodeb o gynnwys y gyfrol, ond gallwn sicrhâu pob efrydydd deallus o'r Hen Destament y darllena y gwaith gyda llawer o hyfrydwch ac adeiladaeth. Nid yw wedi ei feichio â'r dyrys-bethau y cyfarfyddir â hwynt mewn cyflawnder mewn llyfrau wedi eu bwriadu ar gyfer ysgolheigion; ond y mae er hyny yn gosod ger bron ei ddarllenwyr lawer o addfed ffrwyth ein dysgeidiaeth oreu gyda golwg ar y rhan bwysig yma o'r Gair. Cydnebydd ei fod wedi dysgu llawer oddiwrth ymosodiadau Rhesymol-

iaeth, er nad ydyw llawer o'r ysgrifenwyr hyny, mewn unochredd a honiadu srwydd, ddim yn ol i neb o'r ysgrifenwyr uniongred a gondemniant fwyaf. Ond i ddyn sydd yn ymestyn uwchlaw pobpeth am y gwirionedd, y mae pob help a all ddyfod i'w ran, deued o ba gyfeiriad bynag—a *fas est ab hoste doceri*—o werth tra mawr. Y mae yn gysur neillduol i gyfeillion y Llyfr Sanctaidd nad yw yr Hen Destament, mwy na'r Newydd, yn colli dim drwy ymchwiliadau llafurfawr ysgolheigion i'w eiriau a'i ystyr, ond ei fod yn hytrach yn dyfod yn fwy goleu a gogoneddus. Nid yw yr anhawsder o wahanol ddarlleniadau yn y testun Hebraeg ond dibwys mewn cymhariaeth i'r hyn a geir ynglŷn â thestun y Testament Newydd, er y gwelir yn amlwg fod eto waith mawr i'w wneyd mewn manau, trwy olygiaeth mwy cywir o'r LXX. a rhai o'r hen gyfieithiadau—yn niffyg testyn hŷn—er cael boddlonrwydd am ei ddarlleniadau. Mae y cyweiriadau ymron yn gwbl i fod mewn cyfieithu. Rhoddwn ychydig engreifftiau o'r cyweiriadau a gynnygir yma. Cymhared y darllenydd yr hyn a roddwn â'r cyfieithiad awdurdodedig. Gen. ii. 4, 5: "Dyma genedlaethau y nefoedd a'r ddaear, pan grewyd hwynt, yn y dydd y gwnaeth yr Arglwydd Dduw y ddaear a'r nefoedd. Ac nid oedd un planhigyn y maes eto yn y ddaear, nac un eginyn y maes eto wedi tarddu allan; oblegid ni pharasai yr Arglwydd Dduw iddi wlawio ar y ddaear, ac nid ydoedd dyn i lafurio y ddaear." Gen. xxviii. 20—22: "Os bydd Duw gyda mi, ac a'm ceidw yn y ffordd yma yr ydwyf yn ei cherdded, a roddi i mi fara i'w fwyta, a dillad i'w gwisgo, ac os dychwelaf mewn heddwch i dŷ fy nhad, ac os bydd yr Arglwydd yn Dduw i mi, yna y gareg hon, yr hon a osodais yn golofn, a fydd yn dŷ Duw, ac o'r hyn oll a roddaist i mi, gan ddegymu mi a'i degymaf i ti." Yn Exod. ii. 11, 12, yr un gair Hebraeg a geir am *daro* a *lladd*, a dylesid ei gyfieithu felly. (Nid yw hyn ond engraifft o'r cyfnewidiadau lliosog mewn geiriau a wneir wrth gyfieithu pan nad ydyw hyny yn ateb unrhyw ddyben amgen na thywyllu yr ystyr. Mae y gair a gyfieithir "captain" yn Jos. v. 14, mewn manau eraill yn cael ei gyfieithu *chief, general, governor, keeper, lord, master, prince, steward, &c.*; tra o'r ochr arall y mae yr un gair "captain" yn gorfod gwneyd am ddim llai na deuddeg o eiriau Hebraeg gwahanol.) Exod. xxxiv. 33: "Ac *wedi* i Moses ddarfod llefaru wrthynt, efe a roddes len ar ei wyneb." Yn Mal. iii. 1, mynir gwneyd "messenger of the covenant," fel yn Gymraeg, yn "Angel y cyfammod." Yn Salm cxxiv. 3, "Then they had swallowed us up quick," ceir fod y gair "quick" yn gamarweiniol, ac y dylasai fod fel y mae yn Gymraeg, "alive," "yn fyw." Camp go fawr ydyw i neb allu gwneyd unrhyw synwyr yn Saesoneg na Chymraeg o Job xxxvii. 29—33. Cynnygir a ganlyn fel gwelliant:—

29 Ac a all neb ddeall taeniad y cymylau,
Neu y taraniadau yn ei babell Ef?
30 Wele, Efe a fflachia ei fellt drosto,
Tra y tywylla waelodion y môr.
31 Canys trwy y pethau hyn y llywodraetha Efe y cenedloedd,
Trwy y rhai hyn hefyd y darpara fwyd yn helaeth;
32 A'i ddwylaw y gorchuddia y fellten,
Ac y gorchymyna hi pa le i daro.
33 Noda allan iddi ei gyfeillion;
Ei ddigofaint a ymgasgl ar y drygionus.

Haggai ii. 7:—

Ysgydwaf hefyd yr holl genedloedd,
A phethau dymunol yr holl genedloedd a ddaw [i'r tŷ hwn],
Llanwaf hefyd y tŷ hwn â gogoniant,
Medd Arglwydd y lluoedd.

Mae Zech. xi. 13 wedi ei wneyd yn dywyll iawn trwy fod y gair a ddylasai fod yn "drysorfa" wedi myned, trwy gamgymeryd y llafariad derfynol, yn "grochenydd." Cynnygir y cyfieithiad a ganlyn o eiddo Dr. Davidson:—

A Jehofah a ddywedodd wrthyf,
Bwrw ef i'r drysorfa,
Y pris ysblenydd â'r hwn y'm prisiwyd ganddynt.
Felly mi gymerais y deg ar hugain arian,
A bwriais hwynt i'r drysorfa yn nhŷ Jehofah.

Wrth reswm ni wyddys eto pa gyweiriadau a wnaed gan y *Revisers*, ond maent yn sicr o fod o gyffelyb natur i'r rhai a nodir yn y gwaith hwn. Pris y llyfr yw 3s. 6c.

**A Popular Commentary on the New Testament. By English and American Scholars of Various Denominations. With Illustrations and Maps. Edited by PHILIP SCHAFF, D.D., LL.D., Baldwin Professor of Sacred Literature in the Union Theological Seminary, New York. In Four Volumes. Vol. IV. *Commentary on the Epistle to the Hebrews, the Catholic Epistles, and Revelation.* Edinburgh: T. and T. Clark.**

GALWASOM sylw o'r blaen at y cyfrolau eraill o'r gwaith ysblenydd hwn. Mae hon yn ei gwblhâu, ac ymhob ystyr yn deilwng o'r cyfrolau eraill, y rhai ydynt ar bob llaw wedi derbyn cymeradwyaeth mor fawr. O ran eu "troad allan" y maent yn ardderchog, yn gyfrolau o tua phum' cant o dudalenau *imperial octavo*, gyda phapyr ac argraffwaith, a chelfyddgarwch yn y darluniau a'r mapiau, a phrydferthwch a chryfder yn eu rhwymiad sydd yn ei wneyd yn wir bleser i ddyn eu meddu a'u mwynhâu. Ac o ran eu cynnwys, yr hyn o angenrheidrwydd sydd yn llawer pwysicach, y maent yn addfed ffrwyth dysgeidiaeth a meddylgarwch uchaf ein hamseroedd mewn astudiaeth o'r Ysgrythyrau Sanctaidd. Mae yr esboniad ar yr Epistol at yr Hebreaid yn y gyfrol hon wedi ei ysgrifenu gan Dr. Angus o Lundain; yr un ar Epistol Iago gan Dr. Gloag o Galashiels; yr un ar Epistolau Pedr gan Dr. Salmond o Aberdeen; yr un ar Epistolau Ioan gan Dr. Pope o Didsbury; yr un ar Judas hefyd gan Dr. Angus; a'r un ar y Dadguddiad gan Dr. Milligan o Aberdeen; gwyr na raid i'r un o honynt wrth "lythyrau canmoliaeth" i'w cyflwyno i sylw fel rhai cymhwys i esbonio y Gair. O ran cynllun ac amcan y maent oll, fel yr ysgrifenwyr eraill, yn syrthio i fewn â drychfeddwl rhagorol Dr. Schaff; ond y mae pob un wrth reswm yn gwneyd y rhan o'r gwaith a dorwyd iddo yn ei ddull priodol ei hun. Gan ei fod wedi ei fwriadu ar gyfer darllenwyr deallus o'r Bibl nad ydynt wedi cael manteision dysgeidiaeth, ni frithir ei ddalenau â dyfyniadau a chyfeiriadau nad allent hwy wneyd nemawr o honynt; ond fe osodir o'u blaen, a hyny gyda'r farn oreu, y pethau mwyaf gwerthfawr yn holl gylch dysgeidiaeth Fiblaidd er egluro y rhanau o'r Gair a fyddo dan sylw, a hyny yn gryno a chlir, a phob amser gyda'r dwfn barchedigaeth a weddai i rai yn ymwneyd â gorchwyl mor bwysig. Ac fel yr ydym yn meddwl i ni sylwi pan yn son am rai o'r cyfrolau eraill, fe allai ysgolheigion, ïe, ac ar ol maith ymddygnu gydag astudio gweithiau fel yr eiddo Meyer, ddychwelyd gyda hyfrydwch a budd i fwynhâu yr hyn a osodir ger eu bron yn y gwaith tra gwerthfawr hwn. Pris y cyfrolau ydyw 18s. yr un. Y maent mor hynod ymron am eu rhadlonrwydd ag ydynt am eu mawr werth.

*Biblical Theology of the New Testament.* By Dr. BERNHARD WEISS, Counsellor of the Consistory, and Professor of Theology at Berlin. Translated from the Third Revised German Edition by Rev. JAMES E. DUGUID, New Machar. Vol. II.

*The Life of Christ.* By Dr. BERNHARD WEISS, Counsellor of the Consistory, and Professor of Theology at Berlin. Translated by JOHN WALTER HOPE, M.A. 2 Vols.

*The Parables of Jesus: a Methodical Exposition.* By SIGFRIED GOEBEL, Court Chaplain at Halberstadt. Translated by PROFESSOR BANKS, Headingley.

CYFROLAU y *Foreign Theological Library* am 1883. Galwasom sylw at y gyfrol gyntaf o'r *Biblical Theology* gan Weiss o'r blaen. Pwy bynag a ddymunai astudio duwinyddiaeth gwahanol ranau y Testament Newydd, gan geisio cael allan beth ydyw eu dysgeidiaeth ar y gwahanol faterion pwysig y maent yn ymdrin â hwynt, ni allai gael cynnorthwy gwell na'r gwaith llafurfawr hwn. Mae yr awdwr wedi bod yn hynod lwyddiannus yn ei ymgais i'w osod ei hun yn safle neillduol pob un o'r gwahanol ysgrifenwyr, ac ni lysodd unrhyw ymdrech er cael allan yn gyflawn a thrwyadl beth a fynai pob un i'w ddarllenwyr ddeall oddiwrth yr hyn a ysgrifenai. Ni allai dim ddangos i well pwrpas nodweddion gwahaniaethol ysgrifenwyr y Testament Newydd; ac wrth reswm y mae y gwaith oll yn gynnorthwy o'r fath werthfawrocaf tuag at ffurfio syniad am athrawiaeth y Llyfr i gyd.

Y mae *Bywyd Crist* gan yr un awdwr yn ganlyniad naturiol i'w astudiaeth o dduwinyddiaeth yr Efengylau. Wedi ugain mlynedd o lafur caled er cael allan yn ngoleuni y feirniadaeth addfetaf beth allai fod ystyr y tystiolaethau a ddygid yn yr ysgrifeniadau hyn i'r Person mawr y maent yn ddwyn i sylw, fe deimlai mai ffrwyth naturiol ei lafur fyddai ceisio gosod ger bron y golygiadau a ennillasai yn ei gylch mewn ffordd o adrodd ystori ei fywyd. Ac y mae wedi gwneyd hyny mewn gwaith a erys yn gyfraniad anmhrisiadwy i lenyddiaeth ffrwythlawn y mater tra phwysig hwn. Fe fyddai yn gamgymeriad dyweyd fod y gwaith yma, fel rhai ymgeisiadau o gyffelyb natur a ymddangosodd yn ddiweddar yn y wlad hon, o natur ddeniadol i ddarllenwyr nad oes ganddynt allu i dalu nemawr sylw i lyfr ond i'r graddau y byddo yn eu difyru. Yn hytrach y mae yn fwy o gymeriad gwyddonol, ac i'w astudio yn arbenig gan y rhai a ddymunent ddeall beth sydd i'w ddyweyd mewn perthynas i Grist gan ŵr sydd wedi meistroli yr holl ddamcaniaethu cywrain sydd wedi bod yn ystod y blynyddoedd diweddaf yn ei gylch, ac wedi cysegru ymdrech uchaf ei einioes i geisio cael allan y gwirionedd. I rai felly fe fydd y gwaith yn drysor gwerthfawr. Protestia yn erbyn yr honiad a wneir gan feirniadaeth negyddol o fod yn unig yn gweithio ar linellau hanesyddiaeth, a dengys ei bod yn gadael yn ddisylw ffeithiau sydd o'r arwyddocâd mwyaf. Proffesa o'r ochr arall, ei fod ef yn cymeryd i ystyriaeth yr holl "ffynnonellau" ag sydd o fewn ei gyrhaedd, ac o'r rhai hyny yn ffurfio ei syniad am y Person mawr. Ymogela gyda'r gochelgarwch mwyaf rhag darllen dim i'r adroddiadau a ga yn y "ffynnonellau;" gedy o'r neilldu holl ddysgeidiaeth yr ysgolion a'r awdurdodau, pa mor barchus bynag, a chyfynga ei sylw yn gwbl i'r hyn a ddywedir wrtho yn yr Efengylau, gan gymharu a phwyso a deongli eu tystiolaethau yn ngoleuni beirniadaeth addfed a chlir. Teimla ei fod felly dan yr anfantais o fod yn ei amddifadu ei hun o nawdd pleidiau yn y naill gyfeiriad a'r llall; ond mae yn amlwg fod ei bryder yn hyn yn ddiangenrhaid, oblegid nid oes yn sicr ddim prinder am bobl sydd yn adsain eu gilydd, ac felly yn anffaeledig yn dyweyd yr un peth. Ond ymgroesa yn fawr ar yr un pryd rhag cael ei dybied, am nad ydyw yn ymrestru dan faner yr un o'r pleidiau, fel yn perthyn i ysgol y "mediation,"—yn sefyll ar ryw dir canol rhyngddynt oll, ac felly yn gondemniedig

gan y cwbl. Rhwng y goruwchnaturiol mewn dwyfol ddadguddiad a gwyrth, yn eu hystyr briodol, a'r golygiad sydd yn gwrthod y naill a'r llall, nid oes yn ei fryd ef ddim mwy o dir canol nag sydd rhwng y syniad am Grist fel dyn yn unig, er y goreu o bawb, a'r Crist a addolir gan yr Eglwys Gristionogol fel ei Chyfryngwr dwyfol a'i Gwaredwr. Ac ar hyn y mae efe wedi hen wneyd ei feddwl i fyny, ac nid ydyw ei lafur gwyddonol ond wedi ei gadarnhâu yn fwy yn sicrwydd llawen y ffydd yr ydoedd yn rhwym o gyrhaedd mewn ffordd arall. Yr ydym yn cael fod ei astudiaeth o'r "ffynnonellau," y mae mor hoff o gyfeirio atynt, ac wedi efrydu mor dda, yn ei arwain i rai casgliadau sydd dipyn yn wahanol i'r hyn a dderbynir yn gyffredin ymysg Cristionogion; ond y mae dyfnder ac ysbrydolrwydd ei ddirnadaeth yn ei gadw bob amser yn agos i'r gwirionedd, ac nid yn anfynych y mae ei wrthodiad o olygiadau a ystyrir gan lawer yn ddiammheuol, yn cael ei ddilyn gan drem ddysgleiriach i ogoniant gwirionedd Duw.

Gwaith tra rhagorol hefyd yw yr eiddo Goebel ar *Ddammegion yr Iesu.* Clod uchel a roddid iddo yn ngwaith gŵr fel Dr. Weiss yn canmol ei "esboniadaeth sylweddol, ei farn gref, a'i ddeongliadaeth sobr a medrus." Fe ymgymerwyd â'i barotoi o herwydd y diffyg a deimlai yr awdwr ei hunan am unrhyw gynnorthwy mewn eglurhadaeth wyddonol o ystyr ac amcan Damegion Crist. Nid ydyw ymysg yr awdurdodau y cyfeiria atynt yn ymddangos fel yn ymwybodol o lafur ysgolheigion Prydeinig yn y cyfeiriad hwn; fe allai fod ei waith o herwydd hyny yn fwy *fresh* i ni, er y gallasai hefyd mewn rhai manau fod ar ei ennill o ymgynghori âg ysgrifenwyr y wlad hon. Ymdrecha i'w gyfyngu ei hun at egwyddorion sefydlog yn ei astudiaeth o bob un o'r damegion. Wrth wneyd hyny fe fyn, hyd y gall, gael allan yr achlysur o'i llefariad; yna dilyna yr adroddiad ffugyrol, gan ymdrechu cael allan ei lawn ystyr; yna ymdrecha gael allan ergyd arbenig y ddammeg yn ei chymhwysiad at yr amgylchiad ar y pryd, gan gredu gyda Calvin, "Nad oes dim mwy i ymofyn am dano nag oedd yn mwriad Crist ei draddodi;" ac yn hyny y ca fod ei haddysg eithaf i'r oesoedd oll. Mae y dammegion o'u hastudio yn y wedd yma yn dyfod yn llaw yr awdwr hwn yn gyfoethog a gogoneddus.—Mae y pedair cyfrol hyn yn cynnwys cronfa o wybodaeth ysgrythyrol ag y gwnelai unrhyw efrydydd a allo gael gafael ar gini yn dra doeth i fod yn flaenllaw i'w pwrcasu, ac os gall i danysgrifio am y gyfres o flwyddyn i flwyddyn.

*Tours in Wales*, by THOMAS PENNANT, Esq.; with Notes, Prefaces, and copious Index, by the Editor, JOHN RHYS, M.A., Professor of Celtic in the University of Oxford: to which is added an Account of the Five Royal Tribes of Cambria, and of the Fifteen Tribes of North Wales, and their Representatives, with their Arms, as given in Pennant's History of Whiteford and Holywell. Two Vols. Carnarvon: H. Humphreys.

DA genym weled anturiaeth Mr. Humphreys gyda chyhoeddi yr argraffiad newydd rhagorol yma o'r gwaith hwn wedi troi allan mor lwyddiannus. Y mae "nobility, gentry, a literati" Cymru, ys dywedai yntau, wedi tanysgrifio am dano mewn nifer mawr, a diammeu y bydd yn dda gan lawer eraill eto ei gael yn y farchnad. Mae yr argraffiad cyntaf a gyhoeddwyd gan yr awdwr ei hun yn 1778 a 1781, erbyn hyn yn dra anhawdd ei gael; ac mae yr ail argraffiad a ddaeth allan yn 1810, dan olygiad ei fab, David Pennant, wedi myned, bellach, yr un modd, yn hynod o brin. Ac wrth weled y cyfeiriadau parchus a wnelid yn fynych at y gwaith, yr oedd yn dda gan y genedlaeth bresennol o ymofynwyr ddeall fod bwriad i ddwyn allan argraffiad newydd o hono, ac felly yr oeddynt yn barod i roddi eu henwau. Am olygiaeth yr argraffiad hwn, y mae enw Professor Rhys yn warant ddigonol. Nid ydyw efe wedi ymyraeth

â'r gwaith ei hunan mewn ffordd o wneyd cyfnewidiadau, am yr ystyrid mai yr hyn oedd eisieu oedd gwaith Pennant fel yr ydoedd, ac nid wedi ei drawsffurfio er cyfarfod â golygiadau rhywun arall, neu ei lanw i fyny at safon gwybodaeth y dyddiau hyn am y pethau y traetha yn eu cylch. Ac nid ydyw wedi ei lwytho ychwaith â nodiadau, ond y mae y rhai a geir yn awgrymiadol ac at y pwrpas; a'r un modd nid ydyw y rhagymadrodd ond cryno, er ei fod yn ateb yn gwbl i'r hyn a ddylai rhagymadrodd fod. Ond mae camp yr olygiaeth yn y cywirdeb ysgolheigaidd â pha un y mae y gwaith wedi ei argraffu. Yn yr ystyr yma fe allai y darllenydd deimlo perffaith foddlonrwydd ei fod yn cael y llyfr yn gwbl fel y daeth o dan law ofalus David Pennant yn 1810. Y mae cyfraniad Mr. Trevor Perkins at yr argraffiad hwn, fel y cydnebydd Mr. Rhys yn ei ragymadrodd, yn werthfawr iawn. Mae amryw nodiadau da yn dwyn ei enw, ac yn neillduol y mae wedi ysgrifenu hanes bywyd Pennant, yr hwn a leinw tua 30 o du dalenau, ac sydd yn ffrwyth llawer o ymchwiliad ac yn dra dyddorol. Fe fydd yn hyfryd gan lawer gael y fantais yma i fyned i mewn i fywyd y dyddiau gynt, ac yn arbenig i weled y fath gymeriad gwych oedd i Pennant,—mor fawrion oedd ei gyrhaeddiadau, y fath efrydydd diwyd a gofalus ydoedd ar hyd ei oes, y fath allu oedd ganddo i sylwi, gymaint a ysgrifenodd, a'r fath dderbyniad croesawus a roddid i'w holl ysgrifeniadau. Nid oedd Dr. Johnson yn rhy chwannog i ganmol, ac eto fe ddywedai efe: "Y mae gan Pennant fwy o amrywiaeth ymofyniadau nag ymron unrhyw ddyn, ac y mae wedi dyweyd mwy wrthym nag, fe allai, a allasai un o ddeng mil wneyd yn yr amser a gymerodd. Ni ddywedodd beth ydoedd i'w ddyweyd, ac felly ni ellwch ei feio am yr hyn na ddywedodd." A thrachefn: "Pennant ydyw y teithiwr goreu a ddarllenais erioed. Y mae yn sylwi ar fwy o bethau nag a wna neb arall." A dywedai *Blackwood's Magazine*: "Y mae ein Pennant ni ein hunain bob amser yn fywiog, yn llawn o asbri a bywyd, a desgrifia lindys yn gystal â hen gastell." Ac nid oes dim a ddaeth o dan ei law yn fwy gwerthfawr na'r *Teithiau* hyn o'i eiddo yn Nghymru. Yr ydoedd yn ysgolaig da, ac yn ddarllenwr mawr; yr ydoedd hefyd yn troi yn nghymdeithas uchaf ei ddyddiau, ac yn tynu o bawb bobpeth a allai gael er ychwanegu ei wybodaeth; ac yr ydoedd yn hoff o deithio, ac yn teithio llawer ar geffyl, yn nghwmni ei was ffyddlawn Moses Griffith, yr hwn oedd wedi cyrhaedd medr neillduol mewn arlunio, ac a fyddai yn cymeryd lluniau o bobpeth dyddorol, y rhai a gerfid i'w cyhoeddi yn y llyfr. Gan gymeryd y pethau a dynent ei sylw ar ei deithiau, y mae yn y cyfrolau dyddorol sydd o'n blaen yn ymollwng i ysgrifenu yn eu cylch yr hyn a ymgynnygiai i'w feddwl, gan roddi desgrifiadau bywiog, hen hanesion, cofion llafar gwlad, chwedlau, sylwadau gwerthfawr mewn llysieuaeth a hanesiaeth naturiol, y cwbl blith draphlith fel y deuent, ond bob amser yn ddifyr a da. Odid fawr na theimlai ein darllenwyr o ymgydnabyddu â'i waith fod Cymru yn wlad llawer mwy dyddorol nag a meddyliasent, ac fod y pethau sydd o'u hamgylch bob dydd yn llawn mor deilwng o'u hystyriaeth â'r pethau hyny yn eithaf y ddaear ag y mae yn ffasiwn gan bawb siarad am danynt a'u mawrhâu. Pa fodd, tybed, yr oedd gŵr ag oedd yn naturiol mor garedig a rhadlon, ac yn sylwi ar bobpeth, heb wneyd unrhyw gyfeiriad at gyfodiad Ymneillduaeth yn Nghymru y blynyddoedd hyny?—Mae y cyhoeddwr wedi gwneyd ei waith yn rhagorol. Mae yr holl ddarluniau, &c., wedi eu codi o'r hen argraffiad trwy yr oruchwyliaeth newydd o *photo-zincography*, a'u hargraffu yma yn union yr un fath oddieithr fe allai ar bapyr gwell. Pris y gwaith yn yr argraffiad hwn yw 30s.; ond mewn rhwymiadau gwell 42s. a 44s.

*Echoes from the Welsh Hills; or Reminiscences of the Preachers and People of Wales.* By the Rev. DAVID DAVIES, Weston-super-Mare, Author of "The New Name and Other Sermons." Illustrated by T. H. THOMAS, A.C.A. London: Alexander and Shepheard.

LLYFR a ddarllenasom gyda hyfrydwch neillduol. Y mae meddwl yr awdwr yn dra llawn o draddodiadau goreu ei genedl, ac fe ellid tybied fod ei symudiad i lafurio ymhlith y Saeson wedi bod yn foddion i'w ddeffro i ymdeimlad mwy byw o werth a phrydferthwch y pethau da sydd wedi bod yn gymaint o fendith i wlad ei enedigaeth. Pa fodd bynag y mae y llyfr hwn o'i eiddo yn dra chyfoethog o'r *Adseiniau* goreu am Gymru, ac y mae wedi ei ddodi ynghyd mewn ffordd sydd yn ei wneyd yn hynod o ddifyr i'w ddarllen, fel y mae hefyd yn meddu cymhwysder neillduol i wneyd y neb a'i darlleno yn fwy pur. Yr oedd Mr. Gladstone yn ffyddlawn i'w garedigrwydd arferol at Gymru, pan yn cydnabod derbyniad copi o'r llyfr, y dywedai "mai diffyg gwybodaeth, yn ei farn ef, a barai y mesur prin o gyfiawnder i Gymru, a'i fod yn llawenhâu yn galonog yn ymddangosiad gwaith fel hwn a amcanai roddi y wybodaeth angenrheidiol." Desgrifia yn dra naturiol a phrydferth bentref gwledig yn Neheudir Cymru. O garedigrwydd at lafar-beiriannau anmherffaith ei ddarllenwyr Seisonig, nid ydyw yn rhoddi ei enw, ond—ac yn enwedig gyda darlun rhagorol Mr. Thomas, yr hwn trwy yr oll o'i *illustrations* rhagorol sydd wedi ychwanegu llawer at werth y llyfr—y mae yn cael ei osod o'n blaen mewn ffordd a bâr i ni deimlo yn bur gydnabyddus âg ef. Rhoddir desgrifiad byw o hen Lan y plwyf, yr hon sydd wedi ei gadael mewn ystâd hynod o isel, ac wrth edrych ar y beddau sydd yn ei hamgylchn fe ellid, medd yr awdwr, meddwl fod angeu ei hunan mor farw ag ydyw pobpeth arall sydd yn perthyn i'r lle. Yr esboniad ar hyny ydyw fod holl ddyddordeb y bobl yn ymgrynhoi o amgylch yr addoldai diaddurn a godasant iddynt eu hunain, lle yr addolant mewn einioes a cherllaw pa rai y gorphwysant yn angeu. Sefydliad pwysig yn y pentref ydyw yr Efail. Ond yn ffodus y mae y gôf a'i gyfeillion yn ofni Duw, a pethau ei deyrnas Ef ydyw y pethau y teimlant y dyddordeb dyfnaf ynddynt. Nid ydynt oll yn perthyn i'r un cyfundeb crefyddol; y mae yn y pentref hwn, fel yn holl bentrefi Cymru, addoldai yn perthyn i'r gwahanol enwadau; ond y mae adeg y dadleu mawr wedi myned heibio, ac y mae pob un o'r cymdeithion dyddan sydd mor hoff o gyfarfod eu gilydd i ymgomio yn yr Efail, mor rydd oddiwrth ragfarnau sectol fel y mae pethau da pob enwad yn eiddo cyffredin i'r oll. Y mae y gwahanol gymeriadau yn cael eu dwyn i'n sylw yn y fath fodd fel y teimlwn ein bod yn eu hadnabod, a phe dygwyddai i ni ein cael ein hunain yn y pentref hwnw, ni fyddai ond peth naturiol genym ddysgwyl eu cyfarfod. Mae cylch eu hymddyddanion yn eang, ond yn arbenig yn cymeryd i fewn y pregethau, y cyfarfodydd crefyddol, y diwygiadau, yr Ysgol Sabbothol, a'r dylanwadau nerthol sydd wedi bod, bellach, gyhyd o amser ar waith, ac wedi gadael y fath argraff fendithiol ar ein gwlad. Mae meddyliau rhai o'r cyfeillion mor lawn o hanesynau da a dyfyniadau gwerthfawr o'r pregethau, &c., fel y mae llinyn yr ystori weithiau dan gryn bwysau; ond gan mwyaf mae y siarad yn cael ei gario ymlaen yn dra naturiol, ac y mae bob amser yn ddifyr ac addysgiadol. Am y pethau y mae y naill a'r llall wedi "glywed," gan hwn a hwn, yn y fan a'r fan, wrth bregethu, y maent yn aneirif, ac yn dyfod i mewn yn yr ymddyddan yn fynych i bwrpas hynod o dda. Y mae rhai amryfuseddau wedi dianc. Ymysg pethau eraill a ddylid gywiro mewn argraffiadau dilynol o'r gwaith, gwneir Catrin Rondol, wrth son am ei hymweliad bythgofiadwy â Llangan i ymofyn am gyhoeddiad Mr. Jones i ddyfod i'r Gogledd, yn Anna; cyfeirir at Hobbes yr athronydd, os ydym yn deall yn briodol, ond gwneir ef yn John Hobbes; ac mae yn lled sicr na wyddai yntau ychwaith, mwy na'r "Cristion oedranus," David Edwards o

Lansadwrn, a gymherir âg ef, ond ychydig am Ddaeareg; coffeir sylw enwog Enoch Evans o'r Bala wrth y Parch. Henry Rees, "ni pherffeithir hwynt heb Enoch," ond fe wneir yr hen weinidog hynod yn Enoch Jones; wrth roddi testun pregeth dra rhagorol o eiddo Mr. Herber Evans ar "Feddwl Crist," fe ddywedir mewn dau le fod y testun yn II Phil. iv. 5, yn lle yn Phil. ii. 5: y mae Saesoneg y llyfr, fel rheol, yn rhagorol, ond buasai "climax" yn tu dalen 458, yn well na "climacteric," ac yn sicr yn llawer mwy teilwng o Williams y Wern, yr hwn y rhoddir y gair yn ei enau. Ond nid ydyw y pethau uchod ond lled ddibwys. Y mae y pethau da a geir ynddo yn dda iawn, ac i'w cael

Thick as autumnal leaves in Vallombrossa.

Y maent hefyd wedi eu casglu o bob cyfeiriad, ac yn cael eu dwyn allan o drysorau yr awdwr yn "newydd a hen." Da genym weled fod derbyniad mor groesawus eisoes wedi ei roddi i'r llyfr gan y Saeson. Y mae, ys dywed y *Guardian*, yn agor iddynt "quite a new region of religious life." Ond fe ddylai y Cymry sydd yn darllen Saesoneg yn arbenig brysuro i'w feddu, a bod yn falch o hono. Ei bris cyhoeddedig ydyw 7s. 6c.; ond deallwn ei fod i'w gael gan yr awdwr trwy y *post* am 6s. 3c.

*Gwaith Barddonol Trebor Mai, prif Englyniwr Cymru; yn cynnwys ei Englynion, Caneuon, Cywyddau, &c.* Liverpool: I. Foulkes.

DA genym weled cyhoeddi cyfrol mor barchus o gynnyrchion Trebor Mai. Mae ei *Fy Noswyl*, 1861, a'r *Geninen*, 1869, wedi hen fyned allan o argraff. Ond mae yr oll a gynnwysai y rhai hyny yn y gyfrol hon, a llawer yn ychwaneg o gyfansoddiadau yr awdwr oedd ar wasgar ar hyd y cyhoeddiadau, neu wedi eu gadael ymysg ei bapyrau. Cynnwysa fywgraffiad o hono hefyd, a leinw 48 o du dalenau, wedi ei ysgrifenu, dybygem, gan y Cyhoeddwr, ac, fel pobpeth a ddaw o dan ei ddwylaw ef, yn ddyddan a darllenadwy. Adrodda chwedl a roddai ddywenydd neillduol i Trebor, am frodor o Ddyffryn Conwy, ar ol symud i le arall a dyfod yn lled gefnog ei fyd, wedi dychymygu ei fod yn fardd, ac yn meddwl y dylasai hefyd gael ei gydnabod fel beirniad. A chan nad oedd y pwyllgorau llenyddol o'r un farn âg ef am ei gymhwysderau beirniadol, cynnaliai gyfarfod llenyddol mewn rhyw lan gerllaw Llanrwst, Nadolig ar ol Nadolig, gan roddi yr holl wobrwyon ei hunan, er mwyn cael cyfleusdra i ymarfer ei allu fel beirniad. Un nos Nadolig, cyfarfu Trebor ef ar yr heol yn Llanrwst, ac meddai, "Holo! beth a ddaeth â chwi yma yr amser hwn ar y flwyddyn?" "Eisteddfod y lle a'r lle yfory, fachgen." "O, ie; fath gyfansoddiadau sydd genych eleni?" "Pur dda, ar y cyfan," ebe'r beirniad, "ond bod y *sillebu* yn ddrwg iawn." Byddai Trebor yn cael hwyl hyfryd bob amser wrth adrodd hanes y *Sillebwr!* Am farddoniaeth Trebor Mai, y mae ei gwerth yn ddiammheuol, ac y mae lliaws o'i gemau, erbyn hyn, yn ymffrost ei genedl. Da genym grybwyll fod y gyfrol hon o'i weithiau ymhob ystyr yn un o'r rhai harddaf a gyhoeddwyd yn ein hiaith. Mae yn cynnwys yn agos i bedwar cant o du dalenau, a'i phris yw 5s. Fel attodiad priodol i Englynion yr "Ysmaldod Dirwestol" a adargreffir o'r newyddiaduron am 1874, fe ellid crybwyll yr englyn canlynol o eiddo Trebor Mai, na chynnwysir yn y gyfrol hon, ond a ddylai fod yn ofnadwy o addysgiadol er dangos y perygl o gellwair â'r ddiod feddwol:—

GLASYNYS, gwelais hwnw—yn y dre',
Ond yr oedd yn feddw:
Clamp o Berson; Person? pw, pw,
A'i geseiliau 'n *rags* ulw!

# LLYFRAU

## *Cyhoeddedig gan P. M. EVANS & SON, Holywell.*

---

RHESTR-LYFR O AELODAU YSGOLION SABBOTHOL. Y mae y Llyfr hwn yn an-enwadol, ac wedi ei argraffu a'i linellu er cadw cyfrif manwl a threfnus o aelodau yr Ysgolion; ac y mae y derbyniad croesawgar a roddwyd iddo er ei ymddangosiad yn brawf ei fod yn cyflenwi angen a hir deimlwyd gan Ysgrifenyddion Ysgolion Sabbothol ein gwlad.

Pris llyfr wedi ei rwymo yn gryf, yn cynnwys 100 o du dalenau, ydyw 5s.; 150, 6s. 6c.; a 200, 8s. 6c.

---

GEIRLYFR SEINIADOL (NEU GYNANIAETHOL) SAESONEG A CHYMRAEG, ynghyd ag agoriad ar Lythyriaeth yr Iaith Gymraeg, gan y diweddar THOMAS EDWARDS, Ysw. (Caerfallwch). Ail Argraffiad, gydag Ychwanegiadau, gan y diweddar BARCH. D. HUGHES, B.A., Tredegar.
Pris, yn Rhifynau, 16s. 6c.; Dwy gyfrol, croen llo, 22s. 6c.

---

LLYFR GWEDDIAU TEULUAIDD. Ail Argraffiad, gydag Ychwanegiadau, yn cynnwys Ffurfweddïau, Boreuol a Hwyrol, a Phennillion priodol, am bob dydd o'r mis, &c., er cynnorthwy i'r Addoliad Teuluaidd, gan y Parch. THOMAS LEVI.
Pris wedi ei rwymo mewn llian, 2s. 6c.; gydag ymylon goreuredig, 3s.

---

CANIADAU MAES Y PLWM: sef Gweithiau Barddonol y Diweddar MR. EDWARD JONES, Maes y Plwm. Cynnwysa y Gyfrol Emynau, Carolau, Caneuon ar wahanol destynau, Englynion, Marwnadau, ac Emynau Claddedigaethol.
Pris mewn llian, 2s. 6c.

---

HOLWYDDORYDD AR HANESIAETH Y BIBL, yn cynnwys dros bedwar cant a deg o Holiadau ac Atebion, ar Brif Ffeithiau Hanesyddol yr Hen Destament a'r Newydd, gan y Parch. RICHARD PRICHARD, awdwr "Diffyniad Bedydd Babanod." Gyda Rhagdraith gan y Parch. ROGER EDWARDS.
Pris mewn Llian, 2s. 6c.

---

YSBRYDOLIAETH Y BIBL: gan y Parch. D. CHARLES DAVIES, M.A., Llundain.
CYNNWYSIAD: Natur y Prawf—Ystyr Ysbrydoliaeth—Perthynas Ysbrydoliaeth: 1 A chynnwysiad y Bibl; 2. A chywirdeb ac awdurdod y Bibl; 3. Ag iaith y Bibl.
Pris swllt, mewn amlen.

---

LLYFR RHENTI EISTEDDLEOEDD Wedi ei ddarparu gogyfer â chadw cyfrif o enwau personau a gymerant Eisteddleoedd, ynghyda'r arian a dderbynir oddiwrth y cyfryw.

---

COFRESTR CLADDEDIGAETHAU *(REGISTER BOOK OF BURIALS)*. Llyfr wedi ei barotoi gogyfer â chadw cyfrif cywir o gladdedigaethau.
Y mae ynddo golofnau i ddodi enw y person a gleddir, ei alwedigaeth, ei oedran, y lle y bu farw, dyddiad y gladdedigaeth, pwy a wasanaethodd ar yr achlysur, y fan y claddwyd, rhif y bedd, a sylwadau.
Pris, 8s. 6c., wedi ei rwymo yn gryf.

---

LLYFR RHESTRIAD BEDYDDIADAU, cyfaddas i Eglwysi pob enwad crefyddol. Wrth anfon archebion am dano, dymunir gwybod i ba nifer o Fedyddiadau y dymunir cael y llyfr,—100, 200, 400, 600, &c.
Pris, Llyfr wedi ei rwymo yn gryf, i gynnwys 100 o enwau, 3s.; a 1s. 6c. am bob 100 ychwanegol.

P. M. EVANS & SON, Cyhoeddwyr, Treffynnon *(Holywell)*.

# GOSTYNGIAD

YN MHRIS

# ESBONIAD JAMES HUGHES

AR Y

# BIBL.

---

## Cynnygiad Gwerthfawr i'r Cymry
## AM FYR AMSER.

GAN fod Cyhoeddwyr yr Esboniad uchod yn deall fod awydd cyffredinol ymhlith dosbarth lliosog o genedl y Cymry i feddiannu yr Esboniad yn gyflawn, y maent wedi penderfynu ei gynnyg i'r wlad am y prisiau canlynol:—

| | | | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrol | I. | Genesis—Josua ............ | 1 | 2 | 0 |
| " | II. | Barnwyr—Job ............... | 1 | 2 | 0 |
| " | III. | Salmau—Malachi ......... | 1 | 5 | 0 |
| " | IV. | Matthew—Dadguddiad .... | 1 | 1 | 0 |

**Neu y PEDAIR CYFROL, wedi eu rhwymo yn gryf a hardd mewn croen llo, o BRIF ESBONIAD Y GENEDL GYMREIG am**
**£4 10 0!!**

**Yn ngwyneb y gostyngiad presennol, dymuna y Cyhoeddwyr hysbysu mai am ARIAN PAROD YN UNIG y bydd iddynt werthu y Gwaith am y pris hwn.**

Ar dderbyniad *Post Office Order* neu *Cheque* am y swm angenrheidiol bydd yn dda gan Cyhoeddwyr,—P. M. EVANS & SON, *Publishers, Holywell*, anfon cyfrol neu gyfrolau yn DDIDRAUL i unrhyw gyfeiriad.

---

P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR, TREFFYNNON.

RHIFYN CLIII.

# Y TRAETHODYDD.

## EBRILL, 1884.

CYNNWYSIAD.

Y Diweddar Barch. William Rees, D.D. Gan y Parch. DAVID GRIFFITH ... ... ... ... ... ... ... 133

Yr Eigion. Gan Mr. R. D. ROBERTS, M.A., D.Sc. ... ... 166

Llenyddiaeth Newyddiadurol Cymru. Gan GWYNEDDON ... 172

Samuel Prideaux Tregelles. Gan y Parch. HUGH WILLIAMS, M.A. 194

Daeareg Ardal Bethesda. Gan Mr. JOHN J. EVANS ... ... 215

Deon Bangor ar Ddadgysylltiad a Dadwaddoliad. Gan y Parch. J. EIDDON JONES ... ... ... ... ... ... 227

A fynwch chwithau hefyd fyn'd? Gan GLAN COLLEN ... ... 242

Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... ... 243

*CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF GORPHENAF 1, 1884.*

TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

PRIS DEUNAW CEINIOG.

# Y TRAETHODYDD.

## Y DIWEDDAR BARCH. WILLIAM REES, D.D.

I.

"O FY nhad, fy nhad, cerbyd Israel a'i farchogion!" Felly y llefai Eliseus pan welodd Elias yn ymddyrchafu mewn corwynt tua'r nef; a pharod oedd llaweroedd yn Nghymru i ddadgan eu teimlad yn yr un geiriau ar dderbyniad y newydd fod y pregethwr godidog a'r duwinydd hybarch, Dr. Rees, wedi ei ddwyn oddiarnom drwy oruchwyliaeth angeu. Oes, y mae i ni alar trwm o herwydd ei golli ef! Pan gwympa y cedrwydd, onid gweddus yw i'r ffynidwydd udo? Trist colli o'n mysg am byth unrhyw weinidog da i Iesu Grist; ond yr oedd Dr. Rees yn ŵr o ddefnyddioldeb mor eang ac o ddoniau mor anghyffredin fel, wrth feddwl am ei ymadawiad, y mae ynom ystyriaeth o golled nas medrwn ei thraethu. Tra yn ogoniant i'w genedl, yr oedd efe o'r gwerth mwyaf i eglwys Dduw, ac yn arbenig i'r enwad y perthynai iddo. I'r Cynnulleidfaolwyr Cymreig yr oedd ei enw yn dŵr o gadernid. Gall oesau fyned heibio cyn y codir i'w gwasanaethu eto un o athrylith mor ddysglaer ac amlochrog ag efe. Yn holl elfenau mawredd dealltwriaethol, efe a ddaliai i'w gymharu âg unrhyw ŵr cyhoeddus a welodd y ganrif bresennol. Ymhlith cedyrn y weinidogaeth, gan nad am ba enwad y sonir, pwy yn gadarnach nag efe? Ac i goroni y cyfan, yr oedd ef o ysbryd mor ragorol ac o ymarweddiad mor bur a dilychwin. Fel gweinidog cadwai olwg ar urddas ei swydd, a chyda zel a diwydrwydd apostol y cyflawnai ei ddyledswyddau. Ei fywyd, fel ei ymddangosiad, ydoedd dywysogaidd; ac nid oedd fod ei angladd yn un tywysogaidd hefyd ond peth a ddygwyddai yn nghwrs naturiol pethau. Yn debyg i'r modd y sylwodd y Canaaneaid, pan welsant orymdaith angladdol y patrïarch Jacob yn "llu mawr iawn" yn llawr-dyrnu Atad, y gallasai y cannoedd a'r miloedd Saeson a edrychent ar ei orymdaith angladdol yntau yn Nghaer ac yn Liverpool ddywedyd, "Dyma alar trwm gan y Cymry."

Anfynych yn wir y bu i'r newydd am farwolaeth unrhyw weinidog yn Nghymru o'r blaen greu cyffro mor ddwys neu alar mor gyffredinol. Er ys talm edrychid ar Dr. Rees, rhagor pawb eraill ymron, fel eiddo

cenedlaethol. Felly y meddylid ac felly y siaredid am dano ef ar gyfrif rhyddfrydigrwydd ei ysbryd, yn gystal ag ysplander rhyfeddol ei amgyffredion. Yr oedd pawb yn ei garu a phawb yn ei fawrhâu. Ewyllysiai yn dda i bob plaid; carai lwyddiant y genedl yn gyffredinol. Wedi ymryddhâu o hono oddiwrth ofalon ei alwad fel gweinidog sefydlog, teithiai drwy y wlad fel archesgob, gyda hyn o wahaniaeth—sef ei fod ef yn barod i wasanaethu pob enwad fel eu gilydd. Ymhlith Eglwyswyr buasid yn ei gyfarch fel "Tad yn Nuw;" a bu yn dipyn o brofedigaeth i ninnau ei gyfarch felly hefyd rai troion. Ar amserau ceid ei fod yn pregethu yn nghapelau y Methodistiaid braidd mor fynych ag yn nghapelau ei enwad ei hun. Nid oedd neb drwy y byd, ni dybiem, a allasai uno gyda chynnulleidfa i ganu y geiriau,

**Partïol farn a rhagfarn, lawr â hwy,**

gyda chydwybod fwy dirwystr nag efe. Ei ysbryd ydoedd mor eang â'r fendith apostolaidd, "Gras fyddo gyda phawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist." Ei enw ni safai oddieithr yn gysylltiedig â'r hyn oll sydd bur, heddychlawn, a chanmoladwy; ac am hyny bydd ei goffadwriaeth "fel gwin Libanus," a'i enw yn barchus a bendigedig o fewn y dalaeth hon, a thu hwnt iddi hefyd, am oesau a chenedlaethau lawer.

Teimlwn fod genym destun o'r fath oreu, ond pwy sydd ddigonol i wneyd iawnder âg ef yn ei holl gysylltiadau? Yr un pryd ni chaiff dim ein hattal rhag gwneyd ein goreu, a hyny heb oedi yn hŵy, fel na chaffer lle i dybied ein bod yn ddifater ynghylch anrhydeddu coffadwriaeth un a wasanaethodd ei genedlaeth mor deilwng, ac am oes mor faith. Gan gyfeirio yma, wrth fyned heibio, at ei lafur llenyddol, nis gallwn anghofio ei ffyddlondeb i'r TRAETHODYDD, a hyny ar adegau pan oedd ei gynnorthwy, nid yn unig yn dderbyniol, ond hefyd yn werthfawr odiaeth. I ddarllenwyr Cymreig nis gall unrhyw ddesgrifiad bywgraffyddol am ŵr mor glodfawr lai na bod yn wir hyfryd a dyddorol. Yn y tu dalenau canlynol, gydag olrhain hanes ei fywyd, bydd genym hefyd i ddesgrifio teithi ei feddwl, ynghyd a nodi allan ei hynodion a'i ragoriaethau fel dyn, fel bardd, fel llenor, fel darlithydd, ac fel pregethwr a gweinidog i Grist. Er gwneyd ein traethiad yn fwy darllenadwy, bwriadwn ddyfynu yn helaeth o'i ysgrifeniadau ef ei hun, gan ddwyn i mewn ambell grybwylliad a hanesyn am dano a fydd yn newydd, o bosibl, i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr. Os ydym wedi tori i ni ein hunain fwy o waith nag a ellir gynnwys o fewn terfynau un ysgrif o faintioli cyffredin, diau yr esgusodir ni am fyned ychydig ymhellach, yn enwedig gan y rhai a arferant restru bywgraffiadau dynion da ymhlith y trysorau llenyddol penaf, am eu bod, yn debyg i esgyrn yr hen brophwyd gynt, yn meddu ar ryw rinwedd hynod i gyfranu bywyd newydd i'r neb a ddelo i gyffyrddiad â hwynt. Heb ychwaneg o ragymadroddiad, awn rhagom i sylwi yn y lle cyntaf ar

## AMSER A LLE EI ENEDIGAETH.

Am y lle y ganwyd Dr. Rees ni raid hysbysu darllenwyr y TRAETHODYDD. Fel Llangeitho a'r Bala a'r Wern, a manau eraill lawer a

allasem enwi, y mae LLANSANAN yn air teuluaidd yn Nghymru er ys talm. Ardal dawel, fynyddig ydyw. Saif oddeutu hanner y ffordd rhwng Dinbych a Llanrwst. Nid tiroedd breision, nid golygfeydd rhamantus, ac nid mwngloddiau goludog a roddasant enwogrwydd ar y fro, ond *dynion*. Os ä rhywun yno gan ddysgwyl gweled golygfeydd harddach na chyffredin, diau y caiff ei siomi. Y mae yno afon, ond heb fod dim yn hynod ynddi rhagor yr afonydd a lifant drwy gymoedd cyffelyb yn yr un sîr. Y mae yno bentref ac eglwys, ond heb fod dim neillduol ynddynt at dynu sylw dyeithriaid. Dynion, fel y nodwyd, a roisant i'r lle anrhydedd ac ardderchogrwydd bythol. Yno y bu William Salesbury yn cyfieithu y Testament Newydd; magwyd yno hefyd lenorion a rhyfelwyr; ac yno y ganwyd HENRY a WILLIAM REES. Amser genedigaeth yr olaf oedd yr 8fed dydd o Dachwedd, yn y flwyddyn 1802; a'r lle, Chwibren Isaf, amaethdŷ a saif dan gesail Mynydd Hiraethog, ac yn y pellder o ddwy filldir o bentref Llansanan. Mangre neillduedig, allan o swn cynhyrfiadau y byd, ac heb fod yn rhyw or-ffrwythlawn ydyw. Eto ni ddylid diystyru mangreoedd felly. Dichon y tardd o honynt ffrydiau ac afonydd a dröant felinau, ac a brydferthant ddoldiroedd lawer ar eu ffordd tua'r môr; a pheth sydd fwy, mynych y megir glewion a meddylwyr godidog mewn lleoedd felly; canys fel y dywedodd Channing, fe dyf meddyliau lle na thyf braidd ddim byd arall.

Hysbys ydyw fod y ddau Rees yn teimlo yn gynhes iawn drwy eu bywyd at fro eu genedigaeth; ond gan wrthddrych ein sylw presennol, mor bell ag y cyrhaedda ein gwybodaeth, y caed y nifer mwyaf o gyfeiriadau ysgrifenedig o berthynas iddi. Elai Dr. Rees i gryn hwyl weithiau wrth son am Lansanan a'i thraddodiadau hanesiol; ac y mae yr hyn a ysgrifenodd am y lle yn ddifyr odiaeth i'w ddarllen. Yn y peth hyn ymdebygai i'r enwog Thomas Binney o Lundain. Gydag ymffrost boddhâus yr arferai Dr. Binney son am Northumberland, ei enedigol wlad, ac am Newcastle, ei dref enedigol. Yn ei bregeth ardderchog ar farwolaeth Duc Northumberland, er engraifft, cyfeiria yn ddedwydd at yr enwogion lawer a roddasid i Loegr oddiyno,—at Collingwood ag oedd yn hynod am ei rinweddau cyhoeddus, ac at y Prif Weinidog hwnw a roddes i'r deyrnas hon ei *Reform Bill* cyntaf, ac at y "Killingworth boy," tad cyfundrefn y rheilffyrdd, yr hwn, fel y sylwai efe, a ennillodd iddo ei hun angladd gyhoeddus, ac a huna yn awr yn Westminster Abbey, gyda beirdd, ac areithwyr, a gwladweinyddion, a rhyfelwyr, a phendefigion, a brenhinoedd. Eithr ni allasai y lleoedd ydys newydd enwi fod fymryn yn anwylach i Dr. Binney nag ydoedd Llansanan a Mynydd Hiraethog i Dr. Rees. Yn ei fywgraffiad i'w dad, pa un a ymddangosodd gyntaf yn y TRAETHODYDD am 1856, dan y teitl "Fy Nhad," cyfeiria gyda gweddusder at y ffaith fod henafiaid ei nain wedi bod yn cyfanneddu yn Chwibren Isaf o genedlaeth i genedlaeth dros lawer o oesau yn olynol. Ac yn ei ragymadrodd i'w *Ganiadau*, wedi rhai cyfeiriadau hapus at yr hoff lanerchau y bu efe yn diwyd wau ei gerddi cyntaf wrth eu tramwy, efe a ä rhagddo i ddyweyd:—"Hoffai Solomon awelon a golygfeydd Senir a Hermon, ac Amana; a'r bardd Groegaidd ddyfroedd ei Helicon ac awyr ei Barnasus; a dadganai y naill a'r llall eu serch at y mynydd a'r afon lle y buasent yn

myfyrio ac yn cyfansoddi ar eu glànau, ac ar hyd eu llechweddi. Paham gan hyny y gwarafunir i'r bardd Cymreig draethu ei hoffder at yr afonig hono a'r mynydd hwnw yn nghymdeithas y rhai y treuliasai oriau difyraf a melusaf ei fywyd? Iddo ef

> Ni raid awen gymhenog
> O drum Parnasus gwlad Roeg;
> Ni cheisia, nid â i dud
> Glod o elltydd gwlad alltud;
> Ofer y daith, afraid oedd,
> Mwyneiddiach ein mynyddoedd;
> Lle mae awen ddiweniaith
> Gelfydd ymhob mynydd maith.

Y mae afon Aled a Mynydd Hiraethog i mi yr hyn ydoedd Cedron a Hermon i'r bardd Hebreig, a Helicon a Parnasus i'r bardd Groegaidd. Y mae yn wir iddynt hwy allu gwisgo enwau eu hoffus fanau âg enwogrwydd ac urddas clasurol, a dyddordeb cyffredinol mwy nag a allodd holl ymdrechion awenyddol Gruffydd Hiraethog a Tudur Aled gynt, a G. Hiraethog ac I. G. Aled yn awr, roddi erioed na byth ar eu mynydd a'u hafon hwy; ond er hyny, ni roddai beirdd Aled a Hiraethog y goreu i feirdd Palestina a Groeg yn eu hymserch at y manau y buont yn cyweirio tànnau telyn eu hawenyddiaeth gyntaf erioed ynddynt." Yn ei *Adgofion Mebyd ac Ieuenctyd* gwelir llinellau lawer yn rhedeg yn yr un cyfeiriad, eithr ni ddyfynir yn awr ond a ganlyn yn unig:—

> Un fu 'n chwareu 'n moreu 'i fywyd
> Ar Hiraethog, fynydd iach,
> Un fu 'n byw ar lànau hyfryd
> Afon loew Aled fach,—
> Ewch â hwnw o'i gynnefin
> I ryw Seisnig, fyglyd dre',
> Os oes dan yr awyr undyn
> Edwyn hiraeth—dyna fe.
>
> Hiraeth a'm dych'mygol huda
> Dros y môr a thros y wlad,
> I roi tro i Chwibren Isa',
> Hen dreftadaeth teulu 'nhad;
> Awn i'r hen ystafell hono,
> Lle tarawai 'r galon hon
> Guriad cyntaf bywyd yno
> Yn y fynwes dan fy mron.

## EI RIENI A'U HENAFIAID.

Heblaw bod yn barchus yn nghyfrif y wlad, yr oedd rhieni Dr. Rees yn bobl grefyddol. Eu henafiaid hefyd oeddynt glodfawr fel disgynyddion o Hedd Molwynog, tad un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, yr hwn a gyfanneddai yn Henllys, Llanfairtalhaiarn. Ymhlith yr henafiaid hyny yr oedd amryw a gyrhaeddasant enwogrwydd mewn gwahanol ffyrdd. Ar hyn ceir gan ein gwrthddrych, yn ei bregeth angladdol i'w frawd, y Parch. Henry Rees, y nodiadau tarawiadol a ganlyn:—"Rhoddwch gymdeithas eich meddyliau yn awr am enyd

fach; deuwch trosodd i ardal neillduedig Llansanan; yno, mewn hen amaethdŷ sydd yn llechu dan gesail hen fynydd Hiraethog, ar y 18fed o Chwefror, 1798, fe anwyd bachgen—bachgen hynaf i rieni crefyddol a duwiol oedd yn byw yno, rhan o hen dreftadaeth y teulu er ys cannoedd lawer o flynyddoedd. Ganesid aml i fachgen hynod yn ei ddydd o'r teulu hwnw yn yr hen annedd hono o'i flaen ef; un a fu yn swyddog milwraidd yn un o Ryfeloedd y Groes; un arall a fu yn gadben yn ngwarchodlu Edward II.; un arall a fu yn rhyfelgar iawn fel swyddog yn myddin Duc Lancaster, yn Rhyfel y Rhosynau, sef y rhyfeloedd gwladol rhwng y teuluoedd York a Lancaster am goron Lloegr; un arall eto a fu yn hynod fel gwrthryfelwr yn erbyn awdurdod orthrymus un o frenhinoedd Lloegr; ac un arall hefyd a fu yn orthrymwr blin ar denantiaid, gan eu troi allan o'u tiroedd, fel y gwnaed rhanau o'r ddau gwmwd—Archwedlog ac Isaled—yn anialwch gwyllt dros dymmor, yr hyn a barai i hen brydydd yn y dyddiau hyny osod 'y frân, ar ben clochdŷ Llansanan,' i felldithio y dydd y ganwyd y gorthrymwr. O gyff garw o'r fath yna y tarddodd y planigyn tyner hwn, yn y fan y tarddasai amryw, os nid yr oll, o'r planigion geirwon hyny." Yn mywgraffiad ei dad sonia am un arall o'r teulu, yr hwn oedd ben saer celfydd, ac efe "a adeiladodd bont Llansanan, yr hon sydd yn aros hyd y dydd hwn." Fel hyn, o ddyddiau Hedd Molwynog i waered, ymddengys fod athrylith fel gwythïen euraidd yn rhedeg drwy y teulu hwn, gan ei hynodi yn barhâus. O'r diwedd disgynodd crefydd i osod ei nôd arno, gan ei ddyrchafu i enwogrwydd o natur uwch nag a gyrhaeddasai eto. Yr oedd taid a nain y ddau bregethwr enwog yn bobl rhagorol, a than ddylanwad crefydd i fesur helaeth; ond yn eu rhieni hwy y daeth yr elfen ddwyfol i amlygrwydd cryf ac i gael ei theimlo i bwrpas.

Enw tad ein gwrthddrych oedd Dafydd Rees, ac enw ei dad yntau Henry Rees, yr hwn oedd enedigol o Landeilo Fawr, yn Sir Gaerfyrddin, ac a ddaethai i'r Gogledd i weini dan y Llywodraeth fel cyllidydd. Wedi hyny, ymhen amser, efe a ymbriododd â Miss Gwen Llwyd, etifeddes Chwibren Isaf a thyddynod eraill yn y plwyf; ac o hyny allan daeth y lle i fod yn gartref arosol iddo. Dywedir mai dyn lled fyr, crwn o gorffolaeth, cyflym ei ysgogiad, a sydyn ei dymher oedd efe. Yr oedd yn mawr hoffi pregethu da, a chyrchai yn rheolaidd i foddion gras. Difyr yw yr adroddiad a rydd Dr. Rees o'r modd y bu iddo roddi taw ar ryw "gawrfil anferth o Sais" o'r enw King, yr hwn a ddaethai i aflonyddu ar heddwch cynnulleidfa oedd yn gwrando pregeth ar ddernyn o dir cyffredin a elwir "Clwt Cogr," gerllaw Llansanan; oblegid arferid gwneyd felly yn achlysurol, cyn bod capel wedi ei adeiladu yn y lle. Arosai King yn y fro tra yr adeiledid Dyffryn Aled, palas Mrs. Yorke; a thra yn dywysog ar bob rhysedd a gyflawnid yn y pentref yn yr adeg hono, dangosai ei fod yn gryn elyn i bregethu. Wedi dyfod i olwg y gynnulleidfa ar yr achlysur a nodwyd, safai oddidraw, yn ymyl gwrych o ddrain, gan fingamu ar y pregethwr, a galw arno i lefaru yn Saesoneg, os gallai. Wrth weled ei fod yn dal ati, cyffrôdd tymher Henry Rees, a chan redeg at King o ganol y dyrfa, efe a'i tarawodd â'i holl nerth "yn mhwll ei galon," fel y cwympodd ar ei gefn i'r gwrych drain, ac y neidiodd ei "het dorth

geirch," fel y gelwid hi, dros y gwrych i'r aber ddwfr a lifai heibio. Aeth yn grechwen drwy y gynnulleidfa pan welwyd fod y cawr wedi ei orchfygu. Cododd o'r dyrysni mor fuan ag y gallodd, gan brysuro ymaith fel am ei einioes, a chaed llonydd ganddo byth ar ol hyny. Parhaodd Mr. Rees yn bur i'r weinidogaeth, er nad ymddengys iddo ddilyn esiampl ei briod drwy ymofyn am le fel aelod eglwysig. Yr oedd Mrs. Rees yn wraig o gynneddfau cryfion yn gystal ag o gymeriad anrhydeddus. "Gyda golwg ar fy nain," ebe Dr. Rees, "un bur nodedig yn ei dydd ydoedd hi;" ac o hyn efe a rydd i ni amryw engreifftiau tarawiadol. Ar ol claddu ei phriod, rhoes heibio drin Chwibren, gan ei osod dan ardreth i'w mab Dafydd, yr hwn oedd yr ieuengaf o bedwar o feibion; a chydag ef yr ymgartrefodd hyd ddiwedd ei hoes. Tra yn ofalus am gysur ei cheraint a'i hanwyliaid, yr oedd hefyd yn haelionus tuag at bob achos da. Bob tro y deuai Charles o'r Bala i Danyfron—y capel lle y byddai hi a'i theulu yn myned—byddai ganddi gini wedi ei barotoi iddo, tuag at dalu cyflog ysgolfeistriaid yr ysgolion dyddiol a sefydlasid ganddo mewn gwahanol leoedd.

Da y gwyddom y fath syniad uchel a goleddai Dr. Rees am grefydd a duwioldeb ei rieni. Ei dad ydoedd ŵr o deimlad dwys ac angerddol. Yr oedd o feddwl diwylliedig, er na fwynhaodd yn moreu ei oes gymaint o fanteision addysg ag a ddymunasai ar ol hyny. Yn ol esiampl ei rieni, cyrchai yn gyson i wrando gair Duw yn cael ei bregethu. Pan oddeutu ugain oed dygwyd ef i gyfyngder mawr ynghylch ei gyflwr ysbrydol. Bu am wythnosau lawer yn curio gan gystudd ysbryd, heb fod neb o'i gydnabod yn deall paham. O'r diwedd gwybu un o hen aelodau Tanyfron am ansawdd ei ddolur, a chan ei gyfeirio at Falm Gilead, efe a'i cymhellodd i ymwasgu yn ddioed at bobl yr Arglwydd. Yntau, hyd yn hyn, ni fynai ei gysuro. Enbyd y curid ef, megys yn nhrigfa dreigiau. Ofnai nad oedd wedi ei ethol, ac nad oedd i'w fath ef gyfran o gwbl yn mendithion a rhagorfreintiau yr efengyl. Ond yn fuan daeth i wybod mai gwir yw y dystiolaeth,—"Yna yr adnabyddwn, os dilynwn adnabod yr Arglwydd." Yn safn angeu cafodd fywyd; yn nharanau Sinai daeth i gyfarfod â Duw. Yna, wedi i wawrddydd gobaith dori ar ei ysbryd, cynnygiodd ei hun i'r gymdeithas grefyddol yn Tanyfron, a chafodd yno dderbyniad gwir groesawgar. Yn fuan wedi hyn ymbriododd âg Anne Williams o Gefnyfforest—merch ieuanc hardd-deg a chrefyddol, yr hon a gymerodd ato i fyw i Chwibren Isaf. Oddeutu yr un adeg codwyd ef i fod yn flaenor eglwysig, yr hon swydd a lanwodd efe yn anrhydeddus. Pan adeiladwyd capel yn Llansanan, cymhellwyd ef i ddyfod yno i flaenori, yr hyn hefyd a wnaeth; er fod yn amlwg mai yn yr hen le yr oedd ei serchiadau yn cartrefu yn benaf. Ychydig cyn hyn efe a symudasai i fyw o Chwibren Isaf i'r Rhydloew—tyddyn yn cydio â Chwibren, ac yn perthyn i etifeddiaeth ei fam. Y flwyddyn nesaf—1817—symudodd oddiyma i'r Tyddyn Dafydd, Gwytherin. Blwyddyn fu yspaid ei arosiad yn y lle hwn eto. Yn y naill le fel y llall, cafodd dymmorau anffafriol, cynauaf ar ol cynauaf agos â bod yn fethiant llwyr. Gan fod ganddo gryn deulu i ofalu drosto,* cafodd

* Bu i Dafydd ac Anne Rees bump o blant, sef un ferch (Gwen, yr hon sydd eto yn fyw), a phedwar o feibion, Henry, Thomas, William, a Dafydd.

hyn y fath effaith ar ei ysbryd nes suddo o hono i ddigalondid mawr. Ond yn y symudiad nesaf o'i eiddo gwellhaodd arno ymhob ffordd. Yr oedd ef yn awr gyda'i deulu yn hen drigle William Salesbury, sef y Caedu, pa un a saif am yr afon a Chwibren Isaf a'r Rhydloew. Ar ol dychwelyd fel hyn i'w hen gymydogaeth, ac i fysg ei hen gyfeillion, ymsiriolodd yn ei ysbryd; ac ymddengys iddo fod ar y cyfan yn dra dedwydd yma hyd y flwyddyn 1827, pryd yr ymaflodd y darfodedigaeth yn ei gyfansoddiad, ac y daeth yn amlwg fod dydd ei ymddattodiad yn agoshâu. Parhaodd i waelu hyd ddechreu Mehefin, 1828, pryd yr ymadawodd â'r byd mewn teimlad gorfoleddus iawn, yn 55 mlwydd oed. Gyda bod yn dduwiol hynod, rhaid fod Dafydd Rees hefyd yn perchenogi athrylith gref, oblegid yn ei Fywgraffiad yr ydys yn darllen fel hyn:—"Tua thri mis cyn ei farwolaeth, aethai i Lansanan i'r gymdeithas eglwysig am y tro olaf. Er mor hynod oedd ei ddawn a'i brofiadau yn y cyfarfodydd hyny bob amser, yr oedd y tro hwnw yn rhagori ar ddim a glywsid ganddo erioed. 'Yr oeddem oll yn gyffelyb ein teimlad i'r tri dysgybl ar fynydd y gweddnewidiad,' meddai yr hen gristion, Thomas Davies o Flaen-y-weirglodd. 'Erioed ni feddyliais,' meddai, 'fod yn bosibl i ddyn lefaru fel yr oedd Dafydd Rees yn llefaru y noson hono; yr oedd pob gair fel marworyn o dân oddiar yr allor. Clywais lawer o bethau gogoneddus o'r pulpud lawer gwaith, ond dim i'w gyffelybu i'r pethau a glywsom ganddo ef y tro hwnw.'"

Bu ei weddw byw ar ei ol ef am naw mlynedd. Treuliasant gyda'u gilydd fywyd tra defnyddiol. Fel Zacharias ac Elizabeth, yr oeddynt ill dau yn gyfiawn a duwiol; ond os sonir am amynedd tawel yn wyneb adfyd a chyni, iddi hi, yn ddiau, y perthynai y flaenoriaeth. Cyn eu gadael, rhoddwn eto un dyfyniad bychan gyda golwg ar hyn:—"Yr oedd fy nhad a'm mam," ebe Dr. Rees, "yn bur wahanol i'w gilydd yn nhymher eu meddwl, yn gyffelyb i Manoah a'i wraig. Un isel, llwfr, digalon iawn oedd efe yn nydd profedigaeth. Yr oedd hithau, o'r tu arall, fel cedrwydden gref, yn wrol a chalonog, fel nad yn hawdd y buasai yn digaloni a llwfrhâu; ac eto gallasai gydymdeimlo yn garuaidd â'i phriod yn ei iselder a'i wendid." Yr ydys yn mawr hoffi y darlun yna. Wele wraig yr hon oedd "werthfawrocach na'r carbuncl." I'w gŵr yr oedd yn ymgeledd gymhwys mewn gwirionedd,—hi a wnai "iddo les, ac nid drwg, holl ddyddiau ei bywyd."

## TYMMOR MEBYD AC IEUENCTYD.

Y mae yn beth i sylwi arno, ac i ofidio o'i blegid, ddarfod i gynifer o enwogion ein gwlad fyned i ffordd yr holl ddaear gan adael càn lleied o'u hanes ar eu hol, yn enwedig hanes eu dyddiau boreuol, wedi ei ysgrifenu ganddynt hwy eu hunain. Pe amgen, ni buasai angen i wrthddrych y nodiadau hyn dori allan fel y canlyn yn ei draethawd gorchestol ar Williams, Pantycelyn:—"Pa le y mae hanes y cedyrn a fu wŷr enwog gynt yn y Dywysogaeth? Dynion ag yr oedd gwreiddiolder eu meddyliau mor gyfoethog ag ydyw daear ein gwlad o fwnau a meteloedd; eu galluoedd meddyliol mor gedyrn â'r mynyddoedd; bywiogrwydd eu dychymyg yn gyfartal i'w golygfeydd amrywiaethog;

a'u hyawdledd areithyddol yn rhagori ar odwrdd ei llifeiriant pan yn ymfwrw i lawr dros ochrau ei chreigiau uchelgribog. Ond hanes eu bywydau, lawer o honynt, pa le y mae? O'r gwagle tlawd hwn yn llenyddiaeth ein gwlad, etyb yr adsain, *Pa le y mae?* Nid oes nemawr ddim i'w gael ond yn unig yr ychydig a gedwid mewn traddodiad, ac nid yw y rhai hyny ond marwydos a fyddant agos wedi llwyr ddiffoddi erbyn yr oes nesaf."

Mae yn debyg nad oedd Dr. Rees yn cofio dim oll am y dernyn hyawdl yna pan anfonai golygydd *Trysorfa y Plant* ato, ymhen blynyddau ar ol hyny, i ddeisyf cael ychydig o'i hanes ef i'w gyhoeddi yn y misolyn hwnw; oblegid fel hyn y dechreuodd ei ateb:—"Anwyl Gyfaill,—'Gofynaist beth anhawdd.' Y mae yn anhawdd nacâu eich cais; ac y mae braidd yn anhawddach na hyny genyf ei gyflawni. Yr wyf wedi trosglwyddo gofal fy nghoffadwriaeth, wedi i mi fyned 'i ffordd yr holl ddaear,' i ofal brawd yn y weinidogaeth sydd yn enwog am ysgrifenu cofiantau, gan roddi siars iddo, os bydd ef byw ar fy ol, nad oedd i ysgrifenu cofiant am danaf fi, ac am iddo wneyd fy ewyllys yn hyn o beth yn hysbys, fel na byddai i neb arall wneyd hyny. Nid oes dim oll yn fy mywyd i yn werth ei ysgrifenu, ei argraffu, a'i ddarllen, ond y gŵyr pawb am dano yn gystal a minnau, na dim yn y pethau hyny o bwys a gwerth eu gwybod." Wel, fel yna, o bosibl, y teimlai y "cedyrn a fu wŷr enwog gynt yn y Dywysogaeth," onidê ni buasai achos iddo yntau gwyno fod càn lleied o'u hanes hwy yn awr ar gael. Yn ddiarwybod iddo ei hun, yr oedd y pregethwr enwog yn awr am barhâu y drwg y cwynai ef gynt mor chwerw o'i blegid. Er hyny, ni adawodd ef mo hono ei hun yn gwbl ddidyst yn y cyfeiriad yma. Ysgrifenodd ddigon, hyd yn nod pe na ddeuai rhagor i'r amlwg, fel ag i ni deimlo ein bod mewn meddiant o hysbysrwydd gwir werthfawr, os nad cyflawn, o brif helyntion y rhan foreuol o'i einioes. Hyd yn nod yn ei lythyr at olygydd *Trysorfa y Plant* yr ydys yn cael crynhöad byr o'r helyntion hyny, pa un, erbyn hyn, sydd yn neillduol werthfawr yn ein golwg. Eb efe:—

Yn blentyn ac yn fachgen, yr oeddwn fel rhyw blentyn a bachgen arall; dim gwell na dim gwaeth; dim callach na dim ffolach na'r cyffredin o blant Adda yn y tymmor hwnw o'u bywyd, am ddim a wn i. Ganwyd fi Tachwedd 8fed, 1802, yn Chwibren Isaf, plwyf Llansanan, Swydd Dinbych. Pan tua thair blwydd oed cefais y frech wen, yr hon a ddiffoddodd ganwyll fy llygad dehau. Cefais ychydig ysgol yn fy machgenoed, lle y dysgais ddarllen Saesoneg ac ysgrifenu, ac ychydig o rifyddiaeth. Darllenais y Bibl amryw weithiau drosto yn y tymmor hwnw, a phob llyfr Cymraeg arall y gallwn gael gafael arno; megys *Daearyddiaeth* R. Roberts o Gaergybi, *Geiriadur* Charles, *Amseryddiaeth Ysgrythyrol* Llwyd o'r Bala, *Merthyrdraeth* Foxe yn nghyfieithiad Jones o Ddinbych, &c. Dygwyd fi i fyny ar aelwyd grefyddol. Bu addysgiadau ac esiamplau fy rhieni yn foddion dan fendith y Nef i gynnyrchu ynof dynerwch cydwybod, ac ofn cyflawni drygau cyhoeddus fel rhai bechgyn a adwaenwn. Aelodau gyda'r Methodistiaid Calfinaidd oedd fy rhieni, a dygent fi a'r plant eraill gyda hwy i foddion gras ac i'r cyfeillachau crefyddol; ond ni bum i erioed yn aelod eglwysig gyda'r Methodistiaid. Yr oedd ynof, pan yn fachgen ieuanc, gryn awydd i fod yn bregethwr—peth pur gyffredin ymysg plant Cymru y dyddiau hyny, a'r dyddiau hyn hefyd, hwyrach. Byddai fy mrawd Henry a minnau yn pregethu y naill ar ol y llall weithiau pan ar ein penau ein hunain. Efe oedd y pregethwr goreu. Yr oedd rhai hen wŷr a hen wragedd cyfarwydd yn arfer dyweyd y gwnaethwn innau bregethwr rhyw dro, yn sicr ddigon; yr oedd hyny yn fy moddio innau yn fawr, er nas gallwn wybod beth a welsent ynof i beri iddynt feddwl y fath beth am danaf. Priodais yn ieuanc, a rhoddaswn i fyny bob meddwl am bregethu cyn hyny; ond yr oedd ysbryd darllen ac awydd am wybodaeth yn parhâu yn gryf ynof.

Yma, efe a amcanai roddi "llawer mewn ychydig," ac ni raid dyweyd iddo fod yn llwyddiannus hefyd. Y fath adfyd i'r teulu, a'r fath anffawd iddo yntau a ddygwyddodd pan nad oedd eto ond tair blwydd oed. Dywed iddo gael ychydig ysgol. Mor dda fuasai genym gael ychydig fanylion ynghylch ei ymarweddiad fel ysgolor, pa un a oedd efe yn yfed dysg yn gyflym, ai ynte fel arall. Yn mywgraffiad ei dad, pan yn son am hynodion cymeriad ei nain, ceir ganddo yr hanesyn a ganlyn, yn dwyn cyfeiriad at ei hanes yn fachgen ysgol:—"Dro arall, yr oeddwn i a'm brawd Thomas yn yr ysgol yn Llansanan, ac yn llettŷa yn nhŷ un Robert Jones, crydd yn y pentref. Daeth i fwrw eira yn drwm un prydnawn dydd Gwener yn y gauaf, a chododd yn wynt uchel tua naw o'r gloch yn y nos. Yr oeddym i ddychwelyd adref drannoeth. Aeth yr hen nain yn anesmwyth iawn ei meddwl yn ein cylch, rhag ofn y gallasai ein bod wedi cychwyn adref yr hwyr hwnw, a methu ar y ffordd, ac fel dau hesbwrn wedi myned tan eira; neu os nad oeddym wedi cychwyn yr hwyr hwnw, y buasai y ffyrdd wedi eu cau i fyny erbyn trannoeth, fel nad allasem ymlwybro. Wedi i bawb fyned i'w wely a chysgu, yn agos i un ar ddeg o'r gloch y nos, ymaith â hi bob cam i Llansanan, trwy y gwynt a'r lluwch, ddwy filldir o bellder. Tua hanner nos clywem ei llais wrth ddrws ein llettŷwr yn gwaeddi, 'Robert Jones, ho! ydyw'r ddau fachgen yma?' 'Ydynt,' atebai yntau; 'neno'r anwyl, Mrs. Rees! beth a barodd i chwi godi allan ar dywydd fel hyn, a'r amser yma o'r nos?' 'Cedwch y ddau fachgen yma yfory hyd nes delo rhywun i'w cyrchu,' ebe hi. Cododd y gŵr o'i wely i agor y drws iddi; erbyn hyny yr oedd Mrs. Rees wedi troi tuag adref. Addefodd y bu agos iddi ddarfod am dani y noson hono yn y lluwch a'r oerni." Ni allasai amgylchiad fel hyn fyned heibio heb adael argraff annileadwy ar feddwl fel yr eiddo ef. Dichon fod yr ysgol a gedwid yn mhentref Llansanan yn un weddol dda; ond y mae pob sicrwydd ei fod *gartref* mewn ysgol o'r fath oreu at ddysgu crefydd, a phob math o rinweddau—naturiol, cymdeithasol, a theuluaidd. O'i fabandod i fyny, cyflwynid ger ei fron esiamplau ardderchog o ddaioni yn feunyddiol, ac ni buont aneffeithiol yn eu dylanwad ar ei feddwl. "Daw ffigysbren wrth edrych ar ffigysbren yn ffrwythlawn," medd hen ddiareb adnabyddus yn Arabia. Felly y dygwydd gyda phlant. Wrth graffu mewn doethineb ar yr hyn sydd ragorol, fe'u cyfnewidir, o bosibl, i'r unrhyw ddelw. Eu haddysgydd cyntaf yw esiampl. Wedi i wrthddrych y sylw presennol gyrhaedd oedran addfedrwydd, a dyfod yn benteulu ei hunan, gwelid fod pob rhyw rinweddau amlwg o eiddo ei rieni a'i hen nain odidog yn cael eu hadlewyrchu, megys mewn drych, yn ei ymarweddiad yntau hefyd. Yn y fan hon, gweddus rhestru cydwybolrwydd a *gweddïau* ei dad, ymhlith y pethau a fuont wasanaethgar er ffurfio y cymeriad ardderchog a berchenogid ganddo. Pa le bynag y cartrefai Dafydd Rees fe fyddai yno allor i Dduw, ac nid rhith o aberth a offrymid arni. Yr oedd am i bob gweddi fod fel oen perffeithgwbl ger bron yr Arglwydd. Ofnai gyflwyno i'w sylw yr anafus, a'r dall, a'r cloff. Ar amserau pan fyddai ei ysbryd wedi ymsuddo i ddigalondid dirfawr, byddai fel yn arswydo ymaflyd yn Ngair Duw, a myned ar ei liniau i weddïo. Ond pan yn teimlo ei bod yn glir rhyngddo a'r nefoedd, a'i ysbryd yn ei le, "fel

telyn Dafydd ar yr ŵyl;" efe a ymaflai yn addewidion Duw gyda nerth, ac a weddïai gyda thaerineb ac angerddolrwydd na anghofid byth. Mae y dernyn a ganlyn allan o'i fywgraffiad yn rhy werthfawr a phwysig i'w adael allan yn y fan hon:—"Bu agos iawn iddo gael ei wasgu i'r bedd gan ddigalondid ar dymmor cynauaf gwlyb, oer, diffrwyth, a diweddar y flwyddyn 1816. Bu ddyddiau lawer heb fwyta na dywedyd dim ond ocheneidio yn llwythog. Gwyddai fy mam yn dda nad oedd un feddyginiaeth iddo os nad allasai gael ganddo ymaflyd yn y Bibl a'r ddyledswydd deuluaidd i gychwyn, a'i godi allan i'r capel. Gosodai y Bibl ar y bwrdd o'i flaen bob hwyr a bore, ond nid ymaflai ynddo am ddyddiau. Gadawai hithau iddo heb gymhell nemawr arno, o herwydd gwyddai yn dda na atebasai hyny un dyben. O'r diwedd, un nos Sabboth, pan oedd cnwd o eira trwm wedi disgyn, ac ŷd yr holl wlad allan o dano, efe a ymaflodd yn y Bibl pan osodwyd ef o'i flaen, darllenodd, ac aeth i weddi, a'r fath weddi ydoedd nad oedd bosibl byth ei hanghofio wedi ei chlywed. Plentyn pedair ar ddeg oedd yr ysgrifenydd y pryd hwnw, ond y mae efe yn cofio mor dda am y weddi hono a phe buasai y Sabboth diweddaf." Y fath oedd ei daerineb, meddir, fel y teimlid ei fod megys wyneb yn wyneb â Duw. Cyfododd i fyny ac ni bu athrist mwy. Yr oedd ar ei draed yn foreu drannoeth yn hwylio y teulu i ysgubo yr eira oddiar yr ŷd. Caed amryw ddyddiau o sychwynt yn ddilynol, a chasglwyd y cynauaf adref. Yna ychwanegir, fod "ei weddïau yn y cyfarfodydd gweddïo am dymmor wedi hyny fel y fflamau tân; nid allai y galon galetaf a fyddai yn y lle ddal heb deimlo. Dywedai llawer fod yn llawn cystal ganddynt glywed Dafydd Rees yn gweddïo a chlywed John Elias yn pregethu, yn enwedig pan gyfodai Dafydd Rees i fyny o'i '*ffit* ddigalon,' fel y dywedent." Pa ryfedd i bregethwyr mor rymus ac angerddol droi allan odditan gronglwyd y fath weddïwr â hwn!

Adroddid yr hanesyn dyddorol a ganlyn gan Dr. Owen Thomas yn y cyfarfod cenadol a gynnelid yn nghapel Chatham Street, Liverpool, Rhagfyr 17, 1883, cyn ymadawiad y Parch. John Thomas i Fryniau Cassia:—

Fe sylwai y diweddar Barch. Henry Rees, pan oedd yn fachgen lled ieuanc, fod gweddïau ei dad yn y teulu, ryw bryd, wedi myned yn sychion a diafael er ys tro, mewn cymhariaeth i'r hyn a arferent fod. Ac ar ol myned allan un boreu, meddai wrth ei frawd Thomas: "A wyddost ti beth? ni thâl hi ddim byd fel hyn: y mae y weddi wedi myned mor sych a'r ysglodyn; y mae yn rhywyr ei yru o i'r Bala." Yr oedd Cymdeithasfa y Bala yn dygwydd bod ar y pryd yn ymyl. Fe gafwyd ganddo fyned yno. Ac yr oedd yn hawdd gweled ar ei wedd, pan y dychwelodd, ei fod wedi cael adnewyddiad i'w ysbryd; a phrofodd y weddi, y boreu drannoeth, hyny y tu hwnt i bob ammheuaeth. Pan aeth y ddau frawd allan i'r buarth, ar ol y weddi, torodd Mr. Rees i chwerthin, ac meddai wrth ei frawd,—"Onid oeddwn i yn dyweyd y buasai raid ei yru o i'r Bala, cyn y daethai dim llun arno? Ond fe ddaeth y Bala âg o ato ei hun yn braf."

Mae yn eglur fod ein gwrthddrych yn symud gyda'i rieni o le i le, nes sefydlu o honynt yn arosol o'r diwedd, yn y Caedu. "Blwyddyn," eb efe, "fu ystod ein trigias yn Nhyddyn Dafydd. Yn nechreu Mai, 1818, symudasom i'r Caedu, Llansanan." O fewn y flwyddyn hon hefyd y dechreuodd Henry Rees bregethu, nid yma, ond i waered yn

nghymydogaeth Abergele. Ymhen mis neu ddau talodd ymweliad â'i deulu yn y Caedu, a chaed ganddo bregethu ar noson waith yn Hendre uchaf. Yr oedd ar y pryd oddeutu ugain oed, ac yn ŵr ieuanc tàl, lluniaidd, ac addawol tu hwnt. Os oedd yntau yno, a fuasai gynt yn cydbregethu âg ef—i roddi prawf ar eu doniau cyn bod galwad arnynt —beth oedd ei deimlad y noson hono, fel y safai Henry i fyny megys cenad dros Grist, ac o ddifrif yn mynegu i'w gyd-anfarwolion ffordd iachawdwriaeth! Ond gan nad pa fodd y teimlai, gwyddom ei fod ar y pryd yn rhy ieuanc, ac i lawer o flynyddau dreiglo wedi hyny cyn iddo droi allan yn yr un cymeriad â'i frawd. Yn y cyfamser yr ydoedd yn efrydydd dyfal. Darllenai bob llyfr da a ddelai yn ei ffordd. Yr hyn a ddenai ei sylw a'i serch boreuol yn benaf oedd hanesyddiaeth a seryddiaeth. Yn ei ragymadrodd i'w *Ganiadau* ar ol crybwyll yr ychydig weithiau awdurol ag oeddynt gyrhaeddadwy iddo, efe a sylwai: "Mawr oedd fy awydd am eangiad moddion gwybodaeth yn y cangenau hyny yn neillduol; ac ystyriwn y rhai oedd ganddynt gyflawnder o'r trysorau hyny o wybodaeth yn eu cyrhaedd y dynion hapusaf dan haul; a thybiwn, pe buasent yn fy meddiant i, y buaswn yn gwbl ddedwydd. Ond y mae i bob sefyllfa ei manteision yn gystal a'i hanfanteision. Bu fy anfanteision boreuol hyny yn fanteisiol i minnau mewn un peth—cyfyngodd gylch fy narllenyddiaeth yn benaf oll at yr Ysgrythyrau Sanctaidd; yr hyn a'm dygodd i'r fath gydnabyddiaeth â hwy na chyrhaeddaswn mo honi, ond odid, pe buasai genyf wrth law ddigonedd o lyfrau eraill—cydnabyddiaeth a ystyriaf heddyw y penaf a'r gwerthfawrocaf peth a feddwyf." Tystiolaeth bwysig yw hon, a dylai y rhai y mae ganddynt lygad at y weinidogaeth ei gosod yn ddwfn at eu calon. Fel hyn, yr oedd yn ymbarotoi yn raddol, a braidd yn ddiarwybod iddo ei hun, at y gwaith mawr oedd yn ei aros fel pregethwr a gweinidog yr efengyl. Ond cyn dechreu pregethu, cawn ef gydag ymroddiad dwys

## YN TROI EI SYLW AT FARDDONIAETH.

Nid oes neb a ammheua nad oedd ef wedi ei eni yn fardd. Hoffai ganiadau Williams er yn blentyn. Ond yr oedd ef tuag ugain oed cyn y tueddwyd ei feddwl i sylwi yn foddhâus ar farddoniaeth yn y mesurau caethion. Yr un a fu yn offerynol gyntaf i dueddu ei feddwl yn y cyfeiriad hwn oedd R. ab Dafydd, sef Robert Davies o'r Gilfachlwyd, yr hwn oedd iddo yn gymydog agos. Cyrchai ato yn fynych i ddarllen ei lyfrau, oblegid yr oedd ganddo gasgliad da o honynt; ac i dderbyn gwersi ganddo yn y gelfyddyd farddonol. "Ewyllysiai ef," medd ein gwron, "wneuthur bardd o honof; ond cafodd waith caled i'm dysgyblu cyn y gallai hyd yn nod gynnyrchu unrhyw awydd ynof at y gelfyddyd; a gwaith caletach na hyny drachefn i'm haddysgu i ddeall rheolau ac adnabod beïau gwaharddedig cerdd-dafod; bum yn hir 'fel llo heb ei gynnefino â'r iau.' Athraw llymfanwl oedd R. Davies; nid oedd trugaredd na maddeuant i'w cael ganddo am wall grammadegol neu gynghaneddol: dwrdiodd fi yn erwindost lawer tro am wallau felly. Byddwn yn arswydo wrth fyned â chyfansoddiad i'w ddangos iddo; ond yr oedd fy nghynnydd graddol yn peri iddo fawr

foddhâd; a chredaf yn ddilys fod llwyddiant fy anturiaeth gystadleuol gyntaf yn Aberhonddu wedi peri cymaint o lawenydd i feddwl fy athraw ag a barodd i mi fy hun."

At "Y Cywydd ar Frwydr Trafalgar" y cyfeiriai wrth son am ei anturiaeth gystadleuol gyntaf. Un o destunau Eisteddfod Frenhinol Aberhonddu a gynnelid yn 1826 ydoedd. O'r blaen nid oedd ef wedi cyfansoddi unrhyw ddernyn o bwys neillduol. Edrychai ar y Cywydd hwn gan hyny fel *Reuben*, cyntafanedig ei awen. Efe a'i cyfansoddodd wrth ddilyn ei orchwylion ar hyd y meusydd; ac yn yr hwyr elai â'r naill ddernyn ar ol y llall at ei athraw R. Davies i'w ddiwygio. "Nid oedd genyf fi," eb efe, "y dysgwyliad lleiaf y buasai iddo ennill y gamp; ond yr oedd ef yn lled obeithiol; a dirfawr oedd fy syndod pan ddaeth y newydd o Aberhonddu mai yr eiddof fi oedd y buddugol. Derbyniais y wobr—ariandlws, gwerth dau gini, ac wyth gini yn arian —trwy ddwylaw y Dr. W. O. Pughe, yr hwn a safasai i'm cynnrychioli yn yr Eisteddfod, ac oedd yn trigo gyda'i fab, y diweddar Aneurin Owen, Ysw., yn Tanygyrt, gerllaw Nantglyn. Wedi ei ddychweliad adref o Aberhonddu, anfonodd y Dr. wahoddiad i mi fyned i Tanygyrt i dderbyn y wobr. Yr oedd Bardd Nantglyn a rhai cyfeillion eraill wedi eu gwahodd yno i'm cyfarfod. Dyna y tro cyntaf i mi weled y doethawr, a bod yn nghyfeillach Bardd Nantglyn." Yr oedd ef yn awr yn 24 mlwydd oed, yn llawn o hoewder meddyliol, ac yn cael edrych arno fel un o brif awenyddion y genedl. Y mae tôn ei gywydd cyntaf hwn, wrth reswm, yn dra rhyfelgar; yr un pryd, y mae yn awenyddol a grymus odiaeth drwyddo. Cynnwysai ddarnau na allasai lunio eu hamgenach ar ol bod flynyddau yn ymwneyd â'r cynghaneddion. Gan gyfeirio at Nelson, dywed:—

Hwn oedd dwrn, nawdd y deyrnas,
Dychryn gelyn cyndyn càs.

Ymha le y ceid bardd, ieuanc neu hen, a allasai roi desgrifiad gwell o'r Llynges Brydeinig ar ei hynt tua mangre y Frwydr fawr, oedd i roddi yn llaw Prydain arglwyddiaeth y moroedd:—

Angorau 'r llongau 'n llengoedd
Godai y blaid gyda bloedd;
Dyrchafent, lledent yn llon,
Yr hwyliau i'r awelon;
A'r llynges eres yrai
Dros y Werydd, rhydd yr äi;
A'r môr mawr a'i laswawr li'
Tonog yn berwi tani;
Gwna lwybrau trwy ei frau frig
Ei rodiaw a'i aredig;
Anafai wyneb Neifion,
Chwalai 'r dŵr, a chiliai 'r dòn.

Ond beth am y *frwydr*:—

Yna twrf yr arfau tân
Echrysawl ddechreuasan'
Yn dra uchel fagnelu
Drwy oror y dyfnfor du.

Eto:—

Pylor yn lluchio peli
Tros wyneb maith, llaith y lli';
Mellt gwreichionllyd, enbyd oedd
Yn dewfrith hyd y dyfroedd,
Nes b'ai 'r môr, oror eirian,
A thonau 'r dyfnderau 'n dân.
Creuloni wnai 'r weilgi wyllt
A ffrio yn gyffrowyllt;
Dinystr ar ddinystr a ddaeth,
Ddu afradwyllt ddifrodaeth;
Dynion mewn ing rhwng dannedd
Marwolaeth yn gaeth eu gwedd;
Angeu hyf, â'i gleddyf glâs,
A luniai 'r mawr alanas.
Gwaed wrth erchyll bistylliaw,
Droi 'r eigion yn drochion draw—
Och, afar! ow! och hefyd!
Glasfor yn gochfor i gyd;
A chur, anian ddychrynid,
Yr oedd ar ei hwyneb wrid;
A Thrafalgar yn waraidd
A siglid, grynid i'r gwraidd.

Desgrifia yr olygfa erch nes ein bod fel yn gweled a chlywed y cyfan. Mor ofnadwy y difrod!

Twrf aflawen bob enyd,
Hwylbreni 'n hollti o hyd;
Llongau 'n gorwag ymagor,
Yn ddrylliawg i ferwawg fôr.
Mwg a niwl o'r magneloedd
Yn wyll dyrch trwy 'r entyrch oedd;
Pan f'ai 'r pelau 'n gwau o gylch,
Hwy rwygent y môr ogylch
O'u holau yn gwysau i gyd,
Ail i âr ar ol eryd!
Rhag twrf, a rhwyg y terfysg,
O'r hell bau ffoai 'r holl bysg!

O'r diwedd—

Gwelid llyngesau 'r gâlon
Yn ciliaw â braw i'w bron:
Dan boenus, boenus benyd,
A'u llongau 'n agenau i gyd;
A'u milwyr wedi 'u malu
Mewn digter i'r dyfnder du.

Ond beth am gwymp Nelson!

Och! mae i ni gyni ac aeth,
Galar, a buddugoliaeth;
Ing ysol! ein llyngesydd,
O! fraw son, yn farw sydd!

Am y llynges, er yn fuddugol,

Töai tristwch tew trosti,
Dyryswyd a hurtiwyd hi.
Haf ei chlod a fachludodd,
Yn ofid trist auaf trodd.

Llawer yn rhagor o linellau godidog a allesid ddyfynu, eithr gweddus ymattal ar hyn, gyda chrybwyll fod y Cywydd hwn, yn annibynol ar bob peth arall a wnaeth, yn ddigon i anfarwoli enw ei awdwr.

Yn fuan wedi ei lwyddiant yn Aberhonddu, cymhellwyd ef i gyhoeddi y Cywydd buddugol, ynghyd a chaniadau eraill o'i eiddo. Bu i'r llyfryn ledaeniad helaeth. Cafodd y doethawr Pughe a'i fab, ynghyd a Bardd Nantglyn, yn noddwyr tirion yn yr adeg yma. Cafodd hefyd addysgydd da a chefnogydd aiddgar yn Caledfryn, yr hwn a ddechreuasai flodeuo fel bardd rai blynyddau o'i flaen ef. Eu cymdeithas a fyddai hyfryd pan ddygwyddent gydgyfarfod, yr hyn ni ddygwyddai yn fynych, am eu bod wyth milldir o ffordd oddiwrth eu gilydd yn byw. Yn 1828 dygwyddai fod yr Eisteddfod Freiniol i gael ei chynnal yn Ninbych. Naturiol oedd dysgwyl y byddai iddo anturio i faes y gystadleuaeth y waith hon yn ddiattal. Cyfansoddodd ar dri o destunau, ac iddo ef y dyfernid y wobr, sef ariandlws gwerth pum' gini, am y Cywydd goreu ar "Orllifiad y Môr dros Gantref y Gwaelod." Bernid ef yn ail oreu ar y Cywydd "Ar Ymdrech Buddug yn erbyn y Rhufeiniaid." Y testun arall ydoedd, "Awdl Farwnad i Goronwy Owain." Er fod rhai o oreufeirdd y cyfnod wedi cyfansoddi ar y testun hwn, ni chafodd neb y wobr; ac am ei Awdl ef, hi aeth ar goll, fel nad oes genym ond dyfalu pa fath ydoedd. Nis gallai fod yn ôl o ran teilyngdod i'r cywyddau y rhai a welir yn argraffedig yn nghyfrol ei *Ganiadau*, ac a ystyrir yn wir odidog. Mor fedrus, er engraifft, y desgrifia efe gadernid a thrachwant anniwall Rhufain am oruchafiaeth yn y Cywydd ar "Ymdrech Buddug:"—

Pan oedd Rhufain filain far,
Arbenig ei rhaib anwar;
A'i hesgyll tywyll bob tu,
Mal adwyth yn ymledu:
Treisio ac ymreibio 'r oedd,
Barus arswydus ydoedd;
A mawr rwysg am oresgyn—
Boed a fo, y byd a fyn
Dan eryraidd, ddewraidd ddig
Faner y llys Rhufeinig.
Lluchia goronau llachar
Teyrniaid byd trwy nwyd a bâr;
Darniai a lloriai mewn llid
Orseddau; llwyr y soddid
Wledydd a'u goludoedd oll,
I'w mawr chwant er trwm archoll.
Dwrn awdurdod hynod hon
Ysigai dywysogion.
Rhoddai, hi blethai ei blin
Ieuau ar warau 'r werin.
Griddfan wnai 'r ddaear tani,
Tra hallt oedd ei thrawsder hi."

Ar ol darllen ei ddesgrifiad o Buddug, gorchwyl hawdd fyddai i arlunydd teilwng gyflawni gorchestwaith â'i bwyntil a swynai lygaid brenhinoedd a brenhinesau.

Buddug enwog frydiog fron
Gwelid yn llawn o galon;

Gwaew o awydd trwy 'i gïau,
Dewr nwyd am gael darnio iau
Rhufain—rhoi ei gwŷr hefyd,
Addig wedd i'r cledd i gyd.
Troad ei llygad lliwgu,
Effro, llon, gyffröai y llu;
Mantell o borphor meinteg
Yn toi ei hysgwyddau teg;
Ei gwallt oedd megys gwallt aur,
Meinaidd unlliw a mwnaur,
Crogai 'u glau fodrwyau dros
Ei hedlin feinael hoëwdlos;
A'i dwy ferch hynod ufydd,
Coron bri Irene rydd
Ar gadfeirch, gwylltfeirch, gwalltfawr,
Gyda nerth i'r gad yn awr;
A'r ddwy oedd yn llwyr ddiofn,
Hwynt-hwy nid adwaenent ofn.

Ond rhaid ymattal ar hyn. Bellach, ni a awn rhagom i sylwi ar ei waith

## YN YMUNO A'R ANNIBYNWYR, AC YN DECHREU PREGETHU.

Blwyddyn lled helyntfawr yn hanes ein gwrthddrych oedd 1828,—blwyddyn yr Eisteddfod yn Ninbych, fel yr ydym newydd grybwyll, a'r flwyddyn yn yr hon y bu farw ei dad, a'r flwyddyn yn yr hon y dechreuodd yr Annibynwyr bregethu yn Llansanan. Yr oedd ef, dalm o amser cyn hyn, wedi ymuno "mewn glân briodas" â Miss Ann Edwards, merch Evan ac Ellen Edwards, Waunddilen, ger Nantglyn, yr hon, drwy ystod oes faith, a wisgai nodwedd anrhydeddus, ac a berchid gan bawb a'i hadwaenai fel un o'r gwragedd mwyaf hynaws, caredig, a chrefyddol yn yr holl wlad,—gwraig am yr hon y dywedai ef ei hun, wedi ei marwolaeth, ei bod "yn deilyngach o fywgraffiad na'i gŵr." Gwelsom na bu ef erioed yn aelod eglwysig gyda'r Methodistiaid, ac nis gwyddom yn iawn y modd yr arweiniwyd ef i goledd mwy o hoffder at yr enwad Annibynol, ond dyna fel y bu, ac i'r enwad hwnw yr oedd yn gaffaeliad dïail. Yn mywgraffiad ei dad gwneir yn amlwg ei fod wedi bwrw ei goelbren ymhlith yr Annibynwyr cyn myned o'r gŵr da hwnw i fyd yr ysbrydoedd; oblegid crybwylla fod ei dad yn lled anfoddlawn ar y cyntaf "o herwydd iddo ymuno â'r Annibynwyr, oblegid yr oedd ef yn Fethodist o'r iawn ryw." Yn ymyl hyn dywed iddo ymdawelu yn fuan, "a daeth yn hoffach ganddo am Bili, fel y'm galwai, yn fuan ar ol hyn, nag a fuasai ganddo erioed. Soniai lawer gwaith gyda pharch mawr am Mr. Llwyd, o Ddinbych, yr hwn a fuasai weinidog yr eglwys Annibynol yn Lôn Swan lawer o flynyddau. Daeth Mr. Llwyd ar ryw achlysur unwaith i Danyfron i bregethu, ac felly daeth fy nhad i gydnabyddiaeth âg ef." Crybwylla am ddygwyddiad arall hefyd a barodd iddo deimlo yn nês at yr enwad Annibynol byth ar ol hyny, ac wele y crybwylliad:—"Dygwyddodd fy nhad fyned ar neges i Ddinbych unwaith yn amser Mr. Llwyd, ar ddiwrnod cyfarfod blynyddol yr Annibynwyr; aeth i wrando

y pregethau am ddeg a dau, a chafodd y fath hyfrydwch fel yr arferai fyned yno i'r cyfarfod blynyddol ar ol hyny am amryw flynyddau. Adroddai am un cyfarfod hynod. Yr oedd gweinidog dyeithr o'r Deheudir yn pregethu am ddau o'r gloch gyda nerth ac effeithioldeb anarferol. Ymysg y gwrandäwyr yr oedd yr hen William Lewis, fel y gelwid ef, o Ddinbych y pryd hwnw, ond a symudodd ar ol hyny i fyw i Sir Fôn. Yr oedd William Lewis yn bregethwr tanllyd iawn gyda'r Methodistiaid, a llais fel udgorn Sinai ganddo. Yr oedd teimladau William Lewis wedi eu dwys gyffroi er ys meityn dan bregeth y gŵr dyeithr. Ar ganol yr hwyl adroddodd y pregethwr y darn pennill,—

> Ca'dd ddwfr o'r graig, ca'dd fanna gwiw
> Dan Sinai fe'i cynnaliodd Duw,
> Er saled oedd ei drych.

Tarawodd y llinell, 'Dan Sinai fe'i cynnaliodd Duw,' y gynnulleidfa fel gwefriad trydan, a thorodd William Lewis yn fonllef fawr, 'O diolch! do! Dan Sinai fe'i cynnaliodd Duw.' Y lle mwyaf ofnadwy y bu dynion erioed! ond fe'i cynnaliodd Duw hi yno. Do, ac fe'm cynnaliodd innau yno hefyd—er saled oedd fy nrych.'" Sylwa Dr. Rees fod yr adgofion am Mr. Llwyd, a'r cyfarfodydd hyny yn Ninbych, wedi lladd llawer iawn ar ragfarn meddwl ei dad yn erbyn y *Dissenters*, fel y gelwid yr Annibynwyr, fel nad oedd mor wrthwynebol â llawer o'i frodyr pan ddechreuasant sefydlu achos yn Llansanan. Pa fodd y teimlai ei frawd (yr hwn oedd yn y weinidogaeth), nid yw yn hysbys; ond y mae y gair ar led, ac yn cael ei gredu, ddarfod iddo mewn ias o deimlad difyr o'r fath ag a ddeuai drosto rai gweithiau, ateb rhywun a ofynai reswm am y gwahaniaeth enwadol oedd rhwng ei frawd ac yntau drwy ddyweyd mai *un llygad* oedd ganddo ef. Cawsom fantais i wybod ryw ddwy flynedd neu dair yn ol, nad oedd yntau yn anghredu y chwedl, tra yr ewyllysiai i'r rhai a glywsent yr hyn a ddywedodd ei frawd, ddyfod i wybodaeth a chofio ei atebiad yntau i'r neb a fynegai am y peth wrtho, sef, "Pe byddai Harri yn myned i anelu yn gywir at nôd neillduol rywbryd, rhaid fyddai iddo gau un llygad, ac edrych yn unig drwy y llall." Dyna ei eiriau mor bell ag yr ydys yn cofio. Yr oedd boneddwr o Fethodist, adnabyddus iawn yn Nghaernarfon, yn clywed yr ymddyddan; ac efe a dderbyniai y sylw mewn teimlad da, yn enwedig gan fod yn wybyddus iddo fod Dr. Rees yn pregethu i'r Methodistiaid yn Mhorthaethwy y Sul cyn hyny.

Ond i fyned heibio. Yn fuan iawn ar ol iddo ymuno â'r Annibynwyr, cymhellwyd ef i ddechreu pregethu. Ar y cyntaf petrusai ac ofnai, ond o'r diwedd efe a ufuddhaodd, er llawenydd dirfawr i'w gyfeillion yn Llansanan. Ar ol dechreu, ymaflodd yn ei waith o ddifrif, a chan mor angerddol ydoedd, ymledodd y son am dano yn gyflym i bob cŵr o'r wlad. Yr oedd eisoes yn glodfawr fel bardd—yn awr dyma ef yn glodfawr fel pregethwr hefyd. Gwahoddid ef i wasanaethu mewn cyfarfodydd, a bu yn pregethu mewn Cymanfäoedd, cyn ei urddo i'r weinidogaeth, yr hyn beth oedd mor anghyffredin fel ag i dynu sylw pawb. Bu yn pregethu yn Nghymanfa Llanrwst, a gynnelid yn 1830, nid ar ddydd mawr yr wyl, ond am saith o'r gloch boreu drannoeth. Teimlid fod yr achlysur yn un hynod, fel y daeth

lluoedd ynghyd i'w wrando. Yr oedd yn bresennol yn y Gymanfa hono lïaws mawr o brif weinidogion yr Annibynwyr,—megys Dr. Arthur Jones, Bangor; Williams o'r Wern; Jones, Dolgellau; Harris, Wyddgrug; Roberts, Dinbych; Jones, Treffynnon; Evans, Amlwch; Jones, Llanuwchllyn, &c. Ymddengys hefyd fod y rhan fwyaf, os nad yr oll o honynt, yn gwrando ar Rees y bore hwnw. Ei destun oedd, "Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef." Yr oedd y bregeth yn odidog, a'r odfa yn un i'w chofio hyd byth. Tra y gwenai lliaws mewn boddhâd, wylai eraill gan ddwysder teimlad, fel y daeth y lle i fod yn rhyfedd ac ofnadwy yn wir. Yn ystod yr un flwyddyn cynnelid Cymanfa yn Llanerchymedd; a chan mai Caledfryn oedd yno yn gweinidogaethu ar y pryd, naturiol oedd iddo wahodd ei gyfaill Hiraethog yn awr i dalu ymweliad â Môn, a phregethu yn y Gymanfa. Yr oeddym wedi clywed cymaint o son am dano yn y Gymanfa hono fel yr oedd yn hynod dda genym weled yn y *Dysgedydd*, am Ionawr yn y flwyddyn hon, yr adroddiad a ganlyn am ymddangosiad y pregethwr a'i lwyddiant gan un oedd yno, a hwnw yn neb amgen na'r Parch. R. Parry (*Gwalchmai*) o Landudno. Eb efe, "Dywedodd ychydig o'i hanes wrth yr ysgrifenydd, ac am iddo fod yn sicr o ymweled âg ef. Yr oedd yn llettŷa yn nhŷ Mr. David Aubrey, taid Meilir Môn, ac felly fu, ar noswaith gyntaf y cyfarfod, ac wedi cael ymddyddan go faith, dywedodd,

Hiraethog, mae 'n hwyr weithion,

ac atebodd yntau yn barod, y mae

Yn siwr o fyn'd yn Sir Fôn.

Yr oedd yr olwg ar Mr. Rees yn dra gwledig, a'i wisg yn bur gyffredin a Chymreig, llodrau penglîn a socasau hirion, brethyn cartref, &c., fel nad allasai neb heb ei adnabod feddwl ond ychydig iawn o hono; pa fodd bynag, yr oedd ei lettŷwr wedi credu mai efe oedd dyn penaf y Gymanfa. Wrth weled yr olwg aflerw oedd arno, dywedodd un boneddwr, sef Mr. Owen, Trewyn, ei fod yn synu at chwaeth Caledfryn, wedi deall mai efe a fyddai yn pregethu olaf am ddeg o'r gloch, ei fod yn dwyn un o ddynion chwech o'r gloch y boreu ger bron ar yr awr fwyaf cyhoeddus o'r Gymanfa. Pan y cyfododd i fyny ac y daeth at y ddesg i agor y Bibl, yr oedd pawb yn edrych arno yn graff, a rhai megys yn tremio trwyddo, ac mewn dychymyg yn ei fesur a'i bwyso yn fanwl iawn. Yr oedd yn lled dàl o ran corffolaeth, heb fod yn gnodiog iawn, ond yn lled eiddilaidd y pryd hwnw. Yr oedd rhywbeth yn nghroen ei wyneb yn debycach i farmor nag i gnawd; yr oedd ei drwyn yn lled uchel, ac yn rhedeg yn fain; ei wallt o liw'r gollen, yn dewglyd; ac yr oedd cysgodion yr haul oddiar ei arlais yn disgyn ar ei rudd i guddio ambell graith o'r frech wen, yr hon hefyd a daenasai gŵr ei mantell dros un o'i lygaid. Yr oedd y llygad arall

Mal seren yn bellen dân byw,

ac ambell fflam o hono mor dreiddgar a chraff fel y tremiai drwy wedd y bobl i gelloedd dyfnaf eu meddyliau. Mae yr adgof yn peri i mi

feddwl am ddywediad Robert Hall am Christmas Evans, pan mewn ymddyddan gyda chyfaill. Dywedodd hwnw, 'Un llygad oedd ganddo, onidê?' 'Ië,' meddai Robert Hall, 'ond cofiwch, syr, yr oedd y llygad hwnw mor danllyd a goleu fel y gallasai arwain byddin gref trwy anialwch hirfaith i frwydr galed ac i fuddugoliaeth fythol.' Wedi ysgogiad byr, cyflym o'i ben, y naill ochr a'r llall, darllenai ei destun yn wylaidd, sef, 'Y galon sydd fwy ei thwyll na dim, drwg ddiobaith ydyw, pwy a'i hedwyn?' Ni bu ddeng mynyd heb ennill gwrandawiad mwyaf astud yr holl dorf. Esboniodd gynnwysiad ei destun, a'i gysylltiad â'r bennod, nes yr ydoedd y cyfan yn berffaith ddealladwy i bawb, fel y byddai y Lefiad gynt yn agor anifail, ac yn arddangos ei holl ranau mewnol hyd wahaniad yr aelodau, y cymmalau, y mêr, y galon, a'r holl lestri bywydol cywrain a changhenog. Felly y dygodd yntau athrawiaeth y testun ger bron gyda meddyliau mor ddyrchafedig, ac iaith mor bur a nerthol, a chymhwysiadau mor hapus, fel yr ennillodd serch y dorf, ac y sefydlodd ei gymeriad ar unwaith drwy yr holl wlad, canys yr oedd yno wrandäwyr o bob cymydogaeth yn Môn."

Yn y dernyn uchod ni cheir cyfeiriad at ffaith dra adnabyddus ynglŷn â'r ymweliad hwnw, sef ddarfod i'r neb a'i llettŷai ffromi yn aruthr pan welodd fod gŵr o ymddangosiad mor wledig wedi cael ei anfon i aros dan ei gronglwyd ef. Sonir yn y Gair am lettŷa angelion yn ddiarwybod, ac felly y bu yma. Yn Nghymdeithasfa Corwen, a gynnaliwyd yn mis Rhagfyr diweddaf, pan ddaeth yr adeg i wneyd coffâd am Dr. Rees, cyfeiriodd Dr. Hughes, Lerpwl, yr hwn yntau a ddygwyd i fyny ymhlith y Monwysiaid, yn yr ymadroddion canlynol at yr amgylchiad: "Yr oedd ganddo gob laes gyda botymau gloewon, a chlôs, golwg arbenig iawn arno, a hono heb fod yn rhyw bendefigaidd iawn. Cafodd fyned i lettŷa at ryw hen ŵr, ac fe ffromodd yr hen frawd hwnw o herwydd nad oedd wedi cael rhywun mwy golygus, o leiaf mwy trwsiadus, i lettŷa gydag ef, ac edrychai yn gilwgus ar Dr. Rees; o leiaf, edrychai yn gilwgus ar yr Annibynwyr a'i hanfonasai. Boreu drannoeth yr oedd W. Rees yn pregethu ar yr adnod, 'Y galon sydd fwy ei thwyll na dim,' a dywedid mai dyna y tro goreu y pregethodd erioed—yr oedd wedi gorchfygu y gynnulleidfa. Ar ol y bregeth hon yr oedd yr hen ŵr yn myned o ddrws i ddrws i ddyweyd, 'Gyda fi y mae o yn llettŷa.'" Yn yr un cyfeiriad caed rhai sylwadau gwerthfawr hefyd gan Dr. Owen Thomas. Dywedai ei fod ef yn cofio Dr. Rees, fe allai, yn gynt na neb oedd yno. Cofiai am dano tua diwedd y flwyddyn 1829 yn dyfod ar daith gyda gŵr o'r enw Mr. Lloyd, oedd ar y pryd yn gweinidogaethu yn Llanelwy, a buont yn pregethu yn Mangor. Trefnodd Mr. Arthur Jones iddynt bregethu mewn ysgoldŷ oedd yn Hirael. Pregethodd Rees ar yr adnod, "Melldigwch Meroz." Ychwanegodd iddo ei glywed drachefn ymhen tair neu bedair blynedd, ac yr oedd wedi gwneyd cynnydd dirfawr erbyn hyny. Yn ystod yr ymddyddan a fu ar hyn, caed rhai nodiadau gwir werthfawr ar *nodwedd* Dr. Rees, y rhai a ddyfynir mewn erthygl ddyfodol.

## EI SYMUDIAD I MOSTYN.

Yn Llansanan y cartrefai efe hyd y flwyddyn 1831, pryd y derbyniodd alwad oddiwrth yr eglwys Annibynol yn Heol Mostyn, Swydd Fflint, i'r hwn le y symudodd gyda'i deulu yn Mai y flwyddyn hono. Gofelid am yr achos ieuanc yn Llansanan y pryd hwnw gan y Parch. Ishmael Jones, yr hwn oedd bregethwr grymus, ac yn ddyn tra hynod mewn llawer ffordd. Teimlai ein gwron barch diffuant iddo, ac ymffrostiai yntau, o'r tu arall, tra fu byw, mai efe "gododd Rees i bregethu." Nid heb deimlad athrist y gadawai ef ei hoff ardal enedigol, yn enwedig gan nad oedd yn debyg y dychwelai byth mwy i gyfanneddu ynddi, megys y cydnebydd yn ei Ragymadrodd i'w *Ganiadau*:—"Gyda chalon drom y cenais yn iach y diwrnod hwnw i lanau Aled a bryniau Hiraethog. Dychymygwn fod yr afon, wrth ymdreiglo danaf, pan yn croesi y bont, ar gŵr isaf pentref Llansanan, yn sisial cydymdeimlad â mi, ac yn murmur ei ffarweliad olaf; a bod Bron Llywelyn a'r Foel Bengam, ar fynydd Hiraethog, yn gwisgo 'y niwl oer yn alarwisg,' ar achlysur fy ymadawiad. Teimla y meddwl ryw ddirgel fwynhâd rhyfedd mewn gwneuthur cyfeillion dychymygol o'r mynydd, a'r bryn, a'r afon—manau y buasai yn mynych gymdeithasu âg ef ei hun, ac âg anian, ger eu llaw ac ar hyd-ddynt. Yr oeddwn y pryd hwnw hefyd yn gadael nifer o gyfeillion hoff, cymdeithion a chynghorwyr fy ieuenctyd, i fyned i gyfanneddu i fysg dyeithriaid, ac i ganol golygfeydd dyeithrol. Yn Heol Mostyn yr oeddwn yn cyfnewid glàn yr afon am làn y môr, a rhodfeydd grugog y mynydd am rodfeydd coediog parc Mostyn; y cymdeithion o'm cwmpas oeddynt y ceirw, yr ysgyfarnogod, a'r *pheasants*, yn lle y defaid, y grugiar, a'r gylfin-hir; swn dwndwr a phrysurdeb y gwaith glo yn lle tawelwch y maes, y bugail, a'r amaethydd. Er hyny ymgymmodais â'm sefyllfa newydd yn lled fuan, a daethum i hoffi yr ardal a'r trigolion yn fawr; ac y mae yn dra hoff genyf hyd heddyw am ardal a phreswylwyr Mostyn."

Peth arferol ymhlith yr Annibynwyr y pryd hwnw, oedd i amser yr "urddiad" gael ei oedi yn bur hir, ar ol i un gael galwad oddiwrth eglwys i ddyfod i'w bugeilio yn yr Arglwydd, ac felly y dygwyddodd yn ei amgylchiad yntau. Er iddo symud i Mostyn yn Mai, 1831, ni chymerodd ei ordeiniad le hyd ddydd Gwener y Groglith, sef Ebrill 20 yn y flwyddyn ddilynol. Yr oedd nifer dda o weinidogion yn bresennol ar yr achlysur. Cymerid rhan yn ngwasanaeth yr urddiad gan Williams o'r Wern a Roberts o Ddinbych; a thraddodwyd y siars i'r gweinidog gan ei frawd, y Parch. Henry Rees, Amwythig, oddiar Ioan xix. 35: "A'r hwn a'i gwelodd, a dystiolaethodd; a gwir yw ei dystiolaeth: ac efe a ŵyr ei fod yn dywedyd gwir, fel y credoch chwi." Yr oedd y cyfarfod, meddir, yn un tra hynod drwyddo; ac am y *charge* hwnw o eiddo Henry Rees i'w frawd, oddiar y geiriau a nodwyd, diau ei fod yn un o'r pethau mwyaf godidog a draddodwyd o bulpud erioed. Clywsom ar ol hen weinidog oedd yn bresennol, fod gweinidogion a phobl, fel yr elai Rees rhagddo, wedi eu meddiannu gan deimladau dwysion iawn. Yr oedd yr ocheneidiau yn aml, a'r dagrau felly hefyd. Daliai y neb y pregethid iddo (yr hwn a safai ar risiau y pulpud) yn

weddol dda, hyd nes y trodd ei frawd i'w dynghedu yn enw cynghorion a gweddïau ei dad a'i fam, i fod yn ffyddlawn i ddwyn ei dystiolaeth dros Grist, fel y credai y gwrandäwyr; ac yna llwyr orchfygwyd yntau gan ei deimladau, fel yr oedd yr olygfa, rhwng difrifoldeb urddasol y pregethwr a phob peth, yn un nad oedd modd ei hanghofio yn fuan. Bu yr Eglwys Annibynol yn Mostyn ar ei hennill yn ddirfawr o herwydd dyfodiad Rees i weinidogaethu yno. Ei ddoniau poblogaidd a dynent sylw yr ardal a'r wlad o amgylch, fel yr ymgynnullai torfëydd mawrion i wrando arno y naill Sabboth ar ol y llall. Rhaid fu helaethu y capel, a rhoddi oriel newydd i fyny. Ni bu yr achos crefyddol yn y lle mor lewyrchus mewn unrhyw dymmor o'i hanes â'r chwe' blynedd y bu ef yn llafurio yno. Cof genym glywed hen gadben yn dyweyd, na byddai ef yn cael nemawr drafferth i gael gan ei longwyr gychwyn mewn pryd i'r odfa tra yn Mostyn, pan oedd Rees yno, am yr ofnent mai allan y byddent oni chyrhaeddent yno yn brydlawn. Trwy ei gysylltiad â'r lle, daeth Heol Mostyn i fod yn adnabyddus trwy holl Gymru yn ebrwydd. Ychydig o gymdeithas ei feddwl a gafodd yr awen yn ystod ei drigias yn Mostyn; er hyny cyfansoddodd yno rai darnau grymus nodedig. Yn ei Ragymadrodd i'w *Ganiadau*, dywed fod adgofion y blynyddoedd hyny yn felus ganddo. Ond cyfarfu âg un tro hynod chwerw yno, sef colli ei addfwynaf *Angharad*, yr hon a fu farw yn chwech oed, ac a gladdwyd yn Heol Mostyn. Yn *Adgofion Mebyd ac Ieuenctyd*, cyfeiria at yr amgylchiad yn y dull toddedig a ganlyn:—

Er y diwrnod y gadewais
  Lanau Aled, hyfryd fro,
Llawer blinfyd chwerw brofais
  Yn y byd o dro i dro;
Gwell yw tynu lleni trostynt
  Gwell yw peidio i go' eu dwyn,
Ond yn unig un o honynt—
  Colli fy Angharad fwyn.

Fy ngholomen fwyn, ddiniwed,
  Hoffder llygaid mam a thad,
Ergyd trwm in' oedd ei cholli,
  Hir fu 'n hiraeth ei barhâd;
Heilltion ddagrau dros ein gruddiau
  A dreiglasant lawer tro,
Nid aeth ugain o flynyddau
  Ag Angharad fach o'n co'.

Buasai 'n deilwng ferch i Moses,
  Yn llarieidd-dra 'i thymher fwyn
Hudai 'i gwedd a'i llygaid serchus
  Bawb i'w charu, gan eu swyn;
Oedd ry dyner i anialwch
  Oer a garw 'n daear ni,
Ac i wlad o ddiogelwch
  Angel ddaeth a chipiodd hi.

Yma yr ydym yn cael achos i sylwi, fod yr anwyldeb a'r serchogrwydd teuluaidd cryf hwnw, a drigai yn gyntaf yn ei nain, ac wedi hyny yn ei rieni, yn trigo yn ddiammheuol ynddo yntau hefyd.

EI LAFUR A'I LWYDDIANT YN NINBYCH.

Gan gyfeirio at ei symudiad yno, efe a ddywed, "Ar ddechreu y flwyddyn 1837 symudais i a'm teulu i Ddinbych, i gymeryd gofal yr Eglwys Annibynol yn Lôn y Swan, wedi marwolaeth fy nghyfaill hybarchus a hoff, y Parch. D. Roberts." Cydnabyddwyd ei berthynas â'r eglwys yn ddioed, sef ar y dydd cyntaf o Chwefror. Yn fuan ar ol hyn bu galwad arno ef a'i frawd i fyned i weinyddu yn nghladdedigaeth eu hanwyl fam yn Llansanan. Llefarai ef oddiar y geiriau, "Ei phlant a godant, ac a'i galwant yn ddedwydd," a phregethai ei frawd oddiar y geiriau, "Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb;" a mynych, fel y cofia lliaws o'n darllenwyr, y pregethodd efe oddiwrth y geiriau hyn, ynghyd a'r adnodau cysylltiedig, yn ystod y blynyddau dilynol; mewn gair, daeth y bregeth hono i fod yn un o'r rhai penaf a gyfansoddodd efe yn ei fywyd. Cof genym ei glywed yn ei thraddodi un tro mewn Cymdeithasfa yn Nghaernarfon, a hyny gyda nerth ac arddeliad anghyffredin.

Esgusoder ni am grwydro ychydig o'r ffordd fel yna. Ein pwnc oedd ymsefydliad a llafur ein gwrthddrych yn Ninbych. Ymddygodd yr Eglwys Annibynol yn y dref hono yn ddoeth drwy ei alw i fod yn weinidog iddi, a diau iddo yntau weithredu yn unol âg ewyllys Pen yr Eglwys gyffredinol, drwy ei hateb yn gadarnhaol. Ffaith hynod i'w chrybwyll ynglŷn â'i symudiad hwn ydoedd, mai y diweddar Barch. Michael Roberts o Bwllheli a roes iddo yr awgrym cyntaf ynghylch y mater. Dygwyddodd felly pan oedd Rees ar daith bregethwrol yn y cŵr hwnw o'r wlad. Wedi cyrhaedd Pwllheli rhaid oedd galw gyda Michael Roberts, yr hwn, yn ei ddyddiau goreu, a ystyriai efe yn un o'r pregethwyr effeithiolaf a sangodd bulpud erioed. Ac hyd yn nod ar ol i'w reswm fyned dan ddiffyg, efe a ystyriai fod rhywbeth fel yn brophwydol yn ei eiriau ambell dro. Fodd bynag, ar ol iddo eistedd enyd gydag ef, edrychodd y pregethwr enwog yn graff arno, a dywedodd, "Yr ydwyf wedi cael gweledigaeth dy fod i fyned yn weinidog i Ddinbych, a rhaid i ti fyn'd." Yr oedd hyn cyn i neb o'r dref hono ysgrifenu nac yngan gair wrtho ynghylch y mater. Pan dderbyniodd yr alwad ar ol hyn o Ddinbych, ni allai lai na chofio geiriau Mr. M. Roberts. Ar ol ymsefydlu yn y lle, ymaflodd yn nyledswyddau y weinidogaeth gydag adnewyddol nerth ac ymroad. Gan fod llaw yr Arglwydd gydag ef, aed i deimlo fod y capel yn rhy gyfyng o lawer i'r gynnulleidfa. Yn y flwyddyn 1839 bu yno y fath adfywiad fel y cynnyddodd yr eglwys yn ddirfawr, a dyna'r pryd y tynwyd i lawr yr hen addoldŷ, ac yr adeiladwyd yr un ëang presennol yn ei le, gyda thraul o £1200. Gorlenwid hwn eto yn debyg i'r llall. Hysbyswyd ni gan un a fu yn eistedd dan ei weinidogaeth am dymmor y pryd hwnw, y ceid yno olygfa ardderchog, yn enwedig ar nos Sabbothau: pob eisteddle yn llawn, pob clust wedi ei hoelio megys wrth wefusau y llefarwr, ac yntau yn traddodi ei genadwri gyda nerth angerddol, fel pe newydd ddisgyn oddiar fynydd Duw. Mor fawr oedd yr astudrwydd ar ddechreu pob gwasanaeth, fel pan godai i ddyweyd ei destun (megys y sylwai ein hysbysydd), y gallesid ymron

glywed trwst nodwydd yn cwympo i'r llawr. Ymhlith ei wrandäwyr yn yr adeg hono, gwelid nifer mawr o bobl barchusaf y dref a'r wlad o amgylch. Yr oedd yn dymmor llewyrchus ar grefydd, ac yntau mor lawn o'r ysbryd adfywiadol ag oedd ar led drwy Gymru, fel y gosodai ei fryd ar y gwaith o ddeffroi proffeswyr, a dychwelyd pechaduriaid.

Gan ei fod weithian yn anterth ei rym a'i boblogrwydd, yr oedd galw diderfyn ymron am ei wasanaeth o bob cyfeiriad. Ni allasai fod yn ddibris o hawliau a gofynion ei gynnulleidfaoedd yn Ninbych a'r amgylchoedd; yr un pryd y mae yn wybyddus iddo, yn ystod ei drigias yn y dref hono, deithio llawer iawn i wasanaethu ei enwad mewn cylchwyliau blynyddol a chymanfaoedd, nid yn unig yn y Gogledd, ond hefyd yn nghyrion y Deheubarth a'r trefi Seisonig. Yn ystod 1839, ac wedi hyny, ymwelodd â nifer mawr o fanau yn siroedd Dinbych a Fflint, i gynnal cyfarfodydd diwygiadol. Ei brif gydymaith yn y teithiau hyn ydoedd y diweddar Barch. Richard Jones o Ruthyn, yr hwn mewn byr amser a gyrhaeddodd boblogrwydd anarferol fel pregethwr. Yn y flwyddyn 1839 yr ymsefydlodd yn Rhuthyn, a bu farw yn dra disymwth cyn diwedd y fl. 1841. Yn ei Gofiant gwelir llythyr o eiddo Dr. Rees, ymha un y dywed: "Yn ystod y tair blynedd y bu yn Rhuthyn, cyd-deithiais lawer iawn âg ef yma a thraw i gyfarfodydd; ac anfynych iawn yr elai y naill o honom i un man heb y llall." Ond er cymaint ei lafur yn y ffordd hon ac ymhob ffordd arall, efe a fynodd amser, tra yn Ninbych, i gyflawni rhai o brif orchestion llenyddol ei fywyd, at y rhai y gwelir y cyfeiriad a ganlyn yn ei ragymadrodd i'w *Ganiadau*:—"Yn ystod yr amser y bum yn trigo yno y cyhoeddwyd *Cofiant y Diweddar Barch. William Williams o'r Wern* a'r *Traethawd ar Grefydd Naturiol a Dadguddiedig*. Yr *Hiraethgan* yn niwedd y *Cofiant* ydyw un o'r darnau mwyaf boddhaol genyf o'm holl gynnyrchion awenyddol; ac nid rhyfedd hyny, canys yr oedd ei gwrthddrych genyf yr hawddgaraf a'r anwylaf o ddynion. O fewn corff y tymmor hwn hefyd y cynnaliwyd Eisteddfod y Gordofigion yn Liverpool, testun cadair yr hon oedd 'Cystuddiau ac Amynedd Job.' Meddyliais unwaith gyfansoddi awdl i'w hanfon i'r gystadleuaeth ar y testun hwn; ond wedi cyfansoddi tua chant a hanner o linellau, rhoddais yr amcan i fyny, mewn rhan o ddiffyg hamdden ato, ac mewn rhan o ddiffyg hyder ynof fy hun i allu cyflawni gwaith o deilyngdod ar y testun." Gyda threigliad amser daeth yr awdl ar Job i fod yn "Bryddest-Awdl" hirfaith a godidog; ond rhaid cofio mai yn Ninbych y cafodd hi ei dechreuad.

## EI SYMUDIAD O DDINBYCH A'I AROSIAD YN LIVERPOOL.

Ychydig gyda chwe' blynedd a fu hŷd tymmor ei weinidogaeth yn Ninbych. Symudodd yno, fel y cofir, ar ddechreu y flwyddyn 1837: ac ar y Sabboth cyntaf yn Mai, 1843, dechreuodd ar ei weinidogaeth yn y Tabernacl, Llynlleifiad. Colled fawr i Ddinbych oedd colli ei llenor a'i phregethwr ardderchocaf; ac i'r Annibynwyr rhaid fod loes yr ymadawiad yn chwerw odiaeth. Ond ofer ymryson yn erbyn yr anocheladwy; tua Liverpool yr oedd y golofn yn ei arwain, a "rhaid" ydoedd

ei dilyn. Er fod Dinbych yn hyfryd, yr oedd Liverpool yn meddu manteision amgenach. Ymhlith ei gydwladwyr yno rhoddid iddo gyfleusdra ardderchog i weithio dros Grist. Nid peth dibwys yn ei olwg oedd fod ei frawd wedi symud yno yn barod i weinidogaethu gyda'r Methodistiaid; o leiaf peth naturiol yw i ni dybied felly. Ymhlith yr Annibynwyr Cymreig yn y dref fawr hono yr oedd pethau yn edrych tuag i fyny er ys talm; ac yn y Parch. T. Pierce, yr hwn oedd weinidog i un o'u cynnulleidfaoedd yno er y flwyddyn 1832, byddai yn sicr o gael cyfaill a chydweithiwr wrth fodd ei galon. Am y gynnulleidfa a fyddai yn gwrando yn y Tabernacl yn Great Crosshall Street, yr oedd yn fawr, yn haelionus, yn fywiog a gweithgar dros ben. Ar adeg ei agoriad yn 1817, ystyrid y Tabernacl yn un o'r capelau cangaf a feddai y Cymry yn Liverpool. Costiodd yn agos i £3000. Y gweinidog yno y pryd hwnw oedd y Parch. John Breese, yr hwn a symudodd i Gaerfyrddin yn nechreu y flwyddyn 1835. Ar ei ol ef bu yr anfarwol Williams o'r Wern yn gweinidogaethu yno am o gylch tair blynedd. Pan yr ymadawai rhifai yr eglwys fwy na 400 o aelodau. Yn ystod yr adfywiad grymus a ddilynodd yn fuan wedi hyny, penderfynwyd helaethu terfynau yr achos, ac adeiladwyd Capel Salem, Brownlow Hill, pa un a agorwyd yn Mehefin, 1841. Symudodd dros 150 o aelodau y Tabernacl yno i ddechreu yr achos; ond er i gynifer fyned ymaith, yr oedd nifer yr eglwys pan yr ymsefydlodd Dr. Rees yn y lle uwchlaw 300; ac yn fuan lliosogodd y gynnulleidfa i'r fath raddau fel na wyddid oddiwrth absennoldeb y rhai a ymadawsent. Ymddangosai i bawb ei fod yn dra dedwydd yn ei gylch newydd hwn, yn enwedig gan fod y fath lwyddiant yn dilyn ei lafur. Ond yn y byd hwn ni cheir mo'r melus heb y chwerw, na thymmorau o ffyniant hapus heb i dymmorau o nodwedd gwahanol eu dilyn. Bu y blynyddoedd 1847 a 1848 yn flynyddoedd o fethiant masnachol yn Liverpool, fel y bu raid i gannoedd o'r Cymry adael y dref, yr hyn ni allasai ddygwydd heb i'r holl gynnulleidfaoedd deimlo cryn fesur o adfyd. Er hyny dalient eu ffordd; a thrwy yr ymdrech clodwiw a wnaethant i ddiddymu y dyledion a'u blinent, yn ystod y flwyddyn 1852 daeth i'w rhan ymwared hyfryd, yr hyn a'u calonogai i anturio ac ymgyrhaedd at bethau mwy eto yn y dyfodol.

Parhaodd Dr. Rees i fod yn barchus a phoblogaidd yn y Tabernacl hyd y flwyddyn 1853, pryd yr ymgymerodd â bugeiliaeth yr eglwys yn Salem, yr hon, ac ystyried pob peth, oedd yn fwy cyfleus a manteisiol iddo. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yno y Sabboth cyntaf yn Mai. Bu y symudiad hwn yr un mor ddedwydd i'r gynnulleidfa ag a fu iddo yntau a'i deulu. Parhaodd i lafurio yma gyda pharch cynnyddol am lawer blwyddyn, fel y ceir achos i sylwi eto. Yr oedd ei fywiogrwydd a'i ymroad ymhob cylch o wasanaeth, yn grefyddol, cymdeithasol, gwladol a llenyddol, yr holl amser yma yn gyfryw ag nad allasai ond dyn o alluoedd corfforol anghyffredin ymgynnal danynt. Teithiai i Gymanfaoedd a chyfarfodydd pregethu megys ag y gwnaethai pan oedd yn aros yn Nghymru. Ychwanegid yn ddirfawr at ei lafur drwy y gofyn mawr, diderfyn ymron, oedd am ei wasanaeth fel darlithydd. Parai ei gysylltiad â'r argraffwasg fod yn angenrheidiol iddo dreulio llawer iawn o'i oriau hamddenol, gartref ac oddicartref, ar ei ben ei

hun, gyda'r pin ysgrifenu yn ei law. Rhoddai lawer o gymdeithas ei feddwl hefyd i'r awen yn y blynyddoedd hyny. Ryw ddwy flynedd cyn iddo newid y Tabernacl am Salem fel maes ei lafur gweinidogaethol, y cynnelid yr Eisteddfod Genedlaethol yn Porthmadog, pryd yr ennillodd y gadair a'r wobr gysylltiedig, am yr awdl oreu ar *Heddwch.* Cydnabyddir ar bob llaw fod yr awdl hon yn un o'r rhai ardderchocaf a feddwn yn yr iaith. Rhy hir o lawer, dybygid, y buasai yn petruso ymgyrhaedd at yr anrhydedd a ennillwyd ganddo, mor deg ar yr achlysur a nodwyd. "Edrychwn," eb efe, "ar gadair prif-fardd eisteddfod freiniol bob amser fel sefyllfa uwchlaw galluoedd penaf fy awenyddiaeth i fedru dringo iddi, ac yn wir, ychydig iawn o eiddigedd a deimlaswn un amser am y rhagorfraint. Ac o herwydd y ddau beth hyna, ni chynnygiaswn erioed am dani, na meddwl o ddifrif am hyny chwaith, hyd nes y daeth testun cadair Eisteddfod Madog allan yn 1851. Teimlais awydd cryf i gyfansoddi 'Awdl ar Heddwch' i'r gystadleuaeth hono, deued a ddelai o honi. Yn gymaint âg mai 'Brwydr' ydoedd testun fy nghyfansoddiad cystadleuol cyntaf, y byddai i hwn, yr olaf yn ddiau i mi, ddwyn ei dystiolaeth dros 'Heddwch,' a dadgan rhinweddau a bendithion tangnefedd." Yn ymyl hyn cydnebydd iddo gyfansoddi yr awdl yn nghanol prysurdeb, ac yn wyneb anfanteision lawer. "Llefara fy meirniaid yn uchel am deilyngdod yr 'Awdl ar Heddwch;' ond dywedant, 'Da pe cawsai yr awdwr ychydig mwy o hamdden i'w hadolygu cyn ei hanfon i'r gystadleuaeth.' Ychydig iawn, yn wir, o hamdden at hyny a allasai gael—yr oedd yn anorphenedig foreu y dydd olaf i'w dodi yn y llythyrdŷ i'w chludo i law ysgrifenydd yr eisteddfod. Yr oedd ganddo tra yn ei chyfansoddi, heblaw ei alwadau gweinidogaethol, a golygiaeth yr *Amserau* (yr hwn oedd dan ei ofal y pryd hwnw), y llyfr Seisonig a gyhoeddodd, *Providence and Prophecy*, yn y wasg; un tu dalen o'r hwn a gymerai gymaint o'i amser i'w barotoi ag a gymerasai hanner cant o du dalenau yn y Gymraeg; ac yr oedd yn orchest iddo allu ei ddwyn i ben fel y mae o dan yr amgylchiadau hyny."

Caniatäwyd iddo dreulio nifer mawr o flynyddau yn Liverpool, cyn i unrhyw adfyd teuluaidd o bwys ddyfod i'w ran. Ond ymhen ychydig gyda thair blynedd ar ol iddo ymgymeryd â gofal bugeiliol yr eglwys yn Salem, disgynodd cysgod angeu ar ei luest unwaith yn rhagor. Megys y collodd ef ei "Angharad" fwyn yn Heol Mostyn, yr oedd yn awr i golli ei anwylaf David, yr hwn a anesid yn y lle hwnw, tua diwedd 1835. "Efe oedd ein hail fab," ebe ei dad am dano, "a'r chweched o naw o blant." Planigyn lled dyner ydoedd o'i fabandod. Fel y tyfai i fyny hoffid ac edmygid ef gan bawb a ddeuent i gyffyrddiad âg ef. Gyda bod yn dalentog a dysgedig, yr oedd rhywbeth bron yn angylaidd yn ei olwg. Bu farw o'r darfodedigaeth, ar y Sabboth, Medi 14eg, 1856. Os trwm oedd galar "Gomer" gynt am ei Ieuan Ddu, trwm iawn oedd ei alar yntau ar ol ei anwylaf fachgen hwn. Ysgrifenodd Gofiant iddo, nad ymddangosodd yn yr iaith ei dynerach, ac fel hyn y dechreua, "'Y mae fy ymadrodd heddyw yn chwerw.' Erioed nid ymaflodd fy neheulaw hon yn ei hen gydymaith y pin, i gyflawni tasg mor galed i'm teimlad ag ydyw ysgrifenu coffadwriaeth am fy ymadawedig fab—dymuniant fy llygaid, ac anwyldra fy enaid.

'O, fy mab! fy mab!'" Yr oedd wedi ymaflyd mewn galwedigaeth y buasai yn rhwym o ragori ynddi, ond nid oedd ef gymhwys i'r ddaear —rhaid oedd i'r nefoedd ei gael. Yr ail nos Sabboth wedi iddo fyned, traddododd ei ewythr, y Parch. Henry Rees, bregeth ar achlysur ei farwolaeth yn nghapel Salem, na raid dyweyd ei bod yn rhagorol. Cymerai yn destun yr adnod olaf yn Llyfr Daniel, "Dos dithau hyd y diwedd," &c. Gan gyfeirio at nodwedd yr ymadawedig, dywedai, "Un dystaw ydoedd ef. Dystawrwydd meddylgar oedd un o'i nodweddion. Erioed ni ddyrchafodd ei lef yn yr heol. Ymgadwai gydag ef ei hunan. Ei amcan yn yr ysgol, ac wedi hyny yn y swyddfa, ydoedd cymhwyso ei hunan i ddyledswyddau galwedigaeth, fel y gallai ymgynnal heb fod yn bwys na baich ar neb. Y mae genym le cryf i obeithio fod addurniadau naturiol ei nodwedd wedi eu sancteiddio â gras y nef; ac i'r tawelwch hwnw a hynododd ei fywyd a'i farwolaeth, derfynu mewn tawelwch a thangnefedd tragywyddol."

Er i'w deimlad o hiraeth barhâu yn hir, ymunionodd yn ei ysbryd drachefn, ac aeth rhagddo i gyflawni dyledswyddau ei swydd bwysig gyda yr ymroad a'r hyfrydwch llawnaf. Llafuriai fel pe na buasai yn bosibl iddo lafurio gormod; pregethai fel pe mai iddo ef yn unig yr ymddiriedasid am weinidogaeth y cymmod. Yn ddilynol i'r adfyd, rhoddid i'w weddïau, a'i gynghorion, a'i bregethau fwy o felusder addfed ffrwyth y cynauaf. Siriolid ei feddwl, nid yn unig gan yr arddeliad a roddid ar ei weinidogaeth, ond hefyd drwy y cydymdeimlad dwfn ac eang a ddangosid tuag ato. Yn fuan ar ol hyn deuai yn amlwg fod rhagor o dristwch drwy oruchwyliaeth angeu yn ei aros, gan fel yr oedd ei gyfaill hoff, a'i gydweithiwr teilwng, y Parch. T. Pierce, yr hwn bellach a fuasai am oddeutu chwarter canrif yn weinidog i'r gynnulleidfa a ymgyfarfyddai yn Bethel, Bedford Street, yn gwywo gan y darfodedigaeth o flaen ei lygaid. Yr oedd hyn yn achos o bryder a gofid dwys i'w deimladau. Heblaw bod yn bregethwr poblogaidd, yr oedd Mr. Pierce hefyd yn fardd rhagorol. Efe a hunodd, Mai 30, 1857, yn 56 mlwydd oed. Traddododd Dr. Rees ei bregeth angladdol yn Bethel, i gynnulleidfa fawr, oddiar y geiriau diweddaf a ddyferodd dros wefusau yr ymadawedig, "Cyfammod tragywyddol a wnaeth efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr." Cyfansoddodd hefyd, o barch i'w goffadwriaeth, restr faith o englynion, o blith y rhai y mae yn brofedigaeth i ni ddyfynu a ganlyn:—

PIERCE ANWYL! pêr y seinia—dy enw
Ar danau fy nheimlad;
Mae hwn i mi, enw mâd,
Yn enw dan eneiniad.

O fy mrawd, mae tan fy mron,—yn aros
Drwm hiraeth yr awrhon,
Am danad gwiwfad gofion
Fwynhâ serch y fynwes hon.

Llafuriaist, gweithiaist fel gwas,—yn dawel
A diwyd yn nheyrnas
Duw a'r Oen, a thrwy rad ras
Diweddaist fywyd addas.

A chan gyfeirio at ei brofiad yn y glŷn efe a ddywed yn brydferth,—

Gafaelit am gyfammod—Un yn Dri
Hen drefn fawr y Cymmod;
A gwesgaist tan ei gysgod
Yn y glŷn, dan ganu ei glod.

Diau na feïir ni am ddyfynu y ddau hyn eto, am mai gemau o englynion ydynt,—

Drwy ing i wlad yr angel—dy enaid
Adeiniai 'n ddiogel;
Yn rhydd o'i gur heddyw gwel
Degwch ei Brynwr digel.

Rhoes Nef ar ben d' awenydd—yn helaeth
Ei holew llawenydd;
Chwai 'r ehed yn iach a rhydd
Yn awyr y gân newydd.

Tua'r pryd hwn y bu i rywrai feddwl, yn yr olwg ar yr anhawsderau y daethai drwyddynt, a maint y gwasanaeth a gyflawnodd ef i'w enwad yn Liverpool a manau eraill, am wneyd tysteb iddo. Fel y cynnyddai y son am hyn, meddyliodd lliaws yma a thraw, gan gofio mor rwymedig oedd Cymru yn dra chyffredinol iddo, y dylasai hon fod yn Dysteb Genedlaethol; ac felly, yn 1859, galluogwyd cychwynwyr y dysteb i gyflwyno iddo £700, gydag anerchiad addurnedig. Yr oedd hyn yn beth i deimlo yn ddedwydd o'i blegid, ac iddo ef, dilys yw na allasai lai na bod yn gymhelliad cryf i ymroad pellach, os yn bosibl, yn yr un cyfeiriad, sef i wasanaethu ei genedlaeth yn ol ewyllys Duw. Yr amser a ballai i ni son am ei liosog gyflawniadau o bob natur yn ystod y blynyddau a ddilynent, i fyny hyd 1865, pryd y codwyd iddo y capel newydd harddwych yn Grove Street, ymha un y bu yn gweinidogaethu o hyny ymlaen hyd nes y peidiodd a bod yn weinidog sefydlog. Ond y mae yn brofedigaeth i ni gyfeirio at y cyfraniad a wnaeth at lenyddiaeth dduwinyddol y cyfnod, trwy ei draethiad helaeth a manwl ar rai o ddyrys-bynciau duwinyddiaeth, pa un a ymddangosodd yn erthyglau yn y *Dysgedydd* o bryd i bryd yn 1863—64, dan y titl, "Rhywbeth gan Rywun," ac a adgyhoeddwyd wedi hyny yn nghyfrol ei rydd-weithiau. Yn yr erthyglau godidog hyn daw eangder ei wybodaeth, addfedrwydd ei farn, yn gystal a threiddgarwch ei amgyffredion, i'r golwg yn glir iawn. Yn y rhagymadrodd yr ydys yn cael adolygiad cynnwysfawr ar ddadleuon crefyddol yr oesau a aethant heibio, gan ddechreu gyda y cyfnod apostolaidd. O'r diwedd, ar ol rhoddi i ni grynodeb teilwng o "Hanes yr Athrawiaeth," fel yr awgrymwyd, efe a ddadguddia y "Rhywbeth" oedd ganddo i'w fynegu, a dyna ydyw,—*Hanes Dadl ar Etholedigaeth a Phenarglwyddiaeth Gras yn mynwes Pechadur.* Efe yw y pechadur y bu y ddadl yn ennyn o fewn ei fynwes; a hyfryd yw ei ddilyn hyd nes y llwydda i ddwyn barn i fuddugoliaeth, o leiaf yn ol fel yr ymsyniai ef ei hun, a'r nifer mwyaf, ond odid, o'i ddarllenwyr hefyd. Yn nechreu y traethiad ymddengys yn awyddus i ddirgelu ei hun, fel "Junius" gynt, ond yr oedd ef gryn lawer yn hawddach i'w ddal na hwnw. I ddarllenwyr goleuedig y *Dysgedydd* yr oedd hyd yn nod y frawddeg gyntaf yn ddigon i'w cynhyrfu i ddyweyd, "Dyma

Hiraethog;" a phe dygwyddasai iddynt fyned heibio i hono yn ddifeddwl, hwy fuasent, cyn myned dros y tu dalen cyntaf, yn cyfarfod â digon i'w hargyhoeddi o'r ffaith. Pwy ond efe a allasai ymadroddi yn hollol fel hyn: "Bu y byd o'r dechreuad hyd yr awr hon yn llawn o swn dadleuwyr a dadleuon; nid oes dim dadl i fod am hyn, dybygid. Y mae yr elfen gystwyol (*combativeness*) yn natur y creadur dyn, fel yn y creaduriaid eraill yn gyffredin, ac amlwg yw fod rhyw radd o honi yn hollol angenrheidiol i wasanaeth ei fywyd; ond un ofnadwy a dychrynllyd ydyw pan elo yn arglwyddes ei natur, ac y caethiwa yr holl elfenau naturiol a moesol ynddi dan ei hawdurdod ei hun. Gwna y dyn a ddarostyngir felly ganddi yn ffyrnicach bwystfil nag yr un o wylltfilod rheibus yr anialwch, fel y gwelwyd lawer gwaith mewn llaweroedd o engreifftiau." Pan y daw i son am rai dadleuon a dadleuwyr ynghylch parhâd mewn gras, etholedigaeth, a helaethrwydd yr iawn, a ddaethent dan ei sylw pan ydoedd ieuanc, gollynga allan ychydig o'r arabedd hwnw ag oedd ynddo mewn helaethrwydd mor fawr a dihysbydd. Ymhlith y darnau doniol lawer a geir yn yr erthyglau, un o'r rhai ardderchocaf yw hwnw yn ddiau lle yr adrodda hanes y ddadl a fu yn ei feddwl gyda golwg ar yr angelion syrthiedig; a phan y try yn ymyl hyn i "osod ei hun mewn tybiaeth yn nghyflwr a sefyllfa angel diniwed, ac ymwrando ar ei deimladau yn y cyflwr hwnw, pan yn sefyll uwch ben ac yn edrych ar drychineb ofnadwy ei frodyr a gwympasant," o un tu, ac yna, pan y gesyd ei hunan, o'r tu arall, "yn sefyllfa angel syrthiedig," i edrych ar "y ffaith ryfeddol ac arswydlawn hono," efe a ymgyfyd i bwynt hynod mewn arucheledd, ac a arddengys y mater dan sylw mewn goleuni gwahanol i ddim a welsid genym o'r blaen.

Ond i ddychwelyd at hanes adeiladu y capel newydd yn Grove Street. Crybwyllasom mai yn y flwyddyn 1865 y meddyliwyd am i hyny gymeryd lle. Er pan ddechreuodd Dr. Rees ei weinidogaeth yn Salem, yr oedd yn awr ddeuddeng mlynedd wedi myned heibio; ac er yr holl symud a'r chwalu drwy weinidogaeth angeu, daliai yr achos i fyned rhagddo, fel y teimlid erbyn y flwyddyn a nodwyd y gallesid anturio codi capel arall eangach o lawer at wasanaeth y gynnulleidfa. Sicrhäwyd darn o dir i'r amcan mewn heol hyfryd gerllaw, sef Grove Street. Costiai yr adeilad, gyda phryniad y tir, y swm o £6300. Y mae yn gapel eang a harddwych nodedig oddiallan yn gystal ag oddimewn. Traddodwyd y bregeth gyntaf ynddo gan Dr. Rees, nos Iau, Chwefror 7, 1867, a pharhawyd cyfarfodydd yr agoriad dros y Sabboth a'r nos Lun canlynol. Yr oedd golwg hapus ac ardderchog arno ef a'i gynnulleidfa ar ol hyn yn eu teml newydd. Cynnyddodd yr eglwys mewn rhif a dylanwad, a chan fod ganddynt, yn weinidog a phobl, galon i weithio, toddai y ddyled ymaith yn gyflym iawn. Ychydig gyda saith mlynedd a fu hŷd tymmor gweinidogaeth Dr. Rees yn nghapel Grove Street. Hawddach dychymygu na desgrifio y nerth a'r gogoniant a deimlid ac a welid lawer Sabboth yn ystod y cyfnod hwn o fewn y muriau hyny. Er na byddai yn gyfartal hoenus bob amser, eto ni ddygwyddai odfa fyned heibio, gyda Dr. Rees yn yr areithfa, heb i lawer meddwl ysplenydd wreichioni allan, gan greu teimladau hyfryd yn y gwrandäwyr. Er gweled pa fath ydoedd ar achlysuron cyffredin gartref, nis gallwn wneyd yn well na dyfynu yma allan o

ysgrif ddyddorol gan y diweddar Barch. W. Ambrose, yr hwn, tra yn myned o amgylch yma a thraw er cael ychydig seibiant ac adferiad iechyd, a gafodd gyfle yn 1871 i dreulio Sabboth yn Grove Street pan oedd ei hoffusaf gyfaill, y gweinidog, i fod yno yn pregethu ddwywaith.

Y mae tymmor arosiad Mr. Rees yn Liverpool (ebe efe) yn ymranu i dri chyfnod, sef ei arosiad yn y Tabernacl, ei sefydliad yn Salem, a'i arosiad yn Grove Street. Yn awr yr wyf yn dyfod at yr hyn a osodwyd fel testun yr ysgrif hon, sef "Sabboth yn Grove Street." Y mae yn arferiad ymysg gweinidogion Lerpwl i newid â'u gilydd bob boreu Sul ar gylch; ond pan ddygwyddo fod pum' Sabboth mewn mis, bydd pob un yn aros yn ei gapel ei hun, a dygwyddodd i mi ddisgyn ar y Sabboth hwnw yn Grove Street. Yr oeddwn yn cyfrif hyn yn ffodus i mi, oblegid fod Dr. Rees yn traddodi cyfres o ddarlithiau ar Epistolau Paul ar foreuau y pummed Sul o'r mis. Yr Epistol at yr Ephesiaid oedd dan sylw Dr. Rees y boreu hwnw. Ni chefais i erioed fwy o hyfrydwch mewn odfa nag a roddwyd i mi y tro hwnw. Yr oedd yn dda genyf gyfarfod â Hiraethog mewn arddull cwbl wahanol i'w weinidogaeth gyffredin, ac argyhoeddwyd fi yn llwyr fod y fath bregethau nid yn unig yn creu amrywiaeth achlysurol, ond hefyd yn tueddu at wneyd lles i'r gwrandäwyr. Y mae yr Ysgotiaid yn dra hoff o'r esboniadol yn y pulpud, a charwn weled y weinidogaeth Gymreig yn symud tipyn yn y cyfeiriad hwnw. Pe gofynid i mi ymha ddosbarth y buaswn yn cyfrif y bregeth a wrandewais gan Dr. Rees, nid gorchwyl hawdd fuasai i mi ateb y gofyniad. Ai manwl feirniadu ar eiriau, a mynych apeliadau at yr iaith wreiddiol? Nage, yn ddiau. Ai yr arddunol a'r darluniadol oedd? Nage. Y drychfeddwl genyf fi am y bregeth oedd hyn,—Paul ei hun yn darllen yr Epistol, ac yn dyweyd wrth fyned rhagddo, "Dyma y peth a feddyliwn yn y fan yma; ac rwy'n rhyfeddu fod neb wedi meddwl yn wahanol i hyn drwy gamddeall fy ngeiriau." Gosododd y pregethwr yr Epistol ger bron yn ei gyfanrwydd, fel yr oedd yn anmhosibl i'r rhai goleuedig o'r gwrandäwyr beidio canfod y cysylltiad tarawiadol rhwng y naill ran a'r llall. Testun Dr. Rees yn yr hwyr oedd, "Dring i fyny yma, mi a ddangosaf i ti y pethau sydd raid eu bod ar ol hyn" (Dad. iv. 1). Nid oedd pregeth yr hwyr yn perthyn i'r un dosbarth â phregeth y boreu. Yr oedd yn debycach i bregethau a wrandawswn gan y pregethwr hybarch. "*Y pethau ar ol hyn*" oedd baich y weinidogaeth. Taflodd olwg frysiog dros bethau dyfodol ein byd ni. Cafodd afael mewn hen ymadroddion na ŵyr neb pa le i'w cael fel y gŵyr efe. Gosodai hwynt fel pellwydr wrth ein llygaid, i roddi cyfleusdra i ni edrych ar y cynhyrfiadau a gymerant le yn y byd, a buddugoliaethau y gwirionedd ar dwyll a hudoliaeth yr anwir. Ond pan symudodd at bethau nês at achos personol ei wrandäwyr, yn eu cysylltiad â'r dyfodol, ar ol i'r byd a'i helyntion gilio o'r golwg, cipiodd y gynnulleidfa i ganol sylweddau y byd tragywyddol. Yr wyf wedi gwrando Dr. Rees mewn llawer o Gymanfaoedd yn y blynyddoedd diweddaf, ond ni chlywais ef yn troi min ei weinidogaeth mor gyfeiriadol er's llawer o amser. Os oedd yno ryw wrandäwr yn gallu aros yn ddideimlad yn wyneb yr apeliadau cyffrous, rhaid fod ansawdd meddwl y cyfryw yn druenus, a'i gyflwr yn beryglus. Yr oeddwn yn synu at y nerth a'r bywiogrwydd a adawyd i'r pregethwr, ac yn teimlo awydd am i'r Arglwydd ei adael yn ein plith i wasanaethu eglwysi Cymru eto yn hir. Wrth ymddyddan â Dr. Rees, dywedais fy mod yn synu at afaelgarwch ei feddwl a bywiogrwydd ei ysbryd. Dywedodd nad oedd yn teimlo dim gwahaniaeth yn eglurdeb ei feddyliau na bywiogrwydd ei ysbryd, ond fod dyoddefiadau a llesgedd corfforol yn dylanwadu yn ganfyddadwy arno ar brydiau. Yn wir, y mae yn codi cywilydd arnaf fi wrth weled y gwaith a gyflawna o wythnos i wythnos drwy y wasg, ar yr esgynlawr, ac o'r pulpud; ac os caniateir iddo iechyd gweddol dda dros weddill ei oes, "y mae ynddo lawer o waith," fel y dywed y Sais, er ei fod yn awr ar fin y deng mlynedd a thriugain; ac y mae yn ddiau fod gwasanaeth gwastadol gweinidogaeth sefydlog yn cynnwys cryn amrywiaeth o ddyledswyddau a dollant nerth y corff ac esmwythdra yr ysbryd. Ond y mae gan yr anwyl Hiraethog achos diolch am ddiaconiaid da, y rhai a wnant eu goreu i ysgafnhâu ei waith ac i leihâu ei bryder. Cefais gyfleusdra ar nos y Sabboth hwnw i weled prawf o'r naill a'r llall. Dangosasant eu bod yn gwybod fod ganddo gorff lluddedig i'w arbed a theimlad tyner i'w darianu. Y peth penaf ymysg fy adfyfyrion y noson hono oedd hyn—y fath olygfa ddymunol yw hen weinidog anrhydeddus wedi cadw ei safle am ddeugain mlynedd ger bron y byd, a hyny heb aberthu un egwyddor er mwyn elw na phoblogrwydd.

Cyn dodi ei ysgrifell o'r neilldu, ychwanegai Mr. Ambrose, "Pell y byddo'r dydd i weinidog hybarch Grove Street ddyosg ei arfau." Gwyddom i'r Nefoedd ganiatâu iddi fod felly; ond yr oedd ef am i'w gysylltiad â'r gynnulleidfa yn Grove Street ddarfod cyn hyny. Yn ystod y tair blynedd dilynol i'r ymweliad hwnw o eiddo Mr. Ambrose yn 1871, mynych y cwynai ar gyfrif rhyw lesgedd oedd yn ei flino, ac y dywedai ei fod yn bwriadu rhoddi heibio ei ofalon fel gweinidog sefydlog. Gallasai y cysylltiad barhâu lawer yn hŵy, yn ol fel y barnai llawer; ond ystyriai ef mai doeth oedd ymneillduo bellach, rhag i'r achos goreu ddyoddef drwy iddo fod yn y lle yn rhy hir ar ol i ganolddydd ei nerth a'i hoewder fyned heibio. Ac felly tua therfyn y flwyddyn 1874 efe a ymryddhaodd oddiwrth ei lafur gweinidogaethol yn Grove Street, yn nghanol dymuniadau da yr eglwys a'r gynnulleidfa, ynghyd a'r enwad hefyd yn Liverpool a thrwy Gymru oll. Ei benderfyniad yn awr oedd symud i Gaer i fyw, a threulio gweddill ei ddyddiau yn nghymeriad efengylwr i'w genedl, pa le bynag y gelwid am ei wasanaeth. Ni allasai adael ei hen gyfeillion, a'r dref yn yr hon y treuliasai yn agos i 32 o flynyddau, yn dra defnyddiol a dedwydd hefyd ar y cyfan, heb deimlo loes; ac ni oddefwyd iddo fyned heb i weinidogion yr holl enwadau Ymneillduol yn y dref gyduno i gyflwyno iddo anerchiad, yn ffurf *album*, ac o ymddangosiad addurnol, gydag enw pob un yn ysgrifenedig ynddo.

Gwnaed cyfeiriadau eisoes at ei lafur llenyddol tra yn Liverpool. Rhaid ei fod, ar brydiau, yn trethu ei alluoedd hyd yr eithaf. Bu golygiaeth yr *Amserau* a'r *Faner*, a chyda hyny y *Dysgedydd*, yn pwyso yn drwm arno ar wahanol dymmorau, gan beri, o herwydd amledd gorchwylion eraill, y byddai yn rhaid iddo yn aml fod wrth ei ddesg yn foreu, a dal ati nes ei bod yn hwyr y nos. Ond ni chwynai efe, ac nid ymddangosai byth fel pe mewn brys. Elai drwy bob gwaith yn rhwydd, didrafferth, a llwyr effeithiol. Tra yn Liverpool hefyd ysgrifenodd erthyglau lawer i'r *Gwyddoniadur* a'r TRAETHODYDD. Dichon na allwn enwi yr oll o'r cyfansoddiadau gwerthfawr a gynnyrchwyd ganddo yn ystod ei arosiad yno, ond wrth enwi a ganlyn, fe welir pa mor ddiwyd a fu ef i brynu yr amser fel llenor a bardd:—*Williams, Pantycelyn, a'i Amserau; Gwir a Chelwydd; Chwyldroadau 1848 a 1850; Yr Oes Hon; Diwydrwydd a Darbodaeth; Cyflawniad Prophwydoliaethau yn Nygwyddiadau yr Amser Presennol; Newman yn erbyn Newman; Ymchwiliadau Meddwl Dyn i Weithredoedd Dwylaw Duw;* yr *Awdl ar Heddwch;* y *Bryddest-Awdl ar Job; Emmanuel,* yn ddwy gyfrol; *Providence and Prophecy; Nodiadau ar yr Epistol at yr Hebreaid; Aelwyd F'ewythr Robert,* &c. Wele yma bileri a cholofnau ddigon er ffurfio cofadail a ennilla sylw ac edmygedd cenedlaethau pell i ddyfod.

Dylesid crybwyll cyn hyn am farwolaeth ei anwyl briod, yr hyn a gymerodd le tua dechreu y flwyddyn ymha un y rhoes efe ei ofal gweinidogaethol yn Liverpool i fyny. Bu farw Chwefror 17, 1874, yn 74 mlwydd oed. Yr oedd Mrs. Rees yn un o'r gwragedd mwyaf hynaws a charedig yn y byd. Ei hymarweddiad ydoedd hardd, a'i ffyddlondeb gyda chrefydd yn ddifwlch hyd y diwedd. Dichon fod a fynai yr adfyd teuluaidd hwn gryn lawer â'i benderfyniad ef i roddi i fyny y weinidogaeth sefydlog, ac i newid lle ei breswylfod.

## O ADEG EI SYMUDIAD I GAER HYD EI FARWOLAETH.

Anhawdd fuasai iddo ddewis amgenach lle i drigiannu ynddo na Chaerlleon. Yr oedd ganddo ferch yn byw yno; ac yno hefyd yr oedd ei fab, y Parch. Henry Rees, yn gweinidogaethu. Ei dŷ newydd a safai ar le uchel, yn ngolwg bryniau gwlad ei enedigaeth. Symudodd wedi hyny i dŷ hardd ar y "City Walls," fel y byddai yn nês i'r capel, pan ddygwyddai fod gartref. Yr oedd y tŷ yn harddach yn ei olwg am fod ei arddull yn *henafol*. Ei safle hefyd ydoedd hyfryd, yn union oddiar y Dyfrdwy, ac allan o dwrf y ddinas. O'i fyfyrgell gallai weled y wlad a'r afon hefyd hyd ymhell, gyda'r pleser-gychod a'r ager-longau bychain yn hollti ei dyfroedd ac yn gwau yn brysur heibio eu gilydd. Buasai yn ddedwydd iawn yma pe dygwyddasai yr un anwyl a gadwai ei dŷ fod yn gwbl iach.

Ychydig gydag wyth mlynedd a fu ystod ei drigias yn Nghaer. Yr oedd mor weithgar a llafurus drwy yr oll o'r cyfnod hwn ag y buasai mewn unrhyw adeg o'i oes. Byddai oddicartref yn darlithio ac yn pregethu am wythnosau bwygilydd, a phan ddychwelai byddai yn dra phrysur ymhlith ei lyfrau a chyda'i ysgrifell. Ar ol symud i Gaer y bu iddo orphen ei lafur gyda chofiant a gweithiau y Parch. W. Ambrose; ac yno hefyd y bu iddo barotoi a dwyn allan *Tŵr Dafydd*, *Cathlau Henaint*, *Koheleth*, a *Moses a'r Prophwydi*. Ysgrifenodd hefyd y fath nifer o fân ddarnau ag a gyfansoddent gryn gyfrol pe llwyddid i'w casglu ynghyd. Un o'r pethau olaf a gyfansoddodd yn y mesurau caethion ydoedd y Cywydd Coffadwriaethol i'r diweddar Barch. Michael Roberts o Bwllheli, a ddarllenwyd ganddo i lïaws o'i gyfeillion yma a thraw yn ystod yr haf diweddaf. Y mae yn gwestiwn genym a gyfansoddodd efe amgenach dernyn o farddoniaeth yn ei holl fywyd. Bu efe mor dirion a darllen rhanau o hono i'r ysgrifenydd, pan alwodd heibio iddo yn Nghaer tua'r adeg hono, neu fe allai ychydig yn gynt. Ar y canol troai i adrodd hanes odfa hynod, yn ystod cymdeithasfa arbenig a gynnelid yn Llanrwst, pan yr oedd ef yn fachgen. Tuag adeg y Gwyliau ydoedd, ac yr oedd cnwd tew o eira, amryw fodfeddi o ddyfnder, dros yr holl wlad. O bawb, Michael Roberts a dynodd fwyaf o'i sylw ef yno. Yn wir, ymddengys mai wrtho ef yr oedd dysgwyliad penaf y torfeydd a ddaethent ynghyd ar yr achlysur. Safai yn y ffenestr, am nad oedd y capel yn ddigon eang i gynnwys y gwrandäwyr. Yr oedd cannoedd lawer allan yn yr eira, a'r oll yn gwrando mor astud ac amyneddgar a phe buasai yn ganol haf. Testun M. Roberts oedd, "Canys pob câd y rhyfelwr sydd mewn trwst, a dillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed; ond bydd hwn trwy losgiad a chynnud tân." Teimlid fod y bregeth yn un amserol, canys dygwyddai hyn mewn adeg pan oedd y newyddion am yr ornest ofnadwy yn Waterloo a manau eraill eto yn fyw yn nghof y gwrandäwyr. Wrth son am hyawdledd y pregethwr, ennynai llygad Dr. Rees, ac yr oedd ei holl natur fel yn cyffroi. "Rhaid," meddem ninnau, "fod gwrando y gair rywbeth yn wahanol y pryd hwnw, pan y ceid cannoedd o bobl yn foddlon i sefyll am oriau felly yn nghanol yr eira." "O!" ebe yntau, "nid yw hi ddim byd yn debyg yn awr."

Gan gyfeirio at ei lafur pregethwrol ar ol ei symudiad i Gaer, a'i ddiwedd tangnefeddus yn y ddinas hono, da y sylwodd Dr. John Thomas, yn niwedd ei bregeth angladdol, yr hon a ymddangosodd ychydig amser yn ol yn y *Dysgedydd*:—

Yr oedd galw mawr am ei wasanaeth gan bob enwad crefyddol, a thorfeydd lawer a ymgynnullent i'w wrando i ba le bynag yr elai. Am dymmor hir ni chyfrifid na chyfarfod na chymanfa, yn enwedig yn Ngogledd Cymru, yn llawn oni byddai efe yno; a hyd ei ddiwedd, os gallai fyned, siriolid pawb gan ei bresennoldeb a'i weinidogaeth; a golygfa nodedig o effeithiol oedd ei weled yn Nghymanfa Wrexham, yn niwedd Mehefin diweddaf, wedi dyfod yno yn unswydd i ddyosg gwisgoedd ei urdd, a rhoddi ei weinidogaeth gyhoeddus i fyny, gan fod ei oes ef yn uchelwyliau ei wlad ar ben. Mae yr amgylchiad hwnw, wrth edrych yn ol arno heddyw, yn fwy *real* nag yr ymddangosai i neb o honom y pryd hwnw. Ceisiem feddwl, wrth ei weled wedi adnewyddu yn fawr rhagor y peth y bu, fod yn ol flynyddoedd iddo, er nad o angenrheidrwydd i fod yn gryf fel cynt; ond i'w brofiad ef, yn ddiau, "ei ddyddiau a nesasant i farw." Yr oedd wedi ei adael yn unig, ac yr oedd y byd hwn a'i swynion beunydd yn myned yn llai iddo. Cymerwyd ei wraig ymaith â dyrnod er's blynyddoedd yn ol, wedi cydfyw yn ddedwydd am yn agos i hanner can' mlynedd; a gwelodd ei ddwy ferch yn gwywo i angeu o flaen ei lygaid; ac yn ddiau ddarfod i'r pethau hyn oll ysigo ei natur, er cryfed ydoedd. Daliodd i bregethu hyd o fewn pythefnos i'r terfyn, ac ni thybiwyd hyd o fewn ychydig ddyddiau fod ei ymddattodiad mor agos. Yr oedd mewn llawn feddiant o'i synwyrau hyd y diwedd, ac nid oedd arwydd brys arno pan ddeallodd mai marw yr ydoedd. Hunodd yn yr Iesu am 2 o'r gloch dydd Iau, Tachwedd 8fed, ei ddydd genedigaeth, yn 82 mlwydd oed; a chwith iawn gan filoedd yn Nghymru a Lloegr, ymysg y rhai y bu Dr. William Rees am hanner can' mlynedd "yn tramwy yn pregethu teyrnas Dduw," feddwl "na chânt weled ei wyneb ef mwyach;" a diau y gellir dyweyd am dano ef, fel y dywedodd ef yn ei Hiraethgan anghymharol ar ol yr anfarwol Williams o'r Wern:—

Pe b'ai tywallt dagrau 'n tycio
Er cael eilwaith wel'd dy wedd,
Ni cheit aros, gallaf dystio,
Hanner mynyd yn dy fedd;
Deuai 'r holl eglwysi i wylo,
A gollyngent yn y fan
Ffrwd ddigonol i dy nofio
O waelodion bedd i'r làn.

"Y ffynidwydd, udwch; canys cwympodd y cedrwydd; difwynwyd y rhai ardderchog; udwch, dderw Basan; canys syrthiodd coedwig y gwin gynauaf." Dyma frenhinbren yn mynydd Duw wedi cwympo; "Tywysog a gŵr mawr yn Israel heddyw wedi syrthio;" ac Arglwydd y lluoedd wedi cymeryd ymaith o Gymru "y cadarn, y rhyfelwr, y brawdwr, y prophwyd, y synwyrol, yr henwr, yr anrhydeddus, y cynghorwr, a'r areithiwr hyawdl."

Megys y crybwyllir uchod, nid oedd neb o'i gyfeillion yn gallu ymsynied fod dydd ei ymddattodiad mor agos. Gan ystyried ei rymusder parhâus yn y pulpud, dysgwylient fod iddo lawer o flynyddoedd yn rhagor i'w treulio yn ngwasanaeth y Gwaredwr. Ond yr oedd ef ei hun, er mor gryf yr edrychai, fel yn ymwybodol er ys talm fod y diwedd yn bur agos ato. Yn mis Awst diweddaf mynodd anfon allan, drwy gyfrwng y *Dysgedydd*, anerchiad, a ymddangosai yn debyg i anerchiad ymadawol, at ei frodyr a'i gyfeillion yn Ngogledd a Deheudir Cymru, ymhlith y rhai y buasai ar lawer achlysur yn ystod yr hanner can' mlynedd blaenorol yn cyhoeddi geiriau y bywyd. Yr oeddym yn dygwydd bod ymhlith y rhai a'i hannogent i beidio cyhoeddi yr anerchiad y pryd hwnw, eithr i aros hyd oni cheid amlycach

arwyddion fod tymmor ei lafur cyhoeddus yn ymyl terfynu. Ond efe nis mynai oedi yn hŵy. Erbyn hyn ymddengys fod rhywbeth fel yn brophwydol yn ei eiriau; ac am y dernyn ymha un y cyfeiria at y trallodion teuluaidd a ddaethent i'w ran yn ddiweddar, anhawdd edrych drosto oddieithr gyda chalon drom, a llygaid yn ymlenwi o ddagrau. Yn yr anerchiad bythgofus dan sylw, efe a ddywedai :—

Y mae natur a rheswm a phob peth yn cyd-dystiolaethu i mi fod tymmor fy mywyd cyhoeddus ar ben, ac na chaf mwyach y fraint a'r hyfrydwch o'ch anerch ar air a llafar, wyneb yn wyneb, yn y cnawd, megys cynt, oddieithr dygwyddo cyfleusdra achlysurol i gyfarfod â rhai o honoch rywbryd neu gilydd. Wrth ysgrifenu y llinellau hyn, yr wyf yn teimlo fy mod fel yn dyosg arfwisg bywyd cyhoeddus oddiam danaf; ond nid af i geisio, ac nis gallwn pe ceisiwn, fynegu i chwi mewn geiriau y teimladau sydd yn ymweithio ynof yn wyneb yr ymsyniad hwn. Aeth y "pedwar ugain mlynedd" os o gryfder y'u cyrhaeddir, heibio er yr wythfed dydd o Tachwedd diweddaf. Bu fy mhedwar ugeinfed flwyddyn yn un dywell, ddu, ac ystormus iawn i mi. Ar yr 27ain o Gorphenaf [1882] cleddais fy anwyl ferch Mary, wedi cystudd maith a blin. Ymhen y pedwar mis dilynodd ei hanwyl chwaer Anne, fy merch henaf, ar ei hol i'r un bedd yn Smithdown-lane Cemetery, Liverpool, lle yr oedd rhan farwol eu hanwyl fam yn aros am danynt er ys wyth mlynedd. Cwympodd dwy ffon fy henaint o'm dwylaw yn ebrwydd, y naill ar ol y llall, â'm pwys ar y rhai y gobeithiaswn y cawswn hobian i'r bedd o'u blaen hwy; ond fel arall y bu. Ond wedi'r cwbl, yr wyf yn cydnabod fod genyf fwy o achos i ddiolch nag i gwyno na galaru gyda golwg arnynt hwy; ni chefais erioed achos tristwch calon, na chywilydd wyneb oddiwrth yr un o honynt trwy holl ystod eu bywyd, hyd nes y daeth y galar, a'r gofid, a'r hiraeth a barai eu marwolaeth. Yn fuan wedi claddedigaeth fy merch henaf, Tachwedd 25, ymwelodd hen elyn â mi, yr hwn a'm daliasai yn gaeth-garcharor am lawer o wythnosau ddwywaith o'r blaen, ond bu yn galetach wrthyf y tro hwn nag erioed. Ymaflodd y gwylliad hwnw yn fy sawdl, a phoenydiodd fi'n dost am fisoedd lawer o dan ffêr allanol y troed dehau. Rhuthrodd y gwylliad hwn arnaf ychydig cyn y Nadolig, pan oeddwn ar ymweliad yn Liverpool. Bum dan law meddyg yno am tua pymthegnos, ond cynnyddu yr oedd y boen fwyfwy bob dydd; ac un noson, yn nhŷ fy mab hynaf yno, tua dau o'r gloch yn y boreu, aeth y boen yn llym iawn arnaf.

Yna efe a ä rhagddo i ddyweyd pa fodd y bu iddo gyfodi yr adeg hono o'r nos "yn nghanol dystawrwydd a ellid ei deimlo, troell olwynion bywyd megys wedi sefyll, twrf a thrwst prysurdeb bywyd ar hyd heolydd y dref fawr wedi llonyddu a marw, heb na chi na cheiliog ar ddihûn i dori ar y dystawrwydd hwnw," a llunio penderfyniad, yn unol âg annogaethau a dderbyniasai o America, i "barotoi cyfrol arall o bregethau, i fod yn gydymaith i'w *Koheleth.* "Tarawodd y peth mor gryf ar fy meddwl," ebe efe, "fel y teimlwn iasau yn cerdded trwof. Gollyngodd y gwylliad oedd yn cnoi dan fy ffêr ei afaelion yn y fan am ryw hyd; ac wedi i fy mhwyll ddychwelyd ataf, 'Wel, gwnaf, mi a'i gwnaf, trwy gymhorth,' meddwn. Yr oedd digon o bapyr ac inc gerllaw, ac heb oedi moment aethum ati i dynu cynllun a threfn Koheleth yr ail; a chan fod y cyntaf yn *Theologia,* fel y dywed y dysgedigion, penderfynid i'r ail fod yn *Christologia,* sef ar Berson, swyddau, bywyd, gwaith, &c., y Gwaredwr. Aeth y pum' awr, o hanner awr wedi dau hyd hanner awr wedi saith y boreu hwnw, heibio fel pum' mynyd yn fy ngolwg." Mynych iawn, yn ystod y pedwar mis cyntaf o'r flwyddyn ddiweddaf, y gorfodid ef i godi tua dau yn y boreu, oblegid dyna'r pryd y byddai ei hen elyn yn ei boeni fwyaf; a'r hyn a wnelai bob tro, megys i ymddial arno, fyddai ysgrifenu ei bregethau ar gyfer

Koheleth yr ail, a phrofai fod "y budd yn lladd y boen" i fesur helaeth. Ac ebe efe: "Yn ystod y nosweithiau blinion hyny, os gallaf eu galw felly, cyfansoddais ac ysgrifenais chwech neu saith o bregethau lled feithion ar gyfer yr ail Koheleth bwriadol. Adysgrifenwn a diwygiwn hwy yn y dydd drachefn." Er fod ei sefyllfa, yr hen wron clodwiw, yn dra difrifol, y mae yn lled anhawdd peidio gwenu uwch ben y frawddeg sydd yn canlyn: "Ysgrifenwn yn wysg fy ochr ar ledorwedd, ac y mae golwg aswy iawn i'w gweled ar yr ysgrifen,—y llinellau, a'r geiriau a'r llythyrenau, yr un modd a minnau, ar eu lled ochrau, ac yn eu cwrcydau, ar dro ac ar draws, yn bob ffurf ac ystum, yn mingamu ar eu gilydd, ac ar bob un a edrychai arnynt." Pwy ond efe a fuasai yn meddwl cyfansoddi ac ysgrifenu pregethau newyddion dan y fath amgylchiadau?

Gwellhaodd ar ol hyn i raddau dymunol, fel yr oedd yn gallu myned o amgylch i bregethu megys cynt, yr hyn a barai iddo dros enyd anghofio ei dreialon oll. Ond yr oedd ei ddydd a'i waith yn awr yn ymyl terfynu. Yr oedd yn ddymuniad ganddo, yn debyg i'r enwog Robert Hall, na fyddai iddo gael ei gadw yn hir mewn ystâd o annefnyddioldeb yn niwedd ei oes; ac yn ol eu dymuniad, felly y bu iddynt. Pregethai Dr. Rees bymthegnos i'r Sul cyn ei farwolaeth, a hyny, fel y cofir, i'r Methodistiaid, yn Liverpool, lle y treuliasai efe y rhan fwyaf o'i oes weinidogaethol. Gwnaed sylw ar hyn yn Nghymdeithasfa Corwen gan Dr. J. Hughes, na ellir llai na'i ddyfynu yma: "Yn y capel yr wyf fi yn weinidog ynddo y traddododd y bregeth ddiweddaf, a hyny bythefnos cyn ei farw. Rhyw ddiwrnod neu ddau cyn y Sabboth mi gefais lythyr oddiwrtho, o herwydd ei fod wedi myned i ryw ddyryswch gyda'i gyhoeddiad, ac y mae yn debyg mai dyma y llythyr diweddaf a ysgrifenodd, a'r peth olaf a ddywedodd ydoedd, 'Pity the sorrows of a poor old man.' Yr oedd mewn poen mawr. Un o'r adnodau yr oedd yn pregethu arnynt ddiweddaf ydoedd, 'Gorphen gweddïau Dafydd mab Jesse,' ac fe ddywedodd un pe buasai Cymry Liverpool yn gwybod mai dyna y bregeth ddiweddaf a fuasai efe yn ei bregethu, nad oedd un adeilad yn Liverpool yn ddigon mawr i gynnwys y gynnulleidfa a fuasai yno yn ei wrando." Ar ol y Sabboth, dychwelodd i Gaer, i ddyoddef ychydig, ac yna, marw. Ni wybu ddim beth oedd aros yn rhosydd Moab—cafodd fyned rhag blaen, megys o'r gwinllanoedd tua glàn yr Iorddonen, ac yna trwyddi yn esmwyth a digynhwrf, cyn bod ond ychydig o'i gyfeillion yn gwybod dim am ei sefyllfa. Yr oedd yma derfyniad hapus i yrfa faith, ddysglaer, a defnyddiol iawn. Fel y bu fyw, y bu farw Dr. Rees, gyda'i ddwylaw yn llawn o waith, a'i ben yn llawn o gynlluniau. Yr oedd ei ysbryd yn ir ynddo, a'i alluoedd mawrion yn meddu harddwch peraroglus y gwanwyn, yn gystal âg addfedrwydd bendigedig y cynauaf.

Ni raid dyweyd iddo gael ei anrhydeddu yn fawr yn ystod ei redfa, ac iddo ar ei diwedd gael CLADDEDIGAETH. Ni ddysgwylir i ni yma ddisgyn at fanylion, na gwneyd dim amgen na chrybwyll am y geiriau tyner a phwrpasol a lefarwyd cyn cychwyn yn Nghaer, ac wrth gladdu yn Liverpool. Trwy gyfrwng y wasg Seisonig a'r un Gymreig, oni wnaed y cyfan yn dra hysbys yn yr holl dir? Wrth gefnu ar y byd,

efe a adawai ar ei ol chwaer, yn nghymydogaeth Dinbych, yr hon bellach sydd oedranus iawn, ynghyd a phedwar o blant, sef dau fab a dwy ferch, y rhai yn ddiau a fawr siriolid, yn nyfnder eu galar, gan yr holl amlygiadau o gydymdeimlad a ddangosid tuag atynt o bob cyfeiriad. Erioed o'r blaen, fe allai, ni thalwyd teyrnged mwy diffuant o barch i unrhyw ddyn cyhoeddus yn ein mysg. Fel y gwyddom, nid gormod fu gan Brifweinidog y Goron, pan glywodd am ei farwolaeth, anfon ychydig linellau i ddadgan ei gydymdeimlad â'i deulu, ac â'r enwad a'r genedl y perthynai efe iddynt, yr hyn ar unwaith a brofa ei fod yn ei adnabod, ac yn ei edmygu yn fawr. Yn wyneb hyn oll, pwy a faidd dybied fod yn iawn i ni gwyno, neu i alaru fel rhai heb obaith? Onid ein dyledswydd amlwg yw gogoneddu Duw ynddo ef, a bod yn ddiolchgar am iddo gael ei arbed mor hir i gyflawni y fath helaethrwydd o wasanaeth ymhob cylch o ddefnyddioldeb cyhoeddus? Yn ei fywyd gogoneddu Duw oedd ei waith, ac yn angeu cynnelid ef gan y gwirioneddau mawrion a gyhoeddasai i eraill. Cynnyrchent o'i fewn y tangnefedd sydd uwchlaw pob deall. Pan oedd cnawd a chalon yn pallu, efe a lawenychai yn Nuw, ac a ddysgwyliai yn y man gael bod yn mhresennoldeb y Gwaredwr hwnw y traethasai gymaint, ac y bwriadai draethu rhagor eto pe cawsai fyw, am ogoniant ei Berson, holl-ddigonolrwydd ei aberth, a goludoedd diderfyn ei ras.

DAVID GRIFFITH.

*Dolgellau.*

---

# YR EIGION.

## II.

NID oes dim a ennillwyd trwy archwiliadau yn y Dyfnfor yn fwy dyddorol fe allai na'r hyn a berthyn i ffurf y môrwely.

Trwy offer cywrain, ar egwyddor darpariaeth *Lieutenant* Brooke, er rhyddhâu y pwysau plymiadol pan gyrhaeddir y gwaelod, y mae plymiadau wedi eu gwneyd o dros bum' milldir o ddyfnder. Fe geid fod yr offer plymio a ddefnyddid mewn dwfr bâs gan longau yn ymofyn am angorfa ddiogel, yn hollol ddibwrpas mewn dwfr o fwy nag ychydig gannoedd o droedfeddi o ddyfnder. Y mae plymiadau cyffredin o'r fath hyny yn cael eu cymeryd gyda llinyn wedi ei fesur yn wrhydau, wrth ba un y cysylltir darn o blwm, o ddeunaw modfedd i ddwy droedfedd o hŷd, yn pwyso o 80 i 120 o bwysau. Mae yn arferol, cyn gwneuthur plymiad, i orchuddio ochr isaf y plwm â gwêr, er mwyn dwyn i fyny samplau o'r defnydd sydd yn gorchuddio y gwaelod. Os cyrhaedda y plwm y gwaelod fe ellir cael, yn glynu wrth y gwêr, gregyn, tywod, neu lwtra, fel y dygwydda fod; neu os craig noeth fydd y gwaelod, fe allai na ddengys y gwêr ddim ond olion

ei hargraff arno. Fe ollyngir y plwm dros ochr y llong nes y teimlir ei fod yn cael ei attal pan gyrhaeddir y gwaelod, ac y mae hŷd y llinyn fo wedi rhedeg yn dangos y dyfnder. Y mae yr offer syml yma yn gwneyd yn burion am ddyfnderau cyffredin, ond mewn dwfr dwfn nid ydyw'r attaliad, a deimlir yn gyffredin pan gyrhaeddir y gwaelod, yn ganfyddadwy, ac y mae y llinyn yn fynych yn parhâu i redeg allan o herwydd gweithrediad y llif-rediadau islaw yr arwyneb. I orchfygu yr anhawsder hwn yr oedd eisieu mwyhâu maint y pwysau a lleihâu trwch y *line* neu y llinyn. Yr oedd dyfais gywrain *Lieutenant* Brooke i ollwng ymaith y pwysau pan gyrhaeddid y gwaelod yn ateb yn hollol i'r hyn oedd eisieu; ac y mae amrywiol ffurfiau o offer plymiadol, ar yr egwyddor yma, wedi eu gwneyd ac yn cael eu defnyddio yn llwyddiannus.

Gan mai dyben plymio ydyw, nid yn unig cael allan wahanol ddyfnderau yr eigion, ond hefyd, ac uwchlaw pob peth, ein galluogi i ffurfio syniad clir am ffurf ac arweddau anianyddol y môrwely, ein galluogi mewn gair i wneyd darlun o'r hyn a welem pe buasai dyfroedd yr eigion wedi eu hysbyddu ymaith yn llwyr, mae yn amlwg ei fod yn angenrheidiol cymeryd rhyw gynllun er cymharu ac arddangos ar fôrlen, neu *chart*, y dyfnderau amrywiol a geir mewn gwahanol fanau. Y cynllun a ddefnyddir ydyw hyn. Fel y mae pob plymiad yn cael ei wneyd, y mae sefyllfa y llong yn fanwl yn cael ei gymeryd a'i nodi ar *chart*, ac mae y dyfnder mewn gwrhydau a geir yno yn cael ei osod i lawr. Pan mae yr holl blymiadau wedi eu cymeryd, mae llinellau yn cael eu tynu ar y *chart* trwy yr holl fanau sydd o'r un dyfnder, y rhai a elwir y ffurf-linellau, neu *contour lines*. Er engraifft, y mae llinell yn cael ei thynu trwy bob lle sydd o 100 gwrhyd o ddyfnder; llinell arall trwy leoedd sydd o 1000 o wrhydau; trydedd lle mae y dyfnder yn 2000 o wrhydau, ac felly ymlaen. Mae y lleoedd rhwng y llinellau hyn yn gyffredin yn cael eu lliwio, er mwyn cyfleusdra,—yr un rhwng llinell y can' gwrhyd a'r làn yn lâs tra goleu, yr un rhwng llinell mil o wrhydau a'r un can' gwrhyd yn las tywyllach; yr un rhwng llinell dwy fil o wrhydau a'r un mil o wrhydau yn las tywyllach eto, ac felly ymlaen. Felly ar un golwg y mae dyfnderau cymhariaethol y gwahanol ranau a arddangosir ar y *chart* yn cael eu gweled.

Yn yr erthygl hon bwriadwn roddi crynodeb byr o'r hyn sydd wybyddus gyda golwg ar ffurf gwely Môr y Canoldir, y Werydd, a'r Tawelog, ac yna cyffwrdd â rhai cwestiynau daearegol a awgrymir gan y ffeithiau hyny. Ni a gymerwn yn gyntaf Fôr y Canoldir. Gan gychwyn yn Nghulfor Gibraltar, rhwng Penrhyn Trafalgar a Phenrhyn Spartel, fe geir fod y dyfnder, ar gyfartaledd, tua chant a hanner o wrhydau, neu naw cant o droedfeddi. Wrth fyned oddiwrth y culfor tua'r gorllewin neu y dwyrain, mae y dyfnder yn cynnyddu, ac i fyny y Canoldir i'r dwyrain fe geir fod y dyfnder yn cynnyddu yn barhâus nes rhwng Ffrainc ac Algeria y mae dyfnder o 1600 o wrhydau, sef tua dwy filldir, wedi ei gyrhaeddyd. Yn nghulfor Gibraltar, gan hyny, y mae cefnen danforawl, yn dyfod o fewn cant a hanner o wrhydau i'r arwyneb, yr hon sydd yn cysylltu Ewrop ac Affrica dan arwyneb dwfr y Canoldir. Wrth fyned rhagom tua'r dwyrain o'r dwfn rhwng Ffrainc ac Algeria, fe geir fod y dyfnder yn lleihâu nes y cyrhaeddir pen uchaf

cefnen danforawl arall rhwng Sicily a Gogledd Affrica, uwchlaw pa un y mae y dyfnder tua dau gant o wrhydau. Mae y pantle mawr a ffurfir felly mewn gwirionedd wedi ei ranu yn ddau gan y llain o fâs-ddwfr sydd yn ymestyn ar draws rhwng morgainc Genoa a Tunis, allan o ba un y cyfyd Ynysoedd Corsica a Sardinia. A myned rhagom eto tua'r dwyrain o gefnen danforawl Sicily, mae y dyfnder yn cynnyddu nes mae y dyfnder mwyaf oll yn y Canoldir, 2300 o wrhydau (yn agos i dair milldir) wedi ei gyrhaeddyd yn y canol rhwng Malta a Creta. Yna mae y dyfnder drachefn yn lleihâu, a chyrhaeddir pen uchaf cefnen danforawl arall yn ymestyn ar draws o'r Archipelago Groegaidd. Fe ymddengys gan hyny, pe gellid hyspyddu dyfroedd Môr y Canoldir fel âg i sefyll 300 o wrhydau yn îs nag y maent yn awr, neu—yr hyn a ddeuai i'r un peth—pe gellid codi y môrwely 300 o wrhydau, y byddai Cyfandiroedd Ewrop ac Affrica wedi eu cysylltu gan amryw o wddfdiroedd, neu *isthmuses.* Fe ellid yn naturiol ofyn y cwestiwn, A oes unrhyw sail i feddwl fod y fath gysylltiad tir erioed wedi bod yn y lle hwnw? Ac fe ellid ateb y cwestiwn yn gadarnhaol. Y mae profion cryfion iawn o blaid y golygiad fod y ddau Gyfandir yn gysylltiedig mewn amseroedd daearegol cymhariaethol ddiweddar. Mae y profion hyny yn dyfod gan mwyaf o astudio dosbarthiad daearyddol anifeiliaid. Mae y cynnulliad o anifeiliaid a phlanhigion sydd yn cyfanneddu Cyfandir Affrica yr ochr ddeheuol i ddiffeithwch y Sahara yn gwahaniaethu yn hanfodol oddiwrth y rhai sydd yn cyfanneddu y rhanbarth i'r gogledd o'r Sahara. Mae y ffurfiau o fywyd sydd yn nodweddu Gogledd Affrica o'r gyfathrach agosaf â'r ffurfiau Ewropëaidd, ac y mae astudio bywyd Ewrop a Gogledd Affrica wedi arwain Anianyddwyr i'r casgliad hyderus fod y tebygolrwydd agos rhwng ffurfiau Gogledd Affrica ac Ewrop yn ddyledus i gysylltiad tirol blaenorol rhwng y ddau Gyfandir, yr hwn a oddefai rydd symudiad y ffurfiau o'r naill i'r llall. Y rheswm paham na ddarfu i'r ffurfiau Ewropëaidd hyn barhâu i ymledu i Ddeheudir Affrica ydyw fod diffeithwch y Sahara yn gosod attalfa anorfod i symudiad unrhyw ffurfiau bywydol oddieithr ymgyrchyddion y diffeithwch, o fath yr *antelope*, y llewpard, y llew, &c.

Fe geir prawf cadarnhaol hynod o ddyddorol o'r cysylltiad tirol hwn yn yr amser gynt, gan arferion adar symudol. Mae yn ymddangos fod adar sydd yn symud o Ddeheudir Ewrop i Affrica yn croesi y Canoldir hyd dair neu bedair o wahanol linellau penodol,—wrth Gulfor Gibraltar, o Gaincfor Genoa heibio i Corsica a Sardinia i Tunis, o Ddeheudir Italy a Sicily, ac ar linell fwy dwyreiniol eto. Nid ydyw un neu ddwy o'r ffyrdd hyn yn dilyn llinell y pellder lleiaf rhwng y ddau Gyfandir, ond y maent yn dilyn llinell y dwfr basaf. Yn awr paham yr elai adar wrth groesi o Sicily i Affrica o amgylch ogylch, er dilyn llinell y plymiadau basaf? Yr atebiad mwyaf tebygol ydyw hyn, fod y mudiadau *(migrations)* wedi dechreu ymhell iawn yn ol, ar amser pan oedd Gogledd Affrica mewn cysylltiad âg Ewrop, ar hyd y llinellau y cyfeiriwyd atynt, a bod yr adar yn naturiol yn symud hyd y lleiniau a ffurfient y gwddfdiroedd. Yr oedd y tir yn araf, ac ymron yn anghanfyddadwy, yn myned i lawr, eto flwyddyn ar ol blwyddyn yr oedd yr adar yn cymeryd yr un cyfeiriad yn ol yr arfer sefydlog a ffurfiasid gan genedlaethau a wnaethent yr

un peth, fel wedi i'r cysylltiad tirol gael ei dori yn gwbl yr oedd yr adar symudol yn parhâu i ddilyn yr un linell wrth fyned drosodd.

Yr ydym yn awr yn myned rhagom i ystyried môrwely y Werydd. Pe'r elem ymlaen i wneyd plymiadau o'n gwlad ein hunain ar draws y Werydd, ni a gaem fod y dwfr yn graddol ddyfnhâu, nes yn y pellder o ddau gant o filldiroedd i'r gorllewin o'r Iwerddon, y ceid dyfnder o 500 o wrhydau. O'r fan hono mae y gwaelod yn myned i lawr yn gyflym i 1700 o wrhydau, yn gwneyd disgyniad o 1 mewn 6. Yna ar draws y Werydd, hyd o fewn 200 milldir i Newfoundland, mae y gwaelod yn gynnwysedig o wastadedd tonweddog anferth sydd ar gyfartaledd tua 1900 o wrhydau—yn agos i ddwy filldir a hanner—a elwir y *Telegraph Plateau*, am mai ar hyd-ddo y gosodwyd y rhaff delegraph gyntaf. Mor raddol ydyw y disgyniadau fel pe hyspyddid ymaith ddyfroedd y Werydd y gellid gyru gwagen drosodd o'r Iwerddon i Newfoundland heb fod raid gosod *drag* arni, oddieithr, fe allai, yn y disgyniad serth o 200 o filldiroedd i'r gorllewin o'r Iwerddon. Mae y gwastad canolbarthol hwn yn ymestyn i'r gogledd can belled ag Iceland, ac i'r dê gan wneyd canolbarth y Werydd. Y mae gulaf rhwng Ynysoedd Cape Verde ac India'r Gorllewin, a pharheir ef i'r Werydd Ddeheuol gyda thua'r un led. Ar bob ochr i'r gwastad canolbarthol hwn y mae dwfngafnau o ddyffrynoedd yn gorwedd rhyngddo a'r Cyfandiroedd ar bob llaw. Mae y dyffrynoedd ar yr ochr ddwyreiniol i'r gwastad yn cychwyn o dde-orllewin Iwerddon, gyda lled o tua 500 o filldiroedd, a dyfnder ar gyfartaledd o 2500 o wrhydau, neu tua thair milldir. Y mae yn ymestyn tua'r dê hyd arfordir Ewrop, gan ddisgyn i'r Bay of Biscay, yn myned heibio i Gulfor Gibraltar ac yn dilyn llinell arfordir gorllewinol Affrica. Y mae dyffryn cyffelyb, ond lletach a pheth dyfnach, yn troi o amgylch arfordir Gogledd America, ac yn cael ei barhâu can belled i'r dê a Gogledd Brazil. Yno fe'i terfynir gan gefnen a deflir allan gan y gwastad canolbarthol. I'r dehau o'r gangen gefnen hon y mae dyffryn arall yn dilyn llinell arfordir America Ddeheuol. Mae y gwastad canolbarthol yn terfynu yn Ynysoedd Azores, y rhai nid ydynt ddim ond penau nifer o fynyddoedd yn cyfodi o'r gwastad. Mae copa uchaf yr Azores yn 7613 o droedfeddi uwchlaw y môr, a'i uchder uwchlaw gwastad y môrwely ydyw 16,200 o droedfeddi,—ychydig yn fwy nag uchder Mont Blanc.

Nid ydyw y Tawelog wedi ei archwilio mor gyflawn â'r Werydd, ond fe ymddengys fod y plymiadau a wnaed yn dangos ei fod yn gyffelyb yn ei brif arweddau i'r Werydd, ond ar y cyfan yn ddyfnach, eithr yn codi yma a thraw i wastadeddau uchel. Y plymiadau dyfnaf a gafwyd eto a wnaed yn y Tawelog, ar gyffiniau Japan, lle y cyrhaeddwyd dyfnder o tua phum' milldir.

Y casgliad yr ymddengys fod y pethau hyn yn arwain iddo ydyw, fod y môrwely i fesur yn wastad, ac yn llai amrywiol yn ei amlinelliad nag arwyneb y tir. Y mae llawer o reswm dros dybied, fodd bynag, yr arweiniai archwiliad manwl o'r môrwely i gasgliad a fyddai beth yn wahanol. Nid oedd archwiliadau y "Challenger" yn cymeryd ond tair blynedd, ac yr oedd y plymiadau o angenrheidrwydd ymhell oddiwrth eu gilydd; fel rheol, fe'u cymerid mewn pellder o 100 milldir, ac weithiau 200 milldir y naill oddiwrth y llall. O fewn 200 o filldiroedd y

mae yn sicr le i lawer o amrywiaeth ffurf. Yn bur ddiweddar y mae archwiliad tra manwl ar ran fechan o'r Werydd wedi ei wneyd gan Agerlongau Cwmni Telegraph, ac mae y ffrwyth yn hollol gadarnhâu y sylw diweddaf. Mae y rhan y cyfeirir ati rhwng Cadiz a Teneriffe, pellder o tua 700 o filldiroedd, yr hwn a archwiliwyd mewn golwg ar osod rhaff telegraph. Yn ol y plymiadau yn hynt y "Challenger," tua saith plymiad a wnelsid mewn cymaint a hyny o le. Ond fe gymerwyd tua 550 gan y ddwy agerlong oedd ar waith yn gwneyd yr archwiliad y cyfeiriwn ato, fel yn yr achos yma mae genym gyflawnder o ddefnyddiau at ffurfio darlun cywir o ffurf y môrwaelod. Fe wyddid yn flaenorol fod traethell oedd yn dyfod i fyny hyd o fewn 100 gwrhyd i'r arwyneb rhwng Lisbon a Madeira. Y draethell yma, a elwid y "Seine Bank," a archwiliwyd gan un o'r Agerlongau, y "Dacia." Fe geid fod ei hŷd, o ogledd i dde, yn chwe' milldir, a'i lled, o ddwyrain i orllewin, yn dair milldir, a thros gymaint a hyny o le fod dyfnder y dwfr yn amrywio o 86 i 100 o wrhydau. Yn agos i'r draethell hon fe gyfarfu y "Dacia" â thraethell arall oedd yn chwe' milldir o ddwyrain i orllewin, ac yn dair milldir a hanner o ogledd i orllewin. O amgylch ei ymylon ymddangosai fel yn syrthio ymaith yn sydyn o 550 o wrhydau i 850, yna fod y disgyniad yn raddol. Mewn un plymiad ar y draethell fe ddarfu i'r pwysau daro y gwaelod mewn 550 o wrhydau, yna syrthio drosodd gan barhâu i suddo; taro drachefn mewn 620 o wrhydau, yna syrthio drosodd, ac o'r diwedd orphwys mewn 835 o wrhydau, yr hyn a brofai fod ymyl y draethell yn ddibyn serth. Gan blymio o'i hamgylch oll fe geid fod y môrwely yn codi gydag esgyniad graddol o dros 2000 o wrhydau hyd o gylch 830 o wrhydau. O 830, fel y dangoswyd, fe gyfyd y draethell yn syth hyd 550 o wrhydau. Felly pe hyspyddid y dwfr ymaith ni a welem fynydd mawr yn codi yn raddol o'r môrwely 7000 o droedfeddi, ac yna yn sydyn mewn clogwyni serth 2500 o droedfeddi yn uwch, gan wneuthur oll uchder o dros 9000 o droedfeddi.

I'r de o'r "Seine Bank," tua 170 o filldiroedd, fe ddarganfyddwyd traethell arall, ac y mae amgylchiadau ei darganfyddiad yn dangos mor glir y ffaith fod yr arweddion lleol neillduol yn debyg o gael eu colli oddieithr fod plymiadau manwl a mynych yn cael eu cymeryd, fel y mae yn werth rhoddi yr hanes yn gyflawn. O'r "Seine Bank" fe hwyliodd y "Dacia" tua'r de am 170 o filldiroedd, pan gymerwyd plymiad, yr hwn a roddai 1189 o wrhydau, lle y dysgwylid o leiaf 1800. Dair milldir ymhellach yn yr un cyfeiriad, fe gafwyd 1386 o wrhydau. Fe gesglid, gan hyny, os oedd yno draethell, eu bod wedi myned heibio iddi. Fe dröed y llong, ac wedi myned saith milldir yn ol, fe roes plymiad 810 o wrhydau; dair milldir ymhellach yn ol, 414 o wrhydau; dwy filldir ymhellach fyth, 66 o wrhydau; a milldir tu hwnt i hyny fe geid 230 o wrhydau. Yna fe dröwyd y llong ac fe archwiliwyd y draethell. Fe gaed fod ei hŷd mwyaf o ogledd i dde, a'i lled mwyaf o ddwyrain i orllewin, yr un faint, sef wyth milldir a hanner, ac fod y draethell o ffurf drionglog afreolaidd. Mae y pethau hyn yn dangos yn amlwg nad ydyw plymiadau pell oddiwrth eu gilydd yn rhoddi syniad cywir am ffurf y môrwaelod, ac mai yn unig pan y mae archwiliadau gofalus a manwl o'r fath a ddesgrifiwyd yn cael eu dwyn ymlaen dros yr holl

eigion y gallwn obeithio, gydag unrhyw ddynesiad i gywirdeb am fanylion, ffurfio darlunleni neu fapiau o'r môrwely.

Dywedasom fod y dyfnder mwyaf i'r môr sydd eto wedi ei ganfod dros bum' milldir; felly y mae dyfnder mwyaf y môr ac uchder mwyaf y tir ymron yn gyfartal. Ychydig dros bum' milldir ydyw mynydd Everest yn yr Himalayahs. Ni raid tybied, fodd bynag, oddiwrth hyn fod cyfartaledd uchder y tir a chyfartaledd dyfnder yr eigion yn agos yr un. Mae y cyntaf lawer iawn yn llai na'r olaf. Cyfartaledd dyfnder yr eigion ydyw tua 2500 o wrhydau, neu 15,000 o droedfeddi; tra mai cyfartaledd uchder y tir ydyw tua 150 o wrhydau, neu 900 o droedfeddi. Fe welid ystyr hyn yn oreu wrth ystyried, yn y lle cyntaf, beth a gymerai le pe hyspyddid ymaith ddwfr y môr, ac yn y lle nesaf pe yr ychwanegid at ei swm. Tybier y gellid hyspyddu ymaith ddwfr y môr nes fod lefel y môr yn sefyll mewn 200 o wrhydau, neu 1200 o droedfeddi yn îs nag ydyw yn awr; pa gyfnewidiadau a welid? Fe wneid ychwanegiadau at y tir ymhob man o amgylch y Cyfandiroedd mawrion. Fe ychwanegid Prydain Fawr at Gyfandir Ewrop. Fe ddeuai Newfoundland yn rhan o America. Fe sychid i fyny Hudson's Bay. Fe ychwanegid Ynysoedd Falkland at America Ddeheuol, ac ymhob man o amgylch y Cyfandiroedd fe ychwanegid lleiniau o dir newydd. Ar y cyfan, fodd bynag, ni chyfnewidiai brif arweddion y tir a'r dwfr; yn ymarferol ni fyddai y moroedd mawrion nemawr lai mewn maint, ac ni fyddai eu ffurf wedi newid ond ychydig. Tybier yn awr, ar y llaw arall, y gellid ychwanegu at ddwfr yr eigion nes bod lefel y môr yn sefyll 200 o wrhydau, neu 1200 o droedfeddi yn uwch nag y mae yn awr. Yr effaith a fyddai tansoddi y rhan fwyaf o dir y byd; y cwbl, yn wir, oddieithr yr ucheldiroedd a'r mynyddoedd. Yn lle y Cyfandiroedd ni a gaem glysdyrau neu gadwynau o ynysoedd, ac fe fyddai arweddion anianyddol y belen wedi eu newid yn hollol.

Mae y gwahaniaeth enfawr hwn yn nghyfartaledd uchder y tir a chyfartaledd dyfnder y môr yn awgrymu fod arweddion yr eigion o fwy sefydlogrwydd a henafiaeth nag arweddion y tir. Y mae daeareg yn dysgu fod yr holl dir wedi bod mewn rhyw gyfnod blaenorol dan ddwfr, ond nid y cwbl, wrth reswm, ar yr un adeg. Mae y ddysgeidiaeth yma yn seiledig ar y ffaith fod y tir wedi ei wneyd i fyny gan mwyaf o greigiau y rhai a waddodwyd mewn dwfr, y rhai nad ydynt, yn wir, ond hen fôrwelyau wedi caledu. Y mae wedi bod yn arferol i gymeryd yn ganiatäol fod y gwrthwyneb hefyd yn wir, sef fod yr holl fôrwely wedi bod gynt yn dir. Mae y ffeithiau a osodwyd ger bron yn barod, fodd bynag, yn glir yn erbyn y golygiad yna. Mae cyfartaledd dyfnder yr eigion mor fawr fel y gofynai gyfnewidiadau anferth mewn lefel i ddyrchafu gwely y dyfnfor i fod yn dir, ac nid oes dim arwyddion yn y môrwely ei hunan fod hyny erioed wedi ei wneyd. Os ydyw y Ddamcandyb Nifwlaidd *(Nebular Hypothesis)* yn agos yn wir—ac y mae y profion yn sicr yn pwyntio yn y cyfeiriad hwnw—y mae genym i feddwl am ein daear, draw yn y cynamseroedd pell, yn grynswth toddedig cylchdroadol, yn araf oeri. Mewn amser fe gyrhaeddodd yr oeri bwynt pan yr ymffurfiodd crystyn y tu allan i'r crynswth. Fel yr elai yr oeri ymlaen, yr oedd y creiddyn tumewnol yn

parhâu i ymgrynhoi, ac yr oedd y crystyn allanol, fel yr oedd ganddo i'w gyfaddasu ei hun at faintioli lleihâol y creiddyn oedd yn oeri ac yn ymgrynhoi, yn cael ei daflu i blygion a chrychiadau, fel croen crybychlyd afal gwywedig. Yn y ffordd yma, mae yn debygol, y cafodd y prif linellau eu nodi allan. Yr oedd y rhanbarthau dyrchafedig—esgyrn cefn, megys, y Cyfandiroedd oedd i ddyfod—yn cael gweithredu arnynt gan wlaw a dwfr rhedegog; yr oedd y creigiau yn cael eu dadgyfansoddi a'u dinystrio, a'r defnydd yn cael ei gario i lawr gan afonydd a'i waddodi ar hyd llinell yr arfordir ar waelod y môr. Mewn amser, trwy ymsigliadau tir a môr, fe fyddai y môrwely, yn agos at y tir, gyda'i waddodiadau, yn cael eu dyrchafu i ffurfio tir; ac fe fyddai y Cyfandiroedd newyddion felly yn raddol yn cynnyddu mewn lled—y cynnydd hwnw, i ryw fesur, yn cadw mewn cyfartaledd i'r lleihâd mewn uchder. Mae y gweithrediadau hyn, sydd wedi penderfynu tyfiad a chynnydd Cyfandiroedd, wedi parhâu i lawr hyd y dyddiau hyn, ac ni allwn ammeu na fydd yr un dinystr ac adffurfiad yn myned ymlaen hyd y diwedd.

R. D. ROBERTS.

*Clare College, Cambridge.*

---

# LLENYDDIAETH NEWYDDIADUROL CYMRU.

UN o anhebgorion cymdeithas, ymhob gwlad lle y mwynheir graddau o oleuni gwybodaeth a rhyddid barn, ydyw y newyddiadur; a hawdd gan y deallus gydnabod ei fod erbyn hyn wedi dyfod yn allu nerthol er da neu ddrwg, yn ol y defnydd wneir o hono. Er nad yn hollol yn yr un ystyr, eto gyda llawer iawn o briodoldeb, gellir cymhwyso yr hyn a ddywedir yn Llyfr yr Actau am yr Atheniaid at gorff mawr o bobl Prydain yn yr oes hon, "nad ydynt yn cymeryd hamdden i ddim arall ond i ddywedyd neu i glywed rhyw newydd." Am danom ni, beth bynag am yr Atheniaid, diau mai yr hyn sydd i'w gondemnio ynom ydyw "peidio cymeryd hamdden i ddim arall;" oblegid gallem dybied fod "dywedyd a chlywed rhyw newydd" mor gyfreithlawn ag ydyw o naturiol i bob dyn. Ac er mai "y peth a fu o'r blaen sydd yr awrhon," y mae yr hyn a *fu* yn cael eu hadgynnyrchu yn barhâus mewn bywyd gan amgylchiadau newyddion, ac yn cael eu cyflwyno i'n sylw drwy gyfrwng newyddiadur mewn dull mor wahanol, nes cyfarfod â'r duedd neu y chwilfrydedd sydd mor naturiol i blant dynion i wybod yr hyn nad oeddynt yn ei wybod o'r blaen.

Cyn dyfeisio y gelfyddyd o argraffu, ac ymhell ar ol hyny, dibynai trigolion y gwledydd bron yn gwbl ar grwydriaid a chardotwyr am wybodaeth o'r hyn oedd yn myned ymlaen y tu allan i'r cylch neu yr ardaloedd yr oeddynt hwy yn byw ynddynt; a mawr yr helynt, y pryder, a'r siomedigaethau a achosid gan ffug a gau adroddiadau y

genfaint hon o newyddwyr. Yn gwybod y gwerth a osodai pobl ar y newydd, byddai llawer o'r hyn a adroddid yn greadigaethau dychymyg yr adroddwyr eu hunain, ac aml i ddygwyddiad dibwys yn ymchwyddo i faintioli ffaith anferth a phwysig. Cofus genym glywed yr hen bobl yn adrodd gynifer o weithiau y dychrynwyd hwy gan adroddiadau disail am laniad y Ffrancod mewn rhyw gŵr o Gymru yn nechreu y ganrif, a'r mynych anghyfleusdra a barai hyny i niferi o deuluoedd yn byw ar ein harfordiroedd. Engraifft ydyw hyny o'r math o newyddion ac o'r dull a ddefnyddid i'w lledaenu ar hyd ein gwlad cyn dyddiau y "papyr newydd." Gwasanaethai hen almanaciau Cymru yn yr eilfed ganrif ar bymtheg i gofnodi dygwyddiadau hynod a chyffrous; a dyna swyddogaeth rhai o brif faledwyr Cymru y dyddiau gynt. Rhigyment a chanent newyddion ar hŷd a llêd y Dywysogaeth, yn y ffeiriau a'r marchnadoedd. Ond yn awr y mae y newyddiadur wedi dyfod yn ffaith bwysig yn hanes ein cenedl, ac ni raid i wreng mwy na boneddig gymeryd eu newyddion yn "ail llaw." Mae yn agos ato, mewn llythyrenau Cymraeg eglur, ar ei fwrdd bob wythnos, ac yn amlach os dewisa, am un geiniog!

Y ffurf gyntaf ar newyddiadur ag y mae genym hanes am dano ydoedd yr *Acta Diurna*, neu *Acta Publica*—math o groniclau swyddogol a gyhoeddid yn ddyddiol yn Rhufain yn amser yr hen Weriniaeth. Cynnwysai restr o enedigaethau a marwolaethau, cyllid y wladwriaeth, pris yr ŷd, dyfarniadau ynadol, rhyfeloedd cartrefol a thramor, newyddion am adeiladau cyhoeddus, angladdau, a gwyrthiau, ynghyd a chwedlau carwriaethol. Math o len-ysgrifau oeddynt, wedi eu parotoi i'w gosod i fyny ar barwydydd a muriau y ddinas, fel y caffai pawb elai heibio gyfle i'w darllen. Olrheinir dechreuad newyddiaduron yn Ewrop i Germany ac i Venice. Yn yr hanner diweddaf o'r bymthegfed ganrif, dygwyd allan fath o len-ysgrifau bychain ar ffurf llythyr, er lledaeniad yn Augsburg, Vienna, a dinasoedd eraill. Cynnwysa y rhifynau sydd ar gael hanes darganfyddiad America, buddugoliaethau y Tyrciaid, rhyfeloedd Ffrainc ac Italy; dygwyddiadau lleol, megys dienyddiadau, daeargrynfaau, llosgi dewiniaid, baban-lofruddiadau, &c. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, mewn adeiladau cyhoeddus yn Venetia, gallesid gweled papyrau cyffelyb drwy dalu darn o arian a elwid *gazzeta;* a dyna barodd alw papyrau newyddion ar ol hyny yn *Gazettes.*

Y papyrau Seisonig cyntaf y mae genym hanes am danynt oeddynt yn nheyrnasiad Iago I. Crybwylla rhai haneswyr am yr *English Mercury*, a haerant iddo gael ei gyhoeddi o dan nawdd ac awdurdod y Frenhines Elizabeth, yn 1588; ond profodd Mr. Watts, o'r Amgueddfa Brydeinig, mai ffug ydoedd hwnw, ac na chafodd ei argraffu hyd y flwyddyn 1766. Yn 1619 cyhoeddwyd y *News out of Holland;* ond yn 1622 yr argraffwyd y newyddiadur rheolaidd cyntaf, wrth y titl o *Newyddion Neillduol am yr Wythnos Hon.* Yr oedd o dan olygiaeth un Nathaniel Butter. Yn adeg y Rhyfel Cartrefol dechreuwyd cyhoeddi amrywiol bapyrau wrth enwau rhyfedd iawn, yn ol natur y newyddion a gyhoeddid, megys *England's Memorable Accidents*, *The Parliament's Scouts*, *The Scot's Dove*, *The Parliament Kite*, *The Secret Owl*, a'r *News from Hell.* Nid oedd yr hyn a elwid yn newyddion y pryd hwnw ond gwrachïaidd i'r eithaf, mewn dull ac iaith hollol annheilwng. Gwnaed

darpariaeth gan y "Senedd Hir" fod i'r papyrau a gyhoeddid gael eu harolygu a'u chwilio yn fanwl cyn y caniateid eu hargraffu o gwbl, a chariwyd hyny i eithafion pellach gan Siarl II.

Ond y papyr cyntaf y gellid yn briodol ei ystyried yn gyfrwng gwybodaeth a newyddion cyffredinol ydoedd y *Public Intelligencer*, gan Syr L'Estrange, yn 1663; ond bu farw ar ymddangosiad y *London Gazette*, rhifyn cyntaf yr hwn a gyhoeddwyd yn 1665, yn Rhydychain, lle yr arosai y Llys rhag difrod y pla oedd wedi tori allan yn Llundain. Ymhen pymtheng mlynedd drachefn cyhoeddwyd yr *Observator* gan yr un gŵr, yr hwn a honai ei fod ef wedi sicrhâu trwydded gan y Llywodraeth i gyhoeddi adroddiad llawn o ddygwyddiadau na oddefid i eraill eu cyhoeddi. Ond er cymaint ei honiadau, ac er mor fychan ei bapyr, methai yn lân a chael digon o newyddion i'w lanw. Gwnai y diffyg hwn i fyny drwy ddyfynu amryw bennodau o'r Ysgrythyr, a gadael gofod mewn amryw fanau, er mwyn (ebe y golygydd), i'r darllenydd gael lle i ysgrifenu ei enw a'i gyfeiriad yn llawn ynddynt. Hyd deyrnasiad y Frenhines Anne, ychydig iawn ydoedd nifer y papyrau a gyhoeddid yn amlach nag unwaith yn yr wythnos; ond yn herwydd y dyddordeb a gymerid yn hanes buddugoliaethau Marlborough, fe gychwynwyd dau ar bymtheg ddwywaith yn yr wythnos; ac yn 1709 sefydlwyd y *Daily Courant*, i wneyd ei ymddangosiad bob dydd. Yn 1752 gwnaeth y *Public Advertiser* ei ymddangosiad. Yn hwnw ymddangosodd llythyrau yr ysgrifenydd enwog a ymgyfenwai yn "Junius," ac a adgyhoeddwyd gynifer o weithiau ar ol hyny. Cyhoeddwyd y *Morning Chronicle* yn 1770, y *Morning Post* yn 1772, a'r *Times* yn 1788, fel olynydd i'r *Daily Universal Register*, a gychwynwyd dair blynedd cyn hyny. Ceisiwyd llethu yr ymgais cyntaf a wnaed erioed i gofnodi dadleuon Tŷ y Cyffredin gyda charchar a dirwy yn 1771, ond dybenodd hyny mewn rhoddi mwy o gyhoeddusrwydd nag erioed i weithrediadau gwleidyddol y dydd. Nid oedd y *Times* am flynyddau lawer ar ol hyny ond papyr bychan o blyg, rhywbeth o'r un maintioli â phedwar tu dalen o *Baner Cymru* yn awr. Ond y mae pob rhifyn o'r *Times* yn bresennol yn cynnwys 16 o du dalenau, ac yn aml iawn 24, a chynnwysa yn gyffredin dros 5000 o hysbysiadau.

Mae y llafur a'r draul i gyhoeddi newyddiaduron dyddiol bron yn anghredadwy. Dywedir i Syr Joshua Walmsley, A.S., golli dros £70,000 yn sefydliad y *Daily News*, ac nid oedd ef ond un o nifer o'r perchenogion gollodd symiau cyffelyb. Y prif olygydd sydd yn arwain ac yn trefnu, ac yn gyfrifol am dôn a golygiadau y papyr. Anfynych y bydd ef ei hun yn ysgrifenu yr erthyglau arweiniol; oblegid y mae ganddo nifer o ysgrifenwyr blaenaf yr oes yn barod wrth law, ar y rhybudd lleiaf, i ysgrifenu erthygl ar unrhyw fater. Dywedir fod cyflog prif olygydd y *Times* yn £5000 yn y flwyddyn, a'r is-olygyddion yn £2000 a mwy. Mae yn amlwg mai efelychiad ydyw y *leaders*, neu yr erthyglau arweiniol, o gynnwys y mân bapyrau a gyhoeddid yn Rhufain gynt pan nad oedd gofod, amser, na chyfleusdra i gofnodi newyddion cyflawn; eu hamcan proffesedig yn awr ydyw elfenu, talfyru, egluro, a chwilio i mewn i helyntion cyhoeddus y dydd.

Diau mai y papyr talaethol cyntaf ydoedd y *Norwich Postman*, yn

1706. Yn ngwaelod-ddalen y papyr hwnw ceir nodiad rhyfedd iawn: "Ei bris ydyw ceiniog, ond ni wrthodir dimai!" Dilynwyd hwnw gan y *Norwich Courant* a'r *Weekly Packet*, ac yn ddiweddarach gan *Adam's Courant*, yn cael ei gyhoeddi yn Nghaerlleon. Cyhoeddir yn awr yn y brifddinas yn unig oddeutu 300 o newyddiaduron—34 yn ddyddiol, ac oddeutu 2000 yn y siroedd a'r trefi talaethol.

Yn nheyrnasiad y Frenhines Anne codwyd toll o ddimai ar bob newyddiadur, yr hyn a chwyddwyd yn raddol i bedair ceiniog. Yn 1855, fel y mae llawer o'n darllenwyr yn cofio, dilëwyd y doll yn hollol; dilynwyd hyny gan ddilead treth y papyr, a threth yr hysbysiadau—deunaw ceiniog am bob hysbysiad! Mewn cysylltiad â'r trethi hyn—"trethi ar wybodaeth," fel eu gelwid, mae teyrnged o barch yn ddyledus i'r diweddar Wir Anrhydeddus Milner Gibson, yr hwn pan yn gydaelod â Mr. John Bright dros Manchester, a ddygai ei gynnygiad ymlaen yn Nhŷ y Cyffredin flwyddyn ar ol blwyddyn, gydag ychydig iawn o argoelion llwyddiant yn y dechreu; ond o'r diwedd llwyddodd i ennill Arglwydd John Russell o'i blaid, ac wedi hyny Mr. Gladstone, ac fel ffrwyth eu hymdrech hwy yn benaf yr ydym yn awr yn mwynhâu gwasg rydd ac annibynol, yn ddiwarafun a diofn drwg. Y mae awgrym yn ddigon i'n darllenwyr ieuanc gofio i ba blaid yn y wladwriaeth y maent yn ddyledus am gyfryngau gwybodaeth rad a chyfleus, fel eu mwynheir yn bresennol yn ein gwlad.

Ein bwriad wrth ddechreu ein hysgrif ydoedd cyfyngu ein sylwadau at newyddiaduron Cymru; ond wrth fyned ymlaen barnasom nad annerbyniol gan gorff ein darllenwyr fuasai y crynodeb uchod o hanes sefydliad a chynnydd newyddiaduron mewn gwledydd eraill heblaw yr eiddom ein hun. Mae yn dygwydd i'n meddwl hefyd gyffwrdd â chwestiwn nad yw yn hollol y tu allan i gylch ymchwiliad pellach llengarwyr Cymreig—ymha le yn Nghymru y dechreuwyd argraffu gyntaf? Barnwn fod Gwilym Lleyn yn ei lyfr, *Llyfryddiaeth y Cymry*, wedi sefydlu hawl tri lle o leiaf i ymgystadlu am yr anrhydedd hwnw—Gwrecsam, Trefhedyn, a Chaergybi. Gwelsom yn ddiweddar honiad lled ëofn yn un o'n cylchgronau parchusaf mai yn Modedeyrn y gosodwyd yr argraffwasg gyntaf i fyny yn y Dywysogaeth. Camgymeriad hollol ydyw hyny. Y mae Gwilym Lleyn, yn cael ei attegu gan farn addfed Mr. Silvan Evans, wedi profi i Lewis Morris (*Llywelyn Ddu o Fôn*) osod gwasg i fyny yn Nghaergybi, ac mai yno, yn 1738, yr argraffwyd *Tlysau yr Hen Oesau*, ychydig ddalenau yn unig o'r hwn sydd i'w gael yn yr Amgueddfa Brydeinig. Yn ei ragymadrodd dywed yr hen fardd:—"Pwy bynag na fedro roddi gair da i hyn o orchwyl, harddach iddo na ddywedo ddim; canys pwy yn ei gof a darawai y llaw a f'ai yn cynnyg cymhorth, er gwaeled a fyddai, ac nid yw yn chware teg enllibio gŵr yn ei gefn. Beth a wyddech na fedr ateb drosto ei hun, pe yn y fan? Os ffol a fum i fyned i gost fawr er lles i'm gwlad (dybygwn i), y peth lleiaf ellwch ei wneyd ydyw esgusodi gŵr gwirion. Pwy a ŵyr flas peth nes ei brofi? Wele, gan hyny, *yn dyfod i afyn eich nodded forwyndod yr argraffwasg gyntaf erioed yn Ngwynedd.*" Pe buasai argraffwasg arall yn flaenorol i hyn yn Modedeyrn, pwy fuasai yn gwybod yn well na Lewis Morris? Pe felly, amlwg na ddywedasai mai yr eiddo ef ydoedd "morwyndod yr argraffwasg gyntaf yn Ngwyn-

edd." Crybwyllir am lyfr arall, *Holl Ddyledswydd Dyn*, wedi ei argraffu yn Ngwrecsam gan Edward Wicksteed yn 1718. Y mae Mr. Silvan Evans yn ammeu Gwilym Lleyn, am na ddywedasai iddo ei weled, ac y mae rhywbeth yn amwys iawn yn yr hanes a ddyry o'r llyfr; a barn Mr. Evans ydyw mai yr *Eglurhâd o Gatecism Cyntaf y Gymanfa* a gyhoeddwyd yn Nhrefhedyn, ger Castellnewydd Emlyn, ydoedd y llyfr Cymraeg cyntaf a gyhoeddwyd yn Nghymru, yn y flwyddyn 1719.

Y cyhoeddiad cyfnodol cyntaf a ddaeth allan yn Gymraeg ydoedd "*Trysorfa Gwybodaeth, neu Eurgrawn Cymraeg*, pris 3 ceiniog yn unig.—Argraffwyd gan Ioan Ross, Caerfyrddin." Cyhoeddwyd pymtheg rhifyn o hono, o Mawrth 3ydd, hyd ddydd Sadwrn, Medi 15eg, 1770. Deuai allan bob pythefnos—pob rhifyn yn 32 o dudalenau wythplyg bychan. Yr wyth tu dalen diweddaf a gynnwysai "Newyddion Cartrefol a Phellenig—Ateb y Brenin i Ddinasyddion Llundain—Cyfarchiad y ddau Dŷ o Barliament i'r Brenin—Hanes rhyfeddol o'r modd y Gorchymynodd Ymherawdwr y Twrciaid i'w ddeiliaid gadw diwrnod o ympryd a gweddi—Hanes am lofruddiaeth ganol dydd yn Sir Forganwg—Byr hanes o Eisteddfod* Henffordd ar lofruddion," &c., &c. Cynnwysiad y trydydd rhifyn ydyw yr hyn a ddyfynwyd; y mae cynnwysiad yr ail rifyn wedi ei gyhoeddi yn y TRAETHODYDD am 1849, tu dal. 58, ac y mae i'w gael hefyd yn *Nhraethodau Llenyddol Dr. Edwards*, tu dal. 567. Golygwyr yr *Eurgrawn* oeddynt y Parch. Peter Williams, ac Ifan Thomas, yr argraffydd. *Brud a Sylwydd* ydoedd gyhoeddiad arall o'r un natur a gyhoeddwyd yn Llynlleifiad yn yr un flwyddyn; ond nid ydyw yn cael ei gofnodi yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, ac ni chrybwyllir am dano gan Gwilym Mai yn ei draethawd buddugol yn Eisteddfod y Fenni ar "Gyhoeddiadau y Cymry." Mae yn ymddangos nad oedd hwnw, fel yr *Eurgrawn*, ond o fyr barhâd. Yn 1793 argraffwyd y *Cylchgrawn Cymreig*, o dan olygiaeth Morgan Rhys, yr hwn a ymadawodd yn fuan ar ol hyny i'r America. Daeth y *Cylchgrawn* i'w derfyn yn bum' chwarter oed (cyhoeddiad chwarterol ydoedd), yn y flwyddyn 1794. Cychwynwyd y *Drysorfa Gymysgedig* yn 1795, gan y Parch. Thomas Evans (*Tomos Glyn Cothi*). Unwaith yn y chwarter y bwriadwyd i hwn fod, ond ni ddaeth allan o hono ond tri rhifyn. Y cyhoeddiad nesaf y ceiswyd ei sefydlu ydoedd y *Geirgrawn Cymreig*, o dan olygiaeth y Parch. D. Davies, Treffynnon. Baich yr achwyniadau yn erbyn y cyhoeddiad hwn ydoedd ei fod yn rhy boliticaidd—yn ymosod ar y Llywodraeth, ac yn creu ysbryd gwrthryfel yn y wlad. Yn y *Geirgrawn* yr argraffwyd cân Tomos Glyn Cothi yn erbyn y Llywodraeth, am yr hyn y cymerwyd ef i'r ddalfa, y dedfrydwyd ef i ddeuddeng mis o garchar yn Nghaerfyrddin, ac y bu ddwywaith yn y *stocks*. Bu y cylchgrawn hwn farw yn flwydd oed. Y cyhoeddiad nesaf a wnaeth ei ymddangosiad ydoedd y *Drysorfa*, o dan olygiaeth y Parchedigion Thomas Charles, a Thomas Jones, Dinbych. Cyhoeddwyd tri rhifyn yn 1799, dau yn 1800, ac un yn 1801. Gwnaeth yr *Eurgrawn Wesleyaidd* ei ymddangosiad yn 1809, ac yn ddiweddarach, y *Dysgedydd*, ac amryw o gyhoeddiadau cyfnodol eraill. Gwelir fod y

* Gair a arferid gan rai y pryd hyny am *assizes*.

cyhoeddiadau hyn yn llanw bwlch oedd yn llenyddiaeth Cymru yn nghyfnod cyntaf y ganrif hon drwy gyfuno y newyddiadur â'r gwasanaeth arall a wnaent i'w gwlad, ac i'r gwahanol gyfundebau oedd yn gofalu am danynt. Dyma yr unig gyfryngau oedd gan ein tadau i'w cyflenwi â gwybodaeth gyffredinol a chredadwy am helyntion gwladol y dydd; a hynod fel y gwerthfawrogid yr adran hono o'r cylchgrawn a roddai syniad iddynt am yr hyn fyddai yn myned ymlaen y tu allan i'r byd bach yr oeddynt hwy yn troi ynddo.

Ond yr ymgais gwirioneddol cyntaf a wnaed tuag at sefydlu yr hyn yn briodol ellir ei alw yn newyddiadur ydoedd yn Ionawr 1, 1814, pan y cychwynwyd *Seren Gomer*. Yr oedd o ran ffurf a threfn yn newyddiadur. Dygid hi allan yn wythnosol am y flwyddyn hono, ac i fyny hyd fis Awst y flwyddyn ganlynol. Y golygydd ydoedd yr haeddbarch a'r enwog Joseph Harris; a'r argraffydd, Mr. David Jenkins. Ar ol ei ddwyn ymlaen o dan lawer o anfanteision, yn rhifyn 85, sef y diweddaf, dywed y Golygydd:—"Wele'r *Seren* wythnosol yn machludo; dyma'r rhifyn olaf o'n newyddiadur, a hyny i gyd am nad yw y gefnogaeth yn ddigonol." Newidiwyd ei ddull wedi hyny, a daeth allan am gryn amser yn gyhoeddiad pythefnosol, 8plyg, am dair ceiniog y rhifyn; ond ar gais amryw o'i gefnogwyr gwresocaf, cymerodd cyfnewidiad arall le yn dra buan—penderfynwyd ei ddwyn allan bob mis, am bris cymaint arall, sef chwe' cheiniog. Gwnelai *Seren Gomer* ynddi ei hun destun erthygl neu ddarlith ddyddorol.* Yr oedd yn gyhoeddiad o nodwedd gwir genedlaethol, a gallai restru ymysg ei ysgrifenwyr weinidogion dysgedig o bob enwad, a llu mawr o feirdd a llenorion na bu "gynt na chwedyn" eu godidocach.* Hyd ag yr ydym ni yn gwybod, ni wnaed un ymgaïs ar ol hyny i gychwyn yr un papyr teilwng o'r enw newyddiadur, hyd nes y dygwyd *Cronicl yr Oes* allan gan Mri. John ac Evan Lloyd, yr Wyddgrug, yn nechreu y flwyddyn 1835. Ei olygydd ydoedd y Parch. Roger Edwards; felly priodol iawn ydyw i urddasolion y wasg Gymreig—y cyfryw yn ol braint a defawd a arfcrant y rhagenw "NI"—gydnabod yr hybarch weinidog o'r Wyddgrug fel eu tad hwy oll, canys mae yn amlwg mai efe ydyw y golygydd newyddiadurol, os nad y golygydd cylchgronol hefyd, *hynaf* sydd yn fyw yn Nghymru heddyw. Y mae eto yn fyw nifer bychan o hen ddarllenwyr y *Cronicl* a feddant adgofion melus am yr hyfrydwch a fwynhäent uwch ben ei du dalennau, ac y maent yn parhâu i ofidio yr awr y bu raid iddo yntau, ar ol gwasanaethu ei genedlaeth am ychydig flynyddau, "rodio llwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelai." Sicrheir i ni i gyhoeddiad o'r enw *Y Papyr Newydd Cymraeg* ddyfod allan o wasg Mr. Lewis Evan Jones, Caernarfon, yn 1836; ond er mwyn osgoi y doll ar newyddiadur, ni chyhoeddid ef ond unwaith y mis. Yn 1838 cychwynwyd y *Gwron Cymreig;* ei argraffydd ydoedd Mr. Josiah Thomas Jones, Caernarfon, a'i olygydd am gryn amser ydoedd yr enwog fardd a llenor, Mr. Wm. Ellis Jones (*Cawrdaf*). Parhaodd i ddyfod allan o

* Pris rhifynau cyntaf y *Seren* wythnosol ydoedd chwech a dimai yr un; yn Gorph. 12, 1815, cwyna Gomer ei bod ar ddiflanu, ac i geisio arbed hyny cyfyd bris y papyr i wyth ceiniog, ond Awst 9fed cyhoedda ei bod *wedi* diflanu. Ni chynnwysai erthygl arweiniol, ac amlwg yw ei fod yn hynod ochelgar rhag ysgrifenu dim yn erbyn Llywodraeth y dydd. Gwelwn ynddi fath o grynodeb o newyddion o dan y penawd "Adfyfyriad."

dan yr enw hwnw am ddwy flynedd, sef hyd ddiwedd y flwyddyn 1839, ond ar ddechreu y flwyddyn 1840 newidiwyd ei enw a galwyd ef *Y Gwron Odyddol*, er mwyn sicrhâu iddo well derbyniad gan yr Odyddion, y rhai oeddynt yn dra lliosog y pryd hwnw yn y Deheudir. Adgyfodwyd y *Gwron Cymreig* drachefn ymhen blynyddau ar ol hyny gan Mr. J. T. Jones, a sicrhäwyd gwasanaeth Caledfryn yn olygydd; ond troes yr anturiaeth hono hefyd allan yn fethiant. Ar y 9fed o Fai, 1839, daeth y rhifyn cyntaf allan o'r *Protestant*, newyddiadur pythefnosol, pris tair ceiniog; argreffid ef ar y cyntaf yn y Wyddgrug, gan y Meistri Hugh ac Owen Jones, a golygid ef gan nifer o weinidogion yr Eglwys Sefydledig. Gan y tybid fod y darfodedigaeth wedi ymaflyd yn ei gyfansoddiad, symudwyd ei drigfan i lànau Tegid, ac argreffid ef am beth amser gan Mr. R. Saunderson, Bala. Yr adeg hono, os da yr ydym yn cofio, daeth i sawru yn drymach nag arfer o eglwysyddiaeth, a'r peth nesaf geir yn ei hanes ydyw iddo farw! *Udgorn Cymru* ydoedd gyhoeddiad politicaidd a hanner newyddiadurol, argraffedig yn Merthyr Tydfil, gan David John a Morgan Williams, mewn swyddfa a godwyd yn neillduol at hyny, yn 1840. Ni chyhoeddid ef ond unwaith yn y mis. Dadleuai dros yr hyn a elwid yn "Chwe' Phwynt y Siarter," a pherthynai i'r Siartiaid, oeddynt yn dra lliosog y pryd hwnw yn siroedd Mynwy a Morganwg. Yr oedd yr ysgrifau o natur gynhyrfus, yn cael eu coginio yn fedrus ar gyfer chwaeth ac egwyddorion y blaid hono. Nid ydym yn gwybod hŷd ei oes, heblaw ein bod yn deall na bu fyw yn hir, am fod y golygydd yn cwyno yn un o'i rifynau, er "fod iddo gylchrediad y tu hwnt i'r un cyhoeddiad arall, nad oedd yn cael y gefnogaeth a deilyngai." *

Yn 1843 sefydlwyd yr *Amserau*. Ei olygydd a'i gyhoeddwr cyntaf oedd Mr. John Jones, argraffydd, Castle Street, Liverpool. Un o'i brif ysgrifenwyr, ac yn ddilynol ei olygydd cyson am rai blynyddau, ydoedd—chwith iawn genym orfod ei ysgrifenu erbyn hyn—y *diweddar* Barch. W. Rees (*Hiraethog*); ac wedi hyny, ar ei ol ef, Ieuan Gwyllt. Ni phetruswn ddyweyd fod sefydliad yr *Amserau* yn ddechreu cyfnod newydd yn hanes bolitieaidd Cymru; a rhaid addef mai Gwilym Hiraethog yn y papyr hwn a greodd farn gyhoeddus ac annibynol yn ein mysg ni fel cenedl. Drwy ei ddull goleu a hyfedr ef yn gosod cwestiynau y dydd o flaen y werin Gymreig, llwyddodd i gael gan y bobl ddeall a sylweddoli egwyddorion ar wahân i bersonau. Ychydig, mewn cymhariaeth, o'r etholwyr y pryd hwn oedd yn deall nac yn talu dim sylw i faterion politicaidd; a throai yr etholiad bron yn wastad ar begwn personol—gwaed, achau, a dylanwad. Crochlefai y bobl, "Syr Watcyn, brigyn ein bro," "Mostyn am byth," ac ymladdent hyd farw dros y Fychaniaid, y Pennantiaid, a'r Bwcleiod; ni feddent ond dirnadaeth wan am ddyben a natur y bleidlais a ymddiriedid iddynt. Difyr, ffraeth, a doniol ydoedd llythyrau "'Rhen Ffarmwr." Dysgai

* Yn 1839 dygwyd allan *Cylchgrawn Rhyddid* yn Nghaernarfon, i ddadleu egwyddorion Masnach Rydd. Math o newyddiadur pythefnosol ydoedd hwn, yn cael ei gyhoeddi gan "Gynghrair diddymiad Deddfau yr Yd." Ei olygydd ydoedd Mr. Walter Griffith, o Bethesda, yn Arfon, yr hwn ar un adeg a gyflogwyd i ddarlithio dros y Cynghrair yn Nghymru. Dywedir fod Caledfryn wedi ysgrifenu llawer iddo, a'i fod yn bapyryn lled alluog. Deallwn na pharhaodd i ddyfod allan ond am ychydig gyda blwyddyn.

wirioneddau syml i'r bobl mewn iaith werinaidd a phoblogaidd, nes goglais teimlad a chyrhaedd calon y darllenydd, a hyny mewn ffordd a osododd argraff annileadwy ar feddwl a chymeriad y genedl. Yr oedd ymddyddanion "Ysolyr o'r Fferyllfa" (Mr. T. Jones, *Glan Alun*), a "Meddyliau Meddyliwr" (Mr. Eleazar Roberts, Liverpool), ymysg y mwyaf cymeradwy o gynnyrchion yr *Amserau*, ac yn agosaf at eiddo "'Rhen Ffarmwr" o ran poblogrwydd. Tymhestlog a gerwin fu gyrfa yr *Amserau* yn Lerpwl; bygythid ef â chyfraith, a bu yn amddiffyn ei hun fwy nag unwaith mewn llys barn. Yr oedd John Jones a Hiraethog yn gyfeillion calon i'w gilydd; a nosweithiau blinion a digwsg a dreuliai y ddau pan y byddai "llythyrau twrneiod" yn disgyn fel cawod o eira ar eu pen, bron o bob cyfeiriad yn Nghymru. Gwaith Mr. Jones yn benaf gyda'r *Amserau* ydoedd talfyru, torfynyglu gohebiaethau, a chrafu beirdd ieuainc a fynent fod y "wir awen" wedi ymnythu yn eu penglogau, a hyny a wnai hyd at waed. Dywedir i ni gan un a'i hadwaenai yn dda mai cimwch o hen ddyn mawr, llaeswep, trwynfachog, clôsfyr, hetdolciog, oedd efe o ran ei berson, yn ymhyfrydu mewn ac yn alluog i dynu "y crib bras" drwy ohebwyr dibrofiad ac anystywallt.* Dilynwyd ef gan Mr. John Lloyd fel argraffydd, yn 1848—blwyddyn y cyffroadau mawrion ar y Cyfandir, helyntion yr hon fu yn destun darlith boblogaidd iawn gan Hiraethog ar hyd a lled y Dywysogaeth. Oddeutu yr un amser cyhoeddwyd y *Cronicl Wythnosol* yn yr un swyddfa, am yr hwn y gofalai Llew Llwyfo; ond buan y daethpwyd i ddeall mai eithaf gorchest ydoedd cynnal *un* papyr Cymraeg o'r un lle ac o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd. Wrth ystyried hyn, ac amgylchiadau eraill, wedi gwneyd ei foesgyfarchiad ymadawol, ymostyngodd y *Cronicl* i'r anocheladwy. Ond yr hyn a grogai fel maen melin wrth wddf yr *Amserau* ydoedd "y trethi ar wybodaeth"—toll mewn ffurf o *stamp* coch y Llywodraeth ar ei gongl,

* Wedi i ni ysgrifenu yr uchod cawsom y fraint o ddarllen anerchiad a barotoisid gan Dr. Rees i gydnabod yr anrhydedd osodwyd arno gan Gymdeithas Anrhydeddus y Cymrodorion yn cyflwyno ei bathodyn cyntaf iddo, ac nid amhriodol fyddai gwneyd y dyfyniad a ganlyn o hono, yn enwedig pan welir ei fod yn cywiro rhai camgymeriadau o'r eiddom:—"Wedi fy symudiad i Liverpool, yn Mai, 1843, bum i a'm diweddar gyfaill, Mr. John Jones, o Castle Street yno, argraffydd a llyfrwerthydd, gŵr parchus iawn gan ei gydgenedl yn y dref, a chan y Saeson yr un modd, yn Gymro gwladgarol, ac yn Gymreigydd gwych—buom, meddaf, yn cydymgynghori llawer â'n gilydd o dro i dro, a allem anturio gwneyd un cynnyg arall i sefydlu newyddiadur Cymreig. O'r diwedd cytunasom i roddi prawf. Yr oedd Mr. Jones i ddwyn y draul o argraffu a chyhoeddi, a gofalu am ddosbarth y newyddion cartrefol, y marchnadoedd, gohebiaethau, a hysbysiadau, a minnau i ymgymeryd â'r olygiaeth, yr erthyglau arweiniol, newyddion tramor, a'r adroddion seneddol yn ddidâl, ond papyr i ysgrifenu arno, ac inc i ysgrifenu âg ef; ac ar y 23ain o Awst, 1843, daeth y rhifyn cyntaf o'r *Amserau* allan. Nid oedd nifer ei dderbynwyr ar y cychwyn, er pob ymdrech a wnaethid i daenu hysbysiadau am dano ymysg ein cydwladwyr, ac i'w hannog i'w dderbyn, ond tua phedwar cant. Dygid ef allan yn bythefnosol ar y cyntaf. Wedi gwneyd y prawf am tua chwe' mis, gwelodd Mr. Jones ei fod yn colli swm o arian ar bob rhifyn, ac nad oedd nifer y derbynwyr yn cynnyddu ond ychydig, a phenderfynodd roddi yr anturiaeth i fyny, ac archodd i ni barotoi erthygl erbyn y rhifyn nesaf i'w gosod yn ngenau yr *Amserau*, fel ei genad olaf at ei dderbynwyr. Taer erfyniais arno ei barhâu am ychydig amser ymhellach, fod genyf rywbeth mewn golwg a allai, hwyrach, fŷnu sylw ac ennill derbynwyr newyddion. Boddlonodd yntau i hyny. Yn ganlynol ymddangosodd 'Llythyrau 'Rhen Ffarmwr' ynddo, yn cynnwys sylwadau ar arferion a defodau y wlad, a helyntion y dydd, y senedd, &c., wedi eu hysgrifenu yn iaith lafar y werin yn ucheldiroedd Gogledd Cymru. Llwyddodd yr abwyd. Cynnyddodd nifer y derbynwyr fesur y degau bob wythnos (bob yn ail wythnos y cyhoeddid y papyr), a daeth golwg obeithiol ar yr achos."

toll ar y papyr, a tholl o ddeunaw ceiniog ar bob hysbysiad. Fel yr ymdrech olaf am fywyd, symudodd yr argraffydd i Ynys Manaw, gan fod rhyddid yno i gyhoeddi papyrau yn ddidreth. Ond ni bu yno ond ychydig wythnosau na alwyd sylw Canghellydd y Drysorfa at yr ymgais "annheg" yma i osgoi y trethi, gan ei fod yn eithaf hysbys nad oedd yn cael ei argraffu er budd yr ynyswyr. Buan y bu raid iddo droi ei wyneb yn ol tua'i hen gartref, yr hyn a wnaeth, fel y gallesid dysgwyl, mewn ysbryd anfoddog a grwgnachlyd iawn. Oddeutu yr adeg hono ymgyfarfu pwyllgor Eglwysig yn Mangor i ystyried y ffordd oreu i'w chymeryd i wrthweithio dylanwad niweidiol a gwenwynig y wasg yn Nghymru, gyda chyfeiriad neillduol at yr *Amserau*. Penderfynwyd, ar ol tanysgrifio swm gweddol o arian, i sefydlu y *Cymro;* sicrhäwyd gwasanaeth Mr. Hugh Williams *(Cadfan)* fel golygydd ac argraffydd. Daeth Cadfan i lawr o Lundain yn un swydd at y gorchwyl hwnw; "ac wele," yn ngeiriau Hiraethog, pan ddaeth y rhifyn cyntaf o'r *Cymro* i'w law, "y mynydd mawr Eglwysig yn Mangor, ar ol bod am rai wythnosau mewn gwewyr, o'r diwedd a esgorodd ar lygoden eglwys!" Ond, er help a nawddogaeth prif fonedd ac urddasolion Eglwysig chwe sîr Gogledd Cymru, "byr o ddyddiau a llawn o helbul" ydoedd tynged y *Cymro*, druan. Gwariodd lawer o'i dda ar feddygon; symudodd i Dreffynnon, i edrych pa effaith gaffai newid awyr ar ei gyfansoddiad nychlyd. Cafodd yno y fantais hefyd o ymdrochi yn nyfroedd cysegredig Gwenfrewi, a mwynhâu ymgeledd gysurlawn hen famaeth brofedig o'r enw Morris—un oedd yn cyflawni lle yr anghyfarwydd, ac argraffydd wrth ei alwedigaeth. Ond er gofal ac ymgeledd yr hen chwaer a enwyd, bu farw yn edwinol ei ysbryd, ac yn oedran diniweidrwydd, yn Ninbych, i'r hwn le y symudodd yr argraffydd i fyw. Ni chwanegwn. "Heddwch i'w lwch."

Yn 1854—adeg rhyfel y Crimea—daeth allan yn bapyr ceiniog *Yr Herald Cymraeg*, o dan olygiaeth Mr. James Evans. Yr oedd ei bris, yr adeg, a'i gysylltiad â'r swyddfa y cyhoeddid ef ynddi, yn fanteisiol iawn i sicrhâu cylchrediad lliosog. Gwnaeth y golygydd ei ran yn dda er poblogeiddio y newyddiadur ymysg dosbarthiadau gweithiol ac annarllengar Cymru, y rhai ar ol hyny a arweiniwyd i chwilio am arlwyaeth fwy chwaethus mewn cyhoeddiadau eraill. Yn mlynyddau cyntaf yr *Herald* nid oedd ynddo yr un erthygl arweiniol; teflid ei golofnau yn rhydd i bob plaid wyntyllio eu hamrywiol gŵynion, yr hyn a ddybenai yn fynych mewn ffrwgwd isel ac annosbarthus. Hawdd ydoedd canfod fod ynddo feithriniad caredig i'w gael i ohebwyr ieuainc ar ei dudalenau; ond camddefnyddiwyd y rhyddid hwnw mewn modd dybryd lawer gwaith wrth ei osod yn gareg farch i hogiau dibrofiad a digymeriad ymddyrchafu i gyhoeddusrwydd, ar draul diystyru rheolau symlaf dadl dêg, a thrwy ymosod yn llechwraidd ar rai o gymeriadau dysgleiriaf y wasg a'r pulpud. Y canlyniad fyddai, elai y bechgyn hyn yn anhawdd eu trin—yn gystal ar yr aelwyd gartref ag yn yr eglwysi ac yn yr Ysgol Sabbothol.

Yn fuan ar ol cychwyniad yr *Herald* sefydlwyd y *Telegraph*, yn swyddfa Mr. Hugh Humphreys, Caernarfon. Ni chynnwysai ond newyddion heb un esboniad nac annogaeth. Gwelodd y cyhoeddwr anturiaethus ffordd fwy rhagorol i wasanaethu ei wlad ac i ymgyf-

oethogi, a rhoes derfyn ar ei gyntafanedig cyn ei fod ond ychydig o fisoedd oed. Gwnaed ymgais arall gan ŵr o Gaernarfon, Mr. Richard Davies, i sefydlu newyddiadur o olygiadau annibynol wrth yr enw *Sylwedydd*, yn cael ei argraffu yn Nghaergybi gan y Meistri L. ac E. Jones. Yr oedd golwg addawol arno am rai wythnosau, ac erthyglau gwir alluog yn ymddangos yn wythnosol yn ei golofnau; ond fel llawer un o'i flaen, nid oedd y cyhoeddwr erioed wedi bwrw y draul cyn ei sefydlu, a chan "nad oedd ganddo a'i gorpheno," bu farw.

Bu agos i ni golli golwg ar un o'r newyddiaduron Cymreig mwyaf llewyrchus a gyhoeddid hyd yn ddiweddar yn y Deheudir. Yr ydym yn cyfeirio at y *Gwladgarwr*. Sefydlwyd ef yn Aberdâr gan y gwladgarol Alaw Goch, yn 1846. Yr argraffydd ydoedd Mr. Walter Lloyd, a'r golygydd cyntaf, Llew Llwyfo; ac yn ddilynol bu o dan olygiaeth Ieuan Gwyllt, Dewi Wyn o Esyllt, Islwyn, Brythonfryn, &c. Yr oedd mwy o'r bardd a'r llenor yn weledig ar ei du dalenau nag o'r gwleidyddwr. Er fod ynddo newyddion a rhai erthyglau, eisteddfodau, barddoniaeth, a chyrddau llenyddol oedd yn cymeryd i fyny y rhan fwyaf o ofod y rhifynau a ddygwyddodd ddisgyn i'n dwylaw ni. Fel anturiaeth arianol troes allan yn llwyddiannus; ond o herwydd rhyw resymau na pherthyn i ni eu gwybod, barnwyd yn addas ei ddwyn i derfyniad y flwyddyn ddiweddaf, yn fuan ar ol marw ei berchenog.

Yn Mawrth, 1857, yr ydym yn cael i Mr. Gee—y cyhoeddwr mwyaf anturiaethus a fedd ein gwlad—ddyfod â'r rhifyn cyntaf o *Baner Cymru* allan, pris dwy geiniog, a chyhoeddedig bob dydd Mercher. Gan fod y *Faner* yn proffesu yr un egwyddorion, ac wedi ei hamcanu i lafurio bron yn yr un maes a'r *Amserau*, cyflwynwyd y naill mewn ffordd gyfrinachol i'r llall; daethant yn fuan i hoffi eu gilydd, a therfynodd yr hoffder hwnw mewn gwneyd ammod priodas cydrhyngddynt. Yr oedd yn eithaf hysbys fod y llanc o Lynlleifiad, er ei holl annibyniaeth meddwl, drwy ei oes yn ymladd â thlodi, a'r forwynig o Ddinbych yn eneth ieuanc hawddgar yr olwg, lân ei buchedd, a chynnysgaeth dda i'w chanlyn. Gan y gwelid gan gyfeillion y ddwyblaid y buasai cyfuniad o'r cyfryw ansoddau yn llesol iddynt hwy ac yn fuddiol i gymdeithas, ac heb fod gan neb achos cyfreithlawn yn eu herbyn, fe briodwyd y ddau ar y 5ed dydd o Hydref, 1859, a galwyd hwy *Baner ac Amserau Cymru.* Ni chawsom le i gredu eu bod yn gofidio yn herwydd yr undeb hwnw; yr ydym wedi sylwi eu bod bob amser yn cyd-dynu ymhlaid egwyddorion Rhyddfrydig y dydd gyda'r un egni ymroddiadol ag oedd yn eu nodweddu pan yn byw ar wahân. Nid gormod ydyw dyweyd fod y *Faner* yn allu mawr yn Nghymru y dydd heddyw. Mae yn elyn anghymmodlawn i orthrwm gwladol ac eglwysig; ac nid ydym yn gwybod am ddim y mae yn ei gasâu yn fwy na Thoriaeth,—os nad y Fugeiliaeth ymysg y Methodistiaid Calfinaidd. Amcana at roddi adroddiadau cyflawnach o gyfarfodydd, o areithiau Seneddol, a helyntion y dydd nag odid un papyr Cymraeg arall; a chan fod ei bris a'i faint yn fwy, y mae ganddo o gymaint â hyny well mantais i ragori arnynt yn hyn, yn gystal ag mewn rhyw arweddion eraill a berthyna iddo. Cychwynwyd *Udgorn y Bobl* (pris ceiniog) yn yr un swyddfa yn Mehefin, 1859, a pharhäwyd i'w gyhoeddi hyd

Gorphenaf 1, 1865, pryd y cymerwyd ei le gan argraffiad arall o'r *Faner* (ceiniog), a ddygir allan bob dydd Gwener.

Ionawr 1, 1866, sefydlwyd *Cronicl Cymru*, gan Mr. J. K. Douglas, Bangor, a chydsyniodd ysgrifenydd y llinellau hyn i fod yn olygydd iddo. Gan ei fod yn cael ei gyhoeddi mewn swyddfa oedd â'i chysylltiadau yn Doriaidd, yr oedd cryn ragfarn yn y wlad tuag ato, ac anhawdd ydoedd darbwyllo y lliaws na fwriadwyd ef i ddadleu yr egwyddorion hyny ag yr oedd y perchenog yn rhwymedig i'w hamddiffyn yn Saesoneg. Yr oedd hyny yn eithaf naturiol; ond nid dyna oedd y dealltwriaeth pan yr ymgymerwyd â'r anturiaeth—yr oedd i fod yn berffaith rydd, heb sawyr plaid o gwbl arno. Ymhen ychydig gyda dwy flynedd cymerodd etholiad cyffredinol le, ac o'r pryd hwnw allan ymgymerodd y perchenog â dadleu hawliau "y gŵr a bïoedd ei nenbren," yr hwn a ail ymgeisiai am anrhydedd seneddol. Ymgymerodd y Parch. Morris Williams (*Nicander*) â rhan o'r gwaith llenyddol a berthynai i'r *Cronicl*; efe ydoedd awdwr yr erthyglau, a rhai nodiadau neillduol. Nid ydym yn bradychu cyfrinach wrth ddyweyd i dynged y papyr gael ei sefydlu pan gododd faner Toriaeth i fyny. Er esiampl i rai, ac er rhybudd i eraill, yr ydym yn dyweyd—cyn y llwydda papyrau o nodwedd Eglwysig a Thoriaidd yn Nghymru, rhaid darpar rhyw drysorfa "yn help wrth raid" i'r cyfeillion hyny sydd yn ymgymeryd â chyfrifoldeb ac â gwaith y mae pob argraffydd Cymreig yn tystio "na thâl byth." Ymysg ysgrifenwyr mwyaf cyson y *Cronicl* yr ydoedd Ab Ithel, Gwalchmai, Nicander, Glasynys, Gwynionydd, Cynddelw, Llyfrbryf, &c. Yr ysgrifau ag yr amlygai y darllenwyr eu cymeradwyaeth o honynt fwyaf ydoedd "Geiriau Lleol" gan Nicander, a "Dyddlyfr Oliver Jenkins."

Y mae i'r *Dydd* (1868) a gychwynwyd ac a gyhoeddir yn awr yn Nolgellau, ei hanes a'i helyntion i'w cofnodi, nad yw yn fanteisiol nac yn ddymunol eu dadgysylltu oddiwrth hanes yr enwad parchus y parha i ddal rhyw berthynas âg ef. O dan olygiaeth S. R., a thrwy gynnorthwy Mynyddog, yr hwn a ysgrifenai lythyrau yn llawn bywyd ac arabedd o dan yr enw "Y Dyn yn y Lleuad," yr oedd yn cael derbyniad croesawus ar filoedd o aelwydydd yn Nghymru. Ni pherthyn i ni olrhain y symudiad derfynodd yn ei uniad â'r *Tyst* (1873), a chyhoeddir ef yn awr fel y *Tyst a'r Dydd*, yr hwn a gydnabyddir yn brif organ Annibyniaeth yn Nghymru. Y mae yn *Dyst* ffyddlawn i wahanol symudiadau y *Dydd*, ac nid yw yn ol i neb mewn dadleuon hawliau, a chyfiawnhâu bodolaeth y "cyfansoddiad newydd." Y mae i'r Bedyddwyr gyfrwng manteisiol i gyfnewid ymadroddion yn *Seren Cymru* (1857) a gyhoeddir yn Nghaerfyrddin; a'r Wesleyaid yr eiddynt hwythau yn *Y Gwyliedydd* (1877) a gyhoeddir yn Rhyl. A oddefir i ni grybwyll fod y *Celt* (1880) yn cynnrychioli dosbarth o'r Annibynwyr—pleidwyr yr "hen gyfansoddiad?"

Sefydlwyd y *Goleuad*, Tachwedd 4, 1869, a chyhoeddwyd ef am y tair blynedd cyntaf yn Nghaernarfon. Ymddiriedwyd yr olygyddiaeth i'r argraffydd, gydag addewid y byddai i'r colofnau arweiniol gael eu cyflenwi âg erthyglau gan nifer o wŷr parchedig yr enwad y bwriadwyd iddo ei wasanaethu. Fe gyfarfu â gwrthwynebiad cryf o wahanol gyfeiriadau, a rhyfedd fel y gwrthwynebid y syniad o sefydlu organ

enwadol Methodistaidd, gan Fethodistiaid eu hunain! Ysgrifenwyd iddo o bryd i bryd gan wŷr galluocaf y Cyfundeb; ac nid yn fuan yr anghofir yr ystorm anystyriol a dorodd ar ben y wlad, pan y cyhoeddwyd erthygl y "Pregethwyr i'r Bwystfilod" (Dr. Edwards), ac un arall o'r un nodwedd ar "Philistiaeth." Esgynodd llu o geiliogod bychain llenyddol ar ben un o'r tomenydd cymydogol i ganu dydd ei farwolaeth; nid oedd eiriau nac ymadroddion rhy isel gan y cyfryw i'w defnyddio am yr ysgrifenwyr, unig drosedd y rhai ydoedd traethu y gwirionedd am yr hyn yr oedd ganddynt gymaint o hawl i wneyd ag eraill, llai eu gallu a'u dylanwad na hwy. Un o'r dygwyddiadau mwyaf dyddorol a gymerodd le yn mlwyddyn gyntaf oes y *Goleuad*, ydoedd y ddadl rhwng y Parch. T. C. Edwards, M.A., Aberystwyth, a'r Parch. H. T. Edwards, B.A. (yn awr Deon Bangor) ar "Dduwinyddiaeth y Cymry." Dysgwyliem weled y ddadl wedi ei chyhoeddi yn llyfr cyn hyn, gan ein bod yn gwybod i'r Deon roddi ei lythyrau ei hun yn llaw yr argraffydd, a bod cyfran o honynt *wedi* eu hargraffu, ond heb eu cyhoeddi. Beth ydyw yr achos? Nis gallwn lai na chredu mai ymgroesi a wnaeth "y tra pharchedig" o dan yr ymsyniad, "Discretion is the better part of valour." Mae yn hysbys ddigon mai aflwyddiannus fu yr anturiaeth gyda'r *Goleuad* mewn ystyr fasnachol; ond nid y tu dalenau hyn yw y lle priodol i olrhain yr achos o hyny. Pe gofynasid am dano fe gydnebydd y cyfarwydd â'r amgylchiadau ein bod ni mewn gwell mantais i ffurfio barn ar y mater na rhyw rai a ymgymerodd â gwneyd hyny drwy gyfrwng y wasg. Parheir i'w gyhoeddi yn Nolgellau, i'r hwn le y symudwyd ef o Gaernarfon yn Hydref, 1872. Credwn y deil ei erthyglau eto i'w cymharu âg eiddo unrhyw newyddiadur arall yn y Dywysogaeth, a meiddiwn awgrymu ei fod yn haeddu gwell cefnogaeth nag y mae yn gael gan Fethodistiaid Cymru y dyddiau hyn.

Yn ngwanwyn 1877 sefydlwyd y *Genedl Gymreig*, gan gwmni yn Nghaernarfon. Ysgrifenid yr erthyglau arweiniol gan dri chyfaill fuont yn dal cysylltiad â'r wasg yn flaenorol, a pharhasant yn y gwasanaeth hwnw am oddeutu dwy flynedd. Troes yr anturiaeth allan yn llwyddiant. Heblaw y derbyniad calonog a gafodd yn y wlad, fe gydnabyddir i'r *Genedl* osod argraff ddymunol ar y papyrau oedd eisoes ar y maes—golchwyd a newidiwyd gwynebau rhai o honynt, a chwanegwyd colofnau at faintioli rhai eraill. Sicr yw fod yr egwyddor o gydymgais yn fuddiol i gymdeithas yn gystal ag yn lles personol i'r dyn ei hun. Y mae yn Nghaernarfon ddau newyddiadur arall—*Gwalia* (1881) o dan nawdd a chefnogaeth Ceidwadwyr Gogledd Cymru; a'r *Amseroedd* (1883) o dan aden a gofal y Parch. Evan Jones.

Y mae genym adgofion dyddorol am liaws o bapyrau eraill wnaethant eu hymddangosiad flynyddau yn ol, ond sydd erbyn hyn wedi diflanu, ac heb ond yr adgof o honynt. Ni oddef ein terfynau i ni ond eu henwi:—*Yspiwr* (1844), cyhoeddedig gan Hugh Jones, Llangollen; *Y Fellten* (1860), gan Rees Evans, Merthyr; *Papyr y Bobl* (1865), gan J. D. Jones, Bangor, golygedig gan Gweirydd ap Rhys; *Yr Arweinydd* (1857), gan Huw Tegai, yn Mhwllheli; *Y Glorian* (1867), o dan olygiaeth Islwyn a Llew Llwyfo, yn Nhaerlleon-ar-wysg; *Y Dywysogaeth* (wedi ei huno â'r *Llan*), cyhoeddedig yn Rhyl; hefyd *Y Figaro* (1843),

cyhoeddedig yn Mangor, gan Robert Jones, ac o dan olygiaeth y Parch. Isaac Harris; *Anti-Figaro* (1843), argraffedig yn Nghaernarfon, o dan olygiaeth Edeyrn ap Nudd; *Punch Cymraeg* (1858), Caergybi—argraffwyr, L. ac E. Jones. Gyda olwg ar y ddau *Figaro*, diau mai ychydig sydd yn cofio yr ysgarmesoedd ffyrnig a gymerodd le rhwng y golygwyr, a'r ymosodiadau dichwaeth a wneid yn fynych ganddynt hwy ar bersonau adnabyddus, heb barchu rhyw, oedran, na sefyllfa. Papyryn pedwarplyg dwyieithawg ydoedd *Figaro*, Bangor, gyda darluniau o gerfiad celfydd John Roberts, argraffydd, mab i Robert Roberts, yr almanaciwr, o Gaergybi. Pan ymddangosai ysgrif ddilornus ar unrhyw berson, byddai ynddo hefyd ddarlun o'r cyfryw. Gwnaed coeg-ddarluniau felly o holl urddasolion eglwysig dinas Bangor—o'r esgob (Dr. Bethel) i lawr at Huw Huws, y clochydd. Nodwn yma un engraifft. Yr adeg hono yr oedd Nicander yn gurad yn yr Eglwys Gadeiriol, newydd ddychwelyd o Rydychain. Tynodd ŵg y *Figaro* drwy bregethu pregeth Buwseyaidd iawn o flaen un o gymdeithasau cyfeillgar y dref. Yr wythnos ganlynol ymddangosodd darlun o Mr. Williams yn edrych oddiallan i ffenestr hen weithdŷ saer yn Llanystumdwy, ei ffedog o'i flaen, a llewys ei grys wedi eu torchi i fyny; gosodai ei fysedd yn rhês ar yr ermig mwyaf amlwg ar ei wyneb, a gwaeddai, "Ffarwel—*Better Living!*" Yna ceid darlun arall o hono yn ei wisgoedd offeiriadol yn pregethu "Adenedigaeth yn Medydd," gyda'r *Cyffes Ffydd*, yr *Hyfforddwr*, a'r *Drysorfa* wedi eu lluchio yn ysgyrion ar hyd yr allor gerllaw. Llawer tro y gyrwyd teuluoedd a chymydogion yn benben â'u gilydd drwy adroddiadau disail ac athrodgar y papyryn hwn. Ei olygydd ydoedd y Parch. Isaac Harris, gweinidog gyda nifer fechan o Annibynwyr a wrthgiliasent oddiwrth ddeadell y Dr. Arthur Jones. Yr oedd yr argraffydd yn or-ŵyr i David Jones, o Drefriw. Ysgrifenai y golygydd mewn iaith chwerw, a chynnwysai y papyr sibrydion hen wrageddos, ac awgrymiadau iselfoes a phersonol. Yn hytrach na'i fwrw i afaelion y gyfraith, gwelsom un boneddwr yn ffonodio y golygydd yn ddidrugaredd ar yr heol. Yr oedd yn aros yn y ddinas ar y pryd fardd o'r enw "Edeyrn ab Nudd," yn ymgymhwyso i'r weinidogaeth Eglwysig—creadur bychan, gwledig, cromfachog yr olwg arno ydoedd Edeyrn, ond hynod o dafod-ddrwg, ac fe ddygwyddodd iddo mewn Cymdeithas Gymröaidd Ddadleuol ddisgyn i grafangau Harris; a'r wythnos ganlynol yr ydym yn ei gael yn y *Figaro*—darlun byw o hono. I ddial ar ei wrthwynebwr, llwyddodd Edeyrn i gael swm o arian i gychwyn *Anti-Figaro* yn Nghaernarfon. Ymgymerodd argraffydd o'r enw Lewis Evan Jones â'r anturiaeth, gydag Edeyrn yn olygydd; ac "os drwg cynt, gwaeth gwed'yn." Ni welsom mewn iaith ymadroddion iselach, ac ymosodiadau bryntach ar gymeriadau personol. Cynnwysai englynion ymosodol ar Harris. Yr oeddynt yn hynod o gywrain, ond wedi eu saernïo â geiriau aflan a masweddol, annheilwng o ddynoliaeth. O'r diwedd rhoes y gyfraith wladol derfyn ar einioes y ddau bapyr, drwy atafaelu eiddo y ddau argraffydd!

Anghyflawn fyddai ein nodiadau heb gymeryd rhyw sylw o newyddiaduron Cymreig America. Nid oes ond dau ar hyn o bryd yn hysbys i ni —*Y Drych* (1850), a'r *Wasg* (1872). Ac eithriadu neillduolion Ianciyddol ein cefnderyd, y mae bywyd, yni, a gallu llenyddol y papyrau hyn yn

anrhydedd i ni fel cenedl. Mae y *Drych* wedi goroesi haner dwsin, os nad ychwaneg, o'i gyfoesolion; nid oes lladd arno. Y gwir yw, y mae wedi dyfod i ddeall chwaeth a theithi meddwl y Cymro oddicartref, ac yn darpar ei arlwyaeth wythnosol fel y cyfryw gyda chryn ddeheurwydd. Cyhoeddir y *Drych* yn Pittsburg, a'r *Wasg* yn Utica.

Yn ol May's *Press Manual* am 1882 y mae nifer papyrau Seisonig Cymru yn 72. Sylwasom fod oddeutu 20 o'r nifer yma yn fath o ail argraffiadau, wedi newid yr enw, i gyfarfod âg amgylchiadau lleol rhai manau. Yr hynaf yn Ngogledd Cymru ydyw y *North Wales Chronicle*, a gyhoeddwyd i ddechreu yn Mangor, o dan yr enw *North Wales Gazette*. Daeth y rhifyn cyntaf o hono allan yn 1807. Gan ei fod yn cael ei argraffu o dan gysgod y clochdŷ yn y ddinas hono, nis gallesid dysgwyl iddo fod yn amgen na Thoriaidd ac Eglwysig o ran ei olygiadau. Y mae dwy gyfrol o hono yn awr ger ein bron (1809-10), ac mae yn anhawdd cael gwell dangoseg o agwedd foesol a chymdeithasol Cymru yr adeg hono nag a geir yn y cyhoeddiad hwn. Nid oes dim sydd amlycach na'i fod yn un o brif amcanion ei fodolaeth greu ofn a pharchedigaeth yn mynwesau y bobl at yr awdurdodau goruchel: "Y Brenin a'r Eglwys" ydoedd llwnc-destun yr holl destunau. Galwai sylw neillduol at benderfyniadau Cymanfäol y Methodistiaid fyddent yn cydymdeimlo â'r brenin, ac yn dadgan eu hymlyniad wrth hen gyfansoddiad godidog Prydain. Synasom beth wrth ddarllen llythyr wedi ei arwyddo gan Christmas Evans a'i gyd-weinidogion yn Môn, yn ceisio argraffu ar feddwl yr uchel-sirydd pa mor deyrngarol ydoedd y Bedyddwyr i'r brenin a'i orsedd, ac nad oedd unrhyw gydymdeimlad yn eu mysg hwy fel enwad â'r terfysgwyr yn Lloegr. Erbyn troi i golofn arall o'r un rhifyn, gwelwn mai wrth y "terfysgwyr" y golygai y papyr "those dissatisfied souls who clamour for reform in the constitution," a'i fod yn teimlo yn falch nad cyfarfod yn eu capelau yr oedd y Bedyddwyr i ddadsylfaenu sefydliadau eu gwlad! Cynnwysa adroddiadau o gyfarfodydd y Biblau yn Nghaernarfon, Bangor, Beaumaris, a Chaergybi; ond wrth gofnodi y penderfyniadau, gofala am ddodi *Parch.* o flaen enw J. H. Cotton, a *Mr.* John Elias; *Parch.* H. Hughes, Llangefni, a *Mr.* Christmas Evans. Hawdd deall y rheswm paham y ceir ynddo y *Parch.* Thomas Charles, a'r *Parch.* Simon Lloyd. Fe gofir mai blwyddyn jiwbili Siôr y Trydydd ydoedd 1809; a mawr yr ymdrech a wneid i groniclo pob arddangosiad o barch a theyrngarwch drwy Ogledd Cymru. Yn y Bala gwelwn i wledd gael ei chynnal yn y Bull Inn, R. W. Price, Ysw., yn y gadair. Tanysgrifiwyd yn yr ystafell symiau o arian at ddilladu y tlodion, &c. Ymysg eraill gwelwn enw y Parch. Thomas Charles am gini, ac yn nghwt yr adroddiad y nodiad a ganlyn:—"We are given to understand the plan was suggested by the Rev. T. Charles, who preached a very eloquent and appropriate discourse adapted to the occasion, to a very numerous congregation, from the 8th chapter of Proverbs, 15th and 16th verses: 'By me kings reign, and princes decree justice, &c." Ac yna cofnodir penderfyniadau y cyfarfod, a nodir ar ddydd Mercher, Hydref 25, i fod yn ddydd diolchgarwch. Gwnaed casgliadau yn nghapelau y Methodistiaid a'r "Dissenters" at yr achos. Ceir yn yr un colofnau hanes am farwolaeth Syr John Moore, "Siege of Badajoz," marwolaethau amryw o

hen bobl yn Môn ac Arfon dros gant oed, a hysbysiad am gerbydau yn gadael yr "Eagles and Child Inn," Caergybi, bob dydd am Lundain: "The following coaches set out from the above Inn, by way of Chester, in 48 hours. Fare—inside, £6 6s.; outside, £3 3s." Neillduid y golofn farddonol i'r Gymraeg, o dan olygiaeth Dafydd Ddu Eryri; ac ymysg gohebwyr ar faterion yn dwyn cysylltiad â Chymru a Chymraeg gwelwn enwau Dafydd Ddu, Dewi Wyn, R. ab Gwilym Ddu, Ioan Tegid, Thomas Roberts (Llwynrhudol), &c. Ceir yma gân gan John Jones, Glangors, ar "Y Jiwbili," ac englynion o eiddo yr un gŵr wedi eu cyfansoddi ganddo ar ben y Wyddfa, Awst 10, 1809. Ni wyddem o'r blaen fod Glanygors yn talu gwarogaeth i'r mesurau caethion; ac yn engraifft o'i allu fel cynghanneddwr, dodwn yr englynion i lawr yma:—

YMWELIAD A PHEN Y WYDDFA, AWST 10, 1809.

Er gwaethaf croes bregethau—er cnawd,
  Er cnwd o bechodau;
 Dringais, ysglydais yn glau
 Wychol dir uchelderau.

Creiglawr, oh! weddfawr Wyddfa—wych baenes,
  Uwch ben y rhai balcha;
 Mae lladron a dynion da
 Eu doniau oddidana'.

Dyma nen uwch ben Boni—ynfydwr
  Ni fedr dd'od ati;
 Diengai, cerddai mal ci
 'R awrhon pe gwelai 'Ryri.

Dychrynllyd, llymllyd yw 'r lle—a hynod
  Ei henw—Brenhinlle;
 Dyryslwyn groglwyn greigle,
 Gas ei wneyd agosa i Ne'.

Wele ddau englyn o waith Twm o'r Nant, yn yr un golofn:—

I WRTHGILIWR.

Cariadog fel carwden—did fechan,
  Yn dadfachu 'n mhobpen;
 Llwyth tindrwm heb gwlwm gên,
 Rhoch dymher hwch yn domen.

Rhith grefydd ufudd afiach—oedd genyt
  I gynnwys dy sothach;
 A'th gest yn byw o gastiau bach—
 Ffei ddiawl—a phwy dduwiolach!

Er nad yn rhydd oddiwrth feïau cerdd dafod, mae yr englynion yn nodweddiadol o ogwyddiad meddwl y ddau gellweirddyn. Diau i'r rheolau eu cadw rhag dyweyd yr hyn fuasai yn boddhâu gefeilliaid mor wageddus a hwynt-hwy.

Yn 1817 cychwynwyd y *Carnarvon Advertiser*. Ni cheir enw argraffydd wrtho; ac yr ydym yn deall na ddaeth ond chwe' rhifyn o hono allan o gwbl. Barnwn mai fel gwrthymgeisydd i bapyr Bangor y sefydlwyd ef, a'i fod o egwyddorion rhyddfrydol. Yn 1832 y sefydl-

wyd y *Carnarvon and Denbigh Herald*, gan Potter and Co., ac ar eu hol hwy gan Mr. James Rees. Yr oedd yn bapyr o olygiadau annibynol iawn; ac o dan olygiaeth un Mr. Trevor daeth yn allu pwysig yn y sir ac yn Ngogledd Cymru. Symudodd Mr. Trevor i Gaerlleon i olygu y *Chester Chronicle;* a thrwy ddylanwad Ardalydd Westminster penodwyd ef i swydd o dan y Llywodraeth. Dilynwyd ef gan Mr. Smith, yr hwn, ynghyd a'i ferch, fuont am flynyddoedd yn golygu yr *Herald*, yn trefnu ac yn cyfansoddi ei erthyglau. Wedi i henaint a methiantwch ddal Mr. Smith, symudodd at ei fab yn nghyfraith—Mr. Thomas Williams, perchenog a golygydd y *Star of Gwent*, yn Newport, lle y bu farw. Yr oedd Mr. Williams yn ŵyr i'r diweddar Barch. John Jones, Tremadog. Yr hynaf o bapyrau y Deheudir ydyw y *Cambrian* (1804), a gyhoeddir yn Abertawe; a'r agosaf ato ydyw y *Carmarthen Journal* (1810), ac at hyny y *Welshman* (1829), Caerfyrddin. Y mae yn y Deheudir dri o bapyrau dyddiol—y *Western Mail* (1869), *South Wales Daily News* (1872), cyhoeddedig yn Nghaerdydd, a'r *Daily Cambrian* (1880), cyhoeddedig yn Abertawe.

Sylwai Arglwydd Brougham, wrth gyflwyno deiseb i Dŷ yr Arglwyddi, yn 1835, dros ddiddymiad trethi ar wybodaeth, fod lliosogrwydd newyddiaduron mewn gwlad yn ddiogelwch mawr i gymdeithas; oblegid wrth fod y wasg yn nwylaw y lliaws, fod y perygl i gamarwain yn llai. Cyrhaedda teithiwr blinedig at borth dinas fawr a phoblogaidd; y mae arno eisieu gwesttŷ cysurus, ar delerau rhesymol, i lettŷa ynddo; ar ochr y ffordd y mae yn canfod dau neu dri all roddi iddo y wybodaeth angenrheidiol; y perygl cyntaf a gyfyd yn ei feddwl ydyw na ŵyr yr un o honynt pa westtŷ yw y goreu, a'r ail ydyw y gall eu bod wedi eu cyflogi gan ryw le neillduol i arwain pawb yno, er mwyn elw personol. Symuda ychydig ymlaen i'r dref, ac y mae yn gweled nifer lled dda o bobl yn ymgynnulledig gyda'u gilydd, ac mae yn credu os gofyna y cwestiwn yn eu gwydd hwynt oll y daw o hyd i'r gwesttŷ y mae mewn ymchwil am dano. Yr un fath y mae gyda newyddiaduron. Os na bydd ond un neu ddau ar y maes, mae yn syndod os na chamarweiniant eu darllenwyr, naill ai mewn anwybod, neu o fwriad. Eiddo ei arglwyddiaeth yw y gymhariaeth, ac efe hefyd sydd gyfrifol am y cymhwysiad o honi yma. Nid oes prinder newyddiaduron y dyddiau hyn, ac nid oes berygl y disgyna i ddwylaw yr ychydig; ond y mae eu cynnydd yn peri fod perygl yn codi o gyfeiriad arall. Sefydlir y newyddiadur fel anturiaeth fasnachol yn unig; cyflogir un i ysgrifenu ei erthyglau; y mae yn astudio gwerthiant y papyr yn fwy na lles ei ddarllenwyr, a chan fod ei fywoliaeth yn dibynu ar lwyddiant yr anturiaeth, cyfeiria holl ymadferthoedd ei feddwl at goginio yr ymborth mwyaf blasus ar draul diystyru yr hyn sydd foesol iach a maethlawn. Y mae hyn yn wirionedd am gorff mawr papyrau Lloegr y dyddiau hyn; a'r hyn ydym yn amcanu ddangos ydyw, gyda lliosogiad yr un cyfryngau yn Nghymru, ein bod ninnau yn agored i'r un peryglon. Tuag at iddynt gyrhaedd safle briodol yn ein llenyddiaeth, dylent fod yn arweinyddion diogel i iawn feddwl a barn am yr egwyddorion hyny a dueddant i lesoli cymdeithas. Y mae hyny ar unwaith yn tybied fod yn rhaid cael dynion cydwybodol —dynion yn teimlo gwerth a hawliau gwirionedd, wrth lyw y wasg—

yn berchenogion yn gystal âg yn olygwyr. Nid anfynych y defnyddir y golygydd fel *tool* hwylus i'r perchenog wneyd arian o hono; tra y dylai un yn y cyfryw sefyllfa feddu barn ac ewyllys o'r eiddo ei hun—hollol annibynol ar y perchenog. Ni ddylai y naill ymyraeth â gwaith y llall. Os na chedwir y dyledswyddau ar wahân, y mae y golygydd un ai yn ymollwng o ran ei ysbryd i beidio gwneyd yr hyn a ddylai wneyd, neu yn ymlygru i wneyd yr hyn y mae yn gwybod na ddylai. Raid i ni ddim darllen mwy na dau rifyn o ambell bapyr Cymraeg na wyddom ni pwy ydyw cyfeillion a phwy ydyw caseion y perchenog. Ys dywedai y cyfreithiwr enwog Blackstone, "Y mae y wasg yn offeryn nerthol er da yn nwylaw y dyn da, ond y mae yn felldith cymdeithas yn meddiant y drygionus." Nid ydym heb ofni fod tôn grefyddol rhai o'n papyrau i'w briodoli yn benaf i'r ffaith fod corff eu darllenwyr yn grefyddol. Pe buasai fel arall nid ydym yn sicr na chawsem wybod a theimlo oddiwrth syniadau fuasent yn ddyeithr iawn i lygaid y Cymro unwaith. Nid ydym yn gwybod am un papyr *gwrth*-grefyddol wedi ei sefydlu erioed yn Nghymru, am y rheswm, mae yn debyg, fod cymeriad crefyddol ein cydwladwyr yn amddiffyn iddynt rhag ymosodiadau o'r natur hwnw. Gwyddom am un papyr, yn ystod yr etholiad cyffredinol diweddaf, fethodd a chyrhaedd calon yr etholwyr, er ei fod i'w gael am ddim ar eu byrddau bob bore, am y rheswm ei fod wedi dewis llwybr i ddilorni Rhyddfrydwyr crefyddol, yr hyn a wnai hefyd mewn iaith isel a chwerw. Wedi dysgu trwy brofiad nad oedd hyny yn ateb y dyben mewn golwg, dywedir fod yr un bobl yn amcanu gweinyddu addysg boliticaidd i ni drwy addfwynder, drwy barchu yn ymddangosiadol ein cyfarfodydd a'n gweinidogion—cyhoeddi adroddiadau maith a manwl o'n cynnadleddau, &c. Amser a ddengys dros ba hyd ac i ba raddau y llwydda y ddyfais newydd hon.

Y mae iaith anghoeth ac arddull gwerylgar gohebwyr newyddiaduron Cymreig yn annheilwng o urddas llenyddol ein cenedl. Beth ydyw yr achos o hyny? Wel, yn un peth, mae y ffaith mai y dosbarth gweithiol sydd yn derbyn y papyrau, ac yn cyfansoddi corff ein gohebwyr, yn rhoddi rhyw gyfrif am dano. Pell ydym oddiwrth awgrymu na choleddu y syniad fod llai o'r boneddwr yn y dyn sydd yn ennill ei fywoliaeth drwy lafur corfforol nag sydd mewn eraill uwch eu sefyllfa a'u galwedigaeth nag ef; ond meddwl yr ydym fod y dosbarth anrhydeddus yna, heb nemawr fanteision dysgeidiaeth, yn siarad â'u gilydd yn y gloddfa ac yn y maes mewn iaith werinaidd, arw, a didderbynwyneb. Chware teg i'r gweithiwr hefyd, geilw ef "raw yn rhaw," a dyn celwyddog yn ddyn celwyddog. Ond y mae iddo drosglwyddo "iaith bol clawdd" i golofnau newyddiadur, nas gŵyr gan bwy nac ymha le y caiff ei ddarllen, yn amlygu diffyg,—pa un ai diffyg chwaeth, ai diffyg synwyr, nid hawdd penderfynu bob amser,—fe allai y ddau. Llenyddiaeth y dosbarth gweithiol ydyw llenyddiaeth Cymru i raddau mawr, ac fe ddeil i'w chymharu âg eiddo un genedl arall dan haul. Rhoddwch y cloddiwr Cymreig i gystadlu â'r cloddiwr Seisonig mewn ysgrifenu llythyr—pob un yn ei iaith ei hun—ac ni byddai petrusder ynom na roddid dedfryd yn mhlaid y Cymro. Credu yr ydym pe gweithwyr fyddai gohebwyr papyrau Seisonig, y byddai yr iaith yn llawer garwach a mwy anghoeth na dim a ysgrifenir gan weithwyr

Cymru yn eu papyrau hwy. Ond yr ydym wedi sylwi nad yw y dull yma o ysgrifenu yn gyfyngedig i'r dosbarth y cyfeiriwyd ato, ond fod ein gweinidogion, gwŷr y colegau, ac urddasolion Eglwysig Cymru, yn euog o'r un peth pan y cyfeiriant lythyr Cymraeg at y golygydd. Gofala yr un rhai am ysgrifenu yr un pethau i bapyrau Seisonig mewn iaith felfedaidd, ac arddull llawer mwy llednais. Er adeg yr hen gyfnodolion, yr ydym wedi yfed i'n natur gyda llaeth ein mamau megys, cyn y gall llythyr fod yn ddoniol, y rhaid iddo fod yn chwerw; cyn y teimla y darllenydd fod gwrthddrych yr ymosodiad "yn ei chael hi," ys dywed rhai, y dylai yr ysgrifenydd fod wedi chwilota y geiriadur am y geiriau tebycaf i ddryllio yr esgyrn. Y mae arnom ofn cyfeirio ysgrifenwyr Cymreig am gynllun o iaith i'w defnyddio yn eu gohebiaethau at ddadleuon Seneddol Prydain y dyddiau hyn, am reswm adnabyddus iawn. Ond y *mae* yno, er holl faldordd yr aelodau Gwyddelig, ryw ddeddf anysgrifenedig i ddefnyddio geiriau heb fod yr un mor dramgwyddus i'r glust â geiriau eraill. Ni ddywedir yno fod dyn yn dyweyd celwydd, ond ei fod yn dywedyd yr hyn nad oedd sail ddigonol iddo. Mae y cyntaf yn anseneddol, tra y gadewir i'r llall basio heibio yn ddisylw, er ei fod yn golygu yr un peth. Nid yw bellach yn un gyfrinach ei fod o fewn cylch dyledswyddau "Mr. Gol." i gynnal i fyny ddadl bob wythnos, a hono i fod yn gyfuniad o'r "cyffrous a'r dyddorol;" ond, ysywaeth, ceir fod y ddadl yn fynych yn troi ar ryw begwn personol—côr y fan a'r fan wedi cael cam dybryd yn Eisteddfod fawr Cornybwch—gŵr ieuanc wedi ei ddiarddel o eglwys Armagedon gan un can waethed ag yntau—gwraig y blaenor wedi codi ei chloch yn uwch na chlychau eraill y pentref, &c. Ni oddefir i gyhuddiadau o'r natur yna ddianc rhag llygaid y gwrthddrychau yr ymosodir arnynt, —yna dadl am wythnosau bwygilydd rhwng dau o lâs-lanciau nad oes neb y tu allan i'r plwyf y ganwyd hwy yn gwybod dim am eu bodolaeth. Dwrnellant a pharddnant eu gilydd nes byddant wedi blino; a'r un gaffo y llythyr diweddaf, neu y gair olaf, yn ei feddwl ei hun, fydd wedi cael y fuddugoliaeth! Cofus genym ddarllen am ddau lenor adnabyddus yn ymddadleu â'u gilydd ar fater hynod o ddibwys. Dechreuai y naill drwy ddirmygu y llall, ac yn ol y ffasiwn Gymreig, dywedai ei wrthwynebydd ei fod yn ymladd â gwibedyn; taflwyd y sen yn ol mai efe (yr ymosodwr) oedd y gwibedyn. O'r diwedd, yr ydym yn cael y golygydd yn dyfod ymlaen i roddi terfyn ar y ddadl, ac wrth gwt llythyr sylwai: "Mae y naill a'r llall o'n gohebwyr wedi myned i ymladd â gwibed, a rhaid fod ein darllenwyr bellach wedi diflasu edrych ar wibed yn ymladd â'u gilydd. O'n rhan ein hunain, os rhaid ymladd, mwy dewisol genym ni fyddai ymladd â chawr nag â gwibedyn, canys o golli byddai ein cywilydd yn llai, ac o ennill byddai ein hanrhydedd yn fwy. Terfyned y ddadl yma." Fel y dyn hwnw ddywedai wrth ei fachgen trystiog, "Os rhaid i ti gael gwaeddi, gwaedda yn ddystaw, fachgen,"—dywedwn ninnau wrth ohebwyr newyddiaduron Cymru, Os rhaid i chwi gael ffraeo, fechgyn, ffraewch yn foneddigaidd.

Nis gallwn lai na chyfaddef mai un o feïau mwyaf amlwg y wasg Gymreig ydyw gormodiaith, a gorliwiad. Ar ddalenau newyddiadur adgynnyrchir meddyliau, a dysgwylir cywirdeb a ffyddlondeb yn yr

adgynnyrchiad; gosodir i lawr megys ar lèn o flaen y llygaid ddarlun o fywyd ac egwyddorion mewn gweithrediad. *Photograph*, mewn gwirionedd, o ddygwyddiadau a helyntion y dydd ydyw; ac y mae cywirdeb y darlun i'w benderfynu gan ei naturioldeb,—pa mor debyg ydyw yr hyn a ddarllenwn i'r hyn a gymerodd le. Y mae gorliwio unrhyw amgylchiad yn difwyno y darlun, megys ag y mae gormod o baent ar y *canvas* yn dyfetha unrhyw bortread personol o ddyn. Dethola yr adroddwr cywir y geiriau goreu, yn y ffordd oreu, i osod y peth allan fel y mae. Y mae defnyddio geiriau mawrion a chwyddedig am ddygwyddiadau dibwys, fel dyn yn ymaflyd mewn gordd i ladd chwanen. Gesyd mân baragraffwyr Cymru bob "meipen" ddeuant ar ei thraws fel "un enfawr"—pob mynydd a bryn a groesant yn "fawnoglaidd ac ysgythrogedig"—pob seren a oleua yn y ffurfafen fel yn "llamsachu yn ymwagle bodolaeth"—pob pwll hwyaid yr êl heibio iddo ar y lawnt fel "rhyw fôr trochionllyd a gorddiwaelodadwy"—a phob crogbren a godir i ddybenu camwedd llofruddion ein gwlad fel wedi ei chodi yn "uwch o bymtheg cufydd na chrogbren Haman." Gwell genym ni yr amrwd na'r gorfrwd—yr *under-done* na'r *over-done*. Mae yn iachach *am* ei fod yn fwy naturiol.

Gwastraff ar ofod y papyrau ac amser y darllenwyr ydyw yr adroddiadau diddiwedd o gyfarfodydd te ac o fân gyfarfodydd cystadleuol. Pa bwys i'r cyffredin o ddarllenwyr ein newyddiaduron fod cwrdd tê wedi ei gynnal yn ysgoldŷ Llanbidinodyn, a bod Miss Gwendolen Puw neu Mrs. Modlen Jones yn gwasanaethu wrth y byrddau mor ddeheuig? Gwelsom enwau pedair ar ddeg o rianod wedi ymgysegru i'r gwasanaeth hwn yn ddiweddar mewn un cyfarfod, ac enwau 27 o bobl ieuainc wedi ennill gwobrwyon am ganu, adrodd, darllen, a barddoni, ac nid oedd yr uchaf—testun y gadair, bondigrybwyll!—ond *deg a chwech!* Yn aml iawn anfonir yr adroddiadau hyn gan hoglanciau ffugenwol, ac, yn cael eu hattegu gan y dosbarthwr lleol, erfyniant ar i'r golygydd eu dodi i mewn yn ddiffael "yn eich rhifyn nesaf," onidê —wel, mae yn hawdd deall beth sydd i ddilyn y gommeddiad. Er mwyn symud rhan o'r baich oddiar ysgwyddau ein golygwyr, buom ni yn meddwl awgrymu y priodoldeb o gyhoeddi papyr i gynnwys "Newyddion *An*newyddiadurol Cymru." Byddai gobaith felly i'r sawl sydd yn dyheu am weled ei enw mewn *print* gael ei foddloni, heb ddolurio llygaid y darllenydd deallus, a chaffai yr argraffydd, o bosibl, ryw elw oddiwrtho. Goddefer i ni sylwi, mewn cysylltiad â chynnwys ein newyddiaduron, ein bod wedi canfod tuedd yn ddiweddar i neillduo mwy o'u gofod nag arfer i gyfarfod â chwaeth lygredig eu darllenwyr. Cyfeirio yr ydym at adroddiadau manwl a chyflawn o achosion mewn llysoedd cyfreithiol, megys llofruddiaethau, tor-priodasau, godineb, a cheisiadau i dadogi plant anghyfreithlawn, &c. Dylid cofio fod y papyr Cymraeg yn bapyr y teulu—yr unig bapyr sydd yn cael ei dderbyn a'i ddarllen ar yr aelwyd; a'i fod yn cael ei ddarllen yn fanwl iawn gan rai o bob rhyw ac oedran, ac y gall y rhai hyny fod mewn perygl o dderbyn argraffiadau niweidiol oddiwrth yr hyn a ddarllenant. Gyda golwg ar "adolygiad y wasg," nis gellir yn rhesymol ddysgwyl cywirdeb a manylrwydd llenyddol yn y rhan fwyaf o newyddiaduron y Dywysogaeth. Y mae hyny i'w briodoli, nid i ddiffyg egwyddor na

gallu ar ran yr adolygwyr, ond i ddiffyg amser. Y mae gan y golygydd fwy na'i gyfran o waith priodol yr wythnos i'w gyflawni—ni oddefai amgychiadau iddi fod fel arall. Ar y naill law y mae yr awdwr yn curo wrth ei ddrws am sylw diatreg, ac ar y llaw arall mae y cysodydd fel y gele yn gwaeddi "Moes." Er mwyn cyfarfod â dymuniad y cyntaf, ac i gyfarfod i ryw fesur âg angen yr olaf, cymer gipdrem frysiog dros y llyfrau sydd ar ei fwrdd, heb amser i ail edrych dros yr hyn a ysgrifena, ac y mae yr adolygiad newydd-anedig yn llaw yr argraffydd. Neu weithiau, i arbed amser ac i gynnorthwyo y golygydd, ceir gan gyfaill i ymgymeryd â'r gorchwyl, yr hwn a edrydd ei farn am y llyfr yn ol ei adnabyddiaeth o'r awdwr, ac yn ol graddau y cyfeillgarwch a ffyna cydrhyngddynt. Pell ydym oddiwrth feddwl fod ein holl newyddiaduron yn euog o'r amryfusedd hwn, ond meiddiwn ddyweyd ei fod yn engraifft deg o amryw o honynt. Prawf o hyny a welsom yn ddiweddar: adolygydd yn dyfynu yn frysiog allan o lyfr, ac yn *cam*ddyfynu, a chan seilio ei adolygiad ar yr hyn oedd *gam* yn y dyfyniad, ymosodai yn ddiarbed ar yr hwn ni wnaethai gam. Nis gallai yr adolygydd yma lechu yn nghysgod yr argraffydd, yr hwn a arweinir i'r anialwch mor fynych i ddwyn ar ei ben bechodau rhai eraill. Gyda llaw, y mae yr "impyn du," sydd yn garenydd mor agos i wŷr y wasg, yn ddigon o bechadur ei hun heb ei orfodi i ddwyn yn ei berson bechodau rhai eraill. Ychydig amser yn ol gwelsom adolygiad ar gylchgrawn newydd a fwriadwyd i wasanaethu y genedl. Cyfeiriai ato fel "*greal* cenedlaethol," ond mynodd y cysodydd iddo fod yn "*gruel* cenedlaethol!" Yn un o rifynau cyntaf un o'n newyddiaduron mwyaf poblogaidd, ymddangosodd yn rhestr y "Genedigaethau" yr hysbysiad a ganlyn: "Ar y 15fed cyfisol, yn M——, priod Mr. ——, ar *farch*," yn lle "ar ferch!"—*a* yn lle *e*. Gyda'r amcan goreu, ac yn yr ysbryd mwyaf caredig, y dymunem awgrymu,—nid diogel ymddibynu gormod ar farn ein hadolygwyr newyddiadurol.

Yn ngwyneb lliosogrwydd newyddiaduron yn Nghymru, a chynnydd eu dylanwad ar y genedl, y mae gair mewn ffordd o annogaeth i ddarllenwyr ieuainc fod ar eu gwyliadwriaeth yn briodol. Tra yn cymhell pawb i ddarllen newyddiaduron—bob dydd, os bydd amser ac amgylchiadau yn caniatâu, ac felly i ddeall "arwyddion yr amserau," dymunem grybwyll ei fod yn bosibl i ŵr ieuanc, a hen hefyd o ran hyny, roddi gormod o'i amser at y gwaith hwn, fel at ryw orchwyl cyfreithlawn arall. Y mae darllen newyddiadur ar draul esgeuluso darllen y Gyfrol Ysbrydoledig, a llyfrau da a sylweddol eraill, yn rhwym o wanychu y meddwl, ac y mae y sawl a wnêl hyny yn gwneyd cam â'i enaid ei hun. Gwir ei fod yn annhraethol well gorchwyl na darllen ffugchwedlau, ac yn enwedig y cyfryw chwedlau a fwrir allan o'r wasg wrth y miliynau y dyddiau hyn; oblegid os am *plot* yr ydym, ni a'i cawn yn *fyw*, nid mewn dychymyg, yn y newyddiadur; ac os am *romance* yr ydym, wele i ni "*romance in real life*" yn ngholofnau y papyr newydd. Ond, wedi'r cwbl, y mae'r bachgen a gyfynga ei hunan ato fel unig gyfrwng gwybodaeth yn crebychu ei feddwl, a thrwy hyny yn llesteirio ei gynnydd mewn gwybodaeth, a'i ddefnyddioldeb fel aelod o gymdeithas yn cael ei anmharu. Diau mai un rheswm paham y mae cynifer yn cael blas ar newyddiadur ydyw nad yw yn gofyn

llawer o allu ymenyddol i'w iawn ddeall a'i werthfawrogi; adroddiadau byrion a nodiadau arwynebol—y *multum in parvo*—dyna sydd boblogaidd, ac a werthfawrogir gan y miloedd. Nid yr erthyglau goreu a mwyaf diwylliedig sydd dderbyniol gan y lliaws, am nad yw y lliaws yn caru meddwl. Gadewir hyny i eraill. Y dyn ieuanc sydd yn arfer byw yn unig ar yr ymborth a arlwyir iddo ar len ei newyddiadur, gallwn feiddio dyweyd wrtho, "Ni ragori di!" Gan hyny, gofaler am reoli a llywodraethu yr arfer hon, i fod yn wasanaethgar i grefydd a moesoldeb—i lwyddiant a hapusrwydd personol a chymdeithasol ein cydwladwyr, gan gadw mewn golwg yn wastadol nad yw holl gylch ein darllen a'n hefrydiau ond moddion yn llaw Rhagluniaeth i gyrhaedd amcan uwch. "A GAIR DUW YN UCHAF!"

JOHN DAVIES (*Gwyneddon*).

---

*** Wele yn canlyn restr o bapyrau Cymru,—y lle y cyhoeddir hwy, eu pris, golygiadau gwleidyddol (R., Rhyddfrydig, C., Ceidwadol, N., *Neutral*, heb fod y naill na'r llall), a'r flwyddyn y sefydlwyd hwy.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Aberdâr | Aberdare Times | 1c. | R. | 1862. |
| Abergele | Abergele and Pensarn Visitor | 1c. | N. | 1856. |
| Abermaw | Barmouth Advertiser | 1c. | N. | 1877. |
| Aberystwyth | Aberystwyth Observer | 1½c. | C. | 1858. |
| Aberystwyth | Cambrian News | 1½c. | R. | 1860. |
| Abertawe | Cambrian | 3c. | R. | 1804. |
| Abertawe | Daily Cambrian | ½c. | R. | 1882. |
| Abertawe | Swansea Boy | 1c. | N. | 1876. |
| Abertawe | Swansea Shipping Register | | N. | 1877. |
| Abertawe | Swansea Journal | 1c. | R. | 1840. |
| Abertawe | Swansea and Glamorgan Herald | | C. | 1847. |
| Aberteifi | Cardigan Advertiser | 1c. | C. | 1866. |
| Aberteifi | Cardigan Herald | 1c. | R. | 1844. |
| Aberteifi | Cardigan Observer | 1c. | R. | 1876. |
| Bala | Cambrian News | 1½c. | C. | 1860. |
| Bangor | North Wales Chronicle | 2c. | C. | 1807. |
| Bangor | Llais y Wlad | 1c. | C. | 1874. |
| Bangor | Menai Straits Visitor | 1c. | R. | 1877. |
| Bangor | Bangor Observer | 1c. | R. | 1883. |
| Bangor | Y Celt | 1c. | R. | 1880. |
| Beaumaris | Beaumaris Visitor | 1c. | N. | 1877. |
| Brycheiniog | Brecon Times | 2c. | N. | 1866. |
| Bridgend | Bridgend Chronicle | 1c. | N. | 1879. |
| Bridgend | Central Glamorgan Gazette | 1c. | N. | 1866. |
| Briton Ferry | Neath Gazette | 1c. | | 1866. |
| Caerdydd | Cardiff Free Press | ½c. | N. | 1876. |
| Caerdydd | Cardiff Times | 2c. | R. | 1857. |
| Caerdydd | Cardiff Shipping Gazette | 3c. | N. | 1859. |
| Caerdydd | South Wales Daily News | 1c. | R. | 1872. |
| Caerdydd | South Wales Echo | ½c. | N. | 1880. |
| Caerdydd | South Wales Times | 1c. | N. | 1882. |
| Caerdydd | Weekly Mail | 2c. | C. | 1870. |
| Caerdydd | Western Mail | 1c. | C. | 1869. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Caerfyrddin | Yr Amaethwr | 2c. | N. | 1882. |
| Caerfyrddin | Carmarthen Journal | 2c. | C. | 1810. |
| Caerfyrddin | Carmarthen Weekly Reporter | 1c. | R. | 1860. |
| Caerfyrddin | Seren Cymru | 1c. | R. | 1857. |
| Caerfyrddin | Welshman | 3½c. | R. | 1829. |
| Caernarfon | Carnarvon and Denbigh Herald | 2c. | R. | 1832. |
| Caernarfon | Herald Cymraeg | 1c. | R. | 1854. |
| Caernarfon | Genedl Gymreig | 1c. | R. | 1877. |
| Caernarfon | North Wales Express | 1c. | R. | 1877. |
| Caernarfon | Gwalia | 1c. | C. | 1881. |
| Caernarfon | Yr Amseroedd | 1c. | R. | 1883. |
| Castellnedd | Neath Gazette | 1c. | N. | 1860. |
| Dinbych | Baner ac Amserau Cymru | 2c. | R. | 1857. |
| Dinbych | Denbigh Free Press | 1c. | R. | 1881. |
| Dolgellau | Y Dydd | 1c. | R. | 1868. |
| Dolgellau | Y Goleuad | 2c. | R. | 1869. |
| Drefnewydd | Montgomeryshire Express | 1c. | R. | 1860. |
| Drefnewydd | Montgomeryshire Mercury | 1c. | R. | 1849. |
| Haverfordwest | Pembrokeshire Herald | 2c. | C. | 1844. |
| Haverfordwest | Haverfordwest Telegraph | 1c. | R. | 1854. |
| Llandudno | Llandudno Directory | 2c. | R. | 1854. |
| Llandudno | Llandudno Register | 2c. | R. | 1856. |
| Llanelli | Llanelly Guardian | 1c. | R. | 1863. |
| Llanelli | South Wales Press | 2c. | R. | 1853. |
| Llangollen | Llangollen Advertiser | 2c. | N. | 1860. |
| Llanidloes | Mid-Wales Telegraph | 1c. | C. | 1859. |
| Merthyr | Merthyr Express | 1c. | R. | 1862. |
| Merthyr | Y Tyst a'r Dydd | 1c. | R. | 1866. |
| Penfro | Pembroke Record | 1c. | C. | 1882. |
| Penfro | Free Press | 1c. | N. | 1879. |
| Penfro | Pembroke Dock Gazette | 1c. | R. | 1861. |
| Pontypridd | Pontypridd Chronicle | 1c. | R. | 1882. |
| Rhyl | Rhyl Advertiser | 1c. | R. | 1877. |
| Rhyl | Rhyl Guardian | 1c. | C. | 1875. |
| Rhyl | Rhyl Journal | 1c. | C. | 1866. |
| Rhyl | Rhyl Record | 2c. | R. | 1855. |
| Rhyl | Llan a'r Dywysogaeth | 1c. | C. | 1882. |
| Rhyl | Y Gwyliedydd | 1c. | R. | 1877. |
| Roath | Roath Chronicle | 1c. | N. | 1862. |
| Tenby | Tenby Observer | 1c. | N. | 1853. |
| Treffynnon | Flintshire Observer | 1c. | C. | 1855. |
| Treffynnon | County Herald | 1c. | R. | 1883. |
| Trallwm | Montgomery Post | 2c. | C. | 1880. |
| Wrexham | North Wales Guardian | 2c. | C. | 1869. |
| Wrexham | Wrexham Advertiser | 2c. | R. | 1848. |

# SAMUEL PRIDEAUX TREGELLES.

## II.

YN yr erthygl hon, fel yn yr un o'r blaen, yr ydym yn cyfyngu ein sylw at waith Dr. Tregelles ynglŷn â'r Testament Newydd. Bu ei lafur ef yn helaeth a gwerthfawr mewn meusydd eraill; eto gwaith ei fywyd, y dasg fawr yr ymboenodd ynddi am dros ddeng mlynedd ar hugain, oedd chwilio yn wyneb pob tystiolaeth deg am wir eiriau yr ysgrifenwyr sanctaidd yn y rhan hon o'r Bibl. Gyrwyd ef, fel y tystia ei hun, at y gwaith gan deimlad o rwymedigaeth i Dduw a'i air. Gan nad oedd eraill yn ymaflyd yn y gorchwyl o nithio yr anmhuredd allan o'r Testament Newydd arferedig, nis gallai nacâu galwad cariad a chydwybod; ac fel un yr ymddiriedasid iddo am y gorchwyl, dan bwys "angenrhaid," yn ofn Duw, gyda syched dwfn am y gwirionedd, ymdaflodd i hynyma yn ddiofn, diflino, amyneddgar, a gobeithiol. "Mae ei wasanaeth i wybodaeth fanol o'r Testament Newydd," medd Dr. Hort, "eisoes yn cael ei adnabod yn well ac yn fwy cyffredinol nag yr oedd ychydig flynyddau yn ol, ac nis gall na chaiff mewn amser bob dyledus gydnabyddiaeth. Mae priodoleddau moesol ei waith fel golygydd, uniondeb dyben, llafur diarbed a dyfalbarhâd mewn ffyddlawn ymboeni, nad ymollyngai er pob achlysur i ddigaloni, er gwendid corfforol neu unrhyw faich arall, yn gyfryw ag y gellir ei adael gyda'r un hyder i gael ei gydnabod gan deimladau cyffelyb i'r eiddo ef."*

Mae y gred fod rhai rhanau o'r Testament Newydd *arferedig* o darddiad dynol yn unig, yn hollol gyson â'r gred, yr hon hefyd a ddaliai Tregelles ei hun yn hynod o gadarn, fod yr holl Ysgrythyr "wedi ei rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw." Yr ydym yn anwylo ac yn gwerthfawrogi y Bibl oblegid na lefarodd llyfr erioed fel y llyfr hwn. Nid dibwys, gan hyny, yw ymdrechiadau rhai fel Tregelles i geisio ei lanhâu oddiwrth bob peth a ddygwyd i mewn iddo trwy ddiofalwch neu, weithiau, trwy dduwiolfrydedd amryfus, dynion, yn nhreigliad mil a hanner o flynyddoedd. Mae Rhagluniaeth wedi cadw y tystion yn fyw; mae sicrwydd am gynnwys eu tystiolaeth yn cynnyddu; nid oes yr un o honynt, mae'n wir, heb eu diffygion; nis gellir dyweyd am gymaint ag un lawysgrif ar ei phen ei hun, "Dyma wir air Duw;" eto, drwy eu hamledd a gwedd annibynol eu tystiolaeth, mae hyd yn nod eu diffygion weithiau yn cyfranu at y sicrwydd a deimlir yn y diwedd fod cymhariaeth ëang, fanol, wyliadwrus, yn dyfod at eiriau yr ysgrifenwyr sanctaidd.

* Y Rhagdraethawd i Destament Tregelles, xxxii.

Dylem deimlo parch hyd yn nôd i ymadroddion rai a wrthodir, gan eu bod yn hen iawn. Dywedir fod rhai gwahaniaethau, yn enwedig yn y dosbarth hwnw o honynt a elwir y "Gorllewinol," càn hyned nes awgrymu (yn neillduol yn mhennodau olaf Efengyl Luc) fod dau *edition* gwahanol o'r Efengyl hono wedi dyfod o law yr efengylydd ei hunan.* Dyddordeb neillduol, yn ddiau, a raid deimlo at lawer o'r rhai hyn; eto mae dal yn ysbryd traddodiad atynt, yn ngeiriau Tregelles, yr un peth â charu rhwd yn hytrach na gloewder cleddyf yr Ysbryd.

Cydnabyddir gan y gŵr yr ydym yn son am dano fod gwaith yr Esboniwr yn uwch ei fath na'i waith ef; fod egluro gair yr Ysgrythyr Lân i eraill yn gofyn dysgyblaeth fwy dyrchafedig na'r eiddo ef; eto delir yn gryf ganddo yr angenrhaid am ddiwylliant, profiad, a dysgyblaeth oleuedig at osod yn gyntaf y sail yn mhenderfyniad y cwestiwn pa beth a ysgrifenwyd, rhag bod yr esboniwr yn ymdrafferthu i egluro gair rhywun arall heblaw yr Apostol, dyweder, yn y llythyr at y Rhufeiniaid. Mae yr un peth mewn rhan yn eisieu yn y rhai sydd yn *darllen* esboniadau. Nis gallwn ddirnad casgliadau awdwr—eu *dirnad,* dywedwn eilwaith—heb son am ganfod y rheswm am danynt, oni allwn i ryw fesur ei ddilyn yn y llwybr ar hyd pa un y daeth iddynt. Hawdd yw i un ddyweyd ei fod yn dewis rhyw ddarlleniad neillduol, gan ychwanegu mai hwn yw darlleniad ℵ neu A, tra y gall fod gan Feirniadaeth reswm digonol dros ammeu y rhai hyn yn y fan hono. Dylem wybod peth am yr egwyddorion ar ba rai y sylfeinir casgliadau yn y peth pwysig hwn er gweled gwerth y casgliadau eu hunain. Cyffelyba Tregelles ei hun i un yn gweithio ar sylfaen y deml, gan adael i eraill godi ei "thyrau adail." Ac eto mae yn ffaith fod esbonwyr goreu ein hoes—ac ni bu oes erioed ar Brydain o fath hon o ran amlder a rhagoriaeth esboniadau—wedi talu sylw mawr i Feirniadaeth y testun Groeg. Nid oes yr un mwy hyddysg yn yr hen gyfieithiadau Aiphtaidd a Dwyreiniol nag ydyw Dr. Lightfoot, a dywed yr Ellmynwr Gebhart nad oes ar gael ymdriniaeth ragorach nag a geir yn niwedd ei esboniadau ef; eto onid efe yw tywysog yr esbonwyr Prydeinig? Mae pawb sydd wedi darllen Meyer yn teimlo mor werthfawr yw ei eglurhadaeth; eto talodd ef lawer o sylw i'r gwaith o chwilio am y gwir destun. Mae yr un peth yn wir am Wieseler; a gŵyr pawb am safle uchel dau esboniad diweddar un o olygwyr y Testament Groeg, Dr. Westcott. Diau fod manyldeb amyneddgar, o'i arfer yn iawn, yn dwyn i'r gweithwyr ryw oleuni a phrydferthwch y gallasent fod hebddo heb hyny. Newidir holl feddwl neu holl ffurf neillduol paragraph yn fynych gan un gair bychan; ac y mae y rhai a ymboenasant i roddi sicrwydd ar air o'r fath yn ddiau yn haeddu parch a diolchgarwch mawr. Y rhai sydd yn darllen yr Ysgrythyrau yn fanwl sydd yn cael eu bedyddio â'r ysbryd priodol i'w deall a'u hegluro; a rhan o'r manyldeb hwnw yw cael gradd o gydnabyddiaeth â'r seiliau ar ba rai yr adeiledir y testun a geir yn y fath esboniadau â'r eiddo Meyer a Lightfoot. Sylfeinir hwnw ar y cyfan ar yr un egwyddorion â'r eiddo Tregelles, a gall yr erthygl hon wasanaethu peth at ddangos y rhai hyny allan.

* Scrivener, p. 482. Hort, p. 175.

Cymerodd Tregelles ei safle yn y "Prospectus" a gyhoeddwyd ganddo yn 1844, ac yn ei holl ymchwiliadau dilynol ni chafodd achos ac ni theimlodd alwad i symud oddiwrth brif linellau yr egwyddorion a gofleidiasai y pryd hyny. Mae eraill wedi ei ddilyn a chario ei waith ymlaen, yn ol barn rhai, i fwy o berffeithrwydd; eto, ar y cyfan, yn ôl ei draed ef y dilynasant.

Am gorff mawr geiriau y Testament Newydd nid oes gwahaniaeth barn o gwbl; wrth gymeryd i ystyriaeth bob peth bychan yn ogystal a mawr,—sillebiad geiriau, amseriad berfau, cyfansoddiad brawddegau, a chyflead ymadroddion, yn y rhai y ceir lliaws o bethau nas gall cyfieithiad ddangos y gwahaniaeth, mae maes beirniadaeth yn cynnwys tua'r wythfed ran o'r holl Destament Newydd. O osod o'r neilldu wahaniaethau dibwys sillebiaeth, cyfyngir hwn i driugeinfed; ac os tynir allan ymhellach y bychain bethau o wahaniaeth sydd yn gadael yr ystyr yr un, daw y rhan wir bwysig o'r gwaith i gyrhaedd yn unig tua'r filfed ran o'r cyfan o ymadroddion y Testament Newydd.* Mae y cyfrif hwn o eiddo Dr. Hort yn tybied fod yr ymchwiliad yn cael ei wneyd yn ol yr egwyddorion a osodir allan ganddo ef a'i gydlafurwr. Nid yw Tregelles wedi ysgrifenu y fath berffeithwaith â'r ail gyfrol o'u gwaith hwy; eto dan arweiniad ei brif egwyddor, ynghyd a phrofiad ëang, dwfn, dysgedig, nas gallai, hwyrach mwy na llawer crefftwr medrus, ei osod mewn geiriau, mae yn dyfod gyda holl olud sicrwydd deall bron at yr un ffurf o eiriau ag sydd ganddynt hwy. Mae y cydgordiad hwn yn ffaith bwysig ac awgrymiadol iawn; gan fod y gwŷr enwog hyn yn gweithio yn hollol annibynol, ac eto trwy ddilyn yr un egwyddorion yn tynu yr un casgliadau oddiwrth lu o ffeithiau, awgrymir fod yr egwyddorion hyny yn rhai priodol.

Wrth edrych ar waith a llafur beirniadol ynglŷn â'r Testament Newydd, yr ydym yn gweled i fywyd ac egni yn y rhan hon adael ein gwlad ni am y Cyfandir wedi marwolaeth Mill (1707) a Bentley (1742); yno yn benaf os nad yn unig, wed'yn, y caed ymroddiad llwyddianus, a mawr a fu ei lwydd. Mynych y coffeir hyn gyda thristwch gan Dr. Tregelles; ond pe buasai yn fyw yn awr diau y teimlasai fod y gogoniant, a hyny i raddau pell oblegid ei ymdrechion ef ei hun, wedi dychwelyd i'r wlad hon yn ol. I'r Cyfandir y perthyn Wetstein, Bengel, Semler, Griesbach, Hug, Eichhorn, Matthæi, Scholz, Lachmann, a Tischendorf (1751—1875). O ran barn bwyllog, graff, gosodir Tregelles gan rai o flaen Tischendorf ei hun; ond yn ddiau wedi ei farwolaeth ef mae y rhagoriaeth wedi dyfod yn ol yma. Yn y gangen hon, yn ei gwedd gyffredinol, er nad mewn rhyw ranau penodol, mae Prydain o flaen Germany. Ni cheir yn eu llyfrau goreu hwy yr un gwerth ag a geir yn awr yn ngweithiau rhai fel Westcott, Hort, Scrivener, Sanday, ac eraill ynglŷn â'r Testament Newydd. Mae dyled Duwinyddiaeth Seisonig yn fawr i Germany, i'w hathrylith, i'w llafur diderfyn, i'w damcaniaeth ëofn; ond erbyn hyn mae gwreiddioldeb, manylder, ac ëangder yn *dechreu* cael eu rhagoriaeth yn Mhrydain yn Esboniadaeth a Beirniadaeth y Testament Newydd. Mae yn dra

* Dr. Hort, appendix, p. 2.

thebyg nad oes yr un llyfr ymhlith y goreuon ar Feirniadaeth testun y Testament Newydd a ddangosai yr un eangder a manylder, yr un addfedrwydd a gofal ymresymiadol, yr un pwyll i sylfaenu casgliadau ar gyflawnder o ffeithiau wedi eu chwilio yn amyneddgar, ag a geir yn "Appendix" Dr. Hort.

Yr wyf yn teimlo fod y ffaith yma yn neillduol bwysig, gan y gallwn ni yn y wlad hon ogwyddo, yn ngrym edmygedd o waith Germany, i esgeuluso yr hyn sydd agos atom, a bod felly ar ein colled. Ni buaswn yn meiddio ysgrifenu fel hyn, er fy mod yn ei gredu yn gryf, oni b'ai ymhlith pethau eraill fod tystiolaeth Dr. Gebhardt, yr hwn a adysgrifenodd yr erthygl ar Destun y Testament Newydd yn *Encyclopædie* Herzog, a'r hwn sydd mor adnabyddus fel golygydd gyda Harnack o'r *edition* perffeithiaf o'r Tadau Eglwysig cyntaf, ac sydd yn awr yn cyhoeddi cyfres o lyfrau gwerthfawr ar Ysgrifau cyntefig yr Eglwys Gristionogol—yn eu plith lawysgrif henafol newydd o Efengyl Matthew a Marc*—oni b'ai fod ei dystiolaeth ef, ac yntau yn Ellmynwr, i'w hystyried yn derfynol. Dywed yn yr erthygl yn Herzog nad oes gan yr Almaen yr un llyfr i'w gymharu â llyfr Tregelles, "On the Printed Text of the Greek New Testament." Hefyd yn y rhagdraethawd i'r Testament Groeg a gyhoeddwyd ganddo yn 1881,† mae yn cyfeirio yn unig at Tregelles ac at Westcott a Hort, ynghyd a Tischendorf, testun yr hwn a ddilynir ganddo. Mae y dewisiad hwn o dri Sais ac un Ellmynwr yn awgrymiadol, ac at ysgrifenwyr Seisonig, megys Lightfoot, Scrivener, Farrar, Abbott, y cyfeirir ein sylw ganddo bron yn gwbl. Goddefer dyfynu rhai o'i eiriau:—"Fel Tischendorf a Tregelles, felly hefyd mae Westcott a Hort yn eu llafur beirniadol yn dilyn, yn y wedd bwysicaf o'r gwaith, y rheolau hyny ag y mae, ac y bydd, yn glod i Lachmann mai efe a'u cychwynodd; ond y mae yr argraffiad diweddaf Seisonig *yn rhagori ar bob un a gyhoeddwyd yn flaenorol*, yn gymaint a bod hanes y testun yn cael ei roddi er desgrifio y tystiolaethau yn ol eu gwahanol ddosbarthiadau a'u barnu yn fanwl, gydag ymresymiad sicr, ac mewn helaethrwydd *na bu ei gyffelyb gan neb o'r blaen*."‡ Yr ydym hwyrach wedi ymdroi gormod gyda hyn; eto mae y ffaith hon yn rhy ddyddorol ac yn rhy bwysig i'w gadael â sylw bach,—fod y wybodaeth lwyraf, sylfaenedig ar y llafur mwyaf cywir yn maes Eglurhadaeth a Beirniadaeth y Testament Newydd, i'w chael yn awr yn yr iaith Saesoneg yn Mhrydain a'r America.

Hwyrach nad anfuddiol fyddai yma ddwyn i gof rai pethau o'r erthygl flaenorol. (1). Hyd 1851, yr unig argraffiadau o'r Testament Newydd Groeg ag y gellid eu hystyried yn wir annibynol oeddynt yr eiddo Erasmus (1516—1535), a'r un a gyhoeddwyd yn Complutum

* *Codex Rossanensis*, canrif vi., yn dwyn perthynas agos, medd ef, âg un arall (N) a gafwyd yn Ynys Patmos. *Proleg.* xlv.

† Un o'r argraffiadau mwyaf defnyddiol a rhad. Gadewir heb sylw y rhanau hyny y mae y prif feirniaid yn cytuno arnynt, a'r "prif feirniaid" hyn yw Tischendorf, Tregelles, Westcott and Hort. *Novum Test.* Graece Oscar de Gebhardt, Editio Stereotypo. Pris 3s.

‡ *Præmonenda*, vi., vii.

ceir llawer o wahaniaethau o fath arbenig, a rhai pwysig iawn, oddiwrth gorff y llawysgrifau diweddar a ysgrifenwyd mewn llythyrenau rhedeg o'r ddegfed i'r bedwaredd ganrif ar ddeg.* Nid am eu bod yn hen yn unig, ar un cyfrif, y rhoddir y flaenoriaeth i'r rhai hyn, ac nid am eu bod yn ddiweddar y gwrthodir y lleill. O'r holl lawysgrifau hynaf rhoddir y flaenoriaeth i B, sef y *Codex Vaticanus* yn Rhufain; ac ar hyn seilir un wrthddadl gref gan y rhai a fynant ddal yn fwy at y llawysgrifau diweddar. (2). Profir mai ar y llawysgrifau hynaf y dylid sylfaenu testun y Testament Newydd, drwy fod y dyfyniadau helaeth a geir yn ysgrifeniadau y Tadau boreuaf *yn cydgordio yn fwy â hwy nag â'r llawysgrifau diweddar.* Gwyddys amser ysgrifeniad y llyfrau hyn, ac felly, meddir, fe wyddys hefyd pa ffurf ar eiriau y Bibl oedd adnabyddus yr amser hwnw, ac mai nid y ffurf a geir yn y llawysgrifau olaf oedd yn y manau a ddyfynir. Heblaw hyn, (3). dengys y cyfieithiadau hynaf—rhai wedi eu gwneyd mor foreu â'r ail ganrif, mai nid oddiwrth destun hollol unffurf â'r un a berthyn i'r MSS. diweddaraf y gwnaed hwy. I'r gwaith o farnu oddiwrth yr oll o'r rhai hyn beth yw y dystiolaeth oreu am eiriau gwreiddiol yr ysgrifenwyr sanctaidd, dyry Dr. Tregelles yr enw Beirniadaeth Gymhariaethol *(Comparative Criticism).* Wedi dosbarthu y MSS. yn ol eu hoed a'u perthynas â'u gilydd o ran neillduolion penodol, ceisir gweled pa rai sydd yn debyg i'w gilydd mewn darlleniadau y gwyddys ar seiliau eraill—y dyfyniadau a'r cyfieithiadau—eu bod yn hen iawn. O farnu y MSS. yn ol eu darlleniad, ceir mai y rhai sydd yn amlwg yn rhoddi y darlleniad hynaf yw y rhai hynaf. Mae y golygwyr diweddaf, Westcott a Hort, wedi helaethu cwrs yr ymresymiad drwy fyned yn ol at lwybrau Griesbach, ac o ystyried fel efe, ond yn llawer eangach yn gystal a manylach, a chydag un gwahaniaeth pwysig, y dosbarthiadau y gellir rhanu copïau iddynt, ynghyd a nodweddion neillduol i'r rhai hyny, yn dyfod, ar y cyfan, i'r un casgliad â Lachmann a Tregelles—*mai i'r llawysgrifau hynaf y rhaid rhoddi y flaenoriaeth,* ac o'r rhai hyny i ℵ a B.† Mae yn anmhosibl i'r neb a ddarlleno yn frysiog yr ail gyfrol werthfawr a ysgrifenwyd gan Dr. Hort weled pa beth a pha faint a ddywedir wrth ddyweyd fod y flaenoriaeth yn cael ei rhoddi i B; pa derfynau ac ammodau sydd i'r flaenoriaeth yna, pa ryw fil o ystyriaethau eraill, yn peri gofal a gwyliadwriaeth, raid fod yn y meddwl ar yr un pryd, a'r duedd i roddi i hon neu i'r ddwy hyn y lle blaenaf. Buddiol fyddai edrych pa beth a ddywedir yn erbyn. Wrth son am y testun ar ba un y sylfaenwyd y Cyfieithiad Diwygiedig yn Saesoneg, dywed y Deon Burgon, "Mae testun a ffurfir yn y modd hwn, yn amlwg yn bellach oddiwrth wirionedd yr efengyl nag unrhyw un a welodd y goleu o'r blaen."‡

* Mae testun y llawysgrifau o'r seithfed ganrif ymlaen a ysgrifenwyd mewn priflythyrenau *(uncials)* yn gymysg, weithiau yn tebygu i'r rhai diweddar, weithiau i'r rhai hynaf.

† Nid oes neb yn awr yn derbyn dysgeidiaeth Griesbach am *recensiones*, neu adolygiadau o fwriad, ar lyfrau y Testament Newydd. Yn ddifwriad y cododd y dosbarthiadau yma, oddigerth un fe allai; ac nis gellir darllen y geiriau diweddaf a ysgrifenwyd gan Griesbach ar hyn *(Comm. Criticus,* Vol. II., xliii.--lii.) heb deimlo ei fod y pryd hyny yn defnyddio y gair *recension* yn unig fel nôd, er mwyn hwylusdod, ar unoliaeth a fodolai yn nghanol amrywiaeth mawr.

‡ *Quarterly Review*, October, 1881.

Yn ddiweddar llefarai y Deon dysgedig i'r un pwrpas: "Mae y rhai hyn (y llawysgrifau diweddar), yn unig am eu bod wedi eu hysgrifenu mewn llythyrenau rhedeg, yn hytrach na phriflythyrenau, wedi profi er yn agos i gan' mlynedd esgeulusdra mawr ac anhaeddiannol. Dechreuwyd y drwg gan Griesbach (1774—96), a pherffeithiwyd ef gan Lachmann (1831—42); ond darganfyddiad y *Codex Sinaiticus* gan Tischendorf, yn fwy na dim arall, a symbylodd yr hygoeledd gwan sydd yn awr yn teyrnasu (fod y copïau a ysgrifenwyd mewn priflythyrenau *am hyny* yn oraclau), ac a gynnorthwyodd i ddenu sylw oddiwrth y tystion ieuangaf i wirionedd gair yr Ysgrythyr. Daw hawl gyfreithlawn y rhai hyn yn mhenderfyniad cwestiwn y testun i gael ei addef yn gyffredinol rai o'r dyddiau nesaf. . . . . . Ac nid yw ond ffaith amlwg fod y copïau A, B, א, C, a D yn gwrthddyweyd eu gilydd yn eu tystiolaeth."* Mae y Deon Burgon wedi gwneyd gwasanaeth uchel i Feirniadaeth Ysgrythyrol, eto rhaid dyweyd nad yw yn y geiriau uchod yn gosod allan yn deg egwyddorion y rhai a wrthwynebir ganddo. Nid oes un o'r beirniaid goreu yn gwrthod y llawysgrifau diweddar *am eu bod yn ddiweddar*, nac yn ymddiried yn y lleill *am eu bod yn hen.* Meddylir yn llawer uwch o *rai* o honynt nag o rai eraill a ysgrifenwyd ganrifoedd o'u blaen, fel y gwelir yn y mynych ddyfyniad a wneir gan Tregelles a Tischendorf o'r rhai a ddynodir gan y rhifnodau 1, 33, a 69 yn yr Efengylau, a 17, 37, 47 yn Epistolau Paul. Ond wele eto eiriau Canon Cook: "Os dibynir ar y beirniaid a fu gyda'r Cyfieithiad Diwygiedig, nid oes eisieu ond yn unig edrych a yw dau neu dri, א, B, neu B a D, heb son am L, M, Δ, ח, yn cytuno mewn darlleniad, ac fe arbedir pob ymchwiliad pellach, gan fod tystiolaeth a gadarnhao yr awdurdodau uchod yn ddieisieu, a thystiolaeth groes iddynt, oblegid hyny ei hun, yn cael ei chondemnio fel un anhaeddiannol o ymddiried."† Dangosir yn helaeth iawn wendidau Lachmann gan Canon Cook, a'r modd yr ymddiriedodd Tischendorf yn ormodol yn ei argraffiad diweddaf (viii.) i'r *Codex Sinaiticus* (א). Ond nid yw yr ymresymiadau hyn yn cyffwrdd â'r rhai hyny a godasant fylchau Lachmann, ac na syrthiasant i amryfusedd Tischendorf.‡

Yr uchaf a'r mwyaf cymedrol erbyn hyn, er y bu yntau unwaith yn dyweyd pethau llymion iawn, yw Dr. Scrivener. Daeth y trydydd argraffiad o'i waith ef ar Feirniadaeth y Testament Newydd allan o'r wasg yn ddiweddar, ac mae y bennod bwysicaf (vii.) ynddo agos yr un ag yn yr ail argraffiad o ran yr egwyddorion a amddiffynir, ond yn helaethach o ran y sylw a delir ynddi i Destament Groeg Westcott, ac i'r Attodiad a ysgrifenwyd gan Dr. Hort.|| Yn y bennod hon ceir, gyda hanes sefyllfa testun y Testament Newydd yn yr oesau boreuol yn ol tystiolaeth y Tadau Eglwysig, yn eglur ei farn am natur y gwaith sydd i'w gyflawni gan Feirniadaeth er ceisio penderfynu testun

* *Guardian,* January 16, 1884. Mae y Deon erbyn hyn wedi cyhoeddi ei erthyglau yn llyfr dan yr enw *Revision Revised.*

† *The Revised Version of the first Three Gospels.*

‡ Bernir fod *Editio* vii. Tischendorf yn rhagori ar yr viii. a'r olaf, oblegid ei fod yn yr olaf wedi ymddiried gormod i'r *Codex Sinaiticus* (א). Vide Dr. Hort, *Appendix,* p. 229; Scrivener (3rd edit.), p. 529.

|| *A Plain Introduction to the Criticism of the New Testament.* 2nd ed., 1874; 3rd ed., 1883.

y Testament Newydd. Mewn nodyn ceir y geiriau tarawiadol a ganlyn:—"O'r ddau ŵr enwog gan y rhai y'm galwyd i ymaflyd codwm yn yr argraffiad cyntaf, y Deon Alford a Dr. Tregelles, mae y naill wedi talu y ddyled a berthyn i ni oll, a'r llall wedi ei daro âg afiechyd sydd yn dwyn delw angeu ei hun.* Nid oes galon ynof i chwilio am wrthwynebwyr eraill, a rhaid i mi yn awr geisio ymladd âg egwyddorion yn hytrach nag â'r rhai a'u honant."† Ei brif ddadl yw fod Lachmann yn enwedig, a Tregelles hefyd, trwy gyfyngu maes yr ymchwiliad, wedi ei niweidio; wedi *cyfyngu* y maes drwy droi eu sylw at y llawysgrifau hynaf, gan esgeuluso y nifer llïosog sydd ar gael o'r rhai diweddarach; wedi *gwneyd niwed* i'r gangen uchel hon o wyddoniaeth am fod cau allan fel hyn ran mor helaeth yn ei gwneyd yn anmherffaith. Llefara yn gryf hefyd am yr anghydgordiad sydd yn y rhai hynaf, ond cytuna â'i wrthwynebwyr mewn rhoddi y flaenoriaeth ymhell ac o ddigon i'r llawysgrif B. Mae Dr. Scrivener ei hun yn rhoddi y lle blaenaf i'r llawysgrifau hynaf; ond lle y mae eu tystiolaeth hwy a thystiolaeth y dyfyniadau o'r ysgrifenwyr hynaf, ynghyd a'r hen gyfieithiadau yn amrywio, myn ef droi at dystiolaeth unffurf y llawysgrifau diweddar am benderfyniad.

Yr wyf yn ofni fod y darllenydd yn teimlo fod llawer o ail ddyweyd yr un pethau yn dramgwydd yn y rhan hon. Eto mae mantais yn hyny, fel y teimlôm yn glir pa wrthddadleuon a ddygir i waith Dr. Tregelles a'r rhai a gytunant âg ef.

Gwrandawn beth a ddywed ef yn wyneb y gwrthddadleuon hyn. Gyda golwg ar roddi ystyriaeth i'r copïau diweddar, rhydd i ni un ymresymiad mewn ffordd o gyfatebiaeth. Gwyddys fod Jerome wedi gwneyd cyfieithiad diwygiedig i'r Lladin tua A.D. 385, yr hwn yw Testament Newydd awdurdodedig Eglwys Rhufain; eto, ceir fod y MSS. diweddar o hwn, o'r un oed â'r rhai Groeg y gosodir y fath bwys arnynt, yn gytun yn gwahaniaethu oddiwrth yr hyn a raid fod Jerome ei hun wedi ysgrifenu mewn tua dwy fil o fanau, yn ol tystiolaeth yr hen gopïau a ysgrifenwyd nesaf at ei amser ef, ac a ddaethant yn y blynyddoedd diweddaf i'r golwg. Mae yr ychydig hen MSS. hyn yn dangos beth a ysgrifenwyd gan Jerome yn A.D. 385, eto, wele y rhai diweddar yn cydwahaniaethu mor bell oddiwrth hyny. Onid yw yn deg casglu fod y copïau Groeg diweddar hefyd yn gwahaniaethu oddiwrth yr hyn a ysgrifenwyd gyntaf yn y Groeg? Heblaw hyn nid oes ond unoliaeth gymharol ynddynt, fel y mae y cymhariadau, y *collations*, o honynt a gyhoeddwyd gan Dr. Scrivener ei hun yn dangos. Mae rhai, fel y dangosir ymhellach paham, yn gwahaniaethu oddiwrth y lleill, ac yn cytuno â'r rhai hynaf, i'r rhai, er eu bod yn ddiweddar, y rhoddir sylw neillduol.‡ "Mae gan y copïau diweddar," medd Dr. Tregelles, "*eu math eu hun* o wahaniaethau, felly hefyd y mae gan y rhai hynaf, a'r gwir gwestiwn yw ymha un o'r ddau ddosbarth yr

* Tarawyd Tregelles yr ail waith gan y parlys yn nechreu 1870.

† Second Edition, p. 462.

‡ There was no Byzantine *standard*, and thus ancient readings at times reappeared . . . . all that has been shewn is that some modern copies *may* be valuable auxiliaries to the most ancient—a thing which the advocates of the "system' to which Mr. Scrivener refers, would fully admit.—Tregelles, Printed Text, p. 181.

ydym i geisio y testun gwirioneddol a gwreiddiol, gan nad yw yn debygol y ceir ef yn y ddau." Addefa yn rhwydd y gwahaniaeth a geir yn yr hen gopïau, eto, nid yw hyn yn lleihâu eu gwerth; maent yn ddiau o lëiaf yn gofgolofnau o'r hyn a ddarllenid yn yr amser boreu yr ysgrifenwyd hwy (o'r bedwaredd i'r seithfed ganrif); ac o'u cynnwys hwy, gan eu cymharu â'u gilydd ynglŷn â thystiolaethau henafol eraill, gorchwyl beirniadaeth yw, "mewn ysbryd Cristionogol a chyda dealltwriaeth cymhwys, ceisio y defnyddiau i ail godi adeiladaeth gwirionedd dadguddiedig, yr hon sydd i fesur wedi ei hanmharu gan y copïwyr diweddar, a chan eu canlynwyr, yr argraffwyr boreuaf." Hon felly yw yr egwyddor sylfaenol y bu Dr. Tregelles ar hyd ei oes yn ddysgu, yn erbyn gwrthwynebiad dylanwadol iawn, ond sydd erbyn hyn wedi ennill cymeradwyaeth bur gyffredinol—fod yr hen lawysgrifau, er yn ychydig mewn nifer, o awdurdod uwch fel tystiolaeth na'r rhai diweddaraf, er eu bod hwy yn llawer lliosocach, ac yn cydsynio, oddigerth rhai eithriadau yn y testun a geir ynddynt. Hon yw y wedd o edrych ar bethau sydd erbyn hyn wedi ennill y fuddugoliaeth, ac i raddau mawr drwy ei ymdrechion ef.

Ond pa fodd y profir rhagoriaeth y *codices* ℵ, A, B, C, D, L, Δ, &c., ar lu mawr y rhai diweddar, fel casgliad o dystiolaethau at benderfynu y gair fel y daeth o law yr ysgrifenwyr sanctaidd? Pa fodd y dangosir fod ychwanegiadau a chyfnewidiadau wedi eu gwneyd er yn foreu iawn, a bod yr ychwanegiadau a'r cyfnewidiadau hyny i'w cael yn y llawysgrifau diweddaraf, a thrwyddynt hwy yn y Testament Newydd arferedig? Wrth geisio dangos gwaith Tregelles, ni a fyddwn yn ateb y cwestiynau uchod, ac fe fydd unrhyw ymdriniaeth â'r cwestiynau o ran yr hyn a wnaed cyn ei amser ef, a'r llawer sydd wedi ei wneyd ar ol hyny, yn adlewyrchu goleu ar ei hanes yntau.

Yma dylid adgofio fod yr holl lawysgrifau hynaf, un ai wedi eu cyhoeddi neu eu cymharu er gweled a chofrestru pob gwahaniaeth rhyngddynt a'r testun arferedig. Mae yr un peth wedi ei wneyd â chryn nifer o'r rhai diweddar. Buddiol fyddai ymgydnabyddu â'r nodau a arferir er dynodi y gwahanol lawysgrifau, gan gofio fod y Testament Newydd er yn foreu iawn yn cael ei ranu yn bedair rhan.

(1.) Yr Efengylau.
(2.) Yr Actau a'r Epistolau Cyffredinol.
(3.) Epistolau Paul.
(4.) Y Datguddiad.*

Arferir ℵ A C yn y *pedair* rhan, a B yn y *tair* cyntaf; yna o D ymlaen dechreua y wyddor o newydd ymhob rhan, yn ol fel y bo llawysgrif yn cynnwys un neu ychwaneg: os cynnwysa fwy nag un ran, dynodir hi gan yr un llythyren ymhob un. Er engraifft D yw y *Codex Bezæ* yn yr Efengylau a'r Actau, ond y *Codex Claromontanus* yn Epistolau Paul, a golyga E dair llawysgrif wahanol yn ol fel yr enwir hi yn y naill neu y llall o'r tair rhan gyntaf.

Y ffordd oreu i gydnabyddu â hwy yw trwy ddarllen amryw bennodau drwodd, yn Nhestament Groeg Tischendorf, gan sylwi ar

* Mae un llyfr bychan yn hynod o gyflawn a goleu ar y materion hyn, Hammond's *Criticism applied to the New Testament.* Clarendon Press Series.

ddarlleniadau rhai neillduol, megys B, א, A, C, D, L, Δ, a cheir gweled hefyd fod y rhai hyn yn cynnrychioli dosbarthiadau neillduol.

Mae llyfrau y Testament Newydd, fel y maent wedi eu cadw yn yr ysgrifau sydd ar gael, "yn sicr yn llefaru wrthym o ran pob peth pwysig, yn yr un ymadrodd ag y llefarent ynddo wrth y rhai yr ysgrifenwyd hwynt gyntaf iddynt."* Pa ragoriaeth, gan hyny, sydd i'r hwn a ymboeno gydag astudiaeth testun y Testament Newydd, neu pa fudd sydd o fod yn ddysgybl Tregelles? Llawer ymhob rhyw fodd. I unrhyw un sydd yn teimlo gwerthfawredd y Testament Groeg, peth mawr yw cael ei ymadroddion âg alcam *pob* anmhuredd, hyd y gellir, wedi ei dynu ymaith. Mae yn wybyddus fod un dosbarth o lawysgrifau yn cytuno mewn darlleniadau gwahanol i'r gwedd-ill yn y ffordd o *helaethiad* ar y geiriau gwreiddiol. Y dosbarth Gorllewinol y gelwir hwn, a chynnrychiolir ef yn benaf gan y llawysgrif D.† Pe baem yn olrhain yn Nhestament Groeg Tischendorf, Alford, Tregelles, neu Gebhardt, ddarlleniadau y llawysgrif hon, gwelem ei bod yn y rhan fwyaf o lawer o fanau yn ychwanegu at yr hyn a fernir yn wir destun. Daeth y ffurf yma ar eiriau y Testament Newydd, er o darddiad Asiaidd, i arferiad cyffredinol iawn yn Affrica ac yn Ngorllewinbarth Ewrop, yr Eidal, Gaul, a Phrydain.‡ Rhaid priodoli yr ychwanegiadau hyn i fywiogrwydd crefyddol, ac i arferiad helaeth o'r Ysgrythyr Lân ei hun. Megys yn Nghymru y mynych goffeir y gair "Yno yr wyf yn eu canol hwynt" gyda'r ychwanegiad "yn bendithio," onid naturiol iawn fyddai i ysgrifenydd cyffredin, heb gopi printiedig fel sydd genym ni, ammeu yn ngrym ei gof unrhyw lawysgrif a fuasai o'i flaen, ac ysgrifenu geiriau Crist fel hyn: "Canys lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt yn bendithio." Mae yma deimlad cryf yn tynu allan mewn geiriau yr hyn sydd eisoes yn cael ei awgrymu, nid mewn un bwriad drwg, ond yn ngrym y duedd i wneyd yn llafaredig, ar adeg pan yr oedd cynnwys y Testament Newydd yn fwy gwerthfawr na'i ffurf, esboniad llaweroedd. Gallai gwahanol ddarlleniadau fod y pryd hwn heb i ddynion yn ymarferol deimlo y gwahaniaeth lawer. Er engraifft, mae Jerome ei hun yn cywiro geiriad Eph. iii. 14, gan ddyweyd mai "y Tad" yn unig a ddylid ddarllen, ac nid fel yn y copïau Lladin, "Tad ein Harglwydd Iesu Grist, o'r hwn yr enwir," tra y mae ef ei hun, wrth goffâu y geiriau heb wyliadwriaeth ei deimlad beirniadol, yn eu dyweyd fel y maent genym ni, ac fel yr oeddynt *arferedig* yn ei amser yntau, "at Dad ein Harglwydd Iesu Grist."‖ Gall un ffaith hynod arall ddangos fel yr oedd darlleniadau gwahanol yn cael eu harfer gan yr un person heb greu anesmwythder. Un o'r gorchwylion pwysicaf a wnaeth Griesbach (1774—1796) oedd chwilio yn fanwl holl ddyfyniadau Origen o eiriau y Testament Newydd. Yn ei esboniad ar Efengyl Matthew profir fod Origen yn dyfynu Efengyl Marc yn ol testun Gor-

* Dr. Hort, *Appendix*, p. 284.

† D "qui occidentalium facile princeps est."—Griesbach, Melet. xlv.

‡ Griesbach, Meletemata, xlii. Dr. Hort, *Appendix*, p. 108, "The prominent representatives of the group were Græco-Latin MSS."

‖ Tischendorf, yn ei nodiadau ar yr adnod.

llewinol, tra yn ei esboniad ar Efengyl Ioan y mae yn dyfynu o'r un Efengyl *yn ol ffurf arall* (yr Alexandriaidd) ar y testun.* Ceir dosbarth arall, nid o lawysgrifau cyfain, mae'n wir, ond o ddarlleniadau mewn llawysgrifau penodol, yn cyd-ddangos tuedd at gywirdeb a choethder ymadrodd, ac yn hyn yn ymado oddiwrth y testun y gellir ei ystyried yr un gwreiddiol. Yn y dosbarth arall teimlad bywiog, effro, oedd yn cael ei gario i esbonio; yn y dosbarth hwn chwaeth sydd yn hamddenol gywiro yr hyn a ystyrid yn anghywir neu anghoeth mewn iaith.† Yn y naill a'r llall yr ydym yn cael y golled fawr o golli person yr ysgrifenydd trwy golli ei neillduolion, fel John Elias heb ei "attal dywedyd," er mai pethau mwy oedd yn ei wneyd yn John Elias. Y mwyaf cyson o'r llawysgrifau yn y math yma o gywiriadau yw L, a C, L, X, Z, yn yr Efengylau, A yn arbenig yn yr Actau ac Epistolau Paul.‡ Cymerwn rai esiamplau i ddangos y ddau fath yma o ddarlleniadau sydd yn ymado oddiwrth y symledd cyntaf, gan ddewis rhai nad oes dim gwahaniaeth yn marn Lachmann, Tischendorf, Tregelles, Westcott, a Gebhardt, am y gwir ddarlleniad. Dengys y cromfachau y rhanau a gyfrifir yn ychwanegiadau.

Luc xxiii. 16, 17: "Am hyny mi a'i ceryddaf ef, ac a'i gollyngaf ymaith. [Canys yr oedd yn rhaid iddo ollwng un yn rhydd iddynt ar yr ŵyl.]"

Adn. 42: "Ac efe a ddywedodd [wrth yr] Iesu, [Arglwydd], Cofia fi pan ddelych i'th deyrnas."

Ephes. v. 30: "Oblegid aelodau ydym o'i gorff ef [o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef.]"

1 Cor. xi. 29: "Canys yr hwn sydd yn bwyta ac yn yfed [yn annheilwng], sydd yn bwyta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, pan (am) nad yw yn iawn farnu y corff [yr Arglwydd]."

Trown eto i Lyfr yr Actau am ddwy engraifft nodedig o waith rhywun, neu rywrai, yn gwneyd yr iaith yn llefn trwy ychwanegiad a chyfnewidiad, lle yr oedd braidd yn anhawdd ac anwastad, eto yn ddiau trwy hyny yn peri colled, nid yn unig oblegid y cyfnewid ynddo ei hun, ond trwy wneyd yr ymadrodd yn llai tarawiadol.

Act. xx. 24: "Ond nid wyf yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nid gwerthfawr genyf fy einioes fy hun os gallaf orphen fy ngyrfa trwy lawenydd."

Mae yma ychwanegiad sydd yn ddiau yn gwneyd y darlleniad a'r esboniad yn haws, ond yn ol darlleniad Tregelles a'i gydlafurwyr ceir yr ystyr a ganlyn:—

"Nid wyf yn cyfrif fy einioes yn werth un gair‖ er fy mwyn fy hun."

Actau xv. 17, 18: "Fel y byddo i hyn a weddiller o ddynion geisio yr Arglwydd, ac i'r holl Genedloedd y rhai y gelwir fy enw i arnynt, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn. Hysbys i Dduw yw ei holl weithredoedd erioed."

Yn lle hyn darllenir—". . . . medd yr Arglwydd, gan wneuthur y pethau hyn yn hysbys erioed."

* *Commentarius Criticus*, Vol. ii., Meletemata, xxxviii., xxxix.

† "Grammaticum egit Alexandrinus censor, interpretem occidentalis."—Griesbach.

‡ Dr. Hort, tu dalenau 153, 166.

‖ *Logos*. Dilynir Meyer yn y cyfieithiad hwn, gan gymeryd "logos" = "gair," nid "ystyriaeth" neu "gyfrif."

Mae y rhan fwyaf o'n darlleniadau a anghymeradwyir gan Tregelles, Tischendorf, a Westcott a Hort o'r math yma; gan Tregelles, dan arweiniad ei ymwybyddiaeth o fod copïwyr bob amser yn dueddol i ychwanegu at eu copi yn hytrach na byrhâu, yn enwedig os bydd hyny, yn ol eu tyb hwy, yn gwneyd yr iaith yn eglurach; gan Westcott a Hort oblegid, gyda hyn, eu bod yn perthyn i'r dosbarth Gorllewinol.

Mae y math arall o gyfnewid i'w gael, nid mewn llawysgrifau sydd yn gwbl yn perthyn i ddosbarth neillduol. Ceir y darlleniadau Alexandriaidd mewn llawysgrifau penodol, mae yn wir, eto fe'u ceir gyda chymysgedd o ddarlleniadau o fath neu fathau eraill. Nid hawdd yw dangos llawer o honynt mewn cyfieithiad, gan eu bod yn gynnwysedig o welliant yr hyn a ystyrid yn wallau gramadegol. Edrychwn ar y rhai a ganlyn, lle y mae y darlleniad cyffredin yn un Alexandriaidd:—

Luc x. 15: A thi, Capernaum, a ddyrchefir di hyd y nef? ti a dynir i lawr hyd yn uffern.

Ioan xvii. 21: "Fel y byddont oll yn un, megys yr wyt ti y Tad ynof fi a minnau ynot ti; fel y byddont hwythau ynom ni."

Yma mae y darlleniad cyffredin, "un ynom ni," yn ddiau yn ymddangos yn "gwella" yr iaith.

Coloss. ii. 2: "Fel y cysurid eu calonau hwy, wedi eu cydgysylltu mewn cariad ac i bob golud sicrwydd deall, i gydnabyddiaeth dirgelwch Duw a'r Tad a Christ."

Darlleniad Tregelles a'r lleill yma yw, "i gydnabyddiaeth dirgelwch Duw, *sef* Crist."* Ond gan y *gallai* yr ystyr "Duw Crist" gael ei roddi yn ol y darlleniad hwn yn y Groeg, mae rhywun, yn ol greddf ysgolheigion Alexandria, yn ei "wellhâu," gan ysgrifenu "Duw Tad Crist," ac o hwn, mae'n debyg, y daeth, trwy gyfnewidiad pellach, y geiriau fel y maent genym ni.

Gellir fel hyn brofi fod yn foreu iawn ddwy ffurf ar rai o ymadroddion y Testament Newydd cyn, dyweder, A.D. 250. Mae eto drydedd ffurf, sef yr un a alwai Griesbach yn ffurf Caercystenyn, ond a elwir gan Dr. Hort yn "Syriaidd." Nid yw y dosbarthiad yn hollol gyfateb gan y ddau ŵr, eto, ar y cyfan, maent yr un, tra mae yr olaf wedi myned o flaen pob ysgrifenydd arall yn nghyflawnder ei ffeithiau, a'i ymresymiad, er dangos pa fodd y cododd y darlleniadau sydd yn perthyn yn neillduol i'r llawysgrifau a ddaethant o Gaercystesyn. Ei farn ef a Dr. Westcott ydyw, fod cais at destun unffurf diwygiedig wedi cael ei wneyd yn ngororau Antioch, ac i hwn ddyfod yn fuan i gael ei ystyried yn ffurf awdurdodedig y Testament Newydd yn Asia Leiaf, ac oddiyno yn Caercystenyn.

Gwnaed y testun hwn i raddau pell drwy gyfuno yn un ddarlleniadau y ddau dosbarth arall, a chan fenthyca hefyd o destunau annibynol ar y ddau, ac felly caed y darlleniadau cymysg sydd yn perthyn i'r

* Gwel Lightfoot ar yr adnod hon.

drydedd ffurf hon. Antioch oedd mam Caercystenyn yn y ffydd Gristionogol; hwn felly, oedd y testun a arferid yno, ac wedi i'r Aipht gael ei dinystrio gan y Tyrciaid, ac i'r Eglwys Orllewinol droi mor llwyr at yr iaith Lladin, o Gaercystenyn yn unig braidd yr oedd yn bosibl cael copïau Groeg o'r Testament Newydd. Y ffurf hwn felly yw y ffurf a geir yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau diweddaraf, y rhai y gellir eu cyfrif wrth y cannoedd.*

Tasg fawr bwysig beirniadaeth yw cael tu draw i'r testun hwn, ac felly tu hwnt i A.D. 250, pryd y tybir fod y testun Syriaidd, neu destun Caercystenyn, mewn arferiad, yn enwedig yn yr Efengylau. Gosodir o'r neilldu yr holl gopïau sydd yn cynnwys testun cymysg; gedy hyn tua deuddeg o lawysgrifau henafol Groeg i'w hystyried wrth chwilio testun yr Efengylau, chwech yn llyfr yr Actau, pedair yn yr Epistolau Cyffredinol, a chwech yn Efengylau Paul, a rhai llawysgrifau diweddar yn y gwahanol ranau. Allan o'r rhai hyn gosodir eto o'r neilldu y rhai a gynnwysant destun Gorllewinol, ac wedi hyny y rhai y mae testun Alexandriaidd ynddynt, a chanlyniad hyn fydd rhyw ddynesiad at y testun oedd yn bod cyn dechreu y duedd i amrywio, hyny yw at y geiriau a ysgrifenwyd gyntaf, yn ol pob tebyg, gan yr ysgrifenwyr sanctaidd.

Prif ffrwyth yr ymchwiliad hwn yw, fod un llawysgrif, yr un Vaticanaidd (B), yn rhagori ar yr oll o'r lleill, ac un arall, y Sinaiticus (א), yn agos ati; mae y ddwy hyn yn cynnwys y testun mwyaf henafol, yr hwn sydd i'w amseru yn rhywle o A.D. 170 i A.D. 230. Gallai fod peth gwahaniaeth yn y copïau o ba un yr ysgrifenwyd y ddwy, ond rhaid fod y gwreiddiol o'r rhai hyny yn foreu iawn.† Mae y lle blaenaf gan hyny i'w roddi i'r llawysgrifau sydd yn aros wedi y gwyntyllio y ceisiwyd ei ddesgrifio uchod, a cheir fod hyn yn dyfod yn agos i'r un peth ag egwyddor sylfaenol Dr. Tregelles, sef, fod *testun cywiraf y Testament Newydd i'w gael yn yr ychydig lawysgrifau henaf, ac nid yn y llawer diweddar.* Y ffordd y mae ef, fel yr awgrymwyd eisioes, yn penderfynu henafiaeth darlleniadau y MSS. yw, (1), drwy ddyfyniadau y Tadau Eglwysig, y rhai y mae eu hoed yn adnabyddus; a chyda hyny (2), drwy gymhariad y cyfieithiadau boreuol i'r Lladin, Syriaeg, &c. Wrth ddychwelyd yn ol at egwyddorion Griesbach yn nosbarthiad llawysgrifau, yn ychwanegol at yr hyn a wna Tregelles, daw Westcott a Hort i'r un man,—i'r man y safodd Lachmann ynddo gyntaf, lle yr ydys, er y gellir cyfrif yr hen lawysgrifau ar ben bysedd, yn rhoddi iddynt hwy y flaenoriaeth ar y rhai diweddar a gyfrifir wrth y cannoedd. Y rhai sydd ar y blaen o ran oed ydynt hefyd flaenaf o ran gwerth.

O'm rhan fy hun (medd Tregelles), mae genyf y fath uchel barchedigaeth i'r Ysgrythyr Lân fel, mor bell o deimlo ofn wrth beidio derbyn geiriau ac ymadroddion nad ydynt yn gorphwys ar dystiolaeth ddigonol, fy ofn i a fyddai rhag, ar bwys traddodiad, i ddarlleniadau gael eu derbyn nad oes tystiolaeth iddynt. Lle y mae

* "Since the Syrian text is only a modified eclectic combination of earlier texts, independently attested, existing documents descended from it can attest nothing but itself."—Dr. Hort, *Appendix*, p. 118.

† Dr. Hort, p. 222—3.

**tystiolaeth unedig y llawysgrifau henaf, y cyfieithiadau boreuol a'r dyfyniadau yn ngweithiau y Tadau, nid oes angen beirniadaeth.**

**Gwedi unwaith gymeryd y safle mai y dystiolaeth henafol sydd i gael sylw arbenig, daw ystyriaethau eraill gyda golwg ar ddarlleniadau gwahanol i fewn er penderfynu rhwng yr awdurdodau henafol pan yn gwahaniaethu yn eu mysg eu hunain.**

**Os ceir y gwahaniaeth mewn càn lleied o MSS. ag i fod yn gyfartaledd bychan o ran awdurdod a rhif, ac os na attegir ef gan dystiolaeth o ddosbarth arall (cyfieithiad neu ddyfyniad), gellir ei ystyried yn wahaniaeth damweiniol. Ond lle mae gwir anghysondeb—amrywiaeth pendant yn y dystiolaeth—yna wrth ffurfio barn rhaid ystyried achosion arferol darlleniadau gwahanol, a'r math o gamgymeriadau yr oedd copïwyr yn dueddol iddynt; ac fel hyn yn fynych gellir ffurfio barn benderfynol.**

O'r rhai hyn enwir (1), Y duedd sydd mor amlwg mewn copïwyr i helaethu yr hyn a ysgrifenir ganddynt. Daw hyn i'r golwg yn y duedd yn yr Efengylau i gysoni yr hanes drwy ddwyn brawddegau i fewn o'r naill Efengyl i'r llall, ac yn neillduol hefyd yn y llythyrau at yr Ephesiaid a'r Colossiaid. (Gwel Lightfoot, *Colossians*, p. 246). Gwelir ef hefyd yn eu gwaith yn gwneyd y dyfyniadau o'r Hen Destament yn fwy cyflawn, yr hyn sydd amlwg iawn yn y llyfr y mae mwyaf o ddyfyniadau, sef y llythyr at yr Hebreaid. (2) Rheol Bengel, fod darlleniad anhawdd i'w gymeradwyo yn fwy nag un hawdd, gan y buasai copïwr yn naturiol yn dewis yr olaf. (3) Ceisio cael y darlleniad hwnw y gallasai y gweddill darddu o hono, ac na allai darddu o honynt hwy.

Arferir y rhai hyn a thebyg gyda'r llawysgrifau henaf yn y manau y maent yn ymddangos yn anghytûn o ran yr hyn sydd wedi ei ysgrifenu ynddynt. Mewn manau o'r fath hyny mŷn Dr. Scrivener ddwyn i fewn dystiolaeth y llawysgrifau diweddar; ond o herwydd eu bod, neu y rhan fwyaf o honynt, wedi tarddu o un ffurf ddiweddar ar y testun gosodir hwy gan Dr. Tregelles o'r neilldu, oddigerth y rhai y bernir fod eu testun yn hŷn na'r ffurf hono, ac y mae y rhai hyn yn rhifo dros ugain. Nid yw yn debyg y penderfynir y ddadl hon yn llwyr mewn byr amser, eto mae gwell dealltwriaeth yn dyfod, fel y gwelir yn y dôn yn ol pa un y cyfeirir at Tregelles yn awr ragor rai blynyddau yn ol, ac yn y cydddealltwriaeth sydd yn cynnyddu gyda golwg ar lawer rhan o ysgrifeniadau y Testament Newydd yr edrychid o'r blaen ar y gwaith o'u newid gydag ammheaeth.

Agorwn Destament Groeg Tregelles yn rhywle: ar ddamwain yr wyf yn agor ar Luc xxiv., ac edrychwn pa faint a gynnwysir mewn dwy ddalen. Ar y chwith, yn mhen uchaf y ddalen, enwir i ni y llawysgrifau sydd yn ffurfio y dystiolaeth gyda golwg ar y rhan hon, sef *deunaw* o'r hen rai a *thair* o'r rhai diweddar; ar y dde gwelwn y cyfieithiadau a gymharwyd—tair llawysgrif o'r Hen Ladin, y *Vulgate*, y tri cyfieithiad Syriaeg, dau gyfieithiad Aiphtaidd, cyfieithiad Ethiopia, ac un Armenia.* Mae y rhai hyn oll wedi eu chwilio gan y gŵr hwn, gan bwyso pob gair, ïe, pob sill, er cael gwybod beth a ddywedant am y gair sanctaidd, a hyny yn fynych pan ydoedd yn nghanol gwendid a chystudd, yn neillduol gwendid a phoen yn ei lygaid. Ffrwyth yr ymchwiliad manwl hwn yw y testun Groeg a

* Ar awdurdod Dr. Lightfoot, ac nid oes un uwch, rhaid addef fod rhai gwallau yn nyfyniadau Tregelles a Tischendorf o'r cyfieithiadau Aiphtaidd a Syriaidd.—*Colossians*, p. 246, *note*.

Lladin a geir yn gyfochrog, ac yn y Groeg nodau parhâus yn dangos pa fodd y mae yn gwahaniaethu oddiwrth y testun cyffredin. Ffrwyth yr ymchwiliad hwn a ddywedais: rhaid dyweyd ychwaneg o lawer; islaw mewn tair colofn gwelir wedi ei gofnodi yn fanwl bob gwahaniaeth yn y llawysgrifau Groeg a Lladin yn y naw cyfieithiad, ac yn y dyfyniadau a wneir gan yr ysgrifenwyr eglwysig, Groeg a Lladin. Dywed Tregelles ei fod wedi chwilio y rhai olaf hyn oll ei hunan o newydd, yr hyn a chwyddai y gwaith yn ddirfawr. "Dymunir ar y darllenydd," meddai, "sylwi ymha le bynag y gall na dderbynio fy nghasgliadau i gyda golwg ar y testun, ei fod yn cael yr holl dystiolaeth henafol *yn erbyn* fy marn i yn ogystal a *throsti.* Gall gwŷr duwiolfrydig o helaethach dysgeidiaeth, o fwy craffder, ac wedi eu cynnysgaeddu â defnyddiau helaethach er beirniadaeth, gyflawni mwy nag a wnaethum i, neu a wnaf byth; eto fe saif hyn (a digon yw yn sicr), i mi yn onest a gweddigar ymboeni yn yr iawn gyfeiriad, ac na bu y llafur hwn yn hollol aflwyddiannus."

Derbyniwyd y gwaith yn y wlad hon mewn rhai manau bron fel yr edrychid ar heresi; ond yn raddol ennillai athrylith wedi ei hennyn gan uchel barchedigaeth i'r gwirionedd, ac wedi ymroi i lafur eang, diflino a manwl, y dydd. Llefarai Tischendorf yn uchel iawn am dano. "Noble monument of faithful, enduring, and accurate labour in the cause of Truth," medd yr Esgob Ellicott. Dr. Cureton yr un modd a ddywed, "The only reliable printed text of the New Testament in existence." Crybwylla Tregelles ei hun yn gynhes a chariadus am y diweddar Ddeon Alford, ac am y ddau Ddoctor o Gaergrawnt, Westcott a Hort, sydd wedi llafurio mor llwyddiannus yn yr un eangder, manylder, ac amynedd ag yntau.*

Mae aceniad miniog yn fynych yn ei eiriau, fel y mae gwedd fwy dadleugar nag a ddymunid ar ei ysgrifeniadau; ond achosid hyn gan y gofid o deimlo fod llawer heb ei ddeall ef na'i egwyddorion. Mor chwith oedd iddo ddarllen yn ngwaith un o ysgolheigion yr Almaen nad oedd y testun a gyhoeddodd yn gyntaf o lyfr y Datguddiad yn ddim ond "cymysgiad o'r eiddo Griesbach a Lachmann," a hyn wedi ei holl ymdrech i esbonio ei egwyddorion.† Ennynai tân ynddo hefyd wrth weled, fel y tybiai ef, ddynion yn mynwesu traddodiadau nes eu cadw rhag chwilio, ac yn ddifater am y dystiolaeth a welai ef ymhob man yn cyfeirio at bur air Duw. Gofid y prophwyd neu y pregethwr oedd ei ofid, yn cynneu weithiau yn ddig. Ar droion y mae hefyd wên chwareus i'w gweled; megys, wedi dyfynu o'r *Edinburgh Review* eiriau un ysgrifenydd a ddywedai yn hyf, "nid oes neb, ni dybiwn, a dalodd sylw i'r mater yn ammheu, &c., &c.;" ychwanega Tregelles, "Yna myfi yw y neb hwnw."

Wedi ceisio dangos y llafur a welir yn Nhestament Groeg Tregelles,

* Yn y *Journal of Sacred Literature* am Hydref, 1852, Vol. III., gwelir un ysgrifenydd yn priodoli dybenion isel iawn i Tregelles ac eraill, megys mai dylanwad gwrthwynebiad i wyrthiau yr Ysgrythyrau a'i cymhellai i wrthod Ioan v. 2, 4 (am yr angel yn disgyn i'r llyn), a'u bod yn ddiffygiol mewn dyledus barchedigaeth i Air Duw ac yn euog o arfer ysgafnder. Nid allesid dyweyd dim mwy disail, na dim a friwai fwy ar deimladau mor lawn o zel a chariad duwiolfrydig a'r eiddo Tregelles.

† "Textum simpliciter ex Griesbachiano et Lachmanniano mixtum," Reuss, Bibliotheca Novi Test., p. 250.

yr ydys yn teimlo fod rhan fawr arall o'i waith yn aros heb ei dangos. Bu raid iddo ef deithio llawer dros Gyfandir Ewrop i ymweled â'r prif lyfrgelloedd i chwilio, cymharu, a chopïo llawer o'u llawysgrifau, gan nas gallai ymddiried i'r copïau printiedig, a'r cymhariaethau oedd wedi eu hargraffu o honynt;* a chan fod llawer iawn o lawysgrifau hefyd heb eu chwilio erioed. Rhoddwn yr adroddiad a ganlyn, wedi ei gasglu bron yn ngeiriau Tregelles ei hun, er gyda llawer o dalfyru, modd y gwelo y darllenydd pa fawrwaith a wnaed ganddo, pa zel, ïe, pa awyddfryd a'i meddiannai.†

Wedi cyhoeddi y Datguddiad Groeg a Saesoneg (1844) ymroddodd bron yn gyfangwbl i'r Testament Groeg. Canfyddai ei fod yn bwysig, pa bryd bynag y byddai yn ddichonadwy, i gymharu yr hen MSS. mewn priflythyrenau drosodd drachefn, mewn trefn i ochel, os yn bosibl, y camgymeriadau a ganfyddir mewn cymhariadau *(collations)* sydd ar gael. Y dull yr aeth ymlaen gyda'i gymhariadau oedd yr un canlynol :—Ceisiodd amryw gopïau o'r un argraffiad o'r Testament Newydd Groeg, fel y gellid cymharu yr holl MSS. yn fanwl gyda'r un testun. Pan y byddai MS. o'i flaen, nodai yn un o'r copïau bob gwahaniaeth, pa mor fychan bynag; nodai hefyd ddechreuad pob tu dalen, colofn a llinell, fel y gallai ddangos testun pob MS. a gymharai, linell am linell. Rhoddai hyn fath o sicrwydd i'w ymchwiliadau, a chedwid ef fel hyn rhag esgeuluso darlleniadau. Nodai yr holl ddarlleniadau ag ydynt gywiriadau gan law ddiweddarach, a'r holl ddileadau, &c., wrth ei hamdden. Cymharodd ei gasgliad â rhywrai eraill oeddynt wedi eu cyhoeddi yn flaenorol; a gwnaeth restr yn ei nodlyfr o'r holl amrywiadau (megys darlleniadau a roddid yn wahanol, neu ddarlleniadau na nodid gan gasglwyr blaenorol), yna äi dros y rhestr hon gyda y MS., gan ailchwilio yr holl ranau hyny; ac i ochel pob ammheuaeth, gwnai gofnodiad gwahanol o bob anghysondeb, fel ag i deimlo ymhob achos o'r fath sicrwydd perffaith gyda golwg ar ddarlleniadau y MS. Defnyddiai wrth gwrs gopi o Destament Groeg gwahanol i bob casgliad; pe amgen buasai nodiadau y gwahanol ddarlleniadau, dechreuad y llinellau, &c., yn achosi dyryswch dirfawr. Hefyd olrheiniodd un tu dalen cyfan mewn *facsimile* o bob MS. Ceid hyn yn fynych yn bwysig, oblegid ysgrifen y MS. ydyw un prawf er cael allan ei oed, &c. Heblaw y rhai hyn, chwiliodd a gwnaeth *facsimile* braidd o bob un o'r MSS. sydd wedi eu cyhoeddi, ac hefyd o'r testunau casgledig ac argraffedig. Yr oedd wedi cymharu y *Codex Augiensis* (F, Epistolau Paul) cyn myned ar y Cyfandir yn 1845, yn llyfrgell Coleg y Drindod, Caergrawnt, lle y cafodd fynediad i mewn trwy garedigrwydd y Parch. W. Carus. Mae hwn yn MS. pwysig, ac nid yw y cymhariad a gyhoeddwyd yn flaenorol ond rhanol, ac heb fod yn gywir iawn. Gan i rai dybied mai copi o'r *Codex Boernerianus* (G, Epistolau Paul) yn Dresden ydoedd y MS. hwn, neu *vice versa*, yr oedd o bwys gallu cymharu darlleniadau y MS. yma ymhob lle gyda rhai y *Codex* hwnw (cyhoeddedig gan Matthæi yn 1791). Tra y profai yr ail gymhariad hwn o F ei bod yn cytuno mewn llawer o leoedd â G, mewn darlleniadau na sylwasid arnynt o'r blaen, eto yr oedd yn eithaf eglur nad oedd yr un o'r MSS. wedi copïo oddiar y llall. Yr hyn sydd debygol ydyw i'r ddwy gael eu hadysgrifenu oddiwrth yr un cynysgrif.

Un amcan neillduol ganddo wrth fyned ar y Cyfandir ydoedd cymharu drosto ei hun y Vatican MS. (B). Cymharwyd y gynysgrif bwysig hon dros Bentley gan Italiad o'r enw Mico; cyhoeddwyd y cymhariad hwn yn 1799; wedi hyny cymharwyd hi (oddigerth Luc ac Ioan) gan Birch. Mae trydydd cymhariad (yr hwn a wnaed o flaen yr un o'r ddau uchod yn 1669), gan Bartolocce, yn aros mewn MS. yn Paris. Gan *mai hwn ydyw y pwysicaf o holl MSS. y Testament Newydd*, yr oedd efe wedi cymharu y ddau gymhariad cyhoeddedig yn fanwl y naill â'r llall; cafodd allan eu bod yn gwahaniaethu mewn agos i *ddwy fil* o leoedd. Aeth i Rufain, ac yn ystod y pum' mis y bu yno, ceisiodd yn ddiwyd am ganiatâd i gymharu y MS. yn fanwl, neu o leiaf i'w chwilio yn y lleoedd yr oedd Birch a Bentley yn gwahan-

* *Collations* y gelwir y rhai hyn yn Saesoneg, lle nad ydys yn copïo yr oll o lawysgrif, ond yn unig y manau y mae yn gwahaniaethu oddiwrth y testun arferedig.
† Tregelles, *Printed Text*, &c., p. 151.

iaethu mewn perthynas i'r darlleniadau. Diweddodd yr oll mewn siomedigaeth. Gwelodd y MS. droiau, ond rhwystrwyd ef i adysgrifio dim o'r darlleniadau. Modd bynag, darllenodd lawer o ranau, a nododd amryw ddarlleniadau pwysig. Fel hyn cafodd ei brif amcan yn myned i'r Vatican ei ddyrysu, "am yr hyn," meddai, "yr wyf yn gofidio yn fwy oblegid fy argyhoeddiad cynnyddol o werth a phwysigrwydd y MS. Vaticanaidd. Edrychais i mewn i amryw MSS. eraill yn llyfrgell y Vatican; ond nid oeddwn yn gallu chwilio ond rhanau neillduol. Un o'r rhai hyn ydyw y *Codex Basilianus* (B yn y Datguddiad), un o'r tri hen gopi sydd yn cynnwys y Datguddiad."

Sonia ymhellach am gymhariadau nid yn unig wedi eu cynnyg, ond wedi eu cwblhâu. Gwnaed y rhai hyn oll yn y dull a ddesgrifiwyd uchod. Yn Rhufain cymharodd y *Codex Passionei*, yn cynnwys yr Actau a'r Epistolau Cyffredinol (G), ynghyd ag eiddo Paul (I): mae y MS. yma yn y *Bibliotheca Angelica*, perthynol i fynachdŷ Awstin, i'r lle y cafodd fynediad trwy Dr. Guiseppe, Palermo, y llyfrgellydd. Yn Florence cymharodd y rhan sydd yn cynnwys y Testament Newydd o'r *Codex Amiatinus*, "MS. bwysig iawn o gyfieithiad Lladinaidd Jerome, perthynol i'r chweched ganrif. Yr oedd y *Codex Amiatinus* wedi ei gymharu yn flaenorol, mewn rhan gan Fleck ac mewn rhan drosto; mae y cymhariad hwn, modd bynag, mor ddiffygiol ac mor anghywir mewn llawer o ystyriaethau pwysig, fel na rydd ond syniad anmherffaith iawn o destun gwirioneddol y MS. ardderchog hwn. Ni rydd *facsimile* Fleck chwaith ddangosiad priodol o ysgrifen drefnus a phrydferth y MS." Yn Modena cafodd gynnorthwy gan Count Giovanni Galvani, llyfrgellydd y palas ducaidd, i ddefnyddio y *Codex Mutinensis*, 196. Yn Venice cymharodd y *Codex Manii* (U, yr Efengylau), sydd yn awr yn llyfrgell St. Marc. "Nid oedd yr un cymhariad o'r MS. yma wedi ei gyhoeddi o'r blaen, oddieithr rhai rhanau neillduol. Er fod y testun cyffredinol yr un a'r copïau diweddaraf, eto cytuna mewn llawer o darlleniadau nodedig â'r dosbarth Alexandriaidd o MSS. (neu henach)." Yn Munich cymharodd y *Codex Monacensis* (X) o'r Efengylau. Mae y MS. hwn yn awr yn llyfrgell y Brifysgol yn Munich, wedi ei symud gyda y Brifysgol yn gyntaf o Ingolstadt i Landshut, ac yna i'w lle presennol. Trwy garedigrwydd y diweddar Dr. Harter, un o'r llyfrgellwyr, cafodd ganiatâd i ddefnyddio y MS. hwn oddiallan i'r llyfrgell, yr hyn a leihäodd lawer ar ei lafur wrth ei gymharu. "Mewn cysylltiad â'r MS. hwn dymunaf gydnabod fy rhwymedigaeth i Dr. Scholys am y cynnorthwy a roddodd i mi yn ystod ei ymweliad â Lloegr, cyn fy mynediad ar y Cyfandir, trwy fy hysbysu pa le y gellid gweled y gwahanol MSS. (a'r un yma yn neillduol)." Yn Basle cymharodd y *Codex Basilensis* (B. VI. 21, E o'r Efengylau). "Heblaw cymharu fy nghymhariad fy hun â'r eiddo Wetstein, a gwirio pob gwahaniaeth, cefais gyfleusdra, trwy garedigrwydd Proffeswr Müller o Basle, i ddefnyddio cymhariad ag yr oedd ef ei hun wedi ei wneyd o'r MS. hwn." Cymharodd hefyd y rhan hono o'r MS., B. VI. 27, sydd yn cynnwys yr Efengylau (1). "Yr wyf yn ddyledus iawn i'r diweddar Broffeswr De Wette am ei garedigrwydd yn cael y MSS. hyn i mi allan o'r llyfrgell." Dychwelodd i Loegr yn 1846, yn siomedig yn wir gyda golwg ar MS. y Vatican, ar cyioff pryd yn teimlo yn foddlawn iawn nad oedd yr amser a gymerodd i ail chwilio ysgrifau eraill wedi ei wastraffu; *deallodd hefyd pa mor aml y buasai yn mynychu camgymeriadau rhai eraill pe na buasai wedi ail chwilio yr ysgrifau drosto ei hunan.* Yn 1847 cymharodd y *Codex Harleianus*, 5684 (G o'r Efengylau), yn yr Amgueddfa Brydeinig. "Mae rhan fechan o'r MS. yma yn llyfrgell Coleg y Drindod, Caergrawnt, yr hon a welais yn 1845, wrth chwilio llyfrau a phapyrau Bentley." Yn gynnar yn 1849 daeth, trwy garedigrwydd y Parch. W. Cureton, i afael â chopi Syriaidd pwysig a gwerthfawr iawn o ran o'r Efengylau, at yr hwn y dygodd ei sylw yn gyntaf oll ymysg MSS. yn yr Amgueddfa Brydeinig, y rhai a ddygwyd yno o'r mynachlogydd Nitriaidd. "Yr oedd yn werth fy mod wedi dysgu Syriaeg pe na buasai ond er fy ngalluogi i ddefnyddio cyfieithiad Syriaeg Cureton drosof fy hunan." Yn 1849 yr oedd yn alluog i fyned ar y Cyfandir drachefn i gymharu, a'r pryd hwnw arosodd amryw wythnosau yn Paris. Cymharodd yn gyntaf y *Codex Claromontanus* (D, epistolau Paul), MS. o werth mawr oblegid ei henafiaeth, ac hefyd oblegid ei destun; er wedi ei hysgrifenu yn brydferth, mae yn anhawdd ei gymharu o herwydd amlder y cywirwyr sydd wedi bod yn ymyryd â'r testun gwreiddiol. Mae y darlleniad cyntefig, fodd bynag, bron yn ddieithriad yn ddealladwy. "Mae y cymhariad o'r *Codex Vaticanus* a wnaed gan Bartolocci ymysg y MSS. yn y llyfrgell yn Paris (rhif 53): adysgrifiais ef fel cymhorth er deall yn gywir yr hyn a gynnwys y MS. hwnw." Yn nesaf dechreuodd gymharu y *Codex Cyprius* (K o'r Efengylau).

"Ond ymhen ychydig ddyddiau wedi i mi ddechreu cymerwyd fi yn wael iawn gan y *cholera*, fel na ellais fyned ymlaen am beth amser gyda fy nghymhariadau." Yn ngwanwyn 1850 dychwelodd i Paris, ac wedi gorphen cymharu y *Codex Cyprius*, cymerodd y Colbert MS. (2844). "Dyma y MS. y llefara Eichhorn am dano fel yn llawn o'r darlleniadau henaf a rhagoraf, ond nid oedd wedi cael y sylw a haeddai gan gymharwyr; tebygol i hyn godi oddiar yr ystâd ddrylliedig y mae ynddi, yr hyn sydd yn ei wneyd yn waith anhawdd iawn i'w gymharu yn gywir; mae mwy o amser hefyd yn angenrheidiol i wneyd y gwaith hwn nag a ddymunai y rhan fwyaf o'r rhai hyny a *chwiliant* MSS. yn unig ei wario ar un ysgrif. Yr wyf wedi cymeryd gofal neillduol i fod yn sicr o'r darlleniadau yr wyf yn eu dyfynu trwy ail chwilio gyda y MS. bob peth yr wyf yn gwahaniaethu ynddynt oddiwrth eraill. Yr wyf wedi cael peth profiad mewn cymharu MSS., ond ni bu yr un erioed mor flinderus i fy *llygaid* a dyhysbyddol i fy holl alluoedd ag ydoedd hwn." Wedi gorphen y MS. gwerthfawr hwn, cymharodd y *Codex Campensis* (M yr Efengylau), yna ail chwiliodd y *Codex Claromontanus* (D, Epistolau Paul), fel ag i gymharu ei gymhariad ef â'r eiddo Tischendorf, yn neillduol gyda golwg ar gywiriadau dwylaw gwahanol. Mewn trefn iddo allu ffurfio barn gywirach, gwnaeth *facsimile* o'r gwahanol fathau o gyfnewidiadau, ac yna dosbarthai y naill a'r llall yn ol fel y cytunent yn ffurf y llythyrenau, yr inc, &c. "Dygwydd fy llafur beirniadol yn Paris i derfyniad trwy wneyd *facsimiles* o'r MSS. a'r rhanau (heblaw y rhai a gymharwyd genyf fy hunan) L a W o'r Efengylau, ac H (rhanau Corslin) o Epistolau Paul. Mae testun y tair ysgrif hyn wedi ei gyhoeddi." Yn Hamburg cafodd, trwy garedigrwydd Dr. Petersen, ganiatâd i fyned i lyfrgell y dref am ddwbl yr oriau yr agorir hi yn gyffredin. "Yma cymherais y *Codex Seidelii* (H o'r Efengylau), yr hon na ddefnyddiwyd yn feirniadol, yn ol pob tebyg, er y cymhariad anghywir a diffygiol a wnaed gan Wolf. Hefyd cymherais ran Uffenbach o'r Epistol at yr Hebreaid (53 Paul) ddwywaith, gyda phob gofal a allwn. Wedi hyny aethum i Berlin, lle y gwelais lawer gwaith y Proffeswr Lachmann: yr oedd yn ddyddorol clywed ganddo ef ei hun eglurhâd ar ei gynllun, &c., yn ei Destament Groeg." O Berlin aeth i Leipsic, i gymharu ei gymhariadau ei hun â'r rhai a wnaed gan Tischendorf. "Er ein budd ein dau, cyferbyniais ein gwahanol gymhariadau o K, U ac X o'r Efengylau, o H a G (*Cod. Passionei*) o'r Actau, o'r Epistolau (*Cod. Passionei*). Hefyd ail gymherais fy nghymhariad o E o'r Efengylau âg eiddo Proffeswr Müller, yr hwn a welswn yn Basle bedair blynedd yn flaenorol, a chwiliais ef â chymhariad Tischendorf ei hun; y MS. 1 o'r Efengylau, a gymharwyd gan Dr. Rott, a chymherais ei eiddo ef â fy un fy hunan. . . . Gwnaethum restr o'r holl wahaniaethau, fel ag y gallwn eu hail gymharu yn y MSS. eu hunain, fel ag i sicrhâu (mor bell ag yr oedd yn bosibl) berffaith gywirdeb Yn Dresden chwiliais y *Codex Boernerianus* (G, Paul), yn enwedig y rhanau hyny ymha rai y gwahaniaetha ei destun, fel y cyhoeddwyd ef gan Matthæi, oddiwrth eiddo F. Mae tebygolrwydd y MS. hwn i'r *Codex Sangallensis* (Δ o'r Efengylau, cyhoeddedig mewn *lithographed facsimile* gan Rettig) yn fwy amlwg wrth edrych ar y MS. ei hun nag wrth edrych ar y siampl (*facsimile*) yn Matthæi." Ar ei daith yn ol i Loegr, chwiliodd ranau o ysgrifau anmherffaith o'r Efengylau P a Q yn y llyfrgell yn Wolfenbuttel. Pan yn myned trwy Holland cymerodd y cyfleusdra i chwilio yn Utrecht y *Codex Boreelii* (F o'r Efengylau). "Wrth siarad am y MSS. a gymherais fy hunan, gallaf nodi y diweddaf a chwiliais, *Leicentrensis* (69), yr hwn er nad yw yn hŷn na'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a gynnwysa destun sydd ar amryw gyfrifon yn *hen;* ac yr oedd yn ddymuniad amryw ysgolheigion i mi ail gymharu y MS. hwn, y pwysicaf o'r rhai diweddar sydd genym, yn y wlad hon. Trwy garedigrwydd Cynghor Trefol Leicester, a George Foller, Ysw., maer y dref ar y pryd, anfonwyd y MS. hwn i mi yn Hydref 1852 i'w ddefnyddio yn fy myfyrgell fy hun. Trwy y caredigrwydd hwn, sydd yn haeddu fy niolchgarwch gwresocaf, galluogwyd fi i gymharu y MS. gwerthfawr hwn yn ddirwystr. At y MSS. a chwiliwyd genyf, gallaf chwanegu y rhanau o adysgriflyfrau (*Palimpsest fragments*, Luc, R), ymysg y MSS. Nitriaidd yn yr Amgueddfa Brydeinig. Cynnwysant tump a deugain o ddalenau (o'r chweched ganrif, fel yr ymddengys i mi). Mae yr ysgrifen henaf mewn rhai rhanau yn bur anhawdd ei ddarllen, ond trwy drafferth gallaf mewn goleuni cryf wneyd allan bob llythyren."

Chwiliodd wedi hyn, gydag anhawsder mawr, ysgrif bwysig berthynol i'r Fibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor (*Codex Zacyntheus*, neu Ξ), yn cynnwys rhanau o Efengyl Luc, a chyhoeddwyd y testun mewn *facsimile* gan Mri. Bagster a'i feibion, yn 1861, dan ei olygiaeth ef. Cyn argraffu Epistolau Paul, cymharodd yn

Rhydychain y *cursive MS.* o'r Dadguddiad, rhif 1 (y gwreiddiol colledig o destun Erasmus). Cafodd rhai o'r MSS. a ddarganfyddwyd, ac wedi hyny a gyhoeddwyd gan Tischendorf, eu copïo a'u cymharu hefyd yn annibynol gan Dr. Tregelles: er engraifft rhanau o MS. Sinai, ℵ (yr Epistolau cyffredinol oll, a rhai rhanau eraill), a'r oll o'r rhanau hyny o MSS. yr Efengylau a ddynodir T ac A, y rhai a berthynant yn awr i lyfrgell Prifysgol Rhydychain. "Heblaw y MSS. a gymherais, neu a ail chwiliais, ymdrechais, a hyny gyda mesur o lwyddiant, i *adferu* yr hyn sydd yn weddill o adysgriflyfr Dublin (Z), o Efengyl Matthew."

"Wedi fy nychweliad oddiar y Cyfandir, yr wyf ar wahanol adegau wedi anfon i amryw lyfrgelloedd restrau o'r gwahaniaethau rhwng cymhariadau Tischendorf a'r eiddo fy hunan; ac o Basle, Munich, a Venice, derbyniais atebion dioed a boddhaol i fy ymofyniadau; fel ag y mae genyf brawf sicr mewn perthynas i'r darlleniadau ymhob lle o ammheuaeth." Ni buasai tynu allan adroddiad arbenig o ddarlleniadau y MSS. gan gymeryd y dyfyniadau o'r *cyfieithiadau* o argraffidau blaenorol, a rhoddi y dyfyniadau o'r Tadau yn gyffelyb ar awdurdod ail-law, ond gwaith cymharol hawdd. Ond nid dyna yr amcan er mwyn pa un y llafuriodd ef; yr oedd arno eisieu rhoddi yr *holl* ddarlleniadau a gefnogid gan hen MSS., ac nid detholiad yn unig. Ac ymhellach, ni theimlai yn foddlawn heb wneuthur ei oreu i roddi y dyfyniadau o'r cyfieithiadau gyda chymaint o gywirdeb ag oedd yn bosibl; "ac felly gwelais ei fod yn angenrheidiol i chwilio ac i ail chwilio ysgrifeniadau y Tadau (can belled. a chan gynnwys Eusebius), fel ag i beidio mynychu dyfyniadau heb wybod cysylltiad pob rhan o'r cyd-destun; o hyn y cododd traul fawr mewn amser a llafur." "Mae llawer o wirionedd yn y syniad a roddwyd gan Dr. Davidson, y byddai yn llawer gwell i swyddau cymharwr MSS. a golygydd y testun fod ar wahân, ond nid yw yr hyn sydd ddymunol bob amser yn ymarferol. Byddai yn llawer gwell i'r adeiladydd pe na byddai raid iddo weithio fel chwarelwr; ac eto os nad all gael ceryg trwy ryw ffordd arall, rhaid iddo eu cloddio ei hunan, os am adeiladu o gwbl. Os nad ellir cael yr hyn sydd âg angen am dano yn barod wrth law trwy lafur eraill, rhaid i'r dynion hyny, gwaith priodol y rhai yw cymhwyso y defnyddiau, fod eu hunain yn barotöwyr hefyd."

"Mae llawer o bynciau o ddyddordeb yn dal perthynas agos â'r adolygiad o'm gwaith: hyn a'm dygodd i gysylltiad â De Wette, dysgybl Griesbach, a'r hwn y bum yn cyfeillachu llawer yn Rhufain a Basle. Fel hyn hefyd y cyfarfyddais Scholz, yr hwn a'm hysbysodd cyn i mi adael Lloegr am y *lleoedd* yr oedd amryw MSS. wedi eu symud iddynt yn ddiweddarach. Dygwyd fi yn y modd hwn i gydnabyddiaeth â Lachmann hefyd, yr hwn ydoedd y cyntaf a wnaeth ymchwiliad yn annibynol ar awdurdod draddodiadol. Ac mae yr oll o'r rhai hyn, oddieithr yr olaf, ac nid y rhai hyn yn unig, ond hefyd Laurcani a Nolza, ceidwad y Vatican, Barletta o Venice, Harter o Munich, Cardinal Acton, ac eraill, i gysylltiad â pha rai y dygwyd fi trwy y cymhariadau, mewn ychydig flynyddoedd wedi gadael y byd daearol presennol. Yn y wlad hon hefyd bu fy llafur gyda y cymhariadau yn achlysur i'm dwyn i gysylltiad âg ysgoleigion nid ychydig: o'r rhai hyn gellir enwi un yn arbenig, y Patriarch—tad yr oll sydd wedi bod yn ymwneyd â llenyddiaeth gysegredig—Dr. Routh."

Ganwyd Tregelles yn Falmouth, Ionawr 13, 1813. Yr oedd o deulu Cwaceraidd, ac, fel y tystia ef ei hun yn un o'i lythyrau at Eben Fardd, o haniad Cymreig. Bu am chwe' blynedd (1828—1834) mewn rhyw swydd neu gilydd yn y gweithfeydd haiarn yn Neath Abbey, Sir Forganwg, ac felly gwelwn nas gallai fel gŵr ieuanc a ddechreuasai ar orchwylion y gwaith haiarn yn bymtheg oed fod wedi ennill llawer iawn yn y *Classical Grammar School* yn Falmouth. Eto hudwyd ei fryd yn hynod at astudiaeth o'r ieithoedd henafol, ac wedi treulio 1835–6 fel athraw yn Falmouth, ymroes ymhellach a llwyrach i'w efrydiaeth. Yn 1838 dechreuodd ar ei lafur ynglŷn â Beirniadaeth Fiblaidd yr Hen Destament a'r Newydd. Daeth yn ysgolhaig da yn yr ieithoedd Dwyreiniol; ac yn 1843 cyhoeddwyd ganddo *The Englishman's Hebrew and Chaldee Concordance to the Old Testament*, a'r *English Greek Concordance;* yn 1845, *Hebrew Reading Lessons;* yn 1857, *Gese-*

*nius' Hebrew and Chaldee Lexicon to the Old Testament* (cyfieithiad o'r German). Yn 1854 ymddangosodd y llyfr y gwnaed amryw gyfeiriadau ato yn yr erthygl hon, sef *An Account of the Printed Text of the New Testament.**

Wedi hyn ailysgrifenodd y bedwaredd gyfrol o Horne's *Introduction*, ac o'i ysgrifell ef y daeth amryw o'r erthyglau goreu yn Smith's *Dictionary of the Bible.* Yn 1857 y cyhoeddwyd y rhan gyntaf o'r Testament Groeg, yn cynnwys efengylau Matthew a Marc, a rhanau eraill yn 1861, 1869, 1870. Ond yn 1870 rhoes ail ymweliad y parlys derfyn ar weithgarwch y gŵr llafurus, pan yr oedd wedi estyn parotöad y rhan olaf o'r gwaith mor bell â'r bennod olaf yn Llyfr y Datguddiad, a chyhoeddwyd y rhan hon drwy gymhorth cyfeillion yn 1872. Un o'r rhai hyn oedd Dr. Hort, cydweithiwr Dr. Westcott, yr hwn, yn ychwanegol at arolygiaeth yr Attodiad a'r gwelliantau, a ysgrifenodd yn 1879 Ragdraethawd cyffredinol, gan ddyfynu o weithiau blaenorol Tregelles, rhag ymddangos fel un yn gosod i lawr ei opiniwn ei hun, tra y mae yr hyn a ddywed am dano yn dangos calon lawn o edmygedd, ac hefyd o rywbeth mwy cysegredig nag edmygedd. Y geiriau olaf gan Tregelles ei hun yw y canlynol: "Gyda llawer o foddhâd a diolchgarwch yr wyf yn abl i osod y rhan olaf o'r Testament Groeg yn nwylaw y cyfroddwyr, gan ddwyn i ben felly fy nghyfrifoldeb ynglŷn â'r rhan yna o air Duw—gwaith ag sydd wedi dyfnhâu fy argyhoeddiad o'i awdurdod Ddwyfol. Mae yn dda genyf ddyweyd fod hyn yn cael ei deimlo hefyd gan y rhai a'm cynnorthwyasant yn ngorpheniad y gwaith. Mae yr unoliaeth meddwl a dyben yma i mi yn beth i deimlo yn ddwys ddiolchgar am dano; fel tra y ceisia llawer iselhâu Gair a Gwirionedd Duw, saif hyn mor bell ag y mae yn myned yn dystiolaeth o'm tu i, a'r rhai a gydweithiasant â mi, i'w huchel awdurdod."

Yr oedd Tregelles a Tischendorf agos yr un oed, a bu y ddau farw o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd, y naill a'r llall yn syrthio dan bwys dirfawr llafur eu cariad.

HUGH WILLIAMS.

* "Gwaith nad oes gan yr Almaen yr un i'w osod yn gyfochrog âg ef, yr hwn, o'i gymeryd ynglŷn â'r bedwaredd gyfrol o Horne's *Introduction to the Critical Study and Knowledge of the Holy Scriptures*, a wna i fyny mewn rhan fawr am absennoldeb rhagdraethawd cyffredinol yn ei Destament Groeg."—Dr. Gebhardt, yn Herzog's *Encyclopædie*, II. 483.

# DAEAREG ARDAL BETHESDA.

PAPYR A DDARLLENWYD YN NGHYFARFOD CYMDEITHAS LENYDDOL A GWYDDONOL BETHESDA, TACHWEDD 29, 1883.

*Gan* MR. JOHN J. EVANS, *Goruchwyliwr Chwarel y Penrhyn.*

YR ydwyf yn ystyried ei bod yn anrhydedd i mi gael darllen y papyr cyntaf mewn cysylltiad â Chymdeithas Lenyddol a Gwyddonol Bethesda, ar Ddaeareg ymarferol ardal Bethesda, a hyny am fwy nag un rheswm, ac yn eu plith y safle uchel y mae Daeareg wedi ennill yn ngolwg y dosbarth mwyaf dysgedig yn y wlad hon a gwledydd eraill, a'r danganfyddiadau sydd wedi eu gwneyd drwyddi gyda golwg ar ddechreuad y drefn a welir wedi ei dadblygu mor gyflawn yn sefyllfa bresennol y ddaear a'r hyn sydd arni. Ac ni allwn anghofio fod y wyddor hon yn dal cysylltiad uniongyrchol â dygiad ymlaen yn llwyddiannus a phriodol y gangen hono o lafur ar yr hon yr ydym ni yn yr ardal hon, ac eraill o ardaloedd Arfon, yn dibynu am gysuron ac angenrheidiau bywyd.

Yn ei araeth agoriadol fe gyfeiriodd y Cadeirydd at y wyddor dan sylw, a rhoddes iddi le o anrhydedd ymysg y gwyddorau; hefyd fe roddodd gipdrem ar yr hyn a ddysgir gan y wyddor hon; a chyfeiriwyd ati hefyd mewn areithiau eraill yn y cyfarfod agoriadol fel cangen a ddylai gael sylw arbenig y chwarelwyr yn neillduol. Felly fe ymddengys i mi fod yn ein mysg gyd-ddealltwriaeth cyffredinol mewn cysylltiad â'r wyddor dan sylw, ac y mae hyny wedi bod yn galondid i mi ymdrechu ysgrifenu rhywbeth am dani. Fe allai mai amcan uchaf Daeareg ydyw chwilio i hanes y ddaear yn yr amseroedd a aethant heibio, yr hyn a ddarllenir yn y creigiau, yn y mynyddoedd, y moroedd, y llynau a'r afonydd, lle y canfyddir tystiolaeth o ddygwyddiadau a gymerasant le arni, a'r cyfnewidiadau y mae y ddaear wedi myned trwyddynt o'r adeg y dywedwyd am dani, "A'r ddaear oedd afluniaidd a gwag," &c., hyd yr adeg bresennol. Y modd yr ymdrechir darllen y tystiolaethau hyny ydyw drwy archwilio yr hyn a gyfansodda grawen y ddaear, cysoni y ffeithiau â'u gilydd, a thynu casgliadau rhesymol oddiwrthynt, fel ag y gwneir gyda phob gwyddor arall. Ond y mae i Ddaeareg amcan pwysig ymhellach, sef cyfarwyddo y mwnwr, y glöwr, ac hefyd y chwarelwr, pa fodd i ddyfod o hyd i'r trysorau sydd wedi eu rhoddi i'w cadw yn nghrawen y ddaear, er hyrwyddo masnach ac ychwanegu at gysur y ddynoliaeth, a gwneyd i fyny anghenion cymdeithas.

Mae yn anhawdd meddwl pa mor bwysig ydyw meddu gwybodaeth mewn amryw ganghenau o'r wyddor hon i'r rhai hyny ag y mae Rhagluniaeth wedi eu gosod i gyfarwyddo pa fodd y trefnir dygiad ymlaen

weithfeydd yn y canghenau o lafur a nodwyd. Nid yn unig y mae yn bwysig i'r personau hyny fydd yn darparu y *capital* tuag at gario ymlaen y cyfryw weithfeydd, ond hefyd i gymdeithas yn gyffredinol, ac yn neillduol yn y rhanau hyny o'r byd lle y mae gweithfeydd o'r fath. Yr wyf yn credu nad ydyw y wybodaeth hon yn fwy angenrheidiol mewn cysylltiad â hyrwyddiad yr un dosbarth o weithfeydd nag ydyw gyda llech-chwarelau. Nid wyf yn meddwl awgrymu fod yn angenrheidiol i chwarelwr, fel y cyfryw, fod yn deall ond pur ychydig o elfenau Daeareg tuag at iddo wybod pa fodd i droi darn penodol o graig yn llechi cyfaddas i'r farchnad; ond y mae yn wir angenrheidiol fod y goruchwyliwr sydd i drefnu y modd i gario yr holl waith ymlaen yn deall haenyddiaeth y creigiau, cysylltiadau yr haenau, y cyfeiriad y maent yn ei gymeryd, a'r symudiadau sydd wedi cymeryd lle ymhlith yr haenau, ynghyd a llawer o bethau eraill y deuir i gyfarfyddiad â hwy o dro i dro. Nis gallaf feddwl am ddim mwy effeithiol i brofi y gosodiad uchod na llawer o bethau y gellir cyfeirio atynt heddyw yn mhrif chwarelau Arfon, y rhai a ocheneidiant o dan y beichiau dianghenraid a roddwyd arnynt trwy ddiffyg gwybodaeth yn y personau hyny yr ymddiriedwyd trefnu y cyfryw weithfeydd i'w gofal o rai o egwyddorion cyntaf Daeareg; ac fe barhâ rhai o honynt i deimlo oddiwrth y diffyg hwnw ar ol i'r genedlaeth bresennol ddarfod oddiar y ddaear.

Un o'r darganfyddiadau pwysicaf a chyntaf mewn trefn yn y wyddor ydyw, fod yr hyn a elwir crawen y ddaear yn gyfansoddedig o haenau, y rhai, pan eu ceir heb eu cythryblu, a orweddant y naill ar y llall, rhai o honynt yn cael eu gwahanu gan ryw gymaint o ofod, eraill yn ymdoddi y naill i'r llall, fel nad ydyw yn amlwg pa le y mae y naill yn dechreu na'r llall yn dybenu; ac fe'u gwahaniaethir yn ol fel y gwneir i fyny y prif ddefnyddiau a'u cyfansoddant, hefyd wrth eu neillduolion, ac yn benaf wrth y gweddillion bywydol neu organaidd a ganfyddir ynddynt.

Y mae Daearegwyr wedi dosbarthu y gwahanol haenau a gyfansoddant grawen y ddaear, fel y perthynant i gyfnodau gwahaniaethol, yn y rhai yr oedd bywyd yn ymddadblygu mewn gwahanol ffurfiau ar y tir ac yn y dwfr. Gweddillion y cyfryw, sef llysiau, pysgod, adar, ac anifeiliaid, a waddodwyd yn y ffurfiadau a gasglwyd at eu gilydd yn yr adegau hyny yn oes y ddaear. Dosberthir y cyfnodau hyn ychydig yn wahanol gan wahanol bersonau; ond y dosbarthiad mwyaf cyffredin, fe allai, ydyw yr un sydd yn eu gwneyd yn dri dosbarth, sef, y Bywyd Henafol *(Palæozoic)*, y Bywyd Canol *(Mesozoic)*, a'r Bywyd Diweddar *(Cainozoic)*.

Mae y cyntaf wedi bod yn cael ei ranu yn ddau ddosbarth, a gelwid yr hynaf o honynt yn Ddechreuad Bywyd *(Eozoic)*, neu Wawr Bywyd *(Dawn of Life)*. Ond erbyn hyn y mae ymchwiliad a sylwadaeth wedi dangos fod bywyd mewn cyflawnder yn bod, hyd yn nod yn yr haenau a ystyrid unwaith yn amddifaid o hono, ac yn awr ni wahaniaethir hwn fel cynt; ac mewn gweithiau diweddar drachefn nid ydyw y cyfnod "Bywyd Diweddar" yn cynnwys y Bywyd Presennol, a therfynir y cyfnod hwn yn y *Newer Pliocene*, gan adael amryw gyfnodau o ddyddordeb neillduol—yn cynnwys cyfnodau y *Glaciers*, y *Moraines*, gweddillion dynol, ac arfau celfyddyd—i ffurfio cyfnod diweddarach

drachefn. Mae y cyfnod cyntaf, sef cyfnod y "Bywyd Henafol," yn cynnwys yr oll o'r haenau i fyny i'r *New Red Sandstone*; a'r ail, sef y "Bywyd Canol, neu ailraddol," yn rhedeg oddiyno i'r *Chalk;* a'r trydydd, sef y "Bywyd Diweddar," yn cynnwys yr oll o'r ffurfiadau diweddarach, hyd at y *Newer Pliocene*, fel y nodwyd o'r blaen.

Y mae gweddillion y creaduriaid a ganfyddir yn y gwahanol gyfnodau hyn yn afrifed; felly ni bydd i mi yma grybwyll yr un o honynt, ond cyfarwyddo y sawl sydd yn teimlo dyddordeb ynddynt i geisio llyfrau i'w hastudio ar y rhan hon o'r wyddor. Ni fwriedais fod i'r dosbarthiad uchod amcan pellach na roddi cipdrem ar yr egwyddor yn unol â pha y mae Daearegwyr yn sylfaenu eu deddfau ac yn dwyn ymlaen eu gweithrediadau.

Y mae pob un o'r dosbarthiadau a nodwyd yn cael eu rhanu i lawer o îs-raniadau, ac amryw o'r rhai hyny drachefn yn cynnwys ynddynt eu hunain *drwch* enfawr o ddaear, cyfartal i uchder y mynyddoedd uchaf yn Ewrop, a rhai o honynt yn fwy na hyny. Ac nid ydwyf ychwaith yn bwriadu myned i'r mater yn gyffredinol, ddim mwy nag y tybiwn a fyddai yn ddigon i'n harwain yn naturiol at Ddaeareg y rhan yma o'r wlad. Yr wyf yn amcanu i'r nodiadau fod yn fwy ymarferol na damcaniaethol. Felly ni a sylwn ar ran o'r Dosbarth cyntaf, sef y "Bywyd Henafol" *(Palæozoic)*, neu Gwawr Bywyd.

Y *Laurentian* y gelwir y ffurfiad hynaf yn y dosbarth dan sylw, yr hwn sydd i'w gael yn gorff mawr iawn yn Canada, ac felly i raddau yn Ysgotland; ond nid wyf yn deall fod dim o hono yn Nghymru. Y *Cambrian* a ystyrid hyd yn diweddar fel y nesaf at y *Laurentian*, ond yr wyf wedi cael lle i feddwl fod rhai Daearegwyr erbyn hyn yn *tybied*, y fan leiaf, fod ffurfiad arall yn bodoli, a hyny yn Môn ac Arfon, yr hwn a saif yn îs yn y ffurfiadau na'r *Cambrian*; gelwir ef, *Pre-Cambrian*, a rhenir ef i ddau o îs-ddosbarthiadau, sef y *Dimetian* a'r *Pebidian*, ac y mae i'w ganfod rhwng Bangor a Llanddeiniolen, ac hefyd yn Sir Fôn mewn amryw fanau. Ond ar y *Cambrian* yn unig y bydd i mi ymdrin yn awr.

Mae y dosbarth hwn o greigiau i'w gael yn helaeth yn Nghymru, y wlad oddiwrth yr hon y cafodd ei enw presennol. Y mae yn ffurfio rhanau helaeth o siroedd Môn, Arfon, Meirion, Aberteifi a Penfro; hefyd y mae yn llawn mor helaeth, os nad mwy felly, yn Sir Amwythig nag un man arall, a buwyd yn ei alw am amser, *The Longmynd Formation*, am ei fod i'w gael mor helaeth yn y rhan hono o'r wlad, lle y dywedir ei fod yn llawn 30,000 o droedfeddi o ddyfnder,—dyfnder mwy wyth waith nag uchder y Wyddfa uwchlaw y môr. Rhestrid ef y pryd hyny gyda'r *Lower Silurian*, ond pan ddaeth ei bwysigrwydd yn fwy amlwg, cafodd yntau enw mwy cyffredinol, sef y *Cambrian*.

Yn Arfon y mae yn cael ei derfynu yn ei ffurfiad isaf gan y *Porphyry* Mawr sydd i'w ddilyn yr ochr ddeheuol i'r *Dinlle and Aber Fault* o Landegai hyd blwyf Clynnog; a'r haen uchaf o hono yw y *Lingula Slab*, yr hon a orwedd odditan y *Tremadoc Slate*, a'r hon a ganfyddir yn yr ardal hon yn agos i Ty'nymaes a Maes Caradog.

Mae y dosbarth hwn, fel agos bob dosbarth mawr arall, yn cynnwys y ddau brif ddosbarth o greigiau, sef y creigiau dyfrol *(aqueous rocks)*,

a'r creigiau tanol *(igneous rocks)*: y cyntaf, y creigiau hyny a waddodwyd neu a ffurfiwyd trwy wasanaeth dwfr, a'r diweddaf, y rhai a ffurfiwyd trwy wasanaeth tân; a chynnwysa hefyd lawer o'r creigiau a elwir trawsnewidiol *(matamorphic rocks)*, y rhai a ffurfiwyd ar y cyntaf drwy wasanaeth dwfr, ond wedi dyoddef cymaint o ddylanwad gwres, fel erbyn hyn y mae yn anhawdd eu gwahaniaethu oddiwrth y creigiau tanol.

Y mae y creigiau dyfrol bob amser i'w canfod yn haenol; ond nid yw y creigiau tanol bob amser felly, oblegid ceir hwynt yn ffurfio *Pyst (Basalt Dykes)*. Hefyd fe'u canfyddir wedi rhedeg yn dalpiau mawrion, afreolaidd, yn gymysg â'r haenau, ac yn tori, lle y dygwyddant, ar barhâd naturiol y cyfryw. Gelwir y rhai hyn yn "greigiau trawsymwthiol" *(intrusive rocks)*, am eu bod yn ymddangos yn meddiannu lle a berthynai i greigiau eraill. Ond y mae o bwys i ni gofio mai yn haenol y canfyddir y rhan fwyaf o'r creigiau a ffurfiant grawen y ddaear. A thuag at ddeall eu cysylltiadau, y mae yn angenrheidiol i ni ystyried mai felly y ffurfiwyd y rhan fwyaf o lawer o honynt.

Ond rhag myned i fanylu ar hyn, dymunwn i chwi ei gymeryd yn ganiataol ar hyn o bryd; fe allai y cawn drafod yr achos ar ol hyn. Credir fod yr oll o'r creigiau yma wedi eu gwaddodi mewn dwfr, ac ymddengys eu bod, ar y cyfan, yn cael gwelyau lled wastad. Cesglir hyny oddiwrth yr unffurfiaeth dyfnder a geir yn y gwahanol haenau, y rhai a gadwant agos yr un maintioli am bellderoedd mawr yn y naill ran a'r llall o'r wlad. Erbyn hyn y mae yr haenau wedi eu tori, eu codi, a'u gostwng, fel yr ymddengys ar y cyntaf nad oes drefn arnynt; a thuag at eu deall a'u hadnabod, y mae astudio y symudiadau hyn yn hollol angenrheidiol. Y mae rhai o honynt mor fawr, fel mai anhawdd, ar lawer tro, fydd gallu gweled y berthynas sydd rhwng un ran o'r ddaear a'r rhan arall o honi. O herwydd y symudiadau hyn, y mae y chwarelwr yn aml yn gwrthod cydnabod mai yr un yw llawer o'r haenau yn y gwahanol fanau y deuir ar eu traws. Ac y mae yr anhawsder yn fwy yn y creigiau hynaf nag yn y creigiau diweddaraf; o herwydd fe ymddengys yn ddigon sicr, fod llawer mwy o gynhyrfiadau wedi cymeryd lle yn y cyfnodau cyntaf nag yn y cyfnodau diweddaf, a'r creigiau hynaf hyn ydynt y creigiau y mae y chwarelwr yn troi ynddynt.

Mae y chwarelwr yn Arfon, beth bynag am ardaloedd eraill, wedi mabwysiadu y syniad fod corff y llechi yn rhedeg yn yr un cyfeiriad, neu yn agos felly, â chyfeiriad *hollt* y llechfaen, ac nad ydyw yn daenedig i un cyfeiriad arall, pryd mai damwain yn unig ydyw ei chael felly. Y mae egwyddor yr haenau yn milwrio yn erbyn hyn, oblegid y mae haen yn beth taenedig, heb hŷd na llêd mwy na'u gilydd iddo, ond yn unig y gwely ar yr hwn ei gwaddodwyd; tra y mae yr hollt yn effaith i achos neu achosion o'r tu allan i fodolaeth y graig mewn unrhyw gyfeiriad neillduol, ac yn beth a gymerodd le yn ddiweddar mewn cyferbyniad i'r adeg y ffurfiwyd corff y llechi.

Cyn dechreu sylwi yn fanwl ar yr un o'r haenau a wnant i fyny y creigiau Cambriaidd, dymunwn adgoffa fod y daearegydd yn adnabod, yn trefnu ac yn dosbarthu pob haen, yn ol fel y mae yn canfod gweddillion bywydol ynddynt, neu yn ol amddifadrwydd o'r cyfryw olion,

ynghyd a'u cysylltiad â haenau eraill oddiarnynt ac odditanynt, ac hefyd yn ol natur y prif ddefnyddiau a ffurfiant y cyfryw. Y mae ein creigiau ni yn yr ardaloedd yma yn lled amddifad o'r gweddillion hyn, ac felly yr ydys o dan orfodaeth i ymdrechu adnabod y gwahanol haenau llechi wrth natur eu cyfansoddiad ac oddiwrth yr haenau adnabyddus a orwedd arnynt ac odditanynt; ac o herwydd ymwneyd parhâus y chwarelwr â chreigiau, y mae ef yn meddu mantais nad ydyw y daearegydd cyffredin yn ei meddu yn y cyfeiriad hwn. Y mae yn ddiammeu y gŵyr llawer sydd yma yn bresennol am lïaws o neillduolion mewn gwahanol lechi, y rhai nad oes dim ond profiad, a hwnw wedi ei gychwyn yn lled foreu yn yr oes, a alluoga unrhyw ddyn i'w ddeall. Y mae y Proffeswr Ramsay, yn ei *Memoirs of a Geological Survey of North Wales*, yn crybwyll am amgylchiad a ddygwyddodd iddo ef yn yn Llanberis gyda y diweddar Mr. Griffith Ellis. Dywed fod Mr. Ellis yn gallu dyweyd i ba rai o'r haenau y perthynai gwelyau llechi yr Allt Wen, drwy ei fod yn adnabod y gwythienau *(bands)* neillduol oedd ynddynt, pryd yr oedd yn anmhosibl dilyn cwrs y gwely o herwydd symudiadau yn y *faults* yn y lle hwnw; ac wrth ddarllen desgrifiad daearegwyr galluog o'r creigiau llechi, yr ydys yn gorfod teimlo yn aml eu bod yn cael eu hamgylchynu âg anhawsderau nad ydynt o un rhwystr i'r chwarelwr profiadol a llygad-agored.

Ond dylem gofio nad ydyw yr oll o'r creigiau yn y dosbarth dan sylw yn amddifad o *fossils*, oblegid ceir dosbarth a elwir *Crusiana Simplicata*, ac eraill, yn nghreigiau Carnedd y Filiast, yn yr Elidir, ac yn Llanllechid, yn agos i Danydderwen, a chreigiau Tanygarth, y rhai a berthyn i'r *Lingula Slab*, ac y maent yn hysbys mewn rhanau eraill o'r wlad, lle y mae yr haen hono i'w chanfod. Y mae daearegwyr y blynyddoedd diweddaf wedi bod yn llafurio ac yn trefnu eu gweithrediadau braidd yn llwyr ar sail y *fossils* a ganfyddant. Y mae hyny yn awgrymu i ninnau mai dyma y ffordd sicraf, os nad y rwyddaf, i ddyfod i benderfyniad i ba ddosbarth y perthyn y gwahanol greigiau. Ond diau y gellir gwneyd camgymeriad y naill ffordd neu y llall, oblegid canfyddir ambell i haen yn doreithiog o *fossils* mewn un man, ond wrth symud gyda hi ychydig bellder o'r fan hono fe'i canfyddir braidd yn hollol amddifad o'r cyfryw; o'r ochr arall y mae cyfnewidiadau yn ymddangosiad allanol yr haenau ag sydd yn camarwain y chwarelwr drachefn.

Yn awr ni a sylwn ar y gwahanol haenau a gyfansoddant y *Cambrian Formation* yn yr ardal hon. Dechreuwn yn y Felin Hen, oddeutu tair milldir i'r dehau o Fangor, yn agos i'r man y mae y *railway station* i fod, lle yn ddiammeu y croesir y wlad gan y *Dinlle and Aber Fault*. Yr wyf yn meddwl fod ambell *fault* yn cael ei rhoddi ar y mapiau weithiau, pryd y methir esbonio symudiadau y creigiau yr un ffordd arall; ond yma mae y symudiad yn nghrystyn y ddaear mor fawr fel nas gellir ei gamgymeryd am ddim arall. Yn *cutting* y rheilffordd fe ganfyddir y *Conglomerate* isaf yn y ffurfiad hwn (y *Cambrian)*; ond wrth symud i waered i'r ffordd sydd yn arwain o'r Felin Hen i Landegai, yr ydym yn dyfod o hyd i un o'r ffurfiadau a ganfyddir yn Nant Ffrancon, yn nghymydogaeth Tŷ Gwyn a Maes Caradog, y rhai sydd yn gorwedd *ar* ffurfiadau uchaf y *Cambrian* drwy y wlad. Felly rhaid fod

y darn gwlad sydd yn sefyll i'r gogledd i'r *fault* hon wedi disgyn o saith i wyth mil o droedfeddi, neu fod y rhan a saif yn ddeheuol iddi wedi ei dyrchafu yr un uchder, sef mesur cyfartal i drwch yr haenau a orweddant rhwng y ddwy haen a nodwyd. Ac am fod yn y fan hon derfyn mor amlwg yn yr haenau, tybiais ei bod yn fanteisiol i gychwyn ein sylwadaeth arnynt o'r lle hwn.

### Y CONGLOMERATE

a ganfyddir yma. Y mae y gwely hwn yn gorchuddio llain helaeth o dir mewn cyfeiriad deheuol. Dilynir ef heibio Moel y Ci i ardal Dinorwig, a thrwy y llynau i fynydd y Cefn Du, er ei fod wedi newid yn ei faintioli a'i ansawdd erbyn dyfod yno. Nid wyf yn sicr nad efe ydyw Craig y Gareg Fawr yn Nant y Bettws, Carnedd Moel Tryfan, a chopa y Cilgwyn; ac hefyd fe'i ceir yn Mryniau Bangor, tua'r gogledd. Yn y Felin Hen a'r gymydogaeth y mae y gwely hwn yn cael ei wneyd i fyny o gnapiau o geryg o wahanol faintioli, yn amrywio o hanner modfedd hyd ddwy neu dair troedfedd o drawsfesur, a'r gwagleoedd rhyngddynt wedi cael eu llanw gan raian, llaid, a chlai, ac mewn rhai amgylchiadau gan hylif tanllyd *(lava);* ac yr wyf yn meddwl fod agos yr oll o'r corff hwn yn dangos arwyddion ei fod mewn rhyw ffordd wedi dyoddef gwres mawr. Y mae y cnapiau ceryg a geir yma yn amrywio llawer yn eu defnydd; lliaws o honynt yn *grits* o wahanol natur, ac eraill yn geryg tân; ond nis canfyddais hyd sicrwydd fod dim gweddillion llechi i'w cael yma, fel y ceir yn yr un gwely yn fwy deheuol yn y wlad. Y mae y ceryg a geir yma wedi eu llyfnhâu, yn ddiau trwy gael eu rholio mewn dwfr a'u curo y naill yn erbyn y llall, fel y canfyddir ceryg ar làn y môr yn bresennol. Diammeu eu bod yn rhanau o greigiau a fodolent yn rhywle, heb fod ymhell oddiyma, mewn cyfnod pell pell yn ol, cyn yr adeg y gosodwyd hwy yn eu gwely presennol, pa bryd bynag y cymerodd hyny le. Y mae llawer o honynt yn dwyn tebygrwydd o ran eu defnydd i'r creigiau a welwn yn awr yn y wlad, ond er hyny y mae digon o resymau i'w cael nas gallent fod yn perthyn i'r cyfryw. Nid wyf yn meddwl y canfyddir dim olion bywyd yn y ffurfiad hwn; felly yr unig ddyddordeb a all fod yn perthyn iddo ydyw henafiaeth y defnyddiau a'i cyfansoddant; y gallu oedd yn angenrheidiol i falurio y creigiau o ba rai eu torwyd allan; o ba le y daethant; yr amser oedd yn angenrheidiol i dreulio ei geryg i'r sefyllfa gaboledig y maent ynddi yn awr; ac hefyd am mai efe, yn yr ardal hon, ydoedd y cryd ar yr hwn y mae y llechfaen hynaf yn y *Cambrian Formation* yn gorwedd, sef

### Y LLECHFAEN WERDD ISAF.

Mae yr haen hon yn ffurfio y bryniau oddeutu Tregarth, y Dinas, a manau eraill yn Llanllechid. Tybiaf fod y gwely hwn yn fwy lleol na'r un o'r gwelyau llechi eraill yn y *Cambrian.* Dilynwn ef oddiyma i Lanberis, ond yno y mae wedi teneuo i raddau mawr; ac nid wyf yn meddwl y deuir o hyd iddo yn fwy deheuol na hyny yn un man yn y sîr hon. Nid wyf yn meddwl fod ond ychydig o ddefnydd yn cael ei wneyd o

hono o gwbl. Yr unig ddefnydd a wneir o hono, mor bell ag y mae yn wybyddus i mi, ydyw yr ychydig at wneyd *Hones* yn Chwarel y Penrhyn, lle y canfyddir corff mawr o hono yn y *tunnels* sydd yn arwain o shefftydd y *Water Balances* i'r chwarel. Buaswn yn argymhell fel mater i chwilio iddo, A ydyw yn bosibl mai yr un yw yr haen hon a'r graig hono a ganfyddir yn Sir Fôn, yn sefyll rhwng y Garth Ferry a Beaumaris,—pan fydd rhai o honoch yn cymeryd pleserdaith y ffordd hono. Cefais y pleser o fyned dros y rhan hono o daith y *Geological Society*, gyda y cwmni yr haf diweddaf, ac yr oedd y *Professor* McKenna Hughes yn galw y graig hono yn *Mud Stone*; ac yr wyf yn meddwl fod y graig hono yn Sir Fôn, a hon yn Arfon, yn sefyll yn bur agos i'r un safle yn y ffurfiad cyffredinol yn y naill le a'r llall, heblaw fod llawer o debygrwydd yn y defnyddiau a wnant i fyny y ddwy graig. Ond nid ydwyf yn deall fod neb wedi canfod olion bywyd yn y naill na'r llall, er dyfod i benderfyniad arnynt yn y dull hwnw.

### Y GRITS A'R QUARTS PORPHYRY.

Yn gorwedd ar y gwely llechi gwyrdd y soniwyd am dano ddiweddaf, ni a ganfyddwn y *Grits* a'r *Quarts Porphyry*, yn nghymydogaeth yr Hafottŷ, Parc y Moch, Coetmor, Ty'nyclwb, Cilgeraint, y Felin Fawr, gwaelod tir Brynderwen, ac yn agos i Trosyffordd, lle y mae wedi ei dyllu gan y shefftydd a'r *tunnels* yn y chwarel, ac y dengys ei hunan helaethaf i'r fantais o'i archwilio. Nid ydyw y graig hon, fel yr haen a ddesgrifiwyd islaw iddi, ond ffurfiad lleol, oblegid ni chanfyddir ond pur ychydig o honi wedi rhedeg mor bell ag ardal Dinorwig; ac y mae yn ammheus genyf nad ydyw wedi teneuo ymaith cyn cyrhaedd drwy Nant Peris, i'r ochr ddeheuol i'r llynau. Mae y graig hon o ran ei defnydd yn dânol *(igneous)*, yn cael ei nodweddu yn arbenig gan y *spar* sydd mor gyffredinol wedi ymwau drwyddi i bob cyfeiriad, ymhob man y deuir o hyd iddo. Y mae hefyd mewn rhai manau yn dangos tuedd raianog ac ithfaenol, o liw gwyddlas, ac yn ddefnydd da a hardd at adeiladu. Gofyniad sydd yn codi yn naturiol mewn cysylltiad â'r graig hon, ydyw, Beth sydd wedi achosi fod cymaint o *spar* ynddi? Mae yn ddilys genyf fod defnydd y graig hon yn dânol, ac wedi ei fwrw i fyny o ganol y ddaear pan mewn ansawdd hylifol drwy yr agenau a dorwyd yn y grawen gan wahanol achosion cydfynedol â deddfau defnydd; ac wrth i'r defnydd hwnw oeri, yr oedd yn unol â deddf sydd yn ddigon hysbys yn ei gweithrediadau, yn "cwtogi," ac o angenrheidrwydd yn cracio mewn pellderau penodol, a thrwy hyny yn gadael gwagleoedd yn y graig; y rhai a lanwyd i fyny mewn amser gan ddefnyddiau calchog ac eraill, y rhai a ffurfient y *spar* a'r *crystal* yn gyffredinol; ac felly y sefyllfa anarferol o wres yr oedd y defnydd ynddo pryd y daeth i fyny o grombil y ddaear a fu yr achlysur o'r toriadau a welir yn awr wedi eu llanw â'r *spar* caled a grisialaidd y crybwyllwyd am dano.

### GWELY LLECHI MAWR ARFON.

Yn awr yr ydym yn dyfod i derfynau prif wely Llechi Arfon, os nad

prif wely llechi yr holl fyd. Mae y gwely hwn, fel y gwelir, yn gorwedd yn yr ardal hon ar y *Quarts Porphyry*, ac yn cael ei derfynu oddiarno gan y *Cambrian*, neu yr "Harlech Grit." Yn unol â'r mesuriadau a wnaethum o hono dair neu bedair blynedd yn ol, yr wyf yn canfod ei fod oddeutu 2850 o droedfeddi o drwch, neu o ddyfnder. Nid gorchwyl hawdd ydyw penderfynu dyfnder pob un o'r haenau a'i cyfansoddant, a hyny o herwydd y symudiadau mawrion sydd wedi cymeryd lle yn llawer o'r *faults* a ganfyddir ynddo, fel y gŵyr y rhan fwyaf o honoch. Nis gellir canfod dyfnder cyflawn rhai o'r haenau yn yr un man, felly y mae yn rhaid eu cymeryd bob yn ddarn, fel eu canfyddir wedi eu dadblygu; a thrwy ddodi y rhanau hyn at eu gilydd, a chymeryd i ystyriaeth *dip* yr haenau, yr oeddwn yn cael fod yr oll o'r Corff Llechi hwn, gydag ychydig gyrff eraill sydd yn y Chwarel, yn gwneyd i fyny y dyfnder mawreddog y cyfeiriwyd ato; yr hyn sydd gyfartal i uchder Carnedd y Filiast uwchlaw lefel y môr.

Yr ydwyf yn barnu y dylid rhanu y corff llechi hwn yn unol a threfn gyffredin daeareg, i dri o brif gyfnodau neu ddosbarthiadau. Y cyntaf yn dechreu oddiar y *Quarts Porphyry* hyd at yr hyn a elwir gan y chwarelwyr yn "Wenithfaen Coch," yr hyn a gymer i fewn yr oll o'r "Llechfaen Las Isaf," a'r "Llechfaen Goch." Yr ail o'r Gwenithfaen Coch hyd at y graig a elwir "Gwenithfaen Ponc Lefel," a "Twll Dwndwr," yr hyn a gynnwys y llechfeini a elwir "Yr Hen Las," "Y Goch Rywiog," a'r "Goch Grychlyd," fel eu hadnabyddir yn y Chwarel. A'r trydydd o'r graig ddywededig hyd y *Cambrian Grit*, yr hyn a gynnwys yr oll o'r creigiau a elwir yn "Fastard Caled a Rhywiog," ac yn uchaf, yr Haen Werdd, yr hon a orwedd yn uniongyrchol islaw y *Cambrian Grit*, yr hon a welir yn y rhan hono o'r chwarel a elwir y "Crimea," &c.

Gwnaethum y rhaniad hwn arnynt am nad ydwyf yn canfod yr un corff o bwys heb fod o natur lechog yn yr oll o'r ffurfiad mawr hwn oddiwrth y ddwy haen a nodwyd, sef y Gwenithfaen Coch, a chraig galed Ponc Lefel a Twll Dwndwr. Ond dylid cofio y gellid rhanu pob un o'r dosbarthiadau a nodwyd i ugeiniau o îs raniadau, pob un o ba rai a gynnrychiolant gyfnod penodol o amser, a llawer, mae yn ddiau, wedi cymeryd amser maith iawn i'w ffurfio; canys fe ddengys y defnydd o ba un y mae amryw o honynt wedi eu gwneyd i fyny, eu bod wedi eu hidlo yn fanwl gan weithrediadau pwyllog natur. Y mae pob gofod sydd rhwng yr hyn a eilw chwarelwyr y Penrhyn yn "lasiau" gwynion a chaled, yn cynnrychioli cyfnod, a phob un o'r glasiau hyny hefyd yn marcio cyfnod neu ddygwyddiad penodol mewn cyfnod yn hanes y ddaear.

Nid ydym yn canfod ond gweddillion o'r dosbarthiadau isaf a'r canol, sef y cyntaf a'r ail ddosbarth, yn ogledd-orllewinol i Cilgeraint; ond y mae y trydydd dosbarth, sef yr uchaf o'r tri yn y ffurfiad, wedi ei lwyr olchi ymaith oddiyno, fel nas canfyddir olion o hono. Ceir ychydig o'r dosbarth canol yn agos i Bodfeirig, ar ben y Gwenithfaen Coch, ac hefyd yn nhir Ty'nyclwt, uwchlaw ffordd haiarn y Penrhyn, lle y buwyd yn cloddio am lechi yn yr hen amseroedd. Canfyddir y rhai hyn mewn pantleoedd a ffurfiwyd trwy godiad osgöawl yr haenau, y rhai a gadwyd rhag cael eu llwyr ddifa oddiyno trwy gael eu cysgodi

gan y *Quarts Porphyry* caled a ddyrchafwyd yr ochr orllewinol iddynt. A chyn myned i edrych arnynt i'r chwarel, fe ddylêm grybwyll fod yr oll o'r corff llechi a welir heddyw yn Chwarel y Penrhyn, i'w gael yn y darn tir a orwedd mewn llinell, yn rhedeg o Glanmeurig i gyfeiriad Tai'r mynydd ar un ochr, ac o Brynderwen i gyfeiriad Capel Amana yn yr ochr ogledd-orllewinol; ond y mae llawer o honynt erbyn hyn wedi eu gorchuddio gyda *rwbel* a daflwyd o'r chwarel yn y cyfeiriad hwnw. Chwi a sylwasoch yn ddiau mai yr un graig yw craig galed y Castell a Brynderwen bach â chraig galed y Fronllwyd, uwchlaw y "Crimea;" ac mai yr un yw yr haen werdd yn agos i Glanygors, ac hefyd ger Braichgwair, â Llechfaen Werdd y Crimea; islaw y rhai hyn, chwi a ddilynwch yr oll o'r haenau yn y darn tir a nodwyd fel y dilynir hwy yn y chwarel. Felly wrth hyn, a'r hyn a ddywedwyd o'r blaen mewn cysylltiad â'r creigiau yn ogleddol a gorllewinol i Cilgeraint, fe welir fod y corff llechi unwaith yn un dros yr holl ardal, ond iddo gael ei dori a'i wahanu, y fan leiaf i bedwar dosbarth, sef trwy i'r *Quartz Porphyry*, a ddesgrifiwyd o'r blaen, gael ei ddyrchafu drwy y corff llechi yn ardal yr Hen Durnpike, yn Cilgeraint; ac ar y llinell hono hefyd yr ochr ogledd-orllewinol i'r chwarel. Y mae dau o'r rhai hyn wedi aros yn lled gyflawn, ond y trydydd a'r pedwerydd mewn rhan yn unig. Yr oedd y rhai hyn yn sefyll yn ogleddol i Cilgeraint a Choetmor, ac nid oes ond ychydig o honynt yn aros yn mhlwyf Llanllechid; ac wrth ddilyn i gyfeiriad Ebenezer, yr ydych yn canfod, ar ol myned i rediad y dwfr yn yr ardal hono, ei fod wedi ei lwyr olchi ymaith, oddigerth ychydig a welir yn y Trosgol, wedi ymlechu yn nghysgod y bryn a orwedd i'r gogledd iddo.

Wrth sylwi drachefn ar y dosbarth canol, sef rhwng Glanmeurig a Brynderwen, yr ydym yn cael y ffurfiadau yn gyflawn yn Llandegai; ond wedi croesi y mynydd i Landdeiniolen, yr ydych yn canfod nad oes dim yn aros ar y llinell hon yn yr ardal hono. Y mae y ffurfiadau a orweddant islaw y ffurfiadau hyn yn Llandegai, sef y *Quarts Porphyry* a'r Werdd Isaf, yn absennol yn ardal Llandinorwig, ac i fyny at Geryg y Nyth. Nis gellir dyfalu pa le y dybena y gwelyau llechi yn y cyfeiriad yma, o herwydd yr yspwrial a orwedd ar Fynydd Llandegai a Mawnog y Gôf. Ond wrth ddisgyn i lawr i gyfeiriad Llyn Isaf Llanberis, ar yr un llinell, yr ydym yn canfod fod yr haenau llechi yn dechreu drachefn, ac yn tewychu fel y disgynir i'r dyffryn; ac erbyn croesi i'r ochr draw i'r Llyn, yr ydym yn cael yr haenau wedi cadw eu safle, y naill yn eu cysylltiad â'r llall, yn eu rhif, ac agos yn eu maintioli, fel nas gellir eu camgymeryd, fel eu ceir yn ardal Bethesda, a gellir eu dilyn felly braidd yn ddidor hyd i blwyf Clynnog yn yr un cyfeiriad. Wrth edrych dros yr Ogwen i blwyf Llanllechid, ceir hwynt yn chwarelau Pant Dreiniog, Tanybwlch, a Bryn Hafod y Wern. Wedi hyny fe'u collir yn fuan, wrth barhâu yn y cyfeiriad hwnw tuag Aber, o dan y pridd a'r ceryg a olchwyd i lawr o'r bryniau uwchlaw iddynt.

Ond y dosbarth sydd wedi dyfod yn wir bwysig i ni ydyw yr hwn y canfyddir Chwarel y Penrhyn ynddo, yr hwn a ddilynir drwy odrau y Fronllwyd i'r Elidir Bach, a thrwy Chwarelau Dinorwig a Llyn Uchaf Llanberis hyd at Bentref y Castell, a'r *Victoria Hotel* lle y collir golwg

arno yn y cyfeiriad hwnw, gan ei fod yn cael ei guddio gan y *Cambrian, Grit*, yr hwn a wna i fyny fraich o'r Wyddfa, a chan fynyddoedd Moel Eilian ac eraill; nid ymddyrcha ei ben mwyach ar y llinell hon yn Arfon. I'r cyfeiriad arall cawn ef yn gwneyd i fyny ysgwydd y Braichmelyn, gan ymsuddo yn agos i'r Gerlan, ond oddiyno ymlaen y mae yn cael ei gladdu gan y moelydd a'r bryniau a orweddant i'r dwyrain, ac ni chyfyd ei ben drachefn ar y llinell hon yn nherfynau Cymru.

Gyda golwg ar y defnydd o'r hwn y mae llechau yn cael eu gwneyd i fyny, y mae pob dosraniad a welais i o'r gwahanol lechau yn dyfod mor agos i'w gilydd yn y cyfartaleddau, fel y rhaid dyfod i benderfyniad fod gan y *process* drwy ba un neu ba rai y mae y defnyddiau a gyfansoddant y llechau wedi myned drwyddynt, lawer iawn i'w wneyd tuag at wneuthur craig llechi yn ddefnyddiol fel nwydd masnachol. Y mae pob chwarelwr wedi cael cyfle i sylwi yn ystod ei oes ar lawer o bethau sydd wedi effeithio yn ddwys ar y graig lechi mewn gwahanol ffyrdd. Y mae y rhai hyn yn lliosog iawn, eithr ni enwaf ond ychydig o honynt, sef y toriadau, y cynhyrfiadau, y codiadau, a'r gostyngiadau, a dylanwad y gwres a ddeuai i fyny drwy yr agenau a dorid yn y creigiau, ac hefyd y gwres a fwrid allan gan y defnydd tanllyd a ddeuai felly i fyny drwy y toriadau dywededig. Nid wyf yn gwybod fod neb hyd yma wedi darganfod olion bywyd yn y gwelyau llechi yma; eto nid wyf yn meddwl fod hyny yn sicrwydd nad oedd bywyd ar y ddaear pan eu ffurfiwyd; canys os mai *llysiau* oedd y ffurf y dadblygai bywyd ynddo ar y pryd, y mae y cyfryw yn ddefnyddiau mor feddal a chyfnewidiol, fel y byddai yn dra annhebyg y gallent gadw heb fraenu a darfod ond am gyfnod byr, ac felly yr oeddynt yn dyfod yn naturiol yn anwahaniaethol oddiwrth y llwch a'r clai oedd yn cyfansoddi y cyrff hyn. Y mae y dirwasgiad sydd wedi bod ar yr haenau yma mor fawr, fel mai peth afresymol fyddai dysgwyl gweled unrhyw olion bywyd wedi eu cadw ynddo o dan y cyfryw amgylchiadau, yn enwedig os bu y defnyddiau yn hir heb ymgaregu, fel y gallai eu bod.

### Y CAMBRIAN GRIT.

Y mae y *Cambrian Grit* yn gorff nodedig o amlwg ymhlith creigiau Cymru. Y mae y daearegydd, pan ddêl ar ei draws, yn deall ar unwaith beth a all ddysgwyl agosaf ato, odditano, ac oddiarno. Mae yn amrywio llawer yn ei drwch yn ardaloedd Arfon. Yn y manau mwyaf deheuol y gwn i am dano yn y sîr hon, nid wyf yn meddwl ei fod dros 500 o droedfeddi; ond erbyn dyfod i Lanberis, y Marchlyn Bach, a Nant Ffrancon, y mae yn 1200 neu 1500 o droedfeddi o ddyfnder mewn rhai manau yn y lleoedd hyn. O ran ei gyfansoddiad, gwneir ef i fyny o *Grits* a *Conglomerates*, ond ceir ynddo hefyd lawer o greigiau tânol, a mwy drachefn yn dangos arwyddion gwres, nes eu cyfnewid i raddau pell iawn, a pheri iddynt ymddangos fel creigiau tânol; ond mae yn ddiau mai creigiau trawsnewidiol (*metamorphic*) ydynt, y rhai sydd erbyn hyn o ansawdd gwir galed, ond heb golli yr arwyddion o haeniad dyfrol a berthynai iddynt. Mae yr haenau *Grits* a'r *Conglomerate* a geir ynddo yn cael eu gwneyd i fyny o lawer iawn o amrywiaeth

defnyddiau. Yn y *Grits* fe ganfyddir weithiau y graian glân a dysglaer, y rhai, er yn fychain, y gwelir eu bod yn cynnwys amrywiaeth diderfyn braidd yn eu maintioli a'u natur, ac wedi eu gwasgu mor agos i'w gilydd gan ddylanwad pwys a dysgyrchiant, a'u crasu yn y fath fodd gan ddylanwad gwres, fel y maent yn ffurfio craig hynod galed a phrydferth. Yn y *Conglomerate* yr ydym yn canfod darnau o geryg o wahanol faintioli, wedi eu dirwasgu i'w sefyllfa bresennol, a llawer o'r darnau yn dangos yn eglur o ba gyfeiriad yr oedd y gwasgiad hwnw yn cymeryd lle. Mae y ceryg hyn yn amrywiol yn eu natur fel y graian a gyfansoddant y *Grit*, ac yn eu mysg ceir llawer o ddarnau o lechi, o wahanol liwiau, megys gwyrdd, glas, a choch weithiau, ond nid mor aml a'r gwyrdd a'r glas. Y mae canfod y darnau ceryg a llechau hyn eto yn arwain y meddwl i ymholi o ba le y daethant, a pha le y safai y creigiau y torwyd hwynt allan o honynt; ond ni a adawn y mater hwn ar hyn o bryd fel testun i'w ystyried ar ol hyn.

Nid ydyw y *Cambrian Grit* yn gyfoethog mewn defnyddiau ffosylawg yn yr ardal hon, os oes ynddo arwyddion bywyd o gwbl; er fy mod yn credu i mi weled arwyddion o ryw fath o bryfaid ynddo yn nghraig y Castell; ond y mae yn sicr fod y dirwasgiad sydd wedi bod arno a'r gwres a ddyoddefodd, wedi dileu agos yn llwyr bob arwydd o fywyd a allai unwaith fodoli ynddo.

Yr ydym yn awr wedi esgyn can uched â'r hyn a ystyria rhai daearegwyr yn derfyn y *Cambrian Formation*, a thybiaf y byddai i bob chwarelwr gydsynio mai yma y dylai fod eto; canys y mae y fath wahaniaeth ymddangosiadol rhwng y llechi a geir yn gorwedd odditano â'r rhai a geir yn gorwedd arno, fel nad oes ynddynt ond ychydig iawn o debygolrwydd y naill i'r llall. Y mae eu hansawdd a'u lliw yn dra gwahanol; ond er hyn oll y mae daearegwyr yn eu rhoddi hwy gyda'u gilydd, am y canfyddir mewn rhai ardaloedd fod yr un bywyd yn cael ei ddadblygu ar y ddaear pan ffurfiwyd y naill a'r llall o honynt.

## Y MENEVIAN.

Yr ydym yn awr yn nesâu i gymydogaeth Penisa'r Nant a Dolawen, lle y deuir o hyd i ffurfiadau llechog o liw tywyll a llwyd-oleu, y rhai ydynt o ansawdd feddal a brau. Gelwir y corff hwn *The Menevian Formation*. Hyd yn ddiweddar yr oedd yn cael ei restru gyda'r *Lingula Slab*, yr hon a orwedd arno; ond erbyn hyn y mae daearegwyr yn canfod ei fod yn cynnwys gweddillion creaduriaid mor nodedig ac yn y fath gyflawnder mewn rhyw ranau o'r wlad, fel y dylai gael ei wahaniaethu oddiwrth y *Lingula Slab.* Y darganfyddwr yn yr amgylchiad hwn ydyw y Doctor Hicks, y boneddwr a arweiniodd y Gymdeithas Ddaearegol i fyny yma yr haf diweddaf. Cymro ydyw Dr. Hicks, a gall siarad Cymraeg yn rhwydd. Y mae yr enw wedi ei roddi i'r ffurfiad hwn oddiwrth St. David's, neu Dyddewi, yn Sir Benfro, yr hwn le a alwai y Rhufeiniaid yn Menapia; ac fe ddywedodd y Doctor wrthyf yr adeg y cyfeiriwyd ati, ei fod wedi canfod gweddillion creaduriaid deunaw modfedd o hŷd, a rhai mwy na hyny, yn y ffurfiad hwn, y rhai sydd yn awr i'w gweled yn y *Museum* yn Jermyn Street, Llundain. Ychydig os dim defnydd a wneir o'r Llechfaen hon yn y sîr, er, fe

allai, nad ydyw wedi cael llwyr lonyddwch gan yr anturiaethwr, megys yn mynyddoedd Llanllechid, Nant y Bettws, ac fe allai mai hon ydyw y graig a geir yn mhlwyf Clynnog, yn yr hon y gweithia amryw ddynion yn bresennol.

### Y LINGULA SLAB.

Yr ydym yn dyfod i'r haen hon yn y ffordd fawr, cyn myned at y graig a elwir Clogwyn Evan, yn agos i Danydderwen, ac yn agos i'r Tai Newyddion, yn ochr Llandegai. Y mae yr haen hon yn gorff trwchus, yn cynnwys llawer o amrywiaeth creigiau—rhai dyfrol a rhai tânol, a rhai o honynt y tebycaf i wenithfaen a welais yn yr ardal hon, nac yn yr un ardal arall. Y mae ynddi hefyd liaws o greigiau llechi o liw glas tywyll, ac o ansawdd feddal, weithiau yn cael eu britho gan lasiau neu wythienau. Y mae amryw chwarelau wedi eu hagor yn y ffurfiad hwn yn Arfon, a gwelir rhai yn yr ardal hon, ac ynddi hi y mae chwarel Gallt y Llan, yn Llanberis; ond nid oes yr un chwarel wedi rhagori llawer ynddi yn Arfon, mwy na'r rhai hyny a welir yn Sir Feirionydd, lle y gwelir fod llawer o waith wedi ei wneyd ynddynt, a swm mawr o arian wedi ei wario.

Y mae yr haen hon yn cynnwys llawer o *fossils*. Deuir atynt yn rhwydd; ac nid oes ammheuaeth nad gweddillion bywyd ydyw yr hyn a ganfyddir ynddi. Y mwyaf nodedig o'r rhai hyn ydyw y *Crusiana Simplicata*. Mae hwn i'w gael i raddau mwy neu lai ymha le bynag y deuir ar draws yr haen hon drwy y wlad yn gyffredinol. Bu cryn ddadleu, ac y mae eto, fe allai, heb derfynu, ynghylch pa un ai gweddillion y creadur ai ynte ei lwybr yn unig drwy y llaid ydyw yr hyn a welir yn y ceryg. Rhai a dybient mai gweddillion tyfiant morawl ydynt. Yn adeg ymweliad y Gymdeithas Ddaearegol â'r rhan yma o'r wlad yr haf diweddaf, cefais gyfleusdra i ofyn barn amryw o'r boneddigion mwyaf galluog i'w farnu yn yr holl wlad, tra yn edrych ar y *fossil* mewn careg a anfonasid i Fangor i'w harddangos, ac hefyd gyda Dr. Hicks, tra yn edrych arno yn y graig yn nghwm Dolawen a Graianog. Credai ef mai *trails* neu *tracks* y creadur yn unig ydyw y rhai hyn, ac i'r un peth yr oedd y Proffeswr McKenna Hughes yn dyfod iddo gyda hwy yn Mangor. A diau fod llawer sydd yma wedi gweled y *fossils* hyn amryw weithiau. Y maent yn ymddangos wedi ymblethu drwy eu gilydd yn y graig, ac yn mesur i fyny hyd bedair troedfedd o hŷd, neu ychwaneg weithiau, ac yn ddwy fodfedd o lêd; ond nis gwelir fod iddynt ben na chynffon, yr hyn sydd yn myned ymhell i gadarnhâu, i'm tyb i, y dybiaeth mai y llwybrau yn unig ydynt, neu ynte ryw dyfiant dyfrol; ond y blaenaf ar lawer ystyriaeth yw y mwyaf tebygol.

Yn awr yr ydym wedi crybwyll yn ysgafn am yr oll o'r prif haenau a gyfansoddant y *Cambrian Formation* yn yr ardal hon, ac wedi esgyn drwy drwch enfawr o ddaear, o'r ffurfiad a welir yn y *cutting* yn y Felin Hen hyd yma, yr hyn a dybiaf sydd oddeutu 6000 o droedfeddi; ac os ydyw yr oll o'r haenau y daethom ar eu traws o'r man a nodwyd yn parhâu hyd yma, y mae y ffurfiad hwnw yn sefyll yn y dyfnder a nodwyd yn Ty'nymaes; ac y mae y syniad fod y fath beth yn bosibl—fod y cyfryw ddarn o ddaear wedi malurio o greigiau a fodolent un-

waith yn rhywle yn y cylchoedd hyn, ac wedi eu cludo yma a'u dodi ar eu gilydd gan weithrediadau naturiol yr elfenau—yr awyr, y dwfr, a'r gwres—yn taflu y meddwl i anhawsder i synied meithder y cyfnod oedd yn angenrheidiol i ddwyn hyny i ben. Ond y mae canfod fod y creigiau wedi eu dodi ar eu gilydd yn y fath drefn reolaidd, a'r rhai hyny yn cynnwys gronynau a darnau eraill mwy, y rhai sydd yn dangos yn eglur iddynt fod unwaith yn rhan o gorff gwahanol o graig i'r hyn y maent yn gwneyd eu rhan i'w chyfansoddi heddyw, ynghyd a'r driniaeth y mae llawer o honynt yn dwyn arwyddion amlwg eu bod wedi bod dani, ac hefyd yr olion diammheuol o weddillion bywyd sydd wedi eu gadael yn y creigiau drwy y wlad mewn cymaint o wahanol rywogaethau, yn llysiau, pysg, cregyn, ac esgyrn gwahanol greaduriaid—oll yn dwyn tystiolaeth fod y ddaear wedi myned drwy gyfnod enfawr o barhâd yn yr hwn y cymerodd cyfnewidiadau afrifed le ar ei gwyneb; ac nid yn unig yn agwedd ei harwyneb, ond hefyd yn amrywiaeth y bywyd a ddadblygid yn y dyfroedd ac ar y sychdir, yn ystod treigliadau y cyfnodau meithion hyny, nes eu dwyn i'r sefyllfa y mae y ddaear a'r hyn sydd arni ynddi yn bresennol.

---

# DEON BANGOR AR DDADGYSYLLTIAD A DADWADDOLIAD.

Y MAE dygwyddiadau yn prysuro ymlaen. I gael gweled pa un a oedd Cymru yn galw am Ddadgysylltiad, cynnaliwyd dwy Gynnadledd yn mis Tachwedd diweddaf, ar wahoddiad Cymdeithas Rhyddhâd Crefydd, y naill i'r Deheudir yn Abertawe, Tachwedd 13eg, a'r llall i'r Gogledd yn Nghaernarfon, Tachwedd 20fed. Yr oedd y cynnadleddau hyn mor lliosog a brwdfrydig, a'u llais mor glir a diamwys ar y cwestiwn, fel y mae trefniadau bellach ar droed i ffurfio dau Gynghor Cymreig, un i'r Deheudir a'r llall i'r Gogledd, i gario ymlaen y symudiad yn Nghymru. Y mae hyn gan hyny yn golygu symud ymlaen o ddifrif, a chyda phenderfyniad didroi-yn-ol.

Gan i ychydig derfysg gymeryd lle yn y cyfarfod cyhoeddus yn Abertawe, ymddangosodd llythyr oddiwrth Ddeon Bangor mewn newyddiadur dyddiol y dydd o flaen Cynnadledd Caernarfon, yn dymuno ar i'r cyfarfod gael tawelwch, ac y byddai iddo yntau, ar yr 20fed o Ragfyr, draddodi araeth mewn atebiad. Daeth y dydd; ac am bump o'r gloch y prydnawn yr oedd nifer da o uchelwyr, clerigwyr, eglwyswyr, ac eraill wedi ymgynnull i'r Guildhall, Caernarfon, i wrando ar y Deon, ac "adroddodd" yntau anerchiad am tua dwy awr a thri

chwarter. Yr ydym yn arfer ei air ef ei hun, "adrodd," o herwydd fod yr anerchiad eisoes wedi ei argraffu yn y newyddiaduron, ac yn barod i'w ledaenu. Yr oedd y traddodiad yn un o'r pethau mwyaf grymus a llwyddiannus a wnaed gan y Deon erioed, heb ddim o'i betrusder arferol, oddieithr mewn dau neu dri o fanau,—yr ansoddeiriau yn cael eu hyrddio gyda grymusder, y desgrifiadau yn hyawdl, a'r watwareg yn cael ei thywallt gyda holl yni corff a meddwl, ac wrth gwrs y cwbl yn cael ei dderbyn gydag awyddfryd gan y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn gwrandaw. Ar ol hyny y mae yr araeth wedi ei chyhoeddi gan y "Gymdeithas er Amddiffyn yr Eglwys" (Llundain), yn y ddwy iaith, a chan hyny wedi dyfod yn rhan o lenyddiaeth y pwnc pwysig hwn. Nid yw y cyfieithiad, fodd bynag, ond egwan, ac nid yw y darllenydd Cymreig yn cael y blas a'r min oedd yn y Saesoneg. Cydnabyddir, mae yn debyg, nad oedd gan yr Eglwys neb galluocach i'w hamddiffyn; a diammeu yr ystyrir yr amddiffyniad y goreu allesid wneyd. Nid ychydig o anturiaeth ydoedd i Ddeon anturio i flaen y frwydr, gan fod holl urddas ei swydd, yn gystal a'i alluoedd, yn gosod cyfrifoldeb a phwys ar ei eiriau; a buasai i'r peth droi yn fethiant yn gwneyd y galanastr o gymaint a hyny yn fwy. Cawn weled, ond odid, beth a ddaeth o hono.

Dechreuai, wrth gwrs, gyda phwysigrwydd y pwnc fel yn dwyn perthynas â llesiant uchaf y genedl os nad y byd, a'r angenrheidrwydd ar iddo gael ei ddadleu gyda thegwch diofn a gonestrwydd. Yr oedd hyn yn eithaf cychwyn, a dylasai y siaradwr, beth bynag, gadw yn ofalus at y telerau a awgrymid ganddo. Ond y mae y gareg sylfaen yn cael ei gosod i lawr ar dir ammheus, sef fod "y gwynfyd cenedlaethol yn Mhrydain fel yn Israel wedi ei rwymo wrth y grefydd genedlaethol." Y mae hwn yn esiampl o amwysder arferol y Deon. Gellid cydnabod fod gwynfyd cenedl yn dibynu ar ei chrefyddolder, ond diammeu yr amcanai y Deon gysylltu y gwynfyd â ffurf genedlaethol mewn cysylltiad â gwladwriaeth, yr hyn sydd yn beth hollol wahanol, ac heb fod o gwbl yn anhebgorol. Gan y buasai ei ddilyn trwy bob brawddeg yn feichus, rhaid i ni grynhoi ein sylwadau.

I. *Ei Ymosodiad ar Gymdeithas Rhyddhâd Crefydd.* Y mae egwyddor y gymdeithas hono, medd ef, yn hollol groes i'r egwyddor a osodir i lawr gan ddeddfroddwr ysbrydoledig Israel. Nid yw yr haeriad hwn yn werth nemawr, gan ei fod yn cymeryd yn ganiatäol yr hyn oedd i'w brofi. Gall y gymdeithas ystyried ei bod o'r un farn â'r deddfroddwr ysbrydoledig, yn yr ystyr gyntaf o'r ddwy a roddir uchod, hyd nes y profa y Deon mai yr ail ystyr ydoedd yr un wirioneddol. Ond ymosodai yn ffyrnig ar y gymdeithas. Dywedai ei bod yn gynnwysedig o ddwy adran:—1. "Puritaniaid newydd creigiedig." Canmolai ychydig ar yr hen Buritaniaid, er ar yr un pryd yn priodoli iddynt gulni annynol, a penboethni Mahometanaidd, a chreulondeb dideimlad. Ond ni ddyry y gwyngalch prin ar eu beddau ond er mantais i gymeryd eu hesgyrn i guro eu holynwyr. Temtir ni i roddi dyfyniadau lled helaeth o'r enwau hirion a seinfawr a roddir arnynt a'r amcanion maleisddrwg a briodolir iddynt, ond ymattaliwn. Y mae y gyfres ryfeddol o ymadroddion sydd yn yr araeth yn ddangosiad eglur o'r ysbryd sydd yn y Sefydliad Eglwysig yn Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg,

ac yn siarad cyfrolau am yr angenrheidrwydd am Ddadgysylltiad. Y troseddwyr mawr, wrth gwrs, ydyw tanysgrifwyr Cymdeithas Rhyddhâd Crefydd, ymysg y rhai y mae llawer o'r dynion parchusaf a fedd yr Ymneillduwyr yn Nghymru. Am eu bod yn credu fod Eglwys Sefydledig yn anysgrythyrol ac anghyfiawn, ac yn gweithredu ar y grediniaeth hono trwy ymuno yn gymdeithas, y mae eu "ffydd grefyddol wedi dyfod yn ffosyl wleidyddol-dduwinyddol farw," &c. Ond y mae 99 o bob 100 o Ymneillduwyr Cymru yn credu yr un peth, ac yn debyg o weithredu yn y man, ac felly deuant oll, mae yn ddiammeu, yn "Buritaniad newydd creigiedig." Rhyw dipyn o arddangosiad o "anffaeledigrwydd mympwyol hunan-hyderus" ydyw hyn, ac arwydd o wendid mewn ymresymiad. Anffodus, braidd, fu i'r Deon son am fod yn "greigiedig," oblegid y mae yr Eglwys hono sydd wedi gorwedd mor ddiyni a diymadferth y tu fewn i haenau adamantaidd y cysylltiad gwladol, yn dyfod mor debyg i'r desgrifiad fel y temtir pobl i'w gymhwyso. Peth peryglus i rai mewn tŷ gwydr'yw lluchio ceryg. Y mae yr iaith a arferir braidd yn anhawdd i'w dyoddef, ond ysgrifenai y Deon ychydig yn ddiweddarach gan ei galw yn ysmaldod! Y mae yr amryfusedd diweddaf yn waeth na'r cyntaf. Buasem yn gallu maddeu am iddo yn mhoethder ei dymher arfer iaith heb fod yn weddus, ond y mae ei galw yn ysmaldod yn tynu ymaith bob cydymdeimlad. Nid oes dim yn profi ei anghymhwysder i fod yn arweinydd yn y ddadl yn fwy na'i hollol anallu i weled, neu o leiaf i gydnabod y gall ei wrthwynebwyr feddu egwyddorion, ac yn arbenig felly pan y daw Cymdeithas Rhyddhâd Crefydd dan sylw. Ond dyma fel y dywedai Deon arall,—y diweddar Ddeon Alford: "*Gall* yr Anghydffurfiwr mwyaf zelog, os bydd hefyd yn Gristion zelog, fod yn meddu dymuniad am i Eglwys Loegr feddu gallu i gyflawni ei gwaith ar y boblogaeth sydd wedi ei ymddiried iddi; a *gall* ei fod yn credu mai effaith y gyfundrefn bresennol yw attal y gallu hwnw oddiwrthi. Ac nid yn unig fe *all* hyn fod, ond gan fy mod wedi cael y fraint o adnabod amryw o arweinwyr y symudiad er 'Rhyddhâd' crefydd, yr wyf yn gallu dweyd ei bod felly. Nid oes unrhyw aelod o'r Eglwys a wrthwynebai yn fwy egniol unrhyw ymdrech i gaethiwo neu i leihâu ei gwir ddefnyddioldeb nag y gwnai y personau hyn, y rhai a ystyrir gan rai fel ei gelynion; ac eto (neu yn hytrach o'u safle hwy o edrych ar y cwestiwn, *o herwydd hyny)*, y maent yn credu eu bod dan rwymau i wneyd pob ymdrech i sicrhâu toriad yr undeb sydd rhyngddi hi â'r wladwriaeth."*

2. Y mae yr ail adran o'r gymdeithas, medd y Deon, yn cynnwys "dynion galluog a meddylgar, dysgyblion athroniaeth faterawl, y rhai sydd wedi dyfod i'r casgliad nad yw Cristionogaeth ond ofergoeledd sydd wedi darfod. Cynnrychiolir y dynion hyn yn gryf ar Gynghor Cymdeithas Rhyddhâd Crefydd." Amcan y Deon yw cysylltu y symudiad âg anffyddiaeth. Pe buasai yn wirionedd fod rhai o'r cyfryw ar Gynghor y Gymdeithas, gallesid dadleu fod gan bersonau, fel deiliaid o'r llywodraeth, berffaith hawl i gydweithredu er sicrhâu cyfiawnder, beth bynag fyddo eu daliadau athronyddol neu grefyddol. Ond y

* *Essays and Addresses*, by Henry Alford, D.D., Dean of Canterbury.

mae y Deon yn siarad yn benagored; ac y mae yn hawdd gwneyd haeriadau felly nas gellir eu profi. Edward Miall a adwaenem, a Henry Richard a J. Carvell Williams a adwaenom, a lliaws mawr o flaenoriaid eraill y symudiad a adwaenom: ond pwy yw yr anffyddwyr sydd yn rhywle ar y Cynghor, nis gwyddom: ac hyd nes y profa y Deon ei haeriad, teimlwn yn hyderus i'w wadu. Darlunia, ymhellach, y Pabyddion yn sefyll o'r tu cefn, ond heb gymeryd rhan, gan wybod mai hwynt-hwy fydd yr ennillwyr mwyaf yn ninystr yr Eglwys. Gan hyny, yn ol y Deon, ei Dadgysylltiad fyddai ei dinystr; ac os felly nerth cyfraith y wlad yw ei hunig fywyd. Gŵyr pawb mai drychiolaeth a geisia'r Deon godi yw hyn, mor bell ag y mae a fyno Cymru â'r mater; a thebyg ydyw yn Lloegr, gan fod corff y genedl yn Brotestaniaid. Yr hen ddadl, mai yr Eglwys Sefydledig yw y rhagfur rhag Pabyddiaeth ydyw hon, mewn ffurf ychydig yn wahanol. Y mae y ddadl wedi myned allan o amser yn Lloegr er's amser bellach, am y gwyddys mai yn nghysgod yr Eglwys y meithrinir Pabyddiaeth. Wedi ceisio cysylltu y dadgysylltiad â phenboethni ac anffyddiaeth, yn awr ymdrechir bachu Pabyddiaeth wrth y cerbyd! Pa ddrwg sydd *nad* yw ynddo?

3. Cyhuddir Cymdeithas Rhyddhâd Crefydd o fod wedi ffurfio ei chynllun "fel ag i lygru y werin, i anfoesoli y clerigwyr, i chwalu yr Eglwys, ac i ddinystrio, nid yn unig ei pheirianwaith allanol, ond hefyd y bywyd ysbrydol sydd ynddi." Cyfeirir yma at draethodyn yn dwyn y teitl, "Awgrymiadau ymarferol mewn perthynas i Ddadgysylltiad a Dadwaddoliad Eglwys Loegr," llyfryn nad oes unrhyw ammheuaeth nad yw y gymdeithas yn gyfrifol am dano. Yn hwnw anghymeradwyir rhai pethau yn null dygiad ymlaen y dadgysylltiad yn yr Iwerddon, trwy yr hyn y sicrhäodd yr Eglwys hono lawer mwy o'r yspail nag ydoedd yn deg yn dyfod iddi, ac i gyfarfod â hyny awgrymir tipyn o wahaniaeth wrth gymhwyso yr oruchwyliaeth at Eglwys Loegr. Yma cymerodd y Deon gymhariaeth oddiwrth y corff dynol, ymha un y mae gan bob aelod mewn rhyw ystyr fywyd o'r eiddo'i hun, ond mewn cysylltiad hanfodol â bywyd y corff, ac â'r galon. Gellid "rhyddhâu" y corff trwy wneyd y dillad yn fwy, ond gallai un ddyweyd, Nid yw y corff yn ddigon rhydd, mi a dynaf ymaith y dillad; dylai pob aelod fod yn annibynol, mi a doraf gysylltiad y cymmalau. Dyma yr hyn a eilw y gymdeithas yn rhyddhâu. Cynneddf y bywyd cyffredinol yn yr Eglwys yw yr Esgob. Trwy ordeiniad a thrwyddedd yr Esgob y mae gan bob person hawl i ddal eiddo. A'r un modd y cysylltir yr Esgob â'r Archesgob, ac y gwneir yr Eglwys yn un. Yn awr, eglurir pa fodd y mae cynllun y dadgysylltiad yn amcanu dinystrio yr Eglwys. 1. Trwy ddiddymu yr ammodau cyfreithiol sydd yn sicrhâu yr eiddo i ddybenion eglwysig. Gwnaed "corff eglwysig" yn yr Iwerddon, ond gwrthwynebir hyny yn Lloegr, am ddau reswm, —un ydyw am i ffurfiad y corff eglwysig fod yn gymaint o achlysur i wneyd y camwri a wnaed yn yr Iwerddon; ac yn ail, am nad oes gan y Llywodraeth hawl wedi dadgysylltu yr Eglwys, i ymyraeth â hi ar ol hyny o gwbl. Wedi ei dadgysylltu, dylai gael rhyddid a phob rhwyddineb i ymffurfio fel y myno, a byddai taflu rhwystr ar ei ffordd yn gam â hi. Diddymu yr "ammodau cyfreithiol," meddir, sydd yn

dinystrio yr Eglwys. Tybed? Os felly, nid oes ynddi fywyd gwerth ei gadw! Beth sydd wedi dyfod o'r awdurdod a'r olyniaeth apostolaidd, a'r rhinweddau sacramentaidd, ynghyd a'r henafiaeth a'r *prestige* yr honir cymaint eu bod yn yr Eglwys, ac ynddi hi yn unig; oni byddai y rhai hyn yn aros i'w dal wrth ei gilydd, heb son am undeb ysbryd? Gellid tybied ar iaith y Deon nad ydyw y pethau hyn ond cysgodion a ddiflanent pe unwaith y torid llinyn arian yr "ammodau cyfreithiol." A ydyw y rhai sydd yn son cymaint am awdurdod ac olyniaeth, &c., ddim yn credu dim ynddynt wedi y cwbl? A ydyw tori yr ammodau cyfreithiol yn dinystrio "bywyd ysbrydol" yr Eglwys? Os oes bywyd ynddi a oroesa doriad y rhai hyn, gellid ymddiried iddo y casglai ynghyd gorff iddo'i hun o'r elfenau o'i amgylch, fel y mae pob bywyd yn gwneyd. 2. Dygid yr adeiladau ymaith trwy ddiddymu ammod y cysegriad. Gwneid, rhoddid y cofgolofnau cenedlaethol dan ofal y Senedd, yr eglwysi plwyfol henafol i ofal byrddau plwyfol, a'r rhai diweddar, yn ol i'r rhoddwr os yn fyw, neu ynte i'r "cynnulleidfaoedd presennol." Ond nid yw y cynllun yn awgrymu fod yr adeiladau i gael eu defnyddio at amcanion bydol, fel y dychymygir gan y Deon; ac wrth awgrymu fod y gair cynnulleidfa yn amwys, y mae wedi gadael un gair pwysig allan, y gair "presennol," ac nid oes mwy o amwysder yn y gair yn awr nag ydoedd yn 1874, pan y rhoddodd Iarll Beaconsfield ddewisiad y gweinidogion yn Eglwys Sefydledig Ysgotland yn llaw y cynnulleidfaoedd. 3. Rhyddheid y clerigwyr oddiwrth bob rhwymau i'r wladwriaeth i gyflawni eu dyledswyddau presennol o hyny allan; derbynient iawn, ac nis gofynid dim ychwaneg ganddynt; tra yn yr Iwerddon y rhwymid hwy i barhâu mewn undeb â'r Eglwys ar ol y Dadgysylltiad. Ond yn hyn yr oedd y Llywodraeth yn myned dros ben ei therfynau; nid oedd ganddi hawl i rwymo neb ar ol iddi ddarfod âg ef. Pan y mae yr amaethwr yn gorfod anfon ei was ymaith ar ganol y tymmor, ac yn talu mis neu chwarter o gyflog ymlaen iddo, nid oes ganddo hawl i rwymo y dyn i fyned i wasanaeth rhywun penodol a ddymuno efe. Ar un modd am y Llywodraeth, pan y mae ei chytundeb hi â'r clerigwr yn darfod, teg ydyw iddo gael ei adael yn rhydd. Effaith hyn, meddir, fydd temtio y clerigwyr i dori eu hadduned, ac ymwahanu oddiwrth yr Eglwys. Os hyn fydd effaith cyfiawnder, nid oes mo'r help am dano; ond os felly y bydd, y mae yn profi nad oes gan yr Eglwys ond gafael wan ar ei phlant ei hun. Dywedir ymhellach, y temtid y werin oddiwrth obaith yspail, ond ni ddywedir ymha ffurf, a chymherir y gymdeithas i'r cymdeithion hyny yn llyfr y Diarebion oedd yn dyweyd, "Tyred gyda ni," &c. Os ydyw y gymdeithas yn dal gwobr anghyfiawnder o flaen y werin, y mae y gymhariaeth yn deg, ond os dadleu y mae dros yr hyn y mae gan y genedl hawl iddo, nid yw yn gymhwys o gwbl. Dyma esiampl eto o gymeryd yn ganiataol yr hyn sydd eisieu ei brofi. Pe na buasai y cynllun yn dyweyd beth a gynygid wneyd o'r arian gweddill, cyhuddasid y gymdeithas o fod yn llechwraidd; am ei bod yn awgrymu beth a ddylid wneyd, cyhuddir hi o demtio y werin âg yspail. "Y mae yn ngallu y wladwriaeth heb gysegr-yspeiliad nac anghyfiawnder," meddai Arglwydd Campbell, wrth siarad ar y Mesur Gwyddelig yn 1836, "i gadw unrhyw ran o'r eiddo, a'i ddefnyddio i bwrpas arall, pan y bydd

hyny er lles crefydd, a lles y cyhoedd." "Gall y wladwriaeth ddefnyddio y gweddill i ba bwrpas bynag yr ystyrir yn fwyaf priodol i gyrhaedd yr amcan mewn golwg," meddai Arglwydd Melbourne. "Nid oes dim dadl nad yw eiddo yr Eglwys yn perthyn i'r Wladwriaeth, a bod ganddi hawl i wneyd â'r eiddo yn ol amgylchiadau yr amseroedd," meddai Arglwydd Palmerston. A gallesid ychwanegu digonedd o dystiolaethau cyffelyb; ond pa raid? Y mae y cyhuddiad o "lygru y werin, anfoesoli y clerigwyr, a chwalu yr Eglwys," yn tori i lawr ymhob rhan o hono wrth ei chwilio. Cyhuddiad pwysig ydoedd, ac ni ddylesid ei wneyd heb sail sicr iddo. Ond hwyrach, o ran hyny, mai "ysmaldod" ydoedd hyn.

II. *Dadgysylltiad a Dadwaddoliad.*—Dywed y Deon ei fod wedi chwilio llawer i gael gwybod beth a feddylid wrth ddadgysylltiad a dadwaddoliad, ond ei fod wedi methu. Yn yr "awgrymiadau ymarferol" y cyfeiriwyd atynt, y rhai y dywedai ei fod wedi eu darllen fwy nag unwaith gyda pheth gofal, yn yr ail baragraph y mae yr eglurhâd a roddid yn Neddf Dadgysylltiad yr Iwerddon yn cael ei roddi; a dywedir ymhellach y gellir cymeryd yn ganiataol y dilynir yr un esiampl yn y wlad hon, mor bell ag y mae y rhanau dadgysylltiol yn myned. Peth rhyfedd na fuasai y Deon wedi gweled hyn. Yna â ymlaen i egluro beth a feddylir wrth yr "Eglwys Sefydledig." Rhydd ddyfyniad o Dr. Freeman i brofi na bu adeg pryd y dewisodd y Llywodraeth un enwad o blith enwadau eraill i'w "sefydlu." Addefa pawb hyn am yr oesoedd cyn y Diwygiad; ond ar ol hyny hysbysir ni fod adegau wedi bod pryd y bu Annibyniaeth a Phresbyteriaeth yn sefydledig, ac y dychwelwyd drachefn at yr Eglwys Esgobyddol. Yr oedd hyny yn debyg iawn i ddewis un enwad o blith enwadau eraill. Cydsyniwn â'r Deon pan ddywed, "Am fil o flynyddoedd nid oedd ond un cyfundeb eglwysig yn y wlad. Yr oedd holl aelodau bedyddiedig y genedl yn aelodau o'r Eglwys;" a bydd genym sylw i'w wneyd ar hyn yn y man. Addefa fod yr Eglwys, o'r Concwest Normanaidd hyd y Diwygiad, "yn fwy neu lai ddarostyngedig i'r Pab." Y mae traethodyn ger ein bron, wedi ei gyfieithu a'i gasglu gan y Parch. Evan Davies, periglor plwyf Llanllyfni, a'i gyhoeddi gan "Gymdeithas Amddiffynol yr Eglwys," yr hwn a ddywed, "Nid oedd gan y Pab cyn y Diwygiad unrhyw uchafiaeth yn Lloegr." Gwelir nad yw yr amddiffynwyr bob amser yn gyson. Gan fod yr Eglwys, medd y Deon, yn cynnwys yr holl bobl, ac wedi dyfod i undeb âgos â holl ffurfiau y bywyd cenedlaethol, y mae ganddi ragorfreintiau, ac y mae yn ddarostyngedig i ryw gyfyngiadau. Y rhagorfreintiau ydynt,—y rhaid i'r teyrn fod yn aelod o honi; gofynir y fendith ar y coroniad drwyddi; gofynir am arweiniad Dwyfol i'r Senedd drwy ei gweinidogion; dysgir gwirioneddau crefydd i'r carcharorion, i'r tlodion, yn y fyddin a'r llynges, gan ei gweinidogion; ac eistedda rhai o'i Hesgobion yn Nhŷ yr Arglwyddi. Dyma'r cyfyngiadau: rhaid cael awdurdod y Goron i gynnal Confocasiwn; mae y genedl, trwy y Goron, y Prif Weinidog, &c., yn dewis dynion i rai swyddau; esbonir ei ffurfiau athrawiaethol gan Lysoedd Eglwysig y Frenhines, ac yn ddiweddaf gan y Cyfrin-gynghor. Yn awr cymharer y rhagorfreintiau â'r cyfyngiadau. Nid yw y breintiau ond cael siarad yn enw y genedl pan y bydd eisieu cyflawni gwasanaeth crefyddol

drosti. Ni ddywedodd fod y Llywodraeth yn cadw y pwrs drosti, a gofalodd am beidio dyweyd ei bod wedi rhoddi dim ynddo at ei gwasanaeth. Ni ddywedodd fod y Llywodraeth yn cyfarwyddo pa bennodau i'w darllen, pa weddïau i'w gweddïo, a pha wisgoedd i'w gwisgo, ac yn barod i gosbi pwy bynag na chydymffurfia. Ni ddywedodd ychwaith fod y Llywodraeth yn ei chydnabod fel yr unig Eglwys awdurdodedig, ac mewn amser a basiodd wedi ceisio llethu pob dysgeidiaeth arall rhag dyfod i'w thiriogaeth, ac nad yw eto ond "goddef" i eraill fodoli yn y wlad. Gallasai ddyweyd hyn ac ychwaneg. Ond y mae y breintiau yn perthyn i'r allanolion, ac y mae ammheuaeth pa un ai mantais ai anfantais i Eglwys Crist yw eu meddu, ond y mae y cyfyngiadau yn perthyn i hanfodion,—hawl yr Eglwys i lywodraethu ei hun fel eglwys, ei hawl i ddewis ei swyddogion ei hun, ac i esbonio ei hathrawiaethau ei hun. A oes gan eglwys hawl i roi y pethau hyn o'i llaw i na choron, na senedd, na neb pwy bynag, ac onid yw trwy hyny yn annheyrngarol i Grist? Y mae y cyfyngiadau hyn yn rhwystr iddi wneyd ei gwaith. Dywed y Deon Alford fod pob ymdrech am ddiwygiad yn yr Eglwys yn cyfarfod â rhwystrau,—yn gyntaf y *vis inertiae*, tuedd llonyddwch i gadw yn llonydd—wedi hyny y "llew ar y ffordd,"—os pasia heibio y rhai hyn, rhaid wed'yn ei wneyd yn gymhwys i ffrâm haiarn ESIAMPL, "fel y gwnaed o'r blaen bob amser," —ac yn olaf, caiff ei luddias yn farwol gan *y gyfraith.** Y mae rhyddid crefyddol, medd Deon Bangor, yn fendith; ond cydraddoldeb yn anmhosibl. Y mae yn amlwg ei fod yn y niwl am ei fod yn cymysgu ystyr geiriau. Am i bob plaid gael eu gwneyd yn gyfartal o ran maint, adnoddau, dylanwad, a defnyddioldeb, ni ddychymygodd neb allan o Bedlam am y fath beth; ond *gall* pawb fod yn gydradd yn ngolwg y gyfraith, a chael ymddwyn tuag atynt ar yr un tir gan y Senedd a'r Llywodraeth, yr hyn nid yw yn bod yn awr tra y mae un blaid yn awdurdodedig a'r lleill yn cael eu "goddef." Heb gael hyn, y mae rhyddid crefyddol cyflawn yn anmhosibl; ac y mae ymffrost yr Eglwyswyr ein bod yn mwynhâu rhyddid crefyddol fel yr ydym yn wir yn debyg i "ysmaldod," neu yn hytrach i watwaredd. Nis gellir cael cydraddoldeb yn ngwyneb y gyfraith heb gael dadgysylltiad, ac y mae genym fel deiliaid hawl i gydraddoldeb yn yr ystyr hwn. Y mae y Deon yn bur bryderus ynghylch pwy a ofynai y fendith ar y coroniad, ac am arweiniad i'r Senedd, pe na byddai Eglwys Sefydledig; a dywed y byddai penodi rhywun o enwad arall yn "sefydlu" yr enwad hwnw. Ceisia ddiystyru America, ond gallai America ddysgu aml wers iddo ef a ninnau, mewn rhyddid crefyddol o leiaf. Yn nghyfarfyddiad cyntaf y *Congress*, Medi 6, 1774, daethant hwy dros yr anhawsder mewn modd esmwyth a brawdgarol ryfeddol; a mwy na hyny, gwnaed y gwaith yn llawer mwy grymus ac effeithiol na dim y mae genym hanes am dano yn ein gwlad ni—dim ond gofyn i weinidog gwladgarol a duwiol arwain y gwasanaeth, a dygwyddodd mai clerigwr Esgobyddol oedd yr un y penodwyd arno.† Ac yn gyffelyb y gwneir yno hyd heddyw, yn y Cynghorau Taleithiol ac yn y *Congress*, neu y Senedd Gyffredinol, ac ni

* *Essays and Addresses*, by Dean Alford.
† Gwel *Life of Washington*, Vol. I., pp. 280–1. Bohn's Ed.

phrofwyd o gwbl un anhawsder ynglŷn â'r peth. Bu Mr. Bryce, A.S., yn America yn ddiweddar, ac mewn anerchiad yn Liverpool dywedai fod dydd diolchgarwch mewn amryw Daleithiau yn cael ei benodi gan Lywodraethwr y Dalaeth, trwy anfon allan broclamasiwn yn galw ar yr holl ddinasyddion i fyned i'w heglwysi ar y dydd hwnw, a diolch i Dduw am roddi iddynt y cynauaf. "Yr oedd yno gydnabyddiaeth genedlaethol o grefydd," meddai, "yn hollol ddigysylltiad â'r Wladwriaeth." Dywedai hefyd fod yno bawb o bob plaid, hyd yn nod Esgobaethwyr a Phabyddion, yn dyweyd eu bod yn teimlo yn fwy rhydd, yn gweithio yn well, ac ymhob peth yn fwy boddhaol o'u cyfundrefn grefyddol heb gysylltiad â'r Wladwriaeth. A ydyw gwarcheidwaid Undeb Caernarfon yn sefydlu ac yn dadsefydlu beunydd, wrth ganiatâu i'r enwadau crefyddol gynnal gwasanaeth bob yn ail yn y tlottŷ? Y mae y Deon yn bur awyddus i brofi mai yr un Eglwys oedd yn Lloegr cyn ac wedi y Diwygiad, ac na wnaeth Harri VIII. ond dwyn pethau i'w lle. Wel, nid awn i ddadleu; hwyrach fod llawer o rym yn y ddadl mai yr un ydoedd yn ei ffurf Babyddol ag ydyw yn awr, ac y mae llawer o bethau yn dangos fod yr un ysbryd ynddi yn awr ag ydoedd y pryd hwnw. Ond hyn sydd ffaith,—newidiodd y Wladwriaeth y telerau ar ba rai y derbynid y rhagorfreintiau ac y defnyddid yr eiddo; a chan y cydnabyddir ei hawl y pryd hwnw, y mae yr un hawl yn aros eto: ac y mae hyn yn dangos hefyd mai gan y Wladwriaeth y mae y llaw uchaf.

Bellach yr ydym yn dyfod at bwnc dyddorol y *Dadwaddoliad.* Rhydd y Deon werth blynyddol gwaddoliadau henafol yr Eglwys yn £4,200,000, ond nid yw yn dyweyd ar ba awdurdod. Y mae Mr. Frederick Martin, awdwr y *Statesman's Year Book*, cyfrifydd o awdurdod uchel, yn symio i fyny ei ymchwiliad fel y canlyn:—

| | |
|---|---|
| Incwm blynyddol y ddau Archesgob a 28 o Esgobion ... ... | £163,300 |
| Gwerth blynyddol 33 o balasdai esgobol ... ... ... ... | 13,200 |
| Incwm blynyddol 27 o *Chapters*, Deoniaid, a Chanoniaid ... | 123,194 |
| Gwerth blynyddol y *Deaneries*, ac incwm *Chapters* colegawl ... | 56,806 |
| Incwm blynyddol y Clerigwyr Plwyfol ... ... ... ... | 4,277,060 |
| Gwerth blynyddol clasdiroedd a thai Clerigwyr Plwyfol ... | 750,000 |
| | £5,383,560 |

"Ffrwyth y cyfan o'r holl gyfrifiadau yr aed iddynt yma yw fod y buddiannau sefydlog yn cael eu cynnrychioli gan gyllid blynyddol o oddeutu chwe' miliwn o bunnau. Nis gellir rhoi gwerth cyfan *(capital value)* yr eiddo ar hyn o bryd yn llai swm na chan' miliwn o bunnau."* Ein pwnc yn awr, fodd bynag, yw ei natur, nid ei swm. Pa fodd y tarddodd y degwm? "Rhoddwyd hwy i'r Eglwys fel offrymau ewyllysgar gan feddiannwyr y tir," medd y Deon. Yn awr y mae pob hanesydd yn cydnabod fod y degwm yn cael ei dalu gan lawer yn wirfoddol at gynnal crefydd, ac wedi hyny pasiwyd penderfyniadau mewn cynghorau Eglwysig yn gorchymyn ei dalu. Hyd yma yr ydoedd yn wirfoddol, a dyma yr hyn y cyfeirir ato yn fynych fel tarddiad gwir-

* *The Property and Revenues of the English Church Establishment,* by Frederick Martin (1878).

foddol y degwm. Ond y mae y Deon yn myned gam ymhellach, ac yn haeru fod y tirfeddiannwyr yn yr oesoedd hyny nid yn unig wedi ei dalu drostynt eu hunain, ond hefyd wedi ei osod i fod yn daledig gan eu disgynyddion a'u holynwyr hyd byth, ac ar y tir hwn fod y degwm yn eiddo yr Eglwys yr un modd ag y mae gwaddoliadau Ymneillduol yn eiddo iddynt, ac nad oedd y deddfau a basiwyd gyda golwg arno ond yn sicrhâu i'r Eglwys yr hyn oedd wedi ei roddi iddi yn flaenorol. Y mae hwn, fel y gwelir, yn haeriad cywrain, heb fod yn anhawdd i'w wneyd, ond yn gofyn rhyw gymaint o brawf,—o leiaf, yn gofyn fod y tebygolrwydd cryfaf o'i blaid. Gofynodd Mr. John Roberts, cyfreithiwr, Bangor, yn ei bapyr galluog yn nghynnadledd Caernarfon, am ryw ddangosiad, ryw gofysgrif yn cofnodi y cyfryw rodd gan rywun. Atebiad y Deon yw, gan ei fod y ffurf hynaf o eiddo yn y wlad, mai y titl i fuddiannau Eglwysig yw cysegriad a rhagysgrifen *(prescription)*. Ni chlywsom fod y degwm wedi bod erioed dan gysegriad esgobol nac archesgobol. Y mae cysegriad ac arferiad o Eglwys yn rhoddi hawl ynddi. Nid yw yn ymddangos fod gan ragysgrifen *(prescription)* unrhyw eglurhâd ychwaith, oblegid medd Blackstone, "Rhagysgrifen yw arferiad er cyn cof." Y cwbl y mae hyn yn ei ddangos yw yr arferiad; nid yw yn egluro dim ar ei tharddiad. Ac nid oes le i ragysgrifen lle y mae hawl gyfreithiol: a phe gelwid ar berson plwyf i ddangos ei hawl i'r degwm, at y gyfraith yr apeliai, nid at ragysgrifen. Y mae rhagysgrifen yn dangos hawl bersonol fel y mae costwm yn dangos hawl y cyhoedd, lle nad oes prawf ysgrifenedig na hawl cyfraith. Y mae ymadroddion y Deon, gan hyny, yn hollol o'r tu allan i'r cwestiwn, a phrin y tybiwn ei fod yn deall yr hyn y mae yn ei ddywedyd. Ond tybier ein bod yn cyfleu y ddadl fel hyn,—Fod tirfeddiannwyr rhyw oes wedi talu y degwm yn wirfoddol, ac yn bur gyffredinol (tybier), a bod yr oes ganlynol wedi dilyn yr un esiampl, a'r un nesaf drachefn, ac felly ymlaen hyd nes iddo ddyfod megys costwm yn hawl. Ond ni byddai hyn yn profi dim o bwnc y Deon, ond fel arall, yn ei olrhain i hawl cyfraith. Y mae cyfraith costwm o'r un natur â chyfraith seneddol: cydsyniad y cyhoedd trwy arferiad yw un; cydsyniad y cyhoedd trwy eu cynnrychiolwyr yw y llall. Ond pwnc y Deon yw ei fod wedi ei *roddi* i'r Eglwys, a'i osod i fod hyd byth, ac am hyny nad yw yr arferiad o'i dalu yn profi dim. Pa *brawf* sydd o hyn? Dim o gwbl. Pe buasai wedi ei *roddi* felly, buasid yn dysgwyl cael rhyw gyfeiriad at hyny yn y deddfau a wnaed arno. Sonia *Charter* Ethelwulf fod y wlad wedi ei hanrheithio gan Ryfel; mae Deddf Alfred yn codi adnodau, ac yn gwneyd un adnod newydd nad yw yn ein Biblau ni; y mae Ethelred yn gorchymyn er mwyn cariad Duw a'r holl saint; a dywed William y Gorchfygwr fod y degwm yn ddyledus i Dduw; ond nid oes un ddeddf yn son ei fod wedi ei roddi gan y tadau! Ganrif neu ddwy yn ol, yr athrawiaeth o hawl ddwyfol i'r degwm oedd mewn bri, a chymerwyd John Selden o flaen yr Uchel-Lys am ysgrifenu hanes y degwm ac olrhain ei darddiad i ddeddfau dynol;* ac yn 1710 ysgrifenodd y Deon Prideaux o Norwich lyfr yn profi tarddiad y

* Gwel ysgrif o eiddo y Parch. Edwin Hatch, M.A., yn y *Contemporary Review* am Medi, 1883.

degwm o ddeddfau gwladol, gan y tybiai, fel Blackstone, fod yr hawl ddwyfol yn wan.* Mor dda fuasai gan y rhai hyn gael gafael ar athrawiaeth y "tadau duwiol!" Ond na, ni ddarganfyddwyd yr athrawiaeth hon hyd nes y daeth amddiffynwyr yr Eglwys yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r maes. Nid oes un prawf o gwbl o honi, ond y mae holl awgrymiadau hanesiaeth yn rhedeg yn hollol groes iddi. Tybiai y Deon ond iddo lwyddo i wneyd deddf Offa yn chwedl, a thaflu ammheuaeth ar siarter Ethelwulf, y gallai gymeryd cyfarwyddiadau archesgobion y drydedd ganrif ar ddeg fel prawf nad oedd un ddeddf wedi ei gwneyd gyda golwg arno hyd hyny. Ond y mae yn camu yn rhy fras. Pasiwyd deddf yn nyddiau Alfred; un arall gan Athelstan, 924 A.D.; un arall gan Edmund, 944 A.D.; ac un orthrymus iawn gan Edgar; ac eraill gan Ethelred, Canute, a William y Gorchfygwr. Ai ffug, tybed, oedd yr holl rai hyn? Os felly, gellid gwneyd holl hanes Lloegr yn ffug yn yr un modd. Barn y prif haneswyr ydyw mai mewn cyfraith wladol y gwreiddiodd yr hawl i'r degwm.† Cyfeiria y Deon at Ddeddf 2 Edward VI., c. 13, drwy yr hon yr attelid degwm ar dir a ddygid dan driniaeth am saith mlynedd; a dywed fod degwm arno yn barod, ond nad oedd yn werth ei geisio. Gwir; ond ar ba dir heblaw ar dir cyfraith? Pa henafiaid duwiol a roddasant y tir gwyllt anniwylliedig? A'r pryd hwnw, nid oedd mwy na'r bedwaredd ran o'r tir sydd yn awr dan driniaeth yn cael ei ddiwyllio, ac felly nis gallai ond cyfraith y tir roddi degwm y tair rhan arall i'r Eglwys. Y gwir ydyw am athrawiaeth y Deon am darddiad y degwm, po fwyaf yr edrychwn arni, mwyaf gwrthun a disail y mae yn myned. Ac fod gan y tlodion hawl mewn rhan o'r degwm o'r dechreuad, a brofir tu hwnt i bob dadl gan Mr. Eagle yn ei lyfr ar y pwnc.‡ Ond gofyna y Deon, Pe buasai Siarter Ethelwulf yn ddeddf, pa gysylltiad fuasai rhyngddi âg esgobaeth Bangor, yr hon a sefydlwyd yn nghanol y chweched ganrif? Ni a ddeuwn i Fangor yn y man ar hyd ffordd arall; yn y cyfamser sylwn mor awyddus yw y Deon i wahaniaethu rhwng yr Eglwys Gymreig a'r Eglwys Seisonig. Ar yr un pryd cymeradwya i'r Prifweinidog Seisonig benodi esgobion i Gymru, ond iddo benodi Cymry. Ond, attolwg, pa le y mae yr Eglwys Gymreig erbyn heddyw? Deddfau Seisonig sydd yn gorfodi talu y degwm at ei chynnal; archesgobion Seisonig sydd yn meddu yr awdurdod uchaf arni; erthyglau crefydd o gyfansoddiad Seisonig yw safon ei chredo; a Llyfr Gweddi Cyffredin yn gyfieithiad o'r Saesoneg a arferir ynddi. A fedr y Deon nodi un nodwedd arbenig Gymreig sydd wedi ei gadw ynddi, oddieithr yr iaith,—a hi, tu hwnt i bob cymhariaeth, yw y fwyaf Seisnigaidd mewn iaith o'r holl gyrff crefyddol sydd yn Nghymru. Y mae wedi colli hyd yn nod ei henw Cymreig—"Eglwys Loegr" y gelwir hi, ïe, gan ei phlant ei hun.

Am y gwaddoliadau, y maent yn ol y cyfrif uchod o eiddo Mr. Frederick

* *Tithes: their Origin in Public Law.* By Humphrey Prideaux, Dean of Norwich.

† Gwel Blackstone, Vol. II., p. 25 (Ed. 1794); Stubbs's *Constitutional History of England,* Vol. I., p. 26 (Library Edition); a'r erthygl y cyfeiriwyd ati o eiddo y Parch. Edwin Hatch, M.A.

‡ *Tithes the Property of the Public and the Poor:* a Legal Argument. By William Eagle, Esq., Barrister at Law.

Martin yn werth tua miliwn a thri chwarter yn flynyddol. Addefwn fod y rhai hyn, gan mwyaf, yn rhoddion o eiddo yr henafiaid, duwiol ac annuwiol, i'r Eglwys, ac fod y Llywodraeth wedi ychwanegu atynt o bryd i bryd, trwy roddion Seneddol. Cafodd yn y *Queen Anne's Bounty* yn y blynyddoedd 1809—20, £1,100,000 drwy bleidleisiau Tŷ y Cyffredin. Dadleua y Deon, fel y gwelsom, fod yr Eglwys yn yr oesoedd cyntaf yn cynnwys yr holl genedl, ac felly yr oedd yr hyn a roddid y pryd hwnw i'r Eglwys yn cael ei roddi i'r holl genedl, ac nid i ran o honi, ac yr ydoedd dan lywodraeth y genedl. Y mae yn bur wahanol heddyw. Yn Lloegr ni chynnwys yr Eglwys fwy nag un ran o dair o'r boblogaeth, nac yn Nghymru fwy nag un ran o saith. Gan hyny y mae eisieu ad-drefniad i ddwyn yr eiddo hwn o fudd i'r holl boblogaeth, fel y rhoddwyd ef ar y cyntaf. Y mae yr egwyddor hon yn cael ei chydnabod beunydd. Pan y byddo rhyw elusen, a roddwyd i amcan neillduol er lles y cyhoedd, a'r amgylchiadau wedi newid fel y bydd yr amcan hwnw yn ddifudd, y mae y Llywodraeth yn ymyryd i'w droi i amcan arall er lles cyhoeddus. Ond yn fynych bydd rhyw ychydig nifer yn meddwl mai eiddynt hwy ydyw, ac yn grwgnach fod yr elusen yn cael ei lladrata oddiarnynt; ond y mae pob dyn rhesymol yn gweled yr angenrheidrwydd am y cyfnewidiad. Fel y cyfryw rwgnachwyr y mae yr Eglwyswyr yn hollol gyda'r eiddo hwn. A phe buasai y degwm hyd yn nod yn ffrwyth rhoddion gwirfoddol, ar y tir hwn buasai yn deg i'r Llywodraeth ymyryd âg ef. Dyma yr hyn a feddylir wrth ddyweyd fod yr Eglwys yn eiddo cenedlaethol. Chwareu ar eiriau mae y Deon pan ddywed fod hawl oruchaf gan y Llywodraeth ar bob eiddo. Nid dyma yr ystyr; i'r genedl fel y cyfryw y rhoddwyd y gwaddoliadau. Nid oes i'r Eglwys fodolaeth fel plaid ar wahân oddiwrth y genedl; y genedl yn ei hymarferiadau crefyddol ydyw, a'r genedl yn uniongyrchol bïau yr eiddo hwn. "Hwyrach y byddai yn fwy cyson âg egwyddor y pwnc i ddyweyd fod yr hawl etifeddol yn y cyhoedd."* Nid y person a'i pïau; nid oes iddo ef ond meddiant arno tra yn cyflawni y gwaith; nid yr esgob ychwaith; nid yr "Eglwyswyr," nis gallant trwy unrhyw gydsyniad o'r eiddynt eu hunain ei drosglwyddo, ac nid oes neb i'w feddiannu ond y plwyfolion, hyny yw y cyhoedd. Fel hyn y mae eiddo Esgobaeth Bangor, a phob esgobaeth arall, yn perthyn i'r genedl. Am yr *hawl*, cofier, yr ydym yn son; pwnc arall fyddai, pe yr elid i'w ranu, pa ran a adewid i'r blaid Eglwysig. Nid yw yn perthyn i ni yn awr fyned i mewn i'r mater hwnw.

III. *Yr Eglwys yn Nghymru.*—Y mae y rhan olaf o'r araeth yn cynnwys llawer o sylwadau amrywiol ar yr Eglwys ac Ymneillduaeth yn Nghymru. Rhaid i ni grynhoi.

*Ystadegau.* Addefa y Deon fod 850,000 o drigolion Cymru a Sir Fynwy yn arfer mynychu y capelydd, ac felly nid oes eisieu dadl. Wrth gwrs pan yn cyfrif, cyfrifir y plant a'r gwrandäwyr yn gystal â'r aelodau corfforedig. Nid oes ganddo nemawr i'w ddyweyd yn erbyn cyfrifiad y Dr. J. Thomas, sef, nad yw yr Eglwyswyr yn awr yn fwy nag un ran o saith o'r boblogaeth. Y mae yn dangos awydd mawr i wneyd allan fod Cymru yn bur grefyddol cyn dechreuad Methodist-

* *Tithes*, &c., by W. Eagle, p. 4. *Note.*

iaeth, ac nad oedd ynddi gymaint o baganiaid âg sydd yn awr, ac wrth wneyd hyn cawsom ystadegau lled ddyddorol am y flwyddyn 1749. Ymddengys fod Esgob Llanelwy wedi gwneyd ymofyniad am y nifer o deuluoedd oedd yn y plwyfi, nifer y cymunwyr misol, a nifer y cymunwyr ar y Pasc. Yn y lleoedd canlynol: Bodffari, Caerwys, Ysceifiog, Treffynnon, Dinbych, Eglwysfach, Hope, Wyddgrug, Llangollen, a Meifod, yr oedd cyfanrif y teuluoedd yn 3174, y cymunwyr misol yn 614, a'r cymunwyr ar y Pasc yn 4082. Ni roddir y cymunwyr misol yn Rhuddlan a Machynlleth. Gadewch i ni edrych ar y ffigyrau hyn. Cyfrifir fod pob teulu ar gyfartaledd yn cynnwys 5 o bersonau; a chymeryd y cyfartaledd hwn yr oedd 3174 o deuluoedd yn cynnwys poblogaeth o 15,870, o'r rhai yr oedd 614, neu ychydig llai na 4 y cant, yn cymuno yn fisol, a 5032, neu ychydig llai na 26 y cant, yn cymuno ar y Pasc. Yn ol amcan-gyfrif Rickmann, yr oedd poblogaeth Cymru yn 1750 yn 450,994, ac os cymerwn yr un cyfartaledd drwy Gymru oll, cawn fod nifer y cymunwyr misol yn 17,137, ac ar y Pasc yn 117,258. Gwyddom fod cryn lawer o hygoeledd gyda golwg ar gymuno ar y Pasc, ac yr edrychid ar y neb na wnai hyny yn hynod o annuwiol; ond cymerwn nad oedd nifer y rhai a gymunent ar y Pasc ond 40 y cant o'r rhai a fynychent yr Eglwys (yn wŷr gwragedd, a phlant, ac y mae hyn yn ffafriol iawn pan ystyriom yr oes hono); rhoddai hyny i ni nifer y rhai a fynychent yr Eglwys yn Nghymru yn 293,146, gan adael yn weddill 157,848, neu 35 y cant, yn baganiaid. Pe buasai paganiaid Cymru heddyw yn 35 y cant, buasent yn rhifo 525,000; ond yn lle hyny nid ydynt ond tua 300,000, sef 20 y cant. Ffigyrau y Deon ei hun sydd yn rhoi defnydd i'r cyfrif hwn, ond y mae yn amlwg nad yw yn ystadegydd, nac yn deall y gwersi y mae ei ffigyrau yn eu dangos iddo. Ymddengys fod y Deon wedi pigo ei blwyfydd, a bod yr olwg a roddir yn un fwyaf ffafriol. Nid oedd, fe welir, ond 4 y cant yn cymuno yn fisol. Y mae hyn yn siarad cyfrolau, ac yn dangos tra yr oedd lliaws o'r Cymry mewn rhyw ystyr yn goelgrefyddol, eu bod yn credu fod cymuno ar y Pasc yn ddigon o iawn am bechodau y flwyddyn. Pe buasent yn baganiaid hollol, buasai, ar ryw olwg, yn haws gwneyd argraff arnynt. Yr oeddynt yn meddu rhyw esgus o grefydd, ond yn bur annuwiol.*

*Haneswyr crefyddol Cymru yn yr oes o'r blaen.*—Cawsant hwy eu rhan o ddirmyg gan y Deon, yn enwedig y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool, hanesydd Methodistiaeth. Nid anghofir y wên watwarus a'r pwyslais dirmygus gyda pha un y crybwyllid fod hanes y Parch. J. Hughes yn cofnodi dros "ddeugain o wyrthiau,"—yr oedd yn hollol deilwng o Bradlaugh. Ond ni phrofwyd fod yn anmhosibl hyd yn nod i gyfryngiadau gwyrthiol gymeryd lle. Gosodid yr haneswyr allan fel

* Cyfeiriai y Deon at lythyr a ysgrifenwyd gan un John Evans o'r Bala yn 1731, yn dyweyd fod pobl Môn oll yn myned i'r Eglwys yn bur gyson, a dywedai fod y llythyr mewn Geiriadur Hanesyddol gan y Parch. O. Jones, Llandudno. Wedi chwilio yn ofer am dano, anfonasom at y Parch. O. Jones, a'i ateb ydoedd: "Nid wyf yn gwybod i mi weled y fath frawddeg erioed o'r blaen."—Hawlia y Deon y Dr. Erasmus Saunders fel tyst fod pobl Esgobaeth Tyddewi mor rinweddol, gonest, heddychlawn, a chyson mewn addoliad crefyddol ag ydynt heddyw. Nid ydym wedi gweled llyfr y Dr., ond gwelwn fod y Barnwr Johnes yn cyfeirio ato fel yn cyd-dystio â'r Parch. T. Charles am gyflwr moesol y wlad yn yr oes hono. Gwêl *Causes of Dissent*, p. 12. *Note.*

penboethiaid unochrog. Ni a wyddom, o'r ochr arall, eu bod yn ddynion cywir a chrefyddol, yn ymdrechu rhoi y gwirionedd ger bron. Nid esgeulusent ddyweyd y da pan yr oedd i'w ddyweyd, ac am y tywyll y mae yn bur sicr na fynegasant mo'r hanner. Yr olaf o bawb, fel y gŵyr cenedl y Cymry, i gael ei gyfrif yn benboeth fuasai y diweddar Barch. J. Hughes. Mae yn ddiammeu hefyd mai nid gyda'r Deon y ganwyd gwirionedd a gwladgarwch, ac nid gydag ef y byddant feirw. Ond yr hyn sydd yn rhyfedd yw, os oeddynt yn unochrog, na fuasai rhywun digon galluog wedi ei gael i ddangos yr ochr arall. Hawdd ydyw priodoli penboethni ac unochredd pan nas gellir gwrthbrofi y ffeithiau. Dyma ryw fath o "ysmaldod" eto, mae'n debyg!

*Ffrwyth yr Eglwys.*—Aeth y Deon i ddangos beth a wnaeth yr Eglwys mewn tri chant a hanner o flynyddoedd: cynnyrchu yr Esgob Morgan, cyfieithydd y Bibl (ond nid esgob ydoedd pan wnaeth hyny), yr Esgob Parry, Dr. John Davies, y Ficer Pritchard, yr Archddiacon Prys, Griffith Jones, Llanddowror, Harris, Rowlands, Williams, a Charles; ac yn y ganrif bresennol, adeiladu eglwysydd ac ysgolion. A dyma'r cwbl! Ychydig o groesaw gafodd llawer o'r gwŷr uchod yn eu dydd, ac am amryw, y gymwynas fwyaf a wnaeth yr Eglwys iddynt hwy ac i Gymru oedd eu bwrw allan. Yn ol y dull hwn gallai Pabyddiaeth ymffrostio yn Luther, a'r Eglwys Iuddewig yn Paul, a'n Harglwydd Iesu Grist. Dylasai fod gan Eglwys a gafodd gymaint o fanteision lawer mwy na hyn i'w ddyweyd am lafur tair canrif a hanner. Gwaith da yw adeiladu eglwysydd mae yn ddiau, ond gwell testun ymffrost fuasai medru eu llenwi. Yn sicr, medr y Deon "ysmalio."

*Erlidigaethau.*—Beth nesaf? Gwedir i'r pregethwyr diwygiadol gael eu herlid, ond haerir y derbynid hwy yn groesawus yn ffermdai y wlad. O chwi ysbrydion Harris, Rowlands, Peter a William Williams, Charles, a'r holl lu, pa fodd y camddeallasom am danoch? Tybiem i chwi ddyoddef llawer dros Grist a'i achos, ond yn lle hyny byw mewn moethau yr oeddych! Ni ddadguddiwyd hyn ond i Ddeon Bangor yn 1883. Ysmaldod? Na, na, beddau y saint a hunasant sydd yma, a thir cysegredig! Ond sicrhâ y Deon nad yw clerigwyr y dyddiau presennol yn erlid nac yn gwneyd drwg rhwng tenantiaid a'u meistri tiroedd. Felly! "Y mae hyn yn wir [sef eu bod yn galon-agored a diniwed] am bedwar ar bymtheg o bob ugain o honynt." Nid ydym yn dymuno myned yn fanwl i *fractions;* y mae 1300 o glerigwyr yn Nghymru, ac mae 65 o rai drwg yn nifer lled fawr mewn gwlad mor fechan. Adseinied geiriau y Deon yn nghreigiau Arfon, a dyffrynoedd Meirion, Maldwyn, a Theifi, a chymydogaeth y "bedd mawr" yn Llanaelhaiarn,—ac oddiyno i Rosllanerchrugog.

*Gweinyddu i'r lleiafrif.*—Tra yn addef lleiafrif truenus gwrandäwyr yr Eglwys, dadleua ei bod yn gweinyddu mewn bedyddio, priodi, claddu, afiechyd, &c., i bawb. Dywedai Paul, "Ni anfonodd Crist fi i fedyddio ond i efengylu," ond dywed yr Eglwys, "Nis medraf efengylu ond yr wyf am fedyddio." Pa un yw amcan penaf Eglwys? Peth arall a ddygir i brofi nad yw Eglwyswyr mor lleied eu nifer yw fod yr etholwyr Toriaidd yn 1880 yn fwy nag un ran o saith. Os myn brawf teg yn yr etholfan, cynnorthwyed i ëangu yr etholfraint a diddymu pleidgeisio.

*Ffaeleddau Aml-eglwysyddiaeth.*—Y mae yn gostus,—y mae Ymneillduaeth 850,000 o'r trigolion yn costio iddynt £400,000 y flwyddyn o'u harian eu hunain, hanner pa un a ystyria y Deon yn wastraff. Ond y mae Eglwys y 200,000 o'r trigolion yn costio £209,428 yn flynyddol, nid o'u harian eu hunain, ond eiddo y wlad. Buasai yn fwy diogel i'r Deon beidio son am wastraff. Bai arall yw fod Ymneillduaeth yn rhedeg i ddyled. Ei llwyddiant yw yr achos o hyny, ac y mae y ddyled yn cael ei chydnabod yn wyneb agored, a'i thalu. Y mae eglwysydd weithiau yn gwybod am ddyled, ond yn gyfrinachol, ar gyfrifoldeb personau. Y mae dyledwr anonest yn anfoesol; ond y mae tyddynwr sydd yn perchen tir, ac yn gwystlo er mwyn gwella ei dir a'i adeiladau yn ddigon gonest, ac yn derbyn symbyliad i weithgarwch. Pe buasai yr Eglwys yn weithgar a llwyddiannus, fel Ymneillduaeth, buasai raid iddi hithau fenthyca, neu gael arian gan y Llywodraeth! Bai arall ar Ymneillduaeth yw ei bod yn "chwanegu dynion gweinidogaethol ac yn lleihâu nerth gweinidogaethol." A'n helpo ni! Pa gawr gweinidogaethol gododd yr Eglwys er's canrif a hanner, a pha enwad Ymneillduol yn Nghymru sydd wedi bod heb ei gewri yn y gorphenol a'r presennol! Gwyddom am bregethwyr da yn yr Eglwys, ond am "nerth" y mae yn ddigon main yn y pen uchaf, ac yn myned yn feinach feinach fel yr eir i flaen y gynffon. "Newynu gweinidogaeth yw darostwng ac anfoesoli gwlad," medd y Deon eto. Wel dyma hi. Ni chlywsom am bregethwr Ymneillduol yn marw o newyn; nid ydynt yn cael helaethrwydd moethau fel rhai, ond cânt yr addewid, "Ei fara a roddir iddo a'i ddwfr fydd sicr." Ymattaliwn rhag desgrifio yr hyn sydd yn bod yn yr Eglwys! Bai arall ar Ymneillduaeth yw ei bod yn amddifadu yr Eglwys o'r talentau,—"dylasai morfilod y pulpud Anghydffurfiol fod yn urddasolion uchel yr Eglwys, yn ein lle ni bobl annheilwng." Wrth gwrs, "ysmaldod" yw hyn. Cafodd yr Eglwys y genedl, ond collodd hi. Dyna paham y cyhuddir hi o fethu cyrhaedd ei hamcan, am iddi ollwng ei gafael o'r genedl, ac nas gall ei chael yn ol. Methu a wnaeth fel y mae; oni fyddai yn well iddi gynnyg, i weled beth allai wneyd ar ol cael rhyddid y Dadgysylltiad?

*Pwy gaiff y budd o'r Dadgysylltiad?*—Dyma'r cwestiwn olaf a ofyna. Oni ddywedodd na ddylid appelio at gymhelliadau heb fod o'r dosbarth uchaf ac ardderchocaf? Paham y mae efe eto yn myned i son am elw neu golled? Os yw Dadgysylltiad yn gyfiawn, dylid ei gael, costied a gostio. A golledid y tlawd? Nid yw gofal anhunanol yr Eglwys am y tlawd yn hynod o amlwg, ac y mae y tlawd yn bur graff i weled lle y bydd ysbryd plaid yn ymwthio. A ennillai y ffermwr? Teifl y Deon iddo sylw camarweiniol trwy ddyweyd hanner gwir. Dywed y byddai yn rhaid i'r ffermwr dalu y degwm wed'yn i'r meistr tir yn y rhent. Gwir, ond ni ddywedodd y byddai gan y Llywodraeth swm enfawr o arian i'w ddefnyddio i arbed y trethi. Y mae gan y ffermwr dri gofynwr, sef, y meistr tir, y person a'r trethgasglydd. Y mae y meistr tir, trwy dalu swm o arian, yn prynu ymaith y person, ac yn cymeryd ei le yn ei ofyn ar y ffermwr. Dyna y cam cyntaf. Y mae un ran o'r swm a dalwyd gan y meistr tir yn myned i ddigolledu y person, ac y mae y rhan arall yn myned i boced y trethgasglydd, i beri fod ei ofyn ef yn llai ar y ffermwr. Dyna yn fyr hanes y drafodaeth. Mae yn

wir y byddai pryniad y degwm yn peri ychwanegiad cyfatebol yn y rhent, ond *byddai y cyfanswm gweddill, wedi talu pob gofynion, at ysgafnhâu beichiau y wlad.*

Mewn llythyr yn y *Liverpool Mercury* addewir i ni ddarlith eto ar "Ddiwygiad Eglwysig ac undeb crefyddol yn Nghymru," ond yn niweddglo yr araeth cawn awgrymiad o'r ffordd i gael undeb—sef, dyfod i gymuno i'r Eglwys unwaith yn y flwyddyn, a gwrandaw "adrodd pregethau" yn y Capeli ar adegau eraill. Cynllun Utopaidd; oblegid fel y cyfeiriasom at yr hyn a ddywedai y Deon Alford, y mae y cyfryw ddiwygiad ac undeb yn anmhosibl tra y byddo cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Os yw y Deon o ddifrif am undeb, gallai ddangos hyny trwy ymdrechu am y Dadgysylltiad fel y symuder y prif rwystr oddiar y ffordd.

Beth am yr araeth, bellach? Fel amddiffyniad i'r Eglwys yr oedd yn fethiant aruthr; pob ymresymiad yn tori i lawr, a phob erfyn a arferodd yr areithydd yn troi yn ei erbyn ei hun. Os nad oes amddiffyniad gwell iddi' y mae ei thynged wedi ei selio yn ddiddadl. Mewn ystyr arall, yr ydoedd yn fwy o fethiant fyth. Ni chafodd Ymneillduaeth Cymru erioed y fath sarhâd, a hyny gan un o urddasolion yr Eglwys. Y mae yr araeth yn golofn o erlidigaeth ynddi ei hun—yn gorffoliad eglur a diammheuol o'r ysbryd sydd yn nodweddu crefydd sefydledig. Ac wedi y cwbl dyweyd mai "ysmaldod" ydoedd! "Nid oes genyf deimlad personol cryf ar y cwestiwn," meddai. Gyda holl yni ei feddwl ac urddas ei swydd, yn dyfod ar y llwyfan i gellwair, pan yn ymdrin â phwnc sydd yn dal cysylltiad â buddiannau uchaf y genedl! Nid oedd yr holl ymadroddion cryfion ond chwareu *interlude* o flaen y cyhoedd! Ni fu neb o'r Dadgysylltwyr erioed yn euog o hyn. Wrth iddynt fyfyrio, ennyna tân, a llefarant, a theimlant eiddigedd cryf dros burdeb, a chrefydd Mab Duw. Os oedd Deon Bangor am gymeryd plaid yn y ddadl ar bynciau mor annhraethol bwysig, dylasai deimlo, a theimlo yn gryf, neu fod yn ddystaw. Y mae yr araeth hon a'r llythyr a'i dilynodd, wedi gwneyd mwy i brysuro y Dadgysylltiad yn Nghymru na dim a wnaed er ys blynyddoedd lawer; a phan yr adroddir hanes y cwestiwn, wedi ei derfynu, rhoddir lle mawr i'r Deon a'i araeth, a chofir am y rhan a gymerodd ynddo, mae yn debyg, am rai oesau.

J. Eiddon Jones.

## A FYNWCH CHWITHAU HEFYD FYN'D?

"A fynwch chwithau hefyd fyn'd?"
Gofynai 'r Athraw i'w ddysgyblion,
Wrth wel'd y dorf âg ysgafn droed
Yn symud fel y llon awelon.

"At bwy?" gofynent yn gyffrous,
At bwy, O Athraw anghymharol?
'D oes neb yn dysgu fel Tydi,
Mae 'th wersi 'n fywyd tragywyddol!"

"At bwy?" fel rhyw gynhyrfus dòn
A redai dros y graig yn uchel;
Y Graig orweddai dan y llif,
I ddal y pwysau 'n dawel, dawel!

Fel tad, pan fydd ei anwyl rai
Mewn dyeithr fan yn dechreu crwydro—
Ymguddia, nes rhoi braw i'w bron,
Er nad yw ond cymeryd arno.

O Athraw Dwyfol! mae ei lais
Yn deffro serch a chydymdeimlad;
Llef Cariad yma yw y llef,
A'r adsain sydd yn adsain Cariad.

Pa Athraw fu mor lawn o swyn?
Pa dad ro'i gwestiwn mor drydanol?
Mae fel y fellten lawn o wefr
Yn creu y daran gyfatebol.

Fel serchog fam, pan chwydda 'i bron,
Yn gwasgu 'i heilun at ei chalon;
A'r mebyn yntau 'n dal ei lon'd
O ddiniweidrwydd, i'r ymylon.

Fel awel chwythai dros yr ardd
Ar doriad gwawr ryw hyfryd forau,
Wrth ysgwyd dail y rhosyn coch
Yn deffro swyn ei beraroglau.

Y rhosyn huna 'n fwyn drachefn,
A'i bwys ar fraich yr awel hyfryd:
Ac felly huna 'r dysgybl llon
A'i ben ar ddwyfron ei Anwylyd!

GLAN COLLEN.

# NODIADAU LLENYDDOL.

*Natural Law in the Spiritual World.* By HENRY DRUMMOND, F.R.S.E., F.G.S. Seventh Edition. London: Hodder and Stoughton.

Y MAE hwn yn un o'r llyfrau pwysicaf sydd wedi ymddangos er ys llawer o amser, ac y mae yn debyg o adael argraff ddofn a iachusol ar feddyliau dynion dros dymmor maith. Da genym weled ei fod eisoes yn ei seithfed argraffiad. Mae ei deitl, "Deddf Naturiol yn y Byd Ysbrydol," yn taro yn ddyeithr, ac yn peri ymholiad, Beth a allai y fath beth fod? Ond ni raid i'r darllenydd ond cymeryd ychydig hamdden na chaiff eglurhâd ar y dirgelwch, ac odid fawr na theimla fod egwyddor y llyfr yn ymagor arno, i fesur helaeth, fel dadguddiad, ac yn tywallt goleuni ar diriogaethau oedd yn orchuddiedig gan dywyllwch mawr.

Mae y tebygolrwydd rhwng y byd naturiol a'r byd ysbrydol—y pethau a welir a'r pethau ni welir—wedi bod erioed mor amlwg, fel y mae dynion ymhob oes yn siarad am y naill mewn ymadroddion sydd, yn yr hyn a olygid yn ystyr briodol, yn perthyn i'r llall. Trwy ddammeg ac aralleg, cyffelybiaeth a chymhariaeth, yr ydys yn barhâus yn cael fod pethau y byd hwn yn gwasanaethu yn rhagorol i ddangos pethau y byd arall. Ac er, i lawer o feddyliau, nad ydyw y byd anweledig ond anhawdd ymaflyd ynddo mewn cymhariaeth i sylweddolrwydd diammheuol y byd gweledig sydd o'u hamgylch, eto y mae y rhai sydd wedi myned yn ddyfnach i'r gyfrinach yn dyfod i ddeall yn well, ac yn cael mai y ddaear a'i phethau, wedi y cwbl, ydyw y cysgod, ac mai y byd arall ydyw byd y sylweddau tragywyddol. Ond mae y tebygolrwydd rhyngddynt yn dyfod yn dra amlwg, ac yn peri i ddyn gydymdeimlo âg ymofyniad awgrymiadol yr angel yn Milton,—

> What if earth
> Be but the shadow of heaven, and things therein
> Each to other like more than on earth is thought?

Ac heblaw awgrymu addysgiadau yn y ffordd a grybwyllwyd, y mae y tebygolrwydd hwn, yn y ffordd o gyfatebiaeth, ac yn arbenig yn llaw Butler, wedi profi yn dra gwasanaethgar mewn ateb, neu o leiaf roddi taw ar wrthddadleuon. Gan mai yr un ydyw Duw natur ag sydd wedi dadguddio ei feddwl i ni yn ei Air, ni fyddai ond rhesymol, chwedl Origen, i ni ddysgwyl cyfarfod yr un math o anhawsderau yn y naill diriogaeth ag sydd mor amlwg yn ein hamgylchynu yn y llall. Pa mor ddyrys bynag ydyw y pethau a ddygir ger ein bron yn y dadguddiad, nid ydyw hyny, o leiaf, yn ddigon o reswm dros eu gwrthod, gan nad ydyw yr anhawsder ond yn hollol o'r un natur ag a welwn yn y pethau sydd o'n hamgylch yn barhâus. Ond yn hyn oll nid ydys yn ymwneyd ond âg ymddangosiadau, neu *phenomena;* mae y naill beth yn debyg i'r peth arall, ac am hyny fe all y ffansi neu y rheswm dynu eu casgliadau fel y byddont yn dewis, heb i wyddoniaeth, fel y cyfryw, deimlo eu bod yn siarad â hi o gwbl. Ond y mae yr adeg yma yn hanes y byd, mewn ystyr arbenig, yn gyfnod gwyddoniaeth. Ni osodir ond ychydig bwys ar ymddangosiadau, a phur ddigyfrif ydyw unrhyw ddychymygion a lunir mewn ffordd o geisio rhoddi cyfrif am danynt; mae yn rhaid cael trefn a dosbarth ar yr ymddangosiadau,

a chael allan y ddeddf, neu y deddfau, sydd yn eu llywodraethu. Ni fu adeg yn holl hanes y byd pan delid y fath warogaeth i'r drychfeddwl o ddeddf, ac y gwneid y fath ymdrechion i gael allan y deddfau sydd yn llywodraethu pob peth. Ac ymhellach, ymysg y lliaws o ddeddfau y ceir eu bod yn gweithredu, fe grynhoir peth anferth o feddwl a llafur ar yr ymdrech i gael o hyd i'r un ddeddf fawr, neu yr unoliaeth mewn nerth a threfn a allai fod yn gyffredin iddynt oll. Yr ydym yn barhâus yn ymofyn am "yr un ymysg y lliaws," ac ni ellir ein boddloni heb gael allan ystyr a rheswm pob peth yn y ddeddf sydd yn esbonio ei fodolaeth ac yn rhoddi cyfrif am ei weithrediadau. Ac yn y fan yma bellach, y mae yr anghydfod arbenig rhwng gwyddoniaeth yr oes a chrefydd ddadguddiedig. Y mae ymryson y mân "gysoniadau" wedi rhedeg ei gwrs, ac ni feddylir mwyach am osod nemawr o bwys, y naill ochr na'r llall, ar y cysondeb neu yr anghysondeb a allai fod rhwng ffeithiau gwyddoniaeth a dadganiadau y dadguddiad. Mae y rhyfel wedi ei chario yn llawer pellach erbyn hyn, a'r cwestiwn sydd i'w benderfynu ydyw, A oes lle o gwbl, mewn byd lle y gwelwn fod ei bobpeth dan lywodraeth deddf naturiol, grefydd sydd yn son am fyd nad ydyw yn ymddangos fod deddf naturiol o gwbl yn gallu rhoddi ei throed i lawr ynddo? Tra y mae pobpeth arall yn cymeryd eu lle yn nhrefn naturiol y bydysawd, y mae crefydd fel pe byddai yn sefyll o'r neilldu mewn unigrwydd eithriadol, fel pe na byddai yn perthyn i'r byd hwn. Pe gellid cael y fath beth a sylfon wyddonol i grefydd, fe ellid ei derbyn; ond gyda hi, yn anad pobpeth, fe ymddengys fod hyny yn eisiau. "Wrth wyddoniaeth," meddai Huxley, "yr wyf yn deall pob gwybodaeth sydd yn gorphwys ar brawf ac ymresymiad o nodwedd gyffelyb i'r hyn a hawlia ein cydsyniad â gosodiadau gwyddonol cyffredin; ac os gall rhywun wneyd yn dda yr haeriad fod ei dduwinyddiaeth yn gorphwys ar brawf digonol ac ymresymiad teg, yna ymddengys i mi y rhaid i'r cyfryw duwinyddiaeth gymeryd ei lle fel rhan o wyddoniaeth." Sonia Emerson ei fod unwaith yn ymddyddan â chenadwr zelog, ac yn dangos iddo nad oedd ei gredo â sail iddo yn ei brofiad ef, ac i'r cenadwr ateb: "Nid ydyw felly yn eich profiad chwi, ond y mae felly yn y byd arall." Ond atebai yntau, "Byd arall! Nid oes byd arall. Mae Duw yn un ac yn hollbresennol; naill ai yma neu nid yn unlle arall y mae yr holl ffaith." Mae yn debyg nad allai y cenadwr, druan, ddattod y cwlwm, ac felly fe adawyd y ddau yn eu penbleth. A dyma yr anhawsder: profi mai y byd hwn hefyd ydyw y byd arall, ac fod deddf naturiol, yr ymddengys ei sêl mor amlwg ar holl weithrediadau Natur yn y byd hwn, yn cyrhaedd hefyd i'r byd hwnw.

A dyma y dyrysbwnc yr ymgymerodd Proffeswr Drummond â'i egluro, ac y mae hefyd, dybygem, wedi bod yn hynod o lwyddiannus i wneyd hyny. Dywed yn ei ragymadrodd iddo gael y fraint dros rai blynyddoedd o anerch yn rheolaidd ddau ddosbarth tra gwahanol o wrandäwyr, ac ar faterion tra gwahanol. Yn yr wythnos darlithiai i ddosbarth o efrydwyr ar y gwyddorau naturiol, ac ar y Sabbothau anerchai wrandäwyr, yn benaf o'r dosbarth gweithiol, ar faterion o natur foesol a chrefyddol. Ymddangosai ei sefyllfa i rai o'i gyfeillion yn dra dyrys, er nad ymddangosai yn gymaint felly iddo ef. Ar y dechreu deuai dros yr anhawsder trwy gadw y ddau ddosbarth o faterion ar wahân, fel pethau nad allai fod ddim cymundeb na pherthynas rhyngddynt. Yn raddol, fodd bynag, fe gafodd fod canolfur y gwahaniaeth yn ymddattod, a'u bod yn rhedeg i'w gilydd, er heb golli dim o'u hanfodion gwahaniaethol. Fe welai fod y cyfnewidiad yn cymeryd lle yn benaf yn yr adran a berthynai i grefydd, a chafodd ei hun, braidd yn ddiarwybod, yn dysgu gwirioneddau y byd ysbrydol bron yn nhermau gwyddoniaeth naturiol. Fe welai fod rhywbeth llawer mwy na thebygolrwydd a chyfatebiaeth rhwng y ddau ddosbarth o bethau, eu bod mewn gwirionedd yn gwneyd *un* deyrnas—

The great below clenched by the great above,—

a'r un Ddedf Naturiol mewn gweithrediad yn y naill a'r llall. Yr oedd y darganfyddiad yn peri chwyldroad yn ei holl syniadau; ond wrth barhâu mewn symledd a dwfn feddylgarwch i syllu, fe welai y chwalfa yn ymffurfio yn fyd mawr ac ardderchog, a Deddf yn ei gallu a'i gogoniant yn teyrnasu dros y cyfan. Yn lle gorfod dysgu crefydd fel "yr eithriad mawr" i holl drefn gweithredoedd Duw yn y byd naturiol, yr ydoedd bellach yn gweled ei bod hithau hefyd dan lywodraeth yr un deddfau, ac felly, tra heb golli dim o'i mawredd ysbrydol, yn derbyn prawf newydd o'i dilysrwydd; a gwelai hefyd fod y nerthoedd y tybid o'r blaen eu bod yn wrthwynebol iddi, bellach yn cydwasanaethu i'w hegluro ac i'w gogoneddu. Wrth gael pethau yn y llinell arbenig yma o ymchwiliad yn dadblygu ac yn cymeryd eu ffurf, fe welai fod y gwirionedd o gyfatebiaeth deddf yn y ddau fyd, ar wahân i gyfatebiaeth ymddangosiadau, yn profi yn dra gwerthfawr. (1) Cyfarfyddai â galwad wyddonol yr oes. (2) Dygai i grefydd yn ymaferol fwy o eglurder. (3) Parai i dduwinyddiaeth, yn lle gorphwys yn unig ar awdurdod, orphwys yr un mor wirioneddol ar natur hefyd. Mae y byd yn apelio at ddeddf naturiol; at ddeddf naturiol y caiff fyned. Mae dynion yn gwaeddi am i bethau y byd ysbrydol, os ydynt yn bethau gwirioneddol, gael eu dysgu iddynt, nid mewn gosodiadau arddansoddol nad allant ymaflyd ynddynt, ond mewn ffurfiau a ddeallant ac y mae yn hawdd eu profi; yn ol y drefn yma fe wneir hyny, ac fe ddangosir fod dysgeidiaeth ddofn a phellgyrhaeddol Sylfaenydd Cristionogaeth yn arbenig gyfoethog ac awgrymiadol yn y wedd yma. Fe rwgnechir nad oes genym ddim ond awdurdod i'w ddwyn ymlaen fel gwarant dros gorff o ddysgeidiaeth sydd yn hawlio ar ein rhan ymostyngiad na feddylir yn unlle arall am ei gyffelyb; ond yma fe geir fod Natur hefyd yn dysgu yr un peth, ac felly yn dwyn ei thystiolaeth, ac nid gyda bloesgni gwefusau, i ddysgeidiaeth yr awdurdod. Mae deddf naturiol yn cyrhaedd y byd ysbrydol hefyd, yr un modd ag y mae yn teyrnasu trwy yr oll o'r byd hwn.

Mae yr wrthddadl yn naturiol yn ymgodi, Gan fod defnydd y bydoedd naturiol ac ysbrydol mor wahanol, y rhaid eu bod dan ddeddfau gwahanol. Ynglŷn â hyn cawn ymdriniaeth ragorol ar un o gasgliadau gwyddonol gwerthfawrocaf yr amser presennol, sef heblaw fod i bobpeth eu deddfau, fod i ddeddfau hefyd eu deddf, ac mai deddf y deddfau oll ydyw cydgysylltiad, neu *continuity.* Fe fu amser pan ddychymygid bod Natur yn ymhoffi mewn chwalfëydd, *cataclysms,* ac yna yn ail ddechreu trefn newydd ar bethau. Ond erbyn hyn fe ddeallir yn well, ac y mae chwalfëydd yn ein gwyddoniaeth wedi rhoddi lle i gydgysylltiad. Mae natur yn ei gweithrediadau mawrion yn *un.* Mae yn wir ein bod ni, er cyfleusdra i ni ein hunain, yn ei rhanu i wahanol diriogaethau, ac yn son, dyweder, am ddadblygiad mewn Llysieuaeth, ac un arall mewn Daeareg, ac un arall mewn Seryddiaeth; ond nid ydyw hyn oll, a llawer yn ychwaneg, ond un gweithrediad syml o eiddo Natur yn y cyfan. Ac felly am ei holl weithrediadau. Can belled ag yr ydym ni yn gallu ei dilyn, y mae hi ymhob man yn gyson â hi ei hunan, ac yn gweithredu yn gyffelyb. Ac y mae hyny yn ddigon o reswm i ni dros gredu y rhaid ei bod yn gweithredu yn gyffelyb, dan gyffelyb amgylchiadau, mewn cylchoedd sydd yn llawer rhy bell i ni allu synied yn eu cylch. Yn nghanol y myrddiwn cynghaneddion sydd yn y gwahanol gylchoedd yn gwneyd miwsig y greadigaeth, y mae ei chynghanedd fawr hi, sydd yn cynnwys y cyfan, ac mewn dull mor ardderchog yn "dadgan gogoniant Duw," yr un. Cyfaddasa ei gweithrediadau i natur pob cylch, ond yn y cylchoedd oll y mae ei deddfau hi yn aros yn ddigyfnewid. Ac am y byd ysbrydol fe geir y dybiaeth fod deddfau gwahanol yno i'r rhai naturiol sydd ar waith yma, (1) yn annhebyg, (2) yn afreidiol, (3) yn anwybyddus. Mae gwahaniaeth mawr iawn rhwng y deyrnas fwnawl neu anorganaidd, a'r un fywydol neu organaidd. Ond mae Natur yr un yn y naill a'r llall, a'i deddfau yn gweithredu yn gyffelyb. Paham nad all fod yr un modd yn y byd ysbrydol hefyd? Mae y deyrnas organaidd,

mae yn wir, heblaw yn cynnwys yr un anorganaidd, yn cynnwys hefyd lawer yn ychwaneg. A'r un modd y mae yr un ysbrydol, heblaw yn cynnwys yr un organaidd, yn cynnwys hefyd lawer iawn mwy. Yn mynwes garedig Natur mae y mwy yn cynnwys y llai, a'r mwyaf yn cynnwys y mwy, ac y mae ei deddf dirion hi yn cofleidio y cyfan. Nid ymddyrchu y mae y mwnawl i'r bywydol, ond y bywydol, wedi ei ddeffro gan anadl Duw, sydd yn gwneyd y mwnawl yn rhan o hono ei hun; a'r un modd nid ymddyrchu i'r ysbrydol y mae y bywydol, ond yr ysbrydol, wedi ei "eni o'r Ysbryd," sydd yn cymeryd iddo ei hun ffurf uchaf y bywydol: ond yn y cyfan, yn ol fel y maent yn gallu ei dwyn, y mae Natur yn peri i'w deddf weithredu yr un modd.

Wedi Arweiniad meistrolgar sydd yn esbonio egwyddor y gwaith, fe geir un ar ddeg o draethodau neu anerchiadau, ymha rai y dangosir mewn gwahanol ffyrdd fel y mae Deddf Naturiol yn gweithredu yn y Byd Ysbrydol. Mae y gyntaf ar "Fywydgenedliad," *Biogenesis*. Fe dybid ar un adeg y gallai bywyd ymffurfio o hono ei hun, trwy *spontaneous generation*. Yn lled ddiweddar fe wnaeth Dr. Bastian ymdrech neillduol i ddangos fod hyny yn cymeryd lle. Erbyn hyn mae y ddamcaniaeth hono wedi llwyr ddiffodd, a'r grediniaeth na ddaw bywyd ond o fywyd, neu Fywydgenedliad, a defnyddio geiriau Huxley, "yn orchfygol ar hyd yr holl linell y dydd presennol." A thra yn cydnabod y dymunasai fod y prawf fel arall, fe orfodir Tyndall i ddyweyd, "Yr wyf yn haeru nad oes cerpyn o dystiolaeth arbrofiadol y gellir ymddiried ynddi mewn bod, i brofi fod bywyd yn ein hamser o gwbl wedi ymddangos yn annibynol ar fywyd blaenorol." Yr un modd yn y byd ysbrydol. "Yr hwn y mae y Mab ganddo y mae Bywyd ganddo." Mae athroniaeth yn methu taflu dim goleuni ar y dirgelwch pa fodd y mae dyn i gyrhaedd sancteiddrwydd; ond y mae gwyddoniaeth yn ei esbonio. Nid all y gareg gyrhaedd y byd organaidd, a'r un modd ni all yr hyn a aned o'r cnawd etifeddu teyrnas Dduw. Y mae yr athrawiaeth o adenedigaeth felly yn dyfod yn hollol wyddonol. Ar un modd, yn wir, yr athrawiaeth am dröedigaeth sydyn, y mae llawer yn watwar. "Mae y llinell rhwng y byw a'r marw yn llinell glir. Pan y mae gronynau marw Carbon, Hydrogen, Oxygen, Nitrogen, yn cael eu cymeryd i fyny gan Fywyd, mae yr organiaeth ar y dechreu yn bur isel. Nid oes iddo ond ychydig alluoedd. Ychydig o brydferthwch sydd ganddo. Mae tyfiant yn waith amser, ond nid ydyw bywyd. Daw hwnw mewn eiliad. Un eiliad yr oedd yn farw; y nesaf yr oedd yn fyw. Dyma dröedigaeth, y 'myned trwodd,' fel y geilw y Bibl ef, 'o farwolaeth i Fywyd.'" Mae yr ail anerchiad ar "Ddirywiad," *Degeneration*. Yn y bywyd naturiol y mae tri pheth yn bosibl: mantoliad, neu ei gadw fel y mae; perffeithiad; dirywiad. Anhawdd iawn ydyw cadw ar linell gul mantoliad, ac os nad ydys yn ymberffeithio, nid oes dim yn bosibl ond dirywio. Dangosir yn dra dyddorol, trwy hanesiaeth naturiol, fel y mae adar a llysiau, i ba berffeithrwydd bynag y gallai eu bod trwy ymgeledd ddynol wedi eu dyrchafu, eto, os gadewir hwynt iddynt eu hunain, yn dychwelyd, yn ol y "principle of reversion of type," i'w sefyllfa wyllt. Ac felly yn sicr dyn; er derbyn y bywyd newydd, os na chedwir ef yn barhâus dan ymgeledd, y mae yn rhwym o ddirywio. Felly fe geir mewn gwirionedd bregeth hynod o effro, ond yn tynu ei goleuni o gyfeiriad na fuasem yn meddwl am dano, ar y testun, "Pa fodd y diangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?" Mae y twrch daear yn treulio ei amser dan arwyneb y ddaear, ac felly heb wneyd un defnydd o'i lygaid; am hyny y mae Natur, ac mewn ffordd hollol naturiol, wedi mynu ei dial trwy ddwyn eu llygaid oddiar y creaduriaid hyn. Y mae yn gwneyd yr un modd hefyd â rhai pysgod ydynt yn aros mewn ogofau tywyll yn y dyfnder. "A'r un modd yn union rhaid i'r llygad ysbrydol farw a cholli ei allu, trwy ddeddf naturiol yn unig, os dewisa yr enaid rodio yn y tywyllwch yn hytrach na'r goleuni." Fe orchymynir cymeryd y dalent oddiar y gwas anfuddiol, ac y mae Natur yn

gwneyd hyny. Mae yr anerchiad nesaf ar "Dyfiant," *Growth*, ac y mae yn brydferth ac awgrymiadol iawn. Y testun yw, "Ystyriwch lili y maes, pa fodd y maent yn tyfu." Ymhob tyfiant y mae (1) Rhyddid, *spontaneousness*, a (2) Dirgelwch. Ni raid ond i bethau gael eu gosod yn ffordd Natur, ac y mae hi mewn rhyw ddull anamgyffredadwy i ni yn dwyn oddiamgylch eu tyfiant. Felly hefyd yn y byd ysbrydol. Y mae geiriau Ruskin, a ddyfynir, yn gosod ger bron yn hynod glir y ddammeg a'i hystyr: "Ai nid yw y prawf o Hawsder ar wyneb y gweithiau mwyaf mewn bod? Ai nid ydynt yn eglur yn dyweyd wrthym, nid 'y mae *ymdrech* fawr wedi bod yma,' ond 'y mae *gallu* mawr wedi bod yma'? Nid blinder marwoldeb, ond nerth dwyfoldeb sydd genym i'w gydnabod mewn pobpeth nerthol; a dyna ymron y peth nad ydym yn awr un amser yn gydnabod, ond yn meddwl ein bod i wneyd pethau mawrion trwy gymhorth barau haiarn a chwys. Och fi; ni wnawn ddim y ffordd yna, ond colli llawer o'n pwysau ein hunain."

Yr un modd y mae y Proffeswr dysgedig a galluog yn trin y fath faterion a *Death, Mortification, Eternal Life, Environment, Conformity to Type, Semiparasitism, Parasitism, Classification.* Yn y cyfan fe geir y wyddoniaeth fwyaf addfed, a hono yn cael ei dysgu gan un sydd ei hunan wedi astudio Natur gyda gofal a chariad. Ac yn yr holl drafodaethau gwyddonol fe geir fod gwirioneddau ysbrydol mawrion yn ymwthio i'r golwg, nid trwy gyfriniaeth a ffansi, neu yn nerth dychymyg barddonol, ond yn ngoleuni deddf sydd yn amlwg yr un yn y byd ysbrydol ag yn y byd naturiol. Mewn gair fe ddangosir, yn ol geiriau Huxley, "fod duwinyddiaeth yn gorphwys ar brawf digonol ac ymresymiad teg," ac yn ol y gweddill o'i frawddeg, hawlir "y rhaid i'r cyfryw dduwinyddiaeth gymeryd ei lle fel rhan o wyddoniaeth." Mae drychfeddwl mawr y llyfr, yr hwn a weithir allan o'r dechreu i'r diwedd gyda'r fath nerth a phrydferthwch, yn dyfod yn ddadl newydd o rymusder a gogoniant neillduol dros ddwyfoldeb Cristionogaeth, ac ar yr un pryd yn tywallt goleuni mawr ar ei gwirioneddau. Ac y mae yn dra dyddorol fod hyn oll yn cael ei ddwyn allan, ac yn y fath gyfoeth ac eglurdeb, o diriogaeth ag yr oedd llawer wedi hen gymeryd yn ganiataol fod y gagendor rhyngddi â chrefydd y Bibl yn un nad ellid myned drosto o gwbl. "Allan o'r bwytäwr y daeth bwyd, ac o'r cryf y daeth allan felusdra."

Ni raid i ni ychwanegu y cai ein darllenwyr y llyfr hwn yn drysor hynod o werthfawr. Ei bris ydyw 7s. 6c.

*The Lord's Prayer: a Practical Meditation.* By NEWMAN HALL, LL.B. Edinburgh: T. & T. Clark.

MAE awdwr parchus y llyfr hwn wedi bod yn llwyddiannus mewn amryw weithiau sydd yn fagwriaethol i grefyddolder, ac y mae rhai o honynt wedi cael lledaeniad tra helaeth, ac yn ddiammeu wedi bod yn foddion i wneyd llawer o lês. Mae y llyfr hwn, gallem feddwl, yn cynnwys mater a ddarparai i'w osod o bryd i bryd o flaen ei bobl yn ei weinidogaeth, ac yn ffurfio yn ei gyfanrwydd ymdriniaeth gyflawn a rhagorol ar *Weddi yr Arglwydd.* Nid ydyw yr awdwr yn ceisio osgoi materion sydd eisoes yn y naill ffordd neu y llall wedi eu hegluro yn helaeth ynglŷn â'r Weddi ardderchog hon, am y rheswm y buasai felly yn colli mewn defnyddioldeb fwy nag a ennillasid mewn gwreiddiolrwydd. "Y mae pob oes," meddai, "yn cael ei chyfoethogi drwy etifeddiaeth. Mae yr afon yn dyfod yn llawnach po bellaf y rhed." Ond fel "ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd" y mae yn "dwyn allan o'i drysorau bethau newydd a hen." Ar y dechreu argreffir y weddi yn ei dwy ffurf o'r *Revised Version.* Yn ol Matthew (vi. 9—13): "Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd. Sancteiddier dy Enw. Deled dy deyrnas. Gwneler dy ewyllys, megys yn y nef, felly ar y ddaear. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, megys y maddeuasom ninnau i'n dyledwyr. Ac na ddwg ni i brofedigaeth,

eithr gwared ni rhag yr un drwg." Ac yn ol Luc (xi. 2—4): "Dad, sancteiddier dy Enw. Deled dy deyrnas. Dyro i ni o ddydd i ddydd ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein pechodau; canys yr ydym ninnau ein hunain hefyd yn maddeu i bob un sydd yn ein dyled. Ac na ddwg ni i brofedigaeth." Ac yn ngoleu y ffurfiau cyweiriedig hyn yr ymdrinir trwy y llyfr â'i gwahanol ranau. Fe wneir defnydd da o'r cyfoeth o fater sydd yn llenyddiaeth yr eglwys er taflu goleuni ar y Pader, a chymhwysir y cyfan gyda doethineb ac eneiniad at yr amcan uchel o feithrin defosiwn yn ysbryd y darllenydd. Mae yn llyfr hyfryd i'w ddarllen, ac anhawdd iddo beidio gadael y neb a'i darlleno yn fwy o weddïwr. Wrth sôn am lwyddiant y deyrnas, y mae yn dangos mor ymarferol, hyd yn nod yn ei ystyr eangaf, ydyw y deisyfiad am iddi ddyfod; ac ynglŷn â hyny, gwna sylw a ddylai feddu nerth mawr i ddeffro Cristionogion i ymdeimlad o'u cyfrifoldeb:—"Mae yn hawdd cyfrif, a chyfyngu nifer presennol gwir Gristionogion i ddim ond hanner miliwn, a thybied fod pob credadyn yn arwain un enaid arall at Grist bob blwyddyn, y byddai mewn un mlynedd ar ddeg fil a phedair ar hugain o filiynau o ddeiliaid y deyrnas hon, heblaw plant, ac y byddai y deyrnas wedi dyfod at yr holl hiliogaeth." Pris y gyfrol ydyw 10s. 6c.

***Present Day Tracts on Subjects of Christian Evidence, Doctrine and Morals.* By Various Writers. Two Vols. London: Religious Tract Society.**

YMYSG y lliaws cymwynasau caredig y mae Cymdeithas y Traethodau yn wneyd i'r byd, nid y leiaf yn sicr ydyw ei gwaith yn cyhoeddi y *Present Day Tracts*, y rhai ydynt lyfrau bychain destlus o ryw ddeugain neu hanner cant o du dalenau, yn cael eu gwerthu am bedair ceiniog, a chwech o honynt wedi eu rhwymo yn chwaethus mewn llïan yn gwneyd pob un o'r cyfrolau prydferth hyn, y rhai a werthir am hanner coron yr un. Cyhoeddir y *Tracts* yn fisol, a'r cyfrolau bob hanner blwyddyn. Y maent wedi eu hysgrifenu ar faterion sydd yn neillduol yn tynu sylw y dyddiau hyn ynglŷn â Phrofion ac Athrawiaethau a Moeseg yr Efengyl. A'r hyn sydd yn fwy pwysig, y maent "fel hoelion wedi eu sicrhâu gan feistriaid y gynnulleidfa," pob un wedi ei ysgrifenu gan ŵr ag oedd wedi gwneyd ei fater yn bwnc neillduol o astudiaeth, ac yn gyffredin wedi profi i'r byd ei gymhwysder i ymdrin âg ef trwy gyhoeddi arno waith neu weithiau o awdurdod safonol. Y rhai sydd wedi cyrhaedd llawn feistrolaeth ar bethau, o bawb, ydyw y dynion i'w gwneuthur yn eglur i eraill, ac yn enwedig i ddarllenwyr cyffredin. A drychfeddwl hynod o hapus oedd cael dynion fel Principal Cairns, Prebendary Row, Dr. Blaikie, Dr. Noah Porter, Canon Rawlinson, &c., i ysgrifenu Traethodau cryno a darllenadwy ar faterion ag y mae ysbryd cyfeiliorni yn ein dyddiau mor brysur yn ceisio camarwain pobl mewn perthynas iddynt. Y mae hyny yn cael ei wneyd yn fwy effeithiol trwy osod ger bron ryw hanner gwirioneddau—tua digon i roddi golygusrwydd i'r drafodaeth—tra y celir yn ofalus yr hyn sydd yn eisieu i roddi dirnadaeth gyflawn, ac felly fe wneir yr hanner gwirionedd yn gelwydd o'r fath fwyaf peryglus. A phan y mae hyn yn cael ei gario ymlaen o ddydd i ddydd, a phob ymdrech yn cael ei wneyd—trwy ysgrifenu ac areithio a dadleu, gyda llawer o allu a dawn, a chyda honiadusrwydd difesur —i wenwyno meddwl y bobl, a hyny i'r fath raddau fel y "dywedant am y drwg, Da yw, ac am y da, Drwg yw, gan osod tywyllwch am oleuni, a goleuni am dywyllwch," y mae yn resyn i gyfeillion y gwirionedd sefyll o'r neilldu, fel pe na fyddai yr holl achos ond dibwys. Mae yn wir nad oes brinder am ysgrifeniadau o ddirfawr werth, y rhai sydd drachefn a thrachefn, ac o bob cyfeiriad, wedi dymchwelyd y golygiadau peryglus y cyfeiriwn atynt: ond fel y mae yr anffawd, y mae y rhai hyny yn gyffredin mewn cyfrolau llawnion a dysgedig, nad ydynt o fewn cyrhaedd y bobl ag y mae eu heisieu arnynt; a phe byddent o fewn eu cyrhaedd nad allent gael hamdden, ac na fyddai ganddynt yr amynedd i'w hastudio. Am hyny mae yr ymdrech yma o eiddo y *Tract Society* yn hynod o amserol, a gellid dysgwyl i'r Traethodau

hyn ateb dyben hynod o werthfawr mewn sefydlu ein pobl ieuainc mewn argyhoeddiadau iachus a diogel, cadarnhâu meddyliau petrusgar, ac fe allai adfer rhai sydd wedi myned ar gyfeiliorn ac ymgolli yn yr anialwch. Y maent yn hynod o fanteisiol hefyd i'w hastudio fel arweiniadau i'r gwahanol faterion yr ymdrinant â hwynt, a hyd yn nod wedi darllen gweithiau helaeth arnynt fe allai yr efrydydd gael lles a hyfrydwch wrth weled yn y rhai hyn, mewn cylch cryno a dull clir a deniadol, hanfod y ddadl yn cael ei osod o'i flaen. Mae y Traethodau hyn ar "Gristionogaeth a Gwyrthiau yn y dyddiau hyn," "Y prawf hanesyddol am Adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y Meirw," "Crist yn Brif Brawf Cristionogaeth," "Cristionogaeth a'r Bywyd sydd yr awr hon," "Bodolaeth a Chymeriad Duw," "Llwyddiant Cristionogaeth a'r Esboniadau diweddar am hyny," "Cristionogaeth a Secularaeth yn eu Dylanwad a'u Heffeithiau," "Agnosticiaeth: athrawiaeth Anobaith," "Henafiaeth Dyn yn cael ei ystyried yn Hanesyddol," "Tystiolaeth Palestina i'r Bibl," "Ffyniant Crediniaethau am un Duw," "Tystiolaeth Natur Foesol Dyn i Gristionogaeth." Ni oddef ein gofod i ni fanylu ar y naill na'r llall, ond gallwn ddyweyd eu bod oll yn gosod ger bron olygiadau addfetaf ein hamseroedd ar eu materion, yn dangos yn glir a gorchfygol gymaint fwy gogoneddus ydyw yr *oll* o wirionedd na dim darnau o hono y galler damcaniaethu yn eu cylch, yn dangos y tragywyddol gysondeb sydd rhwng y naill wirionedd a phob gwirionedd arall, a chyda'r fath gynghanedd ardderchog y mae y cwbl "yn dadgan gogoniant Duw," ac "yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef." Byddai yn anhawdd i lawer o'n darllenwyr wneyd yn well â phum' swllt na'u rhoddi am y cyfrolau hyn, ac wedi eu cael eu gwneyd mewn ystyr uwch fyth yn eiddo iddynt eu hunain.

Handbooks for Bible Classes.—*The Epistle to the Romans, with Introduction and Notes.* By David Brown, D.D., Principal and Professor of Divinity, Free Church, Aberdeen.
*Presbyterianism.* By the Rev. John Macpherson, M.A., Findhorn.
*Lessons on the Life of Jesus.* By the Rev. William Scrymgeour, Glasgow.
*A Commentary on the Shorter Catechism.* By the Rev. Alexander Whyte, D.D., Minister of St. George's Free Church, Edinburgh.
*The Gospel according to St. Mark, with Introduction, Notes, and Maps.* By Thomas M. Lindsay, D.D., Professor of Divinity and Church History, Free Church College, Glasgow.—Edinburgh: T. and T. Clark.

Crybwyllasom droion am y gyfres dra gwerthfawr hon o Lawlyfrau, a gallwn ddyweyd fod y pump hyn eto yn hollol deilwng o honi, ac yn sicr o brofi yn fuddiol a darllenadwy. Pris y gyntaf yw 2s., yr ail 1s. 6c., a'r tair olaf 2s. 6c. yr un. Mae eu rhadlonrwydd yn fawr; ond y mae eu gwerth yn llawer mwy. Y mae llawer o'n darllenwyr wedi mwynhâu blynyddoedd o gymundeb â Dr. David Brown fel esboniwr, a gallant yn hawdd synied y goleuni cryf a chlir a daflai y fath ŵr mewn llawlyfr hylaw fel yma ar yr *Epistol at y Rhufeiniaid.* Mae ei esboniad yn addfed ffrwyth einioes o gydnabyddiaeth â'r Epistol mawr. Mae llyfr Mr. Macpherson ar *Bresbyteriaeth,* tra yn gosod ger bron yn dêg a chyflawn yr oll sydd i'w ddyweyd o blaid y drefn hono o lywodraeth eglwysig, eto yn eang a chatholig ei ysbryd, ac yn arddangos gwybodaeth ac ireidd-dra meddwl sydd yn gwneyd ei fater, er yn hen, eto yn *fresh* a dyddorol. Hona i'r ffurflywodraeth hon bob rhagoriaeth a all berthyn i bob trefn arall, tra yn yr undeb a'r cydweithrediad a sicrhâ ei bod yn amddiffyn rhag drygau ag y ceir mewn cylchoedd eraill fod yn dra anhawdd eu hysgoi; y mae hefyd yn rhoddi y fantais oreu i eglwysi "ddwyn beichiau eu gilydd," a "chydymdrech yn mhlaid y ffydd a rodded unwaith i'r saint." Mae llenyddiaeth Bywyd y Gwaredwr y dyddiau hyn yn cyfoethogi yn fawr, ac y mae y *Gwersi ar Fywyd Iesu* gan Mr. Scrymgeour yn ateb dyben tra phwysig. Galwasom sylw at un gwaith arall yn y

gyfres hon ar yr un testun, *The Life of Jesus Christ*, gan Mr. Stalker; ond tra yr oedd hwnw yn amcanu yn neillduol at ddwyn i arbenigrwydd yr amgylchiadau mawrion, yr "hinge-events" yn mywyd Crist, y mae hwn yn amcanu yn syml at osod ger bron yr holl ffeithiau a gofnodir yn yr Efengylau, a hyd y gellir yn y drefn ymha un y cymerasant le, gan gadw mewn golwg eu pwysigrwydd cymhariaethol; a chan fod yn anmhosibl cadw ei bregethau ar wahân oddiwrth ei fywyd, fe sylwir ar ei bregethau pwysicaf, gan roddi amlinelliad o'u cynnwys. Yn wyneb yr anhawsder a deimla llawer i gyfleu yn amseryddol yr amgylchiadau a gofnodir gan yr Efengylwyr, fe deimlir gwerth mawr mewn cael, fel y rhoddir i ni yn y llyfr yma, adroddiad "mewn trefn" o'r ystori ryfedd, yn enwedig pan y ceir hyny fel ffrwyth cymaint o ymchwiliad a meddwl a barn dda ag sydd mor amlwg yn nodweddu y gwaith hwn, a hefyd mewn cylch nad ydyw yn debyg o brofi yn flinderus. Mae y "cwestiynau" yn niwedd pob *Lesson* yn hynod o fuddiol; ac am yr "Hints to Student and Teachers" a ychwanegir, er cyfarwyddo ymchwiliad pellach, y maent yn anmhrisiadwy. Mae yr *Esboniad ar y Catecism Byraf* gan Dr. Whyte, olynydd Dr. Candlish, hefyd yn waith sydd yn dra theilwng o astudiaeth. Yr oedd efe drachefn a thrachefn, yn ystod ei lafur gweinidogaethol, wedi bod yn arwain Bibl-ddosbarthiadau trwy y Catecism Byraf, a chai fod ffrwyth ei lafur yn y cyfeiriad hwnw yn ei galonogi i barotoi y gwaith hwn i'r wasg. Gan y gwelai ei fod yn fuddiol egluro y testun yn y Catecism trwy nodiadau ac egluriadau wedi eu dethol o weithiau yr ysgrifenwyr goreu, y mae y llyfr, er yn cynnwys llawer o sylwadau gwerthfawr o eiddo y Dr. ei hunan, eto i fesur helaeth, chwedl yntau, yn *catena*, neu gadwen ar ba un y crogir ar y gwahanol faterion y sylwadau goreu y gallai gŵr o ddarlleniad tra helaeth yn nuwinyddiaeth oreu y byd gael gafael arnynt. Ac mewn trefn i brofi meddylgarwch a chymhell i ymchwiliad pellach, y mae ganddo yntau ar derfyn pob trafodaeth, "gwestiynau;" ac y mae ei gwestiynau yn rhai a hawliant gryn lawer o lafur, ond o'i gael yn sicr o beri llawer o ffrwyth. Mae Esboniad Dr. Lindsay ar *St. Mark*, yr un modd, yn un da iawn, ac wedi ei ddarparu yn neillduol ar gyfer athrawon mewn Bibl-ddosbarthiadau, ond hefyd yn fuddiol a gwerthfawr i bawb sydd yn hoff o'r Ysgrythyrau. Y mae wedi gwneyd defnydd o lenyddiaeth oreu yr Efengylau, ac yn gwneyd hyny gyda gallu ac awdurdod un sydd ei hunan yn ddysgawdwr yn Israel. Gyda'r fath gyfoeth o fater a gallu, yr ydoedd yn gamp i ŵr o'i fath ef ymgadw at derfynau llawlyfr. Ond y mae goreu ein hysgrifenwyr mwyaf gallnog y dyddiau hyn yn cael ei ddarpar ar gyfer y bobl, ac y mae yn arwydd er daioni fod cynifer o'r werin a'r bobl ieuainc yn gwerthfawrogi y fath lafur. Y mae yn arwyddocaol fod y dyfyniadau o'r Testament Newydd yn llyfrau Scrymgeour a Lindsay yr ydym yn awr yn ddwyn i sylw ein darllenwyr, wedi eu gwneyd o'r *Revised Version.*

The Cambridge Bible for Schools and Colleges. General Editor: J. J. S. PEROWNE, D.D., Dean of Peterborough.—*The Epistle to the Hebrews, with Notes and Introduction.* By the Rev. F. W. FARRAR, D.D., Canon of Westminster.

*Obadiah and Jonah, with Notes and Introduction.* By the Rev. T. T. PEROWNE, B.D., Archdeacon of Norwich; late Fellow of Corpus Christi College, Cambridge.

*The Epistles of John, with Notes, Introduction and Appendices.* By REV. A. PLUMMER, M.A., D.D., Master of University College, Durham, formerly Fellow and Tutor of Trinity College, Oxford.—London: Cambridge University Press Warehouse.

YR ydym amryw weithiau bellach wedi galw sylw at gyfrolau y *Cambridge Bible for Schools and Colleges*, ac y mae yn ddigon dyweyd fod y rha hyn yn gwbl deil-

wng o fawr ragoriaeth y llyfrau sydd wedi eu rhagflaenu. Edrychasom i bob un o'r tair ar amryw o faterion yn y llyfrau dan sylw ag y teimlir eu bod yn anhawdd. a chawsom hwynt yn oleu a meistrolgar, ac yn crynhoi i gylch bychan ffrwyth llawer o ymchwiliad a llawer o feddwl. Nid rhyfedd fod y gyfres hon yn cael ei gwerthfawrogi yn gymaint trwy yr holl deyrnas. Da genym ddeall fod cynifer o'r Cymry hefyd yn gwneyd defnydd rhagorol o honi. Y mae yn hynod gyfaddas i'r rhai y bwriedir hi yn arbenig ar eu cyfer, sef y bobl ieuanc yn ein hysgolion a'n colegau; ond gallai brofi yr un mor wasanaethgar i efrydiau ar gyfer y pulpud a'r Ysgol Sabbothol, ynghyd a phob ymdrech arall yn wir er ceisio cael allan ystyr ymadroddion y Llyfr. Mae yr awdwyr oll yn cymeryd poen i wneyd yn eiddo iddynt eu hunain yr holl bethau gwerthfawr a ysgrifenwyd ar y rhanau y maent yn ymgymeryd â'u hesbonio, ac yn eu cyfleu o flaen eu darllenwyr gyda medr a meistrolaeth sydd yn hyfryd a thra gwasanaethgar. Mae y cyfrolau hefyd wedi eu gwneyd i fyny yn ddestlus a hylaw, ac i'w cael yn hynod o radlawn—eu prisiau yn amrywio o 1s. 6c. i 4s. 6c.

*Letters and Essays on Wales.* By HENRY RICHARD, M.P. London: James Clarke & Co.

DIAMMEU y caiff y gyfrol hon groesawiad helaeth. Pan ymddangosodd Llythyrau Mr. Richard ar Gymru yn y *Morning Star* yn 1866, yr oeddynt yn cael eu darllen trwy y deyrnas gyda dirfawr syndod; yr ydoedd yn beth mor newydd i'r gweddill o'n cyd-ddeiliaid gael cyfleusdra felly i wybod ychydig o hanes preswylwyr y Dywysogaeth. "Mi addefaf i chwi yn rhwydd," meddai Mr. Gladstone yn Eisteddfod y Wyddgrug yn 1873, "fy mod mewn amser aeth heibio, a chyn dyfod i wybod yn well, yn cyfranogi o'r rhagfarnau sydd yn ffynu i ryw fesur yn Lloegr ac ymysg Saeson gyda golwg ar iaith a henafiaethau Cymru; ac yr wyf yn dyfod yma i ddyweyd i chwi pa fodd a phaham y newidiais fy meddwl. Nid yw ond teg i mi ddyweyd ddarfod i gydwladwr i chwi, Cymro o'r fath ragoraf, Mr. Henry Richard, A.S., wneyd llawer i mi i agor fy llygaid i wir sefyllfa pethau trwy gyfres o lythyrau a anfonodd rai blynyddoedd yn ol i newyddiadur boreuol, a'r rhai ar ol hyny a gyhoeddodd yn gyfrol fechan, yr hon a argymhellaf i sylw pawb a deimlant ddyddordeb yn y mater." Yr oedd y gyfrol hono, erbyn hyn, wedi myned yn anhawdd i'w chael, ac yr oedd amgylchiadau yr amseroedd yn galw yn fwyfwy am ei bod yn y farchnad. Yr oedd yn dda iawn, gan hyny, cael yr argraffiad newydd yma o honi, a doeth y gwnaed ysgrifenu arweiniad ac ol-nodiad, er dangos pa fodd yr ysgrifenwyd hwynt, a nodi y cyfnewidiadau mawrion sydd wedi cymeryd lle er pan ymddangosasai y Llythyrau. Ac mewn argraffiad fel hwn, doeth oedd cyhoeddi nifer o'r penderfyniadau a basiwyd ar y pryd gan lïaws o gyrff cyhoeddus yn y Dywysogaeth, yn diolch i'r awdwr am ysgrifenu y Llythyrau, ac yn cadarnhâu eu tystiolaeth gyda golwg ar sefyllfa pethau yn Nghymru. Ychwanegwyd hefyd ddwy erthygl ragorol gan Mr. Richard oedd wedi ymddangos yn y *British Quarterly Review*, y naill yn 1871, "The Established Church in Wales," a'r llall yn 1883, "Welsh Education and the Established Church in Wales," yr hon y galwasom sylw ein darllenwyr ati yn y TRAETHODYDD am Orphenaf diweddaf. Yr ydym ni yn meddwl y buasai yn dra phriodol i Mr. Richard ychwanegu llawer o bethau eraill a ddygodd, wrth ymladd rhyfeloedd ei gydwladwyr, ger bron y cyhoedd, y rhai y mae iddynt ddyddordeb hanesyddol, a'r rhai—pa mor gyfleus bynag a fyddai hyny i rywrai sydd yn awr yn dra awyddus am i ni feddwl mai hwy yw ein cyfeillion penaf—na fyddai yn ddoeth nac yn ddiogel i'r Cymry eu hanghofio. Cyfeiriwn, er engraifft, at ei ddynoethiad cyfiawn o ormes ysgeler y tir-feddiannwyr Toryaidd ar ol ethol-

iad 1868, yr hwn a ennynodd y fath gydymdeimlad â'r rhai a orthrymid, ac a fu yn foddion i ddwyn cynnorthwy gwerthfawr i bobl oedd yn dyoddef cymaint, a hyny yn unig am dybied y gallent ymarfer y rhagorfreintiau a ymddiriedasid iddynt fel deiliaid o'r wladwriaeth. Iawn y dywed ei fod wedi syrthio i'w ran i fod yn ddeonglydd rhwng Cymru a Lloegr, ac y mae y gwasanaeth a wnaeth felly i'w genedl yn anmhrisiadwy. Yr ydoedd yn gwybod ein hanes yn dda, ac er ei fod wedi byw yn Llundain am 53 o flynyddoedd, y mae ei wladgarwch wedi peri iddo drwy yr holl amser gadw mewn cymundeb agos â Chymru, a sylwi yn fanwl ar bobpeth a berthynai iddi. Yr oedd ei gariad at ei bobl hefyd mor bell o fod yn ymlyniad dall teimlad direswm, fel yr ydoedd â'i wraidd mewn cyfiawnder; a phan welai ddynion nid yn unig yn eu gorthrymu, ond hefyd yn "dywedyd pob drygair yn eu herbyn," a hyny "yn gelwyddog," nid oedd yn rhyfedd i'w ddigofaint ennyn, ac iddo deimlo ei fod yn sicr yn dyfod i'w ran eu hamddiffyn. Yn ffodus yr oedd ei feistrolaeth ar yr iaith Saesoneg a'i arddull bur a chref o'i hysgrifenu, yn fantais arbenig iddo i gyrhaedd clust y deyrnas, fel yr oedd manylrwydd ei wybodaeth a'r tegwch diammheuol a ddangosai wrth drafod y pethau a ddeuent ger ei fron yn cynnyrchu mewn pob meddwl diragfarn yr ymddiried llwyraf yn ei gywirdeb. Ac heblaw hyn oll yr oedd ei barch i'r gwirionedd, ynghyd a'r nerth a'r goleuni ymha rai y daliai ei argyhoeddiadau, y fath ag a wnelai ei resymeg yn bobpeth ond a ellid ddiystyru. Teimlwn yn sicr na raid i ni ond crybwyll fod y gyfrol dra gwerthfawr hon i'w chael am hanner coron na fydd llawer iawn o'n darllenwyr yn awchus i'w mynu. Y mae yn gyfaddas i fod o wasanaeth mawr yn yr ymgyrch sydd bellach wrth y drws er dwyn oddiamgylch berffeithiad ein rhyddid crefyddol. Y mae cadw sect fechan nad ydyw erioed wedi bod o nemawr wasanaeth i'n gwlad, ar draul y cyhoedd, fel Eglwys Sefydledig i genedl y Cymry, yn anferthwch nad ydyw yn bosibl ei amddiffyn; ac er fod Cymru Ymneillduol, am fod ei dwylaw wedi bod yn llawn o waith a ystyriai yn bwysicach, a hefyd mewn caredigrwydd a chymydogaeth dda, wedi bod yn dra araf i wrthdystio yn erbyn y fath gamwri, mae yn amlwg nad all ei ddyoddef ond ychydig iawn yn hŵy. Mae myrdd o leisiau bellach yn gwaeddi, "I'ch pebyll, O Israel." Ni elwir arnom i barhâu i ddyoddef yr anghyfiawnder, y dirmyg, a'r sarhâd a fwrir arnom gan Eglwys y Wladwriaeth, ac yn enwedig pan mae yn hollol amlwg fod hyny ar draul yr anfantais fwyaf i grefydd, ïe o fewn yr Eglwys hono ei hunan. Ac ni allai dim roddi mwy o gynnorthwy yn yr ymgyrch bwysig sydd o'n blaen na'r ffeithiau mawrion a osodir ger ein bron mor oleu a gorchfygol yn y llyfr hwn gan ein cydwladwr parchus a charedig, Mr. Henry Richard.

*Gwaith Barddonol y Parch.* ROWLAND WILLIAMS *(Hwfa Mon).* Llanerchymedd: Jane ac E. Jones.

Y MAE Hwfa Mon bellach er ys cryn amser yn un o'r "rhai a dybir eu bod yn golofnau" yn llenyddiaeth Cymru, a da oedd genym weled cyhoeddi y gyfrol hardd hon o'i gyfansoddiadau barddonol. Mae ei hargraffwaith yn glod nid bychan i wasg Llanerchymedd. Mae y darlun o'r awdwr a geir ar gyfer y wynebddalen yn un rhagorol. Bydd lïaws cyfeillion ac edmygwyr y bardd talentog, mae yn ddiammeu, yn falch o'i meddu, a bydd yn ychwanegiad pwysig at eu mwynhâd i gael y fath gyfleusdra dymunol i gymdeithasu â'i feddyliau goreu. Mae yr un mor sicr y bydd llawer o'r rhai nad ydynt eto yn gwybod nemawr am dano, ynghyd a chenedlaethau y dyfodol, yn darllen y gyfrol gyda hyfrydwch. Mae hawl Hwfa Mon fel prif-fardd yn ddiammheuol, ac yn gorphwys ar seiliau llawer cadarnach na lïosogrwydd ei dlysau, neu y ffaith o'i fod yn cael ei edmygu neu genfigenu wrtho gan gynifer o'i gyd-feirdd fel "bardd y pum' cadair." Mae ganddo ef feddwl cryf a gafaelgar; mae

ei ysbryd yn iachus a charedig a llawn o yni; mae ei awen yn gyfoethog a ffrwythlawn; ac y mae ei feistrolaeth ar y cynghaneddion Cymreig mor drwyadl fel y mae yn peri iddynt weini yn ufudd arno mewn pob math o wasanaeth,

A hyn càn rhwydded â'n cânau rhyddion.

Yn wir yn fwy felly. Yr ydym yn cofio clywed y diweddar Dewi Arfon yn dyweyd na fyddai efe nemawr byth yn ei gael ei hun yn gymaint ar ei eithaf â phan yn ceisio gwneyd englyn, neu rywbeth mewn barddoniaeth gaeth; fod gwasg y gynghanedd am dano wedi dyfod fel yn angenrheidiol i ddwyn allan ei oreu. Diau fod hyny yn cyfrif am ragoriaeth tra mawr ei englynion, &c. Ac fe ellid meddwl mai tebyg ydyw gyda Hwfa Mon. Mae ychydig o'i bennillion yn dda, ond mae y rhan fwyaf o'i ymgeisiadau yn y mesurau rhyddion yn ymylu yn beryglus ar diriogaeth diofalwch. Yn y mesurau caethion, fodd bynag, y mae yn ymlawenhâu fel cawr i redeg gyrfa. Mae ei ysgogiadau ynddynt yn llawn grym, hoewder, a harddwch. Mae yn anhawdd gwybod weithiau pa un i'w edmygu fwyaf, ai rhagoriaeth y syniad ai tlysni y gynghanedd; o ran hyny y maent yn gwneyd eu lle yn ein meddwl yn annattodol gysylltiedig â'u gilydd, fel y mae yr enaid a'r corff yn nynoliaeth eu hawdwr. Mae Awdl y Flwyddyn, fel y dangoswyd y helaeth yn y TRAETHODYDD am 1865, yn gyfoethog o brydferthion yr holl dymmorau. Gem ydyw yr Awdl fechan ar yr Eos. Mae y "Fagnel," a'r "Cleddyf," a'r "Rhyfelfarch" yn llawn o fywyd a nerth. Englynion rhagorol a geir ar ol Caledfryn. Yn wir, buasai yn hawdd i ni nodi lliaws o bethau yn y gyfrol a roddodd i ni hyfrydwch tra mawr. Fe allai mai y goreu o'r cyfan ydyw yr Awdl ar Caradog yn Rhufain. Desgrifir ei wlad ef fel un oedd yn

Em aur yn y moroedd.

Ei bryniau iach, wybrenawl,
Drwy y gwyn belydrog wawl—
I'w gwel'd, mewn glas uchelder,
Fel meinciau gorseddau 'r sêr.

Yn anerchiad Ostorius i'w filwyr ar fin y frwydr:—

Miniwch eirf! a mynwch arfod—lydan,
Trwy lidiawg erchylldod;
Trechwch! daw 'r tyrau uchod,—yn ebrwydd,
O dan wir arwydd edyn Eryrod!

Ac yn y rhyfel—

Byw lid ar flaen y bladur—
Angau ar fidogau dur!
Eirf brad, trwy afu a bron,
A dur yn nghnawd y dewrion!
Y cydiol gleddyf cadarn,
Yn waed coch oedd hyd y carn!

Darllenasom Arwrgerdd Owain Glyndwr gyda mawr hyfrydwch. Mae Owain, wedi ymladd brwydrau Risiart, yn dychwelyd i'w balas Sycharth, ac wrth ystyried y desgrifiad prydferth a geir o hono fe ddylasai fod yn hapus yn y fath le.

A llaw Rhagluniaeth a'i harweiniodd ef
I dynu anadl iach ar Sycharth fryn,
Ac agor ei olygon, gyda 'r wawr,
I edrych ar y ceinion afrif oedd
Yn tyfu mewn tlysineb ar bob llaw.
Y grwndir eang oedd, islaw y bryn,
Yn orchuddiedig gan odidawg ffrwyth;

Y ceirchiau brigog süent dan y gwlith,
A'r heiddiau barfog siglent ar y maes;
Y gwenith eurawg, yn ei dywys llawn,
Ymdònai yn y gwynt fel môr o aur!
A'r dolydd gwastad oedd yn lâs eu lliw,
A'u porfa gyttew yn dyferu maeth;
A rhwng eu llwyni tirf, a'u meillion pêr,
Y deadelloedd borent, wrth eu pwys,
Ymlwybrent yn arafaidd trwy y gwellt
Gan ddewis eu tameidiau rhwng y dail;
Ac wrth ymgrwydraw trwy y gwyrdd borfëydd,
Ysgydwent berlawg wlith oddiar eu cnu!
Y gwartheg blithion welid yn eu plith,
Yn pori 'n ddiwyd iawn, o dŵyn i dŵyn;
Ac wedi eu digoni, yn gytûn,
Gorweddent gyda 'u gilydd ar y maes;
Ac yn ddigyffro iawn, ar ganol dydd,
Ymdröent mewn boddhâd, gan gnoi eu cil.

Addawai Harri i'w frawd etifeddiaeth Owain yn y De a'r Gogledd.

Ond nid oedd Harri yn y rhaniad hwn,
Ond rhanu esgyrn Lefiathan cyn
Rhoi tryfer yn ei ben, a'i dynu i draeth!

Am y rhyfel-ddarnau y maent i'w cael mewn helaethrwydd mawr, ac yn llawn o afiaeth a thân. Er engraifft:

Ac ar amrantiad eu hir lafniog gledd
Ysgydwent yn ei flaen, o wddf i wddf;
A phenau y Ffiemyniaid, yn eu ffordd
A sathrent hyd y llawr, mewn torchau gwaed!
Ac fel yr egyr mellt eu llwybrau trwy
Geudodau pygddu y cymylau brôch,—
Agorai milwyr Owain rythawg ffyrdd
Trwy ganol y Flemyniaid ar bob tu;
Ac fel y methrir penau gwingol seirph,
Dan garnau buain feirch ar wylltboeth dir,
Y sathrwyd penau y maleisus wŷr
O dan drydanol draed uchelwaed feirch
Cadlengoedd Owain ar eu rhyfel-gyrch, &c., &c.

Ond ni wiw i ni fyned rhagom i ddyfynu; fe wêl ein darllenwyr, a thybied y gallai fod rhai o honynt hyd yma heb fod yn adnabyddus o ragoriaethau diammheuol Hwfa Mon fel bardd, y rhaid fod y gyfrol yn un ag y byddai yn ddoeth iddynt gymeryd y cyfle cyntaf i'w gwneyd yn eiddo iddynt eu hunain.

Y mae ychydig bethau, fodd bynag, ag y dylem ymhellach, ac o herwydd safle uchel Hwfa Mon fel bardd Cymreig, alw sylw atynt. Y mae rhai meflau ar y gyfrol ag y carasem yn fawr ei gweled yn rhydd oddiwrthynt. Mae y diffyg mwyaf a welwn yn ein cydwladwr doniol fel bardd yn codi, mae yn debyg, o'i nerth; ond nid ydyw o herwydd hyny yn llai diffyg, nac fel y cyfryw yn llai ei bwys. Yr ydym yn cyfeirio at afiaeth dibendraw ei awen, sydd weithiau yn ei gwneyd yn rhy anystywallt iddo allu cael nemawr wastrodedd arni, ac yn wir fe ellid meddwl ei fod yntau ambell dro yn ymhyfrydu mewn gadael y ffrwyn ar ei gwâr, os nad yn mwynhâu ei hystrempiau. Dywedai y Groegiaid am Pericles ei fod fel Iau yn taranu pan lefarai.

Mae Hwfa Môn yn rhy ehwannog i lefaru mewn taranau, ac o herwydd hyny mae ei daranau yn methu ein dychrynu. Fel ei Owain Glyndwr, y mae yn rhy fynych yn ceisio cerdded yn y fath fodd nes

O dan ei gamrau trymion siglai 'r llawr,
Ac wrth ei sangiad cadarn tyrfai 'r graig.

Ond ni fyn y llawr siglo, ac y mae y graig yn ystyfnigrwydd ei chadernid yn dal yn ddigryn. Y mae yn cael ei gydnabod, fel peth sydd yn dealledig, "fod gormodiaith yn oddefol i feirdd," ac fel engreifftiau o'r addurn awenyddol hwn yr ydym yn cofio i ni yn nyddiau tirfion ein mebyd weled yn Ngramadeg Robert Davies, Nantglyn, y dyfyniadau ardderchog,

Rhedais ynghynt, helynt hir,
Na mellten ddeunaw milltir.

Gorddu yw brig y Werddon
Gan fŵg ceginau o Fôn.

Ond er fod beirdd da, a beirdd goreu y byd, pan y mae hyny yn ateb eu pwrpas, yn defnyddio ymadroddion eithafol, y mae er hyny ryw reswm ar eu hafiaeth, ryw "drefn" hyd yn nod ar eu "gwallgofrwydd," sydd yn peri fod eu geiriau cryfion yn cryfhâu, ac nid yn gwanychu yr effaith a ddymunant gynnyrchu ar feddyliau eu darllenwyr. Ond pan eir i ormodieithu yn ddiachos, ac yn barhâus, y mae yr effaith yn dra gwahanol. Ac y mae hyn yn wendid neillduol ar farddoniaeth Hwfa Mon. Cymerer yr Awdl gyntaf yn y llyfr,—Galar Cymru ar ol Alaw Goch. Mae y newydd am farwolaeth y gŵr hwnw yn dyfod "ar unwaith i'n trydanu." Mae y galar am dano y fath fel y mae yr aber ar ei ol "yn wylaw rhwng y moelydd," ac

O'r glynau tywyll, crogleni tewion,
A drwmdöant yr holl drumau duon;
Hyd eu hoer aeliau uda 'r awelon
Eu hachwynedig ddwys ocheneidion, &c.

Yr oedd ei lygaid yn gweled i eigion daear, a "chwiliai wraidd ei chalon;" ac wrth fyned "drwy gyfyng ddyfnderau ogofawg," ac i uthrol fwngloddiau,

Tynai trwy ffyrdd melltenawg—fwn lwythau,
A'i grych haenau yn fflamau gwreichionawg!
Tröai y lawntiau rhiwiawg,—a'u mwnoedd,
Ddu eirwon diroedd, i aur yn dyrawg!

Yr oedd y teleidion â pha rai y llanwasid ei luest yn "wynach eu gwawr na yr Onix eirianwawr!"

Ceid tlŵs, ar bob gorddrws gwyn,
Yn eglur ddysglaer foglyn;
A rhoddwyd meini rhyddaur
I borth hwn yn ebyrth aur!

Fe ddeuai y cardotyn ato "i ochain, a sychu ei ddeigryn," ond wedi hyny "i ganu'i delyn!" Bydd y gweddwon "hyd eu heinioes yn galaru am dano," ac mae eu "heinioes yn edwino," a'u "deigr yn llifo!" Byddai yn "tywys minteioedd, i ganol ei gynes neuaddoedd" er diwallu eu heisieu. Yr oedd ei deimlad, gan faint ei nerth, "yn rheiadru." Ac am ei awen a'i ddoniau, fe'u desgrifir mor ysplenydd fel y buasai yn anhawdd dyweyd dim gwell hyd yn nod am Eben Fardd. Am y "beirddion ifaingc" y maent yn brudd iawn, "yn yfed o fôr o alaeth," yn "dwys ferwino," yn "brudd odiaeth yn breuddwydio am dano," ac o'i blegid "yn

ymblygu mewn erchyllaeth." Yn "y gweuau" o'i golli, "gwywant, dan loesau y nos o ochau, a'u deigr ni sychant!" Wrth ei fedd, y bardd a "wyla fyth wrth feddwl fod, ei Alaw yn ei waelod!" Pa les manylu,—

Y Genedl oll a gwyna,—ac yn llesg
Yn y llwch gorwedda;
A llwyd wedd am ei Llyw da
O hiraeth dwfn alara.

Ac eto fe ddywed y Beirniaid fod yr Awdl hon "yn bortread byw o Alaw Goch," ac yn "teilyngu i'w hawdwr y Gadair a'i hanrhydedd." Mae yn debyg fod Alaw Goch yn Gymro parchus a gwladgarol, ac yn hoff o gymdeithas y beirdd a dilyn eisteddfodau; ond y mae meddwl ei fod yn haeddu ysgrifenu am dano fel y gwneir yn y dyfyniadau uchod, a llawer o ymadroddion eraill yn yr Awdl, yn ynfydrwydd. Beth pe byddai i ŵr dysgedig o un o athrofeydd y Cyfandir, a allai fod yn awr yn astudio ein hiaith a'n llenyddiaeth, gael gafael ar yr Awdl hon; a beth pe dygwyddai iddo ddyfod yn fuan wedi hyny i Gymru? Wrth reswm fe holai am Alaw Goch, ac ni allai orphwys nes cael hanes y gwyrthiau o garedigrwydd a wnaeth â holl genedl y Cymry; y cyfansoddiadau barddonol anfarwol a adawodd ar ei ol, a'r myrddiwn gweithredoedd da a gyflawnodd. Ond erbyn deall pethau fel yr oeddynt, a chael fod y Cymry oll mor bell o fod yn tori eu calon ar ei ol fel nad oedd ond nifer bychan o honynt a wyddai hyd yn nod am enw y gŵr parchus, beth a feddyliai y boneddwr hwnw wrth weled fod gweinidog yr efengyl a bardd cadeiriol yn rhaffu y fath ymadroddion eithafol yn ei gylch? A beth, yn enwedig, wrth weled dau weinidog a dau brif-fardd, yn llanw y sefyllfa bwysig o feirniaid mewn cystadleuaeth am "Gadair Morganwg yn Eisteddfod y Cymry yn Nghastellnedd," yn dyweyd fod yr Awdl hono "yn bortread byw o Alaw Goch, ac yn teilyngu i'w hawdwr y Gadair a'i hanrhydedd." Wel, fe ddywedai, yn naturiol, fod yn dda iawn fod Llywodraeth Lloegr yn penderfynu estyn ychydig o fanteision áddysg i bobl oedd yn eistedd yn y fath ddygn dywyllwch! Fe fyddai y syniad am i Tennyson neu Browning neu Lewis Morris ysgrifenu yn y fath fodd, hyd yn nod am ŵr enwog, mor naturiol yn awgrymu fod pethau o'u lle fel y meddylid ar unwaith y dylai eu cyfeillion ofalu am danynt.

Mae y bai hwn i fesur mwy neu lai yn anurddo yr holl gyfrol, ond yn fwyaf neillduol yn y manau lle mae y meddyliau wanaf. Yn hyn mae yr Awdl brydferth a thyner ar ol Ieuan Glan Geirionydd yn cyferbynu yn hynod â'r un ar ol Alaw Goch. Pan mae meddwl a chalon y bardd yn llawn, nid ydyw yn ebychu nemawr. Mae yn dda genym ddeall fod yr Aelod anrhydeddus dros Sir Fôn, —a bellach ei Harglwydd Raglaw!—i'r hwn y cyflwynir y gyfrol, "yn noddwr ffyddlawn i lenyddiaeth ei wlad;" ond os ydyw y boneddwr parchus wedi darllen yr englynion a geir yma iddo,—yr hyn, yr ydym yn ofni,. sydd braidd yn ammheus!—mae yn ddiammeu fod yn dra syn ganddo ddeall fod beirdd Mon "yn cydbyncio i'w groesaw," ac wrth wneyd hyny "yn taranu hyd yr Ynys;" a'r un modd fod "cawr-feirdd ar feinciau Arfon" yn ei foli; ac yn enwedig fod "llifeiriawl fawl Allforion" yn cael ei daenu i'w enw dros y môr. Ni fuasai yn annaturiol i Mr. Davies ofni fod y bardd yn gwneyd digrifwch o hono; yr unig esboniad arall posibl ar ei eiriau ydyw ei fod yn prydyddu, ac am hyny fod yn oddefol iddo siarad *nonsense.* Pennillion rhagorol iawn yw y rhai ar Ddydd y Frwydr, ond pa "farch rhyfelawg" erioed a welwyd yn trengu ar y cledd, "a tharan yn ei safn!" Yn ffol ac mewn chwaeth isel y dywedodd Dewi Wyn ein bod yn cael yn y gelfyddyd o argraffu "dduwdod y celfyddydau;" ond fe ymddengys fod hyny wedi taro ffansi Hwfa Môn, canys fe sonia am "dduwdod holl ryfeddodion," a thrachefn, am "dduwdod y rhyfeddodion." Mae y gair "dwyfol" yn cael ei gymhwyso ganddo

at bob math o bethau, ac wrth reswm yn colli ei holl rym. Mae swyn y gwawl "yn ddwyfawl;" mae "dwyfol burdeb" ar wyneb y Gwanwyn; drachefn mae ei fywiol gaerydd yn "hardd a dwyfol;" mae Duw yn "dwyfoleiddio gwedd y Flwyddyn," beth bynag allai hyny fod; yn yr un tu dalen y mae hardd-deb bywioldeb y gwlith yn peri "i wael wyneb ddwyfol wenu;" y mae Duw "â dwyfawl hedd" yn gwyrthiol brydferthu y Flwyddyn; y ddaearen, mewn man arall, "ddaw fel Eden ddwyfoledig;" gofyna, ai cerub oedd wedi myned â mab i'r Parch. David James, Capel Mawr, "i'w blanu yn y nef, mewn dwyfol ardd;" dymuna ddaioni i bar ieuanc newydd briodi, a galwad "i gario dwyfol goron." Fe deilynga Owain Glyndŵr arwrgerdd o "ysbrydoliaeth awen berffaith Nef." Ac yn yr un ysbryd, mae yn debyg, fe ddymunir i Mr. Price y Rhiwlas am ganiatâu i fyfyrwyr y Colegau rodiana yn ei barc, heblaw "mil fyrdd o fendithion"—a buasai hyny yn weddol am gymwynas mor fechan,—gael ei "arwain mewn cerbyd dysgleiriach na'r wawr, i'w orsedd yn nghanol angylion!" Mae yr olwg ar y meirch yn eu gwaed yn marchdai Owain yn un "a grynai galon byd." Mae yn ammheus genym a oedd pelydrau cryfion dysgeidiaeth bur Owain yn "tywynu trwy ei wyneb fel y wawr;" ac am y brenin Risiart mae yn sicr nad oedd "blodau ieuainc yn porphori ei rudd." Temtasiwn y bardd yn barhâus ydyw gorliwio, ac am hyny y mae yn lleihâu yn fawr iawn werth ei ddarluniau. Pan y mae ei lewder yn ymfoddloni ar gymaint o feiddio ag sydd yn angenrheidiol i "gydfyned âg anian," y mae yn gweithio yn rhagorol; ond nid yn anfynych y mae yn methu cael hyny yn hanner digon anturiaethus, ac yna y mae ei ddarlun yn myned yn anferthlun. Mewn cysylltiad â hyn fe ellid crybwyll ei hoffder o ryfeddnodau. Mae y rhai hyn yn cael eu hau yn y llyfr hwn yn rhyfeddol o dew. Mae ymddiried yr awdwr mor wan, naill ai yn rhyfeddolrwydd ei bethau, neu yn nealltwriaeth ei ddarllenydd, fel y mae o hyd yn gosod i fyny ryfeddnodau. Rhaid rhyfeddnodi ffaith mor syml ag fod Owain Glyndŵr yn cael gweini arno yn ei afiechyd olaf gan ei ferch, a dwbl ryfeddnodi y ffaith fod Dafydd Ionawr "gwedi y mawredd gyda meirwon." Mae y bardd yn rhyfeddnodi yn ddiddiwedd yn ei gyffelybiaethau. Pe byddai y darllenydd mor ffol â chymeryd ei gamarwain gan y rhyfeddnodau yn y rhai hyn, fe fyddai wedi dyhysbyddu ei sylw ar wahanol ranau y cyffelybiaethau yn y fath fodd fel na feddyliai ond ychydig am y *peth* ag y mae y gyffelybiaeth yn cael ei gwneyd er ei fwyn. Y mae Homer yn fynych yn hirwyntog yn ei gyffelybiaethau; ond ganddo ef rhaid i'r gyffelybiaeth oll, pa mor fyw a chyflawn bynag fyddo y darlun, wasanaethu i ddangos y peth sydd ganddo dan sylw. Mae Hwfa o'r ochr arall yn colli ei anadl wrth waeddi *fel*, nes y mae ei *felly*, o angenrheidrwydd, yn myned yn eiddil. Gwelsom *fel* mewn un lle ganddo yn myned â pharagraph cyflawn iddo ei hun, ac y mae *felly* yn y paragraff nesaf yn gorfod edrych yn ddyeithr ac yswil. Ond gwaeth o lawer na gorwneyd y desgrifiadau yn y gyffelybiaeth ydyw rhyfeddnodi uwch eu pen fel pethau mor ryfedd, a thrwy hyny wanychu eu gallu i wasanaethu yr amcan o ddangos pethau a ddylent fod yn llawer rhyfeddach. Yn hyn oll y mae yni y bardd yn ddifesur; yr unig ddiffyg ydyw hunanlywodraeth. Pe buasai ganddo fwy o allu arno ei hun, fel ag i allu gweithio mewn mwy o gymesuredd, a synied yn fwy i sobrwydd, fe fuasai ei waith, tra heb fod yr un gronyn yn llai awenyddol, yn fwy gorphenol, ac felly fe fuasai ei werth yn llawer mwy.

Y mae Hwfa Mon yn feistr gwych ar yr iaith Gymraeg. Y mae ganddo at ei alwad gyflawnder helaeth o'i geiriau goreu, ac yn fynych y mae yn eu trin gyda medr neillduol. Ond y mae mewn amryw fanau yn cymeryd hyfdra arni ag y dylasai ei barch i'r Gymraeg wèn beri iddo ymgroesi rhag y fath beth; ac y mae hyny ynddo ef yn fwy beïus o herwydd ei gydnabyddiaeth helaeth â'r iaith, a'i fod ymron yn anadlu yn ei chynghaneddion. Ceir ganddo y fath eiriau â gwyrddiog, garddoedd, geirdd, plenyd (am planedau), crynu fel berf drofiannol neu *transitive* (cawr yn "crynu lleng i'r llwch," y daran yn "crynu'r creigiau oesol"). Am y chwimpau

rhyfedd mewn sillebu a geir drwy y llyfr, ni wyddom pwy sydd gyfrifol, ond y maent yn dra annymunol, ac yn annheilwng o lendid yr argraffwaith, heb sôn am ragoroldeb y farddoniaeth.

Soniem yn un o'n rhifynau diweddaf am gyfnod yn mywyd Goethe pan oedd urddas y clasuron mawrion wedi ei ddwyn i edrych i lawr ar bobpeth oedd o duedd fytheiriol, ac na allai ar y pryd dalu nemawr sylw hyd yn nod i awdwr y *Robbers*. Pe tueddid Hwfa Mon i fesur i gymeryd yr un cyfeiriad, fe ellid o hono farddoniaeth lawer uwch na dim a gawsom ganddo hyd yma. Ond i'r dyben hwnw byddai raid iddo fod yn llym wrth bethau sydd hyd yma wedi bod yn bur agos ato. Mae yn debyg y cai fod cryn lawer o'r celfi gwaith sydd ganddo o'i amgylch, ac y mae am lawer dydd wedi bod yn gweithio mor hwylus gyda hwynt, i'w bwrw ymaith; megys y rhyfeddnodau, y tân a'r brwmstan, ymron y cwbl o'r mellt a'r taranau, a'r holl ymadroddion eithafol. O fyfyrdod tawel a dwfn ar y gwirioneddau mawrion, ac o gymdeithas agos a charuaidd â natur, fe'i galluogid i ganu mewn goleuni ag y teimlai ei gydwladwyr yn ddiolchgar am dano fel goleuni o'r nef, a chyda theimladau a barai iddynt brofi fod ynddynt allu i'w puro a'u dyrchafu, ac i roddi cynllun i ymestyn ato a wnelai einioes iddynt fel dyddiau Paradwys.

*Adgof Uwch Anghof: Llythyrau lliaws o Brif Enwogion Cymru, Hen a Diweddar.* O Gasgliad MYRDDIN FARDD. Penygroes: G. Lewis.

MAE yn ddealledig fod gan Myrddin Fardd gryn amgueddfa o bethau dyddorol Cymreig o'r dyddiau gynt, ac fe fyddai yn hyfryd gan lawer, mae yn ddiammeu, gael cyfleusdra i ymgydnabyddu â hwynt. Da oedd genym weled y gyfrol hon o hen lythyrau sydd yn ei feddiant. Rhaid ei fod wedi chwilota llawer i gael gafael arnynt, ac yr ydoedd yn garedig ynddo beidio eu cadw iddo ei hun. Mae yn sicr y bydd darllen y llyfr hwn yn ddywenydd i nifer mawr o'i gydwladwyr. Cynnwysa y gyfrol 224 o lythyrau; ac eto fe ddywed yn ei Ragfynegiad, wedi yr holl drafferth a gymerasai i ddethol y rhai a dybiwyd ragoraf, y "barnai y cyhoeddwr fod dwyn allan chwarter y cynnulliad yn ddigon o anturiaeth iddo ef, gyda golwg ar a gaffai o gynnorthwy a nodded oddiwrth hyny o nifer a ymddyddorent yn hanes lenyddol ei wlad." Nid ydym yn sicr na allesid gadael allan gryn nifer hyd yn nod o'r rhai sydd wedi eu hargraffu yma; ond am y rhan fwyaf o lawer, darllenasom hwynt gyda boddhâd neillduol. Y maent oll yn llythyrau na fwriadwyd eu gwneyd yn gyhoeddus, ac am hyny wedi eu hysgrifenu gyda rhwyddineb agored sydd yn dangos hanes fewnol yr hen gymeriadau, ac yn caniatâu i ni gyfranogi o'u cyfrinach a mwynhâu y gymdeithas ddyddan a fyddai yn fynych rhyngddynt. Mae y llythyrau o eiddo Dafydd Ddu yn dra dyddorol. Wedi darllen y cyfeiriadau ato yn llythyrau Mr. J. W. Prichard a gyhoeddwyd yn y rhifyn diweddaf o'r TRAETHODYDD, fe fydd yn ddyddorol gweled a ganlyn ganddo yntau, a ysgrifenwyd yn 1806: "Yr wyf yn deall fod Sion Wm. Pritchard o Balas y Brain yn methu peidio fy erlid eto. Ysgrifenodd rywbeth yn gas am danaf medd cyfaill a welodd ei lythyr at Mr. O. Jones." Ac eto addefai ei hun yn un o'r llythyrau hyn: "Lle gwyllt, ofer ydyw Amlwch, anhawdd iawn, heb fesur mawr o ysbryd gwyliadwriaeth, ymgadw rhag deniadau'r lle; ac mae'n rhaid i'm gyfaddef (er fy ngalar), mai ychydig ddefnydd da o'm hamser a wnaethum yn ystod fy arosiad yno." Ac mewn un arall (1810): "Ni fum erioed yn trafaelio ar noson dywyllach; gwaith mawr yn cael peidio troi i'r croesffyrdd; adref y daethum yn llwyddiannus, moliant i'r Gŵr goreu, heb gael cymaint â chodwm, er tywylled y nos, a chryn lawer o ddiod yn fy mhen." Ni ddywedai J. W. Prichard am dano ond a addefai felly am dano ei hun. Creadur anwyl oedd D. Ddu; melldigedig fod y ddiod yn cael maeddu y fath gymeriadau. Fe geir yn y gyfrol rai llythyrau dyddorol o eiddo Gwallter Mechain. Dywed wrth un gohebydd: "Drwg genyf

glywed, neu yn hytrach ddarllen, bod eich iechyd wedi bod yn lled glwcus yn ddiweddar, ond ni ddywedir i mi pa un ai afiechyd gwreiddiedig ai un damweiniol a'ch blina." Drachefn: "Gofynasoch 'Pa oed?' Nês i *naw-deg* nag i *wyth-deg*. Nis gwn, ac ni ŵyr neb, pa faint yn bellach y caf ymlwybro tua thraw—caffwyf fynediad dedwydd pan ddelo yr awr. Y mae fy henaint i yn henaint *lled gadarn* o barth *cnawd*, a *gwaed*, ac *esgyrn*, ac yn ymyl dwy lath o daldra. . . . Ond na sonier am *feirniadaeth*. Disgynais o'r orsedd. Aed 'Pencwd yn Dincwd' yn ei ol, os felly yr haedda. Os cyhoeddwyd y Testynau leni, anfoner i mi un. Bydd yn ddywenydd ei weled er mwyn 'yr hen amser gynt.'"

Bydd yn dda gan y darllenydd gael y dyfyniad a ganlyn o lythyr o eiddo Gutyn Peris, 1828:—

Fy myfyrdod presennol yw ceisio cyfansoddi ychydig goffadwriaeth am y ddiweddar wraig rinweddus, Mrs. Humphreys, gwraig H. Humphreys, Periglor, Llansadwrn, yn Môn. Merch oedd hi i Lewis Morys, y Bardd o Fôn. Gwraig gariadus, gall, elusengar, a doeth oedd hi: dywedir ei bod yn dwyn nodau a delw ei thad yn amlwg; mi a wn ei bod yn ddoniol a medrus iawn i ysgrifenu. Hynod oedd hi am ei gardd a'i llysiau, a gardd odidog oedd ganddi. Hoff oedd ganddi wahodd dieithriaid i'w gardd. Bum yno amryw weithiau—nosweithiau a dyddiau, a chefais lawer o hanes ei thad a Goronwy Owen ganddi, o dro i dro, hyd yn nod dull eu cyrff, lliw eu gwallt a'u llygaid; ac yr oedd hi yn cofio Goronwy yn was gyda ei thad, pan oedd hi yn blentyn. Canodd Goronwy Briodasgerdd iddi, gyda'i gŵr cyntaf; nid oedd ef yn y briodas. "A thaflu'r hosan, a cherdd a chân." Gofynais iddi un tro beth oedd ystyr y fraich uchod. "O," ebe hithau, "ni bu hyny yn fy mhriodas i; ond yr oedd, y pryd hyny, yn arferol iawn mewn priodas—ar ol myned y bobl ieuainc i'w gwelyau, fyned yn ddirgel i'w hystafell wely, a dwyn un o hosanau y wraig a'r gŵr ieuanc, a myned â hwy i ganol y dyrfa, lle bai'r delyn, a'u taflu hwy i fyny, ac ar ben pwy bynag y disgynai yr hosanau, y rhai hyny a briodai gyntaf."

Nid oes dim llythyrau yn yr holl gyfrol yn fwy difyr nag eiddo Nicander at Eben Fardd. Am ryw reswm ni chrybwyllir hwy yn y cynnwysiad. Y mae, yn wir, dros gant o dudalenau yn y llyfr na chyfeirir atynt yn hwnw. Y mae Nicander yn dangos barn ragorol, calon hynod o garuaidd, ac yn ysgrifenu Cymraeg croew llafar gwlad mewn dull hynod o hapus a naturiol. Cyfeiria mewn un a ysgrifenodd yn 1841, a chyda theimlad bachgen, at englyn digrif a wnaethai mewn Awdl i'r Gwanwyn, i'r Gog. Yr oedd wedi chwerthin fel ffwl, meddai, am ei ben, nes oedd ei ochrau'n merwino:—

Gwiw yw cân y gwccw—yr un o hyd  
O ran hon yw 'r gwccw;  
Enwog yw cân y gwccw,  
Unig accen y gwccw.

Dywed ei fod wedi rhoi'r un gair yn niwedd pob llinell (er yn ddeusill ac unsill bob yn ail), yn gystal i ddynwared y gôg ag o *spite* i'r beirdd a'u rheolau. "Ydych chwi ddim yn synu," gofyna mewn un llythyr, "fod Ellis Owen am alw gwaith Dewi yn 'Flodau *Arfon*?'" Yr ydoedd yn gobeithio o'i galon, meddai, na welai byth Gymro yn Esgob; a'r rheswm rhyfedd a roddai am hyny mewn llythyr arall ydyw, "na adawai yr Ymneillduwyr lonydd iddo: ymyrent âg ef yn barhâus." Felly! Difyr iawn yw llythyr lle y sonia fel y byddai John y Gwindy (y Parch. John Owen, Ty'nllwyn, wedi hyny), John yr Ynys Galed, ac yntau, "wrth ddyfod o ysgol Llanystumdwy, yn eistedd am gryn ddwyawr yn yr haf, ar ben pompren Brynybeddau, i ddifyru eu gilydd â straeon, agos bob dydd." Dywed fod Mabinogion ysgol Llanystumdwy yn cynnwys tua thri neu bedwar dwsin o'r straeon difyraf. "Rhown fy nain am eu gweled yn argraffedig mewn llyfr." Dyma un o straeon John yr Ysysgaled: Yr oedd pedair neu bump o wragedd yn

dychwelyd ar eu ceffylau o farchnad Caernarfon gyda'u gilydd. Yr oedd gan un o honynt bottel ddu yn llawn o furym, ynghrôg gerfydd ei chlust wrth linyn ei ffedog —fel y gwelsoch lawer gwaith. Wrth deithio, dechreuodd y burym weithio, ac aeth y corcyn, pop, a pheth o'r burym i'w ga'lyn, yn erbyn cern y wraig. Tynnodd hithau ei dwy law ar hyd ei gwyneb, nes oedd ei bysedd yn furym i gyd. "Mwrdw-w-wr!" meddai hi, nerth esgyrn ei phen, "yr wyf wedi cael fy saethu yn gelain gorff, a dyma fy ymenydd i gyd hyd fy nwylo i." Mae ystori "Wil tattws cerion," a glywsai mor "loyw" gan Robin Ddu Eryri, os yw yn bosibl, yn fwy *rich* fyth. Un dda iawn hefyd yw ystori "John y Gwindy," am y porthmon yn dyfod o ffair Dolgellau. Rhaid i ni wneyd lle i ystori "Rolant Petter." Yr oedd Nicander yn nhŷ ei gyfnither, Mrs. Jones, merch Pedr Fardd, "ar fisit:"—

Daeth Henry Rees i yfed tê hefo ni un prydnawn: maent yn gyfeillion garw, ac yn byw o fewn canllath i'w gilydd. Cefais fy moddio'n fawr yn Mr. Rees. Mae o'n hynod o ddiddan a dirodres. Mi a adroddais hanesyn bychan wrtho (ac yr oedd yn bwrpasol glic 'spigwll i'r sgwrs oedd mewn llaw), yr hwn a glywswn gan John Roberts, Cefnymeusydd, y pregethwr Baptist. A dyma fo :—Pan oeddwn i'n hogyn go fychan, yr oedd pregethwr Baptus yn byw yn yr ardal o'r enw Rolant Petter. Byddai Rolant yn dewis yn aml y testunau mwyaf dyrys ac annosparthus yn yr holl Fibl. Yr oedd y gynnulleidfa yn cwyno braidd: meddyliodd y brodyr mai purion peth fyddai gosod y cwyn ger bron Rolant ei hun. Galwodd un o honynt gydag ef ddydd Sadwrn, ac ebe fe wrtho, Rhaid i chwi beidio digio, Rolant Petter; ond mae'r bobol yn cwyno braidd y byddwch yn cymeryd adnodau rhy ddieithr ac anhawdd yn dext; maent yn crefu a fyddech chwi cystal a phregethu oddiar destunau mwy adeiladol ac Efengylaidd. "Wel, wir," ebe Rolant, "hwyrach eich bod yn eich lle: rhaid i mi dreio diwygio; ac yn fwy felly, am mai chwi yw'r *ail* frawd ag sy wedi bod yn rhoi'r cynghor yma i mi heddyw." Yr oedd yr holl ardal wedi gwybod am y cynghor a gai Rolant ddydd Sadwrn. Y bore Sul drannoeth, yr oedd y capel yn llawn dop, i glywed Rolant yn cymeryd ei dext: "Yn y bedwerydd bennod o'r Datguddiad, a rhan o'r seithfed wers: *A'r ail anifail oedd debyg i lo.*" . . . Ni welais neb erioed yn chwerthin yn fwy *hearty*, nag oedd Mr. Rees am ben y stori yma; a dywedais hi wrtho yn well nag yr ysgrifenais hi uchod."

A phwy na theimlai dynerwch prydferth ei lythyr at Eben Fardd, pan oedd ei gystudd yn cynnyddu :—

Fy nghyfaill anwyl, rhoddwch eich hunan yn hyderus yn ei law, ac at ei fendigedig ewyllys Ef. Onid yw ein Harglwydd yn dirion, yn ein gwahodd i gyflwyno ein hunain iddo, ac yntau, mewn mwy nag un ffordd, yn berchenog arnom eisoes! "Myfi," ebe efe, "a bïau'r cristion acw, eiddo fi ydyw; ond eto y mae yn hyfryd genyf iddo ei *roi ei hun* i mi, er hyny, ddydd ar ol dydd, yn bechadur mawr, o'i ran ef, ond yn berl yn fy nghoron, o'm rhan i: yn ddu, yn euog, ac yn annheilwng o'i ran ef, ond o'm rhan i, yn gymeradwy yn yr Anwylyd." Yn union fel y byddys mewn teuluoedd. "Hogyn bach pwy wyt ti, *heddyw?*" medd y tad wrth ei fachgen bach; "Hogyn bach tada," medd yntau; a'r tad yn ei wasgu at ei fynwes, can falched a phe mai dyna'r tro *cyntaf* y daeth yr hogyn bach yn "hogyn bach tada!"

Ond ni wiw i ni ymdroi yn hŵy gyda'r gyfrol dra dyddorol hon. Hyderwn y caiff dderbyniad caredig, ac y ceir calondid felly i gyhoeddi llawer yn ychwaneg o'r pethau da sydd yn nghadwraeth Myrddin Fardd. Dylasai yr olygiaeth fod gryn lawer yn fwy gofalus. Ei phris yw 4s. 6c.

# LLYFRAU

## *Cyhoeddedig gan P. M. EVANS & SON, Holywell.*

---

**RHESTR-LYFR O AELODAU YSGOLION SABBOTHOL.** Y mae y Llyfr hwn yn an-enwadol, ac wedi ei argraffu a'i linellu er cadw cyfrif manwl a threfnus o aelodau yr Ysgolion; ac y mae y derbyniad croesawgar a roddwyd iddo er ei ymddangosiad yn brawf ei fod yn cyflenwi angen a hir deimlwyd gan Ysgrifenyddion Ysgolion Sabbothol ein gwlad.

Pris llyfr wedi ei rwymo yn gryf, yn cynnwys 100 o du dalenau, ydyw 5s.; 150, 6s. 6c.; a 200, 8s. 6c.

---

**GEIRLYFR SEINIADOL (NEU GYNANIAETHOL) SAESONEG A CHYMRAEG,** ynghyd ag agoriad ar Lythyriaeth yr Iaith Gymraeg, gan y diweddar THOMAS EDWARDS, Ysw. (Caerfallwch). Ail Argraffiad, gydag Ychwanegiadau, gan y diweddar BARCH. D. HUGHES, B.A., Tredegar.

Pris, yn Rhifynau, 16s. 6c.; Dwy gyfrol, croen llo, 22s. 6c.

---

**LLYFR GWEDDIAU TEULUAIDD.** Ail Argraffiad, gydag Ychwanegiadau, yn cynnwys Ffurfweddiau, Boreuol a Hwyrol, a Phennillion priodol, am bob dydd o'r mis, &c., er cynnorthwy i'r Addoliad Teuluaidd, gan y Parch. THOMAS LEVI.

Pris wedi ei rwymo mewn lliain, 2s. 6c.; gydag ymylon goreuredig, 3s.

---

**CANIADAU MAES Y PLWM:** sef Gweithiau Barddonol y Diweddar MR. EDWARD JONES, Maes y Plwm. Cynnwysa y Gyfrol Emynau, Carolau, Caneuon ar wahanol destynau, Englynion, Marwnadau, ac Emynau Claddedigaethol.

Pris mewn lliain, 2s. 6c.

---

**HOLWYDDORYDD AR HANESIAETH Y BIBL,** yn cynnwys dros bedwar cant ar ddeg o Holiadau ac Atebion, ar Brif Ffeithiau Hanesyddol yr Hen Destament a'r Newydd, gan y Parch. RICHARD PRICHARD, awdwr "Diffyniad Bedydd Babanod." Gyda Rhagdraith gan y Parch. ROGER EDWARDS.

Pris mewn Lliain, 2s. 6c.

---

**YSBRYDOLIAETH Y BIBL:** gan y Parch. D. CHARLES DAVIES, M.A., Llundain. CYNNWYSIAD: Natur y Prawf—Ystyr Ysbrydoliaeth—Perthynas Ysbrydoliaeth: 1 A chynnwysiad y Bibl; 2. A chywirdeb ac awdurdod y Bibl; 3. Ag iaith y Bibl.

Pris swllt, mewn amlen.

---

**LLYFR RHENTI EISTEDDLEOEDD** Wedi ei ddarparu gogfyfer a chadw cyfrif o enwau personau a gymerant Eisteddleoedd, ynghyda'r arian a dderbynir oddiwrth y cyfryw.

---

**COFRESTR CLADDEDIGAETHAU** *(REGISTER BOOK OF BURIALS).* Llyfr wedi ei barotoi gogyfer a chadw cyfrif cywir o gladdedigaethau.

Y mae ynddo golofnau i ddodi enw y person a gleddir, ei alwedigaeth, ei oedran, y lle y bu farw, dyddiad y gladdedigaeth, pwy a wasanaethodd ar yr achlysur, y fan y claddwyd, rhif y bedd, a sylwadau.

Pris, 8s. 6c., wedi ei rwymo yn gryf.

---

**LLYFR RHESTRIAD BEDYDDIADAU,** cyfaddas i Eglwysi pob enwad crefyddol. Wrth anfon archebion am dano, dymunir gwybod i ba nifer o Fedyddiadau y dymunir cael y llyfr,—100, 200, 400, 600, &c.

Pris, Llyfr wedi ei rwymo yn gryf, i gynnwys 100 o enwau, 3s.; a 1s. 6c. am bob 100 ychwanegol.

P. M. EVANS & SON, Cyhoeddwyr, Treffynnon *(Holywell).*

# GOSTYNGIAD

YN MHRIS

# ESBONIAD JAMES HUGHES

AR Y

# BIBL.

## Cynnygiad Gwerthfawr i'r Cymry
## AM FYR AMSER.

GAN fod Cyhoeddwyr yr Esboniad uchod yn deall fod awydd cyffredinol ymhlith dosbarth lliosog o genedl y Cymry i feddiannu yr Esboniad yn gyflawn, y maent wedi penderfynu ei gynnyg i'r wlad am y prisiau canlynol:—

| | | | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrol | I. | Genesis—Josua .......... | 1 | 2 | 0 |
| " | II. | Barnwyr—Job .............. | 1 | 2 | 0 |
| " | III. | Salmau—Malachi .. ....... | 1 | 5 | 0 |
| " | IV. | Matthew—Dadguddiad .... | 1 | 1 | 0 |

Neu y PEDAIR CYFROL, wedi eu rhwymo yn gryf a hardd mewn croen llo, o BRIF ESBONIAD Y GENEDL GYMREIG am

**£4 10 0!!**

**Yn ngwyneb y gostyngiad presennol, dymuna y Cyhoeddwyr hysbysu mai am ARIAN PAROD YN UNIG y bydd iddynt werthu y Gwaith am y pris hwn.**

Ar dderbyniad *Post Office Order* neu *Cheque* am y swm angenrheidiol, bydd yn dda gan y Cyhoeddwyr,—P. M. EVANS & SON, *Publishers, Holywell*, anfon cyfrol neu gyfrolau yn DDIDRAUL i unrhyw gyfeiriad.

P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR, TREFFYNNON.

RHIFYN CLIV.

# Y
# TRAETHODYDD.

GORPHENAF, 1884.

CYNNWYSIAD.

Y Corff Cymdeithasol. Gan Mr. HENRY JONES, M.A. ... 261

Llythyrau Tregelles at Eben Fardd ... ... ... ... 283

Deddf Pechod a Marwolaeth. Gan y Parch. JOHN DAVIES ... 294

Jane Austen a'i Gweithiau. Gan Mr. E. VINCENT EVANS ... 306

Y Diweddar Barch. William Rees, D.D. Gan y Parch. DAVID GRIFFITH ... ... ... ... ... ... ... 331

Luther. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A. ... ... 347

Y Diweddar Barch. Hugh Jones, D.D., Llangollen. Gan y Parch. OWEN DAVIES ... ... ... ... ... ... 364

Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... ... 374

*CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF HYDREF 1, 1884.*

TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

PRIS DEUNAW CEINIOG.

# Y TRAETHODYDD.

## Y CORFF CYMDEITHASOL.

NID ydyw athroniaeth foesol Seisonig mwyach yn gyfyngedig i unigoliaeth, neu *individualism* yn unig. Fe ddilynodd Hume yr egwyddorion hyny i'w canlyniad eithaf, ar dir rhesymeg, ac fe'u gwrthbrofodd fel damcaniaeth gwybodaeth trwy ddadguddio yr ammheuyddiaeth hollol sydd yn gynnwysedig ynddynt. Mae y cwestiwn a orwedda wrth sail y *Critique of Pure Reason* yn dangos fod Kant yn ystyried gwaith Hume yn derfynol, ac unigoliaeth yn wythïen o feddwl oedd wedi ei gweithio allan. Fe ddarfu i hanesiaeth hefyd gadarnhâu dysgeidiaeth ddinystriol Hume pan dderbyniodd unigoliaeth ei gwrthbrawf ymarferol yn y Chwyldroad Ffrengig. Yn ddamcaniaethol yn gystal ag yn ymarferol fe ddarfu i'r symudiad meddyliol oedd yn dadgyfanu, orphen ei waith a'i hyspyddu ei hun ar derfyn y ganrif ddiweddaf. Yr ydoedd yn ysgar y dyn oddiwrth ei gylchyniadau, neu ei *environments*, yn anianyddol ac ysbrydol, ac yna yn cael nad ydoedd ei dysgeidiaeth ond cysgod o athroniaeth gau. Mae yr oes hon yn ymwrthod â'r athroniaeth a olygai feddwl fel peth ymsyniol yn gweithredu mewn gwagder; y mae wedi colli ffydd mewn Melchisedecau moesol, a hawlia gan bawb linach eu harferion o feddwl a gweithredu. Mae cwestiynau unigoliaeth yn colli eu dyddordeb, ac y mae cwestiynau newyddion, a orweddent tu hwnt i derfyngylch oes sydd wedi myned heibio, trwy ddystaw ddadblygiad y meddwl cyffredinol, wedi dyfod yn awr i'r lle blaenaf. Mae sylw dysgedigion y dyddiau hyn yn cael ei gyfeirio at gysylltiadau personau unigol, yn hytrach nag at bersonau unigol eu hunain; ac fe olygir y cysylltiadau hyny, mewn ystyr fwy neu lai anmhenodol, fel yn hanfodol i, os nad yn gwneyd i fyny bersonau unigol. Y mae damcaniaeth y dyddiau hyn, mewn gair, yn adgyfanol o ran ei duedd. Ymdrecha i'w ryddhâu ei hun oddiwrth ei hen ronynolrwydd, ac i gyfaddasu y person unigol at yr hyn sydd yn ei gylchynu. Y mae damcaniaethau mewn perthynas i gymdeithas yn cymeryd lle damcaniaethau mewn perthynas i'r person unigol; a phan wneir y person unigol yn destun ymchwiliad fe geir ei fod, a dyweyd y lleiaf, yn arallol, neu yn dangos perthynas âg eraill yn gystal ag yn fyfïol, neu yn gofalu yn unig am dano ei hun.

Ond er fod athroniaeth Seisonig yn symud ymaith oddiwrth gwestiynau a chanlyniadau ymarferol unigoliaeth, y mae eto, i fesur helaeth, yn cael ei rheoli gan ei ragdybiaethau. Mae y fath ysgrifenwyr â Mr. Spencer eto yn damcaniaethu ar ei egwyddorion, er fod y meddyliau sydd yn rhoddi iddynt allu yn estronol iddo. Fel gweision Ahab archolledig, y maent yn cynnal eu meistr yn ei gerbyd hyd yr hwyr. Y mae dyddordeb a gwerth damcaniaethau Mr. Spencer ar foeseg yn codi o'r defnydd a wna o'r syniadau o ddadblygiad ac organiaeth; ond nid oes dim dirdynu ar unigoliaeth a all beri iddo roddi y syniadau hyn. Y maent wedi eu mabwysiadu allan o feddwl cyffredin yr oes ar faterion gwyddonol, ac yna wedi eu harosod ar athroniaeth sydd yn estronol iddynt. Wedi profi eu hunain yn ddefnyddiol yn maes bywydeg, *biology*, i fesur ag y mae yn anhawdd ei orbrisio, y maent ar unwaith wedi eu cymhwyso at foeseg. Ac nid ydyw y syniadau hyn wedi derbyn ystyr newydd oddiwrth eu cymhwysiad newydd, ond y maent yn dal yn y cysylltiadau newyddion yr arwyddocâd oedd iddynt yn yr hen. Yn awr, ni all syniadau sydd gywir a pherthynasol mewn un cylch gael eu cymhwyso i gylch arall a gwahanol ond yn unig yn y ffordd o gyfatebiaeth a chymhariaeth; ac yr ydym yn credu fod holl ddysgeidiaeth Mr. Spencer ar foeseg, gyda'i gilydd, yn gynnwysedig ar y naill law o *Hedoniaeth*, neu bleser yn ddyben, ac ar y llaw arall o gyfatebiaethau cywrain rhwng ffurfiadau anianyddol ac arferion anifeiliaid, a ffurfiad meddyliol ac arferion moesol dynion.

Felly, o leiaf, y mae ei athrawiaeth am ffurfiad organaidd cymdeithas, neu gymdeithas fel corff. Fe olygir y corff byw fel cynllun bodolaeth organaidd, ac fe olygir cymdeithas fel yn organaidd cân belled, a chan belled yn unig, ag y mae yn gyffelyb i gorff byw. Dyfyniad o'i atebiad i'r cwestiwn, "Beth yw cymdeithas?" a brofa ein haeriad. "Ond yn awr, ac ystyried cymdeithas fel peth, pa fath beth raid i ni ei galw? . . . Y mae dau ddosbarth o gydgrynöadau â pha rai y gellid cymharu y cydgrynöad cymdeithasol—yr anorganaidd a'r organaidd. A ydyw priodoleddau cymdeithas, a'i hystyried ar wahân oddiwrth ei hundodau byw, mewn unrhyw ffordd yn debyg i eiddo corff di-fywyd? neu a ydynt mewn unrhyw ffordd yn debyg i eiddo corff byw? neu a ydynt yn gwbl annhebyg i eiddo y naill a'r llall? Ni raid ond gofyn y cyntaf o'r cwestiynau hyn i'w ateb yn y nacäol. Ni all cyfan o ba un y mae ei ranau yn fyw fod, yn ei nodweddion cyffredinol, fel cyfan di-fywyd. Mae yr ail gwestiwn, nid fel hyn i'w ateb ar unwaith, i'w ateb yn y cadarnhäol. Y mae genym yn awr i ystyried y rhesymau dros haeru fod y cysylltiadau parhâus ymysg rhanau cymdeithas yn gyfatebol i'r cysylltiadau parhâus ymysg rhanau corff byw."*

Yn ei bennod nesaf, mewn canlyniad, y mae Mr. Spencer yn darganfod y cyfatebiaethau hyn mewn helaethrwydd mawr, ac yn eu harddangos gyda chywreinrwydd neillduol. Y mae cymdeithas yn tyfu fel corff byw; y mae yn myned trwy oruchwyliaethau o ymwahaniaethu ac o ymgyfanu fel corff byw; cyfaddasa ei hun i'w chylchyniadau fel corff byw; y mae ganddi ffurfiadau maethol, dosbarthol,

* *Sociology*, Vol. I. p. 466.

a rheoleiddiol fel corff byw; y mae un adeg yn cael ei newynu, ac adeg arall ei gorbesgi fel corff byw; y mae iddi reilffyrdd i fyny ac i lawr, fel y gwythïenau dwbl mewn corff byw. Yn y dull yma y mae efe wedi myned ymhell, ond nid oes un rheswm yn natur *pethau* pam na allasai fyned ymhellach; oblegid y mae i gywreinrwydd fwy o law na gwirionedd mewn cynnyrchu cyfatebiaethau, ac nid oes dau wrthddrych yn y bydysawd yn hollol wahanol y naill i'r llall. "A welwch chwi y cwmwl acw, sydd ymron o ran ffurf yn debyg i gamel?" "Myn yr offeren, ac y mae yn debyg i gamel, yn wir." "Mi dybygaf ei fod yn debyg i fronwen." "Mae ei gefn fel bronwen." "Neu, fel morfil?" "Yn debyg iawn i forfil."

Yn ei *Qualification and Summary* (Vol. I. p. 614), fodd bynag, dywed Mr. Spencer ei fod "wedi defnyddio y cyfatebiaethau a weithiodd allan yn unig fel ysgaffaldau i helpu i adeiladu i fyny gorff cyson o gasgliadau mewn perthynas i gymdeithas." "Gadewch i ni," meddai, "dynu ymaith yr ysgaffaldau; fe erys y casgliadau wrthynt eu hunain." Ond fe ddengys ymchwiliad fod yr ysgaffaldau wedi eu gweithio i'r adeilad, ac fod yr adeilad yn dymchelyd pan symudir hwynt. Neu, a llefaru heb gymhariaeth, y foment y peidia cymdeithas a bod fel "corff byw," peidia a bod yn organaidd. Wedi ei adael gan y "corff byw" sydd yn ei arwain, cwympa Mr. Spencer i unigoliaeth. Pan fetha dd'od o hyd i ymdeimlfa neu *sensorium* cymdeithasol, yn ol y dull a ddangosai mewn cymdeithas y cylla a'r gyfundrefn ewynol, cydnabydda Mr. Spencer fod "annhebygrwydd o'r mwyaf," "gwahaniaeth sylfaenol," rhwng yr organiaeth cymdeithasol ac organiaeth person unigol. "Mae rhanau anifail yn gwneyd cyfan cydgasgledig; ond y mae rhanau cymdeithas yn gwneyd cyfan sydd yn wahanedig."* Yn awr ni all neb wadu nodwedd wahanedig cymdeithas; ac fe fydd byth yn wir "fod yr undodau byw sydd yn ei gwneyd i fyny yn cyffwrdd eu gilydd, ond i bellder mwy neu lai wedi eu gwasgaru." Ond os ydyw cymdeithas yn gyfan organaidd rhaid myned dros y gwahanedigrwydd yma, a rhaid i unoliaeth hòni ei hun trwy ac yn nghanol y gwahaniaethau. Mewn geiriau eraill, ni all y syniadau fod cymdeithas yn "wahanedig" a'i bod yn "gyfan," gael eu cysylltu yn uniongyrchol yn y ffordd yma; ac ni all gwahanedigrwydd fod yn nodwedd parhâus yr hyn sydd organaidd. Ond a gadael o'r neilldu yr wrthddadl yma yn bresennol, y mae o leiaf yn amlwg fod y syniad o wahanedigrwydd yn farwol i organiaeth corff byw. O ganlyniad y mae cymdeithas yn anorganaidd am ei bod yn wahanedig; neu, y mae corff byw yn anorganaidd am ei fod yn gydgasgledig; neu, nid y corff byw ydyw cynllun a safon yr hyn sydd organaidd.

Mae Mr. Spencer yn ddystaw yn addef y gyntaf o'r tybiaethau hyn, ac yn trin cymdeithas yn y peth yma fel pe buasai yn anorganaidd. "Yn y naill" (organiaeth y person unigol), dywed, "mae ymwybodolrwydd yn cael ei gynnwys mewn rhan fechan o'r cyfan. Yn y llall y mae yn daenedig trwy y cyfan. . . . . Fel, gan hyny, nad oes y fath beth ag ymdeimlfa foesol, y mae yn canlyn nad ydyw lles y cyfan, a'i ystyried ar wahân oddiwrth eiddo y rhanau, yn ddyben sydd i'w geisio.

* *Sociology*, I. 475.

Mae y gymdeithas yn hanfodi er budd ei haelodau; nid yr aelodau er budd cymdeithas."*

Cyn ceisio dangos fod Mr. Spencer yn y geiriau hyn yn trin cymdeithas fel pe na fuasai ddim mwy na chydgrynöad, ac o safle unigoliaethol, fe fydd yn dda nodi nad ydyw "lles y corff cyfan a'i ystyried ar wahân oddiwrth eiddo y rhanau," yn lles ag y gall neb ddadleu drosto neu amgyffred. Y mae yn wir "nad ydyw hawliau y corff gwladwriaethol yn ddim *ynddynt eu hunain*, ac y maent yn dyfod yn rhywbeth yn unig mor bell ag y maent yn "corffori hawliau y personau sydd yn ei wneyd i fyny." Nid all neb wadu nad ydyw cymdeithas ar wahân oddiwıth bersonau unigol yn ddim; ond ni olyga hyn fod y person unigol, fel person unigol, yn bobpeth. Mae yn wir nad yw cymdeithas yn ddim ar wahân oddiwrth bersonau unigol; ond, os ydyw cymdeithas yn organaidd, y mae yr un mor wir nad yw *personau unigol ar wahân oddiwrth gymdeithas* yn ddim. Rhaid i gymdeithas hanfodi er budd y rhanau sydd yn ei chyfansoddi, a rhaid i'r rhanau sydd yn ei chyfansoddi hefyd hanfodi er budd cymdeithas. Ië, mwy, os ydyw cymdeithas yn organiaeth, yna y mae yn anmhosibl ysgaru lles y cyfan oddiwrth les yr aelodau, neu les yr aelodau oddiwrth les y cyfan. Ysgaru y naill oddiwrth y llall ydyw rhoddi hanfodiad annibynol i ddansoddion ansylweddol, a gwaghâu y syniad o unoliaeth organaidd o'i gynnwys gwahaniaethol a phriodol.

Y mae Mr. Spencer yn gwadu cymdeithas fel dyben, ac yn ei gwneyd yn foddion trwy ba un y mae lles personau unigol yn cael ei sicrhâu; y dyben olaf, a'r unig ddyben, ydyw lles y personau unigol sydd yn ei gwneyd i fyny. Ond y mae moddion a dyben, yn gyntaf oll, yn hanfodi ar wahân oddiwrth eu gilydd—mae i'r cyntaf fodolaeth ac ystyr ynddo ei hun, ac y mae i'r olaf hefyd fodolaeth ac ystyr ynddo ei hun ac erddo ei hun; ac, yn ail, y mae ystyr y cyntaf yn cael ei ddileu yn eiddo yr olaf. Moddion, dyweder, dyrchafiad moesol bywyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ydyw dysgeidiaeth Mr. Spencer; rhaid i'r ddysgeidiaeth hono ynte yn y lle cyntaf *fod*, yn annibynol ar gyrhaeddiad ei dyben. Os, ar y llaw arall, y cyrhaedda y dyben er mwyn pa un y mae yn bodoli, yna y mae wedi ei rhoi heibio, wedi colli fel dyben, ac fe'i teflir o'r neilldu fel plisgyn wedi iddi gael ei llyncu i fyny yn nghymeriad Prydeinwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Rhaid i gymdeithas, os moddion ydyw i bersonau unigol, yn y lle cyntaf fodoli y tuallan i ac yn annibynol ar ei phersonau unigol, fel y mae yr ysgrifbin yma yn bodoli ar wahân i'r inc sydd yn llifo drwyddo. Ond nid yw cymdeithas, fel yr addefa Mr. Spencer, ac ni ddarfu iddi erioed fodoli ar wahân oddiwrth y personau unigol sydd yn ei gwneyd i fyny, ac ni fu, gan hyny, erioed yn ddim ond moddion yn unig, eithr bob amser yn foddion a rhywbeth mwy. Eto, os moddion yn unig ydyw, yna, fel pob moddion eraill, rhaid iddi ddarfod yn nghyrhaeddiad ei dyben; y mae pob cymdeithas, gan hyny, sydd yn sicrhâu lles ei deiliaid yn darfod yn y weithred. Ond, fel pwnc o ffaith, y gymdeithas sydd yn methu sicrhâu lles ei deiliaid sydd yn ymwahanu, ac nid yr un sydd yn llwyddo i wneyd felly. Perffeithrwydd cymdeithas

* *Sociology*, I. 479.

gynnyddol nad yw ond moddion yn unig, ydyw ei hollol ymwahaniad, a chynnyrchiad personau unigol ar wahân oddiwrth eu gilydd ac annibynol y naill ar y llall; ac fe ddylasai pennod Mr. Spencer ar "Society is an Organism," yn gyson â'r golygiad hwn, ddangos pa fodd, fel y mae y byd yn symud, y mae unoliaeth cymdeithas yn dyfod yn fwyfwy gwahanedig ac ar chwâl. Ymhellach, person unigol a olyga gymdeithas fel moddion yn unig, a olyga bersonau unigol sydd yn gwneyd i fyny y gymdeithas hono fel moddion yn unig—oddieithr fod cymdeithas yn rhywbeth ar wahân oddiwrthynt, yr hyn ni addefa na Mr. Spencer na neb arall; ac, os golyga pob person unigol ei gymydogion fel moddion, yna yr unigoliaeth erwin a dinystriol yr hon, yn y Chwyldroad Ffrengig, a rwygodd yn ddarnau bob rhwymyn gwleidyddol a chymdeithasol, gan hyny, ydyw y cynllun perffaith; ac y mae y byd yn ymgyrhaedd am sefyllfa natur ymha un y bydd ei gwŷr doethion yn rhedeg yn wyllt yn y coed, ac, fel yr awgryma Voltaire, yn "rhedeg ar eu pedwarion."

Nid ydyw y syniad o foddion a dyben, sut bynag, i'w gymhwyso at organiaeth. Am fod y syniad yna yn tori i lawr i wahaniaeth, ac, yn lle dangos agosrwydd a chymhletholrwydd y cysylltiadau rhwng cyfan ac aelodau, yn eu dal ar wahân o hyd braich, y mae y syniad o unoliaeth organaidd yn dyfod yn angenrheidiol. Yn mhresennoldeb hyd yn nod y bywyd isaf, rhaid newid y safle wyddonol am yr un athronyddol.

Perffeithrwydd llwydd organaidd ydyw fod pob gweithgarwch gyda'u gilydd yn ymddangos yn un. Yr organiaeth anianyddol i'r hon nid oes un elfen anghydryw—materol, fferyllol, gwefrol, neu ewynol—wedi ymwthio, "ni fedd gyfundrefn;" mae ei fywyd "yn belydr o oleuni gwyn perffaith, ei hun yn anweledig, am ei fod o'r fath berffaith wynder, ac nid oes un attaliad afreolaidd eto wedi ei dori i liwiau." Mae ei yni yn un ac yn anrhanadwy; ni allwn un amser ddyweyd "dyma weithgarwch yr aelod, dyna weithgarwch y cyfan;" oblegid gweithgarwch yr aelod *ydyw* gweithgarwch y cyfan, ac eiddo y cyfan *ydyw* gweithgarwch yr aelodau. Rhaid i'r unoliaeth, am ei fod yn unoliaeth organaidd, nid yn unig ddal o dan y gwahaniaethau, ond rhaid iddo ei wahaniaethu ei hunan, rhedeg allan i ranau, a thrachefn gyfanu y gwahaniaethau a rhedeg yn ol trwy y rhanau i unoliaeth. Yma nid oes dim o hunan-gais moddion a dyben. Nid oes un aelod yn ennill ei lwydd ar draul y cyfan; yn wir, nid oes iddo lwydd oddieithr yr hyn sydd hefyd yn llwydd yr holl organiaeth.

Os ydyw cymdeithas gan hyny yn organiaeth, y mae yn hanfodi nid yn unig fel dyben ond hefyd fel moddion. Mae y bywyd sydd yn bywiocâu y person unigol yn eiddo y cyfan cymdeithasol yn gymaint ag y mae yn eiddo ef ei hun. Ei nôd ydyw nid ei lwydd neillduol ei hunan, ac nid llwydd neillduol ei gymydogion; ond llwydd y cyfan cymdeithasol i ba un y perthynant oll, a'r hwn sydd yn byw ynddynt. Mae y syniad am unoliaeth organaidd yn golygu fod y person unigol, wedi ei dori ymaith oddiwrth gymdeithas, yn dyfod yn aelod toredig, yn dalp difywyd, diystyr; heb amcanion cymdeithas nid oes iddo amcanion o gwbl, ac ni all hyd yn nod fod yn fyfïol: a golyga nad ydyw y bywyd a wyrdröa i ddybenion hunanol yn unig yn eiddo iddo ei hun, ond yn eiddo yr organiaeth foesol sydd yn byw ynddo.

The light that led astray
Was light from heaven,

ac mae y nefoedd yn ei ddal yn gyfrifol; oblegid, er iddo ef fyned ar gyfeiliorn, yr ydoedd yn oleuni *o'r nef.*

Gwir ystyr yr athrawiaeth fod cymdeithas yn organiaeth ydyw, nad oes i berson unigol fywyd oddieithr yr hwn sydd gymdeithasol, ac na all gyrhaedd ei amcanion ei hun oddieithr trwy gyrhaedd amcanion helaethach cymdeithas. Nid oes dim cylymiad ar ranau, dim cyffyrddiad mewn lle, dim cymmalau a chysylltiadau a all rwymo ynghyd aelodau yr organiaeth. Rhaid i'r cysylltiad fod yn dumewnol, nid yn allanol; rhaid iddo fod yn hanfodol, nid yn ddamweiniol; rhaid iddo fod y fath, mewn gair, fel mae y rhanau yn syrthio ymaith i ddansoddiaethau diystyr pan dorir y cysylltiad. Beth bynag all fod yr anhawsderau i ganfod unoliaeth yr organiaeth gymdeithasol, os daliwn wrth yr athrawiaeth, ac os gwnawn hi yn fwy na chymhariaeth, rhaid i ni gydnabod fod cymdeithas a phersonau unigol mewn gwirionedd yn ffurfio y fath gyfan, ac ar wahân oddiwrth eu gilydd nad ydyw y naill na'r llall yn ddim ond enwau; a rhaid i ni dewi son am bersonau unigol fel pe gallent byth hanfodi ar wahân oddiwrth gymdeithas, neu gyrhaedd eu hamcanion oddieithr trwy ddyfod yn organau iddi a chario allan ei hamcanion hi. Mae yn ymddangos i mi mai dyledswydd gyntaf ac olaf dyn ydyw gwybod a gwneuthur y pethau hyny ag y mae y cymundeb cymdeithasol o ba un y mae yn aelod yn galw arno i'w gwneuthur. Mae ei waith yn cael ei dori allan iddo gan y sefyllfa mewn cymdeithas ymha un y mae wedi ei eni a'i ddwyn i fyny, ac y mae ei lwydd yn ymddibynu ar ei gyflawniad. Ni chreodd Hamlet ei ddyledswyddau: yr oedd yr amser eisoes allan o gymmal, ac fe'i ganwyd ef i'w osod yn iawn. Nid oedd yr alwad yn cael ei gwneyd ganddo ef na chan unrhyw berson unigol arall, ond gan yr organiaeth foesol o ba un yr ydoedd yn aelod, gan ysbryd yr oes i ba un yr ydoedd yn offeryn. Ac nid gyda thywysogion yn unig y mae felly. Mae pob un, pa mor isel bynag, yn cael ei ddyledswyddau yn yr organiaeth gymdeithasol. Bydded cymdeithas yn fud, peidied a thori allan ddyledswyddau a meddu amcanion o'i heiddo ei hun, a rhaid i bob person unigol sydd yn ei gwneyd i fyny ddal ei ddwylaw yn segur. Mae y buddion sydd gan ddynion yn amrywio yn fawr o ran maint, ond buddion yr oll ydyw buddion y sefyllfa neu y cylch sydd yn gwneyd i fyny eu cymdeithas, ac y mae yr oll yn gwneyd eu dyledswyddau iddynt eu hunain os ydynt yn rhoddi eu hunain i fyny i'r buddion hyny, ac yn ymwybodol yn gwneyd eu hunain fel organau i'w "cyffredinol." Y mae genym olygiadau tra gwahanol am faint y terfyngylch moesol, ac mae ein wybren yn fynych mor isel fel yr ydym yn ei tharo gyda'n penau dyrchafedig, ond eto y mae y nefoedd helaeth yn ein llochi oll. Mae y fynwes iselaf yn codi ac yn gostwng gydag anadl y cyffredinol, ac mae ein hiachawdwriaeth foesol yn gynnwysedig mewn bod iddi yn ewyllysgar organau. Mae y galon yn curo, mae yr ymenydd yn gweithredu, mae y llaw yn gweithio, trwy allu ac er mwyn y cyfan; ac mae yr uchelgais moesol uchaf yn gynnwysedig mewn aberthu dybenion neillduol a chyrhaedd rhai yr organiaeth gymdeithasol. Mae

y dybenion cymdeithasol yn cymeryd i fewn ddybenion uchaf pob dynion, oblegid nid ydyw dybenion pawb ond cyfanswm y bywyd cymdeithasol sydd yn ei wahaniaethu ei hun yn y personau unigol, ac yn dychwelyd trwyddynt hwy wedi ei gyfoethogi. Ond nid dyma organiaeth gymdeithasol Mr. Spencer; mae hono yn hytrach yn gydgynnyrch, yn gydbwysedd peiriannyddol ac amserol a ddygir oddiamgylch gan wrthwynebiad a chyd-darawiad personau unigol, pob un o ba rai sydd yn ceisio ei les ei hun ac nid eiddo cymdeithas. Os nad oes i gymdeithas amcanion, os nad oes dim ond dybenion personau unigol, mae yn anhawdd gweled pa fodd y mae yr organiaeth, wedi y cwbl, yn ddim gwell na chydgasgliad. Mae y cyfan cymdeithasol yn analluog i'w gynnull ei hun yn ol allan o'i ystâd wahanedig, ac y mae yn anorganaidd am ei fod "yn sylfaenol" yn annhebyg i "gorff byw."

A raid i ni gan hyny roddi i fyny yr athrawiaeth o natur organaidd cymdeithas? A ydyw y *drychfeddwl* organaidd yn gystal â'r *gymhariaeth* organaidd yn tori i lawr o flaen gwahanedigrwydd cymdeithas? Neu ai ni ellid profi fod cymdeithas yn fwy cydgrynöedig yn gystal âg yn fwy gwahanedig nag unrhyw gynllun anianyddol o organiaeth; ei bod yn fwy cydgrynöedig *o herwydd* ei bod yn fwy gwahanedig; ac fod ei hunan-gyfaniad yn fwy cryf o herwydd fod ei hunan-wahaniaethiad yn fwy cyflawn? Mewn gair, ai ni allai cymdeithas fod yn annhebyg i gorff byw am ei bod yn *fwy* organaidd, ac nid am ei bod yn llai felly? Yr wyf yn meddwl y gallai, a rhaid i mi geisio ei brofi. Ni allwn yma gynnyg olrhain y drychfeddwl organaidd yn ei amlygiadau olynol o hono ei hun o'r organiaeth lysieuol ac anifeilaidd i fyny at ddynoliaeth. Gallai yn bresennol fod yn ddigon *haeru* ei fod yn gyntaf yn cael ei amlygu mewn corff byw, ac nid mewn corff marw: ac mai y bywyd—pa un bynag a ydyw hwnw, fel y dysga Mr Spencer, yn allu i'w gyfaddasu ei hun i'r hyn sydd yn ei gylchynu ai peidio—ac nid y mân-wëoedd a'r llif-rediadau gewynol, sydd yn rhwymo y rhanau i unoliaeth. Ni all mân-wëoedd a rhediadau gynnwys ond gronynau cyffyrddiol: mae eu rhanau, pa mor deneu a nwyfrëol bynag, yn gorwedd y tu allan i'w gilydd. Nid ydyw mân-wëoedd a llif-rediadau ond rhanau o organiaeth, ond trwy allu teimladaeth y maent wedi eu galw yn ol o'u hallanolrwydd, a dyfod yn organau. Yr wyf yn gwybod fod fy llaw yn rhan o'm horganiaeth anianyddol, nid yn y lle cyntaf am fy mod yn gwybod ei bod wedi ei chysylltu â hi trwy lif-rediadau gewynol, ond am ei bod yn ffynnonell o boen neu bleser i *mi*. Mae teimladaeth yn diddymu gwahaniaeth. Cyhyd ag y pery, nid ydyw organau ac organiaeth i'w gwahaniaethu, ond mae yr holl organiaeth yn ei bodolaeth gydgasgledig yn bresennol yn ei holl deimladaethau. Nid taflod y genau sydd yn teimlo pleser, ac nid y glust sydd yn teimlo poen, ond yr organiaeth fel undod sydd yn teimlo y pleser a'r poen. Ond er fod teimladaeth yn casglu ynghyd y rhanau i unoliaeth agos a chryf, nid ydyw yn eu casglu i unoliaeth *parhâus*. Mae teimladaeth ei hunan yn ddiflanedig; a phan ddiflana, mae yr organiaeth yn syrthio yn ol i wahaniaeth, ac nid ydyw ei rhanau nac yma nac acw iddi. Fe all teimladaethau ymddangos mewn prysur olyniad, fel mân-ronynau gwlybwr; ond er hyny ni allant ond ailadrodd yr un chwedl, hòni unoliaeth yr organiaeth ac yna ei wadu trwy ddiflanu. Mae teimlad-

aethau yn gorchfygu allanolrwydd lle, ac yn cael eu gorchfygu eu hunain gan wahanedigrwydd amser. Ond pan y mae teimladaethau yn perthynu i'r myfi; pan wybyddir hwynt fel *ynof fi*, neu fel *yr eiddof fi*, yna y maent yn cyrhaedd sefydlogrwydd a pharhâd. Nid ydynt mwyach yn ddim ond amrywiol *galluog* o gael ei drefnu gan ddealltwriaeth; nid ydynt yn unig yn cael eu dadgan gan lefau annealladwy; ond gellir siarad am danynt a'u desgrifio fel yn hyfryd neu boenus, melus neu chwerw. Mewn gair, y maent yn feddyliau, yn rhanau arbenig o'm perchenogaeth feddyliol, y rhai i ryw radd a gyfweddant fy nyfodol. Mae unoliaeth yr organiaeth, nad oedd yn bod yn y ffurfiad anianyddol, ac nad oedd yn cael ei amlygu ond dros amser mewn teimladaeth, yn dyfod mewn ymwybodolrwydd yn ffaith barhâus. Mewn ffordd fwy cywir, a chan ymwrthod yn gwbl â'r deuoliaeth yma o deimlad a meddwl, fe ellid dyweyd nad ydyw y meddwl sydd yn bod fel teimladaeth, yn dyfod ato ei hun mewn teimladaeth, nad ydyw yn gorchfygu ei wahaniaeth ei hun trwy ei adnabod ei hun, fel y gwna mewn bodolaeth hunanymwybodol. Nid yw bywyd anifail yn unoliaeth cyflawn, oblegid nad ydyw yn unoliaeth i'r anifail ei hunan. Nid ydyw yr anifail, neu o leiaf y bôd nad ydyw ond teimladol, yn wrthddrych parhâus iddo ei hun; ni all ddychwelyd at ei deimladaethau a'u hasio i un profiad unedig. Ni all orchfygu gwahaniaeth amser. Mae yn byw yn y foment, ac ni all weithio y gorphenol i bosibilrwydd y dyfodol, neu y dyfodol i gymhelliad y presennol. Mewn gwirionedd nid oes iddo orphenol, presennol, neu ddyfodol, ond *yn awr* byth-ddychwelol, anwahanedig. I sylwedydd, fe allai bywyd anifail fod yn amlinelliad anmherffaith o organiaeth gymhlethedig ei fywyd ei hun, oblegid y mae goruchwyliaethau, cyson â hwy eu hunain, yn cael eu cario ymlaen dros gyfnodau meithion o amser gan yr anifail. Mae moddion yn ddarostyngedig i ddybenion, dybenion agos i ddybenion pellach, a'r oll i ddyben eithaf sydd yn cynnwys y cyfan. Ac nid ydyw y fath gyddilyniadau ag a gawn yn ngweithrediadau aderyn wrth adeiladu ei nyth, ac wrth gynnyrchu ac amddiffyn ei gywion, yn ddamweiniol neu ddiystyr. Maent yn awgrymu bywyd a reolir gan ddyben. Ond mae yn anhawdd credu fod yr anifail ei hun yn amgyffred y dyben hwn. Mae cymeriad digyfeiliorn ac uniongyrchol ei weithrediadau yn cau allan y fath syniad. Eiddo natur ydyw y dyben, nid eiddo yr anifail. Lle yr anifail ydyw ufuddhâu deddfau nad all anufuddhâu, cyrhaedd amcanion na ddeallodd, bod yn offeryn yn llaw gallu y *mae* iddo amcanion, ac sydd yn cyrhaedd yr amcanion hyny trwy weithrediadau yr anifail. Y mae, fodd bynag, yn fater i wyddoniaeth, ac nid i athroniaeth, i benderfynu pa anifail sydd gyntaf yn sylweddoli ystyr ei fywyd ei hun; pa le y tynir y llinell rhwng gwybodolrwydd ac ymwybodolrwydd sydd gwbl ddibwys, o leiaf i ddrychfeddyliaeth, *idealism*; a'r oll ag y mae eisieu i ni ddal arno yma ydyw fod yr anifail sydd yn analluog i amgyffred ei ddyben ei hun yn offeryn, ac nid yn organiaeth yn ngwir ystyr y gair. Mae angenrheidrwydd gweithrediadau y fath gorff byw yn gorwedd y tu allan iddo ei hun. Ond angenrheidrwydd peth ydyw ei ystyr ddyfnaf, ac nid all yr offeryn gael ei esbonio yn briodol ond yn y dyben er mwyn pa un y bodola. O ganlyniad, y mae arwyddocâd, ystyr, bywyd yr anifail, nid yn unig yn gorwedd tu allan

i'w amgyffred ef ei hun, ond ni ellir ei gael oddieithr yn y cyfan o ba un y mae yr anifail yn rhan. Mae y naturiolaethwr yn adnabod yr anifail pan mae yn ei gael fel amlygiad o rai o ddeddfau natur, ac yn edrych arno oddiar safle y rhywogaeth. Mewn geiriau eraill, doethineb *natur* y mae efe yn ganfod yn ei dal ei hun fel unoliaeth annhoredig yn nghanol holl wahaniaethau bywyd teimladol a mân-ronynol yr anifail; ac nid ydyw mewn un modd yn ddoethineb yr anifail ei hun. Nid ydyw ystyr bywyd yr anifail, y meddwl ag ydyw, ac ar gyfrif yr hwn y mae yn ddealladwy, yn dyfod yn ol iddo ei hun; ac am hyny nid ydyw yn gyflawn organaidd.

Ond yn mywyd deallol ac ymarferol dyn, y mae meddwl gartref gydag ef ei hunan. Mae ystyr bywyd dyn o fewn ei amgyffrediad ef ei hun. Gall efe sefyll uwchlaw yr hyn sydd yn ei gylchynu, edrych ymlaen ac yn ol, cydnabod y nerthoedd sydd yn chwareu o'i amgylch, a thrwy eu cydnabod eu gorchfygu. Fel pob anifail arall, mae yn rhaid iddo wrthsefyll nerthoedd cymhlethedig ei gylchyniad, y rhai sydd yn tueddu i chwalu ei fywyd i ronyniaeth hunan-allanol bodolaeth anorganaidd. Ond, yn annhebyg i'anifeiliaid eraill, fe all efe ei ysgar ei hun oddiwrth ei gylchyniad—hyny ydyw, ei adnabod ei hun fel yn bodoli ar wahân oddiwrtho. Gall efe *ddeall* ei gylchyniad, a thrwy ei ddeall fe all gymeryd ei angenrheidrwydd iddo ei hun; neu mewn geiríau eraill, fe all nodi ei gylchyniad â sêl ei ddealltwriaeth ei hun a dyrchafu y naturiol i'r ysbrydol. Mae yr ymdrech rhwng dyn a'r pethau sydd yn ei amgylchynu yn anghyfartal, a rhaid iddi derfynu yn muddugoliaeth ysbryd. Oblegid nid yw yr ammodau a arosodir ar ddyn gan ei gylchyniad yn ddim iddo ef hyd nes y treiddiant i'w ymwybodolrwydd, ac wedi iddynt wneyd hyny y maent wedi eu darostwng i allu sydd yn eu trawsnewid. Nid ydynt mwyach yn ammodau yn unig, ond *meddyliau*—rhanau o berchenogaeth y gallu sydd yn eu deall. I gylch grisialaidd dealltwriaeth ni all dim fyned i mewn oddieithr trwy roddi i fyny ei wrthwynebiad ac ymostwng i ddyfod yn rhan o'r cylch hwnw. Mewn gair, rhaid peidio cymharu yr ymdrech rhwng bôd hunanymwybodol a'i gylchyniad, i gyd-darawiad dwy belen, neu wrthwynebiad dau allu yn yr un arwynebedd, neu *plane*. Nid ydyw dyn yn *beth* neillduol ymysg pethau neillduol. Nid ydyw meddwl yn peidio bod lle y mae y byd anianyddol yn dechreu, ond ymdeifl drosto a dwg ef yn ol iddo ei hun wedi ei ddeongli. Mae dyn, fel bôd rhesymol, yn derfyn iddo ei hun. Beth bynag allai fod yr angenrheidrwydd sydd yn amgylchu ei fywyd, ni all effeithio ar ei gymeriad nes iddo osod ei enw wrtho, ei fabwysiadu, a'i wneyd yn *amcan* iddo. Ond os ydyw yn amcan iddo, y mae *ynddo*, nid o'i amgylch, neu uwchlaw iddo: y mae yn angenrheidrwydd o'i eiddo ef ei hun, ac nid yn un estronol. Nid ydyw yn ein bwriad fychanu arwyddocâd yr angenrheidrwydd hwnw, llais yr hwn ydym yn glywed, os ydym yn ystyriol, yn hir cyn i amser rychu ein hwynebau, yn dyweyd gyda hollalluog awdurdod, "Y ffordd yma yr äi, ac nid y ffordd yna." Ond eto nid oes i'r angenrheidrwydd nodwedd foesol nes i mi roddi iddo ystyr. Fe all yr iselaf ddefnyddio geiriau Cæsar a dyweyd—

We were two lions litter'd in one day,
And I the elder and more terrible.

Mae fy nhlodi, fy nghyfoeth, fy iechyd, yn ymddangos ymron yn bobpeth i mi; ond nid ydynt bobpeth; yr hyn sydd fwyaf, wedi y cwbl, ydyw y gallu hwnw sydd genyf fi i beri i fy nhlodi, fy nghyfoeth, fy iechyd, a fy afiechyd fod i mi yn felldith neu yn fendith, yn dda neu yn ddrwg. Myfi, yn y diwedd, sydd yn rhoddi i fy nghylchyniadau arwyddocâd.

Yr athrawiaeth hon, sydd hen fel hanes dewisiad y ffrwyth gwaharddedig, ydyw Alpha ac Omega moeseg. Mae dyn yn hunanymwybodol, mae dyn yn rhydd, mae dyn yn derfyn iddo ei hunan, yn angenrheidrwydd iddo ei hun, yn dynged iddo ei hun; dyma sylfaen olaf pob damcaniaeth o foeseg sydd yn meddu unrhyw ystyr. Oblegid os nad yw hyn yn wir, os ydyw dyn yn gwasanaethu amcanion nad all na'u gwrthod na'u derbyn, os ydyw yn gaethwas ei ammodau, yna fe fydd moeseg yn wyddor sydd yn trin ammodau gweithrediadau, ac nid yn wyddor bywyd dynol. Fe ddylid gosod moeseg felly o'r neilldu gyda ser-ddewiniaeth, fel gwyddor peth nad yw; chwareubeth mebyd y byd, annheilwng o sylw oes wyddonol. Dylai gwyddoniaeth droi ymaith oddiwrth ddyn, ac ymdrechu yn unig i ddeall y peirianwaith gyda pha un y mae y *cog* a'r *crank* dynol yn symud; dylai arddangos afresymoldeb cynghorion ymarferol i foesoldeb, a dysgu nad yw da a drwg ond enwau ar ymddangosiadau sydd yn dyfod i'r golwg mewn dyn, ac yn deilliaw o'i ammodau. Rhyddid, hunan-ymwybodolrwydd, cyflawnder organaidd dyn, ydyw y ffaith gyda pha un y mae moeseg yn dechreu ac yn diweddu; ac ni allwn ddechreu yn îs, fel y gwna Mr. Spencer, oddieithr i ni gredu fod anifeiliaid, hefyd, yn foesol ac anfoesol, yn ddybenion ynddynt eu hunain, ac am hyny heb fod i'w ddefnyddio fel offerynau gan ddyn. Ond fe fydd yr angenrheidrwydd o fyw yn ddiffyniad ymarferol digonol yn erbyn yr ochr yma o *Data of Ethics* Mr. Spencer; oblegid ni allwn fforddio cydnabod bywyd pob ymlusgiad fel o anfeidrol werth ynddo ei hun. O fewn cylch natur ni a geisiwn eto am yr hyn sydd ddefnyddiol; ni a gydnabyddwn eto fod y dyben er mwyn pa un y mae y bywyd nad yw yn hunan-ymwybodol yn hanfodi, yn gorwedd tu hwnt i'r bywyd hwnw, ac amddiffynwn y bywyd trwy ei ddefnyddio gyda golwg ar ei ddyben.

Ond ar y llaw arall ni ellir gwrthbrofi rhyddid, oblegid bod yn anmhosibl i ddealltwriaeth ei wrthbrofi ei hun trwy ei wneuthur ei hun yn ddim ond offeryn. Dealltwriaeth sydd yn arwain y gwrthbrawf yn gystal â'r prawf; nid yw y gwrthbrawf ond amlygiad newydd o fodolaeth ac yni dealltwriaeth. Ni all rheswm gyflawni hunan-laddiad er y gall dyn, ac y mae ammheuyddiaeth hollol yn anmhosibl. "Mae yn feddyginiaeth sydd yn ei symud ei hunan yn gystal â'r afiechyd." Nid yw pob ymdrech a wneir gan reswm damcaniaethol ac ymarferol ond ad-haeriad o'i anfeidroldeb ei hunan; nid gosodiad ond symudiad terfyn ydyw; y mae yn oruchwyliaeth trwy ba un y mae rhywbeth nad *ydoedd* i'r person unigol yn cael ei ddwyn i fewn a'i wneyd yn rhan o'i fodolaeth ddealltwriaethol neu foesol.

Yn yr ystyr yma y mae golygiad Mr. Spencer am gymdeithas fel cyfan "gwahanedig" yn gywir; canys y mae pob person unigol yn

derfyn iddo ei hun, yn organiaeth gyflawn, gyda ei ystyr ynddo ei hun. Mae y gwahanedigrwydd, fodd bynag, yn llawer dyfnach na dim sydd yn cael dadganiad yn ysgrifeniadau Mr. Spencer. Oblegid y mae yr organiaeth gymdeithasol nid yn unig yn "deimladol" ymhob rhan, ond y mae yn hunan-ymwybodol ymhob rhan. Nid ydyw personau unigol yn unig "heb fod mewn cyffyrddiad," ond y maent yn foesol ar wahân, gan fod pob un bob amser yn ddyben iddo ei hun. Mae da a drwg yn bellach oddiwrth eu gilydd na'r dwyrain a'r gorllewin; ac ni ellir gosod cymdeithas wedi ei chwalu wrth ei gilydd mor hawdd â llestr toredig. Mae y nerthoedd sydd yn cadw dynion ar wahân yn meddu gallu gwrthyrol, *repellent*, cryfach na dim materol. O ganlyniad, os ydyw cymdeithas yn organaidd, rhaid iddi orchfygu gwahaniaeth yn ei gastell cadarnaf, a'i orchfygu hefyd trwy foddion moesol. Nid oes un ddamcaniaeth am organiaeth cymdeithas a wna y tro, os yn ei hawyddfryd i ail ffurfio cymdeithas y gwna drais ar annibyniaeth y person unigol, ac yr ymyra â'i hawl i geisio ei lês ei hun. Rhaid cymhwyso dyn i'r pethau sydd yn ei amgylchynu, a'i wneyd yn gyfrwng daioni cymdeithas heb ymyraeth â'i hawl i gyrhaedd ei amcanion ei hun. Nid ydyw yn ddigon rhoddi pwys ar ei gylchyniad, a'i wneuthur, fel y gwna Mr. Spencer, yn ddim ond ceiliog gwynt sydd yn troi o amgylch pan symuda yr awelon; oblegid, oddieithr fod rhyddid yn chwedl a moeseg yn goelgrefydd wyddonol, y mae bywyd yn fwy na chwrs o hunan-gyfaddasiad. Y mae yn cyfaddasu y cylchyniad iddo ei hun yn gystal â'i hun i'w gylchyniad, ac mae hon yn ochr ag y mae dadblygiad Darwinaidd, yn ei holl gymhwysiadau, yn dueddol i fychanu. Oblegid wedi y cwbl nid yw y cylchyniad, nad ydyw yr oes hon byth yn blino yn gosod pwys arno, a'r hwn y mae unigoliaeth o angenrheidrwydd yn esgeuluso, ond defnydd crai bywyd, ac yn unig yn *alluog* o gael ei droi i gyfoeth dealltwriaethol gan yni y bywyd hwnw. Beth bynag allai fod dylanwad cylchyniadau person unigol, pa mor ddwfn bynag y mae yn ddyledus i'r gorphenol am yr hyn yw yn bresennol,—fel y rhaid ei fod yn wir ei bod mewn rhyw ystyr yn etifedd profiad yr oesoedd,—y mae hefyd yn wir y rhaid i brofiad yr oesoedd dderbyn argraff cymeriad y person unigol ei hun, ac felly gymeryd ystyr a ffurf na ellid etifeddu.

Rhaid i'r athrawiaeth fod cymdeithas yn organiaeth gymeryd i fyny y daioni oedd mewn unigoliaeth iddi ei hun. Ni all un ddamcaniaeth o foeseg fforddio taflu ymaith ryddid cyflawn, ac anfeidrol werth y person unigol. Y mae rhyddid wedi ei brynu â gormod o bris i'w fargenio ymaith. Y mae yn gynnyrch llafur hanesiaeth, o'r amser y dysgodd Crist gydraddoldeb a brawdoliaeth dynolryw i'r amser pan oedd rhyddid, cydraddoldeb, a brawdoliaeth yn cael eu sylweddoli yn ddansoddiaethol yn y Chwyldroad Ffrengig. O flaen ymwybodolrwydd cynnyddol y person unigol o ryddid, yr oedd raid i'r Ymherodraeth Rufeinig, yr Eglwys Rufeinig, a dychrynfeydd Duw oedd yn unig yr unbenaethol, gilio ymaith. Mae y byd o'r diwedd wedi ei addysgu i'r ymwybodolrwydd sicraf o'i hawl i ryddid, ac fe annogir y person unigol yn awr i edrych ato ei hun. Fe ddarfu i'r rhyddid hwn ei ddangos ei hun yn Ffrainc fel rhyddid oddiwrth attalfa. Cymerai agwedd elyniaethus at sefydliadau yr amser, ysgubai ymaith ddoethineb gydgasgledig y gorphenol, a darostyngodd y Wladwriaeth i *carte blanche*,

neu bapyr gwyn. Mae gan ryddid yr un nerth ynddo eto; mae yn hollalluog pan yn wrthwynebol i attaliad, yn unig am fod ysbryd yn gryfach na natur. Ond eto y rhyddid hwn sydd ei hunan yn unig rwymyn parhâus cymdeithas. Yn hawl y person unigol i geisio ei les ei hun y gorwedd y posibilrwydd iddo geisio lles yr organiaeth gymdeithasol. Neu, a siarad o'r safle gymdeithasol, y mae cymdeithas nid yn unig yn myned allan i wahaniaeth, ac yn rhoddi i'r personau unigol sydd yn ei gwneyd i fyny hawliau hollol, ond yn casglu ei hun i unoliaeth trwy y rhyddid hwnw sydd ar y cyntaf yn wrthyrol, ac yn troi hawliau y person unigol i ddyledswyddau, a'i hunan-gais i foddion sicrhâu y lles cyffredinol. O lwch a phylor unigoliaeth y mae yn creu cenedl sydd un am fod ei haelodau yn rhydd, ac aelodau yr hon sydd yn rhydd am eu bod yn byw ei bywyd hi yn yr eiddynt eu hunain. Y mae organiaeth cymdeithas yn unig yn bosibl am fod y rhai sydd yn ei gwneyd i fyny yn organaidd eu hunain. Rhwymyn yr organiaeth gymdeithasol, yr hyn sydd yn gwneyd ei bywyd hunan-wahaniaethol, hunan-gyfanol, ydyw rhyddid.

Pa fodd gan hyny y mae rhyddid y person unigol yn gyson â ac yn *cyfansoddi* organiaeth cymdeithas, ydyw y cwestiwn sydd yn awr yn aros. Ar y dechreu fe ymddengys fod gwrthddywediad rhwng hawl y person unigol i'w sylweddoli ei hun, a'i ddyledswydd i sylweddoli amcanion cymdeithas. Pan ddaw y person unigol gyntaf yn ymwybodol o'i ryddid, ac y cydnebydd ei fod i rodio yn ngoleuni ei ysbryd ei hun, y mae yn cymeryd agwedd nacäol tuag at bobpeth sydd yn ymddangos fel yn cyfyngu y rhyddid hwn. Mae y Wladwriaeth gyda'i deddfau, Cymdeithas gyda'i harferion, yr Eglwys gyda'i hathrawiaethau, yn ymddangos iddo fel attalfëydd. Ei ddyledswydd uchaf iddo ei hun, gan hyny, ydyw eu gwrthwynebu; oblegid ni all nac Eglwys, na Chymdeithas, na Gwladwriaeth, dreisio dyn rhydd, a'r unig allu awdurdodol iddo ef ydyw rhyddid. Y mae pob gweithred yn farw oddieithr ei bod wedi ei geni o ryddid; hawliau gwrthddrycholrwydd yw y rhai uchaf; ac ni ellir gorfodi dyn i wrthddywedyd yr hyn sydd yn cyfansoddi ei fywyd ysbrydol. Hyn, hawl anniddymadwy dyn rhydd, oedd y da a weithiai yn nghanol adfeilion y Chwyldroäd Ffrengig.

Ond y mae dyfnach ymwybodolrwydd o ryddid yn dangos arddansoddiaeth ac ansylweddolrwydd rhyddid gwrthddrychol. Mae rhyddid difaterwch wedi derbyn ei ergyd marwol oddiwrth Kant, ac ar bob llaw fe gydnabyddir yn ddamcaniaethol fod rhyddid oddiwrth derfyn yn rhyddid mewn gwagder, yn analluog i symud o herwydd absennoldeb gwrthwynebiad. Y mae person unigol sydd yn rhydd yn yr ystyr yma, yn gwadu hawl yr oll sydd yn dyfod oddiallan i benderfynu ei weithrediadau. Fe all weithredu fel y dewisa. Gall fyned yma, neu acw, neu beidio myned i unlle; gall wneyd hyn, neu y llall, neu ddim. Ni chydnebydd alwadau sydd yn codi o'i gylchyniad; nid ydynt *ddyledswyddau;* ac nid yw y "*dylai*" yn ddim mwy nag arferiad etifeddol wedi ei gwisgo yn nychrynfeydd coelgrefydd etifeddol. Rhaid i'w weithrediadau redeg o gyflawnder ei galon ei hun, ac nid cael eu dirwasgu o hono gan bwysau deddf a dyledswydd. Mae ei ryddid wedi ei oedfreinio. Mae yn cael ei holl gymhellion ynddo ei hun. Ond

yna fe ddaw y cwestiwn, pa gymhellion a *all* gael ynddo ei hun? A yw yr hawliad fod iddo gael ei iawnderau ynddo ei hun ddim yn gyfatebol i hawliad fod iddo ei godi ei hun i fyny wrth ei wregys ei hunan? Mae *amcan* yn rheswm am weithrediad o ryw fath. Mae y rheswm neu y cymhelliad hwn *yna*, yn annibynol ar a thuallan i'r person unigol. Pe byddai y dyben neu y cymhelliad eisoes ynddo, ni fyddai gweithrediad. Mae gweithrediad yn codi o ymwybodolrwydd o derfyn, ac ymwybodolrwydd o rywbeth y tu hwnt i'r terfyn hwnw. Mae pob gweithrediad yn ymgais at ryw ddyben sydd yn y dyfodol, ac mae y dyben, pa un bynag ai gwir ai gau ydyw, hunan neu ystâd ar hunan, bob amser tuallan i'r hunan presennol. Ni all dyn gan hyny gael ei gynllun, ei *ideal*, *ynddo ei hunan*. Nid ydyw rhyddid gwrthddrychol, rhyddid oddiwrth bob terfyn, gan hyny, yn ddim mwy nag anallu hollol i weithredu o gwbl.

Y mae athroniaeth a hanesiaeth yn dangos mai y ddiangfa gyntaf o'r rhyddid noeth ac ansymudol hwn ydyw i fympwy. Fel mater o ffaith, mae y person unigol sydd yn ymwrthod â phob *attaliad* allanol yn ei roddi ei hun i fyny i foddhâd ei ddymuniadau ei hun, a Hedoniaeth, yn rhai o'i ffurfiau, sydd bob amser wedi bod y ddamcaniaeth fwyaf tyciannus o foeseg i bobl wedi eu rhyddhâu oddiwrth derfyn allanol. Blodeuai Hedoniaeth pan beidiodd y Gwladwriaethau Groegaidd tadol a llyncu sylw y dinesydd, pan ddaeth yr Ymherodraeth Rufeinig yn ddifater am y personau unigol oeddent yn byw dani, a phan oedd dychrynfëydd Duw unbenaethol ac attalfëydd Puritaniaeth yn colli eu gafael oddiar feddyliau Seisonig. Ond nid ydyw y ddiangfa i erlyniad pleser ond diangfa i orthrwm ac unrhywiaeth nwyd a mympwy. Erlyn pleser ydyw erlyn teimladaeth dymunol; ac y mae teimladau yn neillduol, nid yn unig yn yr ystyr eu bod yn eiddo i'r person ei hun, ond yn yr ystyr eu bod yn ddiflanedig, ac nad oes ganddynt rith o barhâd oddieithr pan y maent yn cael eu mynychu. Yr Hedoniaeth pur hwn ni allwn yma feirniadu, ymhellach na cheisio mewn ychydig eiriau ddangos nad oes iddo nodwedd foesol o herwydd fod ei gynllun yn neillduol. Yn y lle cyntaf, y person unigol yw yr unig feirniad am yr hyn sydd yn rhoddi iddo bleser, oblegid y mae ei deimladaethau yn eiddo iddo ei hun ac yn anghyfranogol. Gall gael gan ei gymydog ddarllen llyfr neu brofi gwin sydd yn rhoddi pleser iddo ef ei hunan; gall osod o'i flaen ammodau ei bleser ei hun; ond ni all gyfranu y pleser i'w gymydog, oblegid mae y pleser yn cynnwys perthynas yr ammodau â theimladau y cymydog. Fe all ei gymydog droi arno a dyweyd, "Nid yw y gwin hwn, neu y llyfr hwn, yn rhoddi i mi ddim pleser;" ac nid oes lle i ddadl. Mae pob person unigol yn "fesur pob peth," ac y mae yn fesur pob peth am ei fod yn fôd teimladol. O ganlyniad ni all Hedoniaeth fforddio dim deddf gyffredinol. Mae gan yr "oferddyn adfeiliedig" bob hawl, ar yr olwg yma, i ddewis poen ac anfoddlonrwydd dyfodol hunan-foddhâd a hunan-ddarostyngiad o flaen poen ymattaliad presennol. Gellid gresynu wrtho yn ei siomedigaeth, ond nid ydyw, yn ol y ddamcaniaeth, wedi gweithredu yn anfoesol, oblegid fe geisiodd ei bleser ac fe ymdrechodd sylweddoli ei gynllun o foesoldeb.

Yn yr ail le, ni all Hedoniaeth fforddio gallu awdurdodol; nid oes dim

"rhaid" na "dylai" yn ei chyfundrefn. Mae hyn yn canlyn yn uniongyrchol o'r ffaith nad oes i Hedoniaeth ddeddf gyffredinol. Yr unig allu sydd yn ymddangos ydyw, y dylai y person unigol geisio ei bleser ei hun. Ond nid ydyw y "dylai" hwn y tu allan iddo, a hyny oblegid mai ystad teimladau y person unigol ei hunan ydyw y safon, ac y mae "ystad teimladau" yn gwbl o fewn. Mae y gallu awdurdodol yn codi o'r hunan neillduol, ac fe allai yr hunan neillduol unrhyw foment droi ar y "dylai," a dyweyd, "Ni ddylwn i." Ond os nad oes awdurdod yn rhwymedig ar y person unigol, yna nid ydyw moeseg ond mater o ddewisiad yn unig; ac nid oes un gweithrediad rhydd *nad* yw yn fater o ddewisiad. Mae y meddwyn yn dewis bod yn feddw yn hytrach nag yn sobr, mae yr hunan-leiddiad yn dewis ymdagu yn hytrach na bywyd, ac y mae Hedoniaeth yn troi atynt, ac yn dywedyd, "Yr ydych eich dau yn iawn, canys yr ydych yn dewis."

Yn y trydydd lle, ni all Hedoniaeth, a siarad yn fanwl, fforddio safon moeseg, neu *ideal.* Mae yn lefelu pob gweithrediadau, fel yr awgrymwyd. Ac, ymhellach, yr hyn a ymgeisir ato ydyw ystad o deimladau, ac nid hunan. Mae yr un hunan yn cael ei daflu ymlaen i ystad wahanol a dyfodol; ac ni all yr ystad hono dreiddio i'r hunan heb fyned allan o gylch teimlad i'r un o hunan-ymwybodolrwydd. Ni all teimlad, mewn geiriau eraill, gyrhaedd unrhyw sefydlogrwydd; ac fe allai mai y gwrthbrawf goreu i Hedoniaeth ydyw y ffaith y rhaid i ni mewn trefn i gyrhaedd y teimlad yma yr ymestynir ato, ei anghofio, fel yr addefa Mr. Mill. Ond os ydyw hyn yn wir, os rhaid i'r cynllun beidio bod yn gynllun ymwybodol i ni, ni all fod yn gynllun o gwbl. Mewn trefn i fyw bywyd o bleser, gwell i ddyn ei gyfyngu ei hun i'r foment ac anghofio y dyfodol. Rhaid i bleser beidio bod yn gynllun, oblegid na allwn ei gyrhaedd wrth ei geisio; ac ni oddef Hedoniaeth unrhyw gynllun arall. Mae gwirionedd yr hyn a ddadleuwn yn cael ei brofi gan geisiadau "pleserddyn" drachefn a thrachefn i gyrhaedd ei safon neu ei amcan yn yr hyn sydd wedi ei siomi. Wedi boddhâd y dymuniad gau sydd yn dyfod o daflu ymlaen annherfynolrwydd meddwl i wrthddrych terfynol a neillduol, fe ddaw ymwybodolrwydd o fethiant. Yr oedd y cynllun yn un gau; mae y dyn lle yr ydoedd o'r blaen. Nid ydyw wedi gwneuthur y cynnydd ag y mae safon yn olygu. O ganlyniad fe ddaw mynychiad undonol o'r un weithred, ac fe ddaw y dyn yn gaethwas i un nwyd. Nid yw bywyd o bleser ond yn unig myned dros yr un peth drachefn a thrachefn; ac mae y safon yn "annherfynol ddrwg" a gyrhaeddir ac a gollir ymhob gweithred plesergeisiol. Y cynllun ydyw yr un hunan, ac y mae, gan hyny, o angenrheidrwydd yn cael ei gyrhaeddyd; ond mae yn ystad wahanol o hunan, ac am hyny y mae yn myned heibio yn y weithred o'i gyrhaeddyd. O ganlyniad, os na ffordddia Hedoniaeth gynllun, rhaid i'r dyn ei gyfyngu ei hun i'r presennol, a dyma y mae ymarferiad yn ddysgu yn gystal â damcaniaeth. Ond fe fyddai bywyd ar yr ammodau hyn wedi ei ddadwahanu i fodolaeth deimladol, lle y mae pobpeth yn dda can belled ag nad oes na gorphenol na dyfodol. Da y gallai dyn ddywedyd wrth yr Hedonydd,—

Still thou art blest compared wi' me,
The present only toucheth thee,

But, Oh! I backward cast my ee
On prospects drear,
And forward though I canna see,
I guess and fear.

Mae Hedoniaeth yn gais i gael o hyd i gymhellion y person unigol oddifewn i hunan neillduol y person unigol ei hun. Mae ei offerynau oddiallan, canys fe geisir pleser mewn perthynas â gwrthddrychau, ond y mae safon ei foeseg, os parhäwn i'w alw felly, yn dumewnol. Nid ydyw Hedoniaeth yn ymgais am ddim hunan uwch a mwy, ond am ystad newydd o'r hunan presennol; tra y mae ymdrech arbenig gweithrediad moesol yn dyfod o'r ffaith fod moesoldeb yn gylch o gymhariaeth, ac fod y person unigol, gan ddal ei hunan presennol yn wyneb yr hunan a ddymunai fod, yn ceisio bod yn un arall. Mae pob ymdrech o eiddo bywyd moesol yn ymdrech am adenedigaeth. Mae y cynllun y mae y dyn da yn geisio gyrhaeddyd yn un y mynai suddo ac anghofio ei hunan presennol ynddo; ac, mewn cymhariaeth i hyny, mae yr "ystad o deimladau" yn ddibwys.

Os, gan hyny, na all y person unigol gael y daioni ynddo ei hun, ymha le y mae i'w geisio? Mae yr haeriad ei hunan am hawl mewnolrwydd wedi rhoddi bôd i'r angen am ddianc rhagddo. Mae rhyddid oddiwrth attaliad dyledswydd wedi profi yn hunan-ddinystriol. Mae yr hwn a'i hysgaro ei hun oddiwrth ei gylchyniadau, ac a fo byw yn gwbl ynddo ac erddo ei hun, yn gwrthddywedyd ei ryddid. Fel mater o ffaith ni all dyn yn hollol wneyd felly. Ni adnabuom erioed fôd deallawl oedd wedi byw yn gwbl ar wahan oddiwrth gymdeithas; oblegid y mae dyn hollol ddrwg mewn ystyr foesol yn anmhosibilrwydd. Ni allwn fwy synied am ddyn "nad ydyw wedi sugno wrth fron y moes cyffredinol," nad ydyw wedi byw mewn cylchyniad ysbrydol a throi (neu wyrdroi) y cylchyniad hwnw i'w natur ei hun, nag y gallwn synied am dderwen wedi tyfu lle nad oes na daear na dwfr nac awyr, heb oleuni a heb dywyllwch. Yn ei gylchyniad y mae yn cael defnydd crai ei gymeriad; ac yno hefyd y rhaid iddo gael safon ei weithrediad.

Ond beth yw y safon hwnw? Lle y gall gael *da* sydd gyffredinol ac awdurdodol, ac yn ei godi uwchlaw caethiwed mewnolrwydd mympwyol? A ydym i gael deddf ymarweddiad mewn ewyllys gyffredinol sydd yn wrthwynebol i ewyllysiau pob personau unigol fel y cyfryw.

Yn y lle cyntaf, y mae i'w nodi nas gall y da, yn ol tyb Mr. Spencer, gael ei ddadblygu allan o ymdrechion personau unigol yn erbyn eu cylchyniad naturiol. Yr unig gymhelliad a all ddyfod i'r chwareu yn y fath ymdrech ydyw yr un am gadwraeth hunan fel bodolaeth neillduol. Yn unig yn mhresennoldeb bôd hunan-ymwybodol arall a gydnabyddir fel y cyfryw, ac nad ydyw wedi ei ddarostwng i *beth*, y mae y person unigol yn ei gael yn angenrheidiol i reoleiddio ei ymarweddiad yn ol deddf amgen na'i fympwy ei hun. Yn nghyd-darawiad ewyllysiau, fel y dysga Rousseau, y mae drwg yn codi; ac, gallwn ychwanegu, yno hefyd y mae da. Cyd-darawiad ewyllysiau sydd yn dangos yr angen am a bodolaeth ewyllys Gyffredinol—ewyllys Gyffredinol sydd yn sefyll yr un modd uwchlaw pob personau unigol, ac sydd, can belled a hyny, yn ddiangfa i bawb oddiwrth fympwyon mewnolrwydd. Ond

mae yn rhaid i'r ewyllys Dda fod yn gyffredinol mewn ystyr arall hefyd. Rhaid iddi fod yn gynllun parhâus, a ellir sylweddoli gan bawb heb wrthddywediad.

Ac nid oes gan y personau unigol y dewis o ufuddhâu neu beidio ufuddhâu iddi. Mae yr ewyllys Dda yn ei wynebu gydag awdurdod; y mae wedi ei harfogi â "dylai," oddiwrth ba un nid oes appêl. Oblegid os caniateir iddo ddewis, y mae moesoldeb eto wedi ei darostwng i fympwy, ac mae y dyn yn llithro i'r mewnolrwydd oddiwrth ba un y ceisia fod yn rhydd.

Yn olaf, mae yr ewyllys Dda i'w sylweddoli er ei mwyn ei hun. Y mae ufudd-dod iddi o ddymuniad i gyrhaedd daioni pellach, megys pleser ymarweddiad rhinweddol, yn ufudd-dod i bleser, ac nid i'r ewyllys: nid yw yr ewyllys Gyffredinol ond moddion a *ddygwydda* fod yn angenrheidiol. Ond rhaid ufuddhâu i'r ddeddf er ei mwyn ei hun, nid oddiar olwg ar ddaioni pellach, nid oddiar gynhyrfiad neillduol, arferiad, neu deimlad. Rhaid i'r ewyllys Dda ei hunan lanw y meddwl, a rheol gweithrediad fydd ufuddhâu i'r ddeddf er mwyn y ddeddf. Felly mae yn ymddangos fod diangfa rhag mewnolrwydd i'w gael mewn ewyllys Gyffredinol, Allanol, Awdurdodol. Ond a ydyw yn ddiangfa?

Rhaid i'n beirniadaeth ar y ddeddf hon fod yn ferach hyd yn nod na'n heglurhâd. Mae y ddeddf gyffredinol yma yn ffurfiol yn yr ystyr nad oes iddi gynnwys, ac na all awgrymu yr un, ac eto ei bod yn ddifater am unrhyw gynnwys. Ni ellir cael dim allan o honi, ac fe ellir gosod pobpeth dani. Hawlia fod dyn yn gweithredu oddiar olwg ar ddyledswydd; ond ei ddyledswydd yw dyledswydd yn gyffredinol, a rhaid i ddyn weithredu mewn ffordd *neillduol* a chyflawni dyledswyddau penodol neillduol.

Y mae yn allanol; ond mae yn allanol yn unig, am nad yw yn ddumewnol. Y mae yn dragywyddol *nid-hunan*, ac fel *nid-hunan* pur nid ydyw yn ddim i'r person unigol. Y mae mor uniongyrchol yn awgrymu anobaith fel y mae yn llethu ymdrech. Y mae mor gyffredinol na ellir ei sylweddoli nac mewn gweithred neillduol na chan fôd neillduol. Y mae yn gyffredinol ac allanol, ond y mae hefyd yn estronol. Y mae yn alwad deddf estronol, ac yn codi oddiar awdurdod estronol. Ond y mae y gwir gynllun moesol yn hunan yn gystal ag yn nid-hunan. Hunan dyfodol y person unigol ydyw yr hyn y synia ei fod yn alluog i'w weithio i'w gymeriad ei hun, a'r hyn y dymuna *fod*. Wrth ei gyrhaeddyd y mae yn cyrhaeddyd ei wir hunan; ar wahau oddiwrth y cyrhaeddiad fe *ddylai fod*, ond nid ydyw. A dyma ffynnonell gallu sydd yn meddu awdurdod, y *categorical imperative*. Y da ydyw fy ngwir hunan; ac y mae yn awdurdodol am y rhaid i mi fod yn *wirioneddol*. Y mae yn angenrheidrwydd moesol, dyfnach na'r angenrheidrwydd anianyddol sydd yn fy ngorfodi i gynnal fy modolaeth. Yn olaf, nid *yw* y cyffredinol mewn bodolaeth hyd oni chyrhaeddir ef yn mywyd y person unigol. Yn flaenorol i hyny nid ydyw ond "dylai," syniad noeth, darlun wedi ei fwrw gan berson unigol o fwriad da ar lian y dyfodol. Ac oddieithr i'r "dylai" *fod*, nid oes iddo unrhyw allu na hawl ar y person unigol. Rhaid i'r cynllun moesol nid yn unig fod ei hun yn wirioneddol, ond rhaid iddo fod yr hyn a wna y person unigol yn wirioneddol.

Fel hyn y mae y gallu awdurdodol yn cywiro camgymeriadau mewnolrwydd, ond syrthia ei hunan i'r camgymeriadau gwrthgyferbyniol. Mae y naill gynllun yn *fodolaeth* yn unig, a'r llall yn *ddylai* yn unig; mae y naill yn dufewnol yn unig, y llall yn allanol yn unig; mae y naill yn ddim ond neillduol, y llall yn gyffredinol noeth. Mae y naill a'r llall yn arddansoddol, mae y naill a'r llall yn sefyll mewn angen am eu gilydd. Rhaid i'r cynllun perffaith i'r person unigol, fod hefyd y gwirioneddol; rhaid i'r nid-hunan allanol fod hefyd yn hunan y person unigol, i'w sylweddoli er nad wedi ei sylweddoli; rhaid i'r cyffredinol fod hefyd yn neillduol, a byw yn ei ranau ei hunan. Mewn gair, rhaid i'r da fod yn organiaeth yn bodoli yn wirioneddol yn y byd, ac eto yn gynllun i bob person unigol.

Mae y fath gynllun i'w gael yn yr organiaeth gymdeithasol, neu yn hytrach yn yr organiaeth foesol sydd wedi ei chorffori yn ngwahanol ffurfiau cymdeithas. Yn hon y mae holl hawliau yr hyn a allwn alw yn fewnolrwydd ac yn wrthddrycholrwydd, yn cael eu cyfarfod. Nid ydyw ar y naill law yn ddim ond "dylai," ond mae yn bodoli yn wirioneddol yn y byd. Iddi hi y mae y teulu, y cymundebau cymdeithasol, a'r Wladwriaeth, yn ddyledus am eu nerth a'u sefydlogrwydd. Y *maent*, am fod eu deddfau yn bodoli; ac y mae eu deddfau yn ffeithiau moesol. Mae y teulu sydd yn ymadael oddiwrth ddeddf foesol cariad, y cymundeb masnachol sydd yn troseddu ei deddf o uniondeb sefydlog, a'r Wladwriaeth nad ydyw mwyach yn ceisio hyrwyddo hawliau amrywiol rhyddid y rhai sydd yn ei gwneyd i fyny, eisoes yn honcian i'w dinystr. Y maent yn peidio a bod, pan nad ydynt mwyach yr hyn a "ddylai" fod. Ond, ar y llaw arall, nid yw y cynllun perffaith yn ddim ond *bod*, fel mewnolrwydd. Y mae yn ddeddf, yn gynllun, yn *ddylai* i'r person unigol. Tasg ei fywyd ydyw cyfarfod hawliau ei sefyllfa a chyflawni dyledswyddau na ddewisodd, ond y caiff eu bod wedi eu harosod arno gan ei gylchyniad cymdeithasol.

Ymhellach, nid ydyw yr organiaeth gymdeithasol yn ddeddf gyffredinol ffurfiol a gwâg, ond y mae yn cael ei wahaniaethu i ddeddfau a sefydliadau, y rhai sydd yn cyfarwyddo ymarweddiad y person unigol yn manylion bywyd cyffredin. Ac nid ydyw y cynllun yma yn anmherthynasol ac estronol i'r person unigol. Y mae efe ei hunan yn rhoddi llais i ac yn deongli ei gylchyniad cymdeithasol, ac yn yr ystyr yna y mae yn *creu* ei gynllun. Y mae yn cydnabod y tasgau a genfydd yn y cylch i ba un y mae wedi ei ddwyn i fyny fel ei ddyledswyddau, ac o ganlyniad fel deddf ei weithrediad a'r safon y ceisia ei gyrhaeddyd. A thrwy hyny y mae yn rhoddi grym i'r awdurdod gymdeithasol sydd arno. Y mae yn ei adnabod ei hun fel yn foesol pan genfydd fod iddo ddyledswyddau, ac y mae yn adnabod ei ddyledswyddau, ac y mae ganddo ddyledswyddau, yn unig pan ŵyr ei fod yn rhydd; ac y mae yn rhydd am fod awdurdod gymdeithasol.

Fel hyn y mae y tufewnol a'r gwrthddrychol, yr hunan a'r nidhunan, y neillduol a'r cyffredinol, y person unigol a chymdeithas, yn hydreiddio eu gilydd ac yn dyfod yn gyfan organaidd. Mae cymdeithas yn hanfodi yn unig yn y person unigol, ac mae y person unigol yn hanfodi yn unig mewn cymdeithas. Ar wahan oddiwrth gymdeithas ni all y person unigol sylweddoli ei ryddid; ni allai ei hunan

neillduol wrtho ei hun na'r ewyllys Gyffredinol fforddio iddo gymaint ag un cymhelliad. Mae y person unigol yn rhydd yn unig am ei fod yn cael ei ddyledswyddau mewn cymdeithas, a'i ddyledswyddau ydyw ei fywyd moesol. Ac, ar y llaw arall, rhyddid y rhai sydd yn gwneyd i fyny gymdeithas sydd yn rhoddi i'r gymdeithas fodolaeth wirioneddol â pharhâus. Am fod gan y Wladwriaeth sylweddoliad uwch o ryddid, y mae iddi barhâd mwy na'r teulu. Y mae unoliaeth y teulu, y synir am dano yn ystâd guddiedig teimlad, sef cariad, yn myned yn ddrylliau pan y gwrthdery yn erbyn tyfiant y rhai sydd yn ei wneyd i fyny, i addfedrwydd ac annibyniaeth, ac y mae bob amser mewn perygl oddiwrth ei eiddo; ond am unoliaeth y Wladwriaeth, sydd yn hunanymwybodol, lle y mae pob person unigol yn feistr iddo ei hun ac yn cario ei gyfrifoldeb o'i fewn, mae yr unoliaeth hwn, fel hunanymwybodolrwydd ei hun, yn unoliaeth sydd wedi gorchfygu ei wahaniaethau, ac ni ellir ei dori ganddynt. Rhyddid y rhai sydd yn ei wneyd i fyny ydyw nerth yr attyniad sydd yn rhwymo ei haelodau ynghyd. Y mae Gwladwriaeth o gaethweision, er enghraifft, yn anmhosibl. Nid oes gan gaethwas unrhyw hawliau, ac am hyny nid oes ganddo ddyledswyddau. Yn ngolwg ei feistr y mae yn *beth*, ac nid ydyw peth yn cael ymgynghori âg ef a'i berswadio, ond ei *orfodi*. Mae yr hawliau a wneir ar gaethwas y fath fel yr ymrysona yn eu herbyn, ac os yw yn bosibl fe ymwrthyd â hwynt. Ac ni fyddai Gwladwriaeth o gaethweision yn ddim ond cylch ymha un y byddai nerth yn attal nerth. Ond ni fu y fath Wladwriaeth erioed; oblegid ni all un Wladwriaeth fod yn estronol i'r personau unigol sydd yn ei gwneyd i fyny. Cyfansoddiad sydd naill ai yn rhy dda neu yn rhy ddrwg i bobl, ni ellir ei dal wrth ei gilydd. Rhaid i bobl deimlo eu *hunain* yn y cyfansoddiad, ei gael fel eu deddf *hwy* o fywyd cymdeithasol; hyny yw, rhaid i'w angenrheidrwydd, ei ddeddf o ymarweddiad, beidio bod yn angenrheidrwydd estronol, ond yn anghenrheidrwydd y mae y bobl wedi ei gymeryd arnynt eu hunain, a'r hwn gan hyny sydd yn gwneyd i fyny eu rhyddid. Mae y person unigol y pryd hyny yn cael ei ryddid mewn cymdeithas, ac y mae cymdeithas yn bosibl yn unig am fod ei haelodau yn rhydd.

Am y rhesymau hyn y mae cymdeithas yn organiaeth. Nid am ei bod yn debyg i anifail, ac fod y personau unigol sydd yn ei gwneyd i fyny fel cymmalau ac aelodau; ond am fod y person unigol yn ei sylweddoli ei hun fel bôd moesol mewn cymdeithas, a chymdeithas yn ei sylweddoli ei hun yn y person unigol. Mae y person unigol yn rhydd am ei fod yn aelod o gymdeithas, ac y mae cymdeithas yn cyrhaedd ei hamcanion yn rhyddid y personau unigol. Rhyddid ydyw y *bywyd* sydd yn ffurfio unoliaeth yr organiaeth foesol. Mae y Wladwriaeth, er engraifft, yn cynnysgaeddu ei phersonau unigol â rhyddid, a thrwy hyny yn creu hawl foesol i'w gwasanaeth. Noda allan *ddyledswyddau* trwy ei deddfau, ac mae gan y dyledswyddau nerth moesol am fod y deddfau yn cael eu cydnabod gan y personau unigol fel eu deddfau *hwy*, eu *cynllun* hwy o ymarweddiad, eu cynllun hwy am danynt eu hunain, ac nid angenrheidrwydd o'r tu allan. Mae rhyddid, yr unoliaeth, y bywyd, yn ei wahaniaethu ei hunan; llifa allan i'r person unigol yn y ffurf o hawliau, a dychwel iddo ei hun trwy ei aelodau yn y ffurf o wasanaeth a dyledswyddau.

Mae yr organiaeth gymdeithasol felly yn gyfan cydgysylltiol, byw, hunan-gyfanol, hunan-wahaniaethol, ar wahan oddiwrth ba un ni all na'r cyffredinol—y gymdeithas arddansoddiaethol, na'r neillduol—y person unigol arddansoddiaethol, ddim bod. Wedi eu hysgaru y naill oddiwrth y llall nid ydynt ond enwau; ysgarer eu cysylltiadau ac y maent yn peidio a bod. Y maent yn bodoli yn a thrwy eu gilydd, ac yn cael eu cyfansoddi trwy eu cysylltiadau.

Os ydyw hyn yn wir, yna ni allwn mwyach siarad am amcanion na lles personau neillduol, ar wahân oddiwrth amcanion a lles cymdeithas, mwy nag y gallwn siarad am amcanion cymdeithas nad ydynt hefyd yn amcanion personau neillduol. Mae lles y person unigol yn nghyflawniad ei ddyledswydd (beth bynag a fyddo), ac nid yw ei ddyledswydd yn ddim amgen na hawl ei gylchyniad, lles ei gylch. O'r olwg yma ar bethau y mae yn dyfod yn ddiangenrhaid dwyn oddiamgylch "gytundeb" neu "gymmod" rhwng myfiaeth ac arallaeth—ymdrech olaf Hedoniaeth anghyson i ëangu ei dysgeidiaeth gul fel âg i gyfateb i ffeithiau bywyd moesol.* Yr ydym eisoes wedi ceisio dangos fod myfiaeth—mewnolrwydd pur—yn amcan anmhosibl a hunan-ddinystriol. Y mae yn aros i ddangos fod arallaeth mor unochrog a myfiaeth; ac fod y dyn yr hwn, pe gallai fyw er mwyn eraill yn unig, mor anfoesol â'r hwn, pe gallai, a fyddai fyw yn unig iddo ei hun ac ynddo ei hun. Arallaeth yn wir ydyw yr arddansoddiaeth gwrthwynebol i fyfiaeth. Ei arall rhesymegol ydyw, fel y mae "brwdfrydedd dynoliaeth" gan y Comtist, sydd yn tueddu i ddiffodd y person unigol er mwyn y lles cyffredinol,† yn wrthwyneb rhesymegol dysgeidiaeth Rousseau, a ddinystriai y lles cyffredinol er mwyn y person unigol. Mae yr olaf yn esgeuluso y ffaith fod bywyd y person unigol yn gyffredinol, y cyntaf fod y cyffredinol yn neillduol, ac mai amcanion dynoliaeth ydyw eiddo y personau unigol sydd yn ei gwneyd i fyny. Ni olchai Rousseau draed ei gymydog. Fe olchai Comte "nid ei draed yn unig, ond ei ddwylaw a'i ben," a boddai ei hun yn ychwanegol. Arallaeth yn wrthgyferbyniol i fyfiaeth ydyw sylweddoliad amcanion un arall yn wrthgyferbyniol i sylweddoliad amcanion dyn ei hunan. Ond y mae moesoldeb o'r dechreu i'r diwedd yn *hunan*-sylweddoliad. Mae yr hwn sydd wedi gwneyd lles yr hiliogaeth yn amcan iddo, wedi gwneyd felly, nid oddiar ddewisiad caredig, ond am ei fod yn golygu ceisio y lles hwnw fel dyledswydd awdurdodol. Lles yr hiliogaeth ydyw safon ei fywyd moesol ef ei hun; dyna raid iddo sylweddoli i fod yr hyn y *dylai* fod. Lles yr hiliogaeth ydyw ei les ef ei hun, yr hwn y rhaid iddo ei geisio am y rhaid iddo fod *ei hunan*. Yr oedd Cromwell, Luther, Mahomet, yn wroniaid, nid am eu bod wedi gwneyd rhywbeth dros ben yr hyn a *ddylasent* wneyd, ond am fod eu *cynllun am danynt eu hunain* yn gyfled â hunan mwy y byd. "*Nis gallaf yn amgen*," ydoedd llais pob un. Yr oedd angenrhaid wedi ei osod arnynt hwy fel ar Paul i "bregethu eu hefengyl." Fe'u gorfodid gan eu syniad o ddyledswydd i ymgodi uwchlaw yr ymgais am les personol neu deuluaidd yn unig—i fyned tu hwnt i ymdrechion moesol dynion cyffredin. Yr oedd eu hamcanion mawrion, yr hyn oedd yn ddyledus oddiar eu llaw iddynt eu hunain yn gymaint ag

* Spencer's *Data of Ethics*, chaps. 13, 14. † Comte's *Doctrine of Immortality*.

ydoedd i'w byd. Yr oeddynt yn offerynau yn llaw gallu Dwyfol; oblegid yr oedd y da sydd yn y byd yn galw arnynt gydag awdurdod gref dyledswydd. Yr oedd y ddyledswydd awdurdodol hon wedi dyfod mor wirioneddol yn eiddo iddynt *hwy*, fel yr oeddynt ei hymwybodol a'i hewyllysgar offerynau. Eu *brwdfrydedd* ydoedd, yr ydoedd wedi treiddio i'w holl fodolaeth, yr *ydoedd* eu holl fodolaeth, oblegid yr ydoedd wedi eu llyncu. Yr ydoedd yr ymryson rhwng yr hunan neillduol a chyffredinol wedi terfynu yn muddugoliaeth yr olaf, nid trwy lethu y cyntaf ond trwy dreiddio iddo, a dyrchafu hyd yn nod deimlad i allu a weithiai er y da ag ydoedd wedi dyfod yn gynllun iddynt.

Fel hyn nid yw yr arallaeth helaethaf wedi y cwbl ond ymdrech ddifrifol am fywyd moesol dyn ei hunan. Nid yw arallaeth a myfïaeth ond damcaniaethau arddansoddol na allant gyrhaedd ystyr ond pan gymerir hwy i fyny i organiaeth ymha un y mae arallaeth yn hanfodi trwy fyfïaeth, a myfïaeth trwy arallaeth. Nid ydynt yn cael eu "cytuno" na'u "cymmodi," ond eu colli yn yr hyn sydd yn cymeryd y naill a'r llall iddo ei hun. Y mae cynnydd dynoliaeth nid o fyfïaeth i arallaeth, ond o fyfïaeth sydd o'r dechreu yn arallol, i arallaeth a raid byth aros yn fyfïol. Y mae tyfiant cymeriad yn ddwfn yn gystal âg yn ëang, ac yn ddwfn am ei fod yn ëang. Os oes genyf fuddiannau helaethach, y mae genyf hunan helaethach a dyfnach. Mae y bywyd sydd yn ceisio lles cymdeithas yn gystal âg eiddo y teulu, lles y Wladwriaeth yn gystal âg eiddo cymdeithas, a lles dynoliaeth yn gystal âg eiddo y Wladwriaeth, yn fywyd sydd wedi dwyn eu buddiannau hwy o'i fewn ef ei hunan, ac na all ei sylweddoli ei hun oddieithr ynddynt hwy. Nid yw moesoldeb yn farchog-grwydraeth caredig raid chwilio am gamwri i'w unioni. Y mae yn wastad yn cael y camwri ynddo ei hun; ei orchwyl difrifol a phwysig ydyw cyflawni y dyledswyddau sydd yn eiddo iddo ac ufuddhau ei awdurdod ei hun. Nid llifiad o orhelaethrwydd calon garedig yn unig, ydyw moesoldeb. "Y mae yn angenrheidrwydd na ddewiswyd ond a ddewisa." Nid ydyw yn garedigrwydd dilywodraeth, yr hwn sydd wendid yn hytrach na nerth, yr hwn sydd yn dinystrio ei weithredydd ac yn gwneyd ei wrthddrych yn gardotyn; ond y mae yn awdurdod gyffredinol, ddiysgog, gref, a thragywyddol.

Y mae eto un pwynt y goddef ein terfynau i ni gyffwrdd âg ef. Mae yr anhawsder mawr i gydnabod cymeriad organaidd cymdeithas, yn ol Mr. Spencer, yn dyfod o'r ffaith nad oes iddi ymwybodolrwydd personol. Mae ei bywyd, yr hwn, os ydyw yn organiaeth, a ddylai fod yn *un* yn yr ystyr ddyfnaf, yn ymddangos fel pe wedi ei dori i fyny ymysg y personau unigol sydd yn ei gwneyd i fyny. "Y mae ymwybodolrwydd wedi ei daenu trwy y cydgrynöad. . . . Nid oes deimlfa gymdeithasol."* "Y mae rhanau cymdeithas yn ffurfio cyfan sydd yn wahanedigol . . . mae yr undodau sydd yn ei gwneyd i fyny yn rhyddion, nid mewn cyffyrddiad, ac wedi eu chwalu yn fwy neu lai ar led."† Yr ydym yn meddwl fod ymgais Mr. Spencer i ad-greu yr unoliaeth cymdeithasol trwy offerynoliaeth "iaith deimladol, a thrwy

* Spencer's *Sociology*, i. p. 479. † Eto, i., p. 475.

iaith y dealltwriaeth, ar lafar ac ysgrifen," yn annigonol ac arwynebol, er na allwn yma ei drafod yn gyflawn. Oblegid beth yw cymundeb iaith ar wahân oddiwrth gymundeb dyfnach meddwl, yr hwn a ddadgana? A oes y fath allu mewn geiriau, ac a ddaw y frawdoliaeth gyffredinol trwy fabwysiadu un iaith? Y mae hyd yn nod "teimlad gwladgarol" yn fynych yn gorthrechu iaith gyffredinol, ac nid ydyw teimlad gwladgarol wedi ei ddeffro i gynhyrfiad cenedlaethol, y fath ag a dorodd nerth Napoleon yn Spaen, yn ddigonol rwymyn cymdeithas. Nid ydyw iaith yn rhwymyn ond lle y mae eisoes rwymyn dyfnach o fuddiannau cyffredin, ac mae y buddiannau hyn yn y pen draw yn foesol, os ydynt yn barhâus. Mae iaith yn fynych yn un o'r profion o unoliaeth bywyd moesol, ond nid yr unoliaeth ei hun ydyw.

Pa le, ynte, y mae yr unoliaeth, hunan-ymwybodolrwydd personol yr organiaeth foesol? Yr ateb mwyaf uniongyrchol ydyw dyweyd nad oes y fath beth yn bod a hunan-ymwybodolrwydd personol. Ei geisio ydyw llithro yn ol i'r golygiad hwnw sydd yn ystyried y person unigol fel yn bodoli ar wahân oddiwrth y cyffredinol, a'r cyffredinol ar wahân oddiwrth y person unigol. Trwy hyn esgeulusir y ffaith fod y person unigol yn ymwybodol o hono ei hun yn unig am ei fod wedi ei wahaniaethu ei hun oddiwrth ei gylchyniad. Ond mae y gwahaniaethad hwn yn anmhosibl oddieithr can belled âg y mae yn adnabod y ddau mewn rhyw radd. Mae dosraniad yr hunan a'r *nid*-hunan yn un o'r ffeithiau yr wyf yn sicr o honynt; mae y gwahaniaethad yn un o fy syniadau *i*, ac y mae o fy mewn. Mae ymwybodolrwydd yn cyrhaedd dan y naill a'r llall; mae y person unigol yn ymdaflu dros ei arall; y nid-hunan ydyw ei nid-hunan *ef*.

Mae yn wir na allwn gael o hyd i deimlfa, neu *pineal gland* cymdeithasol, a dywedyd am ei hunan-wybodolrwydd, Wele yma! neu Wele acw! Ond eto y mae yr organiaeth gymdeithasol yn hunan-ymwybodol, oblegid y mae yn ymwybodol o honi ei hun ymhob bôd hunan-ymwybodol. Yr un peth yn hollol ydyw fy adnabod fy hun mewn cymdeithas â dywedyd fod cymdeithas yn ei hadnabod ei hun ynof fi. Mewn gwybodaeth mae y cyffredinol a'r neillduol yn dyfod ynghyd. Ond i egluro. Yr ydym wedi gweled fod y person unigol yn cael fod ei ddyledswyddau yn ei wynebu yn y cymundeb cymdeithasol o ba un y mae yn aelod. Mae yn eu cael am eu bod *yno*, yn barod wrth law, yn aros iddo eu cyflawni. Ond ar y llaw arall daethant yn ddyledswyddau yn unig trwy ei ddeongliad ef o honynt. Y maent yn ddyledswyddau yn unig am ei fod ef yn gyntaf yn eu cydnabod, ac yna yn eu mabwysiadu. Neu, a chymeryd esiampl arall, y mae arlunydd yn canfod drychfeddwl mewn darlun am ei fod *yno;* ac fe fydd i'w gymydog, os oes ganddo chwaeth ddiwylliedig, ei ganfod yno hefyd. Mae y drychfeddwl yn y darlun i bob un. Ond, ar y llaw arall, mae y drychfeddwl yn dyfod i fodolaeth weithredol yn unig pan y mae yn cael ei ddeongli. Mae y darlun yn dyfod yn rhywbeth mwy na chymysgfa o liwiau yn unig pan mae y drychfeddwl yn cael ei godi o'r defnydd marw gan allu dealltwriaeth gelfyddydol. Gallwn naill ai dyweyd fod yr arlunydd yn cael ystyr yn y darlun, neu fod y darlun yn ei ddadguddio ei hun i'r arlunydd. Gallwn naill ai dyweyd fod y gwyddonydd yn darganfod meddyliau natur, neu fod meddyliau

natur yn eu dadguddio eu hunain i'r gwyddonydd. Mae y drychfeddwl o drawsfudiad nerthoedd yn eiddo y gwyddonydd, ond y mae yn eiddo ef yn unig am ei fod hefyd yn eiddo natur. Iawn agwedd gwyddoniaeth ydyw ymwrthod âg opiniynau wedi eu ffurfio ymlaen llaw, ymostwng i natur, gosod ei hun ar lwybr a llinellau natur, a dysgwyl am y deongliad a ddyry o honi ei hun. Y mae ymdrech barhâus arbrawf yn ymdrech o eiddo dyn i'w osod ei hun yn y fath agwedd fel y gall glywed natur yn siarad. Arbrawf, mewn gair, ydyw cymeryd ymaith elfenau estronol, y cynnorthwy y mae y gwyddonydd yn roddi i natur, fel y galler gwahaniaethu ei seiniau lliosog, ac fel y delo ei llais yn ddealladwy. Mewn gwyddoniaeth, mewn celfyddyd, mewn moeseg a duwinyddiaeth, rhaid i ddyn ymostwng i orchfygu; ei wneuthur ei hun yn gludai i'r cyffredinol, ac felly ddeall y cyffredinol a'i wneyd yn ddealladwy.

Fel gwirionedd llenyddol, hanner-barddonol, hanner cyfriniol, y mae wedi cael ei hir gydnabod fod dyn mawr yn llais ei oes, yn ddadganiad dealladwy o'i nerthoedd sydd heb hyny yn annealladwy. Ni a brofem hyn fel ffaith *ddiymwad;* fod pob dyn, pa mor isel bynag, yn ei ffordd fach ei hun, yn ddeonglydd yn gystal ag yn gynnyrch ei amser. Ar wahan oddiwrth ddyn nid ydyw y nerthoedd a'r dyledswyddau cymdeithasol mewn gwirionedd yno: efe sydd yn rhoddi iddynt lais a lleferydd; ynddo ef y maent yn cyrhaedd bodolaeth allanol a phenodol. Angenrheidrwydd amser, sydd yn methu cael llais yn mywyd dyn neu bobl sydd yn ei ddeall, sydd nerth dall ac anghenfilaidd, ac nid yn angenrheidrwydd moesol. Fel yn y Chwyldröad Ffrengig, gweithia ar ddamwain, gan gymysgu a llethu ynghyd ddrwg a da. Ond mae yr hwn sydd yn cydnabod yr angenrheidrwydd sydd yn llafurio dan ddamweiniau ei amser, yn ei godi o fodolaeth naturiol i un foesol, yn ei wneyd yn gyntaf yn wrthddrych meddwl, ac yna yn gynllun ymarweddiad. Y mae cymdeithas, mewn gair, yn cael ei hystyr, yn dyfod i hunan-ymwybodolrwydd ynddo ef. Fel hyn mewn rhyw radd y mae cymdeithas yn dyfod i hunan-ymwybodolrwydd ac yn cyrhaedd ei hamcanion yn hunan-ymwybodolrwydd ac amcanion *pob* dyn. Mae yr organiaeth gymdeithasol yn organiaeth organiaethau. Mae bywyd y cyfan yn fywyd pob rhan. Ac nid ydyw wedi ei rwygo rhyngddynt i ddarnau a chlytiau. Mae y rheswm sydd yn y byd yn ei holl gyfoeth a'i fawredd yn etifeddiaeth gyfreithlawn pob un, ac mae yr etifeddiaeth hon yn etifeddiaeth *foesol,* lle nad oes cau allan y naill y llall. Y mae yn deyrnas nefoedd ar y ddaear, lle y mae pawb yn frenhinoedd am fod pawb yn ddeiliaid.

HENRY JONES.*

* Mae yr erthygl uchod yn gyfieithiad o'r un—*The Social Organism*—a gyfranodd ein cydwladwr galluog i gyfrol dra gwerthfawr o draethodau athronyddol, dan yr enw *Essays in Philosophical Criticism*, a gyhoeddwyd y flwyddyn ddiweddaf dan olygiaeth Proffeswr Seth, yn awr o Goleg Caerdydd, a Mr. R. R. Haldane. Yr ydym yn llongyfarch Mr. Jones ar yr enwogrwydd y mae eisoes wedi gyrhaeddyd mewn athroniaeth, ac yn hyderu yr arbedir ef am dymmor maith i wneuthur llawer o'r gwasanaeth gwerthfawr y mae cynifer o'r meddylwyr athronyddol galluocaf yn ddysgwyl mor hyderus oddiar ei law yn y maes pwysig hwn.—Golygydd y TRAETHODYDD.

# LLYTHYRAU DR. TREGELLES AT EBEN FARDD.

CRYBWYLLWYD yn yr erthyglau ar Dr. Tregelles am ei lythyrau at y Bardd o Glynnog. Trwy garedigrwydd Myrddin Fardd, yn meddiant yr hwn yn bresennol y mae y Llythyrau hyny, yr ydym yn awr yn cael yr hyfrydwch o'u gosod ger bron darllenwyr y TRAETHODYDD. Ymddengys i'r ohebiaeth ddechreu ar ran Tregelles, wedi iddo glywed am Eben gan Dr. Pughe, wedi hyny o Aberdyfi; ac mae yn amlwg, wedi iddo ddechreu gohebu âg ef a dyfod i'w adnabod, fod ei barch iddo a'i ymlyniad wrtho wedi dyfod yn fawr a dwfn. Y mae hyny yn dystiolaeth werthfawr yn ychwanegol i ni am deilyngdod cymeriad Eben Fardd. Ac fe welir fod y Llythyrau o werth mawr fel y maent yn ein dysgu i adnabod yn well y gŵr sydd wedi gosod y byd Cristionogol dan y fath ddyled iddo o herwydd ei lafur anmhrisiadwy gyda Thestun y Testament Groeg. Ni allwn lai na mawrhâu dwfn grefyddolder ei ysbryd, ei awydd am ddychwelyd pechaduriaid at Grist, a'i zel dros fod Cristionogion yn dyfod i ymdeimlo yn fwy byw â mawredd eu rhagorfreintiau, ac yn profi yn helaethach y llawenydd sydd yn dyfod trwy gredu. Yr oedd yr ymlyniad wrth y "Brodyr Plymouthaidd," chwedl yntau, a'r gred yn yr Ail Ddyfodiad, ynddo ef yn sicr yn gysylltiedig â chatholigrwydd ysbryd a duwiolfrydedd a barai iddo ddyheu am gymundeb y saint, a dwfn hiraethu am lwyddiant teyrnas Crist ymhob man. Mae yn ddyddorol iawn i ni hefyd weled ei fod yn hanu o'n cenedl, ei fod wedi bod yn aros yn Nghymru, ac yn teimlo llawer o ddyddordeb yn ei llenyddiaeth, &c. Teimlai yn awyddus am i'w ohebydd ysgrifenu ato yn Gymraeg, ac y mae ei ymgeisiau ef ei hunan at ysgrifenu Cymraeg yn y Llythyrau yn peri i ni foddhâd nid bychan. Yr ydym yn eu hargraffu air am air a llythyren am lythyren fel y daethant o dan ei law ef ei hunan. Dangosant y tramgwyddiadau yn yr hen iaith ag yr oedd y gŵr dysgedig, o ddiffyg cydnabyddiaeth helaethach a mynychach ymarferiad â hi, yn methu ymgadw rhag cael ei faglu ganddynt. Gallai fod yn ymarferiad da i'n darllenwyr ieuainc i ystyried pa fodd y buasent yn cywiro camgymeriadau Dr. Tregelles, ac yn ei hyfforddi pa fodd i ysgrifenu Cymraeg clasurol a hylithr! Ac yn y fargen, gallent gael gradd o galondid yn eu hymdrechion eu hunain i feistroli ieithoedd amgen na'r eiddynt eu hunain. Mae cyrhaedd meistrolaeth arnynt yn orchwyl llafurfawr.

> Hawdd yw d'wedyd, Dacw 'r Wyddfa
> Nid eir drosti ond yn ara'.

Ond at y Llythyrau.

Neath Abbey, Glamorgan,
July 30, 1844.

Dear Sir,

I have long had it in my heart to write to you, having often heard of you from our friend Mr. John Pughe, as being one of his Christian friends at Clynnog, and also having to thank you for the kindness on your part of translating the little tract of mine "The Blood of the Lamb and the Union of Saints."

I have now been for the last fortnight in Wales, going about from place to place, preaching the Gospel wherever I can find hearers, whether in English or in such imperfect Welsh as I can manage; but it is not difficult to use enough Welsh to show to persons the simple testimony of God as to what sin is, what the wrath of God as declared in His word against it is, and what the love is in which salvation has been provided for sinners, fully and freely thro' the blood of the Lord Jesus Christ to every one who believes; these are simple truths, and the Holy Ghost may bless to the souls of sinners the feeblest testimony borne to them.

In going from place to place I have found much to grieve me as to the actual condition of Christians almost every where; it seems as if those who profess to belong to Christ had forgotten even the simplest privileges which belong to them as those who have believed in Jesus; we are as believers called on "to draw near with a true heart, in full assurance of faith;" but instead of this we find many thinking and *teaching* too that it is humility to be in doubt, and therefore they stand as it were afar off;—now what is this but *pride?* If God tells us that we are put in a place of great blessing, it is our business simply to believe Him, and not say that it would be humility to doubt whether He can really have done so much for us; the measure of our blessing is not any worthiness of our own, but that of the blessed Son of God in whose righteousness we stand and to whom we are by grace united.

This standing as it were far from God in conscience produces two evils, the one is entire want of real practical scriptural separation from the world, for how can there be this unless the real cleansing power of Christ's blood be known by the conscience? The other is a total misapprehension of what Christian fellowship means; and how can it be otherwise? Unless a soul first knows itself linked to God by an inseparable bond, what power of spiritual union can there exist between it and the rest of God's children because they are such?

Of course I do not mean to say that there are not many really resting on Christ and safe in Him, who do not know that they are such, for surely there are numbers in that state,—the point really is, is this a good and a right state of things? ought we to distrust God when He says, Be confident? ought Christians to be taught to be in doubt, and not rather to be shown how the blood of Christ purges the conscience to serve the living God? It is a sorrowful sight to see believers walking in a low condition instead of in all their ways showing that they know and believe the love which God has to them, and that they desire in obedience to exhibit that they hold the truth of God not as a matter of speculation in the head, but in heart and conscience before God.

I shall probably be going from this towards Bristol to-morrow. I hope there to meet my wife, and that we may go to Dolgelley together; before leaving Wales I hope if the Lord will, to visit Clynnog, where I hope to have the pleasure of finding you; I pray the Lord to vouchsafe His blessing on the intercourse which we may have; perhaps you will be able to accompany me to see some of the persons in your neighbourhood of whom I have heard Mr. Pughe speak.

I remain, dear Sir, your affectionate brother in the Lord and your servant for His sake,

S. Prideaux Tregelles.

Islington, V Theberton St., Liverpool Road,
Nov. 4, 1844.

My dear Friend and Brother in Christ,

It has often been pleasant to me since my return to London to think of many of those Christians with whom I had opportunities of intercourse during my late journey in Wales; it is pleasant to meet on earth with those whom we hope through the mercy of God to meet in heaven, alike saved by the blood of Christ, and made heirs of the same inheritance. I could indeed wish that the full standing of

the believer in Christ, as having full *present, conscious* acceptance, were more intelligently known by Christians in Wales; it is our place as believers to consent simply to the testimony of God concerning us; and to thank and praise Him that He should not only have freely forgiven and everlastingly saved us through the blood of Christ, but that He should also have given us the Holy Ghost "that we might know the things that are freely given us of God." It is our place to take God at his word, and if the things of which we there read are so great and blessed that we do not understand how they can apply to us, we must look not at what might be fitting for us to receive, but what it is worthy of God to bestow.

I think that you will agree with me that we have indeed cause to pray and that earnestly for believers in Wales;—my desire for them is that they may learn their own standing as saved persons, called to holiness of walk and life because they are saved persons; and that they may learn the condition in which believers are found to be in accordance with the mind of Christ, who prayed that His people might be "ONE, that the world might know" that the Father had sent Him. If believers really saw this they would surely seek (in whatever weakness, or however few they might be) to be united on no other ground except that of their being *one in Christ*.

I hope that you still find the subject of Prophecy, especially in connection with the second coming of our Lord and the Hopes in that day both of the Church and of Israel, to be one of interest and profit to you. Every thing which is written in the Word is profitable when the Holy Ghost applies it to the soul, because it tells us something of Jesus our blessed Lord,—of H's person, His work, His love, His glories, His offices. It is blessed to rest in hope that He will come again, that we shall ourselves see Him in all His glory,—that He will gather to Himself every one of His people, raising those who are in their graves, and changing those who are alive and remain—and also that He will restore Israel, his ancient nation, of which (as concerning the flesh) He is Himself one, and that thus he will prove the faithfulness of God to every one of his promises. When you write to me (which will I trust be soon, *and let it be in Welsh*), I should be glad if you would tell me any of your thoughts on these matters, and if you have found difficulties in any of these things, it is possible that the Lord may grant in conferring over them together by letter, they may be removed.

Have you thought more of writing *Awdl Adferiad Caersalem?* I shall be truly glad to see it written and then in print;—it might lead some of the Christians in Wales to think more of those assured promises of God to Israel which remain yet unaccomplished.

I have heard once from Mr. John Pughe since I was in Wales; if Mrs. Pughe be still at Brondirion will you give Mrs. Tregelles's and my Christian love to her; I shall be very thankful for Mr. Pughe to be able to get on somewhere in his profession.

A ysgrifenasoch rai emynau yn ddiweddar? Y mae eisieu o emynau da yn y Gymraeg;—da mewn iaith, athrawiaeth, a chyfansoddiad. Rhaid i ni geisio i foli Duw mewn modd gweddus, ond yr wyf yn meddwl fod pawb wedi ysgrifenu emynau heblaw beirdd a phrydyddion, teilwng o'r enw.

Mae'n annhebyg iawn i mi aros yn hir yn Llundain, gan fy mod mewn eisieu o ryw ffordd i gael fy mywyd; bwriadaf (os yr Arglwydd a'i myn) i fyned i Plymouth o gylch Nadolig, i aros o gylch naw wythnos, gan ddysgu yr Iaith Hebräeg: fe allai yr Arglwydd a egyr i mi ryw ffordd o fywoliaeth wedi hyny.

Gwedi i mi ddechreu fy llythyr, derbyniais un oddiwrth ein cyfaill Ioan ab Huw, gyd â phregeth am weinidogaeth a bregethwyd yn ddiweddar yn nghapel Gwilym Caledfryn; mae'n eglur fod yr efengyl i gael ei phregethu i bechaduriaid, ac er fod llawer yn haeru fy mod i fy hun a'r Cristionogion gyd â'r rhai yr wyf yn ymgyfarfod yn peidio a gwneuthur hyn, meddyliaf fod y ffordd oreu i ddangos y farn am danom yn ddisail ydyw i geision hyd eithaf ein gallu i bregethu yr efengyl yn ei chyflawn ryddid.

Gorphwysaf yr eiddoch yn yr Arglwydd,
S. PRIDEAUX TREGELLES.

17 Frankfort St., Plymouth,
Feb. 25, 1845.

My dear Brother in the Lord,

I ought to have written to you a good while ago; and I fear lest you may have thought that I was unmindful of your kindness in writing to me; I have

been pressed with various necessary things, so that my time for writing has been very little. For several weeks I have daily tried to find opportunity of writing to you, but my having been unwell and other causes have continually prevented me. I came hither a few days after Christmas, and I expect to be here about 10 days longer; here I have very many Christian friends with whom it is very delightful from time to time to renew my intercourse.

I am glad to find from your letter that you feel so deeply the condition of things amongst believers in Christ in Wales; but the more our souls are conscious of this, the more should it lead us to lay the whole matter in prayer before our God and Father, knowing that he can so work by the Holy Ghost as to bring out of every thing glory to the name of His blessed Son.

Christians need to be aroused to three especial truths: 1st. The entire a ceptance and pardon which is theirs thro' the precious blood of Christ;—2nd. The distinctness which there is between the *Church* and the *World;*—the world being that *out of* which we are taken, seeing that we are called with a *heavenly* calling, and as made members of the body of Christ, we are *now* united to a Head in Heaven:—and 3rd. The coming again of the Lord Jesus Christ as being our true *hope:* the more we learn what the Scripture teaches as to this, the more shall we learn what our present path ought to be, for we thus see that there are things which will be judged when the Lord Jesus comes, and thus we learn the mind of God as to things around us. But we hear continually complaints made of weakness and want of ability in *acting* upon truth after it is known;--in ourselves we are indeed weak, and it is well for us to be conscious of it, but we should never forget that we have strength in *Christ*, and in the known love of God our Father we have a motive for obedience of the very strongest kind. If we desire to *obey* our Lord at all costs we shall find His grace with us, and tho' Satan may try especially to hinder us, we must remember who He is that is for us, and rest ourselves upon Him. Surely the mixing together the Church and the world has been one of the especial devices of the enemy in these days; united testimony for Christ has thus been hindered; and how many of the children of God have thus been led to occupy their time and their thoughts with things which are of the world and not of Christ our Lord. I should be truly thankful to hear of any being aroused in Wales to desire to walk together in fellowship in the truth and in separateness from the world;—the Lord may work in this if He should see fit: of course if any seek thus to obey Christ they must expect to be misunderstood and spoken evil of;—but is not blessing from God on His obedient children worth more than enough to compensate for all this?

I hope that you will kindly let me hear from you soon *in Welsh*, and that you will not imitate my bad example of delaying so long;—I do hope to write to you again *quite soon;*—I expect to be at V. Theberton St., Islington, again in a few days. I suppose that you hear but little of Mr. and Mrs. Pughe now that they have quite left your neighbourhood. I shall be thankful if the Lord should enable Mr. Pughe to get on at Aberdyfi.

Mrs. Tregelles desires her Christian love to you, and you will accept the assurance of the same from myself. I have had several Hebrew pupils since I have been here, and I have found several of my old scholars going on with their Hebrew study very nicely. I shall be glad to hear from you about your Adferiad Caersalem, and the reading of the Prophets in connection with it.

Gorphwysaf yn gariadus,

Eich brawd yn ein Harglwydd,

S. Prideaux Tregelles.

[Wedi ei gyfeirio, Mr. Ebenezer Thomas, Clynnog fawr yn Arfon, gerllaw Caer-'narfon.]

My dear Brother in the Lord,

If inclination could do everything your last welcome letter would not have remained so long without being answered; but I have had very many things to occupy my time and attention since I returned to London, so that I have been obliged to keep many waiting who had expected to have heard from me.

I had a very pleasant visit at Plymouth; I much enjoyed the intercourse which I had there with my many valued Christian friends, and I trust that thro' the Lord's blessing I found it profitable to my soul. There are many at that place who meet

together simply as belonging to Christ; the Lord has graciously given them those whom the Holy Ghost has fitted to teach them, and to care for them; and there are several who preach the gospel of the grace of God to the unconverted. It is true that in the years which have now passed since they first began to meet for communion at Plymouth they have had trials and difficulties, but it has been very gracious of our God and Father to shew His hand as caring for His people and giving them abundantly to prove that tho' weak in themselves they have strength in Christ their Head. This is what we have practically to learn as individual believers, for it is just as our souls consciously prove what we have in Christ that we can go on our way happily and stedfastly. We have to look simply at His blood as the ground of our salvation, and to know Him in present living power as ever caring for us.

I have seen the few last numbers of the *Dysgedydd;* it is strange that they should *say* so much about Brodyr Plymouthaidd; they *know* evidently much less than they *say*, for their accounts are very incorrect in almost every respect: I do not wish to defend *myself*, but if the *truth of God* is concerned I ought to value that truth, and seek to hinder it from being evil spoken of. They say that we do not preach the gospel to sinners,—the best way of answering such a charge is by being even more diligent than before in preaching it, for thus it is that those who make such accusations are left without excuse. But I am surprised that in Wales so much should be said on the subject, for there are so few who hold or act on the principles in your country.

I began this letter several days ago, for I had to wait to see how I could send you the tracts which you ordered. I had an opportunity of sending them to *Dolgelley*, and I have asked Mr. Evan Jones the printer of the *Dysgedydd* to send them if he can into your part of the country; if you know any way in which they could be sent to you perhaps you would write a line to Evan Jones to say how. The tracts "Apostolic Succession" and "Swearing" are not to be had, but I have procured all the rest; will you please to *accept* them from me; I have also put in a few other tracts on Prophecy mostly by myself; I have written my initials on those which are mine.

I do indeed agree with you that Satan has grievously succeeded in confounding things that differ, in the way in which the Church and the World are blended together,—so that while I wish to see people *temperate*, I see in Temperance Societies the evils which you mention. We have to seek for ourselves and our fellow believer grace to walk in conscience before God in all our ways,—in our fellowship one with another as saints, in our separation from the world, and in maintaining that practical godliness to which we are called, as being loved by God, saved by the blood of Christ, and called with a Heavenly calling. It is a much easier thing to do right things because others do them or because of some similar motive than really because such is the will of God. The more our souls really learn the blessings which are given to us, such as the Spirit speaks of in the 1st chap. of Ephesians, the more shall we rightly know how, as the children of God, to take the place which belongs to us as such, and to act in it. We must also remember, as to every step of our way, that we need *continued* conscious dependence upon the strength of Christ which the Holy Ghost supplies to the soul; for it is this strength in which we can rightly obey. It is better always to stand *alone with God* than in any place in which conscience towards Him is at all compromised.

If ever you are in want of any tracts, I think the easier way will be for you to send to some Bookseller at Caernarvon to get them for you; for I suppose that any of them would do it without any difficulty.

The tracts on Prophecy which I have sent you will I think answer most of your questions. "The Man of Sin" will I believe shew you the person who last holds the power of the earth as the last head of the beast.

"The Restoration of the Nation of Israel," Pt. 1 and 2, will answer you some of your other questions, as will also "the Throne of David," and "The Subjection of the world to Come." The Remarks on Daniel 2 are only just printed. I propose if the Lord permit, to go on with the other prophetic parts of that important book.

Write to me again soon, for I am always interested about Christians in Wales; tell me how it fares with you and your neighbours. Have you not written some more Harvest Hymns since I saw you! How do you get on with reading the New Test. in Greek? Is it possible for me to get any of Richard Roberts Jones's books?

Yn awr hon, anwyl Frawd, terfynaf fy llythyr, gan erfynio yn daer ar yr Arglwydd i

roddi i chwi ac i'r eiddoch ei fendith, ac i ddysgu i chwi trwy ei Ysbryd Glan ei wirionedd yn fwy fwy, ac i beri i chwi lawenhâu yn fawr gan edrych y'mlaen i ymddangosiad ein Harglwydd Iesu Grist.

Mrs. Tregelles a ddenfyn ei chofflawdwriaeth i chwi.

Gorphwysaf eich brawd Cristionogol,

S. PRIDEAUX TREGELLES.

Islington,
Ebr. 27, 1845.

[Uwch ben y llythyr hwn y mae nodiad mewn pensil goch gan Eben Fardd: "Gwel y diwedd yn enwedig—Eben yn *Roegwr!*"]

Islington,
Sepr. 22, 1845.

My dear Brother in the Lord,

You must not suppose that I have been unmindful of your kindness in writing to me, from my not having written to you before this; but I have been very much occupied of late with different things which I have in hand.

I often have you and many others of those whom I saw in North Wales last year on my heart in prayer before our God and Father;—I earnestly desire to see Christians walking in the knowledge of the preciousness of Christ, simply confiding in His precious blood, and knowing from the simple testimony of God's word that they are accepted; and that as accepted and made the children of God it is their place to open their hearts to the instruction which the Spirit of God would give them from the word; that thus they may increase in the knowledge of Christ, and in that obedience of heart which leads to obedience of action.

The knowledge of Christ is that in which we have to seek to grow. It is our place to rely on Him as the Lamb of God slain for sinners, and also we have to know Him living in the presence of God for us:—He is our High Priest there, to plead for us before God, and to minister to us from above grace and strength:—there is a supply in Him for all our necessities:—we are made righteous in Him, for he is our righteousness. Our souls are often conscious of weakness, but He is our strength. It is well for us to learn our own weakness in order that we may be *wholly* cast upon what Christ is for us, for it is only in His might that we can meet the temptations of Satan, and can go on our way as conquerors. It is our true joy day by day to have our hearts lifted up to Him where He now is:—to see Him by faith as the one who once really and truly bore our sins in His own body on the tree, but who as now risen and glorified is the living proof that our sins are put away and we are saved persons. If we see Jesus by faith above, there our blessing is as secured in Him;—He is gone to prepare a place for us,—the Spirit is given us as the witness of His glory and as our teacher, "that we may know the things that are freely given to us of God:"—and we have the hope of the return of the Lord Jesus in glory when we shall see Him as He is and shall be made like unto Him.

We should find at every step of our way, if we only had wisdom to use it aright, something to teach us more the preciousness of Jesus Christ, and the infinite vastness of that grace in which God has accepted us in Him, blessed us in Him, and made us joint heirs with Him.

Whatever we read in the word of God, we may see as pointing us in one way or another to Christ; and this makes it so important that we neglect no part of what God has revealed in His word. We must not be surprised to find difficulties in learning from Scripture, but these very things ought to lead our souls to be the more cast upon God in order that the Spirit may unfold to our eyes the truths revealed in the word, and that He may give us to apprehend their practical value.

I should be exceedingly glad to visit my friends in Wales again, but for some considerable time this will be impossible, as work which I have in hand connected with editing the Greek Testament from the most ancient MSS. makes it needful for me to go to Italy. I shall probably set out with my wife in about a month, and how long my occupation in Italy may continue I do not know. I have had to be a good deal at Cambridge this summer with the same object.

But tho' I shall not be able to visit my friends in Wales again for a good while, I trust that I shall not the less pray that their souls may be increasingly established in the truth and love of the Gospel, and that they may practically understand that

they are called to separateness from the world, as being made the children of God and joint heirs with Christ.

I send you with this a tract written by a brother in the Lord, which will I think interest you:—we must take care to learn the truth of God from the word,—it may be communicated thro' whatever channel the Lord may see fit to use, but it is our place to examine every thing by the word, so that what we hold as truth may not be any mere matter of opinion, but that which we can intelligently show to be found in the Revelation which the Holy Ghost has given.

I shall be very glad to hear from you again before I set out for Rome. With earnest desires for the Lord's blessing to rest upon you,

I remain very truly,

Your affectionate brother in Christ,

S. PRIDEAUX TREGELLES.

[Ar gefn y llythyr hwn mae nodiad eto mewn pensil goch yn llaw Eben Fardd: "Cadwer y rhai hyn oll fel llwch aur. Iё, dyma brawf fy mod yn iawn—*Y* Tregelles ydyw." Gellid meddwl fod Eben hyd hyny heb deimlo yn sicr pwy oedd ei ohebydd, ond fod y cyfeiriad yn y llythyr uchod at ei olygiaeth o'r Testament Groeg wedi ei argyhoeddi mai yr ysgolhaig enwog ydoedd, ac am hyny fod y llythyrau wedi dyfod yn werthfawrocach nag erioed yn ei olwg,—i'w "cadw fel llwch aur."]

My dear Friend,

The arrival of your letter on Saturday reminded me how very poor a Correspondent I am, and how little it may be that I seem to value the communications that I receive. However, I will now write to you with as little delay as I can, even if it be only to assure you of my Christian friendship and regard, and of the great sympathy that I feel for you in connection with that great trial with which it has pleased God to visit you. There *are* consolations in Christ, but we are slow in apprehending them—too much like the disciples who were going to Emmaus when their eyes were holden so that they did not know Jesus who was their companion. I believe that in trial we may seek that our God may enable us by His Spirit to know more of Himself and of the grace of Christ; and surely if we are at all ready to see what His hand is doing we shall find many and rich consolations, especially when the sorrow has been caused by the removal through death of any who have known the grace and love of Christ: our sorrow for them is something to lead us on to the joy of *His* appearing, when all that have trusted in Him shall be gathered together unto Him, and when God shall wipe away all tears.

We have had in this place in the course of the last year much to interest us in connection with Spanish negroes from Cuba who, having purchased their own freedom, have come here on their way back to Africa, the land from which they were stolen. We had as many as *forty-nine* here for five weeks together; they had never seen the Bible before, and tho' they had been taught some of the observances of Popery they knew next to nothing of real Christianity. But they soon learned that there is something to value in the word of God; several bought Bibles for themselves and their families, and a Spanish lady who has been herself brought to know and prize the gospel sent Mrs. Tregelles several Spanish Testaments to be given to those amongst the black children who can read the best.

We were able to have many readings with them, and every Sunday afternoon we had a kind of service in Spanish. Since they arrived in Africa (at Abbeokuta and Lagos) they have been under the care of Missionaries, and we have heard of one woman that she seems to be really spiritually converted.

One of the number called Leandro' Yopar was lost by the rest in London, so that his parents had to leave without him: he afterwards got to Southampton (where they first landed), and he was sent to this place to be under our care and instruction: Mrs. Tregelles was very much interested in reading with this poor man; and it seemed very evident that he was receiving the truth of Scripture into his heart. He went out to Africa in the latter part of last October.

Many Spanish ships come here with cattle; and in this way some portions of Scripture are put into the hands of many to whom the word of God had been alto-

gether strange. Some of the cases in which people had neither seen nor heard the word of God before have been very striking: some *tremble* when they hear the *second* commandment for the first time: for this, as I suppose you know, is wholly omitted in the Romish Catechisms.

I have told a person in London to send you from me a little book of Hymns by my cousin Miss Anna Lœtitia Waring of Darran near Neath in Glamorgan: I think that you may find some of them very comforting. I wish especially to introduce you to the XXV. beginning "My heart is resting, O my God:"—and if you should be disposed to turn it into Welsh verse, you may find it a good occupation for your mind, and you may remember that the writer is a Cymraes by birth, and now again, after many years, she is returned to her native country: (you know her father's Life of old Iolo Morganwg): her mother was a *Price* of a Montgomeryshire family. And if you do turn this Hymn into verse, you must I think send it to her at the address I have given above.

It is very long since I heard anything of Mr. John Pughe; I suppose that he is still at Aberdyfi; I do not wish to forget or to lose sight of my old friends, and especially my Christian friends.

I certainly should be glad if some part at least of what you translated of my lecture should be printed in your country: for to meet the inroads of Popery, Mormonism and Infidelity, it is essential that the authority of the word of God should be intelligently maintained.

I should have been glad if a Caernarvon publisher had been willing to undertake it, and to do it in such a way as would bring you some profit.

I must now conclude, with kind and Christian remembrances to you and to Mrs. Thomas and your family from Mrs. Tregelles and myself.

Gorphwysaf eich cyfaill a brawd yn yr Arglwydd,

S. Prideaux Tregelles.

[Nodiad gan Eben Fardd: "Received July 30, 1836. An interesting letter."]

Plymouth,
Awst 18, 1856.

Anwyl Gyfaill a hybarch Fardd,

Derbyniais a darllenais â llawer o hyfrydwch eich cyfieithiad o'r Emyn o eiddo Miss A. L. Waring. Meddyliaf fod eich llwyddiant yn fawr gan ganlyn y synwyr a'r mesur. A dderbyniasoch ateb oddiwrth Miss W.? Nid wyf yn amman fod yn hoff ganddi weled ei chyfansoddiad gwisgedig mewn dillad Cymraeg.

Mae eich cyfieithiad yn werthfawr genyf; dodaf ef ar ddiwedd eich "Caniadau" a gyhoeddwyd yn 1841. Onid yw Argraffwr i gael o fewn eich gwlad i gyhoeddi llyfr arall o'ch gwaith prydyddol?

Coffadwriaethau Cristionogol oddiwrth Mrs. Tregelles a minnau i chwi a Mrs. Thomas gyd ag eich teulu.

Fe fyddai yn dda genyf fod Glynnog Fawr yn agosach i le fy nhrigfa.

Gorphwysaf,
Anwyl Fardd,
Yr eiddoch pob amser,
S. Prideaux Tregelles.

Plymouth,
23 Hydref, 1856.

Anwyl Gyfaill,

Derbyniais eich llythyr gyd a'r Rhagymadrodd i lyfr o Hymnau er ys mwy na mis yn ol; a drwg genyf yw fy mod heb gael amser cyn heddyw i ysgrifenu ateb.

Rhagorol, yn ol fy nhyb, yw eich barn yn erbyn yr arfer o *newid* hymnau; am hymnau a chasgliadau o hymnau yn yr iaith Gymraeg mi a wn ond ychydig iawn; yn awr hon yn Saesneg fe wneir yn fynych iawn niwidiadau *diachos*. Mewn perthynas i bethau eraill hefyd yr wyf yn cytuno a'ch Rhagymadrodd. Ond, fel y dywedais o'r blaen, Hymnau Cymraeg ydynt dra anhysbys i mi. Gobeithio yr wyf y byddant rhai o'r *eiddoch* yn y casgliad newydd; rhaid i *brydyddion* Cristionol ysgrifenu Hymnau o fawl, ac nid gadael y waith hyn i ddynion duwiol ond *di-awen*. Mae yn well i uno *y dau peth*, sef gwir ffydd yn ein Harglwydd Iesu Grist a doniau pryd-

yddol mewn cyfansoddiadau o fawl, fal ag y dylai *uno* ffydd gwirioneddol a gallu i osod allan yr Efengyl yn dda pob un sydd yn ceisio i bregethu i eraill neu i'w dysgu pa beth yw athrawiaeth Gair Duw.

Wyf yn cofio yn llyfr Morris Williams Hymn da ar yr *adgyfodiad;* testun ar yr hwn nid oes genym ond ychydig iawn yn y Saesneg, ag fe allai y Gymraeg ydyw yn yr un gyflwr.

Pwy ydyw eich cyd-olygwr Roger Edwards? Trwy ofyn hyn mae yn debyg fy mod yn dangos mor anadnabyddus wyf o bob peth yn perthynu i lëenyddiaeth Gymraeg. Rhaid i chwi am hyny cofio mai 22ain mlynedd a aethant heibio gwedi i mi ymadael a thrigfa yn eich gwlad o fynyddoedd ac afonydd.

A wel'soch chwi erioed "Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain" o waith Llewelyn Sion o Langewydd ac Edward Dafydd o Fargam? Y llyfr hwn a argraffwyd dan olygiad Iolo Morganwg yn nyddiau diweddaf ei einioes, ond nid ysgrifenodd, mae'n debyg, adnoddiadau arno yn ol ei fwriad. Cefais y'mhlith fy llyfrau gopi o'r waith hon, ond ynddi ddiffyg o wyth tu dalen (nid yn y rhan ar Ddosparth Beirdd Morganwg, ond mewn ysgrif Symwnt Fychan). Ond er ei fod yn anmherffaith fe allai y ceir ynddo bethau gwerth eich darllen; ac am hyny yr wyf yn ei ddanfon, os gwelwch chwi fod yn dda i'w dderbyn oddiwrthyf. Fy mwriad yn ei ddanfon yw yn neillduol i chwi ddalu sylw ar y fodd o ysgrifenu prydyddiaeth a arferwyd gan feirdd Morganwg, i'w chanu. Gwelwch t.d. 159, "Dyrif." *Awdl* ac *acen* ydynt y ddau peth i'w cadw, ac yn fynych iawn yr mae y fath gyfansoddiadau yn llwyr ddigynghanedd.

Yn y llyfr hwn y mae feiau yn yr argraffiad; ac weithiau mae i mi anhawdd i ddeall beth yw gwir ystyr rhannau o'r farddoniaeth: ond yr anghrifftiau ydynt teilwng o sylw.

Gwelwch awdl Lewys Morganwg ar Fynachlog Glyn Nedd; lle y trigais am saith mlynedd.

Gobeithiaf i chwi gael llawer o fendith yn eich *enaid*, ar orchwyl y Salmydd Cymreig.

Maddeu i mi fy nghamcymeriadau yn yr iaith Cymraeg.

Gyd â choffadwriaethau a chariad Cristionogol i chwi ac i Mrs. Thomas oddi wrth fy ngwraig ac fy hun,

Gorphwysaf,
Anwyl Fardd,
Yr eiddoch pob amser,
S. P. TREGELLES.

Plymouth,
10ed Ebrill, 1857.

Anwyl Fardd,

Rhaid i mi hysbysu i chwi am farwolaeth fy nghyfaill a pherthynas Elijah Waring--awdwr hanes bywyd Iolo Morganwg, a thad Anna Lætitia Waring. Bu farw nos Sul 29ain Mawrth, yn nhy ei fab (gyd a'r hwn efe a drigodd yn ddiweddar), *Y Darran*, yn agos i'r dref o Gastell-Nêdd, Sir Forganwg.

Ei hynafiaid a drigasant gynt yn Sir Drefaldwyn; efe a anwyd yn Alton yn Sir *Hant*, ac a ddaeth i Sir Forganwg yn mron 50 mlynedd yn ol. Gwedi iddo dreulio rhai flynyddau yn Clifton dychwelodd ag ei wraig a merched i ardaloedd Glyn Nêdd —lle hoff iawn iddo, ac yna bu farw, gan ymadael a'r byd hwn i dderbyn bywyd tragywyddol trwy farwolaeth a chyfiawnder ein Harglwydd Iesu Grist.

Teulu ei wraig oeddynt *Cymry* o Sir Drefaldwyn, o enw *Price;* ei mam hi oedd Anna Tregelles, yn fodryb i'm tad i.

Meddyliaf fod Mr. Waring yn deilwng o coffadwriaeth yn mhlith y Cymry am ei gyfaillgarwch tu ag at yr hen fardd Iolo Morganwg, ac am ei waith o ysgrifenu ei hanes: ond yn awr hon ymddengys fod y rhan fwyaf o'i gyfeillion a'i gyfoedogion wedi myned o'i flaen.

Pwy a ysgrifena Englyn o Coffadwriaeth am Gyfaill Iolo Morganwg?

Gobeithiaf fod chwi a'ch teulu mewn iechyd da, a fod fendith yr Arglwydd gyd a chwi yn mhob peth.

Fy nghwaith am y Testament Newydd Groeg weithiau a ymddengys fod yn rhy galed; ond rhaid i fyned ym mlaen ac i edrych i fynu am nerth angenrheidiol.

Gorphwysaf, anwyl Fardd,
Eich cyfaill cariadus,
S. P. TREGELLES
(o hiliogaeth yr hên Gymry o Gernyw).

[Uwch ben hwn eto ceir yn y bensil goch: "Gwir werthfawr—Achau & Treg." Mae yn debyg ei fod yn penderfynu olrhain yr achau, a cheisio gwneyd yr "Englyn Coffadwriaeth."]

Plymouth,
May 12, 1857.

Dear Bard,

I have only time to-day to acknowledge with many thanks the Englynion which you so kindly sent me a few days ago. I like them much: I think that the thought brought out in the last stanza is very nicely expressed.

I have no doubt that Miss Anna Lætitia Waring was pleased at receiving this votive wreath for her father's monument.

I remain,
Yours ever most truly,
S. P. TREGELLES.

Granada,
Mehefin 30, 1860.

Anwyl Fardd,

Fe fydd mae'n debyg yn annysgwyladwy i chwi dderbyn llythyr oddi wrthyf o *Yspaen:* ond mewn gwirionedd ydwyf *yma* yn y wlad bell hon ag yn y ddinas hon a chymaint ganddi o weddillion y *Mwriaid,* prif ddinas y rhai oedd Granada hyd amser ei gorchfygiaeth yn mlwyddyn 1492. Nid oes genyf yma ond ychydig o lyfrau, ond yn eu plith y mae *dau* o farddoniaeth Cymraeg, *un* gwaith Goronwy Owain, yr arall "Caniadau gan Ebenezer Thomas, Clynnog:" ac yma o fewn carneddau yr *Alhambra,* plas hyglod brenhinoedd yr Mwriaid, darllenais o newydd eich Awdl am Ddinystr Caersalem ac eraill o'ch cyfansoddiadau. Anfynych iawn fe allai fod llyfrau Cymraeg yn cael eu darllen yn y wlad hon o Andalucia.

I was very far from well, and I wanted some change and rest for my head and eyes; and as for many years we had been interested in Spain, we have come to visit some parts of this country in which Popery has so long reigned, but where now some testimony to the gospel of Christ is given. After crossing France by Railway to Bayonne, we there took the Diligence for San Sebastian; we then visited Bilbao, and went to Madrid by way of Vitoria, Burgos, Valladolid (famous in the time of the Reformation for believers and sufferers). All the middle of Spain is dreary enough. Madrid is now a fine place, but with a very modern look. There are some there who know the gospel, but they are hardly acquainted one with another. We hope that our visit may tend to bring some of these together. My wife knows Spanish, and I can read it. We were for a day at Toledo to see the magnificent Cathedral; the walls and other ancient remains of that city are very curious. Thence partly by rail and partly by Diligence to Jaen, going thro' La Mancha (Don Quixote's country) and by the pass of the Sierra Morena.

Ac yn awr ydym yn gorphwys ychydig *yma:* ond pa beth yw rhaid i ddywedyd am Granada? Nis gallaf *ddysgrifio* yr Alhambra yn iawn, er ei fod yn hawdd i ddywedyd rhyw beth am dani. Ger fron y ddinas o Granada y mae y Sierra Nivada, mynyddau o gylch 12 000 troedfedd o uwchder, y rhai uchaf o Yspaen. Mae y ddinas mewn rhan ar fryn ac mewn rhan ar wastattir; ac o un tu y mae yn codi bryn yr Alhambra, ag hên dwriau a muriau o'i gylch. Ar un tu y bryn mae llawer o goed, ac ar ei ben hên blas Mwraidd: neuadau, cyrtiau a eraill; rhan mewn cadwriaeth da, ond rhan mewn carneddau. Ni welais erioed ei gyffelyb.

Ond peth mewn Granada teilwng o'r sylw mwyaf yw Eglwys Protestanaidd; corff o bersonau *dirgel,* y rhai trwy drugaredd Duw a dderbyniasant efengyl Crist i'w calonau. Fe fyddai yn berygl iddynt i hysbysu am danynt; rhaid yw i ni roddi diolch am danynt a gweddïo trostynt. Yr ydym ni yr estroniaid cyntaf ac a ymweledasant ag hwynt. Anghenrheidiol iddynt ydyw i ymgyfarfod am addoliad yn ddirgel (weithiau yn y nos), ac anhawdd iddynt yw i gael copïau yr Ysgrythyrau. Un noswaith yr oeddym gyd a rhai o honynt yn eu cyfarfod; ac y clywsom bregeth rhagorol (ar Gal. i. 9) oddiwrth wr ieuanc doniol, ysbrydol a gostyngeiddiedig. Fe fyddai yn anhawdd i anghofio y fath gyfarfod yn y nos, drysiau a ffenestri cauedig, a phob un yn gofalu rhag i'r Papistiaid *selog* wybod ym mha le neu ym mha bryd oedd y cyfarfod i fod. Erledigaeth eto yn Yspaen!

Sevilla. Gorphenhaf 7. Gwedi i ni ymadael a Granada aethasom i Malaga am ddau diwrnod. Gobeithiais i gael yno agerddlong am Cadiz, ond nid oedd un. Ymwelsom a rhai yn Malaga yn proffesu ffydd yr Efengyl; buaswn yn gynnrychiol mewn un cyfarfod (yn y nos) ag o gylch 80 o honynt; gwr ieuanc a bregethodd yr Efengyl yn dda ac yn eglur. Ein taith o Malaga oedd *hir* iawn: 28ain awr yn y cerbyd a 4 ar y hwylffordd. Arhosasom 2 awr yn Córdoba, lle y gwelasom ddoe (am 5 ar y gloch yn y boreu) yr hen *Mosque*, y sydd yn awr hon yr Eglwys Gadeiriol. Nis gwelais erioed ei fath: *wyth cant* o golofnau isel ac archiaid oddiarnynt, yn debyg i ryw goedwig lled tew.

Sevilla yw dinas ragorol iawn am ei hadeiladau: yr Eglwys Gadeiriol o faintioli rhyfeddol; ei thwr prydferth—hen waith y Mwriaid, ac yr *Alcazar* neu phlas frenhinol o'r Mwriaid yn gyntaf, a gwedi hyny o'r brenhinoedd Yspaen y rhai am 250 blwyddyn (hyd amser Carl V.) a wnaethasant Sevilla eu prif ddinas.

Y mae genym rhai i weled yma cyn i ni fyned i Cadiz. Mae mwy o lawer o waith yr Arglwydd yn myned y'mlaen yn y ddosparth hon o'r Yspaen nag yn y rhanau eraill. Ein bwri d ydyw i fyned o Cadiz yn yr angerddlong i *Valencia* ac i *aros* yno ychydig cyn i ni ddychweled cartref. Pwy bynag ym mhlith ein cyfeillion a ddengys y caredigrwydd o ysgrifenu atom, rhaid iddo ddanfon i ni i *Valencia* heb oedi yn hir.

There is much in this country to make us value the privileges of our own land: here, in spite of all the danger and difficulty, many get the word of God and many more desire it: books are printed and circulated in secret by those who know that if discovered they would be subjected to cruel imprisonment: surely this will go on in the gathering out of more who shall learn to the blessing of their souls the difference between trusting in the blood of Christ alone for salvation, and that which is set forth in Romish observances. There was a person quite lately imprisoned in this city for his profession: I have not yet been able to find whether he has been liberated: he certainly was not prudent, but still any one persecuted for the truth's sake calls for our sympathy and prayers. The people of Spain seem to be divided between fanatical Roman Catholics, and people altogether indifferent: but both agree in disliking and opposing the truth of the gospel.

It is now getting quite hot here, so that very little can be done except in the mornings and evenings quite late: the plants and trees form a great contrast to those of our country. Here we see orange and olive trees; vineyards cover the hills, palms occasionally, while cactuses grow in profusion and the aloes are in full blossom every where. This country is but little visited by travellers, forming in this respect a great contrast to France, Italy and Switzerland.

Yr awr hon, anwyl Fardd, rhaid i mi orphen fy llythyr: y mae feallai y pryd cyntaf y danfonwyd gair o annerch i Glynnog Fawr oddiwrth lan afon *Guadalquiver;* ond mae yn dda genyf gofio fy nghyfeillion yn mha le bynag yr wyf.

A llawer o gariad Cristionogol oddiwrth fy ngwraig a minnau,

Gorphwysaf, anwyl Fardd,

Yr eiddoch yn ddiffuant,

S. P. Tregelles.

Plymouth,

Sep. 30, 1858.

My dear Friend,

I was glad to hear from you again, tho' the account of your own family is one of sorrow. I am glad when Christians can in their bereavement acknowledge the Lord's hand, for then there is blessing to the soul even in what is most sorrowful. May you and your wife know this more and more, and look upward to Him who liveth and was dead, and who is known by His people as alive for ever and ever.

There were many things in your letter of interest to me; but many of them which shewed me how little I know of what is going on in Gwlad Cymru: you refer me to publications of which I know nothing, so that I am like a man altogether behindhand in my acquaintance with all things literary or antiquarian relating to Wales. But I do not wish to remain thus ignorant, and perhaps I may improve.

There is much in the volume called "Iolo MSS." for a Welsh antiquary to *study:* the translation into English is not always very exact, and I do not know who were the Editors who carried on the translation, &c., after the death of *Ab Iolo.* A per-

son is called in the translation *brother* of *Ivor Hael;* but his genealogy as stated is quite different: the Welsh explains this:—he was *brawd* UN FAM: for "Angharad of the liberal hand" married twice, and Morgan of Rhydodyn was her son by her second husband. This Angharad was the only daughter of one of the lines descended from Rhys ab Tewdwr, and thro' her great grandmother she was the heiress of Caerllion ar Wysg. I take it that *liberality* ran in *her* noble blood; all have heard of Ivor *Hael;* and those who know any thing of the history of Iolo Morganwg are aware that he was cared for during all his latter years by the kindness and generosity of *Isaac Redwood;*—a name which tho' Anglicised in form may be easily identified with that of *Rhydodyn*. And yet perhaps no bard of Gwlad Cymru has ever in his strains commemorated the disinterested kindness of Isaac Redwood of Cae Wern in the Vale of Neath: a man yet living.

If I am wandering on, excuse me: the volume of "Iolo MSS." has brought so many things to my remembrance that thought after thought occurs to my mind. I find *nothing* there that bears on the book *Tiboeth;* the Llyfr Twrog of Iolo seems to be simply an enlarged account of the Welsh saints. If you like it I will extract every thing that speaks of Clynnog or of St. Beuno and send them to you. You know I suppose that Beuno was nephew of Cattwg Ddoeth. The Welsh Laws also often mention Clynnog: would the notices there be of any value to you?

I heard nothing of the Eisteddfod at Llangollen till you mentioned it: I shall be glad to be informed of any thing of interest connected with it, and especially if your Awdl was successful, as was I hope the case.

Whatever you *publish*, whether Hymns or whatever it be, I shall always wish to be informed; and if you do anything of the kind by subscription you may always count on my being glad to give you my name.

I am obliged to you for mentioning Mr. John Pughe: I am sorry however that you did not see him yourself.

You will find a letter inclosed with this: it is one that I have taken the liberty of writing to *Ab Ithel;* you can read it if you like; but what I want is that you will kindly *direct* it for me and send it, as I do not know his address.

With kind remembrances and the expression of much sympathy for you and Mrs. Thomas from my wife and myself,

I remain,
Yours very faithfully,
S. PRIDEAUX TREGELLES.

---

# DEDDF PECHOD A MARWOLAETH.

MAE y gair "deddf" yn un o'r geiriau mwyaf cynnwysfawr ac adnabyddus. Gair mawr, ac un yn sefyll yn amlwg ydyw yn duwinyddiaeth, athroniaeth, a gwleidyddiaeth pob oes a gwlad wareiddiedig. Llefarwyd ac ysgrifenwyd llawer arno yn ei wahanol ystyron a'i wahanol gysylltiadau gan rai o feddylwyr penaf y byd yn y gwahanol oesau. "Pechod" hefyd sydd air adnabyddus, ac wedi cael sylw mawr meddylwyr galluocaf pob oes yn ei ddechreuad, ei achos, ei natur, &c. "Llynclyn ydyw," yn y pethau yna, ys dywedodd un, "a foddodd filoedd o ymresymiadau i ddinystr a cholledigaeth."

Ond er mor adnabyddus a chynnwysfawr a phwysig ydyw y termau hyn mewn duwinyddiaeth ac athroniaeth, ac er cymaint o sylw y

maent wedi gael gan wahanol ysgrifenwyr ar wahân oddiwrth eu gilydd, nid yw yn ymddangos fod y ddau ynghyd wedi cael sylw mawr, na chan dduwinyddion na chan athronwyr. Ac y mae hyn yn tueddu i'n gwangaloni i gynnyg ychydig ystyriaethau ar y mater hwn i ddarllenwyr y TRAETHODYDD; nid yn unig o herwydd na chawn y cynnorthwy a ddymunem i ymdrin â mater mor anhawdd a dyrys, ond hefyd am fod y ffaith, hwyrach, yn awgrymu nad oes llawer ynddo wedi y cwbl sydd yn werth galw sylw yn y fath fodd ato. Pa fodd bynag, ymddengys fel arall i'r ysgrifenydd; a bydd yr ysgrif hon yn ymgais at alw sylw y darllenydd at y dirgelwch ofnadwy hwn.

O holl ysgrifenwyr y Testament Newydd, yr apostol Paul yn unig sydd yn defnyddio yr ymadrodd "deddf pechod," a hyny yn unig yn ei epistol at y Rhufeiniaid. Defnyddia efe yr ymadrodd hwn dair gwaith yn yr epistol hwnw—dwywaith yn y seithfed, ac unwaith yn yr wythfed bennod. Mae Paul, mewn manau eraill, ynghyd ag eraill o'r ysgrifenwyr sanctaidd, yn gwneyd defnydd o ymadroddion sydd i raddau o'r un ystyr: megys Ioan viii. 33—36; Rhuf. vi. 18, 19, 22; a viii. 21; Gal. v. 1; 2 Pedr ii. 19. Heb i ni ddyfynu yr adnodau hyn, os bydd i'r darllenydd droi atynt fe wêl fod pechod yn cael ei osod allan ynddynt oll, i raddau mwy neu lai, fel yn rheoli ac yn caethiwo y pechadur fel pe buasai ganddo hawl i wneyd hyny; yn fath o ddeddf orfodol arno, ac yn ei rwymo i'w wasanaethu.

Yr oedd yr apostol Paul yn hoff o ddeddfau, ac o edrych ar bob egwyddor fel deddf, yn enwedig pan yn siarad â Rhufeiniaid. Dyn deddf, llywodraeth, neu drefn, mewn modd neillduol, oedd y Rhufeiniad; a'i genadwri fawr ef i'r byd oedd argraffu ar ei feddwl y syniad o ddeddf. Ac yr oedd Paul yn Rhufeinwr yn gystal ag yn Hebrëwr. A dichon fod y ddau beth hyn, sef ei fod yn ysgrifenu yn aml at Rufeinwyr, a rhai fel yntau wedi eu dwyn i fyny dan ddylanwad Rhufain, yn rheswm i raddau paham y mae y gair "deddf" mor hoff ganddo, a'i fod wedi gweled deddf o ryw natur yn y peth mwyaf diddeddf mewn bod, sef pechod. Yn y seithfed bennod o'r epistol at y Rhufeiniaid, cyfeiria gyda golwg ar ddrwg at ddwy ddeddf, neu yr un ddeddf mewn dwy o wahanol gysylltiadau, sef deddf pechod a deddf yr aelodau. Y mae y naill o'r deddfau hyn ar ran y pechadur yn wrthddrychol *(objective)*, a'r llall yn dumewnol *(subjective)*. Mae deddf pechod, y cyfeirir ati yma, yn sefyll yn wrthgyferbyniol i ddeddf Duw; y deddfau hyn sydd yn rhoddi gallu, ac y maent yn sefyll yn y gwrthddrychol. Ond y mae y ddeddf arall y sonia am dani yn y paragraff dan sylw yn wrthgyferbyniol ganddo i ddeddf y meddwl; ac y mae y ddwy yma yn fewnol, ac yn adlewyrchiad o'r ddwy arall. Mae y ddeddf arall hon sydd yn yr aelodau—nid yn y dyn oddimewn—yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl, ac yn caethiwo i ddeddf pechod, yr hon eto sydd yn yr aelodau, neu yn y cnawd. Ond er fod yr apostol yn ddiammheuol yn cyfeirio yma at ddwy ddeddf wahanol yn eu dull o weithredu, eto yr un ydynt yn eu natur, a'r un hefyd yn amcan a therfyn eu gweithrediadau: un ddeddf pechod a marwolaeth ydyw y ddwy.

Arweinia ymdriniaeth â mater fel hwn ni yn naturiol yn ol at y dirgelwch aruthrol o darddiad neu ddechreuad pechod. Ond nid oes

genym wrth gyfeirio at y mater hwn ond gofyn drachefn y gofyniadau a ofynwyd lawer gwaith o'r blaen, y rhai nad ydynt wedi eu hateb, ac na atebir mo honynt, mae yn dra thebyg, gan neb yn y fuchedd hon. Yn mhwy y dechreuodd—pa fodd—paham—pa bryd—pa fodd y mae ei fodolaeth yn gyson âg ewyllys, gallu, doethineb, a gwybodaeth anfeidrol Duw? &c., &c.

Dyna ofyniadau ag y mae pawb ag sydd wedi byw ychydig yn myd y meddwl yn methu peidio eu gofyn ar brydiau. Ond er eu bod yn hawdd i'w gofyn, y maent wedi profi eu hunain yn rhyw anhawdd i'w hateb gan neb hyd yma. Cynnygir amryw ddamcaniaethau ar y mater; ond damcaniaethau ydynt. Tri pheth yn unig sydd ddiammheuol mewn perthynas i ddyfodiad pechod: gwirfoddolrwydd hollol, rhagwybodaeth berffaith yn Nuw, a hanfodiad pechod.

Mae dyfodiad pechod i fod, neu darddiad drwg, yn debyg i'r hyn y mae tarddiad yr afon Nilus wedi bod drwy yr oesau hyd yn ddiweddar. Wedi dilyn yr afon hono trwy ddyrysni ac anialwch i bellderau anadnabyddus o'r blaen, y mae y teithiwr anturiaethus yn tybied ei fod o'r diwedd wedi dyfod o hyd i'w tharddiad; ond erbyn archwilio, caiff ar ddeall, er ei siomiant, nad ydyw yr hyn a dybiai yn ffynnon ond llyn y rhed yr afon trwyddo, ac nid ei ffynnon darddiadol; yr oedd yr afon yn myned yn ol gwedyn i'r anialwch a'r mynyddoedd. Felly y bu yr archwilwyr ar hyd yr oesau, yn lle cael hyd i'w dechreuad, canfod yn unig rhyw gongl drofa yn ei llif yr oeddent, y naill ar ol y llall; elai hi yn ol wrth draed rhyw res o fynyddoedd yn uwch i fyny, drwy gorsydd anfesurol yn mhellach ac yn mhellach. Yn gyffelyb am darddiad pechod. Y mae un yn cynnyg ei *theory*, ac yn tybied yn siwr ei fod wedi dyfod o hyd i darddiad yr afon. Ond erbyn chwilio, nid yw hono yn myned ymhellach na rhyw drofa yn ngwely yr afon; ä hi yn ol i'r anialwch. Daw y llall ymlaen i ddadleu ei fod ef, yn sicr, wedi myned yn ol at y ffynnon gyntaf, tarddiad yr afon. Ond erbyn hyny y mae rhyw un arall yn dyfod ymlaen, ac yn dangos nad oedd ei ddamcaniaeth yntau yn ddim ond rhyw lyn y rheda y dyfroedd hyn drwyddo, a bod yr afon y chwilir am ei tharddiad yn rhedeg i lawr o'r pellder draw, yn uwch, heibio traed y mynyddoedd tywyll, a thrwy gorsydd ac anialwch anfesurol. Dywed un dosbarth mai rhyddid yr ewyllys greadigol yw tarddle yr afon. Nage, medd dosbarth arall, canys nid oes un ewyllys ond yr eiddo Duw yn rhydd, yn ystyr briodol y gair; y mae yn rhaid ei bod yn tarddu o ryw angenrheidrwydd tu cefn i hyny. Os dilynir rhediad yr afon yn ol i Eden, at ein rhieni cyntaf, gwelir ei bod yn myned yn ol, ac yn rhedeg o wlad uwch. Nid oedd gwrthryfel Eden ond toriad allan o newydd ar wrthryfel cynt y nefoedd. A phan awn yn ol at hwnw, y mae yn anhawdd meddwl nad oes rhyw gymhelliad iddo yntau drachefn ymhellach yn ol yn rhywle, neu mewn rhywbeth pellach wedyn. A hyd yma y medrwn ni fyned, a dim ymhellach; ac nid oes genym ond gadael yr afon yn ymddolenu o'r tywyllwch tu draw i bob terfyngylch y medrwn ni feddwl am dano. Mae deddf pechod, o ran ei tharddiad a'i hachos, yn ymgolli yn ol, rhywle tua mynyddoedd tywyll y dechreuad, a thragywyddoldeb tu hwnt i hyny; a'r ffiniau meinion a dirgeledig yna a gysylltant yr ewyllys a'r awdurdod ddwyfol âg ewyllys a rhyddid y creadur.

Gellir olrhain pob deddf, ond ddeddf pechod, yn ol i Dduw ei hun fel ei ffynnon. Mae yr holl ddeddfau eraill fel cadwen ddolenog yn gafael y naill yn y llall, a'r ddolen gyntaf yn gafael yn ngorsedd y Goruchaf ei hun. Ond am ddeddf pechod, nis gwyddom ni i ba le i'w holrhain. Os ydyw yn gadwen, ac amryw ddolenau yn perthyn iddi, a'r naill ddolen yn gysylltiedig â'r llall, ac yn rhedeg y naill i'r llall; ac os gallwn ganfod rhywbeth o'r dolenau hyn, a'u gweled yn gafael yn eu gilydd, nis gallwn mewn un modd weled y ddolen gyntaf, na deall o gwbl ymha beth y gafaela hono. Mae'r hwn a geisia gael gafael ar yr achos cyntaf o'r ddeddf ryfedd hon, yn teimlo yr un fath ag y darlunia y bardd Lladinaidd, Virgil, ei wron fu yn ceisio gafael mewn drychiolaeth. Yr oedd Æneas yn gweled lledrith o Creüsa ei briod, ar ol iddo ei cholli :—

Haec ubi dicta dedit, lacrymantem et multa volentem
Dicere deseruit, tenuesque recepit in auras.
Ter conatur ibi collo dare brachia circum :
Ter frustra comprensa manus effugit imago,
Par levibus ventis volucrique simillima somno.

"Wedi iddo ddywedyd hyn, gadawodd fi yn wylo, ac yn hiraethu am lawer o ymddyddan, a diflanodd i'r awyr wag. Yna tair gwaith y gwnawn ymgais i wasgu fy mreichiau o amgylch ei gwddf; a thair gwaith yn ofer: diangai y lledrith o'm breichiau, fel yr awel ysgafn, neu yn hytrach breuddwyd ymadawedig." Yr un modd y gellir dyweyd am darddiad pechod. Mae y meddwl dynol—ac yn neillduol y meddyliau mwyaf galluog ac ymchwilgar—wedi bod yn ceisio gafael mewn rhywbeth, a thybient wrth yr amlinelliad eu bod wedi cael o hyd i'r hyn yr ymofynent am dano. Ond wrth geisio cymeryd gafael ynddo—ceisio ei gael i'w breichiau megys—yn gorfod gweled nad oedd ond drychiolaeth wedi y cwbl, cysgod, neu ddim hwyrach, yn y diwedd. Teimla y meddwl rai prydiau ei fod wedi dyfod o hyd i'r ddolen gyntaf yn y gadwen yma o farwolaeth, y ddolen sydd yn ddechreu i'r holl ddolenau eraill. Ond wedi edrych yn fanylach, ac ymwthio ymhellach yn ol, y mae yn canfod fod rhyw ddolen yn eisieu wedi y cwbl, a bod hono yn ymguddio yn y niwl a'r caddug annhreiddiadwy. Ond ofer ydyw ceisio myned ymlaen yn y wedd yma, o herwydd y mae un peth yn amlwg, sef na all dyn ddyfeisio unrhyw ddamcaniaeth a wna i wirfoddolrwydd hollol Duw gydgordio â'r ffaith o fodolaeth drwg moesol yn y greadigaeth. A rhaid i ni, mae yn dra thebyg, tra yn y byd hwn, ymgymmodi goreu medrom â sefyllfa o anwybodaeth mewn perthynas i ddirgelwch tarddiad anwiredd.

Bellach ni a ymofynwn, ymlaenaf, ymha ystyr neu ystyriaethau y gellir golygu pechod yn ddeddf? Ac y mae yn ymddangos wrth feddwl am ryw bethau perthynol i'r mater hwn, fel yr ydys wedi dangos yn barod, mai ein gwybodaeth ddiogelaf yw gwybod nad ydym yn gwybod dim yn berffaith gyda golwg arno, ac mai ein hyawdledd goreu mewn perthynas iddo yw dystawrwydd. Eto, o gyfeiriad arall, y mae yn ymddangos y gallwn wybod rhyw bethau mewn perthynas i'r pwnc hwn, a'i bod yn ddyledswydd arnom chwilio i mewn iddo, a thraethu cynnyrch ein hymchwiliad er budd i eraill;

ac at hyny, yn ol y gallu a'r ddoethineb a roed i ni, yr amcanwn yn yr ysgrif hon.

Dywed yr enwog Hooker:—"Deddf ydyw yr hyn sydd yn cyfranu i bob peth ei rywogaeth, yn llywodraethu grym a gallu, ac yn trefnu ffurf a therfynau ei weithrediad. Felly nis gellir cyrhaedd unrhyw amcan penodol trwy unrhyw weithrediadau neillduol, oddieithr fod y gweithrediadau hyny yn ol rheol; hyny yw, yn cael eu dwyn ymlaen, a'u gwneyd yn gymhwys, ac yn gydgordiol â'r amcan mewn golwg, trwy ryw ddeddf, rheol, neu ganon, cymhwys i natur y cyfryw amcan." Ond anhawdd ydyw penderfynu ymha ystyr, ac i ba raddau, yn ol y darnodiad uchod o ddeddf, y gellir edrych ar bechod felly. Mae yn amlwg, pa fodd bynag, mai mewn rhyw ystyr neillduol a chyfyng y mae i ni gymeryd y gair deddf pan ei defnyddir mewn cysylltiad â phechod, yn gymaint ag mai *anghyfraith*—yn ol darnodiad dwyfol ysbrydoliaeth o'r gair, rhywbeth croes a gwrthwyneb i bob deddf reolaidd, pob deddf sydd yn ffynnonellu yn Nuw—ydyw pechod, yn ei natur a'i hanfod, yn gystal â'i weithrediadau. Anhawdd ydyw gwybod yn iawn pa beth na pha fodd i ddyweyd ar y mater hwn; nid yn unig am ei fod yn cynnwys cymaint o ddirgelwch a mawredd, ond hefyd am ei fod mor ddyeithr ac annaturiol; mawredd a dirgelwch pechod ydyw,—yr hyn, fel pethau eraill, nas gellir ei esbonio yn briodol. Y mae dirgelwch a mawredd anfeidrol yn Nuw. Ond y mae dirgelwch a mawredd Duw dan y deddfau perffeithiaf, er eu bod uwchlaw i ni allu eu hamgyffred; dirgelwch a mawredd Duw ydynt. Eithr am fawredd a dirgelwch pechod, er ei fod mewn rhyw ystyr yn cael ei fesur â'r eiddo Duw, eto y mae yn hollol groes a gwrthwyneb i bobpeth yn Nuw; mawredd a dirgelwch annhrefn a dyryswch ydyw; mawredd a dirgelwch anwiredd. Gellid meddwl fod rhyw hyd a lled, uchder a dyfnder ofnadwy ac anfeidrol, yn perthyn i'w fawredd; ond nid hyd a lled, uchder a dyfnder, a fesurir yn briodol gan ddim arall; pechod ydyw—rhywbeth nas gellir yn iawn ei osod o dan un ddeddf, na'i brofi yn briodol wrth unrhyw egwyddorion; y mae yn anghyfraith perffaith a hollol.

Eto, er hyn oll, y mae yn rhaid fod rhyw ystyr cyrhaeddadwy i ni yn yr ymadrodd deddf pechod, neu ddeddf marwolaeth, a bod yr ystyr hyny yn fanteisiol i ni weled drygau pechod a pherygl marwolaeth. Ein hamcan ni yn yr ysgrif hon ydyw ceisio dyfod o hyd i'r ystyr hyny, a'i egluro i'r perwyl uchod.

Hwyrach mai un rheswm am fod pechod yn ddeddf yw, am ei fod yn *beth*, ac nid yn *ddiffyg* o beth, a'r peth hwnw yn gweithredu gyda grym ac awdurdod deddf. Nid ydym heb wybod fod rhai, er ceisio cyfrif am achos a tharddiad pechod, yn dal mai nid unrhyw beth ydyw, ond negyddiaeth. Ond ymddengys fod y nifer lïosocaf a'r dosbarth uchaf o feddylwyr yn dal y golygiad arall, sef ei fod yn rhywbeth gwirioneddol. Ac y mae yn anhawdd gwybod pa fodd y gall neb ystyriol beidio teimlo ei fod yn gymaint o sylwedd ag ydyw daioni, ac mai hyn ydyw tystiolaeth y gallu moesol sydd mewn dyn gyda golwg arno. Felly, heb fyned ar ol y cwestiwn yna ymhellach, yr ydym yn tybied mai un rheswm am alw pechod yn ddeddf ydyw am ei fod yn allu gwirioneddol, yn gweithredu gyda nerth a chysondeb.

Mae egwyddor wirioneddol daioni moesol yn gynnwysedig mewn

cariad at Dduw; mae hyn yn ddeddf. Ac fel y mae pechod yn wrthwyneb i ddaioni, rhaid fod egwyddor hanfodol pechod yn gynnwysedig mewn cilio oddiwrth Dduw, a'i gasâu ef a'i bethau, a bod hyn hefyd yn ddeddf, ond mai deddf pechod ydyw. Nid yn unig y mae pechod yn ddiffyg cariad at Dduw, ond y mae gyda y nacâd hwn o'r berthynas briodol rhwng dyn a Duw, ac yn gysylltiedig uniongyrchol âg ef, honiad o gau berthynas. Rhaid i anghrediniaeth, ys dywedodd un, gael rhyw ofergoel o ryw natur, er boddhâd i'r anghrediniaeth gwrthwynebol i gredu yn Nuw, pe na fuasai ddim amgen na'i ddeall hollddigonol ac anghrediniol ei hun. Mae ymadawiad yr egwyddor o fywyd sanctaidd yn gysylltiedig uniongyrchol â dyfodiad i mewn egwyddor o fywyd gwrthwynebol i Dduw a sancteiddrwydd; mae hyn yn ddeddf natur pechod. Pan ddiorsedda pechadur y Duw byw, y mae yn ddeddf anghenrheidiol iddo orseddu yr eilun marw yn ei le. Yr hwn nid yw gyda Duw a Christ, y mae yn rhwym o fod yn eu herbyn. Pan y mae y pechadur yn peidio caru Duw, y mae yn ddeddf natur y weithred hono i gasâu y Creawdwr, a charu y creadur yn ei le ef.

Eto, gelwir pechod yn ddeddf am fod pechod, fel pob deddf mewn natur, yn egwyddor weithredol, yn achos o effeithiau neillduol, ac yn dwyn allan symudiadau neillduol yn y pechadur sydd dan ei lywodraeth. Mae y dueddfryd hon sydd yn natur y pechadur yn cael ei alw yn ddeddf, yr un modd ag y mae gweithrediadau dysgyrchiant a thrydan yn cael eu galw yn ddeddfau. Gelwir gweithrediadau y galluoedd yna mewn natur yn ddeddfau, am eu bod yn dirgymhell y gwrthddrychau y gweithredant arnynt i ryw gyfeiriad neillduol. Felly pechod, y mae yn allu ag sydd yn dirgymhell y pechadur i gyfeiriad drwg a phechadurus, a hyny gyda chysondeb a nerth. Ac yn wir y mae y gallu a'r priodoldeb o nerth symudol yn cael ei briodoli yn weithredol iddo gan yr apostol Paul, pan yn ei ddesgrifio yn gwrthryfela yn erbyn deddf y meddwl, ac yn caethiwo i ddeddf pechod, yr hon sydd yn yr aelodau. Y mae felly yn allu sydd yn ceisio yn ddibaid i sefydlu ei lywodraeth ar y rhai hyny y ceisia eu caethiwo a'u dwyn dan ei awdurdod. Felly, pan elwir pechod yn gyfraith neu ddeddf, golygir fod dadblygiad y drwg yn rhywbeth o leiaf yn gyffelyb i ddadblygiad y da, a bod yn ei natur i fyned ymlaen yn barhaus, ac argymhell ei hun gyda nerth ofnadwy, a hyny am byth, oni waredir oddiwrtho. Y mae yn ddeddf pechod.

Mae dadblygiad pechod fel deddf, a'i waith fel egwyddor o ddrwg yn ei argymhell ar y rhai sydd dan ei awdurdod, yn cael ei osod allan gan yr apostol yn y bennod gyntaf o'r epistol at y Rhufeiniaid. Yn y bennod hono, ar ol cymeryd yn ganiataol fod rhyw ogwydd naturiol yn ysbryd dyn tuag at Dduw, dengys mai syrthiad dyn ymaith oddiwrth ei Wneuthurwr yw hanfod ei gwymp: peidio anrhydeddu a bod yn ddiolchgar i Dduw—newid gogoniant yr anllygredig Dduw i lun dyn llygredig ac anifeiliaid direswm—newid gwirionedd Duw yn gelwydd, ac addoli y creadur yn lle y Creawdwr; syrthio yn y pethau hyn yw syrthio mawr yr hil ddynol. Nid ydoedd eu cwympiadau i'r drygau moesol gwaradwyddus y cyfeirir atynt ond cynnyrch naturiol y pechod gwreiddiol o ymadael â Duw a'i ddirmygu ef; ffrwyth angen-

rheidiol a naturiol yn tyfu ar y pren hwn; y drygau moesol yma yw deddf natur y pechod o adael a chasâu Duw. Wedi i ddyn adael Duw unwaith, disgyna—os na bydd i rywbeth ei attal—yn ngrym deddf pechod o ris i ris, i ddyfnderoedd llygredigaethau a phechodau, mor naturiol ac angenrheidiol ag y treigla y gareg yn ngrym deddf dysgyrchiant oddiar goryn y mynydd i lawr i'r dyffryn. A dyma, yn un peth, a ddengys yr apostol yn yr adnodau y cyfeiriwn atynt. Mae yn gosod allan fod yr hyn a wna ddyn yn uwch na'r anifail—ei rydd ewyllys, a'i allu i adfyfyrio a thynu casgliadau—trwy ei gamddefnyddio, wedi ei ddarostwng yn îs na'r anifail, a gŵyrdroi tueddiadau naturiol ei gyfansoddiad i dueddiadau annaturiol a phechadurus; a bod hyn yn myned ymlaen gyda chysondeb a nerth rhyw ddeddf, yr hon ydyw deddf pechod a marwolaeth. Mae yn natur y da i fyned ar gynnydd, ac argymhell ei hun am byth; dyma ddeddf y da. Yr un modd am y drwg, y mae yn ei natur yntau i fyned ar gynnydd ac argymhell ei hun am byth, os caiff ei ffordd; mae hyn yn ddeddf ei natur yntau.

Y mae yn ymddangos fod pechod yn ddeddf hefyd, beth bynag ar ran dyn, nid yn unig fel egwyddor ddrwg yn ei hargymhell ei hun arno, ond hefyd fel egwyddor ddrwg yn cael ei harosod a'i hargymhell gan ddylanwad y tu allan iddo ef ei hun; mae yn ddeddf ag y mae a fyno dyn â hi, fel y mae yn bechadur, oddiallan iddo, neu yn y gwrthddrychol. Meddylia rhai nad ydym i ystyried pechod yn ddeddf wedi ei harosod gan allu uwch ar îs, fel y mae y ddeddf foesol wedi ei gosod gan Dduw ar ddynion ac angelion, neu fel y mae brenin yn gosod deddfau ar ei ddeiliaid; ac nad ydym i edrych ar bechod yn ddeddf, ond fel y mae yn ddrwg yn gweithredu gyda nerth a chysondeb yn y pechadur ei hun. Dichon mai dyma y syniad uniawn ar hyn, yn ystyr mwyaf cyffredin a phriodol y ddau ddosbarth hyn o ddeddfau. Ond mewn ystyr gyfyng a neillduol eto, y mae yn ymddangos, yn ol tystiolaeth Gair Duw ac ymwybyddiaeth y meddwl dynol, fod pechod yn ddeddf osodedig ar ddyn.

Mae y byd hwn, y sonia y Bibl yn aml am dano, yn fath o deyrnas; teyrnas Satan, neu deyrnas y tywyllwch yw y deyrnas hon; a deddf fawr y deyrnas yw pechod a marwolaeth. Gelwir y diafol yn dduw, neu yn frenin y byd hwn, ac yn dywysog llywodraeth yr awyr; a sonir hefyd am orseddfainc Satan, a bod nerth marwolaeth ganddo, &c. "Yr hwn a'n gwaredodd ni," medd yr apostol Paul, "o feddiant y tywyllwch, ac a'n symudodd i deyrnas ei anwyl Fab." Mae yr hyn a ddywedir yma am waredigaeth y saint, yn cynnwys mwy na'u bod wedi eu gwaredu oddiwrth lywodraeth pechod ynddynt hwy eu hunain; y mae yn cynnwys hefyd eu bod wedi eu gwaredu odditan lywodraeth y diafol a'i angelion, fel y mae ef a'i alluoedd yn wrthgyferbyniol a gwrthwynebol i deyrnas anwyl Fab Duw. A dywed yr un apostol yn ei lythyr at yr Ephesiaid,—"Oblegid nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydol lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd." Y mae hyn oll yn dangos fod rhyw sefydliad o ddrygau y tu allan i ddyn, a bod yn perthyn i'r sefydliad hwn lywodraeth, a gallu, a deddfau; a bod dyn ar y ddaear dan lywodraeth deddfau a gallu y deyrnas hon o ddrwg, hyd

oni waredir ef trwy yr efengyl; ac hyd yn nod ar ol cael ei waredu oddiwrth lywodraeth y gallu hwn, ei fod, tra ar y ddaear, mewn perygl bob awr oddiwrth ei ddylanwad: y mae yn ddeddf yn yr aelodau ynddo, pan wedi ei diorseddu o'i galon, ac yn ei rwystro i wneyd y da a ewyllysia ei gyflawni. Ac felly, y mae pechod yn ddeddf ar ran y pechadur am ei fod yn allu neu ddylanwad er drwg wedi ei arosod arno gan y diafol, fel brenin teyrnas pechod.

Ymddengys fod dau beth yn hanfodol i bob deddf; sef awdurdod, a graddau mwy neu lai o anghyfnewidioldeb. Y mae y ddau beth hyn i'w gweled yn neddf pechod yn y cysylltiadau dan sylw. Nid yn unig y mae yn natur pechod fel egwyddor i bara ymlaen er drwg, ond y mae yn natur y llywodraeth yma ei gynnal ymlaen, ac y mae awdurdod—awdurdod gorsedd, brenin a theyrnas—y tu cefn iddo, i'w gynnal a'i argymhell. Y mae holl rym a nerth teyrnas Satan yn nerth i ddeddf pechod. Ië, y mae grym ac awdurdod gorsedd Duw, mewn rhyw ystyr, yn nerth ac awdurdod y tu cefn i ddeddf pechod. Y mae felly, fel y mae pechod yn gosb yn llywodraeth Duw, ac yn yr un ystyr ag y mae nerth marwolaeth gan y diafol. Mae y gyfraith yn rym pechod. "Colyn angeu yw pechod, a grym pechod yw y gyfraith." Eglur ydyw nas gall y Goruchaf fod yn achos o nac yn blaid i bechod mewn un modd. Eto, wedi i bechod ddyfod i mewn i'w lywodraeth, y mae yn rhwym o fod dan ei awdurdod, ac yn cael ei lywodraethu ganddo i'w amcanion a'i ogoniant ei hun. Ac yn yr ystyr yma, y mae nerth gorsedd Duw yn nerth marwolaeth yn neddf pechod. Felly gan hyny y mae pechod yn ddeddf, nid yn unig fel y mae yn egwyddor lywodraethol o fewn y dyn, ond y mae hefyd yn ddeddf fel y mae yn ddylanwad llywodraethol y tu allan iddo: y mae dyn, tra dan lywodraeth pechod, yn rhodio yn ol helynt y byd hwn, ac yn ol tywysog llywodraeth yr awyr, yn gystal a than ddylanwad yr ysbryd sydd yn gweithio yn mhlant anufudd-dod.

Ond er ceisio rhoddi eglurhâd pellach ar bechod fel deddf, edrychwn arni fel y gosodir hi allan gan yr apostol Paul yn wrthgyferbyniol i'r efengyl, neu "ddeddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu." Y mae tri pheth i'w canfod yn y geiriau y cyfeirir atynt, mewn perthynas i'r efengyl fel deddf. Yn gyntaf, deddf yn Nghrist Iesu ydyw; yn nesaf, deddf rhyddid ydyw; ac yn olaf, deddf bywyd, neu ddeddf ysbryd y bywyd ydyw. Ac yn awr, gallwn ganfod tri pheth hefyd yn neddf pechod, yn wrthgyferbyniol a gwrthwynebol i'r tri pheth a nodwyd yn yr efengyl fel deddf. Yn gyntaf, gallwn mewn ystyr neillduol edrych ar ddeddf pechod fel deddf yn y diafol; yn ail, fel deddf caethiwed; ac yn olaf, fel deddf marwolaeth.

Ac felly, yn gyntaf, edrychwn ar ddeddf pechod fel deddf yn y diafol, yn wrthgyferbyniol a gwrthwynebol i'r efengyl yr hon sydd yn ddeddf yn Nghrist Iesu. Mae yr efengyl yn ddeddf *yn* Nghrist—yn ei galon, ac felly yn anwyl iawn ganddo. Yr un modd y mae deddf pechod yn y diafol—y mae yn ei galon, ac yn anwyl iawn ganddo. Mae y gyfraith hon o fewn ei galon ef, a dyma yr unig ddeddf sydd anwyl ganddo,—deddf pechod. Ynddo ef, ar ryw olwg, y mae y ddeddf hon yn byw, symud, a bod. Ymddengys mai yn ngwrês llygredd calon y diafol, mewn rhyw fodd, yr ymffurfiodd y ddeddf

hon, ac y tyfodd i fywyd a nerth. Gellid meddwl mai yn meddwl yr ysbryd halogedig hwn, mewn rhyw fodd nas gŵyr dyn, y cyfododd i fod y syniad o ddeddf pechod, ac yn ei lŷs ef y pasiwyd hi yn gyfraith. Er cymaint o ddirgelwch a thywyllwch sydd yn amgylchu tarddiad a dechreuad pechod, rhaid addef fod rhyw ymadroddion yn y Bibl yn ffafriol i'r syniad mai yn y diafol a'i angelion y dechreuodd, er nad oes un eglurhâd yn cael ei roddi o'r modd y dechreuodd, na pha fodd y mae ei fodolaeth yn gyson â natur a llywodraeth y Duw sydd yn anfeidrol mewn gallu ac awdurdod. "Yr hwn," medd Ioan, "sydd yn gwneuthur pechod, o ddiafol y mae; canys y mae y diafol yn pechu o'r dechreuad," neu "yn y dechreuad." Nid yw yr apostol yn dyweyd dechreuad pa beth: dechreuad y greadigaeth, medd rhai; dechreuad amser, medd eraill; ond y meddwl yn ddiau yw, dechreuad pechu—*ab initio* τοῦ *peccare*—o'r amser y dechreuodd unrhyw un bechu, (gwel Alford ar y geiriau hyn); ac fel hyn y mae ef yn terfynu ei nodiad ar y rhan hon o'r adnod,—"Ac ymddengys, pan gymharom Ioan viii. 44, mai hyn yw yr ystyr priodol—(sef y golygiad diweddaf a nodwyd uchod). Y mae efe bob amser wedi bod yn geidwad (*depositary)* megys i'r meddwl ac i'r bywyd o bechod; y temtiwr i bechod; y ffynnonell o ba un y daeth pechod, fel y mae Duw yn ffynnonell o'r hon y mae cyfiawnder wedi tarddu allan." Y geiriau ar hyn yn efengyl Ioan ydynt: "O'ch tad diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tad a fynwch chwi eu gwneuthur. Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad, ac ni safodd yn y gwirionedd, oblegid nid oes gwirionedd ynddo ef; pan yw yn dywedyd celwydd o'r eiddo ei hun y mae yn dywedyd; canys y mae yn gelwyddog, ac yn dad iddo." Yn ol yr adnod ryfedd hon eto, a lefarwyd gan Fab Duw, y mae yn amlwg fod gan y diafol lawer iawn i'w wneyd yn nechreuad pechod, a hyny ar ran dyn. Y mae yn pechu o'r eiddo ei hun, ac yn dad iddo—efe, rywfodd, a roddodd fôd iddo, ac fel y cyfryw y mae yn "dad" i ddyn fel pechadur, ac yn "lleiddiad" iddo o'r dechreuad. Ac ar sail y gwirionedd a osodir allan am y diafol yn y ddwy adnod uchod, gallwn gyda graddau o briodoldeb, yn ddiau, edrych ar ddeddf pechod, yn ei pherthynas â dyn, yn ddeddf yn y diafol. Gellir dywedyd mai deddf y diafol ydyw deddf pechod; y mae ef yn dad iddi, fel y mae yn dad y celwydd. Mae ei orsedd ef yn awdurdod tu cefn iddi; mae ei ddelw ef yn argraffedig arni; a'i elyniaeth ef yn ysbryd y peth byw—neu fe allai y dylid dyweyd, yn ysbryd y peth marw—ynddi, er ei gyru ymlaen am byth. Bywyd—neu yn hytrach eto, marwolaeth—y diafol yw ei sail; gelyniaeth y diafol yw ei sêl; a marwolaeth dragywyddol yr hwn y mae yn ddeddf iddo ac arno, yw ei nod a'i hamcan. Deddf natur y diafol yw pechod eto; ïe, deddf ei holl natur ydyw. Natur y diafol yw natur pechod, a natur pechod, fel y mae yn ddiafol, yw ei natur yntau. Calon adamantaidd y diafol, wedi ei rhedeg yn gadwen, ydyw deddf pechod yn ac am y dyn sydd dan ei lywodraeth. Ac felly deddf ysbryd marwolaeth yn y diafol ydyw pechod ar ran dyn, fel deiliad o lywodraeth yr ysbryd pechadurus hwn.

Edrychwn ar y ddeddf hon, ymhellach, fel deddf caethiwed a rhwymau, yn wrthgyferbyniol i ddeddf yr efengyl fel deddf rhyddid a gollyngdod. Y mae yn natur pechod i ddarostwng y pechadur yn

gaeth iddo, mor fuan ag y daw dan ei ddylanwad, a'i droi i'w natur ef ei hun. Dyma ddeddf ei natur ef. Cyffelyb ydyw pechod yn hyn i'r tân, wedi dyfod i gyffyrddiad â'r defnydd llosgadwy; y mae y tân yn troi hwnw i'w natur ei hun, tuag at ac wrth ei ddinystrio. Felly pechod a'r pechadur sydd dan ei lywodraeth; nid cynt y daw i gyffyrddiad âg ef nag y mae yn dechreu ei ddarostwng dan ei ddylanwad, ac i afael ei rwymau, a'i droi yn fwyfwy i'w naws a'i natur ei hun, nes o'r diwedd ei ddinystrio yn marwolaeth. "Pechod hefyd, pan orphener, a esgor ar farwolaeth." Cyrhaedda pechod ei amcan ar ran ei ddeiliaid trwy ddwy ffordd neillduol; mae ganddo ddwy gadwen arbenig i rwymo y rhai sydd dan ei lywodraeth â hwynt; y duedd sydd ynddo i galedu y pechadur wrth ymarfer âg ef, a'r duedd sydd yn yr ymarferiad hwnw i greu mwy o awydd yn y pechadur am y cyflawniad a'r mwynhâd o hono. Y rhai hyn, gan amlaf, ydynt y ddwy gadwen sydd gan ddiafol a phechod i lusgo i angeu â hwynt. Mae llawer yn ein gwlad wedi clywed llawer am y nodwedd yma a berthyna i ddeddf pechod—y gallu sydd ynddo i galedu y galon, ac i greu awydd mwy am y mwynhâd o hono—ond heb feddwl fawr pa beth sydd yn hyny, nac i ba le y mae, a hyny gyda nerth a dylanwad deddf, yn arwain. A phan mae y pechadur yn rhwymau y cadwynau hyn, ac heb eu teimlo yn flin a dolurus, nid ydyw ond prawf ei fod yn dŷn iawn yn eu gafaelion, a'u bod wedi dechreu cyrhaedd eu hamcan ar ei ran; mae y rhanau nesaf i'r cadwynau hyn, trwch y cadwynau megys, wedi marw eisoes ynddo, os ydyw wedi colli y teimlad o boen a blinder o'u herwydd.

Mae y dyn sydd wedi myned yn gaethwas hollol i flys am y diodydd meddwol yn ddarlun byw er dangos y nodwedd gaethiwol sydd yn neddf pechod; y mae felly nid yn unig gyda golwg ar y pechod o feddwdod yn neillduol, ond hefyd pechod yn gyffredinol fel deddf caethiwed. Mae y dyn meddw yn yfed er mwyn tori ei syched; ond wrth yfed er tori ei syched, y mae yn gwneyd ei hun yn fwy sychedig, a hyny po fwyaf a yfo. "Ar ol yfed syched sydd." Felly dyn wrth fynych ymarfer â phechod, nid yn unig y mae yn myned yn galetach i beidio teimlo o'i herwydd, ond y mae hefyd o hyd yn myned yn fwyfwy sychedig am dano. A gellid meddwl mai y peth tebycaf ar y ddaear i uffern ydyw dyn wedi myned yn gymaint o garcharor i'r diodydd tanllyd, ac yn eu hyfed i'r fath raddau nes y mae o'r diwedd wedi myned i afaelion ofnadwy y *delirium tremens*,—yn methu cael dim i dori ei syched, yn myned yn wallgof o syched, ac yn marw gan dân anniffoddwy o syched. Ac y mae hyn, gellid tybied, yn ddarlun pur fyw o bechod yn gyffredinol, fel deddf caethiwed; mae y pechadur yn ei gafael o'r diwedd yn myned ar dân o syched am bechod, ac yn marw mewn gwallgofrwydd tragywyddol dan ei awdurdod.

Mae deddf pechod eto, fel deddf caethiwed, yn gyffelyb i'r tân yn twymno yr haiarn, ac yn ei droi i'w naws ei hun. Ar y dechreu rhaid am gryn nerth yn ngwres tân er twymno a chochi yr haiarn. Ond fel yr ä yr haiarn o radd i radd yn boethach, y mae llai o dân yn ateb y dyben—y mae yr haiarn ei hun o'r diwedd wedi myned yn dân; ä yn eirias o'r braidd gan ei wres ei hun o'r diwedd. Felly pechod â'r

enaid sydd dan ei ddeddf. Mae pechod, ar y cyntaf, megys yn cael cryn drafferth i droi yr enaid i'w naws ei hun; ond o radd i radd, wrth fynych ymarfer âg ef, ä yr enaid yn fwyfwy i naws a natur pechod, nes o'r diwedd yr ä yn éirias o dân pechod wrth ei bwysau a'i nerth ei hun. Mae hyn yn ddeddf yn natur pechod. Y mae yn syndod fod neb yn byw yn dawel yn gaeth i'r fath ddeddf a hon, deddf sydd â'i holl allu mawr yn allu i rwymo, a'i holl nerth aruthrol yn nerth marwolaeth. Gall fod llawer sydd yn gaethion i'r teyrn creulawn hwn yn barod i ddyweyd fel yr Iuddewon gynt, "Ni wasanaethasom ni neb erioed," a hwythau yn trengu dan gaethiwed y gelyn ar y pryd. Yr un modd y mae llawer yn ein gwlad ni y dyddiau hyn yn barod i feddwl, os nad dyweyd, na wasanaethasant hwy neb erioed, a hwythau yn rhwym gnawd a chalon yn nghadwynau deddf pechod a diafol ar yr un pryd. Gallasem enwi rhai o'r cadwynau yma ymhellach, ac yn fwy ffurfiol; ond gadawn i'r darllenydd yn awr eu henwi iddo ei hun. Yn unig dymunem awgrymu iddo, er eu gochel, eu bod yn gadwynau tragywyddol o ran eu natur; deddf caethiwed tragywyddol ydyw deddf pechod, yn wrthgyferbyniol a gwrthwynebol i'r efengyl, yr hon sydd yn ddeddf rhyddid a gollyngdod tragywyddol.

Meddylier eto, ymhellach, am ddeddf pechod fel deddf marwolaeth, yn wrthgyferbyniol i'r efengyl fel y mae yn ddeddf bywyd.

Y mae y fath berthynas hanfodol rhwng pechod a marwolaeth, fel nad ydyw yn hawdd gwybod pa un ai deddf pechod, *sef* deddf marwolaeth, a olyga yr apostol, ynte deddf pechod yr hon hefyd sydd ddeddf marwolaeth—deddf pechod yr hon sydd yn arwain i, ac yn terfynu mewn marwolaeth. Ac nid yw y gwahaniaeth ond bychan a dibwys, os gwahaniaeth o gwbl o ran hyny, ymhellach na bod y naill yn eglurhâd ar y llall. Ond pa fodd bynag am hyny, y mae yn eglur fod yr apostol yn yr adnod dan sylw yn edrych ar ddeddf pechod yn wrthgyferbyniol i ddeddf ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu. Deddf bywyd yw yr efengyl, ond deddf marwolaeth yw pechod. Deddf i gyfodi y marw i fywyd yw yr efengyl, ond deddf i ddarostwng o fywyd i farwolaeth yw pechod. Deddf ysbryd y bywyd yw y naill—bywyd yw ei henaid hi; ond deddf ysbryd marwolaeth yw y llall—marwolaeth yw ei henaid hithau.

Toriad i fyny drefn yr Anfeidrol yn y creadur byw yw marwolaeth. Ac er nad ydyw pob marwolaeth yn bechod, y mae pob pechod yn farwolaeth, yn gymaint a bod pob pechod yn ymraniad, neu yn doriad ar drefn Duw yn y pechadur. Deddf natur dyn ydyw undeb—undeb â Duw, ac âg ef ei hun, ac â daioni. Ond deddf natur pechod ydyw dryllio yr undeb hwnw, ac felly mae deddf pechod yn ddeddf marwolaeth.

Marwolaeth ysbrydol, neu farwolaeth yr ysbryd, ydyw ffynnonell a dechreuad pob marwolaeth ar ran dyn. Y mae bywyd, a goleuni, a chariad, yn cael eu cydwau â'u gilydd yn iaith y Bibl. Ond y foment yr aeth dyn i ammeu Duw, collodd ei gariad tuag ato, ac aeth ei oleuni yn dywyllwch a'i fywyd yn angeu; bu ei ysbryd farw, a chollodd ar unwaith ei allu i fod yn egwyddor bywyd a gogoniant i'w gorff. Yn lle y bywyd yn tynu i fyny, ac yn dyheu am ogoniant, daeth iddo ryw fywyd, neu ysbryd, oedd yn ei suddo i lawr i lygredd a marwolaeth;

daeth dan lywodraeth deddf marwolaeth. Yn ei greadigaeth yr oedd ewyllys a meddwl a theimlad ysbryd dyn yn cael eu llanw o gariad at Dduw a sancteiddrwydd; a'r tri hyn, un bywyd sanctaidd oeddynt. Ond pan ddaeth syniad y cnawd—yr hwn sydd elyniaeth yn erbyn Duw—i mewn i'w enaid ef, syrthiodd ei ysbryd oddiwrth gariad Duw, a'i enaid oddiwrth lywodraeth Duw, a dechreuodd farw oll yn y dydd y pechodd; ac fel y mae pechod yn ddeddf sydd yn ysgar rhwng dyn â Duw, ac yn dattod y cyfanrwydd sydd yn ei nodweddu fel creadur ar ddelw Duw, y mae deddf pechod yn deddf marwolaeth iddo. Ac felly, fel yr awgrymwyd uchod, hanfod bywyd ydyw undeb a chydgordiad; ac ar y llaw arall, hanfod pechod ydyw ymraniad ac anghydgordiad, a hyn eto yw hanfod marwolaeth—ysgariad. Marwolaeth y corff ydyw ei ysgariad oddiwrth yr enaid, a'i ymddattodiad drachefn i'w elfenau cyntefig; ac ysgariad yr ysbryd oddiwrth Dduw, a'i ymraniad yn ei erbyn ei hun, ydyw marwolaeth yr enaid. Ac fel hyn y mae deddf pechod o angenrheidrwydd natur yn ddeddf marwolaeth. "Canys cyflog pechod yw marwolaeth, eithr dawn Duw yw bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd."

Y mae marwolaeth, gan hyny, yn ganlyniad mor naturiol ac angenrheidiol i bechod ag ydyw i'r gareg a deflir i fyny ddisgyn yn ol i'r ddaear, neu i'r dwfr redeg i waered tua'r môr. Felly pechod, mŷn hwn hefyd orphen mewn marwolaeth—mŷn yr afon hon y môr yn y diwedd. "Rhaid i'r afon fawr—y pechod ysgeler ac amlwg—ymgolli yn môr marwolaeth." Rhaid, a mŷn y nant fechan—y pechod bychan ac anamlwg, y môr hefyd. Y mae afonydd a nentydd pechod oll yn gwaeddi, "Môr, môr i mi." Pa beth ydyw y twrf a glywir yn aml yn y dafarn, a'r ffair wagedd, a'r cwmpeini llawen? Nentydd ac afonydd pechod sydd yn dywedyd y mynant y môr er gwaethaf gwrthgloddiau rhybuddion cydwybod, addysg grefyddol, &c.; yr afon sydd yn gwaeddi, "Môr, môr i mi." Gorphena y byw moesol diweddi a digrefydd yna mor naturiol yn marwolaeth â gwynt yn ehedeg, os na waredir o hono. "Gwna y cablwr calon-galed, y godinebwr aflan, a'r meddw halogedig ei gorphen yn marwolaeth wrth reswm, onid edifarhânt." Gwnant, gwnant; y maent ymhell yn ngafael marwolaeth yn awr. Pa beth ond rhwnc marwolaeth yn eu gyddfau megys, yw sŵn y cableddau yna sydd yn eu geneuau mor aml? Ond nid yn unig hyny, eithr fe dyfa marwolaeth allan o fywyd y dyn dichlynaidd sydd yn gwrthod y Ceidwad bob Sabboth, mor sicr ag y tyfa ffrwyth ar y pren sydd yn ei ardd, os parhâ ymlaen felly hyd y diwedd. Y mae blodau y ffrwyth ar y pren yn awr, yn haf bywyd y dyn, ac y mae yn ddeddf i'r blodau yna orphen yn ffrwyth marwolaeth, oni wna deddf arall ei rhwystro.

Ac yn awr teyrnas marwolaeth yw teyrnas pechod a diafol hyd ei chyrau. Gorsedd marwolaeth yw ei gorsedd, a theyrnwïalen angeu yw ei theyrnwïalen hi. Holl bleserau a chwantau y deyrnas, y maent yn drwm o farwolaeth, ac yn rhwym o esgor ar farwolaeth. Carcharau marwolaeth yw carcharau y deyrnas oll, ac y mae yr oll sydd o'u mewn yn garcharorion, a charcharorion wedi eu condemnio i farw ydyw y carcharorion oll. Os oes afonydd yn rhedeg trwy deyrnas y tywyllwch, afon angeu yw pob afon ynddi. Od oes moroedd yn perthyn iddi, môr yn gorwedd ar wely angeu—môr marwolaeth, yw pob môr a berthyn

iddi. Ac od oes mynyddoedd yn rhedeg ar draws cyfandiroedd y "byd hwn"—byd pechod a diafol—mynyddoedd tanllyd marwolaeth ydynt i gyd, a byd ydyw hwn a ä ar dân marwolaeth yn y diwedd: y mae defnydd hyny yn ei holl gyfansoddiad ef; ac y mae wedi ei roddi i gadw i dân marwolaeth dragywyddol.

Wrth derfynu hyn o sylwadau, dywedwn, fel y dywedwyd yn yr olwg ar wirionedd mawr arall—"O ddyfnder!" O ddyfnder! pa beth yw dy fawredd? Ai dynwarediad wyt o fawredd y Duw anfeidrol? O ddyfnder, pa beth yw dy dywyllwch ofnadwy? Ai cysgodion gŵg yr Hollalluog? O ddyfnder, pa beth ydwyt? A ydwyt ti yn rhywbeth ag oedd raid am dano, er adlewyrchu gogoniant dyfnder arall, mwy—anfeidrol olud gras Duw yn ei Fab—i'th daflu iddo, a'th foddi ynddo am byth,

Fel bo dyfnder,
Byth am ddyfnder yn cael sôn!

*Blaenanerch.* JOHN DAVIES.

---

# JANE AUSTEN A'I GWEITHIAU.

## I.

NID oes diwedd yn bod ar ysgrifenu nofelau. Ychwanegir cannoedd o honynt, flwyddyn ar ol blwyddyn, at restr sydd bron yn ddirifedi. Dylifant o'r wasg yn ddidor, a disodlant eu gilydd yn ddiderfyn. Gwthia nofelau heddyw eu hunain o flaen nofelau ddoe, ac o'r braidd nad ydyw dyddordeb nofelau y foment hon yn cael ei gymylu gan y dyddordeb a ddysgwylir yn nofelau y foment nesaf. Y mae y lliosogiad cyflym hwn ynddo ei hun yn brawf fod ffugchwedleuaeth yn meddu ar gymhwysderau neillduol i gyfarfod yr amcanion mwyaf amrywiol. Trwy gyfrwng nofelau y mae yn bosibl, ïe y mae yn hawdd, i ysgrifenwyr galluog a meddylgar gymeryd mewn llaw er eu hegluro a'u dadblygu gwestiynau mawrion yr oes mewn gwladlywiaeth a moes, cymdeithas a chrefydd. Trwyddynt fe ellir taflu ffrwd o oleuni ar henafiaeth a hanesiaeth, fel y gwnaeth Syr Walter Scott; ar athroniaeth a gwyddoniaeth, fel y gwnaeth George Eliot; ar rinweddau a gwendidau cymdeithasol, fel y gwnaeth Charles Dickens a William Makepeace Thackeray; neu ar foesoldeb a chrefydd, fel y gwna Dr. George Macdonald a Mr. John Henry Shorthouse. Gresyn fod yn rhaid cydnabod nad ydyw mwyafrif nofelau y dydd yn taflu goleuni ar un peth, os nad ar anfedrusrwydd ac anghymhwysder eu hysgrifenwyr. Y mae hyn, ysywaeth, yn enwedig yn wirionedd am nofelau y rhyw fenywaidd; y

rhyw sydd fynychaf (o herwydd rhesymau a grybwyllwyd mewn ysgrif flaenorol) yn gollwng eu meddwl i grwydro, ac yn blino y byd amlaf â ffrwyth eu dychymyg. Lle y ceir un awdures yn ysgrifenu oddiar yr ymdeimlad fod ganddi neges i'w thraddodi i'r byd, neges y byddai y byd ar ei golled hebddi, gellir cael o leiaf ddwsin yn ysgrifenu yn unig oddiar un o ddiffygion mwyaf cyffredin eu natur,—rhodres, neu yr hyn a eilw y Saeson *vanity*. "Ymhob llafur y mae elw; ond tybiwn fod nofelau ffol y rhyw fenywaidd yn codi nid yn gymaint o lafur ag o ddiogi prysur," ydoedd y condemniad a roddodd George Eliot ar gynnyrchion y dosbarth lliosog hwn o nofelwyr. O'r ochr arall, yr ydym dan orfod i gyfaddef fod trefniadau cymdeithasol ein hoes yn gyfryw ag sydd yn rhoddi y lledaeniad helaethaf i ffrwyth meddyliau egwan, profiad anaddfed, ac adnabyddiaeth hannerog o'r natur ddynol a ddangosir gan yr ysgrifenwyr a gondemnir. Fel yr ydym wedi sylwi o'r blaen, credwn fod y dosbarth sydd yn cymeryd dyddordeb mewn nofelau o bosibl yn lliosocach na darllenwyr pob math arall o lenyddiaeth gyda'u gilydd; ac er, fe allai, nad ydyw y dyddordeb yn ymddangos ar y wyneb yn un pwysig, y mae yn perthyn iddo, hyd yn nôd yn y ffurf fwyaf diflanol arno, ddylanwad na ddylid ei ddiystyru na'i anghofio; tra yn ei ffurf uchaf a mwyaf parhaol, credwn ei fod wedi gwneuthur rhywfaint tuag at lunio *ideal* moesol a chymdeithasol y byd. Y mae yn anhawdd peidio cenfigenu, ac ar yr un pryd tosturio, wrth y darllenwyr hyny sydd yn ffodus yn y meddiant o ddigonedd o amser hamddenol yn yr hwn y gallent ymgydnabyddu â phrif weithiau awduron yr oesau, ond yn lle gwneuthur hyny a ymfoddlonant ar arllwys i'r hyn a alwant eu meddwl bob math o sucan llenyddol, gan droi ymaith yn ddiarchwaeth oddiwrth y gwin puredig a gynnygir iddynt. Gan fod yn rhaid i'r byd gael darllen nofelau, y mae yn syn fod yn well ganddo gynnyrchion cymysglyd ymenydd "Ouida" na gwaith perffeithiedig George Eliot, ei fod yn hoffi Miss Rhoda Broughton yn hytrach na Charlotte Brontë, a'i fod yn rhedeg ar ol Mrs. Braddon ac yn dianc oddiar Jane Austen. Ond er ei fod yn fater syndod, dyna, ysywaeth, ydyw y ffaith.

Yn ol barn addfed y byd meddylgar, gellir edrych ar Jane Austen, Charlotte Brontë, a Marian Evans (George Eliot) fel y tair awdures sydd trwy eu hesiampl a'u cynghor wedi dylanwadu yn fwyaf effeithiol a daionus ar ddadblygiad ffugchwedleuaeth ein teyrnas. Iddynt hwy y cytuna y byd i ddyfarnu y flaenoriaeth feddyliol ymhlith ysgrifenwyr benywaidd nofelau. Meddai y naill a'r llall o honynt y gwroldeb i feddwl ac i weithredu yn unol â'r ddawn a'r gallu a roddwyd iddynt. Am hyny y mae eu gweithiau yn ddadganiad clir a llawn o deimladau eu rhyw. Dywedir wrthym gan un o feistriaid y gelfyddyd mai yr anhebgor penaf tuag at ysgrifenu nofelau teilwng o'r enw ydyw, bod yr hyn a ysgrifenir yn ffrwyth profiad ac yn wir i natur. Rhaid i bob gwir ffugiaeth *(fiction)* fod yn seiliedig ar ffaith; hyny ydyw, rhaid iddo ddesgrifio bywyd fel y mae yn cael ei fyw gan feibion a merched, a bod wedi ei ysbrydoli gan wirionedd. Am y tair awdures a enwyd, rhoddasant hwy fynegiant darfelyddol i brofiad gweithredol; dewisasant yr hyn oedd wir i dystiolaeth eu natur eu hunain yn hytrach na derbyn y traddodiadau aneglur a'r syniadau anghywir sydd yn rhy aml yn cael

cartref yn ngweithiau y nofelydd. Ac o herwydd iddynt wneuthur hyny, o herwydd iddynt fod yn bur i'r gwirionedd oedd ynddynt, ac o herwydd iddynt geisio ysbrydoliaeth yn mhrofiadau eu hoes yn lle isel ddynwared eu rhagflaenwyr, yr ydym yn cael yn eu nofelau y gwerth hwnw sydd yn codi o fod yn ddefnydd adloniant mynydau segur i fod yn destun efrydiaeth oriau hamddenol. Gyda golwg ar George Eliot, er engraifft, nid oes neb yn y dyddiau hyn yn debyg o wadu ei bod yn nghyfuniad gallu meddyliol a gallu desgrifiadol ei nofelau yn rhagori ar yr oll o'i chydoeswyr. Dwg bersonau i fod, gwna iddynt fyw a gweithredu ger bron ein llygaid, dadelfena eu cymhellion ac eglura eu hamcanion, a'r oll trwy rym y gallu creadigol â pha un y cynnysgaeddwyd hi. Am Charlotte Brontë drachefn, onid ydyw curiadau calon athrylith i'w teimlo trwy holl ddalenau *Jane Eyre*, *Shirley*, a *Villette*, er gwaethaf pob diffyg yn eu cyfansoddiad? Ac am Jane Austen, oni chytuna rhai o brif feirniaid y ganrif bresennol i'w gosod ar un o binaclau uchaf llenyddiaeth ein gwlad? Onid am dani hi y cyffesodd Syr Walter Scott, tywysog y nofelwyr, yn ei ddyddlyfr, ar ol darllen *Pride and Prejudice* deirgwaith drosodd, ei bod yn meddu ar dalent i ddesgrifio cymhlethiad teimladau a chymeriadau bywyd cyffredin y tu hwnt i ddim a adnabu efe erioed? "The big bow-wow strain I can do myself like any now agoing," meddai y gŵr mawr, dan ymsyniad cyfiawn o'i alluoedd a'i ragoriaethau, "but the exquisite touch which renders ordinary commonplace things and characters interesting from the truth of the description and the sentiment is denied to me." Yr un modd Macaulay, pen beirniad ei oes, ar ol cyfaddef yn ei ddyddlyfr ei fod wedi darllen drachefn holl nofelau Miss Austen a'u cael yn swynol dros ben, a dadgan ei farn nad oes yn y byd gynnyrchion sydd yn dyfod yn nês at berffeithrwydd, a ysgrifena yn ei draethawd adnabyddus ar Madame D'Arblay, "Nid oes i Shakespeare na chydradd nac ail; ond ymhlith yr awduron sydd wedi dyfod agosaf at arddull y prif-feistr nid ydym yn petruso gosod Jane Austen. . . . Y mae wedi rhoddi i ni lïaws o gymeriadau, yr oll mewn ystyr yn gynnefin, yr oll yn gyfryw ag a gyfarfyddwn bob dydd; eto gwahaniaethir hwy mor berffaith oddiwrth eu gilydd a phe byddent y mwyaf anghyffredin o fodau dynol." I ddyfod yn nês adref, ni a gawn George Eliot, yr hon trwy air ac esiampl a brofodd ei hadnabyddiaeth drwyadl o'r hyn a gyfansodda nofel, yn ysgrifenu am wrthddrych ein sylwadau fel y canlyn: "Ymhlith nofelwŷr benywaidd yn benaf a blaenaf enwer Jane Austen yr *artist* benaf a ysgrifenodd erioed, ac arfer y term i osod allan y feistrolaeth berffeithiaf ar y moddion i gyrhaedd amcan. Y mae bywyd fel yr ymddangosai i foneddiges Seisonig a drigai yn heddychol, ac eto ar lawn waith, yn ei phentref tawel, yn cael ei adlewyrchu yn ei gweithiau gyda phurdeb a ffyddlondeb a'u cynnysgaedda â dyddordeb hyd ddiwedd amser. Mae darllen un o'i llyfrau yn debyg i brofiad gweithredol o fywyd. Yr ydym yn adnabod y bobl fel pe byddem wedi byw gyda hwynt, a theimlwn rywbeth o serch personol tuag atynt." Beth allasai fod yn fwy cymeradwyol? Ac onid ydyw y gymeradwyaeth yn anrhydedd i'r un sydd yn cymeradwyo yn gystal ag i'r un a gymeradwyir? I'r gydgan ganmoliaethol nid oes braidd gymaint âg un llais gwrthwynebol. Yr unig eithriad o bwys a allwn nodi ydyw Char-

lotte Brontë, yr hon, o herwydd rhesymau a noda yn un o'i llythyrau, a fethodd a gwerthfawrogi nofelau Jane Austen pan y cymeradwywyd hwy i'w sylw gan George Henry Lewes. Ac nid yw y ffaith fod Charlotte Brontë yn methu gweled eu gwerth yn gymaint o fater syndod, llawer llai o ryfeddod. Yr oedd ei hathrylith hi a'r eiddo Jane Austen o nodwedd hollol wahanol, ac nid annaturiol ydoedd i'r naill gamddeall a chamfarnu y llall.

Ond er fod beirniaid craffus wedi cyduno i ddyrchafu ein hawdures o'r adeg yr ymddangosodd gyntaf yn ffurfafen llenyddiaeth hyd yn bresennol, yn gymharol ddiweddar yr ennillodd ei lle priodol yn marn y cyhoedd. Am amser maith cyfyngwyd yr adnabyddiaeth o'i rhagoriaethau i gylch bychan; ond er ys ychydig flynyddoedd, naill ai oddiar wrthweithiad i nofelau cyffröawl ac eneidyddol a fuont yn hir feddiannu y lle blaenaf mewn ffugchwedleuaeth, neu ynte o herwydd y dyddordeb adnewyddol yn ei gweithiau a gynnyrchwyd gan y bywgraffiad dyddorol a gyhoeddwyd gan Mr. Austen Leigh, a hwyrach hefyd i raddau oddiar gydnabyddiad helaethach ar ran y cyhoedd â barn y beirniaid am dani, y mae y rhôd wedi troi a Jane Austen wedi dyfod allan o'i neillduaeth i gymeryd meddiant o'i hawliau. Yn awr, nid yn unig darllenir ei nofelau, ond y'maent wedi dyfod yn ffasiynol. Prawf fod awdwr wedi cyrhaedd y pinacl hwn o enwogrwydd ydyw ei weled wedi ei wisgo yn ngogoniant yr *editio de luxe*, nid yn gymaint er mwyn cael ei ddarllen ag er mwyn ei wneyd yn *drawing-room ornament.* Er nad ydym yn tybio y bydd gwell derbyniad i Jane Austen mewn siaced hardd a diwyg oreuredig, nid oes genym unrhyw wrthwynebiad i'w gweled yn cael ei harddangos yn ngwisgiad gwych y *Steventon Edition* (Bentley's). Fel prawf o'i phoblogrwydd nis gallwn wneyd yn well na dyfynu yr hanesyn a ganlyn allan o ragymadrodd Mrs. Richmond Ritchie (merch lêngarol William Makepeace Thackeray) i'w *Book of Sibyls* (Smith, Elder & Co.):—Ychydig amser yn ol yr oedd nifer o gyfeillion yn cydfwyta yn un o faesdrefi Llundain, pryd y dygwyddodd i un o honynt wneuthur cyfeiriad at Maple Grove a Selina, a gofyn ymha sir yn Lloegr y safai Maple Grove, yr oedd gan bawb ei olygiad yn union. Un yn unig o'r cwmni (Ffrancwr heb fod yn gydnabyddus â Saesoneg) oedd heb ddeall y cyfeiriad. Sylwodd boneddiges a eisteddai yn ymyl gŵr y tŷ, "Y fath arwydd hynod ydyw hyn o boblogrwydd cynnyddol Jane Austen! Dyma bump allan o chwech o bobl yn eistedd o gwmpas y bwrdd, yn agos i gan' mlynedd ar ol ei marwolaeth, yn adnabod ar unwaith gyfeiriad achlysurol at gymeriad di-nôd yn un o'i llyfrau." Nid rhyfedd fod yn ymddangos yn anmhosibl i Mrs. Ritchie "i adael allan enw anwyl Jane Austen o gyfrol yn ymwneyd â gwragedd a fuont yn ysgrifenu yn nechreu y ganrif bresennol." Heb i ni ymhelaethu ymhellach, tybiwn ein bod wedi dwyn ymlaen ddigon o dystiolaethau i brofi fod gan Jane Austen hawliau ar ein hystyriaeth, yn gystal ag ar ein hedmygedd. Yn y gobaith o dueddu darllenwyr Cymreig i wneyd ymchwiliad i'r cyfryw hawliau, yr amcanwn roddi braslinelliad brysiog o'i bywyd a'i gwaith.

Byr a syml ydyw cronicl ei bywyd. Mewn llyfryn bychan o waith un o'i neïaint, adroddir mewn modd tarawiadol a thlws hanes gyrfa y ferch rinweddol a'r awdures dalentog, enw yr hon a anwylid gan lawer

tra yr oedd ei hanes eto yn guddiedig. Fel ei hadroddir yn awr gan Mr. Austen Leigh, y mae yr hanes hwnw yn un tawel a phrydferth dros ben; ond bu raid i lenyddiaeth a'r byd aros yn hir cyn ei gael. Fel y sylwa yr awdwr, aeth hanner canrif heibio cyn iddo ef gael ar ei galon i wneuthur gwasanaeth mor deilwng ac mor ddyddorol. O angenrheidrwydd aeth llawer o ddefnyddiau ar goll, a diflanodd o'r bron bob cydnabyddiaeth gyfamserol. Gyda'r ychydig a roddwyd i ni fel hyn, a'r ychwanegiadau a geir ar wasgar yma ac acw, megys yn ysgrifau Miss Tytler ac eraill, yr ydym yn gorfod bod yn foddlawn a ffurfio oddiwrthynt goreu medrom ddarlun o un, yr hon, er yn gymharol adnabyddus i'w hoes a'i chenedlaeth ei hun, sydd yn siarad wrthym ni gyda grym cynnyddol canrif o arbrawf llwyddiannus.

Ganwyd Jane Austen ragor na chan' mlynedd yn ol, sef, i fod yn fanwl, ar yr unfed ar bymtheg o Ragfyr, 1775, yn mhersondŷ Steventon, Swydd Hants. Gellir yn briodol ddyweyd fod meddwl y nofelydd, fel meddwl y bardd, nid yn unig yn cael ei dueddu gan y dôn feddyliol o'i gwmpas, ond hefyd fod ei brofiadau a'i amgylchiadau personol yn cael llawer o ddylanwad ar yr hyn a ysgrifena. Gwyddys yn dda fod cysylltiadau cartrefol yn gystal â hanes rhamantus a rhamant hanesyddol ei wlad enedigol wedi effeithio yn ddwys ar feddwl Syr Walter Scott. Fel y ceisiwyd dangos mewn ysgrif flaenorol, cafodd mangre ei mabandod a golygfeydd ei hieuenctyd ddylanwad annileadwy ar feddwl George Eliot. Yr un modd yn ddiau y bu gyda Jane Austen. Y cartref tawel yn Hampshire, y teulu hapus a'i preswyliai, y cylch cymdeithasol dewisol ymha un y troai, y bywyd syml pentrefol a fwynhai, ynghyd a'r bywyd mwy bywiog a syrthiodd i'w rhan am yspaid byr yn ninas Bath—y rhai hyn a ffurfient y *frames* ymha rai y gesyd ei darluniau llenyddol. Gan hyny y mae rhyw gymaint o wybodaeth am ei chartref boreuol, ac o'r dylanwadau a fuont yn ffurfio ei chymeriad, yn gynnorthwyol os nad yn wir angenrheidiol i iawn ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'i nofelau a'r golygfeydd a bortreadir ynddynt.

Perthynai henafiaid ein hawdures i'r dosbarth hwnw o frethynwyr llwyddiannus a adnabyddid i'r oesau a fu fel y "Greycoats of Kent," y rhai, er yn perchen llawer o diroedd yn y Weald, ni thybient yn un iselhâd ymgymeryd â thrin gwlan gyda thrin tir. Cartrefent yn benaf yn nghymydogaeth Tenterden a Sevenoaks. Collodd George Austen, tad Jane, ei rieni cyn ei fod yn naw oed, ond dygwyd ef i fyny yn ofalus gan ei ewythr, Francis Austen, cyfreithiwr cyfoethog yn nhref Tunbridge. Wedi derbyn manteision addysg gartref, ac ennill ysgoloriaeth, anfonwyd ef i Rydychain, lle y daeth yn gymrawd o Goleg St. John. Yn 1764 ymgymerodd â'r dyledswyddau clerigol ynglŷn â bywiolaethau dau blwyf gwledig cysylltiol, sef Deane a Steventon. Milldir o ffordd yn unig oedd rhwng y ddau bentref, a thri chant oedd holl rif eu heneidiau; felly gormod fe allai fyddai edrych ar ddaliad y ddwy fywiolaeth fel achos difrifol iawn o "pluralism!" Wedi cael bywiolaeth, cymerodd wraig. Ymbriododd â Cassandra, merch ieuengaf y Parch. Thomas Leigh, yr hwn ar y pryd a ddaliai fywioliaeth golegawl Harpenden, pentref ychydig bellder o Henley-on-Thames. Brawd i Thomas Leigh ydoedd y Dr. Theophilus Leigh, a fu am dros hanner canrif yn llanw y swydd a lenwir yn awr gan Proffeswr Jowett. Gŵr oedd hwn, yn ol

desgrifiad Mr. Austen Leigh o hono, "more famous for his sayings than his doings," mwy nodedig ar gyfrif yr hyn a ddywedai na'r hyn a wnai. Yr oedd yn hoff neillduol o *jokes*, ond y *joke* oreu o'i eiddo ydoedd byw yn llawer hwy nag y dysgwylid iddo wneyd. Dywedir iddo gael ei ethol yn Feistr Balliol yn benaf o herwydd fod ei iechyd y fath ag a roddai i'w etholwyr le i obeithio y caent gyfleusdra cyn bo hir i ail-arfer eu hawliau. Ond wedi cael y swydd, bu Theophilus am dros hanner can' mlynedd cyn tynu ei draed i'r gwely i farw. Mae'n lled bosibl fod y wythïen arabeddus a redai drwy ei natur wedi ei hadgynnyrchu yn ei nith, Jane Austen; o leiaf yr oedd hi, yn gystal a rhai aelodau eraill o'r teulu, yn feddiannol ar ymsyniad bywiog o'r digrifol.

Am ddeng mlynedd ar hugain bu yr Austens yn preswylio yn Steventon, ac yno y treuliodd Jane Austen y chwarter canrif cyntaf o'i hoes. Derbyniodd ei haddysg o dan gyfarwyddyd ei thad, yr hwn oedd ŵr dysgedig a choeth. Yn mlynyddoedd cyntaf ei fywyd priodasol arferai Mr. Austen, fel llawer o'i gydglerigwyr, ychwanegu at ei incwm trwy gymeryd *pupils*. Ymhlith y rhai hyn ar un adeg yr oedd mab bychan i'r enwog Warren Hastings, yr hwn pe cawsai estyniad bywyd a allasai fod yn foddion i arwain Jane Austen at gymeriadau y Saeson Indiaidd, o'r rhai yn ddiweddarach y gwnaethpwyd defnydd mor hapus gan Thackeray. Yr oedd ei theulu ei hunan mor bwysig yn ngolwg Jane Austen, a'r byd oddiallan mor gymharol ddibwys, fel mai dymunol ydyw gwneuthur crybwylliad byr am ei chwaer a'i brodyr, er cael syniad cyflawnach am y gwrthddrychau oedd yn cael y lle penaf yn ei meddwl a'i chalon. Y mae hyn yn fwy angenrheidiol am fod pob lle i gredu fod amryw o aelodau y teulu, o herwydd eu galwedigaethau, wedi dylanwadu i raddau helaeth ar greadigaeth cymeriadau ei nofelau. Yr oedd iddi bump o frodyr ac un chwaer. Dywedir fod James, y mab hynaf, yr hwn yn ddiweddarach a gymerodd urddau, ac a ddilynodd ei dad yn mywiolaeth Steventon, yn dra chyfarwydd â llenyddiaeth Seisonig, ac yn ysgrifenydd rhwydd mewn barddoniaeth a rhyddiaith. Tra eto yn efrydydd yn Rhydychain cychwynodd gyfnodolyn bychan ar gynllun y *Spectator*, dan yr enw *The Loiterer*. Fel y rhan fwyaf o'r cyfnodolion colegawl bu fyw am yspaid byr, ac yna diflanodd. O ran oedran, yr oedd y brawd hwn ddeng mlwydd yn hŷn na Jane, a bu yn foddion i gryn fesur i reoli ei hefrydiau ac i ffurfio ei chwaeth. Cafodd yr ail frawd, Edward, ei ysgaru oddiwrth y teulu yn moreu ei oes, trwy iddo gael ei fabwysiadu gan ei gefnder, Mr. Knight, o Godmersham Park, swydd Kent, a Chawton House, swydd Hants. Yn ddiweddarach mabwysiadodd yntau enw ei fabwysiedydd, ac ymhen amser perchenogodd ei etifeddiaeth. Yn niwedd ei hoes dygwyd Jane i gysylltiad agosach â'r brawd hwn, ac ymgylymodd ei serchiadau yn dŷn am dano ef a'i blant. Gŵr o dueddiadau cymdeithasol ydoedd y trydydd brawd, Henry, a hoffid ef yn fawr ar gyfrif ei gwmnïaeth ddyddan. Ymddengys fodd bynag ei fod ychydig yn ansefydlog, o leiaf ni bu cwrs ei fywyd mor llwyddiannus a'r eiddo y brodyr eraill. Pan yn ŵr canol oed ymgymerodd â dyledswyddau clerigol yn y Brifddinas, a bu yn ddefnyddiol fel cyfrwng cydrhwng ei chwaer, yr awdures, a'i chyhoeddwyr. Dilynai y ddau frawd ieuengaf, Francis a Charles, eu gorchwylion ar y môr, fel swyddogion yn Llynges ei Mawrhydi. Buont

ill dau fyw yn ddigon hir i gael eu gwneyd yn Ben-Llyngeswyr *(Admirals)*. Nodweddid Francis gan sefydlogrwydd cymeriad ac ymroddiad i ddyledswydd. Hynodid ef ar gyfrif crefyddolder ei ysbryd, pan yr oedd proffes grefyddol yn beth anghyffredin yn y Llynges. Mewn un orsaf lyngesol adwaenid ef fel y swyddog a benliniai yn yr Eglwys! Hoffid Charles yn fawr yn ei deulu yn gystal ag ymhlith ei gydforwyr ar gyfrif ei natur addfwyn a'i dymher serchog, yn yr hyn yr ymdebygai i Jane. Bu farw mewn oedran teg o'r *cholera*, tra yn gwasanaethu ei wlad yn Burmah. I yrfa anrhydeddus y ddau frawd hyn y gellir priodoli hoffder ein hawdures o'r Llynges a'i swyddogion, ynghyd a'r parodrwydd a'r cywirdeb gyda pha rai yr ysgrifena am danynt yn *Mansfield Park* a *Persuasion*. Anaml iawn y byddai Jane Austen yn myned tu allan i gylch ei gwybodaeth bersonol; er enghraifft, nid ydyw yn treiddio ond yn anfynych i rodfeydd llychlyd y gyfraith, nac yn ymdroi ond ychydig yn nyrys lwybrau gwleidyddiaeth; ond gyda'r morwyr a'u llongau teimlai yn hollol gartrefol; ac y mae beirniadaeth brodyr fel rheol yn garedig. Ond o holl aelodau y teulu ymserchai Jane yn fwyaf neillduol yn ei chwaer Cassandra. Wedi dechreu fe allai yn yr ymddibyniad naturiol a deimlai fel plentyn serchus tuag at ei chwaer hynaf (yr oedd Cassandra dair blwydd yn hŷn na Jane) parhaodd yr ymlyniad mwyaf tyner a'r ymddiried mwyaf llwyr cydrhyngddynt wedi iddynt gyrhaedd oedran. Hyd yn nod yn addfedrwydd ei galluoedd ac yn y mwynhâd o lwyddiant ac enwogrwydd llenyddol, ni phallodd Jane a pharchu a chanmawl daioni a doethineb Cassandra. Yn nyddiau eu plentyndra, pan anfonwyd y chwaer hynaf i'r ysgol yn Reading, aeth yr ieuengaf gyda hi, nid am ei bod mewn oedran cyfaddas i dderbyn yr un addysg, ond am y buasai yn hollol druenus heb gwmni ei chwaer. Sylwai ei mam ar y pryd, "Pe buasai Cassandra yn myned i gael tori ei phen ymaith, buasai Jane yn hawlio yr un dynged." Mae yn bleser gwybod na thorwyd ac na wanychwyd yr ymlyniad serchlawn nes i farwolaeth eu hysgaru. O ran cymeriad yn gystal ag o ran ymddangosiad yr oedd y ddwy chwaer ychydig yn wahanol. Ymhlith y teulu arferid sylwi fod Cassandra yn meddu y rhagoriaeth o gadw ei thymher bob amser o dan reolaeth, ond fod Jane yn hapus yn y meddiant o dymher nad oedd angen ei reoli.

Yn y cylch teuluaidd hwn a'r ychwanegiadau a wnaethpwyd ato o dro i dro yn nghwrs natur, y treuliodd Jane Austen ei dyddiau, gan fwynhâu ei bleserau a gofalu yn ffyddlawn am ei ddyledswyddau. Am y deng mlynedd diweddaf o'i hoes, prin y gellir dyweyd iddi fyned y tu allan i'w gyffiniau o gwbl. Nis gellir ammeu am foment fod amgylchiadau hapus ei bywyd cartrefol wedi dylanwadu yn ddirfawr arni yn ffurfiad a chyfansoddiad ei nofelau. Mewn cylchoedd teuluaidd, gan amlaf, y mae yn gweithio allan i'w therfyniad y drama a ddygid i fôd yn myd ei meddwl; ac nid ydyw un amser yn anghofio gwneuthur defnydd helaeth o gyd-berthynas ei chymeriadau. Fe ddylid cofio, o'r ochr arall, os oedd y cylch cymdeithasol y troai ynddo braidd yn gyfyng, ei fod yn cynnwys llawer o bersonau o chwaeth uchel ac o feddwl diwylliedig; mewn gair, ei fod yn cyfateb i'r un a ddesgrifir yn ei gweithiau.

Gan fod mwy na hanner oes Jane Austen ar y ddaear wedi ei dreulio

yn Steventon, hwyrach mai priodol eto fyddai dyweyd gair neu ddau am y lle. Pentref bychan gwledig yw Steventon, yn sefyll ar un o'r bryniau distadl sydd yn harddu ac yn amrywio yr olygfa yn un o ddyffrynoedd Gogledd Hants, oddeutu saith milldir o ffordd o dref Basingstoke. Yn mhen y dyffryn cul, y tu hwnt i'r ychydig dai amgylchynedig â gerddi a ffurfient y pentref, safai yr hen bersondy. Y pryd hwnw yr oedd yn dŷ o fri, er gwaethaf ei drawstiau moelion a'i ymddangosiad llwyd a diaddurn; erbyn hyn y mae yntau fel yr eglwys wedi gorphen eu gwaith, "a'u lle nid edwyn ddim o honynt mwyach." Cyfrifid fod yr eglwys yn nyddiau Jane wedi cyrhaedd ei seithfed ganrif o wasanaeth fel lle o addoliad, ac fel esiampl ddyddorol o'r *Early English Style.* Yr oedd gryn bellder oddiwrth y tai, a chydweddai ei hunigrwydd â thawelwch dystaw gorphwysfan y meirw. Dan gysgod ei muriau tyfai y briallu a'r meillion, a chysgodid beddau ei mynwent gan gangau yr yw. Ond nid yn y persondy ac nid yn yr eglwys y gorweddai gogoniant Steventon, eithr yn y meusydd coediog a'r gwrychoedd deiliog o'i amgylch. Rhwng y gwrychoedd yr oedd rhodfeydd mwsoglyd wedi eu britho â blodau, "a wilderness of beauty studded with primroses, anemones, and wild hyacinths." Yr oedd dwy rodfa o'r fath yn ymyl y persondy, a gwna Jane Austen ddefnydd o honynt ar adegau pwysig mewn dwy o'i nofelau. Mewn llanerch o'r fath ag a geiswyd ddesgrifio y magwyd ac y meithrinwyd ei hathrylith, yno yr ysbrydolwyd ei chalon ieuanc gyntaf â chariad at natur ac ymdeimlad o'i phrydferthwch, yno yr ymwelwyd â'i meddwl â'r myrdd dychymygion a raddol gymerasant iddynt eu hunain y ffurfiau yn y rhai yr adwaenir hwy i'r byd, ac yno hefyd y dygodd ei chalon a'i dychymyg o dan lywodraeth y duwioldeb syml a reolai ei bywyd, ac a'i cysurai yn awr marwolaeth. Bu y teulu fyw am amser maith yn Steventon heb i gwmwl o un math dduo nemawr ar eu hawyrgylch. Achoswyd galar i Cassandra trwy farwolaeth un oedd yn anwyl ganddi, a diau i'w chwaer gyd-ddyoddef â hi; ond gyda hyn o eithriad ni flinwyd hwy gan siomedigaethau trymion. Hyd y gwyddys, ni bu Jane erioed yn gaeth yn rhwymau serch, o leiaf bu fyw a marw yn ddibriod.

Ymhlith cydnabod ac ymwelwyr cyson teulu Steventon, dylid enwi Edward a Jane Cooper, plant i'r Parch. Dr. Cooper o Sonning. Preswyliai y rhai hyn ar y pryd yn Bath (prif gyrchfan clerigwyr wedi rhoddi i fyny eu bywiolaethau). Y mae yn dra thebygol mai trwy ymweliadau â hwy y daeth Jane mor drwyadl gydnabyddus â lleoliad ac arferion y dref nodedig a enwyd, yr hyn a'i galluogodd i ysgrifenu *Northanger Abbey,* lle gosodir y golygfeydd dechreuol yn Bath, ymhell cyn iddi fyned yno i fyw. Yn mhennodau diweddaf *Persuasion* yr ydym yn cael golwg arall ar y dref, seiliedig ar brofiad meithach o honi, ac yn arddangos cyfnewidiad mawr mewn barn ar ran ein hawdures. Perthynas arall a fu yn foddion i ddwyn amrywiaeth i'r cylch teuluaidd ydoedd merch i unig chwaer Mr. Austen. Derbyniodd y gyfnither hon ei haddysg yn Paris, lle yr ymbriododd â'r Count de Feuillade, yr hwn a ddienyddiwyd yn ystod y Chwyldroad Mawr. Meddai hi lawer o gymhwysderau, a diau ei bod yn gaffaeliad nid bychan i gymdeithas gyfyngedig y persondy gwledig. Iddi hi, mae'n

debyg, y bu y chwïorydd yn ddyledus am eu gwybodaeth gywir o'r Ffrancaeg; ac i waith y *Countess*—wedi hyny Mrs. Henry Austen—yn cychwyn "private theatricals" y gellir priodoli y darlun a geir o honynt yn *Mansfield Park*, lle gyda llaw y mae Jane braidd yn anghymeradwyo difyrwch a ystyrir bellach yn un pur ddiniwed.

Fel ei chwaer-awdures, Charlotte Brontë, dechreuodd Jane Austen gyfansoddi yn lled foreu. Y mae ar gael heddyw hen ysgrif-lyfr yn cynnwys amryw o chwedlau wedi eu hysgrifenu pan nad ydoedd eto ond plentyn. Er wedi eu hamcanu i fod yn hollol ddigrifol, dywedir eu bod wedi eu hysgrifenu gyda llawer o fywiogrwydd mewn iaith gref a choeth. Cydrhwng y cynnyrchion plentynaidd hyn a'r cyfansoddiadau addfed sydd yn ein meddiant ni, bu cyfwng yn ystod yr hwn yr ysgrifenwyd amryw chwedlau yn meddu rhagoriaethau, ond heb fod yn marn eu hawdwr i fyny â safon cyhoeddiad. Yn y rhai hyn, yn lle rhoddi portread ffyddlawn o natur a chymdeithas o'i chwmpas, ymroddai i ddigrif ddarlunio nofelau y dydd gyda'u dygwyddiadau anhygoel a'u syniadau eithafol. Yn ffodus i ni, gadawodd heibio y dull hwn o ysgrifenu, a gwnaeth ei theulu yn ddoeth i beidio cymylu ei henwogrwydd trwy gyhoeddi yr ymdrechion boreuol hyn o'i heiddo. Pan gyrhaeddodd ei llwyddiant, arferai ddyweyd y buasai yn well iddi fod wedi darllen mwy ac ysgrifenu llai yn moreu ei hoes. Gyda golwg ar ei gwybodaeth a'i chyrhaeddiadau, yr ydoedd yn dra hyddysg yn hanesiaeth a llenyddiaeth Seisonig ei dydd. Darllenodd lawer ar Addison, Steele, Pope, a'r hen draethodwyr a'u dilynwyr. Edmygai yn neillduol weithiau Johnson, Crabbe, a Cowper. Meddai gydnabyddiaeth drylwyr o nofelau Samuel Richardson, a mwy nag unwaith dengys ei bod yn gallu gwerthfawrogi yr hyn oedd oreu yn ffugchwedlau Mrs. Radcliffe, Madame D'Arblay, a Miss Edgeworth. Teimlai hyfrydwch neillduol wrth ddarllen gweithiau barddonol Syr Walter Scott. O nofelau "dewin y Gogledd," nid oedd ond *Waverley*, *Guy Mannering*, a'r *Antiquary* wedi ymddangos cyn ei marwolaeth. Er hyny yn un o'i llythyrau, cawn ei bod yn berffaith barod i gydnabod rhagoriaethau yr awdwr, ac y mae yn gryn syndod, gan ei bod yn byw ymhell o gyrhaedd *gossip* llenyddol ei dydd, ei bod yn teimlo yn sicr mai Syr Walter Scott oedd yr awdwr anadnabyddus. "Ni ddylai Walter Scott ysgrifenu nofelau," meddai, "yn enwedig rhai da. Nid ydyw yn deg iddo wneuthur hyny. Y mae iddo enwogrwydd ac elw digonol fel bardd, ac ni ddylai gymeryd y bara allan o enau pobl eraill. Nid wyf yn bwriadu hoffi *Waverley* os gallaf helpio fy hunan; ond yr wyf yn ofni nas gallaf beidio!" Gyda golwg ar ieithoedd tramor, meddai wybodaeth eang, fel y sylwyd, o'r Ffrancaeg, ac adnabyddiaeth arwynebol o'r Italaeg. Mewn cerddoriaeth gallai chwareu yn fedrus a chanu yn weddol. Yr oedd yn nodedig o barod gyda'i dwylaw, a rhagorai mewn chwareuon a ofynai am eu cynnorthwyo. Sylwir ei bod yn hoff o ysgafnhâu ei llafur trwy ymroddi am yspaid i law-chwareuon. Oddiwrth esiampl o'i llawysgrif sydd yn ein meddiant, gwelir ei bod yn ysgrifenu mewn dull eglur a chadarn, mewn gwrthgyferbyniad i'r arddull hirfain a elwid yn *elegant* y dyddiau hyny. Yr oedd hefyd yn gyfarwydd â holl waith edau a nodwydd, ac ni phetrusai arfer ei hamser hamddenol i wnïo dillad i dlodion yr ardal yn gystal ag i wneuthur yr hyn oedd yn angen-

rheidiol yn yr un cyfeiriad iddi ei hun. Mae dyrysni dilladaeth benywaidd yr oes hon yn gofyn am y *modiste* a'r *man-milliner* i ddyfod i ben â'u dirgelion! Yr oedd ein harwres yn hoff nodedig o blant, ac yn cael ei hoffi yn fawr ganddynt; gallai adrodd chwedlau yn ddiderfyn, a myned i mewn i ysbryd pob chwareu gyda zel a brwdfrydedd plentyn. O ran person yr oedd yn hawddgar; yn dàl a lluniaidd o gorff, yn ysgafn ei cherddediad, ac yn llawn bywiogrwydd a thymher dda, fel y gweddai i awdures mor ddengar fod.

Y mae ymadawiad â chartref mebyd yn gyffredin yn dwyn gofid i bob person o deimladau serchog a dychymyg bywiog, ac nid rhyfedd i Jane Austen deimlo yn dra anhapus pan y dywedwyd wrthi fod ei thad, yr hwn oedd erbyn hyn dros 70 mlwydd oed, wedi penderfynu rhoddi i fyny fywiolaeth Steventon yn ffafr ei fab hynaf, a neillduo gyda'i wraig a'i ddwy ferch i Bath. Rhaid cofio bob amser ynglŷn â Jane Austen mai yn Steventon y gosodwyd i lawr seiliau ei henwogrwydd. Yno y cyfansoddwyd llawer o'i gwaith mwyaf llwyddiannus, a hyny mewn oedran pan yr ymddengys i ni yn hynod fod un mor ieuanc yn meddu y fath welediad sicr i amcanion a thueddiadau pobl a'r sylwadaeth fanwl o'u harferion a amlygir ynddynt. Ysgrifenwyd dwy o'i phrif nofelau cyn ei bod yn dair ar hugain oed. *Pride and Prejudice*, yr hon a ystyrir gan rai y fwyaf dysglaer o'i holl weithiau, oedd y gyntaf a gwblhäwyd, os nad y gyntaf a ddechreuwyd. Ysgrifenwyd hi yn yr yspaid cydrhwng Hydref 1796 ac Awst 1797. Dechreuwyd ar *Sense and Sensibility* yn ei ffurf bresennol yn niwedd 1797, a gorphenwyd hi yn 1798, ond bernir ei bod yn cynnwys rhanau o gyfansoddiad blaenorol a elwid *Ellinor and Marianne*. Os felly, rhaid ei bod yn cynnwys yr enghraifft gyntaf o waith Jane Austen a roddwyd i'r byd. Ni pharotowyd *Northanger Abbey* i'r wasg hyd 1803, ond gosodwyd y chwedl hon hefyd wrth ei gilydd yn 1798.

Yn dra gwahanol i Charlotte Brontë, ysgrifenai Jane Austen gyda hollol gymeradwyaeth ei theulu, ond trôdd ei hymgais cyntaf hithau at gyhoeddi ei gwaith yr un mor siomedig. Rhoddodd ei thad gynnyg rhesymol i Mr. Cadell i gyhoeddi *Pride and Prejudice*, un o'r nofelau goreu yn ddiau yn yr iaith Saesoneg, ond gwrthodwyd y cynnygiad yn ddiseremoni. Ymddygwyd yn fwy diraddiol drachefn at *Northanger Abbey*. Gwerthwyd y chwedl hon yn 1803 i gyhoeddwr yn Bath am y swm cymedrol o ddeg punt. Ar ol gorwedd yn anghyhoeddedig yn ei swyddfa am lawer o flynyddoedd, prynwyd hi yn ol gan un o frodyr yr awdures am yr un swm ag a dalwyd am dani. Wedi gorphen yr adbryniad cafodd Mr. Austen yr hyfrydwch o hysbysu y cyhoeddwr siomedig ei fod wedi gwrthod un o weithiau awdures boblogaidd *Pride and Prejudice*. Cyhoeddwyd y chwedl, ynghyd a *Persuasion*, gan ei pherthynasau wedi marwolaeth Jane Austen. Yn ngwyneb aml fethiant cyhoeddwyr i iawn brisio gweithiau athrylith, gall ambell i ymgeisydd llenyddol gymeryd cysur. Y mae golygwyr a chyhoeddwyr cyn hyn wedi gwrthod yn ddi-ddiolch rai o *masterpieces* y byd llenyddol. Fe aeth *Robinson Crusoe* yn ol ac ymlaen trwy holl gylch y frawdoliaeth gyhoeddiadol cyn y cafwyd un cyhoeddwr digon gwrol i wastraffu ychydig bapyr ac inc arno. Aeth Carlyle gymaint dan y gwellaif golygyddol cyn ei ymddangosiad yn yr *Edinburgh Review*, fel y methai

a'i adnabod ei hun. "Rejected with thanks," ac yn rhy aml "without thanks," yw y ddedfryd sydd wedi ei chyhoeddi ganwaith uwch ben cynnyrchion athrylith. Ond ymhlith y miloedd gwrthodedigion nid yn aml y ceir y fraint o wrthod ail *Robinson Crusoe* neu gymhar i *Pride and Prejudice*.

Symudodd yr Austens i Bath yn ngwanwyn 1801, pan oedd Jane yn 26 oed. Pa faint bynag allai fod attyniad y lle iddi yn adeg ei hymweliadau boreuol, mae'n lled sicr nad ydoedd yn ei gymeradwyo fel lle i aros ynddo ar ol iddi gyrhaedd oedran addfetach; ond gan nad oedd eto ond geneth ieuanc, gyda llawer o brydferthwch a mwy o siriol-deb, nid ydyw yn debyg iddi fethu a mwynhâu swynion y lle a elwir gan Miss Mitford, "the Baden-Baden of its day." Pa un ai aflwydd-iant ei cheisiadau blaenorol, ynte pwysau rhwymedigaethau newyddion ydoedd yr achos nis gwyddom, ond nid ymddengys iddi ychwanegu nemawr at ei gwaith llenyddol yn ystod pedair blynedd ei harosiad yn Bath. Yn 1804 ni a'i cawn yn talu ymweliad â Lyme, ymdrochle bychan a anfarwolwyd ganddi yn *Persuasion*. Yn Chwefror 1805, bu ei thad, yr hwn a gymerai y dyddordeb dyfnaf yn ei gwaith, farw cyn gweled gwawr y llwyddiant oedd i ddyfod. Symudodd Mrs. Austen a'r ddwy ferch yn lled fuan o Bath i Southampton, lle yr arosasant am bedair blynedd eraill. Yr ydym wedi bod yn fanwl o berthynas i'r symudiadau hyn am eu bod yn cynnrychioli yr oll o'r cyfleusderau a gafodd Jane Austen i weled ac adnabod y byd mawr tu allan i gylch ei theulu ei hunan. Ei bod wedi gwneuthur defnydd rhyfeddol o'r ychydig gyfleusderau a estynwyd iddi a brofir yn ei nofelau. Ymddengys fod y pwys gyda golwg ar hyn yn gorwedd nid yn gymaint yn yr hyn a welir ag yn y modd yr edrychir arno.

Yn 1809 symudodd Jane Austen, ynghyd a'i mam a'i chwaer, i gartref newydd a barotowyd ar ei chyfer gan Edward Knight, yr ail frawd, yn Chawton, pentref heb fod yn neppell o Steventon, ei chartref genedigol. Er nad oedd Chawton Cottage yn wych nac yn addurniadol, gwnai gartref hynod gysurus i foneddigesau yn amgylchiadau yr Austens. Heblaw hyny, i Jane yr oedd yn dŷ iddi ei hun, ymhlith ei phobl ei hunan, yr hyn oedd yn beth pwysig yn ei golwg. Gellir edrych ar Chawton nid yn unig fel ei hail gartref, a'i chartref diweddaf ar y ddaear, ond fel y man sydd, yn ail i Steventon, yn meddu y cysylltiad agosaf â'i gyrfa lenyddol, oblegid yno, wedi cyrhaedd addfedrwydd meddyliol, naill ai yr ysgrifenodd neu yr ad-drefnodd y llyfrau hyny a'i gwnaeth yn adnabyddus i'r byd. Gan fod cymaint wedi ei barotoi, pan unwaith y dechreuodd gyhoeddi daeth ei llyfrau allan o'r wasg, y naill ar ol y llall, gyda chyflymdra. Cyhoeddwyd *Sense and Sensibility* yn 1811, a *Pride and Prejudice* yn 1813. Dechreuwyd ysgrifenu *Mansfield Park* yn 1812, ac ar ol gweithio gyda hi o dan lawer o anfanteision yn yr ystafell gyffredin, ac yn nghanol gorchwylion eraill, gorphenwyd a chyhoeddwyd hi yn 1814. Dygwyd *Emma*, yr olaf o'i gweithiau a welodd yr awdures trwy y wasg, allan yn 1816, gyda chyflwyniad i'r Prince Regent, wedi hyny Sior IV., am yr hwn yr ysgrifenodd Thackeray, "I look through all his life, and recognise but a bow and a grin. I try and take him to pieces and find silk stockings, padding, stays, under-waistcoats, more under-waistcoats, and then nothing." Yr

oedd efe yn noddwr hynod, rhaid addef, i nofelau moesol awdures mor rinweddol a Jane Austen. Er fod ei nofelau erbyn hyn yn tynu sylw, yr oedd yr awdures ei hun yn anadnabyddus. Tra y cawn fod awduresau eraill sydd yn awr yn llai eu nôd, megys Madame D'Arblay, Mrs. Barbauld, Mrs. Opie, a Miss Edgeworth, yn cael eu canmawl a'u cymeradwyo gan *wits* a llenorion eu dydd, nid ydym yn cael i nofelau Jane Austen ychwanegu nemawr at gylch ei chydnabod. Hwyrach fod ychydig o esgusawd dros ddyweyd iddi adael i ofynion teuluaidd gulhâu ei theimladau nes peri i'w chariad i fesur, nid yn unig ddechreu ond diweddu hefyd gartref. Yn ystod y flwyddyn 1816 ysgrifenodd *Persuasion*, yr hon ynghyd a *Northanger Abbey* a gyhoeddwyd yn 1818. Hysbysir i ni mai yr hyn a ennillodd oddiwrth ei llyfrau yn ystod ei bywyd ydoedd £700. Darfu i lawer o'i chyd-ysgrifenwyr, enwau y rhai sydd heddyw bron wedi eu hanghofio, gasglu llawer mwy o elw; ond nid wrth daliad arianol, mwy nag wrth ffafr y cyhoedd, y mae mesur bob amser deilyngdod llyfr. Oni thalwyd deng mil o bunnau am *Endymion*, tra y gwerthwyd y *Vicar of Wakefield* am driugain punt? Y mae amser a phrofiad erbyn hyn wedi estyn i Jane Austen y warogaeth gyfiawn a wrthodwyd iddi gan ei chydoeswyr.

Tra yr ydoedd eto yn ysgrifenu *Persuasion*, taflai afiechyd nychlyd ei gysgod tywyll dros fywyd ein hawdures. Hwyrach mai i hyn y gellir priodoli y difrifwch tyner sydd yn rhedeg drwy y nofel. Fel George Eliot, meddai safon uchel yn ol pa un i farnu teilyngdod ei gwaith llenyddol. Yn anfoddlawn i'r dull a gymerasai i weithio allan derfyniad *Persuasion*, dywedir iddi yn nghanol gwaeledd a gwendid corfforol godi oddiar wely cystudd, gwneyd i ffordd âg un o'r pennodau, ac ysgrifenu dwy newydd yn ei lle, a hollol gyfnewid y terfyniad er gwell. Arddengys hyn ffyddlondeb i'w chelfyddyd a gofal am ei henw da a werthfawrogir gan bwy bynag sydd yn gyfarwydd â'r llafur gofidus sydd yn myned i wneuthur cyfnewidiadau o'r fath. Gan ymdrechu yn galed yn erbyn y clefyd a fu yn angeu iddi, dechreuodd nofel arall; ac yn nghanol ei saldra ysgrifenodd rai o'i llythyrau mwyaf dyddorol. Ond aeth yr ymdrech yn galetach, a pherswadiwyd hi i fyned i Winchester i ymgynghori â meddyg medrus. Aeth ei chwaer ffyddlawn, Cassandra, gyda hi; a'r hon a fuasai yn gynllun perffeithrwydd gyntaf i'r eneth fach, yr hon a'i gwyliodd yn holl droion deugain mlynedd, yr hon a fu yn geidwad i'w holl gyfrinach o berthynas i'w gwaith, yr hon ymhob peth a gyd-ddyoddefodd ac a gyd-lawenychodd â hi, hon hefyd a wyliodd ei horiau olaf ac a esmwythaodd ei gobenydd pan yn marw. Mewn hedd a thawelwch hunodd ar y 18fed o Gorphenaf, 1817, yn yr oedran cymharol ieuanc o 42. Claddwyd hi ar y 24ain o'r un mis yn Eglwys Gadeiriol Winchester, gyferbyn â bedd William o Wykeham, lle yn ddiweddar y codwyd cofadail iddi gan awdwr y Cofiant sydd yn sail i hyn o sylwadau. Fel hyn y bu farw awdures dalentog ac athrylithgar, a Christion gostyngedig a chrediniol. Aeth Charlotte Brontë o'r byd gan ddyheu am gael aros ynddo; aeth George Eliot allan o hono gan adael yn unig "ei dylanwad." Mae y cyferbyniad rhwng yr ymadawiadau yn llawn addysg. Treuliodd Jane Austen ei bywyd yn nghyflawniad dyledswyddau ei chartref ac yn meithriniad serchiadau teuluaidd, heb un dyhead hunan-geisiol am gymeradwyaeth y lliaws.

Parhaodd tynerwch ac addfwynder ei hysbryd yn ddifwlch hyd y diwedd. Pan ofynwyd iddi yn ei horiau olaf a ydoedd mewn angen am rywbeth, ei hateb tawel ydoedd, "Dim ond cael marw;" ac felly yr ymadawodd.

## II.

Hyderwn ein bod i raddau trwy yr amlinelliad a roddwyd o hanes bywyd gwrthddrych ein hysgrif, wedi dynodi rhai o'i phrif nodweddion llenyddol. Yn yr hyn sydd yn ol nid ydym am wneuthur unrhyw ymgais tuag at roddi beirniadaeth ar ei nofelau. Ychydig o sylwadau mewn ffordd o gyfiawnhâu yr hyn a ddywedwyd eisoes, ydyw yr oll a amcenir gynnyg. Gwyddom fod rhai edmygwyr brwdfrydig o weithiau Jane Austen yn barod i ddyweyd fod astudiaeth o'i nofelau, ar rai cyfrifon, fel y dywedwyd am gymdeithas awdures Ffrengig enwog, cystal â chwrs o addysgiaeth ar y raddfa eangaf; ac wedi myned mor bell ag i awgrymu fod gwerthfawrogiad priodol o honynt yn brawf o feddwl a diwylliant. A chaniatâu fod eu hedmygedd yn eu harwain i eithafion, fe erys cryn lawer o wirionedd yn yr honiad. Heb amddiffyn y bleidiaeth ddall sydd yn hawlio iddi nodweddion cyffredinol anghymharol, gellir cydnabod ei bod, yn ei ffordd ac yn ei chylch ei hun, yn tynu at berffeithrwydd. Yn amrywiaeth ei chymeriadau—er eu bod oll o'r bron mewn un dosbarth ac yn gweithredu o dan yr un amgylchiadau, yr hyn a wna yr amrywiaeth yn llawer mwy nodedig; yn y dyddordeb bywiog a gynnyrcha trwy foddion hollol gyfreithlawn; yn y cywreinrwydd celfydd a pha un yr ymdrinia â dygwyddiadau cynnefin; yn mharodrwydd ei gwatwareg chwareus a'i harabedd difyrus; ac yn y gallu i gyfleu a threfnu ei defnyddiau i ateb pwrpas penodol, saif ar uwch tir ond odid na neb o'i chydymgeiswyr. Perthyna y bobl a ddygwyd i fôd gan ei dychymyg i fyd sydd yn berffaith adnabyddus i ni. Er fod diwyg a dull amser a fu yn glynu wrthynt, y maent yn fwy byw yn ein golwg na channoedd o bobl sydd yn bod ac yn symud yn ein hymyl. Ymddangosant i'n meddwl fel pe na byddent ond ein cydnabod agosaf wedi eu trawsblanu i oes arall, a'u dilladu mewn dillad nad adwaenom, ond er hyny heb eu cyfnewid. Mor naturiol ydynt yn yr oll sydd yn gwneyd i fyny ddynoliaeth, fel y tybiwn, wrth edrych arnynt, eu bod ar lamu o'r llyfr i'n cyfarfod,—rhywbeth yn debyg i'r dybiaeth a'n llanwai wrth edrych ar *relievos* Ysgrythyrol Mr. George Tinworth dro yn ol yn Arddangosfa y *Fine Art Society*. Ac eto ni fuont fyw yn weithredol oddigerth yn nychymyg bywiog y foneddiges hynaws a eisteddai i lawr yn nghanol gorchwylion teuluaidd yn yr ystafell gartrefol yn Steventon, neu Chawton, i roddi i'r byd esiampl o greadigaethau athrylith a ddoniwyd gan Dduw. Ond nid yn unig gwahaniaethir a bywheir pob cymeriad a grëwyd gan Jane Austen, ond adroddir eu hanes gyda'r manylrwydd sydd yn codi o lawnder gwybodaeth yn eu cylch. Llywodraethir eu mynediad a'u dyfodiad, eu hamseroedd a'u lle, gyda meistrolaeth sicr a chywirdeb difeth. O ran ei galluoedd trefniadol, saif yr awdures yn rhestr flaenaf nofelwyr pob oes. Y mae holl ddygwyddiadau ei nofelau yn trefnu eu hunain mor fywiog ac mor naturiol yn myd ei meddwl fel pan ddaw i'w des-

grifio i'w darllenwyr, y maent nid yn unig yn eu darllen ond yn eu gweithredu wrth fyned ymlaen, yn gwneyd eu hunan mewn ystyr yn un â'r hanes. Ni raid i ragoriaethau nofelau o'r fath hyn wrth eiriau canmoliaeth; ond eu darllen, fe'u teimlir. Wrth edrych ar y byd trwy lygaid Jane Austen, ymddengys yr awyrgylch yn hollol glir. Y mae y darlun o'n blaen mor berffaith fel yr ydym yn anghofio cydnabod yr arlunydd; y mae mor hollol wir a hollol naturiol fel yr ydym yn ei dderbyn fel "un o'r pethau sydd." I rai pobl nid ydyw hyn ond yr un peth a dyweyd ei fod yn annyddorol! Y mae dosbarth mawr o ddarllenwyr, ysywaeth, wrth y rhai nid ydyw natur un amser yn siarad yn eglur, os yn siarad o gwbl. Pobl ydynt nas gwelant brydferthwch y lili nes ei phaentio! I'r cyfryw rai nid ydyw bywyd gwirioneddol yn ddigon byw—yn ddigon *intense*, fel y byddant yn arfer dyweyd. Nid ydynt yn canfod prydferthion natur nac yn deall harddwch bywyd o honynt eu hunain. Rhaid cyfieithu natur a bywyd i iaith fwy deall-adwy iddynt, iaith y *scene-painter* a'r *lime-lighter*, yna hwy dybiant eu bod yn ymdeimlo â'r naill ac yn adnabod y llall. Pobl ddall, pobl fud, pobl fyddar ydynt, yn rhodio trwy fywyd heb fod ynddo, yn byw ar drugaredd eraill, ac o angenrheidrwydd yn cael eu siomi. Nid ar gyfer y cyfryw yr ysgrifenodd Jane Austen ei chwedleuon. Nis gellir dysgwyl iddynt weled, llawer llai werthfawrogi, y darluniau celfydd sydd i'w cael ynddynt. Nid iddynt hwy gan hyny y dymunwn ar-gymhell astudiaeth o'i gweithiau, gyda'u harabedd tawel, eu gwirionedd pur, eu beirniadaeth dyner, eu gwatwareg ysgafn, eu tôn gymedrol, a'u harddull glasurol. Yn hytrach apeliwn at y dosbarth hwnw sydd yn gosod pris ar fywyd a gwerth ar wirionedd, gan ymdrechu deall y naill a chyrhaedd y llall. Bydd i'r cyfryw gael allan yn fuan, er nad oes yn ei chymeriadau ddim ar yr olwg gyntaf i'w gwahaniaethu oddiwrth y cyffredin, eu bod wedi'r cyfan yn llawn o elfenau dyddordeb i bwy bynag a allo wahaniaethu a gwerthfawrogi nodweddion arweiniol y natur ddynol.

Yn awr ni a daflwn gipolwg dros y nofelau, gan ddechreu gyda *Pride and Prejudice*. Gosodiad cychwynol y chwedl ydyw "ei fod yn wirion-edd addefedig fod pob gŵr ieuanc goludog mewn angen am wraig." Mae yr awdures yn myned ymlaen i ddadblygu ac egluro ei gosodiad yn mherson Mr. Bingley, gŵr ieuanc o deulu da, perchen cyfoeth mawr, ymddangosiad parchus, tymher garedig, a synwyr cyffredin! Y mae y newydd fod gŵr ieuanc mor ddewisol—*eligible* yw y gair!—wedi prynu *lease* Netherfield Park, ac yn bwriadu byw yn y palasdŷ cysylltiol, yn peri cynhyrfiad pleserus trwy gylch cymdeithasol y gymydogaeth. Cym-erodd hyn le rywbryd oddeutu can' mlynedd yn ol; ond un o swynion neillduol gweithiau Miss Austen ydyw, ein bod yn teimlo fod y dygwydd-iadau a ddarlunir ganddi wedi cymeryd lle gannoedd o weithiau, a'u bod yn parhâu i ddygwydd, er holl gyfnewidiadau ymddangosiadol amser a lle. Pobl fyw oedd ei chymeriadau; y mae eu perthynasau agosaf yn fyw eto, gan nad ydyw y natur ddynol nac yn marw nac yn newid rhyw lawer. Y mae dulliau ac arferion wedi newid filwaith, ond y mae y meibion a'r merched a welodd Jane Austen yn byw yn ein canol yn awr er gwaethaf y cyfnewidiadau arwynebol. Cynhyrfir Cymdeithas y Sir—y *County Society*—un o'r sefydliadau sydd yn dal

gwareiddiad Prydain wrth ei gilydd, i'w gwaelodion, hyd yn nod yn awr, gan ddyfodiad gŵr ieuanc manteisiol i'w plith. Y mae safle y rhyw fenywaidd wedi newid cryn lawer er pan ysgrifenai Jane Austen, a llawer o lwybrau newyddion wedi eu hagor o'u blaen; ond ni raid i ddyn fod yn *cynic* i awgrymu fod ffawd y farchnad briodasol eto yn chwareu rhan bwysig yn mywyd pob merch. Nid ydyw mamau gofalus y dyddiau hyn, pan y mae ymgystadliad y mwyafrif yn gwneyd dyfodol y rhyw mor gymylog, mewn un modd yn esgeuluso "y ddarpariaeth briodasol;" ac fel y mae yn awr, felly yr oedd gan' mlynedd yn ol. Ychydig o deuluoedd ei gymydogaeth newydd, gellir bod yn sicr, oeddynt yn anwybodus o helyntion Mr. Bingley, neu yn ddystaw o berthynas iddynt. Fel mewn manau eraill, cawn ef yn destun yr ymddyddan yn Longbourn, lle y dygir ni i gydnabyddiaeth â Mr. a Mrs. Bennet a'u teulu. Ymosoda Mrs. Bennet, gwraig lled gyffredin ac arwynebol, ar ei gŵr gyda rhesymau noethion, er dangos iddo y dylai, "er mwyn ei blant," fod yn un o'r rhai cyntaf i groesawu y newydd-ddyfodiad. Wedi priodi ei wraig ar gyfrif y prydferthwch a berthynai iddi unwaith, y mae Mr. Bennet yn ceisio ad-daliad am y ffolineb sydd yn feddiant presennol iddi trwy wneuthur yn ysgafn o hono ar bob achlysur. Cyfarfydda yr ymosodiad hwn o'i heiddo yn y modd arferol, ac er digio wrtho am drin ei wraig fel y gwna, nis gallwn lai na gwenu gydag ef. Ymholi yn rhy gywrain, fe allai, fyddai ceisio myned i dynu cyferbyniad rhwng Jane a Cassandra Austen a'r cymeriadau yn y nofel; ond mewn mwy nag un amgylchiad arweinir ni i feddwl am yr undeb perthynasol hwnw a gyffyrddodd agosaf â chalon Jane, ac a ddylanwadodd fwyaf ar ei gwaith. Ymhlith plant Mr. a Mrs. Bennet, deuwn ar draws dwy chwaer yn mwynhâu y cyffelyb undeb. Geneth garedig a hollol garuaidd ydyw Jane Bennet. Mae ei synwyr a'i deall cryf yn cael ei fantoli mor gywir gan ei thymher addfwyn a'i hysbryd tyner fel y mae yn abl i ddal profedigaethau a siomiant yn ddirwgnach, ac hyd yn nod i gydymddwyn yn amyneddgar â gwendidau a ffaeleddau ei mam, a hyny pan y maent mewn perygl o'i drygu. Y mae mor brydferth, mor naturiol, mor bur, a hyny gyda y gwyleidd-dra mwyaf, fel y mae yn ennill cymeradwyaeth y darllenydd, fel yr ennillai gynt yn hollol ddiymdrech farn dda pob ymwelydd â Longbourn. Am Elizabeth Bennet, gyda'i llygaid siriol, ei gwedd iachus, ei hystum bywiog, gyda'i thraed yn rhedeg i'r ddawns a'i thafod i'r rhyfel, nid ydyw hi namyn ail argraffiad mewn plyg llai o'r tad ffraeth a pharod, hoff-ferch yr hwn ydyw. Fel yntau, y mae hi yn dueddol i weled ochr ddigrifol bywyd, ac i wneyd ychydig yn ysgafn o honi; ond y mae ar yr un pryd mor agored a diofn, ac eto mor ufudd a chywir yn ei direidi diniwed, mor hunanymwadol a ffyddlawn yn ei hymlyniad wrth ei chwaer, mor wirioneddol bur ac mor berffaith foneddigaidd, fel yr ydym tra yn parchu Jane dan orfod i garu Elizabeth. Fe fyddai yn dda i ddarllenwyr ieuainc—genethod ieuainc yn enwedig—droi i astudio cymeriadau dwy eneth mor ddymunol yn eu dengarwch cyfreithlawn, a'u cymharu â chreadigaethau cyffredin ac isel Louise de la Ramé (*Ouida*) neu Rhoda Broughton. Nid yw Mary Bennet mor hoffus â'i dwy chwaer hynaf. Ceisia wneyd i fyny am ddiffygion ei hymddangosiad personol trwy arddangosiad o gyrhaeddiadau meddyl

iol; ond gan ei bod yn llafurus ddy-gu y rhai hyn yn unig er mwyn eu dangos, gwasanaethant yn hytrach, nid i'w dyrchafu, ond i'w gwneuthur yn destun gwawd. Genethod ffol a phenwan yw y ddwy ferch ieuengaf, yn dyfod o hyd i brif ddyddordeb bodolaeth mewn ymweliadau â Meryton, tref gyfagos i Longbourn, lle y dygwydda fod catrawd filwrol wedi ymsefydlu. Yn Meryton trigiannai Mrs. Phillips, chwaer i Mrs. Bennet, gwraig o natur dda a thueddiadau gwerinol, yr hon mewn ffordd o ad-daliad i'w nithoedd ieuainc am ei chydnabod,—y mae Mrs. Phillips dipyn "yn îs yn ngraddfa cymdeithas" na'r Bennets,—sydd yn rhoddi iddynt ryddid ei thŷ ac yn eu porthi â chwedleuaeth y dref. Dygir arwr ac arwres y chwedl, sef Mr. Bingley a Jane Bennet, i gydnabyddiaeth agosach â'u gilydd yn y *Meryton Assembly*. Cynnulliadau cymdeithasol oedd *Assemblies* gan' mlynedd yn ol, i'r rhai y cyrchai gwreng a boneddig, clerigwyr a gwŷr lleyg, ynghyd a'u teuluoedd, i fwynhâu ychydig oriau o fwyniant mwy neu lai diniwed. I'r *Assembly* yn Meryton gan hyny yr aeth Mr. Bingley, a chydag ef ei chwïorydd, Miss Bingley a Mrs. Hurst, ynghyd a gŵr yr olaf a Mr. Darcy, yr hwn sydd i chwareu rhan bwysig yn nadblygiad yr ystori. Gŵr ieuanc tàl, prydweddol, ac o ymddangosiad allanol hardd, ydyw Mr. Darcy. Yn ychwanegol at hyny y mae yn perchen ystâd gwerth deng mil o bunnau yn y flwyddyn, ac yn dal cysylltiad perthynasol agos â'r bendefigaeth. Gyda'r fath fanteision nid yw yn rhyfeddod yn y byd ei fod yn cael ei ystyried yn uchelgeisiol ac ychydig yn ffroenuchel, a'i fod yn tueddu i dybio ei hun yn uwch na'i gwmni,—casgliad sydd ymhell o foddloni dinaswyr *respectable* Meryton. Yn lled gynnar yn nghwrs y chwedl, ni gawn Mr. Bingley yn arddangos arwyddion o hoffder tuag at Jane Bennet, ffafriaeth a nodir yn fuan gan ei chyfeillesau, ac a addefir yn ddiniwed hyd yn nod gan y gwrthddrych o hono. Dechreua Darcy ei gydnabyddiaeth ef âg Elizabeth trwy wrthod dawnsio yn ei chwmni pan ofynwyd iddo wneuthur hyny gan Bingley. Yn anffodus iddo ef gwnaeth y gwrthodiad yn nghlyw yr un a wrthodai, ac ni bu yn hir cyn dyoddef y gosb. Ymhen enyd o amser y mae y gŵr syber a phwyllog, Mr. Darcy, ar ol yspaid o ddibrisio pethau o'i gwmpas, yn agoryd ei lygaid ar swynion cymeriad Elizabeth Bennet, ac yn cymeryd ei gadwyno ganddynt. Pan welodd nad ydoedd y ferch ieuanc yn ofni ei gerydd nac yn prisio ei ffafr, mae ei syniadau am dani yn newid. Yn lle cymeryd ei gythruddo gan ei difaterwch o barthed i'w fanteision bydol, y mae yn ymollwng i'r dylanwad a weithredai ei deall cryf a'i bywiogrwydd deniadol arno. Prysurir cwrs pethau rhwng y ddau gwpl sydd fel pe yn oedi ar ymylon serch, trwy arosiad y ddwy foneddiges o dan amgylchiadau gorfodol yn Netherfield Park; ond ni chyrhaeddir y cyflawniad eto. Gan basio heibio i amryw fân gymeriadau, yr ydym dan angenrheidrwydd i grybwyll un cymeriad newydd, sef Mr. Collins, ficer Hunsford, Swydd Kent, cefnder i'r Bennets, yr hwn yn ol telerau yr *entail* oedd i etifeddu Longbourn ar ol marwolaeth Mr. Bennet. Nid oedd awdures *Pride and Prejudice* yn un a fuasai ar unrhyw gyfrif yn dwyn anfri diachos ar yr alwedigaeth i ba un y perthynai ei thad a rhai o'i brodyr; ond yr oedd Jane Austen uwchlaw pobpeth yn a'tist cywir a chydwybodol. Mae yn ddiammeu felly ei bod yn adnabod clerigwyr o nodwedd

Collinses ac Eltons ei nofelau; ac nis gallwn lai na chredu iddi wneyd daioni i'r Eglwys trwy eu dangos i'r byd yn eu lliwiau priodol. Gŵr ieuanc pendew, rhagfarnllyd, a hunanol ydoedd Mr. Collins. Gweinyddai fel clerigwr o dan nawddogaeth yr Arglwyddes Catherine de Burgh, dymuniadau yr hon ydoedd rheol ei fywyd. Barnai yr Arglwyddes Catherine fod yr amser wedi dyfod pryd y gallai Mr. Collins gymeryd iddo ei hun wraig, a thybiai Mr. Collins y gallai yn mherson ei gyfnither Elizabeth sicrhâu y gymhares a ddygai iddo yr hapusrwydd a haeddai, ac ar yr un pryd a lwyr foddlonai ddysgwyliadau yr Arglwyddes Catherine. Felly penderfyna ymostwng i gynnyg ei hunan i Elizabeth Bennet. Y mae yr olygfa lle ceir ef, yn llawn o hyder ac heb ronyn o betrusdod, nid yn gymaint yn dadleu ei achos ag yn gwneyd arddangosiad o'i hawliau, tra y mae Elizabeth yn ei wrthod, ac yn parhâu i'w wrthod mewn geiriau cryfach, heb ei chymhar bron yn holl dudalenau ffugchwedleuaeth. Metha Mr. Collins druan a dirnad y posibilrwydd o'i fod *ef* yn cael ei wrthod, a chan Elizabeth Bennet! Parhâ i briodoli y fath ymddygiad anmhosibl i yswildod benywaidd ("the becoming coyness of an elegant female," ys dywed Mr. Collins), a thrafferth nid bychan a gafodd y ferch ieuanc i'w argyhoeddi ei bod o ddifrif yn gwrthod manteision mor arbenig. Am *humour* o gyffelyb natur rhaid chwilio yn ddyfal yn ngweithiau goreu Charles Dickens.

Nid hir y bu Mr. Collins heb gael balm i'w galon friwedig. Derbyniwyd ef, bu agos i ni a dyweyd â breichiau agored, gan Charlotte Lucas, un o "gyfeillesau" Elizabeth. Pan gafodd y cynnyg, ni phetrusodd Charlotte am foment; yn wir, nid ydym yn sicr nad aeth ryw gymaint o ffordd i'w gyfarfod. Amddiffyna Jane Austen ei hymddygiad trwy enau Jane Bennet, yr hon a ddywed mai priodas oedd prif amcan bywyd Charlotte, "a dyna'r unig ddarpariaeth anrhydeddus," meddai, "ar gyfer merched ieuainc o addysg dda a moddion prin. Er mor ansicr ydyw o roddi hapusrwydd, y mae y ffordd esmwythaf i'w cadw rhag angen." Mae safle y rhyw fenywaidd, fel y sylwyd, wedi newid er pan ysgrifenwyd y geiriau hyn; ond y mae "priodas" yn rhan bwysig o drefnidedd teuluaidd hyd yn nod yn ein dyddiau ni.

Cymeriad arall y dylid ei grybwyll ydyw Mr. Wickham, gŵr ieuanc o foesau da ond moesoldeb ammheus, yr hwn sydd yn dyrysu cwrs y chwedl trwy ennyn dyddordeb Elizabeth a rhedeg i ffwrdd gyda'i chwaer Lydia. Fel y dadblyga yr ystori, cawn olwg ar y wraig foneddig drahausfalch a hunanddigonol yr Arglwyddes Catherine de Burgh, ymweliad yr hon â Longbourn gyda'r amcan o rwystro ymrwymiad priodasol cydrhwng Elizabeth a Darcy, ynghyd a'r ymddyddan dilynol âg Elizabeth yn y "Wilderness" (y rhodfa y cyfeiriwyd ati yn rhan gyntaf ein hysgrif) a ystyrir gan feirniaid cymhwys fel uchder celfyddyd ffugchwedleuol. Yn y desgrifiad ceir perffeithrwydd *comedy* o'i wahaniaethu â *farce*, nid yn unig yn yr arddangosiad o hunanolder a hunan-bwysigrwydd yr Arglwyddes Catherine, ond hefyd yn y nodweddion gwrthgyferbyniol a ddadblygir yn nghymeriad Elizabeth, yn ei synwyr cyffredin cryf, ei hunan-barch, a'i ffyddlondeb iddi ei hun ac i'r person oedd yn anwyl ganddi. Nid yn esmwyth y rhêd cwrs gwir serch, ys dywed Shakespeare, ac nis gall nofelwyr byth fod yn rhy ddiolchgar am hyny! Cymerir y rhan fwyaf o *Pride and Prejudice* i ddangos y modd yr hwyliodd Jane ac Elizabeth Bennet heibio i bob

rhwystr, pob anhawsder, pob camddealltwriaeth, a phob camgymeriad i hafan hapusrwydd yn y diwedd. Pa fodd y newidiwyd cymeriad Darcy er gwell, ac y rhoddwyd lle i'w ochr oreu gael yr oruchafiaeth nes ei wneyd yn deilwng o Elizabeth, a pha fodd y darfu i Bingley ddyfod o hyd i'r gwrolder angenrheidiol i ennill Jane er gwaethaf gwrthwynebiad ei chwïorydd—rhaid i'r darllenydd gael allan drosto ei hun. Boddlonwn ar ddyweyd fod Jane Austen yn diweddu y cwbl yn hapus, ac felly yn dwyn i derfyniad priodol nofel sydd er ys yn agos i gan' mlynedd yn cael ei hystyried, a hyny yn rhesymol, fel un o'r rhai mwyaf perffaith yn yr iaith Saesoneg. Fod geneth un ar hugain oed wedi ei hysgrifenu a bery yn rhyfeddod tra bydd darllen ar nofelau.

Geneth ieuanc syml a didwyll ydyw Catherine Morland, arwres *Northanger Abbey*. Yn niniweidrwydd ei chalon ac mewn anwybodaeth o'r byd, syrth i lawer o gamgymeriadau naturiol ond anhyfryd. Eto nid ydyw mewn un modd yn fyr o farn, a theimlwn y dadblyga ei galluoedd fel y cynnydda ei blynyddoedd. Mewn meddwl a chalon y mae, fel holl arwresau Jane Austen, yn llawn coethder a phurdeb. Ond nid ydyw am foment yn peidio a bod yn *eneth* wirioneddol, yn barod ar unrhyw adeg i gael ei chario ymaith gan deimladau a dychymygion ieuenctyd, fel llawer geneth dda cynt a chwedyn. Yn nghanol y cyfan yr ydym yn cael ynddi y posibilrwydd o wraig synwyrol a serchus. Ar ol desgrifiad difyrlawn o'i dygiad i fyny mewn persondŷ gwledig—fel y gwelir, y mae Jane Austen yn parhâu i weithio allan o'i phrofiad ei hun—ni a'i cawn oddeutu pymtheg oed yn talu sylw arbenig i wisgiad ei gwallt, yn dechreu dyheu am fwynderau cymdeithas, yn creu iddi ei hun ei harwr, ac mewn ffyrdd eraill yn cymhwyso ei hunan i fod yn gymeriad arweiniol y nofel. Trwy lwc hapus y mae gwraig ysgweier y plwyf (gŵr llawer pwysicach yr adeg hono nag yn awr) yn ei chymeryd gyda hi ar ymweliad âg ymdrochle poblogaidd oedd, gan' mlynedd yn ol, yn un o *centres* pleser a digrifwch. "Yr oedd ei meddwl," meddai yr awdures dair ar hugain oed, "mor anffurfiedig ac anwybodus ag ydyw y meddwl benywaidd yn gyffredin oddeutu dwy ar bymtheg oed; ond meddai galon serchog, tneddfryd siriol ac agored, heb fursendod na mympwy o un math, gyda moesau yn rhydd oddiwrth yswildod a thrwstaneiddiwch ieuenctyd, a pherson dymunol, a phrydferthwch pan mewn gwedd dda" (gwahaniaethiad ar brydferthwch nas gall meddwl dyn yn hawdd afael arno). Er nad ydyw Bath yn awr ond tref gyffredin ac anhynod, fe fu unwaith yn "ffasiwn," ac yn gyrchfan lluoedd lawer o ymwelwyr. Gallwn dybio mai rhyw Landrindod ar raddfa eang ydoedd; iechyd a phleser oedd y ddau attyniad mawr. Cedwid difyrwch y lle i fyny mewn helaethrwydd a threfn. Ymgasglai yr ymwelwyr yn rheolaidd i'r *Pump-Room*, lle y gallai y cwmni nid yn unig yfed o'r dwfr meddyginiaethol, ond cyfarfod i gerdded o gwmpas, eistedd i ddarllen, ymddyddan a chwedleua, a phrynu pa bethau bynag a gadwent le *bric-a-brac* yr oes hon. Nid oedd y nos drachefn yn llai ei manteision cymdeithasol, gyda'r *Assemblies* (y rhai, yn dra annhebyg i *balls* ein dyddiau ni, a gynnelid mewn oriau digon prydlawn i'w hail gynnal y nos ddilynol), y cyrddau te, a'r dawnsfeydd. Yn un o'r rhai hyn, mae'n debyg, y cafodd Catherine Morland yr olwg gyntaf ar y rhan hono o gymdeithas

sydd yn arfer ysgrifenu ei henw gyda phrif-lythyren; ac mewn un arall y daeth gyntaf i gyfarfyddiad â Henry Tilney, yr hwn sydd i'w chynnorthwyo i wneyd i fyny y nofel sydd dan ein sylw. Dechreua y gydnabyddiaeth trwy i Henry yn hollol anmhleidgar wneyd difyrwch diniwed o Catherine Morland. Wedi ychydig o ymholi, ni a gawn mai clerigwr ieuanc ydyw Mr. Tilney, a'i fod yn aelod o deulu tra pharchus yn Swydd Gloucester. Yn annysgwyliadwy cyferfydd Mrs. Allen (gwraig yr ysgweier) â hen gyfeillion, yr hyn sydd yn foddion i ddwyn i'n sylw deulu y Thorpes, yn fwyaf neillduol Isabella, cynllun o'r eneth ieuanc hunanol, ddifater o bob canlyniadau, a llawn dyhead am edmygedd a chyhoeddusrwydd. Y mae ei phroffes o gyfeillgarwch a ffyddlondeb am enyd yn twyllo Catherine, yr hon yn ol natur ei dygiad i fyny ydoedd yn hollol rydd oddiwrth ddrwgdybiaeth, ac mor ddiniwed â'r golomen. Yn John Thorpe ni gawn "buck" y cyfnod—creadur yn cyfateb i "sporting-masher" y dyddiau hyn—person sydd, ysywaeth, i'w gael mewn rhyw ffurf neu gilydd ymhob oes. Mae desgrifiad Jane Austen o hono yn un o'r rhai mwyaf miniog yn ei holl weithiau; dyma fe: "Gŵr ieuanc tew, o daldra canolig, yr hwn gyda gwyneb plaen a ffurf afrosgo a ymddangosai fel pe byddai arno ofn bod yn rhy olygus os na roddai am dano wisg marchwas *(groom)*, ac yn rhy debyg i ŵr boneddig os na fyddai yn rhydd lle dylasai fod yn foesgar, ac yn ddigywilydd lle y gallasai hwyrach fod yn rhydd." Teimlir ar unwaith fod y desgrifiad yn cyrhaedd i'r byw. Mewn cyferbyniad i John ac Isabella Thorpe, gosodir Henry Tilney a'i chwaer, geneth synwyrol a phrydferth, wedi ei dwyn i fyny yn rhagorol, yr hon er yn ieuanc ac yn ddeniadol a fedr fwynhâu ei hunan yn y ddawns heb geisio tynu sylw pawb o'i chwmpas, a chyfarfod â dygwyddiadau cyffredin bywyd heb syrthio i eithafion o ddedwyddwch neu drallod o berthynas iddynt. Nis gallwn yma ond prin gyfeirio at gysylltiadau y teuluoedd. Y mae Catherine Morland yn cael ei hanrhydeddu â gwahoddiad i Northanger Abbey gan General Tilney, hen foneddwr o dymher wyllt ac ysbryd gormesol, yr hwn, wedi cymeryd ei gamarwain gan John Thorpe o berthynas i'w safle fydol, a amcanai ei gwneuthur yn aelod o'i deulu trwy ei phriodi â'i fab Henry. Yr oedd Catherine yn falch o'r gwahoddiad o herwydd dau reswm: y naill ydoedd, y byddai trwy ei dderbyn yn cael bod yn nghwmni y person a garai; a'r llall ydoedd, ei bod yn tybied, gan ei bod yn myned i fynachlog (lle newydd o dan hen enw ydoedd wedi'r cyfan), y cawsai fantais i roddi ychydig o ffrwyn i'r dychymygion rhamantus oedd yn llenwi ei meddwl. Ar bwys y gwendid olaf o'i heiddo y mae Jane Austen yn gwneyd defnydd o honi i wawdio yn ysgafn nofelau Mrs. Radcliffe a'u cyffelyb, cyfansoddiad y rhai a ddibynent yn hollol ar ysbrydion a dirgelion. Erbyn hyn y mae y "British Ghost" (er gwaethaf holl ymdrechion Proffeswr Sedgwick a'r Psychical Society) fel y cwyna awdwr *Vice Versa* (Mr. F. Anstey) mor "ddoniol" yn un o'r cylchgronau Seisonig diweddar, wedi diflanu os nad wedi marw; ac nid ydyw dirgeledigaethau ymhlith y defnyddiau nofelaidd a ffafrir gan yr oes hon. Gan' mlynedd yn ol yr oedd yr amgylchiadau yn wahanol, a gwnaeth Jane Austen wasanaeth i ffugchwedleuaeth trwy ddychwelyd at symlrwydd a gwirionedd. I ddyfod yn ol at ein cymeriadau, y mae pethau yn myned

ymlaen yn lled foddhäol tua'r Abbey; telir ymweliad hapus â chartref Henry yn Woodston; a gellid tybio bod diwedd y chwedl yn ymyl, pan y cymer cyfnewidiad sydyn le. Twyllir General Tilney eilwaith gan John Thorpe o berthynas i safle Catherine Morland, a dychwela adref yn llawn digter dyn ffol a bydol wedi methu yn ei amcanion, i gychwyn Catherine oddiyno ar fyr rybudd, ac yn ddireswm. Nid yn aml y cyfarfyddir â "boneddwr" yn troseddu rheolau llettŷgarwch gyda'r fath haerllugrwydd, ac yn ymddwyn mor afresymol o angharedig at eneth ieuanc oedd yn ei dŷ ar ei wahoddiad ef ei hun. Yr ydym yn ofni fod yn rhaid cydnabod fod y darlun ychydig yn eithafol. Yn ffodus y mae y cam—fel y gwna camweddau yn gyffredin—yn disgyn yn ol ar ben yr awdwr o hono. Yn y cyfwng anhawdd ymha un ei gosodwyd, ymddyga Catherine gyda theimladau rhydd oddiwrth chwerwder a digter, gyda hunanbarch sydd yn ennill ein hedmygedd. Dychwela yn ol i fynwes ei theulu, ac yn eu derbyniad caredig a'u cydymdeimlad tyner anghofia y difrïad a daflwyd arni. Yn ei anwybodaeth o natur ei fab, ni wnaeth General Tilney ond prysuro dygwyddiadau trwy ei ymddygiad gormesol ac anghyfiawn. Er mwyn gwneyd hyny o iawn oedd yn ei allu, y mae Henry yn dilyn Catherine i'w chartref, ac yn yr ymdeimlad fod yn gyfiawn iddo o dan yr amgylchiadau weithredu yn groes i orchymyn ei dad, nid yw yn myned oddiyno nes ennill ei maddeuant a'i ffafr. Cyn hir iawn fe wnaed ymheddychiad â'r hen ŵr, a diwedda Jane Austen ei nofel gan adael ei darllenwyr i benderfynu "a ydyw tuedd y gwaith yn hollol tuag at gymeradwyo gormes tadol neu ynte at wobrwyo anufudd-dod mabaidd." Ar rai ystyriaethau gellir cyfrif *Northanger Abbey* ymhlith y goreuon o weithiau ein hawdures. Cynnwysa rai o'i darluniau mwyaf perffeithiedig. Nid ydyw ei gwaith mewn un man yn fwy gafaelgar, na'i ffraethder yn fwy miniog. Ar yr un pryd y mae yn y nofel ddiffygion sydd yn absennol o rai o'r gweithiau eraill. Nid ydyw mor gyflawn o ran ei hunoliaeth â rhai o honynt; nid ydyw yr ystori yn tyfu allan yn briodol o honi ei hunan fel y gwna *Emma;* nid ydyw ei gwahanol ranau yn hollol gyson â'u gilydd; y mae rhai o'r dygwyddiadau yn annhebygol, os nad yn anhygoel; ac y mae yn fyr o'r teimlad dwfn sydd yn cymysgu gyda, ac mewn ystyr yn difrifoli rhanau ysgafnaf *Persuasion.* Y mae y digrifwch cellweirus sydd yn rhedeg drwyddi, er mor ragorol ydyw, yn fyr mewn tynerwch, a thuedd ynddo i flino ac weithiau i boeni y darllenydd ystyriol, yr hwn sydd yn teimlo fod y gelfyddyd uchaf fel y bywyd uchaf yn ymwneyd â'r hyn sydd yn fwyaf difrifol yn y naill a'r llall. Ond yn ngwyneb cymaint o ragoriaethau y mae yn anniolchus myned i rwgnach, yn enwedig pan y cofiwn eto mai geneth dair ar hugain oed sydd yn cael ei barnu.

Yn *Emma,* arwres y chwedl sydd yn dwyn ei henw, yr ydym yn dyfod o hyd i un arall o enethod ieuanc coeth a phur Jane Austen. Fel prif gydymaith ei thad, yr hwn sydd yn hoff o ystyried ei hunan yn nosbarth y cleifion, teflir hi yn lled aml i gymdeithas ei gyfaill Mr. Knightley, boneddwr yn meddu llawer o nodweddion tra rhagorol, ond heb ddim o'r arwrol a'r rhamantus, yn ystyr "nofelaidd" y geiriau, yn ei gyfansoddiad. Dibyna y chwedl i fesur helaeth ar gamgymeriadau byrbwyll yr arwres; ynglŷn â pha rai y gesyd ein hawdures lawer gwers bwysig o'n blaen. Y mae Emma Woodhouse yn hollol rydd

oddiwrth yr ymgecraeth diegwyddor â phechod sydd yn rhy aml yn nodweddu arwresau nofelau diweddar. Perthyna ei gwendidau i eneth ieuanc, ddiniwed, garedig, ac uniawn, ffaeleddau yr hon sydd yn wastad yn gogwyddo i ochr rhinwedd. Mae wedi ei geni i drefnu priodasau—pwy ferch a'r nad ydyw?—ac yn foreu yn y chwedl gesyd ei chalon ar ddysgu ei chyfeilles Harriet Smith i feithrin chwaeth at uwch cymdeithas, ac i brisio moesau mwy manwl nag a ofynid gan ei sefyllfa. Ymhlith pethau eraill dysg iddi "edrych yn uwch" na Robert Martin, brawd y genethod a fuont mor garedig wrthi pan nad ydoedd hi eto wedi ennill nawddogaeth a chyfeillgarwch Miss Woodhouse. Yr oedd Robert druan wedi gosod ei serch ar Harriet, ac ond odid na buasai Harriet cyn bo hir yn talu y *compliment* yn ol oni buasai i Emma ymyryd â chwrs pethau. O'r ymyriad y mae'n canlyn gyfres o gamgymeriadau trwy ba rai y dysgir gwers lled lem i'r "little matchmaker." Gofynir i Harriet, wedi ei darbwyllo o berthynas i israddiaeth y ffermwr ieuanc gwledig Robert Martin, i sylwi ar foesau uwchraddol Mr. Elton, clerigwr ieuanc sydd yn dal bywoliaeth gysurus yn y gymydogaeth. Oddiallan y mae gwedd led ddymunol ar Mr. Elton; oddifewn y mae yn hunanol, yn fursenaidd, ac yn rhodresgar. Gwaeth na'r cyfan, y mae yn ei ddallineb a'i hunandybiaeth wedi rhoddi ei fryd ar ennill Emma. Cefnoga y ferch ieuanc hono ei ymweliadau, gan dybio mai Harriet ydyw eu gwrthddrych. Ymddyga yntau yn y modd mwyaf moesgar tuag at Harriet am ei bod yn ffrynd i Emma! Y mae ef yn camgymeryd hynawsedd Emma, a hithau o'r ochr arall yn camesbonio ei ymddygiadau yntau, nes o'r diwedd y cyrhaeddir *climax*. Un noswaith y mae Mr. Elton wedi ciniawa yn lled rydd, yn ol arfer glerigol yr oes, yn dychwelyd yn yr un cerbyd ag Emma ac yn mynu dyweyd "cwyn ei galon" wrthi, gyda'r canlyniad wrth gwrs o roddi goleuni ar y camddealltwriaeth a diwedd ar y cyfeillgarwch a fodolai rhyngddynt. Yn fuan daw Jane Fairfax i mewn i'r chwedl mewn dull sydd i *ryw* fesur yn niweidiol i gymesuredd y gwaith, a chyda hi ŵr ieuanc o'r enw Churchill. Heb gymeryd ei digaloni gan ei methiant cyntaf, y mae Emma yn awr yn ceisio trefnu Harriet ar gyfer Frank Churchill, yr hwn, fel y dygwydd, sydd yn cael cyfle (un o'r dygwyddiadau cyfleus sydd yn cymeryd lle mewn nofelau), i'w hachub o ddwylaw haid o Sipsiwn. Ond erbyn hyn y mae Harriet wedi dechreu gweithio dros ei llaw ei hun! Gesyd ei serch yn ddiystyr ar Mr. Knightley, yr hwn a gymerasai drugaredd ar ei hunigrwydd mewn dawnsfa oedd newydd gymeryd lle. Yn awr y mae Emma a George Knightley wedi syrthio mewn serch â'u gilydd yn ddiarwybod bron iddynt eu hunain. Arosant yn unig ddadblygiad amgylchiadau i'w gwneyd yn gydnabyddus â'r ffaith. Gan barhâu ei chamgymeriadau, y mae Emma yn camddeall cyfrinach Harriet, gan y tybia ei bod yn cyfeirio yn wastad at Frank; felly ymlaen â hi mewn breuddwyd ofer i gael ei chosbi yn drymach pan ddeffry i'r gwirionedd. O dan gyffesiad Harriet, dygir Emma i deimlo dyfnder ei theimladau ei hunan. Ychwanegir yr anfoddlonrwydd cyffredinol trwy gamddealltwriaeth arall yn codi oddiar ymrwymiad dirgelaidd rhwng Jane Fairfax a Frank Churchill. Ond yn bresennol daw pethau i'w lle, fel yr arferant dd'od mewn nofelau, beth bynag am

fywyd cyffredin. Daw Emma a George Knightley i ddeall eu gilydd, cysura Harriet ei hun gyda Robert Martin, a diwedda y cyfan yn siriol yn sŵn "clychau priodasol." Yn y gipolwg frysiog hon yr ydym o angenrheidrwydd wedi pasio heibio lawer gwers a roddai ad-daliad i'r darllenydd ystyriol. Gan rai beirniaid, cyfrifir *Emma* y flaenaf ymhlith nofelau Jane Austen. Mae yr ystori yn ddyddorol ynddi ei hun, a'i threfniad o'r bron yn berffaith. Arddangosir celfyddyd o'r radd flaenaf yn y gallu sydd, o gymeriadau a dygwyddiadau mwy cyffredin nag arferol, yn gwneyd i fyny chwedl nad ydyw am foment yn colli ei swyn. Y mae y dyddordeb sydd yn codi o ddadblygiad naturiol y cymeriadau mor gyflawn fel y cyfreithlonir *i* raddau pell y dywediad nas gellir tynu allan gymaint ag un bennod *heb* wneuthur niwed difrifol i'r cyfanwaith. Y cyfanrwydd perffaith hwn sydd yn ei wneuthur yn orchwyl mor anhawdd, ac, mewn ystyr, mor anniolchgar, i geisio rhoddi braslun o'r nofelau, neu i ymdrin â hwynt yn y ffordd o dalfyriad, pa mor ofalus bynag y gwneir hyny. Heblaw y perffeithiad anghymharol sydd yn perthyn i nofelau diweddaraf ein hawdures, dangosir yn *Emma* allu nodedig i ddeall amrywiol gymeriadau ac i'w cyferbynu, megys yn narluniad Mr. Woodhouse, y gofalus a'r cwynfanus; John Knightley, yr agored a'r didderbyn-wyneb; Miss Bates, y chwedleuydd diddiwedd; Mrs. Elton, y wraig drahaus; a Mrs. Weston, y foneddiges dirion; heb son am Emma, George Knightley, ac eraill sydd wedi eu henwi genym yn barod.

Yn y nofel nesaf, fel yr awgryma y teitl, *Sense and Sensibility,* try y chwedl o gwmpas manteision perthynasol synwyr a theimlad. Rhydd yr awdures y flaenoriaeth, fel y gallesid dysgwyl, i'r cyntaf o'r ddau. Y mae dwy chwaer, Ellinor a Marianne Dashwood, ill dwy yn perchen nodweddion dymunol, ond bod y naill yn llawn o hunanfeddiant tawel, a'r llall o deimlad angerddol, yn cyfarfod â chyffelyb brofedigaeth yn siomiant eu gobeithion a'u serchiadau mwyaf tyner. Gwrthdystiad ydyw y chwedl yn erbyn y ffugdeimladrwydd a fynwesid, ac mae'n debyg a fynwesir eto, gan ddosbarth o ferched ieuainc, nes eu hollol anghymhwyso ar gyfer dyledswyddau cyffredin, a'u hanalluogi i ymddwyn yn rhesymol. Wedi ei hysgrifenu yn ei ffurf wreiddiol o flaen y nofelau eraill, y mae y chwedl hon yn israddol i'r rhan fwyaf o honynt, er fod ynddi amryw o ddarnau ad-dyniadol.

Yn *Mansfield Park,* o'r ochr arall, ni a gawn nofel ragorol ymhob ystyr. Bwriedir y chwedl i daflu goleu ar ganlyniadau difrifol addysg fydol. Ar y naill law cawn ferch a meibion Syr Thomas Bertram, o Mansfield Park, yn ffodus yn eu disgyniad ac yn hapus yn eu hamgylchiadau, gyda thad anrhydeddus ac uniawn, a mam garedig a thyner. Y mae barn yr hen ŵr yn cael ei gwyro ychydig, a'i ddirnadaeth yn cael ei thywyllu i raddau, gan ragfarn cymdeithasol a gorhoffder o'i deulu, tra y mae yr hen wraig ychydig yn esgeulus, a chryn lawer yn foethus. Nid ydyw y plant erioed wedi dysgu elfenau cyntaf hunanymwadiad a hunan-reolaeth; o ganlyniad y maent yn hollol anmharod i gyfarfod temtasiynau a threialon bywyd. Eu prif gyfeillion ydynt y Crawfords, plant wedi eu dwyn i fyny gan gwpl hollol annheilwng o'r ymddiried a roddid iddynt, heb feddu ymdeimlad cryf o ddyledswydd, heb ddirnadaeth deg o'r hyn oedd iawn,

heb ymsyniad cywir o'r hyn oedd wirioneddol bur a dyrchafedig—plant er eu hymddangosiad allanol deniadol, oeddynt i brofi eu hanghywirdeb a'u hansefydlogrwydd yn yr ymosodiad cyntaf a wneid arnynt. Ar y llaw arall mewn cyferbyniad i'r rhai hyn, ni a gawn Fanny Price a William ei brawd, plant i gymeriad digon salw, ond wedi eu dysgu er hyny i fod yn ddefnyddiol i'w gilydd, ac i eraill o'u cwmpas, i fod yn foddlawn ar ychydig, ac i hunanymwadu. Am unwaith y mae Jane Austen yn gadael llwybrau cynnefin llwyddiant bydol, ac yn troi i'n dysgu allan o lwybrau dyrys adfyd a thlodi. Hwyrach o'i holl arwresau mai Fanny Price, os nad y fwyaf swynol, ydyw y fwyaf llwyddiannus fel arddangosiad o athrylith ei chrëydd, yn gymaint a bod gwahaniaeth dirfawr yn sefyllfa yr un a grëwyd a'r hon oedd yn creu. Noddir Fanny Price gan deulu cyfoethog Mansfield Park, lle y gorfodir hi i ddyoddef y diraddiad a bentyrir mor aml ar y "perthynasau tlawd." Cysurir hi i fesur gan gydymdeimlad Edmund Bertram, yr hwn o'i gymharu â'i frodyr sydd yn dyner a charedig. Cyn pen hir y mae yntau yn ei siomi. Gesyd ei fryd ar Mary Crawford, a myn ddadguddio cyfrinach ei serch i Fanny druan! Gŵyr Fanny fod Mary yn hollol annheilwng o Edmund, ond rhaid iddi fod yn ddystaw ar y pwnc, yn fwy felly gan fod y "pity which is akin to love" wedi cynnyrchu teimladau serchus yn ei mynwes ei hun tuag at ei harwr. Mor ragorol y desgrifia Jane Austen bangfeydd serch clwyfedig mewn calon dyner, fel yr honai yr Archesgob Whateley (edmygydd mawr o'i gweithiau) fod yn rhaid ei bod wedi dyoddef y cyfryw bangfeydd ei hun cyn y gallasai eu darlunio mor berffaith. Pa fodd y symuda yr awdures y rhwystrau ac y sicrhâ hapusrwydd y rhai sydd yn ei haeddu, rhaid i'r darllenydd chwilio allan. Wrth wneuthur hyny fe ddaw i adnabod Aunt Morris, darluniad digymhar o wraig gas, afrywiog, ormesol a thwyllodrus; William Price, bachgen llon a dymunol, llawn balchder yn ei alwedigaeth forwrol, a thra hoff o'i chwaer fechan Fanny; ynghyd a llu o gymeriadau naturiol eraill nas gallwn ni ar hyn o bryd gymaint ag aros i'w henwi.

Yn *Persuasion* y mae Jane Austen yn taraw tant dyfnach nag yn yr un o'i chwedlau blaenorol. Yn nghymeriad Anne Elliott, geneth ieuanc brydferth ac amddifad, un o gymeriadau anwylaf yr awdures, dangosir dylanwad serch siomedig ar fywyd geneth o ysbryd a synwyr, gyda gallu na fuasid yn ei briodoli i ysgrifenydd y nofelau eraill. Y mae ymyriad "cyfeillion" yn peri ysgariad rhwng Anne Elliott a *Lieutenant* Wentworth, ac êl blynyddoedd lawer heibio cyn y dygir hwy ynghyd drachefn. Fel canlyniad ni a gawn chwedl seiliedig ar y geiriau hyny o eiddo Shakespeare :—

> She never told her love
> But let concealment, like a worm i' the bud
> Feed on her damask cheek : she pined in thought :
> And with a green and yellow melancholy,
> She sat like patience on a monument
> Smiling at grief.

Y mae y rhan fwyaf o'r *action* yn cael ei gario ymlaen yn Bath, o'r hwn le y ceir darlun wedi ei dynu â llaw sicrach na'r un a fu wrth y gwaith yn *Northanger Abbey*. Dygir ni yno i gydnabyddiaeth â lliaws o gymeriadau, y rhai nas gallwn yn awr aros i'w helfenu. Nid yw y darlun

a osodir o'n blaen yn llai tarawiadol o herwydd y cyferbyniad rhyngddo â thôn ysgafnach y gweithiau blaenorol. Y mae y nofel, tra yr un mor fedrus a chyrhaeddgar yn ei hymdriniad âg amcanion a dybenion, ac mor lawn o arabedd difyrus yn yr ymwneyd â gwendidau y natur ddynol, ag ydyw *Pride and Prejudice* neu *Northanger Abbey*, yn meddu ar dynerwch a dyfnder teimlad nad ydynt i'w cael i gyffelyb fesur yn yr un o'r nofelau eraill.

Gan ein bod fwy nag unwaith yn ystod ein hysgrif wedi cysylltu enwau Jane Austen, Charlotte Brontë, a George Eliot, dymunol fe allai fyddai i ni wneuthur ychydig o sylwadau cymhariaethol gyda golwg arnynt. Er fod llawer o debygolrwydd ymddangosiadol yn eu hamgylchiadau, yr oedd profiadau Jane Austen a Charlotte Brontë mor wahanol ag ydoedd eu talentau. Merch i wŷr eglwysig ydoedd y naill a'r llall, ymroddodd y ddwy i ysgrifenu nofelau, treuliodd y naill fel y llall y rhan fwyaf o'u hoes o fewn terfynau persondŷ gwledig, a buont ill dwy farw mewn oedran cymharol ieuanc, ac ymhell cyn dyhysbyddu y posibilrwydd gwaith o'u mewn. Ond er hyny fe fu bywyd yn dra gwahanol iddynt. Cafodd Charlotte Brontë brofi bywyd yn ei chwerwder, a pharhaodd ei chwerwedd i ymgymysgu hyd yn nod â'i llwyddiant. Ni chyfarwyddwyd ac ni reolwyd ei bywyd gan y rhai hyny a ddylasent ymgymeryd â'r gwaith. Daeth marwolaeth aml dro i wneyd bylchau yn y cylch cyfyng oedd yn anwyl ganddi, a phrofodd holl ddyfnderoedd tywyll anobaith a siomiant cyn y cysurwyd hi â gwawr llwyddiant. Dygwyd Jane Austen, yr hon fu farw pan oedd Charlotte Brontë oddeutu blwydd oed, i fyny o dan amgylchiadau tra gwahanol. Cafodd feithriniad teuluaidd o'r fath oreu, a gwyliwyd llwybrau ei hieuenctyd gyda'r gofal mwyaf. Preswyliai mewn cartref hapus yn y mwynhâd o gymdeithas ddyddan a siriol; symudai yn nghanol golygfeydd dymunol, ac ni ddeuai un amser i gyffyrddiad agos âg ochr dywyll bywyd. Yr ydym yn ei chael bob amser yn gymeriad hoffus a hynaws,—yn garedig, yn siriol, yn amyneddgar, ac yn foddlawn. Yr oedd ei hathrylith fel ei chymeriad, yn hunanddigonol ac anymgeisiol, yn ystyr oreu y cyfryw eiriau. Cafodd waith iddo o fewn cylch ei chydnabyddiaeth ei hun, a digon i ysgrifenu yn ei gylch heb ddwyn ei siomedigaethau a'i rhagfarnau ei hun i'r cyfrif. Bu Jane Austen fyw yn dawel a marw yn foddlawn; tra y bu Charlotte Brontë fyw mewn gofid a marw mewn hiraeth. Mae bywyd yr olaf yn treiddio trwy ei nofelau, a'i theimladau i raddau yn lliwio ei darluniau. Coleddai deimlad personol cryf, naill ai o hoffder neu o gasineb tuag at ei chymeriadau. Fel canlyniad nid ydyw ei nofelau mor gynnrychioliadol ag eiddo Jane Austen; mewn geiriau eraill, nid ydoedd yn gymaint *artist* â'r hon a luniodd *Pride and Prejudice* a *Mansfield Park*. Fel y sylwa un beirniad craffus: "Yr oedd bywyd yn llawn ystyr i Charlotte Brontë, ac y mae hyd yn nod mân ddygwyddiadau ei nofelau yn dwyn argraff rhyw deimlad personol cryf, neu yn adlewyrchu rhyw brofiad personol dwys. Ond i Jane Austen yr oedd bywyd mor lawn o ystyr fel y meiddiai adael i'r drama egluro ei hunan." I'r olaf, ei chelfyddyd ydoedd oll yn oll. Ni fyddai un amser yn gwthio amcan moesol i'r ffrynt, nac yn dwyn gwers neillduol i'w dysgu i'w darllenwyr. Mae yr amcan a'r gwersi i'w cael, bid siwr, ond nid ydyw yr awdures yn gosod gorbwysiad arnynt. Perthynai i oes gyn-wyddonol, ac nid ydyw yn

archwilio ac yn dadelfenu pynciau mawrion athroniaeth a moeseg. Syrthiodd llinellau ei bywyd mewn lleoedd hyfryd; yr oedd ei byd yn un hynod hapus, a digon prin y dywedodd erioed gyda Hamlet,—

> The time is out of joint;—O cursed spite,
> That ever I was born to set it right!

Yr oedd y byd mor ddymunol a bywyd mor ddeniadol fel na welodd Jane Austen nemawr angen am ei wella. Ond i George Eliot gwisgai byd a bywyd agweddau tra gwahanol. Yn ei holl weithiau ceir rhyw bwrpas mawreddog yn taflu ei gysgod dros ei chwedl, yn dyfnhâu ei heffaith, ac yn dyrchafu ei hamcan. Dengys fod y bwthyn fel y palas yn agored i'r un trychineb, fod llawenydd y byd yn rhodio fraich yn mraich â galar, a bod drygioni a cham, ymha sefyllfa bynag y gweithredir hwynt, yn dwyn i'w canlyn gyfiawn daledigaeth. Fel y dywed Mr. Kebbel, un o'i beirniaid diweddaraf: "Gyda George Eliot cymer y Ddeddf Foesol le Tynged y Chwareuon Groegaidd, a dysga ei gwersi trwy gyfrwng y fath ganlyniadau echrydus ag a dueddant i ddwyn oddiamgylch yr hyn a eilw Aristotle yn briodol amcan *tragedy*, sef hollol ymlidiad allan neu gosbedigaeth gyflawn y nwydau hyny sydd yn ffurfio testun y drama." Nid oes dim o hyn i'w gael yn Jane Austen, hyd yn nod pan yn ymdrin â'r un gwrthddrychau. Yn y fan hono, i ddilyn Mr. Kebbel ymhellach, lle y mae rhyddiaith a barddoniaeth bywyd dynol yn cydgymysgu, lle y mae teimlad yn sefyll yn ngwyneb rhesymeg, a lle y mae dyn mewn cymundeb â'i ysbryd ei hun yn dyfod i adnabod dylanwadau a thueddiadau nas medr eu troi yn eiriau, ond sydd er hyny yn ei gynhyrfu i waelodion ei natur, y mae Jane Austen yn sefyll ar îs lefel na George Eliot. Mewn dyfnder ac angerddoldeb teimlad, perthyna y flaenoriaeth i'r olaf. Edrychai Jane Austen ar fywyd, fel y sylwyd o'r blaen, gyda gwên hollol foddhâus, yn anymwybyddus o'r byd mawr sydd yn gorwedd "islaw dagrau," gan gymeryd yn ganiataol fod pobpeth fel y dylai fod, ac yn debyg o barhâu felly. Ac fel yr ydym eisoes wedi gweled, nid ydyw yn tramwy nemawr o blith ei dosbarth ei hun, nid ydyw byth yn canfod yr eithafion. Symuda ymhlith y dosbarthiadau llwyddiannus, pobl heb lawer o dreialon o'u heiddynt eu hunain, na phrofiad nac yn wir ddirnadaeth o gwbl o dreialon pobl eraill. Ond er bod iddynt eu terfynau, y mae ei nofelau yn meddu gwerth penodol a phwysig. Fel darlunydd cymeriadau a dygwyddiadau cyffredin, y rhai a wisgir gan ei hathrylith â'r dyddordeb a berthyn gan amlaf i'r anghyffredin a'r rhamantus yn unig, saif yr awdures yn hollol ar ei phen ei hun, ac yn y safle uchaf ymhlith nofelwyr Seisonig. Fel cofnodion o arferion a moesau gwledig dechreu y ganrif bresennol, y mae ei nofelau yn anmhrisiadwy. Yr ydym yn gweled ein tadau a'n teidiau fel yr oeddynt yn byw ac yn bod, a gallwn eu barnu a'u mesur gyda mwy o sicrwydd nag y gallai hyd yn nod eu cyfoesolion. Yn ei chylch ei hunan, a chyda'r syniadau oedd yn eiddo iddi, y mae gwaith Jane Austen yn ddifeïus. Nid ydyw yn fawreddog, ond braidd na ddywedem ei fod yn berffaith.

E. VINCENT EVANS.

# Y DIWEDDAR BARCH. WILLIAM REES, D.D.

## II.

### FEL PREGETHWR.

YN ein hysgrif flaenorol ymgyrhaeddem at ddwyn i sylw gryn lawer o brif helyntion a dygwyddiadau bywyd Dr. Rees, drwy yr hyn yr aed â mwy o le, yn ddiau, nag a feddylid ar y dechreu. Gwelsom pa fodd yr ymddyrchafodd o ddinodedd, gan ddringo yn uwch uwch, nes cyrhaedd o hono o'r diwedd i'r fath uchder o anrhydedd a defnyddioldeb nas cyrhaeddir oddieithr yn dra anfynych yn ein plith. Yn moreu ei oes ni chafodd wisgo dillad esmwyth, ac nid oedd manteision gwybodaeth wedi eu hamlhâu o'i gylch i'r graddau y buasai yn ddymunol ganddo. Ond breintiesid ef gan Awdwr bodolaeth â chynneddfau godidog. Gyda deall cyflym, yr oedd ei gof hefyd yn aruthrol. Ychwaneger at hyn yr ystyriaeth o'i benderfynolrwydd i weithio ei ffordd ymlaen drwy anhawsderau. Gall dynion o'r nodwedd yma fanteisio hyd yn nod ar rwystrau a ymddangosant i eraill yn anorfod. Ymddyrchafodd Homer a Virgil, Plato a Demosthenes, i enwogrwydd anfarwol, heb ond ychydig o'r fath fanteision ag a geir yn y cyfnod presennol. I Rees ieuanc, yn ardal wledig Llansannan, yr oedd cyfrolau natur a dadguddiad, ynghyd a bydoedd y meddwl a'r bywyd dynol, yn llydain agored; a chyda'r fath adnoddau dihysbydd o ddawn ag a feddiennid ganddo, ni allasai lai na dyfod i'r golwg gyda threigliad amser. Y mae rhai dynion a ddeuant i gael eu cyfrif yn fawr drwy nerth amgylchiadau, er gwaethaf iddynt eu hunain; ond daw eraill yn fawr drwy ymroad personol, er gwaethaf yr amgylchiadau mwyaf anfanteisiol. Ni raid dyweyd mai i'r dosbarth olaf o enwogion y perthynai Dr. Rees. Ei fod yn ddyn o athrylith anghyfferdin sydd ffaith na feddylia neb drwy Gymru benbaladr am ei gwadu. Yr oedd yn meddu chwaeth naturiol dda; ond gallasai fod yn chwaethus ddigon, heb fod yn athrylithgar. Un peth yw meddu barn dda am nodwedd gwaith; peth arall cwbl wahanol yw meddu gallu i'w gyflawni i bwrpas. Athrylith, onidê, yw y gallu drwy ba un y cwblhâ y naill ddyn yn rhwydd ac effeithiol yr hyn nas gall arall, os heb ei feddu, ei gyflawni ond yn anmherffaith, a thrwy fyd o drafferth a phoen. Y mae athrylith yn cymeryd i mewn chwaeth o angenrheidrwydd, ond y mae yn golygu llawer iawn yn rhagor: tra yn barnu yn ddoeth, cynnyrcha hefyd yn doreithiog a hwylus. Yn awr, yr oedd y gallu yna gan Dr. Rees i helaethrwydd mawr. Y mae athrylith rhai dynion yn eu cyfyngu at ryw un cyfeiriad neillduol,—ni allant ragori mewn cyfeiriadau eraill er ymdrechu. Y mae ambell fardd i'w gael na theimla duedd i ymwneyd â dim braidd ond â barddoniaeth. Parnassus yw yr unig dir sanctaidd i'w athrylith ef. Ond yn Milton wele

fardd, er engraifft, o nodwedd pur wahanol. Ymestynai ei ddeall ef am y bydysawd. Yr oedd yn wleidyddwr goleuedig, yn dduwinydd craff, ac yn ysgolhaig penaf ei oes. Ni raid ond agor ei *Goll Gwynfa* er gweled fod ei feddwl wedi ei ystorio â defnyddiau gwybodaeth oeddynt wedi eu crynhoi o bedwar cwr y ddaear. Perthynai iddo y cyffredinolrwydd hwnw ag a noda allan feddwl o'r fath alluocaf. Ac onid yw hyn yn wir hefyd i fesur helaeth am Dr. Rees? Ni fynem hòni mai efe ydoedd y bardd, neu y pregethwr, neu y darlithydd penaf a gododd yn Nghymru erioed; ond diau y caniateir i ni ddywedyd y byddai yn anhawdd nodi allan unrhyw Gymro a ragorodd mor amlwg a diammheuol mewn cynifer o wahanol ffyrdd ag ef. Yn y Bregeth angladdol a draddodwyd iddo yn Nghapel Albion Park, Caerlleon, y nos Sul cyntaf wedi ei gladdedigaeth, sylwai y Parch. D. Roberts, Wrexham, yn dra phriodol:—

Yr oedd yn rhagori ymhob peth a gyflawnodd. Gellid meddwl wrth rai darnau, megys *Aelwyd F'ewythr Robert*, *Llythyrau yr Hen Ffarmwr*, *Adgofion Mebyd ac Ieuenctyd*, a darnau yn *Cathlau Henaint*, mai mewn *Hoenusrwydd* y rhagorai. Yn yr *Hiraethgan* ar ol Williams o'r Wern, *Elegy* ar ol ei frawd, a darnau eraill, gellid tybied mai *Galarebu* oedd ei gylch. Yn *Emmanuel* a *Job*, gellid casglu mai fel *Rhamantwr* y dysgleiriai. Yn ei awdlau ar *Heddwch*, *Awdl Foliant*, a'i gywyddau, tybid mai yn y mesurau *caethion* y teimlai yn fwyaf cartrefol. Yn ei emynau, gellid tybied mai *Peraidd Ganiedydd* y torwyd ef allan i fod. Yn ei lythyrau ar Lywodddysg, gellid meddwl mai gwladweinydd y bwriadwyd ef i fod. Yn ei Esboniad ar yr Epistol at yr Hebïeaid, gellid barnu mai *Deonglwr Ysgrythyrol* oedd y cylch y dylasai droi ynddo. Pan ar y llwyfan, gallesid dyfalu mai *Darlithydd* cyhoeddus y bwriedid ef. Yn y pulpud ar ddydd yr uchelwyl, gallesid penderfynu mai *Pregethwr Cyfiawnder* oedd ei swydd i fod.

Mewn cyffelyb fodd hefyd y llefarodd y Parch. J. Evans (Eglwys Bach) yn y bregeth angladdol a draddododd efe iddo yn Llundain. Gan ei gyferbynu â Dafydd, brenin Israel, efe a ddywedai:—

Hynodid Dafydd gan amlochredd ei feddwl, amrywiaeth, llïosogrwydd nerth, a ffrwythlondeb ei ddoniau. Yr ydoedd yn fardd, cerddor, llenor, milwr, gwleidyddwr, prophwyd, awdwr Ysgrythyrol, a brenin. Ac yr oedd iddo "enw mawr" ymhob un o'r cymeriadau hyn. Y fath oedd nerth ei feddwl, dysglaerni pob un o'i gynneddfau, a mawredd swm, rhagoroldeb ansawdd, a phwysigrwydd amcan ei gynnyrchion o bob math, fel y teimlir ei fod ef yn frenin ymhob cylch a lanwodd—brenin o fardd, brenin o gerddor, brenin o filwr, a brenin o frenin. Ac un felly oedd gymhwys at waith ei oes. Yn yr holl bethau hyn, ac i fesur helaeth iawn hefyd, safai ein gwrthddrych yn eilun tarawiadol o Dafydd. Onid oedd Dr. Rees yn fardd, beirniad, golygydd, gohebydd, awdwr, gwleidiadwr, pregethwr, darlithiwr, ac yn bobpeth ond cerddor? a dywedir nad ydoedd yn hollol ddyeithr i'r gangen hono hefyd. Ac yn yr amrywiol gymeriadau hyn, y fath amrywiaeth diderfyn geid ynddo mewn arddull a naws! Medrai esbonio, rhesymu, dadleu, appelio, a desgrifio, ac wrth wneyd hyny, chwareu degtant ei naws, o'r tyner i'r llym, o'r prudd i'r digrifol, o'r tlws i'r ofnadwy, gan fod yn wawdlym neu yn swynol, yn syml neu yn aruchel, fel y gofynai y mater mewn llaw, neu y gweddai i amgylchiadau ar y pryd, ond bob amser yn ddyddorol, yn argraffiadol, ac yn llwyddiannus. Adgofier ei lafur cyhoeddus, neu darllener ei weithiau argraffedig, a chanfyddir yn y fan nad oedd diwedd ar amrywiaeth ei ddull a'i ddawn.

Diau yr ystyrir fod y tystiolaethau uchod o barthed i nerth ac "amlochredd" athrylith Dr. Rees mor ragorol a theg, fel na raid ychwanegu atynt yma. Gan hyny awn rhagom i sylwi yn fwy arbenig, yn ol fel y bwriadem ar y dechreu, ar ei athrylith fel pregethwr, bardd,

a darlithydd, gan gyfeirio at ei weithiau ef ei hun am brofion o gywirdeb yr hyn a ddygir ymlaen genym yn y naill ddosran a'r llall. Gan mai fel Gweinidog yr Efengyl yr adweinid ac yr edmygid ef yn benaf yn ein mysg, gweddus fydd i ni ddechreu gyda y byrdraethiad a ganlyn am

EI ATHRYLITH FEL PREGETHWR.

O bob swydd, eiddo y pregethwr yw yr anrhydeddusaf. Y mae pregethu o Ddwyfol osodiad, ac yn dal cysylltiad uniongyrchol â'r achosion pwysicaf o fewn y greadigaeth. Tra yn hawlio parchedigaeth dynolryw yn gyffredinol, geilw y swydd hefyd am wasanaeth y talentau uchaf i gyflawni ei dyledswyddau a dwyn i ben ei hamcanion goruchel. Nid dibwys yn nghyfrif y byd yw gorchestion beirdd, a buddugoliaethau rhyfelwyr; ond tra y mae y bardd yn fwy na'r rhyfelwr, y mae y gwir bregethwr yn fwy na'r ddau. Brwydrai Napoleon Bonaparte am Ewrop; canai Milton ar gyfer holl gyfnodau amser; ond pregetha pob gweinidog da i Iesu Grist erbyn tragywyddoldeb. Gwaith a dderfydd ac a ddiflana yw pob gwaith nad oes iddo ond amcanion tymmorol yn unig; ond am waith y weinidogaeth efengylaidd, erys y canlyniadau o honi wedi i greadigaethau ymollwng, ac i amser beidio a bod mwyach. Arddengys y rhai a ddiystyrant bregethu a phregethwyr na wyddant hwy feddwl Crist, a da fydd os na chânt eu hunain yn rhestr ddu gelynion ei groes Ef pan ddelo y diwedd. Trwy bregethau y prophwydi sanctaidd y parotowyd ffordd yr Arglwydd ar y ddaear, a thrwy lef un yn llefain yn y diffeithwch y gwnaed yn hysbys ddyfodiad yr Hwn yr oedd ei fynediad allan o'r dechreuad, er dyddiau tragywyddoldeb. Yntau ei hun hefyd, pan ddaeth yr amser gosodedig, a ddechreuodd fyned o amgylch, gan bregethu teyrnas Dduw. Yn ei gomisiwn cyntaf i'w ddysgyblion, gorchymynai iddynt gyhoeddi efengyl y deyrnas i ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel; a chyn gadael y ddaear, efe a'u tynghedai i droi allan i'r holl fyd, a phregethu yr efengyl i bob creadur. Ymffrostiai Paul, y mwyaf o'r apostolion, yn y ffaith iddo gael ei anfon, nid i fedyddio, ond i bregethu; a cher bron byd anghrediniol, efe a dystiolaethai, mai drwy yr hyn a alwai rhai yn "ffolineb pregethu," y gwelodd Duw yn dda gadw y rhai sydd yn credu. Dyma yr offerynoliaeth bwysicaf tuag at ddwyn y byd dan lywodraeth yr Hwn yn unig y mae iddo hawl i deyrnasu. Gyda'i ddyledswyddau lawer, a'i gyfrifoldeb aruthrol, pa ryfedd i'r apostol dori allan, gan ofyn, "A phwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?"

Gwyddom fod yn unol â threfn y Goruchaf fendithio i raddau helaeth, yn awr ac yn y man, lafur pregethwyr o alluoedd pur gyffredin, am y ceir ynddynt "wreiddyn y mater," a'u bod yn wir awyddus i ddwyn eneidiau at Grist. Yr un pryd, hyfryd iawn yw meddwl am y lliaws o ddynion gwir dalentog a fuont mewn gwahanol oesau yn ymwneyd â gwaith y weinidogaeth,—dynion yr oedd eu hyawdledd yn ddigon i gynhyrfu teyrnasoedd, a dynion hefyd a berchenogent athrylith i lywio teyrnasoedd, pe wedi eu gosod gan amgylchiadau ac mewn sefyllfaoedd at hyny. Ni phetruswn ddyweyd fod Dr. Rees yn perthyn i'r dosbarth uchaf ac anrhydeddusaf hwn o bregethwyr. Yr oedd wedi ei

freintio â chymhwysderau arbenig at waith y weinidogaeth. Os wedi ei eni yn fardd, paham nad yn bregethwr hefyd? O ran meddwl, corff, a llais, yn gystal ag o ran profiad, gwybodaeth, ac angerddoldeb, yr oedd ynddo bob peth tuag at ddyrchafu urddas y pulpud a bod yn feistr pob cynnulleidfa y safai i fyny i'w hanerch dros Grist. Teimlasai "nerthoedd y byd a ddaw" yn ymaflyd yn ei enaid cyn dechreu o hono ar y gwaith. Daethai ei hunan yn bechadur truan, colledig, at droed y groes, cyn ymroddi i annog eraill i ddianc yno am fywyd ac iachawdwriaeth. Os bu dipyn yn hir yn myned drwy ei gwrs o ragbarotoad, daeth allan o'r diwedd yn debyg i gomed losgyrnog, yr hon a ennilla fwy o sylw na'r aneirif sêr a frithant y ffurfafen o'i hamgylch. Ni raid rhyfeddu cymaint at ei angerddoldeb, pan y cofiom am y tân oedd ar yr allor deuluaidd yn ei hen gartref. Y peth i ryfeddu ato fuasai iddo beidio cipio y fflam. Dygasid ef i fyny yn nghanol sŵn addoli. Peth cwbl naturiol oedd iddo ddysgu edrych i fyny at bregethwyr uwchraddol gyda theimladau o barch ac edmygedd difesur. Cerddai ymhell ar lawer achlysur er mwyn y boddhâd o gael clywed rhai o'r hen bregethwyr goreu yn traddodi eu cenadwri. Cyflwynid i'w sylw y pryd hwnw y cynlluniau godidocaf; oblegid am y cyfnod ymha un y dechreuodd ef bregethu, priodol yw dyweyd mai cyfnod nerth a gogoniant mwyaf y Pulpud Cymreig ydoedd.

Soniasom yn barod am ei ymddangosiadau cyntaf yn nghymanfaoedd yr Annibynwyr, a'r sylw a'r parch anghyffredin a delid iddo, pan nad oedd eto wedi ei neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth. Trwy ras Duw, ynghyd a nerth yr athrylith oedd ynddo, yr oedd ei gynnydd yn y blynyddoedd dilynol yn destun syndod boddhaus ymhob cyfeiriad. Gwelid ei fod fel Apolos, yn "ŵr ymadroddus, cadarn yn yr Ysgrythyrau." Deallid fod holl elfenau y pregethwr hyawdl yn cydgyfarfod yn ddedwydd a chyflawn ynddo, a bod yr oll eisoes dan ddysgyblaeth deilwng ganddo. Agorid llygaid pobl i weled fod ei adnoddau meddyliol yn dra ëang, os nad yn ddihysbydd. Ei iaith ydoedd glir, cywir, a grymus odiaeth. Os hyawdledd yw gallu llefaru i bwrpas—llefaru fel ag i gadwyno sylw torfeydd mawrion, a'u harwain hwnt ac yma yn ol ewyllys y llefarwr—yna yr oedd ef yn hyawdl dros ben. Ei lais ydoedd glir a melodaidd pan y dechreuai lefaru, ond wedi iddo dwymno yn ei fater, dyrchafai ei lais, ac yn awr ac eilwaith rhoddai floedd a'n hadgofiai am grochlef y daran pan yn uchder ei rhwysg, ac y pair i ni feddwl fod yr wybrenau yn hollti, a'r byd o'n deutu yn siglo. Hyd yn nôd pan fyddai yn fwyaf tanbaid, yr oedd ganddo berffaith lywodraeth ar ei lais a phobpeth; byth ni cheid achos i deimlo ei fod megys yn ymgolli oddiar y rheiliau. Pan y troes allan gyntaf, llawer o siarad fyddai ymhlith y bobl am ei ymddangosiad gwledig ac aflerw. Cof gan yr ysgrifenydd glywed hen gyfaill yn dyweyd i deimlad pur ryfedd ei feddiannu ef pan aeth i'w wrando y tro cyntaf. Yr oedd yn meddwl na welsai neb mor hagr yn esgyn i bulpud erioed. Ond ymhell cyn diwedd yr odfa, yr oedd fel wedi ei weddnewid ger ei fron, nes y teimlai mai efe oedd y tlysaf o'r pregethwyr oll. Dyna beth yw swyn hagrwch, neu, fel y geilw Paxton Hood y peth yn un o'i ysgrifeniadau, "*The charm of ugliness.*" Dyweder a fyner, y mae yn ffaith fod llawer o areithwyr penaf y byd, o

Demosthenes i waered heibio i Arglwydd Brougham, yn ddynion yr oedd iddynt wynebau geirwon nodedig, a rhai o honynt o'r fath nodwedd ag a darawai ddychryn drwy galonau pobl, hyd nes y dechreuent gael eu symud gan genllif cynhyrfus eu hyawdledd. Diau na bydd i'r neb a welodd gopi neu gopïau o'r darlun cyntaf a dynwyd o'n gwrthddrych, tuag adeg ei ymsefydliad yn Ninbych, nas cydnebydd nad oes dim allan o le yn y crybwyllion hyn. Ond buan ar ol iddo ymsefydlu yn Liverpool y dechreuodd y math yna o "*charm*" gilio oddiwrtho. Daeth i fod yn "gnodiog" a gwir hardd, yn deg yr olwg arno, fel y mae y darluniau diweddaraf o hono yn cyferbynu yn hynod â'r cyntaf hwnw yr ydys newydd gyfeirio ato. Ac fel yr oedd ei ymddangosiad allanol wedi cyfnewid yn fawr rhagor yr hyn ydoedd, felly hefyd yr ydoedd gyda golwg ar dôn ei weinidogaeth, a'i ddull o draddodi ei genadwri. Fel un o "feibion y daran" yr adwaenid ef ar y cyntaf, ond teimlid ei fod yn amlwg fel "mab dyddanwch" er ys llawer blwyddyn bellach. Yr oedd y gwresogrwydd, yr oslef hyfryd, a'r hen ddull swynol o bwysleisio yn aros, ond yr oedd yr angerddolrwydd ofnadwy hwnw a wnelai y cyfan yn oddaith o'i ddeutu, wedi colli i gryn fesur. Prin y gall y rhai na chlywsant ef oddieithr yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf o'i oes, ffurfio dirnadaeth am y nerthoedd a fyddent yn cydfyned â'i weinidogaeth yn fynych pan yn ei ddyddiau goreu. Pregethai yn fwy tanllyd ac argyhoeddiadol; ac eto amcanai at ddwyn gydag ef i bob man "gyflawnder bendith efengyl y tangnefedd." Gellid meddwl fod y geiriau a ddefnyddiodd ef wrth ddesgrifio gweinidogaeth Elias o Fôn, yn dra phriodol i'w cymhwyso at yr eiddo yntau, yn yr adeg yr ydys yn cyfeirio ati, sef fod "ystormydd ei tharanau a'i mellt yn gryfion ac ofnadwy iawn. Gallasai y dyrfa feddwl weithiau fod mynyddoedd Sinai ac Ebal yn sefyll un bob ochr iddi, ac yn arllwys eu melldithion ar ei phen. Ar ddiwedd y dymhestl o fellt a tharanau, disgynai cawod o'r gwlaw graslawn i waered; cliriai y cymylau, gloewai'r awyr, a thywynai Haul Cyfiawnder yn ei nerth ar eneidiau." Ymhlith ei frodyr nis gellid enwi odid un cymhwysach i roddi darluniad o hono yn yr adeg y cyfeirir ati na'r Parch. J. Thomas, D.D., o Liverpool; ac fel y canlyn y tystiolaetha efe yn ei bregeth angladdol a ymddangosodd dro yn ol yn y *Dysgedydd*, dan y teitl y Bugail-frenin a'r Bugail-brophwyd :—

Parodd darllen Dr. Jenkyn ar "Waith yr Ysbryd," a darlithiau Finney ar "Adfywiadau," iddo fyned ymhell i'w hysbryd, yr hyn a roddodd fwy o uniongyrchedd i'w weinidogaeth, yr hon oedd bob amser yn ddifrifol ac argyhoeddiadol; ond yn yr adeg yma yr oedd y fath nerth ynddi fel nad oedd dim braidd a safai o i blaen. Gwelwai y dynion cryfaf ger ei fron, a gwelwyd lliaws o'r rhai cryfaf mewn annuwioldeb yn cael eu llwyr orchfygu gan nerth yr efengyl. Diau iddo yn y blynyddoedd hyny gyrhaedd pwynt uchaf ei boblogrwydd fel pregethwr, ac ni chollodd ef hyd ei ddiwedd, er iddo gyfnewid yn fawr yn ei arddull ar ol hyny. Yr oedd ei bregethau yr adeg hono yn dangos ôl llafur mawr, yn cynnwys hanfod yr efengyl, ac wedi eu gosod yn y wedd debycaf i daro y galon a'r gydwybod er cynnyrchu argyhoeddiad, ac yr oedd ei ddifrifoldeb ar brydiau yn ofnadwy. Gwnai yr apeliadau mwyaf uniongyrchol at ei wrandäwyr—ymlidiai hwy o'u holl lochesau, daliai hwy yn gyfrifol am eu gwrthodiad o'r efengyl, ac mor ddiesgus a fyddent yn y farn; a therfynai yn aml gyda'r gofyniad pwysig, "Y cyfaill, pa fodd y daethost i mewn yma heb fod genyt wisg priodas?" Edrychai yn myw llygad y gynnulleidfa mewn dystawrwydd oedd yn annyod lefol i gnawd. Yna ychwanegai mewn llais dwfn,

dystaw, difrifol—"Ac yntau a aeth yn ——." Ac ar hyny eisteddai i lawr heb orphen y frawddeg, ond gan wneyd ei fudanrwydd ei hun yn engraifft o'r hyn a fyddai i wrthodwyr yr efengyl. Elai yn ochain ac yn wbain weithiau yn y dystawrwydd hwnw, a llawer gwaith y gwelwyd torfeydd cyfain wedi eu gwasgu i gyfyngder i ofyn, "Beth sydd raid i ni wneuthur fel y byddom gadwedig?"

Fel engraifft o'r apeliadau a ollyngai efe megys bolltau llymion, tanllyd, i fysg ei wrandäwyr yn fynych yn y blynyddau hyny, yr ydys yn dyfynu o ganlyn allan o ddiweddglo y bregeth ar yr "Ysbryd a'r Briodasferch," a draddodwyd ganddo yn Nghymanfa Conwy, yn 1838, ac a argraffwyd ar gais lliaws o'r rhai a'i gwrandawsant, yn fuan ar ol hyny:—

Yn ddiweddaf, *Gair at yr Annychweledig.* Fy anwyl gydbechadur, Pa beth a ddywedi wrth y pethau hyn? Pa beth yw dy esgus bellach? "Paham y byddi farw?" Y mae Duw yn gofyn hyn i ti; ni wyr Ef am yr un rheswm paham; a wyddost ti? Nid oes yr un rheswm paham yn ei arfaeth a'i gynghor ef—yr un yn Iawn ei Fab—y mae hwnw i gyd yn "llefaru pethau gwell;" y mae yn Iawn drosot ti, yn gystal a phe na buasai pechadur ond tydi ar y ddaear. Nid oes yr un yn ngweinidogaeth yr efengyl; y mae hono i gyd yn gymhelliadol. Ac nid oes yr un yn ngweinidogaeth yr Ysbryd chwaith; "y mae yr Ysbryd yn dywedyd, *Tyred.*" A oes genyt *ti* reswm paham? A ei di i uffern heb yr un rheswm genyt dros fyned yno? A fydd yn rhaid i ti fyned yn fud pan y gofyna cythreuliaid, "Pa fodd y daethost ti yma?" Enaid anwyl, lle wedi ei barotoi i ddiafol a'i angelion yw y "lle poenus hwnw," ac nid i ti. Tyred yr awrhon ac ymresymwn. Yn sicr nid äi i ddywedyd eto dy fod yn aros ac yn dysgwyl am yr Ysbryd, ac nad oes genyt ddim i'w wneyd nes y delo ef; "y mae yr Ysbryd yn dywedyd, Tyred;" tithau yn "war-galed a dienwaededig o galon, bob amser yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân;" diffoddaist ei gymhelliadau filoedd o weithiau, yn lle eu magu a'u meithrin. "Gweithia allan dy iachawdwriaeth, canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynot ewyllysio a gweithredu, o'i ewyllys da Ef." Yr holl dueddiadau at, a'r dymuniadau am iachawdwriaeth a deimlaist erioed oeddynt waith Ysbryd Duw ynot; dy iachawdwriaeth oeddynt, pe cawsent eu magu a'u "gweithio allan," yn lle eu mygu a'u dyfetha. Pa sawl gwaith y lleddaist iachawdwriaeth dy enaid pan oedd yn agos iawn atat, "yn dy enau ac yn dy galon?" Yn lle myned â'r cymhelliadau hyny at orsedd gras, a gweddïo, gan ddywedyd, "Cadarnhâ, O Arglwydd, yr hyn a wnaethost ynof fi," aethost â hwynt at y dienyddwyr; "tarewaist benau y rhai bach wrth y meini."

Ond ni ddylai neb feddwl mai mewn arddull gyffrous o'r natur yma y pregethai bob tro, hyd yn nod yn yr adeg fywiog a hynod hono ar ei fywyd. Fel pob dyn gwir fawr, yr oedd yn gallu amrywio ac ymgyfaddasu yn ol fel y byddai materion neu amgylchiadau yn galw. Wrth draddodi siars i weinidog neu eglwys ar ddydd ordeiniad, gallai fod mor hamddenol ac "ystyrbwyll" a neb pwy bynag. Tra yn teithio i gyfarfod neu Gymanfa, ceid ganddo hwyrach bregethu ar ganol dydd mewn ardal wledig, pryd y llefarai yn esmwyth a didrafferth, oddiar air fel hwn acw ond odid, "Fy mab, bwyta fêl," &c., neu fel y clywsom ef un tro yn ein hen gartref ar foreu dydd gwaith, yn pregethu yn rhwydd, eto yn effeithiol dros ben, oddiwrth y geiriau, "O herwydd paham, ninnau hefyd, gan fod cymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch," &c. Pan ofynwyd iddo ddyfod o Ddinbych i Liverpool i wasanaethu yn ngŵyl agoriadol Capel Salem, Brownlow Hill, pregethai iddynt y nos gyntaf ynghylch y "pedwar peth bychan," y crybwylla Solomon am danynt, y rhai eto ydynt "ddoeth iawn." Yr oedd y bregeth yn odidog, ac fel wedi ei pharotoi yn arbenig ar gyfer yr ach-

lysur. Ni allasai feddwl am bethau amgenach i'w traethu yn nglywedigaeth pobl a gyfarfyddent ynghyd dan y fath amgylchiadau. Traddodai yn hapus, gan ddyrchafu ei lais yn awr ac eilwaith, nes cynhyrfu y dorf drwyddi draw. Yn yr wythnosau dilynol sonid mwy am bregeth y "pedwar beth bychan," nag am ddim arall a glywsid yn ystod yr ŵyl. Ond gyda thestunau o natur wahanol, ac ar achlysuron a alwent filoedd ynghyd, deuai allan yn fwy hoenus ac angerddol o lawer. Peth arferol yw son am odfeuon hynod a gafodd hwn ac arall o'r tadau enwog y rhai a hunasant; ond yr oedd yr odfeuon hynod a gafodd ef yn ei oes mor liosog fel mai anhawdd yw gwybod pa le i ddechreu, mwy na dybenu, gyda hwynt. Sonia Gwalchmai yn ei adgofion am dano, am odfa dra dysglaer a gafodd mewn Cymanfa yn Nghaernarfon, rywbryd o gylch pum' mlynedd a deugain yn ol. Cynnelid y Gymanfa yn un o gapelau mwyaf y dref:—

Ei bwnc (ebe efe) ydoedd taith Israel drwy'r anialwch, cyfeiliornadau y genedl, maddeugarwch Duw, eu gwaredigaethau gwyrthiol, &c., fel cynllun o daith y Cristion yn y byd. Bu yn faith iawn yn y rhanau rhagarweiniol, ac elai drwy yr holl fanylion fel yr oedd wedi rhedeg yn bur agos i awr o amser, ac heb effeithio braidd ddim ar deimladau y dorf, ac yr oedd pawb yn ofni mai methiant fyddai y tro hwnw, oblegid yr ystod hir y bu heb gael gafael ar enaid ei fater; ond aroswch dipyn bach—dyma ryw deimlad yn disgyn arno ef ei hun, ar foment, fel trydan, a thaflodd y teimlad hwnw gydag ychydig o ymadroddion tanllyd ar bob clust a chalon oedd ger ei fron, ac am y chwarter awr dilynol tywalltodd y fath ffrydlif o hyawdledd cysegredig oedd fel gwefreiddiad byw ar deimladau pawb, nes yr oedd yn gyffro byw drwy yr holl addoldy, ac yr oedd y dorf yn teimlo fel pe buasent yn colli y ddaear dan eu traed, ac fel pe buasai daeargryn yn siglo y lle hyd at waelodion y sylfeini, a'r drysau yn agoryd, cadwyni yn dattod, a'r carcharorion yn myned yn rhydd, ac ambell i bererin yn gwaeddi allan, "Y fagl a dorwyd, a ni a ddiangasom," a'r cyfan yn debyg fel yr oedd hen garchar Philippi gynt, pan oedd Paul a Silas yn gweddïo ac yn canu mawl i Dduw. Yr oedd yr enwog Christmas Evans yn gwrando yn wyneble yr oriel, a chododd ar ei draed gan angerddoldeb yr hwyl fawr, ac yr oedd yn troi ôl a blaen, gan ysgwyd ei fraich ddehau, fel pe buasai ar gymeryd ei adenydd i ehedeg ymaith, a phob dyn yn y lle yn teimlo yn debyg iddo, a pharhaodd y pregethwr i dywallt y dylif nerthol gyda grym trydanol, a'r holl ymadroddion fel cawod o wreichion byw yn disgyn ar deimladau yr holl wrandäwyr. Cyn terfynu, trodd i fath o dynerwch yn ei lais, a chododd fyfyrfod y dorf megys mewn awyren i'r nen, mewn syniad o addoliad pur, wedi gwir gyrhaedd y deall goleuedig. Barnwn fod y tro hwn yn un o adegau hapusaf ei oes, fel cenadwr Duw.

Gall yr ysgrifenydd hefyd gofio am lawer odfa wir ardderchog a gaed gydag ef yn Nghaernarfon mewn blynyddoedd diweddarach. Ond ni chrybwyllir yma ond am un yn unig. Adeg cylchwyl flynyddol ydoedd, a chan ei fod ef i bregethu yn yr hwyr, rhaid oedd cael benthyg Moriah, capel y Methodistiaid,—un o'r rhai eangaf yn Nghymru. Mawr oedd awyddfryd y bobl oreu yn y dref a'r wlad o amgylch am gael ei glywed y noson hono. Yr oedd y capel wedi ei orlenwi hyd y drysau. Yr oedd yr olygfa o gymydogaeth yr areithfa yn fawreddus,—môr o wynebau dynol i fyny ac i waered, a'r oll yn arddangos pryder a meddylgarwch hyfryd. Pregethai y noson hono ar Wirionedd Duw, neu y Llwon Dwyfol, oddiar y geiriau, "Fel mai byw fi, medd y Brenin, enw yr hwn yw Arglwydd y lluoedd, cyn sicred a bod Tabor yn y mynyddoedd, a Charmel yn y môr, efe a ddaw." Yr ydys yn cael

yn ei *Koheleth* fraslun da o'r bregeth odidog hono, er fod llawer o'r ymadroddion mwyaf trydanol a arferai ef ar y pryd wedi myned ar goll yn y trosglwyddiad o honi ar y papyr. Ymhell cyn y diwedd yr oedd y gynnulleidfa fel wedi ei dal â synedigaeth, ac weithiau hefyd yn ymddangos fel mewn rhyw or-awen nefol, ac fel ar fin tori allan mewn gorfoledd cyhoeddus. Pan y daeth, wrth dynu tua'r diwedd, i sylwi fod y Llwon Dwyfol yn cynnwys yr annogaethau cryfaf i gredinwyr ar eu gyrfa tua'r nefoedd, yr oedd yr effaith yn ogoneddus yn wir. Diau yr ystyrir fod y darn yma o'r bregeth, megys ei ceir yn y *Koheleth*, yn werth ei ddyfynu yn y fan hon. Wedi cyfeirio at y geiriau, "Canys y mynyddoedd a giliant, a'r bryniau a symudant, eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfammod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd yr hwn sydd yn trugarhâu wrthyt," ä rhagddo :—

Cedyrn natur, pendefigion y ddaear, yw y mynyddoedd a'r bryniau. Derbyniasant eu teitlau, "Y mynyddoedd tragywyddol a'r bryniau oesol," oddiwrth yr awdurdod uchaf (Hab. iii. 6). Y maent hwy yn aros ac yn parhâu yr un fath o oes i oes. Y mae wyneb y ddaear, a'r wlad o'u hamgylch, yn myned dan gyfnewidiadau yn barhâus, dan law llafur a chelfyddyd dyn; ond y maent hwy, y mynyddoedd, yn parhâu yr un. Pe delai Jeremiah yn awr i dalu ymweliad â'r hen wlad, efe a welai fod Tabor a Charmel yn gwisgo yr un agwedd yn union â'r un oedd arnynt pan oedd efe yn ysgrifenu geiriau ein testun, er mai prin y gallasai efe adnabod y wlad o'u hamgylch gan faint y cyfnewidiadau a wnaed arni. Y mae y mynydd megys yn dwyn delw ei Greawdwr digyfnewid ar ei wedd. Bu llawer cenedlaeth o ddefaid a bugeiliaid yn cynniwair ar hyd ei lechweddau yn olynol, am oes ar ol oes; ond ni bu iddo ef, y mynydd, ragflaenor erioed, ac ni bydd iddo olynydd byth ychwaith. Taflodd llawer gauaf fantell dew o eira dros ei ysgwyddau, ond nid oedd yn eira tragywyddol; toddodd dylanwad y gwanwyn yr eira ymaith, fel y rhedai yn ddagrau dros ei ruddiau crych; ond yr oedd efe yn aros yr un. Cuddiwyd ei goryn o'r golwg dan lenni tewion o niwl laweroedd o weithiau; chwythodd yr awelon y niwl ymaith, ond yno yr erys y mynydd yr un fath drwy yr oesau. Gorphwysodd llawer cwmwl blinedig dan ei faich ar ei ysgwydd; gwlawiodd pob cwmwl ei hun i ddiflaniad; ond deil y mynydd ei ysgwyddau llydain yn orphwysfanau i gymylau oes ar ol oes. Hen fynyddoedd hybarch, patriarchiaid a phendefigion y ddaear, a aroswch chwithau ar eich gorsafleoedd cedyrn heb ysgogi yn oes oesoedd? Na, "Y mynyddoedd a giliant a'r bryniau a symudant!" Teifl nerthoedd goruchwyliaeth y dydd mawr a ddaw hwythau hefyd oddiar eu gwadnau, a lle ni cheir iddynt. Daw oes hir y cyfammod â Noah i ben; tymmorau hau a medi yn darfod; deddfau gwanwyn a haf, cynauaf a gauaf, yn rhoddi i fyny eu swydd am byth; darfodedigaeth derfynol wedi ei dwyn ar bob peth, a môr a mynydd ni bydd mwyach, ac ni bydd amser mwyach; heuliau y nefoedd wedi diffoddi, a'i myrdd miliynau o ser wedi syrthio a diflanu am byth bythoedd! Ië, ond "Fy nhrugaredd ni chilia, a chyfammod fy hedd ni syfl, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd yn trugarhâu wrthyt." Saif y cyfammod, a'r drefn a gadarnhaodd Efe â'i lwon yn Nghrist Iesu cyn bod y byd, pan syrthia trefn natur yn ei gwedd bresennol i ddinystr a darfodiad. "Dyrchefwch eich llygaid tua'r nefoedd, ac edrychwch ar y ddaear isod; canys y nefoedd a ddarfyddant fel mwg, a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn, a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant feirw; ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd" (Esa. li. 6). Nid rhyfedd i bêr ganiedydd Israel, yn yr olwg ar gadernid tragywyddol y cyfammod hedd, anadlu ei enaid allan wrth farw yn acenion melusion ei gân ddiweddaf. Pan yn dodi ei goron ddaearol heibio, yn gollwng ei deyrnwïalen frenhinol o'i law am byth, gan adael ei orsedd yn wag i'w olynydd, gwnai hyny dan ganu y pennill melusaf a gyfansoddasai efe erioed: "Cyfammod tragywyddol a wnaeth Efe â mi, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr; canys fy iachawdwriaeth a'm holl ddymuniad yw." (2 Sam. xxiii. 5). Y mae trefn cyfammod yr iachawdwriaeth yn Nghrist mor ddigyfnewid â natur, ac mor barhâus â bywyd a chariad y Jehofah tragywyddol ei hun. I fynwes y cyfammod hwn y mae yr efengyl yn galw ac yn gwahodd eneidiau euog a cholledig i'w cuddio a'u cadw byth. "Deuwch ataf, gwrandewch, a bydd byw eich enaid, a mi a wnaf gyfammod tragywyddol â chwi, sef sicr drugareddau Dafydd."

Mynych y caed achos i sylwi, fod pregethau argraffedig llawer o wŷr mawr yr areithfa yn dra gwahanol i'r hyn a *fyddent* pan yn cael eu traddodi ganddynt yn ngwres y teimlad a gynnyrchir gan bresenoldeb torfeydd o bobl. Y mae yn ffaith i alaru o'i phlegid na feddylfiodd llawer o'r pregethwyr penaf a welodd y byd erioed, wrth barotoi brasluniau o'u pregethau, am ddodi i mewn braidd ddim o'u pethau goreu,—y meddyliau cynhyrfus, tanllyd hyny, a wefreiddient gynnulleidfaoedd mawrion, nes eu gorchfygu yn lân. A dyna ffaith alarus arall, sef, fod dynion hollol anfedrus wedi ymgymeryd lawer tro â chymeryd nodiadau o bregethau enwogion, ac yna eu trosglwyddo yn anmherffaith fel yr oeddynt. O herwydd yr achosion hyn ni chaed ond engreifftiau salw o gynnyrchion athrylith nifer mawr o'r rhai a ystyrid yn gewri y pulpud mewn gwahanol wledydd. Pwy, ymhlith y rhai a ddarllenasant bregethau Whitefield, Rowlands, ac Elias, er engraifft, na fuont yn teimlo gresyndod am na buasai llawer mwy o'r mawredd a berthynai i'r pregethwyr ardderchog hyny, wedi ei gadw ynddynt er budd a mwynhâd amgenach i genedlaethau dyfodol? Temlau ydynt, mae yn wir, ond temlau wedi colli eu haddurniadau dysgleiriaf. Y mae hyn yn wir, i gryn fesur, hyd yn nod am bregethau Dr. Rees, er mor hylaw oedd efe gyda'i ysgrifell. Diau y darllenir ei "Koheleth" gyda blas lle bynag y delo, ond teimlad aml un o'i edmygwyr mwyaf aiddgar a fydd, eu bod yn y traddodiad o honynt yn y pulpud yn annhraethol ragorach nag ydynt yma ar y papyr. Yn ei fyfyrgell, gyda'r pin ysgrifenu yn ei law, ymdebyga y pregethwr goreu yn aml i long fawr mewn culfor, yr hon a symuda yn arafaidd, rhag taro yn erbyn creigydd neu draethellau; ond yn y pulpud, mynych yr ymddengys yr un gŵr fel y llong hono ar ol cyrhaedd yr ëangfor, lle na raid meddwl am draethell na chraig, ond y ceir lledu yr holl hwyliau, a gollwng y llestr o flaen yr awelon i aredig y tònau, a chyflymu tua lle ei harfaethiad. Fel yna Hiraethog yn y naill amgylchiad rhagor y llall. Dygwyddodd yn hynod (megys o bwrpas i egluro ein meddyliau yn y fan hon), gyda golwg ar ddwy o'r pregethau a welir yn "Koheleth,"—cymerwyd hwy mewn llaw fer gan wŷr hynod fedrus at y gwaith, ar ddau o wahanol achlysuron, yn Abermaw. Traddodai y naill, sef, yr un ar "Gysegr Duw," yn Nghyfarfod Calan, 1878; a'r llall, sef yr un ar "Waith Duw," neu Weddi Habaccuc, yn Nghyfarfod Calan, 1882. Dylid ychwanegu ddarfod i'r ddwy ymddangos yn y *Dysgedydd* yn ddiweddar, er mawr foddhâd i'r darllenwyr yn gyffredinol, am y credid fod yr adroddiad o honynt yn gywir a ffyddlawn. Ond nid oedd ef ei hun yn gallu cyfranogi o'r mwynhâd i'r un graddau ac eraill; o leiaf, felly yr awgrymai wrth yr ysgrifenydd, yn fuan ar ol i'r bregeth ar "Waith Duw," neu "Y pâr wybod," ymddangos yn y misolyn a enwyd. Cydnabyddai fod yn dda ganddo fod pobl yn cael eu boddhâu fel yna am dro, "ond," ebe efe, gan daflu ei ben a throi ei lygad mewn dull nodweddiadol, "nid yn y wedd yna y carwn i i'm pregethau ymddangos ger bron yr oes a ddêl." Fel yna, o bosibl hefyd, y teimlai y cyffredin o brif bregethwyr y cyfnodau a aethant heibio, gan feddwl nad oedd pob peth o'r eiddynt oedd yn taro yn y pulpud yn gymhwys i'w adrodd felly yn hollol drwy y wasg. Yn wyneb hyn, da fod rhywrai wedi cymeryd trugaredd ar eu holoes-

wyr, gan gymeryd mewn llaw fer ambell ddernyn tra hyawdl, fel y ceid amgenach syniad am y mawr allu oedd ynddynt i gyffroi cynnulleidfaoedd mawrion nag a gawsid drwy un ffordd arall. Cof genym weled yn y *Christian Witness*, er ys llawer blwyddyn yn ol, sef pan oedd y cyhoeddiad hwnw yn anterth ei rym dan olygiaeth Dr. Campbell o Lundain, ddarn o bregeth y Parchedig John Elias oddiar y geiriau, "A ddygir y caffaeliaid oddiar y cadarn?" &c., wedi ei gyfieithu o ysgrif un a ddodasai ei eiriau i lawr wrth ei wrando ar achlysur nodedig yn eu traddodi. Ymhlith y Saeson edrychid ar y dernyn fel *masterpiece of eloquence*, teilwng o Massilon neu Robert Hall yn eu manau goreu. Pwy wrth ddarllen yr hyn a ysgrifenodd Elias a allasai dybied fod yn perthyn iddo y fath arucheledd a godidogrwydd yn yr areithfa?

Ond beïir ni, fe allai, am ymdroi. Yr oedd Dr. Rees, fel y gwyddom, yn feistr ymhob rhyw arddull; ond am yr un ddesgrifiadol, pwy yn debyg iddo! Pan yr ymaflai mewn pwnc o hanes, efe a ymhelaethai arno wrth ei bleser, y ffordd yma neu y ffordd acw, yn y dull mwyaf cywrain, difyrus, ac ardderchog, er cyrhaedd yr amcan o gadwyno sylw a pheri y boddhâd uchaf i bob dosbarth o wrandäwyr. Gwnelai i bob golygfeydd a gwrthddrychau fyw ac ymsymud mor ryfedd ger bron ein llygaid. Fel engraifft o'r modd y byddai ef yn ymdroi gyda rhyw hanes ysgrythyrol yn awr ac eilwaith, yr ydys yn dyfynu a ganlyn ar *Oruchwyliaeth y Ffon* yn y bregeth ar "Gysegr Duw," nid fel y mae yn y *Koheleth* (oblegid ni oes yno ond pedair neu bump o frawddegau ar y mater yn unig), eithr fel yr ydys yn ei chael drwy offerynoliaeth y "llaw fèr" yn y *Dysgedydd*. Ar ol cyfeirio at adeg gwaredigaeth Israel o'r Aipht fel cyfnod dechreuad yr oruchwyliaeth dan sylw, efe a ä rhagddo:—

Dechreuodd pan lefarodd Jehofah wrth Moses yn y berth, "Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob," yn dywedyd, "Mi glywais ocheneidiau fy mhobl sydd yn yr Aipht, a disgynais i'w gwaredu hwynt, a thydi fydd yr offeryn; tyred, mi a'th anfonaf at Pharaoh." Moses yn dyweyd, "Pwy wyf fi i fyned at Pharaoh? yr wyf wedi gadael yr Aipht er's llawer dydd, ac wedi tyngu nad af yno yn ol." "Rhaid i ti fyned," medd Duw. "Anfon rywun gyda mi," meddai Moses. Y mae hen esgusodion mor hyned â Moses. Efe oedd y cymhwysaf o bawb; yr oedd wedi ei fagu yn y llys, a gallai sefyll ger bron y brenin gystal â dim tywysog welodd llygaid erioed. Ond yr oedd efe am gael ei esgusodi; ond medd yr Arglwydd, "Beth sydd genyt yn dy law?" "Ffon," meddai Moses. "Tafl hi o dy law." Gwnaeth Moses, a dyma hi yn troi yn sarph, a Moses yn cilio rhagddi hi. "Estyn dy law," medd Duw, "ymafl yn ei llosgwrn hi." Gwnaeth Moses, a dyna hi yn ffon yn ei hol. "Wel, dyna i ti ffon iawn; cymer hon yn dy law, a dos at Pharaoh, a dywed wrtho, 'Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw yr Hebreaid, Gollwng fy mhobl fel y'm gwasanaethont;' ac os gwrthoda wneyd hyny, dyro y ffon ar ei wàr." Ac fe gafodd yr Aipht ei theimlo hi yn ofnadwy. Nid oedd un ffon arall wnai y tro; yr oedd llawer ffon well, a gwerthfawrocach, a harddach na hi, ond ni wnai mo'r tro. Dim ond codi y ffon yma wrth ben afon yr Aipht nad oedd hono yn dychrynu, ac yn troi fel torchen o waed. Ei hestyn at yr afon, llyffaint yn heigio dros holl wlad yr Aipht. Ar amnaid y ffon, dim ond amnaid iddi, dua y nefoedd, a dyna y gwlaw a'r cenllysg yn gymysg â'u gilydd, nes yr oeddynt yn ddinystr ar gnwd y maes a ffrwyth y ddaear. Un ofnadwy oedd y ffon yma. Ac wedi rhoddi deg ffonod, nes ystwytho Pharaoh galed i adael i'r genedl fyned ymaith, y mae drachefn yn erlid ar eu hol, ac yn dywedyd, "Erlidiaf, goddiweddaf, rhanaf yr yspail." Yr oedd y genedl heb le yn y byd i droi, ac yn gwaeddi. Yr oedd Moses yn ceisio meddiannu ei hun, ac yn dywedyd wrthynt, "Peidiwch dychrynu; sefwch ac edrychwch ar iachawdwriaeth

yr Arglwydd;" a dyma lais o'r nefoedd, "Paham y gwaeddi?" O, y mae wedi myned yn gyfyng mewn gwirionedd, wedi myned yn achos gwaeddi; darfu am danom. "Pa le y mae dy ffon di? Dos o flaen y bobl a dywed wrthynt am ddilyn, ac wedi i ti fyned at y môr, côd dy ffon." Gwnaeth Moses felly, ac mor gynted ag y gwelodd y môr y ffon, gwnaeth ffordd lydan agored o flaen y gwaredigion; ac wedi iddynt fyned trwodd, yn cau ac yn boddi yr Aiphtiaid. Wedi hyny, pan y mae y bobl yn grwgnach yn yr anialwch eisieu dwfr, mae yr Arglwydd yn dyweyd wrth Moses, "Cymer dy ffon, dos at y graig, taro hi ar y graig." Gwnaeth hyny, ac y mae y graig yn tywallt dyfroedd. Fe ddaeth yn gyfyngder arnynt wedi hyny mewn amser, mewn lle arall, ac y mae yr Arglwydd yn dyweyd wrtho, "Dos, cymer dy ffon, ond paid a'i defnyddio y tro hwn; llefara wrth y graig." Fe ddaeth rhyw falchder neu rywbeth ar Moses; aeth o flaen y bobl at y graig ac edrychodd ar y dyrfa, a tharawodd y graig dair gwaith. Fe ddaeth dwfr allan o honi, ond dywedodd Duw, "Dyna ti wedi andwyo y ffon," am iddo wneyd hyny; nid oes gair byth o son am y ffon ar ol hyn. A dyma oruchwyliaeth arall yn dechreu, ac yr oedd yn rhagori mewn gogoniant ar y lleill,—goruchwyliaeth cysegr Duw; ac at hono y cyfeiria y testun: "Gorsedd ogoneddus, ddyrchafedig o'r dechreuad, yw lle ein cysegr ni."

Eto, yr ydys yn cael engreifftiau gwir darawiadol o'i allu i amrywio ei hun, yn ol fel y byddai yr amgylchiadau, yn y bregeth arall a nodasom,—yr un ar "Waith Duw," yr hon a gymerwyd mewn llaw fèr gan un o weinidogion y Methodistiaid, sef y Parch. R. H. Morgan, M.A., Abermaw. Ymddengys y bregeth mor wahanol yma i'r hyn ydyw (yn ddwy ran) yn *Koheleth* fel nas gellir braidd eu cymharu â'u gilydd, oddieithr mewn ychydig fanau yma ac acw. Er mwyn y rhai na chlywsant ef yn ei thraddodi, ni a roddwn yma ddyfyniad neu ddau o'r bregeth fel y caed hi o ddwylaw Mr. Morgan, am eu bod yn engreifftiau da o'i ddull hapus ef o ymwneyd â hanesion y Bibl yn ei flynyddoedd olaf. I ddechreu, wele ei ddesgrifiad o Daniel yn sefyll i ddehongli breuddwyd brenin Babilon:—

Bore fory a ddaeth, ac aeth Daniel a'i dri chyfaill, wedi cael yr allwedd oedd y nefoedd wedi ei roddi iddynt, a darfu iddynt ddattod y clo, a hwy a gawsant y breuddwyd. "Ai ti yw Daniel?" "Ië." "Wyt ti yn dyweyd y gelli adrodd fy mreuddwyd a'i ddeongliad?" "Ydwyf, O frenin," a dyna y brenin yn dechreu synu. "Edrych di, 'rwan, os wyt ti yn meddwl ei bod yn ddiogel i ti wneyd rhyw freuddwyd o'th ben dy hun, ac adrodd hwnw, byddaf yn siwr o adnabod fy mreuddwyd." "Gweled yr oeddit, O frenin, yn dy freuddwyd, ac wele ryw ddelw fawr; pen y ddelw hon ydoedd o aur da, ei dwyfron a'i breichiau o arian, ei choesau o haiarn, ei thraed oedd beth o honynt yn haiarn, a pheth o honynt o bridd." "Dyna fo yn wir—ion—edd i." Yr oedd yn rhyfeddu. "A thi a welaist gareg yn cael ei thori, nid trwy waith dwylaw, yn ei tharaw ac yn ei malurio o'i thraed hyd ei choryn mor faned â mân ûs lloriau dyrnu haf." "Dyna fo; ïe mi tyngwn o, 'rwan, y mae yn dyfod i'm cof gyda phob gair." Rhydd Daniel y deongliad iddo, ac wedi hyny, beth sydd yn canlyn? "Yn awr y gwn." Cadwch hyny mewn cof. Yn holl hanes y goruchwyliaethau, y mae y "par wybod" yn dyfod i'r amlwg. "Yn awr y gwn." "Beth a wyddost?" "Mi wn beth na wyddwn erioed o'r blaen,—mi wn mai eich Duw chwi sydd Dduw mewn gwirionedd, yn gwybod pethau dyfnion, ac yn eu dwyn i oleuni. Y mae genych chwi Dduw heb ei fath." Dyna droi y doethion yn eu hol, ac ynfydu y dewiniaid, a Duw Daniel yn cael ei gydnabod yn y llys, trwy gael ei ddangos fel yr unig Dduw. Yr oedd hynyna yn fywhâu y gwaith yn eneidiau y ffyddloniaid yn nghanol eu galar yn y caethiwed, pan yr oedd y tywyllwch wedi eu gorchuddio, a bu llawer o siarad, a chadw cyfarfodydd diolchgarwch, fod eu Duw wedi peri gwybod ei fawredd yn nghanol ei elynion.

Wele eto ei ddesgrifiad o'r hyn a gymerodd le ar wastadedd Dura, mewn atebiad i'r deisyfiad am beri gwybod:—

Ymhen ychydig flynyddoedd ar ol hyny, yr oedd y brenin yn fwy caled a balch, a Babilon yn myned yn fwy-fwy llygredig yn ei heilunaddoliaeth a'i llygredigaethau. Y mae yr hen weddi eto yn y nefoedd. "Par wybod." Hwy gânt wybod. Sut y bydd hi y tro nesaf? Bydd i'r brenin gymeryd yn ei ben i wneyd duw newydd, i wneyd cawr o dduw, duw o aur, triugain cufydd o uchder, a chwe' chufydd o led. Nid rhyw lo o dduw fel y gwnaeth Jeroboam yn Bethel, ac Aaron wrth fynydd Sinai, ond duw y buasai rhaid cael deg Goliath ar ysgwyddau eu gilydd i osod ei law ar ei goryn. Dyna dduw; fe wnaiff hwna rywbeth—miliynau o draul wedi bod arno, a'r celfyddydwyr goreu wedi bod wrthi am fisoedd yn ei gerfio. Ar ol ei gael yn barod, dyma ddiwrnod yn cael ei gyhoeddi i gysegru y duw newydd ar wastadedd Dura, o fewn talaeth Babilon, a chynnrychiolwyr yn cael eu gwahodd o holl dalaethau yr ymherodraeth, yn dywysogion, duciaid, pendefigion, trethwyr, trysorwyr, o wahanol wledydd a gwahanol ieithoedd yn cyrchu yno wrth y cannoedd a'r miloedd i gysegru y duw newydd. Ar ol eu cael ynghyd, y mae *programme* gwasanaeth y dydd yn cael ei ddarllen iddynt, a phan glywant swn y cornet, y chwibanogl, y delyn, y dulsimer, y psaltring, y symphon, a phob rhyw gerdd yn tori allan, fod i bawb o honynt fyned ar eu hwynebau i addoli y ddelw aur a gyfododd y brenin; a phwy bynag na wnelo hyny, bwrid ef i'r ffwrn o dân poeth. Dyna dyrfa,—ni welsoch chwi erioed dyrfa o'i bath—tyrfa o bendefigion a thywysogion penaf y ddaear, a thyrfa o ddynion o bob gradd a sefyllfa yn gwneyd cyfarfod ag yr oedd miloedd ar filoedd yn gydbresennol yn y lle. A phan yr oedd y gerddoriaeth yn taro, dyna nhw i lawr i gyd ar eu hwynebau. Ond yr oedd ambell un, fel y rhai hyny sydd i'w cael bob amser ymhob man, yn codi ar eu lled benelin i edrych a oedd neb yn sefyll, i gael blas i redeg i achwyn arno; ac er eu llawenydd, hwy welent dri yn sefyll fel tri phost o haiarn bwrw, heb blygu dim gyda'r dyrfa, a'r unig rai y dymunasent eu gweled yn sefyll, sef y tri oedd y brenin wedi eu hanrhydeddu yn fwy na neb o honynt hwy trwy eu gosod ar dalaeth Babilon; a dyna hwy ar eu traed, ac at y brenin. "O frenin, bydd fyw byth." Yr oedd y brenin o'r neilldu yn derbyn *reports*. Sut y mae hi tua'r gwastadedd? "Rhagorol, yr oedd yno olygfa gwerth ei gweled—y dyrfa fawr yn syrthio ar eu hwynebau i addoli y duw newydd." "A oeddynt i lawr i gyd?" "Nac oeddynt." "Oedd yna rywrai wedi sefyll?" "Oedd." "Faint o honynt?" "Tri." "A oeddych chwi yn adnabod y tri?" "Oeddym, y tri a ddylasai fyned i lawr gyntaf o bawb, y tri yr oeddit wedi eu hanrhydeddu yn fwy na phawb arall, Sadrach, Mesach, ac Abednego." "A ydych chwi yn sicr?" "Ni a'u tyngem." Y mae cynddaredd y brenin yn berwi yn boethach nag ydoedd y ffwrn danllyd ei hunan. "Gelwch hwy yma." "Ai gwir hyn, Sadrach, Mesach, ac Abednego, oni addolwch chwi fy nuwiau i, ac oni ymgrymwch i'r ddelw aur a gyfodais?" "Digon gwir, O frenin; dywedasant y gwir bob gair." "Oni wyddech beth yr oeddych yn ei wneyd?" "Gwyddem; gwnaethem bob gorchymyn yn perthyn i'n swydd ac i gyfiawnder ag y gallasem roddi ufudd-dod o gydwybod iddo, gyda'r parodrwydd mwyaf i ti, ond ti a roddaist orchymyn yn myned rhwng ein cydwybod ni a'n Duw." "Chwi gewch un *trial* eto; ni a anghofiwn y cwbl os bydd i chwi syrthio ac addoli y ddelw." "Nid yw o un dyben, ni addolwn dy dduwiau di byth." O fechgyn bendigedig, llanwer ein heglwysi â rhai cyffelyb (Amen)! "Chwi gewch fyned i'r ffwrn danllyd boeth; a pha Dduw yw efe a'ch gwared o'm dwylaw i?" "Fe fedr ein Duw ni wneyd hyny, ac yr ydym ni braidd yn meddwl y gwna; ond pa un bynag am hyny, beth bynag ddaw o honom, ni addolwn ni byth mo dy dduwiau di—ni phlygwn i'r un duw arall." "Rhwymwch hwynt fel y maent, twymnwch y ffwrn yn saith boethach nag arferol, a bwriwch hwynt yn rhwym i ganol yr eirias." Daeth y gŵr allan ei hun i weled ac i fod yn dyst o'r ufudd-dod i'w orchymyn ei hun. Fe'u bwriwyd, a syrthiasant yn nghanol y ffwrn o dân poeth. "Beth y maent yn ei feddwl o honynt eu hunain 'rwan, tybed?" Ond dyma y tri ar eu traed yn mreichiau eu gilydd, yn rhodio yn nghanol yr eirias ofnadwy. "Onid tri o wŷr a fwriasom i ganol y tân yn rhwym? Aroswch, aroswch,—un dau, tri, pedwar; yr wyf yn gweled pedwar gwŷr rhyddion yn rhodio yn nghanol y tân, a dull y pedwerydd sydd debyg i Fab Duw." "O Sadrach, Mesach, ac Abednego, gwasanaethwyr y Duw Goruchaf, deuwch allan, a deuwch yma." Maent hwythau yn rhodio yn hamddenol o'r ffwrn, a dyna hwynt yn dechreu edrych arnynt i weled a ydynt wedi llosgi eu dillad; maent yn edrych eu *locses*, ond ni finiasai y tân arnynt; maent yn eu sawru, ond nid aethai sawyr y tân arnynt. "Beth wyt ti yn ei feddwl rwan, Nebuchodonosor?" "Meddwl! bendigedig yw Duw Sadrach, Mesach, ac Abednego, yr hwn a anfonodd ei angel ac a waredodd ei weision a ymddiriedasant ynddo, ac a dorasant orchymyn y brenin, ac a

roddasant eu cyrff rhag gwasanaethu nac ymgrymu o honynt i un duw ond i'w Duw eu hun." Go lew oedd cael gwalch felly i ddiolch eu bod wedi anufuddhâu. Yr oedd wedi gwybod rhywbeth, ac yna rhoddwyd gorchymyn nad oedd neb i ddyweyd dim ar fai yn erbyn Duw Sadrach, Mesach, ac Abednego, onidê fe'u gwneid yn ddrylliau a'u tai yn domen. Mae yn myned yn rhy bell y ffordd arall. Gall y Duw yna edrych drosto ei hun, heb iddo ef roddi ei fraich i geisio amddiffyn ei enw na'i ogoniant. Ond y mae wedi cael gwybod. Aeth y stori trwy Babilon, ac ni soniwyd byth am y ddelw aur; darfu ei hanes am byth y diwrnod hwnw. Trodd pawb eu cefnau arni; a dyna y siarad oedd o'r llys i'r bwthyn, ac ar yr heolydd, Duw Sadrach, Mesach, ac Abednego, dyna y Duw. A'r dyeithriaid wrth fyned adref i'w gwlad eu hunain, ac ar ol myned adref, a'u cyfeillion yn dyfod atynt, "Fuoch chwi yn Babilon fawr?" "Do, siwr." "A fedrwch chwi roddi desgrifiad o'r gogoniant?" "Na, fedrwn i ddyweyd dim am dani!" "Welsoch chwi y duw newydd; welsoch chwi yr addoliad roddwyd iddo? Rhoddwch ddesgrifiad o hono." "Ni wyddom ni ddim am dano." "Ai cau eich llygaid yr oeddych chwi yno?" "Nage, ond Duw Sadrach, Mesach, ac Abednego a lyncodd Babilon a'r ddelw fawr o'r golwg ar unwaith." Aed âg addolwyr y duw newydd i wneyd cenadau o honynt i bregethu mawredd Duw Daniel a'r llanciau hyd eithaf y ddaear. "Pâr wybod."

Gan fyned heibio i amryw ddarnau o gyffelyb hynodrwydd, gadewch i ni frysio at y *peroration*, pa un o bosibl a luniwyd ganddo ar y pryd, oblegid yr oedd ei allu i gynnyrchu o newydd bron yn ddiderfyn. Sicr yw, fodd bynag, nad ydyw i'w gael ganddo yn *Koheleth*. Cyfeirio y mae at yr hyn a eilw efe yn chweched argraffiad o weddi Habacuc yn y testun, sef dychweliad y gaethglud o Babilon. Dychymyga fod dychweledigion yr Arglwydd yn troi at eu gilydd, ac yn gofyn,

"Tybed ein bod yn effro, ac yn dychwelyd tua Sïon?" "Ydym, rhaid ein bod; dyna Babilon o'n hol, a Sïon o'n blaen, 'dewch i ni ganu cân a wnaeth Micah yn barod ddau can' mlynedd yn ol, "Pa Dduw fel tydi, yn maddeu anwiredd, ac yn myned heibio i anwiredd gweddill ei etifeddiaeth? Ni ddeil efe ei ddig byth, am fod yn hoff ganddo drugaredd." Ac yna efe a ddybenai yn dra hyfryd fel hyn:—"Y mae wedi cofio ei drugaredd âg Abraham, a'i lw i Isaac; ac ar ol rhoi pennill allan, yr oedd un o feibion Asaph, y cerddor, yn taraw hen dôn arni, a dyma hwy yn dechreu cydio ynddi; 'Ha, ha, ha;'* ond ni allent yn eu byw ganu, 'Llanwyd eu genau â chwerthin.' Duw oedd wedi gwneyd y chwerthin hwnw, fel y dywedodd Sarah, ac yr oedd y nefoedd yn gwrandaw arno mor felus a chanu—Duw yn dychwelyd caethiwed. Yr oedd y gân yn felusach na chân yr Aipht. Nid yn gerydd arnynt y danfonwyd hwy i'r Aipht, ond doethineb Duw oedd yn eu hanfon yno i roddi addysg iddynt fel cenedl; ond am eu pechodau y gyrwyd hwy i Babilon. Yn y waredigaeth o'r Aipht, gallu Duw oedd yn cael ei ogoneddu. 'Yr Arglwydd sydd ryfelwr, Jehofah yw ei enw; efe a daflodd gerbydau Pharaoh a'i fyddin yn y môr;' ond trugaredd sydd ar dànau cân y waredigaeth o Babilon—Duw yn maddeu, ac yn dychwelyd mewn trugaredd at ei bobl. Rhywbeth fel yna fydd yn ngwaredigaeth Sïon o gaethiwed y marweidd-dra ofnadwy yn y blynyddau hyn. Trugaredd yn unig fydd yr ymweliad—trugaredd yn cofio ac yn ymweled â'i bobl, a phan wnelo hyny, 'Par wybod' i bawb o'i amgylch. Dyma i chwi weddi. A ydych chwi wedi blino ar dymmor fel hwn? Trowch at hen weddi Habacuc. Pe baech heb ddyweyd yr un gair am fis yn eich gweddi ger bron Duw, dywedwch hyn o eiriau, 'O Arglwydd, bywhâ dy waith yn nghanol y blynyddoedd; par wybod yn nghanol y blynyddoedd.' Na adewch ddystawrwydd i'r nefoedd nes y byddo pethau mawrion yn cael eu gweled, i beri gwybod i Sïon fod Duw yn dyfod allan drwy ein cyfarfodydd fel Duw yr achubydd, nes y byddo pob enawd yn delwi ac yn tewi ger bron Duw, a Sïon yn canu ac yn llawenychu. Amen."

Yr oedd y gallu arbenig a ddaw i'r amlwg yn y dyfyniadau blaenorol, i'w cael ynddo o'r dechreu; ond nid dyna ei ddull bob amser, na

* Ebe un oedd yn ei wrando, "Nid ydym yn cofio gwrando ar ddim erioed yn cael ei ddyweyd gyda mwy o naturioldeb, na'r 'Ha, ha, ha,' uchod gan y cawr-bregethwr."

braidd byth yn nghyfnod boreuol ei weinidogaeth gyhoeddus. Yr oedd y pryd hwnw yn fwy eiddigus o'i ymadroddion, yn fwy angerddol ei ysbryd, ac yn fwy uniongyrchol a miniog yn ei apeliadau at gydwybodau ei wrandäwyr. Yr oedd ei ergydion o ffraethineb yn anamlach, ei ysgogiadau yn fwy syml, a'i arabedd naturiol yn cael ei gadw i lawr, ac o'r golwg braidd yn gyfangwbl. Yn ei flynyddau olaf, yr oedd yn dra hoff o'r pregethau hyny a roddent iddo fwyaf o fantais i ddwyn i'r amlwg ogoniant rhai o'r prif hanesion Ysgrythyrol. Dichon ei fod yn barnu, gyda Dr. Blair, fod y maes toreithiog hwn wedi ei esgeuluso i raddau gormodol gan bregethwyr. Fodd bynag, penderfynodd droi i mewn iddo, a chyflawnodd yma hefyd orchestion nad anghofir yn fuan.

Drwy bob rhyw gyfnewidiad a fu arno, efe a ddaliai i ychwanegu nerth, ac i gynnyddu mewn poblogrwydd. At yr hen elfenau a'i hynodent yn moreuddydd ei oes weinidogaethol, deuai eraill i mewn i roddi arno ychwanegol harddwch a bri. Cydnebydd iddo yn nghychwyniad ei yrfa dderbyn llawer o wersi gwerthfawr gan yr anwyl-ddyn hwnw Williams o'r Wern, fel na allai lai na'i anrhydeddu megys tad. Ond nid oedd efe yn efelychu neb. Yr oedd yn gwbl wreiddiol o ran arddull a phob peth, er fod cryn lawer o debygrwydd naturiol ynddo i'w frawd, y Parch. Henry Rees, yr hyn, yn ddiau, a roddai iddo ychwanegol harddwch yn nghyfrif lliaweroedd a ddeuent i'w wrando yn achlysurol yma a thraw; ac o ran craffder a threiddgarwch meddyliol, mor hynod debyg i'w gilydd oedd y brodyr ardderchog hyn. Ond hwy wahaniaethent gryn lawer hefyd! Clywsom un hen ffrynd o Fethodist yn dyweyd fel hyn am danynt:—"Yr oedd William yn eich synu, ond Henry yn eich toddi." Ond heb aros gyda hyn, priodol sylwi, fod y naill fel y llall yn ddynion o feddwl tra annibynol. Gyda phob testun neu fater hwy adawent y cwrs cyffredin, gan dori iddynt eu hunain lwybrau cwbl newyddion. O herwydd ei ddoniau anghyffredin, naturiol oedd fod Dr. Rees yn cael ei edmygu yn ddirfawr gan yr enwad y perthynai iddo. Ei frodyr yn y weinidogaeth a edrychent arno fel tywysog a gŵr mawr mewn gwirionedd. Os nad oedd yn *ceisio*, ystyrid ei fod yn *hawlio* y flaenoriaeth yn naturiol; yr hyn hefyd a ganiateid iddo yn rhwydd ddigon gan bob dyn deallus o fewn yr enwad. Eu teimlad ar lawer achlysur fyddai fel yr un a amlygid gan y diweddar Barch. W. Ambrose, ar ddiwedd odfa anarferol o rymus mewn cyfarfod pregethu, pryd y dywedai yn nghlywedigaeth yr ysgrifenydd ac amryw eraill, gan gyfeirio at Dr. Rees, fel y disgynai yn arafaidd a difrifddwys hyd risiau y pulpud, "O frenin, bydd fyw byth." Dywedai Emrys hyn gyda theimlad byw, oblegid gwlychasid ei ruddiau teg yn helaeth gan ddagrau y boreu hwnw. Llawer o bregethwyr godidog fel yntau a berthynent i'r enwad yn Nghymru, yn ddiau, ond Dr. Rees, tu hwnt i ddadl, oedd Demosthenes y pulpud Annibynol Cymreig yn yr adeg hono, ac yn ddiweddarach o ran hyny. Gan gyfeirio at ei fawr allu yn yr areithfa, da y dywedodd un ysgrifenydd manylgraff yn *Y Genedl Gymreig*, yn fuan wedi iddo huno yn yr angeu: "Tybiwn y rhaid cydnabod yr arferai Dr. Rees, ar amserau, ymddangos yn llawer *mwy* yn yr areithfa nag yn unman arall. Yma byddai y duwinydd a'r bardd, yr athronydd a'r hanesydd, yr areithiwr grymus

a'r *actor* meistrolgar, yr arlunydd geiriol dihafal a'r prophwyd—oll wedi cydgyfarfod yn yr un person, ar yr un amgylchiad, a'r oll yn cydweithredu er cyrhaedd yr un amcan. Rhaid, gan hyny, oedd i'r dylanwad a gynnyrchai fod yn annesgrifiadwy." Y dystiolaeth hon sydd wir. Anhawdd fyddai enwi neb a allai chwareu ar holl dànau teimlad y galon ddynol yn debyg iddo. Yr oedd y gallu i gadwyno sylw torfeydd mawrion, a'u dwyn i gydymdeimlad cryf â'i ysbryd ef ei hun, yn hanfodi ynddo i raddau tra hynod o berffeithrwydd. Dan ddylanwad ei areithyddiaeth swynol, deuai pobl ar y pryd i deimlo yn barod braidd i wneyd beth a ofynai. Cofus gan yr ysgrifenydd am Gymanfa a gynnaliwyd gan Annibynwyr Sir Gaernarfon, yn ardal Criccieth, ryw ddeuddeng mlynedd yn ol, neu well. Pregethai Dr. Rees yn olaf am ddeg yn y boreu, i gynnulleidfa fawr a safai yn yr awyr agored, yn ngoleuni hyfryd heulwen haf. Tua chanol ei bregeth, teimlai fod ganddo air i'w ddyweyd yn arbenig wrth *hen* bobl; a dygwyddodd ddyweyd, "Pe baech chwi, yr hen bobl sydd yma, yn diosg oddiam eich penau yn awr, er mwyn i mi gael gwel'd," ac ar hyny, cyn iddo orphen y frawddeg, wele ugeiniau o hetiau yn cael eu tynu ymaith ar amrantiad, a chynnifer a hyny o benau gwynion ac o gorynau moelion, wrth gwrs, yn dyfod i'r amlwg ar unwaith. Yr oedd yr olygfa oddiar yr esgynlawr yn un ryfedd a dyeithr yn wir. Taflesid y dyrfa am foment i ryw deimlad o ddwysder anghyffredin. Ar hyn safodd Dr. Rees, a dywedodd, "Wel, yn wir, y mae hyn braidd yn ormod i'm teimladau; nid oeddwn i wedi meddwl am i chwi wneyd fel yna, hen-bobl;" yr hyn yn ddiau fuasent yn ddeall, pe gadawsent iddo orphen y frawddeg ynghylch tynu yr hetiau. Yna, gan ddeisyf arnynt eu dodi yn eu lleoedd drachefn, aeth rhagddo i ddyweyd wrthynt, yn nghanol gwenau yn gystal â dagrau lawer, ychydig eiriau o gynghor dwys, a gofid gan lawer o honynt, mae'n ddiau, hyd byth.

Ymhlith y rhai a fuont yn ddiweddar yn ceisio edrych allan am guddiad cryfder, a dirgelwch llwyddiant ein gwrthddrych fel pregethwr, dylid enwi y Parch. J. Cynddylan Jones, gan yr hwn yn yr *Herald Cenadol*, am fis Rhagfyr diweddaf, y caed rhai sylwadau gwir ragorol. Mae'n eglur nad oedd y beirniad parchedig wedi clywed Dr. Rees yn ei amser goreu, pryd y llifeiriai oddiwrtho yn fynych y fath dònau tanllyd o hyawdledd ag a osodai y cyfan yn oddaith o'i ddeutu; onidê ni fuasai yn petruso dyweyd ei fod yntau hefyd yn *tragedian.* "Dim ond rhyw ddwywaith neu dair," ebe Mr. Jones, "y cawsom ni yr hyfrydwch o'i wrandaw yn pregethu; ond yr oedd yn eglur ei fod yn meddu helaethrwydd o'r gallu mawr cyntaf i wneyd pregethwr poblogaidd—y gallu i dynu sylw. Beth oedd y gallu hwnw? Barnwn ei fod yn gyfansoddedig o dair elfen. Y gyntaf oedd goslef y llais. Yr oedd rhyw ymlusgiad yn ei ddawn ef a'i frawd yn wahanol i ddawn pawb o'u cyfoesolion—rhywbeth a hawliai sylw ar unwaith, er y cymerai dipyn o amser i argyhoeddi dyn dyeithr ei fod yn ddawn dymunol. Modd bynag, fel yr ymdeithiai y ddau frawd ymlaen yn eu pregethau, canfyddid fod yno ryw ddwysder ag oedd yn dyferu yn ddymunol iawn ar y glust a'r teimlad: yr oedd yno ryw leithder fel lleithder gwlan, yr hwn wrth ei wasgu a redai allan, yn ddefnynau bendith i'r cynnulleidfaoedd. Yr oedd nerth ei ddawn rywfodd yn ei

gynffon, yr hwn mewn llawer cymanfa a 'dynodd draian ser y nef, ac a'u bwriodd hwynt i'r ddaear.' Yr ail elfen oedd y gallu desgrifiadol cryf ag oedd yn nodweddu ei arddull. Braidd na feddyliem mai yn y fan hon yr oedd cuddiad ei gryfder. Gosodai yn fyw ger bron ei wrandäwyr y golygfeydd a ddymunai sefydlu eu meddyliau arnynt. Gwnai i'r naill gymeriad ar ol y llall gerdded yn fyw o flaen llygaid y meddwl fel cymeriadau *panorama* fawr o flaen llygaid y corff. Tra yr ymdrafferthai Henry yn llafurfawr gyda y ddeddf, yr egwyddor, y gwirionedd y tu cefn i'r ffaith a'r ymddangosiad, ac felly yn fwy dwfn; yr oedd William yn canolbwyntio ei holl allu ar y ffaith, yr ymddangosiad, a'i amcan mawr oedd portreadu hono gyda holl fanylrwydd arlunydd cywrain, ac felly yn fwy desgrifiadol, ac i raddau gyda y dorf yn fwy poblogaidd. Tuedd gynhenid Henry oedd at yr athronyddol a'r athrawiaethol; tuedd gynhenid William oedd at y desgrifiadol a'r barddonol; ond yr oedd y ddau ar adegau yn ymgodi i randir uwch, lle y mae athroniaeth a barddoniaeth yn un. . . . . Yr elfen arall yn ei ddylanwad oedd ei allu dramayddol. Gallai *actio* ei gymeriadau, ac weithiau, dybygem, *actiai* fwy nag oedd yn berffaith gyfaddas i gysegredigrwydd y pulpud; ond gallem yn rhwydd faddeu iddo, oblegid gwyddem, os oedd yn gadael llawer o'i arabedd, ac yn y blaen, i ddyfod i'r maes, nad oedd neb ond ei hunan yn ymwybodol gymaint ag oedd yn gadw i mewn, a hyny o barch pur i gysegr y Goruchaf. Ond y mae i'r *drama* ddwy ran,—y *tragedy* a'r *comedy.* Fel *tragedian* yr oedd John Elias yn rhagori—*tragedy* uchel yr ofnadwy a'r tragywyddol, heb un wreichionen o arabedd—gweinidogaeth oedd yn lladd ac yn llethu. Nis gwyddom faint o'r *tragedian* oedd yn William Rees; ni ddygwyddodd i ni ei weled yn hwylio yn y cyfeiriad hwnw; ond clywsom ef yn llanw geneuau pobl â chwerthin, ïe, clywsom ef hefyd yn eu cymeryd i fyny ar edyn ei ddychymyg, fel eryr yn cymeryd i fyny ei gywion, ac yn ehedeg, i'r làn, i fyny ymhell i ororau yr arddunol a'r aruchel."

DAVID GRIFFITH.

## LUTHER.

*The Life of Martin Luther.* By JULIUS KÖSTLIN. Translated from the German. With Four Facsimiles in Lithography, and about 90 Illustrations engraved on Wood, from authentic sources. London: Longmans, Green & Co.

*Martin Luther the Reformer.* By JULIUS KÖSTLIN. London: Cassell & Co.

*Luther: A Short Biography* By JAMES ANTHONY FROUDE, M.A., Honorary Fellow of Exeter College, Oxford. (Reprinted from the *Contemporary Review.*) London: Longmans, Green & Co.

*Homes and Haunts of Luther.* By JOHN STOUGHTON, D.D. New and Improved Edition, with numerous Illustrations. Religious Tract Society.

*Luther and the Cardinal* A Historic Biographical Tale. Given in English. By JULIE STUTTER. Religious Tract Society.

*Luther Anecdotes. Memorable Sayings and Doings of Martin Luther.* By DR. MACAULAY. Religious Tract Society.

*Luther's Table Talk.* Extracts Selected by DR. MACAULAY, Editor of *Leisure Hour.* Religious Tract Society.

AR bedwar-canmlwyddiad genedigaeth y Diwygiwr enwog o Germany fe gymerwyd achlysur y flwyddyn ddiweddaf i alw sylw y byd Cristionogol yn gyffredinol at y gwaith mawr a gyflawnodd, ynghyd a'n rhwymedigaeth ninnau yn y dyddiau hyn, yn gystal â chenedlaethau y dyfodol, i ddal yn ffyddlawn i'r egwyddorion y gwnaeth efe gymaint tuag at eu sefydlu, ac yr ymdrechodd mor bybyr o'u plaid. Heblaw llawer o ffyrdd eraill, nad allent gyrhaedd nemawr bellach na'r fynyd oedd yn myned heibio, i geisio cadw Luther o flaen meddwl y byd, fe wnaed ymdrech neillduol i ddwyn ei enw a'i hanes i sylw y cyhoedd trwy y wasg. Mae y llyfrau y rhoddasom eu henwau uchod, ynghyd a rhai eraill na ddygwyddasant ddyfod yn ein ffordd, wedi eu cyhoeddi yn y deyrnas hon, a diammeu iddynt eisoes fod o lawer o wasanaeth mewn ëangu a dyfnhâu cydnabyddiaeth dynion â'u gwrthddrych bydglodfawr, ac y cymerant eu lle yn ein llenyddiaeth i wneyd llawer o wasanaeth cyffelyb yn y dyfodol. Am awdwr y cyntaf, Dr. Köstlin, y mae efe yn Broffeswr Duwinyddiaeth yn Halle. Yn 1875 fe gyhoeddodd waith ar Luther a'i ysgrifeniadau mewn dwy o gyfrolau trwchus, yr hwn ar unwaith a gydnabyddid o'r awdurdod uchaf, yn ffrwyth ymchwiliad maith a dyhysbyddol i bobpeth a allai fod o ddyddordeb yn hanes y Diwygiwr, ac wedi ei ddodi ynghyd mewn ysbryd rhagorol a chyda medr llenyddol teilwng o bwysigrwydd ei fater. Mae y gwaith o ba un y mae y gyfrol Seisonig yn gyfieithiad, ac a gyhoeddwyd y flwyddyn ddiweddaf, yn dalfyriad o'r cyfrolau hyny, ac wedi ei fwriadu ar gyfer cylch ëangach o ddarllenwyr, gan adael allan gan mwyaf gyfeiriadau at awdurdodau a manylion nad allent fod o ddyddordeb cyffredinol. Y mae yn gyfrol sylweddol o chwe' chant o du dalenau, ac y mae wedi ei gosod mewn Saesoneg mor esmwyth a naturiol a phe buasai

wedi ei chyfansoddi yn yr iaith hono. Y mae yn gosod yr holl ddyn ger bron yn onest a chyflawn; ac y mae yn dystiolaeth uchel i gywirdeb y gwaith nad oes neb, mewn gwlad lle y teimlir y naill ochr a'r llall gymaint dyddordeb yn ei fater, yn gallu ei feirniadu fel wedi dangos unrhyw gamchwareu. Mae yr ail lyfr a gyhoeddwyd gan Cassell & Co. yn dalfyriad mwy cryno fyth o'r un gwaith, ac fel llyfr swllt wedi cael lledaeniad mawr. Ymddangosodd y trydydd, gan Mr. Froude, mewn dwy o erthyglau y flwyddyn ddiweddaf yn y *Contemporary Review*. Nid ydyw ond bychan dyweyd ei fod yn dra darllenadwy, er nad ydyw yn anhawdd mewn rhai manau darllen rhwng y llinellau mai lled newydd i'r awdwr ydoedd efrydiaeth hanes Luther. Ysgrifena mewn ffordd o adolygu ail lyfr Köstlin, a bron na ellid meddwl wrtho nad oedd y byd, cyn ymddangosiad y gwaith hwnw, yn gwybod ond ychydig iawn am y Diwygiwr. Ond er mor werthfawr llafur Köstlin, ac y mae yn werthfawr iawn, eto yr oeddym, cyn iddo ef ddyfod i'r maes, yn gwybod trwy D'Aubigne, a Hagenbach, a llawer o ysgrifenwyr eraill, yr holl bethau a noda Mr. Froude fel rhai y caiff yr efrydydd eu deall ond darllen ei waith ef. Y mae hefyd, yn sicr, yn camgymeryd yn fawr wrth restru Zuinglius gyda Carlstadt a Münzer fel penboethiaid. Ond y mae erthyglau Mr. Froude wedi eu hysgrifenu yn rhagorol, ac yn ddiammeu wedi dwyn ystori Luther o flaen llawer o ddarllenwyr parchus ag oedd cyn hyny, mae yn eithaf tebyg, yn dra dyeithr iddi. Ymddangosodd llawer o'r pedwerydd gwaith, gan Dr. Stoughton, yn 1874 mewn erthyglau yn y *Sunday at Home*, a chyhoeddwyd hwy yn fuan wedi hyny yn llyfr. Mae hwn yn ail argraffiad, gyda llawer o ychwanegiadau. Bu yr awdwr droion yn aros hyd y manau sydd wedi dyfod mor adnabyddus ynglŷn â hanes Luther, ac y mae ei ddesgrifiadau byw o honynt, gyda'r helaethrwydd o ddarluniau ysplenydd sydd i'w cael trwy gorff y gwaith er egluro y desgrifiadau, yn peri i ni deimlo ymron fel pe buasem yn cael y fraint o ymrodio y ffordd hono ein hunain, tra y mae dwfn gydymdeimlad ei ysbryd â'r Diwygiwr a'i waith yn peri fod gwersi ei fywyd yn cael eu hargraffu ganddo yn glir ac arosol ar y meddwl. Mae hon yn gyfrol brydferth iawn, ac anhawdd meddwl am un deilyngach i fod ar fwrdd y *drawing room*, neu i'w chyflwyno yn anrheg, gyda'r eithriad o fod y llyfr hwn, yn wahanol i lawer o lyfrau felly, i'w fwyta oll. Mae *Luther and the Cardinal* yn adgynnyrchiad, yn hytrach nag yn gyfieithiad, o ystori Pastor Nietschmann o Halle. Ceir yma yn y ffurf o chwedl, ond gyda chymeriadau hanesyddol ac mewn ysbryd o ffyddlondeb hollol i ffeithiau, adroddiad o helyntion mawrion amseroedd y Diwygiad, a hyny fel yr oeddynt yn ymgrynhoi o amgylch Luther a'r Cardinal Albrecht, neu Albert o Mainz, Archesgob Germany, ac yn nesaf at y Pab y gŵr mwyaf ei allu mewn ystyr eglwysig yn ei oes. Pwy bynag a deimlai yn feichus ganddo ddarllen *hanes* y Diwygiad, fe allai ei gael yma yn y ffurf o *ystori*,—ystori na raid ond dechreu ei darllen na raid myned trwyddi, ac o fyned trwyddi—yn wahanol i'r myrddiwn ystoriau a ddarllenir mor awchus ond nad ydynt dda i ddim—a adawai ar y meddwl ddarlun byw a chywir o ddyddiau y Diwygiad. Nid yw y gyfrol yn gadael dim i'w ddymuno mewn ffyddlondeb hanesyddol, tra y mae y gallu a arddengys i osod ger bron helyntion pwysicaf y dyddiau rhyfedd hyny yn ei gwneyd yn ddifyrus a thra deniadol i'w

darllen. Mae cyfrol yr *Anecdotes* gan Gymdeithas y Traethodau, wrth reswm, yn ddifyr ac yn dda iawn, a'r detholion o'r *Table Talk* yn llyfr y teimla dyn yn falch ganddo ei gymeryd yn ei logell a throi iddo yn fynych. Gallwn grybwyll yma eto y geiniogwerth fawr a gyhoeddodd Cymdeithas y Traethodau, y galwasom sylw ati yn ein Nodiadau dro yn ol, *Martin Luther the Reformer of Germany*, gan Proffeswr Gibb, yr hon sydd gyntaf o gyfres o draethodau bywgraffyddol cyffelyb y bwriedir eu cyhoeddi.

Ond yn wyneb hyn oll y mae yn ofidus genym weled y Gymraeg wèn heb ei chyrhaedd gan y llanw yma o lenyddiaeth Lutheraidd, a hyny er nad oes yn unman bobl sydd yn meddu mwy o gymhwysder i gydymdeimlo âg arwr y Diwygiad Protestanaidd na phreswylwyr gwlad y bryniau. Gadewch i ni ynte gael ychydig ymgom yn ei gylch ar faes y TRAETHODYDD.

Mae yn anhawdd i ni synied y fath ddygn dywyllwch oedd ar Ewrop cyn cyfodiad y gwas enwog hwn i Grist. Mae yn wir ei fod y dyddiau hyn yn ffasiwn gan rai i fawrhâu yr amseroedd hyny, ac i geisio profi nad oedd y Diwygiad yn ddiwygiad o gwbl,—mai gwell yn wir, a gwell o lawer, fuasai fod pethau yn parhâu fel yr oeddynt. Yr un modd, y mae ambell i Gymro i'w gael a fynai ein perswadio mai oes euraidd Cymru oedd yr un cyn i'r Diwygiad Methodistaidd gymylu ei gogoniant, ac mai goreu po gyntaf y tröer y ddeial yn ei hol ac y dychwelom i'r dyddiau hyfryd hyny. Felly, mae yn debyg, y golyga y dylluanod mai y *nos* ydyw adeg hyfryd y byd yma, ac mai anffawd ydyw codiad yr haul, yr hwn, gyda'i belydrau tanbaid, sydd yn *dangos* pob peth, ac yn peri cymaint blinder i lygaid sydd wedi cynnefino â'r tywyllwch. Fe ellid meddwl, sut bynag, ei bod wedi myned yn rhy bell i'r dylluanod a'u cyfeillïon beri i ni anghredu mai "Melus yn ddiau yw y goleuni, ac mai hyfryd ydyw i'r llygad weled yr haul." Ond y mae gan fychanwyr y Diwygiad linyn arall i'w bwa. Os na allant ein perswadio mai gwell oedd y dyddiau gynt, ceisiant brofi na ddygwyd i'r golwg yn amser y Diwygiad ddim o werth nad ydoedd yn cael ei ddeall, ïe a'i bregethu, yn flaenorol. Y mae Janssen, Athraw Hanesyddiaeth yn Gymnasium Frankfort-on-Maine, wedi cyhoeddi yn y Germanaeg waith ar "Hanes Pobl Germany o Ddiwedd y Canol Oesoedd," mewn tair o gyfrolau o yn agos i 2000 o dudalenau, gyda dwy o gyfrolau cyflenwadol o tua 500 o dudalenau, yn yr hwn y ceisia brofi fod y cyfnod o flaen y Diwygiad, yn lle bod yn un o dywyllwch ac anwybodaeth, yn un o'r cyfnodau mwyaf addawol i Germany, pa un bynag a ystyrir ef yn grefyddol, yn eglwysig, neu yn genedlaethol, ac fod hyn oll wedi ei andwyo gan y chwalfa a ddygwyd i fewn trwy yr heresi a bregethid gan Luther. Mae y gwaith wedi ei ysgrifenu mewn dull mor ddeniadol fel y dywedir fod tua 15,000 o gopïau o hono wedi eu gwerthu, a chan faint y medr a ddengys yr awdwr i goginio dyfyniadau a delio mewn hanner gwirioneddau, a hyny tra yn gwneyd ymffrost diderfyn o berffaith degwch, nid rhyfedd fod cryn lawer o feddyliau ehud wedi eu camarwain ganddo. Ond er cydnabod yn rhwydd a diolchgar werth llafur yr holl "Ddiwygwyr o flaen y Diwygiad,"—ac nid oes neb o ddim sylw sydd wedi ysgrifenu ar y mater nad ydyw, ac yn y modd mwyaf calonog, yn gwneyd hyny,—eto mae y ffaith yn aros am y dyddiau anffodus hyny

mai "tywyllwch oedd yn gorchuddio y ddaear, a'r fagddu y bobloedd." Ac y mae ysgrifeniadau Ebrard, Köstlin, ac eraill, wedi bod o ddirfawr wasanaeth mewn chwalu casgliadau cywrain a dychymygol Janssen, a dangos pethau fel yr oeddynt. Am lawer o'r "pregethu" yn y cyfnod hwnw a fawrheir ganddo ef, fe geir, erbyn ei chwilio, ei fod, tra yn alaethus amddifad o ddefnyddiau adeiladaeth ysbrydol, eto mor lawn o goed, gwair, a sofl dychymygion gwag ac ynfyd fel nad allai fod ond o ychydig iawn o werth; ac er fod ambell i enaid pur yma a thraw yn "ucheneidio ac yn gwaeddi am y ffieidd-dra oll" a wnelid o'u hamgylch, eto mae yn amlwg fod lliaws mawr y rhai ag oedd wrth eu swydd yn ddysgawdwyr ac yn arweinyddion y bobl, nid yn unig yn hollol amddifad o bob cymhwysder i'w dyrchafu, ond o'r ochr arall â'u dylanwad arnynt o'r fath fwyaf dirywiol. A than y fath amgylchiadau ni ellid dysgwyl i'r werin fod ond mewn cyflwr isel yn wir.

Mae y tystiolaethau o'r blynyddoedd hyny sydd wedi ein cyrhaeddyd yn helaeth a lliosog; y maent hefyd o'r dilysrwydd mwyaf diammheuol; ond y maent yn dangos ystâd ar bethau ag oedd mor anobeithiol ddrwg fel, pe buasai yn bosibl eu hammeu o gwbl, y dywedasem eu bod yn anhygoel. Rhoddwn ychydig o honynt. Dywed Myconius yr edrychid ar ddyoddefiadau a haeddiant Crist fel chwedl, neu ddychymygion Homer. Ystyrid Crist fel barnwr llym, yn barod i gondemnio pawb na chaffent eiriolaeth y saint neu faddeuon *(indulgences)* y Pab. Pregethid rhinweddau creiriau gyda mawr zel, ac wrth reswm credid ynddynt. Yn Eglwys yr Holl Saint yn Wittenberg fe ddangosid darn o arch Noah, huddygl o ffwrn y Tri Llanc, darn o gryd Iesu Grist, blewyn o farf St. Christopher, a phedair mil ar bymtheg o greiriau eraill. Yn Schaffhausen dangosid anadl St. Joseph a dderbyniasai Nicodemus yn ei faneg. Yn Wurtemberg gwelid gwerthwr maddeuon â'i ben wedi ei addurno â phluen fawr a dynasid, medd efe, o asgell St. Michael. Yr oedd arddangoswyr y creiriau a'r masnachwyr mewn maddeuon yn gwneyd busnes mawr a llwyddiannus, a rhan y llew o'r yspail, wrth reswm, yn myned i'r awdurdodau, y rhai a'i treulient ar rwysg a phleser. Fel engraifft o'r hyfdra a ddangosid gyda phethau cysegredig, dywed Œcolompadius, ymysg pethau eraill i gario allan "rialtwch y Pasg," neu i ddangos llawenydd am Adgyfodiad Crist, fod y pregethwyr yn astudio yn unig pa fodd i beri chwerthin—un yn dynwared y gôg, y llall yn hysian fel gwydd; un yn llusgo lleygwr at yr allor yn ngwisg mynach; un arall yn dyweyd ystraeon aflan; trydydd yn adrodd triciau St. Pedr, ac ymysg eraill pa fodd y twyllasai dafarnwr wrth dalu ei gyfrif. Yr oedd hyd yn nod y gwasanaeth crefyddol wedi myned yn goegddifrifwch, ac ni ellid dysgwyl fod moesoldeb ond yn y cyflwr isaf. Mewn llawer o fanau yr oedd y bobl yn llawenhâu yn fawr wrth weled yr offeiriaid yn cadw gordderch, fel y caffai y gwragedd lonydd ganddo. Nid yn anfynych talai yr offeiriad dreth reolaidd i'r esgob am y ddynes y byddai byw gyda hi, ac am bob plentyn a enid o honi. Dywed Erasmus fod esgob Germanaidd un diwrnod wedi dyweyd yn gyhoeddus mewn gwledd fawr fod, un flwyddyn, un fil ar ddeg o offeiriaid wedi ymddangos o'i flaen ef i'r perwyl hwnw. Ac yn uwch yn y raddfa nid oedd pethau yn ddim gwell; yr oedd yr esgobion yn dywysogion gwladol ac yn

defnyddio eu gallu i orthrymu y werin, ac yn byw yn y didduwiaeth dyfnaf. Ac felly y Pabau. Yr oedd Rodrigo Borgia, wedi byw gyda boneddiges Rufeinig, yn parhâu yr un cysylltiad anghyfreithlawn âg un o'i merched, Rosa Vanozza, o'r hon y bu iddo bump o blant. Yr ydoedd yn gardinal ac yn archesgob, yn byw yn Rhufain gyda Vanozza a merched eraill, pan drwy farwolaeth Innocent VIII. y daeth y gadair Babaidd yn wag, a llwyddodd trwy lwgrwobrwyo y cardinaliaid i'w chael iddo ei hun, a daeth yn Bab dan yr enw Alexander VI. Am ffieidd-derau bywyd y dyn hwnw, a'i deulu annuwiol, yn enwedig ei fab Cesar Borgia, y maent yn alaethus meddwl am danynt. Bu farw trwy felusfwyd gwenwynig a ddarparasai i'w roddi mewn gwledd fawr i un o'i gardinaliaid; ond llwyddodd hwnw, wedi ei ragrybuddio, i ennill drosodd y gwasanaethydd, ac felly gosodwyd y dantaith o flaen y Pab. "Rhedai yr holl ddinas ynghyd," medd yr hanes, "ac ni allent gael digon o syllu ar y wiber farw." Dyma y gŵr a lanwai gadair y Pab ar ddechreu canrif y Diwygiad. Ebe gŵr na ellir ammeu ei onestrwydd: "Mae yr urdd eglwysig yn wrthwyneb i Dduw a'i ogoniant. Fe ŵyr y bobl hyny yn dda; mae hyny yn cael ei ddangos yn bur eglur gan y canau, a'r diarhebion, a'r digrif-eiriau yn erbyn yr offeiriaid sydd yn ffynu ymysg y werin, a'r holl anferthluniau hyny o fynachod ac offeiriaid ar bob mur, a hyd yn nod ar y cardiau chwareu. Mae pob un yn teimlo ffieidd-dod wrth weled neu glywed offeiriaid yn y pellder." Am eu hanwybodaeth yr ydoedd yn anobeithiol. Llongyfarchai esgob Dunfeld ei hun nad ydoedd yn deall Groeg na Hebraeg. Haerai y mynachod fod pob heresiau yn dyfod o'r ieithoedd hyny, yn enwedig y Roeg. "Mae y Testament Newydd," ebai un o honynt, fel y tystiolaetha Heresbach, cyfaill i Erasmus, "yn llyfr llawn o seirph a drain. Groeg," ychwanegai, "sydd iaith newydd ac wedi ei dyfeisio yn ddiweddar, a rhaid i ni warchod rhagddi. Am yr Hebraeg, fy anwyl frodyr, mae yn sicr fod pawb sydd yn ei dysgu yn y fan yn dyfod yn Iuddewon." Nid oedd Thomas Linacer, a gyfrifid yn ŵr eglwysig dysgedig ac enwog, erioed wedi darllen y Testament Newydd. Yn ei ddyddiau olaf (yn 1524) galwodd am gopi, ond yn fuan taflodd ef ymaith gyda llw, o herwydd, ar ei waith yn ei agor, i'w lygaid ddisgyn ar y geiriau, "Ond yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych, Na thwng ddim." Yr ydoedd yntau yn dyngwr mawr, a dywedai, "Naill ai nid hyn yw yr Efengyl, neu nid ydym ni yn Gristionogion." Ni phetrusai hyd yn nod y sefydliad duwinyddol yn Paris ddyweyd wrth y senedd, "Mae crefydd wedi ei handwyo, os goddefwch astudio Groeg a Hebraeg." Pan welodd Cardinal Bembo Sadolet yn cyfieithu yr Epistol at y Rhufeiniaid, dywedai, "Gadewch y pethau plentynaidd hyn; nid yw y fath ffoleddau yn deilwng o ddyn call." Yr ydym wedi dethol y pethau uchod, megys ar antur, o ganol lliaws anferth o dystiolaethau cyffelyb sydd o'n blaen, er rhoddi i'n darllenwyr syniad am y cyflwr isel yr oedd crefydd yn y dyddiau hyny wedi suddo iddo. Mae yn ddiau, fel yr awgrymwyd, fod ysbrydoedd pur, yma a thraw, er hyn oll, yn rhodio yn y goleuni, er nad ymddengys fod gan nemawr neb o honynt ond ychydig iawn o allu i geisio chwalu y tywyllwch oedd o'u hamgylch yn gorchuddio y gwledydd. Yr unig beth bron yr ymddengys fod gan y bobl oreu allu i'w wneyd oedd, gofidio oblegid y

mawr drueni, a choledd dysgwyliadau—y rhai mewn amryw gylchoedd y gwelwn eu bod yn gryfion a gobeithlawn—am weled dyddiau gwell.

Ac yn ei amser da ei hun, yr oedd y Brenin Mawr, yr hwn a ennynasai gymaint "dymuniad" ac "awyddfryd" am weled gwawr yn codi ar y fath fyd o dywyllwch, yn parotoi i goroni dysgwyliadau ei bobl, ac i droi y nos yn ddydd. Ond, fel bob amser, nid oedd teyrnas Dduw y tro hwn ychwaith yn dyfod "wrth ddysgwyl," neu gyda rhwysg ymddangosiadol. Mae yr ystori ryfedd sydd gan hanesyddiaeth i'w hadrodd yn dangos ei fod Ef y pryd hyny hefyd wedi "ethol ffol-bethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion; a gwan-bethau y byd, fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn; a phethau dirmygus y byd, a'r pethau nid ydynt, fel y diddymai y pethau sydd; fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron ef."

Ar y 10fed o Dachwedd, 1483, yn Eisleben, ganwyd MARTIN LUTHER. Ei dad oedd John, neu Hans Luther. "Mab i dyddynwr ydwyf fi," meddai efe ei hun; "fy nhad, fy nhaid, a fy hendaid, oeddynt oll yn dyddynwyr." Mae yn debyg mai o herwydd nad allai wneyd digon oddiwrth ei dipyn tyddyn yn Möhra, i gadw ei deulu, y daeth John Luther i Eisleben i weithio yn y gwaith mŵn. Ymhen chwe' mis fe ymadawodd Hans gyda'i deulu i Mansfeld, ychydig filldiroedd o bellder mewn dyffryn ar lechweddau mynyddoedd Hartz. Yr oedd ef a'i briod Margaret yn bobl ddiwyd a chrefyddol, yn ol eu gwybodaeth, ac yn ymdrechgar i osod eu plant ar y ffordd dda. Dywed Luther ei hun: "Yr oedd fy rhieni yn bur dlodion. Gweithiai fy nhad fel torwr coed. Fy mam yn fynych a gariai feichiau o goed ar ei chefn, fel y gallai ennill rhywbeth tuag at ddwyn ei phlant i fyny. Gweithiasant yn galed iawn er ein mwyn ni." Sonir am Hans yn gweddïo yn daer dros Martin pan anwyd ef, ac arferai wneyd yr un peth yn gyson wrth wely ei blant wedi hyny. Am ei fam dywedai Melanchthon: "Yr oedd wedi ei chynnysgaeddu â llawer o rinweddau oedd yn gweddu i wraig onest, ac yr ydoedd yn arbenig yn hynod am ei dysgyblaeth deuluaidd drefnus, ei duwioldeb a'i diwydrwydd mewn gweddi a dyledswyddau crefyddol, fel yr edrychid arni yn esiampl o rinwedd a ffyddlondeb i bob gwragedd da eraill." Fe allai fod y ddysgyblaeth deuluaidd braidd yn llem, ac mae yn eithaf posibl fod Martin, gan yni a gorfywiogrwydd, weithiau, braidd yn anystywallt, ond cwynai flynyddoedd wedi hyny: "Trinai fy rhieni fi braidd yn greulawn, fel y daethum yn bur ofnus. Yr wyf yn cofio i fy mam fy chwipio unwaith nes i'r gwaed ddyfod. Tybient yn wir eu bod yn gwneyd yn iawn wrth beidio arbed y wïalen; ond yr oeddynt yn ddiffygiol mewn adnabod cymeriadau, yr hyn sydd yn hollol angenrheidiol, fel y gwyddom pa bryd, ar bwy, a pha fodd i weinyddu cerydd. Mae yn iawn ceryddu plant, ond bob amser ar yr un pryd gan eu caru." Ymdrechai Hans ei addysgu i fesur gartref, lle y dywedir iddo "ddwyn ei fab i fyny mewn modd teilwng yn ofn Duw trwy ennillion ei lafur mwnawl." Yn bedair ar ddeg oed fe'i hanfonwyd i'r ysgol i Magdeburg. Yno, gan ofnusrwydd ac yswildod, crynai yn mhresennoldeb ei athrawon. Heblaw yr elfenau cyffredin, dysgodd ganu carolau a salmau, yr hyn a fu iddo mewn llawer ffordd o fawr wasanaeth. Yn

ystod oriau chwareu, byddai efe a bechgyn tlodion eraill tebyg iddo, fel oedd yn arferol y pryd hyny yn Germany, yn myned allan i gardota, gan ganu. Lawer o flynyddoedd wedi hyny dywedai wrth ei gydwladwyr oeddynt mewn sefyllfaoedd da: "Na ddiystyrwch yr ysgolorion tlodion sydd yn ceisio ennill eu bara trwy ganu o flaen eich drws, a gofyn am fara er mwyn Duw *(panem propter Deum)*; mi fum i yn gwneyd yr un peth." Ymhen blwyddyn daeth i Eisenach, lle y cafodd ysgol well, ac y dechreuodd ei feddwl ymagor. Ymddengys fod amgylchiadau ei dad erbyn hyny wedi gwella ychydig, ac yr ydoedd yn awyddus am i'w fachgen gael addysg dda. Ond yn Eisenach hefyd yr oedd yn rhaid iddo ganu am fwyd. Ac yno fe ddygwyddodd amgylchiad ag y bydd ei gofio yn swynol byth. Wedi ei wrthod gan dri thŷ yn olynol, yr ydoedd ar ddychwelyd i'w lety tlawd yn newynog a digalon. Wedi symud ymlaen, safai o flaen un tŷ, gan ymofyn yn ei feddwl a fyddai raid iddo o eisieu bara roddi ei efrydiau i fyny a myned i weithio at ei dad yn mwnweithiau Mansfeld? Y fynyd hono agorai y drws, a safai gwraig y tŷ ynddo, Ursula, gwraig Conrad Cotta. Gwelai yr ysgolor ieuanc, ac adwaenai ef fel yr hwn a ymddangosai mor ddefosiynol ac a ganai mor beraidd yn yr eglwys. Yn cael ei tharo gan ei olwg isel, amneidiai ar iddo ddyfod ati, a siaradai âg ef; wedi clywed ei ystori galwodd ef i mewn a diwallodd ei angen. Gwahoddai ef i ddyfod drachefn, a derbyniwyd ef yr un mor garedig gan ei phriod, ac o hyny ymlaen, tra fu yn Eisenach, cynnaliwyd ef gan y teulu tirion hwn. Geilw croniclau Eisenach Ursula "y Sunamees dduwiol," ac yr oedd gan Luther hyd y diwedd y coffa mwyaf diolchgar am ei hynawsedd, yn enwedig am ei gyfarfyddiad cyntaf â hi. Tra yn aros yn eu tŷ hwy yr ydoedd yn ddedwydd iawn, a'i feddwl yn ymagor yn hyfryd dan heulwen yr amgylchiadau newyddion a wenai mor garedig arno. Mewn cyfeiriad at diriondeb rhyfedd Ursula y dywedodd y gair enwog: "Nid oes dim pereiddiach ar y ddaear na chalon gwraig yn yr hon y mae duwioldeb yn preswylio." Dywed Melancthon am yr adeg yma, fod deall Luther mor gryf, ei ddychymyg mor fywiog, ei gof mor afaelgar, fel y curai ei holl gydysgolorion. Gwnaeth gynnydd cyflym mewn Lladin a Groeg, mewn rhesymeg a rheitheg, a phob math o addysg a geid yn yr ysgol. Ennillodd ymarferiad mewn cyfansoddi, mewn barddoniaeth a rhyddiaeth. Yn siriol a ffyddlawn, yn rhydd a charedig, fe'i cerid gan ei gymdeithion, ac yr ydoedd yn uchel yn ffafr ei athrawon. O'r athrawon hyny yr ydoedd yn neillduol o hoff o Trebonius, yr hwn oedd mor hynaws yn ei ymwneyd â'r bechgyn fel ag i'w calonogi yn fawr. Sylwai Martin pryd bynag y deuai Trebonius i ystafell yr ysgol, y codai ei gap i'r ysgolorion, a chai hyny yr effaith fwyaf dymunol arno. Yr oedd yntau yn rhywbeth! Cyd-athrawon Trebonius un diwrnod a amlygent eu syndod at ei ymostyngiad, ond atebodd (ac nid oedd ei atebiad yn llai tarawiadol i Luther ieuanc): "Y mae ymysg y bechgyn hyn ddynion o ba rai y gwna Duw gynghorwyr, canghellwyr, doctoriaid, ac ynadon. Er nad ydych yn eu gweled gydag arwyddion eu hurddas, mae yn iawn i chwi ymddwyn tuag atynt gyda pharch." Pan yn ddeunaw oed aeth i brifysgol Erfurt, gan feddwl astudio y gyfraith. Yr oedd

ei dad wedi gweled digon i edrych gyda chryn ddirmyg ar y mynachod, ac ni fynai feddwl am i'w fab fyned i'w plith hwynt. Ond yn falch o'i alluoedd a'i gyrhaeddiadau, cynnilai ei oreu er gallu ei ddwyn i fyny yn gyfreithiwr. Deuai ymlaen mor ragorol yn Erfurt fel y dywed Melancthon fod yr holl brifysgol yn edmygu ei athrylith. Hyd yn nod y pryd hyny yr ydoedd o ysbryd tra defosiynol. Gan deimlo ei ymddibyniad hollol ar Dduw, fe erfyniai yn daer am ei fendith ef ar ei holl ymdrechion. Bob boreu fe ddechreuai y dydd gyda gweddi, yna elai i'r eglwys, ac yna ymroddai â'i holl egni i'w efrydiau. Arferai ddyweyd: "Gweddïo yn dda ydyw astudio yn dda" *(Bene orasse est bene studuisse).*

Ond yn yr adeg bwysig hono fe ddygwyddodd un o amgylchiadau mawrion ei fywyd. Un diwrnod yn 1503, pan tuag ugain oed, wedi iddo fod ddwy flynedd yn y brifysgol, yr ydoedd yn y llyfrgell yn agor y llyfrau mewn ffordd ddiofal i ddarllen eu hwyneb-ddalen ac enwau eu hysgrifenwyr. Agorodd un a dynasai ei sylw, nad ydoedd erioed wedi gweled ei fath. Bibl Lladin ydoedd! Teimlai y dyddordeb mwyaf ynddo. Ni ddychymygasai erioed o'r blaen fod cymaint mwy o Ysgrythyr na'r rhanau o'r efengylau a'r epistolau a gynnwysid yn ngwasanaeth yr Eglwys. Dygwyddodd daro ar ystori Hannah a Samuel, yr hon a'i swynai yn fawr. Dychwelai drachefn a thrachefn at y llyfr gwerthfawr, yr hwn a brofai iddo yn ystordy o nefol ddoethineb. "Byddai Dr. Usinger, yr hwn oedd fy athraw yn Erfurt," meddai, "yn dyweyd wrthyf, pan welai fi yn darllen y Bibl gyda'r fath ddyfalwch a dyhewyd: 'Ah! frawd Martin, beth sydd yn y Bibl? Mae yn well darllen llyfrau yr hen ddoctoriaid. Maent hwy wedi sugno mêl gwirionedd. Y Bibl ydyw achos pob blinder yn yr Eglwys.'" Ond yr oedd yr hen Fibl hwnw, oedd wedi gorwedd cyhyd yn esgeulusedig ar ei astell, iddo ef o werth anmhrisiadwy. Llawenychai ynddo "fel un yn cael ysglyfaeth lawer;" dychwelai ato drachefn a thrachefn, ac ni allai ddiwallu ei awyddfryd am ei fwynhâu. Ymhen dwy flynedd, yn 1505, yr ydoedd yn dychwelyd o Mansfeld, lle buasai ar ymweliad â'i rieni, a goddiweddwyd ef a'i gyfaill Alexis gan ystorm o fellt a tharanau. Tarawyd Alexis i lawr—dywed rhai yn farw, ond fe barodd yr amgylchiad y dychryn mwyaf i Luther. Tybiai ei fod yn cael ei wysio i fyd arall, ac fel y dywed ef ei hun, "wedi ei amgylchynu gan ing a dychryn marwolaeth," addunedodd ymgysegru i fywyd o sancteiddrwydd; a chan mai mewn mynachlog yn unig, yn ol syniadau yr amseroedd hyny, y gellid gwneyd peth felly i ddim pwrpas, penderfynodd adael y brifysgol ac ymuno âg urdd yr Augustiniaid. Dychwelodd i Erfurt, a'i benderfyniad yn ddisigl. Gwahoddodd o ffarwel ychydig o'i gyfeillion yn y brifysgol i gael ychydig swper gydag ef, pryd y caed canu a chyfeillach hynod o ddifyr, a Luther ei hun, am y tro olaf, dybygai, yn enaid yr holl gymdeithas. Yn nghanol y llawenydd ymattaliodd, a dywedodd ei benderfyniad. Wedi eu taro â syndod, ymdrechent oll i'w berswadio i ymgroesi rhag y fath beth; ond rhag cael ei demtio i wrando arnynt aeth allan ar y pryd, gan adael ei ddillad a'i bobpeth ar ol, heb gymeryd gydag ef ond Arwrgedd Virgil a Chomediau Plautus, ac fe aeth ymaith, yn nhywyllwch y nos, i ofyn am dderbyniad i fynachlog St. Augustin. Agorir y porth a chauir ef, ac y

mae Luther, yn un mlwydd ar hugain a naw mis oed, ar yr 17eg o Awst, 1505, wedi ei gau allan o'r byd. Drannoeth anfonodd i ffarwelio â'i gyfeillion, gan ddychwelyd y dillad a wisgai hyd hyny, a hyd yn nod ei fodrwy o Athraw yn y Celfyddydau, rhag bod dim i'w adgofio o'r byd y troisai ei gefn arno. Yr oedd ei gyfeillion, ac yn enwedig ei dad, yn y brofedigaeth fwyaf. Ysgrifenai efe ato yn chwerw, gan ddyweyd ei fod yn ei droi allan o'i serchiadau. Yn ofer y ceisid lleddfu ei ddigofaint, nes, cyn pen nemawr, y cymerwyd dau o'i feibion ymaith trwy y pla, ac fe ddywedodd rhywun fod Martin hefyd wedi marw; ac yn nghyffro ei deimlad ar y pryd, wedi deall ei fod yn fyw, fe gydsyniodd iddo fod yn fynach. Ymhen amser dywedodd ei fab wrtho am yr amgylchiad a barasai iddo fyned yn fynach. "Duw baro," ebe y mwnwr teilwng, "na ddarfu i ti gymeryd fel arwydd o'r nef yr hyn nad ydoedd ond twyll y diafol." Ar adeg ei gysegriad i'r offeiriadaeth yr oedd Hans Luther yn bresennol yn y wledd a ddilynai. Yr ydoedd wedi ymdrechu gwneyd ymddangosiad mor deilwng ag a allai ar yr achlysur,—yr oedd ganddo osgordd o amryw geffylau a gweision, ac anrhegodd yr offeiriad ieuanc âg ugain *guilder*. Yr oedd y brodyr ar y pryd yn mawrhâu yn rhyfeddol waith Martin yn ymroddi i'r fath waith; ond troai Hans arnynt yn llym ac anhyblyg, gan ofyn, "Ai ni ddarllenasoch yn yr Ysgrythyrau ei fod yn ddyledswydd ufuddhâu i dad a mam?" Tarawodd y geiriau ei fab yn neillduol; dangosent bethau mewn goleuni newydd, ac mewn amser parasant chwyldroad mawr yn ei olygiadau.

Ond yr oedd neillduaeth y fynachlog ymhell o fod y cynnorthwy effeithiol a ddysgwyliai Martin i fywyd sanctaidd. Er fod y mynachod wedi derbyn gŵr ieuanc mor addawol a dysgedig gyda llawenydd, eto mynent ddarostwng ei falchder a gwneuthur yn anmhosibl iddo feddwl ei fod, o herwydd ei ddysgeidiaeth, &c., yn well na hwy. Gosodent ef i gyflawni y dyledswyddau iselaf, ac wedi gwneyd y cwbl gwaeddent, "Gyda'r cwd o amgylch y dref" *(Cum sacco per civitatem)*, ac felly byddai raid iddo fyned i gardota, ac weithiau at ddrysau ei hen gyfeillion a rhai oeddent islaw iddo. Dysgwyliasai gael mewn bywyd felly lawer o hamdden i ddarllen a myfyrio. Ond pan wedi cyflawni yr holl orchwylion isel a osodid arno y ceisiai yn awchus ddychwelyd at ei hoff lyfrau, amgylchent ef â'u murmuron, a llusgent ef oddiwrth ei lyfrau, gan waeddi: "Tyr'd, tyr'd, nid trwy astudio, ond trwy gardota bara, ŷd, wyau, pysgod, ac arian y mae mynach yn gwneyd ei hun yn ddefnyddiol i'r fynachlog." Ond er hyny ymostyngai yn dawel, gan ddysgwyl y gallai trwy hyny roddi yr ufudd-dod a'i gwnelai yn gymeradwy gan Dduw. Fel yr ysgrifenai lawer o flynyddoedd wedi hyny at y Duc George o Saxony: "Mewn gwirionedd, yr oeddwn yn fynach duwiol, a dilynwn reolau fy urdd mor fanwl fel na allaf ddyweyd i chwi y cwbl. Os aeth mynach erioed i'r nefoedd trwy ei haeddedigaethau mynachaidd, yn sicr mi gawswn i fynediad yno. Fe fydd i'r holl fynachod a'm hadwaenent gadarnhâu hyn; a phe buasai wedi para lawer yn hwy mi fuaswn yn llythyrenol wedi dyfod yn ferthyr, trwy wylio, gweddïo, darllen, ac ymdrechion llafurus eraill."

Ond yr oedd y cwbl yn ofer. Yr oedd ei iechyd yn llesgâu yn fawr, a phryder ei feddwl yn dyfod yn fwyfwy. "Yr oeddwn yn ngolwg Duw," meddai, "yn bechadur mawr, ac ni allwn ddyhuddo llidiogrwydd

yr Un Cyfiawn a Sanctaidd trwy unrhyw edifeirwch neu unrhyw haeddiant. Dywedai y doctoriaid a'r duwinyddion wrthyf am wneuthur gweithredoedd da, ac felly foddloni Dwyfol gyfiawnder. Ond pa weithredoedd da a all ddyfod o galon fel yr eiddof fi, calon lawn o feddyliau a dymuniadau drwg?" Yr oedd y rhan fwyaf o lawer o'r mynachod yn gwbl analluog i amgyffred ei brofedigaeth, ac ni phetrusent geisio ei folestu. Ond yr oedd ambell un yn wahanol. Crybwyllir yn neillduol am hen fynach oedd un diwrnod wedi ei golli, a deall ei fod wedi myned i'w gell, ac na chaniatâi i neb ddyfod ato. Dyfalodd ei sefyllfa, a chan wybod am ei gariad at gerddoriaeth cymerodd gydag ef amryw o fechgyn y côr a churodd wrth y drws. Gan na chai ateb, daeth yn fwy dychrynedig, a thorodd y drws yn agored, a gwelai Luther yn ymestyn i bob golwg yn farw ar y llawr. Yr oedd pob ymdrech i'w adfer yn ofer, nes o'r diwedd, wrth gyfarwyddyd yr hen fynach, y dechreuodd y plant ganu emyn felus. Dadebrodd hyny ef am enyd, ond elai i lawr drachefn. Yn benaeth y fynachlog ar y pryd yr oedd gŵr da a duwiol, y Tad Staupitz. Wedi clywed am sefyllfa Luther, aeth i edrych am dano. Yr oedd efe yn gwybod am deimladau tebyg ei hunan, ac am hyny yn meddu y cymhwysder neillduol i'w ymgeleddu. "Edrych i glwyfau yr Iesu," meddai; "edrych ar y gwaed a dywalltodd drosot; yno y gweli di drugaredd Duw. Tafl dy hun i freichiau y Gwaredwr. Ymddiried ynddo, ymddiried yn nghyfiawnder ei fywyd, ymddiried yn aberth iawnol ei farwolaeth. Nid ydyw Duw yn dy erbyn; tydi sydd yn wrthwynebol i Dduw. Gwrando ar Fab Duw, sydd yn gwahodd pawb sydd mewn blinder a phoen cydwybod, y blinderog a'r llwythog, i ddyfod ato Ef. Daeth Efe yn ddyn i'th sicrhâu o'r ffafr Ddwyfol." Dychymygai efe fod yn rhaid ei droi cyn yr edrychai Duw arno. Ond sicrhâi Staupitz ef nad allai fod gwir dröedigaeth, na gwir edifeirwch, ond a ddechreuai mewn credu yn Nghrist fel Gwaredwr. "Na lafuria yn gyntaf," meddai, "trwy edifeirwch a phenyd i gael ymwared, ond edrych at Iesu, a châr Ef, yr hwn yn gyntaf a'th garodd di, yr hwn a fu farw dros dy bechodau, a'r hwn a ddyrchafwyd, wedi ei adgyfodiad, yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch a maddeuant pechodau."

Mor newydd oedd hyn oll i Luther! Caru Duw, a chredu i'r Dwyfol gariad anfon Iesu i fod yn Waredwr! Yr oedd gobaith iddo yntau. Ymroes gyda'r gwirionedd yma yn ei feddiant i astudio yr Ysgrythyrau mewn goleuni newydd. "Y geiriau hyny," meddai, "edifeirwch a thröedigaeth, a'm dychrynent fwyaf, yn awr a ymddangosent yn rhedeg ataf o bob cyfeiriad—yn gwenu, yn neidio i fyny, ac yn chwareu o'm hamgylch. Gynt ceisiwn garu Duw, ond egni ac ymdrech ydoedd i gyd; ac nid oedd un gair mor chwerw i mi ag edifeirwch. Yn awr nid oedd un mor hyfryd. O! mor fendigedig ydyw holl orchymynion Duw, pan ddarllenwn hwynt nid mewn llyfrau yn unig, ond yn nghlwyfau gwerthfawr y Gwaredwr." Eto ar adegau yr oedd baich ei bechodau yn ei lethu. "O! fy mhechod! fy mhechod! fy mhechod!" gwaeddai un diwrnod wrth ei gyfaill oedranus. "Beth a fynit?" ebai Staupitz, "a fynit i'th bechod beidio bod yn wirioneddol? Cofia, os nad oes genyt ond rhith neu ymddangosiad o bechod, y rhaid i ti foddloni ar rith neu ymddangosiad o Waredwr. Dysga hyn, ddyfod Iesu Grist i achub

pechaduriaid; mai Ceidwad y colledig ydyw; ei fod yn achub pechaduriaid gwirioneddol a mawrion, a rhai yn haeddu eu damnio yn hollol. . . . Edrych ar glwyfau Crist, a thi a weli yno yn llewyrchu yn glir fwriad Duw tuag at ddynion. Ni allwn ddeall Duw allan o Grist." Er hyn oll yr oedd ei feddwl ar brydiau mewn mawr drallod; yr oedd y syniad o gyfarfod â Duw sanctaidd yn ei orchfygu yn gymaint fel yr oedd pryder ei feddwl yn llethu ei gorff, ac wedi ei ddwyn at borth angeu. Ond yr adeg yma darfu i fynach oedranus oedd yn eistedd wrth ochr ei wely, adrodd y geiriau hyny o'r Credo: "Credaf yn maddeuant pechodau." Aeth y geiriau i'w galon, ac yr oeddynt fel balm i'w ysbryd cystuddiedig. O'r diwedd dywedodd yntau, "Credaf yn maddeuant pechodau." "Ië," ebe'r hen fynach duwiol, "nid ydym yn unig i gredu fod maddeuant i Dafydd a Pedr; gorchymyn Duw ydyw i ni gredu fod maddeuant am ein pechodau ni ein hunain." Adfywiodd ei ysbryd yntau a dywedodd, "Credaf yn maddeuant pechodau—*fy* mhechodau *i!*" Bellach fe ddaeth ei heddwch yn llawn, ac adferodd ei iechyd, a daeth yn ddyn newydd. Flynyddoedd wedi hyny, gan edrych yn ol ar yr ymdrechfa ryfedd yr aethai drwyddi yr adeg yma, ysgrifenai:—

Yr oedd genyf mewn gwirionedd ddymuniad cryf i ddeall yn neillduol yr Epistol at y Rhufeiniaid. Yr hyn a'm cadwai rhag ei ddeall oedd yr un gair hwnw, "cyfiawnder Duw" (i. 17). I'r cyfiawnder hwnw, fel y deallwn ef, yr oedd genyf wrthwynebiad mawr. Tybiwn ei fod yn golygu cymeriad Duw fel Barnwr cyfiawn. Yn awr, er fel mynach, fy mod wedi byw bywyd diargyhoedd, yr oeddwn eto yn cael fy hun yn bechadur mawr ger bron Duw, ac ni feiddiwn feddwl am ei foddhâu Ef trwy fy ngweithredoedd fy hun. O herwydd hyn nid oeddwn yn caru y Duw cyfiawn a digllawn hwn, am ei fod yn cosbi pechaduriaid. Yr oeddwn yn ei gashâu, ac yn teimlo yn ddigllawn tuag ato. Eto, fodd bynag, astudiwn yr anwyl Paul, fel y gallwn gael allan ystyr y gair hwnw, oblegid sychedwn yn fawr am ei wybod. Yn y meddyliau hyn y treuliwn ddydd a nos nes, trwy ras Duw, y sylwais pa fodd yr oedd y geiriau wedi eu cysylltu ynghyd fel y canlyn: Mae "cyfiawnder Duw" wedi ei ddadguddio yn yr Efengyl, megys y mae yn ysgrifenedig, Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd. Gan sylwi ar y cysylltiad hwn, mi ddaethum i adnabod yr un cyfiawnder yma o eiddo Duw yn yr hwn y mae y person a gyfiawnheir yn byw yn unig trwy ffydd. Mi welais mai meddwl yr apostol oedd hyn: mai trwy yr Efengyl y gwneir yn wybyddus y cyfiawnder hwnw sydd gymeradwy gyda Duw; yn yr hwn y mae Duw, o ras a thrugaredd yn unig, yn ein gwneuthur yn gyfiawn trwy ffydd. Ar hyn, mi deimlais yn y fan fel pe buaswn yn gwbl wedi fy ngeni o newydd, ac wedi cael yn awr ddrws agored i baradwys ei hun. Ymddangosai yr Ysgrythyr Lân werthfawr yn awr ar unwaith yn beth cwbl wahanol i mi. Rhedais yn gyflym trwy yr holl Fibl, a chesglais yr oll a ddywedai ar y mater. Fel hyn, fel yr oeddwn o'r blaen yn cashâu y gair, "cyfiawnder Duw," felly yn awr mi ddechreuais ei anwylo a'i fawrhâu, fel fy ngair o'r Ysgrythyr oedd fwyaf anwyl a chysurlawn; ac fe ddaeth y gair yna i mi yn borth y nefoedd ei hunan.

Trwy y fath "ymdrech mawr o helbulon" yr arweiniwyd i dangnefedd y gŵr ag yr oedd ei lais i ddeffro y byd o'i farwol gwsg. Ond eto daliai at yr hen syniadau am sancteiddrwydd neillduol y rhai a berthynent yn swyddogol i'r Eglwys. Ar ei gysegriad i'r offeiriadaeth, pan ddywedai yr esgob wrtho, "Derbyn y gallu i offrymu aberth dros y byw a'r marw," yr oedd yn beth mawr yn ei olwg. Mewn cyfeiriad at yr adeg yma, pan y darllenasai yr offeren y tro cyntaf, ysgrifenai yn 1507: "Y mae yn beth gwych bod yn offeiriad newydd, a gweinyddu yr offeren am y waith gyntaf. Gwyn fyd y wraig a ymddŷg fab sydd

yn offeiriad; y mae person cysegredig, o'i gymharu â Christion bedyddiedig cyffredin, fel seren y boreu wrth lin yn mygu." Felly ar y pryd; ond wedi hyny daeth i deimlo, gyda golwg ar yr esgob oedd yn rhoddi ac yntau oedd yn derbyn y fath allu, "Na ddarfu i'r ddaear y pryd hyny agor a'n llyncu ein dau i fyny sydd brawf o amynedd a hirymaros yr Arglwydd."

Ymhen blwyddyn wedi ei gysegriad, yn 1508, fe'i gwahoddwyd i fod yn athraw yn y Brifysgol a sefydlasai Frederic, Etholwr Saxony, a gyfenwid y Doeth, chwe' blynedd cyn hyny, yn Wittenberg, lle a brofodd o hyny allan yn brif faes ei lafur. Yr oedd 179 o efrydwyr yno y pryd hyny, ond cynnyddasant yn gyflym. Darlithiai efe i ddechreu ar athroniaeth, yna ar dduwinyddiaeth, gan gymeryd yn yr olaf y Salmau a'r Epistol at y Rhufeiniaid. Tynai y darlithiau hyn sylw mawr. Dywedai Dr. Pollich, a eilw Mathesius yn "oleuni y byd" *(lux mundi)*, wedi ei glywed: "Fe fydd i'r mynach yna ddyrysu yr holl ddoctoriaid dysgedig, gosod ger bron athrawiaeth newydd, a diwygio yr holl Eglwys Rufeinig; oblegid y mae yn astudio ysgrifeniadau y prophwydi a'r efengylwyr; y mae yn ymorphwys ar air Iesu Grist; ac ni all neb ddymchwelyd hwnw gyda nac athroniaeth na thwyll-resymeg." Trwy ei argymhelliad ef y symudwyd Luther i Wittenberg. Yr oedd ei hen gyfaill gwerthfawr, Staupitz, hefyd yn cael mwynhâu ei ddarlithiau. Fe'i penodwyd ef yn Ficer Cyffredinol Urdd St. Augustin, ac ymddiriedai yntau i Luther ymron holl arolygiaeth y gwaith.

Ynglŷn â hyn yr oedd ganddo achos yn ngwasanaeth ei urdd, yn 1510, pan nad oedd eto ond saith ar hugain oed, i ymweled â Rhufain, yr hyn hefyd ydoedd i brofi yn rhan dra phwysig o'i addysgiaeth a'i barotoad i waith ei fywyd. Ar ei daith, yn Bologn, bu yn wael iawn; ac yn yr iselder daeth yr hen ddychrynfeydd i'w flino yn fawr. Ond yn nghanol eu heithaf, fe ddaeth geiriau Paul, oeddent eisoes wedi ei daro yn gymaint yn Wittenberg, "Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd," i'w gof yn rymus, a goleuasant ei enaid fel pelydr o'r nef. Yr oedd ganddo eto feddyliau mawr am weithredoedd da a gyflawnid yn y ddinas sanctaidd, a phan ddaeth i'w golwg, gwaeddai, "Yr wyf yn dy anerch, O Rufain sanctaidd! Ië, gwirioneddol sanctaidd trwy waed y merthyron a dywalltwyd yma." Teimlai ar y pryd y buasai yn dda ganddo pe buasai ei dad a'i fam wedi marw, fel y gallasai yn Rhufain eu gweddïo allan o'r purdan. Gwelai dorfeydd o bererinion yn esgyn ar eu gliniau noethion y *Scala Santa*, y grisiau y coelgrefyddol dybid eu bod wedi eu dwyn o dŷ Pilat yn Jerusalem, ac esgyn pa rai felly a dybid yn waith mor haeddiannol. Mynai yntau, gan faint ei grefyddolder, wneyd yr un peth. Ond pan yn ymlusgo i fyny hyd y grisiau, dychwelodd ei reswm, a chlywai lais fel llais Duw yn ei gydwybod yn dywedyd y geiriau o'r Ysgrythyr: "Y CYFIAWN A FYDD BYW TRWY FFYDD." Cododd oddiar ei liniau, safodd ar ganol y grisiau, ac yn ddiammeu er mawr syndod i'w gyd-ddringwyr, fe ruthrodd o'r lle yn llawn o gywilydd a gofid. Yr ydoedd eto yn ceisio cyfiawnhâd trwy weithredoedd, a'r fath weithredoedd â'r rhai hyny! Fe allai ymddangos yn dra dyeithr i ni pa fodd yr oedd y fath un eto yn y fath dywyllwch; ond y mae yn gweddu i ni gofio mai o gyfeiriad caddug ofnadwy yr oedd efe yn tramwy tua'r goleuni, ac mai yn araf, o angenrheidrwydd,

y deuai i weled pethau yn eglur. Duw roddo ddoethineb i ni y dyddiau hyn i beidio dibrisio yr etifeddiaeth o wirionedd sydd wedi dyfod i'n dwylaw fel cynnyrgaeth oesoedd, er mwyn myned yn ol at "yr egwyddorion lleg a thlodion" y bu y byd dros gynifer o oesoedd yn cael ei gadw drwyddynt yn y fath ddirfawr iselder! Ond gwelodd Luther lawer yn ychwaneg yn Rhufain. Yr oedd yr annuwioldeb, y llygredigaeth, a'r rhyfyg cableddus a ffynai yno, a hyny ymysg y rhai, yn anad pawb, y dysgwyliasai eu cael yn gynlluniau o sancteiddrwydd, yn ei ddychrynu. Dywedai, "Mae yn anmhosibl i bethau barhâu fel yma; rhaid iddynt newid neu dori i lawr." Drachefn: "Os oes uffern, y mae Rhufain wedi ei hadeiladu ar ei phen. Pwy bynag fu yn Rhufain, fe ŵyr yn dda fod pethau yn waeth yno nag y gellir dadgan mewn geiriau neu gredu."

Wedi dychwelyd i Wittenberg yr oedd yn dda ganddo droi oddiwrth ysgelerderau anfad yr hyn a arferai ystyried y "ddinas sanctaidd," ac ymroddi i'w waith a'i efrydiau yn ngair Duw. Yr oedd Frederic a Staupitz wedi penderfynu rhoddi iddo yr urddas o "Ddoctor yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd." Gwingai efe yn fawr yn erbyn hyny. Nid oedd yn deilwng; yr ydoedd yn wanaidd, a byddai farw yn fuan; ac yr ydoedd yn dlawd, ni allai dalu y draul gysylltiedig â hyny. Ond nid oedd dim yn tycio; yr oedd gan Staupitz ddigon o resymau. "Mae gan ein Harglwydd Dduw lawer i'w wneyd yn ei Eglwys; y mae arno eisieu yn awr ddoctoriaid ieuainc ac egnïol." "Mae gan yr Arglwydd waith yn y nefoedd yn gystal ag ar y ddaear; marw neu fyw, mae arno Ef dy eisieu yn ei gynghor." Am y draul, "Na fydd anesmwyth am hyny; mae y tywysog wedi gwneyd â thi y ffafr o gymeryd yr holl draul arno ei hun." Elai ar ei lw, wrth dderbyn yr urddas, y byddai iddo amddiffyn y gwirionedd efengylaidd â'i holl allu; a meddyliai o ddifrif am a ddywedai.

Yn fuan fe deimlodd ei fod yn cael ei alw i wneyd hyny mewn dull na ddysgwyliai ac na allasai feddwl am dano. Yr oedd wedi bod yn arferiad gan y Pabau, er dyddiau y croesgadau, i werthu maddeuon neu *indulgences* i'r bobl, a thrwy hyny gwnaent fasnach dra ennillfawr. Yr oedd Leo X., gŵr nad oedd terfyn ar ei rwysg a'i wastraff, yn awr yn adeiladu St. Pedr yn Rhufain, lle y llyncid arian yn ddifesur. Ac ni ellid meddwl am ddim moddion i gael digon o arian ag y gellid ei gymharu i'r *indulgences*, yr hyn a roddai i'r bobl ryddid llawn i bechu, ac a'u sicrhäent rhag y canlyniadau. Yr oedd Albert, Archesgob Mentz, o'r ochr arall, mor wastraffus bron a Leo, ac mewn penbleth barhâus o ddiffyg digon o arian i gynnal i fyny ei rwysg a thraul ei annuwioldeb. A chan mai efe oedd Archesgob Germany, daeth i delerau gyda Leo i gario ymlaen y fasnach hono dano yn Germany, ac wrth reswm i gael rhan o'r yspail. Caed dyn pur gymhwys i gario y busnes gwaradwyddus ymlaen, Tetzel, mynach o urdd y Dominicaniaid, creadur diegwyddor, galluog, doniol, a digywilydd. Yr oedd i gael pedwar ugain *florin* y mis am ei wasanaeth, heblaw ei dreuliadau, ac yr ydoedd yn ei wneuthur yn llawer ychwaneg. Rhwng Leo ac Albert, a Tetzel—gyda'r holl giwed oedd yn tynu oddiarnynt—yr oedd eisieu arian yn ddiderfyn. Ond yr oedd Tetzel yn gallu eu cael ynghyd fel "lli'r afon." Elai oddiamgylch gyda rhwysg esgob. Gyrai

i'r dinasoedd mewn ffordd ysplenydd, a'r clychau yn canu, a *bull* neu awdurdodiad y Pab i'r maddeuon yn cael ei gario o'i flaen ar glustog felfed. Deuai gorymdeithiau, yn dwyn croesau a banerau, i'w gyfarfod ac i fod yn osgordd iddo i'r eglwys. Yna codid i fyny groes goch, ar ba un y gosodid paisarfau y Pab, a haerai Tetzel fod hono mor rinweddol â chroes Crist ei hunan. Ac wedi hyny pregethai ei faddeuon, gan arddangos gyda hyawdledd teilwng o achos gwell, eu heffeithiolrwydd a'u dirfawr werth. "Maddeuon," meddai, "ydynt y pethau mwyaf gwerthfawr ac ardderchog o holl roddion Duw. Deuwch, a mi a roddaf i chwi lythyrau, oll wedi eu selio yn briodol, trwy ba rai y gellir maddeu hyd yn nod y pechodau y bwriedwch eu cyflawni. Ni chyfnewidiwn fy mraint am yr eiddo St. Pedr yn y nefoedd; oblegid yr wyf fi wedi achub mwy o eneidiau trwy fy maddeuon nag a wnaeth yr apostol trwy ei bregethau. Nid oes yr un pechod mor fawr nad allent ryddhâu oddiwrtho; a hyd yn nod pe buasai rhywun (yr hyn sy'n anmhosibl) wedi treisio y fendigaid Fair y Forwyn, mam Duw, taled—yn unig taled yn dda, a maddeuir yr oll iddo. . . . Ië, mwy na hyn y mae maddeuon mewn grym nid yn unig i'r byw, ond i'r marw hefyd. Gyda hwy nid yw hyd yn nod edifeirwch yn angenrheidiol. Offeiriad! foneddwr! fasnachwr! wraig! ŵr euanc! forwyn! ai nid ydych yn clywed eich rhieni a'ch cyfeillion eraill sydd wedi marw, ac ydynt yn llefain o waelod y dyfnder: Yr ydym yn dyoddef poenydiau dychrynllyd! ychydig gardod a'n gwaredai; gallech ei rhoddi, ac ni wnewch!" &c. Am yr enaid truenus oedd felly yn dyoddef, bloeddiai rigwm,

> Pan swnia 'r arian yn y gist,
> Fe naid i'r nef o'r purdan trist.*

Yr oedd rhai yn gweled drwy y fasnach waradwyddus, ac yn ei dirmygu. Sonir am wraig yn Hanenau yn 1517, wedi pwrcasu *indulgence* yn ddiarwybod i'w gŵr, am ba un y rhoisai *florin* aur. Yn fuan wedyn bu farw. Gan na pharai ei gŵr ddyweyd *mass* drosti, cyhuddai yr offeiriaid ef o ddirmygu crefydd, a gwysiwyd ef i ymddangos yn llys yr ynadon. Rhoddes y crydd yr *indulgence* yn ei logell, ac aeth i ateb y cyhuddiad. "A ydyw eich gwraig wedi marw?" gofynid iddo. "Ydyw." "Beth a wnaethoch iddi?" "Cleddais ei chorff, a chyflwynais ei henaid i Dduw." "Ond a gawsoch chwi ddyweyd gweddïau er gorphwysdra i'w henaid?" "Naddo; nid oedd o un dyben; hi a aeth i'r nefoedd y foment y bu farw." "Pa fodd y gwyddoch hyny?" "Dyma y prawf." Yna tynai y maddeuant-lythyr o'i logell, a'r ynad, yn mhresennoldeb yr offeiriad, a ddarllenodd, mewn cynifer o eiriau, na fyddai i'r wraig oedd wedi ei dderbyn, ar foment ei marwolaeth, fyned i'r purdan, ond yr elai ar unwaith i'r nefoedd. "Os ydyw y gŵr parchedig yn dal fod *mass* yn angenrheidiol eto," ychwanegai y gweddw, "mae fy ngwraig wedi ei thwyllo gan ein sancteiddiaf dad y Pab; os nad ydyw, yr offeiriad sydd yn fy thwyllo." Nid oedd fodd ateb hyn, a rhyddhäwyd y crydd. Dywedir am foneddwr o Saxony oedd wedi clywed Tetzel yn Leipzig, a chael ei fawr anfoddhâu gan ei anwiredd-

* Wenn nur das Geld in Kasten ringt,
Die Seele gleich gen Himmel springt.

au. Gan nesâu at y mynach, gofynodd a oedd ganddo allu i faddeu pechodau yr oedd gan ddynion fwriad i'w cyflawni? "Yn gwbl sicr," meddai Tetzel, "y mae genyf lawn awdurdod oddiwrth ei Sancteiddrwydd i'r perwyl hwnw." "Wel," ebai y marchog, "mae genyf ddymuniad i fŷnu tipyn o ddial ar un o fy ngelynion, heb beryglu ei fywyd. Mi roddaf i chwi ddeg coron os rhoddwch i mi faddeuantlythyr a'm cyfiawnhâ." Cyndynai Tetzel ychydig am y pris, ond yn y diwedd cytunasant ar y swm o ddeg coron ar hugain. Gadawodd y mynach Leipzig yn fuan wedyn. Y boneddwr a'i weision a ddysgwylient am dano mewn coed rhwng Jüterboch a Treblin; syrthiasant arno, rhoisant iddo gurfa dda, a chymerasant ymaith y gist lawn a gariai gydag ef. Gwnaeth Tetzel dwrw mawr, a dygodd ei achwyniad o flaen y llysoedd. Ond dangosodd y boneddwr y llythyr a arwyddnodasai Tetzel ei hun, ag oedd yn ei ryddhâu ymlaen llaw oddiwrth bob cosb. Dywedir fod y Duc George yn ddigllawn iawn o herwydd yr ymosodiad, ond wedi darllen y llythyr gorchymynodd i'r cyhuddedig gael ei ollwng.

Adroddir llawer o hanesion difyrus o gyffelyb natur a ddangosent y dirmyg a'r adgasrwydd a deimlai llawer at y fasnachaeth warthus hon. Ond gellid yn hawdd casglu mai eithriadau oedd y rhai hyny. Am y lliaws, credent yn ddibetrus yn ngwerth y pethau a argymhellid gyda'r fath awdurdod arnynt, a thalent yn ewyllysgar am danynt. Ac nid ydyw yn anhawdd dyfalu y drygioni di-ben-draw yr oedd y fath drefn ar bethau yn achles iddo, ïe, ac yn anocheladwy, mewn amseroedd o'r fath anwybodaeth, yn ei gynnyrchu. Ac yr oedd hyny yn barhâus yn dyfod o flaen sylw Luther. Yn y gyffesgell, pan yn pwyso ar y rhai fyddent yn cyffesu yr angenrheidrwydd am iddynt edifarhâu am eu pechodau, dywedent yn hyf nad oedd eisieu iddynt edifarhâu, a dygent allan eu llythyrau i brofi hyny. Dywedai yntau nad oedd ganddo ef ddim i'w ddyweyd am y llythyrau, ond "Onid edifarhewch, chwi a ddyfethir oll yn yr un modd." Dadleuai y bobl a phrotestient; ond nid oedd o un dyben. Hyd yn hyn yr oedd ganddo er pobpeth ddwfn barchedigaeth i'r Pab. "Yr oeddwn y pryd hyny," meddai wedyn, "yn fynach, ac yn Babydd o'r fath ffyrnicaf, wedi fy meddwi, ïe, wedi fy moddi yn gymaint yn yr athrawiaethau Rhufeinig, fel y buaswn yn ewyllysgar yn cynnorthwyo, pe gallaswn, i ladd pwy bynag a feiddiasai wrthod yr ufudd-dod lleiaf i'r Pab. Yr oeddwn yn Saul, fel y mae llawer eto." Daeth Tetzel mewn rhwysg mawr i Wittenberg. Dywedid wrtho fod mynach Augûstinaidd wedi trin ei lythyrau gyda dirmyg. Wrth hyny ystormiai yntau yn arswydus o'r pulpud, gan ddirmygu a melldithio; ac i beri mwy o ddychryn, mynodd gynneu tân amryw weithiau yn y farchnadfa, gan ddyweyd ei fod wedi cael gorchymyn gan y Pab i losgi pob hereticiaid a feiddient wrthwynebu ei sancteiddiaf faddeuon. A dyma a achlysurodd y Diwygiad. Er cymaint y gofid a deimlasai Luther at y drygioni a welsai yn ffynu dan gysgod y Babaeth, nid oedd dim wedi ei dueddu i daflu ymaith yr iau a chodi yn erbyn yr awdurdod a ystyriai yn oruchaf, nes y gwelodd y perygl ofnadwy yr oedd eneidiau ei gydwladwyr ynddo, a hyny drwy awdurdodiad arbenig y Pab ei hunan. Ond bellach, dan lawn ymdeimlad o bwysigrwydd yr amgylchiadau, teimla fod yn rhaid iddo ufuddhâu i Dduw yn fwy nag i ddynion. Esgyna i bulpud yn Wittenberg, ac yn dirion, fel y dywed ef

ei hun, ond yn sicr yn ddifrifol a grymus, pregetha yn erbyn y maddeuon. Gwrandewid arno gyda dirfawr syndod. Argraffwyd y bregeth, ac effeithiai yn ddwys ar bawb a'i darllenai. Yr oedd gŵyl yr Holl Saint, Hydref 31, 1517, yn ymyl. Y diwrnod o flaen yr ŵyl, cerdda Luther yn hyf at yr eglwys, lle yr oedd tyrfa goelgrefyddol o bererinion yn ymgynnull, a gesyd i fyny ar y drws naw deg a phump o osodiadau *(theses)*, yn erbyn athrawiaeth maddeuon. Ni wyddai un-gwr am ei fwriad. Dywed mewn math o ragymadrodd ei fod wedi eu hysgrifenu gyda'r dymuniad i osod y gwirionedd mewn llawn oleu dydd, a'i fod yn barod drannoeth i'w hamddiffyn yn y brifysgol yn erbyn pwy bynag a ddelai. Amddiffynai y gosodiadau yr athrawiaeth Gristionogol o berthynas i edifeirwch a maddeuant, gan gondemnio yn ddifloesgni holl gyfundrefn yr *indulg nces.* Darllenid hwy, fel y gallesid dysgwyl, gyda'r syndod mwyaf; taenid yr hanes yn eu cylch i bob cyfeiriad; ac yn fuan iawn dyna oedd yn tynu sylw ac yn llyncu meddylfryd pawb. Yr oeddynt yn gryfion yn meiddgarwch eu hymosodiad ar beth ag yr oedd awdurdod uchaf yr amseroedd hyny yn nerth iddo; yr oeddynt yn gryfion yn y ffydd oedd yn cynnal ei ysbryd ef ac yn ei alluogi i wneyd y fath ymosodiad digyffelyb; ac yn enwedig yr oeddynt yn gryfion yn nerth y gwirionedd mawr o gyfiawnhâd pechadur trwy ffydd yn Nghrist yn unig, yr hwn a orweddai wrth wraidd y cyfan. Dywedai efe ei hun, mewn adeg ddiweddarach, ei fod wrth gyhoeddi athrawiaeth cyfiawnhâd trwy ffydd, wedi gosod y fwyall ar wreiddyn y pren. "Ar athrawiaeth yr ydym yn ymosod yn y rhai sydd yn glynu wrth y Babaeth. Ni ymosodai Huss a Wickliff ond ar eu bywydau; ond wrth ymosod ar eu hathrawiaeth yr ydym ni yn cymeryd yr ŵydd gerfydd ei gwddf. Dibyna pobpeth ar y Gair, yr hwn y mae y Pab wedi ei ddwyn oddiarnom a'i ŵyrdroi. Gorchfygais i y Pab, am fod fy athrawiaeth i o Dduw, a'r eiddo yntau o ddiafol."

Ni ymddangosodd neb drannoeth i wrthwynebu y gosodiadau. A phrin yr oedd twrw y morthwyl oedd yn eu hoelio wedi dystewi na chyfododd trwy Germany oll ddyrnod ag oedd yn bygwth bywyd Rhufain. Ymdaenai y gosodiadau gyda chyflymdra mellten. Cyn pen mis yr oeddynt yn Rhufain. "Mewn pythefnos," meddai Myconius, "yr oeddynt ymhob parth o Germany, mewn pedair wythnos yr oeddynt wedi myned bron trwy yr oll o Grêd, fel pe buasai yr angelion eu hunain yn negeswyr iddynt, ac wedi eu gosod o flaen llygaid pawb. Ni all neb gredu y twrw a barent." "Yr oedd pawb," meddai Luther, "yn cwyno am y maddeuon; a chan fod yr holl esgobion a'r doctoriaid yn ddystaw, a neb yn foddlawn i roi cloch i'r gath; fe ddaeth Luther druan yn ddoctor enwog, oblegid (fel y dywedent) ddyfod un o'r diwedd a fentrodd ei wneyd. Ond nid oeddwn i yn hoffi y gogoniant hwn, ac yr oedd y dôn ymron yn rhy uchel i fy llais." Dywedai Erasmus, gŵr y gellid yn hawdd gredu ei eiriau, ac un oedd yn un o brif gydymgeiswyr y Diwygiwr, wrth y Duc George o Saxony: "Pan ymosododd Luther ar y chwedl hon yr oedd yr holl fyd yn dadgan ei gymeradwyaeth, ac yr oedd cydsyniad cyffredinol." A thrachefn dywedai wrth Cardinal Campeggio: "Yr wyf yn sylwi mai po fwyaf duwioldeb efengylaidd dynion, a pho buraf eu moesau, lleiaf y maent yn gwrthwynebu Luther. Canmolir ei fywyd hyd yn nod gan y rhai na allent oddef ei

ffydd. Yr oedd y byd wedi blino ar athrawiaeth oedd mor lawn o chwedlau plentynaidd ac ordeiniadau dynol, ac yn sychedu am y dwfr byw, pur, cuddiedig, sydd yn tarddu o wythïenau yr efengylwyr a'r apostolion. Yr oedd athrylith Luther yn gyfaddas i gyflawni y pethau hyn, a chymerai ei zel yn naturiol dân wrth anturiaeth mor ogoneddus."

Ymhen enyd anturiodd Tetzel ei hun i'r maes, ond er mor fawrion ei honiadau, yr oedd y rhyfel wedi ei chario i faes rhy ddyrchafedig iddo ef allu gwneyd ond ychydig yn erbyn gwrthwynebydd o'r fath allu a mawredd. Ebai Luther yn ei atebiad, mewn cyfeiriad at yr enwau drwg gan Tetzel, ac mewn iaith oedd yn fwy nodweddiadol o'i amseroedd nag o'r dyddiau hyn: "Pan glywaf yr enllibiau hyn, yr wyf yn ffansïo mai asyn sydd yn brefu arnaf. Mae yn dda iawn genyf am danynt, a byddai yn ddrwg genyf pe byddai i'r fath bobl fy ngalw yn Gristion da." O'r diwedd, wedi hir ymdrech i barotoi, trefnwyd cael dadl gan Tetzel yn Frankfort. Parotoisai yntau osodiadau, ac anturiasai roddi yn un o honynt "fod pwy bynag a ddywedo nad yw yr enaid yn dianc o'r purdan mor fuan ag y mae yr arian yn tincian yn y gist yn cyfeiliorni." Yr oedd ganddo dri chant o fynachod wedi eu dwyn ynghyd; y rhai a wrandawent gydag edmygedd arno; ond nid oedd neb o dduwinyddion y brifysgol a anturiai ei wrthwynebu, rhag eu hystyried yn cefnogi heresi. Ond ymysg yr efrydwyr oedd yn bresennol yr oedd gŵr ieuanc ugain oed o'r enw Knipstrow, yr hwn oedd wedi darllen gosodiadau Luther a'u cael yn unol â'r Ysgrythyr: yn ddigllawn wrth weled y gwirionedd yn cael ei sathru, gwrthwynebodd ef Tetzel yn hyf, ac yntau, heb gyfrif ar gael ei wrthwynebu, a daflwyd i ddyryswch, ac a orfu adael ei le i Wimpina; ond yr oedd hwnw drachefn yn cael ei wasgu mor galed fel y gorfu i'r llywydd, er gochel gwaradwydd, gyhoeddi fod y cyfarfod ar ben. Er mwyn amddiffyn ei faddeuon yr oedd Tetzel yn y gosodiadau hyn wedi dyfod â'r Pab i'r ddadl, fel yr oedd ffordd Luther yn rhydd bellach i gario y rhyfel ymlaen, nid yn erbyn Tetzel a'r maddeuon, ond yn erbyn Rhufain ei hun. Yn 1518 yr oedd cynnulliad cyffredinol o'r Augustiniaid i gymeryd lle yn Heidelberg. Aeth Luther yno, a pharotoisai bethau tebyg i'r *theses*, a alwai *paradoxes*, i fod yn seiliau trafodaeth ar y cwestiynau mawrion. Yr oedd pump o ddoctoriaid mewn duwinyddiaeth yn ymosod arnynt fel cyfeiliornadau, ond mewn dull parchus a difrifol. Dangosai Luther, ar ei du yntau, "hynawsedd neillduol yn ei atebion, amynedd digyffelyb mewn gwrando eu gwrthddadleuon, a holl gyflymdra St. Paul mewn dadrys yr anhawsderau a osodid o'i flaen." Yr oedd ei atebion yn fyrion, ond yn llawn o Air Duw, ac yn ennyn edmygedd ei wrandäwyr. Cynnyrchodd y drafodaeth yr effeithiau mwyaf dymunol, yn enwedig ar y bobl ieuainc oedd yn bresennol, amryw o ba rai a ddaethant yn llafurwyr blaenllaw gyda y Diwygiad. A gwnaeth les iddo yntau hefyd. "Yr wyf fi yn perthyn i'r rhai hyny," meddai, "sydd yn gwella wrth ysgrifenu a dysgu eraill, ac nid i'r rhai sydd o ddim yn dyfod ar unwaith yn ddoctoriaid mawrion a dysgedig."

Rhaid i ni aros ar hyn yn awr: gobeithiwn ddychwelyd at ein chwedl yn y rhifyn nesaf.

DANIEL ROWLANDS.

# Y DIWEDDAR BARCH. HUGH JONES, D.D., LLANGOLLEN.

YN ystod yr ugain mlynedd diweddaf, ac yn enwedig y deg olaf o honynt, nid oedd enw yn Nghymru yn meddu mwy o bwysau a dylanwad yn ei enwad na'r un sydd uwch ben yr ysgrif hon. Yn ddiweddarach fyth yr oedd wedi dechreu dyfod yn ddyn o ddylanwad cenedlaethol. Yr oedd ei wylder naturiol yn ei gadw yn ol ymhob cylch hyd nes y gwelid ei ragoriaethau gan eraill, ac y gwthid ef ymlaen i'r safle a deilyngai.

Ganwyd Dr. Jones yn mhentref Bodedeyrn, Môn, Gorphenaf 10fed, 1831. Hugh Jones oedd enw ei dad a'i daid; yr oedd ei daid yn ddiacon llafurus gyda y Methodistiaid Calfinaidd, ac yn byw yn Eingion Chwith, ffermdy o fewn tua chwarter milldir i bentref Bodedeyrn. Tad Hugh Jones, Eingion Chwith, oedd Edward Jones, Maeneryr, Llanddyfnan, Môn, yr hwn oedd un o bregethwyr boreuaf y Methodistiaid yn yr ynys, a dywedir ei fod yn neillduol am ei ddifrifoldeb crefyddol. Yr oedd nain Dr. Jones, gwraig Hugh Jones, Eingion Chwith, yn wyres i beriglor Llanrhyddlad. Enw morwynol ei fam oedd Jane Jones, merch Ty'n Llidiart, tyddyn heb fod ymhell o Lanfechell, Môn. Wedi i'w dad a'i fam briodi aethant i fyw i Fodedeyrn, ac yno y buont nes oedd eu mab Hugh yn rhyw ddwy ar bymtheg mlwydd oed. Yr adeg hono cytunodd ei dad i fyned yn arddwr at foneddwr oedd yn byw yn Plas Llanfugail, tua milldir a hanner o bentref adnabyddus Llanfachraeth, a symudasant i fyw i dŷ ar dir y Plas, yn agos i gapel Ty'nymaen, addoldy y Methodistiaid. Yr oedd ei fam yn aelod gyda'r Annibynwyr er cyn iddi briodi, a chyda yr enwad parchus hwnw y bu yn aelod tra y buont yn byw yn Bodedeyrn; nid oedd ei dad yn aelod gyda'r un enwad, eithr byddai yn gwrandaw gyda'r Methodistiaid.

Daeth Hugh Jones yn wrthddrych argraffiadau crefyddol yn dra ieuanc; ac ar ei gais ei hun, yr hwn a roddwyd trwy ei fam, pan rhwng saith ac wyth mlwydd oed, cyflwynwyd ef i sylw eglwys y Methodistiaid yn Modedeyrn gan un John Lloyd. Yn fuan wedi i'w rieni symud o Fodedeyrn i fyw, daeth yntau i weithio gwaith crydd i Lanfachraeth at un John Roberts, a symudodd ei aelodaeth o Fodedeyrn i Ty'nymaen. Yn fuan ar ol hyn cymerodd amgylchiad le, yr hwn a gariodd ddylanwad mawr ar fywyd dilynol Hugh Jones. Yr oedd ei feistr newydd, John Roberts, yn Fedyddiwr o ran barn, a'i wraig yn aelod gyda'r Bedyddwyr, yn nghapel Pont yr Arw, Llanfachraeth, lle yr oedd y Parch. R. D. Roberts, yn awr o Lwynhendy, yn weinidog. Ar ymweliadau Mr. Roberts â'r teulu, byddai John Roberts yn ymhyfrydu mewn cael dadl ar fedydd rhyngddo ef a Hugh Jones.

Ar un o'r amgylchiadau hyny annogodd Mr. Roberts ef i chwilio y Testament Newydd drosto ei hun ar y pwnc. Gosodwyd y cynghor mewn gweithrediad, a'r canlyniad fu iddo gael ei fedyddio yn afon Alaw, ac ymuno â'r eglwys yn Mhont yr Arw. Yr oedd hyn pan ydoedd rhwng 17 a 18 mlwydd oed.

Nid yw yn ymddangos ei fod wedi gwneyd fawr yn gyhoeddus gyda'r Methodistiaid, oblegid yn lled wylaidd ac annyben yr oedd yn cymeryd rhan yn y cyfarfodydd ar ol dyfod yn Fedyddiwr; ond wrth ymarfer, yn fwyaf neillduol yn nghyfarfodydd gweddïo y bobl ieuainc, daeth yn fwy eofn a chartrefol. Ymhen cryn amser dechreuwyd meddwl fod defnydd pregethwr ynddo, ac wedi tipyn o gymhell, traddododd ei bregeth gyntaf yn addoldy Pont yr Arw, pan yn agos cyrhaedd ei ugain mlwydd oed. Y testun oedd, "Y mae gan hyny orphwysfa eto yn ol i bobl Dduw." Clywsom fod y bregeth ar gael, ac y bydd yn y Cofiant sydd yn cael ei barotoi gan y Parch. H. C. Williams, Corwen. Ymddengys iddo draddodi yr un bregeth drachefn yn nhŷ ei nain yn Eingion Chwith. Dywedir mai yn y tŷ hwnw y pregethodd y Parch. W. Lloyd, Caernarfon, y bregeth gyntaf a draddododd ar ol ymuno â'r Methodistiaid wedi gadael yr Eglwys Wladol. Yr oedd ei nain, Margaret Jones, yn wael ar y pryd, a daeth bagad o bobl y pentref a'r cylchoedd i'r oedfa, a dywedir nad anghofiodd rhai mo'r dylanwad dymunol oedd yno tra y buont byw. Ar yr un pryd. nid yw yn ymddangos fod "dawn dyweyd" y pregethwr ieuanc yn rhyw addawol iawn ar y dechreu. Yr oedd yn Llanfachraeth frawd ieuanc arall yn dechreu pregethu tua yr un adeg, yr hwn ar ol hyny a adwaenid fel y Parch. Moses Roberts, Felin Foel; yr oedd ef yn fwy parablus na Hugh Jones. Wedi i'r olaf bregethu yn Mhont yr Arw, dywedai un hen frawd wrth y llall, "Yr oedd hona yn bregeth go dda, pe buasai Moses yn ei dyweyd."

Ymhen enyd daeth Hugh Jones i feddwl am athrofa. Yr holl addysg oedd wedi gael oedd ychydig yn yr ysgol Genedlaethol yn ardal Bodedeyrn. Rhoddasid ef i ddysgu gwaith crydd gydag un William Hughes yn Bodedeyrn pan oedd yn 14 mlwydd oed, ac nid oedd fawr o obaith myned trwy yr arholiad rhagbarotoawl i fyned i'r Athrofa heb ryw fanteision ychwanegol. Yn ffodus iawn agorodd y drws iddo i fyned i Ysgol Frytanaidd Llanrhyddlad, lle yr oedd Mr. Lewis yn ysgolfeistr. Yr oedd yr ysgolfeistr ac yntau o hyny allan yn aelodau yn yr un eglwys, sef Rhydwyn, Llanrhyddlad. Cafodd Mr. Lewis yn athraw gwych, ac yn gyfarwyddwr o werth mawr. Yr oedd yn lletŷa gyda Mr. a Mrs. Jones, Caedowtai. Nid oedd yn talu ond ychydig am ei lettŷ, ond talodd yr hyn oedd ganddo ymhell cyn bod yn barod i adael yr ysgol. Erbyn hyn yr oedd yn dywyll iawn arno, ond fel gyda llawer o ddynion gonest ac ymroddgar o'i flaen, gofalodd Rhagluniaeth am dano. Dywedodd Mrs. Jones, ei letŷwraig garedig, y gallasai aros yno a chroesaw, talu neu beidio, tra buasai yr ysgol yn angenrheidiol arno; ac felly y bu; arosodd yno o gwbl am bymtheg mis, ac erbyn hyny yr oedd yn alluog i sefyll arholiad yr Athrofa. Teimlai Dr. Jones yn gynhes iawn at y teulu caredig hwn tra y bu byw. Byddai yn arfer dyweyd un adeg fod ganddo dair mam yn Môn, ei fam ei hun, Mrs. Rowlands, y Green, a Mrs. Jones, Caedowtai. Y fath gym-

helliad sydd yma dros fod yn garedig i ddynion ieuainc o gymeriad, ymroddiad, a thalent.

Derbyniwyd ef i Athrofa Hwlffordd yn 1853; bu yno am bedair blynedd, ac ni threuliodd myfyriwr erioed ei amser yn fwy diwyd a chydwybodol. Y Llywydd a'r Athraw Duwinyddol am y rhan fwyaf o'i amser ef oedd yr Hybarch David Davies. Ymddengys mai hen gymeriad ardderchog oedd y gŵr hwnw; efe oedd Llywydd cyntaf Coleg Hwlffordd; llanwodd y swydd am ddwy flynedd ar bymtheg, sef hyd ei farwolaeth yn 1856. Dywed Rufus yn *Hanes yr Athrofeydd*, ei fod wedi darllen yr holl fynegiadau am y blynyddoedd hyny, ac na ddarllenodd erioed rai "i'w cymharu â hwynt am foment." Cafodd Dr. Jones y fantais o orphen ei amser yn nhymmor Llywydd presennol y Coleg, y Parch. T. Davies, D.D. Cafodd felly gyfleusdra i ddyfod i gyffyrddiad â dau o ddynion ardderchog, a diau iddo dderbyn argraffiadau oddiwrthynt a wnaethant les iddo am ei oes. Yr Athraw Clasurol yn ei amser ef oedd y Parch. Thomas Burditt, M.A. Yr oedd Mr. Burditt yn dechreu ar ei waith yn Hwlffordd bron yr un adeg ag yr oedd yntau yn myned i mewn, ac ymddengys fod y naill wedi cymeryd at y llall mewn modd pur neillduol. Diau mai yn meusydd yr Athraw Clasurol y bu ei brif efrydiau tra yn yr Athrofa, ac yr oedd ei gynnydd arbenig ynddynt yn gwneyd yr athraw a'r dysgybl yn gryn lawer i'w gilydd. Cyflwynodd Mr. Jones yr argraffiad cyntaf o'r *Weithred o Fedyddio* i Mr. Burditt, ac mae y geiriau a ddefnyddia yno yn dangos y rhwymau yr ystyriai ei hun danynt i'w hen athraw.

Ar ddiwedd ei dymmor athrofaol cafodd wahoddiad i ddyfod yn fugail ar yr eglwys yn Llandudno. Yr oedd eglwys Llandudno wedi tyfu i ganlyn y lle. Yr oedd wedi bod yn ffodus yn moreu ei hoes i feddu ymhlith ei haelodau ddynion o synwyr da, ffydd gref, a duwioldeb uchel. Ei phlant hi oedd John Pritchard, Llangollen, a Hugh Jones, Rhuthyn; yr oedd delw y fam ar y plant, ac yr oedd y plant, yn eu tro, wedi dyfod yn elfen o sadrwydd a nerth yn nghymeriad y fam. Un o'i phlant ei hun, y Parch. John Griffith, oedd wedi bod yn fugail ar yr eglwys er ys deng mlynedd ar hugain. O herwydd amlder dyddiau, yr oedd yn awr yn dewis rhoddi y gofal bugeiliol i fyny; ond yr oedd eto yno, a diau ei fod yn gymhorth mawr i'r eglwys i chwilio am olynydd iddo.

Ordeiniwyd Hugh Jones ar ddydd yr Arglwydd, Awst 23, 1857. Y gweinidogion a gymerasant ran yn y cyfarfod oeddynt Ellis Evans, Cefn Mawr; John Pritchard, Llangollen; Hugh Williams, Amlwch; T. Rhys Davies, Glanwydden; a John Griffiths, Llandudno. Yr oedd cyfarfyddiad y dynion hynod hyn ar yr achlysur yn hynod naturiol ac addawol, a dywedir fod dylanwad neillduol yn y cyfarfod. Y mae yn arferiad ymhlith y Bedyddwyr i'r gweinidog ieuanc ar ei ordeiniad i roddi crynodeb byr o'i olygiadau ar athrawiaethau crefydd. Yn ffodus iawn dygwydda fod y "gyffes" a roddodd Dr. Jones, ar ei ordeiniad yn Llandudno, yn meddiant yr ysgrifenydd, a hyny yn llawysgrif yr awdwr ei hun; diau y bydd yn dda gan y darllenydd ei chael yn argraffedig Y mae fel y canlyn:—

Y Bôd o Dduw ydyw sylfaen crefydd. Bodolaeth Duw ydyw yr hyn sydd yn gosod pwys ar fodolaeth dyn. Yr wyf yn credu yn y Bôd o Dduw, ac yn ei berffeithderau gogoneddus, yn ol fel y gosodir hwy allan yn yr Ysgrythyrau; sef ei fod Ef yn Hollalluog, Hollwybodol, Hollbresennol, ac Annibynol; yr Hwn sydd yn gyfiawn, sanctaidd, daionus, trugarog, a ffyddlawn; yn Dduw y cariad; yr Hwn sydd yn gweithredu pob peth yn ol cynghor ei ewyllys ei hun, mewn natur a gras, ac nad oes gymaint a blewyn o'n gwallt yn syrthio i'r llawr heb ei sylw a'i ganiatâd Ef. Yr wyf yn credu i ddyn gael ei greu gan Dduw ar ei ddelw ei hun, yn lân oddiwrth ddrwg, ac yn ddedwydd o ran ei gyflwr; a'i fod ef trwy dwyll a themtasiwn y diafol wedi syrthio o'i sefyllfa urddasol, ac wedi tynu gwg Duw arno. Yr wyf yn credu yn llygredd y natur ddynol, sef fod dyn wrth natur yn dueddol i bechu, a bod holl feddylfryd calon dyn yn ddrygionus bob amser. Yr wyf yn credu fod dyn wedi myned i'r fath drueni, fel nad all achub ei hun, ond fod yn rhaid cael llaw Duw at hyny.

Yr wyf yn credu fod Duw wedi bwriadu achub y byd, a'i waredu o'i drueni trwy Iesu Grist, yr hwn yw yr Iawn dros ein pechodau ni, ac unig sylfaen cymeradwyaeth pechadur ger bron Duw.

Yr wyf yn credu fod Duw yn defnyddio gweinidogaeth moddion, sef yr efengyl, i adferu dynion ato Ef ei hun; ac i'r dyben i wneyd y weinidogaeth yma yn effeithiol yr wyf yn credu fod Duw o'i ras yn anfon ei Ysbryd, yr hwn sydd yn cymhwyso y weinidogaeth at y galon, neu barotoi y galon i dderbyn y gair.

Yr wyf yn credu mai gwaith Ysbryd Duw ydyw aileni dynion trwy yr efengyl, ac mai Efe yw yr hwn sydd yn arwain pobl Dduw a'u perffeithio, gan eu gwneyd yn gymhwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.

Yr wyf yn credu y bydd y rhai a ailenir gan Ysbryd Duw, yn y diwedd ar gael; nad ydynt yn cael eu gadael i farw yn eu gwrthgiliadau, ond y byddant yn cael eu derbyn i'r bywyd yn y diwedd.

Yr wyf yn credu yn swyddi cyfryngol Iesu Grist,—ei fod Ef yn Frenin, Prophwyd, ac Offeiriad. Yr wyf yn argyhoeddedig o ysbrydolrwydd ei deyrnas, ac mai y rhai sydd o'r gwirionedd ydyw ei deiliaid—y rhai sydd wedi eu geni o Dduw. Credwyf mai y ffordd i deyrnas weledig Iesu Grist ydyw trwy fedydd—trwy ymostwng yn bersonol i'r bedydd Cristionogol, yn ol y cynllun apostolaidd o fedyddio, fel ag y dywed Paul am "*Gladdu trwy fedydd.*"

Yr wyf yn credu mai Gair Duw ydyw *unig reol crefydd*, ac yr wyf yn credu yn ei *ddigonolrwydd*. Nid wyf yn credu fod *traddodiad* o un pwys mewn materion crefyddol; nid wyf yn credu fod gan neb dynion un cysgod o hawl i osod defodau crefyddol i neb; ond yr wyf yn credu mai dyledswydd pawb, mewn cysylltiad â phethau crefyddol, yw ymofyn, "*Pa beth a ddywed yr Ysgrythyr?*" a gweithredu yn ol Gair Duw, pe byddai holl ddysgawdwyr y byd yn dyweyd fel arall.

Yr wyf yn credu y bydd Iesu ar fyrder yn cael ei addoli ymhlith holl blant dynion yn gyffredinol, ac y darostyngir pob peth gwrthwynebol iddo, ac yr ymddengys yn y diwedd i farnu y byd mewn cyfiawnder. Yr wyf yn credu fod yr holl Fibl yn Air Duw, ac yr wyf yn credu pob peth a ddysga y Bibl, mor bell ag y deallwyf ef. Y mae sefyllfäoedd tragywyddol dynion yn cael crediniaeth ddiysgog genyf; yr ydwyf yn credu mai diddiwedd fydd poenau yr annuwiol, ac mai tragywyddol fydd dedwyddwch y cyfiawn.

Dyna grynodeb byr o'r pethau ag yr ydwyf, os caf fyw, yn bwriadu ymhelaethu arnynt; a'r Arglwydd a roddo i mi ddeall da ymhob peth.

Fe welir fod y gweinidog ieuanc yn lled ochelgar gyda rhai o ddyrysbynciau duwinyddiaeth; gwyddai yn dda mai nid yn ei oedran a'i brofiad ef yr oedd traethu barn gyflawn ar holl wirioneddau y Dadguddiad Dwyfol. Yr oedd yr egwyddor fawr a fu yn arweinydd ffyddlawn iddo trwy ei holl fywyd yn hynod glir iddo y pryd hwnw,—fod yr Ysgrythyrau yn Air Duw, a'u bod yn unig a digonol reol crefydd. Ychydig gyda dwy flynedd a barhaodd gweinidogaeth Mr. Jones yn Llandudno. Yn ystod yr amser hwn ymunodd mewn glân briodas â Miss Hughes, merch y diweddar J. Hughes, Ysw., Tŵr, Llangollen. Profodd yr undeb hwn yn un hynod o werthfawr, er y bu eu gyrfa

briodasol yn llawnach na chyffredin o afiechyd a phryder. Ganwyd iddynt bedwar ar ddeg o blant, y rhai ydynt oll yn fyw, gyda yr eithriad o un a fu farw yn faban. Er fod iechyd Mrs. Jones yn aml yn wanllyd, eto llwyddodd, gyda ei gofal dyfal a'i threfn dda, i sicrhâu i'w phriod ei feddwl at ei waith, a'i amser yn ei fyfyrgell i raddau anghyffredin o gyflawn; a theilynga Mrs. Jones lawer o barch a diolchgarwch y rhai sydd yn gwerthfawrogi llafur bywyd ei diweddar briod. Cafodd y tad hefyd fyned i'w fedd heb gael dim gofid oddiwrth yr un o'i blant lliosog; ac er bod llawer o honynt heb eu magu, yr ydym yn dra hyderus y cerddant oll yr un llwybrau o rinwedd a chrefydd ag y mae y rhai hynaf wedi eu cychwyn. Bu gweinidogaeth Mr. Jones yn hynod lwyddiannus yn Llandudno; ychwanegwyd 53 at yr eglwys yn ystod ei arosiad yno, ac yr oedd y frawdoliaeth ac yntau yn wirioneddol hoff o'u gilydd. Yr achos iddo ymadael oedd, nad oedd awyr y môr yn cytuno â'i iechyd. Bu am rai misoedd o dan ofal y meddyg, yr hwn yn y diwedd a'i cynghorodd i symud i rywle mwy canoldirol; ac yr oedd y cynghor yn iawn, oblegid ni theimlodd oddiwrth yr afiechyd hwnw ar ol gadael Llandudno. Bu gohebiaeth rhyngddo a'r eglwys yn Nhreffynnon ac yn Nghastellnewydd Emlyn. Yn y cyfamser daeth galwad o eglwys Llangollen i fod yn gyd-weinidog â'r Parch. John Pritchard, D.D., a hono a dderbyniodd.

Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Llangollen yn Hydref, 1859. Ar ol agoriad yr addoldŷ yn Heol y Castell, yn 1861, yr oedd gan y ddau weinidog dair cynnulleidfa o dan eu gofal,—yr eglwys Gymreig yn y capel newydd, yr eglwys Seisonig yn yr hen addoldŷ yn Penybryn, a'r gangen-eglwys yn Glyndyfrdwy; pregethent hefyd ar brydnawn Sabboth mewn tŷ annedd yn agos i'r hen fynachlog. Parhaodd pethau i fyned ymlaen yn gysurus yn y drefn yna hyd fis Awst, 1862, pryd yr agorwyd Athrofa i'r Bedyddwyr yn y Gogledd yn Llangollen, gyda y ddau weinidog oedd eisoes yn y lle yn athrawon. Diau mai y ffaith eu bod hwy eu dau yn y fan a fu yr achlysur i'r sefydliad gael ei gychwyn yno, a hefyd bod Llangollen o ran safle, mewn llawer ystyr, yn eithaf manteisiol. Aeth y ddau gydlafurwr ymlaen yn dra dedwydd gyda yr ychwanegiad hwn at eu gwaith hyd Awst, 1866, pryd, o herwydd henaint, y rhoddodd Dr. Pritchard ei le i fyny yn yr Athrofa ac yn yr eglwysi. Mewn canlyniad i hyn rhoddodd Mr. Jones ei ofal gweinidogaethol i fyny, er mwyn ymgymeryd am dymmor, ar gais y pwyllgor, â holl waith yr Athrofa. Llwyddodd yr eglwys Seisonig i sicrhâu gwasanaeth Dr. Pritchard drachefn, a pharhaodd y cysylltiad hyd ei farwolaeth yn 1875.

Bu Mr. Jones yn cyflawni holl waith yr Athrofa am bedair blynedd. Yn 1871 dewiswyd y Parch. Gethin Davies yn athraw clasurol. Ysgafnhaodd hyn lawer ar waith Dr. Jones; ond y mae lle i ofni fod y cymhorth wedi dyfod yn rhy ddiweddar, oblegid ni bu ei nerth byth yr un ar ol y blynyddoedd hyny. O 1871 hyd ei farwolaeth yn 1883, parhaodd pethau yn yr Athrofa heb un cyfnewidiad, ond fod y sefydliad yn parhâu i gynnyddu mewn dylanwad a defnyddioldeb. Dyoddefodd Dr. Jones lawer oddiwrth wendid a nychdod yn y tymmor hwn. Gwnaeth taith o dri mis i'r Cyfandir beth lles iddo, ond ni dychwelodd ei hoewder fel cynt; yr oedd rhyw wywdra yn aros yn ei wedd,

a theimlai ei hun fod ei natur wedi gwanhâu. Ar yr un pryd parhaodd i weithio bron yn ddidor, a digon tebyg y bu ei ymroddiad yn ei lyfrgell yn anfantais fawr iddo i gael adferiad nerth. Anfynych y boddlonai i gerdded hen dir gyda tho newydd o fyfyrwyr; cyfansoddai ddarlithoedd newyddion bob tymmor; byddai rhanau gwahanol o'r Ysgrythyrau gwreiddiol yn destun arholiad bron bob amser; a byddai y *text-books* yn cael eu newid yn fynych. Heblaw y gwaith o addysgu, yr oedd ganddo hefyd i bregethu a theithio llawer mewn cysylltiad â'r coleg. Byddai yn myned i Lundain, Lerpwl, Birmingham, &c., i gasglu at y sefydliad, a llawer gwaith y clywsom ef yn adrodd ei flinder mawr mewn corff a meddwl ar y teithiau hyn. Ychydig sydd yn gwybod hefyd am y llafur sydd ynglŷn â dwyn y Mynegiad blynyddol allan; gwaith anhawdd yw ysgrifenu cyfarchiad ar yr un pwnc, o flwyddyn i flwyddyn, am ugain mlynedd, a darparu cyfrif trefnus o'r gwaith a'r casgliadau. Yr oedd ganddo hefyd lawer iawn i'w wneyd mewn cylchoedd cyhoeddus; byddai yn fynych mewn cyfarfodydd i ordeinio y myfyrwyr; yr oedd bob blwyddyn yn pregethu mewn amryw o'n cymanfäoedd, heblaw lliaws mawr o gyfarfodydd eraill. Yr oedd rhan fawr o waith y Gymanfa a'r Undeb yn disgyn arno; ac ni byddai un achos teilwng, lleol na chenedlaethol, na byddai yn mwynhâu rhan o'i wasanaeth.

Ysgrifenodd lawer iawn yn ei oes. Byddai yn ysgrifenu ei bregethau yn lled gyflawn. Cydrhwng ei bregethau, ei ddarlithoedd i'r myfyrwyr, a phethau amrywiol eraill, y mae llawer iawn o ffrwyth ei fyfyrdod yn aros mewn ysgrifen. Pe cesglid yr oll a gyhoeddodd at eu gilydd, gwnaent gyfrolau amryw. Bu yn ohebydd achlysurol i lïaws o'n cyfnodolion. Ysgrifenai i'r *Athraw* er yn ieuanc iawn; bu am tua dwy flynedd yn Olygydd y *Greal*, ac ysgrifenodd lawer iddo am dros ugain mlynedd. Mae amryw o'i ysgrifau i'w cael hefyd yn *Seren Gomer*, hen a newydd; felly hefyd yn *Seren Cymru*, y *Bedyddiwr*, y TRAETHODYDD, ac amryw eraill. Ysgrifenai yn achlysurol i'r *Freeman*, y *Baptist*, a'r *Baptist Magazine*. Bu yn ysgrifenu hefyd i'r *Gwyddoniadur*, yr *Esboniad Teuluaidd*, *Geiriadur Mathetes*, *&c.*

Cyhoeddodd amryw lyfrau o bryd i bryd. Y cyntaf, mor bell ag y gwyddom, oedd *Darlith ar y Bedydd Cristionogol* yn 1862. Ymhen tua blwyddyn cyhoeddodd yr argraffiad cyntaf o *Y Weithred o Fedyddio*, pris hanner coron. Yr oedd y pethau hyn wedi eu parotoi i raddau helaeth cyn i'w waith yn yr Athrofa ddechreu. Ni chyhoeddodd ddim o bwys dros y tymmor y bu yn gwneyd gwaith gweinidog ac athraw, nac ychwaith yn ystod y pedair blynedd y bu yn unig Athraw y Coleg. Yn 1876 cyhoeddodd lyfryn ar *Eglwys Crist;* ac un arall y flwyddyn ddilynol ar *Pabyddiaeth: ei hanes, ei nodweddiadau, a'i meddyginiaeth.* Anerchiadau oedd y rhai hyn o gadair Undeb Bedyddwyr Cymru, ac y maent ymhob ystyr yn deilwng o'r amgylchiad ac o'r person. Yn 1877 cyhoeddodd lyfr chwe' cheiniog ar *Hanes y Diwygiad Protestanaidd yn Mhrydain Fawr, gyda chyfeiriad neillduol at Gymru.* Yn Adroddiad yr Undeb am 1880, y mae papyr gwerthfawr a ddarllenodd yn Nghaerdydd ar *Y Cynllun Dwyfol i Efengyleiddio y Byd*, ac yn yr Adroddiad am 1881, y mae sylwadau a draddododd yn Treorci ar *Cyfieithiad Diwygiedig o'r Testament Newydd Cymraeg.*

Y gwaith helaethaf a gyhoeddodd oedd *Y Bibl a'i Ddeongliad; neu Arweiniad i'r Ysgrythyrau Sanctaidd.* Digon tebyg mai achlysur cyhoeddiad y llyfr gwerthfawr hwn oedd cyfarfod a gynnaliwyd yn Rhyl, ar gais y diweddar Cynddelw. Yr oedd Cynddelw wedi meddwl y gallesid gwneyd gwasanaeth i grefydd trwy gyhoeddi nifer o lyfrau o dan yr enw *Cyfres y Bedyddwyr.* Gwahoddwyd nifer o frodyr i'r Rhyl i osod y mater o'u blaen; trefnwyd rhestr o destunau ac ysgrifenwyr, a'r cyntaf ar y rhestr oedd Dr. Jones, a'r "Bibl a'i Ddeongliad" oedd ei bwnc. Ymddiriedid y mater hwn iddo ef am y deallid fod ganddo amryw ddarlithoedd yn y cyfeiriad yna wedi eu traddodi i'r myfyrwyr. Golygid i bob llyfr gael ei werthu am tua deunaw ceiniog. Methodd Dr. Jones a chrynhoi ei waith i'r cylch bwriadedig; felly cyhoeddodd lyfr deunaw ar *Y Bibl,* ac ymhen tua blwyddyn cyhoeddodd un arall, a alwai yn ail ran, o dan yr enw *Deongliad y Bibl.* Dyna yr oll a ddaeth allan o *Gyfres y Bedyddwyr;* deallwn fod amryw eraill wedi llafurio cryn lawer ar gyfer eu gwahanol faterion, ond hyd yma nid oes neb wedi anturio cyhoeddi. Yn 1878 cyhoeddwyd argraffiad newydd o'r gwaith gan Hughes & Son, Wrexham. Mae yr argraffiad hwn yn tra rhagori ar y cyntaf; mae ynddo amryw bennodau newyddion, ac y mae llawer o'r hen rai wedi eu hailysgrifenu a'u helaethu. Tystiai y wasg Gymreig na chyfansoddwyd yn yr iaith waith i'w gymharu â hwn fel arweiniad i'r Ysgrythyrau. Nid gormod yw dyweyd ei fod yn gwbl deilwng i sefyll wrth ochr unrhyw waith o'i faint ar y pwnc yn yr iaith Saesoneg. Hyderwn nad yw poblogrwydd y llyfr gwerthfawr hwn ond dechreu; nid oes ynddo ddim enwadol o'r dechreu i'r diwedd, a byddai ei fyfyrio yn drwyadl yn ddysgyblaeth ardderchog i ieuenctyd holl gynnulleidfäoedd ein gwlad.

Yr oedd Dr. Jones yn Fedyddiwr o gryn lawer o arbenigrwydd. Ni wyddom am neb yn engraifft fwy teg a chyflawn o syniadau y Bedyddwyr Cymreig nag ydoedd ef. Mae rhai ymhlith pob enwad nad oes ganddynt zel o gwbl dros eu henwad, na dim sydd yn perthyn iddo; ac mae eraill na allent barchu na gwerthfawrogi dim na neb o'r tu allan i'w henwad eu hunain. Yr oedd Dr. Jones yn sefyll mor bell ag yr oedd yn bosibl oddiwrth y ddau eithafion truenus yma; yr oedd ganddo argyhoeddiad hollol ddibetrus o wirionedd ei olygiadau ar fedydd; credai yn gryf yn eu pwysigrwydd fel rhan o'r gyfundrefn Gristionogol; llafuriai drostynt yn egnïol, ond mewn ysbryd hollol efengylaidd, a chyda y cydwybodolrwydd mwyaf difrifol. Ar yr un pryd, ymhyfrydai yn rhinweddau a rhagoriaethau pob enwad; cydweithiai â hwy yn frawdol a chalonog, a gogoneddai Dduw ymhob daioni a wnelid gan bawb. Mae yr argraffiad diweddaf o'i waith ar fedydd yn llawlyfr cyflawn a safonol o olygiadau yr enwad ar y pwnc, ac y mae wedi ei ysgrifenu mewn iaith mor briodol a theilwng o ordinhâd grefyddol fel na ddoluria deimlad neb wrth ei ddarllen.

Yr oedd Dr. Jones yn athraw rhagorol. Yr oedd ganddo hyfrydwch mewn myfyrio; byddai yn gyffredin yn perffeithio ei hun yn y pethau y byddai y dosbarthiadau yn gweithio ynddynt, ac felly yr oedd brwdfrydedd bywyd presennol yn cydfyned â'r addysg a gyfranai. Nid ydym yn meddwl ei fod ei hunan yn ddysgwr neillduol o gyflym, ond yr oedd yn nodedig o fanwl a chlir, a phob cam o dir a gerddai byddai

yn ei feddiannu am byth; ac yr oedd ynddo ryw ddylanwad dystaw, anymwybodol, annesgrifiadwy, oedd yn tynu y dysgyblion yn ddiarwybod iddynt i fyned i'w ffordd ef o wneyd pethau. Diau ei fod yn cynnyddu llawer bob blwyddyn fel duwinydd ac fel ysgolhaig. Heblaw hyny, yr oedd ei ffordd reolaidd a manwl o weithio, nid yn unig yn chwyddo ei gyfalaf o wybodaeth a dysg, ond yr oedd yn cryfhâu, yn ystwytho, ac yn minio ei feddwl ef ei hunan. Gŵyr pawb sydd wedi sylwi ar ei yrfa feddyliol, fod ei gynnyrchion o'r pulpud ac o'r wasg, yn y blynyddoedd diweddaf, yn llawer grymusach ac eangach nag y byddent yn mlynyddoedd boreuach ei weinidogaeth.

Yr oedd ei bregethau a'i bregethu yn dwyn delw y dyn ymhob ystyr. Yn moreuddydd ei weinidogaeth yr oedd ei bregethau yn gryno, trefnus, a buddiol, ond nid oeddynt yn dangos gallu mawr mewn un cyfeiriad neillduol; yr oedd eu dylanwad yn wastad yn ddymunol, ond anaml y byddai yn ddylanwad nerthol. Dyna fel yr oedd pan yn Llandudno, ac am rai blynyddau wedi iddo ddyfod i Langollen. Nid oedd Dr. Pritchard yn bregethwr mawr a phoblogaidd, yn ystyr gyffredin y geiriau hyny, ond yr oedd ganddo ef rywbeth yn ei bregeth a'i bregethu oedd y pryd hwnw yn peri fod ei odfeuon ef, yn enwedig ar rai adegau, yn llawer iawn mwy grymus na rhai ei gydweinidog. Ond yr oedd gweinidogaeth Dr. Jones yn cynnyddu fel yr oedd yntau yn cynnyddu. Yr oedd rhagoriaethau yn ei bregethau o'r dechreu, ond fod y cyfan yn yr eginyn; tyfodd yr holl ragoriaethau mewn cyfartaledd hardd a chadarn, fel, er ys llawer blwyddyn bellach, yr oedd yn un o'r pregethwyr goreu yn Nghymru. Byddai yn myfyrio ei destun yn fanwl; byddai yn ei ragymadrodd bron bob amser yn esbonio y testun a'i gysylltiadau. Byddai ei raniadau yn syml a naturiol, ac yn gorwedd yn esmwyth a chadarn ar wir ystyr ei destun. Yn gyffredin, wrth fyned ymlaen, byddai beirniadaeth eiriol yn gwneyd gwasanaeth ardderchog fel sylfaen i adeiladaeth athrawiaethol, a'r cyfan yn arwain at apeliadau a ddeuent gyda holl urddas a hawliau gwirionedd Duw. Ychydig o ymgais at gelfyddyd a chywreinrwydd fyddai yn ei gyfansoddiad na'i draddodiad. Byddai ei bregethau bron bob amser, yn ei flynyddoedd diweddaf, yn gyfanwaith cryf a gorphenedig, ond nid oedd dim ynddynt yn tynu sylw y gwrandäwr at y wisg, eithr meddienid ef yn llwyr gan deilyngdod y mater a gyflwynid i'w sylw. Yr un modd y gellid dyweyd am ei draddodiad; yr oedd yn naturiol, yn glir, ac yn gryf, a'r cwbl yn chwyddo o'r dechreu i'r diwedd; ond nid oedd nac ysgogiad llaw na chyfodiad llais ond a gynnyrchid gan ei bwnc, ac a roddai fynegiad cywir a didwyll i'w deimlad a'i argyhoeddiad ei hunan. Yr oedd y cyfan mor naturiol fel na welid y pregethwr gan amlygrwydd a gogoniant y gwirionedd a bregethai. Cenad Duw ydoedd, ac felly y byddai yn pregethu; ni feddylid am y gwas gan mor amlwg fyddai y Meistr. Yr oedd yn gwbl ddirodres yn ei holl ffyrdd, yn enwedig gyda gwaith y cysegr. Wedi myned i gyfarfod, pregethai unrhyw adeg y ceisid ganddo, heb gwyno byth ei fod yn cael ei yru na'i esgeuluso. Dechreuai yr odfa, siaradai yn y gyfeillach—unrhyw beth a geisid ganddo, heb feddwl byth a fyddai y gwaith yn debyg o adlewyrchu rhyw fawredd arno ef ei hunan. Os dygwyddai iddo gael odfa lled ddilewyrch, ni byddai yn gorofidio;

byddai yn wastad wedi ceisio gwneyd ei ddyledswydd; ac wedi cael odfa â mwy nag arfer o ddylanwad arni, ni byddai yn colli un gronyn ar ei gydbwysedd; yr oedd yn rhy ddifrifol gyda ei waith i gael ei aflonyddu o gwbl gan y fath ystyriaethau.

Bu ei gysylltiad â'r Coleg yn un agos ac arbenig iawn. Yr oedd sefydlu athrofa yn y Gogledd yn hen syniad gan y Bedyddwyr; yr oedd son wedi bod am hyny, o bryd i bryd, er ys deugain mlynedd; felly yr oedd yr amgylchiad, pan y daeth, yn beth a deimlid yn ddwys gan yr enwad. Yr oedd cael ei osod yn athraw ar y sefydliad, a hyny mewn oedran cymharol ieuanc, yn gyfrifoldeb a gymerodd afael dwfn yn nghalon Hugh Jones. Yr oedd Dr. Pritchard, llywydd cyntaf y coleg, yn 66 mlwydd oed pan yr ymgymerodd â'r swydd. Diau i'w brofiad a'i safle yn yr enwad fod yn nerth ac yn nodded dirfawr i'r sefydliad newydd, ac yn gymhorth anmhrisiadwy i'r athraw ieuanc; ond yr oedd bywyd ac effeithioldeb y sefydliad, hyd yn nod o'r dechreu, yn gorphwys yn benaf ar Mr. Jones. Cydnabyddwn yn galonog fod pawb sydd wedi bod yn dal cysylltiad â'r coleg wedi gwneyd eu gwaith yn rhagorol; ond cyfiawnder â Dr. Jones yw dyweyd mai iddo ef yn arbenig y mae y sefydliad yn ddyledus am y safle anrhydeddus y mae ynddo. Ni welsom neb erioed wedi ymbriodi yn fwy llwyr âg unrhyw achos nag yr oedd ef â'r athrofa; am bethau y coleg y byddai yn ymddyddan; yn ngoleuni y coleg y byddai yn gwneyd ei ymrwymiadau; a diau fod yr ymroddiad hwn yn cyfrif i raddau helaeth am lwyddiant y sefydliad o dan ei ofal. Byddai unrhyw anhwylusdod ynglŷn â'r athrofa yn ei ofidio yn fawr; byddai pryder y cyfarfodydd blynyddol bob blwyddyn yn llethu ei natur, fel y byddai am ddyddiau, os nad wythnosau, yn adferu ei nerth. Sylwasom ei fod yn nodedig hunanfeddiannol a chryf gyda golwg ar ei ddyledswyddau cyhoeddus eraill, ond yr oedd yn gwbl wahanol mewn cysylltiad â'r athrofa; yr oedd yn eithafol deimladwy i bob ysgogiad a allasai ddylanwadu arni; a diau genym fod y gorbryder hwn wedi bod yn llawer o anfantais i'w iechyd, a chredwn mai i'r coleg, mewn rhan o herwydd y gwaith, ond yn fwy o herwydd y pryder, yr aberthodd ei fywyd.

Yr oedd yn ofni er ys blynyddoedd nad oedd ei oes i fod yn faith. Clywsom ef yn dyweyd hyn mewn llais crynedig, a'i lygaid yn nofio, gan gyfeirio at ei briod hoff a'i blant lliosog. Llawer gwaith y collais ddiwrnod—pe buasai yn golli hefyd—er mwyn ei hudo i chwilio am iechyd i ben bryniau hyfryd Llangollen a Glyndyfrdwy. Nid anghofiaf byth rai crwydriadau a gawsom. Ni welais ef erioed yn gliriach ei ben nac yn iachach ei galon nag ar rai adegau felly. Yr oedd y syniad hwn am ansicrwydd ei fywyd wedi gwisgo agwedd dra hynod yn ddiweddar. Ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth derbyniais lythyr oddiwrtho, yr hwn sydd yn dangos fod rhyw ymwybyddiaeth ryfeddd ynddo fod y diwedd yn agosâu. Ymhlith pethau eraill, dywedai:

Yr wyf yn teimlo yn rhyfedd iawn er y Cyfarfod Blynyddol diweddaf. Yr wyf yn teimlo, rhywfodd, fel pe byddwn wedi darfod fy ngwaith yn y byd hwn. Teimlais lawer gwaith erioed os gwelwn ben 20 mlynedd o gysylltiad athrofäol y byddwn yn foddlawn; bum yn ofni, a braidd yn credu, lawer gwaith na welwn hyny; ond dyma hwy wedi dyfod. Yr wyf yn teimlo, rywfodd, fod yr Arglwydd wedi ateb fy nymuniad yn hyn, a'i fod yn ddealladwy yn awr fy mod at ei alwad ef i ymadael ar unrhyw awr.

Er y gwyddem ei fod er ys rhai blynyddoedd yn edrych ar ei iechyd mewn sefyllfa anfoddhaol, eto yr oedd y llythyr hwn yn ein cynhyrfu ac yn ein brawychu. Gwnaethom ein goreu i geisio symud ei feddwl, ac yn enwedig i geisio ei berswadio i weithio llai, a chymeryd rhagor o ymarferiad corfforol. Yn ei atebiad i'r llythyr hwnw, dywedai:

> Yr wyf yn gallu gwneyd fy ngwaith gyda phleser yn y *class;* yr wyf yn gallu trethu fy adnoddau gyda phethau dyrys heb ond ychydig o anhawsdra; yr wyf hefyd am gael marw yn yr *harness*, a gweithio allan ysbryd y gorchymyn, "Marchnata hyd oni ddelwyf."

Ychydig feddyliasom wrth ddarllen y llythyrau hyn fod ei dymmor i "farchnata" mor fyr. Ymddengys iddo ddilyn ei waith yn gyson hyd ddydd Sadwrn, Mai 19. Y diwrnod hwnw yr oedd cyfarfod yn Nghaerlleon mewn cysylltiad â Choleg Gogledd Cymru. Aeth i'r cyfarfod hwnw, ac ymddengys iddo gael rhyw gymaint o anwyd, ac i hyny, gyda'i anhwylderau blaenorol, a gwendid cyffredinol ei gyfansoddiad, droi yn angeu iddo. Rhyw naw diwrnod y bu yn sal; yr oedd yn gwybod nad oedd modd iddo fyw heb i ryw gyfnewidiad buan gymeryd lle. Hunodd yn yr Iesu Mai 28, 1883. "Mewn ffydd y bu farw y rhai hyn oll." Felly yntau. Yr oedd ei deulu lliosog yn agos iawn at ei galon; yr oedd llwyddiant yr athrofa yn anwyl iawn iddo; yr oedd ei oes fyfyrgar wedi awgrymu iddo filoedd o ymofyniadau beth oedd marw, a beth fyddai ar ol hyny. Ond cafodd nerth yn ol y dydd; gallodd yn dawel ymddiried yr oll oedd yn y ddau fyd i ofal a threfniadau ei Dad nefol. Bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig am flynyddau meithion; ennillodd barch, ac ymddiried, ac edmygedd lliaws mawr o gyfeillion pur. Bu farw yn nghanol ei ddyddiau, ac yn nghyflawnder ei ddefnyddioldeb—"yn yr *harness;*" a bydd ei gymeriad a'i ragoriaethau yn symbyliad i rinwedd a chrefydd yn mhawb oedd yn ei adwaen.

O. DAVIES

# NODIADAU LLENYDDOL.

*The Cup and the Falcon.* By ALFRED, LORD TENNYSON, Poet Laureate. London: Macmillan & Co.

DWY ddrama o eiddo y Bardd Llawryfog. Mae pob un o'r ddwy wedi ei chwareu, a hyny dan yr amgylchiadau mwyaf manteisiol, ond nid ydyw yn ymddangos fod y naill na'r llall, mwy na chyfansoddiadau eraill o gyffelyb natur o eiddo yr awdwr athrylithgar, wedi profi yn y wedd hono yn hynod o lwyddiannus. Mae dynion llawer llai yn llwyddo yn fwy i beri i'w chwareuaethau gyrhaedd y bobl. Mae eu cyfansoddiadau, tra mewn barddoniaeth yn dlodion mewn cymhariaeth i'r eiddo Tennyson, eto rywfodd yn llawnach o'r *myn'd* sydd yn cymeryd llygad ac yn cadwyno clust y werin, ac felly yn cymeryd eu lle fel rhan o'r cyflenwad parhâus sydd gan feddianwyr y chwareudai at eu llaw pan yn darparu ar gyfer difyrwch y bobl. Yr oedd Shakespeare yn llwyddo i wneyd ei chwareuaethau yn llawn o'r farddoniaeth uchaf oll, ac ar yr un pryd, trwy ei gyfoeth dihysbydd o naturiolrwydd, yn gallu eu gwneyd hefyd mor ddifyr fel y maent yn dal i'w chwareu trwy yr oesoedd. Mae yn amlwg nad ydyw Arglwydd Tennyson, er mor ddiammheuol uchel y saif fel bardd, wedi rhagori yn gymaint yn yr ystyr yma. Ond i'w darllen, y mae y *dramas* a ddaeth o dan ei law yntau yn rhagorol yn wir. Ac felly y ddwy hyn. Chwareuwyd yr olaf o'r ddwy, "Yr Hebog," yn mis Rhagfyr, 1879, a'r gyntaf, "Y Cwpan," yn Ionawr, 1881, a'r flwyddyn hon fe gyhoeddwyd y ddwy ynghyd yn y gyfrol fechan sydd yn awr o'n blaen.

Mae *plot* neu weithrediad y gyntaf yn Galatia. Yr oedd Galatiad o'r enw Synorix, oedd wedi bod yn Detrarch, ond wedi ymwerthu i'r Rhufeiniaid, ac wedi ei osod mewn ymddiried danynt. Dyn aflan a drygionus ydoedd. Syrthiasai mewn hoffder neillduol o Camma, gwraig Sinnatus, yr hwn ydoedd ar y pryd yn Detrarch yn Galatia. Yr oedd urddas a phurdeb uchel y foneddiges yn peri fod ei deimlad tuag ati yn fwy dyrchafedig nag y dysgwyliasem gael unrhyw deimlad yn mynwes y fath un. Gwelsai hi dair blynedd yn flaenorol pan yn dianc o'i Detrarchaeth i Rufain, ac yn awr wedi dychwelyd y mae ei feddwl yn llawn o honi. Anfona iddi Gwpan gyda'r ysgrifen: "At y gain Camma, gwraig Sinnatus, y Tetrarch,—un yr hwn flynyddoedd yn ol, ei hunan yn addolydd ein duwies fawr Artemis, a'th welodd yn gwasanaethu yn ei Theml, ac a'th garodd am hyny, a anfona i ti y cwpan hwn a achubwyd o losgiad un o'i themlau mewn dinas trwy ba un yr elai gyda'r fyddin Rufeinig; y cwpan ydyw a ddefnyddiwn yn ein priodasau. Derbyn hi oddiwrth un na all yn awr ei ysgrifenu ei hun ond —— Galatiad yn gwasanaethu trwy orfod yn y Lleng Rufeinig."

Mae Sinnatus ar y pryd allan yn hela. Gwel ef yn dyfod "yn greadur garw, brochus, a syml, ac os gellid barnu y cnewyllyn wrth y plisg, nid yn un i ddal ffyddlondeb gwraig dan ymosodiad twyll a chariad." Gesyd ei hun yn ei ffordd a sieryd âg ef. Cymer arno ei fod yn hoff o helwriaeth, a dywed mai ei enw yw Strato, a'i fod yntau yn Galatiad. Rhydd Sinnatus orchymyn i roddi iddo fwa a saeth, a chymhella ef i ddilyn yn helwriaeth y carw. Mae Camma adref yn dysgwyl dychweliad ei phriod. Mae y lleuad wedi codi, a chana hithau gan chwareu ar ei thelyn,—

Leuad ar faes a lli',
  Leuad ar ddôl a rhos,
Dwg e'n ol, dwg e'n ol i mi,
  Yn ddiogel o'r oerni a'r nos,
Adref, loer deg, dwg di
  Gyda 'r praidd i'r gorlan y nos,
  Rhag y blaidd i'r gorlan y nos.

Yn y man dychwela Sinnatus yn cael ei ddilyn gan Synorix, y ddau yn taeru pa un a laddasai y carw. Ond daw Synorix i fewn a rhydd Camma win iddo. Dywed hi ystori y cwpan i Sinnatus, a rhydd yr ysgrifen iddo i'w darllen. Mae ei ddigofaint ef ymron yn ei dagu i feddwl fod neb "yn gwasanaethu trwy orfod," tra yr oedd coed i ymgrogi arnynt ac afonydd i foddi ynddynt. Nid oedd dim gorfod a barai iddo ef wasanaethu trwy orfod! Ond wedi cryn ymddyddan daw gwas i ddyweyd fod y dynion yn galw am Sinnatus. "Ein hymblaid wrth-Rufeinig?" gofynai yntau o'r neilldu, ac yna mae yn ymesgusodi ac yn myned allan. Ond yr oedd y gair hwnw yn ddigon i Synorix. Dywed wrth Camma mai efe a anfonodd y cwpan, ac mai efe oedd Synorix, a nesâ ati gan ddyweyd ei fod yn ei charu; fod y Rhufeiniaid wedi ei anfon yno yn yspïwr arnynt, i'w thynu hi a'i phriod i'w dinystr. Dengys bapyr oedd wedi ei arwyddnodi gan Antonius, y cadlywydd Rhufeinig. "Yr ydych i gymeryd Sinnatus,—os ——," a chipia ef ymaith gan ddyweyd nad ydoedd a ganlynai yn gymhwys i lygaid unrhyw wraig. Gweithia ar ei hofnau, ond ar yr un pryd ceisia ennill ei ffafr; dryllia y papyr o flaen ei llygaid; ni wnai *efe* byth ddim o'r fath beth. Ond ar yr un pryd yr oedd y bradfwriad yn wybyddus, a pherswadia hi mai yr unig ffordd i achub ei gŵr oedd dyfod bore drannoeth at Antonius yr hwn a basiai y Deml gyda'r wawr; yr oedd hi yn deg,—O yn deg iawn,—ac Antonius, oedd mor raslawn tuag at wragedd, nid oedd erioed eto wedi taflu yn ol ddymuniad gwraig. Os plediai gydag ef byddai yn sicr o lwyddo. A phan ddywedai hi y dylasai ddyweyd wrth ei gŵr, dengys iddi na chaniatâi Sinnatus byth iddi erfyn ei fywyd o law Rhufeinwr. Addawa ddyfod. Ar hyny clywir llefau, "Synorix, Synorix," oddiallan, a daw Sinnatus i fewn a dywed fod y bobl yn gwaeddi am dano i rwygo ei ben ymaith, fod un o honynt wedi ei adwaen pan yn siarad âg Antonius; ac am na fradychai efe a dderbyniasai i'w dŷ, agora y drws iddo ddianc ffordd arall rhag cynddaredd y bobl. Dywed ei hanes gwaradwyddus i Camma, yr hyn a chwydda ei phrofedigaeth yn fawr. Ac ar yr un pryd y mae pryder am ddiogelwch ei gŵr yn peri iddi benderfynu myned at y Deml yn y bore, ond dywed wrtho ef mai myned â'r cwpan i'r Dduwies y mae. Eto gofyna iddo ddyfod ar ei hol, os na fydd yn dychwelyd mewn hanner awr, a gofalodd am gymeryd ei dagr gyda hi. Mewn gwirionedd ni ddysgwylid Antonius y ffordd hono, ac nid oedd y cwbl ond dyfais o eiddo Synorix i gael cyfle i ymddyddan â Camma. Prin y dysgwyliai ei gweled wedi deall mai efe oedd Synorix, er y gobeithiai y byddai i'r ddyfais am berygl ei gŵr ei dwyn. Pan ddaeth, derbyniai hi yn hynod garedig.

Ehedydd gyntaf ar ei edyn ddwg
Oleuni 'r haul, ond ti sydd efell chwaer
I'r seren fore, a arweini 'r haul.

Ond nid oedd ganddi hi galon i wrando ar ei ynfydrwydd, eithr holai am Antonius. Dywed yntau ei bod eto yn rhy fore, ei fod yn y gwersyll tua milldir a hanner o bellder, a cheisia ei pherswadio i gerdded tuag yno gydag ef. Na, ni ddaw hi gam gydag ef. Ple mae Antonius? Dywed yntau, er ei mwyn ei hun, ac er mwyn Sinnatus ei gŵr, fod yn rhaid iddo ei gorfodi. "Aros!" ebe hithau, gan dynu ei dagr, "mae angeu yn rhy agos." Mae yntau yn ei diarfogi. Ond ar y pryd mae Sinnatus yn dyfod o'r tu ol ac yn ei dagu. Gwaedda yntau, fel y gall, "Rhufain,

Rhufain," am gynnorthwy; a phan waedda Sinnatus yn ei wyneb, "Gi godinebus!" fe'i bratha yn farwol â dagr ei wraig. Pan y mae hi yn rhedeg ato, dywed:

> Y mae o fewn fy nghalon—i'r Deml—rhêd—
> Er fy mwyn *i*—neu hwy'th gymerant. Cofia!
> Ymaith—yn iach!

Ac y mae yn marw. Rhed hithau gan edrych yn ol i'r Deml. Erys Synorix am enyd uwch ben y corff i borthi ei feddyliau. Mae ganddo obaith cael ei wneyd dan Rufain yn frenin Galatia, a choron ei ddymuniadau ydyw cael Camma i eistedd gydag ef yn frenhines. Terfyna yr Act gyntaf gyda chymeryd y corff ymaith.

Yn nechreu yr ail yr ydym yn cael fod Synorix wedi bod yn hir yn ceisio perswadio Camma, yr hon sydd Offeiriades i Artemis, i'w briodi, gan daeru na wyddai mai Sinnatus oedd yn ymaflyd ynddo, a cheisia ganddi anghofio y cyfan, derbyn ei gariad, a chyfranogi o'i ogoniant. Dywed offeiriades:

> Er pan ddiangodd Camma i'n Teml ni
> Rhag Synorix, ac am ei hurddas teg
> A'i gallu, yn Offeiriades a ddewiswyd,
> Ai ni sylwasoch fod ei threm o hyd
> Ar y marmor lawr? Heddyw sefydlog yw
> A dysglaer—hi edrycha 'n syth o'i blaen.
> A wnaeth i fyny ei meddwl i'w briodi?

Pan ofyna iddi, dywed mai priodasferch Angeu ydyw, ac na phrioda hi ond y marw "Nid Synorix, ynte?" Try hi heibio â—

> Fy ngeneth, ambell dro,
> Nid oes gan oracl Artemis fawr,
> Fwy gallu nag sydd gan oraclau eraill i
> Siarad yn uniongyrchol.

Er syndod i bawb, cydsynia i briodi Synorix, ac o'r diwedd boddlona i wneyd hyny ar y dydd y mae yn cael ei goroni yn frenin. Daw Uchelwr Galataidd ati gyda'r goron a ddarparwyd ar ei chyfer, a dywed fod Synorix yn dysgwyl am dani er iddynt gael eu cydorseddu. Ei hateb yw:

> Dwêd wrtho ymysg cysgodion oll fod un,
> O'r holl ysbrydion, un—mor newydd eto,
> Mor ddyeithr yn eu plith—yn gymaint estron,
> A chymaint ynddo o ŵr hyd yma—fel
> Pe bae i'r floedd o Synorix a Camma
> Yn eistedd ar un orsedd gyrhaedd ato,
> Y codai! . . . EFE, a'r goch seren hono rhwng ei ais,
> A'm cyllell innau—mallai ni ein dau,
> A gwelwai 'r llu gan fraw. Ni feiddiaf, syr!
> Gorseddwch ef—ac yna y briodas—dywed hefyd
> Fy mod yn derbyn coron Galatia—
> [*Pawb yn rhyfeddu.*
> Ti a'm gweli yn ei gosod ar fy mhen,
> [*Yn ei choroni ei hun.*
> Yr ydwyf yn frenhines goronedig.

Daw Synorix yn y man, a chydag ef Antonius a chwmni urddasol i'r briodas. Derbynia Camma ef gyda "Henffych, Frenin!" Gwna yntau gyfarchiad hynod o brydferth a barddonol iddi hithau. Cyflwyna Antonius iddi,

Ein Antonius,
Ein cyfaill pur o Rufain; er gall Rhufain
Osod ei throed lle myno, eto efe
Yn hynaws gais gael bod yn ein priodas.

CAMMA.

Deued—a lleng gydag ef os myn.
(*Wrth* ANTONIUS) F' arglwydd Antonius, croesaw it i'n Teml.
(*Wrth* SYNORIX) Ti 'r ochr hon i'r allor.
(*Wrth* ANTONIUS) Tithau 'r llall.
Galw Synorix yn gyntaf ar y Dduwies.
[*Oll yn wynebu y Dduwies. Offeiriadesau, Plant, Pobl, a Gwylwyr yn ymgrymu—y lleill yn sefyll.*

SYNORIX.

O Di yr hon wyt yn bywioli yr hâd
Y plentyn, edau yn nhy genedigaeth,
Gan iddo roi aelodau, yna awyr, yna
Ei anfon allan yn deg enw i'w dad,—
Ti y mae 'th anadl yn falmaidd wynt
I wisgo 'n bryniau gyda 'r glaswellt, ac
I gynneu 'n glynoedd gyda myrtwydd flodau,
A threiglo 'n heuraidd foroedd o deg ŷd,
Ac ysgwyd hir rawn-sypiau 'n gwinwydd per,
A llanw c'lonau pawb â brasder ac
A chwant digonedd—gwna 'n dda fy mhriodas!

CYDGOR.

Artemis, Artemis, clyw, Ionaidd Artemis!

CAMMA.

O Di a leddi 'r baban yn y bru
Neu wrth ei eni, neu wedyn leddi ef
Yn fachgen neu ddyn, fawr Dduwies, 'r hon y mae
Dy dymhestl-lais yn dadgymmalu y gref
Dderwen, gan godi ei gwraidd tu hwnt i'w phen,
Yn chwalu ein ffrwythydd, ac yn troi i lawr
Ein heuraidd ŷd,—'redi gan beri i'r môr
Uwchlaw llyngesawl olud beilch frenhinoedd
A phobl ewynu, clyw.
'R hon wnei i'r ddaear gref grynu ac agor
Ei safn a llyncu yn ei cheudod mawr
Ddinasoedd a'u pinaclau, clyw.
Yr hon â'th dân-genllifoedd a wnei dalaeth
Yn fall a du fel lludw, clyw.
Yr hon mae 'th gerth raiadrau yn troi gwlad
Yn ddiffaeth craig ac adfail, clyw. Gwna i'm
Priodas lwyddo yn ol fy nymuniad.

CYDGOR.

Artemis, Artemis, clyw, Ephesiaidd Artemis!

CAMMA.

Artemis, Artemis, clyw, Galatiaidd Artemis!
'R wy 'n galw ein Duwies ni ac yn ein Teml.

CYDGOR.

Artemis, Artemis, clyw, Galatiaidd Artemis!

[*Taran. Oll yn codi.*

SYNORIX (*o'r neilldu*).

Taran!Ië, Ie, y storm a ddynesâi
Ar draws y bryniau pan goronid fi.
Tybed a wyf mor welw ag yw hi?

CAMMA.

A fyni—eto—briodi?

SYNORIX.

Yn sicr—eto
Rhyfedd y geiriau hyn at Artemis.

CAMMA.

Geiriau, fy Mrenin, nid ŷnt ar bob pryd
Yr hyn a ymddangosant. Ffyddlawn it
A fyddaf hyd dy farw.

SYNORIX.

'R wy 'n diolch iti, Camma,—diolch iti.

(CAMMA *gan droi at* ANTONIUS).

Antonius, mawr yw ein hanrhydedd fod
Ein Rhufain Frenhines ynot ti yn troi
I fewn i edrych ar ein barbariaethau.
[*Yn troi, ac yn esgyn grisiau allor o flaen y Dduwies. Yn cymeryd cwpan oddiar yr allor. Yn ei dal at* ANTONIUS. ANTONIUS *yn myned i fyny at droed y grisiau gyferbyn â* SYNORIX.

Ti weli y cwpan hwn, fy arglwydd?

[*Yn ei roddi iddo.*

ANTONIUS.

Rhyfedd!
Y fam Artemis gyda'i haml fronau
'N gerfiedig arni.

CAMMA.

Y mae 'n hen, ni wn
Sawl can' mlwydd oed. Dyro i mi drachefn.
[*Yn ei dodi yn ol ar yr allor, ac yn cymeryd cwpan Act I. Yn ei dangos i* ANTONIUS.
Dyma un arall roddwyd i'r Dduwies,
Rhodd Synorix; a myn y Dduwies, sydd
Am hyn yn dra diolchgar, trwof fi
Ei Hoffeiriades, anrhydeddu ei rodd
'Nghyd a'n priodas, trwy i Synorix
Yfed yn awr o'i gwpan ef ei hun.

SYNORIX.
R wy 'n diolch i ti, Camma,—diolch iti.

CAMMA.
Canys—fy arglwydd—mae yn ddefod hen
Yn ngwlad Galatia, cyn gwneyd dau yn un
Am fywyd a marwolaeth, fod i'r ddau
Ynghyd o'r un cwpan yfed, er arddangos
Eu hundeb priodasol, wedi tywallt
I'r Dduwies ddiod-offrwm. Dygwch im'
Y drudfawr winoedd yfir mewn priodasau.
[*Dygant i fewn gostrel fawr o win.* CAMMA *yn tywallt gwin i gwpan.*
(*Wrth* SYNORIX.) Gwel, 'r wy 'n ei llanw. (*Wrth* ANTONIUS.) Yfi di, fy arglwydd?

ANTONIUS.
Myfi? Pam fi? Nid wyf fi yn priodi.

CAMMA.
Ond gallai ddwyn Rhufeinig fendith arnom.
[ANTONIUS (*yn gwrthod y cwpan.*
Maddeu im', Offeiriades.

CAMMA.
'R wyt yn iawn
Mae 'r fendith hon i Synorix a mi.
Gwel, mi dywallta 'n gyntaf oll i'r Dduwies. [*Yn tywallt diod offrwm.*
'R wy 'n yfed. [*Yn yfed ac yn llanw y cwpan drachefn.*
Dy dro di, Frenin Galatia.
Yf, a dwfn yf—ein priodas fydd yn ffrwyth lawn.
Yf, a dwfn yf, a thi a'm gwnai ynddedwydd.
[SYNORIX *yn myned i fyny ati. Estyna iddo y Cwpan. Yfa.*

SYNORIX.
Dyna Camma! Drachtiais ymron y cwbl—
Ychydig ddafnau sydd.

CAMMA.
I'w tywallt i'r Dduwies.
[*Teifl efe y dafnau sydd yn aros ar yr allor a dyry i Camma y cwpan.*
CAMMA (*gan osod y cwpan ar yr allor*).
Wel ynte y Dduwies glyw.
[*Yn dyfod i lawr ac ymlaen at y tribed.* ANTONIUS *yn dilyn.*

Ple 'r o'et ti 'r bore hwnw pan y dês
I bledio am fywyd Sinnatus o'th flaen,
Gerllaw y Deml hon chwe' mis yn ol?

ANTONIUS.
Ni chlywais i am dy gais hwn erioed.

SYNORIX *yn dyfod ymlaen yn frysiog at droed grisiau y tribed.*
Mi a'i ceisiais ac nis gallwn i ei gael,
Attolwg, cyflawna 'r ddefod.

CAMMA.
Antonius—
"Camma!" Pwy alwai?

ANTONIUS.
Nid fi.

PHOEBE.
Ac nid neb yma.

CAMMA.
R wy 'mron yn sicr i rywun wneyd. Antonius,
Pe cawsit fod Sinnatus mewn cudd frâd
Yn erbyn Rhufain, a fuasit ti
Yn ei arteithio i farwolaeth?

ANTONIUS.
Ni fu i mi
Un syniad am nac artaith na marwolaeth.
Ond pe mewn brad y cawswn i ei fod
Mi a'i cynghoraswn i ymorphwys rhag
Gwrthsafiad ofer. Rhufain sydd yn rhwym
O lywodraethu y byd. Pe na wrandawsai,
Fe allai 'r anfon'swn ef yn rhwym i Rufain.

SYNORIX.
Pam yr ysgoi gyflawni 'r seremoni?
Dos drwy y drefn.

CAMMA.
Mae wedi ei chwblhâu.

SYNORIX.
Pa fodd?

CAMMA.
Ti yfaist nes fy ngwneyd yn ddedwydd.
Ai nid wyt ti yn teimlo 'm cariad atat
Yn ennyn trwy 'th wythi?

SYNORIX.
Fy serch atat ti
Ennyn trwy 'm gwythi er pan y'th welais gyntaf.
Ond pam na chwblheir y seremoni?
Brenin Galatia a brioda ei
Frenhines. Cyflawn wnaer yr oll
O flaen yr oll o'r Duwiau. (*Tasga*) Y poen hwn—
Beth yw?—ac eto? Mi ges iâs o hyn
'Llynedd—yn—Rhufain. Ië, ïe. (*Wrth* ANTONIUS.) Dy fraich—
Foment—aiff heibio. Siglo 'r wyf dan bwys
Fy ngorlawenydd—y dydd rhy ddedwydd hwn,
Coron—brenhines.

[*Yn honcian.*
O chwi Dduwiau oll—
Iau! Iau!
[*Yn syrthio yn ol.*

CAMMA.

A elwi di ar Dduwiau Rhufain?
Wyt ti 'n Galatiad? Ein Artemis ni
Orchfygodd eu Diana hwy.

SYNORIX (*ar lawr*).

Yr wyf
Wedi 'm gwenwyno. Hi—cauwch byrth y Deml.
Na adawer iddi ddianc.

CAMMA (*yn ymorphwys ar y tribed*).

Onid yfais
I o'r un cwpan â thydi?

SYNORIX.

Ië, hi—
Myn Duwiau Rhufain o'r holl fyd—
Hi hefyd—y briodferch! y Frenhines!
A mi—dychrynllyd! Mi a'i cerais.

CAMMA.

Cerais *ef.*

SYNORIX.

Lofruddiog wallgof wraig! Attolwg codwch
Fi, gwnewch im' gerdded enyd. Clywais ddweyd
Y gellid cerdded y gwenwynau i lawr.
[ANTONIUS *a* PUBLIUS *yn ei godi.*
Fy nhraed sydd weithian yn dunnelli o blwm,
Torant i'r ddaear—'r wy 'n suddo—deliwch fi
Gadewch fi.
[*Gadawant ef; syrthia ar y llawr.*
Rhy hwyr—tybiais fy hun yn ddoeth—
Ffwl gwraig. Antonius wrth y Senedd dwêd
I'm fod yn bur i Rufain—buaswn bur
I *hithau*—pe—pe
[*Yn syrthio fel yn farw.*

CAMMA (*yn dyfod ac yn crymu drosto.*

Felly syrth gorsedd awr.

SYNORIX.

Gorsedd? ai ti? Tyngedfen sydd orseddol,
Nid ni—nid euog—dy farn di a minnau—
Ti—yn d'od fy ffordd innau hefyd—Camma
—nos dda.
[*Yn marw.*

CAMMA (*yn cael ei dal gan Offeiriadesau yn wylo*).

*Dy* ffordd? bryf tlawd, ymlusga drwy 'th ddu dwll
I lawr i ddyfnder Uffern. Antonius,
Yw *ef* yna? Meddyliais am i ti
Ganlyn—ond gwell fel yma. Os yw fy mhobl
I fod yn gaeth i Rufain, mae efe
Yn dirion, tra 'n Rhufeinwr.
[*Yn syrthio yn ol i freichiau yr Offeiriadesau.*

ANTONIUS.

'R wyt ti 'n un
A'th bobl dy hun; er mai Rhufeinwr wyf
Rwy 'n maddeu iti, Camma.

CAMMA (*yn codi ei hun*).

"CAMMA!"—drachefn
'R wy 'n gwbl sicr i rywun alw. O ferched,
Chwi gewch Rufeinig feistriaid. Da gen' i
Na chaf ei weled. Ai ni ddwedodd ryw
Hen Roegwr gynt mai marw oedd y da
Penaf? Am hyny ca'dd fy nhyngedfen i,
Gwenwyn. (*Yn syrthio yn ol drachefn*).
A yw y goron arnaf? Af
Ato, yn goronedig! wedi cael
F' ewyllys—ar fy mordaith olaf—ond
Mae 'r gwynt yn pallu—mae 'n tywyllu hefyd—
Ond digon goleu i rwyfo. Rhwyfo i'r
Ynysoedd teg! draw i'r Ynysoedd teg!
Sinnatus?
Pam na ddaw i'm cyfarfod i? Y goron
Sy 'n ei dramgwyddo—ac mae 'm llaw 'n rhy drom
I'w chodi ymaith.

PHŒBE *yn cymeryd y goron ymaith.*

Pwy a'm cyffyrddodd? Diolch.
[*Yn codi gyda'i breichiau ar led.*
Yna filldiroedd ar filldiroedd o
Fyth-ddysglaer lan dan fyth-gyfodol haul—
'R wyf yn ei weled ef—"Camma, Camma!"
Sinnatus, Sinnatus! [*Yn marw.*

A dyna y terfyn. Ni osodwyd erioed uwch gogoniant ar ffyddlondeb priodasol. Nid oes nemawr yn dyfod i'r golwg yn Sinnatus, yr hwn a ddesgrifir fel yn "arw a brochus a syml," ag y gallesid dysgwyl i unrhyw foneddiges gael ei swyno yn fawr ganddo; o'r ochr arall, er fod Synorix yn ddyn hollol ddiegwyddor,—dywed Antonius wrtho "iddo glywed yn Rhufain fod ei bobl ei hun wedi ei fwrw o'u terfynau o herwydd rhyw annhywysogaidd drais ar wraig, fel y gwnaeth Rhufain â Tarquin"—

eto mae y bardd wedi gosod addurn neillduol arno, a gwneyd ei gariad at Camma yn deilwng o gymeriad gwell; ond er hyn oll y mae purdeb yr arwres yn ei chodi i fawredd sydd yn rhoddi iddi le uchel ac ofnadwy, ac yn dysgu, fel y teimlai y diafol am eiliad wrth edrych ar Efa yn Milton,

How awful goodness is!

Mae chwedl "Yr Hebog" wedi ei chymeryd o drysorfa lawn y Decameron gan Boccaccio, ond wrth fyned trwy feddwl Tennyson wedi derbyn cymaint o addurn ac o brydferthwch tyner fel yr ymddengys ymron yn gwbl newydd, ac y mae yn swynol iawn. Baich hon ydyw ffyddlondeb carwriaethol tra uchel, wedi dyoddef llawer, o'r diwedd yn cael ei lawn anrhydeddu.—Pris y gyfrol yw 5s.

*Essays in Philosophical Criticism.* Edited by ANDREW SETH and R. B. HALDANE. With a Preface by EDWARD CAIRD. London: Longmans, Green & Co.

CYHOEDDWYD y gyfrol hon y flwyddyn ddiweddaf, a chynnwysa naw o draethodau gan gynifer o ysgrifenwyr galluog a dysgedig ar wahanol faterion yn dwyn perthynas â beirniadaeth athronyddol. O'r rhai hyny y mae yn dda genym weled fod dau erbyn hyn wedi eu penodi yn Broffeswyr Athroniaeth yn Ngholegau newyddion Cymru,—Mr. Andrew Seth, un o olygwyr y gyfrol, yn Nghaerdydd, a Mr. Henry Jones yn Mangor. Fel y noda Proffeswr Caird yn y rhagymadrodd, yr oedd yn naturiol fod rhywbeth yn gyffredin rhwng yr ysgrifenwyr hyn, er pob amrywiaeth anocheladwy mewn cynifer o feddylwyr annibynol, cyn y buasai eu traethodau yn cael eu cyhoeddi fel yma ynghyd. Cydolygant mai y "llinell o ymchwiliad y rhaid i athroniaeth ddilyn, neu ymha un y gellid dysgwyl iddi wneyd y cyfraniadau pwysicaf at fywyd dealltwriaethol dyn, yw yr un a agorwyd i fyny gan Kant, a thuag at weithiad llwyddiannus pa un na wnaeth neb gymaint â Hegel." Rhaid cymeryd y geiriau hyn "gyda gronyn o halen;" ond ar yr un pryd y maent yn ddigon i ddynodi y cyfeiriad a gymer yr ysgrifenwyr yn y traethodau hyn, ac i roddi awgrym am natur y gwasanaeth a ellir ddysgwyl oddiwrthynt yn y dyfodol. Ac y mae yn arwydd ragorol gyda golwg ar yr amser a ddaw fod cynifer o wŷr, y rhai, dybygem, ydynt oll yn mlodau eu dyddiau, ac yn amlwg yn meddu nerth sydd yn rhwym o gael ei deimlo, yn cymeryd golwg mor iachus ar y materion pwysig yr ysgrifenant yn eu cylch. Mae gan y Prydeiniaid le mawr yn eu bryd i'r syniad o ymarferolrwydd, ac y mae rhai gwŷr galluog wedi ymdrechu yn egnïol i gyfaddasu eu deongliad o ddirgeledigaethau bywyd a'r bydysawd,—neu mewn geiriau eraill, eu cyfundrefn o athroniaeth,—i'w dwyn i gynghanedd â mawrygiad y meddwl Prydeinig o'r hyn sydd ymarferol. Nid oes byd ond sydd o fewn cylch y synwyrau; tueddiadau naturiol dyn ydyw deddf ei fodolaeth; hunan, mewn rhyw ffurf neu gilydd, ydyw canolbwynt pob peth. Mae hyn oll mor ddealladwy fel y golygir fod ei wirionedd yn ddiammheuol; a chan fod yn sicr nad yw pob damcaniaethu y tu allan i'r terfynau hyny ond dychymygol ac ofer, fe fawrheir y ddysgeidiaeth sydd mor eiddigus yn ei chyfyngu ei hun at y pethau y cyfeiriwyd atynt fel yr unig un sydd yn deilwng i'w hystyried o unrhyw werth ymarferol. Yn ol dammeg Plato, y maent yn astudio tymherau a thueddiadau y bwystfil, ac yn gwneyd yr oll a allant i'w foddhâu, ac yn gwenieithio iddo trwy hòni mai felly y maent yn ei addysgu. Ond mae yn amlwg fod y rhai sydd yn athrawiaethu felly yn gadael dyfnderoedd yn y cwestiynau y maent yn ymwneyd â hwynt heb eu plymio o gwbl, ac felly, er eu holl honiadusrwydd, yn cynnyg fel dysgeidiaeth beth nad all natur edrych arno ond fel ffug. Os ydym am athronyddu, mae yn angenrheidiol i ni gymeryd i ystyriaeth yr holl fater-

ion sydd genym i'w hesbonio, ac nid rhyw ychydig o'r rhai mwyaf arwynebol; mae yn angenrheidiol hefyd roddi y lle mwyaf i'r cwestiynau mwyaf, a deongli y llai trwy y mwy sydd yn ei gynnwys; ac yn mhresennoldeb dirgelwch sydd ar bob llaw yn ymgau am danom ac yn derfyn i'n hymchwiliadau, mae yn gweddu ein bod yn cario ein llafur ymlaen gyda gwylder parchedig, ac nid ymffrostio, ar bwys ychydig o syniadau arwynebol a fo wedi eu hennill genym fel rhai yn gwybod, y dirgelion oll, ac yn abl i daflu ein mesurau ar bob peth. Yn y pen draw y mae dysgeidiaeth felly yn rhwym o fod yn anfesurol fwy "ymarferol" na'r hon sydd mor barod i hòni y rhagoriaeth hwnw. Fe gymer i fewn yr holl faes; fe rydd eu lle naturiol eu hunain i'r pethau mwyaf; ac mae yn debyg trwy hyny o gael gafael ar y ddeddf sydd yn esbonio y cyfan. Y mae gwirionedd gyda phob peth yn fyrdd gwerthfawrocach ac yn fyrdd mwy ymarferol na chelwydd, pa mor fedrus bynag y ceisir gwneyd efengyl o hono. Ac fe ymddengys i ni fod pob un o'r ysgrifenwyr hyn yn wynebu ar ei waith mewn dull sydd, o ran amcan ac ysbryd, yn hynod o obeithiol, ac fod eu cynnyrchion yn dra gwerthfawr. Nid ydynt yn tyngu i unrhyw feistr, ond y maent yn cael, bob un yn ei ffordd ei hun, mai egwyddorion drychfeddyliaeth sydd yn taflu y goleuni cryfaf ar y cwestiynau anhawdd sydd yn anocheladwy ac o bob cyfeiriad yn eu gwasgu eu hunain ar ein hystyriaethau. Mae Mr. Caird yn cyfeirio at eu gwaith yn cyflwyno y gyfrol i goffadwriaeth y diweddar Thomas Hill Green, Proffeswr Athroniaeth Foesol yn Mhrifysgol Rhydychain, fel arddangosiad nodweddiadol o'r unoliaeth oedd yn dal yr ysgrifenwyr ynghyd. Ac yr oedd y gŵr enwog hwnw yn un a adawodd ddylanwad hynod o fendithiol ar ei ol. Fe'i hadnabyddid yn neillduol fel un oedd yn byw wrth argyhoeddiad ac nid wrth deimlad y fynyd. Yr ydoedd yn hynod hefyd am ddwysder neu angerddolrwydd ei argyhoeddiadau. Yn lle bod yn deimlad i gyd yn ieuanc, ac mewn oedran yn feddwl i gyd, yr oedd ef, i'r gwrthwyneb, yn feddyliol hen pan yn ŵr ieuanc, ond yn cael ei feddiannu yn gymaint gan yr hyn a gredai oedd yn wir ac iawn, fel yr ydoedd ei deimladau yn cynneu yn fwyfwy hyd y diwedd. Yr ydoedd ei gydymdeimlad â'r bobl, ar wahân oddiwrth ddosbarth, yn llanw ei galon, a dyhëai am ddyrchafiad yr holl hil ddynol. Yr ydym yn cofio i ni sylwi gyda mawr foddhâd ar y pryd ar eiriau o'i eiddo, a ddyfynir yma hefyd, a lefarodd mewn anerchiad i Gymdeithas Lenyddol Wesleyaidd yn Rhydychain, ar y gwaith oedd i'w wneyd gan Ysgol Uwchraddol newydd oedd wedi ei hagor yn y ddinas hono.

Gall ein Hysgol Uwchraddol ynte yn deg hawlio ei bod yn helpu ymlaen yr amser pan fydd gan bob dinesydd o Rydychain yn agored iddo o leiaf gymdeithas werthfawr y llyfrau goreu yn ei iaith ei hun, a'r wybodaeth angenrheidiol i'w wneyd yn wirioneddol annibynol; pan fydd pawb y mae ganddynt chwaeth naturiol at ddysgeidiaeth yn cael yn agored iddynt yr hyn sydd hyd yma wedi cael ei alw yn annymunol yn "addysg boneddwr." Yr wyf yn addef fy mod yn gobeithio am amser pan fydd y frawddeg yna wedi colli ei hystyr, am y bydd y math o addysg ag sydd yn gwneyd y boneddwr mewn unrhyw ystyr wirioneddol o fewn cyrhaedd pawb. Fel yr ydoedd yn ddymuniad mawr gan Moses fod holl bobl yr Arglwydd yn brophwydi, felly gyda phob difrifwch a pharchedigaeth y gallwn ninnau obeithio a gweddïo am sefyllfa mewn cymdeithas Seisonig ymha un y bydd pob dineswyr gonest yn cydnabod eu hunain, ac yn cael eu cydnabod gan eraill, yn foneddwyr. Os bydd i'n Hysgol Uwchraddol gyfranu yn ei mesur, fel y credwyf y gwna, tuag at ennill y daioni bendigaid hwn i Rydychain, gellid yn deg ofyn am beth aberth mewn arian—ïe, yr aberth anhawddaf hwnw, aberth ysbryd plaid—er ei chynnorthwyo.

Yr oedd ei lafur athronyddol yn llawn o'r un ysbryd gwych, yr un gonestrwydd, yr un purdeb. Llafuriai i ddadblygu beirniadaeth Kant mewn gwybodaeth a moesau, a thra yn edrych braidd yn ammheus ar ddrychfeddyliaeth Hegel fel yn tueddu at fod yn rhy uchelgeisiol neu o leiaf yn anamserol, dywedai unwaith, "Rhaid

gwneyd y cwbl drosodd drachefn," gan olygu y gallai y cyrhaeddid rhywbeth tebyg fel cynnyrch *sicr* gwybodaeth fwy a chyflawnach myfyrdod. Tôn gyffelyb sydd i'r traethodau hyn. Fe geir yn y cyfan fod eu hysgrifenwyr yn teimlo fod mawredd mewn gwirionedd sydd yn eu gwneuthur hwynt yn fycbain o'i flaen ; fod awdurdod i lais cydwybod sydd yn llawn o Dduw ; fod ystyr i hanesyddiaeth sydd yn goleuo ; ac fod cyfansoddiad cymdeithas ac ymarfer crefydd, tra ar y naill law yn llawn o gyfrifoldeb, ar y llaw arall yn gyfoethog o fendith. Fe wêl y darllenydd fod traethawd Mr. Henry Jones, ar "The Social Organism," sydd ar bob llaw wedi ennill iddo gymaint o glod, wedi ei gael yn y Rhifyn hwn o'r TRAETHODYDD yn Gymraeg. Yr ydym o galon yn llongyfarch ein cyfaill ar ei etholiad i gadair Athroniaeth yn Ngholeg Gogledd Cymru. Hyderwn y bydd llïaws o'n hieuenctyd tirion dan ei addysg yn cael eu dyrchafu mewn meddylgarwch a doethineb a daioni, ïe, y bydd ei genedl oll yn well o'i ymdrechion.

*Studies in the Christian Evidences.* By ALEXANDER MAIR, D.D., Morningside, Edinburgh. Edinburgh : T. & T. Clark.

MAE yr Efrydiau hyn yn Mhrofion Cristionogaeth wedi eu hysgrifenu gan ŵr sydd yn meddu dirnadaeth eang a chlir o'i fater, ac yn gallu ei gosod ger bron mewn ffordd dra argyhoeddiadol a darllenadwy. Mae ein dyddiau yn llawn o ysbryd ymosod ar y gwirioneddau mawrion sydd yn gorwedd wrth wraidd ein crefydd sanctaidd, ac fe allai llawer gael niwed oddiwrth wenwyn yr ysbrydiaeth hwn er heb fod yn ymwybodol o ddim mewn ffordd o anghredaeth gyda golwg ar wirioneddau penodol. Ac y mae y llacâd hwnw ar ein hysbryd sydd yn ei anghymhwyso i gredu dim i unrhyw bwrpas, yn fwy peryglus nag unrhyw anhawsderau a aller brofi gyda golwg ar faterion ag y gallai y meddwl fod mewn petrusdod yn eu cylch. Ni allwn fod yn rhy sicr o wirionedd.

> Truth can never be confirmed enough,
> Though doubt did ever sleep.

Ac y mae aros mewn cymundeb agos â'r gwirionedd yn lladdfa effeithiol i ysbryd cyfeiliorni, ymha ffurf bynag y ceisio gymeryd meddiant o honom. Wrth ddarllen y gyfrol werthfawr hon o eiddo Dr. Mair, fe deimla dyn fel yn swnio yn ei glustiau eiriau y Salmydd : "Amgylchwch Sïon, ac ewch o'i hamgylch hi ; rhifwch ei thyrau hi. Ystyriwch ei rhagfuriau, edrychwch ar ei phalasau ; fel y mynegoch i'r oes a ddelo ar ol. Canys y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd ; efe a'n tywys ni hyd angeu." Y mae efe wedi astudio yn dda bob peth a aller ddyweyd yn erbyn Cristionogaeth, ac y mae ei ddiwylliad ac eangder ei gydymdeimlad yn ei alluogi i ddirnad yn glir safleoedd y gwrthwynebwyr, yn gystal ag i roddi iddynt bob credyd am onestrwydd a difrifwch. Ond er hyn oll fe geir fod yr hen wirionedd yn anfesurol eangach a mwy gogoneddus, heblaw yn annhraethol nês atom a mwy ymarferol na'r holl ddamcaniaethau cywrain y mae dynion o oes i oes yn geisio nyddu i'w gosod i fyny yn ei le Mewn cyfeiriad at yr haeriad y mae rhai yn dra pharod i'w wneyd fod gwyddonwyr blaenaf y dyddiau hyn yn anghredwyr a materolwyr, gwna ddyfyniad tra phwrpasol o ysgrif o eiddo Proffeswr Tait o Edinburgh, sydd ei hunan yn un o'r gwyddonwyr enwocaf ac yn dyst hollol gymhwys, mewn cyfeiriad at sylw i'r perwyl uchod mewn erthygl gan Mr. Froude : "Pan ofynwn i unrhyw un sydd yn *gymhwys* i roddi barn, pwy oedd y meddylwyr gwyddonol oedd 'ar y blaen,' yn 'oreu,' 'a gallnocaf' yn yr amser sydd newydd fyned heibio yn Mhrydain, ni allwn lai na derbyn mewn atebiad y fath enw a Brewster, Faraday, Forbes, Graham, Rowan Hamilton, Herschel, a Talbot. Felly y rhaid iddi fod oddieithr i ni ddefnyddio y gair gwydd-

anianaeth mewn ystyr wyrdraws. Pa un o'r dynion mawrion hyn a roddes i fyny y syniad fod natur yn arddangos profion o feddwl bwriadol? Ond fe allai fod Mr. Froude yn cyfeirio at feddylwyr ar y blaen sydd yn ffodus eto yn fyw yn ein plith. Nid ydyw enwau y rhai mwyaf blaenllaw yn eu plith yn anhawdd cael gafael arnynt. Ond, yn anffodus i'w haeriad, y mae yn gwbl sicr fod Andrews, Joule, Clerk-Maxwell, Balfour Stewart, Stokes, William Thomson, a'r cyffelyb, un ac oll, pan fyddai cyfleusdra yn dyfod yn eu ffordd, wedi siarad mewn ystyr hollol wahanol i'r hyn a olygir yn erthygl Mr. Froude. Yn sicr nid oes feddylwyr gwyddonol yn Mhrydain yn fwy blaenllaw na'r rhai hyn!" Cydnabydda hyd yn nod Proffeswr Tyndall, am Atheistiaeth Faterol, "nad mewn oriau o glirder ac yni y mae yn ei hargymhell ei hun i'r meddwl; ac yn mhresennoldeb meddwl cryfach a mwy iachus ei bod bob amser yn ymdoddi ac yn diflanu, fel yn analluog i esbonio y dirgelwch ymha un yr ydym yn byw." Cydnabydda yr un gŵr yn ei Anerchiad enwog yn Belfast: "Pan y mae y meddwl dynol wedi cyrhaedd mawredd a dangos gallu nodedig mewn un diriogaeth, fod tuedd i roddi credyd iddo am allu cyffelyb yn yr holl diriogaethau. Felly mae duwinyddion wedi teimlo cysur a chadarnhâd yn y meddwl fod Newton wedi trin y cwestiwn o ddadguddiad, gan anghofio fod y cysegriad hwnw ar ei alluoedd, trwy holl flynyddoedd goreu ei einioes, at ddosbarth hollol wahanol o syniadau, heb sôn am unrhyw anghymhwysder naturiol, yn tueddu i'w wneyd yn llai, yn lle yn fwy cymhwys i drin cwestiynau duwinyddol a hanesyddol." Tybed nad ydyw yr un peth yn wir am wyddonwyr ein dyddiau ni, y rhai gyda chyrhaeddiadau y tu allan i'w hefrydiau arbenig sydd yn amlwg yn llawer llai nag eiddo Newton mewn duwinyddiaeth, na lysant benderfynu cwestiynau mwyaf yr oesoedd, a hyny fel rhai yn gwybod pob peth? Am drafodaeth gyflawn a meistrolgar ar y pethau hyn, ynghyd a'r lliaws materion eraill sydd yn dwyn cysylltiad â'r Profion, ni allwn wneyd yn well na chyfeirio y darllenydd at y llyfr rhagorol hwn o eiddo Dr. Mair. Ar y fath bynciau a Christionogaeth a Gwyddoniaeth Anianyddol, Anhawsderau Dealltwriaethol Crefydd, Dadguddiad ac Ysbrydoliaeth, gyda'r Anhawsderau cysylltiedig, Tystiolaeth Hanesyddol Foreuol i Ddilysrwydd y Testament Newydd, Tystiolaeth Epistolau Paul a gydnabyddir yn Ddiammheuol, y Gwyrthiau Cristionogol, Tystiolaeth Bersonol Uniongyrchol i Wyrthiau yn y Testament Newydd, Adgyfodiad Crist a'r hyn a olyga, y Ddadl dros Gristionogaeth oddiwrth Bersonoliaeth Anghymharol Crist, Rhai Llinellau Cydgrynhoawl pwysig a'r Prawf oddiwrthynt, a Christionogaeth yn ei phrofi ei hun trwy yr Egwyddor o Orfywiad y Cymhwysaf,—fe geir yr *Efrydiau* hyn yn llawn o oleuni a nerth, ac yn gadael ar y meddwl argraff iachus a hynod o ddymunol. Mae lliaws o bethau a drinir yn dra medrus yn y gwaith yn cymhell eu hunain i'n sylw fel rhai ag y buasai yn dda gan ein darllenwyr i ni eu gosod ger bron, ond y mae hyny, mewn nodiad, yn gwbl allan o'r cwestiwn. Cyfeiriwn yn unig at ddadl yr *Efrydiaeth* olaf. Fe dybir weithiau fod Cristionogaeth erbyn hyn wedi gwario ei holl fywyd, ac yn prysur ddiflanu mewn marwolaeth. Ond yma fe ddangosir yn amlwg, tra y mae ei chydymgeisyddion, fel gwïail y swynwyr yn yr Aipht, o oes i oes yn cael eu llyncu ganddi, ei bod hi wedi gorfyw y cyfan, ac eto yn blaguro yn ieuengrwydd bywiol yni. Sonir weithiau am ei ffyniant yn yr oesoedd boreuaf. Yn ol yr awdurdodau goreu fe ellid meddwl fod nifer y Cristionogion yn y flwyddyn A.D. 100, yn 500,000. Ond yn amser Cystenyn, yn A.D. 320, fe ellid casglu eu bod yn 16,000,000. Mae hyn yn dangos eu bod yn dyblu *bob pedair blynedd a deugain.* Ond gan gyfyngu ein hunain i un maes Cenadol, sef India, yn cynnwys Burmah a Ceylon, a hyny gyda'r Cenadaethau Protestanaidd yn unig, yr ydym yn cael, yn ol *Statistical Tables of Protestant Missions in India, Burmah, and Ceylon* (1881), fod nifer Cristionogion proffesedig India yn 1851, yn 103,000; yn 1861, yn 213,000; yn 1871, yn 318,000; yn 1881, yn 528,000. Y mae hyn yn dangos fod Cristionogion Protestanaidd India yn dyblu bob rhyw *dair blynedd ar*

*ddeg.* Ac y mae genym le i gasglu y ceid cyfartaledd cyffelyb mewn meusydd eraill, megys Madagascar, ac nid ychydig o Ynysoedd Môr y De, tra y mae y Cenadaethau dros y byd oll yn cael eu coroni â mesur mawr o lwyddiant, er fe allai heb ddangos cynnydd mor fawr a'r meusydd uchod. Os cymerid *pedair blynedd a deugain* i ddyblu y nifer yn yr adeg a ystyrir yn oes euraidd llwyddiant Crisitionogaeth, yn sicr nid ydyw yn awr yn marw, pan y dybla nifer ei dysgyblion mewn rhanau mor helaeth o'r byd, a than amgylchiadau sydd ar lawer cyfrif mor anfanteisiol, mewn *tair blynedd ar ddeg!* Beth a all esbonio hyn hefyd ond mai "bys Duw ydyw?"—Pris y llyfr yw 6s.

*A Popular Introduction to the History of Christian Doctrine.* By Rev. T. G. Crippen. Edinburgh: T. & T. Clark.

Ni fwriedir y gwaith yma fel cydymgeisydd i weithiau fel yr eiddo Hagenbach, Shedd, a Cunningham ar Hanes yr Athrawiaeth; ond credai yr awdwr fod llawer o bobl ddeallus a garent gael syniad am hanes barn yr Eglwys Gristionogol yn y gwahanol oesoedd ar bynciau yr Efengyl, ond nad allent gael hamdden ac na fyddai ganddynt amynedd i astudio gweithiau fel y rhai a grybwyllwyd, ac am hyny fe gyfansoddodd y llyfr hwn fel Arweiniad Poblogaidd i'r efrydiaeth dra dyddorol o Hanes yr Athrawiaeth Gristionogol. Ac fe ymddengys i ni ei fod wedi llwyddo yn rhagorol i gyrhaedd yr amcan oedd ganddo mewn golwg. Mae yn amlwg ei fod wedi ymgydnabyddu llawer â'r drafodaeth a gymerth le o bryd i bryd ar y gwirioneddau mawrion, ac y mae wedi ysgrifenu yr hanes mewn dull clir a theg. Ac i'w amcan, y mae ei gynllun yn rhagorol; yn lle cymeryd cofnodau neillduol, ac olrhain trafodaeth pob cyfnod ar bob athrawiaeth,—yr hyn o fewn ei derfynau a fuasai yn anhawdd a beichus,—y mae yn cymeryd y prif athrawiaethau, ac yn rhoddi yn y gwahanol amseroedd hanes eu dadblygiad. Ysgrifena hefyd mewn ysbryd gwyddonol, gan ymgadw rhag rhoddi lliw unrhyw olygiadau personol o'i eiddo ei hun ar yr ymdriniaethau y mae a wnelo â hwynt. Nid oedd yn dyfod yn gymaint o fewn ei diriogaeth i esbonio yn athronyddol gyfodiad y gwahanol olygiadau, ac arbenigrwydd y gwahanol safleoedd a gymerid gyda golwg arnynt. Ei nôd yn benaf ydoedd rhoddi yn glir ac yn gryno y golygiadau eu hunain; ac y mae wedi gwneyd hyny mewn modd meistrolgar a boddhäol. Mae yn ddiau y profai ei lyfr i lawer o'n darllenwyr yn fuddiol a dyddorol iawn. Fel y mae pren y bywyd bob mis yn rhoddi ei ffrwyth, felly mae yr Efengyl sydd yn rhoddi ei hanes, wedi rhoddi i wahanol oesoedd ei chenadwri, a hyny yn y wedd ag oedd yn fwyaf cyfaddas i'w hamgylchiadau, eu dulliau neillduol o feddwl, ac yn arbenig y sefyllfa foesol ymha un y ceid hwynt. Y mae yn anhawdd i efrydydd meddylgar beidio cyfoethogi ei ddirnadaeth am yr athrawiaethau wrth eu gweled yn myned, megys o flaen ei lygaid, trwy y cwrs o *dyfiant* a fu arnynt. Ac fe roddai y llyfr yma gynnorthwy gwerthfawr iddo i'r amcan hwnw. Ei bris ydyw 9s. Yr ydym yn cymeryd yn ganiatäol fod y gyfrol gyntaf o waith tra rhagorol Dr. Hughes ar Hanes yr Athrawiaeth yn meddiant ein darllenwyr yn gyffredinol.

*New and Decisive Evidence of the Mode of Baptism.* By the Rev. Isaac E. Heaton, Fremont. Third Edition, enlarged. Bangor: D. S. Davies.

Llyfr Americanaidd, wedi ei argraffu y tro hwn yn Mangor, am y golygid ei fod, mewn cylch cryno, yn gosod allan olygiad taenellwyr ar y dull o weinyddu yr ordinhâd o fedydd mewn modd "*decisive.*" Gyda mater fel yma, lle y mae gwahanol

arweddion y ddadl yn amrywio yn gymaint o ran yr argraff a wnant ar wahanol feddyliau, y mae cael prawf a all hòni bod yn "derfynol" yn anhawdd. Ond mae yn amlwg fod yr awdwr hwn wedi astudio y mater yn dda, ac fe allai ei lyfr brofi yn dra dyddorol i bwy bynag a ddymunai ei ddeall yn fwy clir. Fe ddengys fod llawer i'w ddyweyd ar ochr na ddywedir ond pur ychydig arni yn Nghymru y dyddiau hyn ac y mae amryw o'r rhesymau a ddwg ymlaen—ac yn enwedig nad yw yr arddodiaid Groeg *eis* ac *ek*, pan heb fod hefyd yn gyfansawdd â berfau yn golygu *myned*, &c., i'w deall fel yn golygu myned *i fewn i'r* dwfr a dyfod *allan o'r* dwfr, ond yn hytrach *at* ac *oddiwrth*—yn galw am i'r ddadl o'r ochr arall gael ei gosod i fyny o'r newydd, a hyny mewn goleuni hynod o gryf. Y mae yn llyfr o dros gant o du dalenau, a'i bris yw 6c.

*Pregethau* y diweddar Barch. John Parry, D.D., Bala. Dinbych: Gee a'i Fab.

Mae yn ddiammeu y bydd yn ddwfn foddhâd i liaws o feddyliau puraf Cymru gael ar ddeall fod cyfrol o bregethau y diweddar Dr. Parry wedi ei chyhoeddi. Yr oedd efe i bawb a'i hadwaenai yn ŵr anwyl iawn. Yr ydoedd hefyd yn hynod am eangder a manylrwydd ei wybodaeth, ac yni a ffrwythlonrwydd a gwreiddioldeb ei feddwl. Ac fel dysgawdwr, pa un bynag ai yn y dosbarth gyda'r efrydwyr a gafodd y fraint o astudio dano, ai yn cateceisio y cyfarfodydd ysgolion, ai yn pregethu yr Efengyl, ai yn ymddyddan yn y cyfarfodydd eglwysig â'r rhai eiddilaf eu hamgyffredion am bethau mawrion teyrnas nefoedd, yr ydoedd yn sicr yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus. Am ei ysgrifeniadau, mae ei erthyglau i'r Traethodydd, ynghyd a'r liaws erthyglau a ysgrifenodd i'r *Gwyddoniadur*, yn gyfraniadau i'n llenyddiaeth a fyddant tra y darllenir ein hiaith o werth anmhrisiadwy. Fel pregethwr nid ydoedd yn agos mor adnabyddus i'w genedl ag y dylasai fod. Anhawdd ydoedd ei gael oddicartref, a theimlai yn berffaith foddlawn i gyfyngu ei lafur yn yr ystyr yma i "gapeli bychain mynyddoedd a chymoedd Sir Feirionydd," fel y dywedir yn rhagymadrodd y llyfr hwn; a chan wrandäwyr syml a meddylgar y rhai hyny fe'i mawrbeid yn unig "tu yma i eilunaddoliaeth." Yr oeddym yn ofni nad oedd nemawr o'r pregethau hyny ar gael oddieithr yn adgofion y rhai a'u gwrandawent,—heblaw yn y ffurfiau parhâus o oleuni a phurdeb yn ysbrydoedd y rhai a fendithiwyd trwyddynt. Yr ydoedd gan hyny yn hyfryd iawn genym ddeall dro yn ol fod ei anwyl briod—boneddiges a brofodd mor dyner o hono, ac ydoedd hefyd yn gallu myned gyda'r fath ddwfn gymundeb ysbryd i fewn i'w holl lafur—yn parotoi cyfrol o'i bregethau i'r wasg. A dyma hi ger ein bron, yn gyfrol ddestlus o yn agos i bedwar cant o dudalenau, mewn argraff lân a phrydferth a rhwymiad hardd, y fath a garai pob un sydd yn abl i werthfawrogi ei chynnwys, a'r fath, dybygem, na allasai ond ychydig, os neb, o gyfeillion ac edmygwyr lliosog Dr. Parry obeithio am weled o gwbl. Mae yn dda erbyn hyn ei fod, er holl gyfoeth ei feddwl a hylithredd ei ddawn, wedi ysgrifenu cynifer o'i bregethau mor gyflawn. A derbynied Mrs. Parry ein diolch cynhes am y llafur cariad a gymerodd gyda'r gorchwyl, a fuasai mae yn debyg yn anmhosibl i neb arall, o'u parotoi i'w hargraffu. Nid ydyw ond ychydig i ni ddyweyd ein bod wedi darllen y gyfrol hon gyda hyfrydwch. Yr oedd yr hyfrydwch hwnw y fath fel mai anaml iawn y mwynhasom mewn cyfrol o bregethau ei gyffelyb, ac y mae yn dda genym gael ei hargymhell i sylw ein darllenwyr fel trysor a fawr werthfawrogent. Y mae yn llawn o oleuni, ac y mae y goleuni hwnw, a defnyddio ei eiriau prydferth ef ei hun ar fater arall, "yn rhedeg yn llydan ac yn gryf, o'i dechreu i'w diwedd." Nid oedd neb yn gallu ymgadw yn fwy rhydd oddiwrth ffurfiau ystrydebol o feddwl a llefaru na Dr. Parry; edrychai yn sefydlog yn wyneb y gwirionedd ei hunan, ac yna dadganai

yn syml ac eglur yr argraffiadau a waelai arno. Yr oedd yr eneiniad hefyd oedd bob amser mor amlwg ar ei ysbryd, gyda'r cyfoeth o farddoniaeth oedd ynddo, yn ychwanegu at "oleuni sych" clirder ei ddirnadaeth nawseidd-dra hyfryd a barai ei fod, nid yn unig yn dysgu ac yn argyhoeddi y meddwl, ond hefyd yn swyno ac yn ennill y galon. Yr oedd addfedrwydd ei olygiadau a'i allu i ddarllen meddyliau y rhai yr ymwnelai â hwynt yn ei wneuthur yn wir athraw, tra yr oedd ei gariad yn gwneyd yn hawdd iddynt nesâu ato, yn wir yn eu tynu ato mewn ymlyniad serchog; a thrwy y cwbl yr oedd ei lwyr ymgysegriad i Grist yn peri i ddynion deimlo nad oedd hunan ond dibwys iawn yn ei olwg, ac mai yr holl werth a osodai ar bob rhagoriaeth ac ymdrech oedd y gwasanaeth a allent wneyd mewn mawrhâu yr Un ag y teimlai efe y fath hyfrydwch o fod yn ddim wrth ei draed. Y mae y catholigrwydd ysbryd ydoedd hefyd mor amlwg yn ei nodweddu yn gwneyd fod y gyfrol hon o'i bregethau yn gynnysgaeth werthfawr i Gristionogion Cymru yn ddiwahaniaeth. Oddiwrth y pregethau eu hunain, oddieithr mewn rhyw un neu ddwy a draddodwyd mewn gwasanaeth ordeinio, anhawdd a fuasai gwneyd allan i ba un o lwythau Israel y gallasai berthynu. Ni fu erioed well arddangosiad o'r gwirionedd fod y pethau ymha rai y mae Cristionogion ein gwlad yn gwahaniaethu, yn ychydig a dibwys mewn cymhariaeth i'r rhai yr ydym oll yn cytuno ynddynt, ac y dylai y gallu sydd gan ein Cristionogaeth gyffredin i'n gwneyd yn un gael llawer mwy o arglwyddiaeth arnom na'r ysfa i ddamcaniaethu, sydd yn barhâus yn tueddu i'n gwahanu. Am bawb sydd yn derbyn y Gair fel dadguddiad oddiwrth Dduw, mae yn anhawdd genym feddwl am neb nac unrhyw ddosbarth na fwynhâi yn fawr y gyfrol hon. Yr oeddym wrth ei darllen wedi nodi yma a thraw ddarnau a garasem ddyfynu er mwyn i'n darllenwyr, a allai fod yn ddyeithr i Dr. Parry, gael mantais i synio am ei "ddeall" yn yr Efengyl, a'i ddull hapus o osod ger bron ei gwirioneddau; ond gwelwn erbyn fod y darnau hyny wedi myned mor lïosog fel nad ydyw yn wiw i ni ymaron feddwl am ddyfynu o gwbl. Ond cymerer yr un dyfyniad a ganlyn o'r bregeth felus, "Gwaed Crist yn foddion glanhâd," yr hon sydd yn dra nodweddiadol o'r pregethwr:—

Nid oes le i hunan fyw yn ymyl Croes Crist. Mae yn colli ei anadl yno, ac yn marw o farwolaeth naturiol. Pa beth a welwn ar y groes? Duw yn rhoddi ei hun—yn "dibrisio ei hun,"—yn ei "aberthu ei hun,"—yn "marw" ei hun! Os deui yn agos, ond odid na bydd rhyw flys arnat i roddi dy hun iddo, gan iddo ef roddi ei hun drosot ti—i ddibrisio dy hun er ei fwyn ef, gan iddo ef ei "ddibrisio ei hun" er dy fwyn di—i'th aberthu dy hun iddo ef, gan iddo ef "aberthu ei hun" drosot ti. Pan gafodd Paul gipolwg arno, yr oedd efe yn "cyfrif pob peth yn dom ac yn golled er mwyn ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ein Harglwydd." Yr oedd efe yn colli gafael ar ei achau fel Hebrëwr, ar ei gyfiawnder fel Pharisëad, ar ei ddysgeidiaeth fel ysgolhaig—ïe, a'i ddoniau fel apostol, a'i dduwioldeb fel Cristion hefyd—ac yn ymffrostio "yn ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ein Harglwydd." "Byw i mi yw Crist," meddai, "a marw sydd elw." A oes chwant arnat ti i waeddi yr un fath—"Byw i minnau yw Crist, a marw sydd elw?" Ni byddai yn rhyfedd yn y byd, oblegid bu Crist fyw a marw drosot ti. A wyt ti am i Grist fyned oddiwrth dy ddrws ar geiniog neu ddwy yn yr wythnos? Rhag dy gywilydd! Rhoddodd efe ei hunan—ei *hunan*—ïe, ei HUNAN, trosot ti! Nid mynyddoedd o aur ac arian, nid heuliau na lleuadau, nid angylion na seraphiaid, ond ei HUNAN:—ei ben i wisgo coron o ddrain, ei gefn ei hun i gario y groes, ei ddwylaw ei hun i'w hoelio ar y pren, a'i galon ei hun i waedu:—"Sathrodd y gwinwryf ei hunan." Gorchfygodd dy elynion ei hun; rhoddodd iawn dros dy bechodau ei hun; a gweithiodd allan dy iachawdwriaeth dragywyddol ei hun! Yn y fan yma y mae hunanymwadiad, a hunan-ymgysegriad, gydag eiddigedd tanbaid dros ogoniant Duw, a zel danllyd dros achubiaeth eneidiau, yn blaguro ac yn ffynu oreu. Y mae Crist yn rhoddi ei hunan i ti, yn "anchwiliadwy olud ei ras;" a gaiff efe dydi, yn nyfnderoedd dy dlodi? Y mae efe yn rhoddi ei hun i ti yn ei gyfiawnder; ac y mae yn gofyn a gaiff efe dydi, yn dy euogrwydd? Y mae efe yn rhoddi ei hun i ti yn rhinweddau ei waed; ac y mae yn gofyn a gaiff efe dydi, yn dy aflendid?

Dyma ffwrn i losgi pob chwŷn, pob malais, pob cenfigen, a phob anfaddeugarwch! A dyma dir bras i ffrwythau yr Ysbryd gynnyddu ynddo!

Nid ydyw pris y gyfrol werthfawr hon ond tri a chwech.

*Llyfr Genesis, gyda Nodiadau, at wasanaeth Deiliaid yr Ysgol Sabbothol.* Gan y Parch. RICHARD HUMPHREYS, Bontnewydd, Caernarfon. Caernarfon: J. R. Edwards.

*Esboniad ar Lyfr y Barnwyr, yn cynnwys Rhagarweiniad a Nodiadau Eglurhaol, at wasanaeth Ysgolion Sabbothol a Dosbarthiadau Biblaidd.* Gan y Parch. W. R. JONES (*Goleufryn*), Caergybi. Caernarfon: J. R. Edwards.

NID yw yn hawdd i ni ddadgan yr hyfrydwch a deimlwn wrth weled gweithiau o deilyngdod uchel y ddwy gyfrol hyn yn cael eu cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg. Galwasom sylw at waith Mr. Humphreys ar ymddangosiad y rhifyn cyntaf; bellach mae y gwaith er ys tro wedi ei gwblhâu, ac y mae yn gyfrol hardd o dri chant o du dalenau, ac wedi ei "throi allan" ymhob ystyr yn hynod o foddhaol. Am ei mater y mae yn wirioneddol werthfawr. Mae yr awdwr wedi astudio yn dda lenyddiaeth oreu y rhan yma o'r Ysgrythyr, ac y mae wedi cyfleu ffrwyth ei ymchwiliad a'i fyfyrdod mewn dull trefnus a choeth, ac mewn Cymraeg rhagorol. Nid yw ond peth go fychan, ysywaeth, i ddyweyd mai dyma yr esboniad goreu ar Lyfr Genesis ag y gall y darllenydd Cymreig osod ei law arno; ond gallwn hefyd ddyweyd yn ddibetrus mai tra anhawdd fyddai nodi unrhyw esboniad Seisonig o'i faint a'i bris sydd yn well nag ef. Ni ddarfu i'r awdwr wastraffu amser a nerth ar gwestiynau cymhariaethol ddibwys; y mae hefyd wedi dangos cryn lawer o hunanlywodraeth trwy ymgadw o fewn terfynau cymedrol pan oedd cyflawnder y defnyddiau oedd at ei law yn demtasiwn neillduol iddo "ymhelaethu;" ac yn sicr fe all ei gydwladwyr deimlo yn dawel "nad attaliodd ddim o'r pethau buddiol heb eu mynegu" iddynt. O astudio Llyfr Genesis yn ngoleuni y gwaith fe allai y darllenydd yn rhesymol ddysgwyl dyfod i'w ddeall yn llawer gwell, a chael y pethau y darllena am danynt ynddo yn llawer mwy byw a chliro flaen ei lygaid. Y mae yn llawn o wybodaeth werthfawr, a hono wedi ei meddwl yn dda, ac yn cael ei chyfleu gyda barn a chwaeth ragorol, a'r holl lyfr yn dangos addfedrwydd hyfryd a dymunol. Yr oedd yn siriol iawn genym ddarllen yn y rhagymadrodd: "Y mae y gefnogaeth sydd wedi cael ei rhoddi i'r gwaith yn barod wedi bod yn llawer mwy na fy nysgwyliadau uchaf." Gall y Cymry deimlo yn sicr fod yn ddyledus arnynt *iddynt eu hunain* roddi i'r fath waith â hwn dderbyniad helaeth. Ei bris ydyw 4s. 6c.

Y mae llawer o'r un pethau yn addas i'w dyweyd am gyfrol Mr. Jones o Gaergybi ar Lyfr y Barnwyr. Nid ydyw hon lawn cymaint â'r llall; ond mae mewn llythyren fanach, ac argraffwaith sydd, o'r ddau, yn fwy hardd; y mae ei rhwymiad hithau yr un modd yn dra chwaethus, ac nid ydyw ei phris ond 2s. Mae yr awdwr wedi gwneyd o Lyfr y Barnwyr astudiaeth lawn ac addfed. Mae nifer mawr o'r awdurdodau goreu wedi eu gosod dan deyrnged ganddo, a dengys farn dda yn netholiad a chyflëad ei faterion. Nid ydyw, fel y mae esbonwyr yn rhy chwannog i wneyd, yn sarhâu ei ddarllenydd trwy ysgrifenu yn helaeth ar bethau hollol eglur, ac osgoi y pethau anhawdd; ond crynhöa ei nerth ar y pethau ag y dysgwylid iddo eu hegluro, a llwydda yn rhagorol i "daro yr hoelen ar ei phen." Mae y nodiadau daearyddol wedi eu hysgrifenu yn ngoleuni ymchwiliadau y *Palestine Exploration Fund*, ac nid yn anfynych yn manteisio yn hapus ar ymweliad yr awdwr ei hunan â gwlad Canaan yn 1882, ac y maent yn hynod o werthfawr. Sylwasom droion fel yr oedd y ffaith iddo fod ei hunan yn edrych ar y manau,

ynghyd a'i feistrolaeth o'r iaith Gymraeg, yn peri fod ei ddesgrifiadau daearyddol yn hynod o hapus. Er enghraifft, mynydd Tabor: "Ymgyfyd megys yn nghanol dyffryn Esdraelon, neu fe allai yn nês i'w gŵr dwyreiniol na'i ganol, am oddeutu 1850 o droedfeddi uwchlaw wyneb y môr. Saif ei hunan, a'i ben yn grwn megys talcen ŵy, a'i ochrau yn serth fel nas gellir myned i fyny i'w ben o'r tu gogleddol iddo. Tyn ein sylw y foment ei gwelir, ac nid hawdd peidio colli golwg arno tra y byddys mewn cyfleusdra." Afon Cison: "Hyd nes y cryfheir hi gan ffynnonau Carmel, nid ydyw ei gwely, y rhan amlaf, ond cafn sych, gwag; ond ar ol gwlawogydd, neu doddiad yr eira ar y mynyddoedd, llenwir hi â rhyferthwy mawr o ddwfr, yr hyn a wnaed, dybygid, yn adeg y frwydr hon," &c. Mae y nodiadau beirniadol yr un modd yn dra hapus, ac yn gyfoethog o ddysgeidiaeth oreu ein hamseroedd. Am ysbryd y gwaith, y mae wedi ei ysgrifenu oddiar y safle ddyrchafedig fod llyfr y Barnwyr nid fel pennod yn "hanes cenedlaethol yr Hebreaid yn unig, eithr fel dolen yn nghadwen dadblygiad iachawdwriaeth Duw i'r byd." Mae yn ddiammeu na chynnygiwyd i'r Cymry er ys llawer o amser, os erioed, ddim mewn esboniadaeth Fiblaidd sydd yn fwy teilwng o'u sylw na'r ddau waith hyn ar Genesis a llyfr y Barnwyr.

*Y Gofadail Fethodistaidd: sef Pregethau gan nifer o Weinidogion ymadawedig y Methodistiaid Calfinaidd.* Ail Gyfrol. Cyhoeddedig gan David Williams, Gyffin, Conwy.

MAE dyddordeb neillduol yn hanes y pregethau a gyhoeddir yn y gyfrol hon. Ymddengys eu bod wedi eu cymeryd mewn math o law fer wrth eu gwrandaw gan ŵr ieuanc o Lanbrynmair, sydd bellach yn ei fedd er ys 55 o flynyddoedd. Yn ddamweiniol fe ddygwyd y cyfrolau yn cynnwys nodiadau y gŵr ieuanc hwnw dro yn ol i sylw y Parch. Samuel Roberts, Conwy, a chan ei fod ef yn gallu eu darllen fe'u rhoddwyd iddo. Soniodd yntau am danynt wrth ei gymydog Mr. David Williams, ac wedi iddo ysgrifenu nifer o honynt o'r llaw fer hono—a Mr. Roberts yn unig, dybygid, yn y dyddiau hyn a allasai wneyd hyny—fe deimlodd cyhoeddydd y ddwy gyfrol o "Lampau y Deml," a'r gyfrol flaenorol o'r "Gofadail Fethodistaidd," y buasai yn golled i'w genedl i beidio cyhoeddi cyfrol o honynt; ac felly ceisiodd gan ein cyfaill hybarch "S. R." ysgrifenu y pregethau hyn, y rhai yn awr, dros ddeugain mewn nifer, ac mewn cyfrol hardd o dros bedwar cant o dudalenau, sydd yn cael eu gosod yn nghyrhaedd ein cydwladwyr. Yr ydym yn gweled nad oedd y nodiadau a gymerid o rai o honynt ond lled anghyflawn, ond am y rhai pwysicaf fe ymddengys ein bod yn eu cael yn eu llawn hyd, ac y maent yn darllen yn rhagorol. Fe'u pregethid, gan mwyaf, rhwng 1819 a 1822, a chan y gweinidogion mwyaf parchus a defnyddiol oedd y pryd hyny ar y maes. Mae i'r gyfrol felly ddyddordeb hanesyddol pwysig, gan ei bod yn dangos beth oedd cymeriad cyffredin yr addysg efengylaidd a brofai yn y dyddiau hyny o gymaint bendith i'n gwlad. Ac ni raid i ni ychwanegu bod gwerth cynhenid y pregethau eu hunain y fath ag a'u gwna yn dra buddiol a hyfryd i'w darllen ymhob oes. Beth bynag arall a ennillir yn mhregethau Cymru gyda chynnydd diwylliad a chyfoeth y manteision ychwanegol sydd yn awr at ein gwasanaeth, na choller o'n plith ddyddiau y ddaear y rhagoriaethau oedd ar y pregethwyr hyny. Bydd llawer o'n darllenwyr yn falch o feddu y gyfrol. Ei phris yw 4s. 6c.

# LLYFRAU

## *Cyhoeddedig gan P. M. EVANS & SON, Holywell.*

RHESTR-LYFR O AELODAU YSGOLION SABBOTHOL. Y mae y Llyfr hwn yn an-enwadol, ac wedi ei argraffu a'i linellu er cadw cyfrif manwl a threfnus o aelodau yr Ysgolion; ac y mae y derbyniad croesawgar a roddwyd iddo er ei ymddangosiad yn brawf ei fod yn cyflenwi anghen a hir deimlwyd gan Ysgrifenyddion Ysgolion Sabbothol ein gwlad.

Pris llyfr wedi ei rwymo yn gryf, yn cynnwys 100 o du dalenau, ydyw 5s.; 150, 6s. 6c.; a 200, 8s. 6c.

---

GEIRLYFR SEINIADOL (NEU GYNANIAETHOL) SAESONEG A CHYMRAEG, ynghyd ag agoriad ar Lythyriaeth yr Iaith Gymraeg, gan y diweddar THOMAS EDWARDS, Ysw. (Caerfallwch). Ail Argraffiad, gydag Ychwanegiadau, gan y diweddar BARCH. D. HUGHES, B.A., Tredegar.

Pris, yn Rhifynau, 16s. 6c.; Dwy gyfrol, croen llo, 22s. 6c.

---

CANIADAU MAES Y PLWM: sef Gweithiau Barddonol y Diweddar MR. EDWARD JONES, Maes y Plwm. Cynnwysa y Gyfrol Emynau, Carolau, Canenon ar wahanol destynau, Englynion, Marwnadau, ac Emynau Claddedigaethol.

Pris mewn llian, 2s. 6c.

---

HOLWYDDORYDD AR HANESIAETH Y BIBL, yn cynnwys dros bedwar cant ar ddeg o Holiadau ac Atebion, ar Brif Ffeithiau Hanesyddol yr Hen Destament a'r Newydd, gan y Parch. RICHARD PRICHARD, awdwr "Diffyniad Bedydd Babanod." Gyda Rhagdraith gan y Parch. ROGER EDWARDS.

Pris mewn Llian, 2s. 6c.

---

YSBRYDOLIAETH Y BIBL: gan y Parch. D. CHARLES DAVIES, M.A., Llundain.

CYNNWYSIAD: Natur y Prawf—Ystyr Ysbrydoliaeth—Perthynas Ysbrydoliaeth: 1 A chynnwysiad y Bibl; 2. A chywirdeb ac awdurdod y Bibl; 3. Ag iaith y Bibl.

Pris swllt, mewn amlen.

---

LLYFR RHENTI EISTEDDLEOEDD Wedi ei ddarparu gogyfer â chadw cyfrif o enwau personau a gymerant Eisteddleoedd, ynghyda'r arian a dderbynir oddiwrth cyfryw.

---

COFRESTR CLADDEDIGAETHAU *(REGISTER BOOK OF BURIALS)*. Llyfr wedi ei barotoi gogyfer â chadw cyfrif cywir o gladdedigaethau.

Y mae ynddo golofnau i ddodi enw y person a gleddir, ei alwedigaeth, ei oedran, y lle y bu farw, dyddiad y gladdedigaeth, pwy a wasanaethodd ar yr achlysur, y fan y claddwyd, rhif y bedd, a sylwadau.

Pris, 8s. 6c., wedi ei rwymo yn gryf.

---

LLYFR RHESTRIAD BEDYDDIADAU, cyfaddas i Eglwysi pob enwad crefyddol. Wrth anfon archebion am dano, dymunir gwybod i ba nifer o Fedyddiadau y dymunir cael y llyfr,—100, 200, 400, 600, &c.

Pris, Llyfr wedi ei rwymo yn gryf, i gynnwys 100 o enwau, 3s.; a 1s. 6c. am bob 100 ychwanegol.

P. M. EVANS & SON, Cyhoeddwyr, Treffynnon *(Holywell)*.

# GOSTYNGIAD

YN MHRIS

# ESBONIAD JAMES HUGHES

AR Y

# BIBL.

## Cynnygiad Gwerthfawr i'r Cymry AM FYR AMSER.

GAN fod Cyhoeddwyr yr Esboniad uchod yn deall fod awydd cyffredin ymhlith dosbarth lliosog o genedl y Cymry i feddiannu yr Esboniad yn gyflawn, y maent wedi penderfynu ei gynnyg i'r wlad am y prisiau canlynol:—

| | | | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrol | I. | Genesis—Josua ....... | 1 | 2 | 0 |
| " | II. | Barnwyr—Job .......... | 1 | 2 | 0 |
| " | III. | Salmau—Malachi ....... | 1 | 5 | 0 |
| " | IV. | Matthew—Dadguddiad .... | 1 | 1 | 0 |

Neu y PEDAIR CYFROL, wedi eu rhwymo yn gryf a hardd mewn cloen llo, o BRIF ESBONIAD Y GENEDL GYMREIG am

**£4 10 0!!**

**Yn ngwyneb y gostyngiad presennol, dymuna y Cyhoeddwyr hysbysu mai am ARIAN PAROD YN UNIG y bydd iddynt werthu y Gwaith am y pris hwn.**

Ar dderbyniad *Post Office Order* neu *Cheque* am y swm angenrheidiol bydd yn dda gan y Cyhoeddwyr,—P. M EVANS & SON, *Publishers, Holywell*, anfon cyfrol neu gyfrolau yn DDIDRAUL i unrhyw gyfeiriad.

P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR, TREFFYNNON.

RHIFYN CLV.

# Y
# TRAETHODYDD.

## HYDREF, 1884.

### CYNNWYSIAD.


Athrawiaeth y Deuddeg Apostol. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A. ... ... ... ... ... ... ... 389

Yr Eigion. Gan Mr. R. D. ROBERTS, M.A., D.Sc. ... ... 400

Yr Elfen Oruwchnaturiol yn Hanes yr Eglwys. Gan y Parch. D. LLOYD JONES, M.A. ... ... ... ... ... ... 411

John Wicliff. Gan y Parch. WILLIAM EVANS, M.A. .. ... 426

Y Sabboth. Gan y Parch. DAVID L. ADAMS, B.A. ... ... 439

Y Diweddar Barch. William Rees, D.D. Gan y Parch. DAVID GRIFFITH .. ... ... ... ... ... ... ... ... 449

Bord Gron.—Y Ddwy Greadigaeth. Gan y Parch. T. J. JONES-LEWIS, B.A., a RICHARD HUMPHREYS ... ... ... 469

Y Parch. William Williams, Tŷ Calch. Gan GLAN ALAW ... 490

Yr Arglwyddi. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A. .. 497

Nodiadau Llenyddol ... ... ... ... ... ... ... 512


*—CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF IONAWR 1, 1885.*


TREFFYNNON:
P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

PRIS DEUNAW CEINIOG.

# Y TRAETHODYDD.

## ATHRAWIAETH Y DEUDDEG APOSTOL.

Y MAE Philotheos Bryennios, gŵr dysgedig o Eglwys Groeg, yr hwn sydd yn awr yn Archesgob Nicomedia, wedi bod mor ffodus a tharo ar ysgrif na all fod o awduriaeth diweddarach na thua dechreu yr ail ganrif, ac y mae y byd Cristionogol yn bresennol yn ei hastudio gyda dyddordeb mawr. Yn Nghaercystenyn y mae hen lyfrgell enwog a adwaenir fel Llyfrgell y Bedd Sanctaidd, perthynol i Batriarch Jerusalem. O bryd i bryd yr oedd llawer o ysgolheigion enwog wedi bod yn ei chwilio, ond heb wneyd un darganfyddiad gwerth son am dano. Ond yn 1875 fe gyhoeddodd Bryennios argraffiad newydd, a llawer cyflawnach nag oedd yn ein meddiant yn flaenorol, o Epistol Clement o Rufain at Eglwys y Corinthiaid, allan o ysgrif a gawsai yn y llyfrgell hono. Yn y rhagymadrodd i'r argraffiad hwnw rhydd hanes yr ysgriflyfr. Cyfrol fechan wythplyg ydyw o 120 o ddalenau, yn 19 wrth 15 *centimetres* mewn hyd a lled, ac o lawysgrif un Leo, ac wedi ei dyddio Mehefin 11, 6564 o gyfnod Caercystenyn, yr hwn sydd yn cyfateb i O.C. 1056. Mae yn cynnwys: (1) Crynodeb Ioan Aurenau o'r Hen Destament; (2) Epistol Barnabas; (3) Epistol cyntaf Clement at y Corinthiaid; (4) Yr Ail Epistol, fel ei gelwir, a briodolir hefyd i Clement; (5) Athrawiaeth y Deuddeg Apostol; (6) Epistol (ffugiol) Mair o Cassobola at Ignatius; a (7) Deuddeg o Epistolau a briodolir i Ignatius ei hun. Fe roddir gwerth mawr ar yr argraffiad o Epistolau Clement, yr hwn sydd wedi ei olygu yn dra medrus, ac yn dangos ar ran Bryennios ddysgeidiaeth neillduol a chydnabyddiaeth helaeth â llenyddiaeth dduwinyddol Ewrop. Ac mae yr ychwanegiadau a gaed yn y copi hwn yn gwneyd Llythyr Clement—oblegid nid oes ond ychydig bwys yn yr hyn a elwir yr Ail Lythyr, am na chredir yn ei ddilysrwydd—yn llawer gwerthfawrocach. Yr oedd y cyfnod o ddinystr Jerusalem, O.C. 70, hyd farwolaeth Justin Ferthyr, O.C. 120, yn gorwedd dan gryn dywyllwch; ac y mae Epistol Clement, yn y ffurf gyflawn y galluogwyd Bryennios i'w gyhoeddi, yn rhoddi cynnorthwy rhagorol i weled pa fodd yr oedd yr Eglwys Gristionogol y

blynyddoedd hyny—o ran defodau, bywyd cymdeithasol, a llywodraeth—yn ymddadblygu, ac "ar sail yr apostolion a'r prophwydi" yn wynebu ar y gwaith mawr oedd iddi i'w wneyd yn y byd.

Ond er maint y boddhâd a gejd yn y cyfraniad hwnw i'n llenyddiaeth, yr oedd dysgwyliadau byw yn cael eu hennyn am gaffaeliadau eraill a ellid wneyd o drysorau y dyddiau gynt. Pan oedd cynifer wedi bod yn chwilota heb gael nemawr, a'r fath ffawd dda wedi dygwydd mewn man lle y tybiai llawer nad oedd dim newydd i'w ddysgwyl, pwy allai ddyfalu beth na thröai i'r golwg yn yr hen amguddfeydd lle yr oedd yr oesoedd wrth dreiglo wedi gadael eu pethau gwerthfawr? Ac yn awr dyma Bryennios eto wedi cael yr hyfrydwch o'n synu a'n boddhâu yn rhyfeddol trwy gyhoeddi y pummed gwaith yn "Ysgriflyfr Jerusalem," sef Athrawiaeth y Deuddeg Apostol. Mae teitl y gyfrol fel y canlyn: *Διδαχὴ τῶν δώδεκα Ἀποστόλων ἐκ τοῦ ἱεροσολυμιτικοῦ χειρογράφου νῦν πρῶτον ἐκδιδομένη ὑπὸ Φιλοθέου Βρυεννίου, μητροπολίτου Νικομηδείας—ἐν Κωνσταντινουπόλει.* 1883. Sef: "Athrawiaeth y Deuddeg Apostol, allan o Ysgriflyfr Jerusalem, yn awr am y waith gyntaf wedi ei gyhoeddi gan Philotheos Bryennios, Archesgob Nicomedia—yn Nghaercystenyn, 1883." Mae yn ymddangos fod y gŵr da wedi treulio saith mlynedd yn astudio y gwaith ac yn ysgrifenu—mewn Groeg diweddar—arweiniadau a nodiadau iddo, yn y rhai y dengys ei fod yn cadw i fyny â llenyddiaeth dduwinyddol oreu Ewrop, a'i fod wedi ymdaflu i efrydiaeth yr ysgrif gyda chymaint o "lafurus gariad" ag a wnelai y drafferth iddo yn wir fraint. Nid ydyw yr "Athrawiaeth" ond o hyd cymedrol, rywbeth yn debyg i'r Epistol at y Galatiaid. Lleinw yn y llyfr 53 o du dalenau, ond ni chymer y testun ei hun fwy na 300 o linellau mewn llythyren led fras, tra y ceir yn y gweddill o'r lle nodiadau buddiol a dysgedig. Cymer yr arweiniadau 149 o du dalenau, a chyda detholion dyddorol eraill o "Ysgriflyfr Jerusalem," fe orphenir y gyfrol yn 224 o du dalenau, yr hon sydd i'w chael am y pris rhesymol o bum' ffranc.

Er fod y gwaith hwn wedi bod cyhyd yn guddiedig, eto mae yn amlwg fod cryn nifer o gyfeiriadau wedi eu gwneyd ato gan ysgrifenwyr tra boreuol. Mae y Seithfed Llyfr o'r *Apostolic Constitutions*—gwaith a ddarganfyddwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac er ei fod yn seiliedig ar ysgrifeniadau boreuol y mae yn amlwg na ddygwyd ef i'w ffurf bresennol yn gynt na'r drydedd neu y bedwaredd ganrif—yn cynnwys dyfyniadau helaeth o'r gwaith hwn. Mae Bryennios yn argraffu y llyfr hwnw yma, ac yn nodi y dyfyniadau; dengys hefyd fod rhanau eraill o'r *Constitutions* yn seiliedig arno. A dengys yr un peth ac yn yr un modd am waith arall, "Crynodeb o Reolau yr Apostolion Sanctaidd." Yna dengys fod awdwr y *Clementines*, gydag Irenæus, Clement o Alexandria, a John Climacus (tua 564 O.C.) yn ei ddefnyddio; fod Clement yn ei ddyfynu fel Ysgrythyr, ac Eusebius yn ei osod ymysg llyfrau yr oedd eu canonusrwydd yn ammheus, gan ei ddosbarthu gyda Hermas, Epistol Barnabas, a'r Dadguddiad, ac yn ei alw *Διδαχαὶ τῶν Ἀποστόλων*, Athrawiaethau yr Apostolion; y mae Athanasius hefyd yn ei ganmol fel yn deilwng o gael ei ddarllen gan ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig. Wedi nodi yr holl gyfeiriadau hyn a wneir at y traethawd, ä Bryennios rhagddo i ddangos fod yr "Athraw-

iaeth" hefyd yn benthyca yn helaeth yn y chwe' phennod gyntaf, a hefyd yn yr unfed ar bymtheg, o Epistol Barnabas. Mae y bedwaredd bennod ar bymtheg o Epistol Barnabas fel y canlyn, ac fe welir fod dyfyniadau o honi, neu ymadroddion cyffelyb, yn wasgaredig yma a thraw hyd y pedair pennod gyntaf o Athrawiaeth y Deuddeg Apostol.

Ffordd y bywyd gan hyny sydd fel y canlyn. Os oes neb yn dymuno teithio i'r lle penodol, rhaid iddo fod yn zelog yn ei weithredoedd. Y wybodaeth, gan hyny, a roddir i ni i'r dyben o rodio yn y ffordd hon, yw yr un ganlynol. Câr yr Hwn a'th greodd; gogonedda yr Hwn a'th brynodd oddiwrth farwolaeth. Bydd syml o galon, a chyfoethog o ysbryd. Nac ymuna â'r rhai sydd yn rhodio yn ffordd marwolaeth. Casâ wneyd yr hyn nad yw yn rhyngu bodd Duw: casâ bob rhagrith. Na âd orchymynion yr Arglwydd. Nac ymddyrchafa, ond bydd o feddwl gostyngedig. Na chymer ogoniant i ti dy hun. Na chymer ddrwg gynghor yn erbyn dy gymydog. Na âd i or-hyfdra fyned i mewn i th enaid. Na wna buteindra; na wna odineb; na lygra fechgyn. Na âd i air Duw ddyfod allan o'th wefusau gydag un math o anmhuredd. Na dderbyn wyneb pan geryddi unrhyw un am unrhyw drosedd. Bydd addfwyn: bydd heddychol. Cryna wrth y geiriau a glywi. Na feddwl ddrwg yn erbyn dy frawd. Na fydd o feddwl ammheus gyda golwg ar pa un a fydd peth ai peidio. Na chymer enw yr Arglwydd yn ofer. Câr dy gymydog yn fwy na'th enaid dy hun. Na ladd y plentyn trwy beri erthyliad; ac na ladd ef ychwaith wedi ei eni. Na thyn ymaith dy law oddiwrth dy fab, neu oddiwrth dy ferch, ond o'u mebyd dysg iddynt ofn yr Arglwydd. Na chwennych yr hyn sydd eiddo dy gymydog, ac na fydd gybyddlyd. Na fydd un yn dy enaid â'r trahâus, ond cyfrifer di gyda'r cyfiawn a'r gostyngedig. Derbyn fel pethau da y profedigaethau sydd yn dyfod arnat. Na bydd o ddau feddwl na dau dafod, canys dau dafod sydd fagl angeu. Bydd ddarostyngedig i'r Arglwydd, ac i feistriaid eraill fel delw Duw, gyda gwylder ac ofn. Na ddyro orchymynion mewn chwerwder i'th wasanaethferch neu dy wasanaethwr, y rhai sydd yn ymddiried yn yr un [Duw], rhag na pharchot y Duw hwnw sydd uwchlaw y naill a'r llall; canys fe ddaeth Efe i alw dynion nid yn ol eu hymddangosiad allanol, ond yn ol fel mae yr Ysbryd wedi eu parotoi. Cyfrana ymhob peth â'th gymydog; na alw bethau yn eiddot dy hun; canys os ydych yn cyfranogi yn gyffredin o bethau sydd yn anllygredig, pa faint mwy o'r pethau hyny sydd yn llygredig? Na fydd brysur â'th dafod, canys y genau sydd fagl angeu. Can belled ag y byddo yn bosibl, bydd bur o enaid. Na fydd barod i estyn dy ddwylaw i gymeryd, tra yn eu cau i roddi. Câr, fel canwyll dy lygad, bob un a lefaro wrthyt air yr Arglwydd. Cofia ddydd y farn, nos a dydd. Ceisia allan bob dydd wynebau y saint, naill ai ar air yn eu holi, ac yn myfyrio pa fodd y gallot achub enaid trwy y gair, neu llafuria â'th ddwylaw er prynedigaeth dy bechodau. Na phetrusa roddi, ac na furmura pan roddi. Dyro i bob un a ofyno genyt, a thi a gai wybod pwy ydyw ad-dalydd da dy wobr. Cadw yr hyn a dderbyniaist, heb ychwanegu ato na thynu oddiwrtho. Hyd y diwedd casâ yr un drwg. Barna yn gyfiawn. Na wna sism, ond heddycha y rhai a ymrysonant trwy eu dwyn ynghyd. Cyffesa dy bechodau. Na ddos i weddi gyda chydwybod ddrwg. Dyma ffordd y goleuni.

Am "y ddwy ffordd"—y drygau i'w gochel a'r rhinweddau i ymestyn atynt—y mae llawer o'r un geiriau yn cael eu defnyddio yn y ddau waith hyn, fel y ceir hefyd yn yr ysgrifeniadau eraill y cyfeiriwyd atynt. Ond tybiai Bryennios gan fod cynifer o'r ymadroddion a geir ynghyd yn y bennod uchod o Barnabas, wedi eu gwasgaru yma a thraw yn mhennodau Athrawiaeth y Deuddeg Apostol, y rhaid fod yr olaf wedi dyfynu o'r blaenaf. Ond mae yn annhebyg, fel y sylwa Proffeswr Wordsworth, fod y gwaith hwn yn dyfynu o Barnabas, yr hwn yr oedd ei Gristoliaeth a thôn ei ysbryd yn uwch, ac yn dwyn mwy o ddelw Paul. "Credwn," ychwanega Wordsworth, "fod athrawiaeth 'Y Ddwy Ffordd,' ymha un y dygwydda y cyd-daraw-

iadau, yn ffynnonell gyffredin, fe allai ar lafar, gan fod yn gatecism wedi ei ffurfio ar y Bregeth ar y Mynydd, ac yn helaethiad yn wir ar ddysgeidiaeth ein Harglwydd am y ffordd lydan a'r ffordd gul."* Tybia Bryennios fod ymadroddion yn rhai o'r pennodau wedi eu cymeryd o Hermas; ond golyga Wordsworth, ac nid heb gryn reswm, fod y tebygolrwydd yn hytrach y ffordd arall.

Pa fodd bynag, y mae genym yn yr ysgrif ddyddorol hon ddernyn diammheuol o lenyddiaeth ag y gwnelid, mae yn amlwg, ddefnydd mawr o hono yn fuan wedi ymadawiad yr Apostolion, ac a adawodd argraff ddofn ar feddyliau Cristionogion am ganrifoedd ar ol hyny. Sefydla Bryennios ei awduriaeth rhwng 120 a 160 O.C. Ond barna Wordsworth nad allai fod lawer yn ddiweddarach na'r flwyddyn 100 O.C. Y mae yn llefaru am "apostolion" fel rhai ag oedd eto yn yr eglwys, gan olygu, mae yn debyg, wŷr o ysbryd apostolaidd oedd yn myned oddiamgylch fel cenadon ac efengylwyr; a'r un modd sonia am "brophwydi" fel yn gwneyd gwaith cyffelyb. Mae y defnydd yn y fath fodd o'r ddau air yn argoeli cyfnod tra boreu. Y mae rheswm hefyd yn y sylw fod y syniad o gasglu i gylch cryno Athrawiaeth y Deuddeg Apostol—neu yn fwy manwl yn ol teitl y gwaith ei hun, "Athrawiaeth yr Arglwydd trwy y Deuddeg Apostol i'r Cenedloedd"—ei hunan yn golygu mai newydd ymadael oedd yr Apostolion, a bod yr awdwr yn awyddus am osod eu haddysg neu eu hathrawiaeth mewn ffordd gyfleus yn llaw y dychweledigion. Nid llawer o ôl ymgydnabyddu âg ysgrifeniadau yr un o honynt a geir yn y traethawd, ond ymddibyna yn hytrach o lawer ar y traddodiadau oedd ar lafar am yr hyn a ddysgid ganddynt. Y mae yn dra arwyddocäol hefyd nad oes un cyfeiriad yn y gwaith at y dadleuon Docetaidd, Gnosticaidd, a Montanaidd, y rhai a gyfodasant mor foreu yn yr eglwys.

Am yr ysgrifenydd y mae yn hollol anadnabyddus. Y mae rhai neillduolion Hebreig yn ei eirweddiad yn dangos yn bur eglur mai Iuddew ydoedd,—fel hefyd y dengys ei gyfeiriadau mynych at arferion Iuddewig, ei waith yn son am y prophwydi fel "archoffeiriaid," a'r cyfeiriadau at "flaenffrwythau." Mae yn hynod o'r ochr arall na sonia o gwbl am "henuriaid;" ond mai esgobion neu arolygwyr, *ἐπίσκοποι*, a grybwylla yn ddïeithriad. Fe gesglir oddiwrth hyn mai Iuddew allan o Palestina ydoedd. Y mae ei gyfeiriadau mynych at ddrygau oeddynt yn ffynu ymysg y cenedloedd, ynghyd a theitl y traethawd—Athrawiaeth yr Arglwydd trwy y Deuddeg Apostol i'r Cenedloedd—yn dysgu yr un peth. Mae rhyw bethau fel yn cyfeirio at yr Aipht, ac y mae Harnack a Proffeswr Delitzsch yn awgrymu yr Aipht fel y lle yr ysgrifenwyd ef. Ond mae y caniatâd a roddir i ddefnyddio dwfr cynhes, os dewisir, wrth fedyddio, yn golygu gwlad oerach. Mae y weinidogaeth eto yn anmhenodol o fewn cylch adnabyddiaeth yr awdwr; ni ddangosir cydnabyddiaeth âg ysgrifeniadau Ioan; mae heb aflonyddu arno gan yr heresiau ag oedd mewn rhai manau eisoes, mae yn ddiau, yn dechreu cyfodi, ond arddengys Gristionogaeth ymarferol bur, er nad heb berygl yn y cyfeiriad o benrhyddid. Fe allai, ys dywed Wordsworth, fod hyn oll yn pwyntio at un o eglwysi

* The *Guardian*, March 19, 1884.

Groeg neu Macedonia; nad ydyw Corinth yn anmhosibl, neu Athen, neu hyd yn nod Philippi.

Am y gwaith ei hunan, fe allai fod braidd yn gynnar eto dyweyd nemawr am dano fel cyfraniad at ein gwybodaeth a'n barn gyda golwg ar rai o'r materion o'r dyddiau hyny ag y mae gwahanol olygiadau yn eu cylch, er nad ydyw yn anhawdd gweled ei fod i fesur tra mawr yn cadw at symledd yr Apostolion. Am ei gynnwys fe welir ei fod yn naturiol wedi ei drefnu dan ryw bedwar o brif faterion. Mae y chwe' phennod gyntaf ar *Y Ddwy Ffordd*, ffordd bywyd a ffordd marwolaeth, lle y rhoddir crynodeb o'r addysg Efengylaidd, ac yn benaf o'r Bregeth ar y Mynydd, gyda golwg ar rinweddau y fuchedd Gristionogol y dylid eu hymarfer, a'r pechodau a'r drygau y dylid eu gochelyd. O'r seithfed bennod i'r ddegfed fe draethir am *Weinyddiad yr Ordinhadau*, bedydd a swper yr Arglwydd, gyda chyfeiriad at ymprydio. O'r unfed bennod ar ddeg hyd y bymthegfed, *Y Weinidogaeth* sydd dan sylw, yr hon yr edrychir arni (1) mewn gwedd deithiol gyda chyfeiriad at lafur efengylwyr, y rhai a elwir yn apostolion a phrophwydi; ac (2) mewn gwedd ag yr ymddengys ei bod yn dechreu dyfod yn fwy sefydlog, dan ofal y rhai a elwir yn esgobion a diaconiaid. Mae yr unfed bennod ar bymtheg yn cyfeirio at yr *Ail Ddyfodiad*, gyda'r arwyddion sydd i ragflaenu hyny.

Fel yr ysgrifeniadau boreuol eraill sydd wedi ein cyrhaedd, y mae y traethawd yn dra gwerthfawr fel gwrthbrawf o'r fath fwyaf effeithiol i'r ddamcaniaeth mai yn y dyddiau hyny, ac o blith dynion o'r fath, y rhoddwyd bod i'r ysgrifeniadau canonaidd. Clywsom am Dewi Wyn un tro, pan ofynwyd ei farn am "Psallwyr" Nicander, yn myned allan o'i ffordd i'w ganmawl, a phan ofynodd ei gyfaill beth ydoedd yn feddwl wrth roddi iddo y fath ganmoliaeth, ei ateb oedd ei fod yn rhagorol yn wir, pe na buasai am ddim ond fel yr ydoedd yn dangos mor anfeidrol well oedd Salmau Cân Edmund Prys! Pan ddisgynwn ninnau o ysgrifeniadau y Testament Newydd at gynnyrchion goreu y rhai oedd yn dyfod yn nesaf atynt, yr ydym yn teimlo ein bod yn colli mawredd ac urddas ac eneiniad oeddynt eu hunain yn ddigon o warant o Ddwyfoldeb, ac nad oedd y Tadau a ddilynent, er mor dda, mewn un modd, ac yn enwedig mewn cymhariaeth â hwynt, "yn bobl rymus." Ar yr un pryd, yn eu lle eu hunain, a chan eu barnu fel y dymunasent hwy eu hunain i ni wneyd, fel dynion syml yn gweithio eu ffordd o dywyllwch mawr yn nghyfeiriad y goleuni, y mae eu hysgrifeniadau yn ddyddorol a thra addysgiadol. Y maent, yn ol eu gallu, yn dangos ffyddlondeb mawr i'r traddodiadau a dderbyniasent, er eu bod weithiau yn methu peidio eu cymysgu â phethau annheilwng. Ac y mae yn werthfawr yn neillduol i weled yr amcan oedd ganddynt, wedi colli rhai ag yr oedd ganddynt yn gyfiawn y fath ymddiried yn eu harweiniad, ar geisio byw ac arwain ymlaen y gwaith mawr eu hunain. Yn yr ystyr yma mae yn ddiau genym y bydd yn hyfrydwch gan ein darllenwyr gael darllen Athrawiaeth y Deuddeg Apostol yn Gymraeg. Os dewisant fyned ymhellach i'r peth, cyfeiriwn hwynt at erthygl Proffeswr Wordsworth, "Christian Life, Ritual, and Discipline at the close of the first Century" yn y *Guardian* am Mawrth 19; Nodiad

gan Proffeswr Stokes yn y *Contemporary Review* am Ebrill; a "The Teaching of the Apostles," yn cynnwys cyfieithiad a nodiadau gan Archddiacon Farrar yn y *Contemporary Review* am Mai—oll y flwyddyn hon. Mae yn debyg y myn rhai o'n darllenwyr gyfrol werthfawr Bryennios ei hunan.

Ychwanegwn ychydig nodiadau.

---

## ATHRAWIAETH YR ARGLWYDD TRWY Y DEUDDEG APOSTOL I'R CENEDLOEDD.

PENNOD I.—Y mae dwy ffordd, un o fywyd, ac un o farwolaeth, ac y mae llawer o wahaniaeth rhwng y ddwy ffordd yma.

Yn awr y mae ffordd y bywyd fel y canlyn:—Yn gyntaf ti a geri Dduw yr hwn a'th wnaeth, ac yn nesaf dy gymydog fel ti dy hun; a pha beth bynag oll na fynot ei wneuthur i ti, na wna dithau i arall. Ac o'r gorchymynion hyn yr athrawiaeth sydd fel y canlyn:—Bendithiwch y rhai a'ch mellldithiant, a gweddïwch dros eich gelynion, ac ymprydiwch dros y rhai a'ch erlidiant. Oblegid pa ddiolch sydd os cerwch y sawl a'ch caro? oni wna y Cenedloedd hefyd yr un peth? Ond cerwch chwi y sawl a'ch casânt, ac ni fydd genych elyn. Ymgedwch oddiwrth chwantau cnawdol a bydol. Os rhydd neb ddyrnod i ti ar dy rudd ddehau, tro y llall iddo hefyd, a thi a fyddi berffaith. Os cymhella neb di i fyned un filldir, dos gydag ef ddwy. Os dwg neb ymaith dy bais, dyro iddo hefyd dy gochl. Os cymer neb oddiarnat yr hyn sydd eiddot, na ofyn ef yn ol, canys ni elli wneyd felly.* I bob un a ofyno genyt dyro, ac na ofyn yn ol, oblegid y Tad a ewyllysia o'n bendithion ein hunain fod rhoddion yn cael eu gwneuthur i bawb. Gwyn fyd yr hwn sydd yn rhoddi yn ol y gorchymyn, canys y mae yn ddiniwed. Gwae yr hwn sydd yn derbyn; canys os oes ar ddyn eisieu ac yn derbyn, efe a fydd ddiniwed; ond os nad oes ar ddyn eisieu, efe a rydd gyfrif paham y derbyniodd ac i ba ddyben, ac mewn cyfyngder efe a brofir gyda golwg ar ei weithredoedd; ac ni ddaw efe allan oddiyno hyd oni thalo y ffyrling eithaf. Ond am hyn hefyd fe ddywedwyd, Dyfered dy elusenau o'th ddwylaw cyhyd ag gwypot i bwy yr wyt yn rhoddi.†

PENNOD II.—Ail orchymyn yr athrawiaeth ydyw: Na ladd, na lygra fechgyn, . . . na wna odineb, na ladrata, nac ymarfer ddewiniaeth neu swyngyfaredd, na phâr erthyliad, ac nac ymarfer fabanladdiad.‡ Na chwennych bethau dy gymydog, na thwng anudon, ac na ddwg gamdystiolaeth, ac na siarad yn ddrwg, ac na ddwg falais. Na fydd ddauddyblyg dy feddwl, na daudafodog,|| canys dau dafod sydd fagl. Na fydded dy ymadrodd yn ffals, na gwag, ond wedi ei lanw â

* Gan olygu na allai Cristion ymosod nac ymgyfreithio o flaen y Cenedloedd.

† Nid ydyw y gair hwn yn yr Efengylau. Gallai ei fod ar lafar ymysg y Cristionogion, yn debyg i'r "gair" o eiddo yr Arglwydd Iesu a goffeir yn Actau xx. 35, "Dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn." Heblaw haelioni y mae eisieu doethineb hefyd yn ein caredigrwydd.

‡ Doethineb Solomon, xii. 5: "Ac annhrugarog leiddiaid y plant hyny hefyd."

|| Cymh. Ecclesiasticus xxviii. 13: "Melldithiwch yr athrodwr a'r dau-dafodiog. oblegid llawer un heddychlon a ddyfethasant hwy."

ffaith. Na fydd chwennychgar, na rheibus, na rhagrithiol, na maleisus, nac uchelddybiol. Na chymer ddrwg gynghor yn erbyn dy gymydog. Na chasâ neb, ond rhai a geryddi, a thros rai ti a weddïi, a rhai a geri yn fwy na dy enaid dy hun.

PENNOD III.—Fy mab, dianc rhag pob drwg, a rhag pobpeth tebyg. Nac ymollwng i ddigofaint, canys mae digofaint yn arwain i lofruddiaeth; ac na fydd boeth bleidiwr, neu ymrysongar, neu nwydwyllt; canys o'r holl bethau hyn llofruddiaethau a genedlir. Fy mab, na fydd drachwantus, canys trachwant a arwain i odineb; nac yn siaradwr isel, nac yn ddyn uchel o olwg; canys o'r holl bethau hyn y cenedlir godinebau. Fy mab, na fydd ddaroganwr, canys y mae yn arwain i eilunaddoliaeth; ac na fydd swynwr, na sêrddewin, nac yn arfer dyhuddiant, ac na fydd foddlawn, ïe, i edrych ar y pethau hyn; canys o'r holl bethau hyn y cenedlir eilunaddoliaeth. Fy mab, na fydd gelwyddog, canys celwydd a arwain i ladrad, nac yn ariangar, nac yn wagoneddgar; canys o'r holl bethau hyn y cenedlir lladradau. Fy mab, na fydd furmurwr, canys arweinia i gabledd; nac yn gyndyn, nac yn ddygasog; canys o'r holl bethau hyn y cenedlir cableddau. Ond bydd addfwyn, canys y rhai addfwyn a etifeddant y ddaear. Bydd hirymarhous, a thosturiol, a diniwed, a thawel, a da, ac yn crynu yn barhâus wrth y geiriau a glywaist.* Na ddyrchafa dy hun, ac na ddyro hyfdra i dy enaid. Na uner dy enaid gyda'r rhai uchelfryd, ond ymddyddan gyda y cyfiawn a'r gostyngedig. Derbyn fel da y gweithrediadau a ddygwyddo i ti, gan wybod na ddygwydd dim ar wahan oddiwrth Dduw.†

PENNOD IV.—Fy mab, cofia nos a dydd yr hwn sydd yn llefaru wrthyt air Duw, ac anrhydedda ef megys yr Arglwydd; oblegid yn y ffynnonell o ba un y lleferir am yr Arglwyddiaeth yno y mae yr Arglwydd.‡ A cheisia allan ddydd ar ol dydd wynebau y saint, fel y gorphwysot yn eu geiriau. Na ddymuna ymraniad, ond cymmoda y rhai fo mewn ymrafael. Barna yn gyfiawn. Na ddangos bleidgarwch i geryddu mewn troseddiadau. Na fydd o ddau feddwl pa un a fydd ai ni fydd.‖ Na fydd un a estyn ei ddwylaw i dderbyn, ac a'u caua yn dŷn i roddi.§ Os oes genyt dyro â'th ddwylaw, fel pridwerth dros dy bechodau.¶ Nac oeda roddi, ac wrth roddi na furmura, canys ti a gei wybod pwy ydyw teg ad-dalydd dy wobr. Na thro ymaith oddiwrth yr hwn sydd mewn angen. Cyfrana â'th frawd ymhob peth, ac na ddywed mai dy eiddo di ydynt.** Canys os ydych gyfranogion yn yr hyn sydd anfarwol, pa faint mwy mewn

* Esaiah lxvi. 2: "Yr hwn sydd yn crynu wrth fy ngair."

† Cymh. Ecclesiasticus ii. 4: "Derbyn yn llawen yr hyn a ddygwyddo; a bydd ymarhous wrth dy gyfnewid i ostyngiad."

‡ "Canys lle mae y dysgu ynghylch Duw yno y mae Duw yn bresennol."—*Apostolical Constitution.*

‖ Cyfeiriad fe allai at Ecclesiasticus i. 28: "Nac ammheu ofn yr Arglwydd pan fyddych mewn angen; ac na ddos ato ef â chalon ddauddyblyg." Ac fe allai at Iago i. 8: "Gŵr dauddyblyg ei feddwl."

§ Ecclesiasticus iv. 31: "Na fydded dy law yn agored i dderbyn, ac yn gauad i roddi."

¶ Daniel iv. 27: "Am hyny, frenin, bydded foddlawn genyt fy nghynghor, a thor ymaith dy bechodau trwy gyfiawnder, a'th anwireddau trwy drugarhâu wrth drueiniaid, *i edrych* a fydd estyniad ar dy heddwch."

** Actau iv. 32: "Ac ni ddywedodd neb o honynt fod dim a'r a feddai yn eiddo ei hunan, eithr yr oedd ganddynt bob peth yn gyffredin."

pethau marwol? Na thŷn ymaith dy law oddiwrth dy fab neu dy ferch, ond o febyd i fyny dysg iddynt ofn Duw. Na ddyro orchymynion yn dy chwerwder i'th gaethwas neu i'th lawforwyn sydd yn ymddiried yn yr un Duw, rhag na ofnant hwy Ef sydd Dduw ar y naill a'r llall o honoch. Canys y mae Efe yn dyfod nid i alw yn ol sefyllfa allanol, ond ar y rhai hyny ag mae yr Ysbryd wedi barotoi. Ond chwi, gaethweision, byddwch ddarostyngedig i'ch meistriaid megys i ddelw Duw, mewn gwylder ac ofn. Casâ bob rhagrith, a phobpeth nad yw yn rhyngu bodd i'r Arglwydd. Na wrthod orchymynion yr Arglwydd; eithr cadw yr hyn a dderbyniaist, heb ychwanegu na thynu ymaith.* Yn yr eglwys cyffesa dy gamweddau, ac na thyred at dy weddi gyda chydwybod ddrwg. Dyma ffordd bywyd.

PENNOD V.—A ffordd marwolaeth yw hon:—Yn gyntaf oll y mae yn ddrwg, a llawn o felldith. Godinebau, chwantau, puteindra, lladradau, eilunaddoliaeth, dewiniaeth, swyngyfaredd, treisladradau, camdystiolaethau, rhagrithiau, drwg galon, twyll, hunandyb, malais, cyndynrwydd, cybydd-dod, siarad isel, eiddigedd, hyfdra, traha, ymffrost; erlidwyr y da, casâu gwirionedd, caru celwydd, peidio cydnabod gwobr cyfiawnder, heb fod yn unedig â'r hyn sydd dda nac â barn uniawn, bod yn wyliadwrus nid am y da ond am y drwg; y rhai y mae addfwynder a dyoddefgarwch yn bell oddiwrthynt, yn caru ofer bethau, yn erlyn ar ol ad-daliad, heb dosturio wrth y tlawd, heb ofidio dros yr hwn sydd mewn cyfyngder, heb gydnabod y rhai a'u gwnaeth, yn llofruddio plant, yn llygrwyr delw Duw, yn troi ymaith oddiwrth yr hwn sydd mewn angen, yn gwasgu ar y trallodus; yn dadleu dros y cyfoethog, yn farnwyr di-ddeddf y tlodion, yn bechaduriaid ymhob ystyr. Ymgedwch yn hollol, fy mhlant, oddiwrth y rhai hyn oll.

PENNOD VI.—Gwel na arweinio neb di ar gyfeiliorn o'r llwybr hwn o athrawiaeth, gan ei fod yn dy ddysgu ar wahân oddiwrth Dduw. Oblegid os wyt yn abl i ddal holl iau yr Arglwydd, ti a fyddi berffaith; ond os na fyddi yn abl, gwna yr hyn a elli.† Ond am ymborth dal yr hyn a elli; ond oddiwrth eilun-offrwm ymattal â'th holl allu, canys gwasanaeth duwiau meirwon ydyw.‡

PENNOD VII.—Eithr am fedydd, bedyddia fel y canlyn:—Wedi rhoddi yr holl addysg flaenorol, bedyddia i enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân mewn dwfr bywiol. Ond os nad oes genyf ddwfr rhedegog, bedyddia mewn dwfr arall; ac os na elli mewn oer, yna mewn cynhes. Os nad oes genyt [ddigon er trochi] o'r naill na'r llall, tywallt y dwfr dair gwaith ar y pen yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. A chyn bedydd ymprydied y bedyddiwr a'r ymgeisydd, ac unrhyw rai eraill a allo; ac arch i'r ymgeisydd ymprydio un neu ddau ddiwrnod yn flaenorol.||

* Cymharer Deut. xii. a Dad. xxii. 18, 19. Yr oedd y gair yn gyffredin ymysg y Cristionogion.

† Mewn cyfeiriad mae yn debyg at y gwahaniaeth rhwng aflan a glân, yr hyn a deimlid yn rhwymedig ar gydwybod llawer Iuddew, er wedi credu yn Nghrist.

‡ Yn fwy llym nag athrawiaeth Paul, 1 Cor. x. 25. Ond nid rhyfedd fod y Cristionogion yn ymdeimlo yn gymaint a pherygl unrhyw beth a allai eu harwain yn ol at eilunaddoliaeth.

|| Dyma "orchymyn dynion" yn llithro i mewn. Nid oes air am y fath beth yn y Testament Newydd.

PENNOD VIII.—Na fydded eich ymprydiau chwi yn debyg i eiddo y rhagrithwyr; canys y maent hwy yn ymprydio ar yr ail a'r pummed dydd o'r wythnos. Ond ymprydiwch chwi ar y pedwerydd dydd a dydd Gwener. Ac na weddïwch chwi fel y rhagrithwyr, eithr fel y gorchymynodd yr Arglwydd yn ei Efengyl, felly gweddïwch chwi: "Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw. Deled dy deyrnas. Gwneler dy ewyllys, megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyled, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag yr un drwg. Canys eiddot ti yw y nerth a'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen." Gweddïwch fel hyn deirgwaith yn y dydd.*

PENNOD IX.—Am y Cymun, cymunwch (ευχαριστήσατε) fel y canlyn. Yn gyntaf am y cwpan. "Yr ydym yn diolch i Ti, O Dad, am sanctaidd win Dafydd dy was, yr hwn a wnaethost yn adnabyddus i ni trwy Iesu dy was: i Ti y byddo y gogoniant yn dragywydd." Ac am y bara drylliedig—"Yr ydym yn diolch i Ti, ein Tad, am y bywyd a'r wybodaeth a wnaethost yn adnabyddus i ni trwy Iesu dy was: i Ti y byddo gogoniant yn dragywydd. Fel yr oedd y bara drylliedig hwn yn wasgaredig ar y mynyddoedd,† ac wedi ei ddwyn ynghyd a wnaed yn un, felly casgler ynghyd dy Eglwys o derfynau y ddaear i'th deyrnas Di; canys eiddot Ti yw y gogoniant a'r gallu trwy Iesu Grist yn dragywydd." Ond na fwytäed ac nac yfed neb o'ch Cymun oddieithr y rhai a fedyddiwyd yn enw yr Arglwydd, canys am hyn fe ddywedodd yr Arglwydd, "Na roddwch y peth sydd sanctaidd i'r cŵn."

PENNOD X.—Wedi eich boddloni, diolchwch fel hyn: "Yr ydym yn diolch i Ti, O Sanctaidd Dad, am dy enw sanctaidd, yr hwn a gafellaist (κατεσκήνωσας) yn ein calonau, ac am y wybodaeth a'r ffydd, a'r anfarwoldeb a wnaethost yn adnabyddus i ni trwy Iesu dy was: i Ti y byddo gogoniant yn dragywydd. Ti, Arglwydd Hollalluog, a greaist bob peth er mwyn dy enw, ac a roddaist fwyd a diod i ddynion i'w mwynhâu, fel y rhoddent ddiolch i Ti. Ond cyfrenaist i ni fwyd a diod ysbrydol a bywyd tragywyddol trwy dy was. O flaen pob peth yr ydym yn diolch i Ti, am dy fod yn gadarn; i Ti y byddo gogoniant yn dragywydd. Cofia, O Arglwydd, dy Eglwys i'w gwaredu rhag pob drwg, ac i'w pherffeithio yn dy gariad,‡ ac i'w chasglu ynghyd o'r pedwar gwynt, wedi ei sancteiddio i'th deyrnas, yr hon a barotoaist Ti iddi: canys eiddot Ti yw y gallu a'r gogoniant yn dragywydd. Deued gras, ac aed y byd hwn heibio.‖ Hosanna i Fab Dafydd. Os oes neb yn sanctaidd, deued; os nad ydyw, edifarhäed. Maranatha.§ Amen." Ond caniatäer i'r Prophwydi roddi diolch gymaint ag a ddymunont.¶

* Mewn cyfeiriad mae yn debyg at Dan. vi. 11, ac Act. iii. 1.

† Yn yr hadau.

‡ Y dynesiad agosaf a geir yn y gwaith at iaith yr Apostol Ioan.

‖ Dyfyna Bryennios o Tertullian fod y Cristionogion yn ei ddyddiau ef yn gweddïo ar fod i ddiwedd y byd *gael ei oedi*.

§ 1 Côr. xvi. 22, "Mae'r Arglwydd yn agos."

¶ Ymddengys mai dyma yr ymgais cyntaf at ffurfwasanaeth yn yr eglwys, oddieithr fod y rhai a geir yn niwedd Epistol Clement yn hŷn. Ar yr un pryd honir rhyddid mawr i'r prophwydi, a dywed Justin (Yr *Apologia* gyntaf, pen. lxv.): "Yna dygir i'r llywydd fara a chwpanaid o win wedi ei gymysgu â dwfr; ac yntau gan eu cymeryd a rydd fawl a gogoniant i Dad y greadigaeth, trwy enw y Mab a'r Ysbryd Glân, ac a rydd ddiolch mewn cryn feithder am ein cyfrif yn deilwng i dderbyn y pethau hyny o'i law Ef."

PENNOD XI.—Pwy bynag gan hyny a ddaw ac a ddysg i chwi yr holl bethau rhag-grybwylledig, derbyniwch ef. Ond os ydyw yr athraw ei hun wedi ei wyrdroi, yn dysgu athrawiaeth arall i ddymchwelyd, na wrandewch arno; ond os i ychwanegu at gyfiawnder a gwybodaeth yr Arglwydd, derbyniwch ef megys yr Arglwydd. Ond am apostolion a phrophwydi, yn ol athrawiaeth yr Efengyl felly gwnewch. Derbynier pob apostol a ddelo atoch megys yr Arglwydd. Ac ni erys ond un dydd; eithr os bydd eisieu, yr ail ddydd hefyd; os erys dri diwrnod gau brophwyd ydyw. Pan ymadawa yr apostol, na chymered ddim ond digon i gyrhaedd ei letty y noswaith. Os gofyna am arian, gau brophwyd ydyw. Unrhyw brophwyd sydd yn llefaru yn yr Ysbryd na chwiliwch ac na phrofwch; canys pob pechod a faddeuir, ond y pechod hwn ni faddeuir. Ond nid yw pob un sydd yn llefaru yn yr Ysbryd yn brophwyd, oddieithr fod ganddo ymarweddiad yr Arglwydd. Oddiwrth ei ymarweddiad gan hyny yr adnabyddir y gau brophwyd a'r prophwyd. Ni chaiff yr un prophwyd yr hwn yn yr Ysbryd a archa fwrdd fwyta o hono; os amgen, gau brophwyd ydyw. A phob prophwyd a ddysga y gwirionedd, os nad yw yn gwneuthur yr hyn a ddysga, sydd gau brophwyd. A phob prophwyd gwir, profedig, a wna gynnulliadau er dirgelwch bydol,* ond na ddysga eraill i wneyd yr hyn a wna efe, na farner genych; oblegid y mae ei farn yn llaw Duw; canys yr hen brophwydi hefyd a wnaethant yr un modd. Ond pwy bynag a ddywed yn yr Ysbryd, Dyro i mi arian neu ddim arall, na wrandewch arno; ond os gofyna er mwyn eraill sydd mewn eisieu, na farned neb ef.

PENNOD XII.—Derbynier pob un sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd, ac ar ol hyny wedi ei brofi chwi a'i hadnabyddwch, canys chwi a gewch ddealltwriaeth ar ddehau ac aswy. Os ydyw yr hwn a ddaw atoch yn deithiwr, cynnorthwywch ef gymaint ag a alloch; ond ni erys gyda chwi ond dau neu dri diwrnod, os bydd eisieu. Ond os, yn grefftwr, y dymuna ymsefydlu gyda chwi, gweithied a bwytäed. Ond os nad oes ganddo grefft, trefnwch yn ol eich synwyr da eich hunain fel na byddo i un Cristion fyw yn segur yn eich plith. Os na wna felly, Crist-fasnachwr ydyw. Gochelwch y cyfryw.

PENNOD XIII.—Y mae pob gwir brophwyd a ddymuna ymsefydlu yn eich plith yn deilwng o'i gynnaliaeth. Felly hefyd gwir athraw sydd ei hunan hefyd, fel gweithiwr, yn deilwng o'i gynnaliaeth. Cymer gan hyny a dyro i'r prophwydi holl flaenffrwythau cynnyrchion y gwinwryf a'r llawr dyrnu, yr ychain a'r defaid; canys eich archoffeiriaid ydynt. Y maent hwy i chwi yn sefyll yn yr un berthynas ag y gwnelai y prif offeiriad i'r Iuddewon. Os nad oes genych brophwyd, rhoddwch i'r tlodion. Os gwnewch bobiad o fara, cymerwch y blaenffrwyth a rhoddwch yn ol y gorchymyn. Yr un modd pan agorwch gasgen o win neu olew, cymerwch y blaenffrwyth a rhoddwch i'r prophwydi. Ac o arian, ac o wisgoedd, ac o bob meddiannau, gan gymeryd y blaenffrwyth mor agos ag y gallot farnu, a dyro yn ol y gorchymyn.

PENNOD XIV.—Ar arglwydd-ddydd yr Arglwydd, ymgynnullwch ynghyd, a thorwch fara a rhoddwch ddiolch, wedi cyffesu eich pechod-

* Cydnebydd Bryennios fod yr ymadrodd yn "dywyll ac ansicr," ond oddiwrth y cyddestun fe ellid meddwl ei fod yn golygu gweithrediadau arwyddluniol fel yr eiddo Esaiah, Jeremiah, ac Ezeciel.

au, fel y byddo eich aberth yn bur.* Na fydded i neb y mae ganddo ymrafael â'i gymydog ddyfod ynghyd gyda chwi nes eu cymmodi, fel na haloger eich aberth. Canys dyma yr hyn a lefarwyd gan yr Arglwydd, "Ymhob lle ac amser offrymwch i mi aberth pur; canys Brenin mawr ydwyf fi, medd yr Arglwydd, a'm henw sydd ofnadwy ymhlith y cenedloedd." †

PENNOD XV.—Ordeiniwch ‡ gan hyny i chwi eich hunain esgobion a diaconiaid teilwng o'r Arglwydd, gwŷr addfwyn a di-ariangar, a chywir a phrofedig, canys y maent hwythau yn gweini i chwi weinidogaeth y prophwydi a'r athrawon. Am hyny na ddiystyrwch hwynt, canys y maent i'w hanrhydeddu yn eich plith gyda'r prophwydi a'r athrawon.

Ceryddwch y naill y llall, nid mewn digter ond mewn heddwch, fel y cewch yn yr Efengyl; ac wrth bob un a wnelo gam yn erbyn un arall, llefared un, ac na chlywed air oddiwrthych chwi hyd oni edifarhao. Ond gwnewch eich gweddïau a'ch elusenau a'ch holl weithredoedd fel y cewch yn Efengyl ein Duw.

PENNOD XVI.—Gwyliwch am eich bywyd. Na ddiffodder eich lampau, ac na ddattoder eich lwynau, ond byddwch barod; canys ni wyddoch yr awr yn yr hon y daw eich Arglwydd. Ymgynnullwch yn fynych ynghyd, gan geisio y pethau sydd fuddiol i'ch eneidiau; canys holl amser eich ffydd ni lesâ i chwi, oddieithr yn y diwedd y caffer chwi yn berffaith. Oblegid yn y dyddiau diweddaf gau brophwydi a llygrwyr a amlhânt, a'r defaid a droir yn fleiddiaid, a chariad a droir yn gasineb. Oblegid fel y cynnydda anghyfraith, dynion a gasânt ac a erlidiant ac a fradychant eu gilydd; ac yna yr ymddengys y byddwyllwr fel Mab Duw, ac a wna arwyddion a rhyfeddodau, a'r ddaear a roddir i fyny i'w ddwylaw, ac efe a wna bethau digyfraith y rhai na fu er pan y mae amser. Yna y daw hiliogaeth dynion (ἡ κτίσις τῶν ἀνθρώπων) i dân prawf, a llawer a dramgwyddant ac a ddinystrir; eithr y rhai a ddaliant yn eu ffydd a fydd cadwedig dan y felldith ei hunan. Ac yna yr ymddengys arwyddion y gwirionedd. Yn gyntaf yr arwydd o ehedeg ymaith yn y nef, yna arwydd llais yr udgorn, ac yn dryddydd adgyfodiad y meirw: nid yn wir pawb, ond fel y dywedwyd, Yr Arglwydd a ddaw, a'i holl saint gydag ef. Yna y gwel y byd yr Arglwydd yn dyfod ar gymylau y nef.

DANIEL ROWLANDS.

---

* Yr "aberth moliant" oeddynt i ddwyn i dŷ yr Arglwydd, Jer. xvii. 26; yr "aberthau ysbrydol" yr oeddynt fel "offeiriadaeth sanctaidd" i'w hoffrymu, 1 Petr ii. 5; a'u hymgysegriad i wasanaeth yr Arglwydd trwy "roddi eu cyrff yn aberth byw, sanctaidd, cymeradwy gan Dduw," Rhuf. xii. 1.

† Mal. i. 11, 14. Y dyfyniad yn cael ei gymeryd yn rhydd o'r cof.

‡ Χειροτονήσατε. Yr un gair ag yn Act. xiv. 23, ac yn 2 Cor. xviii. 19, lle y cyfieithir ef "dewiswyd." Yr oedd yr ordeiniad yn cael ei wneyd trwy ddewisiad yr eglwys ac arddodiad dwylaw.

# YR EIGION.

## III.

### LLIFREDIADAU YR EIGION.

YN yr erthyglau blaenorol rhoddasom gyfrif am ffrwyth archwiliadau diweddar yn y dyfnfor can belled ag yr oedd a fynent â'r gwaddodiadau a ffurfiasid ar y môr-wely, ynghyd ag arwyneb llawr yr eigion. Yn yr erthygl hon bwriadwn ddangos yr hyn sydd wybyddus am gylchrediad dyfroedd y môr mawr, mater ag y mae llawer o oleuni wedi ei daflu arno gan archwiliadau diweddar.

Ac i ddechreu, fe allai fod yn dda dyweyd fod genym ddau ddosbarth o ffeithiau i'w desgrifio a'u hesbonio. Yn gyntaf, llifrediadau yr arwyneb, y rhai a lifant mewn gwahanol gyfeiriadau, ac mewn rhai amgylchiadau gyda chryn gyflymdra. Yn ail, yr is-rediadau araf o ddwfr oer a ymlusgant hyd y gwaelod o'r pegynau hyd y cyhydedd. Mae y symudiad yn y rhai olaf mor araf fel ag i fod yn hollol anghanfyddadwy i sylwadaeth, ac y mae bodolaeth y fath is-rediadau yn cael ei brofi trwy gasgliad oddiwrth ffeithiau na ellir eu hesbonio ar un dybiaeth arall.

Ni fydd yn angenrheidiol rhoddi cyfrif cyflawn am lifrediadau yr arwyneb; bydd desgrifiad byr o'r rhai penaf yn ddigon.

A chymeryd yn gyntaf Fôr y Werydd, yr ydym yn cael llifrediad mawr yn yr arwyneb, y llifrediad cyhydeddol, 4000 o filldiroedd o hyd wrth 450 o filldiroedd o led, yn llifo o ddwyrain i orllewin yn ol deng milldir ar hugain yn y dydd. Wrth bwynt Dwyreiniol America Ddeheuol, Penrhyn St. Roque, ymrana y llifrediad hwn yn ddwy gainc, un yn myned ar hyd arfordir America i'r ochr ddeheuol, a elwir y llifrediad Brazilaidd, a'r llall yn myned ar hyd glanau gogleddol Deheudir America i fôr Caribea, gan gyflymu yn ei ffordd trwy weithrediad dyfroedd yr Amazon i bedair milldir yr awr, ac yn y diwedd yn dyfod allan o fôrgainc Mexico fel y *Gulf Stream.* Mae y *Gulf Stream*, pan yn dyfod allan o'r *Straits of Florida*, yn 30 milldir o led yn ei man culaf, yn 2200 troedfedd o ddwfn, ac yn symud gyda'r cyflymdra o 3½ neu 4 milldir yr awr. Mae ardymheredd ei harwyneb yn y lleoedd poethaf o 80° i 86° Far. (graddau Farenheit). Fe lifa y ffrwd tua'r gogledd-ddwyrain, gan ymledu wrth fyned ymlaen, ac ar yr un pryd dyfod, yn raddol, yn llai dwfn. Yn nghanol y Werydd fforchoga i ddwy gainc—wedi cyrhaedd yn y pwynt hwnw led o 800 o filldiroedd, ond heb fod ond o ychydig ddyfnder. Mae y gainc ddeheuol yn ffurfio symudiad cylchdroadol, gan beri tro-ddwfr, yn nghanol yr hwn y mae ymgasgliad mawr o wymon, a elwir y Sargasso, ac fe adnabyddir y rhan hon o'r eigion fel Môr Sargasso. Mae y symudiad cylchdroadol hwn o aswy i

dde. Mae y gainc ogleddol yn parhâu yn ei chwrs tua'r gogledd, ac yn rhedeg i'r *Arctic Ocean*, neu Fôr y Gogledd; ond yn hir cyn hyny mae ei chyflymdra wedi lleihâu yn gymaint fel, yn y cymeriad o lifrediad, na welir ei bod yn hanfodi o gwbl, ac na ellir cael allan ei phresennoldeb ond trwy sylwadaeth ar yr ardymheredd, a thrwy gasgliad oddiwrth ffeithiau neillduol, megys y rhai canlynol: fe daflwyd hwylbren llong aethai yn ddrylliau yn agos i St. Domingo i'r làn ar arfordir Scotland; fe yrwyd cwch afon, llwythog o *mahogany*, i'r làn ar Ynysoedd Faroe; ac fe gafwyd hadau o'r Antilles yn nofio mor uchel i fyny â Spitzbergen. Ymhellach, mae y môr yn y lle yma yn rhydd oddiwrth rew. Golyga hyn bresennoldeb gwres i raddau anghyffredin yn y rhanbarth hono; a chan mai yr unig fodd y gellid trosglwyddo gwres yno ydyw trwy lifrediadau yn y môr, gallwn gasglu fod y *Gulf Stream* yn parhâu ymhell i Fôr y Gogledd.

Fe ddywedwyd eisoes fod y llifrediad cyhydeddol deheuol yn danfon cainc i lawr i'r Werydd Deheuol, fel y llifrediad Brazilaidd, yr hwn sydd gryn lawer yn llai na'r *Gulf Stream*,—fe olygir ei bod tua hanner ei maint. Yn yr amgylchiad yma hefyd y mae symudiad y llifrediad yn un cylchdroadol, ond mae ei gyfeiriad o dde i aswy. Mae hon yn egwyddor sydd yn dal yn ddïeithriad fod unrhyw gorff a fo yn symud ar wyneb y ddaear yn gwŷro i'r dde yn yr hannercylch gogleddol, ac i'r aswy yn yr hannercylch deheuol.

Os trown yn awr i'r Tawelog, ni a gawn yno gyfundrefn gyffelyb o lifrediadau. Y mae llifrediad cyhydeddol llydan yn cyfeirio i'r gorllewin o America i Ynysfôr India ac Australia. Yma, nid ydyw, fel y gwna llifrediad cyhydeddol y Werydd, yn cyfarfod â darn annhoredig o dir a'i troai yn gwbl i ogledd a de, ond gwna ei ffordd trwy gulforoedd llïosog *Archipelago*, neu Ynysfôr Malay, lle y mae ei gyfeiriad yn cael ei amrywio i raddau, a'i nerth i ryw fesur yn cael ei golli. Mae rhan fwyaf gogleddol y llifrediad, fodd bynag, sydd yn cyrhaedd Asia ychydig i'r de o Japan, yn cael ei throi i'r gogledd, ac yno yn chwareu rhan sydd rywbeth yn debyg i eiddo y *Gulf Stream* yn Môr y Werydd. Rhed i'r gogledd a gwyra i'r dde, a ffurfia symudiad cylchdroadol gyda môr Sargasso mawr yn y canol.

Mae y llifrediad hwn, a elwir llifrediad Japan, neu *Kuro-Siwo*, wedi ei ffurfio ar raddfa llawer mwy na'r *Gulf Stream*, fel y gallasem ddysgwyl oddiwrth faintioli cymhariaethol y Tawelog Gogleddol a'r Werydd Gogleddol. Yn ei le culaf mae ganddo led o 100 milldir, a chyflymdra o dros dair milldir yr awr.

Yn y Tawelog Deheuol, i'r dwyrain o Australia ac yn Môr India, y mae llifrediadau mawrion, yn gyfartal i, neu yn fwy na'r *Gulf Stream*, y rhai sydd yn gwneyd cylchdroadau o dde i aswy. Yn ychwanegol at y rhai hyn, y mae hefyd lifrediad oer o faintioli mawr yn rhedeg i'r gogledd-ddwyrain o Fôr y De, neu yr *Antarctic*, sydd yn taro ar Patagonia, ac un ran o ba un sydd yn myned i'r Werydd Deheuol, tra mae y llall, a'r fwyaf, yn rhedeg i'r gogledd hyd arfordir gorllewinol America Ddeheuol, yn agos hyd y cyhydedd. Adnabyddir hwn fel Llifrediad Humboldt. Fel hyn ni a welwn fod i'r gogledd a'r de o'r cyhydedd lifrediadau cylchdroadol yn llifo mewn cyfeiriadau penodol. Y mae genym yn awr i esbonio y symudiadau hyn.

Fe fydd yn fanteisiol, fodd bynag, yn gyntaf, ddesgrifio y dosbarth arall o ymddangosiadau y mae a fynom â hwynt. Fe ymddengys fod yn rhanau dyfnaf y môr—yn y Werydd a'r Tawelog—is-rediad rheolaidd neu "ymlusgiad" o ddwfr oer o'r rhanbarthau pegynol i'r rhai cyhydeddol. Ond mae y symudiad mor araf fel na ellir ei ganfod o gwbl fel symudiad, ac na ellir gwybod ei fod yn bodoli ond fel casgliad oddiwrth ffeithiau neillduol y sylwir arnynt. Y mae sylwadaethau ar ardymheredd y dyfnfor wedi dangos fod dwfr y gwaelod o ardymheredd tra isel, yn gyffredin tua 32° Farenheit. Mae presenoldeb y dwfr oer hwnw ynddo ei hunan yn brawf fod "*set*" arafaidd, neu is-lifiad o'r rhanbarthau pegynol gogleddol a deheuol tuag at y rhanbarthau cyhydeddol, oblegid nid oes un ffynnonell arall o ba un y gellid cyflenwi dwfr oer yn barhâus i ranbarthau y cyhydedd. Ond cyn myned ymlaen i ddangos ac egluro y ddadl yna, fe fydd yn angenrheidiol desgrifio yr offerynau a ddefnyddir er cymeryd sylwadaethau ar yr ardymheredd, a hefyd i ddyweyd rhywbeth am ffrwyth y sylwadaethau sydd wedi eu gwneyd.

Yr offeryn a ddefnyddir i'r dyben ydyw gwresfesurydd hunan-gofrestrol amddiffynedig, gwneuthuriad cyffredin yr hwn sydd dra syml. Mae yn gynnwysedig o bibell mewn ffurf U, ac yn terfynu mewn dau grwnbren neu *bulb*. Mae yr un mwyaf wedi ei lanw â chymysgedd o *creosote* a dwfr. Yn y bibell gysylltiol y mae *plug*, neu ystopell fechan o arian byw, yr hwn a all symud yn rhydd yn ol ac ymlaen yn y bibell. Nid ydyw y crwnbren lleiaf ond wedi ei lanw mewn rhan â'r un hylif ag sydd yn y mwyaf, fel y mae y gwagle sydd yno yn cael ei lanw â tharth y ddau hylif hyn. Pan gymerir sylwadaethau (ac ni a dybiwn fod yr offeryn yn cael ei anfon i lawr mewn dwfr cynhes), mae y gwres yn peri i'r hylif yn y crwnbren mawr chwyddo, ac wrth chwyddo fe yr y *plug* o arian byw o'i flaen i fyny y bibell. Yn gorphwys ar yr arian byw yn y bibell, un ymhob pen, y mae dau bwyntor dur bychain, o amgylch pob un o ba rai y mae blewyn wedi ei amdroi i'w gadw yn ei le. Mae yr arian byw yn cario un o'r ddau bwyntor o'i flaen fel mae yr ymchwyddiad yn myned ymlaen, a phan dynir i fyny yr offeryn o'r dwfr mae yr hylif yn y crwnbren mwyaf yn ymgrynhoi, fel y mae yn oeri, ac mae yr arian byw drachefn yn cymeryd ei le blaenorol; tra mae y pwyntor dur wedi ei adael yn ei le yn dangos y pwynt uchaf a gyrhaeddasid gan yr arian byw, hyny yw yr ardymheredd uchaf a fydd wedi ei gyrhaedd. Ar y llaw arall, a thybied fod yr offeryn wedi ei anfon i lawr i ddwfr oer, mae yr hylif yn y crwnbren mwyaf yn ymgrynhoi, ac fe gyfyd yr arian byw yn y bibell tua'r crwnbren hwnw, gan yru o'i flaen y pwyntor arall; fel, pan mae y gwresfesurydd yn cael ei gymeryd allan a'i adael i ddychwelyd i'w ystâd flaenorol, fe adewir y pwyntor yr hwn a noda radd isaf yr ardymheredd a fydd wedi ei gyrhaedd. Pan gymerid sylwadaethau gyntaf gyda'r gwresfesurydd hunan-gofrestrol hwn, ni thybid y buasai pwysiad y dwfr yn cael unrhyw effaith ganfyddadwy ar yr offeryn; ond yn awr yr ydym yn gwybod trwy arbrofion fod y pwysiad mewn dyfnderau mawrion yn meddu effaith neillduol arno, ac fod y crwnbren gwydr yn wir yn cael ei wasgu i'r fath raddau fel y mae yr hylif yn cael ei yru i fyny i'r bibell, gan gario y pwyntor gydag ef, fel yr ymddengys y darlleniadau lawer yn

uwch nag ydyw y gwir ardymheredd. Yr ydys wedi cael trwy arbrofion fod pwysiad o dair tunnell i'r fodfedd ysgwâr yn gyru yr arian byw i fyny 8 neu 9 gradd. Mae y ffaith hon gan hyny i'w chymeryd i'r cyfrif pan wneir sylwadaethau ar yr ardymheredd. Tair tunnell i'r fodfedd ysgwâr ydyw pwysau y dwfr mewn dyfnder o 2400 o wrhydau.

Mewn amseroedd blaenorol fe gredid fod ardymheredd y dyfnfor ymhob man yn unffurf, ac mai 39° F. ydoedd. Fe dybid mai felly yr oedd oblegid, yn y lle cyntaf, y gwyddid fod dwfr croew yn ei ddwysder mwyaf pan yn 39° F., ac fe dybid fod y cyffelyb yn wir hefyd am ddwfr y môr. Fe ymddangosai fod y dybiaeth yma yn cael ei chadarnhâu yn drwyadl trwy y plymiadau ardymherawl oeddynt wedi eu cymeryd ar y pryd. Fe ddarfu i Syr James Clarke Ross, yn ngwrs ei archwiliadau, blymio mewn dyfnderoedd o 1500 a 2000 o wrhydau a chael ardymheredd o 39° F. a 40° F.; ond yr ydym yn awr yn gwybod, gan ei fod yn defnyddio gwresfesurydd an-amddiffynedig, fod yr offerynau, o herwydd pwysiad y dwfr yn y dyfnderau hyny, yn nodi 8 neu 9 gradd yn uwch nag a ddylasent wneyd. Hyd yn bur ddiweddar, gan hyny, fe dybid fod damcaniaeth a sylwadaeth yn sefydlu y ffaith fod yr ardymheredd yn ngwaelod y dyfnfor yn 39° F. ymhob man.

Pan sylwyd ar effaith pwysiad y dwfr, fe awgrymwyd trefniad tra syml er ei wrthweithio, sef fod yr offeryn yn cael ei amgau mewn clawr allanol o wydr, ac fod y clawr allanol hwnw yn cael ei lanw mewn rhan gydag alcohol a dwfr. Y rheswm am roddi y gwlybwr hwn ynddo oedd fel y gallai y gwres gael ei drosglwyddo yn rhwydd i du mewn y gwresfesurydd; a'r rheswm pam yr oedd y *bulb* allanol yma yn cael ei lanw *mewn rhan* oedd, y gallai y gwlybwr, pan yn rhoddi ffordd dan bwysiad, ymgodi i'r lle gwag heb beri unrhyw bwysiad ar wydr y gwresfesurydd oddifewn. Yr ydys wedi cael fod y trefniad yma yn ateb y dyben o amddiffyn yn hollol, ac y mae plymiadau ardymherawl tra gofalus yn awr wedi cael eu gwneuthur dros yr holl Werydd a'r Tawelog. Yr oedd y rhai a wnaent y sylwadaethau nid yn unig yn cymeryd yr ardymheredd yn y gwaelod, ond fe gymerwyd hefyd yr hyn a eilw Dr. Carpenter "serial soundings," neu blymiadau cyfresol,—hyny yw, fe anfonwyd y gwresfesurydd i lawr yn gyntaf i 100 gwrhyd, yna i 200, yna i 300, yna i 400, &c., ac felly ymlaen; fel ag y caed cyfres o ardymhereddau o'r wyneb i'r gwaelod. Mae y canlyniad yn dangos fod lleihâd rheolaidd yn yr ardymheredd, neu ei bod yn myned oerach oerach o'r wyneb i'r gwaelod, ac yn rhanau isaf y môr fod yr ardymheredd ymhob man yn hynod o isel—rhywle tua 32° F., sef pwynt rhewiad dwfr croew, yr hwn sydd 3 neu 4 gradd yn uwch na phwynt rhewiad dwfr y môr.

Fe ddaeth rhai neillduolion lleol dyddorol dan sylw wrth wneyd y plymiadau ardymherawl hyn. Y tu allan i Ynysoedd Faroe, yn ystod archwiliadau cyntaf Proffeswr Wyville Thompson a Dr. Carpenter, fe gafwyd llanerch gydag ardymheredd isel yn y gwaelod yn yr un lledred â, ac ond ychydig filldiroedd oddiwrth lanerch lle yr oedd yr ardymheredd yn y gwaelod yn llawer mwy. Yn gyfochr â'r gwahaniaeth yma mewn ardymheredd, fe gaed fod gwahaniaeth yn natur y môr-waelod, ac yn y math o fywyd anifeilaidd a ffynai yn y dyfroedd. Fel

engraifft, gellid rhoddi un dosbarth o blymiadau a gymerwyd mewn llanerchau cyfagos i'r hyn a eilw Dr. Carpenter y *Lightening Channel.* Mewn un llanerch tua'r gogledd yr oedd dyfnder y dwfr yn 604 o wrhydau, a'r ardymheredd; yn 53° F. ar y wyneb; ond wrth gymeryd y plymiadau yn ddyfnach, fe geid fod yr ardymheredd yn lleihâu yn gyson, nes yn y gwaelod nad oedd ond o 30° i 31° F. Ychydig o filldiroedd i'r de-orllewin, gyda dyfnder o 760 o wrhydau, yr oedd yr ardymheredd eto yn 53° F. ar y wyneb, ac i lawr hyd 150 o wrhydau yr ydoedd yn graddol leihâu; ond o'r dyfnder hwnw i'r gwaelod, ni cheid fod dim lleihâd pellach, ac, yn y gwaelod, yr oedd yr ardymheredd yn 43° F. Yr oedd hyn yn beth tra hynod; oblegid mewn dwy lanerch o ddim ond 20 milldir o bellder, a thua'r un dyfnder, yr oedd hinsoddau tra gwahanol yn ffynu. Yn y *llanerch oer*, fe geid fod y gwaelod wedi ei orchuddio â gro ac â darnau o graig o ffurf onglog; tra yn y *llanerch gynhes* yr oedd y gwaelod wedi ei orchuddio â gwaddodiad sydd mor gyffredin yn y rhanau cynhes o'r dyfnfor—gwaddodiad o lwtra mân, wedi ei wneyd i fyny o gregyn creaduriaid morawl tra bychain a elwir *Foraminifera.* Yr oedd y ffurfiau bywydol a gyfanneddent y llanerch oer hefyd yn hollol wahanol i rai y llanerch gynhes. Pan oedd y ddwy lanerch wedi eu mapio allan yn ofalus fe welid pam yr oedd y gwahaniaeth hwn yn bodoli. Fe geid fod y llanerch gynhes yn llwybr y *Gulf Stream*, tra yr oedd y llanerch oer yn llwybr llifrediad oer o'r gogledd. Yr ydoedd gan hyny yn hollol eglur fod natur y gwaelod yn y llanerch oer yn cael ei benderfynu gan yr amgylchiad yma, ac fod y darnau onglog wedi eu cario o'r gogledd gan rew fryniau, y rhai wrth doddi a ollyngent eu baich o falurion ar y môr-wely.

Heblaw y neillduolion hyn mae Môr y Canoldir yn dangos arweddau neillduol o ddyddordeb mawr. Mae y môr yn gorwedd i fesur mawr mewn un lledred, ac y mae ardymheredd yr arwyneb yn uchel, sef dros 70° F. O'r arwyneb i lawr hyd 100 o wrhydau, y mae disgyniad unffurf yn yr ardymheredd; ond o'r dyfnder hwnw, lle y mae yr ardymheredd yn 54° F., i lawr i'r gwaelod—hyd yn nod lle mae y dyfnder dros 2000 o wrhydau—nid oes ychwaneg o ddisgyniad yn yr ardymheredd; mae yn aros tua 54° F.

Mae y Canoldir yn cael ei ysgaru oddiwrth y Werydd gan gefnen isforawl yn Nghulfor Gibraltar. Y tu allan i'r gefnen mae yr ardymheredd yn graddol disgyn, ac yn ngwaelod y Werydd—nid ymhell oddiwrth lanau Affrica, lle mae y dyfnder yn rhyw 2000 o wrhydau—mae yr ardymheredd yn amrywio o 35° F. i 37° F. Wrth ystyried y rheswm am yr ardymheredd unffurf o 54° F. yn ngwaelod y Canoldir, fe ellid crybwyll fod Dr. Carpenter, yn ystod ei fordaith yn y môr hwnw, wedi ymweled âg ynys lle yr oedd ogof oedd yn cael y cymeriad o fod mor oer â rhew. Wedi cymeryd ardymheredd yr awyr yn yr ogof, fe gafodd ei bod yn 54° F.; yn dangos yn amlwg fod yr awyr o'r un ardymheredd a'r creigiau a wnaent ochrau yr ogof. Drachefn, yn Malta, mae y dwfr weithiau yn cael ei gadw mewn dyfrgistiau wedi eu suddo i beth dyfnder islaw yr arwyneb, ac yno fe geir fod y dwfr yn tueddu i gyrhaedd ardymheredd unffurf o 54° F.

Yn olaf, mae y sylwadaethau a gymerwyd ar ardymheredd crystyn y ddaear yn Neheudir Ewrop yn llawn gadarnhâu yr hyn a ddywedwyd.

Fe gladdwyd gwresfesuryddau yn y ddaear mewn dyfnder o 20 neu 30 troedfedd, nid yn ddigon dwfn i gael effeithio arnynt gan wres tufewnol y ddaear, ac eto yn rhy ddwfn i fod o dan ddylanwad gwres yr haul —mewn gair, allan o gyrhaedd amrywiadau y tymmorau. Wedi eu gadael am beth amser, fe'u hedrychwyd, ac fe'u caed yn dangos ardymheredd o 54° F. Mae yn amlwg mai dyma yw ardymheredd naturiol y creigiau ychydig droedfeddi islaw arwyneb y ddaear yn y rhanbarth hono. Mae yn ymddangos gan hyny fod dyfroedd gwaelod y Canoldir yn meddu ardymheredd cyson o 54° F., oblegid mai dyna, a chymeryd y flwyddyn i gyd, ydyw ardymheredd cyffredin y lledred hwnw.

Gan mai fel hyn y mae, gallem yn deg ddysgwyl fod dyfroedd gwaelod y Werydd, y tu allan i gefnen Gibraltar, ond yn yr un lledred, yn meddu yr un ardymheredd â'r Canoldir, sef 54° F., ardymheredd naturiol y lledred; ond nid felly y mae, fel yr ydys eisoes wedi dangos. Mae ardymheredd y gwaelod yno tua 35° F., tra mewn rhanau eraill o'r Werydd a'r Tawelog mae yn îs fyth, sef 32° F. Yr ydym, gan hyny, yn cael ein dwyn i'r casgliad fod cyflenwad cyson o ddwfr oer yn rhedeg hyd waelod rhanbarthau y cyhydedd; pe amgen, pe buasai y dyfroedd yn llonydd, hwy fuasent yn cyrhaedd ardymheredd naturiol y lledred. Yn awr, gan mai yr unig darddellau o ba rai y gellid derbyn y cyflenwad yma o ddwfr oer ydyw y rhanbarthau pegynol, ni a allwn yn deg gasglu—yn wir y mae y casgliad yn anocheladwy—fod îs-lifiad cyson o begynau y Gogledd a'r De ar hyd gwaelod y môr tua rhanbarthau y cyhydedd.

Dyma gan hyny y ddau ddosbarth o ffeithiau sydd i'w hesbonio.

Y dull mwyaf boddhaol o ddelio â'r mater fydd cymeryd pob achos sydd yn bosibl, ac ystyried pa mor bell y mae yn ddigonol i esbonio y ffeithiau hyn. Fe ymddengys mai yr achosion posibl a gymerwyd mewn gwahanol amseroedd i ystyriaeth ydyw y rhai canlynol. 1. Llifiad afonydd. 2. Gweithrediad y llanw. 3. Tarthiad mawr yn y Trofegau. 4. Cynnydd yn mhwysau naturiol (*specific gravity*) y dwfr yn y Trofegau, o herwydd cynnydd eu halltrwydd, mewn canlyniad i darthiad. Po halltaf fyddo dwfr, trymaf ydyw. 5. Gwahaniaeth yn mhwysau naturiol dwfr yn y pegynau a'r cyhydedd mewn canlyniad i wahaniaeth yn yr ardymheredd,—y mae dwfr cynhes yn ysgafnach na dwfr oer. 6. Gweithrediad anuniongyrchol ac uniongyrchol y gwyntoedd.

Ni a gymerwn y rhai hyn bob yn un, ac ystyriwn yn y lle cyntaf ddylanwad llifiad afonydd. Fe dybid unwaith fod y *Gulf Stream* yn ddyledus i lifiad dyfroedd o afonydd mawrion America; ond yr ydym yn awr yn gwybod nad felly y mae. Mae yn wir fod wrth eneuau yr holl afonydd mawrion bob amser redlifiad arafaidd. Mae genym brawf fod rhedlifiad dehau y cyhydedd yn cael ei fwyhâu gan ddyfroedd yr Amazon; ac yr ydym hefyd yn gwybod fod llifrediadau yn dyfod o'r Baltic â'r Môr Du, mewn canlyniad i waith afonydd yn rhedeg iddynt. Ond ni allwn droi at hyn am eglurhâd o symudiadau mawrion dyfroedd yr eigion. Mae sefydlogrwydd cyfeiriadau y llifrediadau, a'r ffaith eu bod i'w cael mewn manau lle nad oes afonydd mawrion i beri unrhyw effaith neillduol, yn ei wneyd yn eglur y rhaid

gosod yr achos hwn o'r neilldu fel yn annigonol i roddi cyfrif am y ffeithiau.

Yr un modd rhaid gosod o'r neilldu symudiadau y llanw, yr hwn sydd yn peri llifiad cyson mewn un cyfeiriad un rhan o'r diwrnod, a llifiad yn y cyfeiriad gwrthgyferbyniol y rhan arall o'r diwrnod.

Yr ydym yn dyfod yn nesaf at darthiad. Mae y Môr Coch yn rhoddi engraifft dda o lifrediad a gynnyrchir gan darthiad. Mae y Môr Coch—yn gorwedd fel y mae mewn rhanbarth boeth a diwlaw—yn ddarostyngedig i darthiad anferth, ac i gyflenwi lle y dwfr a symudir felly y mae llifrediad yn dyfod i mewn o fôr India. Yno yr ydym yn cael llifrediad trwy darthiad. Yn awr, a chymhwyso hyn at y belen ddaearol, fe welir fod tarthiad yn cymeryd lle fwyaf yn rhanbarthau y cyhydedd; pe gan hyny y byddai llifrediadau yr eigion yn ddyledus i'r achos hwnw, ni a gaem lifiad o ddwfr ar hyd yr arwyneb o'r pegynau hyd y cyhydedd. Oblegid, gan fod y dwfr yn cael ei symud trwy darthiad o barthau y cyhydedd a'i gymeryd i le arall, rhaid cyflenwi ei le gan y dyfroedd sydd yn gorwedd i'r gogledd a'r de o'r cyhydedd. Ond nid dyma y cyfeiriad ymha un mae y prif lifrediadau yn symud. Mae y *Gulf Stream*, fel y gwelsom, yn symud mewn cyfeiriad gwrthgyferbyniol, hyny yw, o'r cyhydedd i'r pegynau.

Os ymosodir ar y dyrysbwnc hwn o bwynt hollol wahanol, mae y casgliad yr un. Fe gaed fod yn bosibl amcan-fesur maint y tarthiad sydd yn myned ymlaen yn y trofegau, a hefyd faint y gwlaw-ddisgyniad. Fe ddylai y cyntaf fod yn llawer mwy na'r olaf, os ydyw yr achos y cyfeiriwn ato mewn gweithrediad, oblegid y dybiaeth a gymerir yw, fod llifrediadau o ddwfr yn dyfod i gyflenwi lle y dwfr a gymerir ymaith drwy darthiad.

Oddiwrth sylwadaethau a wnaed rai blynyddoedd yn ol yn St. Helena, fe ymddengys mai cyfartaledd tarthiad blynyddol y dwfr yn y lle hwn ydoedd 83·78 o fodfeddi; hyny yw, pe buasai padell ddofn o ddwfr wedi ei gadael yn agored i'r awyr am flwyddyn gyfan, fe safai arwyneb y dwfr 83·78 o fodfeddi yn is ar ddiwedd y flwyddyn nag ar ei dechreu. Oddiwrth y sylwadaethau hyn, gan ein bod yn gwybod lledred St. Helena, yr oedd yn hawdd cyfrif mai cyfartaledd y tarthiad blynyddol dros yr oll o'r cylch poeth, *torrid zone*, ydoedd 85·05 o fodfeddi.

Y pwynt nesaf yn y ddadl a fyddai amcan-fesur maint y gwlaw-ddisgyniad yn y cylch poeth pe buasai yr holl 85·05 o fodfeddi a derthid yn cael ei ddwyn ynghyd a'i arllwys drachefn fel gwlaw yn y cylch hwnw. Yn awr, a chofio fod un ran o bedair o arwyneb y cylch poeth yn dir, a thair rhan o bedair yn ddwfr, mae yn amlwg fod yr 85·05 o fodfeddi o ddwfr wedi ei darthu o'r tair rhan o bedair o'r arwyneb, tra y disgynai yr 85·05 o fodfeddi yn y ffurf o darth wedi ei wneyd yn wlaw yr un modd dros yr holl arwyneb: gan hyny rhaid fod gwlaw-ddisgyniad yr amcangyfrif un ran o bedair yn llai na'r tarthiad, hyny yw yn 63·79 o fodfeddi.

Mae yn aros yn unig i gymharu yr amcangyfrif yma o wlaw-ddisgyniad, ar y dybiaeth fod yr oll o'r tarth a esgynai yn y cylch poeth yn cael ei arllwys drachefn yn wlaw yn y cylch hwnw, gyda y gwlaw-ddisgyniad fel y mesurwyd ef.

Y mae sylwadaethau wedi eu cymeryd mewn 110 o orsafau cyfandirol yn y trofegau rhwng lledred 35° G. a 28° D., ac mewn 17 o orsafau ynysig, oddiwrth ba rai fe gyfrifwyd fod cyfartaledd gwlaw-ddisgyniad cyfandirol y trofegau yn 64 neu 65 o fodfeddi.

Yn awr y gwlawddisgyniad yn ol yr amcanfesur ydoedd 63·79,—ymron yn hollol yr un â'r gwlaw-ddisgyniad a fesurwyd; gan hyny y mae yn eglur fod yr holl ddwfr a derthir yn y trofegau yn disgyn yn wlaw yn yr un rhanbarth, fel nad oes y fath symudiad o ddwfr ymaith o'r arwyneb trwy darthiad ag a barai lifrediad o lanerchau pellenig.

Awn rhagom yn awr i ystyried y pedwerydd achos a awgrymwyd. Pan mae dwfr yn cynnwys halen mewn ymdoddiad yn cael ei boethi, nid oes ond tarth pur o ddwfr yn cael ei roddi ymaith, fel mai effaith tarthiad ydyw gwneuthur dwfr hallt, megys dwfr y môr, yn fwy cydgrynöedig neu ddwys, ac am hyny, swm am swm, yn drymach. Mae yn amlwg gan hyny, pan mae tarthiad yn myned ymlaen oddiar wyneb y môr mewn rhanbarthau cynhes, fod haen yr arwyneb yn dyfod yn fwy cydgrynöedig, ac mewn canlyniad yn ddwysach; ac fel y tuedda dwfr tewach yr arwyneb i suddo, fe lifa y dwfr teneuach i'r arwyneb i gymeryd ei le. Y mae genym engraifft o hyn yn y Môr Coch. Mae tarthiad mawr y rhanbarth hwnw yn mwyhâu halltrwydd dwfr yr arwyneb, yr hwn, wedi hyny, sydd yn suddo i'r gwaelod ac yn rhedeg allan o'r môr fel is-lifiad, tra y mae dwfr llai hallt Môr India yn rhedeg i mewn fel llifrediad yn yr arwyneb. Mae y ddadl a ddefnyddid wrth ymwneyd â'r achos blaenorol yn llawn mor gymhwysiadwy i'r achos yma hefyd, hyny yw, pe yr achos yn awr dan ystyriaeth fuasai yr un y mae y llifrediadau mawrion yn ddyledus iddo, ni a ddylasem gael fod cyfeiriad eu rhediad o'r pegynau i'r cyhydedd.

Rhaid peidio anghofio, fodd bynag, mewn dwfr o helltni cymedrol, fel dwfr y môr, y byddai y cynnydd mewn dwysder mewn canlyniad i darthiad yn bur fychan, fel er y gallai fod tueddiad at ffurfio llifrediad, fe allai gweithrediad nerthoedd gwrthwynebol—fel yn ddiammeu y mae yma—yn gwbl ei wrthweithio, ac ni chymerai symudiad le. Er nad oes dim llifrediad canfyddadwy yn dyfod oddiwrth hyn, y mae sylwadaethau y llyngesgyrch o Norway i Fôr y Gogledd yn dangos fod dyfroedd y gwaelod yn llwybr y *Gulf Stream* wedi suddo o'r arwyneb yn y rhanbarthau hyny, o herwydd fod dyfroedd cynhesach y *Gulf Stream* ychydig yn fwy dwys na'r dyfroedd pegynol oerach islaw.

Yr achos posibl nesaf i'w ystyried ydyw y gwahaniaeth mewn pwysau naturiol yn codi oddiar wahaniaeth ardymheredd. I wneyd yn eglur ddull gweithrediad yr achos hwn fe fydd yn fanteisiol cymeryd cymhariaeth. Os tywelltir ddwfr i bibell wydr o ffurf y llythyren U, fe saif y dwfr yn yr un lefel ymhob un o'r ddwy ochr; oblegid dan weithrediad dysgyrchiad, os na fyddai y pwysau o bob ochr yr un faint, fe gymerai symudiad le yn y dwfr nes bod cydbwysedd perffaith wedi ei sefydlu. Yn awr, tybier, tra mae y dwfr yn sefyll yn yr un lefel ar bob ochr, bod gwahaniad (*partition*) bychan yn cael ei osod o fewn y bibell yn y gwaelod rhwng yr ochrau, ac yn hollol ysgaru y naill ran oddiwrth y llall. Mae yn amlwg y byddai pwysiad y dwfr o bob ochr i'r gwahaniad yn union yr un faint. Yna tybier ein bod yn gosod y dwfr mewn un ochr dan ddylanwad gwres, fe bâr y gwres i'r dwfr

chwyddo; ac fe fydd lefel y dwfr yr ochr hono yn uwch. Yn awr os oerwn y dwfr yn yr ochr arall, ac felly beri iddo gydgrynhoi nes bod ei lefel yn îs, beth fydd y canlyniad? Mae yn amlwg nad ydym wedi newid ammodau cydbwysedd; mae y pwysiad yn yr ochr ymha un y mae y dwfr wedi chwyddo eto yr un â'r pwysiad yn y llall lle mae y dwfr wedi cydgrynhoi; mae y pwysiad ar bob ochr i'r gwahaniad, gan hyny, yn aros yr un. Os yn awr yr agorwn fynedfa rhwng y ddwy ochr trwy bibell groes fechan, ni a welwn y dwfr oedd wedi chwyddo yn rhedeg i lawr i'r ochr oedd wedi crynhoi, ac felly yn peri pwysiad ychwanegol ar un ochr i'r gwahaniad. Yn awr pe symudid y gwahaniad, fe gymerai symudiad ar unwaith le er adferu cydbwysedd, fel os parhaem i gynhesu y dwfr ar y naill ochr, ac i'w oeri ar y llall, ni a allem gadw i fyny y cylchrediad cyhyd ag y mynem. Ni a gymhwyswn yr eglurhâd yna yn awr at yr eigion. Mae y dwfr cynhes—ac am hyny chwyddedig—yn rhanbarthau y cyhydedd, tra mae y dwfr oer crynöedig, yn rhanbarthau y pegynau. Os ydyw yr achos yma gan hyny yn gweithredu, ni a ddylem gael symudiad yn yr arwyneb o ranbarthau y cyhydedd tuag at y pegynau, ac ol-lifiad yn y gwaelod oddiwrth y pegynau at y cyhydedd. Mae yr achos yma ynte yn gweithredu yn eglur yn yr iawn gyfeiriad. Y mae genym yn awr i ystyried pa un a ydyw yn ddigonol i beri y fath lifrediadau mawrion ag a geir yn yr eigion. Rhaid cadw mewn cof fod yr effaith yn y bibell yn cael ei gynnyrchu yn gwbl trwy weithrediad dysgyrchiad ar y ddwy golofn, a'i fod yn ddyledus i'r gwahaniaeth lefel a gynnyrchir gan weithrediad gwres ac oerni ar y dwfr. Ymhellach, gyda golwg ar yr eigion, rhaid cofio nad ydyw y dyfroedd yn cael eu poethi o'r gwaelod, fel yn achos y bibell, ond mai haen yr arwyneb sydd dan weithrediad poethawl yr haul. Y mae plymiadau ardymherawl wedi dangos nad ydyw y dwfr yn rhanbarthau y cyhydedd a ellir alw yn gynhes, yn ffurfio ond haen deneu ar yr arwyneb, tra y mae corff mawr y dwfr ymron mewn ardymheredd mor isel ag yn y pegynau. Oddiwrth y sylwadaethau hyn fe gaed bod yn bosibl cyfrif y gwahaniaeth yn uchder dyfroedd y cyhydedd a'r pegynau sydd yn codi oddiar wahaniaeth ardymheredd. Fe wnaed hyny rai blynyddoedd yn ol gan Syr John Herschell, yr hwn a amcandybiai na fuasai gogwydd yr eigion yn codi oddiar yr achos hwn yn ddim ond tua $\frac{1}{32}$ o fodfedd ymhob milldir. Y mae Dr. Croll wedi ail wneyd yr un arbrofion, ac yn ol ei gyfrif ef y mae y gogwydd gryn lawer yn llai. Casgla efe y byddai uchder colofn y cyhydedd uwchlaw colofn y pegynau yn 4 troed. 6 mod. Byddai gwahaniaeth felly, yn cael ei gymeryd dros 6200 o filldiroedd—y pellder o'r pegynau i'r cyhydedd—mor fychan fel ag i fod yn ymarferol yn anghanfyddadwy, a gwnai ogwydd mor ddibwys fel nad allai dim a ellid alw yn llifrediad gael ei gynnyrchu ganddo. Gan hyny yr ydym yn rhwym o wrthod hyn fel achos symudiadau mawrion yr eigion. A phan ystyriwn fod yr achos hwn yn uniongyrchol wrthgyferbyniol i'r rhai blaenorol, fe welir nad oes sail ddigonol dros gyfeirio symudiadau mawrion dyfroedd yr eigion i weithrediad gwahaniaeth ardymheredd.

Yr ydym yn awr wedi ein gadael gyda'r achos olaf, gweithrediad uniongyrchol y gwynt. Fod gwyntoedd yn alluog i gynnyrchu symudiadau yn y dwfr sydd dra adnabyddus. Mae y cynnydd yn uchder

y llanw ar yr arfordir deheuol, pan y mae gwynt cryf i'r de-orllewin yn chwythu, yn brawf o hyny. Fe gofnodir gan Major Rennel bod llyn 10 milldir o led, ac yn gyffredin ddim ond 3 troed. o ddyfnder, a'i ddyfroedd gan wynt cryf wedi eu gyru i un ochr a'u dal i fyny fel ag iddo ddyfod yn 6 troed. o ddyfnder, tra yr oedd ochr y gwynt wedi ei gadael yn sech. Mae digonedd o enghreifftiau o'r natur yma yn adnabyddus. Yr ydoedd yn arferiad gynt i briodoli llifrediadau neillduol i weithrediad gwyntoedd neillduol; ond mae y mater yn awr yn cael ei drin gan faentumwyr damcaniaeth y gwynt mewn dull llawer mwy athronyddol. Daliant fod cyfundrefn y llifrediadau yn ddyledus i gyfundrefn o wyntoedd sydd yn ffynu oll gyda'u gilydd, ac na allwn ddidoli llifeiriant neillduol a dywedyd ei fod yn ddyledus i unrhyw wynt neillduol. Pan gymherir cyfeiriad y gwyntoedd â'r llifrediadau, fe'n tarewir gan y cyfatebrwydd hynod sydd rhyngddynt. Os nodir ar fôrlen (*chart*) gyfeiriad y llifrediadau gyda saethnodau hirion, a chyfeiriad y gwyntoedd gyda saethnodau byrion, fe sylwir ar unwaith eu bod ymhob man yn cymeryd yr un cyfeiriad.

Y mae amgylchiad tra nodedig yn cymeryd lle pan y mae y *Gulf Stream* yn cyfarfod llifrediad oer o'r pegwn y tu allan i arfordir Spitzbergen, yr hwn a ymddengys yn anesboniadwy ond ar ddamcaniaeth y gwynt. Mae dyfroedd cynhes y *Gulf Stream* yn myned islaw dyfroedd oerach y llifrediad pegynol, ac yn parhâu y cwrs tua'r gogledd islaw yr arwyneb, tra y mae dyfroedd y llifrediad pegynol yn myned islaw y *Gulf Stream*, ac yn myned rhagddynt tua'r de fel llifrediad ar y gwaelod. Mae cymhlethiad y ddau lifrediad wedi ei gasglu oddiwrth sylwadaethau ardymherawl. Fe gafodd Mr. Leigh Smith, oddiwrth sylwadaethau a wnelsid i'r gogledd o gyfarfyddiad y llifrediadau, fod yr ardymheredd mewn dyfnder o 500 o wrhydau yn 52° F., tra yr oedd y dwfr yn yr arwyneb yn 32° F.; fel yr oedd y dwfr cynhes, ac am hyny ysgafn, wedi ymsuddo o dan y llifrediad oerach a'i cyfarfyddai. Mae yn amlwg, gan hyny, fod achos yn gweithredu yma sydd yn fwy nerthol na'r gwahaniaeth mewn dwysder. Beth ydyw yr achos hwn? Mae cymhlethiad y llifrediadau yn cymeryd lle yn y pwynt lle y mae y ddau ddosbarth o wyntoedd yn cyfarfod, sef yr *anti-trade winds* i'r de-orllewin yn chwythu yn yr un cyfeiriad â'r *Gulf Stream*, a'r gwyntoedd pegynol o'r gogledd i'r gogledd-ddwyrain yn yr un cyfeiriad â'r llifrediad pegynol. Ni all y llifrediad pegynol fyned hyd yr arwyneb, am fod yr *anti-trade wind* yn pwyso yn ei erbyn ac yn ei yru yn ol, tra y mae y *Gulf Stream* yn cael ei chyfarfod yn ei chwrs gan y gwyntoedd pegynol o'r gogledd-ddwyrain, yn dyfod o'r cyfeiriad gwrthwynebol. Yr unig ffordd gan hyny y gall y llifrediadau basio ydyw trwy i'r naill ymsuddo o dan y llall, fe y cawn eu bod yn gwneyd. Ar ddamcaniaeth y gwynt am lifredialdau mae yr ymddangosiad tra neillduol hwn fel hyn yn cael ei esbonio mewn ffordd hynod o foddhaol. Gallwn gan hyny yn deg gasglu fod llifrediadau mawrion yr eigion yn ddyledus i'r cyfundrefnau o wyntoedd sydd yn ffynu.

Yn awr y mae genym i ymwneyd âg is-lifrediad araf yr eigion o'r pegynau i ranbarthau y cyhydedd. Pe cymerem yr achosion ydym wedi bod yn ystyried y naill ar ol y llall, byddai raid i ni wrthod y cyntaf, yr ail, a'r trydydd, am eu bod yn peri canlyniadau fyddent yn

gwbl i'r gwrthwyneb i'r hyn ydym yn gael. Mae gwahaniaeth pwysau naturiol, yn codi oddiar newidiad ardymheredd, yn achos sydd yn amlwg yn gweithredu yn yr iawn gyfeiriad, a dalia Dr. Carpenter fod yr is-redlifiad araf o ddwfr oer o'r pegynau tuag at ranbarthau y cyhydedd yn ddyledus i weithrediad yr achos hwn. Y mae dadl wedi bod yn cael ei chario ymlaen ynghylch y mater am lawer o flynyddoedd, ac nid ydyw eto wedi ei llawn derfynu. Y mae Dr. Croll, amddiffynydd yr ochr wrthwynebol, yn dal y rhaid, ar wahan i'r achos yma o ardymheredd, fod is-lifiad o ddwfr oer mewn canlyniad i fodolaeth llifrediadau yn yr arwyneb; oblegid gan fod y dwfr yn cael ei gario hyd yr arwyneb i ranbarthau pegynol, ac nad ydyw yn dychwelyd hyd yr arwyneb, rhaid ei fod yn gweithio ei ffordd yn ol fel is-lifiad.

Gellid dynodi yr egwyddor fel yma: "A chymeryd cyfundrefn sefydlog o gylchrediad parhâus mewn unrhyw fôr, os tybir fod unrhyw wastad unionsyth *(vertical plane)*, yn cael ei dynu ar draws y môr hwnw, rhaid fod symiau cyfartal o ddwfr yn rhedeg o dde i aswy ac o aswy i dde ar draws y gwastad hwnw mewn amser penodol." Os cymerwn y fath linell o Labrador i Iceland, mae swm y dwfr a gymerir i'r gogledd, yn benaf gan y *Gulf Stream*, tua'r pegynau yn 37·19 o filldiroedd cubig yr awr, tra y mae llifrediad Labrador sydd yn rhedeg i'r de yn cario swm o 32·28 o filldiroedd cubig yr awr. Gan hyny yr ydym yn cael fod y *Gulf Stream* yn cario tua 5 o filldiroedd cubig yr awr i'r rhanbarthau gogleddol yn fwy nag sydd yn cael ei gario oddiyno. Yn awr, gan nad all fod cydgasgliad anmhenodol o ddwfr yn y rhanbarthau pegynol, rhaid fod is-lifiad yn ol mewn dyfnder goris yr arwyneb. Gan fod yr achos o ardymheredd yn tueddu i weithredu yn yr un cyfeiriad, gallem yn deg briodoli y canlyniad i weithrediad cyfunol y ddau achos hyn.

Fe ymddengys gan hyny fod symudiadau yr awyrgylch a'r eigion wedi eu cysylltu â'u gilydd yn y modd agosaf, ac mai achos eithaf yr holl symudiadau hyn ydyw gwres yr haul yn disgyn ar belen, ffurf pa un, yn gyfunedig â'r dosbarthiad afreolaidd o dir a dwfr, sydd yn arwain i'r fath amrywiadau yn mhoethiad yr awyrgylch fel y mae symudiadau penodol—y gwyntoedd—yn cael eu hachosi, a'r gyfundrefn o wyntoedd, fel y gwelsom, ydyw prif achos cylchrediadau yr eigion.

R. D. ROBERTS.

# YR ELFEN ORUWCHNATURIOL YN HANES YR EGLWYS.

Y MAE dyn ymhob oes a gwlad yn greadur sydd yn credu mewn rhyw fath o grefydd. Y mae lliosogrwydd temlau ac allorau, defodau glanhäol ac aberthau, yn tystio fod argyhoeddiad o fodolaeth rhyw dduw neu dduwiau, teimlad o gyfrifoldeb iddynt, ac ymwybyddiaeth o'i bechadurusrwydd, wedi treiddio yn ddwfn i'w enaid. Nid yw esboniad Mr. Herbert Spencer ar darddiad cyntaf yr arferiad o aberthu yn taflu goleuni ond ar ychydig iawn o ffeithiau, sef aberthau dynol yn unig. "Y mae ystyr gyntaf aberthau dynol, sydd heb hyny yn weddol glir, yn dyfod yn hollol glir wrth ganfod, lle y mae canibaliaeth eto yn ei rwysg, a lle mai y rhai sydd yn bwyta fwyaf o gnawd dynol ydyw y penaethiaid, ei fod yn cael ei gredu fod y penaethiaid hyn wedi iddynt gael eu dwyfoli pan yn marw, yn y dyfodol yn ymborthi ar eneidiau y rhai ymadawedig—oblegid ystyrid yr eneidiau fel dyblygiadau yr un mor faterol a'r cyrff i ba rai y perthynent."*

Ni buasai y ddefod o aberthu mor gyffredinol nac yn parhâu am amser mor faith oni b'ai fod rhyw achos arosol yn ei chynnal, sef dwfn deimlad dyn o'i bechadurusrwydd. Ond er fod gan bob cenedl ryw fath o syniad am dduw neu fodau anweledig, y mae y syniadau hyny yn y byd paganaidd mor dywyll ac isel fel mai prin y maent yn deilwng o'r enw crefydd o gwbl. Y mae hanes gau grefyddau y byd, hyd y gellir eu holrhain yn ol a'u hastudio yn ngwyll boreuddydd hanesiaeth, yn profi rhai gwirioneddau pwysig, ac yn eu mysg y rhai canlynol.

1. Nad oes dim tuedd mewn cenedloedd i ymddyrchafu a gwella yn eu syniadau crefyddol a moesol, pan adewir iddynt i ddibynu yn gyfangwbl ar nerth eu galluoedd a'u cynneddfau eu hunain. Nid oes dim cynnydd a dadblygiad i'w ganfod yn syniadau crefyddol y byd Paganaidd. Er y gallai cenedloedd Paganaidd yr hen fyd ymffrostio eu bod yn meddu dynion o athrylith gref, y mae eu hanes yn profi nad oedd eu beirdd, eu hathronyddion, a'u celfyddydwyr ddim yn alluog i ddwyn y werin i goleddu syniadau dyrchafedig am Dduw. Y mae hanes yr Aipht, Groeg, a Rhufain, yn profi y gall dyn gyrhaedd dysgeidiaeth uchel a gwybodaeth eang, ac eto barhâu mewn tywyllwch dudew am egwyddorion mawrion moesoldeb a natur sanctaidd Duw. Adeiladodd yr Aiphtiaid demlau, pyramidiau, a phalasdai mor eang ag ardderchog fel na cheir eu cyffelyb yn yr holl fyd. Gorchuddia un o'r pyramidiau dywedir dair ar ddeg o aceri o dir. Y mae un ochr iddo yn gymaint â hyd Westminster Abbey unwaith a hanner, a'i uchder yn 479 troedfedd, neu 100 troedfedd yn uwch na phen Eglwys St. Paul. Yr oedd temlau Luxor a Karnak yn Thebes yn fawreddog tu hwnt i

* *Sociology*, p. 106.

ddesgrifiad. Ond yn ymyl y profion hyn o allu, medr, a diwydrwydd er gwneyd cynnydd mewn athroniaeth a chelfyddyd, dengys eu cerfluniau fod yr Aiphtiaid yn ymdreiglo yn y ffurfiau isaf o eilunaddoliaeth. Yr oedd urdd offeiriadol rwysgfawr yn cael ei chynnal gan y llywodraeth i ddwyn ymlaen addoliad bwystfilod, ymlusgiaid, a thrychfilod. Fel celfyddydwyr yr oeddynt wedi esgyn yn uwch mewn rhai ystyriaethau nag un genedl arall. Pe na buasai genym yr un prawf o hyn ond teml ardderchog Edfou, buasai yn ddigon i brofi gwirionedd y gosodiad. Safai y deml hon 60 milldir o Karnak. Mesurai 480 o droedfeddi o hyd, a 212 o led. Saif dau dŵr uchel, un o bob tu i'r fynedfa i lys y deml, ac y mae y rhai hyn wedi eu haddurno â cherfiadau cywrain, wedi eu gweithio yn yr arddull uchaf o gelfyddyd. Mewn gair, brithir gwlad yr Aipht âg adeiladau eang, cedyrn, a thra ardderchog. Mewn adeiladaeth a cherfluniaeth, safai yr Aiphtiaid ar ben y rhestr ymysg cenedloedd yr hen fyd. Ond a ddarfu iddynt wneyd cynnydd cyfatebol mewn moesoldeb a chrefydd? Nis gallwn ateb yn well nag yn ngeiriau Clement o Alexandria:—"Ymysg yr Aiphtiaid amgylchynir y temlau gan lwyni a phorfeydd cysegredig; perthyna iddynt gynteddau, ac amgylchynir eu neuaddau â cholofnau dirif; y mae eu muriau yn dysgleirio gan farmor o wledydd tramor ac arluniau meistrolgar; y mae y deml yn llachar-ddysglaer gan aur, arian a gwefraur (*electrum*), ac wedi ei britho â meini o India ac Ethiopia; y mae y gafell gysegredig wedi ei gorchuddio gan len wedi ei gweithio mewn aur. Ond os ewch y tu hwnt iddi i'r rhan bellaf o'r adeilad, gan brysuro i weled rhywbeth mwy ardderchog eto, ac i chwilio am y ddelw sydd yn trigo yn y deml, daw Rastophorus, neu rhyw un arall o'r rhai sydd yn gweini mewn pethau cysegredig ymlaen mewn agwedd rwysgfawr, gan ganu mawl, a gwthio o'r naill du ran o'r llen, fel pe b'ai yn myned i ddangos y duw i ni: ond y mae yn peri i ni dori allan i chwerthin yn uchel. Oblegid nid oes yr un duw o'r tu fewn, ond cath, neu grocodil, neu sarph wedi tarddu o'r pridd, neu rhyw greadur anifeilaidd cyffelyb. Ymddengys y duw Aiphtaidd yn y ffurf o fwystfil wedi ymdrochi mewn gorchudd porphoraidd." Wele esiampl o genedl yn gwneyd cynnydd mewn medrusrwydd celfyddydol, ac ar yr un pryd yn suddo i gyflwr o farbareidd-dra yn ei syniadau am Dduw. Nid anifail-addoliaeth oedd crefydd wreiddiol yr Aipht. Llithro i mewn ddarfu iddo, a ffynai mor foreu â theyrnasiad brenhinoedd y bedwaredd linach ar bymtheg, neu oddeutu amser Moses.

2. Mai y math cyntaf o grefydd a ffynai ymysg dynolryw oedd, nid aml-dduwiaeth, na holl-dduwiaeth ond un-dduwiaeth (*monotheism*). Dadleuir gan bleidwyr dadblygiad fod holl drigolion y byd ar un adeg mewn cyflwr hollol farbaraidd. Nid oeddynt y pryd hwnw ymhell uwchlaw yr epa. Maentumia un gŵr dysgedig, Oscar Schmidt, fod dynolryw unwaith oll yn perthyn i hil heb ymranu yn genedloedd, a'r pryd hwnw nad oeddynt yn meddu ar iaith, ond tybia eu bod wedi cyrhaedd yn ddigon uchel mewn dadblygiad i allu siarad yn y gwledydd o amgylch Môr y Canoldir o leiaf 12,000 o flynyddoedd yn ol. Pe buasai dadblygiad yn ffaith, oni buasai syniadau dynion am Dduw yn uwch yn awr nag mewn oesau cyntefig? Buasem yn dysgwyl i syniadau cyntaf cenedloedd am Dduw fod yn isel a daearol—y fath ag a fuasem yn

ddysgwyl oddiwrth blant yn hytrach nag oddiwrth ddynion. Cwestiwn ag sydd yn esgor ar ganlyniadau pwysig yw, Pa bryd yn ei hanes y mae gan genedl Baganaidd y syniad uchaf am Dduw? Os yn ddiweddar yn ei hanes y mae yn d'od o hyd i'r fath syniad, gall fod yn gynnyrch ymchwiliad, cynnydd, a dadblygiad; ond os ceir fod y fath syniadau yn ffynu yn dra boreu, o ba le y daethant? Gan nad ydym ni yn gymhwys i roddi atebiad i'r cwestiwn pwysig hwn, nid oes genym ond dyfynu barn dynion dysgedig, y rhai sydd wedi treulio amser maith i astudio cyfundrefnau athronyddol a chrefyddau y byd Paganaidd. Cymerer gwlad yr Aipht; pa ffurf oedd ar grefydd yr Aipht yn moreuddydd ei hanesiaeth? "Gallai," ebai y Parch. Edward Lightfoot, "nad ymddengys yn bur glir y camrau trwy ba rai y cyrhaeddwyd eilunaddoliaeth isel a ffiaidd yr Aipht mewn dyddiau diweddarach; ond fe ymddengys fod prawf gweddol gadarn mai un duw ar y cyntaf oedd gwrthddrych eu haddoliad, yr hwn hefyd a ystyrid yn hunan-hanfodol a thragywyddol. Mae rhai yn gosod Knepp yn oruchaf ymhlith duwiau yr Aipht, ac fe siaredid am dano fel yr 'Ysbryd heb ddechreu na diwedd:' darn o wirionedd wedi ei dori oddiwrth ei gysylltiad priodol." Drachefn sylwer ar y ffaith ganlynol: "Ymhellach y mae Plutarch yn son am arysgrif ar deml yn Säis, yn yr Aipht Isaf, un o'r dinasoedd Aiphtaidd mwyaf henafol, ac un o'r porthladdoedd cyntaf i agor cymundeb â Deheudir Ewrop trwy Groeg. Rhedai fel hyn: 'Ydwyf yr oll ag oedd, sydd, ac a fydd, a fy ngorchudd ni chododd dyn erioed.' Yr oedd y deml a ddaliai y geiriau hyn yn adeilad anferth ddi-dô, ac wedi ei chyflwyno i Neith, morwyn-dduwies fawr yr Aipht. Fe ddywedir fod ei henw yn dwyn yr ystyr neillduol, 'Daethum o honof fy hun.'"*

Drachefn wele brofion eglur a chedyrn eraill o'r ffaith mai undduwiaeth oedd crefydd wreiddiol yr Aipht, ac mai suddo yn raddol i anifail-addoliad ddarfu yr Aiphtiaid:—"Nodwedd arbenig gyntaf crefydd yr Aipht," meddai M. De Rouge, "ydyw unoliaeth Duw, a dadgenir hyn yn y modd cryfaf." Fel prawf o hyny dyfyna y fath ymadroddion â'r rhai hyn: "Duw—un, unig, ac ar ei ben ei hun; dim arall gydag Ef." "Efe yw yr unig fôd, sydd yn fyw mewn gwirionedd." "Ti ydwyt un, a miliynau o fodau a ddeilliant o honot." "Efe a wnaeth bob peth, ac Efe yn unig ni wnaethpwyd." Ar risiau yn y *British Museum* fe ellir gweled papyrfrwyn sydd yn siarad am "Y Duw Mawr." A gofyna Renouf, "Pa le y cawn y fath weddi yn oesoedd Paganaidd Groeg a Rhufain ag ydyw hon: 'O fy Nuw a'm Harglwydd, yr hwn a'm gwnaethost ac a'm ffurfiaist, ac a roddaist i mi lygad i weled a chlust i glywed dy ogoniant.' 'Henffych i ti,' meddai argraffiech yn y *British Museum*, 'Arglwydd Heliopolis, hunan-hanfodol, heb enedigaeth, unig Dduw, yr hwn a reoli y byd isod, ac a roddi ddeddfau i'r rhai sydd yn Amenti, ac i'r rhai sydd yn ngwasanaeth Ra.'"

Os nad yw y dyfyniadau uchod yn ddigon i argyhoeddi y darllenydd mai un-dduwiaeth oedd crefydd wreiddiol yr Aipht, myfyried uwch ben y syniadau aruchel a gynnwysir yn yr ymadroddion a ganlyn: "Mewn papyrfrwyn sydd yn Turin, mae y geiriau canlynol yn cael eu gosod yn

* *Ancient Egypt*, p. 66.

ngenau yr hollalluog Dduw, yr hunan-hanfodol, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear, y dyfroedd, ac anadl bywyd, tân, y duwiau, dynion, anifeiliaid, bwystfilod, ymlusgiaid, adar, pysgod, brenhinoedd: 'Myfi yw gwneuthurwr nefoedd a daear; myfi sydd yn dyrchafu ei mynyddoedd a'r creaduriaid sydd arni; ac yn gwneyd y dyfroedd a'r Mehura a ddaw i fod. . . . Myfi yw gwneuthurwr y nefoedd a dirgeledigaethau y terfyngylch dyblyg. . . . Pan agorwyf fi fy llygaid y mae goleuni; pan gauwyf hwynt y mae tywyllwch. Yr wyf yn gwneyd yr oriau, ac mae yr oriau yn dyfod i fodolaeth. Ydwyf ddoe, ydwyf heddyw, ydwyf yfory.' " *

A'r hyn sydd wir am yr Aipht sydd hefyd yn wir am Persia. Dyma yr athrawiaeth a gynnwysir yn y casgliad o ysgrifeniadau a elwid y Zendavesta, y rhai sydd yn perthyn i gyfnod tra boreu yn hanes y wlad: "Y Tragywyddol, neu amser heb derfynau, a gynnyrchodd Ormuzd, Y Bôd goruchaf bur a da. Efe yw y goleuni a'r gair creadigol."† Wele ddyfyniad o'r rhan fwyaf henafol o'r Ysgrythyrau Persiaidd. Ymysg pethau eraill dywed y Salmydd Persiaidd: "Yr wyf yn cyhoeddi dau ysbryd gwreiddiol y byd—y naill yn hael a'r llall yn ddrygionus . . . . . dau efaill, y naill a'r llall yn meddu eu hansoddion eu hunain—y naill yn dda, y llall yn ddrwg, mewn meddwl, gair a gweithred. Mae deddf yr ysbryd drygionus yn ddrwg. Arha ydyw deddf yr ysbryd hael, gwisg yr hwn ydyw maen caled y nefoedd. Yn nherfyn y byd uffernol y bydd trigfa y drygionus. Y dyn da a ddilyna yr Arha, efe, O Ahura Mayda, a fydd dy gydymaith bendigedig."‡

Y mae China yn awr yn un o'r gwledydd mwyaf eilunaddolgar yn y byd, ond bu cyfnod arni hithau pan yr oedd ei thrigolion yn cydnabod bodolaeth un Duw, Creawdwr a Rheolwr pob peth. "Ond gwrthddrych uchaf addoliad ymysg y Chinëaid oedd Shangte, yr hwn a ddeuai yn nês at y drychfeddwl o'r Duw Hebreig na'r oll o'u duwiau. Yr oedd y nefoedd yn uchel a mawr, ond llywodraethai Shangte y nefoedd a'r ddaear. Trwy ei ffafr ef y llywodraethai brenhinoedd, ac y llwyddai cenedloedd, ac yn ol ei ordeiniad ef y dymchwelid gorseddfeinciau ac y darostyngwyd teyrnasoedd. Fel y llywodraetha brenin daearol dros deyrnas, felly y mae Shangte yn arglwyddiaethu ar y nefoedd asur. Addoliad Shangte ydyw y ffurf fwyaf henafol yn gystal â'r un fwyaf cysegredig o addoliad Chinëaidd. Yn ystod teyrnasiad Hwang-te (C.C. 2697) fe godwyd teml er anrhydedd iddo, a chanrif yn ddiweddarach fe ychwanegwyd cerddoriaeth at y defodau a gyflawnid wrth ei allor. Arno ef y gweddïid ymhob amgylchiadau pwysig, ac yn ngolwg yr Ymherawdwr a'r bobl fe ymddangosai fel Duw personol, yn cyfarwyddo eu ffyrdd, yn eu dal dan eu hanhawsderau, ac yn eu ceryddu am eu beïau. Pan ddymchwelodd T'ang, sylfaenydd teyrnach Shang (C.C. 1766) y drygionus Kee, llywodraethwr olaf teyrnach Hea, amddiffynai ei hun rhag y cyhuddiad o wrthryfel trwy wneuthur dadganiad cyhoeddus, yn yr hwn y dywedai: 'Yr oedd brenin Hea yn droseddwr, ac fel yr ydwyf yn ofni Shangte ni feiddiaf beidio ei gosbi.' Drachefn,

* Rev. Marcus Dods, D.D., *The Religion of Ancient Egypt.* † Dr. Henry, *History of Philosophy.* ‡ Rev T. Milne, M.A., *Religion of Persia.*

gan lefaru wrth ei bobl, dywed: 'Y da ynoch ni feiddiwn gelu, ac am y drwg ynof fi ni feiddiwn faddeu i mi fy hunan. Mi a chwiliaf i'r pethau hyn yn ol meddwl Shangte.'" *

Gellir crybwyll ffeithiau llawn mor gedyrn o blaid ffyniant y grediniaeth mewn un-dduwiaeth ymysg cenedloedd eraill. Pa fodd y cydsaif ffyniant y fath grediniaeth â dysgeidiaeth y gwyddonwyr a fynant i'r byd gredu fod holl ddynolryw yn moreuddydd eu hanesiaeth mewn cyflwr hollol farbaraidd? Ac onid yw y rhai hyn yn profi mai nid codi yn uwch ond suddo yn îs y mae dyn yn ei syniadau am Dduw, heb ryw ymyriad goruwchnaturiol?

Y mae olion crefydd ar enaid dyn, fel y gwelir olion sylfaen tŷ ar aml i faes. Fe allai eu bod wedi eu gorchuddio gan bridd, a'r dywarchen las wedi tyfu drostynt. Gwelir gwas y ffarmwr â'i ddwylaw ar gyrn yr aradr, yn hollti â'r swch blaenllym y ddaear uwch eu pen, heb feddwl am y teulu dedwydd fu unwaith yn byw ar yr aelwyd islaw iddo. Eto y mae y codiad yn y tir yn dangos yn eglur fod yna adeilad wedi bod. Pa beth yw gau grefyddau y byd ond olion teml y Duwdod yn enaid dyn? Fe fu adeg pan oedd holl ddynolryw yn credu mewn un Duw, fel Bôd Personol, fel Rhydd Ewyllysydd, cyfiawn, sanctaidd, a da, ond buan y dallwyd llygaid eu deall gan dawch pechod yn codi o gorsydd lleidiog y galon.

Yr oedd eilunaddoliaeth yn bodoli mor foreu â'r oes batriarchaidd. Mewn llyfr yr hwn sydd mor hynod am ei henafiaeth ag ydyw am arucheledd ei syniadau a phrydferthwch ei iaith, gwneir cyfeiriad at yr arferiad o addoli yr haul a'r lloer (Job xxxi. 26). Yr oedd henafiaid y genedl Iuddewig, Terah, Nachor, a Laban, yn gwasanaethu duwiau dyeithr, ac yn ymgynghori â delwau (Gen. xxxi. 19; Jos. xxiv. 2). Dyma argyfwng pwysig yn hanes crefydd a moesoldeb yn ein byd ni, oblegid yn awr yr oedd y teulu goreu o hiliogaeth Sem yn sefyll yn y bwlch rhwng un-dduwiaeth ac aml-dduwiaeth. Yr oedd ganddynt ryw fath o syniad am un Duw; yr oeddynt yn credu yn ei fodolaeth, ac eto yr oeddynt yn defnyddio delwau ac yn ymgynghori â hwynt. Rhaid fod credo crefyddol Laban yn un cymysglyd iawn. Yr oedd ei enaid fel nodwydd y cwmpas pan y mae yn crynu dan ddylanwad dau allu gwrthwynebol. Mewn un man y mae yn llefaru fel monotheist, ac mewn man arall fel eilunaddolwr. "Os cefais ffafr yn dy olwg, na syfl," meddai wrth Jacob; "da *y gwn i'r Arglwydd fy mendithio i o'th blegid di.*" Ac eto wele yr un gŵr yn cwyno yn dost am fod Rahel wedi lladrata ei ddelwau. "Ond paham y lladratëaist *fy nuwiau i?*" (Gen. xxxi. 30). Pa ffurf bynag o grefydd oedd yn ffynu ymysg dynion yn gyffredinol yn y cyfnod boreu hwn, yr oedd *ychydig fanau* lle yr oedd y credo gwreiddiol mewn unig wir a bywiol Dduw yn parhâu i ddal ei dir. Y mae hinsawdd gwlad weithiau yn newid, a gwahanol rywogaethau o fywydau llysieuol ac anifeilaidd yn diflanu, ac eraill yn cymeryd eu lle; ond y mae ambell *lysieuyn* yn *llechu yn nghilfachau y mynyddoedd* fel tyst o gyflwr cyntefig y wlad. Felly yr oedd gwybodaeth am y gwir a'r bywiol Dduw yn ymdroi mewn ambell i fan, fel pe buasai yn anfoddlawn i ymadael â'r byd. Gwyddai pe

* Professor Douglas, *Confucianism and Tauuism*, pp. 82, 83.

buasai hi yn ei adael, nad oedd dim yn ei aros ond tynged Sodom, sef dinystr trwy farn. Nid oes genym ni ond dyfalu pa le yr oedd Salem, y ddinas lle y teyrnasai Melchisedec; annhraethol fwy pwysig i ni yw gwybod iddo ddwyn allan fara a gwin i gyfarfod âg Abraham, ac yn enwedig ei fod yn "*offeiriad i'r Duw Goruchaf.*" Dyma lecyn dysglaer yn nghanol y gaddug o dywyllwch a orchuddiai y ddaear. Nid oedd Balaam yn perthyn i Israel ond i Midian, ac nid brodor oddiyno ydoedd ychwaith,—"mab Beor o Pethor yn Mesopotamia" y gelwir ef. Dywed ef ei hunan: "O Siria y cyrchodd Balac, brenin Moab, fyfi, o fynyddoedd y Dwyrain, gan ddywedyd, Tyred, melldithia i mi Jacob; tyred a ffieiddia Israel." Ymha le bynag yr oedd ei wlad enedigol, eglur yw fod ganddo wybodaeth am y Duw Goruchaf, am allorau a phoethoffrymau, ac ymhellach i'r Arglwydd am amser ei gynnysgaeddu â'r ddawn brophwydol. Fel y mae cregyn ar benau y mynyddoedd yn awgrymu iddynt fod rywbryd yn orchuddiedig gan y môr, ac fel y mae crynfeini (*boulders*) o ddefnydd a chyfansoddiad nad oes dim yn debyg iddynt yn y wlad o amgylch, yn ein harwain i'r casgliad iddynt gael eu cludo yn ngheseiliau rhew-fryniau ar wyneb y dyfroedd, a'u gollwng i'r dyfnder wrth doddi, felly y mae y syniadau gwasgaredig hyn am un Duw Goruchaf yn seiliau cryfion dros gredu mai hyn oedd credo crefyddol cyntaf yr holl hil ddynol. Pa fodd y gallasai dynion ddarganfod y fath syniad goruchel a phur heb ddadguddiad goruwchnaturiol? Nid casgliad oddiwrth gyfansoddiad y greadigaeth fel un cyfanwaith ydoedd, oblegid nid oedd gan ddynion gynt ond syniadau anmherffaith iawn am unoliaeth y greadigaeth. Y cwbl y dadleuwn ni drosto yn awr yw fod y fath syniadau yn bod, o ba le bynag y gallent fod wedi dyfod, er fod aml-dduwiaeth ac eilunaddoliaeth yn ymlithro i mewn ac yn bygwth eu dileu ymhob cyfeiriad. Pe gadewsid y natur ddynol i ddibynu yn gyfangwbl ar ei galluoedd a'i hadnoddau ei hun, nis gallwn ni weled yr un rheswm paham na fuasai trigolion Palestina yn suddo i eilunaddoliaeth, pantheistiaeth, neu annuwiaeth, fel trigolion gwledydd eraill. Pa fodd y cadwodd gwir grefydd ei thir mewn un llecyn yn unig ar wyneb y ddaear? Atebed ammheuwyr y cwestiwn hwn. Os na allant, dylent adael i'r hen esboniad sefyll. Ein hatebiad ni yw, *Trwy ymyriad goruwchnaturiol*, trwy waith Duw yn sefydlu Eglwys ac yn dadguddio iddi wirioneddau mawrion am dano ei hun ac am fyd anweledig, nas gallasai dyn trwy weithrediad ei reswm ei hunan byth eu darganfod. Edrychir ar frwydr Marathon fel un o brif frwydrau y byd, am mai hi a roes attalfa ar brif allu y Dwyrain i fathru ar ryddid ac iawnderau Ewrop. Pe buasai y Persiaid wedi ennill, i bob golwg ddynol buasai gwareiddiad a chynnydd Ewrop wedi eu taflu ganrifoedd ymhellach yn ol nag y maent yn awr. Ond yn Ur y Caldeaid y cymerodd brwydr fawr le! Yr oedd tynged y ddynoliaeth yn dibynu ar hono. Yr oedd ofergoeledd ar un llaw, a chrediniaeth o'r gwirionedd ar y llaw arall; llygredigaeth ar un llaw, a sancteiddrwydd ar y llaw arall; eilunod mudion meirw ar un llaw, a Duw personol byw ar y llaw arall. Wele ddelwau wedi ymwthio i mewn i'r gangen oreu o deulu Sem. Pan oedd y fuddugoliaeth megys yn crynu yn y glorian, a gwybodaeth o Dduw bron a chael ei halltudio o'r byd, rhwystrwyd y trychineb arswydus trwy gyfryngiad

goruwchnaturiol. Llais hyglyw Duw yn llefaru wrth enaid dyn a ddygodd oddiamgylch y waredigaeth. "A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Abraham, Dos allan o'th wlad, ac oddiwrth dy genedl, ac o dŷ dy dad, i'r wlad a ddangoswyf i ti." Ufuddhaodd yntau i'r alwad, ac fel hyn cipiwyd gwir grefydd megys o'r gynneu dân. Yr oedd yr ymfudiad hwnw o eiddo Abraham yn un o'r pethau mwyaf arddunol yn hanes y byd. Nid croesi y môr i chwilio am fyd newydd, fel Columbus; neu i chwilio am aur a gemau, fel Cortes a Pizarro; nid hwylio heibio i'r un Penrhyn Gobaith Da, i'r un *Indian Ocean;* nid yr un Pegwn Gogleddol na'r un *Magnetic Pole* oedd ganddo ef mewn golwg; ond ymadael â'i wlad yr ydoedd, a mentro i wlad ddyeithr er mwyn cadw y trysor anmhrisiadwy hwn, sef gwybodaeth am Dduw. Yr oedd rhyw ddylanwad rhyfedd o'r byd anweledig, trwy awgrymiadau i'w feddwl, neu trwy lais clywadwy, yn ei gymhell i fyned. Yr oedd Abraham yn cynnrychioli yr Eglwys. Yr oedd yr Eglwys yn ei berson ef. Y gair dwyfol, Bydded, a roes fôd i'r greadigaeth, a'r gair dwyfol, Dos allan, a roddes fôd i'r Eglwys. Ond y mae yr ail yn fwy gogoneddus na'r cyntaf. Dwyn bôd allan o ddihanfod yw y cyntaf, ond dwyn trefn allan o annhrefn yw yr ail; argraffu delweddau dwyfol ar fater marw goddefol yw y cyntaf, ond gosod delw foesol Duw ei hunan ar eneidiau byw, rhydd, ac anfarwol yw yr ail, a hyny heb drais ar ryddid eu hewyllys. Yr oedd yma bobpeth sydd yn hanfodol i wir eglwys; galwad ddwyfol, effeithiol, neillduad at wasanaeth cysegredig, ymwybyddiaeth dwfn o fodolaeth a phresennoldeb Duw, ac ufudd-dod llwyr a diammodol iddo. Yma ni gawn gyfuniad o berson byw ac egwyddorion tragywyddol, a'r person hwnw yn cario yr egwyddorion allan i ymarferiad yn ei fywyd beunyddiol. Ni cheir fod Abraham wedi llithro i eilunaddoliaeth byth wedi hyn, ac nis gallwn ni esbonio y ffaith heb gydnabod fod rhywbeth goruwchnaturiol o'r tu cefn iddi. Pa fodd y gall gwadwyr yr ysbrydol a'r goruwchnaturiol ei hesbonio? Dyma effaith heb achos digonol yn natur lygredig dyn i'w chynnyrchu. Tuedd dyn ymhob oes a gwlad yw colli golwg ar undod a phersonoliaeth Duw, a suddo i oll-dduwiaeth, deu-dduwiaeth, neu amldduwiaeth; colli golwg ar sancteiddrwydd, a suddo i lygredigaeth; ysgaru rhwng crefydd a moesoldeb, a thrwy hyny ddinystrio elfen bwysig yn hanfod y gyntaf, a'i gosod yn wrthddrych gwawd a dirmyg i'r byd. Ond wele yma ffaith heb yr un gyffelyb iddi yn hanes holl grefyddau y byd. Wele yma ddyn, nid yn disgyn i lawr dan ddylanwad llygredigaeth ei natur, fel careg yn ngafael deddf attyniad, ond yn esgyn i fyny yn erbyn y ddeddf; nid yn nofio i lawr gyda'r llif, ond yn ymsaethu yn ei erbyn. Pwy glywodd erioed am neb trwy nerth ei reswm yn gwneyd darganfyddiad fod Duw yn Fôd Personol a sanctaidd, ac fod egwyddorion moesoldeb yn perthyn o angenrheidrwydd i hanfod crefydd? Nid tueddiadau ei gorff na chynneddfau ei feddwl a gynhyrfodd Abraham i adael ei wlad, ond rhyw ddadguddiad eglur a phendant o'r byd anweledig. Fel hyn sefydlwyd yr Eglwys Batriarchaidd trwy amlygiad neillduol o feddwl, ewyllys, a gallu Duw.

Y mae yr un peth i'w weled ymhob argyfwng pwysig yn hanes yr Eglwys o'r dechreu hyd yn awr. Un o'r adegau cyfyngaf a welodd

erioed oedd yr adeg y bu Israel yn aros yn yr Aipht. Wedi amser Noah ac amser Abraham, hwn oedd y trydydd bwlch cyfyng y bu ynddo, ac yn hwn yr oedd ei bodolaeth mewn perygl. Yr oedd Israel wedi ei llethu gan orthrwm a thrais. Yr oedd pob gwreichionen o gariad at ryddid, ac awydd am annibyniaeth bron wedi diffodd yn eu mynwesau. Yr oedd caethiwed a chaledwaith, ac yn enwedig cydnabyddiaeth feunyddiol â'r ffurfiau isaf o eilunaddoliaeth, wedi cynnyrchu yr effeithiau mwyaf niweidiol ar eu cymeriad. Yr oeddynt mor ofnus â chaethweision, ac wedi ymddyeithrio oddiwrth y gwir a'r bywiol Dduw. "A dywedodd Moses, Wele pan ddelwyf fi at feibion Israel a dywedyd wrthynt, Duw eich tadau a'm hanfonodd atoch; os dywedant wrthyf, Beth yw ei enw ef, beth a ddywedaf wrthynt?" Yr oeddynt wedi colli enw y Jehofah. Pa ryfedd i Pharaoh ddywedyd, "Yr Arglwydd nis adwaen, ac Israel nis gollyngaf." Yr oedd y person uchaf yn eu mysg, yr hwn a fwriadwyd gan Dduw i fod yn waredwr iddynt, mewn perygl oddiwrth gwrs ei addysg a'i safle gymdeithasol i fod yn eilunaddolwr. Dywed hen draddodiadau Iuddewig ac Aiphtaidd i Moses gael ei ddysgu yn Heliopolis, a'i ddwyn i fyny yn offeiriad, a'i fod yn gyfarwydd â holl lenyddiaeth Assyria, Caldea, &c., ac yn fedrus yn rhifyddiaeth yr Aiphtiaid. Hyn a wyddom i sicrwydd, ei fod "yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aiphtiaid," ac yn "nerthol mewn geiriau ac mewn gweithredoedd." Yn awr pe na buasai rhyw allu goruwchnaturiol yn ei chadw, buasai yr Eglwys yn dyfod allan o'r Aipht wedi ei thrawsnewid, ac elfenau llwgr wedi ymwthio i mewn i'w chyfansoddiad oddiwrth gyffyrddiad â chrefydd gau, eilunaddolgar, a llygredig. Ond nis gall yr un person ymchwilgar a gonest beidio teimlo fod gagendor o bellder rhwng syniadau crefyddol yr Aiphtiaid a syniadau crefyddol yr Israeliaid. 1. Nid oedd gan yr Aiphtiaid ddim syniad am sancteiddrwydd yn ystyr Ysgrythyrol y gair—am burdeb moesol yn treiddio trwy fyfyrdodau a theimladau, cymhelliadau a dybenion dynion, nac am natur adgas ac erchyll pechod. Ond yr oedd drychfeddyliau am y pethau hyn yn ymddyrchafu fel mynyddoedd i'r golwg yn yr Eglwys Iuddewig. 2. Yr oedd yr athrawiaeth o anfarwoldeb yr enaid yn ffynu yn gyffredinol ymysg yr Aiphtiaid. Nid pwnc cyfriniol yn cael ei gredu ymysg y dysgedigion oedd, ond yr oedd yn bwnc hollol adnabyddus i'r werin. Y mae y darluniau o Ddydd y Farn sydd ar y cofadeiliau yn profi hyn tu hwnt i ammheuaeth. Brithir y beddrodau â darluniau o'r fath hyn. Yn *Llyfr y Meirw*, medd Dr. Carpenter, desgrifir eneidiau dynion yn ymddangos ger bron y frawdle, ac yn apelio am ddedfryd drugarog, ac wrth wneyd hyny yn defnyddio agos yr un brawddegau ag sydd yn y Testament Newydd. "Myfi a borthais y newynog; mi a roddais ddwfr i'r sychedig; mi a ddilladais y noeth; mi a ymwelais â'r claf." Eto ychydig iawn a wneir o gyfeiriadau at yr athrawiaeth hon yn yr Hen Destament, a llai fyth yn ysgrifeniadau Moses. "Y mae yn rhyfedd iawn," medd Dr. Carpenter, "i ni sylwi fod yr Aiphtiaid yn dal y syniad am sefyllfa ddyfodol mor gryf, ac eto na ddarfu i Moses ei dwyn i mewn fel rhan o'i grefydd." Ydyw, yn rhyfedd iawn, os yr Aipht oedd y ffynnonell o ba un y tarddodd yr Eglwys Iuddewig. Ar y tir hwn y mae yn hollol anesboniadwy. Ond beth os tarddodd yr aber o ryw *spring* glir yn y creigiau oesol

ymhell uwchlaw ystormydd a chymylau amser, yn ewyllys benarglwyddiaethol Duw ei hun? Fe allai yn ngoleuni y ffaith hon y gallwn cyn hir ddattod y cwlwm a dadrys y pwnc. 3. Pa mor agos bynag oedd credo gwreiddiol yr Aipht i un-dduwiaeth, yr oedd wedi dirywio ac ymlygru yn ddirfawr, ac mewn cyflwr isel iawn yn yr amser yr oedd Israel yno yn y caethiwed. Bernir mai o dan y bedwaredd deyrnach ar bymtheg y cymerodd hyny le. Yn yr adeg hono yr oedd aml-dduwiaeth ac anifail-addoliad yn ffynu trwy yr holl wlad. Yr oeddynt, nid yn unig wedi dwyfoli eu brenhinoedd ac yn talu gwarogaeth addoliadol iddynt, ond yr oeddynt yn ymostwng mewn addoliad ger bron bwystfilod, gwybed, ac ymlusgiaid. Yr oedd tri o dduwiau ymhob dinas, a llu mawr o anifeiliaid cysegredig. Yr oedd llawer o'r creaduriaid a ddygwyd yn heidiau ar y wlad yn y deg pla, yn wrthddrychau addoliad ganddynt. Yr oeddynt yn addoli llyffaint, a gwybed, a chwilod, ac ychain, a gwartheg, a hyrddod, ac adar, ac ymlusgiaid. Yr oeddynt yn cadw llu mawr o offeiriaid i weini arnynt, ac yn codi temlau sydd mewn maintioli a gwychder eto yn syndod i'r byd. Yr oedd athroniaeth a chelfyddyd yn uchel iawn yn eu mysg; y deall wedi ei goethi a'i ddiwyllio, ond eu natur foesol yn isel, a'u syniadau am Dduw yn faterol a daearol. "Pan dybient eu bod yn ddoethion hwy a aethant yn ffyliaid, ac a newidiasant ogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig, ac ehediaid, ac anifeiliaid pedwar carnol, ac ymlusgiaid."

Dyma y wlad yr oedd meibion Israel ynddi mewn caethiwed; gwlad yn cael ei britho gan demlau, ac offeiriaid, ac eilunod. Ofer yw dyweyd nad oeddynt wedi eu llithio i'r drwg hwn eu hunain. Yr oeddynt yn barod i lithro iddo ar bob achlysur. Yn absennoldeb Moses, un diwrnod, gwnaeth Aaron lo tawdd o glustdlysau y bobl, a gwaeddodd allan, "Dyma dy dduwiau di, Israel, y rhai a'th ddyg i fyny o wlad yr Aipht." Wele'r bobl ar unwaith yn offrymu poethoffrymau, yn dwyn heddebyrth, yn eistedd i lawr i fwyta ac yfed, ac yn codi i chwareu. Exod. xxii. Yr oeddynt fel *elastic spring* yn cymeryd y cwrs hwn y foment y gadewid hwynt iddynt eu hunain. Ond yr oedd rhyw allu anweledig yn eu harwain, megys yn erbyn eu tueddiadau, at un Duw personol, cyfiawn, sanctaidd, yn ol Salm lxviii. 13: "Er gorwedd o honoch ymysg y crochanau, byddwch fel esgyll colomen wedi ei gwisgo âg arian, a'i hadenydd âg aur melyn." Pa achos a gynnyrchodd y cyfnewidiad? Pa le y mae yr esboniad i'w gael? Nid yn y naturiol, ond *yn y goruwchnaturiol;* yn yr olygfa ryfedd a gafodd mab yn nghyfraith Jethro wrth yru ei braidd fel bugail o'r tu cefn i'r anialwch yn Horeb, "y berth yn llosgi gan dân ac heb ei difa," a'r llais yn dyfod allan o honi, "Na nesâ yma; diosg dy esgidiau oddiam dy draed, o herwydd y lle yr wyt yn sefyll arno sydd ddaear sanctaidd." "Myfi yw Duw dy dad, Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob." "Ydwyf yr hwn Ydwyf." "Fel hyn yr adroddi wrth feibion Israel, Ydwyf a'm hanfonodd atoch."

Hyn hefyd, yn ein bryd ni, yw y gwir reswm paham y mae can lleied o gyfeiriadau at ddydd barn ac anfarwoldeb yr enaid yn ysgrifeniadau Moses. Nid am fod meibion Israel yn anaddfed i dderbyn dadguddiad o'r fath athrawiaeth. Nid "peidio cyflwyno iddynt yr hyn y gwyddai nas gallent ei gymeryd i mewn, a chyflwyno y peth y gallent ei dder-

byn." Ac nid "am nas gallai crediniaeth ymarferol mewn anfarwoldeb gael ei dadblygu trwy ddeddfau pendant." Ond am fod Duw yn dal cymundeb â Moses mewn rhyw ddull goruwchnaturiol. Yr oedd presennoldeb Duw gyda Moses yn wastadol, ac yntau yn cael ei lyncu i fyny yn y cymundeb rhyfedd hwnw, fel nad oedd dim tuedd ynddo i edrych ymlaen at y cyfarfyddiad mawr rhwng ei enaid â Duw yn y dyfodol. Yn y goruwchnaturiol y ceir eglurhâd ar yr anhawsder. Y Bôd o Dduw oedd fel haul yn llanw ffurfafen enaid Moses nes oedd yr athrawiaeth hon, or yn cael ei chredu, yn cilio i'r cysgodion. Amlygiad neillduol o gymeriad Duw hefyd yn unig a all roddi esboniad i ni am y syniad oedd yn yr Eglwys Iuddewig am adgasrwydd ac erchylldra pechod. Y mae rheswm dyn yn hawlio achos digonol i gynnyrchu yr effeithiau a gynnyrchir, ac fe'u ceir yn yr hanes sanctaidd.

Ymddengys i ni fod parhâd y wybodaeth am Dduw anweledig, personol, a sanctaidd, mewn llain fechan o dir ar làn Môr y Canoldir, pan oedd yr holl genedloedd cylchynol yn eilunaddolwyr, yn ffaith ar ei phen ei hunan yn holl hanes y byd. Fe allai y dywedir fod greddf yn perthyn i hiliogaeth Sem yn eu tueddu at un-dduwiaeth. Barned y darllenydd ymha le y mae eisteddle y reddf hon, pa un ai yn nychymyg yr ammheuwyr ynte yn nghyfansoddiad naturiol meibion Sem. Yr oedd yr Assyriaid, y Pelegiaid, y Moabiaid, yr Edomiaid, yr Amaleciaid, a'r Ammoniaid, oll yn feibion Sem, ac eto yr oeddynt yn eilunaddolwyr. Heblaw hyny, tuedd naturiol plant Israel eu hunain oedd llithro i'r drwg hwn. Bu teyrnas Israel yn ddwfn yn y camwedd trwy ei holl hanes, ac yn enwedig yn nheyrnasiad Jeroboam ac Ahab. Cwympodd Judah hefyd i'r un pechod lawer gwaith, a suddodd yn ddwfn iddo dan deyrnasiad Rehoboam, Ahaz, a Manasseh. Dinystriwyd eilunaddoliaeth gan Hezecïah a Josïah, a sefydlwyd addoliad y gwir Dduw; ond yn fuan gorchuddiwyd yr Eglwys gan dywyllwch dudew y Caethiwed Babylonaidd. Yn y caethiwed hwn dysgwyd hwy i ffieiddio eilunod, diddyfnwyd hwy oddiwrth eu bai, ac ychydig iawn a geir o gyfeiriadau ato wedi hyny. A oedd yn bosibl i'r trysor gwerthfawr hwn gael ei gadw yn nghanol cymaint o beryglon *heb ryw ymyriad goruwchnaturiol?* Os cymerodd hyn le trwy achosion naturiol, yr oedd yn wyrth—yn rhyfeddod anesboniadwy!

Am yr Eglwys Gristionogol, y mae yn annichonadwy ysgrifenu hanes ei dechreuad a'i chynnydd rhyfeddol yn y ganrif gyntaf heb deimlo ein bod yn mhresennoldeb ffeithiau nad oedd, ac nas gallasai fod dim achosion naturiol yn ddigonol i'w cynnyrchu. Yr oedd Satan wedi methu alltudio gwybodaeth o Dduw allan o'r byd. Bellach y mae yn newid ei gynllun, ac yn rhwygo yr Eglwys Iuddewig yn bleidiau. Yr oedd un o honynt yn ammheuwyr, yn gwadu bodolaeth angelion ac ysbrydion; a'r llall yn grynswth o ffurfioldeb. Ffurf, defod, agwedd, ystum, gwisg, a geiriau oedd pob peth. Nid oedd *bod* yn eu golwg yn ddim, ymddangos oedd y cwbl. Yr oeddynt yn cloddio dan ganolbwynt gwir grefydd trwy ysgaru rhwng crefydd a moesoldeb. Yr oeddynt yn gwneyd crefydd yn wrthddrych gwawd i'r byd trwy ei chydio â phentwr o ddefodau ynfyd a phlentynaidd. Wele yr Eglwys mewn adwy gyfyng, oblegid yr oedd ysbrydolrwydd wedi diflanu o fysg ei swydd-

ogion hi ei hunan. A oes yr un gwaredwr iddi? Oes, UN. Ganwyd ef mewn pentref bychan yn agos i Jerusalem, a dygwyd ef i fyny fel mab saer mewn pentref tlawd arall yn ngogledd Galilea. Taflodd ef fwy o oleuni ar egwyddorion moesoldeb na'r holl batriarchiaid a'r prophwydi a fuasai o'i flaen. Fe fydd ei frawddegau syml ac aruchel ef yn dysgleirio fel heuliau yn ffurfafen cymdeithas hyd ddiwedd y byd. Dangosodd ddyfnder ac eangder gofynion y gyfraith. Anfonodd belydrau dysglaer o oleuni i ogofeydd tywyllaf y galon. Galwodd ar ddynion i ymgodi uwchlaw moesoldeb arwynebol yr oes, ac ymdebygu i gymeriad perffaith sanctaidd Duw ei hunan. Y prophwyd ieuanc hwn o Nazareth yw yr hoel ar ba un y mae holl obeithion yr Eglwys yn crogi. Yr oedd hi yn y cyfnod hwn fel "corsen ysig," neu "lin yn mygu." Yr oedd fel lamp pan y mae ar ddiffoddi. Y mae y fflam yn gwanhâu—yn crynu, y mae yn petruso ac yn ymdrechu, fel pe yn methu gwybod pa beth i'w wneyd, ai glynu wrth y ganwyll ynte esgyn i fyny. Esgyn a disgyn y mae nes y mae yr holl ddefnydd gwres wedi ei dreulio a'i ddyhysbyddu, ac yna y mae y fflam yn diflanu. Felly yr oedd argyhoeddiad dwfn o'r gwirionedd a phurdeb moesol bron darfod o'r Eglwys. Ond wele y fflam ddysglaer—y bywyd ysbrydol—yn cael defnydd cynnaliaeth a maeth yn y purdeb dilychwin a'r cariad gwresog sydd yn natur foesol y prophwyd ieuanc hwn. A gaiff hi lonydd? Na chaiff. Y mae Satan yn codi tymhestloedd trwy ddaear ac uffern, ac yn nghanol cynddaredd yr ystorm y mae y fflam yn diflanu. Dacw Obaith Israel yn nwylaw y Philistiaid. Dacw y Gŵr fu yn rhoddi attalfa ar gynddaredd y gwynt, yn dofi gwylltineb llidiog y môr, yn alltudio cythreuliaid â'i air, ac yn cipio dynion o safn marwolaeth—yn y ddalfa, yn syrthio yn aberth digymhorth i ddwylaw ei elynion. Y mae y werin yn Jerusalem yn gwaeddi, "Croeshoelier ef, croeshoelier ef," ac y mae yntau yn cael ei drosglwyddo gan yr awdurdodau gwladol i ddwylaw y dienyddwyr i ddyoddef y ddedfryd. Gwisgir ef gan y milwyr â mantell o borphor, gosodir coron o ddrain ar ei ben, curir ef â chorsen nes y mae'r drain yn suddo i'w gnawd, penlinir ger ei fron, a chyferchir ef mewn gwawd, "Henffych well, Brenin yr Iuddewon." Arweinir ef i'r dienyddle a hoelir ef ar y groes, ac yn nghanol ingoedd arteithiol ei enaid y mae yn gwaeddi allan, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Ac yna yn tori ei galon a marw. "A chan ogwyddo ei ben, efe a roddes i fyny yr ysbryd." Claddwyd ef mewn bedd, a seliwyd y maen, ac yn y bedd gydag ef *claddwyd yr Eglwys.* Daethai yr Eglwys allan o'r Aipht fel Daniel o ffau y llewod, ac allan o Babylon fel y llanciau o'r ffwrn dân. Ond syrthiodd y prophwyd ieuanc hwn mewn serch â hi, ac ymgyfammodasant i garu eu gilydd a byw gyda'u gilydd byth mwyach. Cwympodd ef i'r bedd, a chwympodd hithau gydag ef. Bron na ddychymygem fod holl gythreuliaid uffern, fel arglwyddi y Philistiaid yn orielau teml Dagon, yn gwledda eu llygaid yn yr olwg ar Samson ddall, yn barod i dori allan mewn bloedd orfoleddus, "Ein duw ni a roddodd ein gelyn yn ein dwylaw ni, yr hwn oedd yn anrheithio ein gwlad ni, yr hwn a laddodd lawer o honom ni." Ond y maent wedi bloeddio yn rhy fuan. O ganol cynnulliadau bychain, dystaw, cuddiedig ei ddysgyblion, mi glywaf lais clir yn gofyn, "Paham y gwnewch gynhwrf? *Ni bu farw yr eneth, eithr cysgu y mae.*" Ac ar ddydd y Pente-

cost, dyna lef awdurdodol o'r byd anweledig yn swnio fel taran, nes rhwygo pyrth marwolaeth, "*Yr eneth, yr wyf yn dywedyd wrthyt, Cyfod.*" Pa beth yw yr effeithiau? Tair mil yn cael eu dwysbigo yn eu calonau, ac yn gwaeddi allan mewn braw, "Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?" Y mae genym hawl i ofyn i'r bobl sydd yn esbonio pobpeth, am esboniad ar hyn. Dyma genedl wedi ei geni mewn un dydd. A ydyw materolwyr yr oes hon, tra yn gwrthod *spontaneous generation* yn y byd anianyddol, am ei fabwysiadu yn y byd moesol? Dyma y ffeithiau. Ar un ŵyl gyhoeddus yn Jerusalem, dacw ŵr ieuanc yn marw dan warth, fel drwgweithredwr. Ar ŵyl arall, saith wythnos yn ddiweddarach, wele un o'i ddysgyblion, pysgotwr tlawd diddysg a dinod, yn codi ar ei draed ac yn egluro prophwydoliaethau eu hysgrifeniadau cysegredig, ac yn dybenu ei araeth gyda y geiriau: "Am hyny gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel, ddarfod i Dduw wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi." Pa beth yw y canlyniad? Y maent yn credu ynddo wrth y miloedd, yn cymeryd eu bedyddio yn ei enw, yn gwneyd proffes gyhoeddus o hono, ïe a llawer o honynt yn marw fel merthyron dan yr arteithiau mwyaf dirdynol yn hytrach na gwadu eu proffes! Yn sicr y mae y bobl sydd yn addef y ffeithiau hanesyddol hyn, ac yn gwadu yr achosion a'u cynnyrchodd, yn dirmygu eu rheswm eu hunain, ac yn ei osod yn sathrfa i'w dychymygion a'u rhagfarnau. Meddylier fod afon fawr yn rhedeg am gannoedd o filldiroedd rhwng y mynyddoedd, ac mewn amrantiad fod mur cadarn y mynydd yn chwalu, a hithau yn rhuthro i'r bwlch ac yn gwneyd cwrs newydd iddi ei hunan, A allai hyn ddygwydd heb yr un gallu i'w gynnyrchu? Na, rhaid fod yna rhyw allu, naill ai yn yr awyr wedi ei hysgubo ymaith, neu o dan grawen y ddaear wedi ei llyncu o'r golwg. *Ar ddydd y Pentecost*, newidiodd cwrs hanesiaeth y byd. A oes esboniad i'w gael? A oes achosion digonol i'w gynnyrchu? Oes. Pa rai ydynt? Adgyfodiad yr Arglwydd Iesu o'r bedd, ei esgyniad, a'i eisteddiad ar ddeheulaw y Mawredd, a thywalltiad yr Ysbryd Glân. Fel hyn, *nis gellir esbonio y naturiol heb gredu yn y goruwchnaturiol.* Nis gall mater dd'od i fod mewn unrhyw ffurf—pe na b'ai ond nwy neu darth neu niwl yn llenwi y greadigaeth, heb achos; ac nis gall mater marw byth gynnyrchu corff byw. Y mae yr un mor wir yn y byd meddyliol a moesol, nas gallasai culni, rhagfarn, daearoldeb, ac anghrediniaeth yr Iuddewon byth *roddi bôd i Gristionogaeth.* Yr Eglwys yw y gofgolofn fwyaf gogoneddus o allu Duw yn ein byd ni.

Nid oes un ffaith yn hanes gau grefyddau y byd nas gellir d'od o hyd i'r achosion naturiol a'u cynnyrchodd. Gellir esbonio pob peth yn hanes Hindwaeth, Bwdiaeth, Confuciaeth, a Mahometaniaeth, heb deimlo dim anhawsder, chwaithach bod dan orfodaeth i'w priodoli i achosion goruwchnaturiol. Ond y mae esbonio dechreuad, parhâd, a chynnydd yr Eglwys Gristionogol yn fater y byddai yn orchwyl anobeithiol i gewri mewn talent a dysg ei gyflawni heb addef ymyriad goruwchnaturiol. Ofer yw dadleu na fu cynllunwyr ac adeiladwyr ardderchog yn yr Aipht unwaith. Onid yw y beddrodau a'r palasdai, y temlau a'r pyramidiau, yn tystio i'r gwrthwyneb? Y mae bodolaeth Eglwys Crist, a'r gwaith mawr sydd wedi ei wneyd ganddi, yn brawf o'r gallu dwyfol a'i cododd ar y dechreu, ac sydd eto yn parhâu i'w chynnal.

Hi yw yr unig sefydliad crefyddol a lamodd i fod ar unwaith; hi yw yr unig gyfundrefn sydd â'i hanfod mewn gwyrth; hi yw yr unig ymgorfforiad gweledig o grefydd sydd â'i gwyrthiau yn gorphwys ar seiliau hanesyddol. Bu adeg yn nechreu y ganrif hon pan y dadleuai awduron galluog yn Germany na chyfansoddwyd y pedair Efengyl hyd ganol yr ail ganrif. Yn 1820 cyhoeddodd Bretschneider lyfr, yn yr hwn y mae'n galw sylw at ac yn chwyddo y gwahaniaeth sydd rhwng Efengyl Ioan a'r tair Efengyl eraill. Ond cymerodd Schleiermacher blaid y gwirionedd, a chyhoeddodd atebiad mor alluog ac argyhoeddiadol nes argyhoeddi Bretschneider ei hunan. Galwodd yr ymosodydd ei eiriau yn ol. Yn 1835 cyhoeddodd Strauss ei Hanes Bywyd Crist, ymha un y ceisia brofi mai nid Ioan oedd awdwr yr Efengyl a briodolir iddo. Yna cododd Ysgol Tübingen, yn cael ei harwain gan Strauss, Schwengler, a Zeller. Dadleuai y dysgedigion a berthynai i'r ysgol hon na chyfansoddwyd yr Efengylau hyd ymhell wedi yr oes Apostolaidd. Am Efengyl Ioan, nid yw ond corfforiad o'r syniadau duwinyddol a ffynai yn Asia yn 160 O.C. Ond erbyn hyn y mae yr anffyddwyr wedi eu curo ar hyd yr holl linell, ac yn gorfod addef i'r Efengylau gael eu cyfansoddi yn y ganrif gyntaf. Wedi i'r mater gael ei wyntyllio yn drwyadl gan brif ddynion y Cyfandir, wele anffyddiwr mwyaf poblogaidd Ffrainc yn gwneyd y cyfaddefiad gorest a ganlyn: "Ar y cyfan yr wyf yn addef fel yn ddilys y Pedair Efengyl ganonaidd. Maent oll yn fy marn i yn dyfod o'r ganrif gyntaf, a'r awdwyr, a siarad yn gyffredinol, ydyw y rhai y priodolir hwynt iddynt."* Fel hyn, addefa anffyddwyr fod Cristionogaeth mewn bodolaeth yn yr hanner diweddaf o'r ganrif gyntaf. Mae ysgol Tübingen wedi ei llwyr drechu. Cyn ymwrthod â'r gwyrthiol a'r goruwchnaturiol, y mae genym hawl i ofyn y cwestiwn, Pa achosion naturiol a ddygodd Gristionogaeth i fodolaeth? Os na ellir rhoddi yr un math arall o esboniad arni, rhaid goddef i'w phleidwyr gredu mewn gwyrth. Hyd nes y caffer esboniad newydd, boddhaol, dalier at yr hen. Hysbys yw i Gristionogion y ganrif gyntaf ddyoddef colli eu heiddo, eu parch, eu rhyddid, a'u bywydau, yn hytrach na gwadu eu proffes; ac yr oedd llawer o honynt yn llygaid-dystion o'r gweithredoedd rhyfedd yr oeddynt yn foddlawn i farw yn hytrach na'u gwadu. Pa gyfrif sydd i'w roddi am hyn? Ymëangodd yr Eglwys Gristionogol gyda chyflymder mawr, nes treiddio i gonglau pellaf yr Ymherodraeth Rufeinig. Rhaid fod yr achos a'i cynnyrchodd yn ffaith fawr, wirioneddol, ogoneddus, cyn y gallasai gynnyrchu y fath gyfnewidiad yn nghyflwr moesol ac ysbrydol rhan mor helaeth o'r byd. Pan y mae llyn llonydd yn cael ei gynhyrfu gan gwymp maen, y mae y cynhyrfiadau yn cyfateb i faintioli y maen, a'r uchder o ba un y mae wedi disgyn. Cynhyrfodd y ffaith fawr o ymgnawdoliad Mab Duw hen lyn llonydd y byd Paganaidd; cynnyrchodd gylchoedd o donau, a tharawodd y tonau hyn yn erbyn sefydliadau gorthrymus gan eu dwyn yn chwilfriw i'r llawr. Un o'r tonau hyn a ruthrodd i mewn i'r Pantheon, ac a ysgubodd ymaith yr holl eilunod mudion oedd o'i fewn. Un o'r tonau hyn yn ein dyddiau ni ddilëodd y gyfundrefn o gaethwasiaeth yn America.

* Renan, *Life of Jesus*, p. 21.

Y mae yr Eglwys wedi bod mewn llawer bwlch cyfyng o'r oes Apostolaidd hyd yn awr, ond y mae Duw yn ei amser da ei hun yn cyfaddasu dynion ac yn eu hysbrydoli i'w gwaredu. Cyn ddyddiau Luther yr oedd bron wedi ei llethu gan ofergoeledd ac anfoesoldeb. Yr oedd fel cangen o bren yn y gauaf, dan lwyth o eira yn plygu i'r ddaear, ac yn bygwth pydru dano. Ond gwaredwyd rhan helaeth o honi y pryd hwnw trwy offerynoliaeth mynach tlawd. Yr ydym yn hyderu fod gwanwyn i dd'od eto, pelydrau yn haul i boethi, yr eira i doddi, a'r gangen i neidio i fyny eto i'w lle. Pan gyfyd Haul y cyfiawnder ac y tywyna yn ei nerth, diflana yr haenau trwchus o ofergoelion a chyfeiliornadau sydd yn ei llethu i'r llawr.

Adeg gyfyng beryglus yn hanes crefydd yn y wlad hon oedd yr adeg y torodd y Diwygiad Methodistaidd allan. Yr oedd difrawder, anwybodaeth, ac anfoesoldeb, fel caddug o dywyllwch yn gordoi rhanau helaeth o'r wlad. Yr oedd dynion duwiol, effro, a gweithgar, yn hynod o brin. Ond i bob golwg ddynol heb yr un achos naturiol i'w gynnyrchu, rhoddwyd dadleniad o gyflwr colledig dyn o flaen llygaid enaid gŵr ieuanc difraw, dioruchwyliaeth, wrth fwrdd y cymun yn hen Eglwys Talgarth, 150 mlynedd yn ol. Drwy y gwirionedd y mae Duw yn argyhoeddi. Felly, fel ar ddydd y Pentecost, y gwirionedd oedd yr offeryn yma; ïe, yr un gwirioneddau—pechadurusrwydd dyn, a threfn Duw i faddeu a sancteiddio. Tra yn adrodd y geiriau, "Yr ydym yn ddifrifol yn edifarhâu ac yn ddrwg gan ein calonau dros ein camweithredoedd; eu coffa sydd drwm genym; eu baich sydd anrhaith ei oddef," dwysbigwyd ef yn ei galon. Onid oedd Harris wedi gwrando a darllen y geiriau hyn ddegau o weithiau o'r blaen? Paham yr oeddynt yn cynnyrchu y fath effeithiau mawrion y tro hwn? Gallu Duw oedd yn goleuo ei ddeall, ac yn dyfod â hwy i gyffyrddiad â'i gydwybod ac â'i galon. Yr ydym yn credu mai o'r un ffynnonell y tarddodd y Diwygiad Methodistiaid â'r adfywiad mawr ar Ddydd y Pentecost. Mewn gwledydd a ysgydwir gan ddaeargrynfäau, gwelir ambell i fynydd llosg fel pe b'ai wedi hanner diffodd. Y mae y cynhyrfiadau mawrion wedi darfod, a'r llifogydd o lafa tanllyd toddedig, wedi oeri a pheidio. Eto gwelir safn y mynydd yn agored, a cholofnau o fŵg yn esgyn i'r nen. Y mae y tân yn gronfa fawr anferth yn y dyfnderoedd islaw, ond nid yw yn dadguddio ei hunan fel o'r blaen. O'r diwedd y mae hollt yn agor wrth droed y mynydd, a'r hylosg tanllyd yn rhuthro i fyny. Y mae y defnyddiau toddedig yn rhuthro i fyny ac yn ffurfio mynydd arall, llai o faint, ac îs ei safle, ond llawer mwy bywiog a chynnyddol na'r un mawr. Felly y bu yn y Diwygiad Methodistaidd. Rhuthrodd y tân sanctaidd i fyny, ymledaenodd i bob cyfeiriad, gan ddifa anfoesoldeb a didduwiaeth yr oes. Cofier mai nid ammheuaeth ynghylch dwyfol darddiad y drefn esgobyddol, neu deimlad cryf o wrthwynebiad iddi, a roddes fod i'r Diwygiad Methodistaidd; ond awydd angerddol y tadau i achub y byd. A chan fod trefniadau yr Eglwys Sefydledig yn sefyll ar eu ffordd, llamasant drostynt yn hytrach na cholli eu hamcan mawr. Yr oeddynt wedi eu hachub eu hunain, ac am hyny yr oeddynt yn llosgi gan awydd angerddol am achub eraill. Dyma frawddeg oedd wedi ei cherfio ar eu gweithredoedd: "Rhaid yw ufuddhâu i Dduw yn fwy nag i ddynion."

Pob parch i'r corff, ond yr ysbryd yw y peth mawr, a rhaid cael hwnw yn uniongyrchol o'r nefoedd. Yr oeddynt hwy yn "olynwyr yr Apostolion" yn ystyr uchaf y gair, oblegid yr oeddynt yn llawn o ysbryd yr Apostolion. "Pe plant Abraham a fyddech, gweithredoedd Abraham a wnaech." "Y rhai sydd o ffydd y rhai hyny yw plant Abraham." Yn yr ystyr uchel hwn yr oedd y Tadau Methodistiaid yn olynwyr yr Apostolion. Sail yr Apostolion oedd eu sail; o'r un ffynnonell ddwyfol yr oeddynt wedi derbyn eu hysbryd a'u nerth, a'r un awydd angerddol am achub pechaduriaid oedd yn cynhyrfu eu heneidiau i waith. Gallu Duw a roes fod i'r Eglwys, ac amlygiadau o'r un gallu a all ei chynnal rhag ymlygru, dirywio, a diflanu allan o'r byd. Fel yn yr oes Apostolaidd, yn raddol y ffurfiwyd corff gweledig yr Eglwys; felly gyda y Cyfundeb Methodistaidd, yn gystal a chyfundebau crefyddol eraill, yn raddol y rhoddwyd bod i'w gyfansoddiad, fel yr oedd amgylchiadau yn galw. Y mae yn perthyn iddo rai nodweddion hollol apostolaidd, ac yn eu mysg, ei gynnulliadau eglwysig, ei henaduriaid, a'i ddiaconiaid, ei gymdeithasfäoedd, ac yn enwedig y rhyddid a'r gefnogaeth a roddir i'r drefn deithiol o ymweled â'r eglwysi a phregethu y gair. Po fwyaf syml y bo peiriant, goreu yn y byd y cyflawna ei waith. Y prawf goreu o ragoroldeb ei gynllun yw yr effeithiolrwydd â pha un y mae yn cyflawni ei waith. Gellir dyfod â llu o wrthddadleuon i brofi nad yw cangen yn perthyn i bren, *ond os yw nodd y pren yn rhedeg trwyddi*, a dail a ffrwythau y pren yn ei haddurno, syrth yr holl wrthddadleuon i'r llawr. Felly os yw y gangen Fethodistaidd neu ryw gangen arall o'r Eglwys yn cynnyrchu casineb at bechod, cariad at sancteiddrwydd, awydd i ryngu bodd Duw, ac ymdrech egnïol i achub y byd, dywedwn ei bod yn gainc fyw yn tarddu o wraidd boncyff hen a chadarn yr Eglwys Gyffredinol. Clywsom ddynion o feddyliau diwylliedig a galluoedd mwy na'r cyffredin, yn tystio ar riniog tragywyddoldeb eu bod yn ddiolchgar i'r Arglwydd am eu nerthu i lynu wrth yr hen Gyfundeb. Y mae Duw wedi ei arddel, ac yn parhâu i'w arddel. Diau y cyferfydd âg ystormydd, oblegid y maent yn ateb dybenion pwysig. Ond can wired a bod yr Iesu yn y llong, nis gall gwyntoedd ystormus na thònau digllawn byth ei chladdu yn y dyfnder, na'i gyru yn ddrylliau i ddannedd y graig.

D. LLOYD JONES.

# JOHN WICLIFF.

Y DYDD olaf o'r flwyddyn bresennol bydd yn bum' can' mlynedd er marwolaeth y diwygiwr Prydeinig a seren fore y Diwygiad Protestanaidd, John Wicliff. Ganwyd ef fel y tybir yn y flwyddyn 1324, a bu farw ar yr 31ain o Ragfyr, 1384. Yr ydys yn mabwysiadu amrywiol fesurau i ddangos anrhydedd i'w goffadwriaeth. Y mae cymdeithas neillduol wedi ei ffurfio i gyhoeddi ei weithiau llïosog. Cyhoeddwyd amryw o lyfrau a thraethodau yn gosod allan brif ffeithiau ei fywyd a i le mewn hanesyddiaeth, ac yn arbenig ei berthynas â'r Diwygiad Protestanaidd. Ni fyddai y Pumcanmlwyddiad yn gyflawn heb i ychydig o dudalenau y TRAETHODYDD gael eu rhoddi i'r un amcan. Y mae cymeriad Wicliff a'r gwaith a gyflawnodd yn haeddu ein sylw neillduol; ac nid oes ammheuaeth na fydd y wybodaeth sydd yn cael ei gwasgaru am ei enw a'i lafur, a'r amseroedd yr oedd yn byw ynddynt, o'r daioni mwyaf. Llef un yn llefain yn y diffeithwch ydoedd Ioan Wicliff, fel Ioan Fedyddiwr; ac fel y dywed un awdwr, "Os mai Luther a Calvin oeddynt dadau y Diwygiad Protestanaidd, Wicliff ydoedd daid y mudiad mawr yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yr hwn a dorodd asgwrn cefn y Babaeth, ac i'r hwn yn benaf yn y dyddiau diweddaf hyn yr ydym yn ddyledus am ein rhyddid a'n breintiau crefyddol."

Nid oes ond ychydig o hysbysrwydd ar gael mewn perthynas i fywyd personol y diwygiwr. Nis gellir penderfynu gyda sicrwydd amseriad na lle ei enedigaeth. Ni wyddom enwau ei rieni na dim am danynt. Nid ydys yn gwybod yn sicr ymha flwyddyn yr aeth i Rydychain, nac ymha athrofa yr ymrestrodd fel efrydydd. Am ei ieuenctyd a'r ysgol neu ysgolion y bu ynddynt cyn myned i'r brifysgol, nid oes nac awgrym na thraddodiad i'w gael. Ac nid oes yr hysbysrwydd lleiaf i ddangos y fath ddyn ydoedd yn ei dŷ ei hun ac mewn cymdeithas. Os cafodd anhawsderau amgylchiadol yn ei ymdrech i gyrhaedd addysg, fel Erasmus, ni wyddom ddim am danynt; ac os aeth drwy ymdrechiadau meddyliol yn gyffelyb i Luther, nid oes yr un adroddiad o'r manylion wedi dyfod i lawr atom ni. Mae gan hyny yn anmhosibl ei ddilyn yn ei holl symudiadau, ac yr ydym dan anfantais i allu sylweddoli y dyn.

Eithr er yr anfanteision hyn y mae Wicliff yn sefyll ger ein bron yn gymeriad mawr a chyflawn, fel ysgolhaig dysgedig, athraw galluog, pregethwr nerthol, gweithiwr egnïol a dyfalbarhâus, a gwron o gadernid —yn gallu bod yn hollol hunanfeddiannol yn nghanol y cynhyrfiadau mwyaf, heb ei niweidio gan ffafrau uchelwyr a banllefau cymeradwyaeth y llïaws, yn sefyll yn ddigryn a diysgog o flaen ei wrthwynebwyr, ac yn ymgynnal yn dawel mewn llafur diflino yn ei unigrwydd. Dyma weinidog oedd yn cyfuno y pregethwr a'r bugail. Yr oedd yn llawn o'r

ysbryd cenadol, yr hyn ydoedd wrth wraidd ei ymdrech i wneuthur yn hysbys i'r bobl gyffredin Air Duw trwy ei gyfieithu iddynt i'w hiaith eu hunain. Yr oedd hefyd yn ddinesydd da ac yn wladgarwr diffuant. Yr oedd yn elyn i bob gormes a thrais, ac amddiffynai yn rymus hawliau cyfiawn ei gyd-ddynion. Ni allai efe ddim yn erbyn yr hyn a ystyriai yn wirionedd—a'i reol i benderfynu beth oedd wirionedd ydoedd y Bibl—"ond dros y gwirionedd." Ac fe ddichon mai anhawdd fyddai enwi neb yn flaenorol i'r Diwygiad Protestanaidd yn y wlad hon a wnaeth gymaint dros y gwirionedd dwyfol â John Wicliff.

Fel y dywedwyd, fè dybir mai yn 1324 y ganwyd y diwygiwr. Eithr nid yw annhebyg i'w ymddangosiad cyntaf ar lwyfan amser gymeryd lle rai blynyddau cyn yr amseriad hwn, fe allai mor bell yn ol â 1320; ond y mae yn sicr nad oedd yn ddiweddarach na 1324. Ac yr oedd hyn dair blynedd yn flaenorol i esgyniad Iorwerth III. i orsedd Lloegr, yr hwn a deyrnasodd hyd 1377, sef o fewn saith mlynedd i farwolaeth Wicliff.

Gyda golwg ar le ei enedigaeth, y golygiad cyffredin ydyw mai yn ngogleddbarth Swydd Gaerefrog, yn agos i lànau y Tees, yn mhlwyf Wycliffe, ac fe allai mewn gafael o'r plwyf hwnw yn myned dan yr enw Spresswell y ganwyd John Wicliff. Os yn 1320 y daeth ein gwron i'r byd, y tebygrwydd ydyw iddo gael ei ddanfon i Rydychain yn 1335: gallwn fod yn sicr nad oedd yn ddiweddarach na 1340 pan y dechreuodd ei yrfa athrofäol. Yr oeddynt yn myned i Rydychain y pryd hwnw yn llawer ieuengach nag y maent yn bresennol, ac yr oedd Rhydychain ei hun yn wahanol iawn i'r hyn ydyw yn awr. Nid oedd y dref ond bechan; a'r unig golegau wedi eu sefydlu oeddynt Merton yn 1274, Balliol yn 1260—1282, Exeter yn 1314, Oriel 1324, a University yn 1332. Ychwanegwyd Queen's College yn 1340. Heblaw y colegau hyn yr oedd lliaws mawr o dai, fe ddywedir cynifer â thri chant, yn y rhai y cyfrenid addysg. Fe ddichon mai efrydwyr y colegau yn unig oeddynt yn aelodau o'r brifysgol. Modd bynag, rhwng pob peth yr oedd nifer y rhai oeddynt dan adddysg yn Rhydychain yn fawr iawn yn yr adeg yr ydym yn awr yn cyfeirio ati. Fe roddir i lawr y nifer yn ddeng mil ar hugain; ond y mae yn rhaid fod hyn yn ormodiaeth. Cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oedd y nifer wedi disgyn i chwe' mil. Rhydychain ydoedd yr unig ffordd yn arwain i ddyrchafiad a llwyddiant yn yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Ac yr oedd y brifysgol eisoes wedi cyrhaedd safle uchel o enwogrwydd. I ba un o'r colegau neu neuaddau yr aeth Wicliff ieuanc ar ei fynediad i Rydychain nid oes sicrwydd. Yr ydym yn ei gael yn Feistr Balliol yn 1361, oddiwrth yr hyn yr ydys yn casglu mai yn y coleg hwnw y bu yn efrydydd. Gwyddom hefyd iddo ddal ystafelloedd yn Queen's College yn 1363, ac mewn blynyddoedd dilynol hyd 1380. Ac ni fyddai yn annaturiol i dynu y casgliad mai yr olaf fuasai ei athrofa; pe felly nis gallasai fod yn Rhydychain cyn 1340. Ond heblaw y ffaith y bu Wicliff am beth amser yn Feistr Balliol, mae yn ymddangos fod cysylltiadau teuluaidd rhwng y Ballioliaid o Gastell Barnard â'r Wicliffiaid, yn ei wneuthur yn fwy na thebyg, os nad yn gwbl sicr, mai Coleg Balliol gafodd yr anrhydedd o fagu John Wicliff. Am y pedair blynedd cyntaf astudiodd Resymeg, Rheithoreg, Grammadeg, a Rhifyddiaeth; a'r tair blynedd dilynol

Mesuroniaeth, Seryddiaeth, Cerddoriaeth, Athroniaeth Naturiol, Uchanianaeth a Moeseg; ac yna ymroddodd i efrydu Duwinyddiaeth. Daeth yn ysgolhaig enwog, etholwyd ef yn Gymrawd, a graddiwyd ef yn Ddoethawr mewn duwinyddiaeth. Mewn athroniaeth cymerodd ochr y sylweddiaid (*realists*), ac mewn duwinyddiaeth prif destun ei astudiaeth ydoedd y Bibl, a galwyd ef y Doethawr Efengylaidd. Gair Mosheim am dano yw, "ei fod yn ŵr o athrylith anturiaethus ac o ddysgeidiaeth anghyffredin." Fel hyn yr ysgrifena Shedd: "Yr oedd wedi ei hyfforddi yn yr ysgolyddiaeth fanylaf. Yr oedd yn edmygwr o Occam, un o resymegwyr cryfaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ond yr oedd wedi darllen Aristotle yn ddiwyd yn nghyfieithiadau y dydd, ac wedi dyfod i raddau yn gydnabyddus âg athroniaeth Plato trwy ysgrifeniadau Augustin. Mae dylanwad yr efrydiau hyn yn amlwg. Gwrthododd enwoliaeth (*nominalism*) Occam a'r ganrif, a mabwysiadodd y ddamcaniaeth o sylweddiaeth mewn athroniaeth. O ddeffröad cyntaf ei fywyd dealltwriaethol a chrefyddol, yr oedd wedi bod yn efrydydd diwyd o'r Ysgrythyrau." Ychwanegir gan Pennington: "Ymgyfarwyddodd hefyd yn nghyfreithiau y wlad a'r eglwys, yr hyn a ffurfiai ran bwysig o addysg ysgolhaig a duwinydd. A darllenodd yn fanwl yr ysgrifenwyr Cristionogol boreuol, yn benaf pedwar o brif dadau yr eglwys, Augustin, Jerome, Ambrose a Gregory."

Mae yn ymddangos i Wicliff drigiannu yn Rhydychain, fel efrydydd, cymrawd, ac athraw, fel Meistr Balliol, ac ar ol hyny fel Warden Canterbury Hall (yn awr Coleg Christchurch), hyd tua'r flwyddyn 1367; ac fel y crybwyllwyd eisoes, yn achlysurol ar ol hyny hyd 1380, ac felly hyd o fewn pedair blynedd i'w farwolaeth. Rhoddodd i fyny ei gysylltiad â Balliol o herwydd ei benodiad i fywoliaeth eglwysig Fillingham yn Swydd Lincoln. Newidiodd y fywoliaeth hono am Ludgershall, er mwyn bod yn fwy cyfleus i Rydychain, yr hyn a gymerodd le yn 1368. Ac yn 1374 penodwyd ef yn beriglor Lutterworth yn Swydd Leicester, yn yr hwn le y bu farw ac y claddwyd ef.

Yr oedd Eglwys Loegr yn yr amser hwn yn rhan o Eglwys Rhufain. Pabyddiaeth oedd crefydd y wlad, ac yr oedd y deyrnas i raddau yn ddarostyngedig i'r Pab. O'r 15fed o Fai, 1213, hyd yn agos i ddiwedd teyrnasiad Iorwerth II., yr oedd y wlad hon yn talu treth neu doll o fil o farciau yn flynyddol i Rufain. Ac fe ddyfeisiwyd amryw o lwybrau eraill gan y Babaeth i sychu a llyncu i fyny iddi ei hun gyfoeth y deyrnas; yn gymaint felly fel yr oedd y Pab yn derbyn mwy oddiwrth y deiliaid na'r brenin. Daliai yn ei feddiant hefyd yr hawl i enwi personiaid i'r holl fywoliaethau brasaf, y rhai a lanwyd â phersonau o wledydd tramor, y rhai yn unig a dderbynient y cyflogau heb byth weled eu plwyfi na gofalu dim am danynt. Yr oedd y Pab hefyd yn hawlio y gallu i enwi personau i'r bywoliaethau ymlaen llaw, a thrwy hyny diystyrid yn gwbl hawliau y noddwyr cyfreithlawn. Cesglid ceiniogau Pedr yn ofalus, ac yn 1229 gorchymynwyd y degfed ran o holl eiddo symudol Lloegr i gynnorthwyo y Pab i gario rhyfel ymlaen. Ac ymhen ychydig flynyddau ceisiwyd y bummed ran. Heblaw hyny yr oedd y mynachdai yn lliosog, a'r brodyr cardotaidd yn ymdaenu dros yr holl wlad. Y canlyniad ydoedd fod y gwahanol sefydliadau addysgawl ac elusenol yn cael eu hesgeuluso, a'r eglwysdai yn syrthio i adfeil-

ion. Ac am y tipyn crefydd oedd yn aros, yr oedd yn gynnwysedig yn unig mewn defodau allanol, a'r trigolion mewn canlyniad yn suddo yn ddyfnach ddyfnach mewn anwybodaeth ac anfoes.

Nid oedd y beichiau gormesol a'r effeithiau andwyol hyn, modd bynag, yn cael eu dyoddef yn hollol ddystaw. Amlygwyd ar unwaith anfoddlonrwydd cryf yn erbyn gweithred y brenin John yn darostwng ei hun a'i deyrnas i'r Pab, ac ar y 15fed o Fehefin, 1215, gorfodwyd ef gan ei farwniaid i arwyddo y *Magna Cha ta.* Yn 1229 gwrthododd y barwniaid gynnorthwy arianol a ofynid gan Gregory IX. Yn amser Harri III. y mae Grostete, esgob Lincoln, yn dyrchafu ei lais yn erbyn llygredigaethau y Babaeth. Yr oedd y person hwn yn ŵr o gyrhaeddiadau uchel ac eang, ac yn meddu ar wroldeb a dylanwad mawr. Ganwyd ef tua'r flwyddyn 1175, a fu farw yn 1253. Ar ol ei ddyrchafiad i'r fainc esgobol ymdrechodd yn egnïol i buro yr eglwys. Symudodd abadau ac offeiriad annheilwng o'u swyddi, mynai fod pob clerigwr yn preswylio yn ei blwyf ei hun, a gwrthwynebai benodiad gwyr eglwysig i swyddi cyfreithiol. Gadawodd Grostete ar feddwl y genedl argraff ddofn am ei dduwioldeb, ac ymhen hanner can' mlynedd ar ol ei farwolaeth gwnaed cais tuag at ei ganoni fel un o seintiau yr eglwys. Un arall o'r diwygwyr boreuol ydoedd William Occam, yr hwn oedd feddyliwr annibynol ac yn ysgrifenwr helaeth ar faterion eglwysig. Dadleuai efe ei fod yn heresi i ddysgu fod Crist wedi cynnysgaeddu y Pab âg awdurdod tymmorol ac ysbrydol diderfyn. Gallai y Pab fod yn anuniongred, a'r eglwys ddewis cynghorau cyffredinol i reoli ei ddyfarniadau, ac hyd yn nod i'w symud o'i gadair. Ac uwchlaw y Pab â'r eglwys, y mae Crist yn sefyll yn Ben ar yr oll. Fel y dywed Lechler, "Darfu i'w ysgrifeniadau ennyn gwreichion o deimlad efengylaidd, a tharaw allan oleuni newydd o wirionedd politicaidd a brofodd o ddefnydd a mantais i genedlaethau dilynol, ac a wnaeth wasanaeth hanfodol i gynnydd yn nghyfeiriad adnewyddiad efengylaidd yr eglwys." Enw arall i'w grybwyll yn y cysylltiad hwn ydyw Richard Fitzralph, yr hwn a wnaed yn archesgob Armagh, yn yr Iwerddon, yn 1347. Yr oedd yn dduwinydd dyfnddysg, yn ddysgawdwr ac yn ysgrifenwr galluog, ac yn llawn o ysbryd diwygiad. Ymhen dwy flynedd ar ol ei ddyrchafiad ef i archesgobaeth Armagh penodwyd Thomas Bradwardin yn archesgob Caergaint, sef yn 1349. Ganesid ef mewn pentref bychan yn swydd Henffordd, ar gyffiniau Cymru, a buasai yn gaplan a chyffesydd i Iorwerth III., ac y mae yn ymddangos fod ganddo ddylanwad mawr ac iachusol ar y brenin dewr, ac hefyd ar ei fyddin. Yn ei ddarlithiau athrofaol gosododd allan yn eglur athrawiaeth gras fel y dysgir hi gan Paul ac hefyd yn ngweithiau Augustin, yn wrthwynebol i'r ysbryd o hunangyfiawnder oedd yn ffynu ar y pryd. Nid yn ofer y bu llafur ac ysgrifeniadau y gwŷr da hyn a'u cyffelyb. Gwnaethant lawer tuag at barotoi y ffordd o flaen Wicliff, ac i hyrwyddo llwyddiant ei weithrediadau ef a'i gydoeswyr yn erbyn y Babaeth; ac nid oes ammheuaeth na wnaeth ysgrifeniadau Bradwardin yn arbenig, ac y mae yn fwy na thebyg ei ddylanwad personol yn Rhydychain, lawer i barotoi Wicliff ei hun i'r gwaith oedd yn ei aros. Heblaw hyn oll y mae i'w gofio fod teyrnas Lloegr wedi gwneuthur cynnydd dirfawr mewn amrywiol gyfeiriadau erbyn yr adeg yr ydym yn awr yn

cyfeirio ati, ac yr oedd yn ddiweddar wedi ennill bri mawr trwy ei buddugoliaethau milwrol yn Cressy a Poictiers, ac ysbryd annibynol y genedl mewn canlyniad wedi derbyn symbyliad anghyffredin. Ac erbyn hyny hefyd yr oedd y gwahanol elfenau Danaidd, Sacsonaidd a Normanaidd, fuont gyhyd mor eiddigus o'u gilydd, yn ymasio i'w gilydd ac yn ymffurfio yn genedl gref, a'r iaith Saesoneg yn cymeryd lle yr ieithoedd cyfandirol, a llenyddiaeth Seisonig yn dechreu ar ei gyrfa yn nghân Langland, *Vision of Piers Plowman*, *Canterbury Tales* Chaucer, a *Travels* Syr John Mandeville.

Yn y flwyddyn 1365 gwnaed cais adnewyddol gan y Pab Urban V. at Iorwerth III. am y dreth o fil o farciau y flwyddyn dyledus oddiwrth Loegr i Rufain. Ac yn y flwyddyn ddilynol, 1366, gosododd y brenin y cais o flaen y Senedd. Ar y cyntaf ymddangosai yr esgobion yn ofnus i wrthwynebu cais y Pab, a gofynasant am ddiwrnod o ohiriad i ystyried yr achos. Ond y dydd canlynol cytunasant, gyda'r arglwyddi eraill, i ddadgan nas gallai y brenin John na'r un brenin arall osod ei hun na'i deyrnas na'i bobl dan ddarostyngiad heb eu caniatâd. Rhoddwyd yr un atebiad gan Dŷ y Cyffredin. Ac ychwanegwyd fod digon o brofion ar gael i ddangos fod y brenin hwnw wedi gweithredu yn yr hyn a wnaethai heb ganiatâd ei ddeiliaid ac yn erbyn llw ei goroniad. Golygir gan rai fod Wicliff yn bresennol ar achlysur y ddadl hon, a hyd yn nod ei fod yn aelod o'r Senedd. Gallasai fod yn bresennol yn gwrandaw y ddadl, eithr nid oes dim i brofi y bu yn aelod Seneddol. Ar yr un pryd y mae pob sicrwydd fod ei enw yn adnabyddus ymhell y tu allan i furiau Rhydychain, a bod ei syniadau yn hysbys i liaws o Seneddwyr y dyddiau hyny. Ymhen ychydig amser ar ol y ddadl cyhoeddwyd traethawd gan Wicliff, yn yr hwn y mae yn dyfynu yr amrywiol resymau a roddid gan yr arglwyddi yn erbyn cais y Pab. Dywedai un: "Ennillwyd y deyrnas hon trwy y cleddyf, ac â'r cleddyf y mae wedi cael ei hamddiffyn yn erbyn ymosodiadau gelynol. Fy nghynghor i yw, gwregysed y Pab ei gleddyf, a deued ac ymdreched i'n gorfodi i dalu y dreth hon. Yr wyf fi fel un yn barod i'w wrthsefyll, ac i amddiffyn ein hiawnderau." Meddai un arall: "Nis gellir talu treth i neb ond sydd yn meddu hawl iddi. Yr hwn sydd yn gyfreithlawn yn meddu rheolaeth wladol ac yn gallu rhoddi amddiffyn gwladol, yn unig sydd â hawl ganddo i dderbyn treth wladol. Nid yw y Pab yn ddim ond gweinidog yr efengyl. Os gwna efe ymgadw o fewn terfynau ei swydd ysbrydol, ufuddhâwn iddo; eithr os trosedda efe y terfynau hyny, rhaid iddo gymeryd y canlyniadau. Mae yn ddyledswydd arnom i'w wrthsefyll yn yr hawliad hwn." Y trydydd barwn a ddywedai: "Y mae y Pab yn galw ei hun yn was i weision Duw. Ni ddylai gan hyny dderbyn toll oddieithr yn unig am wasanaeth wedi ei gyflawni. Ond p'le mae y gwasanaeth y mae yn ei wneuthur i'r wlad hon? Onid yw yn hytrach yn sychu ein trysorau, ac yn fynych er mantais ein gelynion? Mae yn rhaid i ni fel mater o synwyr cyffredin wrthod ei gais." "Ar ba dir," gofynai un arall, "y gofynwyd y doll hon gyntaf? Ai nid i weinyddu maddeuant i'r brenin John, fel ag i'w adferu ef i'w hawl i'r goron? Ond y mae rhoddi bendithion ysbrydol am arian yn simoniaeth hollol. Bydded i'r arglwyddi ysbrydol a thymmorol olchi eu dwylaw oddiwrth drafodaeth mor frwnt.

Os fel uwchafiad gwriogaethol y deyrnas hon y mae yn gallu hawlio y doll, ar yr un egwyddor gallai gyhoeddi yr orsedd yn wâg a'i llanw â phwy bynag a fyno. Onid ein dyledswydd ydyw gwrthsefyll y fath egwyddorion?" Ychwanegai y nesaf: "Awn at wreiddyn y mater hwn. Nid oedd gan y brenin John hawl i roddi ymaith deyrnas Lloegr heb ganiatâd y genedl. Ni dderbyniodd erioed y fath gydsyniad. Nid oedd genym ni, pobl Lloegr, yr un llais yn yr achos; ac yr ydym ni yn dal y cytundeb yn hollol ddirym o'r dechreuad." A ddygwyd ymlaen y ddadl Seneddol ar y cwestiwn yn y dull a'r drefn hon sydd ansicr, ac yn wir braidd yn ammheus. Ond y mae yn fwy na thebyg y defnyddiwyd yr oll o'r rhesymau uchod ac eraill o gyffelyb nodwedd yn nghwrs y ddadl; ac fe gytunir yn gyffredin mai adsain o ddysgeidiaeth ac ysgrifeniadau Wicliff ydoedd y ddadl yn y Senedd. Ac fe olygir fod y diwygiwr yn cyfleu ei olygiadau ei hun yn y dull uchod yn y traethawd a grybwyllwyd gyda'r amcan i ddangos fod y mater yn un o bwys cenedlaethol, a bod y syniadau a draethid ynddo yn cael eu coleddu gan brif uchelwyr ac awdurdodau y deyrnas.

Yn ychwanegol at y dyfyniadau o'r areithiau Seneddol yn y traethawd, y mae Wicliff yn gosod i lawr ei wrthwynebiadau i allu tymmorol y Pab. Y mae ei osodiad cyntaf yn deilwng o sylw ar yr adeg bresennol, ac yn myned ymhell i brofi fod ein harwr mor oleuedig â rhai o'r dadgysylltwyr mwyaf deallus yn y dyddiau hyn. Mae y brenin yn ben ar y wladwriaeth mewn pethau gwladol ac eglwysig; ac am hyny y mae ganddo hawl mewn cydweithrediad â'r Senedd, nid yn unig i wrthod talu y dreth neu y doll sydd yn cael ei gofyn gan y Pab, ond hyd yn nod i ddifeddiannu yr eglwys o'i heiddo. A maentumiai fod yr athrawiaeth hon yn gyson â chyfraith ac arferiad henafol y deyrnas. Elai ymlaen ymhellach i ddyweyd, os ydoedd y golygiad hwn mewn rhyw ystyriaethau yn anghyson â'r canonau eglwysig, eto ei fod yn berffaith gydweddol âg iawnderau naturiol, egwyddorion cyntaf cyfraith wladol, a dysgeidiaeth Gair Duw. A mwy na hyny hefyd, y dylai dylanwad y Pab gael ei gyfyngu i'w swyddogaeth ysbrydol; ac od oes unrhyw arglwydd i fod yn uwch na'r brenin, Crist yn unig yw hwnw; mai dyn yw y Pab, yn agored i ffaeleddau ac i syrthio i bechod fel pawb eraill.

Ymhen ychydig flynyddoedd ar ol y ddadl yr ydym yn awr wedi cyfeirio ati, yr ydym yn cael Wicliff yn pleidio trethiad meddiannau eglwysig, fel pob math arall o eiddo, a'r Senedd yn 1371 yn pasio mesur i'r perwyl hyny. Er fod y Senedd mor bell yn ol a'r flwyddyn 1350 wedi gwneuthur deddf yn erbyn gwaith y Pab yn penodi clerigwyr i'r bywoliaethau yn annibynol ar y noddwyr cyfreithlawn, eto yr oedd Rhufain yn parhâu i orthrymu y deyrnas, gan droseddu ei chyfreithiau ac yspeilio ei meddiannau ymhob dull a modd o fewn ei gallu, nes o'r diwedd i'r baich fyned yn drymach nag y gallai y wlad ei ddal. Clywid achwyniadau o bob cyfeiriad, a danfonid deisebau at y brenin a'r Senedd, a daeth y mater yn destun ymdriniaeth Seneddol o flwyddyn i flwyddyn. Danfonodd y brenin Iorwerth III. genadwri at y Pab Gregory XI. yn dadgan yr achwyniadau hyn, eithr ni ddangoswyd nemawr neu ddim parodrwydd o du Rhufain i gwrdd â dymuniadau Lloegr; a'r canlyniad fu pasio deddf Seneddol i wneyd ymaith â'r anghenrheidrwydd am gymeradwyaeth y Pab i etholiadau esgobol,

ac yn erbyn ei waith ef yn gwneuthur unrhyw benodiadau clerigol ymlaen llaw. Eto fe barhaodd y penodiadau anghyfreithlawn hyn. Yn 1374 penodwyd dirprwyaeth i fyned i gyfarfod â chynnrychiolwyr y Pab yn Bruges, prif fasnachdref gorllewinbarth Ewrop, ac yn cynnwys poblogaeth o ddau can' mil o drigolion; ac enw Wicliff yw yr ail yn rhestr y dirprwywyr. Cychwynodd tua Bruges yn Gorphenaf, 1374, a dychwelodd yn Medi, 1375. Eisteddodd y ddirprwyaeth dros flwyddyn o amser, eithr ychydig fu y ffrwyth. Nid yw yn ymddangos fod y dirprwywyr eraill, yn enwedig Gilbert, esgob Bangor, yn frwdfrydig dros hawliau ei wlad.

Ond i Wicliff ei hun bu ei ymweliad hwn â'r Cyfandir, a'r adnabyddiaeth a gafodd o bersonau agos at y Pab, o wasanaeth mawr. Agorwyd ei lygaid yn fwy nag erioed i weled llygredigaethau y Babaeth, a grymuswyd ei benderfyniad i fyned rhagddo fel diwygiwr. Yr ydoedd eisoes, tra yn dal bywoliaeth Ludgershall, wedi cychwyn y mudiad i ddanfon efengylwyr dros wahanol barthau y wlad i gyhoeddi gwirioneddau y Bibl. Yr oedd lliaws o'r clerigwyr yn byw allan o'u plwyfi, a nifer mwy yn esgeuluso y gwaith o bregethu; ac yr oedd y telerau ar ba rai yr oeddid yn derbyn ac yn dal bywoliaethau yn gyfryw ag i iselhâu cymeriad yr offeiriaid yn gyffredinol. Ysgrifenodd Wicliff yn rymus yn erbyn y pethau hyn, ac fel moddion ymarferol i wrthweithio y drygau oeddynt yn dilyn, meddyliodd am y cynllun o gael urdd o bregethwyr teithiol, yn ol yr esiampl apostolaidd. Ar y cyntaf ni ddewisid neb i'r gwaith hwn ond offeiriaid ordeiniedig; ond y mae yn ymddangos ymhen amser fod personau heb urddau eglwysig, yn meddu y cymhwysderau angenrheidiol, yn cael eu danfon allan i'r gwaith hwn. Nid oedd yn mryd y diwygiwr i wneuthur dim yn erbyn trefniadau yr eglwys; yn wir yr ydym yn ei gael yn amddiffyn y gyfundrefn blwyfol, ac yn rhoddi pob gair da i'r offeiriaid a gyflawnent eu dyledswyddau yn ffyddlawn. Y syniad mawr oedd yn llanw ei enaid ydoedd cyflenwi diffygion yr eglwys a thaenu gair y bywyd dros yr holl wlad. Ac i'r amcan hwn yr oedd yr offeiriaid tlodion, fel y gelwid hwynt, i fyned oddiamgylch i bregethu y gair i'w cydgenedl, ac mor bell ag yr oeddynt yn deall i efengylu anchwiliadwy olud Crist. Fel y dywed Dr. Robert Vaughan: "Mae yr 'offeiriaid tlodion' hyn, y *Methodistiaid* dewr a gonest a phoblogaidd hyn o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn teithio o sir i sir, o dref i dref, o bentref i bentref, yn droednoeth, a ffon mewn llaw, yn bersonoliad gweledig o'r llafurus a'r haelfrydig a'r anrhydeddus. Mewn eglwysdai a mynwentydd, mewn marchnadoedd neu ffeiriau, o flaen boneddig a gwreng, duwiol neu annuwiol,—ble bynag y mae gwŷr neu wragedd yn gynnulledig, yno y mae yr athraw teithiol o'r ysgol hon yn cael lle i bregethu, ac yn traethu yn hyf ar y gwahaniaeth rhwng crefydd y Bibl, gyda'i happeliadau at reswm a chydwybod pob dyn, ac ofergoelion yr offeiriaid, y rhai nid oes dim i'w cynnal ond y gwawdbeth sydd yn cael ei alw yn ofergoeledd yr eglwys. Mae yr esgobion a'r abadiaid, y mynachod, y perigloriaid a'r curadiaid yn llawn digofaint; eithr nid yw y bobl yn ddigofus. Maent ymron oll yn tystio fod y gŵr dyeithr yn iawn, ac na chaiff dim niwed ddygwydd iddo. Weithiau byddai nifer o bersonau o'i amgylch yn barod â'u cleddyfau, os byddai angen, i amddiffyn y pregethwr. . . . Mae yr

ynad heddwch yn ei orchymyn i ymddangos ger bron ei esgob; ond mae y gŵr dyeithr yn fuan mewn rhyw le arall, a chyda'i orchwyl arferol. Mae eglwyswyr beilchion yn taranu eu hanathema yn ei erbyn; eithr iddo ef swn gwag ydyw. Mae yr enaid sydd dan y wisg arw yna, ac yn chwareu o'r tu cefn i'r gwyneb sydd wedi ei guro gan gymaint o dywydd, yn enaid sydd wedi ei ryddhâu, nid yn gymaint yn llun yr oes y mae yn byw ynddi, ag ydyw yn brophwydoliaeth o oes i ddyfod; ac i ddyfod wedi i yspaid maith, tywyll, a chythryblus fyned heibio." Un o'r pregethwyr teithiol hyn ydoedd John Aston, am yr hwn y dywedir ei fod wedi ysgwyd ymaith yn agos holl feichiau y cnawd, a'i fod yn dilyn ar ei lafur yn ddiorphwys. Mae yn cael ei gymharu i wenynen, bob amser ar ei haden; neu i gi, bob amser yn barod i gychwyn ar helfa, neu i gyfarth ar y swn lleiaf. Mae yr un desgrifiad yn briodol am John Purvey ac eraill. A phwy, wrth ddarllen am y dynion rhagorol a hunanaberthol hyn, na feddylia am Wesley a Rowlands, Whitfield a Howell Harris, a'u cydweithwyr? Ac os dechreuodd y diwygiad hwn dan Wicliff pan yr oedd yn ddarlithiwr yn Rhydychain ac yn dal bywoliaeth Ludgershall, onid yw yn gydddygwyddiad tarawiadol i'r Diwygiad Methodistaidd yn Lloegr ddechreu yn Rhydychain yn y ddeunawfed ganrif? Ond pa faint bynag a wnaeth Wicliff yn y llwybr hwn cyn myned i Bruges, gwnaeth lawer mwy ar ol ei ddychweliad, ac wedi ei benodiad i Lutterworth. Ac yn yr un modd ymroddodd gydag egni adnewyddol i ysgrifenu, ac yn arbenig i gyflawni prif waith ei fywyd, sef cyfieithu yr Ysgrythyrau i iaith ei gydwladwyr.

Mewn perthynas i'r gorchwyl mawr a phwysig hwn, y mae i'w sylwi ei fod yn erthygl amlwg yn nghredo Wicliff mai y Bibl ydyw yr unig awdurdod gyda golwg ar bob mater o athrawiaeth, a'i "fod yn anmhosibl i unrhyw weithred neu air o eiddo Cristion fod yn meddu awdurdod cydradd â'r Ysgrythyr Sanctaidd." Talai gryn sylw i'r Tadau Cristionogol, yn enwedig Augustin, ond yr oedd eu golygiadau hwynt i'w barnu o ran eu gwerth yn ol eu cysondeb â gair Duw. Ac felly edrychai ar holl ddywediadau esgobion, a hyd yn nod benderfyniadau y Pab, fel yn hollol ddirym pan yn groes i'r Ysgrythyrau. Ymresymai ymhellach: "Rhaid i'r rhai sydd yn ei alw yn heresi i lefaru am air Duw yn Saesoneg, fod yn barod i gondemnio yr Ysbryd Glân, yr hwn a'i rhoddes mewn tafodau i Apostolion Crist, i lefaru gair Duw yn yr holl ieithoedd ordeiniedig gan Dduw dan y nefoedd." A hawliai i'r lleygwr yn llawn cystal ag i'r offeiriad y rhyddid i ddarllen ac astudio gair yr Arglwydd drosto ei hun. Yn cael ei lywodraethu gan y syniadau hyn, ac yn llawn awyddfryd i daenu gwybodaeth gair Duw ymhlith ei gydwladwyr, ac i ddymchwelyd ofergoelion y Babaeth, nid yw yn rhyfedd i Wicliff ymgymeryd â chyfieithu yr Ysgrythyrau. Ond yr oedd dan un anfantais bwysig i gymeryd arno y fath orchwyl. Nid oedd yn hyddysg yn y Roeg a'r Hebraeg, ieithoedd gwreiddiol y Bibl; ond yr oedd yn Lladinwr gwych. Ac o'r cyfieithiad Lladin, y *Vulgate*, y gwnaeth efe ei gyfieithiad Saesoneg; a hwn ydoedd y cyfieithiad cyntaf o'r Ysgrythyrau yn yr iaith Saesoneg. Pa bryd y dechreuodd Wicliff ar y gwaith mawr hwn sydd ansicr. Y tebygrwydd yw iddo wneuthur peth parotoad tra yn Rhyd-

ychain, ond mai yn mlynyddau olaf ei fywyd yn Lutterworth, y gwnaeth y rhan fwyaf o hono. Y mae i'w grybwyll, modd bynag, iddo dderbyn cynnorthwy helaeth gan un Nicolas Hereford, yr hwn a gyfieithodd yr Hen Destament. Ond yr oedd y cwbl dan arolygiad Wicliff. Ac mor gynted ag yr oedd y cyfieithiad yn barod, cafwyd ugeiniau o ysgrifenyddion yn barod i'w adysgrifio. Ymhen ychydig iawn o amser yr oedd Bibl Saesoneg Wicliff wedi cael cylchrediad ëang, ac fel y dywed un awdwr wedi "dwyn bywyd newydd i lawer cartref." Y mae D'Aubigné yn ysgrifenu: "Cafodd y gwaith dderbyniad ymhell tu hwnt i ddysgwyliadau Wicliff. Cynnyrchodd yr Ysgrythyrau sanctaidd ddylanwad adnewyddol ar galonau dynion; goleuwyd meddyliau; trowyd eneidiau; ni wnaethai lleisiau yr offeiriaid tlodion ond ychydig mewn cymhariaeth i'r llais hwn; yr oedd rhywbeth newydd wedi dyfod i'r byd. Dinasyddion, milwyr, a'r dosbarthiadau iselaf a groesawent y cyfnod newydd hwn gyda llawenydd; uchelwyr yn ymchwilgar a edrychent i fewn i'r llyfr anadnabyddus; a hyd yn nod Anne o Luxemberg, priod Richard II., wedi dysgu Saesoneg, a ddechreuodd ddarllen yr Efengylau yn ddiwyd. Gwnaeth fwy na hyn; gwnaeth hwynt yn hysbys i Arundel, Archesgob Caerefrog, a'r Canghellydd, ac ar ol hyny erlidiwr, ond yr hwn yn awr, wedi cael ei daraw wrth weled boneddiges dramor a brenhines yn ostyngedig yn cysegru ei hegwyl i efrydu y fath lyfrau rhinweddol, a dechreuodd eu darllen ei hunan, ac a geryddodd y preladiaid a esgeulusent yr ymarfer duwiol hwn. Dywed ysgrifenydd cydoesol,—'Nis gallech gwrdd â dau berson ar y ffordd fawr heb fod un o honynt yn ddysgybl i Wicliff.'"

Fe ddichon na fyddai yn annyddorol i'n darllenwyr i weled ychydig engreifftiau o gyfieithiad Saesoneg Wicliff o'r Ysgrythyrau. Salm xxiii. 1—3: "The Lord governeth me, and nothing schal fail to me; in the place of pasture he hath set me. He nurschide me on the watir of refreischyng; he convertide my soule. He ledde me forth on the pathis of riztfulness: for his name." Mal. iv. 1: "For lo a dai schal come; brenynge as a chymneuei, and alle proud men and alle doynge unpitee: schulen be 'stobul, and the dai comynge schal enflamme hem seith the lord of oostis: which shalle not leeve to he rote or buriownyng." 1 Petr iii. 22: "That is in the righthalf of God, he swolewinge death, or destrinynge, that we shude be maad eyres of everlastinge liif; he gon unto heuen, aungels, and powers and vertues maad suggettes to him." 2 Petr i. 10: "Wherfore, britheren, more bisye ye, that bi goode werkis ye make youre elepynge and chesynge certeyn." 1 Ioan i. 1: "That thing that was fro the beginyng, which we herden, which we sigen with oure igen, which we beheelden and oure hondis touchiden of the word of liif."

Yr oedd yn anmhosibl i Wicliff gyflawni y fath waith ag yr ymroddodd mor egnïol a llwyr iddo, ac i ymosod fel y gwnaeth yn erbyn y Babaeth, heb gyfarfod â llawer o erlidigaethau. Yn nechreu y flwyddyn 1377 yr ydym yn cael y diwygiwr yn Llundain, yn aros gyda John o Gaunt, ail fab Iorwerth III. Yr ydoedd gan hyny dan reolaeth Esgob Llundain, yr hwn a'i gwysiodd i ymddangos yn St. Paul's i ateb am ei heresi. Y mae D'Aubigne yn rhoddi desgrifiad bywiog o'r achlysur hwnw. Y dyddiad oedd Chwefror 19eg, 1377.

Yr oedd cynuulleidfa anferth ynghyd. Mae yn ymddangos fod mwyafrif mawr o'r rhai oedd yn bresennol yn bleidiol i'r esgob, yr hwn oedd yn offeiriad awdurdodol, zelog a phoblogaidd, ac yr edrychent ar Wicliff fel gelyn i'r Eglwys, ac ar ei brif noddydd, y Duc o Lancaster, fel gelyn i'w rhyddid. Aeth Wicliff i'r Eglwys gadeiriol, yn nghwmni Arglwydd Percy a'r Duc o Lancaster, dau o'r personau mwyaf galluog yn y deyrnas. Ac wrth eu gweled teimlai yr esgob yn gythryblus a digofus. Dywedodd y tywysog wrth Wicliff, Na fydded i chwi ofni dim yn ngwydd yr esgobion hyn, maent yn annysgedig; ac ni ddygwydd ddim niwed i chwi oddiwrth y dorf pobl sydd yma, yr ydym ni yma i'ch amddiffyn. Ni ddywedodd yr esgob ddim ar y cyntaf wrth y Duc o Lancaster, eithr cyfarchodd Arglwydd Percy, gan ddyweyd, "Pe gwybuaswn eich bod am hawlio meistrolaeth yn yr eglwys hon, buaswn yn eich rhwystro i ddyfod i fewn." Atebwyd ef gan Lancaster, "Efe a gaiff fod yn feistr yma, er i chwi ddyweyd na." Yna trodd Percy at Wicliff a gorchymynodd ef i eistedd i lawr a gorphwys. Ar hyn dywedodd yr esgob yn gynhyrfus, "Ni chaiff eistedd i lawr, mae troseddwyr i sefyll o flaen eu barnwyr." Atebwyd ef gan y tywysog, "Yr ydych yn drahâus iawn, fy arglwydd; gofalwch, neu mi a dynaf i lawr eich balchder chwi ac eiddo holl esgobion y deyrnas." "Gwnewch a fynoch i'm drygu," ydoedd atebiad yr esgob. Y tywysog a ddywedodd, "Yr ydych yn feiddgar, fy arglwydd. Yr ydych yn meddwl yn ddiau y gallwch ddibynu ar eich perthynasau, ond bydd ganddynt hwy ddigon o waith i amddiffyn eu hunain." I'r hyn yr atebwyd drachefn gan y prelad, "Yr wyf yn ymddiried nid yn fy rhieni nac mewn unrhyw ddyn, ond yn Nuw, gyda chymhorth yr Hwn byddaf hyf i lefaru y gwir." Nid oedd Lancaster yn gweled dim ond rhagrith yn y geiriau hyn, a dywedodd yn ddigon uchel i lawer o'i amgylch ei glywed, "Buasai yn well genyf dynu yr esgob o'i gadair wrth wallt ei ben na chymeryd hyn ganddo." Ar hyn ymosodwyd arno ef ac Arglwydd Percy gan y dorf, a bu raid iddynt ddianc am eu heinioes. Terfynwyd y cynnulliad mewn terfysg, heb benderfynu dim ar achos Wicliff, os yn wir y bu ymdriniaeth o gwbl arno. Eto yr oedd yr esgobion yn benderfynol y rhaid gwneuthur rhywbeth yn effeithiol i attal y diwygiwr. Gan ei fod yn gwbl anobeithiol iddynt gael cynnorthwy yn y cyfeiriad hwn oddiwrth yr awdurdodau gwladol, y maent yn apelio at y Pab, a hyny heb golli dim amser. Y canlyniad a fu i Gregory XI., ar yr 22ain o Fai, 1377, ddanfon cyfres o *Bulls* yn erbyn Wicliff. Gyrwyd tri o honynt at Archesgob Caergaint ac Esgob Llundain. Gorchymynid hwynt i wneuthur ymchwiliad mewn perthynas i'w olygiadau, ac i'w garcharu os ceid ef yn euog o'r hyn y cyhuddid ef o'i blegid. Achwynai y Pab yn ngwyneb y cyfnewidiad oedd wedi cymeryd lle yn Lloegr, fod y gwylwyr yn awr yn esgeulus a diog, yn gadael y gelyn i fyned i mewn i'r ddinas ac i ddwyn ymaith ei thrysorau gwerthfawrocaf; a'i fod wedi clywed fod periglor Lutterworth wedi tori allan i'r anmhwylledd mwyaf adgas, ac wedi taenu a gwasgaru y golygiadau mwyaf niweidiol i'r Eglwys. Gorchymynai gan hyny ar fod y Brenin a'r boneddigion yn cael eu rhybuddio yn erbyn ei gamsyniadau. Apeliodd y Pab hefyd at y brenin er mwyn ei enw da a'i ddedwyddwch mewn amser a thragywyddoldeb i gynnorthwyo yr ymgais i attal y diwygiwr; a gorchymynodd

Brifysgol Rhydychain ar unwaith i roddi i fyny ei berson i ddwylaw yr Archesgob.

Ond yr oedd llawer o bethau ar y ffordd i'r archebau hyn oddiwrth y Pab gael eu cario allan. Ni chyhoeddwyd hwynt ar unwaith. Bu farw y brenin y flwyddyn hono. Ac yr oedd y Senedd gyntaf dan Richard II. yn llawn o ysbrydiaeth gwrthwynebol i'r Babaeth. Cynnygiwyd alltudio yr holl glerigwyr tramor oedd yn y deyrnas, ac hefyd i hawlio y dirwyon yr oedd y Pab wedi gosod ei hun yn agored iddynt trwy droseddu y gyfraith yn erbyn penodiadau clerigwyr yn annibynol ar y noddwyr, ac wedi eu gwneuthur ymlaen llaw. Gofynwyd i Wicliff am ei farn ar y pethau hyn; ac er y gwyddai fod y fath rwyd wedi ei thaenu drosto i'r amcan o'i ddinystrio, mae yn ateb yn ddiofn a diamwys trwy ddadgan: "Nis gall y Pab hawlio arian, oddieithr yn unig fel elusen, fel gweithred o drugaredd, yn ol deddf cariad: ac ni fyddai yn weithred o gariad, ond yn wallgofrwydd i wastraffu ein hadnoddau ar ddyeithriaid, pan mae y deyrnas mewn perygl i syrthio yn adfeiliedig." Ac y mae yn ysgrifenu yn gryf yn erbyn bydolrwydd a thrachwant y Pab. "Crist, Pen yr Eglwys, yr hwn y dylai pob Cristion ei ganlyn, oedd yn byw ar elusenau gwragedd defosiynol." Dyfyna yr hyn a ganlyn o ail lyfr Bernard at Eugenius: "Pe byddai i Pedr lefaru wrth y Pab ei hun (fel y mae Bernard yn gwneyd wrth Eugenius), a ellid meddwl y byddai iddo gymeryd hyny yn amyneddgar? Nis gellwch hawlio llywodraeth trwy unrhyw deitl apostolaidd. Canys pa fodd y gallai roddi i chwi yr hyn nid oedd ganddo? Yr hyn oedd ganddo a roddes i chwi, sef gofal yr eglwys; ond a roddes efe i chwi arglwyddiaeth ac awdurdod? Gwrandewch yr hyn a ddywed, 'Nid fel rhai yn tra-arglwyddiaethau ar etifeddiaeth Duw, ond gan fod yn esiamplau i'r praidd.' Yma y mae arglwyddiaeth a llywodraeth yn cael eu gwahardd i'r apostolion, ac a feiddiwch chwi drawsfeddiannu yr un pethau! Os myni fod yn arglwydd, ti a golli dy apostoliaeth, neu os myni fod yn apostol ti a golli dy arglwyddiaeth; oblegid yn wir ti a ymadewi âg un o honynt. Os myni y ddau, ti a golli y ddau."

Pa mor bell yr oedd seneddwyr ac ysgoleigion yr oes hono yn deall ac yn cydymdeimlo â'r golygiadau hyn o eiddo Wicliff, nid ydym yn abl i benderfynu. Ond y mae yn amlwg fod y Senedd a'r Brifysgol yn bleidiol i'r diwygiwr; a dangoswyd hyd yn nod gan yr esgobion nid ychydig o fusgrellni i gario allan *bulls* y Pab yn ei erbyn. Yn ol Walsingham, cymerwyd peth amser gan y Brifysgol i ystyried pa un a dderbynid y *bull* ai peidio. A dywed y mynach o St. Alban mai gwell bod yn ddystaw nag adrodd y modd diog yr ufuddhaodd yr esgobion i'r archeb a ymddiriedwyd iddynt. Modd bynag o'r diwedd magasant ddigon o wroldeb i fyned ymlaen. A chynnaliwyd ail brawf ar Wicliff yn mis Chwefror neu Mawrth 1378, yn mhalas Lambeth, dan lywyddiaeth yr archesgob. Gyda bod y gweithrediadau yn dechreu, wele genad o'r llys yn hysbysu fod y cyfarfod yn anghyfreithlawn, yn gymaint a bod archeb y Pab yn cael ei gario allan heb gydsyniad y brenin a'r llywodraeth; a therfynwyd y prawf yn sydyn gyda gwaith Wicliff yn unig yn cyflwyno dadganiad ysgrifenedig o'i olygiadau. Yn ystod yr un flwyddyn y cymerodd y rhwygiad le yn Eglwys Rhufain

trwy benodiad dau Bab, y naill yn hen gartref y Babaeth, a'r llall yn Ffrainc; ac mewn canlyniad gwelwyd dau berson yn proffesu anffaeledigrwydd yn taranu melldithion yn erbyn eu gilydd. Effeithiodd yr amgylchiad hwn ymhellach i ddadblygu golygiadau gwrthbabyddol Wicliff, ac yn fuan yr ydym yn ei gael yn cymeryd ei safle yn erbyn yr athrawiaeth o draws-sylweddiad; ac nid yw yn petruso i alw y Pab o Rufain yn Anghrist; tra o'r tu arall y mae ei ddealltwriaeth yn ngwirioneddau y Bibl yn ennill nerth a'i syniadau ar athrawiaeth yr efengyl yn cyrhaedd graddau uchel o eglurder ac addfedrwydd.

Ond y mae cyfnewidiad arall yn awr wedi cymeryd lle yn swyddogaeth yr Eglwys yn y wlad hon. Courtenay, yr hwn a wysiodd Wicliff ger ei fron yn St. Paul, sydd yn awr ar orsedd Caergaint; ac y mae efe yn ŵr gwahanol i'w ragflaenydd Sudbury. Ar yr 21ain o Fai, 1382, cynnullodd gynghor yn Blackfriars—y man lle mae swyddfa y *Times* yn awr yn sefyll arno, yn cynnwys nifer o dduwinyddion yn cynnrychioli yr amrywiol bleidiau yn yr Eglwys, i ystyried daliadau Wicliff. Condemniwyd rhai o honynt fel heresi, a'r gweddill fel yn gyfeiliornus. Dyma rai engreifftiau o'r heresiau condemniedig:—Nad oes dim cyfnewidiad yn y bara a'r gwin yn y cymun; fod y gyffes yn afreidiol; os yw y Pab yn ddyn drwg, nad oes ganddo awdurdod ar y ffyddloniaid yn Nghrist, &c. Pan yr oedd y cynghor yn eistedd bu daeargryn, yr hwn a fawr ddychrynodd y duwinyddion; ond gallodd yr archesgob droi y peth yn fantais i amcan y cyfarfod, trwy ddyweyd fod y Duw mawr yn dangos yn y llwybr hwnw ei anfoddlonrwydd yn erbyn yr heresiau a'r cyfeiliornadau oeddynt yn peryglu yr Eglwys, a'i fwriad i'w carthu allan o'r wlad. Llwyddodd hefyd i gael gan Dŷ yr Arglwyddi i basio penderfyniad yn rhoddi awdurdod i erlyn a charcharu personau oedd yn dal heresiau a chyfeiliornadau Wicliff, ac i sicrhâu ffafr y llŷs i'r mudiad erlidgar. Yna aeth ymlaen i gael y Brifysgol yn Rhydychain i weithredu yr un modd. Bu ei ymdrechion ef a'i gydesgobion yn llwyddiannus i beri i laweroedd dynu yn ol.

Eithr beth am Wicliff ei hun yn nghanol y cynhwrf hwn? Ar y 18fed, ac wedi hyny y 24ain o Dachwedd, 1382, y mae unwaith eto yn sefyll ger bron Archesgob Canterbury gyda chwech eraill o esgobion a lliaws mawr o wŷr llên a lleyg yn Rhydychain. Yr oedd yn awr yn unig. Er fod yno lawer o'i ddysgyblion, ni feiddient godi eu llais o'i blaid. Eto y mae yn sefyll yn ddigryn ac yn traethu ei olygiadau yn eofn, a therfynodd ei gyfarchiad gan ddywedyd, "Y gwirionedd a lwydda." Yna ymadawodd, yn debyg fel y gwnaeth ei Arglwydd o Nazareth, heb i neb ei gyffwrdd, a dychwelodd at ei waith yn Lutterworth.

Ac yma bellach y mae yn treulio y gweddill o'i fywyd mewn llafur diflino, yn gorphen y cyfieithiad o'r Bibl, yn ysgrifenu traethodau, yn pregethu ac yn bugeilio ei blwyfolion, ac yn gwneyd a allai i ddwyn ymlaen ei genadaeth efengylaidd. Yn niwedd y flwyddyn 1382 y cafodd ei daro gyntaf gan y parlys; eithr cafodd ei adferu mor dda fel y gallodd ddilyn ymlaen yn ddidor gyda'i amrywiol orchwylion. Yr oedd yr amddiffyn Dwyfol yn amlwg drosto. Oblegid er nad oedd digofaint yr awdurdodau eglwysig yn ei erbyn wedi lliniaru dim, mae yn ymddangos iddo gael llonydd gan ei elynion. Buasai yn glaf iawn

yn Rhydychain yn niwedd 1379, a phan ymddangosai yn ymyl marw, gwnaed cais gan amryw o'r prif fynachod i gael ganddo ddadgyffesu. "Y mae marwolaeth ar eich gwefusau," meddent wrtho; "bydded i chwi deimlo oddiwrth eich beïau, a thynwch yn ol yr hyn oll ydych wedi ei ddywedyd i'n drygu ni." Gofynodd i'w was ei gynnorthwyo i eistedd ar ei wely. A chyda golwg llym a phwyslais cryf atebodd hwynt: "Ni byddaf farw ond byw, ac amlygaf eto ddrwg weithredoedd y mynachod." Gyda'r gair rhedasant allan o'r ystafell yn synedig, a chyflawnwyd ei brophwydoliaeth yntau. Bu fyw i orphen ei waith. Yr oedd yn gweinyddu yn y cymun pan yr ail ymosodwyd arno gan y parlys. Yr oedd hyn ar yr 28ain o Ragfyr, 1384, ac ymhen tri diwrnod symudwyd ef i'r "wlad o wynfyd pur heb haint." Claddwyd ei weddillion yn mynwent Lutterworth; eithr ni chawsant lonydd yno. Yn Nghynghor Constance, a gynnaliwyd yn 1415, penderfynwyd fod ei esgyrn i'w codi o'r ddaear ac i'w taflu ymaith; ac ymhen tair blynedd ar ddeg ar ol hyny agorwyd ei fedd a llosgwyd yr hyn a dybid fod yn weddillion iddo, a thaflwyd y lludw i'r afon Swift, yr hon a'u cludodd i'r Avon a hono i'r Hafren, a hithau i'r moroedd. Ac felly, fel y dywed Thomas Fuller, "Y mae lludw Wicliff yn gysgod o'i athrawiaeth, yr hon sydd yn awr yn cael ei thaenu dros yr holl fyd." I ddangos ymhellach gynddaredd annuwiol y Babaeth, yr ydym yn cael un o'i hofferynau truenus yn galw Wicliff yn "offeryn diafol, gelyn yr Eglwys, awdwr terfysg ymysg y bobl gyffredin, eilun hereticiaid, delw rhagrithwyr, adferydd rhwyg, ystordŷ anwireddau, a swyddfa gweniaith." Fel hyn hefyd yr ydym yn cael yr Archesgob Arundel yn cyfeirio at ei waith yn cyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Saesoneg mewn llythyr at y Pab John XXII.: "Y mae wedi cwblhâu ei falais trwy ddyfeisio cyfieithiad o'r Ysgrythyrau i iaith ei fam." Eilwaith Knighton a ysgrifenodd yn yr un ysbryd ymhen un mlynedd ar bymtheg wedi marwolaeth Wicliff: "Mae Meistr John Wicliff trwy gyfieithu yr Efengyl i'r Saesoneg wedi ei gosod yn fwy agored i'r lleygwyr ac i wragedd a allent ddarllen, nag ydoedd yn flaenorol i'r rhai mwyaf dysgedig o'r clerigwyr, hyd yn nod y rhai a feddant y deall goreu. Ac yn y modd hwn y mae perl yr Efengyl wedi ei daflu ar led, ac yn cael ei sathru gan foch, a'r hyn oedd o'r blaen yn werthfawr i glerigwyr a lleygwyr sydd yn awr wedi ei wneuthur megys yn destun cellwair cyffredin i'r naill a'r llall. Mae gem yr Eglwys wedi ei droi yn ddifyrwch y bobl, a'r hyn oedd o'r blaen yn brif ddawn yr offeiriaid sydd yn awr am byth yn gyffredin i'r werin." Y fath ddarlun truenus o'r Babaeth yr ydym yn ei gael yn yr ymadroddion hyn! A'r un yw hi heddyw ag ydoedd bum' can' mlynedd yn ol. Ond y maent yr un pryd yn cyd-dystiolaethu, gyda llawer o bethau eraill, i brofi y dylanwad mawr a adawodd Wicliff ar ei ol, a'r lle pwysig sydd iddo mewn hanesyddiaeth.

Dymunwn gyfeirio ein darllenwyr at y llyfrau a'r traethodau canlynol am hysbysrwydd pellach am ei waith a'i farnau:—*Life of John Wycliffe* by Fredric D. Matthew (6c.); *John Wicliffe, the Morning Star of the Reformation*, by David J. Deane (1s.); *Jn. Wicliff's Days* by Grace Stebbing (2s. 6c.); *John Wiclif: His Life, Times, and Teaching*, by Rev. Canon Pennington (2s. 6c.); *Life and Times of John Wycliff*, Religious Tract Society (2s. 6c.); *Wycliffe Anecdotes*, by Samuel G. Green, D.D.

(1s. 6c.); *John de Wycliffe, England's Great Reformer*, by E. S. Holt (6c.); ynghyd a'r traethodau bychain dilynol: *The Teachings of Wycliffe*, by Rev. J. Radford Thomson, M.A.; *The Morning Star of the Reformation*, by S. G. Green, D.D.; *John Wyclif*, by Rev. William Odom; *John Wycliffe, the first of English Reformers; John Wycliffe the Bold, or England's First Reformer.* Darllener hefyd y gyfrol o'r *British Reformers* ar Wicliff a Bilney, a gyhoeddwyd flynyddoedd yn ol gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol; a'r seithfed a'r wythfed o'r pennodau yn y bummed gyfrol o Waith D'Aubigne ar *Hanes y Diwygiad*; ynghyd a'r cyfeiriadau a wneir ar Wiclif gan Neander a Hagenbach, ac eraill o'r Haneswyr Eglwysig. Ac yn awr y mae yn edrych yn addawol y ceir cyn bo hir argraffiad cyflawn o'i weithiau ef ei hun yn yr iaith Saesoneg.

WILLIAM EVANS.

---

# Y SABBOTH.

## I.

"HYFRYDAF forau Sabbath! Croesaw it'.
Mae delw fad Trugaredd yn dy wedd.
Adlewyrch wyt o dostur calon Duw,—
O gydymdeimlad tyner Dad â'i blant
Blinedig gan orthrymder bydol waith,
I dyner ysgafnhâu ein llethol faich.
Glas lecyn yn anialdir bywyd blin
Lle gall y teithiwr ddadluddedu ei hun
Dan gysgod deiliog bren Gorphwysfa hedd,
Ac yfed dyfroedd iachus seibiant hoff.
I'r gweithiwr blin wyt fel rhyw forglawdd cryf
Rhag rhuthr trachwant goludogion hyf.
Tosturi Duw, fel craig i'n diffyn ni,
Rhag ymchwydd gormes Llafur ydwyt ti.
Ah! blin yw 'r llafur ddygai 'r anfad gwymp
Ar ddyn ac ar anifail. Cryma 'm gwâr,
A rhychia 'm gwedd. Cyn henaint wyf yn hên.
Ai peiriant ydyw dyn i'w weithio fyth?
Ai gweithio, bwyta, cysgu, ydyw swm
Ei ddyledswyddau ato 'i hun a'i Dduw?
Oes iddo gryfder march neu gawrfil rhwth?

Ai dur gadwyni yw ei wythi ef?
Ai agerdd peiriant yw ei anadl dwymn?
Erch Fammongarwr! creulawn yw dy nawd
Am aur, pan werthi chwys dy ddynol frawd,
Pan drawsfeddienni ei amser it' dy hun,
A'i amddifadu bron o'i nosawl hûn.
Hawddammor Sabboth, i'n rhyddfreinio ni
Am yspaid o dy grafangc greulawn di.
I glwyfau llafur wyt adfywiol falm;
Mae gobaith gwaredigaeth yn dy wên.
Caf heddyw fod yn eiddo i mi fy hun,—
Anghofio llethol orthrwm cyfoeth traws,
A chloddio bedd i flinder bregus gorff,
A meddwl am diriondeb nerth fy Nuw—
Y Duw sy 'n galondyner er yn gryf.
Gall ef roi genfa 'n mhenau beilch feib Ffawd,
A chodi 'r tlawd i ryddid a mwynhâd—
Y rhyddid goreu yw bod iddo 'n gaeth,
A'r seibiant penaf yw bod iddo 'n was."—

Fel yna 'i Salm o ddiolchgarwch pur,
Am saib i gorff a chalon lawn o gur,
Anadlai fferm-was forau Sabbath gwiw
I glust y chwâ a'i dygai i glustiau Duw.

Tra hithau y forwynig ysgafn droed,
A iechyd yn gorseddu ar ei grudd,
A'i gwedd fel gwlith dan haul belydrau 'r nef
Yn siriol befrio,—hithau enfyn gân
Ddysgasai ar yr aelwyd gan ei mam,
O wraidd ei henaid yn beroriaeth fwyn
Wrth odro 'r gwartheg, ydynt ddelw hardd
O Sabboth corff a seibiant ysbryd pur:—

"Am orpheniad Creadigaeth
Iuddew geidw 'i Sabboth Ef;
Am orpheniad Iachawdwriaeth
Euog ddyn gan Grist o'r nef,
Cadwn ninnau 'y dydd cyntaf'—
Dydd cyfodiad Iesu o'r bedd—
Ysgub blaenffrwyth hael gynhauaf
Gwir gredinwyr ar ei wedd.

"Adgyfodiad Iesu goda
Farwol ddyn i fywyd Duw,
Amwisg llygredd byth adawa
Mewn sancteiddrwydd mwy mŷn fyw;
Tlodion weithwyr heddyw godant
Fel o fedd trafferthion blin,
Ac yn mygdarth mawl esgynant
Fry i gartref Duw ei hun.

"Gwena 'r wlad mewn gwisgoedd tlysion
Heddyw 'n ardeb gobaith gwiw,
Am gael gwisgo 'r 'gynau gwŷnion'
Fry yn nghwmni 'r saint a Duw:
Trwy Sabbothau 'r Adgyfodiad
Coder f' ysbryd innau i'r wlad
Lle y bydd bywyd pob dyfodiad
Yn un Sabboth o fwynhâd."

Mewn tlodaidd annedd sydd gerllaw, mae un
O batriarchaidd ddull, a sanctaidd wedd,
Yn adlewyrchiad calon sanctaidd bur,
Mewn ymson hyglyw yn bendigo Duw,
Am weled "un o ddyddiau Mab y dyn"
Yn rhagor, cyn myn'd ato i orphwys fry:—
"'R ol wythnos o drafferthion hyfryd yw
Cael dydd i dawel gymdeithasu â Duw.
Mae llaid gofalon ar adenydd ffydd,
A gweddi 'n methu ag anadlu 'n rhydd
Yn nhawch afiachus llychiog awyr byd
Nes llethu f' ysbryd egwan lawer pryd.
Caf hamdden heddyw i brydferth drwsio 'm plŷf,
Er hedeg fyny tua 'r nef yn hŷf,
Ar edyn myfyrdodau pur a gwaith
Dros Dduw, nes llwyr anghofio lludded taith
Yr anial fyd. Pwy na chroesawa 'r awr
I gau y drws ar ddadwrdd blin y llawr;
I wrando ar gyfrinion serch ein Tad
A miwsig per o'n genedigol wlad?
Yn mhrudd dawelwch nos pan huna 'r byd
Y gollwng ëos ffrwd o fawl bob pryd,
A nef beroriaeth ni rydd f' ysbryd i
Ond fel i glust tawelwch Sabboth cu.
Mae ef a natur hoff mewn cydgord rhydd
Y borau hwn. Haul Mai addurna 'i rudd,
A phletha 'r Gwanwyn gylch ei arlais flodau.
Mae natur am ei wneyd yn ddarlun byw
O'r Sabboth sydd yn ol i bobl Dduw,
'R ol lludded taith yr anial cras a'i chroesau.
Fel yr yspïwyr gynt o ddyffryn Escol
A ddygent rawnwin addfed i'r diffygiol,
Yn nerth i'w ffydd fod Canaan a'i dedwyddwch
Yn daliad llawn am gyni yr anialwch,
Mae 'r Sabboth yn dwyn im' rawnsypiau mad
O'r wir winwydden dyfa fry yn ngwlad
Gorphwysfa 'r saint, ac a addfedir gan
D'wyniadau dysglaer Haul Cyfiawnder càn.
Fel porthladd i agerddlong ambell waith
I alw heibio am gynnud at y daith,

Yw 'r Sabboth i fy egwan ysbryd man
I orphen mordaith oes heb brudd lesgâu.
Mae adgof am Sabbothau dreuliais, pryd
Y plygai 'r nefoedd i gusanu 'n byd,
Neu yr esgynwn i uwch byd a'i fai
Ar edyn ffydd i'r nefoedd i'w mwynhâu,
Yn felus wledd, ac yn wir ernes wiw
O'r Sabboth sydd yn ol yn mhreswyl Duw."

Tra mae y gwledig batriarch duwiol hwn
Yn llon gyweirio tannau telyn mawl
Ei galon, i groesawu ei Dduw i'w deml,
Mae balch foneddwr yn y dref islaw
Ar wely o fanblu yno 'n mwyth orweddian
Tra lluchia 'r haul ei belydr i'w orweddfan,
I geisio 'i godi. Cloch y llan gerllaw
Fel tyner alwad tad ar ol ei blant,
Wahodda bob afradlon adre 'n ol
I wledda ar basgedigion yn ei dŷ;
Ond nid yw gwenau 'r nef na llais y llawr
Yn deffro ynddo addoliadol barch:
Mewn arall fodd myn ef "sancteiddio" 'r dydd.
Mewn sarug dôn fel hyn ei ddrygnaws red:—

"Paham y ceuir heddyw lwybrau pleser
A drain gan ragfarn Puritaniaid cul?
Yr wythnos rydd fwynhâd, a raid i'r Sul
Roed in' er mwyniant fod yn ddrych o flinder?

"Chwareua 'r ŵyn a'r awel ar y faenol,
A gwena 'r blodau ar yr haul yn rhydd;
Ond rhagfarn geidw ddyn yn gaeth drwy 'r dydd
Yn ngharchar ffol Iuddewaeth ffug-grefyddol.

"Ai seibiant yw cau dyn rhwng muriau Eglwys
I wrando prudd-dôn rhyw glerigwr, fyn
Ein rhwymo ni â chadwen ofn yn dỳn,
A rhwystro corff ac enaid dyn i orphwys?

"Mewn prudd unigedd heddyw cwyna Pleser,
Ni chlywir heddyw ddawns na siriol gân;
Mae 'r dydd a phob difyrwch ar wahân.
O brysia, huan, i derfynu 'm blinder!"

II.

Ni chlywir heddyw drwst syfrdanol masnach
Yn diaspedain ein hystrydoedd afiach;
Trafnidiaeth brysur weithian ga orphwysfa,
Dystawrwydd dŷn ei len dros ei gorweddfa;

Ca 'r march ei ryddid, ar y ddôl gweryra,
A'r mul oddiwrth ei drymwaith a orphwysa.
Mae hithau 'r wlad yn mreichiau mwyn tawelwch
Yn gwenu 'n llon yn llygaid cu lonyddwch.
Fry, fry, wrth borth y wawr, boreugân hedydd,
Yn mawl emynu ei ddiolch am foreuddydd,
A bref y deadellau ar y bryndir,
A su yr awel heddyw 'n unig glywir;
Mae natur ar ei goreu yn ein suo,
Fel mam ei baban, in' gael llawn orphwyso.

Esgynwn fryncyn gwyrddlas sydd gerllaw
I syllu enyd ar y fro o'n cylch,
Y fath dyrfaoedd welwn ar bob llaw
Yn araf wyl-urddasol rodio ynghyd!
Pob un â diwyg drefnus, fel yn ddrych
O'r hyn yr hoffai i'w ysbryd heddyw fod.
Pob llwybr fel nant, a ollwng ffrwd ddibaid
I chwyddo 'r llif a rêd i gefnfor mawl;
Mae 'r fam a'i hangel-faban ar ei bron
I'w fyw gyflwyno i Dduw a'i gysegr byth,
Fel y gwnaeth Hannah gynt â'i Samuel bach.
Mae 'r glaslanc yna 'n cario 'i ieuanc frawd—
Yn dysgu hunanaberth ar y ffordd,
Fel parotöad at wers fawr y deml,
Lle gwelwn Iesu 'n cario beichiau 'r hîl.
Mae 'r rhian ddwyfol-brydferth yn eu mysg,
A phurdeb diniweidrwydd yn ei threm.
Mor ysgafn droed â'r ewig ar y lawnt;
Mor bur a'r gwlithyn sydd ar fron y rhos,
Yn siriol fel y wawr ar forau o haf,
A'i bron yn llawn o gariad at yr Hwn
Y bu i'w ddwyfol fywyd ddysgu 'r byd
I barchu 'n deilwng a dyrchafu eu rhyw.
Mae 'r henwr hefyd yna ar bwys ei ffon
A than ei gesail caria 'i werthfawr Fibl.
Hoff drysor ei drysorau ydyw hwn
Yn naear hwn y tyf ei fywyd ef.
A'i wallt-gudynau chwery 'r awel fwyn,
A nefol chwa fyw chwery â'i ysbryd pur,
Nes ydyw, er yn hen, yn ieuanc dirf,
Yn ernes o ystâd tragwyddol hoen.
Mae pob un am ei deml yn dyheu,
I gymdeithasu yno 'n rhydd â'i Dduw,
Ac iddo roi ei hun yn aberth byw.

Fan yma yn "Sïon" taer weddi adseinia
O galon pechadur i galon Jehofa.

Troseddwr mewn ymbil, a'r nef yn clustfeinio,
A'r Drindod mewn Undod dan wenu 'n bendithio!
Gwres Cariad Jehofa yn anfon y Duwddyn,
Fel mygdarth o'r ddaear, yn foliant i esgyn
Yn arogldarth peraidd i ffroenau 'r Anfeidrol,
O ganol gwres cariad y fron edifeiriol.

Fan acw yn "Horeb" mae torf o dan wasgfa
Am symud o Sinai i olwg Calfaria.
Bu 'r enaid dan grynu yn sŵn y taranau,
A'r fforchog fellt deifiol yn ffaglu 'r wybrenau.
Bygythiol lais Deddf yn eu clustiau yn rhuo,
A gwae damnedigaeth o'u blaen yn ymrithio.
Dystawrwydd y daran—parlysiad pob mellten
A lechai 'n y cymyl gysgodent y croesbren.
Daeth dyn o'i lewygfa—mae 'r nefoedd yn gwenu—
A bywyd ar angau yn bythol orchfygu!
A chariad arweinia Drugaredd i'r orsedd,
A'r nefoedd a siglir gan storm o orfoledd.
A chofio y cariad sy 'n awr yn trydanu
Pob mynwes drwy 'r dyrfa i'w fythol fawrygu,
A gwenant drwy 'u dagrau ar Dduw yn ei dostur
Yn marw i roi bywyd a hedd i'r pechadur!

Draw acw yn "Bethel" ceir tyrfa yn chwilio
Darlunlen y wlad lle bwriadant ymfudo;
A dysgu bloesg siarad pur iaith y trigolion,
A holi i ansawdd y wlad a'i harferion;
Anhawsder y daith, "y porth cyfyng," a'r dringo,
A "chodi y groes" ar ein hysgwydd heb gwyno;
"Marwhâu yr aelodau," a'r hunanymwadu,
"Y bywyd trwy farw," a'r "gamp drwy orchfygu;"
Olrheiniant ddadleniad y Dwyfol fwriadau—
Y cariad-ddirgelwch fu 'n gudd am faith oesau;
Edrychant ar ysbryd brwdfrydig brophwydi
Yn saethu drwy wyll y dyfodol oleuni:
Gwrandawant ar ymson cariad-glaf dwyf-feirddion
Yn arllwys eu hiraeth am wel'd brenin Sïon,
A syllant ar wyneb y Cariad ei hunan,—
A'r Dad tragwyddoldeb yn Methl'em yn faban!

Ah, dyma 'r Coleg goreu gaed—
  Athrofa fach yr Ysgol Sul,
  I'n dysgu i rodio 'r llwybr cul,
A byw dan arwydd sicr y gwaed.

Lle dysgir plant i ochel bai,
  A hoffi 'r da, y tlws a'r pur,
  I ochel gau; a charu 'r gwir,
A hoffi 'r nefoedd i'w mwynhâu.

O gylch y llanc yn gaerfa gref
  Mae doeth gynghorion Bibl Duw,
  Esiamplau 'r hen yn bwyntfys byw
I ddangos iddo 'r ffordd i'r nef.

Ni phrofodd angel uwch mwynhâd
  Na 'r Cristion-athraw yma sydd,
  Yn dysgu plant yn ngeiriau 'r ffydd,
A d'weyd am olud serch ein Tad.

Gwn na rydd dim i'n Iesu cu,
  Uwch mwyniant fyth yn nef y nef,
  Na chynneu lamp ei gariad Ef
I oleu rhai mewn t'wyllwch sy.

I un o'r dosbarthiadau enyd awn,
I wrando brawdol ddadl ar bynciau 'r "ffydd."
"Y Sabboth wnaethpwyd er mwyn dyn" yw'r pwnc
I'w drafod heddyw. Ebe un yn hyf :—

"'R ol treulio rhai blynyddau 'n ngwlad y Sais—
Gwlad rhyddid oddiwrth gaethder rhagfarn gul,
A gwybod tipyn am arferion gwlad
Yr Ellmyn—hyf flaenfyddin breiniol lu
Meddylwyr Ewrop,—ac arferion Ffrainc,
Arweinydd defion gwareiddiedig fyd,
Mae delw henaint yn ymddangos im'
Ar ruddiau Sabboth Cymru erbyn hyn.
Ni charthwyd eto surdoes cul Iuddewaeth
O Gymru, sy 'n andwyo Cristionogaeth;
I lythyreniaeth fanol pery 'n gaeth,
A Moses yw ei hathraw hi, nid Crist.
Gan Ysbryd Iesu ni ryddfreiniwyd hi
O afael bywyd-rwystrol gormes Ofn.
Mae gwynt 'y dwyrain' yn difwyno ffrwyth
Gardd Cristionogaeth yn ein hanwyl wlad.
Gorphwysfa segur i Ddwyreiniwr yw
Ei nefoedd ef, a gwaith ei elyn gwrdd.
Ffol dybiai ef mai segur fyth yw Duw
'R ol gorphen gwaith y chwe' diwrnod creu.
I foddio 'i duedd at ddiogi swrth
Bu 'i ddyfais ar lawn waith yn ffurfio llu
O amryw fathau o Sabbothau mŷg,
I orphwys arnynt a'u 'sancteiddio' hwy.
Y Sabboth wnaethpwyd er mwyn *dyn*, medd Crist,
Nid diog Iuddew 'n unig. Er mwyn dyn
Yn gorff a meddwl mewn cyfluniad tlws.
Nid peidio gweithio yw gorphwysfa pawb.
Mewn llafur dibaid y gorphwysa Duw ;
'Mae 'm Tad yn gweithio 'n gyson hyd yn hyn,'

Medd Iesu wrthym, fel y gwnai ei hun.
Mae gwaith cymedrol yn fwynhâd i *gorff*,
Mewn gwaith gorphwysa *meddwl mawr* bob pryd.
Ac os mai syllu ar gywreinion celf,
Neu wrando cân yr adar yn y wig,
Neu ynte anadlu awyr iach y bryn,
Neu ddarllen drychfeddyliau Duw ar greig,
Neu glust ymwrando â chyfrinion cudd
Myg natur, sydd yn gorff am feddwl Duw,
Yw mwyniant a gorphwysfa oreu dyn,
Pa reswm ini ei warthruddo fyth
Fel torwr Sabboth ac fel gwadwr Duw?"

"Mae 'th ryfyg, gyfaill, yn fy synu 'n brudd,"
Eb arall gan ei ateb. "Tybiwn i
Fod gorchymynion Duw yn rhwymo dyn
I ufuddhâu heb ofyn un 'Paham.'
Mae geiriau 'r 'Llyfr' yn eglur ar y pwnc.
'Na wna *ddim gwaith*, tydi, na 'th fab, na 'th ferch,
Na 'th was, neu 'th forwyn gaeth fo yn dy dŷ,
Na 'r un anifail fyddo yn dy faes.'
Rhaid i ni dderbyn geiriau 'r Bibl mewn ffydd,
A chredu fod eu cynnwys *oll* yn wir—
Yn anffaeledig eiriau Duw ei hun,
Pe 'n croesi holl linellau 'n *rheswm* lleg,
Ac nad oes fendith ond trwy ufuddhâu.
Teleran meddu breintiau Canaan wlad
Oedd cadw 'r Sabboth i'w sancteiddio byth;
Mae melldith y Duw hwnw eto 'n nghrog
Uwch ben y genedl sathro 'i Sabboth Ef.
Ac am Gyfandir Ewrob, oni thöir
Ef gan flinderau wlawia Duw yn farn
Am öofn lygru 'i sanctaidd Sabboth Ef?
Dydd Duw yw 'r Sabboth. Lladrad yw
Ei drawsfeddiannu at un bydol waith.
Ymdaenai dinystr yn anffyddol lif,
Yn faglau tân a brwmstan cyfiawn farn
Dros Brydain hoff, pe yr halogai hi
Ddydd sanctaidd Duw fel y ffol ddysgi di
A'th dwyll resymeg ——"

"Yn araf, frodyr," ebe 'r athraw mâd,
"*Gorphwysed* eich meddyliau ar y pwnc,
Nes dëor arno drefn. Mae bwyell un
Ar wraidd y pren. Mewn pryder am ei hoedl,
Y llall fyn gadw 'i gangau crinion oll.
Mae cadw 'r Sabboth yn orchymyn Duw,
A bendith yn glymedig wrtho fyth;
Ond nid fel y deallai 'r Iuddew ef
Mewn manol ymattaliad oddiwrth waith.

I ffurf gorchymyn Moses nid y'm gaeth,
Ond mae ei ysbryd yn ein rhwymo o hyd.
Pan gyfyd Crist fel haul i'w uchaf bwynt
Yn serch calonau 'i bobl, cilia gwyll
Cysgodion *gorchymynion* llesg a thlawd,
Ac *Ysbryd Mab y dyn* fydd i ni 'n ddeddf.

"*Gorphwysfa Duw yw cynllun Sabboth dyn.*
Nid gorphwys diwaith ydyw Sabboth Duw
Er dyddiau 'r creu. Wrth adolygu ei waith,
'Ac wele da iawn oedd'—a gwel'd pob peth,
Pob olwyn yn y peiriant mawr mewn trefn,
Yn gweithio allan ei fwriadau doeth,
Pob byd yn troi 'n rheolaidd gylch ei haul,
Pob bywyd tirf i'w ddeddf yn ufuddhâu,
A chynnal bydoedd fel ar gledr ei law,
A gyru trydan bywyd i bob bôd,
Ac ymddifyru mewn dedwyddu 'r oll—
Yn hyn y ca 'r Jehofa 'i Sabboth Ef:
Ac iddo Ef nid blinder, ond mwynhâd,
Yw llafur. *Mwyniant gwaith yw Sabboth Duw.*

"Wrth adolygu llafur cariad oes,
A gwel'd pob wythnos a phob dydd yn llawn
Gan waith dros Dduw a dynion, dyna 'r pryd
Y cyfranoga dyn o Sabboth Duw;
Y *gwir* fwynhâ orphwysfa hyfryd hedd.
Mae seibiant corff am ryw un dydd o'r saith
I ddyn er hyny 'n anmhrisiadwy rodd.
Mae pechod yn gwneyd gweithio iddo 'n boen,
Ac afradlonedd yn ei wneyd yn faich;
Cyfalaf erlyn lafur yn ddibaid,
Ac fel y gele pery i waeddi 'Moes;'
Mae esgyll gwawr ei Jubili 'n nesâu.
Daw ysbryd tyner Iesu i'w ryddhâu
Cyn hir, a chwyd y gweithiwr i fawrhâd.

"Dyngarwch drethai holl ddyfeisiau celf
I roi y tresi ar wâr galluoedd gwrdd
Y byd naturiol, a daw gwaith i ddyn
Pryd hyn yn seibiant ac nid poenus faich.
I sylweddoli hyn y gweithia Duw
Trwy 'i Ysbryd, ar *athrylith* meibion celf,
Ar *gydwybodau* cyfalafwyr byd,
Ac ar *galonau* gwir ganlynwyr Crist,
*I wneyd ein hoes yn Sabboth hyfryd in'.*

"'Y Sabboth wnaethpwyd er mwyn dyn,' medd Crist
I'w barotoi drwy ffydd i fyn'd i mewn
I gyfranogi o orphwysfa Duw,

I'n dwyn fel Iesu i weithio mewn mwynhâd—
O gydymdeimlad at druenus fyd,
O awydd gwasanaethu 'n Tad o'r nef,
O gariad at bechadur yn ei boen.
Hwn lafur Cariad, am bob dydd o'r saith,
Fydd sylweddoliad Sabboth Duw i ddyn."

III.

Ar hwyr y Sabboth mewn neillduedd myg,
A myfyr dwfn, wrth adolygu ei waith,
A theimlo y gwasanaeth wnaeth i'n gwlad
Mewn coethi a moesoli nawd ei phlant,
Ac ymlid drwg arferion fel gwna 'r huan,
I wyll ei cheubren erlid y ddallhuan;
Ac yn lle ymgodymu a chwareu pêl,
Eu dysgu i ymgodymu â phyngciau 'r "ffydd,"
A lluchio adnodau 'r Gair at ben bob drwg
Fygythia adgyfodi yn ein mysg,—
A gwel'd goleuni Bibl yr Ysgol Sul
Yn diffodd gwawr "canwyllau cyrff" y wlad,
Fel ser yn boddi 'n nylif gwawl y dydd,
A gwisgo 'n bro â cheinder nefol ddysg,
A gwyl addurno 'i mheib â dwyfol foes,
A'u parotoi i fwynhâu y Sabboth fry,—
Fy nheimlad redai 'n ffrwd i'r geiriau hyn:—

Dy Sabboth, hoff Gymru yw 'th drysor rhagoraf
Dy angel-warcheidiad—dy goron hygaraf,
A byth na chaed huan wrth syllu ddwfn wrido
Am na chai y Sabboth ei deilwng sancteiddio.
Mae 'th lwydd a'th ddyrchafiad â hwn wedi 'i glymu,
A byth na thywyned y dydd i'ch ysgaru.
Hoff Sabboth bendigaid! tra 'r corff yn gorphwyso
Câ 'r enaid mewn nwyfiant addolgar fyw weithio.
Cawn hamdden i syllu ar natur a'i thegwch,
A hamdden i syllu ar fro 'r pur ddedwyddwch.
Cawn wrando serchgerddi y wig delynorion,
A gwrando serch-glwyfus emynau merch Sïon.
Cawn syllu 'n edmygol ar ffurfiad creig-haenau,
A phlygion ar blygion o'r Dwyfol fwriadau.
Cawn wrando y corwynt yn rhuo 'i hyawdledd
A'r "llais dystaw main" yn ein suo i dangnefedd.
Cawn wrando y môr yn murmurawg ymdòni,
A thòn cariad Duw ar draeth daear yn tori.
Anghofiwn y ddaear, ei haur a'i thrysorau,
A chwiliwn am drysor mewn nefol ororau,
Anghofiwn y byd, a'i adfydus ofalon;
Ehedwn uwch alaeth i gartr·· 'r angelion.
Fyg Sabboth, tra 'n arlun o fywyd Jehofah,
Mae 'n flaenbrawf i ddyn o'i ddedwyddwch yn Ngwynfa,

O Sabboth tragwyddol o seibiant a chysur,—
Fel Duw cawn orphwyso mewn gwaith ac mewn llafur.
Cawn hedeg o blaned i blaned heb flino,
O gysawd i gysawd, heb arwydd diffygio.
Ni phyla 'n *golygon* er syllu 'n ddiddiwedd
Mewn edmyg ar ddysglaer ogoniant yr orsedd.
Yn drwm nid ä'n *clybod* gan henaint er gwrando
Am oesoedd ar donau o fawl yn adseinio.
Ni flina y *meddwl* yn olrhain cudd-lwybrau
Y Dwyfol Athrylith mewn dirif greadau.
Ni lara 'r *serch'adau* er syllu 'n edmygol
Am oesoedd yn ngwyneb y Cariad tragwyddol.
*Dychymyg* mewn seibiant ddywibia i'r cyfnod
Bu 'Bydded' Duw 'n gwysio cysawdau i'w wyddfod.
A theithia mewn nwyfiant ymlaen i'r dyfodol
I weled creadau yn hen a diflanol;
Yn ieuanc a hoew, mewn egni diflino:
A'r *fynwes* mewn heddwch ar Iesu 'n gorphwyso
Mewn Cariad-wasanaeth, a gwenu 'n ei wyneb
Mewn Sabboth o dangnef am faith dragwyddoldeb.

*Hawen.* DAVID L. ADAMS.

---

# Y DIWEDDAR BARCH. WILLIAM REES, D.D.

### III.

### FEL BARDD A DARLITHYDD.

YN ngolwg rhai, prin yr oedd ein gwrthddrych yn llai fel bardd nag ydoedd fel pregethwr. Breintiesid ef gan Awdwr natur â galluoedd i ragori yn y naill gylch megys yn y llall. Dichon y beïid ni pe dywedem mai efe oedd y bardd mwyaf a welodd y Dywysogaeth mewn unrhyw gyfnod; ond pwy a ddigia wrthym am hòni ei fod i'w restru ymhell bell ar y blaen ymhlith y rhai enwocaf o feirdd ein talaeth? O ran amrywiaeth a helaethrwydd llafur, a oes rhywun o feirdd y Dywysogaeth a ddaw i fyny âg ef? Esgusoder ni eto am ofyn, a oedd ymhlith ei frodyr mwyaf talentog, sef prif-feirdd y cyfnod sydd newydd fyned heibio, rywun a berchenogai yr oll o'r cynneddfau hyny a ddynodant fardd o'r dosbarth blaenaf, i raddau perffeithiach nag y perchen-

ogid hwy ganddo ef? O ran amgyffrediad eangfawr, desgrifiaeth nerthol, ac adroddiad ysplenydd, yr oedd yn amlwg fel tywysog ymhlith llu; nid oedd a ragorai arno yn y pethau hyn. Gallai fod yn dyner, yn gryf, yn angerddol, ac yn aruchel, yn ol fel y byddai ei destun yn galw, neu ei farn yn awgrymu. O'r englyn i fyny hyd at uchelderau gogoneddus yr arwrgerdd, gwelir ddarfod i'w athrylith ymwneyd â phob rhyw arddull o farddoniaeth, gan sicrhâu clod ac ennill anfarwol anrhydedd ynddynt oll. Yr oedd wedi ei eni yn fardd; pe amgen ni buasai yn abl i gyflawni y fath orchestion barddonol. Nid celfyddyd a'i gwnaeth y peth ydoedd, ond Natur,—ac fel y sylwodd Carlyle, "Natur, wedi y cwbl, yw y gweithredydd mawr yn ngwneuthuriad beirdd." Cyn y ceir barddoniaeth o'r iawn ryw, rhaid cael bardd, ac ni chyfarfyddir byth â hwnw heb ei fod yn meddu, yn ol iaith y Triad Cymreig, "llygad i weled anian, calon i deimlo anian, a glewder a faidd gydfyned âg anian." Gan nad beth am y testun, yr iaith, neu y trefniad mydryddol, y mae hon yn ffaith, sef mai y bardd sydd yn cynnyrchu y farddoniaeth,—efe, fel y dywedodd rhyw un, yw y wenynen, heb yr hon ni cheir mêl,—efe yw yr arlunydd, a'r gwir grëwr, yr hwn a rydd i'r peth a gynnyrchir ffurf a phrydferthwch, ac ysbryd i fywhâu y neb a'i darlleno.

Fel un oedd yn ymwybodol ei fod yn meddu y "ddwyfol ddawn" a alluoga y gwir fardd i roddi goleuni a thân yn ei linellau, cawn gan Hiraethog yn ei Draethawd ar Feirdd a Barddoniaeth Gymreig y nodiadau tarawiadol a ganlyn :—

Rhaid i'r neb a fyno fod yn fardd fedru cymdeithasu âg anian, a deall ei harwyddion, a meddu adnabyddiaeth o, a dwfn gydymdeimlad â'r galon ddynol, cyn y bydd yn deilwng o'r enw. Gall fod yn deall holl "Gyfrinach Beirdd Ynys Prydain," holl ddeddfau a mesurau gwarantedig cerdd dafod; gall gyfansoddi cynghaneddion diwall rif y sêr; gall wneyd pennillion ac odlau ar bob cyhydedd a mesur caeth a rhydd—heb ynddo fwy o deilyngdod i'w alw yn fardd, wedi'r cwbl, nag a fedda clochdŷ. Y mae ymhen clochdŷ efydd i seinio a thincian; gall gadw digon o sŵn, ond sŵn ydyw'r cwbl—tincian i'r glust yn unig y mae. Daeth allan o bryd i bryd lawer o gyfrolau dan yr enw barddoniaeth, heb fod ynddynt nemawr i ddim amgen na swn geiriau a llythyrenau yn tincian yn erbyn eu gilydd. Cuddiad cryfder y wir awen ydyw, ei bod yn gallu llefaru wrth y galon, a llefaru yn y fath fodd ag y dealla ac y teimla y galon—yn gallu dyferu olew a myrr ar hyd hespenau clo y meddwl, nes yr ymagoro iddo, fel drws carchar Pedr, megys o'i waith ei hun. Y medr i gael y twll—y gudd-fynedfa i ystafell y fynwes—ac i estyn ei fysedd tyner trwyddo i ogleisio a chyffroi yr holl ymysgaroedd â'i ddylanwad; y rhywbeth hwnw ydyw, a ddena, a dynera, ac a dodda yr enaid yn ddiarwybod iddo. Ond ei amcan yn ei holl ymdriniaeth â'r galon bob amser, a ddylai fod, ei dyrchafu, ei choethi, a'i hadeiladu mewn gwirionedd a rhinwedd. Y mae at ei ryddid i ddefnyddio ffugrau, rhoddi tafodau yn mhenau holl wrthddrychau anian i lefaru trwyddynt; i lefaru dammegion, a llunio hanesion heb fod yn wirionedd yn yr ystyr llythyrenol, ond fod ganddo ysbryd gwirionedd i'w gyfleu i'r meddwl trwyddynt.

Yr oedd y gallu a ddesgrifir yma—y "rhywbeth" gogoneddus hwnw a rydd fywyd ac enaid mewn cyfansoddiadau barddonol, ac a deifl arnynt megys haul-dywyniad oddifry, wedi ei ymddiried i'r awdwr ei hun, i raddau anghyffredin o helaethrwydd. Ond aeth cryn amser heibio cyn i'r genedl ddyfod i wybod am ei hanfodiad. Tueddol iddo ar y cyntaf oedd esgeuluso y ddawn a ymddiriedasid iddo, eithr ni allasai un o'i athrylith ef fod yn guddiedig. Yr oedd y cyfnod, fel y

gwyddom, yn ffafriol i ymarferion meddyliol o bob math. Adeg hynod am feirdd penigamp ydoedd. Wedi tymmor maith o wywdra, gwawriasai oes amgenach, yr hon y gellid yn briodol ei galw yn oes aur llenyddiaeth farddonol yn Nghymru. Coffa da am enw a gwaith yr hen athraw hwnw o eiddo Hiraethog yn Llansannan, yr hwn ni fynai adael llonydd iddo nes ei osod yn deg ar y ffordd i ogoniant fel un o feirdd y pedwar mesur ar hugain. Bu sylwi ar orchestion rhai o brif feirdd y cyfnod, a darllen rhai o'u cynnyrchion, yn enwedigol eiddo Eben Fardd, yn foddion da i'w symbylu i ragor o weithgarwch yn nghychwyniad ei yrfa lenorol. Ystyriai mai bychan oedd yn ei ddechreuad, ond gwelwyd i'w gynnydd fod yn ddirfawr. Yr oedd dadblygiad ei alluoedd fel ardderchogrwydd mis Mai, yn ddisymwth braidd, a hyfryd odiaeth o ran y canlyniadau. Canodd Hiraethog ar amrywiaeth mawr o destunau, gan roddi iddynt oll ychwaneg o ddyddordeb yn ein golwg. Y mae ei ganiadau byraf, o bob natur, mor gryno a pherffaith o ran iaith, a mydr, a phob peth, fel na ellir ychwanegu dim atynt na thynu dim oddiwrthynt heb anafu eu prydferthwch. Yr oedd ei gywirdeb fel ieithwr bron yn ddihafal. Craffer, er engraifft, ar nerth a theleidrwydd yr iaith yn y pennillion hyny o'i eiddo ar waith Duw yn y greadigaeth, am y cyfieithiad goreu o ba rai y cynnygiwyd gwobr yn Eisteddfod Genedlaethol y flwyddyn hon. Mae yr olaf o honynt, er yn adnabyddus iawn, mor swynol a prydferth, fel na raid erfyn maddeuant am ei ddyfynu yma:—

Pan y gelwid yn y borau
Restr enwau sêr y nen,
Deuent oll dan ganu a dawnsio,
Heibio i'r orseddfainc wen;
Yn ei thro, ymhlith y lliaws,
Ymddangosai 'n daear ni—
Cododd gwrid i wyneb cariad
Dwyfol, pan y gwelodd hi.

Daliodd ei awen yn ei hoewder a'i grym cynhenid, hyd nes cyrhaedd o hono hyd at ymylon gwlad y canu tragywyddol. Pwy, er dyfal chwilio, a ddichon ganfod arwyddion "Henaint" ar y Cathlau y rhoddes ef yr enw hwnw arnynt? Oni pherthyna iddynt ireidd-der llysiau y gwanwyn, yn gystal a melusder addfed ffrwyth y cynhauaf? Mewn adeg ar yr einioes pryd y bydd llawer yn tybied fod yn llawn bryd iddynt noswylio, ceid ef yn codi "Twr Dafydd," ac mor odidog ydyw fel y taflodd bob Twr arall o gyffelyb nodwedd i'r cysgod yn llwyr. Teimla casglwyr yr Emynau yn yr amser a ddaw, yn ddedwydd iawn o herwydd ymddangosiad y gwaith hwn, am fod ynddo y fath doraeth o ddefnyddiau cysegredig at eu gwasanaeth. Beth bynag yr ymaflodd ef ynddo i'w wneuthur, efe a'i gwnaeth fel na chai neb ddim ar ei ol ef. Saif ei Alargân am Williams o'r Wern yn hynod ymhlith y marwnadau ardderchocaf a feddwn. Gall oesau fyned heibio cyn y meddylir am roddi "Heddwch" yn destun y Gadair mewn Eisteddfod Genedlaethol eto, am y rheswm ei fod ef wedi cyfansoddi awdl ar hyny. Y mae "Heddwch" Hiraethog, yn debyg i "Elusengarwch" Dewi Wyn, a "Dinystr Jerusalem" Eben Fardd, o nodwedd mor gyflawn a godidog, fel ag i beri na bydd calon yn neb am hir amser i

feddwl am geisio llunio awdlau ar y testunau a ddyhysbyddwyd mor drwyadl ganddo. Ond yr hynotaf o holl weithiau Hiraethog yn ddiau ydyw yr "Emmanuel," ac nid gormod dyweyd am y gwaith hwn ei fod y cyfansoddiad barddonol hynotaf, er nad y mwyaf perffaith o ran cynllun fe ddichon, a ymddangosodd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ond cyn disgyn i sylwi ar y gwaith llafurfawr hwn, gweddus fydd i ni wneyd ychydig nodiadau ar un neu ddau eraill o brif gynnyrchion ei awen hoenus, gan ddechreu gyda y Bryddest-awdl ar Job. Y mae yn gynnwysedig mewn chwech o ranau. Saif y "Ddamcaniaeth" fel y canlyn:—"Yr aur cyn ei brofi, neu Job yn ei hawddfyd a'i lwyddiant dechreuol. Yr aur yn y ffwrn; neu Job yn ei adfyd a'i flinderau. Yr aur wedi ei buro; neu Job ar ol dychweliad ei gaethiwed yn ei lwyddiant a'i ogoniant diweddaf." Am yr awdl hon, dywed ei hawdwr iddi sefyll am lawer o flynyddoedd heb symud cam ymlaen, ac i sefyll y gadawsid hi, mae'n debyg, ond fel y symbylid ef i'w chwblhâu gan ei gydlafurwr hoffus, y Parch. T. Pierce. Wedi cyfansoddi uwchlaw mil o linellau ar y mesurau caethion, yn ol fel y caffai hamdden a hwyl, "yn hirnos amryw auafau," teimlai ei fod wedi myned yn rhy bell i'w gadael yn anorphenol. Ond yn yr olwg ar y tir maith oedd ganddo i'w deithio, a chan ymdeimlo â'r anfantais o rodio yn hualau y mesurau caethion, penderfynodd wneyd defnydd o'r mesur anghyfawdl *(blank verse)* o hyny ymlaen i'r diwedd. A dyma ei brofiad ar y mater:—

Wedi unwaith gychwyn o ddifrif daethum i hoffi y mydr yn fwyfwy. Yr oedd fy nghyfaill, Mr. Pierce, yn anfoddlawn iawn i'r peth ar y cyntaf; ond ymgymmododd âg ef i raddau o dipyn i beth. Fe allai y senir fi yn ddigofus gan rai beirdd a beirniaid Cymreig am y penrhyddid hwn, a throseddu o honof fel hyn yn erbyn bonedd a deddfau awen Cymru, drwy arwain mesur Seisonig i gymdeithas teulu diledryw D. ab Edmwnd. Odid nad ystyrir fi fel rhyw ail Wrtheyrn, yn ymgyfathrachu â Hengist, ac yn ei arwain i blith tywysogion y gynghanedd—"Beirdd wrth fraint a defawd Ynys Prydain;" a dichon yr ofna rhai y dygwydda rhyw gyflafan gwaeth na Brad y Cyllill Hirion mewn canlyniad. Bid a fo, rhaid i mi addef fy mod wedi syrthio mewn cariad â'r Rhonwen hon,—y gerdd ddiawdl. Ond na ddychryned neb; nid oes genyf na gallu nac amcan i wneuthur na deddf na defod i'w thrwyddedogi i fysg mesurau breiniol barddoniaeth Gymraeg. Cefais gyfleusdra i ddarllen rhanau o'r dernyn diawdl i glywedigaeth dau o'n prif-feirdd—nid amgen Eben Fardd ac Emrys; a rhoddasant hwy gymeradwyaeth wresog iddo, yr hon a roddai i mi galondid yn yr anturiaeth i'w gyhoeddi.

Gorchuddia y Bryddest-awdl odidog hon yn agos i gant o'r tu dalenau yn Ngweithiau Barddonol Hiraethog. Ceir ynddi y fath nifer o ddarnau heulog, dysglaer, fel yr ydys yn teimlo dan brofedigaeth i ddyfynu yn dra helaeth o honi; ond gan fod gofod ac amser yn brin, ni ddyfynir yma ond yn unig ei ddesgrifiad o gartref a theulu Job, ar foreu dydd y trychineb a ddaeth i'w ran:—

Awel oer dawel araf,
Y bore hwn o wybr haf,
Delora ar y dail irion,
Ysgwyd frig glasgoed y fron:
Edyn y goedwig ydynt,
Yn dawnsio, 'n gwingo 'n y gwynt;
A'i holl goedydd, talwydd teg,
Hudir i geisio hedeg;
Y dail wrth ysgwyd eilwaith,
Ogleisiant, galwant i'w gwaith.

Y dawnus gôr adeiniawl,—i hymiaw
Eu hemyn foreuawl;
Trwy wlad Us melus y mawl,
A ganent yn blygeiniawl.

Iob yn awr wyneba 'n ol—i'w balas
Dan belydr haul siriol,
A'i rywiog wên chwareuol—felynaidd,
Yn wir fwynaidd oedd ar y faenol.

Ebrwydd wedi boreubryd,
Teilwng waith daw 'r teulu 'nghyd;
Iob a rydd wiwbur addysg,
Ragorol, o dduwiol ddysg.

Y da batriarch dibetrus,—a dywallt
Weddi daer a melus;
Hŷ ddy-ied yn ffrwd ddi-rus
Bêr afon, o bur wefus.

Yn dilyn yr adroddiad o weddi y patriarch, ceir y desgrifiad bywgraffus hwn o'i lanciau yn troi allan at eu gorchwylion:—

Yna gweision ufuddion y gwiwsant,
Yn ewybr a siriol a gydbrysurant;
Tua 'r meusydd mewn hedd y tueddant,
Yn iach a heinyf, ac ni achwynant;
O'r buarth ymddosbarthant,—yn llawn hwyl
Allan i'w gorchwyl y llawen gyrchant.

Y bugeiliaid bywiog a alwant
Eu cwn allan, â'u chwiban cynnullant;
Hwy dan glust'einio a sawrio brysurant,
Ar eu holau yn gyflym yr hwyliant:
Ar ol y praidd areiliant,—drwy y dydd,
Ar y mynydd yn ddifyr eu mwyniant.

Ac yna eir â ni i olwg yr ychain:—

Daw rhif o ychen yn dyrfa iachus,
O amryw liwiau, raddau mawreddus;
Allan o'r corau drachefn yn drefnus,
Yn dwyn eu helynt dan ieuau hwylus;
Cnöant eu cilod yn hynod hoenus.

Fel y daw yr holl olygfa megys yn fyw a phrysur-symudol o flaen ein llygaid! Edrychwn eto ar ddarlun merched Job:—

Yn y palas gwymp eilwaith,
Yr awr hon prysur ar waith
Yw rhïanod gorhoenus,
Merched tywysog enwog Us;
Urdd Edom dair heirdd ydynt,
Gemau 'r oes digymhar ynt.

Gwyn a gwridog rhieddog eu gruddiau,
Ail i wawr eiliw ael awyr olau;
A gwisgi ydynt eu hysgogiadau,
Fal hawddgarol iachusol iyrchesau:
A gwir addfwyn eu greddfau,—mor wylaidd
A glân beraidd ag awelon borau.

Uwch a mwy iesin yw harddwch eu moesau,
Na'r un oddiallan, a'i eirian ddulliau ;
Gwreiddiodd, ymledodd drwy 'u holl deimladau,
Dirion addysg eu tad a'i rinweddau :
I dlodion rhoent delidau,—heb air ffrom,
Ceir hyd Edom fawr glod i'w cardodau.

Gan adael y Gân fawreddus hon, ymha un y dilynir Job hyd nes y gwelir haul ei fywyd yn machlud mewn gogoniant, yr ydys yn troi i wneyd ychydig grybwyllion o barthed i'r benaf o'i awdlau ef, sef yr un ar "Heddwch," buddugol yn Eisteddfod Freiniol Madog yn 1851. Y beirniaid oeddynt Caledfryn, Eben Fardd, a Nicander. Dyma yr unig dro y meddyliodd Hiraethog am ennill cadair mewn Eisteddfod Freiniol. Ei ffugenw ar yr achlysur oedd "Hedd Molwynog." Cydunai y beirniaid fod ei awdl ef yn tra rhagori ar bob un o'r lleill a anfonwyd i'r gystadleuaeth. Mynegent ddarfod i'r awdwr gymeryd golwg eang ar ei destun yn ei holl gysylltiadau,—iddo ddechreu yn y man lle y dylasai ddechreu, a diweddu yn y man lle y dylasai ddiweddu. Ychwanegent hefyd fod yr awdl yn gyfanwaith teg, ac yn llawn o dân awenyddol, er y gallasai fod yr awdwr yn daclusach gyda llawer llinell, ac yn rymusach hefyd mewn ambell fan. Trefnasai yr awdwr ei awdl yn dair rhan. Yn y rhan gyntaf, wedi galarnad uwch ben cyflwr andwyol y byd yn ganlynol i'r cwymp, cymer olwg ar sefyllfa ddedwydd dynoliaeth yn Eden, a'r modd y taflwyd pob peth i annhrefn ar y ddaear drwy gynllwynion maleisus y diafol. Yn yr ail ran, rhoddir golwg ar ryfeloedd, o ddyddiau Cain hyd adeg yr ornest ofnadwy ar faes Waterloo, a chyda medr arbenig desgrifia yr awdwr y genfaint aruthr o waeau a ddilynant ryfeloedd. Yn y drydedd ran, daw y bardd, fel y sylwodd y beirniaid, allan o'r tân a'r mwg i gymeryd ei anadl, ac i eistedd fel arlunydd cywrain yn nrws ei babell, er desgrifio adferiad heddwch i'r byd drwy gyfryngdod Mab Duw, yr hyn a wna ef hefyd yn y dull mwyaf awenyddol ac ysplenydd.

Un o nodweddion amlycaf barddoniaeth uwchraddol yw *bywyd*. Dyna a roddodd y fath swyn i ganiadau amryw o feirdd yr hen oesoedd, ac yn arbenig felly Homer. Parhânt drwy yr oesoedd i gynhyrfu a thanio meddyliau y rhai a'u darllenant. Gellir dyweyd yn gyffelyb am yr awdl hon ar "Heddwch," sef ei bod, ymhob rhan o honi, yn llawn o fywyd. Mor naturiol ac esmwyth hefyd yw desgrifiadau yr awdwr, fel ag i arwain un i dybied mai un o'r pethau hawddaf yn y byd yw cyfansoddi yn y mesurau caethion, yr hyn, fel y gwyddys yn dda, sydd yn dra phell oddiwrth fod yn wirionedd. Sylwer ar y modd y darlunia efe gyflwr y byd, cyn i felldith drygioni syrthio arno :—

Awyr iach y ddaear hon,—oedd beraidd
Heb arogl clefydon ;
Ar ei chwyl drwy 'r uchelion—ymsiai,
Bywyd a chwiwiai drwy 'r byd a'i chwaon.

Am Adda dywedir :—

Adda enwog oedd ynad—hedd anian,
Trwy ddoniau 'r eneiniad ;
A roddai Ion ar hardd iâd
Y dyn, ddydd ei ordeiniad.

Gras a phurdeb, anfarwoldeb,
Yn ei wyneb glân a wenent;
Hedd a chariad—yn ei lygad,
Mewn ymdoniad—mwyn ymd'w'nent.

Mor wynfydedig oedd sefyllfa y byd, pan na chanfyddwyd eto "drist-wyneb," nac "eilun o wg yn ael neb." Yr oedd enaid dynoliaeth yn llawn o nwyf ac o hedd y nefoedd. Oddiar ei orsedd ddyrchafedig, edrychai cyfiawnder i lawr, heb ganfod diffyg na bai yn unman. Yr oedd natur oll yn gwisgo gwên, a'r deyrnas anifeilaidd yn drwyadl ddarostyngedig i ddyn:—

Y llew orweddai 'n y llwyn—
Ymorweddai mor addwyn
A'r ddafad heb frad i'w fron,
A gwar oedd fel hydd gwirion;
Teigrod nid oeddynt egrach
Yn null eu byw na lloi bach;
Un dywalgi dialgar
Ei ystryw am fyw drwy fâr;
Y blaidd mor waraidd wirion,
Ei fryd a'r oen, ar y fron';
Y llwynog ni chynlluniai
Frad i neb, na difrod wnai;
Nid oedd yn y sarph wŷn dig,
Nac anianawd gwenwynig.

Ond gyda y cwymp yn Eden:—

Dyna heddwch wedi ei anhuddo,
Ow! y dyn anwyl wedi 'i wenwyno—
Ael y nef uchel, dawel yn duo,
A'r awelon yn tori i wylo.

Ac yna y mae yn canlyn y fath ddesgrifiad o ganlyniadau cyffredinol y cwymp, ag na allasai neb ond bardd o athrylith anghyffredin ei dynu. Ond rhaid brysio ymlaen at yr ail ran o'r Awdl, lle y cawn y fath ddarlun o echryslonrwydd rhyfel ag a saif eto heb ei gymhar yn yr iaith. Ar ol cyfeirio at achosion rhyfeloedd, ä ein bardd rhagddo i ddesgrifio:—

Dwy fyddin mewn gwrthdrin draw
Yn y gâd yn ymgydiaw;
Blaenoriaid tanbaid eu tôn,
I'w gosawd mewn trefn gyson.
Molawd a ro'ent i'w milwyr,
I frydio 'u gwaed—fradawg wŷr;
A rhoi 'u dig nwydau ar dân,
Fal i yfed cyflafan
Y blaengadau blin gydiant
Yn chwerwon iawn dechreu wnant.

Ac yn ebrwydd, wele,

Cydredeg wna y cadrodau—eraill,
Yn gyforiawg rengau,
Dyna 'u swn yn dynesâu,
A thyrfiant eu certh arfau.

Cry' sain yr udgorn, cras yw,
Uwch y wlad uchel ydyw;
Llais angau 'n arllwys ingoedd—
Gwaed! gwaed! yw ei lais ar goedd.

Gyda hyn,—

> Y meirch a glywant, adwaenant donau,
> Udgorn y rhyfel, a'i uchel awchiau;
> Ymennyn weithian mae'u hanian hwythau;
> Heda 'u gweryriad hyd y gororau,
> Llidia ffriw anwar eu tanllyd ffroenau,
> Yn ail i ffyrnig ennynol ffwrnau:
> Cloddiant yn addig â'u cyrnig garnau,
> Y maes a drychant, dyrchant dywarchau;
> Terfysg a chlanciant arfau—wna 'u hanian,
> Mal gwaew trydan rhwng mil o gatrodau.
>
> Saethau a gwrthsaethau sydd—ar gerdded,
> Hwynt heb eu gweled, ânt heibio 'u gilydd,
> Gan gyrchu, gwanu trwy 'r gwynt,
> Dynion a gwympir danynt,
> Yn dyrau fal yn cydorwedd
> Pabwyr neu wair, pawb 'r un wedd,
> Wedi i'r bladur ddur ddarwain
> Yn ei rhwysg ei min drwy rhai 'n.

Ond nid yw yr hyn ond rhan o'r desgrifiad yn unig. Ar ol ail-edrych drosto yn ddiweddar, aeth yr ysgrifenydd i ail-edrych hefyd dros ddesgrifiad Syr Walter Scott o frwydr "Flodden Field" yn ei "Marmion," er mwyn eu cymharu â'u gilydd. Am ddesgrifiad Syr Walter, tystiolaethai yn enwog Jeffrey yn yr *Edinburgh Review*, na chyfansoddwyd ei gyffelyb o ran nerth a bywiogrwydd er dyddiau Homer. Wedi dal y ddau ddesgrifiad gyferbyn â'u gilydd, ein teimlad yw, er mai gan y bardd Albanaidd y ceir y darlun eangaf, mai gan y bardd Cymreig y ceir yr un mwyaf nerthol a gafaelgar. Y mae y gynghanedd o'i du ef, cleciadau cynhyrfus yr hon a fwyhâ yr effaith drwy fod y sŵn yn cyfateb yn well i'r ystyr, a'r ymdebygoliad rhwng y desgrifiad a'r hyn a ddesgrifir, yn dyfod, o ganlyniad, yn nês at berffeithrwydd. Ynglŷn â'r dernyn ar echryslonrwydd rhyfel yn Awdl Heddwch, yr ydys yn cael engraifft dda o *dynerwch* ein prif fardd. Pwy, ar ol darllen y desgrifiad o "Mair" yn troi allan yn ngoleuni y lloer tua maes y gelanedd, i edrych ai nid oedd ei hanwylaf Edwyn ymhlith y clwyfedigion, a ddichon byth ei anghofio? Ofnai, petrusai, wylai, troai yn ol, ond buan y deuai yn wrolach, ac y cyflymai tua'r "cadfaes certh," heb ofni wyneb neb. Rhag y buasai yn gweled rhai mewn eisieu, dygai gyda hi ddogn dda o feluswin, ar ei ffordd ymlaen,

> E roi Mair ar lawer min
> Yn ei loesau feluswin.

Ond yn fuan,—

> Ar ei gwaith yn rhoi y gwin
> Gu lwysferch ar un glasfin,
> Ow! Mair, hi glywai 'n y man
> Ei henw hi ei hunan,
> O fethiantus wefus wan
> Yn deilliaw 'n sibrwd allan.

Mor fawr oedd alaeth Mair, pan, ar ol sychu'r gwaed oddiar ei ruddiau, y canfu yn eithaf clir mai "Hwn ydoedd ei mwyn Edwyn." Hi lefai, ond nid oedd ef yn gallu ei hateb. Anfynych, dybygid, y gwnaed am-

genach defnydd o iaith i ddesgrifio golygfa o nodwedd wir doddedig a chyffrous, nag yn yr amgylchiad dan sylw. Ar amnaid y bardd, gwelir y geiriau gweddeiddiaf yn disgyn i'w lleoedd mor naturiol ag yr eheda colomenod i'w ffenestri.

O! Edwyn, dy Fair ydwyf,
Clyw hyn! dy Fair, Edwyn, wyf.
Dywed air wrth dy Fair fad,
Yn fy nghur, O fy nghariad!
Edwyn oedd yn ymadael,
I Mair nid oedd gair i'w gael;
Hi graffai, tybiai wel'd dôr
Ei lygaid yn ail agor,
A phelydriad cariad cu
Yno 'n anwyl ennynu;
Yn ingoedd dyfnion angau]
Tân pur hwn eto 'n parhâu
Yn ei rym; ond ei dremiad
Farwol oedd ar ei Fair lâd;
Ffagliad fel cyniad canwyll,
A'i gwawr wrth ddiffodd mewn gwyll.
Syrthiai Mair mewn llesmair llym,
Ar y ddae'r yn oer ddirym;
Trallod oedd ormod i'w ddal,
A faeddai 'i chalon feddal;
Dyrchodd un farwol ddolef
Hyncd gri ocheiaid gref.
Trengodd, ehedodd ar hyn
O'i hadwyth ar ol Edwyn.

Gan fyned heibio i'r desgrifiadau gorchestol o ryfelwyr a rhyfeloedd oesau hen a diweddar, brysiwn rhagom at y drydedd ran o'r awdl, pa un a egyr gyda y llinellau melusber a ganlyn:—

Adfywia, cyfod f 'awen,
Dwyre 'n awr hyd awyr nen;
Ymeneinia, 'm mun anwyl,
Yna rho 'th delyn ar hwyl.
Gwlych dy ddestlus wefus wan
Yn hen wlyboedd gwin Liban;
Yf o ddwfr arafaidd iach
Siloah, nid oes loywach:
Yfa, anghofia ofid
Rhyfeloedd, lluoedd a'u llid;
Gwybydd 'r ä'r gaua' heibiaw,
Haf tawel, gan ddychwel ddaw;
Ha! ha! daw, daw o'r diwedd,
Anwyl haf efengyl hedd.

Wedi y cyfarchiad swynol hwn, ymeifl yr awen yn ei gwaith gydag adnewyddol nerth. Arweinia ni yn ebrwydd i gwmni Dafydd, Solomon, ac Esaiah. Y mae aralleiriad ein bardd o rai o brophwydoliaethau yr olaf, yn brydferth a godidog tu hwnt, o ran tlysni ieithwedd. Nid bob dydd y deuir o hyd i linellau fel y rhai hyn:—

Y llew anwar ddaw 'n llonydd,
Gwair a bawr, a gwâr y bydd;
Tan yr iau cyd-dynu â'r ych
Wna o'i fodd yn ufuddwych;

Bachgen bychan egwan â
Ar ei twng, a chrafanga;
A llyfa y llew ufydd
Ei law fach, heddychol fydd.
Yr arth a'r fuwch heb guwchiaw,
Orweddant drwyn wrth drwyn draw
Ar y ddôl, a phawr y ddwy
Irwellt, heb angen aerwy:
Llydnod y ddwy, hwy a ânt
Hyd y bryncyn, cyd-branciant:
Y blaidd dig yn ddiddig ddaw
Yn dra hygar i drigaw
Efo 'r oen heb chwerw fryd
Rhyfedd y chwery hefyd,
A'r llewpard brych ei wrychyn
Ar y maes, a chwery â'r myn:
Ar dwll yr asb, er ei dig,
A'i hen anian wenwynig,
Bachgen llon y fron heb frad
A chwery heb och irad:
A chwery un bach arall
Yn ddifraw gerllaw 'r llall,
Efo 'i law 'n ddiofal iawn,
Ar wâl y wiber greulawn;
Hon o'i ffau estyn ei phen,
Ni fratha 'r wiber frithwen,
Y bach, ei groesawu bydd
Ar ei lin yn bur lonydd.

Oddiyma ymlaen i'r diwedd arweinir ni drwy ganol golygfeydd o harddwch a gogoniant dyeithrol a mawreddus. Yn y rhanau eraill o'r Awdl yr ydym fel yn cael ein hunain mewn rhandiroedd rhamantus a rhyfedd; ond yma, yn y drydedd ran, cawn ein hunain megys yn Hafilah, gwlad yr aur, lle y daw *nuggets* newyddion, fawr a mân, i'r golwg gyda phob symudiad o'r eiddom. Ail-ennynir dawn yr awen yn rhyfeddol, pan y daw i draethu am ogoniant y dyddiau, pan "y curant eu cleddyfau yn sychau, a'u gwaewffyn yn bladuriau." Caiff y gôf fwy na digon o waith y pryd hwnw,—

Cludir cadarfau c'ledion—i'w efail,
  Afrifed bentyrion;
Profant eu haeddiant yn hon
Dan driniaeth dyn du 'r einion.

Yna arweinir ni i gymeryd golwg arno "yn chwythu ei dân dan chwibanu." Ag un llaw gweithia ei fegin, ac â'r llall maluria y glo, ac addrefna y tân. Yna—

Yn hyf mewn hen gleddyf glâs
Luniai lawer galanas,
Gafaela y gôf eilwaith,
Chwery âg ef cyn dechreu 'r gwaith;
Rhed ei fawd ar hyd ei fin,
Dewrfodd i brofi 'r durfin;
Ffugia 'r gŵr yn filwr fod
Neu yn hen gadben hynod;
Areithia, bygythia 'n gâs
I'w elynion alanas,
Yna try, tery e'n y tân,
A chwyth yn gryfach weithian.

Ac fel yr el y bardd rhagddo, yr ydym fel yn gweled "y gwreichion fflamgochion gant," yn saethu allan drwy'r torchau mwg, ac fel yn clywed trwst yr "hen gleddyf glas" yn "ffrio'n ffyrnig," ar waith y gôf yn ei dynu allan o'r tân, ac yn ei osod, "yn wynias ar ei einion," ac oni chlyw engyl y sain!

Fe 'i cura nes ä yn swch
Gywrain ei gwas'naethgarwch,
I aru 'r ddaear iraidd,
A thy' o hon wenith a haidd.

Ac yna, yn dilyn y llinellau nodweddiadol hyn, yr ydys yn cael cyfres o ddoddeidiau mor lawn o rymusder a thân awenyddol â dim a ymddangosodd erioed yn yr iaith, gan ddiweddu yn orfoleddus fel hyn:—

Uwch yr eigion mwyach ni chroga,
I boen rhyw filoedd, baner rhyfela;
Heddwch! wi, heddwch! ha, ha!—yn un floedd
O'r tir a'r moroedd hyd nefoedd nofia—
Heddwch! wi, heddwch! ha, ha!—eto 'n ol
I lon fyd swynol y nef adseinia!

Ond y mae yn llawn bryd i'r ysgrifenydd droi i wneyd ychydig nodiadau ar yr hwyaf a'r ardderchocaf o gyfansoddiadau barddonol Hiraethog, sef ei "Emmanuel." Na feddylier, fodd bynag, ei fod am lunio traethiad manwl ar y gân hirfaith hon yn ei holl ranau, gan y cymerai hyny fwy o amser a gofod nag a all ef orchymyn ar hyn o bryd. Gwyddys yn dda fod rhai a feddyliant fod y gwaith yn rhy gwmpasog, a'r iaith weithiau yn llai caboledig a grymus nag a allesid ddysgwyl oddiwrth y fath ieithwr a Hiraethog, ac nad yw y cynllun mor ddiwall ag y buasai yn ddymunol, a bod y darnau a welir yn y dosbarth cyntaf o'r gân, yn rhy anghysylltiol â'r hyn sydd yn canlyn, fel ag i sicrhâu iddi y fath nodwedd o gyfanrwydd ac unedd ag a fuasai yn hawdd iddo ei sicrhâu trwy gyfansoddi yn fwy araf, a chymeryd rhagor o amser i docio ychydig yn y fan hon, ac i ad-drefnu ychydig mewn man arall fel ag i wneyd yr "Emmanuel" yn fwy darllenadwy. Eithr oni ddywedwyd pethau tebyg ynghylch gweithiau y prif feirdd oll? Oni anurddir pob cyfnod gan bresennoldeb crach-feirniaid, y rhai a gondemniant awdwyr i'r llwch, oddieithr eu bod ymhob peth yn debyg i rywun a ystyriant hwy fel *model*, ac oni ymgadwant yn fanwl at nifer o fân-reolau ar y rhai y gosodant hwy bwysigrwydd annhraethol? Ni ddiangodd Gwilym Hiraethog, er maint ei athrylith, rhag condemniad llym oddiwrth rai o'r tylwyth annedwydd yma; ond wrth wneuthur felly, pa niwed a wnaethant hwy iddo ef?

Arferir galw yr "Emmanuel" yn Arwrgerdd, eithr nid oedd yn awdwr ei hun mewn un modd yn orawyddus am iddi gael ei theitlo felly. "Os gofynir i mi," ebe efe, yn ei Ragymadrodd, i ba ddosbarth o farddoniaeth y perthyn y gerdd hon, rhaid i mi ateb nas gwn i ddim yn wir." Mae yn eglur nad ydyw yn ol cynllun Homer yn yr Iliad, am fod y brif weithred a osodid allan yn hono wedi dygwydd o fewn cylch blwyddyn o amser. Ond megys yr ammheuodd eraill, felly yr ammheuai yntau gyfreithlondeb yr awdurdod a fynai

gaethiwo yr arwrgerdd yn y modd hwn. Os gwrthodid i'r cyfansoddiad hwn yr enw o arwrgerdd gan ei feirniaid, nid oedd yr awdwr am rwgnach dim yn eu herbyn. "Ni leihâ hyny," ebe efe, "ddim ar ei deilyngdod; saif hwnw y peth ydyw—ai gwych ai gwael—yn gwbl annibynol ar enw a dosbarth barddonol y gerdd; ac yn wir, nid fy amcan oedd cyfansoddi arwrgerdd o'r dechreu; ond hyd eithaf fy ngallu i gyfansoddi cân ddyrchafedig ar y testun mawreddus Emmanuel."

Yr un pryd, yr oedd am i'w ddarllenwyr ymwarchod rhag dysgwyl cael yn y gerdd hon orchestwaith hafal i Goll Gwynfa Milton. Ystyriai fod y bardd hwnw "wedi ei gynnysgaeddu wrth natur, megys, â deall-twriaeth, talentau, ac athrylith o'r radd uchaf a feddiannodd marwol ddyn erioed." Yr oedd am i'w ddarllenwyr gofio hefyd, i Milton, yn more ei fywyd, fwynhâu manteision dysgeidiaeth goreu ei oes, er eangu a choethi ei alluoedd; ac ymhellach, fod "ei holl amser tra bu yn cyfansoddi y gân gan fardd Coll Gwynfa, i'w gysegru yn gyfangwbl ati, a chymerai ei hamdden i gyfansoddi yn y tymmor mwyaf manteisiol ar y flwyddyn at y gorchwyl, dros y tair neu bedair blynedd y bu wrth y gwaith, sef o ganol mis Medi hyd ddiwedd Mawrth, meddai ef ei hun." Yn y fan hon, gweddus crybwyll i Milton, yn ol rhai awduron, dreulio mwy na hyny o amser cyn llwyr orphen gyda Choll Gwynfa, sef am o bump i saith mlynedd. Pa fodd bynag am hyny, ewyllysiai bardd Emmanuel i'w ddarllenwyr gofio nad oedd ganddo ef at gyflawni ei waith, ond adegau a ladrateid yn awr ac eilwaith "oddiar hawliau lliaws o alwadau eraill, cartrefol ac oddicartref." Gyda golwg ar ei arddull, sylwa iddo ymdrechu cymhwyso yr unrhyw mewn cydweddiad â'r mater a'r amgylchiadau. "Ceisir esgyn i'r oruchel," ebe efe, "yn unig pan fyddo yr hyn y traethir am dano yn fawreddig, gogoneddus, neu ofnadwy. Wrth adrodd amgylchiadau cyffredin, ceisid gwneyd hyny mewn dull cyffredin; pethau athrawiaethol, yn null athraw," &c. Gyda'r amcan o ddiarfogi beirnadaeth eto ymhellach, cydnebydd fod y gân yn amgylchog, a bod llawer o bethau wedi eu dwyn iddi a ymddangosant yn anmherthynasol i'w thestun. Ond ei esgusawd yw, nad oedd yn ei fwriad gadw y prif bwnc yn y golwg o hyd mewn modd uniongyrchol; ac y dylid cofio "fod yr holl weithredoedd a'r goruchwyliaethau Dwyfol yn gyffredinol, a bod holl amgylchiadau y byd hwn, a dynolryw yn neillduol, yn dal perthynas â chyfryngdod y Messiah."

Yn y Bregeth Angladdol y cyfeiriwyd ati yn barod, dywed y Parch. J. Evans (Eglwysbach) mewn cyfeiriad at weithiau barddonol Hiraethog: "Cyhoeddodd yn gyfrolau yn agos i driugain mil o linellau, a chyfansoddodd lawer mwy nag a gyhoeddodd. Ei Emmanuel ef yw yr Arwrgerdd feithaf yn yr iaith—y mae cyhyd arall a Choll Gwynfa." Yma, ni phetrusai Mr. Evans alw y gân yn Arwrgerdd, a phaham yn wahanol? Beth ydyw Arwrgerdd, onid adroddiad teilwng o ryw anturiaeth fawreddus, mewn ffurf farddonol? Yn ol Blair, cymer i mewn bryddestau lawer heblaw *Iliad* Homer, *Æneid* Virgil, a *Jerusalem* Tasso, er fod y rhai hyny, fe allai, i gael eu hystyried y tair Arwrgerdd fwyaf rheolaidd a chyflawn a gyfansoddwyd erioed. Crybwylla yr un awdwr dysgedig nad yw y gwaith o gau allan o'r dosbarth arwraidd, bob rhyw bryddest-

au nad ydynt wedi eu llunio yn hollol ar yr un cynllun â'r rhai hyn, yn ddim amgen na choeg-blentynrwydd beirniadol. Gellir rhoddi desgrifiadau manwl o fwnau, planhigion ac anifeiliaid, a'u trefnu yn ddifeth o dan y gwahanol ddosbarthiadau y perthynant iddynt, am y rheswm fod natur wedi eu nodi allan gyda'r fath eglurder diammheuol. Ond am weithiau o eiddo y chwaeth a'r dychymyg, nid yw natur wedi sefydlu unrhyw safon arbenig, fel ag i roddi lle i brydferthion lawer o wahanol fathau; peth gwrthun hollol yw eu deffinio a'u cyfyngu hwy gyda'r un manylwch. Pan ar waith gydag ymdrechion o'r fath yna, fel y sylwa yr un awdwr eto, y mae beirniadaeth yn dirywio hyd at ofer gwestiynau ynghylch geiriau ac enwau yn unig. Y ffaith yw; y mae dynion o athrylith ymhob oes, ac mewn llawer o bethau, yn mynu bod yn ddeddf iddynt eu hunain. Nis mynant efelychu eraill, nac ymostwng yn rhy wasaidd i awdurdod neb pwy bynag. Er cael eu geni yn feirdd, a'u *haileni*, yn ol mynegiad Sterling, ni ellir eu rhwymo i dyfu yr un fath, na chwaith eu cadw yn yr ysgol o hyd. Yn lle dilyn eu gilydd, ewyllysiant yn hytrach ddilyn natur; ac onid wrth wneuthur felly y sicrhäwyd i'r byd y fath amrywiaeth godidog o gyfansoddiadau barddonol? Wrth gyfansoddi ei *Paradise Lost*, torai Milton dir hollol newydd; ac felly hefyd y bu yn amgylchiad Chaucer, Spencer, Shakespeare, Pope, Thomson, a llawer eraill o'r beirdd Seisonig a allasem enwi. Yn ngolwg rhai o'u cyfoeswyr, nid oedd amryw o honynt amgen nag anwariaid. Yn ei adolygiad ar awdwr y *Night Thoughts*, rhydd Gilfillan enw newydd ar y dosbarth hwnw o feirdd na fynant gadw yn rhy gaeth at ddeddfau allanol, a dyma fo, "*magnificent savages.*" "Y mae o'u deutu," eb efe, "ardderchogrwydd gerwin; y mae mawr gyfoethogrwydd yn eu meddyliau, ac yn eu hiaith. Y maent yn annibynol ar ysgolion; llefarant megys y cynhyrfir hwynt. Taflant allan dalpiau anferth o *bullion* barddonol. Os ysgrifenant ar y cyfan *bryddest au* llai perffaith, ceir ganddynt *farddoniaeth* ardderchocach yn gyflawnder helaeth. A thrwy eu diffyg o ran gorpheniad, awgrymant feddylddrych mwy tarawiadol o'r annherfynol, fel y gwna breichiau agored, gwasgarog y Llwybr Llaethog roddi i ni feddylddrych uwch am y gyfundrefn na phe gwelsem hi yn ei ffurf fwyaf rheolaidd. Ar ddynion o'r fath, nid yw diwylliant yn myned yn ofer, ond y mae yn wasanaethgar yn benaf fel *ballast* i'r llong, yr hon a dderbynia ei chyfeiriad a'i grym ysgogiadol oddiwrth anadl y nefoedd ei hun."

I'r dosbarth uwchraddol yma o feirdd y perthynai Dr. Rees, yn ddiddadl. Yn ei "Emmanuel," daw yn amlwg ei fod yntau mewn llawer o bethau am fod yn ddeddf iddo ei hun. Ei gynllun sydd hynod, tra ei arddull yn dryloyw o hyd, gan amrywio o'r syml a'r destlus, hyd at yr aruchel a'r gogoneddus, yn ol ansawdd y mater a fo dan ei sylw. Er hòni y gall fod yma ddiffygion a beïau o ryw fath, rhaid y cydnebydd pob dyn diragfarn ddarfod i'n hawdwr lwyddo yn drwyadl yn ei amcan "i gyfansoddi cân ddyrchafedig ar y testun mawreddus 'Emmanuel.'" A oes yn iaith y Cymry rywbeth a arddengys ddyfais fwy nerthol, dychymyg mwy ffrwythlawn, glewder mwy anturus, neu ddesgrifiaeth fwy hylithr, naturiol, neu oruchel? Os ymddengys ychydig yn ddigyffro yn awr ac eilwaith, na ryfedder at hyn; oblegid, fel y dywed awdwr Seisonig o fri, y mae mawredd rhai gweithiau, megys llyfrau

hanesiol, arwrgerddi, a'r cyffelyb, yn ddigon i esgusodi diffygion achlysurol; neu, fel y sylwa Horace, y maent o'r fath ansawdd, fel y dylid caniatâu i'w hawdwyr hepian weithiau. Am gynllun yr arwrgerdd fawr dan sylw, dichon fod amryw farnau yn ffynu, ond am gyfoethogrwydd ei desgrifiadau, nid oes, dybygid, unrhyw le i ammheuaeth. Pe deuai rhywun atom i ddyweyd, y byddai yn ormod cymharu "Emmanuel" i ardd frenhinol, ond mai math o "*baradwys wyllt*" ydyw, ni fyddai genym ond dyweyd, fel y dywedodd Pope, wrth wneyd sylw felly am Homer, sef, er fod y prydferthion yn llai amlwg yno nag mewn gardd, am eu bod yn fwy ar wasgar, eto, tŷf pob peth i fwy o ardderchogrwydd, a bydd y perlysiau a'r coedydd teg erbyn eu rhifo yn annhraethol liosocach. Yr oeddym wedi nodi allan rai darnau o'r gyfrol gyntaf o'r "Emmanuel" i'w dyfynu yma, ond gan fod gofod yn brin, ni ddyfynir ond yn unig a ganlyn allan o'r Ail Gyfrol (tu dal. 84—6):—

Teyrnasa, Iesu Mawr! Teyrnasa byth!
Teyrnasa nes gosoder dan dy draed
Bob gelyn na fyn blygu ac ufuddhâu
O'i wirfodd i'th awdurdod! Estyn dros
Y nef a'r ddaear wïalen fawr dy nerth!
Gwregysa 'th gleddyf gloew ar dy glun,
O Gadarn! a marchoga yn dy rym
Mewn harddwch a lledneisrwydd! Dos ymlaen:
Gorchfyga, llwydda, ennill, llanw 'r byd,
O godiad hyd fachludiad haul â'th ras!
Gyr allan saethau 'th gariad gyda nerth
Dy rymus fraich dragwyddol, fel y b'ont
Yn glynu, yn archolli, ac yn dwyn
Gelynion yn fyrddiynau at dy draed
O wirfodd eu calonau. Myn y byd
A brynaist â dy werthfawrocaf waed,
Yn etifeddiaeth it'; pob calon dyn
Yn gysegredig deml gweddi a mawl;
Pob tafod yn cyffesu i'th enw mawr;
Pob glin yn ufudd blygu ger dy fron;
Iuddewon a Chenedloedd, o bob llwyth,
Pob lliw, pob iaith, pob rhyw, pob gradd, pob urdd—
Brenhinoedd, llywodraethwyr, barnwyr byd,
Henafgwyr, llanciau, a gwyryfon glân—
Moliannont enw mawr Emmanuel!
Ond os gwrthodant hwy glodfori, boed
I'r ceryg mudion lefain dan eu traed
A choed y maes i guro 'u dwylaw 'nghyd—
Bwystfilod, anifeiliaid o bob math,
Trychfilod, ac ymlusgiaid yn y llwch,
Y môr a'i bysgod, oll yn fawr a mân,
A'r côr asgellog yn ffurfafen nef,
Cymylau 'r awyr, y taranau croch,
Y mellt a'r dreigiau tanllyd, gwynt a gwlaw,
Yr eira oer a'r cenllysg, tarth a rhew,
Y nef, a nef y nefoedd, a phob peth
Sydd ynddynt hwy, a gyd-ddadseiniont glod
Yr Oen a laddwyd byth. Amen, Amen.
Chwychwi, O! heuliau pell, a ser y nef,
Fy ngharedigol anerch atoch oll.
'R wyf yn eich caru chwi er mwyn yr hwn
A'm carodd i—trwy 'r hwn, er mwyn yr hwn
Y'ch crewyd—yn yr hwn yr ydych yn

Cydsefyll, ac i'r hwn y rhoed
Eich holl lywodraeth ar ei ysgwydd gref.
Efe y bachgen anwyd i ni, y Mab
A roddwyd i ni, ddynion; 'r hwn y mae
Ei enw yn Rhyfeddol, Cadarn Dduw,
Tad tragwyddoldeb, a Thywysog Hedd,
Emmanuel, Duw gyda ni, 'n ein cnawd:—
Poed fendigedig fyddoch oll bob un,
Er mwyn ei enw, ac yn ei enw ef;
O fewn eich pur drigfanau heddwch boed;
Tangnefedd a deyrnaso byth o fewn
Eich holl ragfuriau; na ddoed pechod cas,
Y baedd ofnadwy hwnw o goed y fall
A duriai ac anrheithiai 'n daear ni,
Na ddeued hwnw 'n agos atoch byth;
Estyned, taened hedd a thangnef eu
Hadenydd trosoch chwi; a llanwer tir
Emmanuel, â'u rhadau nefol hwy.

Un o'r darnau olaf o ddim meithder a gynnyrchodd awen doreithiog ein gwrthddrych oedd, Cywydd er cof am y diweddar Barch. Michael Roberts o Bwllheli, yr hwn y bu mor dirion a'i ddarllen yn ein clywedigaeth pan ar ymweliad âg ef yn Nghaer ryw ddwy neu dair blynedd yn ol. Ein teimlad oedd, ei fod yn un o'r Cywyddau goreu, os nad y goreu oll, a gyfansoddodd yn ei fywyd. Gan y bwriedir ei gyhoeddi yn ei Gofiant, pa un, fel y gobeithiwn, a ymddengys cyn bo hir, ystyriem ein bod dan gryn rwymau i'w fab hynaf, Ebenezer Rees, Ysw., am iddo ein ffafrio â'r rhan gyntaf o hono, i'w gyhoeddi yma yn y TRAETHODYDD.

ADGOFION AM MICHAEL ROBERTS.

Llu gofion mwynion i mi
Am gedyrn wnant ymgodi,
Dan 'y mron er denu 'mryd
I'm wibio i fro mebyd,
Atynt am unwaith eto,
I'w cael o'r newydd i'm co'.

Rhinweddol gedyrn oeddynt,
Mawr eu gwerth i Gymru gynt;
Deil 'u henw a'u dylanwad
Yn oesol lesol i'r wlad,
Tra bo haul hoew 'n gloewi
Bronau heirdd ei bryniau hi.

Y' ngwmni rhai garai gynt
A holi am eu helynt,—
Hen wryn llwyd dry yn llanc
I nwyfiant bachgen ifanc;
Hanes y cedyrn hyny
Wyntia i ffwrdd,—henaint a ffy,
Ail brancia, dawnsia hen dad,
Un difyr fel oen dafad.

Eu nodi oll, hyn nid ellir,
Ai y rhes enwau 'n rhy hir.
Un o honynt a enwaf
Yn awr, a'i eneinio wnaf;
Yr hybarch Michael Roberth
Wr oedd uwchlaw aur o werth,—

Un imi na bu nemawr
I neb dan wyneb y wawr,
Fwy anwyl, ac ni fynwn,
Bid a fo anghofio hwn.
Gwelaf ei wyneb gwiwlwys
A'i wedd lân garuaidd lwys;
Mi gredaf mai gwir ydyw
Yn ddi od ei fod yn fyw.
Mae yn awr o fy mlaen i
Yn ei hoen a'i hen yni;
Dyma fe! diammeu 'i fod
Yma o dan ryw ammod;
A thremiad y llygad llon
A'i loew-wydrog belydron,
Yn t'wnu pentewyniawn,
Athrylith ddiledrith lawn;
Ni bu i'w gael dan ael neb
Un llawnach o gallineb,
A chraffder, a doethder dawn,
A choeth hynod chwaeth uniawn.

E dd'wedwch mai breuddwydio,
'R wyf y' nghyflwr gŵr o'i go'.
Ewch ymaith! Gadewch imi,
Breuddwydiwyf faint fynwyf fi,
Ni wna hyn, yr wy 'n hòni
Niwed na cholled i chwi.

Rhaid, os breuddwydio 'r ydwyf
Breuddwydio 'n ŵr effro 'r wyf.
Ond i'm gau 'm llygad mi gaf
Ei ddelwi fel meddyliaf,—
Am dano i'w gofio gynt
Yn hwylus iawn ei helynt.
Yn dwyn harddwch dan urddas
Yn Llanrwst yn llawn o ras—
Ar galan oer y Gwyliau
Deunaw cant a deunaw i'w cau,
Ef ar awr foreu yr ŵyl
A erchid at ei orchwyl;
Dringai yntau risiau restr
I ffiniau 'r uchel ffenestr,
A'r awyr megys rhewen
Drwchus, am ei barchus ben.
Eira gwŷn yn oer gaenen
Dros y wlad a droisai len.

FEL DARLITHYDD.

Gyda phriodoldeb y dywedwyd mai Dr. Rees oedd "tad y Ddarlith yn Nghymru." Efe a'i dygodd i sylw, ac a'i gwnaeth yn boblogaidd, gan ei heneinio i fod yn foddion trosglwyddiad addysg a boddhâd i dyrfäoedd ymhob cŵr o'r dalaeth. Bu ei lwyddiant ef yn achlysur i godi lliaws o ddarlithwyr eraill, ymhlith y rhai y ceid amryw o gedyrn y weinidogaeth yn Nghymru. Ond efe oedd y blaenor a'r pen-tywysog yn eu plith hwynt oll. Clywsom y diweddar Barch. David Rees o Lanelli, yr hwn yntau oedd dra nerthol fel siaradwr cyhoeddus, yn dywedyd mai ei deimlad fyddai, ar ol gwrandaw amryw o brif ddarlithwyr y

Dywysogaeth, y gallasai yntau gynnyrchu y cyffelyb gydag ychydig ymröad; ond ar ol clywed Dr. Rees yn darlithio, penderfynodd ei fod yn ddihafal, fel y dywedodd ynddo ei hun, "Dyma rywbeth ag sydd o'r tu faes i'm galluoedd i ei gyrhaedd." Heblaw fod testunau ei ddarlithiau oll o'r dyddordeb mwyaf, yr oedd yr ymdriniaeth ymhob amgylchiad, o'i du ef, mor glir, mor fanwl, ac mor nerthol, fel ag i'w gwneyd yn annhraethol gymeradwy gyda y lliaws. Gyda bod yn drylawn o addysg o'r fath oreu, ceid ynddynt hefyd yn awr ac eilwaith wythïen hyfryd o *humour*, fel y gallai gadw tyrfa ynghyd, wedi eu gwasgu yn dŷn at eu gilydd, am ddwy awr o amser, heb fod yr arwydd lleiaf o flinder ar neb. Yr oedd golwg frenhinol arno ar y llwyfan. Fel *actor*, diau na welwyd ei gyffelyb yn Nghymru. Traddodai ei ddarnau mwyaf detholedig gyda'r fath yni ac angerddoldeb ag a daniai dorfeydd mawrion, fel ag i'w gwneyd yn debyg i ddynion wedi colli arnynt eu hunain. Da yr ydys yn cofio myned i Gaernarfon i wrando arno yn traddodi ei ddarlith ardderchog ar y Chwyldröadau, ac ar yr olwg foddhâus oedd ar y gynnulleidfa fawr a ddaethai ynghyd i'w wrando. Yr oedd wedi cyffwrdd â theimladau dyfnaf calonau y gwrandäwyr yn awr ac eilwaith wrth fyned rhagddo, ond pan ddaeth at y rhan hono o'r ddarlith, lle y nodai allan, un ar ol y llall, yr hysbysiadau am y cynhyrfiadau rhyfeddol yn mhrif-ddinasoedd y Cyfandir, yr oedd y gynnulleidfa er ys meityn fel yn attal ei hanadl, gan ddyfalu beth ddeuai nesaf; ac o'r diwedd, dacw y darlithydd wedi cyrhaedd y *climax*, —"*Revolution in Rome,—flight of the Pope,*"—yr hwn ymadrodd a floeddiai gyda'r fath nerth, nes peri i un deimlo fod y muriau o'i ddeutu yn ymsymud. Yr oedd yr effaith ar y dorf yn annarluniadwy. Hir y buwyd yn curo traed a dwylaw wedi hyn, a mawr y siarad a fu am y ddarlith yn ystod y dyddiau a ddilynent. Ni raid dyweyd fod mwy o alwadau am ei wasanaeth i ddarlithio yn y blynyddoedd hyny nag a allasai ateb. Ond efe a wnelai ei oreu, ac a deimlai yn ddedwydd am fod ei ddarlithiau yn troi yn wasanaethgar i achos crefydd mewn mwy nag un ffordd. Wrth reswm, rhaid oedd talu am fyned i wrando arno yn darlithio; ac y mae yn ffaith brofedig fod y symiau a dderbyniwyd oddiwrth ei ddarlithiau ef tuag at ddiddyledu addoldai, a chynnorthwyo gwahanol achosion da, i'w cyfrif wrth y miloedd. Yr oedd y llafur o'i du ef yn ogymaint fel nad allasai ond dyn o gyfansoddiad haiarnaidd ymron ymgynnal dano; ond yr oedd y canlyniadau i'r wlad, ac yn enwedig i'w enwad ei hun, yn werthfawr tu hwnt i ddesgrifiad.

Dechreuodd, os da ydym yn cofio, gyda "Williams, Pantycelyn"—testun ardderchog, a phwy, ymysg y lluoedd a fuont yn gwrando y ddarlith, na theimlai fod yr ymdriniaeth â'r testun felly hefyd? Yr oedd ei ddesgrifiad o eglwys a mynwent Talgarth, ac o ymddangosiad a phregeth Howel Harris y Sul hwnw yn 1738, pan y dychwelwyd Williams drwy ras Duw, mor eglur a manylgraff, nes y dychymygem ein bod yn y fan a'r lle, yn clywed ac yn gweled y cyfan. Gan fod braslun rhagorol o'r ddarlith i'w chael ymysg *Rhyddweithiau Hiraethog*,* y mae yn brofedigaeth i ni roddi dyfyniad neu ddau allan o honi yma.

* Cyhoeddwyd yn gyntaf mewn pedair o erthyglau yn y TRAETHODYDD am y blynyddoedd 1846, 1847.

Cyfeirir at Williams yn eglwys Talgarth, fel "gŵr ieuanc tuag un ar hugain oed, o gorff lluniaidd, a thaldra canolig, ac ymddygiad mwy boneddigaidd na'r cyffredin." Ar ei gyfer y mae yno, yn yr hen eglwys, "ŵr canol oed, lled fyr o gorffolaeth, o agwedd ddifrif-ddwys anghyffredinol," ac yr oedd pob llygad yn y synagog fel yn canolbwyntio arno. Dyna Howel Harris! Clywsai Williams ieuanc bethau rhyfedd am dano, ond ni welsai ef o'r blaen. Yn awr dyma ni yn dyfod at hanes ei dröedigaeth. Gwelsom bobl lawer yn agor eu geneuau i wrando ar y darlithydd yn traddodi y geiriau sydd yn canlyn, neu rai mor hollol debyg iddynt, fel nad all fod y gwahaniaeth yn werth sôn am dano:—

Dyna y gwasanaeth ar ben; rhedasid drwyddo mewn dull sychlyd a marwaidd. Arweinir y gynnulleidfa allan gan y gweinidog: â ef ymlaen gydag un neu ddau o'i blwyfolion tua'r persondy, ond erys y gynnulleidfa ar y fynwent; ac ymgasgla eraill o'r pentref a'r wlad oddiamgylch atynt. Erys y gŵr ieuanc hefyd ar ol. Ymhen ychydig dyma y gŵr a welsom gyneu yn dyfod i'r llan, yn esgyn ar gareg fedd, a phob llygad wedi sefydlu arno. Y mae bywiogrwydd anghyffredin yn gerfiedig ar lygad ac wynebpryd y gŵr ieuanc yn awr. Dyna genad y nef yn agoryd ei enau. Y mae ei lais fel swn taranau cryfion, neu sain dyfroedd lawer! Disgyna ei eiriau fel tân poeth ar y bobl. Newidia lliw ei wynebpryd gyda phob ymadrodd. Ai yr un bobl a welwn yn awr ar y fynwent ag a welsom ychydig fynydau o'r blaen o fewn y muriau yna? Ië, yr un bobl gan mwyaf ydynt; ond nid yr un yw y pregethwr. "Y mae hwn yn llefaru fel un âg awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion." Gafaela rhywbeth yn meddyliau a chydwybodau y bobl yn awr, a bâr i'r cryfaf ei galon frawychu, ac i'r gliniau cadarnaf guro yn erbyn eu gilydd. Y maent fel pe byddai y nefoedd yn gwlawio tân a brwmstan am eu penau. Llenwir rhai o gynddaredd yn erbyn y pregethwr â'i athrawiaeth; eraill a lesmeiriant dan bangfeydd o argyhoeddiad cydwybod; eraill a lefant allan, "Pa beth a wnawn ni?" Y mae yn gyffro cyffredinol; ond pa le y mae y dyn ieuanc dyddorgar hwnw? Dacw efe â'i wyneb wedi gwynlasu, a'i holl gorff yn ysgwyd gan gryndod a braw. Y mae yn wir ddelw o ddychryn. Dysgwylia bob moment weled Mab y dyn yn dyfod ar gymylau y nefoedd,—aeth rhyw saeth loew-lem oddiar fwa athrawiaeth y gŵr sydd ar y gareg fedd acw i'w galon. Y mae cleddyf daufiniog wedi ei drywanu hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd; y mae ganddo olwg wahanol arno ei hun yn awr i'r hyn a fu ganddo erioed o'r blaen. Mewn gair, y mae yn ddyn newydd! Daeth allan o'r fynwent y bore hwnw wedi ei greu o newydd. Am y tro hwn, medd hanes ei fywyd, canodd fel y canlyn yn ei farwnad i Mr. Harris:

Dyma 'r bore, byth mi gofia,
Clywais innau lais y nef;
Daliwyd fi wrth wys oddiuchod,
Gan ei swn dychrynllyd ef;
Ac er crwydro y dyrys anial,
Ol a gwrthol dileshâd,
Tra bo anadl yn fy ffroenau
Mi a'i galwaf ef yn dad.

Ië, bore i'w gofio byth oedd hwnw hefyd iddo ef, ac i Gymru oll yn wir o hyny allan. Disgynodd yr had ar un dernyn o dir y tro hwnw a gynnyrchodd ffrwyth ar ei ganfed. Pe na buasai i weinidogaeth Howel Harris fod yn offerynol i ddychwelyd un enaid ond y gŵr ieuanc hwn, buasai o fendith annhraethadwy i'r Dywysogaeth.

Meddai y darlithydd edmygedd trwyadl o ddawn ac athrylith per-ganiedydd Cymru. Gyda boddhâd annhraethol yr arferai gyfeirio at y ffaith fod ei ddylanwad ar y Dywysogaeth yn cryfhâu fwyfwy gyda threigliad amser; ac at y modd yr esgyna mawl cynnulleidfäoedd y saint yn "arogldarth peraidd, aberth cymeradwy gan Dduw trwy Iesu

Grist," bob tro y deuant at eu gilydd, yn ei syniadau a'i ymadroddion ef,—syniadau a genedlid yn ei fynwes gan olygiadau efengylaidd, eang, a mawreddog, ar ogoniant person a gwaith y Cyfryngwr, ac a ferwid yn ei galon gan dân myfyrdod a phrofiad, nes yr ymdorent allan yn llifeiriant anorchfygol o hyawdledd sanctaidd." Ni phetrusai gyferbynu yr arwrgan hono o eiddo yr hen Williams,—"Golwg ar Deyrnas Crist," â'r gân aruchelaf o eiddo Milton, sef Coll Gwynfa; ac i waith y blaenaf y rhydd efe y flaenoriaeth, nid am ei fod yn fwy athrylithfawr, ond am y dylanwada yn fwy iachusol ac efengylaidd ar feddwl y neb a'i darlleno. "Milton," eb efe, "a'ch syna yn aruthrol, nes byddo holl flew eich cnawd yn sefyll; cyfyd ddrychiolaethau ger eich bron a bar i ofn ac arswyd ymaflyd yn eich cnawd a'ch esgyrn; neu os o natur hyfryd y byddant, a barant i'ch mynwes chwyddo o ddyddordeb. Williams a estyna ei law drwy ryw dwll, ac a gyffyrdda â holl dannau eich ymysgaroedd—gŷr eich calon i losgi ynoch yn ddiarwybod i chwi. Ni allwn ddarllen Coll Gwynfa heb gael ein cynhyrfu a'n cyffroi braidd tu hwnt i'r hyn a all natur ei oddef; ond nid tasg anhawdd i ni fyddai ei darllen o'i dechreu i'w diwedd heb ollwng cymaint â dyferyn o ddagrau. Eithr wrth ddarllen Golwg ar Deyrnas Crist, trwy ein dagrau yn unig y gallwn fyned yn y blaen. Ac os yn ei darllen yn uchel i gylch o gyfeillion a allont gydfwynhâu y wledd, rhwystra y wylo y tafod yn fynych i acenu yn llawn a chroew. Bu yn gywilydd genym drosom ein hunain oblegid hyn rai prydiau, ond ni feddem help; trechai'r athrylith ni, troai y deigrlestri â'u gwyneb i waered, a'r defnynau heilltloewon a redant allan."

Ei ddarlith ar "Ymchwiliadau meddwl dyn i weithredoedd dwylaw Duw"* a fu hefyd yn dra phoblogaidd am hir amser. Er fod rhanau o honi yn ymresymiadol a dwfn-ddysgedig, llwyddai ef i'w gwneyd yn ddyddorol dros ben i'w wrandäwyr. Yn hono y gosodai yr haul allan fel bugail ymhlith ei braidd, gan ddefnyddio y gymhariaeth yn y dull hapusaf a ellid ddychymygu.

> Y mae ei sefyllfa yn nghanol ei gysawd fel bugail yn gwylio ei braidd, yn edrych trostynt, ac yn edrych arnynt oll, a hwythau arno yntau. Y mae ganddo tua chant o ddefaid, planedau a'u lleuadau, yn cynniwair o'i amgylch, ac yn pori ar feusydd eang ei gyfundrefn, a lliaws o eifr gwylltion (comedau), y rhai a dorant weithiau dros gloddiau cylchdröadau Uranus a Neptune bell, i anialdiroedd eenedlig y ceugant mawr; ond ni chollodd efe yr un o honynt o'i afaelion. Casgl hwynt â'i fraich, geilw pob un o honynt yn ei thro i ymddangos ger ei fron.

Yr oedd ganddo yn yr un ddarlith hefyd, rai nodiadau gwreiddiol a hynod ddifyrus ar ddeddfau pwys a thyniad. Pan alwyd arno i draddodi y ddarlith hon yn nghlywedigaeth Cymry Liverpool, dewisasid ei frawd, y Parch. Henry Rees, yn gadeirydd, yr hwn yn ystod ei araeth agoriadol a ddywedai (gan fod si felly wedi myned ar led) yn dra ffraethbert, "Y mae o yn dyweyd ei fod yn myned i dori twll drwy y ddaear, ond y mae yn ammheus iawn a wna fo, er hyny." Ond dyma y dull a gymerodd y darlithydd i gyflawni yr orchestgamp:—

* Gwel TRAETHODYDD 1855, tair o erthyglau, a "Rhyddweithiau Hiraethog," Cyf. ii.

Tybiwch yn awr ein bod yn tori twll trwy y ddaear: gallwn wneyd hyny, mewn dychymyg, canys nid oes dim o'r fath yn anmhosibl nac yn anhawdd iddo ef; gwnewch ef yn anferth o faint. Yn awr, edrychwch i lawr iddo, y mae yn agos i wyth mil o filldiroedd o ffordd. A welwch chwi? dacw ser ffurfafen yr ochr arall i'r ddaear i ni, yn y golwg. Eto, ymaflwch yn y Wyddfa, dygwch hi at enau y corbwll aruthrol hwn, sicrhewch fâch wrth ei gwadn, clymwch linyn deg troedfedd ar hugain wrthi,—dalied un o honoch afael ynddo; safed un arall ar fin y ceubwll, a chyllell lem yn ei law. Safed y lleill o'r tu ol i'r Wyddfa; a phan ddywedom *tip*—ar y gair gollyngwch hi i lawr; ar yr ail *tip*, tored y gŵr â'r gyllell y llinyn a glymwyd wrthi. Gofelwch ar fod yn barod, na choller cymaint a'r ffled ran o foment yn yr hyrddiad na'r toriad. Yn awr! Dyna hi! Y mae yn disgyn gyda nerth ofnadwy, yn gyflymach, gyflymach bob moment. Dyna hi wedi disgyn hanner y ffordd, bedair mil o filldiroedd. Y mae yn gyru ymlaen eto; hi a ä trwodd i'r eangder yr ochr arall i'r belen; na, y mae yn arafu, yn petruso; y mae y nerth oedd yn ei chymhell oddiwrthym ni, yn trigo yn ei chanolbwnc, ac wedi iddo basio ei drigle, y mae yn ei chymhell i droi yn ol. Dyna hi wedi cyrhaedd pwynt na all fyned ymhellach. Y mae yn troi yn ei hol, ac yn cyrchu gyda chwyrnedd aruthrol tuag yma. A ddaw hi trwodd atom? Na, y mae yr un gallu yn ei hattal, ac yn ei thynu yn ol drachefn; byrhâ ei chadwyn bob tro. Ysgoga oddeutu y canolbwnc fel pendulum am dro, o'r diwedd dyna hi yn sefyll yn llonydd ar galon y ddaear.

Ond rhaid i'n gwaith o ddyfynu ddybenu yn y fan hon.

Un o'r darlithiau olaf a gyfansoddodd ein pen-darlithydd oedd, yr un ar "Martin Luther," am yr hon y tystiolaethai agos bawb a'i clywodd, mai hi ydoedd yr oreu o'r cwbl. Diau ei fod i'w weled yn heneiddio, pan glywsom ef yn ei thraddodi yn Nolgellau; er hyny, yr oedd ei ysbryd yn îr ynddo, a'i draddodiad mor nerthol, ac fe allai yn fwy hapus, nag y clybuwyd ef ar unrhyw adeg yn ystod ei yrfa hirfaith. Yr oedd yn mryd yr ysgrifenydd ddwyn i mewn i un o'r ysgrifau hyn ar athrylith a nodwedd Dr. Rees, rai sylwadau ar ei nodweddion personol, ac hefyd ar y dosbarth mwyaf *humorous* o'i ysgrifeniadau ef; eithr gan y bwriedir dwyn allan Gofiant iddo yn fuan, diau nad oes achos i neb gwyno o herwydd ychydig anffawd o'r natur yma. Wrth ddodi ei ysgrifell o'r neilldu, nid oes gan yr ysgrifenydd ond gobeithio ddarfod i'w waith fod o adeiladaeth a budd i rywrai, ac y gwel y Goruchaf yn dda godi llawer eto o gedyrn fel Dr. Rees i ymaflyd yn mwäau heddwch o fewn y Dywysogaeth. Y mae i ni, y rhai a fuom gynt yn eistedd wrth ei draed i dderbyn addysg, ac a'i hystyriem yn fraint o'r fath uchaf i gael ei glywed yn traddodi cenadwri y bywyd, dristwch mawr wrth feddwl na chawn ein sirioli gan ei wedd, na'n cynhyrfu gan ei hyawdledd rhyfeddol mwy.

Mor rydlyd mae 'r hyawdledd,
Daniai y byd yn y bedd.

*Dolgellau.* DAVID GRIFFITH.

# BORD GRON.

"YR oedd i Arthur ford gron." Y mae un felly gan y TRAETHODYDD hefyd, o amgylch pa un y bydd yn hyfryd ganddo groesawu ei gyfeillion galluog a ddygwyddo fod yn cymeryd golygiadau gwahanol ar bethau i draethu eu llên. Y mae rhai o brif gyhoeddiadau "yr iaith nesaf atom" wedi cael peth felly yn ddiweddar dan yr enw *Symposium*, neu Gyfeddach. Ond gan nad ydyw pobl syber y TRAETHODYDD yn malio am gyfeddachau, barnwn fod yn fwy cymesur iddynt gael eistedd fel Tywysogion Arthur wrth eu Bord Gron, ac yno gael trafod, o'r naill gyfeiriad a'r llall, y materion y maent yn ceisio goleuni arnynt. Ni raid i'r naill na'r llall o'r cyfeillion parchus a meddylgar y mae genym yn awr y pleser o'u cyflwyno i sylw ein darllenwyr wrth un math o "lythyrau canmoliaeth."

## Y DDWY GREADIGAETH.

Y MAE yn wybyddus i bawb fod genym yn y ddwy bennod gyntaf o lyfr Genesis yr hyn sydd yn ymddangos fel dau hanes gwahanol o Greadigaeth y byd. Ac nid yn unig hyny, ond y mae y ddau adroddiad yn arddangos amryw o anghysonderau, os ydynt i'w cymeryd fel yn rhoddi hanes yr un amgylchiad. Anonestrwydd yn neb fyddai ceisio cuddio y rhai hyn o'r golwg; llwfrdra fyddai ceisio eu hosgoi; annoethineb fyddai eu diystyru. Y maent yn bod. Yn y bennod gyntaf, y mae y llysiau yn dyfod i fôd ar unwaith wrth orchymyn Duw;* yn yr ail y maent yn ymddibynu am eu tarddiad ar offerynoliaeth gwlaw a tharth, a llafur dynol.† Yn y gyntaf y mae y dyn a'r wraig yn cael eu creu ynghyd;‡ yn yr ail y mae y wraig yn cael ei chreu ar ol y dyn, ac yn cael ei ffurfio o ran o'i gorff ef.‖ Yn y gyntaf creïr yr adar a'r anifeiliaid o flaen dyn;§ yn yr ail y dyn o flaen yr anifeiliaid a'r adar.¶

Llawer yw y ffyrdd a gymerwyd ac a gymerir i gyfarfod yr anhawsderau hyn. Y mae yn anhawdd cael rhai pobl i'w cyfarfod o gwbl; llechant y tu ôl i'r hyn a alwant yn ffydd, gorchuddiant eu hunain â mantell o ffug sancteiddrwydd, cauant eu dau lygad yn dŷn, a galwant y bobl sydd yn ddigon gonest a gwrol i ymladd â'r anhawsderau wyneb yn wyneb yn ammheuwyr ac anghredinwyr. Y mae eraill,—llawer gwell pobl na'r rhai uchod,—yn eu parch tuag at y Bibl a'u gofal serchus am dano, yn crynu ac yn ofni wrth glywed sŵn y frwydr, ac yn gweddïo am i'r perygl gael ei symud ymaith ac i heddwch ffynu,—ar ba delerau nid ydynt yn petruso llawer, rhyddid oddiwrth ymosodiad rywfodd. Ond ni raid i neb ofni canlyn gwirioneddau y Bibl allan i ryfel yn hyf a diorchudd; ac ni raid i'r gweiniaid betruso ynghylch y canlyniadau. Y ffordd gyffredin i esbonio y gwahaniaeth ydyw trwy briodoli y ddau adroddiad i wahanol awduron, gweithiau y rhai a fodolent ymhell cyn amser Moses, ond a ddefnyddiwyd ganddo ef, ar ol eu

* i. 11, 12. † ii. 5, 6. ‡ i. 27. ‖ ii. 21—23. § i. 20, 24, 26. ¶ ii. 7, 19.

harolygu a'u huno ac ychwanegu atynt, i ffurfio yr hanes sydd yn awr yn ein meddiant ni. Fel hyn, meddir, y cyfansoddodd Moses yr oll o lyfr Genesis. Am y pedwar llyfr arall nid oes dim yn rhwystro, can belled ag y mae y cwestiwn o amseriad yn myned, i Moses fod wedi eu hysgrifenu oddiar ei wybodaeth ei hunan, gan ei fod yn cydoesi bron â'r holl amgylchiadau a adroddir ynddynt; ond y mae llyfr Genesis yn adrodd hanes a gymerodd le cyn ei eni ef. Rhaid ynte fod Moses wedi derbyn y ffeithiau a adroddir ganddo yn y llyfr hwnw trwy draddodiad neu trwy gyfrwng ysgrifau eraill a fodolent cyn ei amser ef. Nid ydym i feddwl mai Moses oedd yr awdwr cyntaf a ysgrifenodd hanesiaeth. Y mae y ffaith fod y fath waith a'r 'pum' llyfr wedi ei ysgrifenu yn yr adeg foreuol hono ar oes y byd, ei hunan yn profi fod y gelfyddyd o ysgrifenu yn bodoli yn flaenorol. Felly, meddir, y tebygolrwydd yw fod Moses wedi cymeryd yr ysgrifau hyny a'u defnyddio i ysgrifenu hanes cyflawn ei hunan. Y mae hyn yn fwy tebygol na'i fod wedi derbyn yr hanes trwy draddodiad, ac y mae hefyd yn rhoddi gwedd o fwy o ddilysrwydd a dibyniaeth ar yr hanes presennol fel y mae genym ni.

Wele rai o'r ffeithiau ar ba rai yr adeiledir y dyb hon. Y mae llawer o anghysonderau amlwg yn yr hanes, y rhai sydd yn esboniadwy ar y dyb eu bod yn deilliaw oddiwrth haneswyr gwahanol, ond sydd yn hollol anesboniadwy, meddir, os cynnyrch yr un awdwr ydynt. Er esiampl, y mae enwau gwragedd Esau, a'u tadau, yn cael eu rhoddi i lawr mewn dau le, ond yn y ddau y maent yn wahanol (pen. xxvi. 34, cymharer xxviii. 9, ac hefyd xxxvi. 2). A chaniatâu fod ganddynt ddau enw, y mae yn anhawdd gwybod pa fodd y bu i'r un awdwr roddi y ddwy restr i lawr heb unrhyw gyfeiriad at eu gilydd; ond y mae hyn yn ddealladwy os yw y ddwy restr yn dygwydd mewn dau adroddiad sydd yn awr wedi eu huno. Y mae anghysonderau cyffelyb ynglŷn â tharddiad yr enwau *Bethel*, *Beerseba*, ac *Israel*. Y mae genym ddau adroddiad am bob un o honynt, ac nid ydynt yn cytuno. Dywedir yn un lle, xxviii. 19, mai ar ei daith i Mesopotamia y galwodd Jacob y lle a elwid Luz yn Bethel; ond yn xxxv. 9—15, dywedir mai wrth ddyfod oddiyno rai blynyddoedd yn ddiweddarach y gwnaeth efe hyny. Yn xxi. 23—34, cysylltir yr enw Beerseba â hanes Abraham, ond yn xxvi. 17—33 â hanes Isaac. Yn xxxii. 28, a xxxv. 10, cawn ddau hanes am Dduw yn rhoddi yr enw Israel i Jacob, ond nid oes yn yr olaf yr un cyfeiriad at yr amgylchiad cyntaf, nac un awgrym mai cadarnhâd ar yr enw newydd ydoedd. Y mae hyn oll yn gyson â'r dybiaeth o wahanol awduron, ond yn anesboniadwy os Moses ei hunan ysgrifenodd yr oll.

Y mae y dyb hon o wahanol awduron yn cael ei chadarnhâu pan edrychwn ar y gwahanol arddulliau o ysgrifenu a arddangosir mewn gwahanol ranau. Y ffaith nodedig ynglŷn â hyn ydyw y gwahanol ddulliau a gymerir i osod allan enw y Duwdod. Y mae dau enw yn dra chyffredin yn Genesis, a thrwy gydol y Bibl, sef *Jehofah* ac *Elohim*. Yn awr, y mae rhanau o'r llyfr lle y defnyddir bron yn ddieithriaid yr enw Jehofah, rhanau eraill lle ni welwn ddim ond Elohim, ac un man, —yr ail bennod,—lle y defnyddir y ddau ynghyd, *Jehofah-Elohim*. Dadleuir oddiwrth hyn eto mai y ffordd i esbonio y gwahaniaeth ydyw

trwy addef bodolaeth gwahanol adroddiadau cyn amser ysgrifenydd y Genesis presennol, ond y rhai a unwyd ganddo ef.

Y cyntaf i ddwyn sylw at y diffyg unoliaeth yma yn llyfr Genesis ydoedd meddyg yn Paris, Pabydd o ran ei grefydd, o'r enw Astruc, ac ysgrifenodd lyfr i geisio ei esbonio. Ei farn ef oedd fod dwy brif lawysgrif wedi eu defnyddio gan Moses, y rhai a elwir ganddo y *Jehovah-document* a'r *Elohim-document*, o herwydd y gwahanol enwau ar y Duwdod a ddefnyddir ganddynt. Dilynwyd ef gan Eichorn, De Wette, Ewald, Hengstenberg, Delitzsch, &c., yn y derbyniad o'r ddamcaniaeth o gyfansoddiad amrywiol, ond fod gan bob un o honynt ei ffordd ei hun o'i hesbonio, ac o gyfleu yr adroddiadau gwreiddiol a ddefnyddiwyd. Y mae ymchwiliad i'r gwahanol olygiadau yn dra dyddorol, ond nid ydynt yn dyfod i mewn i'n gorchwyl presennol ni.

Yr ydym yn gweled yn awr y dull a gymerir i esbonio yr anghysonderau rhwng y bennod gyntaf a'r ail o Genesis. Dadleuir eu bod yn gynnyrch dau awdwr gwahanol, pa rai a ysgrifenasant ddau adroddiad annibynol am hanes y greadigaeth ymhell cyn amser Moses, ond a ddefnyddiwyd ganddo ef, heb newid nemawr ar eu ffurf, pan aeth i ysgrifenu ei hunan yr hanes sydd genym ni. Dyna yn fyr a syml y syniad "diweddaraf" a ddygwyd ymlaen i esbonio ac i gysoni y ddau hanes am y greadigaeth, yr hwn hefyd a gymhwysir i esbonio y rhan fwyaf o'r anghysonderau trwy yr holl lyfr.

Nid yw y *Modern School of Biblical Critics* yn credu nemawr, fe welir, mewn ysbrydoliaeth. Barn yr hen dduwinyddion fel rheol oedd fod Moses, a'r haneswyr Biblaidd yn gyffredinol, wedi derbyn cynnwys eu gweithiau yn uniongyrchol oddiwrth yr Ysbryd Glân. Elai rhai o honynt mor bell ag i ddyweyd fod y *ffurf* wedi dyfod oddiwrtho Ef hefyd. Ond ni fyn yr oes oleuedig hon ddim o hyn. Os yw yr hanes yn ymdrin â phethau a gymerasant le cyn amser yr ysgrifenydd, rhaid ei fod wedi derbyn ei wybodaeth trwy draddodiad, neu trwy gyfrwng adroddiadau ysgrifenedig. Yn awr, meddir, y mae traddodiad yn dueddol iawn i gael ei lygru, ac o ganlyniad, os yw yn bosibl gwneuthur hyny, y mae yn well ceisio profi fod Moses wedi derbyn yr hanes trwy gyfrwng adroddiadau ysgrifenedig, gan fod awduron y rhai hyny yn byw yn agosach i'r amgylchiadau a nodir nag ydoedd ef, ac felly nid oedd y traddodiadau wedi cael cymaint o amser i ddirywio. Caniatawn hyn oll. Gyda hanesiaeth gyffredin y mae grym yn hyn; ond nid hanesiaeth gyffredin yw hanes y greadigaeth. Y mae yn rhaid hyd yn nod i draddodiad ddechreu yn rhywle. Pa mor bell yn ol bynag y rhoddwn yr awduron cyn Moses,—pe buasai Adda ei hunan yn un o honynt, yr oedd yn rhaid fod peth amser wedi myned heibio er y greadigaeth. Nid oedd yr un dyn yn cydoesi â ffurfiad y byd; pa fodd ynte y dechreuodd y *traddodiad?* Onid oedd yn rhaid hyd yn nod i Adda ei hunan gael ei hanes wedi ei ddadguddio iddo gan Dduw? Hyd yn nod a chymeryd yr ystyr lythyrenol i'r gair "dydd" yn hanes y greadigaeth, yr oedd pump o honynt wedi myned heibio cyn y daeth Adda i fód, ac yr oedd yn rhaid wrth ddadguddiad Dwyfol cyn y gallasai *efe* wybod beth oedd wedi dygwydd cyn ei grëad. Felly nid yw y syniad diweddaf wedi'r cwbl am draddodiad a haneswyr cyn Moses, yn gwneyd ymaith o gwbl â'r anhawsder o ddadguddiad ysbrydoledig, os

anhawsder ydyw. Y mae y ddamcaniaeth o wahanol awduron yn esbonio yr anghysonderau yn lled dda, ond nid yw wedi'r cwbl yn gwneyd ymaith â dadguddiad ysbrydoledig; ac os gwnaed dadguddiad ysbrydoledig i rywun cyn amser Moses, paham nad ellir credu fod Moses wedi derbyn dadguddiad felly ei hunan?

O'r ochr arall, os derbyniwn ddadguddiad ysbrydoledig, y mae anghysonderau yr hanes yn cyfodi yn fygythiol o'n blaen. Os derbyniodd Moses hanes y greadigaeth gan Ysbryd Duw, pa fodd y rhoddwyd dau adroddiad iddo, yn enwedig dau adroddiad anghyson â'u gilydd? Y mae hyn wedi bod yn destun myrdd o ysgrifau ymhob oes, ac y mae yr esboniadau yn lleng. Yr ydym am anturio ychwanegu un arall atynt.

Dechreuwn trwy ofyn cwestiwn. A raid i ni gymeryd yn ganiatäol mai dau hanes o'r *un* amgylchiad yw y rhai hyn? Onid allant fod yn hanes *dau* amgylchiad gwahanol? Mewn gair, onid hanes *dwy* greadigaeth sydd yma?

Yn y bennod gyntaf, a hyd y drydedd adnod o'r ail, yr ydym yn cael hanes creadigaeth y bydysawd i gyd: "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear." Nid ydym yn bwriadu myned i mewn i'r cwestiynau anhawdd sydd ynglŷn â'r hanes ynghylch yr ystyr sydd i'w roddi i'r gair "dydd," ac a ydyw yn bosibl cysoni yr hanes â gwyddoniaeth. Nid ydym yn meddwl fod y Bibl yn hòni rhoddi gwybodaeth ar gwestiynau gwyddonol. Nid llyfr gwyddonol ydyw, ond llyfr crefyddol. Dysgu crefydd a ffydd yn Nuw ydyw ei amcan. Rhaid cofio pa bryd yr ysgrifenwyd ef, ac i bwy y bwriadwyd ef gyntaf. Ofer fuasai dadguddio i Moses ei hunan ddirgeledigaethau y greadigaeth; gwaeth nag ofer fuasai iddo ysgrifenu yr hanes hwnw mewn arddull wyddonol er budd cenedl Israel. Mwy priodol o lawer oedd ysgrifenu mewn dull syml, ond mawreddog, hanes a ddeuai o fewn cylch eu hamgyffrediad, ac a gai ddylanwad ar eu hysbryd crefyddol. Ac i wneyd hyny, nid hanes gwyddonol am ddadblygiad y greadigaeth, a gweithrediadau galluoedd natur, oedd eisieu; ond hanes a gynnyrchai ynddynt barch ac edmygedd o'r Duw a greodd bob peth trwy air ei nerth, ond ei hunan yn annghrëedig a diddechreu; Duw sydd yn dad pob daioni; yn gynnaliwr pob dim; yr hwn o herwydd ei allu y dylent ei barchu, o herwydd ei sancteiddrwydd ei ofni, ac o herwydd ei drugaredd a'i ofal ei garu yn dragywydd. Dyma addysg y greadigaeth, a dyma amcan ysgrifeniad yr hanes; nid rhoddi adroddiad gwyddonol. Ac y mae y golygiad hwn am hanes y greadigaeth yn Genesis yn gadael lle i ddarganfyddiadau diweddar gwyddoniaeth ddyfod i mewn, ac nid yn eu cau allan ar draul diystyru yr hyn y mae rheswm a ffeithiau anwadadwy yn galw am i ni eu credu a'u derbyn. Y mae deddfau Daeareg a Seryddiaeth wedi eu darganfod a'u profi i'r fath berffeithrwydd y dyddiau hyn fel na faidd neb meddylgar ammheu nad yw y ddaear yn llawer hŷn na'r cyfrif cyffredinol am ei hoed a gawn ar "ymyl y ddalen" yn y Bibl Cymraeg, sef "Cyn Crist 4004." Ac nid oes neb yn awr ag y gellir roddi dim pwys ar ei farn yn parhâu i gredu mai chwe' diwrnod naturiol y bu Duw yn creu. Chwe' chyfnod mae'n ddiau ydynt, ac yr ydym yn y seithfed heddyw,—y mae y Sabboth Dwyfol yn parhâu hyd yn hyn. Nid ydym i gymeryd y geiriau yn unman yn llythyrenol.

Ni wyddai awdwr y bennod gyntaf o Genesis, pa un bynag ai Moses ai rhywun arall oedd, ddim am Seryddiaeth a Daeareg. Y mae hyn yn amlwg oddiwrth ei ddull o ymadroddi. Yn hanes y pedwerydd dydd, er esiampl, y mae yn dyweyd mai yr haul a'r ser a grëwyd yr adeg hono, pryd y mae Seryddiaeth yn ein dysgu fod yn rhaid fod yr haul wedi ei greu o leiaf yr un adeg â'r ddaear, oblegid o'i gwmpas ef y mae hi yn troi —yr haul sydd yn ei chadw yn ei lle yn y gwagle. Eto, yr oedd y ffurfafen yn cael ei hystyried gan awdwr llyfr Genesis,—yn ol y syniad Hebreaidd,—fel lle, fel math o *canopy* sylweddol yn crogi uwch ben y ddaear mewn ffurf o hanner cylch; ac uwch ben y ffurfafen y mae yn tybied fod y gwlaw yn cael ei gadw mewn rhyw ystorfa helaeth, yn cyfateb i'r dwfr sydd ar y ddaear. "A Duw a wnaeth y ffurfafen," meddai, "ac a wahanodd rhwng y dyfroedd oddi tan y ffurfafen, a'r dyfroedd oddiar y ffurfafen." Y mae hyn oll yn ffolineb os cymerwn ef yn yr ystyr lythyrenol. Ond nid rhoddi hanes manwl a chywir o gwbl oedd yr amcan. Yn wir nid amcan y Bibl yn unman ydyw dadguddio gwybodaeth ag sydd o fewn cyrhaedd ein galluoedd ni ein hunain i'w darganfod. Dadguddiad o ddirgel bethau Duw yw y Bibl. Ac amcan yr hanes yn Genesis, fel y dywedwyd, ydyw amlygu mewn iaith a dull y gallai pawb eu deall, "wneuthur y bydoedd trwy air Duw, yn gymaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir." Yr oedd dynion i wybod mai Duw yw achos pob peth. "Yn y dechreuad"—rhoddwn hwnw mor bell yn ol ag a fynom, Duw, yr hwn oedd eisoes yn bodoli, a ddaeth â phob peth arall i fodolaeth. Nid oes yma ddim cymysgedd o'r Creawdwr a'r Greadigaeth; dim o'r syniadau Paganaidd am dragywyddol fater. Duw a greodd bob peth; y gair "*bydded*" o'i enau Ef oedd achos bodolaeth yr oll. Ac y mae yna ryw berthynas agos rhwng Duw a'r hyn a greodd, perthynas cariad: "A gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai, ac wele da iawn ydoedd." Dyma addysg y greadigaeth, a'r addysg yw y peth pwysicaf, a'r hyn oedd gan yr ysgrifenydd mewn golwg.

Ond yn yr ail bennod y mae yr adroddiad yn gwahaniaethu. Nid hanes y greadigaeth yn ei chyfanswm sydd yma, ond hanes creadigaeth arall,—ffurfiad y lle a elwir gan yr ysgrifenydd yn "Ardd Eden," a chreadigaeth yr hyn a drigai ynddo, a hyny gydag amcan neillduol mewn golwg. Nid oes yma unrhyw son am greu goleuni, fel yn y bennod gyntaf. Yr oedd hwnw eisoes yn bodoli; ac felly yr haul, y lleuad, a'r ser, a'r ffurfafen ymha un yr oeddynt i'w gweled,—nid oes gair o hanes eu creadigaeth hwythau ychwaith. Ac ni ddywedir dim yma am greadigaeth y môr, a'r creaduriaid sydd yn trigo ynddo,—yr oedd y pethau hyn oll eisoes yn bod, ac ni chyfododd angen am greu rhai newydd. Ond beth am ddyn a'r anifeiliaid? Onid oeddynt hwythau yn bod? Oeddynt, ond fe welodd Duw yn dda greu rhai newydd o honynt hwy. Yn ychwanegol at y dyn y sonir am ei greadigaeth yn y bennod gyntaf, fe grëwyd *Adda* y dyn cyntaf, tad yr hiliogaeth bresennol o ddynolryw. Fe dorwyd pob cysylltiad rhyngddo a'r dynion oeddynt yn byw yn y byd o'i flaen ef, a gosodwyd ef yn Ngardd Eden, yno i'w brofi, ac i ysgrifenu y llinell gyntaf o'r hanes hynod a gyrhaeddodd bwynt uchaf ei dyddordeb a'i gogoniant yn ngwaith Duw yn tabernaclu ymhlith dynion.

Ni raid i neb o honom synu na dychrynu wrth glywed fod dynolryw wedi bod yn trigo ar y ddaear o flaen ein Hadda ni. Y mae gwyddoniaeth, gyda chamrau sofn, yn myned ymlaen, ac un o'i thystiolaethau diweddaraf o'r tir dyeithr y mae yn cerdded drwyddo yw, fod yr hil ddynol yn llawer hŷn nag y tybir yn gyffredin ei bod. Os yw hynyna yn wirionedd,—ac y mae y seiliau dros ei ammheu yn myned yn barhâus yn wanach,—y mae y cwestiwn ar unwaith yn cyfodi, beth a ddaw o hanes creadigaeth Adda yn llyfr Genesis? Nid yw y cwestiwn hwn ar yr un safle â'r cwestiwn o greadigaeth y byd a'r creaduriaid direswm. Y mae genym achau Adda i lawr i amser ag y mae sicrwydd yn ei gylch; ac y mae oed ei ddisgynyddion genym; ac os nad yw yr hanes am ei greadigaeth ef i ddibynu arno, y mae yr oll o'r pethau hyn yn myned i ddyryswch ac ansicrwydd. Ond y maent yn eithaf eglur os cymerwn mai dau fôd gwahanol yw "dyn" y bennod gyntaf, ac "Adda" yr ail bennod. Fe allwn yn awr osod y blaenaf unrhyw bellder yn ol, fel y mae gwyddoniaeth yn dysgu; ac fe allwn ddechreu bodolaeth yr hil bresennol o ddynolryw yn Adda, fel y mae y Bibl yn dyweyd.

Yn y bennod gyntaf fe gawn hanes y dadblygiad yr aeth y byd trwyddo i gyrhaedd ei ffurf bresennol,—o'r ffurfiau isaf o fywyd i fyny i'r uchaf,—dyn,—y mwyaf gogoneddus o greaduriaid Duw. Ni raid i neb feddwl fod y syniad o ddadblygiad yn gwneyd ymaith â chreadigaeth, ac nad yw yn hollol gyson â'r gwirionedd fod Duw wedi gwneyd pob peth, a hyny o ddim. Pa mor isel bynag ar y raddfa y rhoddwn ddechreuad bywyd, *yr oedd* yna ddechreuad yn rhywle, a rhaid fod y bywyd hwnw yn grëedig. Y mae holl apostolion Dadblygiad yn gorfod addef hyn mewn effaith, os nad mewn geiriau. Duw yw achos pob bywyd. Ond y mae gwahaniaeth barn yn awr ynghylch dull gweithrediad dadblygiad. Rhai, fel Darwin, a ddywedant mai trwy achosion naturiol a damwain, yn ymestyn dros oesau dirifedi, y daeth y gwahanol rywogaethau a dosbarthiadau o anifeiliaid a llysiau i fodolaeth. Eraill, fel y Duc o Argyle, a ddaliant fod yn rhaid cael deall a synwyr i fewn yn rhywle, ac felly priodolant ddadblygiad i ddeddfau, yn a thrwy ba rai y mae Duw yn gweithio. Yma ceir dylanwad yr Hollalluog nid yn uniongyrchol, trwy weithrediad goruwchnaturiol, ond yn anuniongyrchol, trwy y deddfau a ffurfiwyd ganddo. Y syniad cyffredin ydyw yr un o weithrediad goruwchnaturiol, a hyny yn uniongyrchol. Ond yr ydym yn credu nad oes dim yn y bennod gyntaf o Genesis yn anghyson â'r ail syniad a nodwyd, sef dadblygiad o dan reoleiddiad deddf Ddwyfol. Duw, yn y dechreu, trwy air ei nerth a greodd y ddaear, yr hon oedd "afluniaidd a gwag;" fe'i cynnysgaeddodd â nerth bywydol,—daeth y gweddill i fodolaeth yn ngrym y deddfau a osododd Duw yn ei greadigaeth, y rhai, er hyny, a barhäent yn ddarostyngedig iddo ef. Y mae ffurfiau isaf bywyd yn ymddangos yn gyntaf; y "llysiau yn hadu hâd," a'r "prenau." Wedi hyny y mae y ffurfiau isaf o fywyd anifeilaidd yn ymddangos; yr ymlusgiaid a heigiai y dyfroedd," yr "ehediaid," yr "anifeiliaid," a "bwystfil y ddaear." Yn olaf fe gawn y radd uchaf o'r dadblygiad,—dyn. Ond, y mae hwn i fod yn wahanol oddiwrth yr oll o'r lleill. Y mae i freniniaethu ar y cwbl, i ddwyn yr oll dan warogaeth i'w was-

anaeth ef. I gael hyn, y mae yn rhaid i ddyn fod yn greadur rhesymol; y mae meddwl a deall i gael eu huno â'r mater a ffurfia ei gorff ef.

> A creature of a more exalted kind
> Was wanting yet, and then was Man designed:
> Conscious ot thought, of more capacious breast,
> For empire formed, and fit to rule the rest. . .
> Thus while the whole creation downward bend
> Their sight, and to their earthly mother tend,
> Man looks aloft; and, with erected eyes,
> Beholds his own hereditary skies.

Dyna fel y canodd un o'r hen feirdd paganaidd, Ovid, ac yr ydym yn barod i synu at debygolrwydd y geiriau i'r hanes a gawn yn Genesis. "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain." Yn ychwanegol at y bywyd anifeilaidd sydd ynddo, y mae yna fywyd arall yn cael ei roddi yn uniongyrchol oddiuchod.

Y mae pwynt uchaf y dadblygiad yn awr wedi ei gyrhaedd, ac y mae o hyn allan yn peidio. Nid oes un rhywogaeth wedi dyfod i fod ar ei ol ef.

Gofynir yn aml, fel gwrthddadl yn erbyn Dadblygiad, Pa le y mae y ddolen gydiol rhwng dyn ac anifail *yn awr?* A fedr rhywun ddangos creadur *yn awr* yn y cyflwr o ddadblygiad o'r anifail i fod yn ddyn,—creadur heb fod y naill na'r llall, ond yn y *process* o drawsnewidiad? Ond wedi ychydig ystyriaeth yr ydym yn canfod nad oes dim grym yn yr hèr hon o gwbl. Y mae yn amlwg nas gellir dangos creadur felly, a hyny am y rheswm digonol fod dadblygiad yn y cyfeiriad hwn wedi cyrhaedd ei bwynt uchaf pan ddaeth dyn i fod ar y cyntaf. Ar ol hyny y mae dynion i ddyfod i fodolaeth, nid o blith yr anifeiliaid, ond o honynt hwy eu hunain. Y mae y gwaith creadigol yn awr yn dyfod i ben; y mae Duw yn rhoddi terfyn ar weithrediadau deddfau dadblygiad; y mae effeithiau y gair "Bydded" yn pallu; a Duw yn gorphwyso oddiwrth y gwaith, ar ol edrych arno a dywedyd "mai da iawn ydoedd."

Y mae canrifoedd wedi myned heibio. Y mae dyn wedi ymlygru, ac wedi syrthio ymhell yn ôl oddiwrth ei ogoniant cyntaf. Y mae yr hyn sydd anifeilaidd ynddo wedi ennill yr oruchafiaeth ar y Dwyfol, ac y mae y "llun a'r ddelw," mewn effaith wedi eu dileu, ac yntau wedi syrthio bron yn gydradd â'r anifeiliaid direswm. Nid yw yn briodol dyweyd fod y dyn yn pechu am na roddwyd deddf iddo. "Ni chyfrifir pechod pryd nad oes deddf." Nid oedd efe yn wrthddrych cyfammod o gwbl. Nid oes sôn am gyfammod na gorchymyn ynglŷn â hanes dyn y bennod gyntaf. Beth oedd ei berthynas foesol â Duw, beth ei dyngedd, nis gallwn ddyweyd, am na pherthyn i ni ei wybod. Fe ddywedir wrthym fod lle cryf i gasglu fod rhai o'r ser wedi eu poblogi. Y mae yr un anhawsderau yn cyfodi yn y fan yma eto; ond nid oes genym hawl i'w gwneuthur yn ansymudadwy yn y naill fan na'r llall, fel ag i beri fod gwirionedd yr un o honynt o herwydd hyny yn anmhosibl.

Yn y chweched bennod fe ddywedir ddarfod i'r Arglwydd edifarhau wneuthur o hono ef ddyn, ac iddo ymofidio yn ei galon. Y mae hanes yr ail greadigaeth fel pe yn awgrymu i rywbeth felly gymeryd lle cyn

adeg y diluw. Y pryd hwnw fe ddaeth trugaredd yr Arglwydd i'r golwg yn nghadwraeth Noah a'i deulu rhag dinystr; yn y fan yma y mae gras yn amlygu ei hun yn nghreadigaeth Adda, tad yr hil bresennol o ddynolryw, hanes yr hon sydd yn adlewyrchu y gogoniant penaf ar Dduw, oblegid yn ei hanes ef y gwnaeth Duw y dadblygiad gogoneddusaf o hono ei hun fel Duw y cariad.

Y mae creadigaeth Adda yn wahanol i greadigaeth y dyn cyntaf. Yno y mae dyn yn dyfod i fod trwy ddadblygiad araf; yma y mae yn cael ei greu mewn un weithred derfynol. Ond nid yw yn newid o ran ei natur, yn gorfforol na meddyliol. Yn y bennod gyntaf y mae dyn wedi tarddu o bridd y ddaear. Dadblygiad yr hedyn o fywyd a roddwyd mewn mater yn ei bwynt uchaf ydyw yno; ac felly yma, ond yn unig fod gweithrediad araf dadblygiad wedi rhoddi lle i weithrediad mwy nerthol a chyflym. Dyma paham y crewyd Adda o "bridd y ddaear." Ein hesboniad cyffredin ni, onidê, ydyw fod Duw yn cymeryd y ffordd hon i greu dyn er mwyn dangos fod creu o "ddefnydd anghymhwys" yn profi gallu Dwyfol yn llawn gymaint a chreu o ddim. Ond nid yw hyn yn un esboniad o'r ffaith paham y dewiswyd pridd mwy na rhywbeth arall, a rhaid i ni lechu y tu ol i'r mur diogel, na pherthyn i ni wybod *y paham* mewn gweithrediadau Dwyfol. Ond yn ngoleuni y ddamcaniaeth a osodir ger bron genym yma, gwelwn y rheswm dros hyn. Yr oedd eisieu i'r dyn newydd fod yn gymhwys o ran natur yr un â'r dynion oeddynt eisoes yn y byd. Pa fodd y gellid cael un felly, ac hefyd iddo fod yn berffaith bur, a rhydd oddiwrth bob llygriad a allai fod yn llechu yn ei gyfansoddiad corfforol a meddyliol, o herwydd ei berthynas â'r hil lygredig oedd eisoes yn bodoli? Dyma y ffordd a gymerodd Duw: creu mewn moment o bridd y ddaear yr hyn y cymerodd dadblygiad filoedd o oesau i'w ffurfio o'r un defnydd. Yr un Duw sydd yn creu yn y ddau, a thrwy gyfrwng yr un deddfau; ond yn y naill y mae y deddfau yn gweithio yn araf, yn y llall y mae eu gweithrediad yn brysur. Ac felly hefyd am yr anifeiliaid oeddynt i gyd-drigo âg Adda yn Eden; ffurfiwyd hwythau hefyd "o bridd y ddaear," megys ag y ffurfiwyd yr holl anifeiliaid a drigent yn y byd o'u blaen hwy, ond fod dadblygiad gyda hwy wedi rhoddi lle i greadigaeth fwy cyflym.

Amcan Duw yn yr ail greadigaeth ydoedd gwneyd cymmod â dyn, a rhoddi iddo, megys, ail ddechreu byw o dan amgylchiadau hollol newydd. Yr oedd y dyn cyntaf a greodd, a'i hil, wedi myned yn llygredig ac wedi colli ei ddelw Ef, ac anmhosibl oedd gwneuthur y cyfammod newydd â'r un o honynt hwy. Yr oedd hadau llygredigaeth wedi myned mor ddwfn i'r natur ddynol fel yr oedd yn angenrheidiol cael dyn newydd, anllygredig a phur; yn un o ran ei natur â'r hil ddynol oedd eisoes yn y byd, eto yn hollol ar wahân iddynt; dyn a safai unwaith eto ar y pinacl y safodd y dyn cyntaf arno pan grewyd ef, "ar lun a delw Duw."

Felly y mae Duw yn creu Adda, yn bur a sanctaidd, fel y dyn cyntaf, ac yn tori pob cysylltiad rhyngddo â'r hil lygredig oedd eisoes yn bodoli. Y mae yn cael ei roddi mewn man a barotowyd yn arbenig i'w dderbyn; y mae anifeiliaid na throediasant y ddaear erioed o'r blaen yn cael eu rhoddi i'w wasanaeth; ac yn gwmni iddo, y mae

benyw yn cael ei chreu, yn bur a hardd fel efe ei hun, i gadw yn fyw ei hâd ar y ddaear. A chyda hwn y mae Duw yn myned i gyfammod, ac o'r foment hono y mae y dyn yn myned yn fôd cyfrifol, a'i gydwybod yn ymffurfio yn llys dirgel o'i fewn, yn barod i gyhoeddi dedfryd y Nef ar ei holl weithredoedd. Ni raid dyweyd yr hanes beth fu canlyniadau y prawf yn Ngardd Eden. Nid oes ond un hanes arall yn fwy cynnefin yn ein clustiau,

> Yr hen, hen hanes,
> Am Iesu a'i werthfawr waed,

trwy golli yr hwn yr ennillwyd yn ôl y goron a gymerwyd ymaith pan wrandawodd dyn ar lais ei hen elyn.

Cyn terfynu ein hysgrif y mae genym eto yn fyr i ddyfod â phrawfion dros yr hyn a ddywedyd genym allan o'r Bibl ei hunan, pa rai i'n meddwl ni sydd yn berffaith ddigonol.

Fel y dywedwyd eisoes, y mae genym wahanol enwau ar y Creawdwr yn y ddwy bennod. Yn y bennod gyntaf ELOHIM ydyw; yn yr ail, JEHOFAH-ELOHIM. Dygir hyn ymlaen gan lawer i brofi bodolaeth dau adroddiad gwahanol; ond credwn ni ei fod yn cadarnhâu y syniad am ddwy greadigaeth. Yn y bennod gyntaf cawn adroddiad sydd yn rhoddi goleuni ar ddirgelwch bodolaeth pethau, sef eu bod oll wedi eu gwneuthur o ddim trwy allu diderfyn y Creawdwr; ac yn naturiol fe elwir Duw yn y fan yma wrth ei enw *Elohim*, y Duw Hollalluog, Hollwybodol, a Hollddoeth, mewn cyferbyniad i dduwiau gau y byd Paganaidd. Y mae y gair Elohim ar unwaith yn dangos allan Ogoniant a Mawredd Duw, yn enwedig Duw y Creawdwr. Ond yn yr ail bennod hanes creadigaeth Adda a gawn, yr hwn a grewyd er mwyn dangos Gogoniant Duw, nid yn ei Allu fel Creawdwr, ond fel Duw yr Achubydd, y Tosturiol, y Graslawn a'r Maddeugar. Dyna yr agwedd ar gymeriad Duw y mae *Jehofah* yn ei ddangos allan. Jehofah welodd Moses o'r agen yn y graig. Gogoniant Elohim (neu El) y mae y "nefoedd yn ei ddadgan" (Psalm xix). Elohim "bïau y dial" (Psalm xciv). Ond ar Jehofah y bydd y Salmydd bron bob amser yn gweddio. Yr ydym yn gweled yn awr paham y dygir Jehofah i fewn i hanes yr ail bennod. Ond nid yw yr enw Jehofah yn cael ei ddefnyddio ei hunan. Fe allasai hyny gynnyrchu y syniad cyfeiliornus mai nid yr un Duw sydd a sôn am dano yn y ddau hanes. Yr un yw Efe yn y ddau le, ond fod agwedd arall ar ei gymeriad yn dyfod i'r golwg yn yr ail bennod. Y mae yma yn cael ei amlygu fel *Jehofah*, ond *Jehofah Elohim* ydyw o hyd,—y Creawdwr sydd hefyd yn Waredwr oddiwrth bechod a'i ganlyniadau. Y mae yn werth sylwi nad yw yr enw Jehofah yn cael ei ddefnyddio o gwbl yn yr ymddyddan rhwng Efa a'r Sarph; Elohim sydd yno, ac "megys Elohim"* y mae Satan yn addaw y byddai Adda ac Efa os gwrandawent arno ef. Yr oedd yr enw Jehofah yn rhy gysegredig i'w ddefnyddio gan yr ysgrifenydd yma. Credwn fod yr uchod yn well esboniad ar y ddau enw na'r ddamcaniaeth fod llyfr Genesis wedi ei ysgrifenu gan wahanol awduron.

* Nid "megys duwiau" (Cyfieithiad Cymraeg).

Yn Genesis iv. 14, y mae Cain i fod bellach yn "wibiad a chrwydriad" ar wyneb y ddaear, ac meddai, "pwy bynag a'm caffo a'm lladd." A dywedodd yr Arglwydd wrtho, meddir nesaf, "am hyny y dielir yn saith ddyblyg ar bwy bynag a laddo Cain. A'r Arglwydd a osododd nôd ar Cain, rhag i neb a'i caffai ei ladd ef." Mae'n ddiau fod y cwestiwn wedi codi lawer gwaith i'n meddwl, pwy a allasai fod ar Cain eu hofn? Nid oes genym hanes am neb ond Adda ac Efa yn fyw, heblaw efe ei hun, ar ol marwolaeth Abel. Ond yn ngoleu yr hyn a ddywedwyd genym am fodolaeth dynolryw cyn creadigaeth Adda, y mae hyn yn hollol ddealladwy a syml. Yn adnod 17 dywedir fod Cain yn *briod*, a'i fod wedi adeiladu *dinas*,—dwy o ffeithiau tra anhawdd eu hesbonio os Adda oedd y dyn cyntaf.

Yn yr ail adnod o'r chweched bennod, yr ydym yn cael ymadrodd sydd yn faen tramgwydd i bob esboniwr ar Genesis yn ddieithriad; a llawer yw y dulliau a fabwysiedir i ddringo drosto. Dyweyd y mae yr adnod, "Weled o feibion Duw ferched dynion mai teg oeddynt hwy; a hwy a gymerasant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewisasant." Pwy yw meibion Duw a merched dynion? Gwaeth nag ofer fyddai ceisio rhoddi yr esboniadau a gynnygir arnynt. Ni wnawn ond gofyn i'r darllenydd edrych ar yr adnodau yn ngoleu yr esboniad uchod ar y greadigaeth. Pwy yn fwy naturiol i'w galw yn "feibion Duw" na dynion o hiliogaeth Adda,—y gŵr a greodd Duw i fod yn dad cenedl o bobl iddo ei Hun allan o fysg yr hil lygredig oedd ar y ddaear? A phwy yw "merched dynion" ond merched yn perthyn i'r hil lygredig hono, na wnaeth Duw gyfammod â hi? Pa ryfedd fod mesur drygioni meibion Adda wedi ei gyrhaedd, pan anghofiasant eu Duw mor lwyr fel ag i ymbriodi â phobl nad adwaenent ddim o hono? A pha ryfedd i Dduw ddyweyd fod yn edifar ganddo greu dyn, a'i fod yn gofidio yn ei galon; ac yn ei ddigofaint cyfiawn i benderfynu "dileu dyn" oddiar wyneb y ddaear â dyfroedd y Diluw?

T. J. JONES-LEWIS.

---

GELLIR edrych ar y cwestiwn am darddiad dyn fel rhan bwysig o'r cwestiwn eang am darddiad yr holl greadigaeth. Yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddaf, yn arbenig, y mae hwn wedi bod yn destun efrydiaeth rhai o dalentau dysgleiriaf Ewrop ac America. Oesoedd yn ol nid oedd ond ychydig yn dangos unrhyw awydd i wneyd ymchwiliad annibynol i faterion o'r natur yma; ac nid oedd ond eithriadau ymhlith yr ychydig hyny a feiddiai roddi cyhoeddusrwydd i gasgliadau y deuent iddynt, os na fyddent yn debyg o gael cymeradwyaeth y llys eglwysig, yn rhwymau yr hwn y bu meddylwyr y byd yn cael eu cadw mewn caethiwed am ganrifoedd lawer. Ond erbyn hyn y mae rhwymau y canrifoedd hyny wedi eu hen ddryllio, a'u

llyffetheiriau wedi cael eu taflu ymaith. Cydnebydd pob dyn deallgar yn awr mai natur ei hun yw yr unig awdurdod i apelio ati am wybodaeth ynghylch ffeithiau y greadigaeth, ac nad oes a wnelo un awdurdod wladol nac eglwysig âg unrhyw gasgliadau y deuir iddynt gan y rhai sydd yn llafurio yn y cyfeiriad hwn. Y mae y Bibl, yn gystal a gwyddoniaeth, wedi manteisio yn ddirfawr ar y rhyddid barn a fwynheir yn y cyfnod presennol o hanes y byd. Nid yw y Bibl yn awr yn dibynu am dderbyniad ar un awdurdod ddaearol, ond saif yn gwbl ar ei deilyngdod ei hun. Mae y ffaith ei fod yn meddu y safle sydd iddo yn y byd, tra y rhoddir pob rhyddid i'w anghredu, a phob rhyddid i roddi y cyhoeddusrwydd mwyaf i hyny, yn siarad yn uchel dros ei Ddwyfol darddiad. Ond er fod y Bibl yn ein dyddiau ni yn sefyll mor uchel, os nad yn uwch nag mewn un cyfnod blaenorol, nid yw er hyny eto heb ei ammheuwyr; ac un o'r gwrthddadleuon a ddygir yn ei erbyn gan y rhai sydd yn ammheu ei wirionedd yw, ei fod yn cynnwys gwrthddywediadau—ei fod yn gwrthddyweyd ei hun, ac yn gwrthddyweyd rhai o ddeddfau adnabyddus natur, fel yr eglurir hwynt gan wyddoniaeth ddiweddar. Y mae cyfarfod yr haeriad hwn yn un o orchwylion amddiffynwyr dadguddiad yn y blynyddoedd hyn. Un engraifft a ddygir ymlaen o waith y Bibl yn gwrthddyweyd ei hun yw y ddau adroddiad am y greadigaeth a geir yn y ddwy bennod gyntaf o Genesis. Diau fod y gwahaniaeth rhyngddynt wedi bod yn fagl i lawer o'i ddarllenwyr, a hyny am y rheswm ei fod yn gyfryw ag y teimlir anhawsder i beidio ei ystyried yn anghysondeb. Fel y mae yn hysbys, nid ychydig o geisiadau a wnaethpwyd i gysoni y ddau adroddiad â'u gilydd. Fe wêl y darllenydd mai egluro y gwahaniaeth rhwng y ddau yw amcan yr ysgrif alluog sydd yn blaenori hon. Dangosir gan yr awdwr fod y ddau adroddiad yn gwahaniaethu mewn tri pheth pwysig, sef yn yr hanes a roddir ynddynt am ymddangosiad y llysiau, am greadigaeth dyn a'i wraig, ac am amseriad creadigaeth yr adar a'r anifeiliaid. Ni ddymunwn fod yn euog o "anonestrwydd" trwy "guddio o'r golwg," o "lwfrdra" trwy "osgoi," nac o "annoethineb" trwy "ddiystyru" y gwahaniaeth hwn rhwng y ddwy bennod. Yr wyf yn cydnabod y gwahaniaeth a'r anhawsderau sydd ynglŷn âg ef mor barod ag y cydnabyddaf fy analllu i dderbyn yr eglurhâd a roddir arnynt yn yr erthygl flaenorol. Cyfeiria yr awdwr at amryw "anghysonderau" yn llyfr Genesis, ac nid yw yn hollol eglur pa un a yw yn derbyn "y ddamcaniaeth o wahanol awduron" a ddygir ymlaen gan y "*Modern School of Biblical Critics*" fel eglurhâd boddhaol arnynt. Mae yn eglur, fodd bynag, nad yw yn ei derbyn fel eglurhâd sydd yn foddhaol ar y ddwy bennod gyntaf o'r llyfr, am y rhaid i gynnwys y pennodau hyny fod wedi cael ei roddi yn ddadguddiad oddiwrth Dduw i bwy bynag a'u hysgrifenodd. Os yw yr awdwr yn llwyddo i ddangos fod y ddamcaniaeth yn fethiant mewn un rhan, y mae hyny yn naturiol yn siglo ein ffydd ynddi yn ei chymhwysiad at bob rhan o'r llyfr. Tuedda efe i gredu fod cynnwys y ddwy bennod wedi cael ei roddi fel dadguddiad i Moses, a gofyna, "Os derbyniodd Moses hanes y greadigaeth gan Ysbryd Duw, pa fodd y rhoddwyd dau adroddiad iddo, yn enwedig dau adroddiad anghyson â'u gilydd?" Egluro yr anhawsder a awgrymir trwy y gofyniad hwn, fel y sylwyd, yw amcan yr erthygl uchod.

Dechreua trwy ofyn, "A raid i ni gymeryd yn ganiataol mai dau hanes o'r *un* amgylchiad yw y rhai hyn? Onid allant fod yn hanes *dau* amgylchiad gwahanol? Mewn gair, onid hanes dwy greadigaeth sydd yma?" Os felly, naturiol yw i'r ddau adroddiad wahaniaethu oddiwrth eu gilydd, ac annaturiol fuasai iddynt beidio. Rhaid i'r gwahaniaeth rhwng y ddau adroddiad gyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y ddwy greadigaeth. Ac os yw creadigaeth yr ail bennod yn wahanol i greadigaeth y bennod gyntaf, y mae y corff mawr o feirniaid Ysgrythyrol hyd yma wedi bod yn curo awyr, ac yn defnyddio eu talentau a'u dysg i geisio cysoni yr hyn nad oes o angenrheidrwydd gysondeb i fod rhyngddynt; ac, wrth edrych yn ol ar eu llafur caled, rhaid iddynt ddyweyd mai yn ofer ac am ddim y treuliasant eu nerth. Ond y mae darllenwyr Cymreig yn gyffredin wedi arfer credu mai at yr *un* greadigaeth y mae y ddwy bennod yn cyfeirio, ac nid gorchwyl hawdd fydd eu hargyhoeddi i'r gwrthwyneb, a'u dwyn i gredu mai nid "Adda" wedi y cwbl yw yr atebiad cywir i'r gofyniad, "Pwy oedd y dyn cyntaf," yn llyfr y *Rhodd Mam.* Nid yw hyn yn profi dim y naill ffordd na'r llall. Yr wyf yn unig yn gwneyd y sylw fel mater syml o ffaith. Y mae y syniad fod "dyn" y bennod gyntaf ac "Adda" yr ail bennod yn ddau fôd gwahanol, a phellder aruthrol o ran amser rhyngddynt â'u gilydd, erbyn hyn mewn gŵth o oedran. Yn annibynol ar bob teilyngdod sydd ynddo ef ei hunan, haedda barch ar gyfrif ei henafiaeth. Y mae wedi cael lle mewn llenyddiaeth Ysgrythyrol am amryw ganrifoedd. Nid wyf yn meddwl iddo erioed gael lle amlwg iawn; ond y mae wedi cael byw, tra y gadawyd nifer tra lliosog o syniadau eraill, y rhai ar eu hymddangosiad cyntaf a ystyrid yn rhai buddiol a da, i drengu i ganlyn eu hawdwyr. Ond er fod y syniad yn y byd er ys amser maith, ac fod rhywrai eto yn credu fod iddo ddyfodol dysglaer, ychydig mewn cymhariaeth yw nifer y rhai ag y mae yn gorwedd yn esmwyth ar eu meddyliau. Un peth sydd yn milwrio yn erbyn ei lwyddiant yw y ffaith nad yw ei amddiffynwyr yn cytuno yn hollol yn yr eglurhâd a roddir ganddynt arno. Y mae y gwahaniaeth sydd rhyngddynt â'u gilydd yn llawer mwy na'r gwahaniaeth sydd rhwng y ddau adroddiad yn Genesis. Yn y flwyddyn 1656 cyhoeddwyd llyfryn yn Amsterdam, o'r enw *Sanctæ Paginæ Encomium*, mewn atebiad i awdwr a ysgrifenai y pryd hwnw fel y canlyn ar y pwnc:— "Y mae yr Iuddewon yn feibion Adda; ond y mae y Cenedloedd yn hiliogaeth israddol, anwybodus, anghyfiawn, yn blant digofaint, a gelynion i Dduw. Diammheuol yw oddiwrth lyfr Genesis ei hun mai nid yr un rhieni oedd i'r Cenedloedd ag i'r Iuddewon. Rhoddir hanes creadigaeth rhieni y Cenedloedd yn y bennod gyntaf o Genesis. Ond ffurfiwyd Adda ar ei ben ei hun, ar wahan i'r gweddill o ddynolryw, fel y desgrifir yn yr ail bennod. Tad yr Iuddewon oedd Adda, ac nid tad pob dyn byw." Os yw yr awdwr hwn yn dyweyd y gwir, dylem ni, fel cenedl, deimlo yn dra diolchgar i'r gwŷr da hyny sydd ar hyd y blynyddoedd yn ceisio profi mai ni yw llwythau colledig Israel. Ac os na lwyddant i brofi eu pwnc, nid oes i ni ond ceisio boddloni ar fod ymysg y Cenhedloedd, i'r rhai y rhoddir cymeriad mor isel; a bydd i ni mewn canlyniad golli cryn lawer o'r dyddordeb a arferem deimlo yn hanes Adda, gan nad ydym ymhlith ei ddisgynyddion. Rhydd

awdwr arall, mwy diweddar a nês atom o ran gwaedoliaeth, oleu gwahanol ar yr un syniad, a dywed, mai wrth "ddyn" y bennod gyntaf y golygir yr angelion, y rhai fu yn preswylio ar y ddaear am oesoedd dirif cyn creadigaeth "Adda" yr ail bennod. Eglura, ymhellach, fod Satan, yr hwn oedd mewn safle anrhydeddus yn eu plith, wedi gwrthryfela, mewn undeb âg angelion eraill israddol, yn erbyn y llywodraeth Ddwyfol, ac iddynt gael y gosbedigaeth a haeddent mewn canlyniad i hyny; a bod y rhai a gadwasant eu dechreuad wedi cael eu cymeryd i'r nefoedd. Ar ol i'r chwyldroad mawr hwn gymeryd lle, dywed fod yr Arglwydd wedi creu bôd newydd, sef Adda yr ail bennod, yr hwn yw ein tad ni oll. Dywed awdwr arall, mwy diweddar fyth, mai tad pobl wynion yn unig ydoedd Adda yr ail bennod, a bod dyn y bennod gyntaf yn dad pobl dduon, y rhai oedd yn trigo yn Nghyfandir Affrica ymhell cyn i Adda gael ei greu. Mae yn debyg mai y syniad yma, yr hwn a eglurir ac a amddiffynir mewn modd galluog gan awdwr anadnabyddus y llyfr a elwir *Genesis of the Earth and of Man*, yw yr un a gymeradwyir fwyaf gan y rhai sydd yn pleidio y syniad o ddwy greadigaeth. Y mae y sylwadau hyn yn cael eu gwneyd, wrth fyned heibio, er mwyn dangos i'r darllenydd nad yw y rhai sydd yn credu fod y ddwy bennod dan sylw yn cyfeirio at greadigaeth dau ddyn gwahanol, yn gallu cytuno â'u gilydd o gryn lawer gyda golwg ar pwy yw y ddau.

Yn awr, gadawer i ni edrych pa fodd y mae awdwr yr erthygl flaenorol yn ymdrin â'r mater, oblegid â'r hyn a ddywedir ganddo ef y mae a wnelwyf fi yn yr ysgrif hon. Nid yw yn myned i fewn yn helaeth i'r profion a ddygir ymlaen yn gyffredin gan y rhai sydd yn credu y syniad am ddwy greadigaeth, ac nid ymddengys i mi ei fod yn dwyn unrhyw brawf newydd drosto. Ac, os goddefir i ni ddyweyd, nis gallaf lai nag ystyried hyn yn wendid yn yr erthygl. Daw amryw gwestiynau i feddwl un wrth ei darllen nad oes yma unrhyw ymgais at roddi goleuni arnynt. Ar ol rhoddi desgrifiad o "hanes creadigaeth y bydysawd i gyd," fel y ceir ef yn y bennod gyntaf a'r ddwy adnod gyntaf o'r ail, dywed, "Yn ychwanegol at y dyn y sonir am ei greadigaeth yn y bennod gyntaf, fe grëwyd Adda, y dyn cyntaf, tad yr hiliogaeth bresennol o ddynolryw." Pa fodd yr oedd Adda "y dyn cyntaf," os oedd dynion eraill yn y byd o'i flaen, nid yw yn hawdd gweled. Hefyd, nis gellir llai na gofyn, pa beth sydd wedi dyfod o'r "dynion oeddynt yn byw yn y byd o'i flaen ef?" Hwyrach fod y cwestiwn yn un diangenrhaid, ac yr ystyrir ef yn un o'r pethau na pherthyn i ni eu gwybod. Y mae yn eglur, fodd bynag, eu bod, yn nhyb yr awdwr, ar y ddaear ymhell ar ol creu Adda, oblegid dywed fod rhai o hiliogaeth Adda wedi ymbriodi â rhai o'r hiliogaeth hon. Fe allai ein bod i ystyried iddynt gael eu dinystrio yn nyfroedd y diluw, ond nid oes un gair i'r perwyl hwnw yn cael ei ddyweyd yn yr erthygl. Yn ol un awdwr, fel y dangoswyd, y maent ar y ddaear eto, ac yn cael eu cynnrychioli gan y Cenedloedd; yn ol un arall, y mae rhan o honynt yn y nefoedd, a'r rhan arall mewn cadwynau; yn ol y trydydd, cynnrychiolir hwynt gan drigolion canolbarth Affrica, y rhai, yn ol ei dyb ef, y gellir eu hadferu i ystad o ddedwyddwch gyda hiliogaeth Adda trwy rinwedd bywyd a marwolaeth Crist; ond, yn ol yr erthygl uchod, gadewir hwynt fel bedd Moses heb roddi un hysbysrwydd yn eu cylch. Wrth ddwyn y ddamcaniaeth

am y ddwy greadigaeth i sylw darllenwyr Cymreig, da fuasai cael syniad yr awdwr gyda golwg ar pa beth sydd wedi dyfod o'r hiliogaeth gyntaf o ddynolryw fu ar y ddaear. A ydyw yr hiliogaeth hono yn bod yn rhywle yn awr? A barnu oddiwrth waith yr awdwr yn cymhwyso y ddamcaniaeth hon i egluro rhai rhanau o lyfr Genesis, gellid meddwl fod y ddwy hiliogaeth wedi ymgymysgu. Os cymerodd y cymysgiad hwnw le, onid yw hyny yn codi anhawsderau mwy difrifol na'r un anhawsder y cyfeirir ato yn yr holl erthygl? Y mae genym hiliogaeth "nad yw yn briodol dyweyd" eu bod "yn pechu," a hiliogaeth arall yn meddu ar allu i gyflawni yr hyn sydd bechadurus, wedi ymgymysgu â'u gilydd. Nid oedd yr hiliogaeth gyntaf yn gyfrifol, yn ol syniadau yr awdwr; yr oedd, ac y mae, yr ail hiliogaeth felly. Yn awr pa fodd yr ydym i ystyried sefyllfa y rhai gafodd eu bodolaeth fel cynnyrch y cymysgiad o'r ddwy hiliogaeth? A oeddynt hwy yn greaduriaid cyfrifol? Onid oes genym lawn cymaint o reswm dros gredu eu bod yn anghyfrifol ag sydd genym dros gredu eu bod yn gyfrifol? Yr oedd eu henafiaid o un ochr yn ddeiliaid cyfammod; eu henafiaid o'r ochr arall *heb* fod yn ddeiliaid cyfammod. A ydym i ystyried eu bod *hwy* yn rhwym i ryw gyfammod? Os ydym, ar ba sail? Ac os dywedir gyda M'Causland, ac awdwr *Genesis of the Earth and of Man*, fod yn bosibl i fendithion trefn yr iachawdwriaeth gael eu mwynhâu gan yr hiliogaeth hanner barbaraidd oedd yn bod cyn Adda—fod trefn y prynedigaeth yn "cyrhaedd o'r nefoedd uchod hyd uffern isod, o Abel, Enoch, a Noah, hyd at 'yr ysbrydion yn ngharchar' y rhai nid oeddynt o hiliogaeth Adda," beth fuasai yn dyfod o'r hiliogaeth hon pe buasai Adda wedi cadw ei burdeb gwreiddiol? Pe buasai Adda heb bechu nid yw yn ymddangos y buasai un posibilrwydd iddynt hwy am adferiad. Ond, heb ychwanegu cwestiynau yn y cyfeiriad hwn, nid yw yn hawdd sylweddoli y syniad am y posibilrwydd o fodolaeth creadur "ar lun a delw Duw" heb fod o angenrheidrwydd yn greadur cyfrifol, ac felly, heb fod yn greadur yn gallu pechu. Y mae yr awdwr yn amlwg am i ni gredu mai un felly oedd y dyn y tybia oedd yn bod cyn Adda. Dywed, "Nid yw yn briodol i ni ddyweyd fod y dyn yn pechu, am na roddwyd deddf iddo." Os nad yw "yn briodol i ni ddyweyd" ei fod yn pechu, yna nid oedd yn *gallu* pechu. Os oedd yn meddu ar allu i bechu y mae yn hollol "briodol" i ni ddyweyd ei fod *wedi* gwneyd hyny. Pan y mae bwystfil drwg yn troi at greadur dynol ac yn ei larpio, nid yw yn briodol i ni ddyweyd fod y bwystfil wedi pechu. Paham? Y mae y rheswm yn amlwg. Nid oes ganddo allu i ddirnad yr hyn sydd iawn, na'r hyn sydd *heb* fod yn iawn. Nid oes ganddo ddeall, ewyllys, na chydwybod. Y mae yn greadur heb fod un rhan o'i gyfansoddiad yn ei gysylltu â byd yr ysbrydoedd. Ond, tybier fod un o'r hiliogaeth ddynol, y dywedir oedd yn bod cyn Adda, yn troi at ei gyd-ddyn ac yn ei ladd, onid yw yr achos yn newid? Ai nid oes yn yr ail amgylchiad hwn weithred o lofruddiaeth wedi ei chyflawni? Os oes, y mae yn "briodol dyweyd" fod yr hwn a'i cyflawnodd wedi pechu. Os nad oes, y mae y dyn hwn oedd cyn Adda—yr hwn sydd, i'm tyb i, yn ddyn dychymygol—yn gydradd â'r creaduriaid direswm oedd yn bod yr un adeg ag ef yn hanes y byd. Mewn gair, nid oedd yn *ddyn*, ond bwystfil. Ar y tir hwn, yn ol yr erthygl uchod, y safai Adda

cyn gwneuthuriad y cyfammod âg ef. Pe buasai wedi troi at Efa y foment y cafodd yr olwg gyntaf arni, a'i lladd, ni fuasai wedi cyflawni trosedd moesol, oblegid o'r "foment" y gwnaed cyfammod âg ef "y daeth yn fôd cyfrifol, a'i gydwybod yn ymffurfio yn llys dirgel o'i fewn, yn barod i gyhoeddi dedfryd y Nef ar ei holl weithredoedd." Y mae hon yn athrawiaeth ddyeithr ac anhawdd ei derbyn. Y cwestiwn sydd yn ymgynnyg yn naturiol i'r meddwl yw, Pa beth sydd yn gwneyd dyn yn greadur cyfrifol? A ydyw yr athrawiaeth am gyfrifoldeb dyn yn dibynu ar y gorchymyn a roddwyd i Adda i beidio bwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig? Yn ol yr ysgrif flaenorol, nis gall ddibynu ar ddim arall. Dywed y bennod gyntaf o Genesis fod y "dyn" wedi ei greu "ar lun a delw Duw." Os oes ystyr o gwbl i'r ymadrodd hwn, y mae yn golygu fod y "dyn" yn greadur moesol, yn gallu gwahaniaethu rhwng drwg a da. Os oedd yn greadur moesol, yr oedd, o angenrheidrwydd, yn ddeiliad deddf foesol, ac felly yr oedd o'r cychwyn yn greadur cyfrifol. Nid oes genym hanes i orchymynion moesol gael eu rhoddi yn ffurfiol i ddyn hyd yr adeg yr oedd cenedl Israel wrth fynydd Sinai. Ond y mae genym bob sicrwydd fod euogrwydd moesol yn bod cyn hyny. Y mae y ddeddf foesol yn ddeddf natur, ac y mae creadur moesol gan hyny yn ddeiliad o honi, pa un bynag a gyhoeddir y ddeddf hono mewn geiriau ai peidio. Fe aeth yr Arglwydd i gyfammod âg Adda *am* ei fod yn greadur cyfrifol, ac nid er mwyn ei *wneyd* yn un felly. Y rheswm am hyny yw ei fod yn greadur ar ei lun a'i ddelw Ef ei hun. Addefa yr awdwr fod y dyn cyntaf "wedi myned yn llygredig." Pa fodd y gallai fyned yn "llygredig" ond trwy bechu? A pha fodd y gallai bechu heb iddo fod yn greadur cyfrifol? Y mae y sylwadau a wneir gan yr awdwr yn y cyfeiriad hwn wedi eu bwriadu, gallwn dybied, fel eglurhâd ar y ddamcaniaeth o ddwy greadigaeth y dadleua drosti. Ond nid wyf yn gallu gweled fod y sylwadau eglurhaol a wneir arni yn un cymhorth tuag at ei chredu a'i derbyn.

Fel y gallesid dysgwyl, nid yw yr awdwr yn ein gadael yn hollol yn y tywyllwch gyda golwg ar y seiliau gwyddonol ac ysgrythyrol ar ba rai yr ystyria fod y ddamcaniaeth hon yn gorphwys; ond, fel y gwelir, nid yw yn myned i fewn yn helaeth iddynt. Yr wyf yn hollol barod i gydsynio âg ef pan y dywed fod gwyddoniaeth y blynyddoedd diweddaf hyn yn dwyn tystiolaethau pur ddiymwad i'r gosodiad "fod yr hîl ddynol yn llawer hŷn nag y tybir yn gyffredin ei bod;" ond nid yw yn canlyn oddiwrth hyn "fod dynolryw wedi bod yn trigo ar y ddaear o flaen ein Hadda ni." Nid wyf yn meddwl fod un dystiolaeth, ag y gellir dyweyd ei bod yn sicr, yn cael ei dwyn dros hyn gan wyddoniaeth, ac nid yw yr awdwr yn proffesu dwyn unrhyw dystiolaeth felly yn yr erthygl. Yn wyneb y ffaith fod gwyddoniaeth yn ein dysgu am henafiaeth mawr dyn, gofyna, "Beth a ddaw o hanes creadigaeth Adda yn llyfr Genesis?" Y mae y cwestiwn yn hollol deg, a'r hyn sydd yn rhoddi grym ynddo yw "fod genym achau Adda i lawr i amser ag y mae sicrwydd yn ei gylch," a'r anhawsder i gysoni hyny â'r dybiaeth ei fod o bosibl filoedd lawer o flynyddoedd yn hŷn na'r farn gyffredin am dano yr hon a ffurfiwyd yn ol y daflen o roddir o'i achau. Ond nid yw y daflen o "achau Adda" yn Genesis, "i lawr i amser ag y mae sicrwydd yn ei gylch," o angenrheidrwydd yn rhwystr

i dderbyn y tystiolaethau gwyddonol am henafiaeth dyn. Rhaid addef fod y pwnc yn ddyrys ac anhawdd ei ddeall. Byddai peidio addef hyny yn fradychu anwybodaeth. Ond nid yw mor ddyrys fel y rhaid wrth y ddamcaniaeth o ddwy greadigaeth tuag at ei egluro. Ac nid yw fod unrhyw ddamcaniaeth yn rhoddi goleuni ar fater dyrys yn ddigon o reswm dros ei derbyn, os na bydd seiliau digonol dros ei chredu yn annibynol ar hyny. Nid yw yn anmhosibl rhoddi adeg ymddangosiad Adda gryn lawer yn bellach yn ol na 4004 C.C. heb fabwysiadau y ddamcaniaeth hon. Y mae y Bibl wedi ei fwriadu, nid i roddi hanes cyffredinol am y ddynoliaeth, ond i roddi prif linellau ei hanes yn ei pherthynas grefyddol â Duw. Nid yw yn proffesu rhoddi ond y dygwyddiadau pwysicaf mewn hanesiaeth grefyddol. Yr un modd mewn taflenau achyddol; y mae yn hawdd gweled nad yw y Bibl yn proffesu rhoddi ond y prif enwau mewn llinell neillduol. Y mae yn anmhosibl i ni, gan hyny, gael taflen amseryddol ag y gellir dibynu arni o ddygwyddiadau oesau boreuaf y byd. Yn y llyfr a elwir *Primeval Man*, dengys Duc Argyle fod amser yn cael ei fesur mewn dwy ffordd, sef trwy flynyddoedd, a thrwy drefn neu ddilyniad dygwyddiadau. Geilw y cyntaf yn Amser-hollol *(Time-absolute)*, a'r ail yn Amser-perthynasol *(Time-relative)*. Y mae genym seiliau digonol dros gredu fod amser yn cael ei fesur yn mhennodau cyntaf y Bibl trwy drefn neu ddilyniad dygwyddiadau, yn hytrach na thrwy flynyddoedd. Addefir yn gyffredinol fod yr enwau yn y ddegfed bennod o Genesis yn sefyll am lwythau a chenedloedd. Y mae yr enwau yn enwau personau, ond y mae enw un person yn sefyll am bobloedd lawer. Dengys hyn nad yw y daflen i edrych arni ar yr un tir a thaflenau achyddol hanesiaeth ddiweddar. Os yw hyn yn wir am yr enwau yn y ddegfed bennod, y mae yn rhoddi lle cadarn i ni gasglu fod yr enwau yn y bummed bennod hefyd yn cynnrychioli llwythau a chenedloedd, gan eu bod yn foreuach yn hanes y byd. Nid yw y rhan fwyaf o enwau y pennodau hyn i ni ond enwau yn unig, wedi eu cario i lawr gan ysbrydoliaeth o dywyllwch y cyn-oesoedd. Nis gallwn, gan hyny, ffurfio taflen amseryddol i ddibynu arni allan o honynt. Y mae hyn yn cael ei gadarnhâu trwy y gwahaniaeth mawr sydd rhwng y Testun Hebreig, y Testun Samaritanaidd, a'r Deg a Thriugain, wrth roddi amseryddiaeth y cyfnod o Adda hyd y diluw. Y dyddiad hanesyddol cyntaf ag y gallwn ddibynu arno, yw adeg galwad Abraham. Dyma ddechreuad yr "amser ag y mae sicrwydd yn ei gylch." Awgrymwyd yn barod nad yw taflenau achyddol y pennodau hyn yn cynnwys ond ychydig enwau, ac nad ydynt, gan hyny, yn proffesu bod yn rhai cyflawn. Y mae taflenau achyddol eraill yn y Bibl ag y gellir dyweyd yr un peth am danynt. Yn y daflen o achau Moses yn 1 Chronicl vi. 1—3 nid oes ond pedwar o enwau yn cael eu rhoddi, tra y mae un ar ddeg o enwau yn cael eu rhoddi yn achau Josua (vii. 23—27) am yr un faint o amser. Wrth roddi taflen achyddol o Dafydd hyd Grist nid oes gan Matthew ond wyth ar hugain o enwau, tra y mae gan Luc dri a deugain. Gan fod taflen achyddol mewn cyfnod cymharol ddiweddar yn anghyflawn, hollol deg yw tynu y casgliad fod taflenau achyddol oesoedd boreuaf y byd yn bell iawn o fod yn gyflawn. Os yw y sylwadau hyn yn gywir, fel y mae y seiliau cryfaf

dros gredu eu bod, y mae yr anhawsder dros roddi adeg ymddangosiad Adda ar y ddaear mor bell yn ol ag y myner yn cael ei symud, a gwneir i ffwrdd â'r angenrheidrwydd am wasanaeth y dyb am ddwy greadigaeth. Y mae y gwahaniaeth barn mawr sydd ymhlith gwyddonwyr gyda golwg ar pa mor hen yw dyn yn ei gwneyd yn anmhosibl gwybod dim i sicrwydd trwy eu cymhorth hwy am adeg ei ymddangosiad ar y ddaear. Y mae y syniadau ar y pwnc yn amrywio, o eiddo M. Lalande, yr hwn a ddywed fod dyn yn dragywyddol ddiddechreu, heibio i Syr C. Lyell, yr hwn a ddywed mai can' mil yw ei oed, hyd at feirniaid a ystyrir yn fwy meidrol a chyffredin, y rhai a safant yn dŷn dros y "4004 C.C." sydd ar ymyl y ddalen. Y gwirionedd yw, nid oes neb hyd yma yn gwybod ei oed ond yr Hwn a'i gwnaeth. Yn ol yr eglurhâd uchod ar Amseryddiaeth Ysgrythyrol gellir rhoddi adeg ei ymddangosiad mor bell yn ol ag y myner. Nid yw taflenau achyddol y Bibl yn gyflawn, nac yn proffesu bod felly.

Heblaw nad oes angen am ddamcaniaeth yr awdwr er mwyn egluro y daflen achyddol yn llyfr Genesis, nid yw y darluniad a roddir ganddo o greadigaeth dyn y bennod gyntaf, ac Adda yr ail bennod, yn un cymhorth at ei chredu. Ymddengys ei fod mewn rhan yn bleidiwr dadblygiad. Y mae amddiffynwyr y ddamcaniaeth o ddadblygiad yn y blynyddoedd diweddaf wedi llïosogi yn ddirfawr, a pharhâ nifer ei gwrthwynebwyr i fyned yn llai. Ond, pa mor lïosog bynag y gall nifer ei phleidwyr fod, nid yw dadblygiad eto wedi cyrhaedd y safle o fod yn *wirionedd* gwyddonol. Nid yw ond damcaniaeth. Y mae amryw wrthddadleuon yn cael eu dwyn yn ei herbyn nad yw ei phleidwyr hyd yma wedi llwyddo i'w hateb. Cyfeirir at un yn yr erthygl uchod; a dywed yr awdwr nad oes eisieu ond "ychydig o ystyriaeth" i weled nad oes dim ynddi. Yr wrthddadl yw, "Pe le y mae y ddolen gydiol rhwng dyn ac anifail *yn awr?* A fedr rhywun ddangos creadur *yn awr* yn y cyflwr o ddadblygiad o'r anifail i fod yn ddyn,—creadur heb fod y naill na'r llall, ond yn y *process* o drawsnewidiad?" Os nad oes grym ynddi yn y ffurf yma arni, rhodder yr un wrthddadl mewn ffurf arall, ac nid ymddengys mor *contemptible.* Pa brawf sydd genym fod creadur *wedi bod* oedd yn fath o "ddolen gydiol" rhwng anifail a dyn? A chymeryd yn ganiataol, yr hyn nad yw yn fanwl gywir, mai yr epa yw y creadur agosaf mewn dealltwriaeth at ddyn, pa brawf sydd genym fod creadur *wedi bod* ar y ddaear oedd yn rhywbeth mwy nag epa ac yn rhywbeth llai na dyn? Nid yw eto wedi ei brofi, tu hwnt i bob dadl, nad oedd dyn o'r dechreuad, o ran ei gyfansoddiad corfforol a meddyliol, yr hyn ydyw yn awr. Y mae y penglog dynol henaf sydd yn adnabyddus mor fawr yn ei *dimensions* fel y gallai gynnwys ymenydd Syr Isaac Newton. Yr oedd hwnw, fel y bernir, yn perthyn i un o drigolion boreuaf gogleddbarth Ewrop. Ond, fel yr awgrymwyd, y mae nifer pleidwyr dadblygiad yn llïosog, ac, ar yr un pryd, nid ychydig ydyw nifer ei gwrthwynebwyr. Y mae gan awdwr yr erthygl flaenorol, fodd bynag, ddamcaniaeth sydd, mewn modd hapus, yn ymddangos yn rhywbeth tebyg i gyfarfod y ddwy blaid tua hanner y ffordd. Y mae ganddo ddau ddyn, ac y mae ganddo ddull gwahanol i roddi cyfrif am fodolaeth y ddau. Daeth "dyn" y bennod gyntaf i fod trwy ddadblygiad araf, ac Adda yr ail bennod i fod "mewn un

weithred derfynol." Ymha le mewn ysgrythyr neu wyddoniaeth y mae y sail dros y gosodiad hwn? Paham y dywedir fod Adda wedi ei greu mewn un weithred derfynol, mwy na'r dyn cyntaf y dadleuir dros ei fodolaeth? Yn ymddangosiad y dyn cyntaf dywedir fod "gweithrediadau deddfau dadblygiad" wedi dyfod i derfyniad, ac "effeithiau y gair 'Bydded' yn pallu." Ond wedi i ganrifoedd fyned heibio, ac ar ol i'r hiliogaeth gyntaf ymlygru, dywedir i Dduw greu Adda "trwy gyfrwng yr un deddfau." Trwy gyfrwng pa ddeddfau? Ai trwy gyfrwng deddfau dadblygiad? Os ie, pa fodd y gallai hyny fod pan yr oedd gweithrediadau deddfau dadblygiad wedi dyfod i derfyniad er ys canrifoedd? Dywedir fod y deddfau, mewn un amgylchiad, "yn gweithio yn araf," ac yn y llall fod "eu gweithrediad yn brysur." A ydym i ystyried felly fod Adda wedi myned trwy yr holl *process* o ddadblygiad o'r "hedyn o fywyd a roddwyd mewn mater" hyd nes y daeth yn ddyn, a hyn oll gyda'r cyflymder mawr y cyfeirir ato? Ymddengys hyn fel rhoddi adgyfodiad i hen ddeddfau oedd er ys canrifoedd wedi marw, a'u gosod i gyflawni gwaith y buont oesoedd lawer yn ei gyflawni o'r blaen, a hyny mewn byr amser, er mwyn iddynt brysuro i ddisgyn i drancedigaeth drachefn. Tra yn rhoddi yr ystyr lawnaf i'r ymadrodd, "Gyda Duw pob peth sydd bosibl," nid yw yn deg dysgwyl i ni gredu y syniadau hyn hyd nes y ceir awdurdod ysbrydoliaeth drostynt, yr hyn nad yw eto wedi ei gael.

Y mae y "prawfion" a ddygir gan yr awdwr dros y ddamcaniaeth ag y mae cymaint o anhawsder i'w chredu yn dri; y rhai sydd wedi eu cymeryd "allan o'r Bibl ei hunan," ac ymddangosant iddo ef "yn berffaith ddigonol." Os yw y Bibl yn dyweyd fod dynolryw ar y ddaear cyn i Adda gael ei greu, y mae yn rhaid i ni gredu hyny, pa anhawsderau bynag sydd ar y ffordd. Y prawf cyntaf a roddir i ni dros y ddamcaniaeth dan sylw yw y defnydd a wneir o'r gwahanol enwau ar y Creawdwr yn y ddwy bennod gyntaf o Genesis. "Yn y bennod gyntaf ELOHIM ydyw; yn yr ail JEHOFAH-ELOHIM." Y mae y gwahaniaeth rhwng yr enwau ELOHIM, a JEHOFAH, yn ddigon hysbys, a dangosir ef mewn modd hollol eglur a hawdd ei ddeall yn yr erthygl flaenorol. Yn yr ail bennod, y mae y ddau enw yn cael eu cyfuno. Yn y bennod gyntaf ELOHIM (Duw) yw yr enw a ddefnyddir; yn yr ail JEHOFAH-ELOHIM (Arglwydd Dduw). Dywed yr awdwr "fod agwedd arall ar gymeriad" yr Arglwydd "yn dyfod i'r golwg yn yr ail bennod." Yn hollol felly. Y mae agwedd arall ar gymeriad dyn hefyd yn dyfod i'r golwg yn yr un bennod. Creadigaeth dyn, yn gystal a phob peth arall, sydd yn cael ei ddwyn i sylw yn y bennod gyntaf; am hyny ELOHIM yw yr enw a ddefnyddir ar y Goruchaf ynddi. Creadigaeth dyn a'i ddygiad i berthynas newydd â'i Greawdwr sydd yn yn yr ail bennod; am hyny defnyddir yr enw ar y Creawdwr sydd yn gosod allan y ddwy berthynas gyda'u gilydd yn y bennod hon, sef JEHOFAH-ELOHIM, neu, Arglwydd Dduw. Yr amcan wrth ddefnyddio yr enw hwn yw dangos dyn mewn perthynas newydd â'i Greawdwr, yn hytrach na phrofi fod dyn newydd wedi cael ei greu.

Y mae yr ail brawf dros fodolaeth dyn cyn Adda wedi ei gymeryd oddiwrth hanes Cain. Metha yr awdwr a deall "pwy a allasai fod ar Cain eu hofn," pa fodd yr oedd Cain yn briod, a pha fodd y gallasai

fod wedi adeiladu dinas, os Adda oedd y dyn cyntaf. Y mae awdwr y *Preadamite Man*, ac awdwr *Genesis of the Earth and of Man*, mewn llawn cymaint o ddyryswch ag yntau gyda golwg ar pa fodd i ddeall hanes Cain os Adda ei dad oedd y dyn cyntaf ar wyneb y ddaear. Yr wyf yn credu fod yn bosibl deall ei hanes, a'i gredu, heb y dyb am fodolaeth dyn cyn Adda. Dywed yr awdwr, "Nid oes genym hanes am neb ond Adda ac Efa yn fyw heblaw efe ei hun (sef Cain), ar ol marwolaeth Abel." "Am hyny," gofyna, "pwy a allasai fod ar Cain eu hofn?" Gwir nad yw y Bibl yn cyfeirio at yr un plentyn i Adda ac Efa wrth eu henwau, heblaw Cain, Abel a Seth. Ond nid yw hyny o gwbl yn profi nad oedd ganddynt ond tri o blant. Cafodd ein rhieni cyntaf eu dwyn i fod yn eu cyflawn faintioli. Rhoddwyd gorchymyn iddynt i ffrwytho, amlhâu a llenwi y ddaear. Bu Adda fyw am naw cant a deng mlynedd ar hugain, "ac efe a genedlodd feibion a merched" (Gen. v. 4). Gallasai fod gan Adda amryw o blant cyn bod yn chwech oed, ac y mae yn hollol naturiol credu i genedlaeth gref ddyfod allan o hono yn y cyfnod maith o dros naw can' mlynedd. Nid oes ond tri yn cael eu henwi yn llyfr Genesis, am nad oedd dim pwysig yn eu hanes yn dal cysylltiad âg amcan yr awdwr. Nid yw yn debyg y buasai hanes Cain yn cael ei roddi i fewn o gwbl, oni b'ai am ei waith yn llofruddio Abel. Mae yn amlwg fod Cain ac Abel, yr adeg y cymerodd y llofruddiaeth le, wedi tyfu i faintioli, oblegid yr oedd y cyntaf yn dilyn ei alwedigaeth fel amaethwr, a'r ail fel bugail. Yr oeddynt, gan hyny, mewn oedran gwŷr. Y mae yn bur hawdd credu fod ganddynt blant ac ŵyrion, a bod gan Adda lawer o ŵyrion ac or-ŵyrion. Yr oedd erbyn hyn ddigon o drigolion ar y ddaear i beri i Cain eu hofni, oblegid ei weithred iselwael ac ysgeler. Gellir gofyn, Pa fodd y mae yn naturiol i ni gredu eu bod wedi eu gwasgaru ar wyneb y ddaear yn yr amser boreu hwn? Nid yw yn hanfodol i ni geisio credu hyny er mwyn deall yr hanes. Onid naturiol i Cain, pan yn cael ei yru ymaith o'r wlad yr oedd gardd Eden ynddi, yr hyn iddo ef a olygai cael ei alltudio "oddiar wyneb y ddaear," ac o "ŵydd" yr Arglwydd, ddysgwyl y byddai i rai o ddisgynyddion Abel, neu ryw rai eraill o ddisgynyddion Adda, ymlid ar ei ol a dial arno am y llofruddiaeth? Ymddengys hyn i mi yn llawer mwy naturiol na thybied fod arno ofn hiliogaeth wahanol o bobl, y rhai yn ol y desgrifiad a gawn o honynt, oeddynt "wedi syrthio bron yn gydradd â'r anifeiliaid direswm." Pa ddylanwad fuasai unrhyw "nôd" a roddid ar Cain yn ei gael ar bobl yn yr ystâd hono o ddealltwriaeth, rhai ag yr oedd y "llun a'r ddelw mewn effaith wedi eu dileu oddiarnynt?" Gofynir ymhellach, Pa fodd y mae esbonio y dywediad fod Cain wedi adeiladu dinas os Adda oedd y dyn cyntaf? Y mae yn haws esbonio y dywediad ar y dyb mai Adda oedd y dyn cyntaf nag ar y dybiaeth fod dynolryw yn y byd o'i flaen. Dibyna nifer yr adeiladau ag y gellir rhoddi yr enw dinas, neu dref arnynt, i ryw raddau ar nifer y boblogaeth. Mewn gwlad y mae ei phoblogaeth yn deneu ac anniwylliedig, rhoddir yr enw dinas neu dref ar nifer o adeiladau y rhai, mewn gwlad arall fwy poblog, na theilyngent o bosibl yr anrhydedd o gael eu hystyried yn bentref. Yn awr, dywedir fod Cain wedi adeiladu dinas. Pe buasai y byd wedi ei boblogi yn flaenorol, nid yw yn debyg y buasai yr ychydig dai fuasai

Cain yn gallu eu hadeiladu yn cael eu galw wrth yr enw hwn. Ond wrth gredu nad oedd ond hiliogaeth Adda yn bod ar y ddaear nid oes dim yn annaturiol mewn galw yr ychydig dai a adeiladwyd ganddo, gyda'r amcan, mae yn debyg, o gadw ei deulu a'i hiliogaeth gyda'u gilydd, wrth yr enw hwn. Y mae yn bur anhawdd deall hanes Cain os rhaid i ni gredu y dyb am fodolaeth dynolryw cyn Adda.

Y mae y prawf olaf dros y ddamcaniaeth o ddwy greadigaeth yn cael ei gymeryd o Genesis vi. 2. Fel yr awgryma yr awdwr, y mae y cwestiwn pwy yw "meibion Duw," a "merched dynion," yn un dyrys ac anhawdd. Ond nid wyf yn teimlo fod y dyb am ddwy greadigaeth yn gwneyd y mater mor oleu fel ag i gyfiawnhâu y sylw mai "gwaeth nag ofer fyddai ceisio rhoddi yr esboniadau a gynnygir arnynt." Y mae dyweyd fod unrhyw eglurhâd yn "ofer" yn ddyweyd pell, ond y mae ei ddesgrifio fel "gwaeth nag ofer" yn ei wneyd yn un nad yw yn werth y papyr yr ysgrifenir ef arno. Dyma yr hyn a ddywedir gan yr awdwr am ymgais rhai o esbonwyr galluocaf Lloegr a'r Cyfandir i egluro y geiriau dan sylw. Nid wyf yn bresennol am geisio rhoddi eglurhâd ar y geiriau fy hunan, gan fy mod eisoes wedi myned dros y terfynau oeddwn wedi eu rhoddi i mi fy hun wrth ddechreu ysgrifenu. Ond dymunwn ofyn, onid oedd Adda a'i hiliogaeth wedi tori y cyfammod a wnaed â hwynt, ac onid yw pechu trwy dori cyfammod yn dwyn llygredigaeth dyfnach na llygredigaeth y rhai na wnaeth yr Arglwydd gyfammod â hwy o gwbl? Onid oedd effeithiau codwm yr ail hiliogaeth yn fwy difrifol nag effeithiau codwm yr hiliogaeth gyntaf, gan ei bod yn disgyn o le uwch? Pa fodd, yn ngwyneb hyn, y mae priodoldeb mewn galw hil Adda yn "feibion Duw," mwy na'r hil flaenorol, os oedd hiliogaeth flaenorol yn bod? Hefyd, pa un ai meibion a merched Duw, ai meibion a merched dynion, oedd y rhai a anwyd mewn canlyniad i'r priodasau annaturiol y mae y bennod yn cyfeirio atynt? Y mae y dyb am ddwy greadigaeth yn gwneyd y cwestiwn hwn yn dra dyrys, oblegid yr anhawsder i ddeall pa un ai fel pobl gyfammodol ai fel rhai anghyfammodol yr ydym i edrych arnynt. Nid yw y geiriau yn ddigon eglur i wasanaethu fel *prawf* dros y dyb y dadleua yr awdwr drosti. Y gwirionedd yw, y mae yr anhawsderau, gwyddonol ac ysgrythyrol, y mae y ddamcaniaeth yn eu creu yn llawer mwy na'r anhawsderau y proffesa eu symud.

Ond, os na dderbynir damcaniaeth yr erthygl flaenorol, pa beth a wneir â'r "anghysonderau" y cyfeiria yr awdwr atynt ynddi? Dechreuaf trwy ofyn cwestiwn: A raid i ni eu hystyried yn "anghysonderau?" Nid wyf yn gofyn hyn er mwyn ceisio osgoi anhawsder. Yr wyf yn addef, fel y rhaid i bawb addef, fod gwahaniaeth rhwng y ddau adroddiad a roddir am y greadigaeth. Ond nid wyf yn barod i addef fod, o angenrheidrwydd, anghysondeb rhyngddynt. Y mae y gwahaniaeth sydd rhyngddynt yn codi, mewn rhan, oddiwrth y gwahaniaeth amcan wrth eu hysgrifenu. Yn y bennod gyntaf rhoddir i ni amlinelliad o hanes creadigaeth y byd i gyd; yn yr ail, rhoddir rhai o fanylion y gwaith mewn cyfeiriad at ddyn. Hanes y greadigaeth yn gyffredinol sydd yn y gyntaf, hanes dyn sydd yn yr ail. Ni wneir un cyfeiriad at y greadigaeth yn gyffredinol yn yr ail adroddiad, ond er mwyn egluro rhywbeth mewn cysylltiad â dyn. Y mae y gwahaniaeth cyntaf rhwng y ddau adroddiad yn cael ei roddi i lawr gan yr

awdwr yn y geiriau canlynol: "Yn y bennod gyntaf, y mae y llysiau yn dyfod i fod ar unwaith wrth orchymyn Duw; yn yr ail y maent yn ymddibynu am eu tarddiad ar offerynoliaeth gwlaw a tharth, a llafur dynol." Nis gwn pa fodd i egluro y gwahaniaeth hwn yn well na thrwy ddefnyddio geiriau Dr. Harold Browne: "Cafodd yr anhawsder ynglŷn â'r gwahaniaeth hwn ei ragweled gan R. Nachman, yr hwn a sylwa nad yw y geiriau (yn yr ail adroddiad) yn cyfeirio at gynnyrch y ddaear a grewyd ar y trydydd dydd, ond at y llysiau a'r planhigion a gyfodir trwy ddiwylliad dyn. Sylwa L. de Dieu hefyd nad yw y geiriau a gyfieithir *planhigyn*, *maes*, a *tharddu allan* i'w cael o gwbl yn y bennod gyntaf. Y maent yn eiriau o nodwedd wahanol i'r geiriau yno, ac ymddangosant yn fwy priodol i'w defnyddio mewn cyfeiriad at dir diwylliedig Eden nag at y ddaear fel y crewyd hi gyntaf." Y mae Keil hefyd yn egluro y gwahaniaeth yr un modd. Os nad am yr un cynnyrchion y sonir yn y ddwy bennod, nis gellir dysgwyl i'r ddau adroddiad fod yr un fath. Yr ail "anghysondeb" a nodir yw, fod dyn a'i wraig yn y bennod gyntaf "yn cael eu creu ynghyd; yn yr ail, y mae y wraig yn gael ei chreu ar ol y dyn, ac yn cael ei ffurfio o ran o'i gorff ef." Pa fodd y mae yr awdwr yn gwneyd allan fod y dyn a'i wraig, yn ol y bennod gyntaf, wedi "cael eu creu ynghyd," nid yw yn hawdd deall. Yr hyn sydd eglur yw, nad yw y bennod hono yn dyweyd dim o'r fath. Yn adn. 27 dywedir i Dduw greu "y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y crëodd efe ef, yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt." Pa sail sydd gan awdwr yr erthygl dros ddyweyd fod y bennod gyntaf yn ein dysgu fod y "dyn a'i wraig wedi eu creu ynghyd?" Nid oes yma ond mynegiad syml o'r ffaith fod y ddau *wedi* eu creu, heb un hysbysiad gyda golwg ar pa un ai "ynghyd" ai ynte y naill ar ol y llall y cymerodd hyny le. Yn yr ail adroddiad rhoddir goleuni i ni ar y drefn ymha un y cawsant eu bôd, lle y dywedir fod y wraig wedi "cael ei chreu ar ol y dyn, a'i ffurfio o ran o'i gorff ef." Yn Gen. v. 1, 2, y mae bron yr un geiriau yn cael eu defnyddio am greadigaeth Adda ac Efa ag a ddefnyddir yn pen. i. 27. Os yw y geiriau mewn un lle yn golygu fod y ddau wedi "eu creu ynghyd," rhaid iddynt olygu yr un peth mewn lle arall. Os oes eisieu y ddamcaniaeth am ddwy greadigaeth i gysoni pen. i. 27 â pen. ii. 21—23, pa ddamcaniaeth a gynnygir i gysoni pen. v. 1, 2, â pen. ii. 21—23? Nid yw yr "anghysondeb" y cyfeiria yr awdwr ato ond ymddangosiadol, ac y mae yn haws deall hanes creadigaeth Adda ac Efa heb y ddamcaniaeth o ddwy greadigaeth, na thrwy ei derbyn. Y mae y gwahaniaeth olaf rhwng y ddau adroddiad, a nodir gan yr awdwr, fel y canlyn:—"Yn y bennod gyntaf crëir yr adar a'r anifeiliaid o flaen dyn; yn yr ail y dyn o flaen yr anifeiliaid a'r adar." Yr wyf yn credu nad oes eisieu ond ychydig o ystyriaeth i weled nad oedd yr awdwr ysbrydoledig yn yr ail bennod yn cadw golwg ar y drefn ymha un yr oedd yr adar, yr anifeiliaid, a dyn, yn gwneyd eu hymddangosiad ar y ddaear. Yr oedd hyny yn y bennod gyntaf yn amcan ganddo. Ond nid oedd yn amcan yn yr ail. Y mae dau beth yn dangos hyny. Yn gyntaf, yn yr ail bennod dywedir i'r holl waith gael ei wneyd mewn un dydd. Heblaw yr ystyr anmhenodol a roddir i'r gair "dydd" yn hanes y greadigaeth, dengys hyn nad oedd yr ysgrifenydd, yn yr ail adroddiad, yn cadw

golwg ar drefn ddyddiol ymddangosiad gwahanol rywogaethau. Yn ail, pe buasai yn cadw golwg ar drefn eu hymddangosiad, buasai "ehediaid y nefoedd" yn pen. ii.: 19, yn cael eu rhoddi i lawr o flaen "bwystfilod y maes," gan i'r ehediaid gael eu creu ar y pummed dydd, a'r bwystfilod ar y chweched. Yr amcan mewn golwg wrth ddwyn yr adar a'r bwystfilod i fewn yn yr ail adroddiad ydoedd er mwyn dangos iddynt gael eu henwi gan Adda, ac hefyd i ddangos ei fod, wrth eu henwi, wedi methu a gweled yn eu plith yr un a wnai y tro i fod iddo ef yn gymhar bywyd. I ddangos ystyr pen. ii. 19, gellir ei darllen fel y canlyn:—"A'r Arglwydd Dduw a ddygodd at Adda holl fwystfilod y maes y rhai a luniodd efe o'r ddaear, a holl ehediaid y nefoedd, i weled," &c.

Hyderaf fy mod wedi llwyddo i ryw raddau i ddangos nad oes *profion* yn y Bibl dros y dyb am ddwy greadigaeth, ac nad oes eisieu tyb o'r fath i egluro y gwahaniaeth rhwng y ddau adroddiad am y ddwy greadigaeth yn llyfr Genesis. Hyderaf, ymhellach, nad wyf wedi gwneyd defnydd annheg o un sylw yn ysgrif fy nghyfaill Mr. Jones-Lewis. Os gwnaethum, yr oedd hyny yn hollol anfwriadol.

R. HUMPHREYS.

*Bontnewydd.*

---

# Y PARCH. WILLIAM WILLIAMS, TYCALCH.

DAETH i'n llaw y llinellau canlynol ar farwolaeth ein cydwladwr a'n cyfaill parchus a thirion o'r Tycalch, ac y mae yn hyfryd genym eu cyhoeddi yn y TRAETHODYDD.

Yr oedd Mr. Williams yn adnabyddus i liaws o'n darllenwyr, ac nid oedd neb a'i hadwaenai nad ydoedd yn ei barchu yn fawr. Fe'i ganwyd yn Mhlasgronwy, Llanbedrgoch, Môn, yr ail o Fedi, 1806. Merch ydoedd ei fam, yr hon oedd yn wraig nodedig o grefyddol, i'r Parch. Michael Thomas, o'r Garnedd Wen, enw yr hwn a gofnodir ymysg gweinidogion boreuol y Methodistiaid yn Môn, ac am deulu yr hwn y ceir rhai crybwylliadau yn *Methodistiaeth Cymru.* Enw ei dad oedd Morris Williams, yr hwn oedd fab i Richard Williams, oedd yntau hefyd yn byw yn Mhlasgronwy. Yr oedd Richard Williams yn gefnder i Forysiaid Pentre Eirianell, gan fod ei fam, yr hon yn ei dydd oedd enwog am ei glendid a'i gallu i brydyddu, yn chwaer i dad Lewis Morris a'i frodyr. Yr oedd cyfeillgarwch agos rhwng y teuluoedd, a llawer traddodiad difyr a lynai yn Mhlasgronwy am fywyd a champau Pentre Eirianell. Yr oedd rhai o nodweddion neillduol y Morysiaid yn bur amlwg yn nghymeriad Mr. Williams ei hun, ac, fel y mae yn dygwydd yn aml mewn teuluoedd, yr oedd hyd yn nod ei bryd a'i wedd, y mae yn

ymddangos, yn bradychu ei berthynas â hwynt. Clywsom fod cymaint o debygrwydd rhyngddo a thad y bardd enwog o Lundain—Mr. Lewis Morris—fel mai llawer gwaith y bu iddo gael ei gyfarch ar heolydd Caerfyrddin, pan ar daith trwy y dref, o dan yr enw Mr. Morris.

Cafodd Mr. Williams fwy o fanteision addysg yn nhymmor ei ieuenctyd nag a ddygwyddai i ran y nifer fwyaf o'i gyfoedion amaethyddol, ac enwogodd ei hunan mewn tair cangen yn neillduol, sef mewn rhifyddiaeth, cerddoriaeth, a gwybodaeth o'r iaith Gymraeg. Edrychid arno fel bachgenyn mor addawol fel y cynnygiodd un o urddasolion yr Eglwys Sefydledig ei ddwyn i fyny i fod yn offeiriad ar ei draul ei hun. Ond nid yn unig gwrthododd y bachgen y cynnygiad haelionus hwn, eithr trodd yn Ymneillduwr, a phan yn 15 oed ymunodd â'r eglwys fechan Fethodistaidd yn Glasinfryn, ac yn mynwes yr eglwys hono, ac o dan ofal ac addysg Mr. J. W. Prichard, Plasybrain, cyfaill mawr i'w dad, fe dyfodd yn ŵr ieuanc rhinweddol a thra chymeradwy.

Pan yn 17 oed anfonodd ei dad ef i fasnachdŷ y Parch. Richard Lloyd yn Beaumaris, fel y caffai ychydig brofiad o fywyd trefol, ac yr ennillai rai manteision cymdeithasol ac addysgol nad oeddynt o fewn ei gyrhaedd yn ardal wledig y Traeth Coch. Ni threuliodd amser mwy difyr yn ei oes na'r tair blynedd y bu dan gronglwyd Mr. Lloyd, ac ni fyddai byth yn fwy wrth ei fodd na phan yn adrodd hanes y gŵr doeth, duwiol, a thra dyddan hwnw. Bu llaweroedd, a ninnau yn eu mysg, yn ceisio ganddo barotoi chwedlau Beaumaris—o'r rhai, ynghyd ag o draddodiadau Pentre Eirianell, yr oedd ganddo ystôr ddihysbydd—ar gyfer y wasg, ond y mae arnom ofn yn aflwyddiannus. Mae yn debyg mai dylanwad Mr. Lloyd arno a'i tueddodd at y gwaith o bregethu. Dechreuodd gyda hyny yn 1829. Ordeiniwyd ef yn Nghaernarfon, yn y flwyddyn 1848. Yn 1839 fe briododd âg Emma, ail ferch yr anwyl efengylydd, y Parch. John Prydderch, o'r hon y bu iddo saith o blant, chwech o ba rai sydd eto yn fyw. Yn 1843 symudodd o Blasgronwy i'r Graianfryn, lle y bu yn byw hyd 1852, gan ddilyn ei alwedigaeth fel amaethwr, tra ar yr un pryd, gyda llawer o ffyddlondeb a chymeradwyaeth, yn bwrw golwg dros y praidd yn Ty'n-y-maen. O 1852 ymlaen adwaenid ef fel Mr. Williams, Tycalch—un o ffermydd rhydd-daliadol ei dad yn nghyfraith, Mr. Prydderch, pa rai sydd er ys blynyddoedd bellach, yn ol ewyllys ei thad, yn meddiant Mrs. Williams. Bu yn fwy diwyd nag erioed fel amaethwr wedi dyfod o hono i'r Tycalch, ac, fel y gwelir awgrym yn llinellau *Glan Alaw*, llwyddodd i harddu lle ei breswylfod yn ddirfawr, a thrwy draenio, planu coed, codi gwaliau, adeiladu tai i'r anifeiliaid, &c., ychwanegodd lawer at werth yn gystal ag at brydferthwch ei hoff gartref. Ond, yn nghanol ei ofalon amaethyddol bu yn wyliadwrus rhag gollwng ei ddyledswyddau crefyddol a swyddogaethol yn anghof. Bu yn nodedig o ffyddlawn gyda'r achos yn Llangristiolus, ac yn ei gystudd diweddaf yr oedd eglwys Horeb yn wastad ar ei wefusau, a'i llwyddiant yn destun ei weddïau beunyddiol. Yr ydoedd Mr. Williams yn bregethwr cymeradwy, ac yn ei flynyddoedd ieuengaf fe deithiodd gryn lawer, fel yr oedd yr arfer ar y pryd, i gyhoeddi y newyddion da ymysg ei gydwladwyr mewn gwahanol barthau o'r Dywysogaeth. Fe allai fod rhai o'i frodyr yn fwy llwyddiannus mewn gosod gwirionedd-

au yr Efengyl mewn ffordd ddeniadol o flaen eu gwrandawyr, ond yr oedd efe yn feddylgar a chraff, a theimlai y gwrandawyr goreu bob amser ei fod yn gosod o'u blaen "ebran pur." Yr oedd tynfa ei feddwl yn fawr at ddirgeledigaethau yr efengyl, ac ymdröai lawer yn uchananiaeth duwinyddiaeth. Yr oedd cwestiwn y paham iddo yn barhâus mor anocheladwy a'r pa fodd, a mwynhâi yn fawr ymddyddan gyda rhai o gyffelyb feddwl am y pethau mawrion a gogoneddus ag y mae a ddadguddiwyd o honynt yn dangos fod cymaint yn ychwaneg wedi ei adael yn guddiedig. Yr ydoedd o ddynoliaeth hynod o ddymunol. Yr ydoedd yn hardd ei berson, ac ymron hyd y diwedd yn un o'r rhai mwyaf gwisgi ar ei droed. Fe gerddai yn hoew i'w deithiau Sabbothol hyd Fôn, ac yn fynych i Arfon, am nad oedd yn werth myned i'r draffeith i roddi y ceffyl yn y *car*, neu yn hytrach am fod cerdded yn gymaint mwy difyr; ac wedi siwrneion lled hirion ni chlywid ef un amser yn son ei fod wedi blino. Dywedem yn ein herthygl gyntaf ar Mr. J. W. Prichard, yn ein rhifyn am Ebrill, 1883, pan yn son mewn nodiad am Mr. Williams, "Y mae efe yn un o'r gwŷr ieuanc mwyaf heinyf a adwaenom, a newydd ddychwelyd yn iach a siriol, wedi bod yn talu ymweliad yn ei 76 mlwydd oed, â brawd yn America sydd yn 95 mlwydd, yr hwn na welsai o'r blaen er ys 51 mlynedd." Yr ydoedd ymhob ystyr yn wir foneddwr. Yr ydoedd bob amser yn dra dyfal i astudio pobl eraill, ond yn hollol anghofus o hono ei hun. Mae yn debyg y buasai yn dda pe buasai ganddo fwy o hunan-hyder a gwroldeb; pe buasai, yn wir, yn llawer mwy honiadol. Fe allasai felly droi ei wybodaeth a'i feddylgarwch a'i synwyr da yn llawer mwy o wasanaeth i'w gydwladwyr. Ond yr ydoedd, yn ol gair da a arferir yn Môn, yn rhy gwrtais, ac yr ydoedd ei ledneisrwydd i fesur yn ei wanychu. Ond i'w gyfeillion yr ydoedd yn anwyl a hawddgar iawn. Adwaenent ef fel Israeliad yn wir, gŵr "â'i lon'd o ffyddlondeb," a thra yn hollol uniawn a chydwybodol, eto yn meddu y fath diriondeb caredig a serchog ag a wnelai ei gymdeithas yn dra hyfryd. Ond y mae wedi ein gadael! Fel y dywedodd Eben Fardd am ŵr da arall:—

> Aeth yn glaf, a thyna glo—ar y byd
> I'r bedd bu raid cilio;
> Iawn goffâd er hyn gaiff o,
> Gŵr da oedd—gair da iddo.

Bu farw Mehefin 30 y flwyddyn hon, yn 77 mlwydd oed. Mae yn gysur mawr genym gael ychwanegu fod yr Efengyl y bu cymaint a wnelai â hi ac a bregethodd gymaint yn ei fywyd, yn gynnaliaeth ogoneddus iddo yn ei gyfyngder olaf. Dywedai wrthym un diwrnod pan gawsom yr hyfrydwch o ymweled âg ef, fod un dydd tywyll iawn wedi bod arno; dydd Gwener; yr oedd wedi bod mewn llawer o iselder ar adegau eraill, ond y dydd Gwener hwnw fod ei bechodau fel pe buasent wedi ei ddal, a'u bod mor ysgeler—pechodau pregethwr!—fel yr ydoedd yn fagddu ar ei ysbryd. Nid allai lai na meddwl am y teirawr tywyll hyny ar Galfaria, ac yr ydoedd yn ceisio dyweyd hyny wrtho Ef ei hunan, a'i adgofio am danynt; nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond anadlu ei ddymuniadau dyfnion am faddeuant, ac er mwyn yr hyn a gymerodd le y pryd hyny! Ond wedi hyny fod yr Arglwydd

yn raslawn wedi trugarhâu wrtho, a bod rhyw oleuni wedi dyfod ar bethau nad allasai efe erioed o'r blaen hyd yn nod ddychymygu am ei gyffelyb. Yr oedd yn credu o'r blaen, a lawer gwaith wedi profi rhywbeth; ond y pryd hyny y daeth efe i deimlo fod geiriau y Bibl oll mor lawnion iddo; yr oeddynt yn dyfod ato y naill ar ol y llall, a phob un o honynt, O, mor lawn! yn llawn o heddwch, yn llawn o Grist, yn llawn o Dduw. Nid ydoedd un amser wedi meddwl llai o hono ei hun na'r pryd hyny, ond O, yr oedd Duw yn ei drugaredd a'i ras yn dangos iddo, yn Nghrist, y fath gyfoeth o dangnefedd fel y byddai weithiau yn gorfod dyweyd, Gormod! Attal! Yr oedd yr hen adnodau anwyl yn dyfod o hyd o hyd, a than eu llawn faich, ac yn ei gadw yntau—wel, fe allai ddyweyd, a heb ddyweyd gormod—"yn dra chyflawn o lawenydd." Dywedai fod rhai pethau newyddion o'r ddaear hefyd yn dyfod i'r golwg. Yn un peth ni feddyliodd erioed ei fod mor hoff o'i gyfeillion, ac ni feddyliodd ychwaith erioed ei fod yntau mor ddwfn yn eu serchiadau hwythau; fod cynifer yn galw i ymofyn am dano, a phawb mor garedig. Yr oedd nefoedd a daear yn cydarllwys eu tiriondeb arno, ac yntau yn greadur mor wael! Am yspaid yr oedd y meddwl am ffarwelio â'i deulu a'i gyfeillion, "gan fyned," ys dywedai, "at bobl ddyeithr," yn peri mesur mawr o flinder iddo. Cyffesai hefyd un prydnawn wrth ei briod ei fod yn dyoddef llawer oddiwrth arswyd y bodau ysbrydol at y rhai yr oedd yn myned; ond pan adgofiodd hi iddo am y *dyn* Crist Iesu, aeth y cyfyuder hwn heibio. Ei anhawsder olaf oedd o natur ddamcaniaethol. "Duw, Duw, beth ydyw Duw? Beth ydyw natur Duw?" Nid oedd eisieu petruso am ei heddwch; yr oedd hwnw ganddo fel yr afon; ond beth ydoedd? Beth ydoedd yr etifeddiaeth fawr oedd wedi disgyn i'w ran? Beth ydyw Duw? "Duw, cariad yw, William bach?" ebe llais anwyl iawn oedd gerllaw iddo, a'r "cariad" hwnw wrth daflu ei ddysgleirni bendigaid ar fynydd-au olaf eu priodas, yn ei gwneuthur yn fwy cysegredig nag erioed, ac yn profi i'r naill a'r llall yn wystl nad oedd yr ysgariad byramserol oedd yn ymyl yn ddim ond arweiniad i gymundeb perffaith a thragywyddol oedd yn eu haros yr ochr draw.

Ond at bennillion Glan Alaw.

## LLINELLAU O GOF PARCHUS AM Y PARCH. W. WILLIAMS, TYCALCH.

### CYFLWYNEDIG I MRS. WILLIAMS.

Y MAE angeu yn teneuo
  Rhif ein ffryndiau yn y byd;
Bwlch yn ymyl bwlch yn agor
  Yn eu rhengau prin o hyd.
Myned â'n rhieni serchog,
  Myned â'n hathrawon cu,
Myn'd â phawb, a'n gadael ninnau
  I alaru am a fu.

Gwlychu 'n gruddiau wnaeth y newydd
  Fod y priod hoff a'r tad
Wedi myned, nid dros foroedd,
  I ymwel'd âg arall wlad;

Nid am daith am fis na blwyddyn,
  Ac i ddychwel atoch chwi,
Ond i daith tu draw i eithaf
  Pell derfynau 'n daear ni.

Llawer taith ymhell ac agos
  Rôdd ein hanwyl wrol frawd,
O'r un flaenaf ar yr aelwyd
  I'r ddiweddaf yn y cnawd;
Ond, daeth adref o bob ymdaith,
  Weithiau 'n drist ac weithiau 'n llon;
Do, dychwelodd ef o'r cyfan,
  Ond y daith ddyeithriol hon.

Heddyw dyma 'i ymdaith olaf
  Wedi ei wneyd yn welw 'i wedd;
Dyma 'n heinyf frawd yn huno
  Dan yr amdo yn y bedd!
O, nid oes ar wlith y fynwent,
  Yn dychwelyd ôl un troed;
Na, yn iach am wedd a chwmni
  Ein rhai anwyl yno roed.

Da 'r wy'n cofio Mr. Williams
  Yn hen gapel Ty'nymaen,
Yn ein gwrando, yn ein dysgu,
  Yn ein harwain yn y blaen;
Ac o'r cyfnod boreu hwnw
  Hyd ei dawel, glir brydnawn,
Glynodd serch fy mynwes wrtho
  Mewn edmygedd parchus iawn.

Fe osododd natur ddelw
  Foneddigaidd arno ef,
A derbyniodd ras a synwyr—
  Dawn y byd a dawn y nef:
Cafodd gorff a chafodd enaid,
  Cafodd dalent, cafodd ddysg,
I'w gymhwyso i'r alwedigaeth
  Bur ac uchel yn ein mysg.

Cofir am ei weinidogaeth
  Effro, finiog, amser hir;
Gwyddai lwybrau 'r "dyfnion bethau,"
  Fe 'u hagorai 'n berffaith glir;
Medrai 'r ffordd i gelloedd llawnion
  "Yr ymadrodd am y groes;"
I'r newynog a'r sychedig
  Llawer gwledd ddanteithiol roes.

Fe fawrhâi ei swydd oruchel,
  Rhoddai hithau arno ef
Barch ac urddas mewn cymdeithas,
  Pa le bynag codai 'i lef:
Pan yn cymhell Crist yn Geidwad
  I golledig euog ddyn,
Nid oedd ond yn cymhell hwnw,
  A ddewisodd iddo 'i hun.

Ffyddlawn ydoedd yn ei gylchoedd,
  Pwy geir eto i lanw 'i le?
Llaw a llygad, clust a genau,
  Eglwys Horeb oedd efe;

Rhad a pharod ei wasanaeth,
  Nid am elw, nid am glod
Bu 'n ei gweini, ond dyrchafu
  Crist a chrefydd oedd ei nod.

Daeth yn siriol, daeth yn gyson
  Drwy bob tywydd atynt hwy;
Ond ni ddaw i'r un cyhoeddiad,
  Nac i'r un cyfarfod mwy!
Gwag a fydd pob cylch o hono,
  Gwag ei gapel, gwag ei dŷ,
Dystaw 'r llais, a chudd y wyneb,
  Gorchudd angeu drostynt sy!

Hwylia 'r llong i'r porthladd eilwaith,
  Daw 'r gerbydres at ei hawr,
I gymeryd rhai i fyny
  Ac i roddi rhai i lawr;
Ond pryderus nawn un Sadwrn,
  Na blinedig foreu Llun,
Ni cheir ef yn myn'd na dyfod,
  Fel bu ganwaith, gyda 'r un!

Byth ar hyd ei feusydd ffrwythlawn,
  Byth o fewn ei brydferth ardd,
Ni cheir clywed sŵn ei gamrau,
  Ni cheir gwel'd ei wyneb hardd;
Fe ddaw haf a gwanwyn eilwaith
  I adfywio gwaith ei law
Yn y naill a'r llall, ond iddynt
  Ef ei hunan byth ni ddaw!

Chwith i chwi fydd gwel'd ei ddarlun,
  Gwel'd ei lyfrau, gwel'd ei waith,
Gwel'd y manau bu 'n ymdrechu
  Gyda 'i Arglwydd lawer gwaith;
Gwel'd a darllen ei ysgrifau,
  Gwel'd ei feddwl yn y llun,
Gwel'd pob peth, ond heb gael golwg
  Unwaith arno ef ei hun!

Ond mae rhywbeth heblaw galar
  Mewn amgylchiad trist fel hyn;
Ceir o gylch y darlun t'wyllaf
  Yr ymylon mwyaf gwyn:
Mae rhyw ddwysder mud yn treiddio
  Trwy lawenydd pena 'r byd;
Ac mae rhywfaint o lawenydd
  Yn ei dristwch mwya 'i gyd.

Gwyddoch chwi yn dda p'le i fyned
  I gael balm i leddfu 'r loes,
Y mae iechyd i bob archoll
  Yn archollion angeu 'r groes;
O'r tywyllwch dirfawr yna
  Torodd gwawr tragwyddol hedd,
Sy 'n gwasgaru ei oleuni
  I ddyfnderau oer y bedd.

Pan mae wyneb isa 'r ddaear
  Dan y dywell nos yn nghudd,
Y mae 'r wyneb uchaf iddi
  Yn dysgleirio gan y dydd;

Nos i lawr a dydd i fyny,
Dyma ddaeth o'i golli ef,—
Trown i fyny, mae 'n oleuni
Dydd tragwyddol yn y nef!

Fel mae haul y boreu 'n sychu
Dagrau nos y blodau prudd,
Goleu 'r wawr dragwyddol sycha
Eto eich galarus rudd;
Ac yn wir, beth fu 'r symudiad?
Dim ond symud addfed un
O'r anialwch i gartrefu
Yn ei anwyl wlad ei hun.

Gwir fod gan ei dŷ a'i deulu
Iddo ef attyniad cry',
Ond 'd oedd yma ond ei babell
'R oedd ei ddinas nefol fry;
Yno 'n wir, nid yma, 'r ydoedd
Cartre 'i galon ef o hyd;
O! mae cartre 'n ormod enw
Ar balasau pena 'r byd.

Nid i fynwent Llangristiolus,
Nid i'r bedd a'i amdo trist,
Y mae edrych am ein cyfaill,
Ond i nefoedd Iesu Grist;
Yno heddyw mae 'i orphwysfa
Yn y wlad yn rhad a rodd
Prynwr mawr ei fywyd iddo,
O! mae yno wrth ei fodd.

Hardd a gwèn fu 'r goron hono
Roes blynyddoedd arno ef,
Ond mil harddach heddyw 'r goron
Roes ei Geidwad yn y nef
Ar ei ben, tra 'n ei orseddu
Gyda gorfoleddus hwyl
Yn nghymanfa yr angelion,
Ddiwrnod ei dragwyddol ŵyl.

Rhaid mai gwell fydd genych chwithau
Am y nefoedd wedi hyn;
Bydd serchiadau pur eich enaid
Wrthi 'n glynu yn fwy tyn;
Byth nis gellwch lawn foddloni
Nes cael golwg ar ei wedd
Yn y byd lle nad oes angeu,
Yn y wlad lle nad oes bedd.

Ac mae beddau 'r byd i'w hagor
Gan Orchfygwr angeu mawr,
A'u haneirif dyrfa i esgyn
Mewn dysgleirdeb mwy na'r wawr;
Y mae llwch y fynwent fyddar—
Llwch y saint yn rhwymyn tyn
Y cyfammod gadarnhäwyd
A sêl gwaed Calfaria fryn.

GLAN ALAW.

Gorph. 14, 1884.

# YR ARGLWYDDI.

YR ydym eto wedi ein cael ein hunain yn un o'r ymgyrchoedd sydd o bryd i bryd yn cyfodi oddiar anghyd-ddealltwriaeth rhwng y genedl â Thŷ yr Arglwyddi. Ysywaeth, nid ydyw y pethau hyn yn ddyeithr yn ein hanes. Mae yn ymddangos i'r hen Farwniaid wneyd gwasanaeth gwych yn y dyddiau gynt mewn ffordd o sicrhâu rhyddid a iawnderau y deiliaid yn erbyn gormes y goron. Ond mae y rhai hyny wedi hen fyned o'r golwg, ac am fwyafrif y rhai sydd yn awr yn hawlio yr urddas o eistedd yn eu lleoedd, mae lle cryf i ofni eu bod yn dra amddifad o'u hysbryd, ac nad ydyw iawnderau y bobl—yn enwedig mewn cymhariaeth i'w rhagorfreintiau hwy eu hunain a buddiannau eu cyfeillion—ond dibwys a diystyr ganddynt. Y mae yr Arglwyddi urddasol hyn yn awr yn ymddarostwng i wneyd ymdrech neillduol i'n hargyhoeddi mai hwynt-hwy ydyw ein cyfeillion goreu, ac fe geir gwŷr parchus eraill nid ychydig yn myned yn hyawdl wrth ddadgan gogoniant eu helusenau a'u cymwynasgarwch, a'r fendith fod genym y fath wŷr ardderchog i gadw draw y diluw ag y byddai anmhwyll y Cyffredin—pe wedi eu gadael iddynt eu hunain—yn rhwym o ddwyn ar yr holl deyrnas. Yr ydym, wrth reswm, ac fel am y werthfawrocaf o'n holl fendithion, i "ddiolch i Dduw am Dŷ yr Arglwyddi." Dyma yr athrawiaeth a bregethir gan liaws o'n cyd-ddeiliaid parchus y dyddiau hyn, a gwrthodedig ac ysgymun yw y neb a faidd fod mor ddrygionus a'i hammheu!

Ond nid ydym mwyach yn "blantos yn bwhwman, ac yn ein cylcharwain gan bob awel dysgeidiaeth." Y mae y fath beth â hanesyddiaeth yn bod, ac yr ydym ninnau yn gallu ei ddarllen a barnu drosom ein hunain. Fe fyddai yn arw o beth pe na b'ai llawer o elusenau a charedigrwydd yn cael eu gweinyddu gan bobl sydd yn meddu y fath anferth gyfoeth, ac fe fyddai yn warth i rai ag y mae eu cydwladwyr mor barod i'w hanrhydeddu beidio sefyll yn uchel yn mharch a chariad y rhai sydd yn byw o'n hamgylch, a llawer o honynt yn ymddibynu arnynt. Y mae undeb y corff cymdeithasol y fath ag sydd yn peri ein bod o angenrheidrwydd yn byw i'n gilydd, a thrychineb ydyw i unrhyw ddyn fod wedi ymgau i'r fath raddau ynddo ei hunan fel ag i wneyd ei fodolaeth yn ddifudd i'w gymydogion. Ond nid oes a fyno hyn o gwbl â'r mater pwysig sydd yn awr mewn dadl. Nid ydyw siarad am bethau o'r fath yma ond tynu penog coch ar draws y trywydd. Y pwnc ydyw, beth am yr Arglwyddi yn deddfwriaethu? Mae eu gwaith y dyddiau hyn yn maldodi y werin trwy eu gwahodd i'w parciau, a dangos iddynt orwychder eu palasau a'u gerddi, a'u diwallu yn ddiamdlawd â'r pethau da sydd ganddynt, a'r cwbl er mwyn eu cael i gymeryd eu hochr yn y cweryl rhyngddynt â Thŷ y Cyffredin, yn rhywbeth na all pobl feddylgar lai nag edrych arno gyda phryder a gofid.

**Timeo Danaos et dona ferentes.**

Pa bryd y daeth y dosbarth gweithiol mor ryfeddol o anwyl yn ngolwg ein huchelwyr? A phaham yr holl or-hoffder a'r anwes yma yn awr? Pob parch i arglwyddi a phendefigion yn eu lle, ond os ydynt yn meddwl am ein prynu â'u teisenau, a'n dwyn i osod ein gyddfau yn dawel ac ymostyngar dan yr iau a fynent osod arnom,—wel, fe fyddai yn gystal iddynt ddeall fod eu hamcan yn rhwym o brofi yn hollol ofer. Nid oes eisieu i neb ein dysgu beth ydyw y rhagorfreintiau mwyaf gwerthfawr sydd yn ein meddiant fel deiliaid o'r wladwriaeth; a phan mewn argyfwng o fath yr un presennol y mynai y Toryaid a'r Arglwyddi ein perswadio mai eu tarian hwy yw ein diogelwch ac mai eu ffafr yw heulwen ein llwyddiant, gallem droi yn ol ac ymofyn beth a wnaethant hwy tuag at estyn i ni ragorfreintiau a fawrhâwn? Ond rhaid i ni ymattal, a chrybwyll yn unig eu "cymwynas" ddiweddaf.

Prin y mae eisieu myned trwy y ffurf o'i grybwyll. Ymysg y diwygiadau eraill ag y proffesai y Weinyddiaeth bresennol barodrwydd i'w cario allan, ac y dychwelwyd hwynt i awdurdod er eu mwyn, yr ydoedd helaethu yr etholfraint yn y Siroedd. Ac yn unol â'u hymrwymiadau dygasant fesur i Dŷ y Cyffredin yn cynnyg gosod pobl y wlad, gyda golwg ar yr etholfraint, yn gwbl ar yr un tir â phobl y bwrdeisdrefi. Wedi llawer iawn o siarad fe basiwyd ail ddarlleniad y mesur hwnw trwy y mwyafrif mawr o 130; a phan ddaeth yr amser i'w ddarllen y drydedd waith—rhag ofn, mae yn debyg, i'r mwyafrif chwyddo yn llawer mwy—fe farnodd ei wrthwynebwyr mai doethineb oedd y gwroldeb goreu, a gadawsant iddo basio y darlleniad terfynol hwnw heb ranu y Tŷ, ac fe ysgrifenwyd ar y llyfrau ei fod wedi pasio "*nem. con.*" neu yn ddiwrthwynebiad,—er y taerai dau aelod anrhydeddus ar ol hyny ddarfod iddynt ddyweyd eu bod hwy yn gwrthwynebu; ond fe ymddengys fod yr ymdrech i ryfygu cymaint, yn gymaint uwchlaw eu gallu fel na chyflwynwyd hwy gan neb arall. Aeth y mesur, a than y fath amgylchiadau, i Dŷ yr Arglwyddi. Ond yno fe wrthodwyd ei ail ddarlleniad trwy fwyafrif o 59, a'r rheswm a roddid am hyny oedd, am nad oedd darpariaeth yn cael ei gwneyd hefyd ar gyfer ad-drefniad yr etholiadaethau, neu *Redistribution.* Nid oedd yr Arglwyddi yn erbyn estyniad yr etholfraint yn y siroedd; O na, yr oeddynt yn ysu gan gariad at y llafurwyr amaethyddol a'u cymydogion yn y wlad oeddynt eto heb yr etholfraint; yn unig yr oedd eisieu mesur o *redistribution* hefyd, ond wedi cael hwnw hwy a basient y ddau gyda'r hyfrydwch penaf. Dim byd ond cael mesur o ad-drefniad hefyd! Ond pan welodd y Llywodraeth y tir a gymerasai yr Arglwyddi, penderfynasant ar unwaith ddirwyn y senedd-dymmor i fyny, a galw y Senedd ynghyd drachefn yn yr Hydref i basio yr un mesur eilwaith, ac i'w anfon drachefn i Dŷ yr Arglwyddi. Ar hyny mae yr Arglwyddi ardderchog, y "noble Lords," yn synu yn ddifesur,—pam yr oedd eisieu tori yr eisteddiad i fyny felly, a chymaint o waith pwysig eisieu ei wneyd? Am danynt hwy, nid oeddynt yn eu diniweidrwydd wedi gwneyd dim ond gofyn am fesur cyflawn; a rhag ofn i'r Rhyddfrydwyr drygionus eu beirniadu, y maent yn achub y blaen arnynt ac yn bloeddio i'r gâd, yn galw am gyfarfodydd cyhoeddus, yn anfon lliaws o benderfyniadau i'w pasio trwy yr holl deyrnas yn condemnio yr amcan o ddysgwyl iddynt basio mesur anghyflawn, a chan ddysgwyl, fel Mr. Micawber, "that something

would turn up," yn hawlio ar achos mor fawr appelio at y wlad trwy etholiad cyffredinol. Dyna yr ymrafael; ac ar ei gorn, gwaith mawr y deyrnas yr wythnosau hyn ydyw cynnal cyfarfodydd, traddodi areithiau, gorymdeithio gyda baneran a seindyrf pres, gwneyd pob math o arddangosiadau; cynnal *picnics* a *Saturday afternoons* yn mharciau y boneddigion, a gwaeddi, ar y naill law, Y Cyfansoddiad a Thŷ yr Arglwyddi, ac ar y llaw arall, Helaethiant yr Etholfraint ac i lawr â Thŷ yr Arglwyddi.

Fel mae yn arfer, y mae wrth reswm gryn lawer o wylltineb yn y bloeddiadau hyn o'r naill ochr a'r llall. Y mae mor oleu â'r haul nad oes un rheswm dros gysylltu y cweryl hwn o eiddo yr Arglwyddi â'r "Cyfansoddiad." Nid ydyw yn cynnyg ymyryd â Chyfansoddiad y deyrnas mewn un modd, oddieithr fod yr Arglwyddi eu hunain yn gwneyd hyny; oblegid yn sicr nid ydyw y Cyfansoddiad Prydeinig yn rhoddi un math o wyneb i'r fath newyddbeth chwyldröadol ag y mae yr Arglwyddi yn awr yn anturio arno, sef hawlio y gallu sydd yn briodol yn unig i'r Frenhines a'r Llywodraeth sydd mewn cyfrifoldeb dani o benderfynu pa bryd i appelio at y wlad trwy etholiad cyffredinol. Ar yr un pryd, er nas gallwn weled fod ein rhwymedigaethau i Dŷ yr Arglwyddi mewn un modd yn fawrion, eto, gyda Mr. Bright, Mr. Gladstone, a gwŷr da a phwyllog eraill, yr ydym yn hwyrfrydig i gredu ei fod yn anobeithiol cael rhyw ymwared o'r anhawsder heb waeddi am ddileu y Tŷ hwnw; ac yn enwedig yr ydym yn hyderu y gwêl yr Arglwyddi eu hunain, neu yn hytrach y mwyafrif sydd yn rhoddi eu nodwedd i'w gweithrediadau, yr angenrheidrwydd am eu gosod eu hunain mewn cynghanedd â barn oleuedig y deyrnas, ac nid ei gwrthwynebu yn barhâus. Sut bynag, am yr anghydfod presennol rhwng yr Arglwyddi a'r Llywodraeth, er edrych yn bwyllog i'r holl helynt a rhoddi pob ystyriaeth i'r rhesymau a ddygir ymlaen gan yr Arglwyddi a'u cyfeillion dros eu hochr, yr ydym ni yn gorfod dadgan ein barn eu bod yn gwbl o'u lle, a'u bod dan ddirfawr gyfrifoldeb am y benbleth ofidus i ba un y maent y dyddiau hyn, ac heb fod dim mewn un modd yn galw am hyny, wedi taflu yr holl deyrnas.

Ac yn y lle cyntaf, yr ydym yn teimlo ei fod yn anmhosibl credu eu bod yn onest wrth ddyweyd nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r helaethiad a gynnygir yn yr etholfraint ond iddynt ei gael yn gysylltiedig â mesur o ad-drefniad, ac ond cael hyny y buasent yn pasio y ddau. Y maent bob amser wedi gwrthwynebu helaethiad yr etholfraint; er eu gwaethaf yn eu dannedd y caed pob ychwanegiad yn y cyfeiriad hwn a gafwyd erioed. Y maent yn awr, bid siwr, yn toddi gan eu hanwyldeb at y llafurwyr ac eraill sydd heb yr etholfraint yn y siroedd; ond pan mewn gallu eu hunain ni feddyliasant o gwbl am estyn yr etholfraint iddynt. Yn awr, wrth reswm, hwy ydyw y cyfeillion goreu i helaethiad yr etholfraint, "yn unig," meddant, "gadewch i ni ei gael ynglŷn âg ad-drefniad." Am flynyddoedd y mae mesurau i'r ddau berwyl hyn wedi cael eu dwyn ger bron, a phob amser eu gwrthod. Yn 1876 fe gynnygiodd Mr. Trevelyan ddau benderfyniad, y naill o blaid helaethiad yr etholfraint, a'r llall o blaid ad-drefniad. Mr. Disraeli ar y pryd ydoedd yr arweinydd anffaeledig yr ymffrostiai y Toryaid oll ynddo, ond gwrthwynebai efe helaethiad yr etholfraint "am ei fod

yn amlwg yn golygu ad-drefniad;" ac am ad-drefniad, yr ydoedd hyny "yn golygu tori i fyny yr etholiadaethau bwrdeisdrefol, ac fe newidiai gymeriad ac fe ddinystriai amrywiaeth cynnrychioliad Seneddol,"—ac am hyny nid oedd dim i'w wneyd ond galw ar ei ufudd weision i wrthod y naill a'r llall,—yr hyn a wnaethant gyda dyhewyd. A newidia yr Ethiop ei groen, neu a oes rhyw le i feddwl fod y fath ëangiad mawr wedi cymeryd lle ar ryddfrydigrwydd y Toryaid er 1876? Y gŵr sydd yn mlaen y gâd gyda y newyddbeth annaturiol a adwaenir y dyddiau hyn fel y *Tory Democracy*, y Weriniaeth Doryaidd—bondigrybwyll!—ydyw Arglwydd Randolph Churchill. Mor ddiweddar â mis Rhagfyr 1883, yr oedd efe yn Edinburgh, a phob gair a ddelai o'i enau yn cael ei dderbyn gan y Toryaid ffyddlawn a ymdyrent o'i amgylch gyda chymeradwyaeth orfoleddus. Ac fe roddodd un araeth fawr o'r dechreu i'r diwedd i brofi nad oedd y tŷddaliwr oedd heb yr etholfraint yn y wlad yn malio am dani, ac am hyny ei fod yn anghymhwys i'w defnyddio. "Yr ydwyf," meddai, "yn herio Mr. Chamberlain a'i holl *gaucus* i gynhyrfu unrhyw gyffro gwirioneddol ar gwestiwn y bleidlais yn y rhanau amaethyddol. Ond yr wyf yn gwrthod yn gwbl cymeryd dylanwadu arnaf yn y mater gan y fath hymbygiaethau truenus, sydd yn tynu y llinynau, yn ceisio hynodrwydd, yn cael eu gyru gan *gaucus*, y fath arddangosiadau ag a gawsom yn Leeds, Bristol, a manau eraill. Fe brysurwyd cwymp yr Ymherodraeth Rufeinig gan estyniad hawlfreintiau dinasyddion Rhufeinig yn ddiwahaniaeth, yn eithafol, a dialw am dano; ac os lluchiwch i ffwrdd freintiau politicaidd gwerthfawr ymysg y werin nad ydynt yn eu gwerthfawrogi am nad ydynt yn eu deall, a chan nad ydynt yn eu deall na'u gwerthfawrogi y bydd iddynt yn ddiammheuol eu camddefnyddio, chwi fyddwch yn dynwared camgymeriad gofidus Ymherawdwyr Rhufain, ac fe fydd i'r rhai fyddant yn dderbynwyr eich rhoddion droi arnoch a'ch rhwygo. "Gan y gwirion," medd yr hen air doeth, "cais y gwir." Pan na feiddiai arweinwyr addefedig y blaid ddyweyd yr hyn oedd yn eu calon, fe dywalltodd y dyhiryn hwn "ei holl gwd," ac fe roddes, mae yn ddiammeu, adroddiad teg o farn a theimlad yr holl blaid ar y mater. Rhy brin y gallwn gredu ei fod ef, hyd yn nod, wedi cael tro mor fawr ag yr hona yn bresennol ei fod; a phe b'ai hyny yn bosibl—ac yn y fath un ni olygai rhyw lawer!—a ydym i gredu am fynyd mai awyddfryd mawr yr Arglwyddi a'r blaid Doryaidd yn awr ydyw estyn yr etholfraint i'r siroedd? Yr oedd Mr. Goschen, fel boneddwr gonest, yn berffaith ddealladwy. Ni chredai efe yn nghymhwysder y llafurwyr amaethyddol i ymddiried yr etholfraint iddynt, ac am hyny gwrthwynebai y mesur yn agored; ond wedi yr ail ddarlleniad, dywedai fod ei araeth olaf yn ei erbyn wedi ei gwneyd, a bellach y gwnai a allai i leihâu y drwg yn yr ad-drefniad; ond ymosodai yn ddiarbed ar y Toryaid am na feiddient ddyweyd eu bod yn gwrthwynebu egwyddor y mesur, eithr yn cymeryd esgus i'w wrthwynebu am na fuasai yn gysylltiedig âg ef fesur o ad-drefniad. Ond fe ŵyr pawb mai nid felly y meddylient. Fe wnaed pobpeth ag oedd yn ddichonadwy—ac yn marn nifer mawr o bobl ddeallus, lawer mwy nag a ddylesid—mewn ffordd o drefnu mesur helaethiad yr etholfraint yn y fath fodd fel ag i gyfarfod yn y modd esmwythaf deimladau y Toryaid; a chydnabyddai

Mr. Gladstone y parodrwydd ffyddlawn a ddangosai hyd yn nod yr ochr fwyaf blaenllaw o'r Rhyddfrydwyr yn y Senedd i gefnogi y mesur, er ei fod mewn rhai ystyriaethau pwysig yn groes i'w barn, a hyny yn unig yn y gobaith y gellid ei basio gan y pleidiau oll. Ond er hyny fe gymerodd 25 o nosweithiau i fyned trwy Dŷ y Cyffredin. Yn 1832 ni chymerodd helaethiad yr etholfraint yn y Tŷ hwnw ond 5 noswaith, tra y cymerodd yr ad-drefniad, yr hyn, wrth reswm, oedd yn llawer anhaws, 35. Yn ol y cyfartaledd yna, fe gymerasai yr ad-drefniad y gelwir am dano yn bresennol 175 o nosweithiau, ac nid oes ond rhyw 168 i'w cael mewn senedd-dymmor, ac i'r oll gael eu rhoddi at yr amcan hwn. Fe ŵyr yr Arglwyddi a'r Toryaid eu hunain nad yw eu siarad mawr am eu parodrwydd i basio y ddau fesur ond perffaith ffug. Dangosai Mr. Raikes yn mis Mehefin diweddaf, pan yn siarad ar fater arall, fod ad-drefniad yn orchwyl mor fawr fel na ellid myned drwyddo er cymeryd ato yr oll o'r flwyddyn nesaf. "Fe ystyriai," medd yr adroddiad o'i araeth, "ei fod yn annhebyg i'r eithaf y gallai y mesur hwn (yr etholfraint) dderbyn y cydsyniad brenhinol cyn y 30ain o Ebrill, a pha olwg ydoedd y byddai i fesur o ad-drefniad, hyd yn nod a thybied iddo basio y flwyddyn nesaf, dderbyn y cydsyniad brenhinol erbyn yr 31ain o Orphenaf?" A'r un ffunud dywedai Mr. W. H. Smith, "Mae y mater o ad-drefniad y fath fel nad allem ddysgwyl pasio mesur o ad-drefniad hyd ddiwedd y flwyddyn, dan yr amgylchiadau mwyaf ffafriol." Hyny yw, y mae ad-drefniad yn orchwyl mor fawr yn marn y ddau ŵr parchus hyn, gwŷr ag y tybir yn sicr eu bod yn golofnau ymhlith y Toryaid, fel y cymerai yn sicr senedd-dymmor cyfan iddo ei hun. Ac eto yr unig reswm paham y gwrthodai yr Arglwyddi ystyried helaethiad yr etholfraint oedd, am nad oeddynt hefyd yn cael gydag ef fesur o ad-drefniad! Y maent hefyd, ac yn y modd mwyaf annheg, yn dangos y Llywodraeth fel yn wrthwynebol i ad-drefniad, tra y mae gweinidogion ei Mawrhydi yn barhâus yn dadgan eu penderfyniad o ddwyn i mewn fesur i'r perwyl hwnw can gynted ag y bo y mesur arall wedi ei symud o'r ffordd, ac yn barod i drefnu na bo i hwnw ddyfod i rym hyd ddechreu 1886, fel y galler cael 1885 i basio mesur o ad-drefniad; ac ymhellach yn cynnyg fod y ddau Dŷ yn ymuno mewn cofeb at y Frenhines fel ag i sicrhâu cael hamdden yn 1885 at gwblhâu yr ad-drefniad. Chwedl Mr. Gladstone, gan fod y ffordd yn rhy gul i yru dau gerbyd ochr yn ochr, nid oedd dim i'w wneyd ond gyru un ar hyd-ddi i ddechreu, ac yna mor fuan ag y caffer lle, gyru y llall ar ei ol. Y mae y defnydd a wnaeth Arglwydd Salisbury o eiriau o eiddo Mr. Bright yr un mor annheg. Dyfynai o araeth a wnaeth yn 1859, ymha un y gwrthodai helaethiad yr etholfraint heb ad-drefniad ynglŷn âg ef, gan ddadgan mai y tir a gymerai Mr. Bright y pryd hyny a gymerant hwy yn awr. Mae y geiriau hyny yn cael eu hadrodd gan yr holl blaid yn barhâus, a'u plastro ar yr holl barwydydd, er dangos ei ryfedd anwadalwch ef, ac ynglŷn â hyny, mae yn debyg, eu cysondeb gogoneddus hwythau. Yn ei araeth yn Manchester, Gorphenaf 28, fe roddodd Mr. Bright eglurhâd ar y peth. Dangosodd y fath ffug oedd y mesur diwygiadol a gynnygiai Mr. Disraeli yn 1859, yr hwn, gyda llaw, y bu raid iddo ei dynu yn ol. Yn hwnw yr ydoedd yn ceisio llunio etholiadaethau, gan fyned heibio i bawb ag yr oedd arnynt eisieu pleidlais;

ac nid oedd yr ad-drefniad a gynnygiai yn ymyraeth â mwy na phymtheg eisteddle. Nid oedd peth felly yn werth trafferthu gydag ef, ac mewn trefn i ddangos i'w gydwladwyr mor ddibwrpas ydoedd, dangosai Mr. Bright fod yn rhaid cael ad-drefniad; ac fe wnelai hyny am fod yn amlwg fod y Prifweinidog ar y pryd yn benderfynol o osgoi y cwestiwn, ac nid fel Mr. Gladstone yn bresennol yn proffesu ei fod yn rhan hanfodol o'i gynllun, a'i fod yn benderfynol, y cyfle cyntaf, o fyned ynghydag ef. Ac mewn trefn i ddangos ei gysondeb, cyfeiriai Mr. Bright yn Manchester at araeth o eiddo Arglwydd John Russell pan yn dwyn i fewn un o'i fesurau diwygiadol, yn yr hon y dywedai fod Mr. Bright yn gwasgu arno yn gryf i ddelio â'r mater mewn dau fesur, fel yr unig ffordd oedd yn bosibl i gario allan ddiwygiad. Darllenai Mr. Bright hefyd ran o lythyr a ysgrifenasai at Mr. Disraeli mewn canlyniad i'w waith yn ymgynghori âg ef yn 1867, pan oedd Arglwydd Salisbury yn gydweinidog âg ef; yn y llythyr hwnw yr oedd y geiriau pwysig a ganlyn:—"Os na fydd difreiniad, ni bydd i fesur newydd yr etholfraint ond gwneyd bodolaeth Calne ac Arundel [bwrdeisdrefi teuluaidd], a llawer o fwrdeisdrefi eraill yn fwy gwrthun ac annyoddefol. Fe fydd gan y bwrdeisdrefi mawrion lawer mwy o etholwyr, ac fe edrycha y bwrdeisdrefi bychain yn llai ac yn fwy adgas, ac ni fydd y mesur wedi dyfod yn deg i weithrediad na fydd ymdrechion newyddion yn cael eu gwneyd i gael gwell trefniad ar yr eisteddleoedd. Fe ailagorir y cwestiwn; yn wir ni bydd yn gauedig am gymaint ag un senedd. Y llwybr doeth fydd gadael cwestiwn yr eisteddleoedd i senedd ddyfodol, neu erbyn yr amser pan fydd barn yn fwy addfed, a phan dderbynio y ddwy ochr i'r Tŷ fesur mwy a gwell. Prin y gellir delio âg ef yn yr eisteddiad hwn, ac os gwneir ni ellir ond aflonyddu arno ac nid ei benderfynu. Heblaw hyny, fe fyddai dal at hyny yn peryglu mesur yr etholfraint, yr angenrheidrwydd am ba un sydd yn cael ei wasgu arnom." Nid oedd yn ddichonadwy bod eglurhâd mwy boddhaol; er hyny yn y "*counter-demonstration*"—sydd wedi dyfod bellach mor ffasiynol—a gynnaliwyd Awst 11 yn yr un fan, y *Pomona Gardens*, yr oedd gan Arglwydd Salisbury y wyneb i gyfeirio at eiriau Mr. Bright fel o'r blaen, ac fel pe na buasai unrhyw eglurhâd wedi ei roddi, nac yn bosibl arnynt A'r un modd y maent yn y dull mwyaf annheg yn ceisio codi rhagfarn yn erbyn cynllun y Llywodraeth, cyn ei fod wedi ei ddadguddio, gyda golwg ar ad-drefniad. Can belled ag y mae yr amlinelliad a roddes Mr. Gladstone o'r cynllun hwnw yn myned, y mae yn sicr yn hynod o deg a rhesymol; yn wir, mewn un cyfeiriad y mae braidd yn ormod felly; sut bynag y mae yn llawn gyfiawnhâu geiriau Mr. Goschen am yr holl reolau "eu bod wedi eu ffurfio mewn ysbryd ceidwadol." Y mae gofal penaf y Toryaid, wrth reswm, am y bwrdeisdrefi bychain sydd eto i fesur helaeth yn eu llaw, a'r etholiadaethau gwledig sydd yn gwbl dan eu dylanwad. Ond ni feiddiant ar y "llwyfanau" ddadleu fod y rhai hyny yn meddu hawliau llawer trymach na'r rhanau o'r deyrnas lle mae y boblogaeth yn anferth fwy, ond eu cynnrychioliad seneddol yn llawer iawn llai. Yn wir, i ryw ddyben ag y mae yn anmhosibl ei amgyffred, dywedai Arglwydd Salisbury yn Manchester, tra y mae Lancashire yn awr heb ychwaneg na 33 o aelodau yn ei chynnrychioli, y dylasai yn ol ei phoblogaeth gael 63; a thra nad oes gan Middlesex ond 16, y dylasai gael 54. Ha

wyr! a ydyw y Toryaid wedi llyncu yr holl Siarter? Y maent yn awr o hyd yn gwaeddi am senedd fer; ac a ydynt hefyd am "equal electoral districts," neu gynnrychioliad yn ol y boblogaeth? Os oes ystyr i eiriau, dyna rediad erthygl Arglwydd Randolph Churchill mewn rhifyn diweddar o un o'r cylchgronau—rhaid amcanu, hyd y bo yn bosibl, am gael y cynnrychioliad mewn cyfartaledd i'r boblogaeth! Ac fe ellid meddwl mai dyna oedd ar Arglwydd Salisbury eisieu yn Manchester. Purion! Nid oes eisieu dim yn amgen, ac y mae y ddadl ar ben! "Y neb y mae y duwiau am ddinystrio y maent yn ynfydu." Mae yr arweinwyr Toryaidd, mewn ffordd o geisio ennyn rhagfarn yn erbyn cynllun y Llywodraeth o ad-drefniad, wedi cael eu gollwng i ddadleu dros ei egwyddor fwyaf hanfodol. Ac y mae hyn oll yn dangos mor bell ydyw y bobl barchus hyn o ddyweyd yr hyn y maent yn feddwl, ac am hyny, o angenrheidrwydd, yn dangos mor hynod o fechan raid fod eu hawl i'n hymddiried.

Ond ymhellach, y mae y rhesymau a ddygant ymlaen dros eu gwaith yn gwrthod mesur helaethiad yr etholfraint yn dra hynod, ac yn teilyngu sylw arbenig. Gyda llaw, y maent yn dra gofalus am i ni oll ddeall na ddarfu iddynt *wrthod* y mesur hwnw, ond mai ei roi o'r neilldu a wnaethant nes cael mesur o ad-drefniad i'w basio gydag ef. Mae yn gofyn am gryn lawer o uchaniaeth—ac fe ddylai fod hefyd yn uchanianol—i ddirnad gwahaniaethad mor gywrain. Ni ddarfu iddynt ei wrthod; a ddarfu iddynt ynte ei basio? Beth, chwedl Mr. Bright, pe buasent yn peidio ei basio am, dyweder, ei fod yn rhoddi y bleidlais i'r llafurwr amaethyddol? Ai ni fuasai hyny yn wrthod arno? A phaham nad ydyw yr hyn a wnaed yr un modd yn wrthod? Yr oedd cariad yr Arglwyddi at y mesur yn angerddol, ond gallai yntau, yn ngeiriau cân J. P. Kemble, ddyweyd—

> Perhaps it was right to dissemble your love,
> But why did you kick me downstairs?

Cyfeiriai Mr. Bright yn hapus yn ei araeth yn Manchester at gwestiwn tra pherthynasol y bachgen, Rob the Grinder, yn *Dombey and Son*, i hen wraig adgas a fynai ei gofleidio: "Can't you be fond of a cove without squeedging and throttling of him?" A dywedai ein cydwladwr doniol, Mr. Osborne Morgan, am ryw ddyn a haerai yn ddigllawn nad oedd efe wedi lladd y neb oedd wedi marw, y cwbl a wnaethai efe oedd attal ei anadl! Yr oedd hyny, mae yn amlwg, yn dyfod i'r un peth. Nid ydyw dyn yn byw nemawr wedi attal ei anadl; ac am oruchwyliaeth yr Arglwyddi ar fesur helaethiad yr etholfraint yn y siroedd, y mae yn anmhosibl i farwolion yn gyffredin ei wahaniaethu oddiwrth wrthodiad.

Ond am eu rhesymau o blaid y peth, y maent, tra wedi eu llunio mor gywrain fel ag i gryfhâu argyhoeddiad y Toryaid, eto erbyn eu hagor a myned ychydig iddynt, yn profi yn rhesymau o anorchfygol nerth yn erbyn yr hyn a wnaeth yr Arglwyddi. Cymerer ychydig engreifftiau. Ac i ddechreu, y rheswm a roddid yn y penderfyniad trwy ba un y gwrthodwyd—wel, nid ydym am gweryla gyda'r Arglwyddi ardderchog am air, ac ni a ddywedwn, y *peidiwyd a phasio* y mesur; sef am nad oedd ganddynt hefyd o'u blaen fesur o ad-drefniad. Pe buasai mesurau i'r ddau amcan hyn wedi eu dwyn ymlaen ynghyd, gallasent yn dra rhesymol ofyn,—hyny yw, a thybied eu bod ar y

pryd mewn tymher i wrando ar reswm,—"Beth, a ydyw Llywodraeth ei Mawrhydi yn dysgwyl i ni basio gyda'u gilydd ddau fesur o fath y rhai hyn? Oni chymerodd mesur helaethiad yr etholfraint ei hunan yn y Tŷ arall 35 o nosweithiau eleni i'w ystyried, a mesur yr ad-drefniad yn 1832 25 o nosweithiau; ac a ddysgwylir i ni ymgymeryd â'r llafur Ercwlffaidd o basio y ddau gyda'u gilydd, ac mewn un Senedd-dymmor? Oni ddywedodd ein gwir gariadus Mr. Cecil Raikes, a'r un ffunud oni thystiolaethodd ein hufudd was Mr. W. H. Smith, yr hwn yn dirion sydd yn gwasgar goleuni am ein gweithrediadau o'r *Railway Stations* i gonglau tywyllaf y deyrnas, fod yr ad-drefniad ei hun yn ddigon i lyncu Senedd-dymmor cyfan? Yr ydym wedi pasio deddf yn gwahardd creulondeb at anifeiliaid; ond dyma ddrygioni anfesurol fwy ysgeler, ac yr ydym yn apelio at y wlad yn erbyn y gormes arswydus a fynai ein gweithio ni, yr Arglwyddi tymmorol ac ysbrydol, nid yn unig yn y fath fodd fel ag i fod yn anghydweddol â'n hurddas, ond hefyd i beryglu ein hiechyd gwerthfawr, ac fe allai i fyned â'n bywyd ni ymaith!" Ac heblaw ei fod mor amlwg allan o'r cwestiwn i allu pasio dau beth mor fawr gyda'u gilydd,—ac yn enwedig pan y mae *obstruction*, neu sefyll ar ffordd pob gwaith wedi dyfod yn wyddoniaeth yn y Senedd,—fe allasai y Toryaid, ac yn enwedig oddiar safle eu cariad newydd-anedig at y llafurwyr amaethyddol a thŷddalwyr y siroedd, ofyn cwestiwn mawr Syr John Lubbock, yr hwn bellach a ofynwyd gan filoedd, Onid yw helaethiad yr etholfraint yn beth iawn ynddo ei hun? Y maent yn cael fod yr helaethiad yr ymffrostiant yn gymaint mai hwy a'u gwnaethant yn 1867 ar yr etholfraint yn y bwrdeisdrefi, wedi ateb y dyben yn rhagorol. Ni phrofodd mewn un modd yn "naid yn y tywyllwch," er maint eu pryder a'u hofnau. Ac mae yn gwbl amlwg mai brodyr i bobl y bwrdeisdrefi ydyw pobl y wlad; a phaham yr ofnid estyn iddynt hwy ragorfraint ag y mae tŷddalwyr y bwrdeisdrefi wedi profi mor gwbl deilwng o honi? Mae yn wir i Syr Stafford Northcote siarad yn un o'i areithiau yn lled ysgaprwth am ollwng dwy filiwn o bobl yn y wlad yn rhydd, neu yn "*loose*" ar yr etholiadaethau. Nid ydyw yn hawdd deall beth a feddyliai. Oni b'ai ein bod yn gwybod am ddyfnder a nerth ei gariad at bobl y wlad, buasem dan demtasiwn i dybied mai y gymhariaeth yn ei feddwl oedd twr o fleiddiaid yn cael eu gollwng ar y deadelloedd defaid, neu fyntai o lewod yn dyfod ac yn rhuthro ar y gwartheg gwirion, neu arddangosfa bwystfilod wedi ei thaflu yn agored, a'r llewod a'r eirth a'r teigrod a'r dywalgwn yn neidio ar y plant oedd o amgylch yn llygadrythu yn ddiniwed, er marwol ddychryn i bawb. Dichon y bydd gradd o wahaniaeth barn ymysg yr esbonwyr am y ffugyr penodol oedd yn meddwl y gŵr mawr pan dywedai y fath air; ond mae hyny yn sicr, nad oedd dim drwg ynddo, oblegid, fel y dywed yntau, ac fel y dywed lleng ei ganlynwyr, "A ydyw yn debyg yr ofnem ni, a estynasom yr etholfraint i dŷddalwyr y bwrdeisdrefi wneyd yr un peth i bobl y wlad?" Ac yr ydym yn gwybod, a hyny trwy dystiolaethau lawer o'u geneuau hwy eu hunain, mai gwir ddymuniad calon yr Arglwyddi a'r Toryaid ar ran pobl y wlad ydyw estyn yr etholfraint iddynt mor fuan ag y byddo modd. Os pwysir arnom am esboniad ar gwestiwn Syr Stafford, "A oeddym yn tybied y cydsyniant hwy i ollwng dwy filiwn o bobl yn *loose* ar yr etholiadaethau," nid oes genym ond pledio ei fod,

fel llawer o bethau eraill, yn rhy ddwfn i ni. Ar y tir isaf, gallem ddyweyd fod yn dra thebyg fod ystyr dda i'r gair pe gallem rywfodd gael o hyd iddo,—fel y credai philosophyddion Laputa y rhaid fod pelydrau goleuni yn y cucumber pe gallent ond yn unig eu cael allan. Neu fe allai i r gair gael ei ddyweyd pan oedd cariad cyntaf Syr Stafford at bobl y siroedd dan fesur o lewygfa o herwydd y drafferth a'r benbleth yr ydoedd ynddi ynglŷn â'r *counter-demonstrations* y mae yn rhaid iddo fod yn y fath ffwdan i'w gwneyd er ceisio gwrthweithio dylanwad y Rhyddfrydwyr. Pa fodd bynag, nid allai estyn yr etholfraint i bobl y siroedd fod yn amgen na daioni digymysg, beth bynag am ad-drefniad; ac yn arbenig felly o safle y Toryaid, y rhai a deimlant fod ganddynt gymaint o achos i ymffrostio yn llwyddiant gwaith 1867, ac ydynt yn awr, yn neillduol, yn teimlo y fath anwyldeb at dŷddalwyr y wlad. Nid oedd Mr. Gladstone a'i gyfeillion, chwedl yntau, y fath "idiots and dolts" ag i geisio cyfuno y ddau y flwyddyn hon, ac yn enwedig yn y sefyllfa ledchwith a *disorganised* ag sydd yn awr ar y Senedd. Ond ni ddylasai fod yn anhawsder o gwbl yn ffordd y Toryaid i dderbyn helaethiad yr etholfraint heb yr ad-drefniad; ac yn arbenig gan eu bod yn cael pob sicrhâd y cymerid y flwyddyn nesaf tuag at wneuthur yr ad-drefniad, na ddelai hwnw i rym hyd 1886, ac fod y cynllun o ad-drefniad a fwriedid gynnyg mor deg, neu yn ol geiriau gŵr or fath awdurdod yn y mater yma â Mr. Goschen—yr unig un, er mai Rhyddfrydwr ydyw, a feiddiodd ddadleu yn erbyn egwyddor helaethiad yr etholfraint—"mor Geidwadol," fel nad allai fod unrhyw dir rhesymol i'w wrthwynebu. Mae yn amlwg, ynte, fod y rheswm a gymerai yr Arglwyddi dros wrthod neu "beidio pasio" y mesur, yn un ag a ddylasai weithredu yn gwbl fel arall.

Ac y mae hyny i'w weled yn dra amlwg yn y ffaith nad ydynt hwy eu hunain yn gallu aros mynyd ar y rheswm hwnw, ond gwaeddi yn y fan am beth arall,—dadgorffori y Senedd a myned at y wlad! Mae yr esgus o ad-drefniad mor llithrig, neu yn gymaint o esgus, fel na allant sefyll amrantiad arno; ac am hyny y maent yn disgyn yn naturiol ac ar unwaith at ddadgorfforiad ac etholiad cyffredinol. Wedi dangos y casineb chwerwaf yr holl amser at Mr. Gladstone, ac wedi gwneyd yr oll oedd yn eu gallu i fwrw rhwystr yn ei ffordd ac yn ffordd y Llywodraeth y mae yn ben arni, mae y Toryaid yn awr yn cymeryd achlysur oddiwrth y peth yma i waeddi am apelio at yr etholwyr. Beth a wyddid na thröai y cynhauaf eleni eto yn ddrwg, pa lofruddiaethau a allai gymeryd lle yn Iwerddon, pa drychineb yn yr Aipht, neu pa aflwydd a allai ddygwydd i General Gordon; fe allai y ceid *rhywbeth* y gellid gwneyd cri o hono a gamarweiniai rai o'r etholwyr mwyaf ehud, ac felly ddychwelyd y Toryaid am unwaith eto i awdurdod. Am hyny y maent yn awr yn crynhoi eu hymadferthoedd mewn coegi, edliw, gwatwar, ceisio ymresymu, a'r cwbl i edrych ai ni ellid syfrdanu Mr. Gladstone a chael etholiad. Nid oes ganddynt hwy ddim i'w golli; a phwy a ŵyr na ddygwyddai rhyw ddamwain ffodus a droai i ryw fesur yn fantais iddynt?

Am eu hymosodiadau ni'n dawr; ond y mae a fynom â'r rhesymau a gynnygiant at yr achos hwn. Hyd y gallwn eu gwneyd allan o'r areithiau mawrion a lliosog sydd yn llanw yr awyrgylch, mae y rhesymau hyny yn dri mewn nifer: fod y Senedd yn ymyryd â'r Cyfan-

soddiad; ei bod yn oedranus; a'i bod yn gwbl allan o gynghanedd â theimlad presennol y wlad. Pe byddai rhywbeth ynddynt, fe fyddai unrhyw un o'r tri rheswm hyn yn ddigon, ond y tri ynghyd lawer yn fwy na digon, i ddymchwelyd y Llywodraeth. Ond a oes rhywbeth ynddynt? Mae yn ymddangos i ni *nad oes*. Cymerwch y cyntaf o'r tri: ymyraeth â'r Cyfansoddiad, neu yn ngeiriau clasurol Arglwydd Salisbury, "revising the Constitution." Bid siwr y mae y fath air mawr yn dychryn y Toryaid yn fawr, canys hwynt-hwy, yn anad pawb, sydd wedi eu creu i daflu eu tarian dan bob perygl dros y Cyfansoddiad. Fe olygai *revisio* y Cyfansoddiad wneyd cyfnewidiadau yn nghydberthynas y gwahanol alluoedd sydd yn ei wneyd i fyny, ar gydfantoliad pa rai y dibyna am ei weithrediad hapus a heddychlawn; megys gwneyd i ffwrdd â'r penadur, diddymu Tŷ yr Arglwyddi, neu sathru—fel y mae Arglwydd Salisbury a'i frodyr yn gwneyd yn awr!—ar hawliau y Cyffredin. Ond nid oes neb o honom nad ydym yn caru ac yn anrhydeddu y Frenhines, ac nid ydym eto wedi ein gorfodi i ddiddymu Tŷ yr Arglwyddi, er fod yr Arglwyddi eu hunain, neu eu dyrnaid o fwyafrif, yn ddigon rhyfygus i geisio gosod eu traed ar fywyd yr holl Gyfansoddiad, sef hawl gyfiawn y deiliaid i sicrhâu llywodraeth iddynt eu hunain. Yr oll a gynnygiai y mesur mewn dadl oedd caniatâu i *ychwaneg* o ddeiliaid ei Mawrhydi bleidleisio yn etholiad eu cynnrychiolwyr yn y Senedd. Ai nid dyna a wnaeth y Toryaid eu hunain yn 1867 pan y darfu iddynt, fel nad ydynt byth yn blino ymffrostio, estyn yr etholfraint i bob tŷddaliwr yn y bwrdeisdrefi? Ac a oedd hyny yn *revisio* y Cyfansoddiad, ac felly yn galw am etholiad i'w hawdurdodi i'w wneyd? Mor bell oedd y Toryaid o feddwl felly fel er iddynt fyned i'r wlad i ofyn am allu i wrthod yr etholfraint gymedrol a gynnygiai Arglwydd Russell yn 1866, wedi dychwelyd cymerasant eu gorfodi i basio *household suffrage*. Eithr ni feddyliai neb am ddyweyd nad oeddynt yn gweithredu yn gyfansoddiadol. Ond yn awr, pan na chynnygiai Mr. Gladstone wneyd dim ond cwblhâu yr *household suffrage* a ddechreuasant hwy, trwy ei estyn hefyd i bobl y wlad, a hyny hefyd yn ol y dealltwriaeth yn yr etholiad a'i dychwelodd i awdurdod, y mae hyny yn fyned dan wraidd y Cyfansoddiad! Am oedranusrwydd y Senedd, y mae gan Arglwydd Salisbury, yr hwn sydd yn feistr brawddegau, fel y mae, yn ol tystiolaeth ei benaeth, Mr. Disraeli, yn "master of jibes, flouts, and sarcasms," air sydd eto yn meddu gallu mawr i ddallu meddwl ei ddilynwyr, "*moribund*." Y mae y Senedd, druan, nid yn unig yn hen, ond y mae ar farw; a pha waith all Senedd felly wneyd, ac yn neillduol pa gymhwysder all fod ynddi i wynebu ar orchwyl mor fawr ag y rhyfygai y Senedd hon ymgymeryd âg ef? Ond wedi'r cyfan, *pedair blwydd oed* ydyw y Senedd. Pan oedd yr un a ddychwelasid i osod Arglwydd Salisbury mewn awdurdod yn *chwech* oed, fe honid iddi allu i gario ei hystranciau anghyfansoddiadol ymlaen fel yn y blynyddoedd cyntaf, nes o'r diwedd y darfu i'r deyrnas godi yn ei digllonedd a'i dymchwelyd. Ond am y Senedd bresennol, nid ydyw, yn ei chryfder o bedair oed, ond yn cario allan y siars a osodwyd arni yn ei hetholiad. Y mae Arglwydd Salisbury, gyda hyfdra sydd ymron yn arddunol, yn dyweyd fod cymaint o amser wedi myned heibio er pan oedd yr aelodau presennol mewn cyffyrddiad â'r bobl yn yr etholiadaethau, ac felly yn derbyn eu commissiwn ganddynt. Faint

o amser sydd er pan oedd mwyafrif Tŷ yr Arglwyddi mewn cyffyrddiad â'r bobl ac yn derbyn eu commissiwn? Yn sicr y mae Senedd sydd, er gwaethaf yr holl *votes of censures* a'r triciau eraill o eiddo ein cyfeillion y Toryaid i lesteirio ei gweithrediadau, yn gallu pasio mesur mor fawr â helaethiad yr etholfraint gyda mwyafrif ar yr ail ddarlleniad mewn Tŷ lliosog o 130, a'r trydydd darlleniad heb ranu y Tŷ, a heb fod dim ond dau yn mwmian yn anghlywadwy eu hanghydsyniad, yn bobpeth ond *moribund.* Eu trydydd rheswm ydyw, am fod y Senedd, fel y mae, mor bell o fod mewn cynghanedd â theimlad y wlad. Yr oedd y wlad bid siwr yn 1880 mewn ystâd o hanner gwallgofrwydd, ac am hyny gan droi ei chefn ar ei gwir gyfeillion, fe ymdaflodd i freichiau ei gelynion; ond y mae yn awr, dybygid, wedi dyfod ati ei hun, ac yn dyheu am gyfleusdra i gywiro ei hamryfusedd. Ac ar y tant yma nid ydyw yr Arglwyddi a'r Toryaid yn blino rhygnu. Apeliwch at y wlad! Dywedai Syr Richard Cross y dydd o'r blaen yn Kilmarnock mai camgymeriad o'r mwyaf ydyw tybied ein bod mewn un math o argyfwng neu *crisis*, dim ond fod Mr. Gladstone wedi rhoddi ei fryd ar helaethu yr etholfraint; ond os oedd eisieu cael gwybod barn y wlad ar mater, apelier at yr etholiadaethau. Nid ydym mewn *crisis*, ac eto mae y sefyllfa mor ddifrifol nad oes dim yn addas i'w wneyd ond apelio at y wlad! Dywedir y gwnaiff unrhyw ffon y tro i guro ci, ac mae yn amlwg y gwnaiff unrhyw reswm y tro gan y bobl ardderchog hyn dros alw am apelio at y wlad. Dro yn ol yr oedd Syr Stafford Northcote yn Welbeck, ac ymffrostiai mewn pump o etholiadau sirol oedd wedi cymeryd lle fel *bye-elections*, yn y rhai, medd efe, y dangosid yn amlwg fod teimlad y wlad yn hollol anghymeradwyo y Llywodraeth bresennol; a phan ychwanegai rhywun o'r dorf ddwy eraill, North Warwickshire a Brighton, cymerai yr areithiwr ei anadl yn fawreddog, a dywedai, "But really it is impossible to keep up with the returns." Erbyn edrych, sut bynag, nid oedd y pump etholiad y cyfeiriasid atynt, gydag un eithriad, ond ymdrechion am seddau ag oedd eisoes yn meddiant y Ceidwadwyr, ac yn y rhai, gyda'r etholfraint bresennol, yr oedd eu hennill gan Ryddfrydwr yn anobeithiol. Yr eithriad oedd Cambridgeshire, ond y mae hono yn daironglog, a'r Rhyddfrydwr yn y lleiafrif ynddi. Yn y saith etholiad y cyfeirid atynt, nid oedd pethau ond wedi eu gadael fel yr oeddynt, oddieithr Cambridgeshire, lle yr oedd *minority member* o Dory wedi ei ddewis yn lle diweddar Lefarydd Tŷ y Cyffredin, a Brighton, lle yr oedd Mr. Marriott, yr hwn oedd wedi hen beidio cefnogi y Llywodraeth, wedi ei ail ddewis ar ol proffesu ei hun y peth ydoedd o'r blaen. Swm holl ennill y saith etholiad ynte ydyw, un *minority member!* Beth pe gallasent ymffrostio mewn *un* fuddugoliaeth fel yr eiddo y Rhyddfrydwr Mr. Munro-Ferguson yn Ross a Cromarty, lle y gorchfygwyd y Tory oedd yn ei erbyn gyda mwyafrif o 383, a'r Tory *ac* ymgeisydd arall dros yr *Highland Land Reform League* gyda mwyafrif o 135, a hyny pan nad oedd mwyafrif Rhyddfrydol yr etholiad blaenorol yn 1852 yn ddim ond 20? Mae y bobl dda yn awyddu yn angerddol am weled arwyddion fod y wlad yn dyfod drosodd atynt, ac mae yn hawdd ganddynt eu perswadio eu hunain ei bod felly, er heb unrhyw argoelion mai dyna y ffaith. Maent wedi apelio at y bobl, ac mae y bobl o bob cyfeiriad wedi ateb yr apêl a dangos eu bod o ddifrif am helaethiad yr etholfraint. Ymdrechai y Toryaid â'u holl egni i

geisio bychanu yr arddangosiad anferth yn Hyde Park, ac eto dygent y dystiolaeth gryfaf i'w aruthrol faintioli y naill ar ol y llall am nosweithiau yn y ddau dŷ trwy gwyno fel yr ydoedd yr orymdaith drefnus am oriau bwygilydd wedi eu llesteirio i gyrhaedd y Senedd. Y maent yn dra diwyd yn dilyn sodlau y Rhyddfrydwyr ac yn ceisio codi adsain eiddil o "counter-demonstration;" ond er yr holl attyniadau a gyhoeddant nid ydynt yn gwneyd pethau mawrion. Fel yr ydym yn ysgrifenu mae y *Pall Mall Gazette*, papyr nad ydyw yn arfer siarad dan ei ddwylaw, yn gwneyd allan fod y cyfarfodydd Rhyddfrydol er dechreu y cynhwrf hwn wedi bod yn bedwar am un o'r rhai Ceidwadol, tra mae y rhai o flaen yr esgynloriau yn y cyfarfodydd hyny wedi bod yn chwech am un. Am dderbyniad Mr. Gladstone yn Midlothian, y mae wedi bod yn rhywbeth na welwyd ei gyffelyb. "Gladstone i gyd ydyw," ebe aelod Toryaidd wrth ohebydd Llundain y *Liverpool Mercury*, wedi dychwelyd o ymweliad â Scotland. "Gladstone yn y gogledd a Gladstone yn y de, Gladstone yn y trefi a Gladstone ar y mynyddoedd, Gladstone ymhob man. Ni fydd dim ennill i ni yn Scotland oddiwrth etholiad cyffredinol! Yn ofer y ceisiwn eu hargyhoeddi trwy ymresymu na ddylid ymddiried i unrhyw Weinidog allu hollol i basio y fath fesur o ad-drefniad ag a ddewisai gynnyg. Hwy a edrychent yn ddrwgdybus arnaf fel yn llawn triciau drwg fy hunan, i ammeu gonestrwydd y Prifweinidog. Ymddiried yn Gladstone? Wel, hwy a'i hystyriant yn drosedd peidio ymddiried ynddo yn llawn." Un o ffrwythau ei ymweliad ydyw gwaith Mr. Lomax Pirrie yn anfon at "Gymdeithas Geidwadol y Gweithwyr" yn Aberdeen—y mae *ychydig* o'r sefydliadau dyeithrol hyn yn Scotland, fel y mae dwy neu dair yn Nghymru—ei fod yn tynu yn ol ei addewid o fod yn ymgeisydd am aelodaeth Seneddol drostynt, am ei fod yn ystyried gwaith diweddar yr Arglwyddi yn "error in party politics." Yn wir y mae barn y deyrnas yn gyffredinol wedi ei ddadgan mor groew fel y mae y *Standard*—oedd ar y dechreu yn galw wrth gorn gwlad am gyfarfodydd a chynhyrfiadau—erbyn hyn yn dechreu gweled fod yr holl helynt yma yn dra "dirywiol," ac yn dyheu am yr 20fed o Hydref—ac yn awr dyma y gohiriad wedi ei estyn i'r 23ain,—fel y caffer terfyn arno. Mae llawer yn ofni y gallai hyny argoeli fod mwyafrif yr Arglwyddi yn dechreu gweled na allant wneyd dim yn amgen gyda'r achos hwn na dilyn esiampl 1832—pan oedd William IV. wedi rhoddi i Arglwydd Grey ymrwymiad ysgrifenedig, os na phasiai Tŷ yr Arglwyddi y mesur diwygiadol, y crëai efe ddigon o Arglwyddi newyddion i'w cynnorthwyo—sef gadael eu seddau yn weigion nes i'r mesur adgas fyned drwodd. Os felly ni cheir y tro hwn na'r "*mending*" na'r "*ending*" ar Dŷ yr Arglwyddi ag yr haerai Mr. John Morley fod y naill neu y llall yn anhebgorol. Y mae rhai yn cynnyg goruchwyliaeth arall nad ymddengys weithian ei bod mor anmhosibl, "*bending!*" Am deimlad y wlad, sut bynag, y mae wedi ei ddangos yn dra amlwg. Ac yr oedd y *Spectator* pan yn cymeryd yn ganiatäol fod Cymru ar y mater yma yn iawn, yn llygad ei le. Ydyw, y mae Cymru yn iawn! Fe ddaeth Syr Stafford Northcote atom yn Nghaernarfon, a mynai i ni gredu ei fod dros ei ben mewn mewn cariad atom. Addysg ganolraddol, yn wir! caem; ni a gaem bob peth, ond ei dderbyn ef. Dywedai wrthym fod "ein materion yn dda ac yn uniawn;" ond pa les? "Nid oedd neb dan y brenin a wrandawai arnom." Ac ychwanegai mewn

dull oedd yn annhraethol hudoliaethus, "O na'm gosodid i yn farnwr yn y wlad, fel y delai ataf fi bob gŵr a fyddai ganddo hawl neu gynghaws! Myfi a wnawn gyfiawnder iddo." Mae yn ofidus genym ddeall fod dwsin neu ddau yn y *Pavilion* yn derbyn truth fel yna gyda "banllefau." Ond yr oedd y miloedd ddelsent yno i weled a chlywed yr arweinydd Toryaidd â'u dannedd wedi eu cloi gan ddigofaint, oblegid onid oeddent yn cofio y derbyniad ysgornllyd a gawsai dirprwyaeth barchus o'u cydwladwyr gan y Llywodraeth y llanwai efe y fath le mawr ynddi pan yn gofyn am y gardod fechan hono at Goleg Aberystwyth? A phan oedd Llywodraeth Mr. Gladstone wedi dangos at Gymru garedigrwydd na phrofasai ei gyffelyb erioed, yr oedd ganddo ef y wyneb i ddyweyd beth a ddylem gael! Ac fe anfonwyd Mr. Raikes i dafodi yn Mangor, a chydag ef fe ddaeth Arglwydd Caernarfon i son am ei waed Cymreig a'i genedlaetholdeb, ac felly i lafoeri ei orhoffder arnom. Pwy glybu erioed o'r blaen am waed Cymreig a chenedlaetholdeb Arglwydd Caernarfon? Neu beth well a fu Cymru o'r dydd y ganwyd ef o'r un ddimai a ddaeth erioed o'i boced, neu o gymaint â gair a ddaeth erioed o'i enau ef? Fe fyddai yn burion i'r gwŷr mawr ddeall eu bod trwy bethau o'r fath yna yn ein sarhâu yn fwy na dim arall. Ond pan ddaw galwad am i Gymru roddi ei llais, fe wna hyny o blaid gwladweiniaeth gyfiawn a goleuedig Mr. Gladstone, mewn dull mor ddifloesgni fel y bydd yn anmhosibl ei chamddeall.

Beth a fydd terfyn y cweryl presennol rhwng y deyrnas â'r Arglwyddi ni allwn wybod. Ond os meiddiant wrthod y mesur, fel yr anfonir ef i fyny atynt eto yn yr Hydref, fe fydd genym "hawl," fel y dywedai Mr. Bright, yn nghanol cymeradwyaeth digyffelyb yn Manchester, "i alw ar Weinidogion ei Mawrhydi am ryw ddadganiad penodol o'u golygiadau ar y mater." Ac fe ddywedai Mr. Gladstone yn dra arwyddocäol yn Edinburgh, "Os gwrthodant ef, y bydd hyny yn agor cwestiwn ëangach!" Am dano ef ei hun, mae yn amlwg fod ei feddwl wedi ei wneyd i fyny. "Ond mi anturiaf," meddai, "i ddyweyd hyn. Mae yr athrawiaeth ei fod yn waith Tŷ yr Arglwyddi i nodi amser dadgorfforiad a phenderfynu pa bryd yr ydys i gyfeirio at y wlad, yn athrawiaeth nad oes lle iddi o gwbl yn ein hanes neu yn ein cyfansoddiad. Fe fyddai chwareu â'r athrawiaeth yma—rhoddi iddi y wyneb lleiaf—caniatâu un iot neu un tipyn o honi—yn fy marn i yn fradwriaeth yn erbyn rhyddid Prydeinig; ac yr ydwyf yn dyweyd wrthych yn agored, foneddigion, fe fyddai yn well genyf roddi i fyny fy rhan yn mesur yr etholfraint, a'r hyn a elai gydag ef—fy rhan mewn bywyd gwleidyddol, na pheidio am amrantiad a chodi y gwrthdystiad cryfaf yn fy ngallu yn erbyn dwyn i fewn y newyddbeth mwyaf dyeithriol ag y clybuwyd am dano, nac o senedd ddiwygiedig na senedd anniwygiedig, oddiwrth fwyafrif o Dŷ yr Arglwyddi erioed." Y mae hyn yn hollol ddiamwys. Ac os ydyw Llywodraeth ei Mawrhydi i gael ei chario ymlaen, mae yn rhaid i'r Arglwyddi eto dynu oddiwrth arweiniad ffol a thrahausfalch Arglwydd Salisbury, a gwrando ar lais rheswm a chyfiawnder. Fel y dywedai Mr. Trevelyan, y gŵr a ymdrechodd mor ganmoladwy trwy y blynyddoedd o blaid helaethiad yr etholfraint yn y siroedd, ychydig ddyddiau yn ol yn Glasgow:—"Pan mae yn dyfod i ddau gant o bersonau sydd yn rhyw beth mwy na dinaswyr, yn dyweyd na chaiff dwy filiwn o'n

cydwladwyr fod yn ddinaswyr o gwbl, rhaid cael rhyw ffordd allan o'r anhawsder, ac y mae yn llawer mwy i Dŷ yr Arglwyddi nag i ni ei bod i'w chael yn fuan." Mae yn bob clod i bwyll a doethineb Mr. Gladstone ei fod, a than amgylchiadau ag y buasai awgrym oddiwrtho yn ddigon i beri chwyldröad, wedi rhoddi i bobl sydd wedi myned gymaint ar gyfeiliorn, a hyny mewn ysbryd mor dirion a charedig, y fath gyfleusdra teg i ystyried eu mawr gamgymeriad, ac i geisio adennill i ryw fesur y tir a gollasant yn mharch ac ymddiried y fath liaws o'u cydwladwyr. Ond y mae o bwys mawr, ac yn enwedig i'r Arglwyddi eu hunain, eu bod yn deall yr amseroedd ac yn ymostwng i'r anocheladwy. Gwelwn fod Arglwydd Boston y dydd o'r blaen yn rhoddi yn ei barc gwych yn Hedsor, gerllaw Maidenhead, un o'r "Saturday afternoons" â pha rai y mae ein huchelwyr yn awr, o ddiffyg pethau mwy sylweddol, yn ymddangos yn benderfynol o ddenu calon y werin. "There were," meddai y papyrau, "the usual attractions, in the shape of admission to charming grounds, with cricket, lawn tennis, boating on the river—which forms one of the boundaries of the Park—a band, and fireworks in the evening." Ac yr oedd tocyn y rheilffordd yno ac yn ol i'w gael yn dra isel. Ond er hyn oll—heblaw hefyd fod y Cyfansoddiad a'r Goron mewn perygl—ni chaed, medd y newyddiaduron, ond o 1500 i 2000 i ddyfod i fwynhâu y fath bleserau ac ar yr un pryd i ddangos eu rhinweddau gwladgarol, tra yr oedd ar yr un adeg yn y Victoria Park yn Llundain 40,000 o bobl wedi dyfod ynghyd, heb fod dim yn eu cymhell ond y teimlad fod yr Arglwyddi yn sathru ar iawnderau y bobl. Ond yn y cynnulliad yn mharc Arglwydd Boston, yr oedd Arglwydd Caernarfon—y pendefig sydd mor falch o'i "waed Cymreig"—yn dyweyd "nad oedd dim mwy a fynai yr etholfraint â'r helynt bresennol na'r dyn yn y lleuad; mai nid hyd yn nod ad-drefniad oedd mewn dadl; ond mai ymosodiad ydoedd ar Dŷ yr Arglwyddi fel Caerfa y Cyfansoddiad, fel sefydliad sylfaenol." Ac elai ymlaen i ddangos mai "yr unig reswm paham yr ymosodid ar Dŷ yr Arglwyddi yn nghyfarfodydd y Radicaliaid ydoedd "yr egwyddor etifeddiaethol," yr hon hefyd yw yr egwyddor ar ba un y mae y Frenhines yn gwisgo ei choron; ac fod ymron bob dadl a ddefnyddid yn erbyn yr egwyddor hono mewn grym yr un modd yn erbyn y penadur ag yn erbyn Tŷ yr Arglwyddi. Nid oes, a defnyddio iaith y *Standard*, ond natur "ddirywiol" y fath ddull o gario ymlaen ymgyrch gwleidyddol a allai esbonio paham y llefarai pendefig ymadroddion sydd mor bell oddiwrth y gwirionedd. *Yr etholfraint ydyw y pwnc*, ac nid dim arall. Mae yn wir fod ymddygiad yr Arglwyddi yn yr achos wedi deffro drachefn yn meddyliau lliaws mawr y cwestiwn. ag yr ymddengys fod yr Arglwyddi eu hunain yn benderfynol na chaiff ei adael i gysgu, sef paham y parheir bodolaeth Tŷ sydd yn wastad yn sefyll ar ffordd hawliau cyfiawn pobl y deyrnas hon? Nid oes genym ond ychydig wrthwynebiad i'r "egwyddor etifeddiaethol," ond y mae genym wrthwynebiad dwfn a grymus i waith rhyw hanner cant o Arglwyddi yn llesteirio cynnrychiolwyr y bobl i wneyd gwaith ag yr etholwyd hwynt mewn dull mor ddiammheuol er mwyn ei gyflawni. Ni all y pendefig urddasol, er ei holl "waed Cymreig," ein dychrynu wrth son am yr egwyddor etifeddiaethol yn ei chysylltiad â'r Goron. Pan oedd y penadur yn troseddu y cyfreithiau ac yn troi yn fradwr i'r Cyfansodd-

iad, ni a ddangosasom mewn dull nad oedd yn bosibl ei gamddeall fod ein parch i'r cyfreithiau a'n ffyddlondeb i'r Cyfansoddiad y fath fel na oddefem hyd yn nod i frenin eu dinystrio. Ac fe all Arglwydd Caernarfon a'i frodyr deimlo yn hollol sicr na fydd breuddwyd yr "egwyddor etifeddiaethol" ond fel dim i'w diogelu hwythau os mynant fyned ar draws yr egwyddorion mawrion o gyfiawnder a rhyddid sydd wrth wraidd ein Cyfansoddiad gwladwriaethol. Fe deimlai ei Arglwyddiaeth yn bur ddig, a Syr Stafford Northcote yr un modd ar ei ol yn Edinburgh, fod ein cydwladwr parchus, Syr Hussey Vivian, wedi dyweyd y dydd o'r blaen fod cwestiwn yr etholfraint "yn un ag yr oedd genym i ofyn pa un a oedd 46 o Arglwyddi i lywodraethu ar 35,000,000 o bobl." Yr oedd ei Arglwyddiaeth yn cofio fod mwyafrif yr Arglwyddi yn 59, ac mai 35,000,000 ydyw holl boblogaeth y deyrnas! Mae yn amlwg, er hyny, mai dyna y cwestiwn mawr sydd genym i'w ystyried, a ydyw y mwyafrif Toryaidd yma yn Nhŷ yr Arglwyddi yn barhâus i gael eu rhwysg i fyned ar draws y rhai ag y mae y bobl wedi gosod yn eu llaw lywodraeth y deyrnas? Y mae Syr Stafford Northcote yn gyffredin yn foneddwr, ond mae effeithiau "dirywiol" yr ymgyrch anffodus hwn wedi ei ddarostwng yntau gymaint islaw iddo ei hun, fel yr ymostyngai yn Edinburgh, ar yr 16eg o Fedi, i awgrymu nad oedd pasio helaethiad yr etholfraint ond peth dibwys gan y Rhyddfrydwyr—er y cydnabyddai Syr Richard Cross fod hyny "ar ymenydd" Mr. Gladstone—ond bod ganddynt amcan pellach, oedd eto heb ei ddadguddio, o gael cwyn yn erbyn Tŷ yr Arglwyddi. Ni fuasai yn anhawdd iddynt yn sicr godi cwyn yn eu herbyn, a phe dewisasai y Prifweinidog wneyd peth felly, ni buasai yn anhawdd iddo alw allan ddigon o nerth i'w chwalu hyd ei sylfeini. Ond cymharer â'r ymadroddion iselwael yna o eiddo Syr Stafford Northcote y geiriau canlynol—mor drymion gan bwyll a doethineb—a lefarai Mr. Gladstone wrth y dyrfa fawr a ddaethai allan i'w groesawu pan ar ei daith, yr hon oedd yn fwy na *progress* brenhinol,—yr ydoedd wedi cyrhaedd Aberdeen:—"Foneddigion, nid ydyw yn ddymuniad genyf fi i gael pobl y wlad hon i ddadleu ynghylch cyfnewidiadau cyfansoddiadol eang, os gellir gochel hyny, ac yr ydwyf eto yn gobeithio y gellir ei ochel. Y mae cyfleusdra eto yn aros, ac yr ydwyf yn edrych gyda gobaith at y doethineb sydd ar wahanol achlysuron wedi nodweddu Tŷ yr Arglwyddi i ochel canlyniadau cam anffodus y cynhauaf diweddaf. Yna chwi ellwch fod yn sicr na fydd ar fy rhan i, ac ar ran fy nghyd-weinidogion, yr un ymdrech yn eisieu." Pobpeth a all pwyll a synwyr a theimlad da ei wneyd, mae yn sicr y gwneir ef er ceisio cael ymwared o'r benbleth i ba un y mae pengryfder un dyn, ac mewn dull mor ddibris, wedi taflu yr holl deyrnas. Ond mae yn berffaith amlwg bellach, beth bynag ydyw ein cariad at heddwch a'n hymlyniad wrth Dŷ yr Arglwyddi fel sefydliad hybarch yn y wladwriaeth, na ellir ei oddef yn hwy i daflu o'r neilldu gydag ysgorn fesurau ag y mae mwyafrif anferth o'r deiliaid a'u cynnrychiolwyr yn berffaith addfed i'w pasio. Ac am y mesur yma o helaethiad yr etholfraint, gallwn ddyweyd yn ngeiriau Mr. Trevelyan yn ei araeth ragorol yn Glasgow:—"Yr amcan cyntaf, y prif amcan, yr amcan gyda golwg ar ba un nad oes fymryn o anghytundeb neu wahaniaeth mewn un gongl o'n meddyliau ydyw, Arglwydd Salisbury neu beidio, y rhaid pasio mesur yr etholfraint."

# NODIADAU LLENYDDOL.

*Present Day Tracts on Subjects of Christian Evidence, Doctrine, and Morals.* By VARIOUS WRITERS. Vols. III. and IV. Religious Tract Society.

CRYBWYLLASOM am y ddwy gyfrol gyntaf o'r Traethodau gwerthfawr yma mewn rhifyn diweddar. Y mae y ddwy hyn eto yn cynnwys chwe' Traethawd bob un, y drydedd o'r trydydd ar ddeg yn y Gyfres hyd y ddeunawfed, a'r bedwaredd i'r pedwerydd ar bymtheg hyd y pedwerydd ar hugain; ac y maent yn cael eu gwerthu fel y lleill mewn rhwymiad destlus am hanner coron yr un. Mae yn dda genym ddeall eu bod yn cael trwy y deyrnas dderbyniad mor garedig. A buasai yn dra hynod pe na fuasent. Y maent wedi eu hysgrifenu ar faterion ag sydd mewn gwahanol ffyrdd yn cael eu gwthio i sylw neillduol y dyddiau hyn, â hyny mewn dull na all lai na pheryglu yn fawr sefydlogrwydd a rhinwedd llawer, yn enwedig o'n pobl ieuainc; y maent wedi eu hysgrifenu hefyd gan wŷr ag sydd wedi gwneyd efrydiaeth arbenig o'r materion sydd ganddynt mewn llaw, a chan mwyaf wedi ysgrifenu arnynt weithiau a gydnabyddir yn safonol; prin y mae eisieu ychwanegu eu bod wedi eu hysgrifenu mewn dull clir a deniadol; ac y mae rhadlonrwydd a dillynder eu cyhoeddiad yn ychwanegu yn fawr at eu marchnadolrwydd. Mae Traethodau y drydedd gyfrol yn ymwneyd â pherthynas gwyddoniaeth a dadguddiad, awduriaeth a dilysrwydd Llyfrau yr Ysgrythyr, a Chrefydd Gymhariaethol. Dan y pen cyntaf ceir *The Age and Origin of Man*, gan Pattison a Platt, a *Modern Materialism* gan Wilkinson; dan yr ail ceir *The Mosaic Authorship and Credibility of the Pentateuch* gan Ddeon Canterbury, a *The Authenticity of the Four Gospels* gan Dr. Wace; dan y trydydd ceir *The Rise and Decline of Islam* gan Muir, a *Christianity and Confucianism compared in their Teaching of the Whole Duty of Man*, gan Dr. Legge. Yn y bedwaredd gyfrol ceir *Christianity as History, Doctrine, and Life*, gan Dr. Noah Porter, lle y sefydlir prawf o wirionedd Cristionogaeth ar natur a chydberthynas y pethau hyny ynddi; *The Religious Teachings of the Sublime and Beautiful in Nature*, gan Canon Rowlinson, fel tystiolaeth arbenig o eiddo Natur i fodolaeth a gogoniant yr Hwn a'i gwnaeth; *Earnest Renan and his Criticism of Christ*, gan Elmalie, lle yn ngoleuni hunan-fywgraffiaeth y gŵr hwnw a gyhoeddwyd yn ddiweddar yr esbonir ei olygiadau anaddfed a gwyrgam am Berson y Gwaredwr; *The Unity of the Character of the Christ of the Gospels: a proof of its Historical Reality*, gan Prebendary Row, lle y dangosir fod unoliaeth y cymeriad a roddir i Grist yn yr Efengylau, yn arbenig ynglŷn â natur ddyrchafedig y cymeriad hwnw, yn hollol anesboniadwy ond ar y dybiaeth o wirionedd hanesyddol y pedair Efengyl; *The Vitality of the Bible*, gan Dr. Blaikie, lle y ceir, yn wahanol i dybiaeth Voltaire, y byddai y Bibl ymhen can' mlynedd wedi ei anghofio, ei fod yn dangos bywiolrwydd parhâus a chynnyddol, ac fod y ffaith yn brawf diymwad o'i Ddwyfoldeb,—ei fod yn offeryn trwy ba un y mae yr Ysbryd Glân yn gweithredu; ac yn olaf, *Evidential Conclusions from the Four Greater Epistles of St. Paul*, gan Dr. Howson, lle y ceir fod y pedwar Epistol a gydnabyddir gan Baur, Renan, &c., fel yn ddiammheuol awdurdodedig—y ddau at y Corinthiaid a'r Epistolau at y Galatiaid a'r Rhufeiniaid—yn ddigon i sefydlu holl athrawiaethau Cristionogaeth. Fe geir yn yr holl Draethodau, a hyny trwy ymdriniaeth glir a thra meistrolgar, fod anghredaeth, ar bob llaw, yn gofyn llawer mwy o ffydd na chrediniaeth barchedig a chyflawn i'r "dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab."

TREFFYNNON: P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWYR.

# GOSTYNGIAD

AM MHRIS

# ESBONIAD JAMES HUGHES

AR Y

# BIBL.

## Cynygiad Gwerthfawr i'r Cymry
## AM FYR AMSER.

GAN fod Cyhoeddwyr yr Esboniad uchod yn deall fod awydd cyffredi[n] ymhlith dosbarth lliosog o genedl y Cymry i feddiannu yr Esboniad y[n] gyflawn, y maent wedi penderfynu ei gynnyg i'r wlad am y pris[au] canlynol:—

| | | | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrol | I. | Genesis—Josua ............ | 1 | 2 | 0 |
| " | II. | Barnwyr—Job ................ | 1 | 2 | 0 |
| " | III. | Salmau—Malachi ........... | 1 | 5 | 0 |
| " | IV. | Matthew—Dadguddiad .... | 1 | 1 | 0 |

Neu y PEDAIR CYFROL, wedi eu rhwymo yn gryf a hardd mew[n] croen llo, o BRIF ESBONIAD Y GENEDL GYMREIG a[m] **£4 10 0!!**

**Yn ngwyneb y gostyngiad presennol, dymuna y Cyhoeddwyr hysbysu mai am ARIAN PAROD YN UNIG y bydd iddynt werthu y Gwaith am y pris hwn.**

Ar dderbyniad *Post Office Order* neu *Cheque* am y swm angenrheidiol, bydd yn dda gan y Cyhoeddwyr,—P. M. EVANS & SON, *Publishers, Holywell*, anfon cyfrol neu gyfrolau yn DDIDRAUL i unrhyw gyfeiriad.